# TEITHIAU YN NGHYMRU.

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google





THOMAS PENNANT Esq.r

Digitized by Google

# HYNAFIAETHAU CYMREIG.

# TEITHIAU YN NGHYMRU,

SEF

## Cyfieithiad o'r "Tours in Wales,"

GAN

## THOMAS PENNANT, YSW.

NATURIAETHWR A HYNAFIAETHYDD, DOWNING, SIR FFLINT.

AT YR HYN YR YCHWANEGWYD

*Cofrestr o Bum' Llwyth Breninol Cymru, a Phymtheg Llwyth Gwynedd, a'u Disgynyddion, fel yr ymddangosasant yn "Pennant's History of Whiteford and Holywell.*

YNGHYDA CHYFIEITHIAD O'R NODIADAU A'R RHAGYMADRODD, YN YR ARGRAFFIAD SEISONEG DIWEDDAF.

GAN PROFFESWR JOHN RHYS,

RHYDYCHAIN.

*Hefyd, Nodiadau, Hanes Bywyd yr Awdwr, a Rhagarweiniad i Hanes y Llwythau,*

GAN W. TREVOR PARKINS, YSW.

CAERNARFON:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN H. HUMPHREYS.

*Ar werth hefyd gan y Llyfrwerthwyr yn gyffredinol.*

Digitized by Google

Digitized by Google

# HYSBYSIAD YR AWDWR

## YN MHERTHYNAS I'R RHAN GYNTAF.

---

Y MAE y teithiau cartrefol hyn yn ffurfio y rhan gyntaf o hanes fy ngwlad fy hun.

Ffurfiant ynddynt eu hunain daith gyflawn trwy y rhanau mwyaf gwareiddiedig o'n gwlad. Mewn rhan ddyfodol arddangosir y golygfeydd gwylltion a rhamantus, yn gymysgedig â'r dyffrynoedd breision a frithir mor fynych drwyddynt. At yr hyn yr ychwanegir Attodiad, yn cynwys y materion y cyfeirir atynt yn y rhan hon, ynghydag amrywiaeth o bethau ereill. Erfyniaf help fy nghydwladwyr i'm cynorthwyo yn yr ymgais; ac ar iddynt fy ffafrio â'r materion angenrheidiol. Gwelant fod rhan helaeth o sîr Ddinbych, ynghyda'r holl ranau o'r pedair sîr ereill yn ein tywysogaeth, i gael eu dysgrifio rhagllaw. Y mae fy mynych deithiau trwyddynt wedi fy ngwneyd yn gymedrol gydnabyddus â'u lleoliaeth. Yr wyf yn edrych i fyny at fy nghyfeillion am hanesion a chwedlau a ddichon fod yn gorwedd yn guddiedig yn mhlith eu papurau; neu gyfeiriadau at ein hysgrifenwyr, rhag ofn i unrhyw ffeithiau a fyddont yn aros mewn llyfrau gael eu hanghofio genyf.

Yn mysg y boneddigion ag yr wyf yn benaf yn ddyledus iddynt am hysbysrwydd gyda golwg ar y gwaith presenol, nis gallaf fyned heibio heb ddiolch i—

PHILIP YORKE, Ysw.; o Erddig;*
JOHN MYTTON, Ysw.; o Halston;†
THOMAS MOSTYN, Ysw., o dŷ Trelacre;*
PETER DAVIES, Ysw.; o Broughton;
KENRICK EYTON, Ysw.; o Eyton;†
PAUL PANTON, Ysw.; o Bagillt;*
LLOYD KENYON, Ysw.; o Gredington;*
MR. ROGER KENYON, o'r Cefn.*

I OWAIN BRERETON, Ysw.;† yr wyf yn ddyledus am fenthyg yr hen bethau cywrain a gafwyd yn ei etifeddiaeth gerllaw Fflint, y rhai a bortreadir yn y darluniau v. a vi.

I'r parchedig RICHARD WILLIAMS, o'r Fron, yr wyf yn dra rhwymedig am ei gyfieithiadau barddonol a nodir gan R. W., ac am ei aralleiriad prydferth o'r awdl ar Owain Glyndwr,‡ er fod y llythyrenau hyny wedi eu gadael allan yno.

* Dynoda y nod yma y rhai sydd wedi marw er cyhoeddiad yr argraffiad diweddaf o'r Daith hon. GOL.

† Erbyn hyn wedi marw.

‡ Wrth gwra, ei gyfieithiad i'r Saesoneg a olygir: nid yw hyn yn gymhwysadwy at yr argraffiad Cymraeg; er hyny tybiwyd mai gwell ydoedd peidio ei adael allan. CYF.

Digitized by Google

Y diweddar RHISIART MORUS, Ysw., o'r swyddfa lyngesawl, yr wyf hefyd yn ddyledus am lawer o hysbysrwydd cyffredinol.

MR. HAWKER,* o'r tolldy yn Nghaerlleon, a'm ffafriodd gydag hysbysiadau manwl am drafnidiaeth y ddinas hono.

Y parchedig MR. EDWARDS,* periglor Llanfechan, a'm ffafriodd gydag amryw hanesion rhagorol am blwyfydd Croesoswallt, Selatyn, ac Estyn.

Cefais lawer o ffeithiau hanesyddol ynghylch plwyf y Dref Wen gan y parchedig MR. ROBERTS,* person y plwyf hwnw.

Yr oedd y parchedig JOHN PRICE, llyfrgellydd cyhoeddus, a'r parchedig JOHN JONES, cymrawd o Goleg Iesu, Rhydychain, yn ddiflino yn y gwaith o ddarparu i mi ddyfyniadau o lawysgrifau y brifysgol.

"Yr oedd y golled a gefais yn 1793, trwy farwolaeth y parchedig JOHN LLOYD, periglor Caerwys, fy nghydymaith teilwng a diflino yn fy holl deithiau, yn cael ei theimlo yn drwm, a chyda galar diffuant. Nid oedd neb yn debyg iddo ef am amrywiaeth ei wybodaeth, yr hyn a barai fod ei adnabyddiaeth helaeth o'n hen iaith yn ei gymhwyso i roddi i mi addysg neillduol; a chyda galar yr ydwyf yn cofnodi hyny gyda diolchgarwch ar ol ei farw.

"I raddau helaeth (oblegyd rhaid i mi beidio gwenieithio i'r byw,) cefais liniaru peth ar fy ngholled yn fy ymgydnabyddiaeth â'r parchedig HENRY PARRY, cydymaith bywiog a diddan, ac wedi ei gynysgaethu â llawer o wybodaeth am hanesyddiaeth ein gwlad, a llawer o addysg glasurol. Yr wyf yn siarad yn ddiolchgar am garedigrwydd ein teilwng esgob, am iddo wrando ar fy llais yn cymeradwyo Mr. Parry i ficeriaeth Llanasaph,—un ag y darfu iddo, trwy ei dymher ddigrifol, a'i gymdeithas ddiniwaid, yn fynych leddfu prydnawn hwyrhaol fy mywyd."*

MR. WILKINSON,† paentiwr yn Nghaerlleon, a roddodd i mi luaws o ddefnyddiau perthynol i'r ddinas hòno.

MR. CALVERLY,† tir-fesurydd yn yr unrhyw ddinas, a'm hanrhegodd âg amryw gynlluniau prydferth, y rhai a welir yn nghorph y gwaith.

Y darluniau a nodir "MOSES GRIFFITH," ydynt waith hen was teilwng yr ydwyf yn ei gadw at y pwrpas hwnw. Bydd i'r cywrain a'r medrus esgusodi unrhyw amherffeithrwydd bychan a geir ynddynt; oblegyd gwaith athrylith heb ei haddysgu ydynt, a gynyrchwyd yn un o'r parthau mwyaf dinod a phellenig yn Ngogledd Cymru.

THOMAS PENNANT.

DOWNING, *Chwefror 1, 1778*

* Dichon i'r ddau baragraph uchod gael eu hysgrifenu gan Mr. Pennant yn 1798, yn mha flwyddyn y terfynwyd ei fywyd gwerthfawr. Yr esgob y cyfeiria ato ydoedd yr hynaws Lewis Bagot. GOL.

# HYSBYSIAD YR AWDWR,

## YN MHERTHYNAS I'R AIL RAN

Y SIWRNAI hon sydd yn barhad o fy NHAITH yn NGHYMRU. Ymddengys rhan arall gyda phob prysurdeb cyfleus, yn cymeryd i mewn y gweddill o sir Gaernarfon, Ynys Môn, sir Drefaldwyn, a therfynir gyda pheth hanes am yr AMWYTHIG, hen breswylfod y tywysogion Prydeinig; yr hyn a derfyna yr ail gyfrol, ac efallai mai dyna y cwbl y bydd i mi ei ddywedyd ynghylch ein tywysogaeth; oblegyd y mae musgrellni, rhagflaenorydd henaint, yn dechreu rhoddi atalfa ar bob ymgais a'r newydd.

Cynwysa y llyfr hwn y daith o'm tŷ fy hun i ben y Wyddfa, a chymer i fewn braidd y cwbl o'n rhandir fynyddig.

Mor belled ag y mae y wynebddalen yn myned, y mae yn gyflawn. Rhoddir wynebddalen mwy cyffredinol gyda'r ail ran, a pharheir y daith yn rheolaidd o dudal. 191.*

Yr wyf yn diolch i'm cyfeillion am amrywiaeth o hanesion, a rhaid i mi gyflwyno fy nghydnabyddiaeth neillduol i Syr JOHN SEBRIGHT, barwniad, am ei gyfraniad haelfrydig o amryw o ysgrifau y diweddar Mr. EDWARD LLWYD, y rhai ydynt wedi taflu goleuni mawr ar amryw ranau o'n hanesyddiaeth.

THOS. PENNANT.

DOWNING, *Mawrth 1af, 1781.*

* Nid yw hyn ychwaith yn gymhwysadwy at yr argraffiad presenol. CYF.

Digitized by Google

# HYSBYSIAD Y GOLYGYDD.

AR ol cyfwng o fwy na deng mlynedd ar hugain er ei hymddangosiad cyntaf, cynygir i'r byd argraffiad newydd o *Daith Mr. Pennant yn Nghymru*, gyda rhai ychwanegiadau gan ei hawdwr aredmygol, yr hwn y mawr alerir am dano. At y rhai hyn y cysylltwyd ychydig nodiadau, yn benaf er arddangos y cyfnewidiadau a gymerasant le yn y cyfwng hwnw. Gallesid, a dichon y dylesid ychwanegu mwy, ond yr oedd y Golygydd yn anewyllysgar i chwyddo y cyfrolau hyn gyda'i sylwadau ei hun: y mae ganddo le i obeithio y bydd i ysgrifenydd mwy galluog, mewn adeg heb fod yn mhell, roddi i'r cyhoedd gyflawn hanes am y parthau hyny o Gymru na ymwelwyd â hwy gan Mr. Pennant, o'r ychydig bethau a allasai fod wedi diangc rhag ei sylw ef, ac o'r gwelliadau eang ag ydynt wedi cymeryd lle yn y dywysogaeth yn ystod y blynyddoedd diweddaraf.

Teimla y Golygydd fod yn ddyledswydd arno hysbysu, ei fod wedi cymeryd rhyddid i adael allan ychydig frawddegau, y rhai yr oedd yn sicr y buasai yr awdwr, ar gyfrif ei hynawsedd adnabyddus, a'i ofal am gywirdeb, yn eu dileu; y mae hefyd, gyda'r gwyleidd-dra mwyaf, wedi gwneyd ychydig gyfnewidiadau geiriol, lle y mae yr un gair wedi dygwydd ddwywaith, neu frawddeg wedi ei chyfansoddi yn ddiofal, oherwydd y cyflymdra â pha un y cyfansoddai Mr. Pennant bobpeth a ysgrifenai. Ymhob golygiad arall, y mae y Daith wreiddiol wedi cael ei hail-argraffu yn ffyddlawn. Y mae y cerfiadau yn ol árluniau yr unrhyw gelfyddwr cywrain, Moses Griffith, yr hwn erioed ni dderbyniodd addysg, a phensyl yr hwn a addurnodd amrywiol gyhoeddiadau Mr. Pennant.

Gobeithir y bydd i'r ffurf yn mha un y cyhoeddir y gwaith hwn yn bresenol ei wneyd yn fwy cyffredinol ddefnyddiol, ac arwain i fwy cyfrifiad o'r hwn sydd yn awr, er ein gofid, yn annheimladwy o bob canmoliaeth ddaearol; o hono ef, yr hwn yr oedd ei dalentau uwchraddol bob amser wedi eu cyflwyno er difyru, addysgu, a gwasanaethu ei gydgreaduriaid!

Y GOLYGYDD.

*Mai 10fed, 1810.*

# HYSBYSIAD Y PROFFESWR RHYS,

## YN MHERTHYNAS I'R ARGRAFFIAD DIWEDDARAF YN SAESONEG, DAN EI OLYGIAD EF.

---

YN ystod un o'r dyddiau gwyl cysurus a dreuliais yn nghymydogaeth y Wyddfa dair blynedd yn ol, galwodd Mr. HUMPHREYS gyda mi gyda chynygiad i ail gyhoeddi *Pennant's Tours in Wales*: yr oedd efe am wneuthur hyny, os byddai i mi gydsynio i'w arolygu trwy y wasg. Mewn rhan oddiar ddymuniad i adnabod *Teithiau Pennant* yn fwy trwyadl nag y gwnawn, mewn rhan oddiar fy anwybodaeth gyda golwg ar y gwaith mawr a gynwysai hyny, ac nid ychydig hefyd oddiar y dull medrus yn mha un y gosododd Mr. HUMPHREYS y peth ger fy mron, myfi a addawais wneuthur a allwn i'w gynorthwyo yn ei anturiaeth dra theilwng. Ni raid i'r yspryd anturiaethus â pha un y gwyddir ei fod yn myned i mewn i bob pyngciau a ddaliant berthynas â'r cyhoedd Cymreig, wrth un gair o ganmoliaeth oddiwrthyf fi; ond rhaid i mi wneyd cyfiawnder âg ef trwy ddywedyd fod y cynygiad yn eiddo iddo ef, o ran sylwedd yn gystal a ffurf; oblegyd yr oedd yn hollol wedi dyfod i'r penderfyniad mai argraffiad 1810 oedd yr un i gael ei ail gyhoeddi, ac yn hyn ymddengys i mi ei fod yn berffaith gywir. Y mae yn wir na welodd hwnw y goleuni hyd ar ol marwolaeth Pennant, ond dylid cofio iddo gael ei ddwyn allan dan arolygiaeth mab yr awdwr David Pennant, na'r hwn ni wyddai neb yn well am ddymuniadau a golygiadau ei dad, ac ni allasai neb deimlo dyddordeb yn fwy gonest na wnelid dim mewn un modd a fyddai yn niweidiol i gymeriad ei dad fel gŵr llên. Yn wir, cafodd geiriad yr awdwr ymlynu wrtho yn fanwl, gyda'r eithriad o ychydig bethau dibwys, y rhai a ddesgrifir yn "hysbysiad y Golygydd." Sonir am ofal DAVID PENNANT rhag i eiriadaeth ei dad gael ymyryd âg ef, neu ei orlenwi â mater heb fod yn eiddo ef ei hun, yn y braslun rhagorol o fywyd PENNANT a ddylyna yr hysbysiad hwn, ac y mae y dystiolaeth yn cael ei rhoddi yn dra eglur yn yr Attodiad Rhif xxvii: cynwysa adroddiad gan hanesydd sir Benfro, Richard Fenton, paham na ddaethai oddiamgylch fod iddo ef gael caniatâd i gyhoeddi "argraffiad newydd o *Ogledd Cymru* Mr. PENNANT," am yr hyn yr "oedd wedi dyfod i gytundeb â'r Meistri Longman & Co., a Mr. White, i'w olygu a'i helaethu hyd swm cyfrol arall." Yr wyf yn addef yn ddiduedd fy mod, er nad oedd dim bai i'w briodoli i Fen-

Digitized by Google

ton, yn trwyadl gydymdeimlo gyda golygiad Mr. David Pennant ar y pwngc, a cheir fy mod wedi gweithredu yn unol â hyny; nid am y dymunaswn i neb dybied i mi erioed ddychymygu fy mod yn feddiannol ar yr hollwybodaeth angenrheidiol, a siarad felly, i ddwyn i fyny *Deithiau Pennant yn Nghymru* hyd yr adeg bresenol. Pe byddai i unrhyw ymgais o'r fath gael ei gwneyd, nis gellid galw y canlyniad yn waith Pennant: byddai yn rhywbeth tra gwahanol, ac yn dra is-raddol hefyd y mae yn debygol. Felly, nid yn unig bu fy ymgais yn fanwl i gadw at eiriadaeth a nodiadau argraffiad 1810, heb eithrio hyd yn nod y gwallau yn Nghymraeg Pennant, ond canfyddir fod y nodiadau a osodwyd i mewn yn gyfryw ag na fydd iddynt mewn un modd orlwytho y gwaith. Dylai yr hyn a ysgrifenodd Pennant gael ei roddi fel y meddyliai ef iddo fod, ac nis gallaf beidio galw i gof y darllenydd ddysgrifiad Dr. Johnson o hono: "Y mae gan Pennant fwy o amrywiaeth ymofyngar na braidd unrhyw ddyn, ac y mae wedi dywedyd mwy wrthym, efallai, nag y gallasai un mewn deng mil ei ddywedyd yn yr amser a gymerodd efe. Ni ddywedodd efe yr hyn y mae i'w adrodd, felly nis gellwch ei feio am yr hyn na ddywedodd efe."

Yn ystod y cyhoeddiad daeth llawer o gyfeillion caredig yn mlaen i gynyg i mi eu cynghorion, a chynorthwyon ereill: yr wyf yn dymuno diolch iddynt oll yn wresog. Yn anffodus, nid yw y gofod sydd genyf yn caniatâu i mi eu henwi, ond nis gallaf fyned heibio i'r ddau enw canlynol:—Mr. *O. B. Davies* yn dra charedig a fenthyciodd i mi a Mr. Trevor Parkins gopi tra gwerthfawr o'r *Teithiau*, gyda dalenau gwynion bob yn ail, yr hwn sydd yn ei feddiant, a chynwysa amrywiaeth o ysgrifeniadau dyddorol, yn cymeryd i fewn yr ardystiad o eiddo Mr. Fenton y cyfeiriwyd ato yn barod. Ond yr wyf yn ddyledus yn benaf i Mr. *Trevor Parkins*, cymhorth ewyllysgar yr hwn a fu o'r gwasanaeth pwysicaf i mi, er i mi ffaelu a gorchfygu ei wyleidd-dra mor bell a rhoddi ei ganiatâd i ddodi ei enw ar y wyneb-ddalen. Heblaw lluaws o awgrymiadau o amrywiol fathau, y mae genyf i ddiolch iddo am nifer helaeth o nodiadau byrion ac eglurhaol, a braslun o'r fath mwyaf cryno a defnyddiol o fywyd Pennant, yngbydag arweiniad i "Lwythau Breninol a Phendefigol" Cymru, hanes pa rai sydd wedi ei argraffu yn gyflawn yn yr Attodiad xxviii., oddiwrth Attodiad at yr *History of Whiteford and Holywell* gan Pennant. Barnwyd yn gymhwys ei ddwyn i mewn yn yr argraffiad yma o'r *Teithiau* ar gyfrif mynych gyfeiriadau yr awdwr atynt. Y mae eu hanes yn bwngc tra dyrys a dyddorol: yr wyf yn cwbl gydsynio â Mr. Trevor Parkins gyda golwg ar yr amhosiblrwydd o dderbyn hanes Robert Vaughan am danynt, ac hefyd gyda golwg ar ddiweddarwch cymhariaethol a natur glytiog y drefn yn mha un y cyfleuir hwy i ni; ond, os gallaf anturio i ddyweyd ychydig eiriau yma ar y pwngc, myfi a wa-

Digitized by Google

naniaethwn rhwng y pum' Llwyth Breninol a phymtheg Llwyth Gwynedd. Nid yw y blaenaf yn arddangos ond ychydig o anhawsder; y mae G. ap Cynan yn cynrychioli *Gwynedd*, R. ap Tewdwr y *Deheubarth*, B. ap Cynfyn *Powys*, tra y mae Ethelystan Glodrydd ac Iestin ap Gwrgant yn cynrychioli yr ardaloedd hyny a fuasent am hir amser, i raddau mwy neu lai, yn gwbl o dan lywodraeth y Saeson. Ymddengys nad oedd gan bymtheg llwyth Gogledd Cymru, neu yn hytrach Gwynedd, fel y gelwir hwy yn fwy cywir, ddim i'w wneyd â'r rhai blaenorol, ac y mae geiriau Mr. Trevor Parkins yn mherthynas iddynt yn dra awgrymiadol, pan y dywed—"Perthyna y pymtheg llwyth yn gyfangwbl i Wynedd. Ceir hwy yn benaf yn siroedd Môn a Chaernarfon, ac yn y parthau hyny o siroedd Dinbych a Fflint nad oeddynt yn perthyn i Bowys. Y mae eu dosparthiad yn dra direol, ond ymdengys fod rhywbeth lleol yn eu hardrefniad . . . . . Gellir clirio ymaith luaws o anhawsderau ond i ni gredu fod y llwythau wedi cael eu sefydlu ar ol teyrnasiad Owain Gwynedd, yn mlynyddau olaf ein hannibyniaeth cenedlaethol, a'u cyfyngu i'r rhanbarthau hyny a arosent yn anorchfygedig." A chaniatâu yr amseriad yma, neu hyd yn nod un diweddarach, y mae rhesymau a barant i mi dueddu i dybied, hyd yn nod y pryd hyny, nad ydym ond yn unig yn cael ardrefniad presenol y llwythau yn hawddach ei ddeall, tra y rhaid i bwngc y dechreuad gwirioneddol, fel y sylwa Mr. Parkins, gael edrych arno fel peth tywyll. Yr wyf fi yn cael fy nhueddu i'w estyn yn ol i'r amseroedd cynhanesyddol, pan yr oedd trigolion Gwynedd o hyd yn *Goidels*, ac yn meddu cyfundrefn lwythyddol a wahaniaethai oddiwrth eiddo eu cymydogion, sef Gordofigion Powys, y rhai oeddynt bobl Frythonig, a'r rhai a ddygasant yr iaith Frythonaidd i Gymru. Wrth feddwl felly, yr wyf yn cael dylanwadu arnaf gan y ffaith fod y pymtheg llwyth yn perthyn i Wynedd, ac mai ystyr mwyaf tebygol yr enw hwnw ydyw cynulliad o lwythau, neu, os gallaf ei alw felly, llwythyddiaeth; oblegyd ymddengys ei fod yn perthyn yn agos i'r gair Gwyddelig *fine*, cenedl neu lwyth. Gellir cymeryd yn ganiataol fod y gair hwn mewn amseroedd boreol—yn enwedigol *Venedos*, yn feddiannedigol *Venedotos*—y blaenaf yn bodoli yn awr, o ran ffurf, *Gwynedd*, a'r olaf, *Gwyndod*, yr hyn a gawn, yn y ffurf Ladinaidd *Venedotis*, ar hen faen cerfiedig yn Mhenmachno, yn agos i Fettws y Coed, yn sir Gaernarfon. Y mae yr holl gerfiad, yr hwn sydd heb ei gyffelyb, ac yn rhedeg fel hyn, yn ein cymeryd yn ol i'r 6ed neu y 5ed ganrif:—CANTIORI[X] HIC IACIT VENEDOTIS CIVE[S] FUIT CONSOBRINO[S] MAGLI MAGISTRATI, hyny yw, Cantiori[x] a orwedd yma: yr oedd yn ddinesydd o Venedot ac yn gefnderw i Maglos yr Ynad. Beth a feddylir wrth ddywedyd fod dyn yn *cives* neu ddinesydd o Venedot neu Gwyndod, nid yw yn hawdd ei ateb; ond gallaf anturio meddwl, gan na fu erioed dref o'r enw hwnw, nad oedd dinesydd o Venedot yn golygu dim ond ei fod yn un a ddaliai swydd aruchel yn llwythyddiaeth Gwynedd. Gyda'r cymhwysiad

Digitized by Google

hwn o'r gair *cives*, bydded i chwi gymharu yr anhawsder ag yr ymddengys fod hen ysgrifenwyr yn ei brofi yn newisiad eu geiriau Groeg neu Ladin i ddysgrifio cyfundrefn wladol neu gymdeithasol cenedloedd an-Frythonig ereill yn Mhrydain: yr wyf yn cyfeirio at Pausanias yn galw pobl a oresgynwyd gan y Brigantwys Γενουνία Μοῖρα, hyny yw, efallai, hynafiaid y Pictiaid o Galloway; ac Adamnan, yr hwn, gan ysgrifenu oddeutu diwedd y seithfed ganrif am bobl yn preswylio yn rhywle ar y cyfandir gyferbyn a Skye, a'u geilw hwy *Geona Cohors*.

Rhag i'r sylwadau hyn flino amynedd y darllenydd, a mwy na llanw y gofod a ganiateir i mi, yr ydwyf yn eu terfynu trwy ei hysbysu fod y nodiadau gan Mr. Trevor Parkins, ac ysgrifenydd y llinellau hyn, yn cael eu nodi yn wahanredol T.P. a J.R. Y nodiadau ereill ydynt wedi eu copio o argraffiad 1810, ac y maent naill ai yn eiddo Pennant, neu ynte y golygydd, yn mha achos y maent wedi eu nodi GOL. fel y daethant oddiwrtho ef.*

*Gorphenaf 2il, 1883.* JOHN RHYS.

* Y mae y Cyfieithydd wedi gorfod gwneyd ychydig nodiadau, yma ac acw, yn y Cymraeg, y rhai a nodir ganddo â'r talfyriad CYF.

# BRASLUN O FYWYD YR AWDWR,

## GAN W. TREVOR PARKINS, YSW.

---

GELLIR casglu llawer o'r defnyddiau at Fywyd Pennant allan o'i weithiau. Yn y rhai hyn y mae wedi dysgrifio y gyfres hir o'i lafur llenyddol, y cyfeillion a'r cymdeithion gan ba rai y cynorthwyid ef, a hanes ei deulu, o ba un yr oedd yn ddiamheuol yn falch. Ond er ei fod wedi ysgrifenu hanes ei yrfa fel awdwr, ni ddaeth i'w feddwl ef i fod yn fywgraffydd iddo ei hun. Y mae llaweroedd o amgylchiadau pwysig yn ei fywyd nad ydyw wedi sylwi arnynt, neu nad ydyw wedi sylwi arnynt ond yn unig yn ddamweiniol. Ac y mae yn anhawdd yn awr, gan fod cymaint o amser wedi myned heibio, cael gafael ar yr hysbysrwydd ychwanegol ag sydd yn angenrheidiol er cwblhau yr hanes a adawodd efe yn amherffaith.

THOMAS PENNANT, mab hynaf *David Pennant*, ac *Arabella Mytton*, a anwyd yn Downing, plwyf Whiteford, gerllaw Treffynon, yn sîr Fflint, ar y 14eg o Fehefin, 1726. Ei dad, yr hwn a ddaethai i feddiant o Downing ddwy flynedd cyn hyny o dan ewyllys perthynas pell, ydoedd fab ac etifedd i Peter Pennant, perchenog etifeddiaeth gyfagos yn yr un plwyf, yr hon a elwid Bychton, lle y bu yr hen deulu a gynrychiolai efe yn preswylio am hir amser.

Yn yr *History of Whiteford* y mae hanes cyflawn am ddechreuad y *Pennants*. Yn gynar yn y ddeuddegfed ganrif, Madog ap Meilir, y degfed mewn disgyniad o'r patriarch mawr Tudur Trefor, a ymsefydlodd yn Bychton, ar ei briodas âg Alice, etifeddes y lle hwnw. Ei hiliogaeth a drigasant yn y lle; a phan y dechreuodd cyfenwau ddyfod yn beth cyffredin, mabwysiadasant yr eiddo *Pennant*, yr hwn a ddysgrifia eu preswylfa yn mhen uchaf nant o gryn eangder. Dafydd ap Tudur, y cyntaf o'r teulu a fabwysiadodd yr enw *Pennant*, oedd hefyd y cyntaf a briododd Saesones. Ei wraig ydoedd Anne, merch i John Done, o Utkinton, boneddwr o sîr Gaerlleon, a bu epil lluosog o'u priodas. Rhys, yr hynaf o'r meibion, a ddaliodd afael yn yr hen dreftadaeth yn Whiteford; tra y darfu i Thomas, yr ail fab, fyned i fynachlog y Maes Glâs, ac mewn amser daeth yn abad yno. Llanwodd y swydd hono yn dra theilwng, ac y mae ei haelioni a'i letygarwch yn cael eu canmol yn fawr gan Gutyn Owain, yr hwn oedd yn fardd tra enwog. Wedi iddo helaethu a phrydferthu y fynachlog, efe a ymddiswyddodd, ac a ddaeth yr hyn a elwir yn fynach *gwladol*, wedi ei rydd-

Digitized by Google

hau oddiwrth y llwon a gymerasai, a chaniatâd iddo briodi. Cymerodd fantais ar y rhyddhad yma; ac ar ol priodi daeth yn hynafiad y *Pennants* o Fagillt, Treffynon, a Phenrhyn.

Ymddengys fod hanes teulu Bychton rywbeth yn debyg i hanes llaweroedd o deuluoedd ereill yn Nghymru. Am lawer o genhedlaethau, arosodd yn ei unfan, heb gynyddu na lleihau yn ei feddiannau. Ni ddarfu i lwyddiant William Pennant, yr hwn oedd yn ôf aur a gemydd yn y *Queen's Head, Smithfield,* ac yn gyfaill i Syr Huw Myddelton, beri un llesâd parhaol i'w berthynasau; yn gymaint a bod ffrwyth ei ddiwydrwydd wedi cael ei wario gan afradlonyn, yr hwn, yn ffodus, a fu farw cyn i'r etifeddiaeth dreftadol gael ei difa. Yn y Rhyfeloedd Cartrefol yr oedd y *Pennants* yn bleidwyr gweithgar i'r Brenin. Yr oedd yr Uchgadben *Hugh Pennant* yn nodedig am ei wasanaeth, a'i frawd hynach, *Dafydd*, ydoedd yn swyddog yn ngwarchawdlu *Dinbych*, pan warchaewyd ar y dref hono, ac y cymerwyd hi, ar ol hir wrthwynebiad, gan alluoedd y Senedd. Ar ol cymeryd *Dinbych*, goddefodd y boneddwr dewr hwnw hir garchariad, ond diangodd *Bychton* gydag iawn cymedrol am "anufudd-dod," ac yn fuan ar ol hyny ychwanegwyd ei chyllidau i raddau trwy briodas ffodus ei fab, yr hwn hefyd oedd yn *Ddafydd*, gyda *Chathrin*, aeres *John Pennant o Dreffynon.*

*Peter*, y mab o'r briodas hon, a thaid *Thomas Pennant*, a fu fyw hyd 1736. Y mae ei ŵyr wedi ei ddysgrifio megys yn byw mewn lletygarwch mawr yn *Bychton*. Fel arwr hyglodus *Sterne*, yr oedd wedi bod mewn gwasanaeth yn *Flanders*, gyda'r fyddin, yn amser y frenines Anne; ond oherwydd ymrafael gyda'i Filwriad, Syr *Thomas Prendergast*, yr hwn a wrthododd ymladd gornest âg ef, efe a daflodd ei gomissiwn i fyny, ac a ymneillduodd i Gymru. *Dafydd*, mab hynaf y boneddwr cyfeillgar a milwrol yma, ni ddygwyd i fyny i unrhyw alwedigaeth. Daeth i feddiant o *Downing* yn 1724, ar farwolaeth *Thomas Pennant*, etifedd olaf o gangen ieuengach o'r teulu, yr hwn a fuasai mewn meddiant o'r etifeddiaeth yn ystod pedair o genedlaethau. Efe a briododd yn mhen chwe' mis ar ol hyn, ac y mae yn ddigon tebyg fod enw ei fab hyglodus wedi ei fwriadu gan *David Pennant* er arddangos ei ddiolchgarwch i'w gymwynaswr.

Y mae *Pennant* yn ddieithriad yn siarad am ei dad gyda serch a pharch; dywed ei fod, er i'w addysg gael ei esgeuluso i raddau, yn "*abnormis sapiens*,"* ac fod ei "galon o'r fath oreu." Ond ei fam "rinweddol a chrefyddol," fel yr ymddengys, ydoedd gwrthddrych ei ymserchiad tyneraf. Yr oedd hi yn drydedd ferch i *Richard Mytton*, o *Halston*, cynrychiolydd hen deulu o barchusrwydd uchel, etifeddiaeth hynafol yr hwn yn anffortunus a afradlonasid

* "Dyn o olygiadau eang."

Digitized by Google

drwy wastraff un o'r disgynyddion diweddaraf. Yn gyffelyb i lawer o'r teuluoedd goreu yn *Lloegr*, yr oedd y *Myttoniaid* wedi ochri gyda'r Senedd, ac yr oedd hen daid *Arabella Mytton*, yr hwn oedd yn gadfridog tra galluog a llwyddiannus, yn blaenori y lluoedd a warchaeasant ac a gymerasant *Ddinbych* pan yr oedd *David Pennant*, un o hynafiaid ei phriod, yn swyddog yn y gwarchawdlu. Ei mam ydoedd *Arabella*, merch hynaf i Syr *John Houblon*, Arglwydd Faer *Llundain* yn 1695, Arglwydd y Llys Llyngesol yn nheyrnasiad *Gwilym* y trydydd, a Phenllywydd cyntaf Ariandy *Lloegr*. Cafodd y dinesydd enwog yma ei gladdu yn Eglwys St. *Christopher le Stocks*, yr hon a safai ar gyfran o safle adeiladau presenol yr Ariandy. Tynwyd hi i lawr yn 1781, ac y mae *Pennant* wedi cwyno gyda chwerwder mawr, yn ei *Hanes Llundain*, oherwydd y dull yn mha un y cafodd y gladdfa hon, lle y claddesid ei fam a'i chwaer, a llawer o'r teulu, ei halogi mewn modd gwarthus.

Yr oedd ei serch cryf at ei fam yn ymgyrhaedd hyd yn nod at ei theulu, a bu i gyfeillach *Pennant* â'r perthynasau hyn feddu dylanwad lled fawr ar ei nodweddiad. *William Mytton*, un o'i ewythrod, ydoedd yn hynafiaethydd dysgedig ac aiddgar, o ymchwiliadau yr hwn y mae *Pennant* wedi gwneyd defnydd, ac esiampl yr hwn a fu yn anogaeth iddo yn ei gyffelyb dueddiadau yntau; tra yr oedd un arall o'i ewythrod, *James Mytton*, yn gyfaill caredig ei ieuengctyd, gyda pha un y mae yn ein hysbysu iddo fyw yn hir, a synwyr da, a chalon dda yr hwn, ynghyda'i foesau coethedig, y mae wedi eu canmol yn wresog.

Ymddengys fod gan *David Pennant* dri o blant ereill heblaw *Thomas*; mab o'r enw *John*, yr hwn oedd yn ieuengach na'i frawd o fwy na blwyddyn; a'r hwn, fe ddichon, a fu farw yn ei fabandod; a dwy ferch, *Sarah* a *Catherine*, y rhai oeddynt efeilliaid, ac a anwyd yn 1729. Buont yn preswylio ar ol hyny yn St. *James's*, *Westminster*, a bu farw y ddwy heb briodi. *Sarah*, yr hon a fu farw yn 1780, a gladdwyd yn gyntaf gyda'i mam yn eglwys St. *Christopher le Stocks*, a phan dynwyd yr adeilad hono i lawr, symudwyd eu cyrph i eglwys *Hadley*, yn agos i *Enfield*, lle hefyd y claddwyd *Catherine Pennant*, yr hon a orfuchedddodd ei chwaer hyd 1797.

Am fywyd boreuol *Pennant*, nid oes ond ychydig i'w ddywedyd. Efe a grybwylla ddarfod iddo, yn unol â hen arferiad, gael ei osod allan i'w fagu mewn amacthdy yn y gymydogaeth, ac fod ei faeth-rieni, y rhai oeddynt bersonau o barchusrwydd mawr, yn hoff o'u swydd, yr hon yr edrychid arni fel anrhydedd arbenigol. Y mae yr arferiad yma, yr hon oedd unwaith yn gyffredinol yn *Nghymru*, wedi darfod er's talm, ac y mae yn debygol nas gellir cael llawer o engreifftiau diweddarach o honi. Diameu y perthynai iddi rai manteision. Yr oedd yn cynorthwyo i gadarnhau y serch â pha un yr edrychid ar y bon-

Digitized by Google

eddigion, ac yr oedd yn rhwyddhau y ffordd iddynt ddyfod i adnabyddiaeth o iaith eu cydwladwyr, pwngc o gryn bwys oddiar ystyriaeth gymdeithasol, ac heb fod yn ddibwys mewn pethau gwladol. Fel boneddwr o deulu a safle da, yr oedd ar hyd ei oes wedi ymarfer â phersonau o urddas a chyfoeth. Ond dechreuodd ei ymgydnabyddiaeth â'r tylodion yn ei blentyndod boreuaf, ac y mae yn wastad yn dangos ei fod ei hun yn ymarferol adnabyddus âg angenion, ac yn dueddol i gydymdeimlo â chaledi, y dosparthiadau tylotaf yn y wladwriaeth.

Tra yn blentyn efe a gafodd ymosodiad o'r frech wen, a bu i'w afiechyd, er mai ysgafn, gael ei wneuthur yn beryglus trwy driniaeth anfedrus. Dangosasid fod yr afiechyd arswydus yma, i ba un y syrthiodd mam *Pennant* ar ol hyny yn ysglyfaeth, gan yr enwog Ddr. *Sydenham* i gael ei drin yn oreu gyda threfn o feddyginiaeth o natur oeraidd, a dywedir fod miloedd o fywydau wedi cael eu haberthu trwy esgeuluso dylyn ei gyfarwyddiadau.

Pan yn ddeuddeng mlwydd oed cafodd anrheg o *Willoughby's Ornithology* (llyfr yn trin ar adar,) yr hwn a roddwyd iddo gan ei berthynas *Richard Salisbury*, tad Mrs. *Thrale*, a chafodd effaith rymus ar feddwl *Pennant*. Ac y mae wedi priodoli i'r amgylchiad hwn ddechreuad ei hoffder at Hanesiaeth Naturiol, yr hyn ni adawodd mo hono byth, a'r hyn a benderfynodd holl gŵrs ei fywyd ar ol hyny.

Anfonwyd ef ar y cyntaf i ysgol yn Ngwrecsam, lle y bu y Parch. *W. Lewis* yn athraw iddo. Y mae beddargraff y dyn teilwng yma, yr hwn y gellir ei weled yn y *Daith yn Nghymru* (tudal. 186,) yn dra phrydferth, ac yn arddangos y clod uchaf mewn geiriau byrion a diffuant. O'r ysgol yma dywedir fod *Pennant* wedi symud i *Fulham*. Methais a chael allan pa mor hir y bu yno, na phwy a fu yn ei ddysgu. Ond yn gymaint ag iddo grybwyll fod llawer o'i amser, pan yn fachgen, wedi cael ei dreulio yn *Hadley*, yn agos i *Enfield Chase*, yn mha le yr oedd ei ewythr, y Parch. *John Pennant*, yn beriglor, nid yw yn annhebyg na bu y boneddwr hwnw yn arolygu rhyw gyfran ar ei addysgiant, yr hwn yr ymddengys ei fod yn dra chymhwys at y gwaith, a'r hwn yn ddiameu a feddai, i raddau tra uchel, ran yn edmygedd a serch ei nai. Yn ystod y gyfran hon o'i fywyd, ymddengys iddo fod gryn lawer yn *Llundain*. Yr oedd gyda'i fam pan y bu farw yno yn *Ebrill* 1744, a chanodd ffarwel âg ef yn dyner ar ei gwely angeu. Ar y 7fed o Fawrth yn y flwyddyn hono efe a aeth i Brifysgol *Rhydychain*, ac ymaelododd yn *Ngh† Coleg y Frenines* fel aelod cyffredin. Ni chofnodir dim ar lyfrau y coleg, heblaw ei fod wedi ymaelodi; ac ymddengys iddo adael *Rhydychain* heb gymeryd gradd, wedi bod yno am rai blynyddoedd. Y mae yn amhosibl gwybod y rheswm paham na ddaeth yn raddwr, ond y mae

yn debyg na ddarfu iddo esgeuluso ei efrydiaeth yno, gan fod ei weithiau yn dangos ei fod yn teilyngu clod fel ysgolor Lladin da.

Yn 1746, yn ystod ei arosiad yn y Brifysgol, *Pennant* a gymerodd daith mor belled a *Chernyw*, lle y darfu i Dr. *Borlase*, hanesydd hyglod y sir ddyddorol hono, roddi iddo groesawiad caredig, ac a'i cefnogodd mewn chwaeth gref a goleddasai at astudio mwnau a ffosylau. Yn y dadleuon yn mherthynas i *Gromlechau*, Dr. *Borlase* ydoedd yr ysgrifenydd cyntaf a sefydlodd eu nodwedd-iad beddrodol; a bu *Pennant* yn ffodus, ar adeg mor gynar yn ei fywyd, i enill cyfeillgarwch y dyn teilwng a'r hynafiaethydd goleuedig hon.

Yr oedd undeb y ddwy etifeddiaeth, *Downing* a *Bychton*, wedi cynyddu pwysigrwydd ei deulu i raddau mawr iawn, ac wrth adael y Brifysgol yr oedd *Pennant* yn alluog, fel etifedd i foneddwr cyfoethog, i wneyd i ffordd â llafur galwedigaeth, ac i ymgyflwyno at ei hoffus dueddiadau. Ysgrifenai yn achlys-urol i'r *Philosophical Transactions*, ac ymddengys mai ysgrif fer, rhan o lythyr a ysgrifenwyd ganddo at ei ewythr *James Mytton*, yn dysgrifio daeargryn a deimlwyd yn *Downing* yn mis *Ebrill* 1750, oedd y gyntaf o'i ysgrifeniadau a ymddangosodd mewn argraff. Yr oedd ysgytiad y ddaeargryn hon yn nerthol, ac yn gymaint ag iddi gymeryd lle yn y nos, cafodd *Pennant* ei frawychu yn fawr drwyddi. Efe a deimlodd dair o ddaeargrynfeydd ereill ar ol hyny yn *Downing*, effeithiau pa rai y mae wedi eu dysgrifio mewn llythyr at Syr *Joseph Banks*, yn cynwys rhai sylwadau cywrain, y rhai a geir yn ei Hanes Plwyf *Whiteford*.

Yn 1754, efe a ddaeth yn Gymrawd o Gymdeithas yr Hynafiaethwyr, a chyf-lawnodd daith eang yn yr Iwerddon; o ba un, pa fodd bynag, ni chadwodd efe ddyddlyfr, trwy iddo gael ei atal rhag cyflawni hyny, fel yr ymddengys, gan attyniadau y lletygarwch a dderbyniodd. Ac yn y flwyddyn ganlynol efe a ddechreuodd ymohebu â *Linnæus*, yr hyn a barhaodd am lawer o flynyddoedd, hyd nes y darfu i oed a llesgedd y naturiaethwr enwog ei orfodi i roddi i fyny yr ohebiaeth. Yn 1757, oddiar awgrymiad *Linnæus*, efe a etholwyd yn aelod o Gymdeithas Freninol *Upsala*, yr hyn y mae efe ei hun wedi son am dano fel y cyntaf a'r mwyaf o'i holl anrhydedd llenyddol.

Efe a briododd, yn 1759, âg *Elizabeth*, merch i *James Falconer*, ysw., o *Gaer-lleon:* dynes addfwyn, gyda pha un y tybiodd yn ofer y byddai ei ddedwydd-wch yn barhaol. Efe a ymsefydlodd yn *Whiteford*, ar ol ei briodas, ac yn 1761 gwasanaethodd y swydd o Uchel Sirydd sir *Fflint*, yn ystod bywyd ei dad. Ond daliodd efrydiaeth Hanesiaeth Naturiol yn barhaus i fod ei brif orchwyl, a dechreuwyd ganddo ei waith ar *Filyddiaeth Brydeinig* oddeutu y flwyddyn hono. Bu farw ei dad yn 1763, ac yn ystod haf 1764 cafodd *Pennant* ei hun



Digitized by Google

yn ŵr gweddw. Yr oedd ei waith mawr erbyn hyn yn tynu at y terfyn, ond oedwyd y cyhoeddiad o hono trwy ei daith ar y cyfandir, â'r hon yr ymgymerodd efe yn y rhan gyntaf o 1765. Yn ystod y daith hon efe a ddaeth yn bersonol adnabyddus â *Buffon*, yr hwn yr ymwelodd âg ef yn ei balas yn y wlad yn *Burgundy*, ac â Dr. *Pallas*, naturiaethydd Isellmynaidd clodfawr, nodweddiad yr hwn a aredmygai, a chyfeillgarwch yr hwn a werthfawrogai yn fawr. Efe hefyd, tra ar y daith hon, a dalodd ymweliad â *Voltaire* yn *Ferney*, ac y mae wedi rhoddi hanes am ymddiddanion yr athronydd hwnw, y rhai oeddynt yn hynod o ffraeth a difyrus, nes y dechreuodd eu hanurddo â'r llwon a'r rhegfeydd arswydus, y rhai a fwriai allan mewn amrywiaeth mawr pan yr ymdrechai arddangos ei gydnabyddiaeth â'r iaith *Saesoneg*.

Ymddangosodd y *British Zoology* mewn cyfrol fawr unplyg, ar ddychweliad *Pennant* o'i daith ar y cyfandir. Bwriedid rhoddi yr enill a gynyrchai y gwaith at yr ysgol *Gymraeg* yn *Gray's Inn Lane*. Ond, fel ag y gallesid dysgwyl, aeth y draul yn fwy na'r cyfrifiad, a bu *Pennant* yn gryn golledwr yn yr anturiaeth hono, y llyfr cyntaf a'r mwyaf mawreddog o'i eiddo.

Pa fodd bynag, sefydlwyd ei gymeriad. Efe a etholwyd yn Gymrawd o'r Gymdeithas Freninol. A chyhoeddwyd ei waith mawr yn fuan ar ol hyny mewn dwy o gyfrolau pedwarplyg, a chyda mwy o enill arianol. Wedi ei gyfnewid fel hyn o ran ei ffurf, aeth trwy amryw argraffiadau; ac ar ol hyny cwblhawyd ef gyda dwy gyfrol attodiadol, y rhai a ymddangosasant yn 1769 a 1777. *Hanes y Pedwarcarnolion Prydeinig*, yr hwn a ddygwyd allan yn 1771, ydoedd yn brawf arall o ddiwydrwydd diflino *Pennant*. Yr oedd hwn yn hoffus waith o'i eiddo, a bu fyw i arolygu dau o argraffiadau o hono ar ol hyny.

Yr oedd anrhydedd yn parhau i ymfwrw arno. Yn *Mai* 1771, cafodd yr urddas o Ddoctor yn y Gyfraith ei gyflwyno iddo, gan Brif-ysgol *Rhydychain*, mewn cymanfa lawn; pryd y traddodwyd araith ganmoliaethol gan Mr. *Foster*, yr hwn a'i cyflwynai i'r Is-ganghellydd. Yr oedd yr arwydd yma o gymeradwyaeth cyhoeddus yn dystiolaeth ddigonol fod ei deilyngdod mawr yn cael ei werthfawrogi, a'i fod wedi sicrhau safle iddo ei hun yn rhengau blaenaf ei gydoeswyr. Gallai beri syndod i lawer, fod *Pennant* wedi gosod mwy o anrhydedd ar y teitl a dderbyniodd gan Gymdeithas *dramor*. Ond yr oedd canmoliaethau boreuol *Linnæus* yn llawn mor foddhaol o leiaf ag iaith yr areithiwr o *Rydychain*. Cawsent eu cyflwyno pan yr oedd ei alluoedd heb gael eu cydnabod gan y byd, a phan yr oedd canmoliaeth a chefnogaeth yn bethau mwy anghyffredin, ac o ganlyniad yn fwy boddhaol.

Y mae symudiad o ganrif ymlaen o angenrheidrwydd yn peri fod gweithiau Mildreithiol *Pennant* yn gorfod rhoddi lle i gyhoeddiadau diweddarach; ond

bydd i'w enw ef, fel enwau *Buffon* a *Linnæus*, bob amser gael ei gysylltu â hanesiaeth ei hoffusol wyddoreg, ac yr oedd yn awr yn ffortunus wedi cael ei arwain gan amgylchiadau i ddechreu cyfres hirfaith o weithiau o nodweddiad arall, y dyddordeb yn mha rai sydd wedi profi yn fwy parhaol.

Yn 1771 efe a gyhoeddodd, mewn un gyfrol, o dan y teitl o *Daith yn Ysgotland*, ddysgrifiad o ymdaith a wnaethai yno ddwy flynedd yn flaenorol i hyny. Y mae yr amgylchiadau o dan ba rai y cychwynodd efe y daith hon, yn cael eu dysgrifio ganddo yn ei ragymadrodd. Ac y mae yn amlwg, oddiwrth y llyfr ei hun, hyd yn nod pe na buasai efe wedi hysbysu hyny, mai *Milodiaeth* a'i cymhellasai i wneyd y teithiau hyny. Nid yw y dull yn mha un y cyflawnai *Pennant* ei deithiau, a'r dysgrifiadau ysgrifenedig o honynt, i'w gweled yn unman mor amlwg ag yn y *Daith yn Ysgotland*; ac am y rheswm hwn gallai na fyddai hanes byr am dani yn annyddorol.

Y daith yma, yr hon, yn ol ei arfer gyffredin, a gyflawnai *Pennant* trwy farchogaeth, ni chymerodd iddo ond ychydig yn llai na thri mis, tair wythnos o ba rai a dreuliwyd yn *Lloegr*. Cychwynodd o *Gaerlleon* ar y 26ain o *Fehefin*, a marchogodd y diwrnod hwnw bellder o 72 o filldiroedd, hyd yn *Chesterfield*. Aeth trwy *Lincoln*, o ba un y mae yn gwneyd nodiad byr, ymlaen i *Spalding*. Gwnaeth sylwadau ar luaws o'r adar am ba rai y mae gwlad y *Morfeydd* mor hynod; ac yna dychwelodd i *Lincoln*, gan groesi yr afon *Humber*, a chyrhaeddodd *Burton Constable*, wyth milldir tu hwnt i *Hull*, ar brydnawn y pedwerydd dydd wedi ei ymadawiad o *Gaerlleon*.

Wedi ymdroi am ychydig ddyddiau yn *Burton Constable*, *Pennant* a ailgychwynodd ar ei daith, a chan drafaelio yn fwy hamddenol, efe a gyrhaeddodd *Berwick* mewn pymthengnos. Tra yn sir *Gaerefrog*, yr oedd wedi cadw ar hyd glan y môr, yn ol pob ymddangosiad fel y gallai sylwi ar y môr-adar a fynychent glogwyni *Flamborough*, ac er mwyn ymweled â *Scarborough*, lle y mae wedi dysgrifio y pysgodfeydd. Nid yw ei hanes am *Durham* ond tra gwanllyd. Ac yn *Northumberland* prif ddygwyddiadau ei daith ydynt, ymweliad â chastell *Alnwick*, yr hyn a fu yn achos o'r ymrafael hynod, yr hon a ddysgrifir gan *Boswell*, a fu rhwng Esgob *Dromore* a Dr. *Johnson;* ac ymgyrch a wnaeth i *Bamborough*, ac i ynysoedd *Farn*, lle y cafodd yr hwyaid *Eider* yn eistedd y pryd hyny, a gwnaeth gyfrifiad o amrywiaeth mawr o adar y môr.

O *Berwick*, gan gadw ar hyd yr arfordir, aeth *Pennant* ymlaen hyd *Dunbar*. Milodiaeth oedd ei brif attyniad o hyd, a thalodd ymweliad â'r *Bass Rock*, yn y *Frith of Firth*, cyniweirfa nodedig y gwyrain *(Solan geese,)* ar ei ffordd o *Dunbar* i *Edinburgh*. Arosodd *Pennant* am wythnos yn y brif ddinas *Ysgotaidd*. Archwiliodd y dref, a dysgrifiodd luaws o'r adeiladau; a gwnaeth am-

Digitized by Google

ryw deithiau yn y gymydogaeth, yn arbenigol i *Newbottle* a *Dalkeith*; yn mhob un o'r ddau dŷ yma efe a gafodd amryw arluniau, y rhai, yn ol ei arfer, y mae wedi gwneyd sylwadau cyflawn arnynt.

Daeth Milodiaeth yn awr i gymeryd llai o sylw yn ei olwg; ac mewn canlyniad i hyny, y mae dyddordeb ei daith yn cynyddu. Wedi gadael *Edinburgh*, efe a groesodd y *Firth* yn *Queen's Ferry*, ac a laniodd yn *Fife*, aeth yn mlaen trwy *Loch Lefen* i *Perth;* ac yno trôdd i'r Ucheldiroedd, y rhai ar y pryd ni wyddid ond ychydig am danynt, ac ni ymwelid â hwy ond yn anfynych gan Saeson. Efe a aeth i mewn i'r rhanbarth ddyddorol yma mor bell a *Taymouth*, ac, ar ol ymweled â *Blair Athole*, a thramwyo trwy fwlch *Killicrankie*, efe a arosodd gyda Mr. *Farquharson*, yn *Invercauld*, ac oddi yno gwnaeth ei ffordd tuag *Aberdeen*. Yn nylyniad ei daith ymlaen, darfu i *Pennant*, trwy drafaelio ar hyd yr arfordir o *Aberdeen*, gyrhaedd at ben pellaf yr ynys. O dŷ *John O'Groat* efe a adolrheiniodd ei lwybr hyd *Inverness*, ac yna croesodd drosodd i *Fort William*, ac aeth yn ei flaen i *Glasgow*, ar ol ymweled âg *Inverary*, a *Loch Lomond*. O *Glasgow*, efe a aeth i *Edinburgh*, ac "ar ol ychydig ymbroffiad o'r unrhyw letygarwch" ag y cyfarfuasai âg ef yn yr Ucheldiroedd, efe a gymerodd y ffordd trwy *Moffat* a *Lockerby* i *Carlisle*, a chan gwblhau ei daith o *Edinburgh* mewn pum' niwrnod, efe o'r diwedd a gyrhaeddodd *Downing* ar yr 22ain o Fedi.

Wrth ddysgrifio yr ardaloedd trwy ba rai y bu yn ymdeithio, y mae *Pennant* yn arbenig wedi sylwi ar yr adar a'r anifeiliaid, yn ogystal â'r planigion a'r coedwigoedd, a welsai. Y mae wedi sylwi ar ddulliau ac ymarferion y trigolion, ac wedi galw sylw at yr ofergoelion sydd yn bodoli yn barhaus yn mysg preswylyddion yr Ucheldiroedd, ac at y cyfnewidiadau cymdeithasol ag y bu i ddiddymiad awdurdod oruwchafol y penaethiaid, yr hyn a gyflawnesid ychydig cyn hyny, eu dwyn oddiamgylch. Diau ei fod yn sylwedydd manylgraff; er ei fod yn trafaelio yn gyflym trwy wlad ag oedd o'r blaen yn anadnabyddus iddo, ac y dichon iddo wneyd camgymeriadau ei hunan weithiau, a phryd arall gael ei gamarwain gan ei hysbyswyr, y mae ei gywirdeb ar y cyfan yn hynod. Sylfeinir ei hanes ar y dyddlyfr a gadwai o'i ymdaith, ond y mae yn fedrus wedi gwau i fewn i'w sylwadau ei hun amrywiaeth o wybodaeth hanesyddol, a llawer hanesyn wedi ei adrodd yn dda, yr hyn a ychwanega at ddyddordeb ei lyfr. Fel boneddwr cyfoethog, yr oedd yn trafaelu gyda phob moddion wrth ei law a allai rwyddhau ei ymchwiliadau; ac yn mhob ardal yr ymwelai â hi, yr oedd ei gymeriad fel ysgrifenydd wedi enill iddo gynorthwy parod y rhai deallus a dysgedig. Y mae wedi addef yn onest ei rwymedigaethau i luaws o bersonau a roddasent iddo hysbysrwydd, ac y mae yn amlwg fod yr amgylchiadau o dan ba rai yr ysgrifenai yn ffafriol. Ond yr oedd y medrusrwydd â

pha un y defnyddiai *Pennant* y materion a gasglai yn eiddo iddo ef ei hun. Yr oedd yn alluog i adnabod yr hyn oedd yn gymhwys i'w hanes; ac o ba le bynag y daethai iddo, gallai ei osod o flaen ei ddarllenwyr yn y dull mwyaf manteisiol ag oedd yn bosibl

Derbyniwyd y *Daith yn Ysgotland* gyda chymeradwyaeth mawr gan y cyhoedd. Gwerthwyd allan yr argraffiad cyntaf mewn byr amser, a'r ail yn llawn mor gyflym yn y flwyddyn ddylynol. Anogwyd *Pennant*, trwy y llwyddiant yma, i wneyd taith arall i *Ysgotland* yn 1772. Y profiad a enillodd yn ystod yr ail daith hon a'i galluogodd i wneyd ychwanegiadau a diwygiadau yn y dysgrifiad o'r gyntaf, y rhai a ddododd i mewn yn ei drydydd argraffiad yn 1774. Cynwysa yr argraffiad yma Attodiad newydd a gwerthfawr, ac arluniau newyddion, gan mwyaf oddiwrth rai a dynesid gan *Moses Griffith*, celfyddydwr hunan-addysgedig, yr hwn a gymerasai i'w wasanaeth, a'r hwn a'i dylynodd yn ei holl deithiau, oddieithr y gyntaf. Ar ei ail daith i *Ysgotland*, yr oedd dau foneddwr gydag ef, un o ba rai, y Parch. *J. Lightfoot*, ydoedd yn llysieuydd enwog, ac yn awdwr y *Flora Scotica*, gwaith llafurfawr mewn dwy gyfrol, yr hwn a gyhoeddwyd yn 1777, ar draul fawr, gan Mr. *Pennant*. Cychwynodd yr ail waith hon eto o *Gaerlleon*, a dynesodd *Pennant* a'i gymdeithion at *Ysgotland* ar yr ochr orllewinol, ac aethant ar hyd arfordir siroedd *Lancaster* a *Chumberland* i *Carlisle; o Carlisle* aethant i *Glasgow* yn hamddenol. Y mae yn amhosibl eu dylyn ar eu taith. Ond ymddangosodd dysgrifiad o'r ail daith yma yn *Ysgotland*, yr hon a gymerai i fewn *Fordaith i'r Hebrides*, mewn dwy gyfrol yn 1774 a 1775, ac y mae yn waith o lawn cymaint teilyngdod a'r gyfrol a ddysgrifiai y gyntaf. Ac yn 1780, cafodd cyfrol gan y Parch. *C. Cordiner*, Gweinidog Esgobaethol yn *Banff*, yr hon a elwid "*Antiquities and Scenery of the North of Scotland*," yr hon oedd wedi ei bwriadu i gyflawni yr hyn a adawsai *Pennant* yn anorphenol,—ei chyhoeddi ar ei draul ef, a gellir edrych arni fel Attodiad gwasanaethgar at y *Teithiau yn Ysgotland*.

Yn ystod y cyfnod yma o'i fywyd, dywed *Pennant* fod cariad gweithgar at deithio wedi ei feddiannu. Yn 1774 efe a ymwelodd âg *Ynys Manaw*, yn nghymdeithas amryw o'i gyfeillion, yn mysg y rhai yr oedd *Grose*, a'r Parch. *Hugh Davies*. Ond cafodd ei ddyddlyfr ar yr achlysur hwn, a'r defnyddiau a gasglasai, yn anffodus eu colli ymhen oddeutu blwyddyn ar ol hyny, fel yr oedd yn analluog i gyflawni ei fwriad o roddi hanes yr ynys hono i'r cyhoedd.

Parhaodd ei serch at drafaelio am rai blynyddoedd hyd adeg ei ail briodas. A gwnaeth amryw deithiau yn *Lloegr* ac yn *Nghymru*, yr oll o honynt braidd ar geffyl, gan deithio yn yr un dull ag y gwnelai yn *Ysgotland*, a chyda'r un yspryd awyddus o fanyldra. Cadwai ddyddlyfr rheolaidd o'r teithiau hyn; y mae rhai o honynt yn aros o hyd mewn ysgrifen, ereill a barotôdd efe at y

Digitized by Google

wasg, ac naill ai cyhoeddodd hwy ei hunan, neu ynte gadawodd hwy yn barod i'w cyhoeddi.

Ymgymerodd â'r tair taith yn *Nghymru* yn 1773 a 1776, a daeth ei hanes am danynt allan yn araf ac yn raddol; ymddangosodd y gyfrol gyntaf yn 1778, a'r gyfrol arall, yr hon a ddaeth allan yn ddwy ran, ac a gymerai i fewn yr ail daith a alwai yn *Daith i'r Wyddfa*, yn gystal a'r drydedd daith, yr hon a ddylynodd, yn mhen cryn yspaid o amser, yn 1781. Cyhoeddwyd ail argraffiad o'r gyfrol gyntaf, gydag amryw o ychwanegiadau a diwygiadau, yn 1783, a'r ddwy gyfrol a gyhoeddwyd gyda'u gilydd yn un gwaith, o dan y teitl *Teithiau yn Nghymru*, 1784. Ac fel hyn wedi eu cwbl gyflawni, ymgymerasant i fesur mawr â'r nodweddiad o fod yn ddysgrifiad o *Ogledd Cymru* a'r cyffiniau cyfagos.

Gellir edrych ar y gwaith hwn fel ei orchwyl goreu. Gwahaniaetha oddiwrth ei *Deithiau* cynaraf, y rhai ydynt yn meddu ar lawer o'u nodweddiad dechreuol fel dyddlyfr beunyddiol, ac y mae yn rhagori arnynt fel adroddiad trefnus, trwy ei fod wedi ei ysgrifenu a'i osod wrth ei gilydd gyda mwy o ofal a medrusrwydd. Wrth deithio trwy ei enedigol wlad, yr oedd gan *Pennant* y fantais o feddu cydnabyddiaeth flaenorol â'r rhan fwyaf o leoedd ynddi. Yr oedd hanes a thraddodiadau y manau yr ymwelai â hwynt yn bethau cynefin iddo. Siaradai iaith y bobl, ac yr oedd yn bersonol adnabyddus i'r prif foneddigion, ac o ganlyniad yn alluog i gael llawer o wybodaeth bwysig yn fwy rhwydd. Y mae yn sicr na arbedodd ddim llafur i sicrhau cywirdeb; a darfu i'r cyfeillion a'r gohebwyr a enwa, ei gynorthwyo yn fawr gyda'u gohebiaethau. Y mae mewn modd arbenig wedi cydnabod ei rwymedigaethau i'r Parch. *John Lloyd*, periglor *Caerwys*, yr hwn a'i canlynai yn ei holl deithiau, ac a roddodd iddo y cymhorth mwyaf defnyddiol, heb yr hyn, a benthyca ei eiriau ei hun, buasai lluaws o bethau yn diangc rhagddo, a llawer o anghywirdeb wedi ymlusgo i mewn i'w lafur.

Yn 1777, ar ol bod yn weddw am lawer o flynyddoedd, priododd *Pennant* ei ail wraig, sef *Ann*, chwaer i'w gyfaill a'i gymydog Syr *Roger Mostyn*. Ac ar ol y briodas yma, yr hon a fu yn un dra dedwydd, lleihaodd ei serch at deithio i gryn raddau. Ond parhaodd o hyd, gyda'r un diwydrwydd ag o'r blaen, i arolygu cyhoeddiad argraffiadau newyddion o'r llyfrau a gyhoeddasai eisoes, ac i ddwyn allan rai ereill. Ni esgeuluswyd Hanesiaeth Naturiol ganddo, a derbyniwyd ei waith ar *Filoddiaeth Ogleddol*, a ymddangosodd yn 1785, gyda'r fath ffafr fel y cyfieithwyd ef mewn byr amser i'r *Germanaeg*, a'r arweiniad i mewn iddo, o dan y teitl *Le Norde du Globe*, a gyfieithiwyd hefyd i'r *Ffrangcaeg*. Ond yr oedd ei fywiogrwydd yn ystwyth: ac yr oedd ei *Daith o Gaerlleon i Lundain*, yr hon a ymddangosodd gyntaf yn 1782, yn gystal a'i *Hanes Llundain*, yr hwn a gyhoeddodd yn 1790, ac am yr hwn y dywed ini "ei fod wedi

Digitized by Google

ei gyfansoddi oddiar sylwadau haner oes, efallai," y naill a'r llall o honynt yn dra phoblogaidd, ac aethant drwy amryw argraffiadau.

Y mwyaf hynod o luaws llyfrau *Pennant* a ymddangosodd yn 1793, ac a enwyd i'r dyben, fel y dywed ef ei hunan, o hysbysu y byd am "derfyniad ei fodolaeth awdurol," *Bywyd Llenyddol y diweddar Thomas Pennant, ganddo Ef ei hun.* Yn hwn y mae wedi adrodd, gyda chryn fanylder, am ddiwydrwydd ei flynyddoedd a aethant heibio, ac wedi nodi ei weithiau cyhoeddedig ac annghyhoeddedig. Y mae wedi dwyn i mewn luaws o sylwadau yn mherthynas i'w gydlafurwyr llenyddol; ac, er ei fod yn anffodus yn fwy dystaw nag y gallasem ni ei ddymuno ar ei amgylchiadau teuluol, y mae wedi adrodd, yn ei lawn hyd, hanes cyflawn am ei ysgrifeniadau ei hunan.

Y mae yr hanes am y *Patagoniaid*, yr hwn a gyflwynodd i'r Anrhydeddus *Daines Barrington*, awdwr (yn Saesoneg) y *Sylwadau ar y Deddfau mwy hynafol*, a chyfaill i *Pennant*, wedi ei argraffu yn yr Attodiad at ei *Fywyd Llenyddol;* yn mha le hefyd y mae nifer o bapurau a ysgrifenwyd ar wahanol amserau wedi eu cyfleu, ac yn trin ar amrywiaeth o byngciau, rhai o honynt o nodwedd leol, a rhai o honynt yn wladol neu ynte yn gymdeithasol.

Yn ei *Fywyd Llenyddol* arddengys ei hun megys yn barhaus mewn llawn gwaith gyda pharotôi argraffiadau newyddion o weithiau a gyhoeddasid yn barod, ond yn benderfynol, am y dyfodol, i beidio ymddangos mwyach fel awdwr. Nid oedd y cyfryw benderfyniad yn debyg o gael sefyll ato; ac yn 1796, efe a roddodd i'r byd ei *Hanes Whiteford a Threffynon,* yr hwn a gwblhasai cyn diwedd y flwyddyn flaenorol. Y gwaith yma yn ei hen ddyddiau ydyw y mwyaf difyrus o'i holl lyfrau. Dysgrifia y lleoedd â pha rai y buasai yn gydnabyddus ar hyd ei fywyd, a chynwysa lawer hanesyn cywrain ac addysgiadol, ac amrywiaeth o hysbysrwydd gyda golwg ar aelodau blaenorol o dylwyth y *Pennants.*

Ysgrifenir enw ei blwyf genedigol, i ba un y rhoddodd gymaint o hynodrwydd, megys ag y gwneir yn gyffredin, ac fel y seinir ef, yn *Whitford.* Ond ymddengys fod ei ddull ef o'i ysgrifenu, yr hwn o angenrheidrwydd a ddylynir yma, wedi ei seilio ar darddiad anghywir. Nid yw yr amgylchiad ynddo ei hun ond o ychydig bwys; eithr efallai y byddai yn fuddiol cofio, fod y wyddoreg ieithyddol yn cael ei deall yn well yn bresenol nag ydoedd yn flaenorol, ac nad ydyw tybiaeth *Pennant,* ysgrifenydd o'r ganrif ddiweddaf, i gael ei derbyn yn benderfynol ar byngciau geiryddol a fyddont mewn dadl.

Cynyrchwyd *Hanes Whiteford a Holywell* o dan amgylchiadau pruddglwyfus. Dywedir fod colli ei ferch ieuengaf, ar ol yr hon y galarai yn deimladwy, wedi rhoddi iddo y fath ysgytiad fel na ddarfu i'w ysprydoedd byth ymadferu yn gyf-

Digitized by Google

lawn. Dyoddefodd yn llym oddiwrth ddamwain a'i cyfyngodd am amser maith i'w ystafell. A theimlodd yn dra dwfn oblegyd marwolaeth ei frawd-yn-nghyfraith, Syr Roger Mostyn, yr hyn a'i hymddifadodd o gymydog agos, a chyfaill boreuol a fawr berchid ganddo.

Yn ychwanegol at y trallodion teuluaidd hyn, dywedir wrthym gan ei fab, fod "sefyllfa bruddglwyfus amgylchiadau cyhoeddus, a chynydd anwareidddra y Ffrangcod, yr hyn a fygythiai ddymchwelyd pob sefydliadau, yn gymdeithasol a chysegredig," yn pwyso yn drwm ar feddwl *Pennant*. Yr oedd erbyn hyn yn 72 oed, a'i iechyd yn amlwg yn gwaethygu. Ond yr oedd ei serch at deithiau yn aros o hyd heb leihau, ac yn gynar yn 1798, efe a ddygodd allan *A View of Hindoostan*, yn ddwy gyfrol, cyfran fechan o daith ddychymygol a gynlluniasai ac a gyflawnasai o dan y teitl uchelfrydig, *Outlines of the Globe.* Dyma y cyhoeddiad diweddaf a arolygodd, ac ar ol afiechyd poenus, yr hwn a ddygodd gydag ymroddiad teilwng, daeth ei fywyd o weithgarwch rhyfeddol i ben, ar yr 16eg o'r *Rhagfyr* dylynol, yn *Downing*, y man lle y dechreuodd.

Cyhoeddwyd dwy gyfrol yn rhagor o'r *Outlines of the Globe,* yn cynwys *China, Japan, Holland Newydd,* ac *Ynysfor y Cefnfor Indiaidd,* yn 1800, gan ei fab hynaf, *David Pennant*, yr hwn a ragddododd wrth y gyfrol gyntaf hanes caruaidd am flynyddau olaf bywyd ei dad, a'r hwn, ar ol hyny, a barodd i'r teithiau llai, yr un o *Downing i Alston Moor*, o *Alston Moor i Harrogate*, ac o *Lundain i'r Isle of Wight*, gael eu rhoddi i'r byd. Yn unol â dymuniad *Pennant* ei hun, nad oedd dyddlyfr ei deithiau ereill i gael eu cyhoeddi, y maent yn aros mewn ysgrifen; ynghyda chyfrolau lluosog o'r *Outlines of the Globe*, y rhai, ar eu penau eu hunain, a fuasent yn gofgolofnau ardderchog o'i ddiwydrwydd. Buasai rhoddi rhestr gyflawn o'i weithiau yn cymeryd gormod o le, ond y mae nifer digonol wedi eu nodi er cyfiawnhau y rhyfeddod a arddatganodd oblegyd lluosogrwydd ei gyhoeddiadau. Yr oedd ganddo amrywiol ddyledswyddau i'w cyflawni, y rhai y dywed yn hyderus na bu iddo eu hesgeuluso, "megys tad mewn teulu, meistr tir i nifer o dirddeiliaid bychain ond lluosog, ac yr oedd yn ustus heddwch heb fod yn anweithgar," ac yn ychwanegol at y materion pwysig hyn, ymffrostia na bu iddo, yn nghanol ei holl ymerlyniadau llywodraethol, erioed esgeuluso cwmniaeth ei gyfeillion llawen, na gochelyd cymdeithas y byd urddasol.

Ond er fod ei dymher fywiog yn peri ei fod yn gydymaith difyrus, yr oedd ei ddoethineb yn ei ddysgu i ochelyd gormodedd, ac yr oedd ei gymedroldeb ar hyd ei oes yn gyson. I hyn, ac i'r ymarferiad o farchogaeth yn ei deithiau eang, yn gystal ag i'w gyfansoddiad rhagorol, yr oedd yn ddyledus am y gyfran helaeth o iechyd a fwynhâi efe. Yr oedd o wynebpryd goleu, ychydig yn uwch

Digitized by Google

oa'r taldra cyffredin, ac arddangosir ei wynebpryd yn y ddau bortread a gymerwyd o hono ar wahanol adegau o'i fywyd, y rhai ydynt i'w gweled yn *Downing*. Yn y cyntaf o'r rhai hyn, arddangosir ef fel dyn ieuangc yn ngwisgddull Vandyke, ac yn gwisgo ei wallt ei hun. Yr arlunydd ydoedd Mr. Willis, yr hwn ar ol hyny a aeth yn glerigwr, ac y mae cerfiad oddiwrth yr arlun hwn wedi ei osod yn nechreuad yr argraffiad o'r *Teithiau yn Nghymru* yn 1810. Y darlun arall a baentiwyd yn 1776, pan yr oedd *Pennant* yn haner cant oed, ac yn awdwr llwyddiannus, ac adnabyddir ef yn dda wrth y cerfiad o hono sydd ar ddechreu ei *Literary Life*, copi o ba un a geir fel wynebddarlun i'r gyfrol bresenol. Yn y darlun rhagorol hwn, ymddengys fod Gainsborough wedi cwbl ddeall nodwedd y dyn a safai o'i flaen, ac y mae wedi ei dynu ef fel boneddwr o ddygiad da i fyny, heb fod yn anymwybodol o'i bwysigrwydd ei hun, ac wedi ei ddonio â dealltwriaeth tawel a threiddgar.

Y mae Dr. *Johnson*, tra yn canmol *Pennant* fel teithiwr, yn ei geryddu yn gryf fel *Whig*. Ac yn ei *Deithiau yn Ysgotland*, y mae yn ddiau wedi arddangos ei hun fel pleidiwr selog i dylwyth Hanover. Ymddengys fod ei deulu yn un Jacobinaidd, ond gallai ei fod ef wedi cymeryd ei olygiadau gwleidyddol oddiwrth deulu ei fam, neu oddiwrth ei ewythr, y Parch. *John Pennant*, yr hwn oedd yn gaplan i Dywysoges Cymru. Pa fodd bynag, yr oedd uwchlaw pobpeth yn bleidiwr i'r Cyfansoddiad. Yn 1779, ar adeg pan y tybid fod dylanwad y Goron wedi myned yn mhellach na'i therfynau priodol, efe a gymerodd ran mewn deiseb o sir Fflint, yr hon a gyfeirid yn erbyn gweinyddiaeth arglwydd *North*. Tra yn mhen ychydig flynyddoedd ar ol hyny, cawn ef yn collfarnu gweithrediadau terfysglyd y weinyddiaeth gydgorphoredig (*coalition*); ac yn etholiad cyffredinol 1784, efe a gyhoeddodd *Lythyr oddiwrth Rydd-ddeiliad Cymreig at ei Gynrychiolydd*, yr hwn a ysgrifenwyd yn union o flaen dadgysoddiad y Senedd ar y 25ain o Fawrth, yn mha un y mae yn gryf yn collfarnu y gwrthwynebiad i Mr. *Pitt*, ac yn condemnio *Indian Bill* nodedig Mr. *Fox*. O'r amser yma efe a barhaodd yn bleidiwr cyson i'r llywodraeth, ac yn 1792 efe a gymerodd ran flaenllaw yn ffurfiad cymdeithas o drigolion *Treffynon* a *Whiteford*, a phlwyfydd cymydogaethol yn sir *Flint*, er cefnogi sefydliadau y wlad, y rhai y tybiai eu bod yn cael eu bygwth yn dost y pryd hyny. Ceir hanes y Gymdeithas Deyrngarol hon yn yr Attodiad i'r *Literary Life*, ac y mae *Pennant* yn ei nodweddu fel ei orchwyl olaf a mwyaf rhagorol.

Bu i *Pennant* bedwar o blant. Trwy ei briodas âg *Elizabeth Falconer*, cafodd *David*, yr hwn a'i holynodd yn *Downing*, ac *Arabella*, yr hon a briododd *Edward Hanmer*, ysw., o *Stockgrove*. Trwy ei briodas â'i ail wraig, *Ann Mostyn*, yr hon a fu fyw ar ei ol, efe a gafodd ferch, *Sarah*, yr hon a fu farw yn yr oedran cynar o bedair blwydd ar ddeg, er mawr alar i'w rhieni, a mab,

Digitized by Google

*Thomas*, yr hwn a ddaeth yn beriglor *Weston Turville*, yn sir *Buckingham*. Y Parch. *Thomas Pennant*, yr hwn a fu farw yn 1846, yn 65 mlwydd oed, a briododd *Caroline*, merch i *Thomas Griffith*, ysw., o'r *Rhual*, ond ni adawodd blant ar ei ol o'i briodas.

Yr oedd *David Pennant*, yr hwn a olynodd yn *Downing*, yn etifeddu cariad ei dad at lenyddiaeth, a chyfran helaeth o'i allu. Apwyntiwyd ef yn unig gymunweinyddwr i lythyr cymun ei dad, ac yn un o warcheidwaid *Thomas*, ei frawd ieuengaf. Efe a ddygodd allan yr amrywiol weithiau a gyhoeddwyd ar ol marwolaeth *Pennant;* ac, fel y crybwyllwyd yn barod, yr oedd yn olygydd ei hun, neu ynte yn arolygu argraffiadau newyddion o amryw o'r *Teithiau*. Efe a gyhoeddodd, yn 1810, y *Teithiau yn Nghymru* yn dair cyfrol wythplyg, gyda nodiadau byrion a thra synwyrol. Yn yr argraffiad hwn, y mae y geiriad gwreiddiol, fel ag y sefydlasid arno gan *Pennant* yn 1784, yn cael cadw ato yn fanwl, gydag ychydig eithriadau dibwys; ond y mae gwelliant yn nhrefniad y gwaith wedi ei ddwyn oddiamgylch trwy symud hanes *Owain Glyndwr* i'r Attodiad, yr hwn ar y dechreu a ffurfiai ran o'r Daith gyntaf.

Yr oedd cais am gyhoeddi argraffiad wedi ei helaethu o'r *Teithiau yn Nghymru*, gyda matter ychwanegol gan *Fenton*, awdwr *Hanes Sir Benfro*, wedi ei wneyd yn flaenorol at *David Pennant*, gan ryw lyfrwerthwyr o *Lundain*, ond methwyd a dwyn hyny yn mlaen o herwydd ei wrthwynebiadau tra synwyrol ef. Ymddengys ei fod ef yn deall yn eglur fod gwaith ei dad yn werthfawr yn y ffurf yr ysgrifenwyd ef ganddo, ac nad oedd yn bosibl i unrhyw ymgais at ychwanegu matter newydd ato fod yn llwyddiannus. Pe buasai y *Teithiau yn Nghymru* yn cymeryd arnynt fod yn ddysgrifiad cyflawn o'r ardaloedd a drafaelid gan *Pennant*, dichon y buasai yn ddymunol gwneyd i fyny y diffygion yn ei hanes; ond gan nad ydynt ond cofnodiad yn unig o sylwadau teithiwr, yr hwn yn fwriadol a ddewisodd drosto ei hun y gwrthddrychau y barnai eu bod yn deilwng o sylw, a bod llawer o'u teilyngdod yn dibynu ar fyrder yr iaith, yr oedd barn *David Pennant*—yr hwn, o bawb dynion yn y byd, a wyddai yn oreu am olygiadau a dymuniadau ei dad—yn ddiau yn gywir, ac y mae yn haeddu canmoliaeth am wrthsefyll taer-geisiadau llyfrwerthwyr *Llundain*.

Rhoddodd *David Pennant*, yr hwn efallai yn anffodus ydoedd yn gasglydd yn hytrach nag awdwr, brawf o'i chwaeth a'i ymchwiliad trwy gyhoeddiad ysplenydd o "*Lundain*" ei dad, yr hwn a argraffwyd ganddo yn 1819 yn wyth gyfrol unplyg, dan yr enw *Some Account of London, by Thomas Pennant, Esq. Illustrated by his Son, David Pennant, Esq.**

* Ychydig o Hanes Llundain, gan Thomas Pennant, Ysw. Addurnedig gan ei Fab, David Pennant, Ysw.

Digitized by Google

Y boneddwr ooethedig hwn, enw pa un a haeddai gael ei gofio mewn cysylltiad âg eiddo ei dad hyglodus, a briododd *Louisa*, merch i Syr *Henry Peyton*, ac a fu farw yn 1841, yn 77 mlwydd oed, wedi gorfucheddu ei unig blentyn *David Pennant*, yr hwn a fu farw yn 1835.

Bu *David Pennant*, yr ieuengaf, ddwywaith yn briod. O'i wraig gyntaf, yr Arglwyddes *Caroline Spencer Churchill*, unig ferch pedwerydd duc *Marlborough*, efe a gafodd ferch, *Caroline*, yr hon a fu farw yn wyth mlwydd oed; ac o'i ail wraig, yr Arglwyddes *Emma Brudenel*, merch i'r chweched iarll *Cardigan*, efe a gafodd ferch arall, *Louisa*, yr hon a ddylynodd ei thaid yn yr etifeddiaethau.

*Louisa Pennant*, yr olaf o ddisgynyddion *Thomas Pennant*, a briododd yn 1846 â'r is-iarll *Feilding*, y presenol iarll *Dinbych*, ac a fu farw ar y laf o Fai, 1853, yn yr oedran cynarol o bedair ar hugain. Ni bu iddi blant; ac ar ei marwolaeth, aeth *Downing*, a chyfran fawr o'r etifeddiaethau, y rhai yr oedd ganddi awdurdod i'w cymunroddi, yn eiddo i'w phriod; tra yr aeth y gweddill o honynt, o dan ewyllys *David Pennant*, i berthynas o eiddo ei fam, Mr. *Philip Pennant Pearson*, yr hwn sydd wedi cymeryd i fyny enw yr hen deulu a ymgyfathrachodd â'i dylwyth ef ei hun.

Bu *Pennant* yn ffodus yn ei gyfeillion. Yn ei *Literary Life*, a *Hanes Whiteford*, y mae wedi dysgrifio llawer o honynt, rhai yn ddynion ardderchog ar eu cyfrif eu hunain, a rhai, fel *Moses Griffith*, a'i wasanaethwr *Ffrengig*, *Lewis Gould*, yn adnabyddus yn unig oherwydd eu cysylltiad âg ef. Aeth y rhan fwyaf o honynt i'r bedd o'i flaen ef: ac y mae ei lythyr cymun, yr hwn a wnaethpwyd yn y flwyddyn olaf o'i fywyd, yn cynwys amrywiaeth o gymunroddion, wedi eu gadael fel tystiolaeth o'i barch i'r rhai oeddynt y pryd hyny yn fyw. Y mae hefyd yn cynwys rhoddion o amryw flwydd-daliadau, a chymunrodd o £200 mewn ymddiriedolwyr i fab a merch *Moses Griffith*; a bydd i'r adranau canlynol, yn mha rai y mae y darpariadau hyn yn cael eu gwneyd, gael eu darllen gyda dyddordeb:—

"Yr wyf yn rhoddi ac yn gadael ar fy ol i *Anne King*, o *Richmond*, diweddar forwyn i *James Mytton*, yswain, un blwydd-dal neu ardreth blynyddol clir, neu swm o ddeg punt a deg swllt; ac yr wyf yn rhoddi ac yn gadael ar fy ol i *John Williams*, fy niweddar oruchwyliwr, a'i ddirprwywyr, am ac yn ystod parhad ei fywyd naturiol, un blwydd-dal neu ardreth blynyddol clir o ugain punt: ac i *Edward Jones*, fy ngoruchwyliwr, a'i ddirprwywyr, am ac yn ystod parhad ei fywyd naturiol, un blwydd-dal neu ardreth blynyddol clir neu swm o ugain punt.

"Yr wyf yn rhoddi ac yn gadael ar fy ol i *William Myddelton* o'r *Middle Temple*, yswain, a'r Anrhydeddus *Daines Barrington*, y swm o ddeg gini bob un. I *Philip Yorke*, yr hynaf, o *Erddig*, yswain, y cyffelyb swm. I'r Arglwyddes *(Amelia) Lloyd*, o *Bengwern*, y cyffelyb swm. I Mrs. *Havard* o *Dreffynon*, y dywededig *Paul Panton*,

Digitized by Google

*Thomas Thomas*, yswain, o *Downing*, y Parchedig *John Foulkes*, o *Mertyn*, y Parchedig *Hugh Davies*, o *Aber*, Mr. *George Paton*, o'r Tolldy, *Edinburg*, a Mr. *Ralph Richardson* o *Lanerchymor*, y swm o bum' gini bob un fel y byddo iddynt brynu rhywbeth er cof am fy serch. Ac hefyd, dri gini i'r un perwyl i'r Parchedig *Robert Williams*, diweddar gurad *Whiteford*. I'r Parchedig *Henry Parry*, o *Dreffynon*, yr wyt yn cymunroddi ugain punt. Yr wyf hefyd yn cymunroddi i bob gwasanaethydd a fyddo yn aros gyda mi ar fy ymadawiad, gyflog blwyddyn dros ben ac uwchlaw yr hyn a fyddo yn dygwydd i bob un o honynt. Y cymunroddion a nodwyd i gael eu talu ar derfyniad chwe' mis wedi fy marwolaeth.

"Yr wyf yn rhoddi ac yn gadael ar fy ol i fy mab *David Pennant*, a'r Parchedig *John Foulkes*, ficer *Whiteford*, a'r gorfucheddwr o honynt, a chymunweinyddwyr neu ddirprwywyr y cyfryw orfucheddwr, y swm o ddau cant o bunnau, Ar ymddiriedaeth y bydd i'm cyfryw ymddiriedolwyr, *David Pennant* a *John Foulkes*, a'r gorfucheddwr o honynt, ac ymddiriedolwyr neu ddirprwywyr y cyfryw orfucheddwr, gyflawni a darparu a gosod allan yr unrhyw er meithrin neu osod mewn masnach *Moses*, mab, a *Margaret*, merch *Moses Griffith*, o blwyf *Whiteford*, paentiwr, neu eu defnyddio mewn rhyw fodd arall at wasanaeth y dywededig *Moses* y mab, a *Margaret* y ferch, ar unrhyw gyfnod o'u bywydau."

Yn ei serch at ei noddwr, yr oedd *Moses Griffith* wedi gwrthod cynygion ar lawer o sefyllfaoedd mwy enillgar, a pharhaodd am oddeutu 50 o flynyddau yn ngwasanaeth *Pennant* a'i fab. Cafodd flwydd-dal gan *David Pennant*, pan ddaeth yn analluog i ddylyn ei alwedigaeth; a chafodd ei weddw hefyd flwydd-dal bychan. Bu farw yn *Whiteford* yn 1819, a chofnodir ei wasanaeth gan y beddargraff canlynol ar gareg ei fedd, yr hwn a ysgrifenwyd gan *David Pennant*.

"ER COFFADWRIAETH<br>AM<br>*Moses Griffith*, celfyddwr cywrain<br>hunan-addysgedig,<br>yr hwn a ddylynodd *Thomas Pennant*,<br>yr Hanesydd, yn ei Deithiau,<br>Gweithiau yr hwn a addurnodd<br>gyda'i bensyl ffyddlawn.<br>bu farw Tachwedd 11eg, 1819, yn 72 oed."

Y mae amser, yr hwn sydd yn cydlefelu pob rhagoriaethau, yn fynych yn gwrthosod pwysigrwydd perthynasol y meirw. Ac y mae y dyn athrylithgar a gostyngedig hwn, a dderbyniai gyflog gwas, yn wrthddrych mwy dyddorol i ni na neb o gymdeithion *Pennant*. Y mae ei "bensyl ffyddlawn" wedi dyogelu llawer o bethau a fuasent, hebddi hi, wedi eu colli. Bydd i'r dyeithryn a ymwela â *Whiteford*, gael ei daro gan y cyfnewidiadau a gymerasant le. Caiff fod

Digitized by Google

*Bychton* wedi ei droi yn fwthyn, a'r rhan fwyaf o'r hen dŷ wedi ei chwalu; tra y mae *Downing* wedi cael ei helaethu a'i gyfnewid yn fawr; a rhaid iddo droi drachefn at ddarluniau *Moses Griffith* er deall yn eglur beth a welwyd ac a ddysgrifiwyd gan *Pennant*.

Fel ysgrifenydd ar *Hanesiaeth Naturiol*, y mae *Pennant* wedi cael ei ganmol yn uchel am y rhwyddineb hapus â pha un y gallai greu dyddordeb yn ei ddarllenwyr, mewn materion a fuasent yn nwylaw ereill yn sychlyd a chrefftyddol. "Yr oedd ei gymeriad ef," medd un o'i edmygwyr, yr hwn oedd ei hunan yn naturiaethwr, "yn un na chair mo hono ond yn anfynych, yn uno y cymhwysiad dyfalaf gyda'r serch mwyaf anhunanol at lenyddiaeth; oblegyd yr oedd yn dal safle mewn cymdeithas a'i gosodai uwchlaw dyledswyddau beunyddiol awduraeth fel galwedigaeth. Pa beth bynag a gyffyrddai, efe a'i prydferthai; naill ai trwy geindlysedd ei iaith, yr engreifftiau hanesyddol a ddygai yn mlaen, neu ynte y swyn poblogaidd a roddai ar bethau a wyddid yn eithaf da yn flaenorol."

Os ystyrir ef fel teithiwr, y mae rhagoriaeth *Pennant* yn anwadadwy. Gellir addef ei fod, mewn rhai o'i weithiau, wedi benthyca yn rhy helaeth o lyfrau; ac fod ei *Daith i Lundain*, a'r *Teithiau* a gyhoeddwyd ar ol ei farw ef, i gyd yn syrthio lawer yn fŷr o ragoroldeb uwchraddol y *Teithiau yn Nghymru;* ac hyd yn nod yn hwn, ei waith mwyaf perffaith, nid yw y drydedd yn gyfartal i'r ddwy arall. Gellir addef hefyd ei fod ar brydiau wedi cael ei arwain i fod yn anghywir, ac nad oedd ei wybodaeth, gyda golwg ar hanes adeiladyddiaeth, yn fwy nag eiddo ei gydoesolion. Ond pan fyddo y pethau hyn, a phob addefiadau rhesymol ereill, wedi eu cydnabod, erys ei gymeriad ef yr un o hyd.

Bydd i farn alluog i wahaniaethu adnabod eangder ac amrywiaeth ei deilyngdod. Arddengys gywreinrwydd bywiog. Y mae yn sylwi mwy na'r rhan fwyaf o ddynion; ac y mae yn dysgrifio yr hyn y sylwa arno gyda chywirdeb a thlysni, yr hyn y bydd y rhai a'i dylynasant, ac a brofasant gywirdeb ei ddysgrifiadau, yn fwyaf galluog i'w werthfawrogi. Y mae yn ymogelyd rhag ysgrifenu yn aruchel, ac y mae ei arddull yn glir a diymhongar. Y mae brou yn rhydd oddiwrth falchder, ac nid yw byth yn blino ei ddarllenydd trwy siarad yn afreidiol am dano ei hun. Y mae yn ddiwyd yn ei ymchwiliad am wybodaeth, a gŵyr yn mha le i edrych am dano. Cymer fantais ar sylwadau teithwyr blaenorol, a darganfydda yr hyn sydd yn werth ei adrodd yn nodiadau sychion *Leland* a theithlyfr crwydrol *Giraldus*. Nid yw byth yn eu dyfetha wrth eu hadrodd. Y mae yn hynafiaethydd, yr hwn nad yw yn farwaidd; yn ddyn dysgedig, yr hwn sydd yn gydnabyddus â'r byd; ac yn ysgrifenydd, yr hwn nid yw byth yn ein blino, am ei fod yn gwybod, megys trwy fath o reddf, pa bryd y mae yn ddymunol iddo dewi. Dyma y pethau teilwng yr oedd yn

Digitized by Google

feddiannol arnynt, ac y maent yn cyfiawnhau canmoliaeth Dr. *Johnson*, yr hwn a ddywedodd mai *Pennant* ydoedd y teithiwr goreu a ddarllenodd efe erioed.

Wrth grynhoi yr hanes yma, mi a amcenais mor bell ag oedd yn fy ngallu i wneuthur cyfiawnder âg ysgrifenydd yr hwn sydd, yn ei linell ei hun o leiaf, o'r rhagoroldeb uchaf, ac i anrhydeddu boneddwr Cymreig, galluoedd mawrion yr hwn a ddefnyddiwyd yn llwyddiannus i eglurhau hanes ei wlad ei hun. Nid oes yn aros i mi ond talu diolch i'r personau hyny sydd wedi bod mor garedig a'm cynorthwyo yn yr hyn yr amcenais ato. Ac yn neillduol dymunaf ddatgan fy lluaws rhwymedigaethau i Iarll ac Is-iarlles *Dinbych;* Mr. *P. P. Pennant*, o *Nantllys;* y Parch. *T. Z. Davies*, ficer *Whiteford;* Mr. a Mrs. *Storey*, y rhai a breswyliant yn bresenol yn *Downing;* Mr. *E. G. Salisbury;* a'r teilwng, a'r mwyaf caredig o hynafiaethwyr, Mr. *Thomas Hughes*, F.S.A., o *Gaerlleon*.

Digitized by Google

# TEITH-RESTR.

## RHAN I.


| | Tudal. |
|---|---|
| Downing | 18 |
| Mynachlog y Maesglas | 29 |
| Treffynon | 34 |
| Fflint | 41 |
| Helygen | 58 |
| Llaneurgain | 64 |
| Pen-ar-lâg | 67 |
| Caerlleon | 78 |
| Farndon | 131 |
| Castell Lleon (Holt) | 132 |
| Bangor Iscoed | 143 |
| Overton | 145 |
| Ellesmere | 147 |
| Y Dref Wen | 152 |
| Croesoswallt | 157 |
| Selattyn | 165 |
| Castell y Waen | 169 |
| Llangollen | 176 |
| Rhiwabon | 179 |
| Gresford | 189 |
| Marchwiail | 192 |
| Llangollen | 192 |
| Llandysilio | 192 |
| Mynachlog y Groes | 193 |
| Bwlch y Rhiw Felen | 197 |
| Llandegla | 199 |
| Llanarmon | 200 |
| Llanferres | 205 |
| Y Wyddgrug | 206 |
| Caergwrle | 213 |
| Cilcen | 218 |
| Caerwys | 226 |


## RHAN II.


| | |
|---|---|
| Downing | 243 |
| Newmarket | 244 |
| Llanasaph | 244 |
| Prestatyn | 245 |
| Dyserth | 246 |
| Rhuddlan | 248 |
| Llanelwy | 253 |
| Tremeirchion | 256 |
| Bodfari | 258 |
| Dinbych | 264 |
| Henllan | 272 |
| Llansanan | 273 |
| Gwytherin | 274 |
| Dinbych | 276 |
| Llanrhaiadr | 276 |
| Rhuthyn | 277 |
| Llanrhudd | 280 |
| Corwen | 283 |
| Cynwyd | 285 |


Digitized by Google

| | Tudal. |
|---|---|
| Llandrillo | 285 |
| Llandderfel | 286 |
| Bala | 287 |
| Cerig y Druidion | 291 |
| Llanuwchllyn | 292 |
| Llanymawddwy | 295 |
| Mallwyd | 297 |
| Dolgellau | 299 |
| Cader Idris | 300 |
| Tywyn | 303 |
| Talyllyn | 304 |
| Llanelltyd | 306 |
| Mynachlog y Cymmer | 306 |
| Pistyll Cain | 307 |
| Castell Prysor | 308 |
| Abermaw | 310 |
| Cors-y-gedol | 313 |
| Drws Ardudwy | 315 |
| Cwm Bychan | 316 |
| Harlech | 319 |
| Llyn Tegwyn | 323 |
| Tanybwlch | 323 |
| Ffestiniog | 324 |
| Llyn Conwy | 325 |
| Yspytty | 326 |
| Rhaiadr Conwy | 326 |
| Bettws-y-coed | 327 |
| Pont y Pair | 327 |
| Castell Dolwyddelen | 328 |
| Rhaiadr y Wennol | 329 |
| Llanrwst | 331 |
| Trefriw | 333 |
| ERYRI— | |
| Llyn Geirionydd | 334 |
| Capel Curig | 335 |
| Glyder Fach | 335 |
| Llyn Ogwen | 336 |
| Cwm Idwal | 337 |
| Glyder Fawr | 338 |
| Llyn y Cŵn | 338 |
| Nant-beris | 339 |
| Y Wyddfa | 341 |
| Gorphwysfa | 347 |
| Cwm Dyli | 348 |
| Llyn Dyli | 348 |
| Llyn Llydaw | 348 |
| Ffynhon Lâs | 348 |
| Nant Gwynant | 349 |
| Dinas Emrys | 349 |
| Beddgelert | 350 |
| Llyn Cawellyn | 352 |
| Llyn y Dywarchen | 352 |
| Drws y Coed | 352 |
| Beddgelert | 353 |
| Pont Aberglaslyn | 353 |
| Traeth Mawr | 354 |
| Penmorfa | 356 |
| Cricaeth | 358 |
| Pwllheli | 360 |
| Aberdaron | 361 |
| Ynys Enlli | 361 |
| Nefyn | 365 |
| Tre'r Caeri | 367 |
| Clynnog | 368 |
| Dinas Dinlle | 370 |
| Caernarfon | 372 |
| YNYS FON | 378 |
| Niwbwrch | 378 |
| Llanddwyn | 380 |
| Aberffraw | 381 |
| Llanidan | 381 |
| Tre'r Dryw | 382 |
| Moel y Don | 384 |
| Porthaethwy | 387 |
| Biwmaris | 389 |
| Ynys Seiriol | 394 |


Digitized by Google

| | Tudal. |
|---|---|
| Plas Gwŷn | 396 |
| Llaniestyn | 397 |
| Penmynydd | 397 |
| Tregarnedd | 399 |
| Mynydd Parys | 402 |
| Amlwch | 406 |
| Ynys y Skerries | 407 |
| Caergybi | 408 |
| Llantrisant | 411 |
| Bangor | 412 |
| Castell y Penrhyn | 415 |
| Llandegai | 421 |
| Carnedd Llewelyn | 423 |
| Carnedd Dafydd | 424 |
| Aber | 425 |
| Penmaen Mawr | 426 |
| Conwy | 431 |
| Caer Hên | 437 |
| Bodscallan | 438 |
| Gloddaeth | 438 |
| Llandudno | 442 |
| Llandrillo | 444 |
| Abergeleu | 444 |
| Rhuddlan | 448 |


RHAN III.


| | Tudal. |
|---|---|
| Downing | 453 |
| Rhuthyn | 453 |
| Corwen | 453 |
| Milldir Gerryg | 454 |
| Llangynog | 454 |
| Pennant Melangell | 454 |
| Pistyll Rhaiadr | 456 |
| Llanfyllin | 457 |
| Meifod | 457 |
| Mathrafal | 459 |
| Cregynog | 459 |
| Y Dref Newydd | 462 |
| Carno | 464 |
| Llanddinam | 464 |
| Llanidloes | 465 |
| Bettws | 466 |
| Chirbury | 467 |
| Trefaldwyn | 467 |
| Castell Powys | 471 |
| Y Trallwng | 473 |
| Llanymynach | 474 |
| Shrawardine | 479 |
| Yr Amwythig | 481 |
| Longnor | 494 |
| Caer Caradog | 497 |




Digitized by Google

Digitized by Google

# RHESTR O'R DARLUNIAU.

## RHAN I.


| Rhif. | | Tudal. |
|---|---|---|
| I. | Darlun o THOMAS PENNANT, Ysw., (Wynebddalen) ... ... | |
| II. | MAEN ACHWYNFAN ... ... ... ... ... ... ... | 24 |
| III. | Y WHIFF (math o Bysgodyn) ... ... ... ... ... | 29 |
| IV. | Ffynhon a Chapel GWENFREWI ... ... ... ... ... | 35 |
| V. | Hynafiaethau RHUFEINIG ... ... ... ... ... ... | 56 |
| VI. | Hynafiaethau RHUFEINIG ... ... ... ... ... ... | 56 |
| VII. | Beddau yn LLANEURGAIN ... ... ... ... ... ... | 64 |
| VIII. | Cyfran o Gastell PEN-AR-LAG ... ... ... ... ... | 68 |
| IX. | Plan o Gastell PEN-AR-LAG ... ... ... ... ... ... | 73 |
| X. | Porth RHUFEINIG yn NGHAERLLEON ... ... ... ... | 80 |
| XI. | Allorau a gafwyd yn NGHAERLLEON ... ... ... ... | 82 |
| XII. | Castell CAERLLEON yn 1777 ... ... ... ... ... | 107 |
| XIII. | Castell LLEON (HOLT) yn 1610 ... ... ... ... ... | 132 |
| XIV. | Plan o GASTELL LLEON ... ... ... ... ... ... | 132 |
| XV. | Cauadau Eirch a gafwyd yn MANGOR ISCOED ... ... ... | 144 |
| XVI. | Y Fwltur ANGOLAIDD ... ... ... ... ... ... | 146 |
| XVII. | CROESOSWALLT yr Amser Gynt ... ... ... ... ... | 163 |
| XVIII. | Piler ELISEG ... ... ... ... ... ... ... ... | 195 |


## RHAN II.


| | | |
|---|---|---|
| XIX. | Pistyll CAIN (cyfeiriad, tudal. 307)... ... ... ... ... | 241 |
| XX. | Cader IDRIS ... ... ... ... ... ... ... ... | 300 |
| XXI. | Pistyll MAWDDACH ... ... ... ... ... ... ... | 307 |
| XXII. | Drws ARDUDWY ... ... ... ... ... ... ... | 315 |
| XXIII. | Castell HARLECH ... ... ... ... ... ... ... | 319 |


Digitized by Google

| | Page |
|---|---|
| [illegible] | 321 |
| [illegible] | 324 |
| [illegible] | 327 |
| [illegible] | 335 |
| [illegible] | 336 |
| [illegible] | 339 |
| [illegible] | 342 |
| [illegible] | 349 |
| [illegible] | 349 |
| [illegible] | 385 |
| [illegible] | 387 |
| [illegible] | 394 |
| [illegible] | 408 |
| [illegible] | 412 |
| [illegible] | 431 |
| [illegible] | 432 |

| | |
|---|---|
| [illegible] | 471 |
| [illegible] | 485 |
| [illegible] | 487 |
| [illegible] | 569 |
| [illegible] | 577 |
| [illegible] | 589 |
| [illegible] | 594 |


Digitized by Google

# MYNEGAI O GYNWYSIAD YR ATTODIAD.


Tudal.

I.—Beddargraff yn Mynachlog y Maesglas ... ... ... ... 503

II.—Taflen o'r Llwythi a anfonwyd allan ac a ddygwyd i mewn i borthladd Caerlleon, o 1771 i 1806 ... ... ... ... 504

III.—Dyfyniadau allan o Draethawd mewn llawysgrifen, yn nghylch Arglwyddi Cyffindirol Cymru, yr hwn a ysgrifenwyd yn mis Awst 1740 ... ... ... ... ... ... ... ... ... 506

IV.—Yr hanes a ddyry Syr Jeffry Shakerley, yn mherthynas i frwydr Morfa Rowton, ger Caerlleon ... ... ... ... ... ... 515

V.—Beddargraff ar y Milwriad Robinson, yn Eglwys Gresford ... 517

VI.—Llw Edward Broughton, Yswain ... ... ... ... ... ... 517

VII.—Am Owain Glyndwr ... ... ... ... ... ... ... ... 519

VIII.—Rhoddiad i fyny Gastell Dinbych ... ... ... ... ... ... 555

IX.—Dechreuad Gweision y Sirydd yn Ngogledd Cymru ... .. 559

X.—Cyfarwyddiadau Syr John Wynn, o Wydir, i'w Gaplan, John Price, pa fodd i ymddwyn yn ei wasanaeth ef ... ... 560

XI.—Rhestr o Wisgoedd Syr John Wynn ... ... ... ... ... ... 561

XII.—Cerfiad ar Gofadail i deulu Gwydir, yn Eglwys Llanrwst ... 562

XIII.—Llythyrau Syr John Wynn ... ... ... ... ... ... ... 563

XIV.—Gwarant am Garw o Goedwig y Wyddfa 4 Gorphenaf, y flwyddyn 1af o deyrnasiad y Frenines Elisabeth ... ... 566

XV.—Sylwadau ar y "Pysgodyn Cegddu Triflorchog," "Morgi Biwmaris," a'r "Morris," gan y Parchedig Hugh Davies ... 567

XVI.—Hanes Syr Rhisiart Bulkeley; yn mha un y ceir dysgrifiad cryf o orthrwm y ffafryn Iarll Leicester ... ... ... ... 571

XVII.—Sylwadau ar gyflwr presenol Mynydd Parys, wedi ei ysgrifenu gan Mr. Price, goruchwyliwr ... ... ... ... ... 574

XVIII.—Llythyr yr Archesgob Williams, tra yn Gymrawd o Goleg St. Ioan, Caergrawnt ... ... ... ... ... ... ... ... 578

XIX.—Llythyr Esgob Lincoln (Williams) at Syr John Wynn o Wydir, Barwniad, wedi i'w arglwyddiaeth golli y Sêl Fawr ... 579


Digitized by Google

| Rhif. | | Tudal. |
|---|---|---|
| XXIV. | Torchau | 321 |
| XXV. | Pwlpud Huw | 324 |
| XXVI. | Rhaiadr y Conwy | 327 |
| XXVII. | Y Wyddfa o Gapel Curig | 335 |
| XXVIII. | Trefaen a rhan o Lyn Ogwen | 336 |
| XXIX. | Nant Beris a rhan o'r Glyder a'r Grib Goch | 339 |
| XXX. | Y Wyddfa o Gwm y Glo | 342 |
| XXXI. | Llyn Gwynant | 349 |
| XXXII. | Llyn Gwynant a Moel Hedog | 349 |
| XXXIII. | Eglwys Llanfair a'r Plas Newydd | 385 |
| XXXIV. | Porthaethwy | 387 |
| XXXV. | Hebog Ynys Seiriol | 394 |
| XXXVI. | Eglwys Caergybi | 408 |
| XXXVII. | Eglwys Gadeiriol Bangor | 412 |
| XXXVIII. | Plan o Dref a Chastell Conwy | 431 |
| XXXIX. | Cyfran o Gastell Conwy | 432 |

## RHAN III.

| | | |
|---|---|---|
| XL. | Castell Powys yn 1777 | 471 |
| XLI. | Yr hen Bont Gymreig yn yr Amwythig | 485 |
| XLII. | Pwlpud yn yr Amwythig | 487 |
| XLIII. | Y Porbeagle, a Morgwn Biwmaris | 569 |
| XLIV. | Cynllun o Odyn yn Mynydd Parys | 577 |
| XLV. | Pais-Arfau Pum' Llwyth Breninol Cymru | 589 |
| XLVI. | Pais-Arfau Pymtheg Llwyth Gwynedd | 594 |

Digitized by Google

# MYNEGAI O GYNWYSIAD YR ATTODIAD.


Tudal.

I.—Beddargraff yn Mynachlog y Maesglas ... ... ... ... ... 503

II.—Taflen o'r Llwythi a anfonwyd allan ac a ddygwyd i mewn i borthladd Caerlleon, o 1771 i 1806 ... ... ... ... 504

III.—Dyfyniadau allan o Draethawd mewn llawysgrifen, yn nghylch Arglwyddi Cyffindirol Cymru, yr hwn a ysgrifenwyd yn mis Awst 1740 ... ... ... ... ... ... ... ... 506

IV.—Yr hanes a ddyry Syr Jeffry Shakerley, yn mherthynas i frwydr Morfa Rowton, ger Caerlleon ... ... ... ... ... ... 515

V.—Beddargraff ar y Milwriad Robinson, yn Eglwys Gresford ... 517

VI.—Llw Edward Broughton, Yswain ... ... ... ... ... 517

VII.—Am Owain Glyndwr ... ... ... ... ... ... ... 519

VIII.—Rhoddiad i fyny Gastell Dinbych ... ... ... ... ... 555

IX.—Dechreuad Gweision y Sirydd yn Ngogledd Cymru ... .. 559

X.—Cyfarwyddiadau Syr John Wynn, o Wydir, i'w Gaplan, John Price, pa fodd i ymddwyn yn ei wasanaeth ef ... ... 560

XI.—Rhestr o Wisgoedd Syr John Wynn ... ... ... ... ... ... 561

XII.—Cerfiad ar Gofadail i deulu Gwydir, yn Eglwys Llanrwst ... 562

XIII.—Llythyrau Syr John Wynn ... ... ... ... ... ... ... 563

XIV.—Gwarant am Garw o Goedwig y Wyddfa 4 Gorphenaf, y flwyddyn 1af o deyrnasiad y Frenines Elisabeth ... ... 566

XV.—Sylwadau ar y "Pysgodyn Cegddu Triflorchog," "Morgi Biwmaris," a'r "Morris," gan y Parchedig Hugh Davies ... 567

XVI.—Hanes Syr Rhisiart Bulkeley; yn mha un y ceir dysgrifiad cryf o orthrwm y ffafryn Iarll Leicester ... ... ... ... ... 571

XVII.—Sylwadau ar gyflwr presenol Mynydd Parys, wedi ei ysgrifenu gan Mr. Price, goruchwyliwr ... ... ... ... ... 574

XVIII.—Llythyr yr Archesgob Williams, tra yn Gymrawd o Golog St. Ioan, Caergrawnt ... ... ... ... ... ... ... ... 578

XIX.—Llythyr Esgob Lincoln (Williams) at Syr John Wynn o Wydir, Barwniad, wedi i'w arglwyddiaeth golli y Sêl Fawr ... 579


Digitized by Google

Tudal.

XX.—Cyfrif o'r Pytatws a drosglwyddwyd allan o borthladd Conwy, yn dangos fel y tyfir y gwreiddyn gwasanaethgar hwn mewn cylch mor fychan ... ... ... ... ... ... 580

XXI.—Llythyr oddiwrth Edward, Iarll Conwy, yn nghylch Di-doi, &c., Castell Conwy ... ... ... ... ... ... ... 581

XXII.—Haelioni yn Bodscallan yn ystod amser y diweddar Robert Wynn, ysw. ... ... ... ... ... ... ... ... 581

XXIII.—Anerchiad Trigolion sir Gaernarfon at Rhisiart Cromwel ... 583

XXIV.—Siartr Gwenwynwyn i Fynachod Ystrad Marchell ... ... 584

XXV.—Beddargraff Thomas Pennant yn Eglwys Whiteford ... ... 584

XXVI.—Amddiffyniad Thos. Pennant rhag y Press Gangs, neu Ladron Dynion ... ... ... ... ... ... ... ... ... 585

XXVII.—Adroddiad, wedi ei dynu allan gan Richard Fenton, hanesydd sir Benfro, ynghylch cynygiad at ddwyn allan argraffiad wedi ei helaethu o daith Pennant yn Ngogledd Cymru ... ... 585

XXVIII.—Y "Llwythau Breninol a Phendefigol." Gyda Rhagarweiniad gan W. Trevor Parkins, ysw. ... ... ... ... ... ... 586

Y Pum' Llwyth Breninol ... ... ... ... ... ... 589

Pymtheg Llwyth Pendefigol Gwynedd ... ... ... ... 594

Llwyth y Cyffiudiroedd ... ... ... ... ... ... 607

Digitized by Google

# RHAN I

---

O DOWNING TRWY GAERLLEON,

CAERLLEON, BANGOR IS-Y-COED,

OVERTON, ELLESMERE,

Y DREF WEN, CROESOSWALLT, CASTELL Y WAEN,

LLANGOLLEN, GWRECSAM.

GLYNDYFRDWY, LLANARMON, YR WYDDGRUG,

A CHAERWYS. I DOWNING.

Digitized by Google

Digitized by Google

# HYNAFIAETHAU PENNANT.

## Y DAITH GYNTAF YN NGOGLEDD CYMRU,

### MDCCLXXIII.

Yr wyf yn traethu yn bresenol am fy ngenedigol wlad, yr hon sydd yn hynod yn ein hanesion boreuaf am ei dewrder, a'i hymlyniad wrth ryddid; am y gwrthsafiad a wnaeth yn erbyn y Rhufeiniaid; am laddedigaeth eu llengau,* ac am eu darostyngiad gan Agricola, yr hwn ni feiddiai fyned rhagddo yn ei ymgyrch yn erbyn Ysgotland, a gadael o'i ol heb ei orchfygu y fath elyn ofnadwy.

Pan diriodd ein goresgynwyr cyntaf yn Mhrydain Fawr, yr oedd Gogledd Cymru yn meddiant y Gordofigion, enw a ddeillia o iaith y wlad, ac yn gosod allan ei sefyllfa;† y mae bron yn gwbl wedi ei hamgau gan yr afon *Deva*, neu *Dee* yn ol yr iaith ddiweddar, a chan afon arall o'r enw *Dyfi*.‡ Y mae y naill yn ymarllwys i Fôr y Werydd islaw Caerlleon, a'r llall i'r un môr ar gyffiniau sir Aberteifi.

Ni ddarfu i'r yspryd a arddangosodd y trigolion ar y cyntaf eu gadael hyd y diwedd. Er iddynt gael eu gorfodi i ymostwng i allu anorchfygol y Rhufeiniaid, eto ni ymollyngasant i fod yn ysglyfaeth i swynion moethau, megys ag y gwnaeth cenedloedd ereill yn yr ynys hon; ni ddarfu iddynt erioed, trwy ymbiliau gwrageddos, ymofyn cymhorth eu goresgynwyr pan oeddynt yn eu gadael, ac ni suddasant ychwaith o dan orthrwm eu goresgynwyr newyddion; cadwasant ddewrder i fyny yn nghanol eu creigiau cynhenid, a derbynient i'w plith y ffoadigion anrhydeddus, gan fod yn ddedwydd ynghanol brodyr cydnaws. Ni allodd y Saeson er cryfed oeddynt, wneyd unrhyw argraff ar ein gwlad am fwy na thri chant o flynyddoedd, hyd yn nod ar ein hiseldiroedd. *Offa* oedd y cyntaf a ymestynodd ei derfynau rai milldiroedd o fewn ein cyffiniau. Ond ni bu ei oresgyniad namyn am fŷr amser; oblegyd yr oedd Caer-

* Vita Agricolæ.

† Nid yw hyn yn gwbl gywir, gan y dywedir fod y *Gordofigiaid* yn cyrhaedd o'r *Dyfrdwy* i'r *Teifi*, ac hyd yn nod i'r *Gwaun*, gerllaw *Abergwaun;* a dichon fod eu henw yn arwyddo gorddwyr, o'r gair *ord*, yn bresenol *gordd*, *morthwyl (mallet)*. Y morthwylion cerig addurnedig a northol, a ddarganfyddwyd mewn hen weithydd, efallai oeddynt yr offer rhyfel a feddylir. J.R.

‡ Mr. Llwyd in Camden, ii. 778.



Digitized by Google

lleon, prif ddinas y Cornavii, yn ein meddiant hyd y fl. 883, pryd y treisiwyd hi oddiarnom gan allu unedig y Saith Deyrnas *(Heptarchy)* o dan y galluog Egbert. Y mae yn wir fod hyn wedi cwtogi ein terfynau, ond ni ddarostyngodd ein hyspryd. Gyda gwroldeb anhafal nyni a gadwasom ein hannibyniaeth am bedair canrif yn mhellach, yn erbyn gallu teyrnas ag oedd yn fwy na deuddeg gwaith o faintioli Cymru: ac yn y diwedd, cawsom yr anrhydedd o syrthio, pan oedd y wlad wedi ymranu yn ei herbyn ei hun, o dan arfau y mwyaf doeth, a'r mwyaf rhyfelgar, o'r penaduriaid Seisonig.

*Sir Fflint.*] Yr wyf yn naturiol yn dechreu fy nhaith yn y fan lle y'm ganwyd, *Downing*, yn nhref-ddegwm Eden-Owain,* yn mhlwyf y Rhydwen (*Whiteford*,) yn sir Fflint. Er mwyn cael golygiad cyffredinol am y sir, rhaid i'r darllenydd ddeall mai hi ydyw y leiaf o ddeuddeg sir Cymru. Golchir ei hochr ogleddol gan fraich o'r afon Dyfrdwy—y *Seteia Estuarium*† a grybwyllir gan Ptolemy. Y mae y tir yn codi yn sydyn o lan y môr mewn amrywiadau prydferth, yn gleiog, ac yn gyfoethog mewn ŷd a phorfa, am ddwy, tair, neu bedair milldir, hyd at randir mynyddig sydd yn rhedeg yn gyfochrog âg ef am gryn bellder.

Y mae y rhan isaf yn cael ei gwahanu gan gymoedd prydferth, y rhai a redant i lawr o'r mynyddoedd, gan ymagor i'r môr, ac yn llawnion o goed derw. Y rhanau iselaf a gynwysant gyflawnder o lo a thywodfaen; y rhanau uchaf fwneion plwm ac alcan, a haenau anferth o geryg calch a challestr. Prif fasnach y sir ydyw cloddio a thoddi mwnau.

Y parth gogleddol o sir Fflint sydd yn wastadedd, ac y mae yn dra chyfoethog o ŷd, yn enwedig gwenith, yr hwn yn gyffredin a gludir i Lerpwl. Y mae y sir, yn y rhan fwyaf o leoedd, yn codi mwy nag sydd yn angenrheidiol at wasanaeth y trigolion. Y mae yn dra phoblog; ac yn y parthau mwneiol gwneir hwy i fyny o bobl gymysg, tadau a theidiau y rhai a ddaethant yno er mwyn cael gwaith, allan o'r siroedd Seisonig lle y mae mwnau yn cael eu gweithio; llawer o blant pa rai, yn enedigol o famau Cymreig, ydynt wedi llwyr golli iaith eu tadau.

Y mae rhês uchel o fynyddoedd yn codi ar y tu gorllewinol, ac yn ffurfio terfynlin mawreddog. Dyfrheir ein sir gan amryw afonydd bychain; megys yr *Alun*, y *Terig*, a'r *Wheeler;* parth o'i therfyn gorllewinol gan y *Clwyd;* a Maelor, rhan anghysylltiol o'r sir, gan y *Ddyfrdwy.*

Nid ydym yn gwybod beth oedd enw clasurol y rhandir fechan hon. Yr oedd y Gordofigion, o wlad pa rai yr oedd yr oll i'r gorllewin i sir Gaerlleon yn ffurfio rhan, yn ddosparthedig yn amser y Rhufeiniaid, yn ol pob tebygolrwydd, fel ag yr oedd y gweddill o'r wlad. Yr oedd ganddynt eu *Harglwyddi,* y rhai a lywodraethent dros randiroedd bychain fel y rhai hyn, ond ymunent o dan un penaeth cyffredinol, yn ol fel y byddai galwad yr amserau. Yr oedd y rhaniadau hyn yn gwanychu y wladwriaeth, yn amharu ei llesiant cyffredinol, ac yn rhwyddhau ei goresgyniad gan yr estroniaid cyntaf a ddeuent.

* Dichon mai math o sain esmwythaol o'r enw a sillebir yma yn lled ddarfelyddol *Eden-Owain* ydyw *Downing.* Tra yn barod i addef ei fod yn *Eden* fechan, eto rhaid i'r Golygydd edrych arno fel enw dyn, ac yn cael ei ysgrifenu yn fwy cyffredin yn *Ednowain,* neu *Ednywain;* dichon mai yr enw yn llawn oedd *Bod-* neu *Lys- Ednywain.* J. R.

† Credir yn bresenol mai genau y *Mersey* ydoedd y *Seteia Æstuarium.* J. R.

Digitized by Google

Y mae enwau y rhandiroedd hyn yn awr yn anhysbys. *Gwynedd* yw yr enw hynaf a feddwn am Ogledd Cymru. Y rhandir yr wyf fi yn preswylio ynddi a elwid *Tegangle,** yr hyn a gynwysa y tri chantref presenol, a elwir *Coleshill, Prestatyn,* a *Rhuddlan.* Y mae yr enw yn cael ei gadw yn mharthau mynyddig Whiteford, a rhai plwyfi ereill, hyd y dydd hwn, lle y dywedir *Mynydd Tegangle.* Yr wyf fi yn gwrthod y cyfieithiad o *Tegengle* i *Fair England* fel bastarddair. Y mae y gair yn hynach o lawer; tardda oddiwrth y *Cangi* neu *Ceangi,* dosparth o bobl, yn ol y dysgedig Baxter, a berthynent i bob cenedl Brydeinig, y rhai a arolygent y diadelloedd, ac a breswylient gyda hwynt mewn gwahanol borfeydd ar wahanol adegau o'r flwyddyn. Yr oedd gan y *Cornavii* eu *Ceangi,* a gauafent yn Wiral, ond preswylient yn yr haf yn Tegangle; yr hwn air a dardda o *Teg,* prydferth; *Cang,* enw y bobl; a *Lle.* Er cadarnhau hyn, gellir sylwi fod hyd heddyw wastadedd yn mhlwyf Caerwys, rhan o'r hen *Degangle,* a cher llaw y mynydd hwn, yn dwyn yr enw *Maes Can Hafod;* ac am y rheswm yma yr wyf anghytuno â Mr. Baxter, yn ei syniad am breswylfeydd hafaidd y *Cangi*† yma. Y mae efe yn eu gosod gerllaw y *Canganorum*‡ *Promontorium,* neu Ben Braich y pwll yn Sir Gaernarfon; ond *Cangi* y Gordofigion oedd y rhai hyny; a'r rhai hyn yn eiddo y *Cornavii.*

Gellir sylwi yma fod ein gwlad ni, yn groes i'r hyn a ddygwydd i'r rhan fwyaf o'r cenedloedd a ddarostyngir, wedi cadw ei hiaith ei hun; a bu y goresgynwyr yn ddigon difalch i fabwysiadu enwau y trefydd a'r bobl Brydeinig, gan eu Lladineiddio oddiwrth y geiriau gwreiddiol. Fel hyn y daeth LONDINIUM o LUNDEIN,§ sef LLONG DIN, neu DINAS, dinas y llongau,‖ ar gyfrif ei thrafnidiaeth eang;¶ DEVA, am ei bod yn sefyll ar yr afon *Deva* (Dyfrdwy;) DUNMONII** oddiwrth *Dun-mwyn,* neu fryn o fwneion; BRIGANTES oddiwrth *Brig,* neu y rhai penaf o ddynion; CORITANI,†† neu yn hytrach COETANI, oddiwrth *Coed.*‡‡ Ar ymadawiad y Rhufeiniaid, darfu am yr enwau Lladin, oddigerth mewn ychydig engreifftiau; ond y gweddill o'r Brytaniaid, y rhai a ymostyngasant i iau y Saeson, a dderbyniasant enwau y lleoedd y preswylient ynddynt oddiar ddwylaw eu gorchfygwyr.

* Y dull mwyaf cyffredin o'i sillebu ydyw *Tegeingl,* yr hyn sydd yn edrych yn fwy tebyg fyth i *Teg-Anglia;* ond gallai y tarddiad fod o'r gair Cymraeg *ongl,* yna buasai yr enw yn golygu *Fair Corner,* neu *Fair Angle.* Ond y mae yn fwy tebyg fyth ei fod yn bytholi enw pobl hynafol y bydd crybwylliad am danynt yn union. J.R.

† Y mae bodolaeth y *Cangi* braidd yn amheus: y darn yn *Tacitus,* lle byddem yn arfer darllen gynt *inde Cangos,* nid yw yr ysgrifenwyr goreu yn awr yn son am dano ond fel *in Decangos,* yr hyn a fyddai yn gyfystyr â'n ffurf ddiweddar o hono, *Tegeingl.* J.R.

‡ *Ganganorum Promontorium* a fyddai yn nês i'r cynaniad a olygir: parhaodd yr enw hyd *Fabinogi Culhwch ac Olwen,* fel *Pentir Ganion,* neu *Benrhyn Ganion.* J.R.

§ Y mae tarddiad arall, sef *Llyn-din,* neu y ddinas ar y llyn, yn cael ei roddi gan *Mr. Pennant,* yn ei *Hanes Llundain,* tud. 14. GOL.

‖ Ni fydd i'r tarddiad yma o *llong,* wrth gŵrs, ddim sefyll, a rhaid chwilio yn mhellach am eglurhad ar y gair. Gallasai *Mr. Pennant* ychwanegu fod y *Rhufeiniaid* wedi meddwl y byddai i'r enw *Augusta,* yr hwn a roddasent hwy i *Lundain,* ddileu am byth yr enw *Londinium.* J.R.

¶ *Camden,* I. 370.

** Nis gallasai dim fod yn fwy arddunol, ond yr wyf yn ofni na bydd iddo sefyll; ymddengys mai yr enw oedd *Dumnonii;* a siaradai y Cymry am eu gwlad fel *Dyfneint.* J.R.

†† Byddai hyn yn dra chyfleus at y geirddarddiad; ond ymddengys na fu erioed yn enw arnynt. J.R.

‡‡ *Mr. Pegge*

Digitized by Google

Darostyngwyd sir Fflint yn gyfangwbl gan y Saeson yn union ar ol iddynt gymeryd Caerlleon, yn amser Egbert. Yr oedd yn wlad agored, ac, yn annhebyg i fanau ereill yn Ngogledd Cymru, yn amddifad o greigiau anhygyrch, a mynyddoedd, ac o ganlyniad yn analluog i amddiffyn ei hun yn erbyn gelyn mor gryf. Y buddugoliaethwyr, yn ol eu harfer, a ail-enwasant y trefydd, y pentrefydd, a'r llanau; ond nis gallent ddileu yr hen enwau. Felly y mae *Hawarden* yn cael ei hadnabod o hyd yn mhlith y Cymry wrth yr enw *Penar-lâg*, neu *Halawg; Mold* wrth yr enw *Y Wyddgrug;* a *Hope* wrth yr enw *Estyn;* yr hyn (gyda pharhad ein hiaith hyd y dydd hwn) a brofa nad oedd ein hiaith ni yn cael ei chymysgu ond i raddau bychain âg ieithoedd ein gorchfygwyr. Sefydlwyd niferi o Saeson yn ein plith, y rhai a ddalient eu tiroedd gan lywyddion neu iarllod Mers; yr ŷdym yn cael yn y *Doomsday Book** lawer o enwau y rhai ag oedd ganddynt feddiannau yn y rhanbarth hwn; megys *Ulbert*, *Osmer*, ac *Elmer*.

*Doomsday Book.*] Y sylw cyntaf am unrhyw israniad o sir Fflint a ganfyddir ar ddalenau y *Doomsday Book*. Pan wnaethpwyd yr arolygiad hwnw, fe'i gwnaed yn rhan o sir Gaerlleon, i ba un yr ystyrid ei bod yn perthyn, trwy gongcwest. Y mae hen ysgrifau yn cadarnhau fod *Sir Fflint yn perthyn i urddas cleddyf Caerlleon.* Darostyngwyd hi yn fuan gan Robert de Rothelent, y penciwdawd o dan Huw Lupus (Huw y Blaidd,) yr hwn a gariodd ei arfau yn mhell i Gymru; a chadarnhaodd ei orchfygiadau yn y cyffindiroedd trwy adeiladu, neu yn hytrach trwy ychwanegu gweithiau newyddion at gastell Rhuddlan, yr hwn a enillasai oddiar un o'n tywysogion.

Ystyrid y rhandir a ymestynai o Gaerlleon hyd yr afon Clwyd, y pryd hyny, fel cantref o Sir Gaerlleon, a gelwir hi yn y *Doomsday Book*, yn Gantref Atiscros. Y mae llaweroedd o leoedd ereill sydd yn aros hyd y dydd hwn yn cael eu crybwyll ynddo, ond fod y sillebiaeth Normanaidd yn tywyllu llawer arnynt. Gelwir *Whiteford* yn *Widford;* sylwir hefyd ar rai o'n trefydd-degwm presenol, megys *Tre-mostyn*, *Tre-bychton*, a *Merton*, o dan yr enwau *Mostone*, *Putecaine*, a *Meretone*. Yr oedd *Mostone* y pryd hyny yn dir aradwy mewn undeb â Chaerlleon. Yr oedd arno bedwar o gaeth-ddeiliaid, ac wyth o fythynwyr, *bordarii;*† coedwig dair milldir o hyd, a deugain *perch* (*perticatæ*) o led, yr hwn a ddyfarnid yn werth ugain swllt.

Y mae *Widford* wedi cael ei uno â *Putecaine;* ymddengys fod y gyntaf yn cynwys ein *Trelan* bresenol, neu y fan lle y mae y llan yn sefyll yn awr. Perthynai i'r rhai hyn un tir aradwy, a dau o gaethddeiliaid, a deuddeg ereill, cydrhwng gweision a morwynion, pysgodfeydd, a choedwig haner milldir o hyd, a deugain *perch* o led; yr oedd y gwerth yr un swm a *Mostone*.

Gyda *Meretone* y cysylltir y drydedd ran o *Widford*, a'r *Berewicha*, neu dreflan *Caldecote*—y mae yr olaf yn bresenol yn dref-ddegwm yn mhlwyf Treffynon. Yn y rhaniad hwn yr oedd henadur, eglwys, a chwech o gaethddeiliaid. Yma hefyd yr oedd coedwig haner milldir o hyd, ac ugain *perch* o led. Un o'r enw Odin a ddaliai y rhai hyn o dan yr iarll.

* Gan y byddwn yn fynych dan yr angenrheidrwydd o gyfeirio at y *Doomsday Book*, hwyrach mai gwell i ni nodi ar unwaith mai llyfr ydyw ag sydd yn cynwys rhestr o holl etifeddiaethau Lloegr, yr hwn a wnaed yn amser Gwilym y Gorchfygwr.—CYF.

† Bythynwyr, yn meddu darn bychan o dir gyda'u bwthyn, ac yn rhwym i ddarparu ffowls, wyau, &c. at *fwrdd* (bord) eu harglwyddi.

Ar adeg y Gorchfygiad, yr oedd yr holl ranbarth yma o sir Fflint, yr hwn a elwid gan y Sacsoniaid yn *Englefield*, ac wedi hyny gan y Normaniaid yn *Atiscros*, yn meddiant Edwin, iarll olaf y Mers; ac wedi ei orchfygu ef, ac i'w diroedd gael eu fforffedio, rhoddwyd hwy, ynghydag iarllaeth Caerlleon, i Huw Lupus. Cafodd yr holl dir ei ddiboblogi a'i wneyd yn anialwch, fel y tybiaf, trwy anrheithiad dyblyg Harold i'r parthau hyny o Gymru, wrth orchymyn Iorwerth y Cyffeswr, er dialu ar Gruffydd ap Llewelyn am y dirmyg a roddwyd arno trwy iddo gefnogi Algar, un o'i ddeiliaid gwrthryfelgar.*

Y mae yn deilwng o sylw nad oedd ond saith o eglwysi y pryd hyny yn yr holl gantref. 1. *Haordine*, y Pen-ar-lâg presenol; 2. *Widford;* 3. *Bissard*, *Boteuuaral*, a *Ruagor;* 4. *Inglecroft*, *Brunfar*, ac *Alchene;* 5. *Danfrond*, *Calston*, a *Wesbie;* 6. *Prestetone*, a *Ruestoch;* ac yn olaf, y 7ed yn *Roeland;*† heblaw un ag oedd yn anghyfanedd yn *Cancarnacan* a *Whenescol.* Nid oedd y wlad wedi cael ei rhanu yn blwyfau y pryd hyn. Sylwa Mr. Agard,‡ yr hwn a ysgrifenai yn niwedd yr unfed ganrif ar bymtheg, nad oedd yr hen haneswyr byth yn crybwyll am blwyfau, personiaid, viceriaid, perigloriaid, na churadiaid. Byddai y bobl y pryd hyny yn addoli naill ai yn yr eglwysi cadeiriol, neu yn y sefydliadau mynachaidd; lle y gweinyddid gan yr esgobion neu y mynachod; a chynorthwyid y rhai hyny yn fynych gan henaduriaid, ysgoleigion, a diaconiaid. Fel yr oedd crefydd yn enill nerth, adeiladwyd eglwysi ereill, er cyfleustra i'r duwiolfrydig, gan bendefigion a thirfeddianwyr, y rhai oeddynt yn awyddus am gael cymhorth ysprydol o fewn eu cyffiniau; ac i'r rhai hyn yr ydym yn ddyledus am yr eglwysi a wasgarwyd mor gynil drwy y wlad. Rhoddid y blaenddod *Llan* o flaen enwau y manau hyn; fel y mae *Tre*, yr hwn yn wreiddiol ni arwydda ond preswylfod, yn cael ei roddi i'r trefi-degwm.

*Tre-Mostyn.*] Fel hyn, yn mhlwyf *Whiteford* y mae Tre-mostyn,§ yr hwn sydd yn hynod fel hen balas teulu o'r un enw, y rhai a'i cawsant trwy briodas Jevan Fychan, o Bengwern, gerllaw Llangollen, ac o linach Tudur Trefor, iarll Henffordd, âg Angharad, etifeddes Hywel ap Tudur ap Ithel o Fostyn, yn nheyrnasiad Rhisiart II. Yr oedd Hywel yn disgyn oddiwrth Edwyn, arglwydd Tegeingle *(Englefield.)* Ei daid Ithel oedd foneddwr a feddiannai etifeddiaethau mawrion pan ddarostyngwyd y dywysogaeth, a thalodd warogaeth yn Nghaerlleon yn 1301, i Iorwerth tywysog Cymru, am ei diroedd yn Llaneurgain a Mostyn.

Y mae y neuadd eang drymllyd o hynafiaeth mawr iawn, ac yn meddu uchelfa yn y pen-uchaf, a'i bwrdd hir at wasanaeth ei harglwydd a'i gymdeithion llawon; ac un arall ar yr ochr, lle yr eisteddai rhai mwy israddol a gyfranogent o'r wledd. Y muriau ydynt wedi eu haddurno, yn dra phriodol, gyda hen ynau y milisia, cleddyfau, a gwaywffyn; gyda hen helmau, a dwyfronegau; gydag addurniadau angladdol; a chydag amryw o yspeilion helwriaeth. Y mae gwalch wedi ei hoelio ar ben uchaf yr ystafell, gyda dwy gloch wrth bob

* Powell, 100.

† Y mae dulliau ereill o sillebu yr enw fel *Rothelent* a *Rhuddlan*, yn tud. 20. J.R.

‡ Antiquary Discourses, I. 184.

§ Am ddysgrifiad cyflawn o Fostyn, a phobpeth a berthyna i'r plwyf hwn, a'r plwyf agosaf ato, cyfeirir y darllenydd at Hanes Whiteford a Threffynnon, gan Mr. Pennant, yn 1796.—Gol.

Digitized by Google

troed iddo. Gyda'r clychau hyn efe a ehedodd oddiwrth ei berchenog, gŵr bonheddig yn sîr *Angus*, ar fore y pedwerydd ar hugain o Fedi, 1772, ac a laddwyd yn agos i'r palas hwn ar fore y chweched ar hugain. Nid ydys yn gwybod yn fanwl yr amser y cyrhaeddodd y wlad hon; felly yr ydym yn ansicr pa un a oedd hedfa yr aderyn hwn yn gyflymach nag eiddo y gwalch a ehedodd ddeng milldir ar hugain mewn awr wrth ymlid ar ol cyffylogyn; neu yr un a ehedodd o Westphalia i Prwssia mewn un diwrnod—engreifftiau a gofnodir* gan y dysgedig Syr Thomas Brown. Y mae y gegin sydd gerllaw a chanddi oriel, o'r hon yr edrychir i lawr arni, ac y mae yn arwain i ystafelloedd hynafol gwraig y tŷ, mewn adeg pan na thybid fod arogl y crochanau a'r bêr yn bethau annymunol. Yn un pen i'r oriel y mae ystafell eang, hynod ar gyfrif un dygwyddiad nodedig. Yn ystod yr amser yr oedd Harri, iarll Richmond, yn dirgel-gynllunio dymchweliad tŷ Caerefrog, elai yn guddiedig o fan i fan, er mwyn ennill ffafr y Cymry, y rhai a dueddent at ei achos o barch i'w daid, Owain Tudur, eu cydwladwr. Tra yr oedd yn Mostyn, daeth mintai o bleidwyr Rhisiart III. yno i'w ddal. Yr oedd y pryd hyny ar fin eistedd i giniawa, ac ni chafodd ond prin amser i neidio allan trwy ffenestr yn y cefn, a diange trwy dwll, yr hwn a elwir hyd heddyw *Twll y Brenin.* Rhisiart ap Hywel, y pryd hyny yn arglwydd Mostyn, a ymunodd â Harri yn mrwydr Bosworth, ac ar ol y fuddugoliaeth, a dderbyniodd gan y brenin, fel arwydd o'i ddiolchgarwch iddo am ei ddyogelu, y gwregys a'r cleddyf a wisgai y diwrnod hwnw; efe hefyd a daergymhellodd Rhisiart i'w ddylyn ef i'r llys; ond atebodd y boneddwr hwnw yn anrhydeddus fel y Sunamees hono, "*Yn nghanol fy mhobl yr wyf fi yn trigo.*" Yr oedd y gwregys a'r cleddyf yn nghadw yn y tŷ hwn hyd o fewn ychydig flynyddoedd yn ol. Gallwn sylwi nad oes neb o'n haneswyr yn rhoddi cyfrif am yspaid pennodol o fywyd Harri, cyn ei esgyniad i'r orsedd. Y mae yn dra amlwg iddo dreulio ei amser, ar ol diflanu o Britanny, yn Nghymru. Y mae llawer o'r beirdd a gydoesent âg ef yn cofnodi y rhan yma o'i fywyd, o dan enwau ffugiol, megys y *Llew, yr Eryr*, a'r cyffelyb, y rhai oeddynt i adferu yr ymerodraeth i'r Brytaniaid; oblegyd ni feiddiai pleidwyr awenyddol tŷ Lancaster draddodi eu caniadau oddigerth mewn geiriau damegol, gan faint eu hofn o'r tywysog oedd ar yr orsedd.

Nid oes ond ychydig o hynodrwydd yn nghylch y tŷ, mwy nag sydd yn gyffredin i dai ereill a adeiladwyd ar wahanol amserau. Y mae yma ddau bortread cywrain; un o Syr Roger Mostyn, marchog, gyda barf wèn, a chernflew gwynion, mewn dillad duon, a llodrau mawrion wedi eu sicrhau am ei ganol gyda phwyntiau. Darfu i'r dernyn yma o orfawredd gynyrchu diareb isel, yr hon a gymhwysid at bobl israddol a fyddent yn awyddu am ymddangos uwchlaw eu sefyllfa. Y portread arall ydyw un o'i foneddiges, Mary, merch hynaf Syr John Wynn o Wydir, barwniad. Y mae y ddau yn gyflawn hyd, wedi eu dyddio 1634, a thybiaf iddynt gael eu paentio gan Mytens.

Y mae yma ddarlun arall, heb fod yn llai hynod ar gyfrif ei gyfansoddiad digrifol, nag ydyw am y person urddasol a baentiwyd ynddo. Darlun *kit-cat* ydyw o Syr Roger Mostyn, y barwniad cyntaf, mewn *wig* ddyeithrol a hirllaes o liw gwlan, dwyfroneg, llodrau lledr, a llewys Rhufeinig henafol; dyn du yn

* Miscellany Tracts, Tr. v. p. 38.

Digitized by Google

dal ei heim; ei foneddiges yn darllen, gydag un llaw yn gorphwys ar benglog; a cherllaw i'w harglwydd y mae ei bychan. Yr oedd y boneddwr hwn yn un o'r rhai mwyaf teyrngarol yn ein gwlad; cododd gatrawd er cynorthwyo y goron, yn cynwys pymtheg cant o wŷr, mewn deuddeng awr o amser,* gan mwyaf yn lowyr; ac a osododd warchawdlu yn ei dŷ, yr hwn, yn mis Medi, 1643, a ymostyngodd i fyddin y senedd, gyda phedwar o gyflegrau, a pheth arfau.†

*Corphluniau.*] Y mae y corphluniau *(busts,)* y rhai a gynullwyd yn Italy, yn deilwng o sylw. Yr un o Brutus yr hynaf sydd yn dra phrydferth, ac megys pe wedi ei gerfio ar y foment pan oedd cariad at ei wlad wedi myned yn drech na'i serch tadol,—pan yr oedd, gyda llais diysgog, yn traddodi ei feibion, Titus a Tiberius, i ddwylaw ei swyddogion i dderbyn cosp am eu bradwriaeth.

Y mae yno hefyd gerfddelw brydferth o ben eilun-dduw ieuangc, mewn pen-guwch Phrygaidd, ar gorph menyw ieuangc o amseroedd diweddar.

Ceir yno hefyd gerfiad hardd o un o'r *Cornelii.* Un arall o *Homer,* ac o *Hipprocrates.* Un arall o *Seleucus,* gyda dwy asgell wedi eu sicrhau wrth berl ymerodrol; arwyddluniau cyflymder a brys. Dau gorphlun mewn alabastr llwyd o eilun-dduwiau gwryw a benyw, gyda'r ffagl ar eu penau; y maent yn afluniaidd ofnadwy; ond y mae y cerfwaith yn dda. Yma heblaw hyny y mae ychydig gofadeilion o farbl, bychain o ran maintioli, gyda cherfiadau arnynt, o waith Narbonne.

*Y Llyfrgell.*] Yn y llyfrgell‡ ceir y casgliad mwyaf dewisol o'r clasuron, yn cynwys amrywiaeth o'r argraffiadau mwyaf hynafol a phrin; casgliad helaeth o lyfrau yn dal perthynas â hynafiaethau Groeg a Rhufain, yn enwedig y rhai a gymerent i mewn y cyfnodau a gynwysent yr hanes am yr adeg pan y rhoddid medelau; lluaws o ysgrifau, gan mwyaf ar grwyn, a llawer o honynt wedi eu haddurno yn brydferth. Mewn gair, prin y gall unrhyw lyfrgell annghyhoedd ymffrostio mewn casgliad mor werthfawr; yr hyn a erys fel cofgolofn nas gellir ei gwrthddadleu i chwaeth a barn y dyn rhagorol hwnw, ei sylfaenydd ysgoleigaidd, y diweddar Syr Thomas Mostyn. Heblaw hyn, y mae y teulu yn meddu ar lawer o bethau hynafol ereill; megys y deisen gopr a gafwyd yn Caer-hen,§ yn sîr Gaernarfon; y Torchau ‖ a ddarganfyddwyd yn agos i Harlech; a'r delyn arian ag yr oedd gan y teulu yr awdurdod i'w rhoddi i'r datganwr, y pryddestwr, neu y bardd goreu, yn yr Eisteddfod; sef y cynulliad a gynelid er profi medrusrwydd y cyfryw bersonau. Sonir am yr oll o'r pethau hyn yn eu lleoedd priodol.

Cyn i mi adael y tŷ, dylwn sylwi mai Thomas ap Richard ap Iefan Fychan, arglwydd Mostyn, a'i frawd Piers, sylfaenydd teulu Trelacre,¶ oeddynt y rhai cyntaf i dalfyru eu henwau; a hyny ar yr achlysur canlynol. Rowland Lee, esgob Lichfield, a llywydd y cyffindiroedd Cymreig, yn nheyrnasiad Harri VIII., a eisteddai yn un o'r llysoedd ar achos Cymreig, ac wedi blino gan nifer

* Whitelock, 78. † Yr unrhyw.

‡ Hist. of Whiteford, &c. p. 72. § A elwir yn awr *Caerhûn.* J.R.

‖ Ceir arlun o'r dernyn yma o gywreinbeth hynafol, gyda hanes talfyredig am dano, fel yr ysgrifenwyd ef gan fy nghyfaill *Llwyd*, cyn gorphen y gwaith hwn.

¶ A elwir yn awr *Talacre.* J.R.

Digitized by Google

yr *apiau* yn enwau y rheithwyr, a orchymynodd fod iddynt gymeryd i fyny eu henw diweddaf, neu enw y lle y preswylient ynddo; ac fod i enw Thomas ap Richard ap Howel ap Iefan Fychan, o hyny allan gael ei dalfyru i'r gair deusill syml *Mostyn;* yn ddiau er profedigaeth fawr i lawer hen linach a ymorchestent mewn hanu o deuluoedd hynafol.

*Maen Achwynfan.*] Yn y parth uchaf o'r dref-ddegwm hon y saif y groes gŷwrain a elwir Maen Achwynfan, neu *gareg y wylofain;* am y byddai penydiau yn fynych yn cael eu gorphen o flaen y cyfryw bilerau cysegredig, ac yn cael eu terfynu gan wylofain a'r nodau arferol ereill o edifeirwch: er esiampl, safai yn agos i Stafford un a elwid y *groes wylofus,* yr hwn enw sydd yn gyfystyr â'r eiddom ni. Nid yw o ran ei ffurf yn ddestlus, nac yn brydferth o ran ei cherfiadwaith; y mae yn ddeuddeg troedfedd o uchder, dwy droedfedd a phedair modfedd o led yn y gwaelod, ac yn ddeng modfedd o drwch. Y mae y bôn wedi ei osod mewn maen arall; y pen uchaf sydd grwn, a chynwysa mewn gwaith dyrchafedig, ffurf Croes Roegaidd: oddi tanodd, oddeutu y canol, y mae un arall, ar ffurf croes St. Andreas; ac o dan hyny, ffugyr noeth, gyda gwaywffon yn ei law; yn gyfagos i hwnw, ar un ochr i'r golofn, yr arddangosir rhyw anifail: gorchuddir y gweddill â rhwyllwaith tra phrydferth, y cyfryw ag a welir yn gyffredin ar bilerau ereill o oedran hynafol mewn amryw barthau o Brydain Fawr. Ni fydd i mi feiddio (ar ol i olygydd gwaith Camden roddi y gorchwyl i fyny,) rhyfygu amcanu at ei oed, ond gallaf sylwi, fod yn rhaid fod hyny yn flaenorol i deyrnasiad ofergoeledd dybryd yn mhilth y Cymry, pe amgen buasai y cerfiwr wedi defnyddio ei gŷn i adrodd chwedleuon dychymygol, yn lle y cylymau a'r cyfrodwaith prydferth a orchuddiant y gareg hon.

Y mae y rhai hyny ag sydd yn tybied ei fod wedi ei godi er coffadwriaeth am y meirw a laddwyd yn y fan hòno, yn seilio eu dadl ar y niferi o hen feddrodau *(tumuli)* sydd gerllaw, yn cynwys esgyrn dynol, a phenglogau wedi eu nodi yn fynych âg anafau angeuol; ond perthyna yr hen feddrodau hyn i amseroedd boreuach nag y goddef cerfwaith prydferth y maen hwn iddynt wneyd. Y mae hwn hefyd (fel y profa y croesau) yn gofadail Gristionogol. Ni ddefnyddid y blaenaf ond yn yr amser yr oedd Paganiaeth yn ffynu.

*Gelli.*] Y mae hefyd gerllaw iddo hen gapel, yn awr yn ffermdy, a elwir *Gelli,** enw darn o dir yn ei ymyl. Gallai hwn fod yn dal perthynas â'r groes; yn gystal a bod yn lle i gyflawni gwasanaeth dwyfol perthynol i abad y Maesglas *(Basingwerk,)* yr hwn a feddai dŷ heb fod yn mhell o'r lle, yn un o'n trefydd-degwm, a elwir hyd heddyw yn *Dre'r Abad.* Caniatâwyd y rhandir yma (yr hwn a gamsilleba y Saeson yn *Getely,*†) yn nghyda'r coed oedd arno y pryd hyny, gan Iorwerth I. i'r abad a'r fynachlog, ar y degfed o Dachwedd, yn Westminster, cyn marwolaeth ein tywysog olaf. Rhoddodd iddo hefyd awdurdod i ddiwreiddio y coed, yr hyn, a barnu oddiwrth lymder y lle yn bresenol, yr ymddengys ei fod wedi cael ei gyflawni yn effeithiol.

Oddiar gopa y *Garreg,* bryn yn y plwyf hwn, gall yr ymdeithydd gael golwg ar fynyddoedd uchelfrig Eryri, o'r camog Foel Siabod yn un pen, hyd at y talog Benmaenmawr yn y pen arall; o benrhyn eang Llandudno, a rhan o

* Hist. of Whiteford. Pl. xii. 2. † Ayloffe's Rotuli Walliæ, 64, 72, 95.

Digitized by Google



MAEN ACHWYNEAN.

Digitized by Google

Digitized by Google

ynys Fon, gyda morgilfach fawr Llanddulas, yn ffurfio cylch eang ar lun haner lleuad; o aberoedd y Dyfrdwy a'r Mersey; ac i'r gogledd (ar amserau) o ynys Manaw ac Alpau sir Cumberland, yr hyn sydd yn arwydd sicr o dywydd drwg.

*Tre-Bychton.*] Disgynaf yn awr i *Dre-Bychton*, un arall o'n trefydd-degwm arforawl, lle y saif y tŷ yn yr hwn y preswyliai fy nhad,* yn gysylltiedig â pha un y mae (fel yr arferai fod yn fynych yn ein tywysogaeth) hafotty, mewn ychydig bellder oddiwrtho, a seler oddi tano; yr hon a ddefnyddid fel encilfa i'r perchenogion gloddestgar, i fwynhau, a'r wahan i'r rhyw deg, eu llwngcdestynau a'u digrifwch trystfawr. Y mae hwn, a'r rhanau isel ereill o'r plwyf, yn llawn o goedwigoedd derw prydferth; y rhai a dyfant mor hunan-gynyrchiol fel y byddai y lle, pe y cawsai ei ddifrodi, mewn ychydig flynyddoedd wedi myned yn un goedwig anhydraidd.

*Tre-lan.*] Yn *Tre-lan* y mae eglwys y plwyf, wedi ei chyflwyno i Fair Santes. Y mae y bериgloriaeth yn segur swydd, yr hon, ynghyda'r ficeriaeth, sydd yn nwylaw Esgob Llanelwy i'w rhoddi. Tybiaf fod yr eglwys yn sefyll ar yr un man ag y safai yn amser y Congcwest. Y mae yr adeilad bresenol yn cynwys corph yr eglwys ac un eglwys-rodfa. Adeiladwyd yr olaf gan un o'r enw Bleddyn Drow, o dylwyth Mostyn, i'r hwn y perthyna y rhan hòno.

*Merton.*] Y ddwy *Merton*, Uch-glan ac Is-glan, ydynt drefydd-degwm cyfagos. Yn nheyrnasiad Iorwerth I. (cyn y darostyngiad) cafodd tiroedd gwŷr Merton, yn cynwys un-ar-bymtheg o diroedd aradwy, eu cymeryd oddiarnynt, a'u rhoddi i abad a mynachlog y Maesglas, yn groes i gyfreithiau Cymru, ac arferion y wlad; ac yn groes i'r heddwch rhwng y Brenin a'r tywysog Llywelyn.† Gwnaed y trais yma gan Reginald de Grey,‡ ustus Caerlleon, efallai trwy gydfradwriaeth y Brenin, er anog y Cymry i gyflawni rhyw alanas, fel ag i roddi achlysur i'r Saeson dori yr heddwch.

*Ednowain.*] Yn nhref-ddegwm *Ednowain*§ yr oedd un o balasau Ednowain Bendew, arglwydd Tegengle yn 1079, ac un o'r pymtheg llwyth, neu bendefigion Gogledd Cymru. Yr oedd Piersiaid y plwyf hwn, y rhai ydynt yn bresenol wedi diflanu, yn disgyn oddiwrtho ef; ac yr oedd llawer o hen deuluoedd parchus, gan mwyaf wedi darfod erbyn hyn, yn tarddu o'r un gwreiddyn. Dichon y rhoddir ychwaneg o fanylion y llwythau hyn rhagllaw.‖

*Folebroc.*] Perthynai *Folebrog*, neu *Feilebroc*, i fynachod y Maesglas, a chrybwyllir am dano yn nghadarnhad y rhoddion i'r fynachlog gan Harri II., a thrachefn yn y siartrau a adnewyddwyd iddi gan Llywelyn ap Iorwerth a Dafydd ap Llywelyn, tywysogion Gwynedd. Yr oedd gan y mynachod balasdy arno, a hawl i borfa ar y mynydd, yn gyffredin gyda phreswylwyr yr ardal.¶

* Hist. of Whiteford, p. 27. Frontispiece.

† Powel, 360. ‡ Dugdale's Baron. I. 713.

§ Nid oes a fyn yr enw *Ednowain* âg *Owain* o gwbl; ac nid ydyw i'w ranu yn *Edn-owain*, ond *Ed-nowain*. Gwel hefyd y nodiad ar dudal. 18. J.R.

‖ Cyhoeddwyd hyn, ar ol hyny, yn Hanes Mr. Pennant am blwyfydd Whiteford a Threffynon.—Gol.

¶ Dugdale's Monast. I. 720, 721.

Digitized by Google

Cynwysa cynyrchion y plwyf hwn bob math o wenith, oddigerth rhŷg. Ychydig o gaws neu ymenyn sydd yn cael eu gwneyd at eu gwerthu, oherwydd fod y borfa yn cael ei bwyta gan mwyaf gan geffylau, am mai prif orchwyl ffermwyr yr ardal ydyw cludo mwneion y wlad; a'r un fath y gellir dywedyd am y sîr yn gyffredinol. Y mae pob bwthyn yn meddu ar ei ardd bytatws, yr hyn sydd yn gynaliaeth mawr; ac yr oedd yn gyfleustra anadnabyddus haner can' mlynedd yn ol. Cynwysa y rhanau isaf goedwigoedd da; a gwerthir llawer o'r coed ar amserau yn Lerpwl, a manau ereill, am brisiau gwych; defnyddir llawer o honynt gartref hefyd yn y gweithydd mŵn.

*Glo.*] Y mae gweithydd glo Mostyn a Bychton wedi cael eu gweithio er's hir amseroedd; ac yn y ganrif ddiweddaf * arferent adgyflenwi Dublin, ac ochr Ddwyreiniol yr Iwerddon, gyda glo. Darganfyddwyd hwy yn nhrefddegwm Mostyn mor gynar ag amser Iorwerth I., fel yr ymddengys oddiwrth fesuriad o'r lle hwnw, yn y drydedd flwyddyn ar hugain o'i deyrnasiad.† Nid ydynt yn bresenol ond mewn cyflwr isel; mewn rhan oblegyd codiad y gweithydd yn *Whitehaven*, ond yn fwy felly oherwydd colli sianel yr afon Dyfrdwy; yr hon, yn nechreuad y ganrif bresenol, a lifai mor agos at ein glanau fel y gallai llongau yn cario dau gant o dunelli orwedd o dan y plwyf, a'u cablau wedi eu sicrhau am fonau y coedydd. Yn bresenol, ni all llongau o driugain neu ddeg a thriugain o dunelli ddyfod yn nês nag o fewn dwy filldir, gan fod y Ddyfrdwy yn awr yn llifo o dan yr ochr draw. Er hyny yr ydym yn llwytho ychydig longau am yr Iwerddon, a rhai manau yn Ngogledd Cymru. Defnyddir llawer hefyd yn y gweithdai at doddi mŵn yn y gymydogaeth, ac yn nghanol-barthau sir Ddinbych. Y mae diwylliant y tir gyda chalch yn ddiweddar wedi peri bod llawer o lo yn cael ei ddefnyddio gan ffermwyr, yn gystal a chan bersonau a losgant galch at ei werthu.

Y mae y glo‡ o wahanol drwch, o dri chwarter llath i bum' llath. Y gwelyau a amrywiant yn eu *dip* o un llath mewn pedair hyd ddwy lath mewn tair. Collir hwy o dan wely y Ddyfrdwy; darganfyddir hwy drachefn ar du y dehau i *Wiral* yn sîr Gaerlleon, megys yn cyfateb i rai sîr Fflint: y maent hyd heddyw wedi eu colli ar yr ochr ogleddol i'r un cantref; ond deuir o hyd iddynt y drydedd waith mewn cyflawnder mawr yn Lancashire, ar yr ochr arall i'r afon *Mersey*. Gellir cyfrif fod eu hyd o'r gorllewin i'r dwyrain yn y sîr hon, o blwyf Llanasa, trwy blwyfydd Whiteford, Treffynon, Fflint, Llaneurgain, a Phen-ar-lâg. Y mae ein glo ni o ansawdd gwahanol, ac yn gyfaddas i'r amrywiol alwadau am dano mewn amryw fathau o dawdd-dai *(founderies)* yn y gymydogaeth. Cyfarfuwyd â gwelyau o lo canal: israddol, mae yn wir, o ran ymddangosiad i eiddo Lancashire, ond mawr hoffir ef gan y llosgwyr calch. Weithiau hefyd ceir *Peacock-coal* y Doctor Plot,§ yr hwn sydd yn hynod ar

* Erfynir am i'r darllenydd gofio, drwy yr holl waith hwn, mai wrth y ganrif *ddiweddaf* y golygir yr eilfed ganrif ar bymtheg, a'r *bresenol* yw y ddeunawfed. Buasai newid y dyddiadau yn dinystrio y gwreiddioldeb y mae y golygydd wedi bod yn awyddus am ei gadw. GOL. YR AIL ARG.

† Sebright MSS.—Yn anffodus dinystrwyd y llaw-ysgrifau gwerthfawr hyn, y rhai a ddaethent yn eiddo Syr W. W. Wynn trwy bryniad, yn nhŷ rhwymwr llyfrau, ar adeg y tân a ddinystriodd chwareudy *Covent Garden*, yn 1808.—GOL. YR AIL ARG.

‡ Hist. of Whitoford, tud. 133. GOL

§ Hist. Staffordshire. 126.

Digitized by Google

gyfrif prydferthwch ei arwyneb, ac yn cael ei orchuddio â dysgleirdeb symudliw plu yr aderyn tlws hwnw, sef y paun.

Yr oedd glo yn adnabyddus i'r Prydeiniaid yn mhell cyn dyfodiad y Rhufeiniaid, gan y rhai nid oedd hyd yn nod enw arno: er hyny y mae Theophrastus* yn ei ddysgrifio yn dra chywir, o leiaf dri chanrif cyn amser Caisar: ac y mae hyd yn nod yn dyweyd ei fod yn cael ei ddefnyddio gan ofaint prês. Y mae yn dra thebyg y defnyddid ef gan y Prydeiniaid. Y mae yn ddiameu fod ganddynt hwy enw cyntefig ar y ffosyl hwn, sef *Glo*;† ac fel prawf ychwanegol, gallaf sylwi, fod bwyall o gallestr, offeryn cyndrigolion ein hynys, wedi ei darganfod yn gladdedig mewn rhai gwythenau o lo, y rhai ydynt i'w gweled heddyw yn Nghraig y Parc, sir Fynwy;‡ ac yn y cyfryw gyflead ag oedd yn peri ei fod yn hawdd ei gael gan y brodorion amhrofiadol, y rhai nid oeddynt yn alluog i ymlid ar ol y gwythenau i ddyfnder mawr. Ni byddai yr hen doddwyr anghelfydd yn defnyddio dim ond coed yn eu gweithrediadau, fel yr ydym yn cael yn mysg gweddillion eu haelwydydd, am yr hyn y cawn son rhagllaw.

Y mae rhywogaeth dra gwasanaethgar o glai seimlyd o liw llwyd wedi cael ei ddarganfod uwchlaw un o'r gwelyau. Y mae yn dal tân yn rhagorol; a defnyddiwyd ef gyda llwyddiant yn y ffwrneisiau at doddi mŵn.

*Tywodfaen.*] Y mae gwelyau o dywodfaen ac o geryg rhyddion rhagorol i'w cael yn rhanau isaf y plwyf, a chyrhaeddant o fewn haner milldir i'r mynydd, pan y mae y wythen yn newid: yn gyntaf i fath o sylwedd du, a elwir *shale*, yr hwn a dawdd yn fuan ar ol ei amlygu i'r awyr; ac wedi hyny i gareg galch o liw gwŷn, neu ynte i gareg dân neu gallestr galed.

*Calch.*] Ceir y ddau mewn haenau o drwch anferthol; llosgir y blaenaf i wneyd calch rhagorol, ac fe'i defnyddir hefyd fel llifnodd *(flux)* at doddi mwnau plwm. Adeiladir y tai mwyaf israddol gydag ef; ond y mae yn dra amhriodol at hyny, ar gyfrif ei leithder mawr ar gyfnewidiad yn y tywydd.

Yn nhref-ddegwm Tre-Mostyn, yn agos i làn y mor, y mae clogwyn o ymddangosiad tra hynod, ac yn edrych yn debyg i *lafa* llosgfynydd wedi ei haner droi yn wydr. Y mae yr haenau yn y tu blaen iddo yn gyffredinol wedi eu troi o ran eu gosodiad, a rhedant i grynswth arswydus o liw coch a du, yn fynych yn drydyllog, ond yn mhob rhan yn hynod o galed. Oddimewn iddo y mae lle gwag, y wythen efallai a gynwysai y defnydd tanllyd a achosodd y peth rhyfedd hwn, trwy iddo fyned ar dân.§ Yr oedd ei danbeidrwydd yn benaf at y tu blaen, gan leihau yn raddol yn y rhan fewnol o'r gwely; yr hwn, ychydig o bellder yn y tir, nid yw yn ymddangos ond wedi ei afliwio. Yr haenau ydynt gyfansoddedig o *shale* a thywodfaen o'r rhywogaeth gyffredin.‖

*Chert.*] *Chert* ydyw *petrosilex* (careg dân) yr ysgrifenwyr diweddar. Y mae o natur gallestraidd, a dyma yr unig faen ag sydd yn tebygu i *flint* yn ein sir ni. Y mae y sylwedydd ar *Cronstedt* yn iawn, pan y dywed fod y gwir *flint* i'w gael yn helaethlawn mewn sialc *(chalk,)* yr hwn sydd bridd yn

* Yn ei lyfr ar geryg.

† Yr wyf yn amheu yn gryf fod y gair hwn yn wreiddiol yn golygu *siarcol*. J.R.

‡ Ph. Tr. Rhif 335, tud. 500.

§ Tebyg i'r peth a ddygwyddodd yn *Charmouth*, Phil. Trans. 1761, cyf. 52, tud. 119; a'r hwn a ddysgrifir yn gyflawn gan Esgob Llandaf, yn ei "Chemical Essays" dyddorol.—Gol.

‖ Da Costa's Fossils, 133

Digitized by Google

suguo i mewn, fel y mae *chert* yn gwneyd yn nghymydogaeth careg galch, yr hwn sydd hefyd o natur galchaidd. Hyd yn hyn, nid ydys wedi cael allan fod y rhywogaeth yma o faen o un gwasanaeth. Tybygaf, wedi iddo gael ei losgi a'i falu, y gallai fod o wasanaeth at wneyd llestri pridd geirwon* yn debyg fel y mae y ceryg tân clwm yn gwneyd y llestri goreu.

*Mwnau.* ] Y mae y rhan fynyddig o'n plwyf wedi bod am olyniad hir o flynyddoedd yn gyfoethog o fwnau plwm ac alcan. Rai blynyddoedd yn ol, darganfyddwyd oddeutu dau cant ar bymtheg o bwysi o fŵn copr; ond dim wedi hyny, er dyfal chwilio am dano. Gohiriaf ymchwiliad pellach ar ol y rhai hyn, a mwnau a ffosylau ereill y rhandir hon, nes y byddaf am adael y parth hwnw o sir Ffiint a gynyrchant yr olfenau yma o gyfoeth. Yma ni wnaf ond sylwi ar lysieuyn, prin mewn lleoedd eraill, ond yr hwn a dyf ar rai manau o'r mynydd mewn cyflawnder; ac yn mis Mai y mae yn ymddangos yn brydferth gyda'i flodau gwynion; hwn ydyw yr *Arenaria verna*, neu wlyddyn y mynydd. Yma hefyd y mae math o fadarchen *(mushroom†)* o liw ysgarlad, yr hon nid ydyw Linnæus wedi sylwi arni; ond dysgrifir hi gan Mr. Ray, tud. 18, Rhif 5, o'i Grynodeb o Blanigion Prydeinig. Darganfu Mr. Lightfoot, yn fy nghoed i, yn mis Mai, yr hyn a dybiai ei fod yn amrywiaeth o'r *anemone nemorosa*, Sp. Pl. 762, gyda'r dail wedi eu hysmotio ar y cefn,‡ yn debyg i gynyrchion y *polypody* (yr amldroedfil,) ac yn cyfateb yn gyfangwbl i ffugur Rhedynen dybiedig, a gofnodir yn Nghrynodeb Mr. Ray, 124, ar ol Rhif 24, a ffug. I. tab. iii. yn nhudal. 128.

Ar fy ffordd i'r plwyf nesaf o du y dehau i hwn, yr wyf yn dylyn glan y môr; ac yn myned heibio i hen dŷ toddi Llanerch y môr, yr hwn a ddefnyddir o hyd i doddi mwn plwm, a thynu allan arian.

Y mae y môr, neu aber y Ddyfrdwy, yn gorwedd mewn ychydig bellder ar y llaw chwith, a morfa gwyrddlas yn sefyll cydrhyngom âg ef. Gwelir cantref *Wiral*, rhan o sir Gaerlleon, ar yr ochr draw; rhandir fynyddig, digoed a llwm, wedi ei britho â meusydd o wenith a morfeydd duon; ond gynt wedi eu gorchuddio mor dda â choed fel ag i achlysuro y ddwy linell ganlynol:—

"From Blacon point to Hilbree
A squirrel might leap from tree to tree."§

Y mae yr olygfa ar y gaingc hon o'r môr yn terfynu yn un pen gyda Chaerlleon, a chraig *Beeston;* ac yn y llall gyda dwy ynys fechan *Hilbree* neu *Ilbre.* Ar un o honynt bu cell o urdd y Benedictiaid, o dan nawddogaeth Mair, ac yn ddibynol ar Gaerlleon. Dichon mai hon ydoedd y feudwyfa a elwir *Hilburghy*, yr hon, yn yr ail flwyddyn i Iorwerth III., a dderbyniai ddeg swllt yn y flwyddyn allan o hen drysorfa elusenol a berthynai i gastell Caerlleon.||

*Pysgod.* ] Y mae llanw a thrai yn y fan yma wedi encilio mor bell fel nad ydym yn cael unrhyw amrywiaeth o bysgod. Y rhywogaethau

* Y mae llwythi mawrion o *chert*, er cyhoeddiad y Daith hon, wedi cael eu trosglwyddo i sir Stafford i'r dyben hwnw, ac i ffurfio ceryg at falu a gwneyd y gareg gallestr galchaidd yn llwch. —Gol. yr Ail Arg.

† Peziza epidendra. Sowerby's Fungi. Tab. 13.—Gol.


‡ Yr Æcidium Fuscum. Sowerby's Fungi. Taf. 53.—Gol.

§ O bwynt *Blacon* i *Hilbree*, gallasai gwiwer neidio o goeden i goeden.

|| Tanner, 63.

Digitized by Google

Digitized by Google



*Y CHWIFF.*

**WHIFF.**

Digitized by Google

mwyaf llnosog ydynt y rhai fflat; megys lledi, brychledi, lledi chwithig *(soles)* bychain, a chathod môr. Y mae lledi llaid *(dabs)* yn ymweled â ni yn mis Tachwedd; ac yn y flwyddyn ddiweddaf daliwyd nifer o'r rhywogaeth brin hôno o ledi a elwir y *whiff*. Y mae y *weever* yn dra chyffredin yma; a delir rhai rhywogaethau ereill ar ddamwain.

Y mae *penwaig* yn y môr yma yn dra anwadal. Ar adegau ymddangosant yn heigiau mawrion, hyd yn nod mor uchel a Chaerlleon; deuant yma yn mis Tachwedd, parhant hyd Chwefror, a delir hwy gan lu o fân longau, y rhai a barant i'r sianel ymddangos yn dra bywiog. Y mae niferi mawrion o'r rhai a ddelir yn cael eu halltu; eithr nid ydynt yn gyffredin ond diflas a gwael. Y mae oddeutu deng mlynedd yn awr er pan dalasant ymweliad â ni.

*Y Torwr Cnau.*] Oddieithr y *Caryocatactes*, neu y torwr cnau,* nid wyf yn cofio am un aderyn dyeithr a ymwelodd â'r plwyf hwn; lladdwyd un o'r rhywogaeth yma yn ngardd Mostyn, yn mis Hydref, 1753. Ei wlad gynhenid ydyw Savoy, Switzerland, Lorraine, a rhai parthau o Germany. Nid yw yr adar hyn yn ymfudo yn rheolaidd, ond ar ryw adeg bennodol y maent yn gadael eu trigleoedd arferol; er enghraifft, yn mis Hydref, 1754, gwnaeth lluoedd o honynt eu hymddangosiad yn *Burgundy*, a manau ereill yn Ffraingc. Dichon fod yr un a ymwelodd â ni yn un a grwydrasai allan o ryw fintai o honynt a ymadawsent o'u gwlad gynhenid. Perthyna i'r rhywogaeth raddau o brydferthwch, eto heb amrywiaeth nac ysplander lliwiau; y maent wedi eu hysmotio â nodau trionglog o wŷn pur mewn lliw brown rhydlyd. O ran maint y mae yn llai braidd na'r cogfran *(jackdaw):* y mae ei big yn dra chryf, llym, ac yn gyfaddas i dyllu coed, yr hyn a'i gwna yn dra dinystriol i goedydd. Preswylia mewn coedwigoedd helaeth o ffawydd; oddiwrth yr hyn y derbyniodd yr enw *Pica abietum guttata.* Fel y cogfrain, y mae yn nythu mewn tyroedd uchel; ac fel hwythau y mae yn dra thrystfawr. Ymbortha ar gnau, y rhai a dyr gyda'i big, ar fês coed ffawydd a derw, grawn, a thrychfilod. Oddiwrth yr amgylchiad blaenaf y mae y Germaniaid wedi ei alw yn *nuss-bretcher*, yr hwn enw sydd wedi ei fabwysiadu hefyd yn Milodiaeth Ynys Prydain, sef y torwr cnau.

Wedi myned heibio i ffrwd fechan o dan y bangciau, yr wyf yn dyfod i blwyf

## TREFFYNON:

Ac yn fuan wedi hyny yr wyf yn croesi ei hafon hynod, yn agos i'r lle yr ymarllwysa i aber y Ddyfrdwy. Ar y llaw ddehau esgynaf i safle mynachlog a

*Maesglas.*] chastell y Maesglas *(Basingwerk,)* lle o bwysigrwydd yn y rhyfeloedd rhwng y Saeson a'r Cymry. Y mae y tir tuag at y môr yn llechweddu yn dra syth. Yr ochr orllewinol a amddiffynid gan ffos neu gwter ddofn, yr hon a ffurfid gan yr afon; yr ochr dde-ddwyreiniol gan ffos eang, yr hon hyd yn hyn sydd yn gyffredinol wedi cael ei hystyried fel yr un a wnaed gan Offa, brenin y Mers. Yr wyf yn ddyledus i Mr. John Evans o Lwyn y groes am fy ngoleuo yn y camgymeriad yma, yr hwn, fel y profa efe, sydd yn un terfyniad o waith aruthrol arall o'r un natur, a adwaenir wrth yr enw

* *Corvus Caryocatactes*. Lin. Sys. 157.—Dr. Buffon, III 123.—Gesner Av. 244.—Scapoli, 37.—Kramer, 331.—Br Zool II. 531.

Digitized by Google

*Clawdd Wat;* am yr hwn y rhoddir hanes cyflawn yn rhai o'r tudalenau dyfodol, gyda sylwadau ar y tomenau, a gweithydd ereill a orweddant gerllaw ei gŵrs-redfa.

*Castell y Maesglas.*] Olion yr hen amddiffynfa* hon a ymddangosant mewn sylfaen mur ar ymyl Clawdd Offa, ac ar ochr y ffordd fawr yn agos i'r dollfa, ar gyfer yr adfeilion. Arglwydd Lyttelton† a ddywed mai un o iarllod Caerlleon ydoedd ei sylfaenydd. Tybiaf mai Rhisiart, mab Hugh Lupus, y rhaid ei fod, yr hwn oedd ail iarll Caerlleon; ac fod y fynachlog wedi cael ei hamgaeru ar yr achlysur canlynol; oblegyd ni wneid un eithriad hyd yn nod o adeiladau crefyddol, "*tempore necessitatis belli, licitum est, hospitari et incastellari in ecclesia.*"‡

Felly, y sylw cyntaf a gawn o honi ydyw yn hanes bywyd St. Werburg, gan Bradshaw; yr hwn a hysbysa i ni fod Rhisiart, pan ddychwelodd o Normandy, lle y cawsai ei addysg, wedi dechreu ei deyrnasiad gyda gweithred o dduwioldeb. Yn y flwyddyn 1119, ymgeisiodd at wneyd pererindod i ffynhon Gwenfrewi; ond naill ai wrth fyned neu ddychwelyd, ymosodwyd arno gan y Cymry, a gorfu arno gymeryd nawdd yn y Maesglas. Apeliodd at St. Werburg am gymhorth; yr hwn yn wyrthiol a barodd i draethau o dywod gyfodi rhwng sîr Fflint a Wiral, yr hyn a agorodd ffordd i'w Gwnstabl ddyfod drosodd i'w gynorthwyo: y traethau hyn, er yr amser hwnw, a alwyd yn *Dywod y Cwnstabl.* Y mae Bradshaw yn galw y lle yr enciliodd iddo yn fynachlog; yr hyn a brofa fod yma gyfundeb crefyddol yn mhell cyn yr amser a osodir yn gyffredin fel adeg sylfaeniad y tŷ hwn. Rhaid i mi hefyd gasglu oddiar awdurdod Arglwydd Lyttelton (am y rheswm nas gallaf gael yr un arall,) fod y castell hwn wedi cael ei chwalu gan y Cymry yn nheyrnasiad Stephan.§

Harri II. yn 1157, ar ol diangc o'r cynllwyn a osodasid iddo yn Eulo, a adawodd fynachdy y Maesglas wedi ei hadferu, ei gosod mewn sefyllfa dda fel amddiffynfa, ac a ddodes ynddi warchawdlu,‖ er mwyn sicrhau encilfa mewn unrhyw aflwydd rhagllaw; a gwnaeth hefyd yr un modd â chastell Rhuddlan. Yn ei ddyddiau ef yr oedd y rhanau mewnol o'n gwlad yn ddiffaethwch peryglus o goedwigoedd. Wedi ei orchfygu, ni ymddiriedodd ei hun mwyach yn mysg ein coedydd, ond ymdeithiai gyda'i filwyr ar hyd y glanau agored gerllaw y môr.

Yr un penadur a adawodd yno rywogaeth arall o warchawdlu;¶ oblegyd efe a sefydlodd yma dŷ o farchogion y deml, urdd filwrol a ddygasid i Loegr yn y teyrnasiad blaenorol.** Sefydlwyd hwy ar y cyntaf yn y Tir Sanctaidd er amddiffyn y pererinion; a dichon fod gan Harri yr un dyben mewn golwg wrth eu sefydlu yma, sef dyogelu y pererinion Saesonig yn eu gwaith yn talu eu hadduned au i'n santes gymydogaethol, yr hon yr ymddengys ei bod wedi dyfod i gymeriad uchel erbyn hyn. Y mae yn hynod nad oedd y marchogion crefyddol hyn yn caniatâu ond un ceffyl rhwng dau; eto mor fawr fu eu cynydd fel yr oeddynt, erbyn y flwyddyn 1240, neu gant a haner o flynyddau ar ol eu

* Hist. of Whiteford, p. 192. † Hist. Henry II. 3d edit. ii. 333.

‡ "Ar adegau o ryfel y mae yn gyfreithlawn meddiannu a throi yr eglwysi yn amddiffynfeydd."—Innocent. de im. eccles. quoted in Coll. Curious Discourses, I. 102.

§ Hist. Henry II. ‖ M. Paris, 129. ¶ Powel, 208.

** Ymddengys mai camgymeriad yw hyn. Y mae ysgrifenwyr hanes tra dyddorol am y *Maesglas* yn y *Arch. Camb.* am 1846, yn cwestiyno yr awdurdod ar ba un y gorphwys, a'u casgliad hwy yw, "Os sylfaenodd Harri dŷ o demlwyr, mai tebyg oedd ei fod yn agos i Ruddlan." Ib. p. 105. T.P.

sefydlu, wedi dyfod i feddiant o bedair mil ar bymtheg o faenordai yn ngwahanol wledydd Cred.

Ni fu i'r castell hwn ond oes fer; oblegyd yn 1165 darfu i'r gwrol Owain Gwynedd warchae arno, a'i gymeryd,* a'i wneyd yn gydwastad â'r llawr; ar ol hyny nid yw yr enw i'w gael mwyach fel amddiffynfa. Yr wyf yn tybio ei fod ar y pryd yn meddiant *Hugh de Bello Campo*, neu *Beauchamp*, i'r hwn y rhoddasid ef a chastell Rhuddlan gan y teyrn Seisonig.†

*Y Fynachlog.*] Sylfaenwyd y fynachlog,‡ o ba un y mae cryn weddillion yn aros, yn 1131 (yn ol barn yr Esgob Tanner) gan Randal, ail iarll Caerlleon: yn ol yr Esgob Fleetwood gan Harri II. O'm rhan fy hun, credaf ei bod yn llawer hynach; ond nid wyf yn hòni fy mod yn sicr yn nghylch amser ei dechreuad. Nis gellir cael dim goleuni ar y pwngc oddiwrth y siartrau, y rhai a ddyogelwyd gan Syr William Dugdale. Y mae tri o honynt, naill ai yn gwasanaethu er cadarnhau yr hen roddion, neu yn cyfranu rhai newyddion: crybwyllir am yr iarll yn mhob un o'r tri fel cyfranwr; ond nid oes yr awgrym lleiaf mai efe oedd y sylfaenydd. Rhaid i mi briodoli yr anrhydedd hwnw i un o dywysogion Cymru: oblegyd y mae Llewelyn ap Iorwerth, a'i fab Dafydd, yn eu gwahanol siartrau, yn nodi eu bod yn rhoddi ac yn cadarnhau y gwahanol waddoliadau i Dduw, Mair Santes, mynachlog y Maesglas, a'r mynachod, y rhai a roddasid iddynt gan eu hynafiaid er iachawdwriaeth eu heneidiau.

Yr oedd Randal yn ddiau yn gyfranwr helaeth; oblegyd ymddengys cyn ei amser ef, nad oedd gan y mynachod ond capel yma. O'r adeg hòno daeth y fynachlog yn un bwysig; ac oddeutu yr amser hwnw yr adeiladwyd rhan o'r adeiladau presenol, er cyfleusdra y preswylwyr, y rhai oeddynt o'r urdd Cistersiaidd.

Y mae dull yr adeiladwaith yn gymysg. Mewn un man ceir yr hyn a elwir yn arddull Sacsonaidd; yn meddu y bwäau crynion a'r colofnau byrion mewn rhai manau; a'r ffenestri Gothig cul a phigfain mewn manau ereill. Nid oedd y rhywogaeth gyntaf wedi myned allan o ymarferiad, ac yr oedd yr olaf yn dechreu dyfod i'r ffasiwn, yn nyddiau y cymwynaswr mawr cyntaf.

Gorweddai yr eglwys ar yr ochr ddwyreiniol; ond y mae yn awr wedi ei llwyr ddinystrio. Y mae yr ystafell fwyta yn lled gyfanaidd, ac ar un ochr iddi y mae cyntedd eang. Uwchben, yr oedd y celloedd lle y cysgai y mynachod, gyda ffenestr fechan i bob un.

Y mae capel marchogion y deml yn adeilad eang. Y ffenestri ydynt hirion, culion, a phigfain; y mân bileri cydrhyngddynt o'r tu mewn yn eiddil a phrydferth.§ Erys rhyw weddillion o adeiladau ereill, y rhai a ddefnyddir yn bresenol gan farcer. O fewn llai na haner can' mlynedd yn ol, yr oedd rhan fawr o'r lle y preswylid ynddo yn sefyll, ac ar brydiau yn cael ei ddefnyddio gan y teulu hybarch, y Mostyniaid o Drelacre: cafodd boneddiges sydd yn awr yn fyw ei geni oddifewn i'r muriau.

* Powel, 223. † Annales Waverleienses, 159.

‡ Yr hon a elwid hefyd gan y Cymry, *Maesglas*, neu *Greenfield*. Hist. of Whiteford, p. 194.

§ "Gyda golwg ar yr adeilad yn y *Maesglas*, a elwir gan Pennant, &c., yn gapel y temlwyr, gellir nodi, gyda sicrwydd lled dda, nad oedd yn gapel o gwbl. Y mae wedi ei adeiladu o ogledd i ddeheu, ac nid oes ynddo ddim olion allor, nac o unrhyw attodion ereill at addoliad Cristionogol." *Arch. Camb.* 1846, p. 105. T. P.

Digitized by Google

Yn ystod y parotoadau at oresgyn Cymru gan Iorwerth I. yr oedd y fynachlog o dan nawdd y Saeson. Y mae ar gael ddwy archeb i'r pwrpas hwnw, ar y dealltwriaeth na byddai dim a wnelent â'r rhai a elwir yn wrthryfelwyr Cymreig.* Barnaf fod y fynachlog yn dra chadarn yn ei hymlyniad wrth y buddugoliaethwr; oblegyd hysbyswyd fi † fod gwysiadau ar gael, yn mhlith rhestr y gwysiadau yn y Tŵr, yn gwysio yr abad i'r senedd, yn y 23ain, y 24ain, yr 28ain, y 32ain, a'r 34ain o Iorwerth I

Yn ol prisiad ei chyllid yn 1534, y cyfanswm ar adeg y dadgorphoriad ydoedd, yn ol Dugdale, 150*p.* 7*s.* 3*c.*; yn ol Speed, 157*p.* 15*s.* 2*c.* In 1553 yr oedd 4*p.* yn cael ei dalu mewn blwydd-daliadau.‡

Y gwaddoliadau neillduol, fel yr wyf yn casglu oddiwrth Dugdale,§ oeddynt y rhai hyn: Harri III. trwy siartr, a roddai ac a gadarnhai ddeg o *librates* yn Longenedale yn sir Derby, ynghydag eglwys Glossope, a'r oll a berthynai iddi, i gael eu dal mor rydd ag y daliai William Peverel yr unrhyw yn amser Harri ei daid. Y mae yr un siartr hefyd yn cadarnhau rhoddion Ranulph, iarll Caerlleon, a barwniaid ereill, sef, Treffynon, Fulbrook, capel y Maes glas, hen breswylfa y mynachod, ynghyda'r melinau a'r oll a berthynai iddynt; hefyd, *Holes*, a chyfran o *Lecche*, a chan' swllt o gyllidau Caerlleon, rhodd yr iarll a nodwyd; *Calders* ynghyda'i thrigolion, ac yn ddiweddaf *Kethlenedei*, rhodd Robert Banastre.

Y mae Llewelyn ap Iorwerth, tywysog Cymru, a chydoeswr â Harri III., yn cadarnhau holl roddion ei hynafiaid; yn enwedig y lle y safai eu tŷ arno, y felin o flaen eu porth, a'r tir o flaen eu drysau, yr olaf a ganiatâwyd iddynt gan Ranulphus, a'i frawd Æneas. Y mae yr unrhyw siartr yn rhoddi iddynt hefyd dir Meredydd Wawor yn Nhreffynon; *Fulbrook;* cyfran o borfa ar y mynyddoedd; *Hanot de le Wecch*, a *Creicgraft*, a'r oll a berthynai iddynt. Ei fab a'i olynydd, Dafydd, mewn siartr arall, a gadarnha roddion ei dad, ac a ychwanega diroedd Huttred, brawd i Meredydd Wawor o Dreffynon; maenordy Fulbrook; eglwys Treffynon, a chapel Colsul; a thir a phorfa y Gelli, a roddasid yn flaenorol gan ei dad. Y mae hefyd yn eu hawdurdodi i brynu a gwerthu pobpeth yn ddidoll yn ei holl diriogaethau, at wasanaeth eu tŷ; hefyd, y bummed ran o'r pysgod a ddelid yn ei bysgodfeydd yn Rhuddlan; a'r ddegfed o'r holl bysgod a berthynent iddo ef yn mhobman arall. Y mae yn cadarnhau iddynt holl bentref *Wenhewm*, ynghyda'i holl drigolion a phobpeth a berthynent iddo, yr hon ydoedd rodd *Howen de Porkenton* (Owen Brogyntyn,) ac wedi ei chadarnhau gan *Helyso.* Efe ar yr un pryd a gadarnha iddynt y tiroedd a'r borfa yn *Pentlin*, rhodd ei dad.

Amserir y siartr yma o *Coleshill* yn 1240, a'r tystion wrtho ydynt Hugh, esgob Llanelwy; ei ganghellydd, yr enwog Ednyfed Fychan, ac ereill.

Y mae Tanner ‖ yn nodi degymau *Blackbrook* a choed *Langdon;* tiroedd yn *Chanclesworth;* maenordy *West Kirkby*, yn sir Gaerlleon; y mwnglawdd ariau

* Ayloffe's Rotuli Walliæ, 68, 82.

† Trwy garedigrwydd Samuel Lysons, Ysw., cafodd cywirdeb yr adroddiad uchod ei gadarnhau —Gol.

‡ Willis's Abbies, I. 312. § Monasticon I. 720, &c. ‖ Notitia, 711.

Digitized by Google

gerllaw y Maesglas; cwning-gaer rydd yn Gethli (y Gelli,) Menegrange, Ouregrange, Beggerburgh, a Threffynon.

Yr oedd y fynachlog hefyd yn feddiannol ar yspytty neu gapel *Sponne*, yn agos i *Coventry*, yr hwn a sylfaenwyd ar y cyntaf gan Hugh Cyfeiliog, iarll Caerlleon, a'r hwn efallai a'i rhoddodd i'r mynachod hyn.*

Yr oedd holl gyllid yr abad, a chyfrif yr hyn a ddeilliai oddiwrth y melinau, tiroedd, gwartheg, a defaid, yn cyrhaedd i 46*l.* 11*s.*†

Yn 1540, rhoddwyd y tai a'r tiroedd yn y gymydogaeth i Henri ap Harri, o lwyth Ednowain Bendew; unig ferch yr hwn, Anne, trwy ei phriodas â William Mostyn, Ysw., o Drelacre, a'i trosglwyddodd i'r teulu hwnw, lle y maent yn aros hyd heddyw.

Nis gallaf gael gafael ar enwau ond dau o'r abadau. Thomas ap Dafydd Pennant a lywyddai y tŷ yn amser Gutyn Owain, bardd a flodeuai yn y flwyddyn 1480, yr hwn a osyd allan letygarwch yr abad mewn cywydd a argraffwyd yn nghasgliad Mr. Rhys Jones. Y mae y bardd mor hael ei foliant fel y dywed:—

"Er bwrw yno aur brenin
Ef a roes ddeufwy ar win."

Ac yn mhlith ei foethusion ereill, yr wyf yn meddwl ei fod yn enwi siwgr; yr hyn y gallasai abad cyfoethog yn y bymthegfed ganrif ei fwynhau yn rhwydd, gan ei fod y nwydd fasnachol yn *Sicily* mor gynar a'r flwyddyn 1148.

Y mae efe a Tudur Aled, bardd enwog arall,‡ yn siarad nid yn unig am ei weithiau llesiannol; am y melinau dwfr a'r melinau gwynt a adeiladodd; am ei fod wedi helaethu a phrydferthu y fonachlog; ond hefyd llongyfarchant ef am ei wroldeb mewn rhyfel. Ac nid yw Gutyn Owain yn ddystaw ar bwngc ag sydd yn hyfryd gan glust pob Cymro, sef achau ei noddwr, y rhai y mae yn eu holrhain o Edwyn, ac oddiwrth Rhys Sais, yr hwn a ddisgynai mewn llinach uniongyrch o Tudur Trefor.

Ymadawodd â'i alwedigaeth, a daeth yr hyn a elwir yn fynach prawf *(monk deraigne);* priododd oddeutu tri chan' mlynedd yn ol, âg Angharad, merch Gwilym ap Gruffydd ap Gwilym, o dylwyth y Penrhyn yn sir Gaernarfon.§ Bu iddo o honi dri o feibion, yr ieuengaf o ba rai, Nicholas, a'i dylynodd yn yr abadaeth, ac efe oedd yr olaf a lanwodd y swydd. Y mae gweddillion derwen o hynafiaeth mawr, yr hon a elwir hyd heddyw yn *Dderwen yr abad*, i'w gweled eto gerllaw adfeilion y tŷ, a thybir ei bod yn cydoesi âg ef.

* Dugdale's Warwickshire, I. 197.

† Willis's St. Asaph, 176. Yn y siartr i fonachlog y Maesglas am diroedd y pig yn sir Derby, y mae adran yn dyogelu cig y ceirw i'r brenin, gyda chydsyniad yr abad a'r fynachlog; er dyogelu hyn, byddai dau goedwigwr yn cael eu hapwyntio gan y brenin; ond caniateid i'r rhoddwyr ladd ysgyfarnogod, llwynogod, a bleiddiaid. *Sebright MSS.*

‡ Sebright MSS.

§ Richard Pennant, arglwydd Penrhyn, trwy ffawd hynod, sydd yn awr yn perchenogi y palas a'r etifeddiaeth a berthynant i deulu hon, ei hen hynafiad o bell, trwy ei briodas â'i arglwyddes. Anne Susanna, merch y diweddar Gadfridog Warburton; yr hon, trwy ei nain, sydd hefyd yn disgyn o dylwyth y Penrhyn.

Bu Arglwydd Penrhyn farw yn 1808. Gol.



Digitized by Google

Y mae y ffordd oddiyma yn dra phrydferth, ar hyd dyffryn bychan, yr hwn a derfynir ar un llaw gan goedydd hardd, o dan y rhai y prysura yr afonig tua'r môr, oddieithr pan yr aflonyddir arni gan y gweithfeydd lluosog. Darganfyddir ei tharddiad yn ngodreu bryn syth, islaw i dref Treffynon, i ba un y dyry ei henw.

*Ffynhon Gwenfrewi.* Y mae y gofer yn berwi allan o'r graig gyda ffyrnigrwydd mawr; a derbynir y dwfr gan ffynhon amlonglog brydferth, wedi ei thoi â bwa hardd yn sefyll ar bileri. Y mae ei phen wedi ei gerfio yn gywrain mewn gwaith maen. Yn union uwchben y ffynhon y mae ystori Gwenfrewi, gyda phais-arfau Lloegr yn y gwaelod. Attegir y nenfwd gan luaws o asenau prydferth, rhwng y rhai mae cerfiadau cywrain.

Nid yw rhai o honynt yn ddim amgen na gwaith dychymyg; lluniau anifeiliaid digrifol: ond y mae y gweddill yn cyfeirio yn benaf at deulu *Stanley*. Codwyd yr adeilad hon, a'r capel sydd uwchlaw iddi, trwy dduwiolfrydedd y teulu mawr hwnw, y rhai a adawsant ar eu holau yr arwyddion hyn o'u haelioni: y mae yno hefyd rai cofnodau am yr anrhegwyr urddasol; er engraifft, darlun o Margaret, mam Harri VII., ac eiddo ei gŵr, iarll Derby, wedi eu tori ar yr un gareg.

Y mae y cyfeiriadau at y *Stanleys* yn dra mynych. Y pen *blaidd* ydyw pais-arfau iarllod Caerlleon: amgauir ef mewn *gardas*, o barch i Syr William Stanley, marchog o'r urdd hòno, yr hwn a fuasai yn ganghellydd Caerlleon, ac yn ustus Gogledd Cymru. Y baril gyda'r planigyn yn dyrchafu o hono, sydd ffugyrol,—pais-arfau ei wraig, *Elizabeth Hopton*, mewn cyfeiriad at ei henw. Profa hyn fod yr adeilad wedi ei chodi cyn 1495, yn mha flwyddyn y collodd Syr William ei ben. Arwyddion ereill perthynol i'r un teulu ydynt y pen carw; coes eryr; a'r tair coes, pais-arfau Ynys Manaw.

Yr ydym yn cael hefyd fod Catherine o Arragon, gweddw y tywysog Arthur, yr hon a fu wedi hyny yn wraig anffodus i'w frawd Harri VIII., wedi cyfranu at yr adeilad hon; o leiaf, y mae ei phais-arfau yn ymddangos yma: tri phomgranad mewn tarian, a choron uwch ben; pais-arfau tylwyth *Granada*, er coffadwriaeth am yriad allan y *Mŵriaid*, gan ei thad *Ferdinand*.* Ymddengys hefyd fod yr eryr yn perthyn iddi hi, gan ei fod yn un o gynalyddion paisarfau ei theulu.


Uwch ben un o'r bwäau lleiaf, ar bob ochr i'r ffynhon, y mae y ddraig a'r milgi, cynalyddion pais-arfau Lloegr yn ystod teyrnasiad Harri VII., a rhan o deyrnasiad Harri VIII. Gwisgid y cyntaf gan Harri VII. fel arwydd teulu *Tudur*, y rhai a hanent o Cadwaladr, brenin diweddaf Prydain, yr hwn a ddygai ar ei faner ddraig goch. Harri, mewn efelychiad o hono, yn mrwydr Bosworth, a gariai ar ei luman ddraig goch, wedi ei phaentio ar sidan gwyrdd a gwŷn; yr hyn a roddodd fodolaeth i'r swyddogaeth a elwir *Rouge-dragon* (y Ddraig Goch,) yn mhlith yr archyddion.

Ar un ochr i'r mur a gynalia y nen, yr oedd chwedl y santes warcheidiol wedi ei phaentio; y mae yn bresenol wedi ei hambaru yn fawr, a braidd yn annarllenadwy: uwchben y mae yn gerfiedig, *in honorem Sanctæ Wenefredæ, V. & M.* (Er anrhydedd i'r Santes Gwenfrewi, morwyn a merthyr.)

* Sandford's Geneal. 475.

Digitized by Google

Digitized by Google



*FFYNHON A CHAPEL GWENFREWI.*

**ST. WENEFREDE'S WELL & CHAPEL.**

Digitized by Google

Mewn mur arall y mae cafell brydferth, lle y safai cerflun o'r Forwyn Fair, yr hon a dynwyd i lawr, fel y clywais, yn y flwyddyn 1635.

Clywais hefyd fod yno un arall o'r Santes Gwenfrewi. I addurno y ddelw hon, ar uchelwyliau, y mae yn debygol, yr anfonodd *Isabel*, iarlles Warwick, gweddw y mawreddog *Richard Beauchamp*, ei gown melfed llwydgoch i'r Santes Gwenfrewi, yn 1439.*

*Capel.* Uwchben y ffynhon hon y mae capel, a wnaed ar yr un adeg a'r adeilad arall: dernyn destlus o adeiladwaith Gothig; ond y mae yn awr mewn sciyllfa dra adfeiliedig. Bu hwn yn gapel rhydd, yn rhodd yr esgob, gyda swm pennodol i'w gadw i'r côr offeiriadol; ond yr oedd y gweddill o'r offrymau i gael eu gwario ar y capel. Yn amser Rhisiart III., yr abad a'r fynachlog a dderbynient ddeg *mark* gan y goron at gynaliaeth a chyflog i offeiriad yn nghapel Santes Gwenfrewi.† Y mae y capel yn awr yn meddiant John Davies, Ysw., o'r Llanerch.‡

Cafodd yr archiad a ganlyn, o barthed rhoddi y capel uwchlaw y ffynhon yn meddiant offeiriad perthynol i eglwys Rufain, ei anfon i Syr Roger Mostyn, barwniad, gan frenines Iago II.:—

Syr Roger Mostyn.

Rhyngodd bodd i'r brenin, trwy ei awdurdod freninol, roddi i mi yr hen gapel perthynol i ffynhon Santes Gwenfrewi; y rhai hyn ydynt i ddymuno arnoch, yn fy enw i, i roddi meddiant presenol o'r cyfryw gapel i Mr. Thomas Roberts, yr hwn a draddoda i chwi y llythyr hwn o'm dwylaw i. Gan fod yn fy mwriad hefyd i gael y lle wedi ei adgyweirio yn weddus, a'i ddodi at wasanaeth da, yr wyf yn mhellach yn dymuno ar i chwi roddi iddo eich ffafr a'ch nawdd, fel na aflonydder arno yn y cyflawniad o hyny. Gorphwyswch gyda sicrwydd y bydd i bobpeth a wneloch yn hynyma, yn unol â'm dymuniad, gael ei gofio yn dra charedig gan

Eich cyfeilles dda,

Mai yr 8ed, 1687, Whitehall. Mary: y Frenines.

Y mae y ffynhon yn gyffredin i bawb; oblegyd yr wyf yn cael, drwy benderfyniad yn y Canghell-lys, mewn cwyn cyfraith o berthynas i arglwyddiaeth Treffynon, rhwng Syr John Egerton, marchog, a John Eldred, fod y canghellydd Ellesmere yn dyfarnu fel hyn: "Wrth alw i gof, fod yn y faenoriaeth hòno ffynhon o goffadwriaeth hynafol a theilwng, nid yw yn tybied fod yn addas i'r deisebydd, na neb arall, gael meddiant o honi, er geiriau cyffredinol y siartr am y faenor; ac am hyny y mae ei arglwyddiaeth yn gorchymyn, er y siartr hòno, fod i'r ffynhon barhau fel ag y mae yn awr, neu fel ag y mae wedi bod cyn hyn; gan ddyogelu i'r deisebydd, ac i'w etifeddion a'i gymunweinyddwyr, y budd o'r ffrwd a rhedfa y dwfr, ynghyda phobpeth a berthyna iddynt."

Y mae dwy dyb wahanol gyda golwg ar darddiad y ffrwd hon. Y mae un blaid yn ei gwneyd yn wyrthiol: a'r blaid arall yn haeru nad yw ond yn tarddu o achosion naturiol.

* Dugdale's Warwickshire, I. 414.

† Harleian MSS. Rhif 433, 338. ‡ Y mae yn awr yn eiddo Mr. Leo. Gol.

Digitized by Google

*Y Chwedl am Gwenfrewi.*

Yn y seithfed ganrif yr oedd gwyryf o'r enw Gwenfrewi, yn byw, wedi ei geni o rieni pendefigaidd; enw ei thad oedd Thewith, arglwydd galluog yn y rhanau lle y saif Treffynon yn awr; enw ei mam oedd Wenlo, a disgynai o deulu hynafol yn sir Drefaldwyn, a chwaer i Sant Beuno. Yr oedd Beuno wedi mabwysiadu y cwcwll mynachaidd, ac wedi ymneillduo i Glynog, yn sir Gaernarfon, lle yr adeiladodd eglwys a mynachdy. Wedi cyflawni y gorchwyl duwiolfrydig yma, aeth i ymweled â'i berthynasau yn sir Fflint, ac wedi cael dernyn bychan o dir yn ngodreu y bryn ar ba un y preswyliai, gan ei frawd-yn-nghyfraith, efe a adeiladodd arno eglwys, ac a gymerodd ei nith Gwenfrewi o dan ei nawdd. Tywysog yn y gymydogaeth, o'r enw Cradog, mab y brenin Alen, a lygad-dynwyd gan ei phrydferthwch, a boed a fynai penderfynodd fynu cael boddhau ei nwydau. Gwnaeth ei ddymuniadau yn hysbys i'r foneddiges; yr hon, wedi ei tharo gan ddychryn, a amcanodd ddiangc. Ond yr adyn, mewn cynddaredd am iddo gael ei siomi, a ymlidiodd ar ei hol, a thynodd allan ei gleddyf, gan dori ymaith ei phen. Derbyniodd Cradog y gospedigaeth am ei drosedd yn y fan: syrthiodd i lawr yn farw, agorodd y ddaear, a llyngcwyd ei gorph annuwiol. Y mae *Higden*, yn ei *Polychronicon*, yn ychwanegu fod hyd yn nod disgynyddion yr angenfil yma wedi dyoddef barnedigaethau arswydus, nad oedd gwaredigaeth oddiwrthynt ond trwy ymweled â'r ffynhon hon, neu âg esgyrn y santes yn yr Amwythig.*

Ymdreiglodd y pen i lawr yr allt, a safodd yn ymyl yr eglwys. Y dyffryn, yr hwn yn flaenorol, ar gyfrif ei sychder anghyffredin, a elwid *Sychnant*, yn awr a gollodd ei enw. Ymagorodd ffynhon o faintioli mawr yn y fan lle y gorphwysodd y pen. Y mwsogl ar ei hochrau a roddasant arogl persawrus.† Ysmotiodd ei gwaed y ceryg, y rhai fel blodau *Adonis*, yn flynyddol a adgoffhant y ffaith, trwy ymddangos mewn lliwiau gwahanol i'r rhai a arwisgant ar amserau ereill.

Forwynig deg,
Am danat ti, fy nagrau a'm diddiwedd boen,
Gânt sefyll mewn tragwyddol gofadeiliau hoen,
Dy farwol ing bob blwydd sy'n adfywhau,
Gan brofi'm loes i'r oesoedd pell, byth heb leihau.

Sant Beuno a gododd y pen, dygodd ef at y corph, ac wedi iddo anfon ei weddïau i fyny, cysylltodd ef yn fanwl wrtho, yr hwn yn ddiatreg a ailymunodd. Nid oedd yr asiad yn weladwy ond trwy lincll wen fain a amgylchai y gwddf, er coffadwriaeth am y wyrth, yr hon oedd yn llawer hynotach na'r un a weithredwyd gan Sant *Dionysius*, yr hwn a gerddodd yn orfoleddus ar ol cael ei ddienyddio, a'i ben yn ei ddwylaw, o Montmartre i St. Denis,‡ neu eiddo St. *Adelbertus*, yr hwn a nofiodd dros yr afon Vistula o dan y cyffelyb amgylchiadau.

I ddiweddu: bu Santes Gwenfrewi fyw am bymtheng mlynedd ar ol cael tori ymaith ei phen. Bu farw yn Gwytherin yn sir Ddinbych, lle y gorphwysodd ei hesgyrn hyd deyrnasiad y brenin Stephan; yna, trwy rybudd dwyfol,

* Gale's Script. III. 190. † Hanes Bywyd Santes Gwenfrewi, o ba un y cymerwyd y rhan fwyaf o'r defnyddiau at yr adroddiad yma. ‡ Histoire de l'abbaye de St. Denys, 76.

Digitized by Google

symudwyd hwy i eglwys St. Pedr a St. Paul yn yr Amwythig. Cedwir coffadwriaeth am y ddau ddygwyddiad mawr yma—am ei marwolaeth gyntaf ar yr 22ain o Fehefin; ac am ei symudiad ar y 3ydd o Dachwedd.

Sefydlwyd brawdoliaeth a chorphoraeth er anrhydedd i'r santes yn yr Amwythig. Yr oedd ganddi ei sêl gyffredin, yr hon, trwy garedigrwydd fy nghyfaill, Mr. Henry Levingston, sydd yn awr yn fy meddiant. Copr ydyw ei defnydd, o'r ffurf a arddangosir yn y cerflun. Yn y canol y mae arddangosiad o'r merthyrdod; uwchlaw y mae croes ar ffurf y llythyren T, wedi ei gosod rhwng y llythyrenau *T. m.* y rhai a nodant yr amser pan y sylfaenwyd y frawdoliaeth, sef yn abadaeth Thomas Mynde, yr hyn a etholwyd yn 1459, adeg pan yr oedd y cyfryw gymdeithasau crefyddol mewn bri mawr. Y T neu y groes a gyfeiria at eglwys St. Croes yn y fonachlog. Oddi tanodd, fe ddichon, y mae paisarfau y tŷ, cleddyf ac agoriad, arwyddion ei apostolion gwarcheidiol; ac o'i hamgylch ryw ciriau anhysbys yn gerfiedig. Cafodd cloch berthynol i'r eglwys ei bedyddio er anrhydedd iddi. Nis gellais gael gwybod pwy oedd y tadau a'r mamau bedydd, ond diau, fel arfer, eu bod yn bersonau cyfoethog. Yn ystod y seremoni gafaelent oll yn y rhaff; rhoddent enw ar y gloch; a'r offeiriad a'i taenellai â dwfr sanctaidd, gan ei bedyddio yn enw y Tad, &c. &c.* Yna gwisgai hi â dilledyn hardd; wedi hyny rhoddodd y tadau a'r mamau bedydd wledd ardderchog, a chyflwynasant anrhegion mawrion, y rhai a dderbyniai yr offeiriad ar ran y gloch. Wedi ei bendithio fel hyn derbyniodd alluoedd mawrion; gostegai (trwy gael ei chanu) bob ystormydd; troai ymaith y daranfollt; gyrai ymaith ysprydion drwg. Byddai clychau cysegredig fel hyn bob amser a rhyw gerfiad arnynt. Y cerfiad ar y gloch hon oedd yr un canlynol:—

> Sancta Wenefreda, Deo hoc commendare memento,
> Ut pietate sua, nos servet ab hoste cruento.
>
> Santes Gwenfrewi, cofia gymeradwyo hon [y gloch] i Dduw,
> Gall duwioldeb ein cadw rhag y gelyn creulawn.

Ac ychydig yn is i lawr yr oedd anerchiad arall:—

> Protege Prece pia, quos convoco, virgo Maria.
>
> Fair Forwyn dduwiol, amddiffyn a gweddia dros y rhai y bydd i mi [y gloch] eu galw yn nghyd.

Ar ol ei marw profwyd ei santeiddrwydd, medd ei bywgraffydd, gan wyrthiau aneirif. Yr oedd y dyfroedd braidd mor iachaol ag eiddo llyn Bethesda: cafodd pob anhwyldeb ag y mae y corph dynol yn ddarostyngedig iddo eu hiachâu; y mae y baglau, y berfeydd, a phrofion ereill o'r gwelliantau yn aros hyd heddyw fel tystiolaethau, ac yn crogi uwch ben y ffynhon. Y mae y santes yr un mor garedig wrth Brotestaniaid ag ydyw i Babyddion; oblegyd yn mhlith y offrymau ceir y tystebau diolchgar hyn oddiwrth gleifion yn proffesu y ddwy ffydd.

Y Tad Sanctaidd a roddodd bob cefnogaeth i dduwioldeb y pererinion a fynychent y ffynhon hon. Y Pab Martin V.† yn nheyrnasiad Harri V., a anrhegodd fynachlog y Maesglas â phardynau ac ysgrifau maddeuol i gael eu gwerthu i'r ffyddloniaid. Adnewyddwyd y rhai hyn drachefn yn nheyrnasiad

* Stavely's Hist. Churches, 130.
† Selden's Notes on Michael Drayton, 289.

Digitized by Google

y freninee Mari, trwy ddylanwad Thomas Goldwell, esgob Llanelwy,* yr hwn a ddiangodd i Itali ar esgyniad Elizabeth i'r orsedd. Daeth lluoedd o offrymau i mewn; arwyddion o ddiolchgarch oddiwrth rai ag oeddynt wedi derbyn lles trwy gyfryngdod y wyryf.

Y mae nifer y pererinion i'r ffynhon hon wedi lleihau yn ddirfawr o ran eu rhifedi yn y blynyddoedd diweddaraf; daw y rhan fwyaf o honynt o Lancashire. Yn yr haf, gellir gweled ychydig o honynt eto hyd eu gên yn y dwfr mewn defosiwn dwfn am oriau, gan anfon i fyny eu gweddïau, neu ynte yn cyflawni cylchdroadau o gwmpas y ffynhon amlonglog. Ychydig o bersonau o urddas sydd yn anrhydeddu y ffynhon â'u presenoldeb yn bresenol. Yn yr eilfed ganrif ar bymtheg darfu i ben coronog urddasoli y lle trwy ymweled â hi. Y tywysog a gollodd dair teyrnas am offeren, a dalodd ei foes, Awst 29ain, 1686, i'n santes;† a chafodd ei wobrwyo gydag anrheg o'r crys yn mha un y collodd ei hen nain, *Mary Stuart*, ei phen.‡ Y mae y mwyafrif o'r ffyddloniaid o'r rhyw deg, yn cael eu hattynu yma er coffhau am ferthyrdod Gwenfrewi, megys ag yr oedd rhai y Dwyrain yn coffhau eu hanwylyd yn Cyprus:—

Clwyf blwyddol hwn yn mynydd Libanus,
A hudodd ferched Syria i alaru am
Ei dynged, mewn galar-ganeuon, drwy
Holl hirddydd haf; tra llifai wyneb llyfn
*Adonis* o'i chynhenid graig, mewn lliw
Porphoraidd at y môr, lle tybient fod
Eu *Thammuz* yn blynyddol gael ei glwyf.

Nyni, y rhai y mae ein hynafiaid, er's dwy neu dair canrif, wedi cyfyngu ein ffydd at gynwysiad yr Hen Destament a'r Newydd, ac at y Credo a elwir yn eiddo yr Apostolion, nid ydym yn meddwl fod crediniaeth yn y chwedl uchod, a'i chyffelyb, yn ofynol. Cyfeiriaf y darllenydd at y rhesymau a ddofnyddir gan yr hynafiaethydd Dr. Powel, yn ei nodiadau ar Deithlyfr Giraldus Cambrenis (Gerallt y Cymro,) neu at nodiadau yr Esgob Fleetwood ar fywyd y santes, am brofion yn erbyn gwirionedd y chwedl hon: ond gyda Phrotestaniaid, a Phabyddion cymedrol, y mae yn cario ynddi ei hun elfenau hunanddinystriol.

Diau fod y dyfroedd yn meddu ar bob rhinwedd dda ag sydd yn dylyn ymdrochi mewn dwfr oer; ac y mae lluoedd yn y fan yma wedi derbyn y llesâd a ddeillia oddiwrth achosion naturiol, y rhai a blanwyd mewn amryw sylweddau gan Ragluniaeth ddwyfol, er mwyn cyflawni ei ewyllys. Ymddarostyngodd y nefoedd am dymhor byr, er argyhoeddi oes dywyll a chaled, i gyflawni nifer o wyrthiau; y rhai a draddodwyd i oesoedd dylynol fel prawfion anwrthwynebol o wirionedd y genadwri ddwyfol. Hebddynt, y mae digon o sail i ymddiried ac ymorphwys ar y Bod Goruchaf wedi cael ei gosod i lawr er's hir amser. Y mae rhifedi aneirif o ail achosion wedi cael eu gwasgaru

* Powel's Notes on Girald. Camb. 874. Dywed Mr. Addison iddo weled darlun o hono yn Ravenna, yn mynachlog *Theatins*, yn mhlith prif ddynion yr urdd hono.

† Y tywysog hwn, yn ystod ei daith, fel arwyddion o'i ffafr, a ranai fodrwyau aur, gyda'i wallt yn blethedig o dan grisial. Gwelais un a roddasid ganddo i offeiriad pabaidd perthynol i deulu yn y gymydogaeth.

‡ MSS. y diweddar Ddr. Cooper, o Gaerlleon.

Digitized by Google

trwy y bydysawd, y rhai ydynt israddol i'r CYNTAF. Y mae pob elfen i ni naill ai yn feddyginiaeth neu yn wenwyn, yn ol fel y rhyngo bodd i'w oruchwyliaeth ddigyfeiliorn Ef. Nis gallwn fod mewn angen am, ac nis gallwn gael, cyfryngwriaeth y marwolion trengedig druain. Byddai y dybiaeth yn rhoddi iddynt briodoliaethau y Duwdod; hollbresenoldeb a hollwybodaeth.

Y mae rhai llysieuwyr enwog ag yr wyf fi yn gydnabyddus â hwynt, wedi esponio y mwsogl pêr, a'r ystaeniadau gwaedlyd, fel cynyrchion llysieuol, a dim ond hyny, ac yn mhell o fod yn neillduol i'r ffynhon hon. Y cyntaf ydyw mai math o fwsogl, a elwir *Jungermannia asplenioides*,* ydyw, Fl. Angl. 509, yr hwn a ddysgrifir ac a ddarlunir yn amherffaith gan *Dillenius*, yn ei hanes am fwsogl. Ceir y rhywogaeth yma hefyd mewn ffynhon sanctaidd arall, yn sir Gaernarfon, yr hon a elwir *Ffynhon Llanddeiniolen*, mewn plwyf o'r un enw.†

Y llall a elwir *Byssus;* y mae hwn hefyd yn beraroglaidd, ac yn tyfu yn gyffredin yn Lapland, ac mewn gwledydd ereill heblaw yr eiddom ni. Y mae yn glynu wrth geryg megys felfed prydferth. *Linnæus* a'i geilw *Byssus Jolithus*,‡ am ei fod yn arogli fel y feioled. Efe a ddywed, fod y gareg wrth ba un yr ymlyna yn bradychu ei hun trwy y lliw, gan ei bod megys pe buasai wedi ei baeddu â gwaed; ac os rhwbir hi, cynyrcha arogl fel y feioled. *Micheli*, yn ei *Genera*, a grybwylla am yr unrhyw;§ ac y mae *Schwenckfelt* wedi ei ddarganfod yn mysg llysiau *Siberia*. Geilw ef y planigyn yn *muscus subrubeus*, a hysbysa fod ei arogl yn lloni y galon; ac hefyd, os rhoddir ef yn mysg dillad, y dyry arnynt arogl dymunol, a'i fod yn gwasanaethu i gadw pryfaid draw.‖ *Linnæus* a ddywed¶ ei fod yn cael ei arfer mewn anhwylderau ag sydd yn tori allan. Y mae y *Conferva Gelatinosa*,** Sp. Pl. 1685. Fl. Scot. ii. 986, i'w gael yn yr un ffynhon.††

*Eglwys.*] Uwch ben y ffynhon saif yr eglwys, wedi ei chysegru i'r Santes Gwenfrewi. Cedwir gwylnosau y plwyf yn mis Tachwedd, sef yr adeg y symudwyd hi. Yr oedd y fywioliaeth, cyn y dadgysylltiad, yn perthyn i fynachlog y Maesglas; ac y mae y ficeriaeth yn cael ei rhoddi gan Goleg Iesu yn Rhydychain, yr hwn sydd yn pennodi; a John Davies,‡‡ Ysw., o Lanerch, yw y meddiannwr.* Rhoddwyd hi i'r coleg gan ei hynafiad, Robert Davies, trwy weithred wedi ei hamseru 1626, yr hon a ddywed, mor aml ag y delo yn wag, fod i'r dywededig Robert Davies, a'i etifeddion, gael rhadroddi, o elusen, y fywioliaeth i frodor o Gymru, ond iddo gael ei enwi yn gyfreithlon a chanonaidd gan y coleg.

Uwchlaw yr eglwys y mae bryn, a elwir Bryn y Castell; y mae yn gul, ac yn dra syth yn ei ochrau, gan daflu allan yn y pen pellaf uwchlaw y dyffryn bychan. Ar hwn dichon y safai Castell Treffynon, neu Santes Gwenfrewi, yr

* Smith, Eng. Bot. Tab. 1788. GOL.

† Ffynhon Cegin Arthur ydyw yr enw wrth ba un yr adnabyddir hi yn bresenol. CYF.

‡ Sp. Pl. II. 1638.—Fl. Lap. 369, No. 528.—Fl. Dan. Tab. 899. 2.

§ Gen. 210, Tab. 89, Fig. 3.

‖ Cat. Stirp. &c. Silesiæ, 382.

¶ Fel y dyfynir ef gan y Barwn Haller, Rhif 2090.

** Smith, Eng. Bot. Tab. 689, GOL.

†† Hist. of Whiteford, p. 237.

‡‡ Yn bresenol, — Leo, ysw., o'r Llanerch. GOL.

Digitized by Google

hwn a adeiladwyd gan Randle III., iarll Caerlleon, yn y flwyddyn 1210.* Nid oes yn bresenol unrhyw olion o hono yn aros.

Y mae yn hynod nad oes un crybwylliad yn y *Doomsday Book*, am na chapel, eglwys, na ffynhon; eto y mae trefydd-degwm o lai hynodrwydd yn cael eu henwi; megys Brunford, Caldecote, ac ereill. Er gwaethaf opiniwn yr Esgob Fleetwood, yr wyf yn meddwl fod yr ystori am Gwenfrewi yn adnabyddus cyn i'r llyfr hwnw gael ei wneyd; oblegyd y mae yr enw *Holywell* (Treffynon) yn Sacsonaidd, ac efallai wedi ei roddi ar y lle cyn y Gorchfygiad, ar gyfrif sancteiddrwydd tybiedig y ffynhon.

Diau fod y ffynhon yn un o'r rhai harddaf yn y teyrnasoedd hyn; a thrwy ddau brawf a wnaed yn ddiweddar er hysbysrwydd i mi, ceir ei bod yn bwrlymu allan oddeutu un dunell ar hugain o ddwfr bob munud. Nid yw byth yn rhewi. Ar ol llawer o wlawogydd trwm y mae yn cael ei hafliwio gan liw llwyd neillduol.

Y ffrwd a ffurfir gan y ffynhon hon sydd yn rhedeg yn gyflym tua'r môr, yr hwn a gyrhaedda mewn ychydig yn rhagor na milldir o ffordd. Y mae diwydrwydd y ganrif bresenol wedi gwneyd ei dyfroedd o ddefnydd mawr, mewn ystyr fasnachol. Y prif weithiau arni yn bresenol† ydynt felinau at falu copr; melin at wneyd papur brâs; melin trewlwch; tawdd-dy at doddi prês; a gweithfa gottwm sydd yn awr yn cael ei sefydlu.

Yn ystod teyrnasiad y pererindodau, ni bu ond un neu ddwy o felinau ŷd, a'r rhai hyny yn eiddo y mynachod, yn cael eu gweithio gan y ffrwd fuddiol hon.

Bechan hefyd oedd y dref hyd ddechreuad y ganrif bresenol; y tai yn ychydig o nifer, a'r rhan fwyaf o'r rhai hyny wedi eu toi â gwellt; yr heolydd heb eu palmantu; a'r lle heb un math o farchnad. Darfu i'r mwn-gloddiau blodeuog, a fu am amser yn cael eu gweithio yn y gymydogaeth, wneuthur cyfnewidiad mawr yn ymddangosiad y lle, a dygodd i mewn effeithiau cyfoeth. Y mae y dref, neu yn hytrach y dref-ddegwm, yn cynwys rhywfaint yn llai na dwy fil o eneidiau.‡

Mynachod y Maesglas a lwyddasant i gael iddi ganiatâd i gynal ffair a marchnad. Y mae y gyntaf wedi ei cholli er cyn cof neb sydd yn fyw. Yr oedd y farchnad hefyd wedi ei cholli, hyd oni adnewyddwyd hi trwy lythyrau breintiedig, dyddiedig Ion. 20fed, 1703, y rhai a ganiatawyd i Syr John Egerton, barwniad. Y mae y breint-lythyrau hyn hefyd yn cynwys caniatâd i gynal tair o ffeiriau, sef, ar yr 23ain o Ebrill, y dydd Mawrth yn wythnos y Pasg, a'r ail ddydd o Fedi. Y mae y farchnad wedi bod yr un fwyaf blodeuog yn Ngogledd Cymru; ond ni allwyd erioed sefydlu y ffeiriau.

Y mae sefyllfa y dref yn hyfryd ac iachus, o'r tu cefn iddi y mae bryn uchel, ac ar brydiau ceir ynddo ddigonedd o fŵn plwm. Tuag at y môr y mae dyffryn prydferth, yn cael ei gylchynu gan goedwigoedd: a therfynir y pen

* Powel, 262.

† Am hanes cynydd y gweithfeydd hyd y flwyddyn 1796, cyfeirir y darllenydd at y llyfr a ddyfynir mor fynych, sef Hist. of Whiteford, &c., tudal. 201. Gol.

‡ Yn ol cyfrif 1801, yr oedd poblogaeth tref-ddegwm Treffynon yn 2518, a'r holl blwyf yn 5567. Gol.

Digitized by Google

draw ar un ochr gan y fynachlog hybarch. I'r rhai ag y mae angen arnynt am ymdrochi mewn dwfr oer, ychydig o fanau sydd yn fwy priodol; oblegyd heblaw rhagoroldeb y dwfr, gellir cael yma gymhorth meddygon tra medrus, a llety cysurus; a gall y meddwl gael ei foddhau, yn gystal â'r corph ei ymarferyd, gan amrywiaeth o lwybrau prydferth at farchogaeth neu rodiana.

Fy ymweliad nesaf oedd â Fflint. Cymerais y ffordd isaf, gyda'r môr, lle ag sydd wedi ei dduo gan fwg y tawdd-dai; ac mewn amseroedd mwy blodeuog ar y gweithydd glo, byddai yn llawn o domenydd o'r sylwedd defnyddiol hwnw. Y dref-ddegwm olaf yn mhlwyf Treffynon, ar yr ochr hon, ydyw

*Coleshill.*] *Coleshill*: yr hon a ddyry enw i gantref, a galwyd hi felly am y cyflawnder o lo sydd ynddi. Ar adeg y Gorchfygiad yr oedd yn y lle yma bedwar o gaethddeiliaid, dau fythynwr, a *Radman*. Ymddengys fod hwn yr un peth a'r *Rod* neu *Rad-knights*, neu farchogion y wialen, y rhai, yn ol cyfraith daliad eu tiroedd, oeddynt yn rhwym i farchogaeth gyda neu dros eu harglwydd mor fynych ag y byddai ei amgylchiadau yn galw am hyny.

*Fflint.*] Ar ol croesi ffrwd fechan, yr wyf yn myned i mewn i dref Fflint: yr hon sydd dref wedi ei gosod allan gyda rheoleidd-dra mawr; ond y mae yr heolydd yn mhell o fod wedi eu cwblhau. Bydd symud oddiyno y sessiynau mwyaf a lleiaf, yn nghyda'r diffyg masnach yn y lle, yn rhwym o weithredu yn fwy er atal ei gwelliant. Y mae y dref hon yn rhoddi ei henw i'r sir, yr hon, gyda Chaernarfon, Meirionydd, ac Ynys Fon, a wnant i fyny bedair sir hynafol Gogledd Cymru, fel y ffurfiwyd hyny gan Iorwerth I. yn uniongyrchol ar ol iddo ddarostwng ein tywysogaeth. Nis gallaf ddarganfod unrhyw darddiad i'r gair: y mae ein sir yn hollol amddifad o'r ffosyl a adnabyddir wrth yr enw hwnw yn gyffredin. Nis gallaf ond sylwi, ei fod o wreiddyn Sacsonaidd pur; ac er nad oes crybwylliad am dano yn y *Doomsday Book*, ei bod yn cael ei galw yn flaenorol i'r Congcwest wrth yr enw hwnw.

Ymddengys i mi hefyd fod y lle hwn yn flaenorol yr un a'r fan a elwir Colsul, neu *Coleshill*. Ni fedraf gael unrhyw le arall lle y safai capel Colsul, yr hwn a ganiatawyd gan Ddafydd ap Llewelyn i fynachlog y Maesglas. Dichon fod y *Fflint* bresenol yn myned o dan y ddau enw, yn yr amser hwnw. Nid oes dim olion o unrhyw gapel arall yn y gymydogaeth heblaw hwn; nac unrhyw le arall a fuasai yn ddigon pwysig i demtio ein tywysogion i fyw ynddo. Gelwid ef yn y *Doomsday Book* yn *Coleselt;* a meddiennid ef gan Robert o Ruddlan. Edwin a'i daliai ganddo ef, ac fel rhydd-ddeiliad. Yr oedd yma un cyfar o dir yn drethadwy.

Ymddengys fod yr holl le wedi cael ei sylfaenu mewn amseroedd peryglus; a phob darpariaeth wedi ei gwneyd gogyfer âg ymosodiad gan bobl ag oeddynt yn ddiweddar wedi cael eu darostwng, y rhai a ymostyngasent yn gyndyn i iau dramoraidd. Y mae y dref wedi ei ffurfio ar egwyddor gwersyll Rhufeinig, gan ei bod yn union-onglog, ac wedi ei hamgylchu â ffos fawr a dau o furiau amddiffynol mawrion, gyda'r pedwar porth rheolaidd, fel y byddai arfer y genedl filwraidd hòno. Bydd i mi rhagllaw gynyg tybiaeth am y posiblrwydd iddi fod unwaith yn orsaf Rufeinig.

Yr adeiladau cyhoeddus o fewn y cylch yma ydynt yr eglwys, neuadd y

Digitized by Google

dref, a'r carchar;* ac nid yw yr un o honynt yn un math o addurn i'r dref fechan hon. Y mae yr eglwys, neu gapel yn hytrach, wedi ei chysegru i Fair Santes; ac nid yw ond curadiaeth barhaol o dan Laneurgain. Tybiaf mai hwn ydoedd y *capella de Colsul*,† yr hwn a berthynai i fynachlog y Maesglas, am yr hwn y crybwyllir yn siartr Dafydd ap Llewelyn. Dichon fod Fflint, y pryd hwnw, yn cael ei chynwys yn yr enw Colsul.

Y mae y castell yn sefyll ar graig isel o dywodfaen ag sydd yn taflu allan i'r tywod, ychydig o du y gogledd-ddwyrain i'r dref; ac ar un adeg yn gysylltiedig â hi trwy bont a arweiniai i'r rhag-gaerau, a elwid y *Barbican;* tŵr ysgwâr, gyda phorth iddo, yr hwn sydd yn awr wedi ei chwalu yn llwyr. Oddifewn yr oedd cwrt, wedi ei amgylchynu â ffos wedi ei murio, ac yn gysylltiedig trwy grog-bont â'r brif amddiffynfa; y fynedfa i ba un, er mwyn mwy o ddyogelwch, nid oedd ond ychydig yn amgen na drws cefn.

Y castell sydd adeilad pedair-onglog, gyda thŵr crwn mawr mewn tair o'r cornelau, a phedwerydd, ychydig yn anghysylltiol â'r lleill, ac yn fwy o gryn lawer na hwynt. Gelwir hwn y *tŵr dwbl.* Buasai yn gysylltiedig â'r castell gyda chrogbont, ac y mae o drwch mawr. Y mae iddo oriel gron odditanodd, wedi ei bwâu, gyda phedair o agorfeydd bwaog i le agored yn y canol, ychydig yn fwy na dwy droedfedd ar hugain o dryfesur. Mewn un lle y mae yr oriel yn gostwng yn sydyn, ac yn myned ar ogwydd at y castell; yna y mae yn cyfodi i fyny, gan ffurfio math o gysylltiad gydag oriel uwch.

Hwn ydoedd y *Keep*, neu y lle cadarnaf yn y castell, a'r un lle ag a eilw y Ffrangcod *le Donjon;* i hwn, fel yr hysbysir ni gan Froisart, yr enciliodd yr anffodus Rhisiart II., fel y lle dyogelaf, pan y cymerwyd ef gan Bolingbroke.

Y mae sianel y Ddyfrdwy yn bresenol mewn ychydig bellder oddiwrth y muriau; ond gynt arferai lifo odditanynt. Y mae yn aros eto, mewn rhai manau, y modrwyau wrth ba rai y rhwymid y llongau.

Pwy oedd sylfaenydd y castell hwn sydd ansicr. Dywed Camden mai Harri II. ydoedd, ac y mae ei hanesydd‡ pendefigaidd o'r un feddwl. Ar ol ei ddiangfa yn Eulo, y mae yn bosibl ei fod wedi dechreu adeiladu amddiffynfa yma er mwyn dyogelwch mewn amseroedd dyfodol; iddo ei gadael yn anorphenol; ac i Iorwerth I. ei gorphen. Yn ol cwyn gwŷr Fflint, yn 1281, y mae yn amlwg na ddarfu i Harri sylfaenu ond amddiffynfa fechan yn y lle, ac fod Iorwerth wedi ei helaethu a'i chadarnhau yn ddirfawr. Cwyna y rhai hyny "fod y

* Adeiladwyd carchar newydd yn 1785, yn muarth y castell, yn ol cynlluniad yr archadeiladydd cywrain, y diweddar Mr. Joseph Turner o Gaerlleon. Y cerfiad canlynol uwch ben y porth a ysgrifenwyd gan Mr. Pennant, bywiogrwydd a haelioni yr hwn a wnaeth lawer iawn tuag at godi yr adeilad bresenol, yn lle y carchar truenus blaenorol. Gol.

"Yn y bummed flwyddyn ar hugain o'i Fawrhydi Sior III., pan oedd Syr Thomas Hanmer, Barwniad, yn siryf, adeiladwyd y carchar hwn yn lle yr hen adeilad ffiaidd yn mha un y cedwid carcharorion, o dosturi at drueni hyd yn nod y rhai mwyaf euog, i liniaru dyoddefiadau troseddwyr llai, neu hyd yn nod y rhai dieuog eu hunain, y rhai y gallai dygwyddiadau bywyd dynol eu dwyn oddifewn i'r muriau hyn. Fe'i hadeiladwyd ar draul y Sir, gyda chynorthwy tanysgrifiadau amryw o'r Boneddigion, y rhai, yn nghanol yr amseroedd mwyaf cyfyng, yn wirfoddol a gymerasant arnynt eu hunain ran o'r baich, o dosturi tuag at y cyfryw o'u cydwladwyr i ba rai yr oedd Tynged wedi bod yn llai haelfrydig o'i rhoddion."

† Dugdale Monast. I. 721.

‡ Lord Lyttelton.

Digitized by Google

dynion uchaf a mwyaf rhagorol yn y wlad yn cael eu drygu; fod y brenin wedi adeiladu castell Fflint ar eu tir hwy; ac fod y brenin wedi gorchymyn i'r barnwyr roddi i'r dynion gymaint o dir, o ansawdd well, yn ei le, neu ei bris; ond eu bod wedi cael eu hyspeilio o'u tiroedd, ac na chawsant diroedd ereill nac arian."* Y mae rholysgrifau teyrnasiad Iorwerth yn crybwyll amryw weithiau am y lle.

Yn y flwyddyn 1277, rhoddwyd allan orchymyn am gyhoeddi marchnad a ffair i gael eu cynal yn Fflint; a gwnaed felly ar ol hyny trwy sir Gaerlleon a chantrefi Gogledd Cymru. Oddiwrth warant sydd wedi ei dyogelu gan Rymer, ymddengys fod Iorwerth I. yn preswylio yma yn y flwyddyn hono, oddeutu adeg Gwyl Anerch Mair y Forwyn.†

Yn 1280, rhoddwyd archiad allan am gadwraeth porth Castell Fflint. Dichon mai dyma y flwyddyn pan y rhoddwyd ynddo warchawdlu am y waith gyntaf.

Yn 1283, derbyniodd y dref ei siartr cyntaf; gwnaed hi yn rhydd fwrdeis-dref; a thyngwyd y maer i gynal yn ffyddlon ei rhyddfreinniau. Amserir hwn yn Fflint ar yr 8fed o Fedi: cadarnhawyd ef drachefn yn yr 2il a'r 3edd flwyddyn o Phylip a Mari, ac wedi hyny yn y 12fed o Gwilym III.

Yn 1283, derbyniodd y bwrdeisiaid hefyd ganiatâd gan Iorwerth i gael coed allan o goedwigoedd Llaneurgain, Ledebroke fwyaf a lleiaf, Keldreston, Wolfynton, Weper, a Sutton, i'r dyben o doddi eu mŵn; ac ar yr un pryd hawl i borfa yn yr unrhyw goedwigoedd.

Yn 1290, y mae archiad am arolygu gweithiau y castell hwn, ac eiddo Rhuddlan a Chaerlleon; lleoedd o'r pwys mwyaf ar derfynau gwlad newydd gael ei darostwng.‡

Y dygwyddiad mawr cyntaf a'm tery i, o berthynas i'r amddiffynfa hon, sydd yn y flwyddyn 1280, pan y darfu i'r Cymry, wedi blino ar adnewyddiad gorthrwm, fel arwydd o wrthryfel cyffredinol, gymeryd y lle yn ddirybudd;§ ar yr un adeg ag y cymerodd Dafydd, brawd Llywelyn, gastell Pen-ar-lâg; a Rhys ap Maelgwyn,‖ a Gruffydd ap Meredydd ap Owain gastell Aberystwyth.¶

Yma, yn 1311, y darfu i fab penwan ein gorchfygwr dderbyn o'i alltudiaeth ei ffafryn awdurdodol *Piers Gaveston*, yr hwn oedd newydd lanio yn Nghaernarfon o'r Iwerddon.**

O'r cyfnod hwn nid wyf yn cael dim ag sydd yn hynod yn dwyn perthynas â'r amddiffynfa hon, hyd y flwyddyn 1335, y 9fed o Iorwerth III., pan y mae archiad yn cael ei rhoddi i'r Tywysog Du, fel iarll Caerlleon, i gymeryd gafael dyogel yn Nghastelli Fflint a Rhuddlan, a gosod ynddynt filwyr ac ymborth.†† Yr oedd Iorwerth, trwy siartr, yn ei 7fed flwyddyn, wedi rhoddi i'w fab dewrfrydig gastelli Gaerlleon, Beeston, Rhuddlan, a Fflint, a'i holl diroedd yno; ac hefyd gantref a thiroedd Tegeingle, gyda'r oll a berthynai iddynt, i'w meddiannu a'i dal ganddo ef a'i etifeddion, breninoedd Lloegr.‡‡

Yn y "*castell galarus*" hwn, fel y mae *Halle*§§ yn ei alw, y diswyddwyd

* Powel, 86. † Rymer's Fœdera, II. 86. ‡ Rotuli Walliæ, 98. § Eto, 76.

‖ Sillebir yr enw yma yn briodol *Maelgwn*—nid oes dim a fyno â *gwŷn*, gan fod *Gildas* wedi ei ysgrifenu yn *Maglocunus*. J.R.

¶ Powel, 337. ** Stow, 214. †† Rotulæ Scotiæ, 165. ‡‡ Dodridge. 125. §§ Int. Fol. iii.

Digitized by Google

yr anffodus frenin Rhisiart II. I'r fan yma yr hudwyd ef gan Henri Percy, iarll Northumberland, gyda'r sicrwydd nad oedd Bolingbroke yn dymuno dim yn rhagor na chael adferu iddo ei eiddo ei hun; a rhoddi senedd i'r deyrnas. Northumberland, gyda gosgordd fechan, a gyfarfu â Rhisiart yn gyntaf yn Nghonwy, y pryd hyny yn dychwelyd o'r Iwerddon. Yr oedd y brenin yn amheu yr iarll, yr hwn, er mwyn gwneyd i ffwrdd â phob amheuaeth, a aeth gydag ef i wasanaeth yr offeren, ac wrth yr allor a gymerodd lw o ffyddlondeb. Syrthiodd y brenin i'r fagl; aeth gyda'r iarll am ychydig amser, nes y canfu, oddeutu clogwyn Penmaen Rhos, fintai luosog o filwyr yn dwyn baneri Percy. Mynai y brenin ar hyny droi yn ol; ond Northumberland, gan afael yn ffrwyn ei geffyl, a'i gorfododd i ddyfod yn mlaen. Prin amser a gafodd y tywysog druan i edliw iddo ei anudoniaeth, gan ddywedyd wrtho, y byddai i'r Duw hwnw y tyngasai arno y bore hwnw wneuthur cyfiawnder âg ef yn nydd y farn.* Parodd i'r brenin giniawa yn Rhuddlan, ac aeth ag ef y noswaith hono i Fflint. Bore dranoeth, synwyd ef gan ddyfodiad byddin luosog, o dan lywyddiaeth ei wrthymgeisydd, yn ymdaith yn galonog ar hyd y tywod; cylchynasant y castell yn fuan. Aeth y tywysog i lawr o'r *Keep*† (neu y lle cadarnaf yn y castell,) i gyfarfod â Bolingbroke, yr hwn a syrthiodd ar ei liniau, ac ymddangosai fel yn gwisgo agwedd barchus; ond yn fuan bwriodd ymaith yr hug; oblegyd, "mewn llais crâs ac uchel," ebai Stow, "y duc a orchymynodd ddwyn allan feirch y brenin; ac yna dygwyd allan ddau geffylyn salw, heb fod yn werth deugain *frank;* y brenin a osodwyd ar gefn un o honynt, a'r iarll Salisbury ar y llall; ac fel hyn y dygodd y duc y brenin o Fflint i Gaerlleon, lle y traddodwyd ef i fab y duc *Glocester*, ac i fab yr iarll *Arundel*, y rhai ni charent ef ond yn brin iawn; oblegyd yr oedd wedi gosod eu tadau i farwolaeth, a'r rhai hyn a'i harweiniasant ef yn syth i'r castell."‡

Os ydyw *Froissart* i'w goelio, ni ddarfu i Rhisiart brofi anniolchgarwch dyn yn unig: trwy ryw orchwyliaeth ddyeithr, ymddengys i hyny gymeryd gafael yn y mwyaf ffyddlon o greaduriaid mud; oblegyd darfu hyd yn nod i'w gi ei adael, a gwenieithio i'w wrthymgeisydd Bolingbroke, megys pe buasai yn deall ac yn rhagargoeli anffodion ei hen feistr. Y mae y chwedl mor hynod, fel y bydd i mi ei hadrodd yn ngeiriau ei gyfieithwr pendefigaidd, Syr John Bouchier, arglwydd Berners; § yr hwn, wrth siarad am yr hyn a gymerodd le yn nghastell Fflint, a ddywed,—

"Fel yr hysbyswyd i mi, yr oedd gan y brenin Rhisiart filgi o'r enw *Mathe*, yr hwn bob amser a weinyddai ar y brenin, ac ni fynai adnabod neb dyn arall. Oblegyd pa bryd bynag y byddai y brenin yn marchogaeth, byddai ceidwad y milgi yn ei ollwng yn rhydd, a byddai iddo redeg ar ei union at y brenin, a gwenieithio iddo, a neidio a'i draed blaen ar ysgwyddau y brenin. Ac fel yr yr ydoedd y brenin ac iarll Derby yn ymddiddan gyda'u gilydd yn y cwrt, y milgi, yr hwn a arferai neidio ar y brenin, a adawodd y brenin ac a ddaeth at iarll Derby, duc Lancaster, gan wneuthur iddo ef yr un gwyneb-

* Carte, II. 634.

† Galwir y lle hwn, gan hen ysgrifenwyr, *Dongeon*, neu *Donjon:* ond gan fod y gair yn bresenol yn cael ei gymhwyso yn gwbl at y twll truenus yn mha un y cedwir carcharorion, yr wyf fi o hyd yn dal at yr enw *Keep*.

‡ Stowe's Annals, 322. § Tudal. cccxii.

pryd a chroesaw caruaidd ag a fyddai yn arferol o'i wneyd i'r brenin. Y duc, yr hwn ni adwaenai y milgi, a ofynodd i'r brenin beth a fynai y milgi ei wneuthur. Gefnder, ebai y brenin, y mae yn arwydd o ddaioni mawr i chwi, ac yn arwydd drwg i mi. Pa fodd yr ydych yn gwybod hyny? ebai y duc. Yr wyf yn ei wybod yn dda, atebai y brenin. Y mae y milgi yn eich llongyfarch heddyw fel brenin Lloegr, megys ag y bydd i chwi fod, a chaf finau fy niswyddo; y mae y wybodaeth hon gan y milgi yn naturiol: cymerwch ef atoch gan hyny; bydd iddo eich dylyn chwi, a'm gadael inau. Deallodd y duc y geiriau hyn yn dda, ac achlesodd y milgi, yr hwn ni fynai byth wedi hyny ddylyn y brenin Rhisiart, ond canlynai y duc Lancaster."

Yn ngwrthryfel Owain Glyndwr, Harri tywysog Cymru a lwyddodd i gael pardwn gan ei dad i amryw o'i dirddeiliaid yn y parthau hyn, y rhai a gymerasent i fyny arfau yn achos ein cydwladwr dewr.*

Y mae bwlch arall yn hanes y castell hyd drafferthion y ganrif ddiweddaf; pryd y cymerodd y wlad hon ran fywiog o blaid y brenin. Rhoddwyd gwarchawdlu yn nghastell Fflint ar ran ei Fawrhydi, wedi iddo gael ei adgyweirio gan Syr Roger Mostyn, marchog, yr hwn a apwyntiwyd yn llywydd. Yn 1643, gwarchaewyd ef yn galed gan Syr William Brereton a Syr Thomas Middleton; ac amddiffynwyd ef gan y llywydd nes yr oedd pob ymborth, hyd yn nod y ceffylau, wedi darfod, pan y rhoddodd i fyny ar amodau anrhydeddus.

"Y mae y milwriad Mostyn yma," medd *Whitelock*, "yn fab i fy chwaer, yn ŵr boneddig o addysg dda ac yn dra dewr; hanai o deulu hynafol iawn, meddai feddiannau helaeth, a dyddordeb mawr yn y sir; yn gymaint felly fel y cododd bymtheg cant o wŷr mewn deuddeng awr o blaid y brenin." †

Gallaf ychwanegu, ar ol bod yn garcharor am hir amser yn nghastell Conwy, tua diwedd y rhyfel, fod ei amgylchiadau mor isel, wedi gwario triugain mil o bunnau yn ngwasanaeth y goron, fel y bu raid iddo adael palas ei hynafiaid, a phreswylio dros amryw flynyddau mewn ffermdy cyffredin.

Syrthiodd Fflint drachefn i feddiant gwŷr y brenin; canys, o dan y flwyddyn 1646, yr wyf yn cael yn yr un hanesydd, fod y gwarchawdlu yn ymddangos yn dueddol at ddyfod i ammodau. Yn Nhachwedd y flwyddyn flaenorol yr oeddynt wedi derbyn i mewn warchawdlu *Beeston;* y rhai, ar ol yr amddiffyniad mwyaf gwrol, a roddasent i fyny, a chawsent ryddid i fyned ymaith gyda holl anrhydedd rhyfel i'r lle hwn.‡ Ond ar y 29ain o Awst, rhoddwyd castell Fflint i fyny i'r cadfridog Mytton; ac yn 1647, yn mhlith lluaws ereill o gastelli Cymru, a wnaed yn anamddiffynadwy trwy orchymyn y senedd, yr hwn a gyfeiriasid at y cadfridog i'r dyben hwnw.§

Ar adeg yr adferiad, aeth y castell i feddiant y goron, yn mhlith ei breiniau ereill, lle y mae o hyd yn aros. Y mae y goron yn ei lywodraethu trwy gwnstabl, yr hwn hefyd sydd yn faer Fflint. Llenwir y swyddau yn bresenol gan fy nghyfaill Owen Brereton, ysw. ‖

Y mae y dref, mewn cysylltiad â Chaerwys, Rhuddlan, Caergwrley, ac Overton, yn anfon aelod i'r senedd. Etholir ef gan y trigolion sydd yn talu trethi.

* Harleian MSS. No. 2099. † Whitelock, 76. ‡ Rushworth I. part iv. 136. § Etc. 456.
‖ Y mae yn bresenol wedi marw. Gol.

Digitized by Google

lleol; a dygir yr etholiad yn mlaen gan ddau brif swyddog trefol (*bailiffs*) Fflint, y rhai a apwyntir gan y maer. Ymestyna tir bwrdeisdrefol y dref hon dros yr holl blwyf, ac hefyd dref-ddegwm Colsul-fawr yn mhlwyf Treffynon.

Derbyniodd y bwrdeisdrefi a'r siroedd Cymreig y fraint o feddu cynrychiolwyr trwy ddeddf seneddol yn y 27ain o Harri VIII.

Yr oedd y dref hon, ynghyda'r sir, yn gysylltiedig âg iarllaeth Caerlleon. Y mae y daflen* ganlynol yn rhoddi i ni eu cyllidau, fel y safent yn y 50ain flwyddyn o Iorwerth III.

| | £ | s. | d. |
|---|---|---|---|
| Enillion Maenor Estyn a Hopedale | 63 | 0 | 0 |
| „ Maenor Eul, o a'r gweithydd glo | 6 | 0 | 0 |
| „ swydd cwnstabl Rhuddlan, am yr hyn yr oedd yn atebol | 8 | 14 | 0 |
| „ ardreth tref Fflint | 56 | 0 | 0 |
| „ tref Colsul | 4 | 7 | 10 |
| „ tref Caerwys | 22 | 6 | 8 |
| „ Bagherge | 14 | 3 | 4 |
| „ Vaynol | 13 | 6 | 8 |
| „ Rhuddlan | 72 | 9 | 2 |
| „ Mostyn | 15 | 6 | 8 |
| „ swyddog y fforffetiadau yn Tegeingle | 56 | 0 | 0 |
| *Bloglot* sir Fflint, a gynwysa enillion y can' llys yn y sir hono | 72 | 11 | 9 |
| Enillion anrhegion damweiniol brawdlys Fflint | 30 | 0 | 0 |
| „ swyddog fforffetiadau y sir hono | 8 | 0 | 0 |
| Cyfanswm | 442 | 6 | 1 |

*Croes-ati.*] Oddeutu milldir o'r dref, ar y ffordd isaf i Gaerlleon, safai croes, sylfon yr hon yr ydwyf yn ei gofio, yr hon a elwid *Atis-cross*, ac y mae y tir o'i hamgylch yn cael ei alw hyd heddyw *Croes-ati*. Dichon fod hwn yn lle o hynodrwydd; oblegyd ar adeg y Gorchfygiad, rhoddai enw ar gantref tra eang, yr hwn ar yr adeg hono a ystyrid yn ffurfio rhan o sir Gaerlleon. *Exestan* ydoedd le arall, yr hwn sydd yn awr wedi ei roddi i sir Fflint; am yr hwn y crybwyllaf yn y lle priodol.

Y mae traddodiad, fod yn yr hen amseroedd, dref fawr yn sefyll yn y lle hwn; a dywedir fod olion adeiladau wedi cael eu troi i fyny yno yn fynych â'r aradr. Ond y pethau mwyaf hynod ydynt y crugau mawrion o ludw plwm, darnau o fwn plwm, a gweddillion o blwm wedi ei doddi, y rhai a ddarganfyddwyd yma mewn amryw fanau, ac ar hyd y wlad yn union uwchlaw y lle hwnw, yn y plwyf nesaf, sef Llaneurgain. Cafwyd allan yn ddiweddar fod y rhai hyn yn cynwys y fath symau o blwm ag a anogai y golchyddion i gymeryd y lleoedd o dan ardreth. Yn y rhandir yma, y mae lluaws o dunelli o fwn wedi eu cael mewn ychydig amser, yn enwedig yn *Pentref Ffwrndan*—enw ag yr adnabyddid ef wrtho bob amser, yr hyn a brofa hynafiaeth toddi mwnau yn y parthau hyn; ond ni chadarnhawyd erioed darddiad y gair hyd nes y darganfyddwyd y pethau hyn yn ddiweddar.

Yn nhudalen 41 crybwyllais fy amheuaeth, fod cyffiniau tref Fflint wedi bod ar un adeg yn gwasanaethu i amgau gorsaf Rufeinig fechan: cadarnheir

* Dodridge, p. 129.

Digitized by Google

fi yn fy nhybiaeth gan y lluaws o fathodynau Rhufeinig, *Fibulæ*, a'r amrywiaeth o hen offerynau, a ddarganfyddwyd yn ddiweddar gan y gweithwyr yn hen olchfeydd y plwyf hwn a'r plwyf nesaf ato; yr hyn a brofa fod y Rhufeiniaid yn defnyddio y fan yma fel porthladd i gludo ymaith y metel, wedi iddo gael ei doddi o'r mwn yn y mynyddoedd cyfagos. Yma dichon fod gwarchawdlu bychan wedi ei sefydlu er amddiffyn yr hen doddwyr, neu i gasglu y trethi, neu i dderbyn y deyrnged mewn plwm. Cyn i'r Rhufeiniaid ymsefydlu yn Mhrydain, y mae Strabo yn siarad* mor ysgafn am ein nwyddau trafnidiol, fel ag i ddyweyd, nad oeddynt yn werth cadw yma un lleng o filwyr, ac ychydig o wŷr ceffylau. Bu ef farw yn y flwyddyn 25, pan nad oedd ein gwlad ond prin wedi cael ei hadnabod, oddigerth gan yr ymgais a wnaeth Caisar; ond yr oedd y drafnidiaeth, yn ei ddyddiau ef, yn gystal ag yn nyddiau y daearyddwr mawr hwnw, yn cael ei chario yn mlaen trwy gyfnewidiad, a dim ond hyny. Yr oedd y Brytaniaid yn gweithio eu mwngloddiau eu hunain o alcan a phlwm; ac mewn cyfnewidiad am danynt derbynient gan y marsiandwyr tramor lestri pridd, halen, a chelfyddydwaith prês.†

Yn mhen ychydig amser wedi i'r Rhufeiniaid ddarostwng ein gwlad, dechreuasant yn rymus ar y gorchwyl o weithio ein mwngloddiau. Ar y cyntaf, yr oedd y mwn plwm ar y gwyneb yn gyrhaeddadwy gyda rhwyddineb: yr oedd yn cynyg ei hunan ar wyneb y tir. Yn Yspaen a Portugal yr oedd llafur mawr yn ofynol at ei gloddio: yn Mhrydain ceid ef gerllaw y gweryd cyffredin;‡ ac yn y fath gyflawnder, fel yr oedd yn amser Pliny (yr hwn a fu farw yn y flwyddyn 79) gyfraith fel ag sydd yn bodoli yn bresenol yn mherthynas i blwm du *(black lead)* ag oedd yn cyfyngu ei gynyrchiad blynyddol.§ Damwain ydoedd darganfyddydd mawr cyfoeth mwneiol yn yr hen amseroedd. Darganfyddwyd mwngloddiau aur Galicia gan yr aradr: || rhai India trwy fwriad i fyny docynau morgrug;¶ mwngloddiau arian yr Yspaen trwy losgiad dernyn o bren ar ddamwain.** Y mae damweiniau dibwys hyd yn nod yn yr oes hon wedi bod yn achos darganfyddiad lluaws o fwngloddiau mawrion. Y mwnglawdd mawr yn Helygen a ddarganfyddwyd trwy dori ffosydd: yr un yn Llangynog yn sir Drefaldwyn, trwy i wraig lithro wrth fyned i fyny bryn, a dynoethi y wythen â'i throed. Y mae llawer o'r gweithfeydd ag y tybiwn ni eu bod yn Rhufeinaidd, er hyny yn fâs iawn; yn gyffredin ar ffurf ffosydd, trwy ba rai y dylynid y gwythenau, y rhai, fe ddichon, a ddarganfyddasid trwy ddygwyddiadau disylw; ond fel yr oedd y mwn yn dyfod yn brinach, ac awydd am dano yn cynyddu, acthpwyd i ymlid ar ei ol mor ddyfned ag yr oedd celfyddyd neu fedrusrwydd yr amser yn caniatâu. "Yr ydym yn myned i lawr i ymysgaroedd y ddaear: ac yn chwilio am gyfoeth hyd yn nod yn nhrigfanau ysprydion ymadawedig."†† Yr oedd y diffyg o bowdwr gŵn yn rhwystr mawr yn yr amseroedd boreuaf. Yn lle hwnw, cawn fod tanau mawrion yn cael eu defnyddio; y graig yn cael ei phoethi yn wynias, a holltau yn cael eu gwneyd ynddi trwy sydyn chwistrellu dwfr i mewn; finegr, medd Pliny.‡‡ Yna rhoddid y cŷn neu y gaib§§ yn yr holltau, a dirgymhellid allan y gareg neu y mwn. Y mae mwngloddwyr yn fynych yn canfod ôl tanau mewn hen fwngloddiau. Y mae

* Lib. iv. p. 281. † Strabo, lib. iii. p. 240. ‡ Plinii, Hist. Nat. xxxiv. c. 17. § Eto, yr un.
|| Justin. lib. xliv. c. 3 ¶ Strabo, lib. xv. p. 1000. ** Diod. Siculus, lib. v. c. 2.
†† Plinii, lib. xxxiii. Proemium. ‡‡ Lib. xxxiii. c. 4. §§ Yr un lle.

Digitized by Google

genyf fi gŷn *(wedge)* bychan, pum' modfedd a chwarter o hyd, a gefais yn anrheg gan y diweddar Mr. Smedley, o neuadd Bagillt, yr hwn a ddarganfyddwyd wrth weithio yn holltau dyfnion craig y Dalar goch, yn mhlwyf Dyserth, yn y sîr hon. Y mae prawfion o hynafiaeth yn amgylchynu yr offeryn bychan yma, am ei fod wedi ei lwyr orchuddio â chen o fwn plwm. Dichon iddi fod yn gorwedd yn ngwely rhyw ffrwd danddaearol, yr hon a ddygasai gyda hi y manronynau o blwm, gan eu dysodi ar yr haiarn.

Y mae ceibiau o faintioli anarferol, a hynod o afrosgo, wedi cael eu darganfod yn ngwaelod rhai o'n ffosydd mwneiol. Ymddengys fod y rhai hyn yr un â *Fractaria* y Rhufeiniaid, y rhai a ddefnyddiai y mwngloddwyr yn ngweithydd aur Yspaen.* Bwcedi o gyfansoddiad anarferol, ac amryw bethau ereill o wasanaeth anadnabyddus yn bresenol, a gafwyd yn mysg yr hen fwngloddiau.

Ar lawer o ystyriaethau, yr oedd dulliau yr hynafiaid o fwngloddio yn debyg i'r eiddom ni. Gweithiai y llafurwyr bob yn ail *stem*, y naill yn cymeryd lle y llall ar adegau pennodol. Gweithient nos a dydd, wrth oleuni lampau. Gyrent lefelau, a suddent shafftiau, gan ategu tir i fyny fel yr elent yn mlaen. Ymlidient y gwythenau drwy ffurfio gyrfeydd *(drifts)*,† ac yn olaf, pa bryd bynag y byddai y mwngloddiau yn cael eu bygwth â dwfr, yr oedd ganddynt sugnyrau *(pumps,)* y rhai a'i codent i fyny o'r dyfnderau iselaf yr elent iddynt.‡

Sylwais o'r blaen mai damweiniol ydoedd darganfyddiad ein cyfoeth mwneiol. Dichon y difyrir y darllenydd wrth hysbysu iddo fod yn y wlad hon, o fewn fy nghof i, ymwneyd â'r *virgula divinatoria*, neu y wialen ddewinol; yr hon, trwy alluoedd a gydymdeimlent â'r mwn cuddiedig, a arbedai y draul gyffredin o ymchwilio, gan nodi allan yn gymhwys y fan lle y gorweddai y trysorau. Darfu i anturiaethwr, yr hwn oedd yn haner cnaf ac yn haner penboethyn, wneyd prawf ar y peth; ond trôdd allan mor aflwyddiannus iddo ef ag i'r rhai a'i haredmygent. Nid oedd yr offeryn a ddefnyddid ond gwialen fforchog yn un pen, "i gael ei thori mewn awr blanedol, ar *ddydd* ac awr y blaned Sadwrn, am mai Sadwrn oedd *mynegydd* y lle y byddo plwm." Yr oedd Iau, Gwener, yr Haul, a Mercher, yn cael eu cymeryd i ystyriaeth hefyd ar adeg y gweithrediad. "Yr oedd y blaned Iau, neu *Pars Fortunæ*, i fod mewn cysylltiad o driugain o raddau, neu yn driongl i Arglwydd y dyrchafol neu yr ail; a gwell fyddai pe ceffid unrhyw *ymdderbyniad;* ond GWILIER na byddo trwy *ysgwariad* neu *wrthwynebiad;* am y byddai i hyny ddyfetha y cwbl."§ Wedi ei thori fel hyn, gosodid hi o'r neilldu at wasanaeth ar docyn o wenith neu haidd; ac ar gyfrif gwialen Moses, gelwid hi hefyd y wialen *Foesenaidd.* Delid hon gerfydd y fforchau yn mhob llaw, a chludid hi dros yr holl diroedd ag y tybid y byddai mwnau ynddynt. Elai heb unrhyw effaith arni dros y rhanau diffrwyth; ond mor gynted ag y byddai uwchben gwythen, gwasgai yn gryf at y llawr, ac ymddangosai fel yn teimlo yr un attyniad ag sydd yn bodoli rhwng haiarn a'r tynfaen. Y mae y synwyrol Agricola yn son am yr arferiad yma yn ddamweiniol, a dyry hanes hirfaith am yr orchwyliaeth; ond nid yw yn meddu unrhyw ffydd ynddi, gan sicrhau i ni y dylai y mwngloddiwr medrus ddylyn arwyddion naturiol y gwythenau mwneiol, a diystyru defnydd-

* Pliny, lib. xxxiii. c. 4. † Pliny, lib. xxxiii. c. 4. ‡ Diodorus Siculus, lib. v. c. 2.
§ Hooson's Miner's Dictionary, article *virgula divinatoria.*

Digitized by Google

iad y gwialeni dewiniol hyn. Y mae efe yn olrhain eu tarddiad i dwyll. Yr oedd swynwyr Pharaoh yn defnyddio gwialeni yn eu dynwarediad o'r seirph; Minerva, trwy rinwedd gwialen, a drôdd yr hynafgwr Ulysses yn ddyn ieuangc; a thrachefn i'w gyflwr blaenorol: Circe, trwy alluoedd dewiniol gwialen, a drôdd ei gymdeithion yn fwystfilod; ac yn olaf, Mercher, trwy yr unrhyw foddion, a wnelai i'r gwyliadurus gysgu, ac i'r rhai cysglyd ddeffro.* Caniatäer i mi yn awr ddychwelyd at bethau sylweddol.

Ymddengys fod y mwngloddwyr, yn amseroedd boreuaf y Rhufeiniaid yn Mhrydain, yn cael eu gwneyd i fyny o'r cyndrigolion gorchfygedig. Y mae Galgacus yn anog ei filwyr i orchfygu neu farw, trwy osod o'u blaenau ganlyniadau erchyll gorchfygiad: "Teyrnged a MWNGLODDIAU, a holl benydiau ofnadwy caethiwed." Agricola hefyd a dystia i wirionedd ysbryd prophwydoliaethol ein penaeth dewr, trwy alw ein mwngloddiau yn wobr buddugoliaeth. Yr oedd y rhai hyn i gael eu gweithio, nid gan y gorchfygwyr, ond gan droseddwyr collfarnedig, gan gaethion,† neu gan Frytaniaid newydd eu darostwng. Y mae yn debyg, ar ol i'r ynys gael ei llwyr dawelu, fod y nod yma o gaethwasiaeth wedi cael ei ddileu, ac fod y mwngloddwyr, megys cyn dyfodiad y Rhufeinwyr, yn llafurwyr rhyddion.

*Clampiau Rhufeiniaidd o Blwm.*

Wedi cael gafael ar y mwn,‡ glanheid ef mewn ffordd aflerw, toddid ef mewn ffwrnais,§ a bwrid ef mewn ffurfiau tra thebyg i'r clampiau (*pigs*) cyffrediu o blwm.

O'r cyfryw gwelais dri, wedi eu darganfod mewn gwahanol barthau o Brydain: yr un a ddarganfyddwyd yn morfa Hints, yn maenor Ralph Floyer, ysw., yn sir Stafford, yn y flwyddyn 1771, mewn dyfnder o bedair troedfedd o dan y ddaear. Yr oedd ei hyd yn ddwy fodfedd ar hugain a haner; ei bwysau yn gant a deuddeg pwys a deugain, oddeutu deubwys yn drymach na'n clampiau cyffredin ni o blwm. Ar y tu uchaf iddo y mae ymyl; oddi fewn i hwn, mewn priflythyrenau dyrchafedig, wedi eu taro pan oedd y metel yn boeth, yr oedd yr ysgrifiad canlynol:—

* Agricola, de Re Metallica, lib. ii pp. 26, 27.

† Y mae Diodorus Siculus, lib. v. c. 2, yn rhoddi hanes alaethus am y caethweision hyn; cyflwr y rhai nis gellir ei gyferbynu â dim ond yr Indiaid truenus yn mwngloddiau Potosi.

‡ Y mae cyfaill dysgedig a chywrain wedi fy ffafrio â'r hanes cryno, ond cyflawn, a ganlyn am fetelyddiaeth yr hynafiaid.

"Ni adawodd yr hynafiaid i ni ond hanes tra amherffaith am eu gorchwylion metelyddol, y rhai, fel y mae genym le i gasglu, oeddynt yn dra aflerw ac amherffaith, o'u cymharu âg eiddo yr amserau presenol. Yr ydym yn ffurfio barn lled gryno am eu medrusrwydd oddiwrth y cynseiliau canlynol:—

"Yr oeddynt yn gydnabyddus â defnyddio meginau, ond gweithid y rhai hyny â llaw, ac nid â dwfr, o ganlyniad rhaid fod yr holl orchwyliaeth o doddi mwn yn arafaidd ac yn gostus.

"Ymddengys eu bod yn gwybod am yr orchwyliaeth o gymysgu meteloedd, ond na ddarfu iddynt erioed ei hymarfer i dynu allan y rhanau rhagoraf. Nid oeddynt yn gwybod am y gelfyddyd o wahanu eu haur a'u harian trwy leithder *(via humida)*. Ac y mae lle i feddwl na wyddent ond ychydig iawn am y gelfyddyd o *brofi* meteloedd, heb yr hyn nis gellir gosod i lawr unrhyw reolau sicr tuag at gymysgu y mwnau, eu malu, ac ychwanegu atynt y llifau *(fluxes)* priodol, a rheoleiddio y tân.

"Ceir fod eu sinidr yn cynwys cyfartaledd mawr o fetel. Y mae addefiad Pliny (lib. xxxiv. c. 2) o'u hanwybodaeth hollol am gyfansoddiad y prês Corinthaidd enwog, neu eurliw, yn dangos yn eglur na wyddent ond ychydig am y gelfyddyd o brofi y meteloedd."—GOL.

§ Plinii, lib. xxxiv. c. 16.



Digitized by Google

IMP. × .VESP + $\overline{\text{VII}}$ × T × IMP × $\overline{\text{V}}$ × COS.

h.y., Yr Ymerawdwr Vespasian y seithfed, Tito Ymerawdwr yn bummed Consul: yr hyn a gyfateba i'r flwyddyn 75 neu 76. Ar un ochr y mae y gair DECEA, ac mewn ychydig bellder y mae y llythyren G. Y mae ysgrifenydd dienw cywrain yn y "*Gentleman's Magazine*," am 1772, yn tybio mai C a ddylasai fod, wedi ei gwneyd gan arolygydd y mwn, neu y ffwrnais, i ddangos naill ai fod y clamp plwm wedi talu y doll, neu ei fod o bwysau digonol, neu o'r purdeb priodol. O'm rhan fy hun, yr wyf yn barnu, fod y llythyren N rhwng y DECEA a'r G ar ryw adeg; yr hyn a'i gwna yn DECEANG, neu *de Ceangis*, y lle a gynyrchodd y mwn; ond trwy ryw ddamwain fod y llythyren N wedi cael ei difodi, gan adael yr G yn anghysylltiol. Bydd i'r esponiad hwn fwrw goleuni ar amryw glampiau o blwm a ddysgrifir gan Camden, am y rhai y sonir rhagllaw.

Y mae y dernyn hynafol cywrain yma yn amgueddfa Mr. Green, fferyllydd yn Lichfield; casgliad yr hwn sydd yn deilwng o sylw yr ymdeithydd ymofyngar; i'r hwn y gellir sicrhau y derbyniad mwyaf croesawgar gan y teilwng berchenog.*

Yn 1731, darganfyddwyd dau o glampiau plwm o'r un rhywogaeth, ac o'r un hyd, ar forfa Hayshaw, yn maenor Dacre, yn rhanbarth orllewinol sîr Efrog, ar etifeddiaeth Syr John Ingleby o Ripley. Y mae un wedi cael ei gadw gan y teulu; y llall wedi ei roddi yn anrheg i'r *British Museum*. Y mae gan y ddau hyn hefyd ysgrifiad ymerodrol ar y pen uchaf: *Imperatore* CÆSARE DOMITIANO AUGUSTO *Consule Septimum*. Toddwyd hwn yn y flwyddyn 87, ac o dan yr un rheolau. Y clamp arall, yr hwn a welais yn neuadd Ripley, a feddai yr unrhyw ysgrifiad; ac ar un ochr y gair *Brig*,† gan arwyddo iddo ddyfod o wlad y Brigantwys.‡

Yn amser Camden, cafwyd ugain o glampiau plwm, tebyg i'r rhai uchod, yn agos i Halton yn sîr Gaerlleon; rhai wedi eu hysgrifio, IMP. DOMIT. AUG. C. DE CEANG; ereill, IMP. VESP. VII., T. IMP. V. COSS. Tybiwyd fod y rhai hyn yn cofnodi buddugoliaeth ar y *Cangi*; ond y mae yn amlwg nad oeddynt ond clampiau plwm wedi eu dwyn yma at eu defnyddio, neu i'w trawsgludo: ac yr wyf yn teimlo yn ddyogel yn mhellach, fod y mwn a gynyrchodd y plwm yma wedi cael ei gloddio a'i doddi, naill ai yn y parth yma o sîr Fflint, yr hwn a elwid yn yr hen amser Tegangle, neu breswylfeydd hafaidd y *Cangi*, neu y *Ceangi*; neu oddiwrth drigfanau y cyfryw ddosparth o bobl naill ai yn sîr Derby, neu ryw sîr arall yn y gymydogaeth. Y mae hyn yn rhoddi rheswm i dybied, fod y *Cangi* hyn, yn ystod eu hadegau segur hirfaith, weithiau yn ymwneyd â gorchwylion mwneiol; ac yna gallai y mwn, wedi ei doddi, dderbyn nod y bobl oddiwrth ba rai y cafwyd ef. Diau fod y clamp plwm yn nhrysorfa Mr. Green wedi dyfod oddiwrth y *Cangi* yn sîr Derby.

Oddiwrth y rheolau a grybwyllir gan Pliny, ac oddiwrth yr holl ysgrifiadau

* Bu farw Mr. Green yn 1793; chwalwyd ei gasgliad ar ol iddo farw. GOL.

† Wrth edrych ar yr engraifft o wlad y *Brigantwys*, yr ydym yn cael ein harwain i feddwl fod enw y bobl ereill yn dechreu gyda DECEANG, ac nad oedd y llythyreniad i gael ei ranu yn *De Ceang;* os felly, y mae genym yma ffurf arall o'r enw Decangi yn *Tacitus*. J. R.

‡ Gwel Tab. vi.

ymerodrol hyn, y mae yn amlwg fod y cyhoedd yn cymeryd gorchwylion y mwneion yn eu dwylaw eu hunain; ac fod ganddynt eu stamp-arolygwyr mewn manau priodol. Nis gallaf ymhoni i nodi yn mha le y sefydlwyd hwy gyntaf. Os ydyw yr ysgrifiad i Claudius,* ar glamp o blwm a gaed yn amser Harri VIII., yn agos i Wokey Hole, yn sîr Somerset, o'r un rhywogaeth a'r blaenaf, rhaid ei fod o fewn cylch y flwyddyn 49—amser ei nawfed triwriaeth *(tribuneship.)*

Yr oedd y Rhufeiniaid yn cael y fath gyflawnder o arian o'u mwngloddiau yn Yspaen, fel y buont am gryn amser heb dybied ei fod yn werth y llafur o'i dynu allan o blwm.†

Y mae yr enw Prydeinig am *blwm* wedi ei golli. Yr unig air sydd genym i'w ddynodi ydyw mwn; ond y mae y rhywogaeth i gael ei arddangos trwy ansoddair, megys *mwn aur*, *mwn plwm;* y ddau, mae yn debyg, wedi tarddu o'r Lladin. Defnyddiai y Rhufeiniaid y gair *metallum* i arwyddo mwn, yn gystal a'r metel a doddid o hono; y mae y gair *minera* yn perthyn i oes farbaraidd, a dichon ei fod wedi tarddu o'n gair ni, sef *mwn.*

Yr oedd gan y Brytaniaid anwar, cyn eu gorchfygu gan y Rhufeiniaid, ddull tra syml o doddi y mwn. Dodent ef mewn twll yn y ddaear, a chymysgent ef â choed; y rhai, wedi eu tanio, a fyddent yn ddigon i doddi y plwm allan o bridd meddal a thyner ein gwlad ni; byddai cwter fechan yn gysylltiedig â thwll arall, i ba un y rhedai y metel o'r twll cyntaf. Y mae yr aelwydydd anghelfydd hyn i'w cael yn fynych mewn cymoedd yn ein sîr ni; a darganfyddir hwy trwy y swm o ludw a geir yn gymysgedig â golosg *(charcoal.)* Rhai o'n toddwyr diweddar a ymgeisiasant at dynu allan y gweddill o'r plwm o'r gweddillion llosgedig yma, ond yn ofer; yr oedd yr hen doddwyr wedi llwyddo mor effeithiol fel na adawsant ar ol ddigon i dalu y draul o'r ail orchwyliaeth: nid oedd y swm mwyaf a ellid gael oddiwrth dunell o greifion yn cyrhaedd ond oddeutu cant a haner o bwysi.

Nis gallaf ddyweyd pa ddefnydd a wnelai y Brytaniaid o'r metel, heblaw yn drafnidiol. Ni feiddiaf gydsynio â chwedl yr hybarch *Bede*‡, yr hwn a ddywed fod y pawl a yrwyd i waelod afon Llundain, er rhwystro i longau Caisar ddyfod i fyny, wedi cael eu hamgau â phlwm. Yr oedd yr orchwyliaeth yn afreidiol. Nid oedd ystryw y Brytaniaid ond peth am y tro; nid oedd angen am orchuddio y polion fel ag i'w cadw; a diau fod plwm yn sylwedd tra anmhriodol at eu blaenllymu.

Yr wyf fi o'r farn, fod yn ein gwlad olyniad o dawdd-dai plwm, o amser y Rhufeiniaid hyd yn bresenol, ar bob adeg pan y goddefai cynhyrfiadau gwladol iddynt gael eu dwyn yn mlaen. Fod y Sacsoniaid yn gweithio y mwngloddiau Prydeinig, yn gystal a'r Rhufeiniaid, a ymddengys oddiwrth y mynych ddefnydd a wneid o blwm yn mhob adeiladau eglwysig mawreddog. Cafodd prifeglwys Lindisfarn§ ei thôi â phlwm gan yr esgob Eadberct, oddeutu y flwyddyn 652; un Caerefrog a orchuddiwyd â'r un metel gan ei harchesgob mawr Wilfrid,‖ yn 669; ac wedi hyny, Egelric, yr hwn a etholwyd yn abad Crowland yn 975, a dôdd feddygdy a chapel y fynachlog nodedig hono â'r un sylwedd.¶

* Camden, I. 83.—Horseley, 328. † Strabo, lib. iii. p. 198. ‡ Lib. i. c. 2. p. 42.
§ Bede, Hist. lib. iii. c. 25. p. 131. ‖ Eddii Vit. Wilfridi, in Gale, iii. 59.
¶ Ingulphi Hist. apud. Camdeni Script. post Bedam, 888.

Digitized by Google

Yr wyf yn crybwyll yr amgylchiadau hyn yn unig i ddangos fod y Sacsoniaid yn parhau i ymarfer y gwaith o doddi mwn plwm mewn gwahanol barthau o'n hynys. Cawn ein sicrhau fod, ar wahanol adegau, yn mhlwyfydd Fflint a Phen-ar-lâg, weithfeydd at doddi plwm er's canrif neu ddwy yn ol; ac yn bresenol y mae un yn y naill a'r llall o'r plwyfydd hyn.

Cymeraf y cyfleustra presenol i grybwyll megys yn ddamweiniol am fwneion ereill Prydain Fawr, y rhai y cymerid sylw o honynt gan yr hynafiaid, naill ai fel nwyddau o fasnach, neu ynte o ran cywreinrwydd.

*Alcan.*] Alcan, nid yn unig oedd y metel cyntaf y darllenwn am dano yn hanes yr ynysoedd hyn, ond efe hefyd oedd prif wrthddrych trafnidiaeth; a'r hyn a arweiniodd ar y cyntaf i ddarganfyddiad Prydain Fawr gan y Rhufeiniaid. Byddai y Phœniciaid masnachol yn trafnidio i ynysoedd Scilly, y *Cassiterides*, neu wlad yr alcan, o borthladd Cadiz, oddeutu pedwar can' mlynedd cyn geni Crist. Nis gallai y Rhufeiniaid, am dymhor maith, ddarganfod y lle o'r hwn y caffai y blaenaf y metel gwerthfawr hwn. Ceisiasant olrhain cŵrs y llong Phœnicaidd; ond ei llywydd, yn ffyddlawn i'w wlad, yn wirfoddol a redodd y llong i'r lan mewn lle arall; gan ddewis yn hytrach golli y cwbl, na gadael i genedl dramor ddyfod yn gyfranog o gyfrinach mor enillgar. Gwnaed ei golled i fyny yn ddiatreg o'r drysorfa gyhoeddus. Ni ddarfu i hyn ond gwneyd y Rhufeiniaid yn fwy awyddus am ddarganfod y peth; ac ar ol llawer o ymgeisiadau, llwyddasant. Publius Crassus (tad Marcus Crassus y Triwriad) oedd y rhaglaw, a llywodraethodd Yspaen am flynyddoedd lawer; efe a laniodd yn yr ynysoedd, ac a gafodd allan fod yr adroddiadau am eu cyfoeth yn berffaith gywir.*

Mor gynted ag y darostyngodd y Rhufeiniaid y wlad, ffurfiasant wersylloedd a ffyrdd yn yr ardaloedd a gynyrchent yr alcan, y rhai ydynt eto yn ganfyddadwy; a gadawsant o'u holau gawgiau, ystenau, beddrodau, ac arian, y rhai sydd yn feunyddiol yn profi iddynt fod yn bobl sefydlog yn y wlad;† ac fod *Dunmonium* yn ymestyn hyd yn nod at benrhyn *Belaria*, neu y Pen tir; ac nid oedd, fel y mae rhai ysgrifenwyr wedi dychymygu, yn cael ei gyfyngu i ranau gorllewinol Gwlad yr Haf. Nis gallwn feddwl eu bod wedi esgeuluso congl o'n hynys ag oedd mor gynyrchiol mewn mŵn mor wasanaethgar ag alcan, a'r hwn a gynyrchid mor helaeth fel ag i dderbyn ei henw oddiwrth yr amgylchiad hwnw. Mor helaeth oedd y fasnach rhwng cenedloedd tramor â'r trigolion a breswylient yn nghymydogaeth *Belerium*, fel ag y rhoddid iddynt fwy o ryddid, a mwy o letygarwch, nag a geid mewn unrhyw ranau ereill o'r ynys. Yr oeddynt yn gyfartal ddeheuig yn ngweithiad y mwngloddfeydd, a pharotoad y mŵn, yr hwn a orweddai yn wythenau priddlyd o'r tu fewn i'r haenau creigaidd. Toddent a phurent ef, yna bwrient ef yn ddarnau chwe'-ochrog, a chludent ef i *Ictis*, neu y *Mount St. Michael* presenol: oddiyno trosglwyddid ef i Ffraingc; gan ei ddwyn o'r lle y glanient, ar gefnau ceffylau, taith o ddeng niwrnod ar hugain, at enau y Rhone, ac hefyd i'r Massylians, a thref Narbonne. ‡

*Copr.*] Oni buasai fod Caisar a Strabo yn cytuno yn eu hadroddiad, ni buaswn byth yn credu y buasai y Brytaniaid mor esgeulus o'u mwngloddiau copr

*Strabo, lib III. tud. 240. † Borlase, Antiq. Cornwall, p. 278 to 300.
‡ Diodorus Seculus, ed. Wochel, 1604, pp. 209, 218.

Digitized by Google

toreithiog, fel ag i fod o dan yr angenrheidrwydd ar y cyntaf i drosglwyddo y metel hwn o wledydd ereill. Dichon fod y mwn yn anhaws cael ato, a'r gelfyddyd o'i doddi yn anadnabyddus; oblegyd rhaid i ynysoedd, ar gyfrif eu sefyllfa, aros yn hirach na chyfandiroedd yn anhysbys o'r celfyddydau; yn enwedig yr eiddom ni, yr hon a orweddai yn mhell i'r gorllewin oddiwrth darddiad pob gwyddor.

Dywed Strabo, fod y Brytaniaid yn cludo i'w gwlad offerynau prês; ond y mae yn sicr eu bod wedi hyny eu hunain yn gwneyd y metel hwnw yn offerynau. Yr oedd y *Celts*, offeryn Brytanaidd, yn cael ei wneyd yn yr ynys hon. Y mae niferi o honynt wedi eu cael yn sir Gaerefrog ac yn Essex,* ynghyda lludw, a thalpiau o fetel wedi ei doddi; yr hyn a arddengys bresenoldeb gefail. Yr oedd gan y Rhufeiniaid eu toddfeydd copr yn ein hynys; a bwrient y metel i ffurfiau rheolaidd. Cafwyd talp mawr yn Nghaer hen, y *Conovium* hynafol, bedair milldir uwchlaw Conwy, yr hwn, fe ddichon, a doddwyd o fwn mynyddoedd Eryri, o ba le y mae cyflawnder wedi cael ei godi yn y blynyddoedd diweddaraf. Y mae y talp hwn ar ddull teisen o gŵyr gwenyn; ac ar y rhan uchaf o honi y mae argraff ceuol dwfn, gyda'r geiriau *Socio Romæ;* ar draws y rhai hyn y mae argraff gwyrol, mewn llythyrenau llai, *Natsol.* Nis gallaf ei esponio, os nad ydyw *Nat*, yn sefyll am *Natio*, y bobl a dalent y math yma o deyrnged; a *sol.* am *solvit*, sef argraff y stampfeistr. Gallai fod y teisenau hyn wedi eu prynu gan farsiandwr a breswyliai yn Mhrydain, a'u nodi *Socio Romæ*, i'w hanfon i'w oruchwyliwr yn Rhufain. Pwysau y dernyn hynafol hwn ydyw dau bwys a deugain; ei dryfesur yn y pen uchaf ydyw un fodfedd ar ddeg; ei drwch yn y canol dwy fodfedd a thri chwarter.†

*Calamine.*] Y mae mwn alcan *(calamine,)*—y *Cadmia* a grybwyllir gan Pliny,‡ a *Cadmia* caregog Strabo,§—i'w gael mewn cyflawnder yn mharthau mwneiol yr ynys hon. Gwyddai y Rhufeiniaid am ei ddefnyddioldeb yn ngwneuthuriad prês; felly ni ellir tybio iddynt esgeuluso y cyfryw ddefnydd gwasanaethgar. Y mae gweddillion y toddfeydd prês a ddarganfyddwyd yn ein gwlad yn dangos eu bod yn gwybod am dano. Ar ol hyny collwyd pob gwybodaeth am y mwn hwn dros hir amser. Cyn teyrnasiad Elizabeth trosglwyddid ef yma o Sweden; ond yn yr adeg hono darganfyddwyd ef drachefn yn mynyddoedd Mendip; a hyny, yn ffodus, pan oedd gweithiau copr mynyddoedd Cumberland yn dechreu cael eu hailweithio. Y mae cyflawnder o hono yn ein sîr ni; ond, hyd o fewn triugain mlynedd yn ol, yr oeddym mor anwybodus o'i werth fel yr adgyweiriem ein ffyrdd âg ef.

*Haiarn.*] Y mae Caisar a Strabo‖ yn caniatâu fod genym haiarn. Dywed y blaenaf ei fod yn brin; fod darnau bychain o hono yn pasio am arian wrth bwysau. Yn amser Strabo ymddengys ei fod mewn cyflawnder mwy; oblegyd crybwylla ef am dano fel peth oedd yn cael ei gludo allan o'r wlad. Ceir gwelyau mawrion o ludw haiarn hyd heddyw yn nghoedwig *Dean*, gweddillion y Rhufeiniaid; ereill yn sîr Fynwy; un arall a ddarganfyddwyd yn agos i Miskin, palas William Basset, Ysw., o dan ba un y cafwyd bathodyn

* Borlase, Antiq. 256, 266. † Tab. vi. Y mae y dernyn hynafol hwn yn cael ei gadw yn Mostyn.
‡ Lib. xxxiv. c. 10. § Lib. iii. 224.
‖ Cæsar Com. Bell. Gall. Lib. v. c. xii. Strabo, lib. iv. p. 279.

Digitized by Google

o amser *Antoninus Pius*, a dernyn o briddlestr;* ac yn ddiweddaf, rhai ereill yn sir Gaerefrog,† mewn cysylltiad â pha rai hefyd yr oedd bathynau: oll yn dangos amlder y tawdd-dai haiarn yn ystod teyrnasiad y Rhufeiniaid yn Mhrydain.‡ Nid oedd y lludw yma wedi cael ei haner dyhysbyddu o'r metel; oblegyd ni wyddai y Rhufeiniaid ond am alluoedd gweiniaid y fegin droed. Y maent yn bresenol yn cael eu gweithio drosodd drachefn, ac yn cynyrchu mwy o fetel nag a geir o'r mwn. Tybir nad oes braidd derfyn ar y gwelyau hyn; yr hyn a arddengys fawredd y tawdd-dai yn yr amseroedd boreuaf.

*Aur.* ] Y mae aur ac arian yn cael eu nodi § yn mhlith cynyrchion Prydain Fawr. Gwyddai y Rhufeiniaid am hyn; ac yr oedd ein meteloedd yn anogaeth ychwanegol iddynt ein darostwng. Agricola, yn ei araith i'w filwyr cyn brwydr mynyddoedd Grampia, a'u hanoga i fuddugoliaethu, trwy eu hadgofio am ein cyfoeth, gwobr dewrineb. *Fert Britannia aurum et argentum, et alia metalla, pretium victoriæ.* ‖

Y mae y meteloedd hyn, mewn amseroedd diweddarach, wedi eu cael mewn digon o gyflawnder fel y gallent fod, mewn amseroedd cyntefig, yn wrthddrychau teilwng i orchfygu y wlad er eu mwyn. Yn nheyrnasiad Iago IV. a'r V. cafwyd cyfoeth mawr yn y *Lead Hills*, oddiwrth yr aur a gesglid o'r tywod a olchid i lawr o'r mynydd. Yn nheyrnasiad yr olaf, ni chafwyd gwerth dim llai na 300,000*l*. Mewn lle arall cafwyd telpyn yn pwyso deng owns ar hugain. Cafwyd llawer hefyd yn ystod amser y Rhaglyw Merton.¶ Y mae yr ymchwiliad yn bresenol wedi ei roddi i fyny; ond ceir darnau bychain o hyd ar ddamwain. Y mae gan arglwydd Hopton, perchenog y *Lead Hills*, delpyn yn ei feddiant ag sydd yn pwyso owns a haner. **

Y mae aur hyd heddyw i'w gael yn Nghernyw, yn gymysgedig âg alcan a sylweddau ereill.†† Y talp mwyaf a ddarganfyddwyd hyd yma sydd yn gyfartal o ran pwysau i dri gini. Dichon mai aur Cernyw a hudodd y Rhufeiniaid yma; canys y mae yn amhosibl eu bod hwy na'r Phœniciaid yn anhysbys o hono, y rhai oeddynt wedi bod yn masnachu mor hir gyda'r wlad, ac yn gynefin â'r dull o'i gael mewn gwledydd ereill. Pliny, wrth siarad am alcan, a ddywed, y ceir yn mwngloddiau aur Yspaen a Phortugal, rywogaeth a elwir Elutia,‡‡ (yr hyn a alwai dyn o Gernyw yn *steam tin*,) a'r hwn a olchir oddiwrth y wythen gan ddwfr, ac a gesglir i fyny mewn basgedi ynghyda'r aur.§§

*Arian.* ] Strabo a Tacitus a gydunant fod genym fwngloddiau arian. Yn nheyrnasiad Iorwerth I. a'r III. yr oedd gweithfeydd mawrion yn Cwmarthin *(Combmartin,)* yn swydd Dyfnaint:‖‖ yr oedd tri chant a dau ar

* Archæolog. ii. 14. † Yarranton's Improvements, 57.—Lel. Itin. i. 144, vi. 102. Camd. ii. 722.

‡ Nid yw *Pennant* yn gwneyd unrhyw gyfeiriad, fel y gwelir, at goedwigoedd *Sussex* a *Chaint*, yr unig randir lle yr ymddengys y gwyddai Caisar fod haiarn yn Mhrydain, ac yn mha le y buwyd yn ei weithio hyd amseroedd diweddar mewn cymhariaeth. J.R.

§ Strabo, lib. iv. p. 279.

‖ "Cawn yn Mhrydain aur ac arian, a metelau ereill, fel gwobr am ein buddugoliaeth."

¶ Tour in Scotland, ii. 130, iii. 414.

** Gellir meddwl mai un o'r mwngloddiau aur mwyaf cynyrchiol ydoedd yr Ogofau, gerllaw Dolau Cothi, yn sir Gaerfyrddin, lle y mae olion eang o'r cloddio yn cael eu hadnabod yn dda hyd heddyw; ac y mae cloddio am aur wedi bod yn ddiweddar yn agos i Ddolgellau. J.R.

†† Borlase, Nat. Hist. Cornwall, 213, 214. ‡‡ Marianol *(Alluvial.)*—Gol.

§§ Lib. xxxiv. 16. Rhag i hynafiaethwyr gael eu camarwain ymhellach ynghylch mwnglawdd aur yr *Ampthill*, rhaid i mi eu hysbysu nad oedd wedi y cyfan ond gwely o *mica aurea*.

‖‖ Camden i. 47.

Digitized by Google

bymtheg ar hugain o fwngloddwyr, wedi eu dwyn yno o sir Derby, yn gweithio ynddynt; ac mor fawr oedd y cynych fel ag y cynorthwywyd Iorwerth III. i gario yn mlaen y rhyfel â Ffraingc. Yn nechreu y ganrif bresenol, cafwyd llawer o arian cynhenid ar etifeddiaeth Syr John Erskine, yn sir Stirling; ond darfyddodd y wythen yn fuan.

Yr oedd y Brytaniaid yn gydnabyddus â gwasanaeth aur, a'r gelfyddyd o fathu, cyn dyfodiad y Rhufeiniaid; bydded yn dystion grymanau aur y Derwyddon, y bathynau a gafwyd yn Carnbre yn Nghernyw, a bathynau Casfelyn.* Gwneid hwy o gymysg feteloedd er mwyn eu bathu; ond yn benaf o aur, am ei fod yn haws ei doddi, ac yn fwy hawdd rhoddi argraff arno. Dywed y Dr. Borlase ei fod wedi cadw nifer o'r bathynau tra hynafol hyn, o'r amser pan y gwneid yr argraffiadau mwyaf aflerw ac annealladwy, hyd yr adeg y dechreuodd y Brytaniaid wneyd ymgais at ffurfio llun gwyneb ar eu bathynau. Y mae y rhai hyn oll heb lythyrenau arnynt; yr hyn a brawf eu hynafiaeth, a'u bod wedi eu bathu cyn fod dim a fynent â'r Rhufeiniaid. Y cyntaf y gwyddom am dano, ag sydd wedi ei lythyrenu, ydyw eiddo Casfelyn, yr hwn a gydoesai â Chaisar. Y nesaf ydyw eiddo Cynfelyn, yr hwn a fu hyd yn nod yn Rhufain. Mor fuan ag y daeth y Brytaniaid yn gydnabyddus â'r Rhufeiniaid, gwnaethant ymgais i efelychu eu dull o fathu; gosodasant lythyrenau arnynt, elephantiaid, ac angenfilod dychymygol—pethau nad oeddynt hyd yn hyn yn gydnabyddus â hwynt. Ni oddefwyd iddynt fyned yn mhell yn mlaen yn y gelfyddyd; oblegyd mor fuan ag y gorchfygwyd hwy, ataliwyd eu bathnodi. Y mae rhai dysgedigion wedi ceisio olrhain yr hen arian yma at y Phœniciaid; ond ni ddaliai y gymbariaeth. Yr oedd gan y Galiaid ryw ddarnau tebyg: ac nid ydyw hyn i'w ryfeddu ato, gan eu bod hwy a'r Brytaniaid yn tarddu o'r un gwreiddyn cyffredin, yn gymydogion, a buasai yn llawn cystal iddynt gyduno yn yr ychydig gelfyddydau a feddent, ag mewn crefydd ac iaith.†

Yr wyf yn awr yn troi at y pyngciau a achlysurasant y crwydriad yma; ac i roddi ychydig o hanes yr amrywiol offerynau a bathynau hynafol a gafwyd yn agos i Fflint; gan ychwanegu atynt ddysgrifiad mwy tarawiadol, sef darlun.

Rhif 1, tab. v. sydd addurn ardderchog aur, yn y ffurf o fotwm yn meddu coes. Cyfansoddir ef yn brydferth o wyfr plethedig, ac y mae wedi ei addurno â darnau crynion bychain o aur pur. Ymddengys fod hwn yn perthyn i'r freichled neu y gwrddfdorch (ni wyddis yn sicr pa un,) o'r hon y mae dernyn yn cael ei arddangos yn Rhif 2. Y mae hwn hefyd wedi ei gyfansoddi o ddolenau aur, gyda gleiniau crynion, o wydr pur o liw glâs, rhwng bob dolen. Y mae rhywbeth tebyg i hwn yn cael ei gadw gan y Count Caylus, yr hwn sydd yn gyfan, ac ymddengys mai gwddfdorch ydoedd.‡

Rhif 3 sydd ddernyn crwn o wydr, dichon mai rhan o ryw addurn; y mae o liw glâs prydferth, ac wedi ei dyllu, fel pe bwriadesid ef i gael ei hongian ar linyn. I'w ganlyn y darganfyddwyd darn tew o wydr o liw gwyrdd y môr, darn o flodeugawg. Yr oedd gwydr yn un o'r pethau cynaraf a ddygwyd i Frydain,§ pan yr oedd y brodorion gwylltion yn cael eu swyno gymaint gan deganau ag y mae Indiaid y gwledydd newyddion a ddarganfyddir yn bresenol.

* Nid ymddengys fod gan y crymanau aur ddim i'w wneyd â'r bathynau, a pherthynent i Dderwyddon Ffraingc, ac nid Prydain; a chyda golwg ar Casfelyn, ni wyddis am ei enw ef ar unrhyw fathynau. Yr oedd bathynau y Brytaniaid, fel eiddo y Gauliaid, yn efelychiadau o arian treigl yn mhlith Groegiaid Marseilles, ac yn fwy arbenig *stater* aur Philip o Macedon. Y mae yn hynod nad oedd gan y Dumnonii, a phobl gwlad yr alcan, unrhyw fathynau o'u toddiad eu hunain. Y gwaith i ymgynghori âg ef ar y pwngc ydyw *Evans's "Coins of the Ancient Britons."* J. R.

† Borlase's Antiq. Cornwall, 242, Tab. xix. ‡ Tom. iii. 312, tab. lxxxv. § Strabo, lib. iv. p. 281.

Digitized by Google

Ar y cyntaf derbynient y pethau hyn, a phob nwyddau gwydr ereill o'r eiddynt, gan y Phœniciaid, prifddinas y rhai, Tyrus, ydoedd yn enwog yn y gelfyddyd o wneuthur y pethau hyny. Cafwyd y glain-nadroedd, ar y cyntaf, mewn ffordd o gyfnewidiad am y nwyddau a anfonai y Prydeiniaid dros y môr. Gwneid hwy ar y cyntaf gan y Brython o geryg. Y mae genyf un o honynt yn bresenol yn fy nghasgliad o gywrein-bethau. Gwelais un arall yn meddiant y Parchedig Hugh Davies, yr hwn a gafwyd yn Ynys Mon. Dysgodd y marsiandwyr yn fuan efelychu y peth a werthfawrogid mor fawr yn ein hynys ni mewn defnydd mwy ardderchog; a dygasant hwynt i'r wlad fel nwyddau trafnidiol ag oeddynt yn sicr o gymeryd; yn debyg fel y mae y mordwywyr yn mynych efelychu, mewn prês coethedig, offerynau ac arfau y cenedloedd Indiaidd, i'r dyben o enill eu cyfeillgarwch.

Rhif 4 sydd ben prês bychan, a'r tu ol iddo wedi ei sicrhau wrth haiarn. Dichon fod hwn yn un o'r *Sigillaria*, neu ddelwau bychain a werthid mewn ffeiriau, ac yn gyffredin a roddid yn anrhegion i blant:* byddai y ffeiriau yn mha rai y gwerthid y teganau yn myned wrth yr un enw. Tybia cyfaill dysgedig hefyd fod y rhai hyn yn bortreadau, y rhai y byddai cyfeillion yn eu rhoddi i'w gilydd i gofio y naill am y llall.

Rhif 5 sydd ysgrifell, neu offeryn at ysgrifenu ar fyrddau cŵyr; y rhai a wneid o ddalenau teneuon o blwm, prês, neu ifori, ac a orchuddid â haen deneu o gŵyr. Yr oedd y pin, os gallaf ei alw felly, yn gyffredin o brês; un pen wedi ei flaenllymu, i'r dyben o ysgrifenu; y pen arall yn fflat, i'r dyben o ddileu yr hyn a fyddai yn wallus, trwy rwbio neu gau i fyny y cŵyr. Y mae *Horace* yn rhoddi cyfarwyddyd tra-rhagorol i bob ysgrifenydd, gan gyfeirio at hyn:—

> Sæpe Stylum vertas, iterum quæ digna legi sint
> Scripturus.
>
> Mynych *drowch* eich ysgrifell, pan fwriedwch
> Ysgrifenu pethau teilwng o gael eu darllen.

Rhif 6 sydd offeryn o wasanaeth tra hynod: math o lwy gul ydyw, wedi ei bwriadu at gasglu, mewn cynhebryngau, ddagrau perthynasau yr ymadawedig, er eu rhoddi yn y potelau bychain a osodid gyda'r lludw yn y cawg lle y llosgid y corph, er cof am eu gofid. Y mae y cyfryw i'w cael yn aml; ond y mae yr arferiad yn llawer uwch nag unrhyw hynafion clasurol; oblegyd y mae y Salmydd, wrth ddatgan ei ofidiau, yn cyfeirio ati; "*Ti a gyfrifaist fy symudiadau; dod fy nagrau yn dy gostrel.*"

Rhif 7 sydd offeryn ag yr ymddengys ei fod wedi ei fwriadu at drwsio pabwyr llusernau.

Rhif 8 a ddichon fod wedi ei fwriadu at yr un dyben.

Rhif 9 sydd fyniawyd prês.

Rhif 10 sydd frondlws, wedi ei oreuro, a'i amliwio o'r tu blaen â lliw glâs dwfn.

Rhif 11 sydd frondlws, nid annhebyg i'r rhai a wisgir gan yr Highlanders cyffredin, gwisgiad y rhai, yn ei symlrwydd cyntefig, sydd wedi ei benthyca, fel yr ymddengys, oddiwrth y Rhufeiniaid.

* Non cognoscis me? ego sum Felicio, cui solebas sigillaria afferre. SENECA, Epist. 12. (Onid wyt ti yn fy adnabod? Myfi yw *Felicio*, i'r hwn yr arferet ddwyn y mân ddelwau.)

Digitized by Google




**ROMAN ANTIQUITIES.**

*HYNAFIAETHAU RHUFEINIG.*

Digitized by Google

Digitized by Google




ROMAN ANTIQUITIES.

*HYNAFIAETHAU RHUFEINIG.*

Digitized by Google

Digitized by Google

Rhif 12 sydd rywogaeth o fotwm; ond gwahaniaetha oddiwrth y rhai diweddar (megys ag y gwna pob un hyd y gwelais i) am nad oes iddo goes: yn ei le yr oedd tafod, tebyg i eiddo y *fibulæ* cyffredin. Amliwir y tu blaen i hwn gyda lliw glâs dwfn.

Rhif 13 sydd un arall, o ffurf dra gwahanol. Y mae hwn hefyd wedi colli ei dafod; ond y mae y diffyg yn ddigon amlwg.

Rhif 14 sydd fath o efail; offeryn a ddefnyddid yn fynych gan y Rhufeiniaid, at dynu gwallt o'r gwraidd. Defnyddid ef i'r un pwrpas ag y mae y merched yn Twrci yn ymarfer y *Rusma*. Y mae yr efail a ddarlunir yma o faintioli a nerth mawr; dichon y defnyddid hi gan ryw goegyn cadarn, o'r fath ag a drinir mor llym gan *Persius*, yn ei bedwaredd dychangerdd, oblegyd ei ferch-eiddrwydd anaddas.

Rhif 15, 15, ydynt yn ol pob ymddangosiad yn offerynau at aberthu. Y mae un pen yn grwn, ac ar ffurf olifiad; ac y mae wedi ei fwriadu at wasanaeth yr offeiriaid, i'w roddi o dan ymysgaroedd yr anifail sydd i gael ei aberthu, ac i'w codi i fyny er mwyn cael gwell golwg ar y rhanau. Y mae pen arall yr offeryn hiraf wedi ei ffurfio yn fath o lwy, i'r dyben o roddi y peraroglau yn y thuser.

Ar gyfrif yr ansicrwydd sydd yn bodoli o berthynas i wasanaeth yr hen offerynau, gallaf awgrymu un dybiaeth arall, sef eu bod yn offerynau llawfeddygol. Y penau crynion oeddynt i chwilio yr archoll; penau ceuol y rhai hirion oeddynt y llwyau â pha rai y tywelltid y balm i'r archoll. Y mae fod defnydd yr offerynau hyn yn brês, yn profi, fel y sylwa y Count Caylus,* nad oedd gan y Rhufeiniaid un ofnad oblegyd ei ansoddau peryglus. Dichon fod ganddynt ryw gelfyddyd i dymheru y metel fel ag i leihau ei effeithiau annymunol.

Rhif 16 sydd hoelen brês. Gall hynafiaethwyr lawenychu am fod y Rhufeiniaid yn gwerthfawrogi y metel yma yn hytrach na haiarn, yr hwn sydd yn rhydu, ac felly wedi cadw iddynt hwy lawer tamaid moethus.

Rhif 17, tab. vi. sydd un o'r gwrthgyfareddion *(amulets)*, a elwid *Ithyphallus*, ar ffurf calon, gyda ffugwr (yn mha un ni ystyriwyd llawer ar weddeidd-dra) ar y pen uchaf. Crogid y rhai hyn wrth yddfau plant, ac yr oeddynt yn wreiddiol wedi eu bwriadu i'w dyogelu rhag effeithiau cenfigen; wedi hyny, rhag pob math o ddrygau.† Nis gallaf lai na meddwl fod gan yr hen famau da rywbeth arall mewn golwg, sef attynu serch (mewn blynyddoedd addfetach) y rhyw deg tuag at eu hoffddyn bychan.

> Hunc optent generum Rex et Regina; puellæ
> Hunc rapiant. Quicquid calcaverit hic, Rosa fiat.
>
> Lle bynag y cerdda ei draed, Cwyd rhosyn ardderchog a da;
> A'r merched a gollant eu gwaed Am dano, lle bynag yr â.

Oblegyd gwyddir yn dda fod gan y duw trythyll ei bleidwyr bob amser yn mhlith y ddwy ystlen.

Yr oedd y gwrthgyfareddion hyn hefyd yn cynrychioli y duw *Facinus*, ac

* Recueil d'Antiquitics, iv. 169.

† Pueris turpicula res in collo quædam suspenditur, ne quid obsit bonæ scævæ causa. (Delw ambrydferth a grogir am wddf plentyn, rhag ofn i ryw achos drwg atal ei ffawd dda.)—Varro de Linguo, Lat. vi.

yn gyfystyr â'r duw hwnw. Dywed *Pliny*,* ei fod, nid yn unig yn warcheidwad babanod, ond yn warcheidwad i'r ymerawdwyr eu hunain; fod hyd yn nod y gwyryfon pur yn ei addoli; ac y byddai y gorchfygwyr yn ei osod ef (fel physygwr Cenfigen) o dan eu cerbydau gorfoleddus.

Rhif 18 sydd wddfdlws â thwll yn un pen iddo, i'r dyben o'i hongian am y gwddf. Dichon, efallai, fod hwn wedi ei fwriadu i gynal y swyn; ac fod y tyllau ar un ochr wedi eu bwriadu fel y byddai i'r cynwysiad ddyfod allan, a chyrhaedd y gwrthddrych y dymunid ei swyno; pa un bynag ai o gariad, neu ynte o uchelgais.

Rhif 19 sydd allwedd, neu agoriad, yr hwn ni ddyry i ni feddylddrych uchel iawn am y clo-weithwyr Rhufeinig.

Rhif 20 sydd un o ffurf brydferthaob, a gwasanaethai fel modrwy ac fel agoriad. Dichon ei fod wedi ei fwriadu at drysorgell rhyw foneddiges Rufeinig, neu ryw *Bellus homo*.†

Rhif 21, dwy fodrwy; un o brês, a'r llall o wifren arian.

Rhif 22, pwys prês a berthynai i offeryn lefelu saer maen, ac yn cyfateb i'r *plwm* presenol.

Rhif 23, un arall o blwm, yn perthyn i rwyd bysgota

Rhif 24, tafod *fibula* cyffredin.

Dyma y pethau a dybiais yn fwyaf teilwng o gael eu cerfio: yr oedd yno luaws o bethau ereill a gafwyd yn yr un lle; ond yr oeddynt braidd i gyd wedi cael eu hanffurfio neu eu niweidio gan amser, fel yr oedd braidd yn gwbl anmhosibl deall pa beth oeddynt.

Wrth adael Fflint, cymerais y ffordd yn nghyfeiriad Helygen *(Halkin)*; ac yn union ar ol gadael y dref, dechreuais esgyn llechweddau sythion y sir, y rhai ydynt ffrwythlawn, ac wedi eu cau i fyny hyd at ymyl y mynydd, yr hwn a gydreda â'r arfordir. Y mae yr olygfa yn gwella ar hyd yr oll o'r ffordd; ac o'r manau uchel ymestyna tua'r gogledd-ddwyrain a'r dehau, mewn golygfa ag sydd o'r bron yn ddiderfyn. Gwelir aber yr afon Ddyfrdwy odditanodd, gyda dinas Caerlleon yn y pen draw. Y mae penrhyn *Wiral*, mewn cyferbyniad noethlwm i sir Fflint, yn terfynu ochr ddwyreiniol y Ddyfrdwy, ac ochr orllewinol afon Lerpwl, yr hon sydd yn gyfoethog o drafnidiaeth y dref fawr hono; o'r tu draw i hyny ymestyna sir enwog Lancaster, yr hon sydd yn amrywiedig gyda gwastadeddau a bryniau. Y mae mynyddoedd sir Gaerefrog a sir Derby yn ymuno i derfynu Dyffryn Breiniol Lloegr; ac y mae y rhandir bras a choediog oddeutu Llaneurgain a Phen-ar-lâg, gyda'r mynyddoedd cymydogaethol, yn bywiogi y llygad, yr hwn sydd wedi blino wrth arsyllu ar y golygfeydd pellenig a osodir o'i flaen.

Nid yw hyn ond rhan o'r rhodfa ardderchog a ffurfir ar hyd y ffordd fawr, yr hon a barheir o Ben-ar-lâg hyd Glynog yn sir Gaernarfon, gan amrywio yn barhaus mewn cyfnewidiadau diddiwedd o olygfeydd nas gellir eu cydmar.

*Helygen.*] Y lle cyntaf o unrhyw sylw a geir yn mhlwyf Helygen, ydyw casgliad bychan o dai, a elwir y *Pentref;* enw cyffredin yn Nghymru ar unrhyw gynulliad o dai, lle na byddo eglwys; i'w wahaniaethu oddiwrth y *Llan*, lle y mae y man i addoli. Cyfododd y pentref yma yn y

* Lib. xxviii. c. 4. † Dyn rhyfelgar.

ganrif bresenol, a chynyddodd yn fawr trwy ddyfodiad y mwnwyr yn lluoedd, mewn canlyniad i ddarganfyddiad gwythen doreithiog mewn caeau cyfagos.

Bron yn ymyl y mae *Mynydd Helygen;* rhandir helaeth, yn sefyll mewn plwyf o'r un enw, ac yn mhlwyfydd Llaneurgain, Ysgeifiog, a Threffynon.

Y mae ei arwyneb yn gyffredin i bawb: y mwneion yn eiddo arglwydd Grosvenor, drwy roddiad a wnaed yn 1634, i'w hynafiad, Syr Richard Grosvenor, marchog, gan Siarl I. o'r holl fwneion plwm o fewn cantrefi Colsul a Rhuddlan.* Cyn hyny byddai y rhandiroedd yn cael eu gosod ar *leases* am nifer pennodol o flynyddau. Felly y mae Iago I. yn caniatâu hyny i Richard Gwynne, ar daledigaeth o'r swm blynyddol o driugain a chwech o sylltau ac wyth geiniog; a chaniatâwyd *lease* newydd yn 1629, trwy warant gan yr arglwydd drysorydd Weston, i Richard Grosvenor, Ysw.; Roger Grosvenor, ei fab, a Mr. Thomas Gamul, am ystod eu bywydau, trwy dalu yr ardreth arferol, a dirwy o ddeg punt.†

Tybiaf fod y rhoddiad yma, ac un arall cyffelyb, o'r mwneion yn Maylor ac Ial, i'r un boneddwr, y rhodd gyntaf o'r natur yma gan y goron;‡ yr hon, am ganrifoedd lawer ar ol y Gorchfygiad, a ddaliai ei gafael yn y mwngloddiau a'r mwneion, yn rhinwedd yr uchelfraint freninol. Y mae Syr John Pettus§ wedi cadw cof o gyfres o *grants* o deyrnasiad Iorwerth I. hyd eiddo Harri VII., y rhai a awdurdodent wahanol bersonau i chwilio am fwn. Yr oedd rhai o'r cyfryw wedi eu cyfyngu i siroedd pennodol, ac ereill i'r deyrnas yn gyffredinol: a'r unig waharddiad ydyw peidio gweithio o dan gastelli neu dai; mewn gerddi neu ddolydd; perchenogion y rhai a feddent hawl i gael eu digolledu mewn pob anrhaith a allent oddef. Rhisiart II. ydyw y tywysog cyntaf a roddodd ganiatâd cyffredinol. Yn ei lythyrau breintiedig ef i Richard Wake, clerigwr, y rhai a ganiatâent iddo chwilio am fwneion aur ac arian yn sir Dyfnaint am ddeng mlynedd, yr oedd gan yr anturiaethwr awdurdod i gloddio (ond digolledu perchenog y tir) oddifewn yn gystal ag oddiallan i derfynau bwrdeisiol; ac i dalu un ran o ddeg at drysorfa yr Eglwys Sanctaidd, a'r nawfed ran i'r trysorlys.

Nid dyma yr engraifft gyntaf o gymhwysiad degwm y mwneion at ddybenion crefyddol: y mae Iorwerth I. yn cyfarwyddo fod i'r un cyfartaledd gael ei dalu i'r eglwysi plwyfol yn Nghymru allan o'r mwngloddfeydd cymydogaethol.‖ Yr oedd gan fynachlog y Maesglas hefyd gyllid yn cyfodi o'r un ffynhonell.¶

Nis gallaf gael allan fod perchenog y tir, pe darganfyddasid y mŵn mewn eiddo preifat, yn meddu rhyddid i gael unrhyw ran o'r budd, hyd y bummed o Harri VI. (1426); pan y mae y duc Bedford, rhaglaw Ffraingc, yn derbyn *lease* o ddeng mlynedd ar yr holl fwngloddfeydd yn nheyrnas Lloegr, o aur ac arian, gan dalu i'r Eglwys Sanctaidd y ddegfed ran, i'r brenin y bymthegfed ran, ac i arglwydd y tir yr ugeinfed ran. Y mae y caniatâd hwn (er yn fychan) yn brawf o'r cyfiawnder a'r cymedrolder a nodweddai weithrediadau amddiffynwr (*protector*) Harri yn ei ddyddiau boreuaf.

* Harleian MSS. No. 2002. 9. † Eto, yr un lle.

‡ Oddieithr (fel yr awgryma cyfaill) y gellir galw rhoddiad Iorwerth III. o Dduciaeth Cernyw a'i chyllid i etifedd y goron, wrth yr enw hwnw.—Gol.

§ Fodinæ Regales, p. 11 to 19.

‖ Rotuli Walliæ (Sir Joseph Ayloffe's) 75. ¶ Tanner's Notit. Monast. 711.

Digitized by Google

Yr oedd y *grants* breninol yma yn cyrhaedd at bob math o fetel, oddieithr haiarn: ac yn cymeryd i mewn aur ac arian, copr, alcan, a phlwm, a phob math o feteloedd a gynwysent aur ac arian. Y ddau fetel yma oeddynt y prif wrthddrychau; er hyny nid yw y *grants* breninol yn cau allan hawl y brenin i'r meteloedd o'r rhywogaethau iselaf.

Yn ystod y teyrnasiad hwn, darfu i'r ymgais at buro, neu wahanu meteloedd oddiwrth y mwn, gael ei gwneyd yn sylfaen hudoliaeth dwyllodrus a fu yn ddigon cyffredin mewn amseroedd dylynol. Nid oes ar gael ddim llai na phedair o engreifftiau o bersonau yn ymgymeryd â'r gorchwyl o newid y meteloedd iselaf i aur ac arian pur; a derbyniodd pob un o honynt y nawddogaeth freninol,* er eu hatal rhag cael eu rhwystro yn eu gweithrediadau; am fod rhai personau drwgdybus yn meddwl eu bod yn ymarfer celfyddydau anghyfreithlon; hyny ydyw, y gelfyddyd o ddewiniaeth. Mewn oes goelgrefyddol, gallasai yr amheuaeth yma brofi yn angeuol i'r cynllunwyr; y rhai yn y modd doethaf a gymerent yr arlliw mwyaf crefyddol ar eu dirgelwch, er mwyn osgôi malais eu gelynion. Nid oedd y meteloedd i gael eu newid, ond eu *traws-sylweddu;*† oblegyd yr oedd ganddynt reswm cryf dros feddwl na fyddai i'r rhai a gredent y gair yn ei ystyr grefyddol wadu y posiblrwydd o gyflawni y peth yn ei ystyr dymhorol. Heblaw hyny, yr oeddynt i weithredu o dan gochl grefyddol; oblegyd rhaid fod y celfyddydwr

> Yn dduwiol, sanctaidd, a chrefyddol ddyn,
> Heb unrhyw bechod marwol wrtho ynglŷn,
> Yn berffaith wyryf pur.‡

Nid ydym yn cael dim o ganlyniadau yr ymgeision hyn: ond barnwn iddynt oll ddarfod fel pobpeth arall o gyffelyb natur. Ond ni fu farw y bwrlwm yma gyda'r tywysog penwan hwn; oblegyd yn 1476, yr ydym yn cael fod Iorwerth IV. yn rhoddi yr un gefnogaeth i un *David Beaupe* a *John Marchaunt*, sef yr hawl am bedair blynedd *i droi arian byw yn aur neu ynte yn arian.*§ Nid ydym yn clywed yn rhagor am y twyll yma hyd deyrnasiad Elizabeth ac Iago I., pan y cawsant eu hadfywio yn dra llwyddiannus.‖

Iorwerth a barhaodd y *grants* mwneiol i amryw wŷr mawr; yn mysg ereill, i iarll Warwick, iarll Northumberland, a'i frawd Rhisiart, iarll Gloster. Yr oedd y deyrnged yn awr wedi cynyddu; yr oeddynt i dalu i'r brenin yr wythfed ran o'r budd; i arglwydd y tir y nawfed ran, ac i gurad y lle un ran o ddeg, neu ddegwm.

Yn nheyrnasiad byr a therfysglyd Rhisiart III. ni chafwyd hamdden i dalu sylw i faterion fel hyn; ond ei olynydd, yn ei flwyddyn gyntaf, a amlygodd ei duedd lywodraethol, cybydd-dod, trwy apwyntio Jasper, duc Bedford, ac amryw

* Rymer's Fædera, xi. 68, 128, 240, 309.

Yr oedd Harri IV. wedi gwneyd cyfraith, nad oedd "neb i ddefnyddio dim at y gelfyddyd o gynyddu aur neu arian, nac ymarfer y grefft luosogol ychwaith; ac os gwnelai rhywun hyny, ei fod yn agored i gosp fel drwgweithredwr." Cyfeirid y ddeddf yma at bersonau, y rhai, dan rith o draws-sylweddu, a ffugient y meteloedd gwerthfawr. Wedi hyny cafwyd allan ei bod yn atalfa ar y gelfyddyd o drin metelau; gan yr ymestynai at unrhyw burwr medrus, os byddai wedi darganfod cynllun o gael mwy o aur neu arian allan o'r mathau israddol nag a ellid yn flaenorol, yr hyn a barodd ddileu y gyfraith yn y flwyddyn gyntaf i William a Mary, c. 30.

† Rymer's Fædera, xi. 68. &c.

‡ Ben Johnson's Alchemist.

§ Rymer, xii. 28.

‖ Gwel Life of Doctor Dee; Ben Johnson's Alchemsti, &c,

bersonau uchel ereill, i fod yn llywodraethwyr ar ei holl fwneion yn Lloegr a Chymru, gan dalu i'r brenin y bymthegfed* ran o'r aur a'r arian *pur*, ac i arglwydd y tir yr unfed ran ar ddeg, *fel y tyfai*

Elizabeth ydoedd y gyntaf o'n tywysogion a osododd i lawr sylfaen ein llwyddiant mwneiol, ac i'r oll o'r llaw-weithiau a gyfodasant mewn canlyniad i hyny. Yr wyf yn cael, fod Harri VI.† yn 1452 (fe ddichon ar ddarganfyddiad y twyll o draws-sylweddu meteloedd) wedi anfon i Hungary, Awstria, a Bohemia, am dri o fwngloddwyr profedig, a deg ar hugain o gynorthwywyr, i weithio ei fwngloddiau, gan mor anfedrus oedd y Saeson ar y pryd. Ond y rhyfeloedd cartrefol, y rhai a dorasant allan yn uniongyrchol ar ol hyny, a ddyrysodd y cynllun doeth yma. Elizabeth a ail ymaflodd yn y peth, gan ei bod yn rhy lygadgraff i beidio gweled diffygion ac anghenion ei theyrnas. Nid yn unig mabwysiadodd, ond gwellhaodd y cynllun. Yr oedd ein gwybodaeth ni am fwneion bron wedi pallu, ac wrth gŵrs y llaw-weithiau a ddibynent arnynt. Yr oeddym yn eludo ein cleddyfau, ein cyllill, ein gwertholion, genfa ein ffrwyni, ac hyd yn nod ein nodwyddau, allan o Germany, trwy yr Iseldiroedd. Yr oedd ein nwyddau prês hefyd, ac hyd yn nod ein gwyfr, oddieithr ychydig a wneid gyda llaw, o wneuthuriad tramor. Y cam cyntaf a fabwysiadodd y dywysoges ddoeth hon ydoedd gwahardd dwyn i mewn i'r wlad y pethau hyn ac amryw bethau ereill, o'r ochr draw i'r môr;‡ y nesaf ydoedd gwahodd i'w theyrnas gloddwyr, toddwyr, a chrefftwyr tramor mewn cynyrchion mwnol.

Yn nesaf ffurfiodd gorphoraeth, o dan yr enw Y GYMDEITHAS AT Y MWNGLODDIAU BRENINOL. Y llywydd cyntaf ydoedd William, iarll Penfro; ynghydag amryw ddynion o radd uchel yn gysylltiedig âg ef yn y commissiwn fel cynorthwywyr, ac amryw ddinasyddion, a rhai tramoriaid o fedrusrwydd adnabyddus yn y materion hyn. Hefyd hi a ffurfiodd yr un aelodau yn gorphoraeth arall, yr hwn yn naturiol a ddibynai ar y blaenaf, sef, Y GYMDEITHAS AT Y MWNEION A'R GWEITHIAU AMDDIFFYNOL. Sylfaenwyd y corphoriaethau hyn Mai 28ain, 1567.

Yr oedd peth symudiad wedi cael ei wneyd, ychydig o flynyddoedd cyn hyny, at gael defnyddiau at y gweithiau newyddion hyn; yn 1563, yr oedd wedi caniatâu mwngloddiau wyth o siroedd, heblaw y rhai yn Nghymru, i *Daniel Houghsetter;* yn 1564, gwnaethai ganiatâd arall i *Cornelius Devosse;* a thrydydd, yn yr un flwyddyn, mwy cynwysfawr na'r cyfan, i *Christopher Shutz*, o bob mwngloddiau, mwneion, a thrysorau tanddaearol (oddieithr copras ac alum,) y rhai a geir yn mhob parthau ereill o Loegr (na chrybwyllir yn y breint-lythyrau blaenorol,) neu oddifewn i'r cylch Seisonig yn Iwerddon, wrth yr enw aur, arian, copr, alcan, plwm, arian byw, mwn cadmia, neu *lapis calaminaris;* a phob rhywogaeth o "ystenau neu fwnau," yn syml neu bur, yn gymysgedig neu yn gyfansoddedig at wneyd gwyfr prês neu ddur, &c. Gyda phob un o ddalwyr y breintlythyrau hyn yr oedd Sais wedi ei gysylltu.

Y mae yn deilwng o sylw fod y goron, yn y rhan fwyaf o'r *grants* hyn, yn dal hawl cyfangwbl yn mhob mwngloddiau pa bynag, o dan y dybiaeth eu bod yn fwngloddiau breninol; er hyny nid allai yr uchelfraint feddu hawl ond yn

* Moses Stringer, awdwr yr *Opera Mineralia explicata*, a'i geilw y *bummed* ran, yr hyn sydd yn fwy cydfynedol â chymeriad y penadur hwnw.

† Rymer, xi. 317. ‡ Statute 5th Elizabeth, c. 7.

unig yn y rhai a gynyrchent aur ac arian. Gwreiddyn y syniad yma a darddai oddiar hawl y brenin i fathu, er mwyn iddo gael y defnyddiau gofynol; yr hyn a fuasai yn ei gyfyngu i'r ddau fetel ardderchocaf. Ond hyd nes y daeth y cyfnod dedwydd pan y sefydlwyd ein Cyfansoddiad, ac y cafodd eiddo y brenin ac eiddo preifat eu gwahaniaethu yn gyfiawn, yr oedd y deiliaid yn rhy wan i fyntumio eu hawl gyfreithlawn. Yr oedd Elizabeth ei hunan yn rhy hoffus o'i hanwyl uchelfraint (hyd yn nod gyda'r holl serch yr ymffrostiai fod ganddi at ei phobl,) i ollwng ei gafael o hyn. Y mae ei breintlythyr i *William Humfrey* a *Christopher Chutz* wedi ei eirio yn y modd mwyaf eithafol; oblegyd nid yn unig yr oedd yn rhoddi iddynt awdurdod i gloddio shafftiau lle bynag y mynent (oddieithr mewn gerddi, &c.,) ond i adeiladu tai gofynol at gario y gweithiau yn mlaen, nid yn unig ar diroedd y goron, ond hefyd ar diroedd unrhyw rai o'i deiliaid. Y *Percies* ysprydlawn, yn mherson Thomas, iarll Northumberland, oedd y cyntaf i wrthsefyll y trais yma ar ei hawl. Aeth i gyfraith â'r goron ynghylch y meddiant o fwngloddiau copr oedd ar ei etifeddiaethau yn Keswick; ond penderfynodd y cyfreithwyr yn ei erbyn, gan ddadleu, er fod gan y goron allu i roddi ymaith ei maenorau, nad oedd ganddi y gallu i wneyd hyny â'r mwneion, am eu bod yn berllaith gysylltiedig âg uchelfraint y goron.

Ond, fel arfer, yr oedd gan foneddigion y wisg laes ddau opiniwn ynghylch y pwynt yma; rhai yn haeru, os ceid unrhyw faint o aur neu arian mewn copr, &c. y byddai y cwbl yn perthyn i'r brenin: yr hyn, mewn gwirionedd, ydoedd rhoddi pob eiddo mwneiol i'r goron; oblegyd nad oes braidd byth ddim o'r meteloedd iselaf heb fod ynddynt ryw gymaint o'r rhai gwerthfawrocaf: ereill drachefn, yn y teyrnasiad nesaf, a liniarent hyn trwy ddywedyd, "Er i'r aur neu yr arian a gynwysir yn meteloedd mwngiawdd, a fyddo yn nwylaw un o'r deiliaid, fod o lai gwerth na'r meteloedd israddol, eto os bydd i'r aur neu yr arian fod yn gyfartal â'r gost o'i buro, neu fod yn fwy o werth na'r metel israddol a dreulir wrth ei buro, FOD HWN YN FWNGLAWDD BRENINOL: ac fod y metel israddol, yn gystal a'r aur a'r arian a geid ynddo, yn eiddo i uchelfraint y goron."*

Dyna ydoedd cyflwr yr hawlfraint freninol; yr hon oedd mor anghefnogol i ddiwydrwydd y deiliaid, hyd ddygwyddiad pwysig y CHWYLDROAD; pryd y darfu i'r goron, yn y flwyddyn gyntaf o deyrnasiad William a Mary, gyflawn roddi fyny ei hawl i fwngloddiau copr, alcan, haiarn, a phlwm, er y gellid tynu aur ac arian allan o honynt faint a fynid. Trwy ddeddf ddylynol, cafodd yr hawl yma ei chadarnhau drachefn: ond yn unig fod y goron yn cadw iddi ei hun yr awdurdod i brynu,† o fewn deng niwrnod ar hugain ar ol eu codi, bob mwneion wedi eu gwneyd yn farchnadol, am y prisiau canlynol: copr am 16*l.* y dunell, alcan am 40*l.*, a phlwm am 9*l.*; ac oni thelid y swm hwnw, byddai y perchenogion at eu rhyddid i werthu eu mwneion fel yr ewyllysient. Yn y modd yma, fel y sylwa Mr. Blackstone,‡ nid oedd y perchenogion yn cael eu digaloni rhag gweithio eu mwngloddiau, gan ofn rhag iddynt gael eu hawlio fel eiddo y brenin, ac nid yw y brenin ychwaith yn ymado oddiwrth gyfiawn hawl-

* Rhoddwyd yr opiniwn yma yn 1640, 1641, a llaw-nodwyd ef gan Maynard, Glanville, ac ereill, prif gyfreithwyr y cyfnod.

† Y mae yr hawl yma i ragbrynu wedi cael ei chadw gan freninoedd Lloegr a duciaid Cernyw, yn eu holl siartrau rhyddfreiniol a ganiatawyd i weithwyr mewn alcan yn Nghernyw.—GOL.

‡ COMMENTARIES, 4to. i. 294.

Digitized by Google

iau ei gyllid, am y gallai gael yr holl feteloedd gwerthfawr a gynwysid yn y mwn, heb dalu dim yn rhagor am danynt nag y tybir ydyw gwerth y metel israddol; i'r hwn fetel israddol y mae perchenog y tir yn meddu hawl yn ol pob rheswm a chyfraith.

Gellir cael rhyw gymaint eto o hanes y mwneion a'r ffosylau, yn y rhandir lwneiol a fu yn achos o'r crwydriad hwn, pan y deuaf eto ar ei draws yn ystod fy nhaith.

*Llan Helygen.* ] O *Bentref Helygen* aethum yn mlaen ar fy nhaith ar hyd ffordd Caerlleon; gan fyned heibio i'r LLAN. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i Fair y Forwyn, ac yn adeilad fechan brydferth, wedi ei hailadeiladu yn ddiweddar, mewn rhan trwy *brief*, ac mewn rhan trwy danysgrifiadau. Y mae wedi ei hadeiladu ar safle eglwys y sonir am dani yn y *Doomsday Book*. Ar adeg y Gorchfygiad, gelwid y rhandir yma yn *Alchene*, oddiwrth ba un y cymerwyd yr enw presenol. Yr oedd *Brynford*, tref-ddegwm ag sydd yn bresenol yn mhlwyf Treffynnon, a lle o'r enw *Inglecraft*, ar y pryd yn gysylltiedig âg ef. Dywed y *Doomsday Book*, fod yma eglwys a henaduriad, a thri o fythynwyr; melin yn werth pum' swllt yn y flwyddyn; coedwig oddeutu milldir a haner o hyd, a deugain erwydden *(perch)* o led; y cwbl yn cael eu prisio yn ddeg swllt.

Hen enw Prydeinig y lle hwn (ac y mae yn cael ei gadw o hyd gan y Cymry,) ydoedd *Lugun*, oddiwrth sant, yr hwn, fel y credaf, nad yw yn adnabyddus ond yn y calendr Cymreig.*

Oddeutu dwy filldir neu dair yn mlaen, mewn morfa coediog ar y llaw aswy, y mae sylfeini hen adeilad, a elwir Llys Edwyn, neu Lys Llan Eurgain, yn wreiddiol yn drigfod Edwyn, neu *Englefield ap Grono*, arglwydd, neu frenin (fel y gelwid ef) ar Degeingle. Yr oedd yn orwyr i Hywel Dda, tywysog Cymru, a blodeuai oddeutu y flwyddyn 1041. Y mae llaweroedd o deuluoedd yn y sir hon wedi tarddu o hono, ond y mae y rhan fwyaf o honynt wedi pallu yn y llinach wrrywaidd. Parhaodd yn y teulu hyd farwolaeth disgynydd oddiwrtho, Hywel Gwynedd, yr hwn a gollodd ei fywyd yn ngwrthryfel Glyndwr; pryd y rhoddwyd ei etifeddiaeth fforffediedig gan Harri IV. i un o'r enw Bryan Saxton. Ei olynwyr a fuont yn ei meddiannu hyd yr ail ar bymtheg o Harri VI., yr hwn a'i rhoddodd i Syr John Stanley, marchwas yr ystafell-wely.† Daeth wedi hyny yn eiddo i ganghen ieuengach o'r *Stanleys*, a pharhaodd yn eu meddiant hyd yr eilfed ganrif ar bymtheg. Yr ydwyf yn cael fod un o'r enw Syr Edward Stanley, o Fflint,‡ wedi priodi merch i Syr George Stanley, tua diwedd teyrnasiad Harri VII., yr hwn, efallai, oedd berchenog y lle hwn.

*Moel y Gaer.* ] Ni ddylwn fyned heibio yn ddisylw i hen amddiffynfa Frytanaidd, yr hon a ymddyrchafa uwchben y ffordd oddeutu dwy filldir ar y llaw ddehau. Saif ar ben bryn, ac amgylchynir hi â ffos a chlawdd o ffurf crwn, gyda mynedfa i mewn, fel arferol, i'r cyfryw leoedd; a bryn bychan o wneuthuriad celfyddyd o fewn ei therfynau, oddiar ba un y traddodai ein gwroniaid hynafol eu *haraith*, er calonogi eu canlynwyr yn erbyn eu goresgynwyr tramor. Fod hyn yn arferedig gan ein harweinwyr sydd yn amlwg; oblogyd darfu i'n *Buddug*, yr hon yr ymffrostiwn gymaint ynddi, anerch ei milwyr

* Pa sail sydd i hyn nis gwn, ond ymddengys fod yr enw Cymreig a awgrymir gan *Lugan* a *Halkin*, yn arwyddo *Helygen*. J.R. † Hist. of the House of Stanley, 28. ‡ Coll.'s Peerage, ii. 453.

Digitized by Google

oddiar fryncyn o bridd. Gelwid yr amddiffynfa hon Moel y Gaer—enw cyffredin ar luaws ereill at y cyffelyb bwrpas. Ymddengys fod hon yn amddiffynfa allanol o eiddo y Gordofigion, i'r dyben o amddiffyn eu gwlad rhag y goresgynwyr Rhufeinig. Bydd genym, yn ystod y gwaith hwn, achlysur i nodi allan y gadwyn o amddiffynfeydd ar hyd bryniau Clwyd, o'r un nesaf i'r môr hyd at y parthau pellaf a mwyaf mewnol. Amddiffynodd ein hynafiaid eu meddiant o'u gwlad o fodfedd i fodfedd. Yn y manau hyny y lletyent eu gwragedd a'u plant; yma y gyrent eu diadelloedd o'r isel-wlad; sefydlent yn mhob un o honynt warchawdluoedd lluosog, parod i ruthro allan, a gyru y gelyn yn ei ol; neu ynte i amddiffyn y cwbl ag oedd yn anwyl ganddynt, pe buasai y goresgynwyr mor feiddgar ag ymosod arnynt yn eu hamddiffynfeydd.

Mewn amseroedd diweddarach, bu y llecyn hwn yn angeuol i un o bleidwyr Owain Glyndwr. Yma y cafodd Hywel Gwynedd (am yr hwn y crybwyllasom yn ddiweddar) ei oddiweddyd mewn awr ysgafala, trwy yr hyn y collodd ei ben.


*Northop, neu Laneurgain.* *Northop*, tref fechan, a orwedda yn nesaf ar ein ffordd. Y mae yn dwyn y blaenddawd *North*, er ei gwahaniaethu oddiwrth yr *Hope* arall, sef Estyn. Ei henw Prydeinig ydyw *Llaneurgain*, oddiwrth St. Eurgain, merch Maelgwyn Gwynedd, ap Cadwallon Law-hir, ap Einion Yrth, ap Cunedda Wledig, &c., yr hon a fu farw yn 586.

Ganwyd William Parry, LL.D., ac aelod seneddol dros Queensborough, yn Llaneurgain. Dienyddiwyd ef o flaen drws y senedd-dy, yn 1584, am gydfwriadu yn erbyn bywyd y frenines Elizabeth. Yr oedd yn flaenorol i hyn wedi gwneyd ei hun yn wrthddrych o adgasrwydd, trwy iddo feddu y gwroldeb o siarad yn erbyn yr ysgrif er gyru o'r wlad yr offeiriaid pabaidd, &c.; traddodwyd ef i garchar, ond cafodd ei adferu i'w eisteddle trwy iddo ymostwng. Dywedai fod ei fam yn anedig o Gonwy (o Bod-rhyddan); ac fod gan ei dad ddeg-ar-hugain o blant o ddwy wraig, ac iddo farw yn 108 oed. Ei elynion, o'r tu arall, a ddywedent ei fod o dylwyth isel, ac mai tafarnwr o'r pentref hwn, o'r enw Harri ap Dafydd, oedd ei dad. Bydded hyn fel y byddo, yr oedd o alluoedd mawrion; ond dygwyd ef gan ei dwyll i'w farwolaeth anamserol. Aeth yn wirfoddol fel yspïwr i wledydd tramor, lle yr enillwyd ef trosodd gan y Pabyddion; dichon y meddyliai dwyllo y ddwy ochr; a syrthiodd yn ysglyfaeth cyfiawn i'w dwyllodrus weithrediadau.

Yr eglwys sydd gysegredig i St. Pedr. Y mae ei chorph yn hir ac yn furfylchog; y tŵr yn uchel a phrydferth. Oddifewn iddi y mae tri o feddrodau adfeiliedig; un o farchog tew, enw yr hwn sydd wedi ei golli, a'i ffugur wedi ei amharu yn fawr gan amser. Un arall sydd gerflun o ryfelwr, mewn llawn arfogaeth, ac mewn cadwraeth dda; ar ei darian y mae math o groes, ac arni bedwar o bysg penfras, ac un arall yn y canol. Y cerfiad sydd fel hyn, *Hic jacet Ith. Vach. ap Bledd. Vach.** Tybiaf mai cadben Tegangle oedd efe, yr hwn y crybwyllir am dano yn achrestrau yr Humphreysiaid o Bodlewyddan, a dywedir iddo gael ei gladdu yma. Y trydydd sydd o foneddiges, a'r cerfiad *Llewc*****, ac *anno domini* 1482. Yn ol traddodiad, ei henw oedd *Lleucu Llwyd*, merch dra phrydferth yn yr oes hono; dichon mai yr un a'r hon a

* Yn llawn, efallai, "Hic jacet Ithel Vachan ap Bleddyn Vachan," gyda Vachan am Vychan, a sillebir yn awr *Vaughan*. J.R.

Digitized by Google



TOMBS AT NORTHOP

*BEDDAU YN LLANEURGAIN.*

Digitized by Google

Digitized by Google

gerid gan fardd enwog, yr hwn, pan yn dyfod ar ymweliad â hi, ar ol hir absenoldeb, a gyfarfu â'r un newydd galarus ag a gafodd y *Chevalier de Rancè;* oblegyd cafodd y ddau eu cariadau yn eu heirch. Aeth y bardd i lewyg wrth yr olygfa, ond ymadfywiodd, a chyfansoddodd farwnad ar ei hol. Y *Chevalier* a ymneillduodd o'r byd, ac a sefydlodd fynachlog *La Trappe,* yr hon sydd yn hynod ar gyfrif ei llymdostedd dysgyblaethol.

Personoliaeth heb ddim gwaith perthynol iddi ydyw Llaneurgain, yr hon a gysylltwyd â Llanelwy yn y 6ed o'r frenines Anne, i'r dyben o wneyd iawn i'r esgob am y rhoddion dyledus iddo ar farwolaeth pob clerigwr a fyddai yn dal bywioliaeth yn yr esgobaeth. Oddiwrth gyfrif a gymerwyd yn nheyrnasiad y frenines Elizabeth, yr oedd y pethau canlynol yn ffurfio yr iawn yma:—Ei farch dyspaidd goreu, ceffyl, neu gaseg; ei own goreu; ei fantell oreu; ei gôt oreu, ei siaced, ei wasgod, a'i lodrau; ei hosanau bach, ei hosanau hirion, a'i ardysau; ei gôt gyffredin; ei het a'i gap; ei gleddyf cam; ei lyfr goreu; ei offerengrys; ei bwrs a'i wregys; ei gyllell a'i fenyg; ei sêl, neu ei fodrwy aur*.

*Castell Eulo.* Rhwng yr wythfed a'r nawfed gareg filldir, oddeutu chwarter milldir o ffordd Gaerlleon, y saif adfeilion castell Eulo, yr hwn sydd ar ddibyn uwch ben nant ddofn a choediog. Amddiffynfa fechan ydyw, yn gynwysedig o ddwy ran: tŵr hirgul, yn grwn ar yr ochr, ac yn cael ei amddiffyn yn y manau mwyaf hygyrch gan fur cadarn ychydig bellder oddiwrtho: buarth neu gwrt hirgul, gyda gweddillion tŵr crwn yn ei ben draw, a ffurfia y rhan arall. Y mae y tyroedd yn awr wedi eu gorchuddio yn brydferth âg eiddew, a cheir o honynt olygfa ar dri o ddyffrynoedd coediog, isel a thywyll, yn ffurfio unigedd o'r fath mwyaf trymllyd.

*Brwydr.* Yn y coed yn agos i'r lle hwn, a elwir hyd heddyw yn Coed Eulo, cafodd rhan o flodau y fyddin a anfonasid gan Harri II. yn 1157, o'i wersyll yn Saltney, ymosod arni yn ddisymwth, a'i gorchfygu gan Dafydd a Chynan, meibion Owain Gwynedd, y rhai a anfonasid gan eu tad gyda mintai gref o'i wersyll yn agos i'r Maesglas. Gadawsant i'r gelyn ymdeithio ar hyd gwastattiroedd y wlad, nes yr oedd ei filwyr wedi ymddyrysu yn nyfnder y coedwigoedd, a gelltydd y dyffrynoedd culion, y rhai a geir mor fynych yn y parthau hyn. Yr oedd yr ymosodiad yn sydyn, ffyrnigwyllt, ac annysgwyliadwy; a chariwyd yr ymlidiad hyd yn nod at wersyll Harri.† Nid oedd hyn ond rhagarweiniad i ail orthrechiad y Saeson. Y brenin, gyda'r amcan o wneyd i fyny am ei warth, a ymdeithiodd yn mlaen gyda'i holl fyddin; ac yn *Brwydr Colsul.* Colsul, yn sir Fflint, goddefodd iddo ei hun gael ei ddal yn yr un anhawsderau ag y buasai y gyfran gyntaf o'i fyddin yn brofiadol o honynt o'r blaen. Cafodd ei fyddin ei gorchfygu yr ail waith; ac *Eustace St. John,* barwniad o'r radd flaenaf, o ran cyfoeth a medrusrwydd, yn mysg y Saeson, a *Robert de Courci,* barwn enwog arall, ynghyda niferi o rai ereill, a laddwyd. *Harri de Essex,* baner-ddygiedydd etifeddol, a dyn o wrolder profedig, a ddychrynodd; a chan daflu i lawr y faner, a waeddodd allan, fod y brenin wedi ei ladd.‡ Buasai y gorthrechiad yn un cyffredinol, oni buasai i Harri mewn modd gwrol ail-galonogi ei filwyr, y rhai a yrasant y Cymry ar

* Willis's St. Asaph, 280. † Powell, 207.

‡ *Guil. Newbrig,* lib. ii. c. 3. Dyma yr awdwr y mae y Cymry yn ei alw *Gwilym Bach.* Brompton, 1048.

ffo; ond wedi y cwbl, tybiodd mai doeth ydoedd tynu ei fyddin yn ol, ac ymwersyllu mewn gorsaf ddyogel. Ar ol hyny ymgeisiodd at dori ymaith enciliad Owain Gwynedd, trwy ymdeithio ar hyd glan y môr, a chael cydrhyngddo a'r mynyddoedd; ond y tywysog, gan ddeall ei fwriadau, a enciliodd i wastadedd yn agos i Lanelwy, a elwir hyd heddyw *Cil-Owain;* ac oddiyno i orsaf gref, a elwid *Bryn y pin*, yr hon a amddiffynid gan furiau a ffosydd mawrion. Y mae y wersyllfa yma yn gorwedd yn mhlwyf Llansantsior, ar graig uchel uwchlaw yr eglwys, ac a elwir yn bresenol *Pen y parc.*

Y mae *Bryn Dychwelwch*, ar ba un y rhoddes Owain y gorchymyn allan i ENCILIO, trwy ei enw yn cadw coffadwriaeth am yr amgylchiad. Y mae yn sefyll uwchlaw Pentref Bagillt, islaw Gadlys, a thybir mai dyma y fan o ba le yr enciliodd i Cil-Owain.

Yn y gymydogaeth hon y mae dau o fryniau tra uchel, o waith llaw, ar ba rai y safai adeiladau ag ydynt wedi eu dinystrio er's oesoedd. Y mae un yn agos i dawdd-weithiau y Gadlys, a gallai fod yn eisteddle un o'n tywysogion, megys ag y mae yr enw yn arwyddocâu; y mae Gadlys yn arwyddo *Palatium Castrense*, neu y *Brif Wersyllfa Freninol.** Saif y llall oddeutu milldir uwchlaw Fflint, a gelwir ef *Bryn y Cwn*, yr hwn fe ddichon a allai fod yn wersyllfa hela.

Y mae amgylchiad, cydfynedol â'r frwydr hon, yn profi nad yw yr adroddiad fod Edgar wedi difodi y bleiddiaid allan o'r dywysogaeth, yn gywir. Yn mhen wyth niwrnod ar ol y frwydr, darganfyddwyd Cymro ieuangc a laddwyd ynddi, yn cael ei wylio gan ei gi ffyddlon, yr hwn a arosasai gyda'r corph drwy ystod yr amser, heb ymborth, gan ei amddiffyn rhag dyfod yn ysglyfaeth i adar a bleiddiaid.†

Nid oes un math o draddodiad yn nghylch sylfaenydd castell Eulo. Pa un a gafodd ei adeiladu gan un o arglwyddi Tegangle, neu pa un a godwyd ef gan Harri i atal aflwydd cyffelyb, trwy osod gwarchodlu yma, ni bydd i mi ryfygu penderfynu. Y mae yn adfeilion er's canrifoedd; oblegyd y mae *Leland* yn son am dano "fel hen gastell neu adeilad adfeiliedig, a berthyna i *Hoele*, boneddwr o sir Fflint, yr hwn, trwy ddefod henafol, a arferai roddi y delyn arian i'r telynor goreu yn Ngogledd Cymru, megys trwy ragorfraint ei hynafiaid.‡ Ychwanega yr hynafiaethydd hwn ei fod "yn preswylio mewn lle o'r enw *Penrhine* (Penrhyn) yn sir Fflint." Ni wyddom am y fath le yn y sir; ond y mae genym feddwl mai Thomas ap Richard ap Hywel, arglwydd Mostyn, oedd y boneddwr y cyfeirir ato, yn nheulu yr hwn y buasai y rhagorfraint hono yn aros er's amser maith; ac yr oedd y boneddwr hwnw yn cydoesi â *Leland.*

*Maenor.*] Ystyrid maenor Eulo fel math o ychwanegiad at un *Montalto*, neu y Wyddgrug. Yr oedd yn eiddo y goron hyd y 26ain o deyrnasiad Harri VIII., yr hwn a'i rhoddodd i Peter Stanley, ysw., boneddwr oedd yn swyddog yn ei dylwyth, ynghyda thollau marchnad Fflint.§ Yn nheyrnasiad y frenines Elizabeth, delid hi gan Edward Stanley, trwy dalu 20*l.* 10*s.* yn y

* Ni ddylai hyn ddinystrio y traddodiad mai dyma y fan lle y gwersyllodd Harri ar ol ei enciliad.

† Girald. Cambr. Itin. lib. ii. c. 10. p. 873.

‡ Leland's Itin. v. 56.

§ Harleian MSS. No. 1968. 10.

Digitized by Google

flwyddyn.* Yn bresenol,† y mae yn meddiant John Davies, ysw., o Lanerch. Yn y map a gyhoeddodd *Saxton*, o sir Fflint, y mae lle a elwir *Yowly Hall*, ac yr wyf yn cael pais-arfau teulu Eulo, yr hen berchenogion, yn llyfr achau y Salsbriaid. Ond nid oes yn bresenol y traddodiad lleiaf am danynt.

*Gweithiau Llestri Pridd.* O fewn yr arglwyddiaeth hon y mae gweithiau llestri pridd breision tra eang; megys padelli, cawgiau, potiau mawr at ymenyn, platiau, dysglau, pobtai, potiau blodau, &c. Y mae yno bedwar ar ddeg o weithfeydd, y rhai a wnant yn flynyddol werth rhwng tair a phedair mil o bunnau. Cludir y nwyddau gan mwyaf i'r Iwerddon, a'r trefydd hyd arfordir Cymru; yn enwedig i Abertawe. Y mae yno heblaw hyny chwech o weithfeydd ereill, at wneyd priddfeini tân; nid oes nemawr i glai wedi ei gyfaddasu yn well at wrthsefyll gwres tanbaid y ffwrneisiau toddi. Gwneir y rhai hyn o wahanol faintioli; a rhai o honynt a elwir *bearers* (cynalyddion) a bwysant ddau cant o bwysi. Y mae llawer iawn o lawr-lechau *(tiles)* at lorio ysguboriau, ac at ystafelloedd, yn cael eu gwneyd yma hefyd; ac y mae gwerthiant blynyddol y ddau beth yma yn cyrhaedd i oddeutu deuddeg cant o bunnau.

Y clai yma, yr hwn sydd o liw lludw tywyll, a geir mewn gwelyau o drwch mawr; a chloddir ef i fyny yn ddarnau caled, tebyg i graig grogenaidd; wedi ei godi, gadewir ef am gryn amser yn amlygedig i'r awyr, er mwyn hyrwyddo ei ddadgyfansoddiad. Gosodir y priddfeini a wneir o hono yn y ffwrneisiau plwm, gyda'r clai heb ei losgi yn lle morter.

Rhaid i mi beidio gadael *Northop*, neu Laneurgain, heb ymweled â'i rhanau arforawl, y rhai a ymestynant ar hyd glenydd yr afon Ddyfrdwy. Yma cawn enwau lluaws o'r trefydd-degwm y crybwyllir am danynt yn y *Doomsday Book;* afon *Leadbrook*, wedi ei Normaneiddio i Lathroc, oddiwrth y gair Anglosacsonaidd *Læd*, a *Broca*, naill ai oddiwrth y symau o blwm a olchir allan o honi, neu oddiwrth y gweithdai toddi a sefydlwyd arni. Y dref-ddegwm hon, ar ol y Gorchfygiad, a ddelid gan Robert o Ruddlan.

*Ulfmiltone* oedd un arall, yr hon a adnabyddir yn awr wrth yr enw *Golftyn*.

*Wepre* ydoedd dref-ddegwm arall, yr hon a ddelid gan William de Malbedeng, oddiar eglwys Caerlleon. Crybwyllir am dani ddwywaith yn y *Doomsday Book;* a dywedir fod arni goedwig bedair milldir a haner o hyd. Mewn un lle crybwyllir am ddau o gaethddeiliaid, a dau o fythynwyr: mewn lle arall am un caethddeiliad, ac un *radman;* a'i bod wedi cael ei meddiannu yn flaenorol gan un *Ernui*, rhydd-ddeiliad. Yn y blynyddoedd diweddaraf y mae llongborth *(pier)* tra phrydferth wedi cael ei adeiladu gan gwmpeini yr afon Ddyfrdwy, yn y dref-ddegwm hon, yn ymylu ar y sianel, er amddiffyniad i'r llongau a fyddont yn hwylio i Gaerlleon, neu yn dyfod oddiyno, yn nghysgod pa un y gallant gael dyogelwch mewn tywydd drwg neu wyntoedd croesion.

*Pen ar-lâg.* Oddiyma esgynais i *Ben-ar-lâg*, tref fechan. Soniaf yn gyntaf am y faenoriaeth a'r castell. Y mae yr olaf yn ffurfio gwrthddrych tra phrydferth, yn ymddyrchafu uwchlaw y coed. Y lle hwn, fel y rhan fwyaf o leoedd ereill yn ein sir ni, a fedd ddau enw, *Pennard halawg*,‡

* Harleian MSS. No. 1970. 7.

† Yn awr yn eiddo Bryan Cooke, ysw., yn hawl ei wraig.—Gol.

‡ Nid oes un rheswm i dybied fod hyn yn hollol gywir, ond yn y ffurf Gymreig o'r gair sydd yn awr mewn ymarferiad, *Pennar Lâg*, gallai yr ail air fod y Saesoneg *lake* wedi ei fenthyca, yn hytrach, efallai, na'r *halawg* (budr, aflan) yr hen enw. Ymddengys fod *Hawarden* yn gyfieithiad o Pennardd, fel ag i olygu Uwch-warden, yn mha un yr ydym yn dyfod o hyd i *wardine* arferol y cyffindiroedd Cymreig; ystyr y gair Cymraeg *penn* ydyw copa neu grib, ac *ardd* sydd ffurf dalfyredig o *gardd*, lle cauedig. Tarddodd yr angenrhaid am y gair eglurhaol ar ol Pennardd am ei fod yn enw a ddygwydda mewn manau ereill, megys yn Pennardd, tuhwnt i dref Caernarfon. J.R.

Digitized by Google

efallai wedi ei lygru o Pen y llwch, neu y Pentir uwchlaw y Llyn; gan fod *Saltney*, a'r morfeydd cyfagos, ar un adeg, yn cael eu gorchuddio gan y môr. Yr enw arall sydd Sacsonaidd, fel y cawn ef wedi ei ysgrifenu yn y *Doomsday Book*, *Haordine*; y pryd hyny yr oedd yn arglwyddiaeth; meddai eglwys, dau o diroedd aredig, haner un o honynt yn perthyn i'r olaf; haner acer o ddoldir; a choedwig chwe' milldir o hyd, a milldir a haner o led. Prisid y cyfan yn ddeugain swllt; eto, ar yr holl le yma, nid oedd ond pedwar o gaethddeiliaid, chwech o fythynwyr, a phedwar o gaethweision: mor isel a hyny ydoedd nifer y trigolion.

*Rhufeinig.*] Dichon y buasai y lle yma yn amddiffynfa Frytanaidd, mewn gwrthsafiad i wlad y *Cornavii*, ac i'r Rhufeiniaid goresgynol. O'r tu gorllewinol i'r eglwys, mewn cae a ymyla ar y ffordd, y mae bryncyn a elwir bryn *Truman*, oddimewn i lecyn o dir ag sydd yn ymddangos fel wedi ei ysgwario, a'i lechweddu yn brydferth. Y mae yn amlwg y buasai hwn ar un adeg yn wersyllfa fechan, ffurf yr hon sydd wedi cael ei ddileu gan fynych amaethiad. Safai ar ael y bryn, a meddai lawn olwg ar y wlad. Bryncyn arall, a elwir *Conna's Hê*, sydd i'w weled gerllaw castell Pen-ar-lâg.* Y *Roft*, bryn (yn ymddyrchafu uwchben gwastadedd arall) gyda ffosydd, a bryncyn at gymeryd arsylwadau, yr hwn a orwedda yn mhlwyf Gresford, sydd un arall; ac yn Nghaer-Estyn y mae y pedwerydd. Cawn achlysur i son ychwaneg am y rhai hyn yn ystod ein taith.

*Sacsonaidd.*] Y Sacsoniaid a gymerasant feddiant o bob amddiffynfa a adewsid gan y Brytaniaid neu y Rhufeiniaid. Daliasant eu gafael mewn rhai o honynt, ereill a esgeulusasant, fel y byddai gwladweiniaeth y goresgynwyr newyddion, neu angenrheidrwydd y sefyllfa, yn galw am hyny. Yr oedd Pen-ar-lâg, yn flaenorol i'r Gorchfygiad, yn brif faenor, ac yn brif-ddinas un o gantrefi Atis-cross, neu Groes-ati. Pan orchfygodd Gwilym y wlad, ceir ei bod yn meddiant y dewr Edwin, a dichon ei bod yn un o'r manau lle y trigianai. Yr oedd yn fath o amddiffyniad i'w diriogaethau Mersaidd yn erbyn y Brytaniaid, gelynion naturiol ac anghymodlawn yr hiliogaeth Sacsonaidd.

*Normanaidd.*] Ar adeg y Gorchfygiad, cynwysid hi yn y rhodd eang a wnaethpwyd i Huw y Blaidd *(Hugh Lupus.)* Wedi hyny aeth i farwniaid *Montalto*, neu y Wyddgrug, a dalient hi fel goruchwylwyr o dan ieirll Caerlleon, y rhai a wnaethant eu preswylfod yno. †

Hysbysir ni gan achyddwyr ‡ fod *Roger Fitz-valerine*, mab i un o'r anturiaethwyr pendefigaidd a ddylynasent dynged Gwilym y Gorchfygwr, mewn meddiant o'r castell hwn; ac iddo gael aml ymgyrch â'r Cymry, ac iddo yn fynych achub ei fywyd trwy encilio iddo; ac i'r lle, oherwydd yr amgylchiadau hyny, gael ei alw yn Ogof yr Howardiaid. Ond, gyda'r parch mwyaf i holl waed yr oll o'r Howardiaid, nid yw yn ymddangos bod eu henwau y pryd hyny yn adnabyddus; gyda mwy o briodoldeb y dywed eu hanesydd, fod *William*, mab *Fitz-valerine*, wedi derbyn yr ychwanegiad o *de Haward*, neu *Howard*, trwy iddo yn ddamweiniol gael ei eni yn y lle hwnw.

Pan y darfu am hen ieirll Caerlleon, ac er atal i'r anrhydedd hono fyned

* A elwir yn awr *Connah's Quay*. J.R. † Cambden ii. 826. ‡ Collin's Peerage, i. 48.

Digitized by Google



*CYFRAN O GASTELL PEN-AR-LAG.*

**HAWARDEN CASTLE.**

Digitized by Google

Digitized by Google

rhwng hen ferched, cafodd hon, yn gystal ag amddiffynfeydd ereill, eu cymeryd i fyny gan y goron. Yn 1264, cafodd Llywelyn, tywysog Cymru, gynadledd yma* gyda Simon de Montfort, iarll Leicester, lle y sefydlasant heddwch rhwng sir Gaerlleon a Chymru, i'r dyben o ddwyn yn mlaen eu hymgeisiadau neillduol; ac yn y flwyddyn ganlynol, ar yr 22ain o Fehefin, Montfort a orfododd ei frenin, yr hwn oedd yn garcharor ganddo, i roddi meddiant trwyadl a hollawl i'r tywysog Cymreig, nid yn unig o'r amddiffynfa hon,† ond o holl lywodraeth Cymru, ynghyda gwarogaeth ei barwniaid, yr hyn a delid yn flaenorol i Harri. Ar ol i wrthryfel Montfort gael ei dawelu, daeth Pen-ar-lâg yn ol i'r goron. Rhaid i mi sylwi, dan y flwyddyn 1267, yn yr heddwch a ddygwyd ymlaen gan genad y Pab, *Ottoboni*, rhwng Harri a Llywelyn, yr ymddengys fod y castell wedi cael ei ddinystrio;‡ oblegyd yn mhlith erthyglau ereill, y mae Llywelyn yn cydsynio i adferu i Robert de Montalto ei diroedd yn Mhen-ar-lâg, ac yn ei atal rhag adeiladu castell yno am ddeng mlynedd ar hugain;§ dichon iddo gael ei ddinystrio gan Llywelyn ei hun, yr hwn a ragwelai fod yn amhosibl cadw meddiant o amddiffynfa mor agos i gyffiniau y Saeson. Rhaid ei fod wedi cael ei ail-adeiladu yn fuan; oblegyd gwelaf ei fod yn cael ei alw yn *Castrum Regis* yn y flwyddyn 1280.

*Yn dyfod yn eiddo Llywelyn ap Gruffydd.*

*Yn dyfod yn ol i'r Goron.*

Hynodwyd y flwyddyn hon gan wrthryfel y Cymry, o dan eu tywysog Llywelyn a'i frawd Dafydd; yr ymgais fawr a wnaethpwyd gan ein cydwladwyr dewr tuag at ddyogelu eu rhyddid a'u hen ddull o lywodraeth. Dechreuwyd yr ymgais gan Dafydd (yr hwn ar y pryd oedd newydd adgymodi â'i frawd,) ar yr 22ain o Fawrth, sef Sul y Blodau, ar noswaith dymhestlog, yr hyn a ffafriai ei amcan. Cymerodd y castell hwn; rhoddodd y gwarchodlu i'r cleddyf, a chlwyfodd a chymerodd yn garcharor Roger de Clifford, ustus Caerlleon. Ar ol marwolaeth Llywelyn, a darostyngiad Cymru, cafodd Dafydd ddyoddef am hyn yn y dull mwyaf creulon a hynod; gan mai efe oedd y cyntaf a ddyoddefodd fel bradwr yn Lloegr yn y dull a ddefnyddid yn yr amser hwnw. Yr oedd yn dywysog o nodwedd angharedig, yn gyfartal fradwriaethus i'w frawd, ei wlad, ag i Iorwerth, ei gefnogydd a'i noddwr. Yn yr ysgrif am ei brawf (yr hyn a gymerodd le o flaen holl farwniaid Lloegr) y mae Iorwerth yn cofnodi ei garedigrwydd tuag ato yn y modd toddedig yma: "*Quem susceperamus exulem, nutriveramus orphanum, ditaveramus de propriis terris nostris, et sub alarum nostrarum chlamide foveravimus, ipsum inter majores nostri palatii collocavimus.*"‖ Y peth olaf hwn a fu ei anffortun mwyaf. Gallasai ddadleu ei fod yn eithriad i gyfraith y Saeson, a thaflu gwarth cryf ar orthrwm y congcwerwr, pe na buasai wedi derbyn barwniaeth, ac eisteddle yn mhlith y pendefigion Seisonig. Yr oedd yn yr un sefyllfa a'r duc Hamilton, mewn amser diweddarach; yr hwn, pan wadodd allu y llys, a hysbyswyd nad oedd yn cael ei brofi fel pendefig Ysgotaidd, ond fel iarll Caergrawnt, pendefigaeth a roddasid iddo gan ei anffodus feistr.

* Annales Cestrenses, quot. by Carte, ii. 151. † Rymer, i. 814. ‡ Dyma yr adeg, efallai, pan y dodwyd yr ansoddair *Halawg* wrth yr enw. J.R. § Rymer, ii. 845. ‖ "Yr hwn a gynorthwyais pan yn alltud; a fegais pan yn amddifad; a gyfoethogais o'm tiroedd fy hunan; a achlesais o dan fy adenydd; yr hwn a osodais yn mhlith penaethiaid fy mhalasau." Rymer, ii. 248.

Digitized by Google

Cafodd Dafydd ei gondemnio i bedair math o gospedigaeth: i gael ei lusgo gan farch i'r dienyddle, fel bradwr i'r brenin a'i gwnaethai yn farchog; i gael ei grogi am lofruddio Fulk Trigald, a marchogion ereill, yn y castell hwn; am ei gysegr-drosedd yn nghyflawniad y pethau hyn ar Sul y Blodau, yr oedd ei ymysgaroedd i gael eu llosgi; ac yn olaf, yr oedd ei gorph i gael ei chwarteru, ac i gael ei grogi mewn gwahanol ranau o'r deyrnas, am ei fod, mewn gwahanol fanau, wedi cydfwriadu yn erbyn bywyd y brenin.*

Nid ydym yn cael dim yn ychwaneg am y lle hwn hyd y flwyddyn 1327, y gyntaf o Iorwerth III.† pan y darfu i Rhisiart, barwn diweddaf Montalto, neu y Wyddgrug (yr hwn a fu farw heb etifedd,) ei drosglwyddo, yn nghyda'i holl etifeddiaethau mawrion ereill, i Isabel, mam y brenin; ond pan y daeth hi i waradwydd, syrthiasant drachefn i'r goron.

*Ei roddi i iarll Salsbri.* Yn 1337, rhoddodd y brenin ystiwardiaeth *Caerlleon* gyda *Phen-ar-lâg*, &c., i William Montacute, iarll Salsbri; ond yn gymaint a bod gan Isabel hawl am ei bywyd yn y rhodd, efe a'i prynodd ymaith oddiarni am y swm o chwe' chant o farciau. Parhaodd yn y teulu hyd farwolaeth ei hen nai, John, iarll Salsbri, yr hwn a ddienyddiwyd gan drigolion Cirencester, wedi iddo gyfodi gwrthryfel aflwyddiannus, yn 1400, yn ffafr Rhisiart II., ei hen frenin diswyddedig. Yr oedd Salsbri, yn flaenorol i hyn, wedi rhoddi ei etifeddiaethau i Thomas Montague, deon Sarum, Lodowick de Clifford, John Venour, a Rhisiart Hertcombe, ac i'w hetifeddion; ond wedi iddo gael ei gollfarnu, trwy weithred seneddol yn y 7fed o Harri IV., fforffetiwyd hwy i'r brenin.

Yn 1411, rhoddwyd y lle, trwy freintlythyr o eiddo Harri IV. i'w ail fab, Thomas, duc Clarence; ond yn 1414, yr ail o Harri V., Thomas, iarll Salsbri, mab i John, a ddeisebodd am ddilead y dyfarniad blaenorol; ei gais a osodwyd o dan sylw senedd arall, ac yna a daflwyd allan. Harri, ar hyny, a roddodd i Clarence freintlythyr arall, yn mha un y datgenid fod y cyntaf yn ofer. Yn hon y mae y fywioliaeth eglwysig hefyd yn cael ei rhoddi.

Lladdwyd Clarence yn mrwydr Baugy, yn 1420, a bu farw yn ddiblant. Aeth Pen-ar-lâg yn ol i Harri V., ac yna i Harri VI. ei fab, yr hwn, yn 1443, a'i rhoddodd i Syr Thomas Stanley, llywodraethwr ei dŷ, ac i'w etifeddion gwrrywol o'i gorph: ond yn 1450, ail-afaelodd y goron yn y lle; ac yn y flwyddyn ddylynol rhoddwyd ef, ynghyda'r Wyddgrug, i Iorwerth, tywysog Cymru. Ar yr achlysur hwn hawliodd *John Hertcombe* Ben-ar-lâg, fel etifedd yr hwyaf a fu byw o'r pedwar hawlydd blaenorol; daliai efe nad oedd John, iarll Salsbri, yn feddiannol ar Ben-ar-lâg pan y fforffetiwyd y lle; ac ar y sail yma cafodd sêl y cyfrin-gynghor i edrych i mewn i'r peth. Gwnaed ymchwiliad, a chafwyd fod ei ddadl yn iawn, ac adferwyd iddo y lle. Y John Hertcombe hwn a gododd ddirwy i Syr Richard Strangeways, marchog, &c., a John Needham, at wasanaeth John Needham a'i etifeddion.

Yn 1454, codwyd dirwy i *Richard Nevill*, iarll Salsbri, ac Alice ei wraig (merch i Thomas Montacute, yr enwog iarll Salsbri,) a Syr Thomas Stanley, marchog, wedi hyny arglwydd Stanley,‡ at wasanaeth Thomas Stanley, ac

* Carte, ii. 195. † Dugdale, Baron. i. 527.
‡ Efe a briodasai Eleanor, merch Rhisiart, iarll Warwick.

etifeddion gwrrywaidd ei gorph: ar yr amod, os byddai i Thomas Stanley werthu, neu oddef i'r olyniaeth ballu, neu os byddai iddo farw yn ddietifedd gwrryw, fod yn gyfreithlon i'r dywededig Rhisiart, iarll Salsbri, neu etifeddion Alice ei wraig, adfeddiannu y lle. Ar farwolaeth arglwydd Stanley, aeth yr eiddo i'w fab a'i etifedd, Thomas, wedi hyny iarll Derby; ac ar ei farwolaeth yntau, i'w ail wraig, Margaret, is-iarlles Richmond, a mam Harri VII. Y penadur hwnw a anrhydeddodd y lle âg ymweliad, yn 1495, a bu yn preswylio yma am beth amser, er mwyn y difyrwch o hela ceirw: ond ei brif ddyben ydoedd lliniaru yr iarll, ei gŵr, wedi iddo yn anniolchgar ddienyddio ei frawd Syr William Stanley, yr hwn a fuasai mor ffyddlon iddo.

Ar farwolaeth Margaret, disgynodd Pen-ar-lâg i Thomas, iarll Derby, ŵyr i'r diweddar iarll; a pharhaodd yn y teulu hyd ddienyddiad y dewr Iago, iarll Derby, yn 1651: yn fuan ar ol ei farwolaeth, prynwyd ef trwy ddwylaw goruchwylwyr trosglwyddiad tiroedd, gan y Sergeant Glynne.* Ar yr Adferiad, rhoddodd yr arglwyddi archiad allan, ar y 17eg o Orphenaf, 1660, fod etifeddiaethau iarll Derby, ac eiddo amryw arglwyddi ereill, y rhai a werthasid yn ystod y traws-lywodraeth diweddar, heb eu cydsyniad, i gael eu hadfeddiannu ganddynt yn ddiatalfa.† Parodd hyn i Glynne gynyg rhoddi Pen-ar-lâg i fyny i'r iarll, am *lease* o dri bywyd.‡ Y cynyg yma naill ai a wrthodwyd, neu ni dderbyniwyd ef yn ddiatreg: y canlyniad o hyny fu colli y cyfan i deulu Derby. Yr arglwyddi, gan gofio am y dirmyg â pha un y derbyniwyd eu harchiad yn ystod yr helbulon diweddar, a ddechreuasant gydag ymgais at gael iawn i un o'r prif ddyoddefwyr. Yn Rhagfyr yr un flwyddyn, anfonasant i lawr i Dŷ y Cyffredin ysgrif neillduol, er adferu i Siarl, iarll Derby, yr holl faenorau, tiroedd, &c., a berthynent i'w ddiweddar dad. Gwrthwynebwyd hyny yn gadarn; a dodwyd yr ysgrif o'r neilldu, heb erioed gael ei darllen yr ail waith.§ Yr oedd yn dda gan yr iarll, erbyn hyny, ddyfod i gytundeb â Glynne ynghylch meddiant o'r lle hwn, a chaniataodd ef iddo, ac i'w etifeddion, eiddo pa rai ydyw hyd yn bresenol.

Ymddengys oddiwrth y gweithrediadau hyn, megys pe buasai ar y senedd ofn hyd yn nod ganlyniadau gweithred o gyfiawnder; oblegyd yn ystod y maith helbulon, yr oedd cymaint o gyfnewid dwylaw wedi bod gyda golwg ar eiddo, a hyny wedi cael ei ddwyn oddiamgylch trwy y fath amrywiaeth o foddion, fel yr ofnid y byddai i ymchwiliad i'r achosion, a difeddiannu niferi mawrion o rai ag oeddynt wedi meddiannu y cyfryw eiddo yn ddidwrw ar ol eu tadau, gael ei ddylyn gan y canlyniadau mwyaf ymfflamychol. Digon tebyg hefyd y gallai fod gan lawer o'r aelodau ddyddordeb yn y mater; am hyny penderfynasant roddi atalfa ar unwaith ar unrhyw weithrediad a allai dueddu i effeithio ar eu heiddo hwy eu hunain neu eu cyfeillion. Yr oedd niferi

* Prynwyd Maenorau *Pen-ar-lâg*, y *Wyddgrug* ac *Estyn*, oddiar law yr "Ymddiriedolwyr er gwerthu tiroedd Troseddwyr," gan Syr John Trevor, y milwriad George Twisleton, a'r cadben Andrew Ellis, y rhai yn flaenorol a gytunasent â Siarl, iarll Derby, i brynu y tair maenor mewn ymddiriedaeth drosto ef. Yr oedd arian y pryniad, ynghyda'r llog, i gael eu talu yn ol o fewn y flwyddyn. Trwy i'r iarll fethu talu yn ol arian y pryniad, bu cryn ymdrafod rhwng yr iarll, y *sergeant*, a'r prynwyr, ac o'r diwedd cafodd Pen-ar-lâg ei throsglwyddo i Glynne, fel yr ymddengys, trwy gwbl gydsyniad yr iarll Derby. Gan hyny, nid oedd y cais at adfeddiannu y lle, fel y sonir uchod, prin yn weithred o gyfiawnder. —T. P.

† Drake's Parlem. Hist. xxii. 384.

‡ Cefais yr hanes yma gan y diweddar Syr John Glynne.

§ Drake, xxiii. 53.

mawrion o arwerthiadau wedi cael eu gwneyd gan bleidwyr y brenin o dan ddylanwad ofn. Yr oeddynt yn foddlawn i dderbyn rhyw swm am eu heiddo, yn hytrach na cholli y cwbl trwy orthrech; canys nid ychydig o honynt oedd wedi diangc rhag cael dirwy oddiar law yr awdurdodau llywodraethol, yr hon yr oedd yn dda ganddynt gael yn glir â hi trwy werthiad gwirfoddol o ran ymddangosiad. Pan siomwyd hwy fel hyn am y gobaith o ail-fwynhau eu meddiannau, gosodasant y bai ar y brenin, a dyfeisiasant yr anwiredd mai efe a daflodd allan yr ysgrif, as ol iddi basio yn unfrydol trwy y ddau dŷ.

Yn ystod y rhyfeloedd cartrefol, goddefodd y castell hwn y cyfnewidiadau arferol o ran tynged. Meddiannwyd ef yn gynar gan y senedd, trwy gael ei fradychu gan y llywydd, boneddwr yn y gymydogaeth o'r enw Ravenscroft;* a chadwyd ef at ei gwasanaeth hyd y flwyddyn 1643, pryd y cytunwyd ar gadoediad, ar ran y brenin, gyda'r gwrthryfelwyr yn yr Iwerddon, a thynwyd nifer o'r milwyr o'r wlad hono, y rhai a diriasant yn Mostyn, yn y sir hon, yn mis Tachwedd. Defnyddiwyd y rhai hyn yn ddiatreg i ddarostwng castell Pen-ar-lâg, yn yr hwn yr oedd gwarchodlu o gant ac ugain o ddynion o gatrawd Syr Thomas Middleton.

*Ei warchae yn 1643.*

Derbyniodd y gwarchodlu y wŷs arferol mewn geiriau, gyda sain udgorn; yr hyn a roddes achlysur i'r llythyrau canlynol basio rhwng y Milwriad Marrow, a John Warren ac Alexander Elliott, y llywyddion ar ran y senedd. Yr ydwyf yn gadael allan yr atebiad uniongyrchol i'r wŷs, yr hwn oedd wedi cael ei ysgrifenu yn yr arddull grefyddol hono a fabwysiedid gan y blaid; ac i'r hwn yr ateba Marrow fel gwir filwr.

"Foneddigion,

"Nid i wrando arnoch chwi yn pregethu y'm danfonwyd yma; ond yn enw ei Fawrhydi i hawlio y castell at wasanaeth ei Fawrhydi; gan fod eich ffyddlondeb yn eich rhwymo i fod yn gywir iddo, ac nid i hudo yr eneidiau diniwaid sydd yna gyda chwi: felly yr wyf yn gofyn am eich penderfyniad, a fydd i chwi roddi i fyny y castell neu beidio?"

Yr atebiad o'r castell ydoedd fel y canlyn:—

"Syr,

"Y mae genym ni achos i amheu eich diffyg serch at bregethu, oddiwrth y gwaith yr ydych wedi ei gymeryd mewn llaw. Os oes yma eneidiau diniwaid, bydd i Dduw ofyn eu gwaed oddiar ddwylaw y rhai a'i tywalltant. Gallwn gadw ein ffyddlondeb a'r castell hefyd; ac felly gellwch gymeryd eich ateb, fel yr oedd mewn Saesoneg yn ddigon dealladwy o'r blaen. nis gallwn ddywedyd ychwaneg, ond ewyllys Duw a wneler."†


Ni chafodd y llythyrau hyn ond ychydig effaith ar y pryd. Y cadben Thomas Sandford, arweinydd y Gŷnwyr, a benderfynodd eu dychrynu i ymostwng trwy arswyd ei enw, neu eu perswadio i ddyfod i amodau trwy alluoedd ei ysgrifell; ac fel hyn yr anercha efe y llywyddion pengaled:

"Foneddigion,

"Cymeraf yn ganiataol y gwyddoch yn dda, neu y clywsoch, am fy ansawdd a'm tymher; ac nad wyf fi byth yn cymeryd nac yn rhoi arbediad. Yr wyf yn awr gyda'm Gŷnwyr (y rhai ni ddarfu iddynt erioed eto esgeuluso

* Life of the Duke of Ormond, ii. 471; iii. 204. † Rushworth, II. part iii. 300.

Digitized by Google



PLAN OF HAWARDEN CASTLE.

*PLAN O GASTELL PEN-AR-LAG.*

Digitized by Google

cyfleustra i geryddu gwrthryfelwyr) yn barod i wneyd â chwi fel y gwnaethym â'r Gwyddelod: ond yr wyf yn hwyrfrydig i dywallt gwaed fy nghydwladwyr; gan hyny, yr wyf yn eich anog i ffyddlondeb ac ufudd-dod i'w Fawrhydi; a dangos eich hunain yn ddeiliaid ffyddlon, trwy draddodi y castell hwn i fy nwylaw at wasanaeth ei Fawrhydi; a thrwy wneyd felly, chwi a dderbynir mewn trugaredd, &c.; os amgen, os bydd i chwi roddi i mi y drafferth leiaf, neu golli gwaed er eich dirgymhell, na fydded i chwi ddysgwyl am arbediad i ddyn, dynes, na phlentyn. Yr wyf yn clywed fod rhai o'n byddin ddiweddar ni yn yr Iwerddon yn eich cwmni: y maent yn fy adnabod i yn dda; ac na byddai fy Ngŷnwyr yn arfer cynadleddu. Cymerwch gynghor; meddyliwch am eich rhyddid; oblegyd yr wyf yn gwneyd llw fod pob gobaith am ymwared wedi ei dori ymaith oddiwrthych; a'n bwriad ni ydyw, nid eich newynu, ond eich malurio a'ch ystormio, ac yna eich crogi oll, i ganlyn y lleill o'r ysprêd gwrthryfelgar hyny. Nid cnaf bara-a-chaws ydwyf fi, ond, megys ag erioed, yn ffyddlon i'r brenin, ac felly y byddaf byth, tra y medraf ysgrifenu neu enwi

Tachwedd 28, 1643. THOMAS SANDFORD, Cadben y Gŷnwyr.

"Dysgwyliaf am ateb ar frys, y nos Fawrth bresenol, yn *Broad-lane Hall*, lle yr ydwyf yn awr, eich cymydog agos.

"At y prif swyddog llywyddol yn nghastell Pen-ar-lâg, a'i gydweithredwyr yno."

Buasai yr holl hyawdledd yma wedi myned yn ofer, oni buasai i ragor o filwyr y brenin, a diffyg ymborth ar ran y gwarchodlu, gydweithredu â'r epistol dewr yma. Felly, fel y dywed *Rushton*, "ar ol pythefnos o warchae, a gwastraffu llawer o ingc, ac ychydig iawn o waed, trwy fod y castell mewn angen am ymborth, rhoddwyd i fyny yr amddiffynfa i Syr Michael Earnley, ar y telerau iddynt gael cerdded ymaith gyda haner eu harfau, a dwy faner, un yn chwyfio, a'r llall wedi ei rholio i fyny; ac fod iddynt gael myned yn ddyogel i'r Wem, neu yr Heledd Wen *(Nantwyche.)*"

Cadwodd plaid y brenin feddiant o'r castell hyd ar ol i Gaerlleon ymostwng i Syr William Brereton yn 1645; pan y cymerwyd ef, ar yr 17eg o Fawrth (yr hen gyfrif,) gan y Cadfridog Mytton, wedi gwarchaead o fis o amser. Ar yr adeg hono Syr William Neale oedd y llywydd, yr hwn a wrthodai ei roddi i fyny hyd nes y derbyniai ganiatâd y brenin.* Ar yr 22ain o Ragfyr, trwy archiad y senedd, gwnaed ef yn ddiddefnydd at wasanaeth milwrol, ynghyda phedwar castell arall yn y rhan yma o Ogledd Cymru.† Nid oedd yr archiadau hyn yn myned ddim yn mhellach na'u bod i gael eu gwneyd yn gyfryw nas gellid eu dal fel amddiffynfeydd; ond gwnaed y dinystr pellach ar Ben-ar-lâg gan ei berchenog, Syr William Glynne, y barwnig cyntaf o'r enw, rhwng y blynyddoedd 1665 a 1678.

*Desgrifiad o hono.*] Y gweddillion sydd yn sefyll o hono ydynt dŵr crwn prydferth, neu y *keep*, ar gopa bryn. Hwn yn unig sydd yn lled gyfan. Nid oes dim ond hwnw, ac ychydig furiau, a sylfeini rhai ystafelloedd, yn aros yn bresenol; y rhai y mae Syr John Glynne,‡ ar draul fawr, wedi eu dwyn i'r golwg yn bresenol trwy glirio ymaith ryw ysbwriel.

* MS. yn Mostyn. † Whitelock, 231. ‡ Taid i'r perchenog presenol. Gol.

Digitized by Google

Mewn un lle darganfyddwyd grisiau hirion, yn ngwaelod pa rai yr oedd drws, ac mewn hen amser grogbont, yr hon a groesai agendor dwfn (wedi ei wynebu yn brydferth â thywodfaen,) i ddrws arall yn ymagor i ddwy neu dair o ystafelloedd bychain. Dichon mai lleoedd i gadw carcharorion oeddynt, lle y gellid eu cyfleu gyda'r dyogelwch mwyaf, wedi codi i fyny y bont a gyfryngai rhyngddynt a goleu dydd.

Ymddengys fod amrywiol ranau yr amddiffynfa hon wedi cael eu hadeiladu ar wahanol adegau. Cylchynir hi gan ffosydd dyfnion, yn bresenol wedi eu llenwi i fyny. Yn 1665, ystyrid fod coed y parc a'r etifeddiaeth yn werth pum' mil o bunnau, a gwerthwyd hwy yn y ganrif hono; ond y mae y perchenog presenol* wedi gwneyd y golled i fyny i raddau mawr i'r ganrif nesaf, trwy ei blanigfoydd lluosog.

*Y Fywioliaeth.* Y mae y fywioliaeth yn bresenol yn rhodd o eiddo arglwydd y tir; ac esgob Caerlleon sydd yn cymeradwyo. Y periglor sydd yn cyflawni pob gweithrediadau esgobol, oddieithr ordeinio a gweinyddu bedydd esgob; a chyflawna luaws o swyddau ereill; megys caniatâu trwyddedau, cofrestru a phrofi llythyrau cymun; ac y mae ganddo ei lŷs a'i ddirprwywyr.

Gwerth y fywioliaeth yn bresenol ydyw un cant ar ddeg o bunnau† yn y flwyddyn; ac mewn cyfartaledd i'r graddau ag y diwyllir y tiroedd islaw, bydd yn llawer mwy yn y dyfodol.

Yr eglwys sydd adeilad syml, ond prydferth, ac y mae yn cael ei chadw yn ddestlus, ac mewn adgyweiriad gweddol dda. Y mae y periglordy yn newydd, ac yn cyfateb i'r cyllid. Yr ardd wedi ei gosod allan yn dra phrydferth, ar dir uchel yn cyfleu golygfeydd tra rhagorol.

*Cyllid y Plwyf.* Derbynia y plwyf ddau cant o bunnau yn y flwyddyn oddiwrth gwmpeini yr afon Ddyfrdwy. Caniatawyd hyn trwy ddeddf seneddol, ar yr ystyriaeth fod wyth gant o aceri o dir, perthynol i blwyf Pen-ar-lâg, wedi cael eu cau i mewn ar yr ochr ogleddol i'r afon, at wasanaeth anturiaethwyr yn mordwyad yr afon Ddyfrdwy. Telir y swm hwn i arglwydd y tir, ac ymddiriedolwyr ereill; ac y mae yn gymhwysadwy at unrhyw wasanaeth ag y bydd i bump o honynt (gyda chydsyniad arglwydd y tir) gytuno arno.

*Darluniau.* Yn y palasdy,‡ yr hwn a adeiladwyd gan y diweddar Syr John Glynne, yn 1752, y mae pedwar o ddarluniau o deilyngdod mawr, rhan o gasgliad Syr *Kenelm Digby.* Y maent yn arddangos yr Efengylwyr yn eu gwahanol briodoleddau; ymddengys eu bod yn waith *Valentine*, yr hwn oedd Ffrangcwr,§ ac a astudiodd arddull *Caravaggio.* Y rhai hyn ydynt yn ei arddull goreu. Y mae yr agweddau yn brydferth; a'r goleuadau a'r cysgodion wedi eu cyfleu yn y modd mwyaf aredmygol. Haner maintioli ydynt; yr hyn y byddai ei gynddelw mawr yn rhagori ynddo.

Yn mysg y portreadau teuluol, y mae dau o'r prif-ynad Glynne, cyfreithiwr

* Wyr y Syr John Glynne a nodwyd yn flaenorol.—Gol.

† Y mae yn awr yn werth llawn dair mil.—Gol.

‡ Y mae y perchenog teilwng presenol, Syr Stephen Glynne, trwy wneyd ffordd gyhoedd, a thaflu yr hen gastell o'r tu fewn i'w erddi ymbleserol, wedi ychwanegu yn ddirfawr at brydferthwch ei breswylfod. Y mae y ffyrdd a gyfeiriant yno o Gaerlleon a'r Amwythig yn nodedig o darawiadol.—Gol.

§ Bu farw yn 1632. Boneddwr ag sydd yn deall darluniau yn dda, a ddywed wrthyf fod y pedwar darlun yma o waith *Rousselet.*

Digitized by Google

galluog a pholiticaidd yn nheyrnasiad Siarl I. a'r drawslywodraeth ddylynol. Yr oedd efe o deulu Glynllifon, yn sîr Gaernarfon; yr hwn a dardda o *Cilmin Droed-ddu*, un o'r pymtheg llwyth, ac yr oedd yn cydoesi â, ac yn nai i, Merfyn Frych, tywysog Cymru yn y flwyddyn 818.

*Y Prif-ynad Glynne.* Ganwyd Syr John Glynne yn Glynllifon, yn y flwyddyn 1602; ei dad oedd Syr William Glynne, marchog; a'i fam yn un o deulu a ddygai yr enw Gruffydd, o dref Caernarfon. Cafodd ei addysg yn y dull goreu. Ei ysgol ydoedd eiddo y coleg yn Westminster; cyflawnwyd ef â'i addysg glasurol yn *Hart-hall*, Rhydychain; a chafodd wybodaeth o'r gyfraith yn *Lincoln's Inn*, o' ba le y daeth yn gyfeisteddwr. Darganfu y blaid boblogaidd ei alluoedd yn fuan, trwy ddylanwad yr hon y gwnaed ef yn oruchwyliwr dros Westminster, yn gofiadur Llundain, a chafodd ei ethol yn aelod seneddol ddwywaith dros y lle blaenaf yn nwy senedd y flwyddyn 1640. Efe, yn nesaf at *Pym*, ydoedd y dadleuydd mwyaf gweithgar yn erbyn iarll *Strafford*. Sylwai y pendefig druan fod *Glynne* a *Maynard* yn ymddwyn ato fel dadleuwyr; *Palmer* a *Whitelock* fel boneddwyr; ac eto ni phallasant ddwyn dim o bwys ag y gellid ei osod yn ei erbyn.* Ymddengys fod awdwr *Hudibras* yn cyfeirio at y rhan yma o nodwedd y ddau gyfreithiwr enwog:—

Did not the learned *Glynne* and *Maynard*,
To make good subjects traitors, strain hard?

Oni ddarfu i'r dysgedig *Glynne* a *Maynard*,
Egnïo yn galed at wneyd deiliaid da yn fradwyr?

Yn achos Strafford, ac yn y cyhuddiad yn erbyn y deuddeg esgob, yr oeddynt yn gweithredu oddiar egwyddor. Y mae hyn i'w weled oddiwrth yr erlidigaeth a oddefasant ar ol hyny, am y gwrthsafiad ardderchog a wnaethant yn erbyn dinystr y cyfansoddiad gwladol, yr hyn a gyflawnwyd ar ol hyny gan y fyddin. Ar yr 8fed o Fedi, 1647, cawsant eu troi allan o'r Tŷ, a'u traddodi i'r Tŵr, a dygwyd cyhuddiad o uchel-fradwriaeth yn eu herbyn.† Penderfynodd Glynne yn fuan ymostwng i'r awdurdodau goruchel. Yn y flwyddyn ddylynol adferwyd ef i'w le yn y Tŷ; apwyntiwyd ef yn un o'r deg prwyaduron er ffurfio y cytundeb â'r brenin yn Ynys Gwyth; a thrwy bleidlais y Tŷ penderfynwyd iddo fod yn *sergeant-at-law* yn yr alwad newydd a fwriedai wneyd. Efe, yn gystal a'r cyfrwys Whitelock, a ymgadwodd rhag ymyryd mewn un modd â phrawf y brenin; ond wedi hyny ymgymysgai â'r awdurdodau a lywodraethent. *Cromwell* yn fuan a'i gwnaeth ef yn un o'i gynghor. Yn 1654, gwnaed ef yn ystafellydd Caerlleon: yn y flwyddyn ddylynol anfonwyd ef (pan wrthododd y prif-ynad *Rolles* fyned) i'r gorllewin, gyda chomissiwn i brofi y Milwriad Penruddock, a gwrthryfelwyr ereill.‡ Rolles a gollodd ei le oherwydd ei betrusder; ac anrhegwyd Glynne â'r swydd o arglwydd brif farnwr y faingc uchaf yn ei le. Yr oedd yn ddiolchgar i'w noddwr; oblegyd pan apwyntiwyd ef ar y pwyllgor i dderbyn gwrthddadleuon Cromwell yn erbyn cael ei wneyd yn frenin, efe a'i hanogai i dderbyn yr anrhydedd gyda'r gwresogrwydd mwyaf. Y mae yn ddigrif cymharu y cyfnewidiad mewn syniadau, o'r flwyddyn 1648, pryd y delid allan fod y swydd freninol yn afreidiol, gorthrymus a pheryglus, gydag opiniwn 1657, pan y dywed y *sergeant* dysgedig wrth Cromwell ei bod yn anhebgorol i lwyddiant y genedl.§ Er nad oedd y trawsfeddiannwr yn beiddio defn-

*Whitelock, 43. † Parl. Hist. xvi. 294. 512. ‡ Athenæ Oxon, ii. 386. § Parl. Hist. xxi.. 90.

Digitized by Google

yddio yr enw, eto yr oedd yn ymarfer y galluoedd; ac anrhydeddodd ei gynghorwr trwy ei godi â braint-lythyr i dŷ yr arglwyddi; y cynulliad cymysg hwnw yn y flwyddyn 1657. Daliodd y cyfreithiwr gochelgar ei dir hyd flwyddyn yr Adferiad, pan y darfu iddo, trwy ystryw feistrolgar o gallineb, gyhoeddi mewn cyfrol wythplyg, y rhesymau a ddefnyddiasai i berswadio ei hen feistr i esgyn i'r orsedd, dan y teitl mai "BRENINIAETH *ydyw y ffurf oreu, y fwyaf hynafol, a'r gyfreithlonaf* o lywodraethu." Mor foddhaol y rhaid fod hyn i'r tywysog gwirioneddol, sef fod yr hen drefn yn cael ei chydnabod fel yr un fwyaf addas (hyd yn nod ar ol iddi am hir amser gael ei chamarfer yn ei deulu ef,) gan un o brif gefnogwyr y Werinlywodraeth!

Pa un a ddarfu i hyn ei gymeradwyo i'r llywodraeth newydd, neu ynte a oedd wedi gwneyd ei heddwch yn flaenorol, nid yw yn gwbl sicr. Derbyniwyd ef gan Siarl gydag arwyddion uchel o'i ffafr, yr hwn nid yn unig a'i gwnaeth yn farchog, ac a osododd arno yr anrhydedd o fod yn brif *sergeant*, ond hefyd a wnaeth ei fab hynaf yn farwnig. Yn y senedd newydd a alwyd, etholwyd ef dros sîr Gaernarfon; ac apwyntiwyd ef yn un o'r pwyllgor er chwilio i mewn i'r deddfau a wnaethid yn ystod y trawsymhoniad, y rhai oeddynt yn anghyson â'r llywodraeth bresenol; a pha fodd y gallai y lluaws dirwyon, ad-daliadau, &c., a wnaethid yn llysoedd diweddar y gyfraith, gael eu cadarnhau a'u gwneyd yn dda. Yr oedd ganddo hefyd i ymwneyd â deddf y pardwn cyffredinol, ac yn mhob peth arall lle y byddai cynorthwy cyfreithiwr galluog yn ofynol.* Ond yr oedd ganddo deilyngdod llawer uwch na'r holl bethau hyn, sef sefydlu yr engraifft gyntaf sydd ar gael mewn llyfrau o ganiatâu prawf newydd, mewn achosion pan y byddai iawn gormodol wedi ei ddyfarnu gan y rheithwyr.

Ymneillduodd o'r tŷ yn y senedd ddylynol; a bu fyw hyd y flwyddyn 1666, pryd y bu farw yn Llundain, a chladdwyd ef yn ei feddgell ei hun, o dan allor eglwys St. Margaret, yn Westminster.

O Ben-ar-lâg y mae y tir yn dechreu gostwng at y Ddyfrdwy. Yn y gwaelod, rhwng y bummed a'r chweched gareg filldir o Gaerlleon, y gorwedda *Broughton*, gynt yn eiddo y Ravenscrofts, ac wedi hyny yn eiddo yr Hopes. Ar adeg y Gorchfygiad, gelwid y lle yn *Brochetune;* a delid ef o dan Huw Lupus gan Robert de Roelent, neu Rhuddlan. Un o'r enw Levenot, gŵr rhydd, a'i meddiannai cyn hyny. Yr oedd gan Robert faenordy yma hefyd, yr hwn a ddelid unwaith gan Sacsoniad o'r enw Ulmer.

*Saltney.*] Yn agos i bentref Breton y gorwedd morfa eang *Saltney*, yr hwn a gyrhaedda hyd o fewn oddeutu milldir i Gaerlleon. Y mae ffordd ragorol† yn rhedeg drwyddo yn bresenol, gydag ochr yr hon y llifa camlas fechan, yr hon a dorwyd gan Syr John Glynne, i'r dyben o gludo ei lo i Gaerlleon. Y rhandir yma a roddasid yn flaenorol gan Robert, arglwydd y Wyddgrug, i fynachod y Maesglas, fel tir pori; rhoddodd iddynt hefyd yr un ragorfraint yn Mhen-ar-lâg, yn nghyda rhyddid i dori brwyn at doi eu hadeiladau.‡

Y mae y rhan fwyaf o'r morfa yma yn gorwedd yn sîr Fflint. Nodir y terfyn gan gareg yn agos i'r pen dwyreiniol. Cyrhaedda yn dra phell ar y ddwy

* Drake's Parlem. Hist. xxii. 416.

† Y mae yn mhell o feddu y cymeriad yma yn 1809. Nid yw y gamlas yn cael ei defnyddio.



‡ Harleian MS. No. 2099. 9.

Digitized by Google

ochr. O'r ochr ddehau, llifeiria y Leeches, ffrwd fechan, a gyfyd ychydig tu hwnt i Doddleston. Y mae y pentref hwnw allan o fy llwybr i; er hyny, yr wyf yn crybwyll am dano fel y lle y claddwyd y canghellydd gonest *Egerton*, arglwydd Ellesmere, yr hwn a'i dewisodd o serch at ei wraig gyntaf, Elizabeth, merch i Thomas Ravenscroft, ysw., o Breton. Yr oedd ei fam wedi bod yn gwasanaethu fel morwyn yn y plwyf; ond merch ydoedd i un o'r enw *Sparks*, o Bickerton. Clywais yr hanesyn hynod a ganlyn am dani, a'i hanffodus blentyn. Yr oedd y fam wedi cael ei hesgeuluso i'r fath raddau gan Syr Richard Egerton, o Ridley, tad y bachgen, fel y gorfyddai arni gardota at ei chynaliaeth. Boneddwr o'r gymydogaeth, cyfaill i Syr Richard, a'i gwelodd yn gofyn elusen, a'r plentyn i'w chanlyn. Rhyfeddai at ei brydferthwch, a chanfyddai ynddo yn amlwg brydweddau y marchog. Aeth ar ei union at Syr Richard, a dywedodd wrtho ei fod yn beth cywilyddus iddo adael ei blentyn, er mai ordderch ydoedd, i grwydro o ddrws i ddrws. Effeithiodd y cerydd arno; mabwysiadodd y plentyn, a thrwy roddi addysg briodol iddo, gosododd i lawr sylfeini ei fawredd dyfodol.

Y mae amgylchiad arall yn peri i mi enwi y plwyf hwn, er mor ddiraddiol ydyw i Gymro; oblegyd yn mhont Balderton cafodd ein cydwladwyr eu gorchfygu yn greulawn gan Hugh Cyvelioc, iarll Caerlleon; yr hwn, fel arwydd o fuddugoliaeth, a wnaeth gaerfa o'u penau.

Yn mhen draw Saltney, o fewn oddeutu milldir i Gaerlleon, y mae y tir yn codi yn sydyn. Ar yr ochr chwith i'r esgynfa, y mae ceueddau mawrion, gyda chodiadau cyfartal; y mae un yn ymddangos yn debyg i amddiffynfa gron; yr hyn a wna i mi dybied y gallent fod yn weithiau a fwriedid i amddiffyn y fynedfa hon i wlad y Gordofigion; oblegyd cyfeiria tuag at *Varis*, *Conovium*, a *Segontium*. Y mae

## SIR GAERLLEON,

rhan o wlad y *Cornavii*, yn dechreu ar y gwastadedd o dan y bryncyn hwn. Parheir y ffordd ar hyd morfa bychan *Over-heigh*, a therfyna yn *Han-bridge*, yn maesdrefydd Caerlleon, ar yr ochr yma i'r afon, a pherthyna i blwyf *St. Mair*.

Elir i mewn i'r ddinas dros bont gul a pheryglus, o saith bwa afreolaidd, yr hon, hyd yn ddiweddar, a wneid yn fwy anghyfleus fyth gan yr hen byrth ar bob pen iddi, ag oeddynt mewn hen amseroedd yn ddigon angenrheidiol, er atal ymgyrchiadau fy nghydwladwyr; y rhai mor fynych a garient dân a chleddyf hyd at y maesdrefi hyn, fel ag i beri i'r lle gael ei alw gan y Brytaniaid yn *Tre-boeth*.

Dechreuaf fy hanes am yr hen ddinas hybarch hon, trwy wrthod yr anrhydedd o haeru iddi gael ei sylfaenu gan y Brytaniaid, er fod genyf awdurdod *Ranulph y Mynach* dros hyny, ac eiddo *Henry Bradshaw*, mynach arall o'r ddinas hon.

Sylfaenwr y ddinas hon, fel y dywed *Polychronicon*,
Oedd *Lleon Gawr*, hen gawr cadarn a chryf;
Yr hwn a adeiladodd ogofau a ffauau lawer iawn,
Nid adeiladau da, priodol, na hyfryd.

Digitized by Google

Ond y brenin *Llur*, hen Frythoniad gwych a dewr,
A adeiladodd *Chester* yn ddinas hyfrydol,
A galwyd ei henw Caer-lur gan y brenin.*

*Caerlleon.*] Er hyny nid yw y chwedl hon yn cyfeiliorni llawer oddiwrth y gwir enw, *Caer Lleon*, neu wersyll y lleng. *Caer Lleon fawr ar Ddyfrdwy*, neu wersyll y lleng fawr ar yr afon Ddyfrdwy, ydoedd prif wersyllfa yr ugeinfed leng, yr hon a elwid hefyd *Valeria* a *Victrix.* Daeth y lleng yma i Frydain cyn y flwyddyn 61; oblegyd meddai ran yn ngorchfygiad Buddug gan Suetonius. Ar ol y fuddugoliaeth hon, arweiniwyd y lluoedd Rhufeinig tua chyffiniau Gogledd Cymru, efallai i'r sir hon. Wedi hyny, ar gyfrif diffyg yn eu dysgyblaeth, torwyd ymaith un aden o'r fyddin gan y Gordofigiaid, yn union cyn dyfodiad Agricola; ond y mae gwersyllfa y milwyr hyn ar yr adeg hono yn anadnabyddus. Y mae yn debyg fod rhan o honynt, o leiaf, ar yr afon *Deva* (Dyfrdwy); iddo gasglu ychydig o'i luoedd, a dechreu ei ymdaith yn erbyn y gelyn o'r fan hon; ac iddo, ar ol ei ymgyrch lwyddiannus i Ynys Fôn, benderfynu gosod gwarchawdlu yma, fel y lle mwyaf priodol i ffrwyno y bobl ryfelgar a adawai o'r tu ol. O ganlyniad, gosododd ran o'i leng yma, a minteioedd yn yr amddiffynfeydd o'r cwmpas, cyn iddo anturio ar ei ymgyrch bellenig i Ysgotland, i ba le yr arweiniodd efe gorph o'i filwyr, fel yr ymddengys oddiwrth y cerfiadau a geir yn y wlad; y rhai a brofant fod cyfran o'r lleng hon gyda'r gorchwyl o adeiladu rhan o'r mur Rhufeinig. I'r dyben o gefnogi y milwyr a adawai ar ei ol, efe a ffurfiodd yma drefedigaeth; a galwyd y lle oddiwrthynt hwy, ac oddiwrth ei sefyllfa, yn *Colonia Devana*, fel y profir oddiwrth fathodyn o eiddo Septimius Geta, mab i Severus, ar yr hwn y mae y cerfiad canlynol:

COL. DEVANA leg. XX. VICTRIX.

*Deva.*] Gelwid hi hefyd wrth yr enw syml *Deva*, oddiwrth yr afon a olchai un ochr iddi;

"Y gysegredig Ddyfrdwy hen."

*Pedair Prif Heol.*] Y mae cynllun y ddinas yn profi ei bod o darddiad Rhufeinig, am ei bod ar ffurf eu gwersylloedd; gyda phedwar porth; pedair prif heol; ac amrywiaeth o rai llai, yn croesi y naill y llall yn bedair onglog, fel ag i ranu y cwbl yn ysgwariau llai. Y mae y muriau, o amgylch y ddinas bresenol, yn nodi terfynau yr hen dref. Nid oes un ran o'r hen furiau yn bodoli;† ond safent fel y rhai presenol, ar y graig o dywodfaen feddal, yn ddyrchafedig uwchlaw y wlad gylchynol, gyda goriwaered syth ar bob ffrynt.

Y mae adeiladwaith y pedair prif heol yn ddihafal. Rhedant yn llinyn o'r *Cloddio.*] dwyrain i'r gorllewin; ac o'r gogledd i'r dehau; a chloddiwyd hwy yn y ddaear, gan eu suddo amryw o droedfeddi islaw yr arwyneb.

* Life of St. Werberg.

† Gellir adnabod maensaernïaeth y Rhufeiniaid o hyd yn y muriau, yn enwedig ar y tu gogleddol, rhwng Tŵr Phœnix a'r porth gogleddol, ac ar y tu gorllewinol ar hyd y *Roodeye.* Yr oedd y ddinas Rufeinig yn llai eang na'r llanerch sydd yn awr yn gynwysedig oddifewn i'r muriau. Yr oedd y mur deheuol yn tori ar draws y ddinas bresenol, gan redeg o bwynt yn agos i'r *Distance Chair* yn y Rhedegfa, nes yr ymunai â'r ffynhon ar yr ochr ddwyreiniol, ychydig i'r gogledd i'r "*Wishing Steps.*" Ond yr oedd y Llongborth (yr hwn sydd yn awr wedi ei chwalu,) a'r hwn a ddesgrifir gan Pennant, a bwa Rhufeinig, yn aros o hyd, yr hon a ymbwysa ar Dŵr Cæsar, gan brofi bodolaeth rhyw waith allanol yn crogi uwch ben yr afon, ac wedi ei fwriadu, mae yn debygol, i amddiffynfa y fynedfa. T. P.

Digitized by Google

Gyrir cerbydau yn mhell islaw lefel y ceginau, yn wastad â rhesi o siopau; uwchben pa rai, ar y ddwy ochr i'r heol, y mae y teithwyr yn cerdded o'r naill ben i'r llall, yn ddyogel rhag na gwlaw na gwres, mewn orielau (neu *rows*, fel y gelwir hwy) wedi eu cymeryd oddiar lawr isaf pob tŷ, yn agored yn y ffrynt, ac yn meddu canllawiau. Y mae buarthau cefn yr holl dai hyn ar lefel â'r *rows;* ond tuag at fyned i unrhyw un o'r pedair heol yma, rhaid disgyn ar hyd nifer o risiau.

*Y Rows.*

Ymddengys y *rows* yma i mi fel yr unrhyw a'r pyrth neu y cynteddau hynafol *(vestibules);* a'u bod yn rhan o'r arddull o adeiladu a gadwyd mewn ymarferiad er yr amser pan yr oedd y Rhufeiniaid mewn meddiant o'r ddinas. Adeiledid hwy o flaen y drysau, yn y canol rhwng yr heolydd a'r tai; a dyma y manau lle y byddai gweision yn dysgwyl am eu meistri allan o'r tai,* ac o dan gysgod pa rai y gallent rodio yn ol ac yn mlaen, er treulio ymaith yr amser tra yn dysgwyl. Y mae *Plautus*, yn y drydedd act o'i *Mostella*, yn dysgrifio eu sefyllfa a'u defnyddioldeb:

Viden' vestibulum ante ædes, et ambulacrum ejusmodi?†

Y siopau o dan y *rows* oeddynt y cuddleoedd a'r trysorfeydd lle y cadwai perchenogion y tai eu gwahanol angenrheidiau at eu cynaliaeth.

Yr oedd yr heolydd ar un adeg yn llawer dyfnach nag y maent yn bresenol, fel yr ymddengys oddiwrth y siopau, lloriau y rhai sydd yn gorwedd yn mhell islaw y palmant presenol. Wrth gloddio am sylfeini i dai newyddion, darganfyddir y palmant Rhufeinig yn y dyfnder o bedair troedfedd islaw y palmant diweddar; ac yr oedd yr heolydd llai, a'r cwrtydd, y rhai a redent i'r prif heolydd, yn gostwng at waelodion y rhai diweddaf, fel ag y canfyddir yn amlwg yn *Lower Bridge Street* (Heol y Bont Isaf.) Ond y mae y rhai hyn yn gwbl amddifad o'r orielau, neu y *rows*.

*Daeargelloedd mawrion.*

Y mae yn anhawdd rhoddi cyfrif am y ffyrdd cloddiedig hyn. Crybwylla hen hanesydd am fodolaeth, yn ei amser ef, rhyw ddaeargelloedd neu fynedfeydd, o ba rai nid oes dim olion, na'r coffadwriaeth lleiaf yn aros, er fod yr ymchwil a'r ymholiadau manylaf wedi cael eu gwneyd am danynt. "Yn y ddinas hon," medd awdwr y *Polychronicon*,‡ mewn iaith Saesoneg farbaraidd, "bu ffyrdd o dan y ddaear, gyda gweithydd maen wedi eu llunio yn rhyfeddol; gweithiau tair-ystafellog. Ceryg mawrion âg enwau hynafol wedi eu cerfio arnynt. Y mae yno hefyd enw Iwl Caisar wedi ei gerfio yn rhyfeddol mewn ceryg beddau, ac enwau gwŷr mawr pendefigol ereill, gyda'r ysgrifen o'u cwmpas." Diau y golyga yr allorau a'r cofadeiliadau cerfiedig; ond dichon ei fod yn camgymeryd enw *Julius Cæsar* am enw *Julius Agricola;* i'r hwn, fel y mae yn rhesymol meddwl, y cyfodwyd rhyw gofadail o ddiolch. Oddigerth fod yr heolydd cloddiedig hyn wedi cael eu ffurfio gan y gwagle a adawyd ar ol dinystrio y daeargelloedd mawrion hyn, nis gallaf fi roddi mwy o gyfrif am eu ffurfiad nag am y lle y byddai yr hen *Souterreins* hyny yn preswylio. Nid oes dim wedi cael ei ddarganfod erioed, trwy fynych gloddio selerydd at adeiladau newyddion, yn lle yr hen rai; nid ydyw traddodiad wedi gadael i ni unrhyw hanesion o'r fath; ac nid ydyw

* De signif. vocab.—*Vitruv.*

† Onid wyt ti yn gweled y pyrth *(vestibules)* o flaen y tai, a'u rhodfeydd bwaog?

‡ Fol. xlvii.

eu diflaniad wedi cael ei olrhain o dan y gwaliau yn unrhyw ran o'u hamgylchoedd. Yr unig ddaeargelloedd ag y gwyddir am danynt yn bresenol, ydynt yn perthyn i'r canoloesoedd, y rhai a berthynent naill ai i westai y gwŷr mawr, neu ynte i'r tai crefyddol a dryfrithent y ddinas.

*Porth y Dwyrain, Rhufeinig.* Allan o bedwar porth y ddinas, yr oedd un o honynt, Porth y Dwyrain, yn aros hyd o fewn ychydig flynyddoedd; yr oedd o adeilyddiaeth Rhufeinig, ac yn cynwys dau fwa, ac wedi eu cuddio i raddau helaeth gan dŵr a adeiladasid drostynt mewn dyddiau diweddarach. O fewn ychydig o flynyddoedd yn ol, tynwyd ef i lawr, o achos ei fod mor gyfyng ac anghyfleus, i wneyd lle i borth ardderchog arall, yr hwn a gyfodid gan arglwydd Grosvenor. Yr wyf yn cofio tynu i lawr yr hen adeilad; ac wedi chwalu amdoad allanol o saernïaeth mwy diweddar y Normaniaid, daeth y gwaith Rhufeinig yn gyflawn i'r golwg. Cynwysai ddau fwa, wedi eu gwneyd o feini mawrion, yn wynebu heol Eastgate, a heol Fforest; y piler cydrhyngddynt yn rhanu yr heol yn union yn ddwy ran. Bydd i'r darlun manwl o honynt o eiddo Mr. Wilkinson, o'r ddinas hon, roddi cryfach meddylddrych nag y dichon i eiriau ei drosglwyddo; a'r un modd hefyd am ddelw y milwr Rhufeinig, wedi ei gyfleu rhwng topiau y bwäau a wynebent heol y Fforest.


Nid oedd y rhywogaeth yma o byrth dwbl yn bethau anghyffredin. Y *Porta esquilina*,* a'r *Porta portese*† yn Rhufain oeddynt o'r math yma. Y mae *Flores*, yn ei gynulliad o fathynau y trefedigaethau Rhufeinig yn Yspaen,‡ yn dangos un ar fathynau Merida, yr *Emerita* hynafol, yn neillduol ar y rhai o eiddo Augustus, yr hyn a ddengys fod y trefedigion yn falch o'u porth; ac efallai nad heb reswm, oblegyd ei fod yn waith yr oes oreu. Rhaid i mi benderfynu, fod yr arddull yn ymddangos megys wedi ei seilio ar yr adeilyddiaeth Roegaidd; oblegyd yr oedd yn Athen borth dwbl *(Dipylon)* yr hwn sydd yn bresenol wedi ei chwalu.§

Yr oedd y porth dan sylw yn wynebu ffordd fawr *Watling street*, ac yn ymyl y fan lle y cydgyfarfyddai ffyrdd milwrol ereill. Trwy hwn y byddai y nifer lluosocaf o bobl yn tramwy; yr hyn a wnelai y porth dwbl yn fwy angenrheidiol.

*Twym-ystafell.* Dichon fod yr hen faddon Rhufeinig o dan y *Feathers Inn*, yn Heol y bont, o hyd yn aros yn gyfan; ond yr unig ran sydd i'w weled, o herwydd yr adeiladau mwy diweddar, ydyw y Dwym-ystafell *(Hypocaust.)* Y mae hon o ffurf cywironglog, yn cael ei chynal gan ddeuddeg ar hugain o golofnau, dwy droedfedd a deng modfedd a haner o uchder, ac oddeutu deunaw modfedd y naill oddiwrth y llall. Ar bob un y mae priddlech ddeunaw modfedd ysgwâr, megys pe buasai wedi cael ei bwriadu fel penglwm: ac uwchlaw iddynt briddlech drydyllog ddwy droedfedd ysgwâr. Y mae y rhai hyn yn cael eu dwyn yn mlaen uwchlaw yr oll o'r colofnau. Uwchlaw iddynt y mae dwy haen; un o forter brâs, wedi ei gymysgu â graian coch mân, oddeutu tair modfedd o drwch; a'r llall o ddefnyddiau purach, rhwng pedair a phum' modfedd o drwch; ymddengys mai y rhai hyn a ffurfient lawr yr ystafell uwchlaw. Y mae y colofnau yn sefyll ar lawr o forter, wedi ei daenu dros y graig. Ar yr ochr ddeheuol, rhwng y colofnau canol, y mae y

* Montfaucon, III. pt. ii. p. 177. † Nardini Roma Antica, p. 37. ‡ P. 384, tab. xxi. xxii. xxiii.
§ Megys ag y clywais gan fy nghyfaill Mr. Stuart.

Digitized by Google



*PORTH RHUFEINIG YN NGHAERLLEON.*

**ROMAN GATE AT CHESTER.**

Digitized by Google

Digitized by Google

lle i ollwng allan y mwg, oddeutu chwe' modfedd ysgwâr, yr hwn sydd yn bresenol yn agored hyd yr uchder o un fodfedd ar bymtheg. Yma hefyd y mae ystafell fewnol, yn union yr un faintioli â'r Dwym-ystafell, gydag agorfa iddi yn y canol. Y mae hon agos i ddwy droedfedd yn is na lefel y flaenaf, ac y mae ar yr un ffurf cywironglog; felly y mae y naill a'r llall yn ffurfio ysgwâr cyflawn. Dyma yr ystafell a roddid at wasanaeth y caethweision a fyddent yn bresenol i dwymo y lle; y llall ydoedd i dderbyn y tanwydd a ddefnyddid i dwymo yr ystafell uwchben, y *concamerato sudatio*,* neu yr ystafell chwysu; yn mha le y gosodid pobl i eistedd, naill ai mewn cloerau, neu ynte ar feingciau wedi eu gosod y naill uwchben y llall; tra y byddai yr orchwyliaeth yn myned yn mlaen. Y cyfryw ydoedd amcan y Dwym-ystafell hon; oblegyd yr oedd ereill o wahanol ffurfiau, at y dybenion o dwymo y dyfroedd a fwriedid at wasanaeth yr ymdrochyddion.

*Twym-ystafell arall.*

Wrth gloddio am sylfeini i'r tai newyddion yn heol Porth y dwfr, yn mis Ionawr 1779, darganfyddwyd Twym-ystafell arall, ond yn ol pob ymddangosiad yn fwy o lawer. Cynwysa ddau o chwys-leoedd; un o honynt yn llai na'r llall, heb feddu ond deg colofn ar ddwy ochr, a lle gwag yn y canol. Yn gysylltiol â hwn yr oedd ystafell fechan, a'r muriau wedi eu plastro, yr hon, fe ddichon, oedd yr ystafell lle y safai y caethwas a adgyflenwai y lle â thanwydd. O flaen y rhai hyn yr oedd neuadd eang, gyda phalmant tryfrithog o briddlechi duon, gwynion, a chochion, oddeutu modfedd ysgwâr. Ar yr ochr draw yr oedd mynedfa danddaearol —dichon mai ffos ydoedd. Yn gysylltiedig â hyn y mae ystafell chwysu, yn debyg i'r un o dan y *Feathers Inn;* ac o'r tu draw yr oedd yr ystafell fechan, wedi ei llorio â phriddlechau, pedair modfedd a haner wrth ddwy a haner, wedi eu gosod gerfydd eu hymylon. Darganfyddwyd yma y priddlechau mawr tryddyllog at drosglwyddo yr ager, a'r haenau o forter, y colofnau, a manylion ereill, megys ag yn y blaenaf. Y mae yr oll o'r rhai hyn yn bresenol yn meddiant Philip Egerton, ysw., o Barc Oulton.

Rhaid i mi yn awr fyned i waered at y bont, i'r dyben o chwilio am yr ychydig weddillion pellach a gawn o eiddo yr hen drefedigwyr. Wedi myned trwy y porth, ar y llaw ddehau, yn agos i dai rhyw grwynwyr, y mae esgynfa fechan o risiau, yr hon a arweiniai i fwa crwn mawr, yn ol pob ymddangosiad o waith y Rhufeiniaid. Y mae yn bresenol wedi ei lanw â maen-saerniaeth mwy diweddar, ac y mae mynedfa wedi ei gadael trwy fwa bychan o ffurfiad tra rhyfedd. Ar y llaw aswy, o fewn y fynedfa arbenig hon, y mae arddangosiad o fwa arall, yn awr wedi ei gau i fyny. Gelwir y drws cefn yma yn *Shipgate*, neu *Dwll yn y Mur*. Ymddengys fod hwn wedi ei fwriadu ar y cyntaf at y fynedfa gyffredin dros yr afon Dyfrdwy, i wlad y Gordofigion, naill ai gyda chwch ar orllanw, neu trwy rŷd ar ddistyll, am fod yr afon yn y fan hon yn hynod o fâs. Yr hyn sydd yn dwyn hyny i sicrwydd ydyw, fod y graig ar ochr *Hanbridge* wedi cael ei thori, megys pe buasai er cyfleustra teithwyr. Ac

*Ffordd Rufeinig.*

yn union tu hwnt i hyny, mewn lle a elwir *Maes Edgar*, y mae olion ffordd yn cyfeirio i fyny yr allt; am yr hon y bydd genym achlysur i sylwi rhagllaw, ei bod yn cael ei pharhau tua *Bonium*, y Bangor bresenol.

* Vitruvius, lib. v. c. 2.



Digitized by Google

*Cerflun o Minerfa.* ] Ar wyneb craig yn yr un cae, ac yn gwynebu yr olion hyn o'r ffordd Rufeinig, y mae delw aflerw o'r *Dea armigera,** MINERFA gyda'i haderyn a'i hallor. Dichon mai cofadail feddrodol ydoedd hon; canys yr oedd y cyfryw yn bethau tra chyffredin ar ochrau ffyrdd cyhoeddus; ond y mae naill ai amser neu ddirmygh wedi dileu pob argraff.

*Palas Edgar.* ] O'r tu ol i hwn safai, yn mhell cyn cof, ryw adeiladau hynafol, olion y rhai a nodir gan amrywiol geueddau; oblegyd bu i'r tir (yr hwn oedd, fe ddichon, uwch ben y daeargelloedd) roddi ffordd, a syrthio i mewn, o fewn coffadwriaeth personau sydd yn awr yn fyw. Y mae traddodiad yn galw y lle hwn wrth yr enw *palas Edgar.* Nid oes yn bresenol ddim wedi ei adael ag y gellir ffurfio unrhyw farn oddiwrtho, pa un a ydoedd ai adeilad Rhufeinig, fel y tybia Dr Stukely; neu Sacsonaidd, yn ol y dybiaeth bresenol; neu ynte Normanaidd, yn ol Braun,† yr hwn a eilw yr adfeilion, y rhai oeddynt y pryd hyny yn gwirioneddol fodoli, *Ruinosa Domus Comitis Cestriensis.*‡ Dichon iddo gael ei ddefnyddio yn olynol gan rai o honynt; ac iddynt ychwanegu ato, neu ynte ei wellhau yn ol eu gwahanol ddulliau cenedlaethol.

Yn gymaint ag i mi gael achlysur i grybwyll enw hynafiaethwr ymadawedig, tybiaf yn addas i mi addef fy rhwymedigaethau iddo am yr amrywiol awgrymiadau, y rhai a fuont o leshad, o eiddo ei athrylith uchel a bywiog; ond ar yr un pryd, rhaid i mi ddywedyd gyda gofid, fy mod yn fynych yn ei gael ef *plus beau que la* VERITE.§ Yr oedd ei ddarfelydd bywiog yn ei arwain yn fynych i liwio pethau fel y tybiai efe eu bod, ac nid y peth oeddynt mewn gwirionedd. Yn y pwngc ger ein bron, gellir cadarnhau yr hyn a ddywedir, trwy ei fod yn rhoddi tri o fwäau i'r hen Borth y Dwyrain,|| a ffyrdd tanddaearol i bob parth o'r ddinas, lle y mae ymchwiliadau wedi cael eu gwneyd.

*Allor.* ] Yr allor brydferth, sydd yn meddiant Mr. Dyson, a'r milwr yn ngardd Mr. Lawton, ydynt yr unig hynafiaethau didoledig sydd yn aros yn bresenol yn y ddinas. Y mae y gyntaf yn anarferol o brydferth, ac adeiladwyd hi gan *Flavius Longus,* triwriad yr ugeinfed leng fuddugoliaethus, a chan ei fab *Longinus,* er anrhydedd i'r ymerawdwyr Dioclesian a Maximian. Y tad a'r mab, a arddangosasant eu diolchgarwch yn y modd yma, oeddynt ddinasyddion o Samosota, dinas yn Syria. Ar un ochr y mae y cerfiad, ac ar yr ochr wrthgyferbyniol y mae llen gyda choronbleth uwchlaw iddi. Ar un o'r ochrau culach, y mae ffugur yn dwyn *cornucopia* (corn llawnder;) ac ar y llall, gawg gyda phlanigyn ynddo, yr *ancanthus* tybiedig, wedi ei ddeilio yn hardd. Ar y top y mae pen, yn amgauedig mewn deildorch gron. Anghofiais sylwi, fod yn union uwch ben y cerfiad, glôb, ac ar ei pheu uchaf ddail palmwydd. Os nad oedd hwn yn llongyfarchiad cyffredinol i'w buddugoliaethau, gallaf feddwl ei fod wedi ei fwriadu i ddatgan eu goruchafiaethau neillduol yn Affrica, lle y mae y balmwydden yn arwydd adnabyddus.


Cafwyd hon wrth gloddio at wneyd seler yn agos i Borth y dwyrain, ar y palmant hynafol, yr hwn a ffurfid o geryg mawrion. O'i chwmpas cafwyd arwyddion o aberthu; penau, cyrn, ac esgyrn yr ŷch, y carw, &c., ac i'w canlyn

* "Y Dduwies filwraidd."

† Civitates Orbis, iii. pl. 3. Cyhoeddwyd y gwaith hwn yn 1576. ‡ "Cartref adfeiliedig Ieirll Caerlleon." § "Yn fwy prydferth nag ydyw o WIRIONEDD."

|| Stukely Itin. Cur. tab. 65.

Digitized by Google



ALTARS FOUND AT CHESTER.

*ALLORAU A GAFWYD YN NGHAERLLEON.*

Digitized by Google

Digitized by Google

ddau fathodyn; un o eiddo *Vespasian*, o brês, gyda llun ei ben, a'r cerfiad IMP. CÆS. VESP. AUG. COSS. III., ac ar yr ochr arall, VICTORIA AUGUSTI C.S., a delw asgellog o Fuddugoliaeth yn sefyll ar ei thraed. Copr oedd defnydd y llall, ac yn gerfiedig o amgylch pen Constantius, FL. VAL. CONSTANTIUS NOB. C.; ac ar yr ochr arall, GENIO POPULI ROMANI; gan gyfeirio at ffugur yn dal yn un llaw gawg aberthu, ac yn y llall gorn llawnder *(cornucopia)*.

*Un arall.*] Yn 1779, yn agos i'r Dwym-ystafell a ddarganfyddwyd yn y flwyddyn hono, cafwyd allor brydferth, wedi ei hadeiladu gan deulu â gwŷr rhyddion rhyw berson, FORTUNÆ REDUCI ET ÆSCULAPIO. Y mae y cerfiad wedi ei anffurfio yn fawr. Ar yr ochrau y mae arwyddluniau o'r duwiau hyny, ac amryw offerynau at aberthu.* Y mae hon hefyd yn meddiant Philip Egerton, ysw Yn yr un cae cafwyd bathodyn aur, gyda phen Nero arno, wedi ei amgylchu â dail bytholwyrdd, a'r cerfiad IMP. NERO CÆSAR AVGVSTVS; ar y tu arall, Iau ar ei orsedd, gyda tharanfollt yn un llaw, a theyrnwialen, ac yn gerfiedig arni, IVPITER CVSTOS. bathodynau prês o amser *Domitian*, *Vespasian*, *Victorinus*, a *Chystenyn*.

Y mae y pethau hynafol ereill a ddarganfyddwyd yma yn awr wedi eu gwasgaru; yr hyn a'm gorfoda i droi at lyfrau, i'r dyben o'u gosod yn yr un safle o ran golwg.

*Un arall.*] Y cyntaf ydyw yr allor hynod a ddarganfyddwyd yn 1653, yr hon yn bresenol a gedwir yn Rhydychain. Y mae wedi ei chyflwyno i Iau, gyda'r cyfenw Prydeinig *Tanarus*, neu y Taranwr, trwy draws-symudiad y llythyrenau *r* ac *n* yn y gair *Taran*. Ymddengys fod hyn yn ganmoliaethol i'r Prydeiniaid, sef mabwysiadu y cyfenw yn eu hiaith hwy, yn lle iaith y *Tonans*. Y mae y cerfiad (yr hwn a gymeradwyir fwyaf gan Mr. Horsely†) yn rhedeg fel hyn:

Jovi optimo maximo Tanaro
Titus Elupius Galeria
Præsens Guntia, Primipilus
Legionis vicesimæ Valentis.
Victricis Commodo et Laterano
Consulibus votum solvit
Lubens merito.‡

Y mae y gair *Guntia*, gan y dysgedigion *Prideaux* a *Gale*,§ yn cael ei ddarllen yn *Gunethæ*, megys pe yn tarddu o *Gwynedd*, un o enwau Prydeinig Gogledd Cymru; ar ba un y tybient fod *Elupius* wedi bod yn llywodraethwr. Dichon y gall hyn roddi cyfrif am ei ddewisiad o'r gair *Tanaro*, fel yn dra gwenieithus i falchder y rhai a lywodraethai.

Y nesaf ydyw cerfddelw, yr hon oedd yn meddiant y diweddar Barchedig Mr. Prescot, gyda phenguwch *Phrygiaidd* ar ei ben, mantell fechan ar draws ei ysgwyddau, a siaced fer am ei gorph. Y mae ar ei sefyll, gyda ffaglen ar ddiffodd yn ei ddwylaw. Tybir mai hwn ydoedd *Mithras*, neu yr haul; yr hwn dduw a fenthyciwyd oddiar y Persiaid, ac yr oedd mewn cyfrif mawr yn

* Edr. ddeg darlun attodiadol Moses Griffith. † Tab. 67, No. iii.

‡ "Titus Elupius Galeria, llywodraethwr Gwynedd, ac arweinydd y nerthol a'r fuddugoliaethus ugeinfed leng, a dalodd yn ewyllysgar ei adduned ddyledus i Iau y Taranwr, y mawr a'r galluog, yn mlwyddyn rhaglawiaeth Commodo a Laterano." § Gale's Comm. 53.

Digitized by Google

mhlith y Rhufeiniaid yn yr ail a'r drydedd ganrif.* Y mae cerfiad, DEO SOLI MITRÆ, wedi cael ei ddarganfod yn Cumberland. Y penguwch Phrygiaidd a'i dynoda fel duw rhyw wlad dramor. Y mae y ffaglen ar ddiffodd hefyd yn dangos achlysur cyfodiad y gareg hon, sef cynhebrwng neu gladdedigaeth.

Crybwylla Mr. Horsely am gareg arall, yr hon a ddarganfyddwyd yn *Watergate Street* (neu Heol porth y dwfr,) yn y flwyddyn 1729. Y mae y cerfiad mor amherffaith fel y cyfaddefa nas gellir, heb gymhorth dychymyg, wneyd allan ei feddwl.

Wrth dori sylfaen tŷ, yn y flwyddyn 1738, darganfyddwyd darn o lechfaen, ar ba un yr oedd llun *Retiarius* wedi ei dori; rhywogaeth o ymladdwr, yr hwn a arferai ymladd heb ddim ond arf tridaint a rhwyd; gyda'r olaf maglai ei wrthwynebydd, a chyda'i erfyn tridaint lladdai ef.

Movet ecce tridentem
Postquam vibrata pendentia retia dextra
Nequicquam effudit.†

Gelwid ei wrthwynebwr *Secutor*. Yr oedd ef wedi ei arfogi â tharian hir, a dagr; ac ymddengys fel yn sicr o fuddugoliaeth, pe buasai y *Retiarius* yn methu ei dafliad. Y mae y gareg wedi ei hanurddo gymaint fel nad oes ond darn o darian y *Secutor* wedi ei gadw.

Ychydig briddfeini, ac arnynt rif y lleng a sefydlasid yma, a gwblhant fy rhestr o'r hynafiaethau Rhufeinig yn y lle. Ni ddywedaf ddim am y cerfiad DEÆ NYMPHÆ BRIGANTES, yr hwn sydd wedi ei ddyogelu gan Mr. Gale, am yr ambeuir yn gyfiawn a oedd yn perthyn i'r lle hwn.

*Gwneuthuriad Caws.* Ni ddylwn adael allan y goffadwriaeth werthfawrocaf a adawodd y Rhufeiniaid o'u hol, mewn modd neillduol, yn y sir hon; sef y gelfyddyd o wneyd caws: oblegyd hysbysir ni yn bendant fod y Brythoniaid yn anhysbys o hyny hyd ddyfodiad y Rhufeiniaid. Y mae trigolion Caerlleon wedi rhagori mor fawr yn ngwneuthuriad y nwydd yma, fel y maent yn curo yr holl wledydd, heb eithrio yr Eidal, gwlad eu hen feistri.

*Y Lleng yn gadael yr orsaf hon.* Galwyd yr ugeinfed leng adref o Frydain cyn i'r *Notitia* gael ei ysgrifenu, oblegyd ni chrybwyllir am hyny yn y gwaith yma, yr hwn a gyfansoddwyd‡ oddeutu y flwyddyn 445. Tybir hefyd iddi gael ei galw o Gaerlleon cyn i'r Rhufeiniaid adael yr ynys hon, gan fod ei henw wedi ei ddarganfod yn Ngbaerbaddon yn mhlith y cerfiadau diweddaraf sydd genym.§ Ni ddylid tybio fod y ddinas ar y pryd wedi ei llwyr adael; parhaodd i gael ei thrigiannu gan ddisgynyddion y milwyr Rhufeinig, y rhai a fwynhaent yr un breintiau, a dichon eu bod yn gorph lluosog. Niferi o rai ereill, y rhai a ymbriodasent â merched cynhenid yr ynys, gan ymgymeryd â galwedigaethau heb fod yn rhai milwraidd, yn ol pob tebygolrwydd a arosasant ar ol wedi i'r llengau adael Prydain yn 448. Ar ol hyny, daeth y ddinas o dan lywodraeth y Prydeiniaid, hyd nes y gorchfygwyd hwy yn gwbl gan eu goresgynwyr newyddion, y Sacsoniaid.

† Horsely, Cumberland, 259.

†Juvenal, Sat. viii. lin. 203. "Wele, yn ofer mae yn taflu'r bicell fain, oblegyd fod y rhwyd yn hofran yn ei law ddehau." Y mae y dull hwn o ymladd yn cael ei arddangos yn narluniau yr *Antiquarian Society*. Y mae genyf fold o'r gareg hon wedi ei gymeryd.

‡ Horsely, 473. § Eto, 85.

Digitized by Google

*Y Cyfnod Sacsonaidd.*

Prydain, erbyn hyn wedi ei gadael yn gwbl ddiamddiffyn, yn fuan a brofodd yr holl drallodion a allai pobl dramoraidd a barbaraidd eu dwyn arni. Tra yr oedd Hengist a Horsa yn tywallt i mewn eu lluoedd ar y dehau, yr oedd haid arall o yspeilwyr lladronaidd wedi glanio yn Nghymru, o'u sefydliadau yn yr *Orcades* a gogleddbarth Ysgotland. Y rhai hyn, ynghyda'u cynghreiriaid, y Pictiaid, a orchfygwyd yn agos i'r Wyddgrug, gan y Prydeiniaid Cristionogol, o dan arweiniad St. Garmon. Yr wyf yn crybwyll hyn, wrth gŵrs, allan o fy llwybr, i ddangos fod yr heddwch a fwynhaodd y *Deva* (Dyfrdwy) am ganrif arall, i'w briodoli i'r oruchafiaeth yma, yr hon, drwy iddi gael ei henill, yn ol pob ymddangosiad, mewn dull gwyrthiol, a roddodd derfyn, am hir amser, ar unrhyw ymgeisiadau newyddion.

*Ethelfrid, 607.*

O'r diwedd penderfynwyd tynged y ddinas hon yn 607, pan y darfu i *Ethelfrid*, brenin Northumbria, benderfynu ychwanegu y diriogaeth frâs yma at ei randiroedd. Gwrthwynebwyd ef gan Brochwel Ysgithrog, arglwydd Powys, yr hwn ar ychydig rybudd, a gasglodd ynghyd gorph o filwyr, y rhai, efallai, a ddybynent ar gyfryngwriaeth y Nefoedd, megys ag yn achos y *victoria alleluiatica*,† ac i'r dyben hwnw, efe a alwodd i'w gynorthwyo ddeuddeg cant o fynachod, o fynachlog fawr Bangor, ac a'u gosododd ar fryn gerllaw, fel y byddai iddynt weddïo am lwyddiant ar ei arfau. Ar ol i'r frwydr fyned drosodd, daeth Ethelfrid ar draws y corphlu duwiol yma, ac wedi cael allan beth oedd eu neges,‡ efe a'u traddododd i'r cleddyf yn ddiymarbed. Cafodd Brochwel ei orchfygu yn rhwydd, yr hwn, megys ag y mynegir i ni gan y cronicl Sacsonaidd,§ a ddiangodd, gydag oddeutu haner cant o wŷr. Ymddengys fod Ethelfrid, ar ol iddo yspeilio y ddinas, wedi ei gadael i drugaredd ei pherchenogion blaenorol, gan ymfoddloni ar y diriogaeth yn unig, hyd nes y dirwasgwyd hi oddiwrth ei deyrnas gan eiddo *Mercia* (gwlad Mers.)

*Brwydr Caerlleon.*

Nid oes genym ond ychydig o hanes Caerlleon am yspaid maith ar ol hyn. Ymddengys ei bod yn parhau yn meddiant y Prydeiniaid, oblegyd ystyrid hi yn brifddinas Gwynedd, neu Ogledd Cymru, hyd yr amser pan y dirwasgwyd hi oddiarnynt gan Egbert, oddeutu y flwyddyn 828, yn ystod teyrnasiad Merfyn Frych a'i wraig Essyllt;‖ yr hyn a gyfyngodd derfynau Cymru yn ystod y gweddill o'i bodolaeth annibynol.

*Egbert, 828.*

*Y Daeniaid yn gauafu yma, 895.*

Yn mhen ychydig flynyddoedd ar ol hyn aeth dan drallod trwm oddiar ddwylaw y Daeniaid. Y mor-ladron hyn, ffrewyll y deyrnas, wedi cael eu gorthrechu yn dost gan *Alfred Fawr*, a enciliasant o'i flaen; ac wrth encilio casglasant yn nghyd niferi mawrion o'u cydwladwyr, rhoisant ofal eu gwragedd, eu llongau, a'u hyspail i'r *East Angles*, ac ymdeithiasant yn mlaen, ddydd a nos, er mwyn sicrhau lle o ddyogelwch yn y gorllewin. Cymerasant afael ar *Legaceaster* (Caerlleon) cyn i'r brenin allu eu goddiweddu. Gwarchaeodd arnynt am oddeutu deuddydd, dinystriodd yr holl anifeiliaid a allai gael gafael arnynt o amgylch y dref, llosgodd ran fawr, a dinystriodd y gweddill o'r ŷd oedd ar ei

* Sax. Chron. 25. † "Buddugoliaeth yr Alleuiah." ‡ Bede Hist. ii. c. 2.
§ P. 25. ‖ Powel, 27.

Digitized by Google

draed, trwy ei wŷr meirch, a lladdodd bob un o'r Daeniaid a gafodd o'r tu allan i'r muriau.* Cadwodd y goresgynwyr hyn feddiant o'r dref am ran o'r gauaf; ond wedi eu gorfodi gan newyn, ymadawsant oddiyno yn nechreu 895, a chymerasant eu ffordd trwy Ogledd Cymru, ac o herwydd yr un rheswm gorfu arnynt fyned oddi yno hefyd yn ddisymwth.

*Yn ymadael oddiyno.*

Ar ol i'r Daeniaid adael y ddinas, bu yn adfeilion hyd y flwyddyn 907 neu 908; pryd yr adferwyd hi, fel y mae ein haneswyr Sacsonaidd a Phrydeinig yn cytuno, gan y nodedig *Ethelfleda*.†

*Ei hanes.*

Crybwyllir am y foneddiges hon mor fynych yn hanes y *Mers*, fel na byddai yn amhriodol rhoddi braslun o'i gyrfa yn y fan yma. Merch, yn ngwir ystyr y gair, ydoedd i Alfred Fawr, a gwraig i Ethelred, iarll Mers, o dan ei frawd-yn-nghyfraith, Iorwerth brenin Lloegr. Ar enedigaeth ei hunig blentyn,‡ ymwahanodd oddiwrth ei gŵr, ac am y gweddill o'i hoes, fel yr hen Amazoniaid gynt, penderfynodd arwain bywyd o ddiweirdeb, ac ymgyflwyno yn gwbl i wasanaeth milwrol. Yr oedd yn byw ar y telerau goreu gyda'i phriod; cydunent yn mhob gweithrediadau o elusen a duwioldeb; adferent ddinasoedd, sylfaenent fynachlogydd, a symudent esgyrn hen seintiau ymadawedig i leoedd mwy cyfaddas.

Wedi marwolaeth ei phriod, yn 912, ymgymerodd â llywodraeth teyrnas y Mers, a llywyddiaeth y fyddin. Daeth mor enwog ar gyfrif ei gwroldeb, fel y bernid fod y teitlau o Arglwyddes neu Frenines yn annheilwng o honi; ac am hyny derbyniai yn ychwanegol yr eiddo ARGLWYDD a BRENIN.

O ELFLEDA potens, O terror virgo virorum
Victrix naturæ, nomine digna viri.
Tu quo splendidior fieres, natura puellam,
Te probitas fecit nomen haberi viri.
Te mutare decet, sed solum nomine sexus,
Tu *Regina* potens, *Rexque* trophæa parans,
Nec jam *Cæsarei* tantum meruere triumphi,
*Cæsare* splendidior virgo virago vale. §

ELFLEDA, arswyd dynolryw!
Natur, heb derfyn ar ei rhyw,
A'th wnaeth yn ferch garuaidd, fâd,
Ond gwron oeddit yn y gâd.
Yr Awen gân am danat ti,
FRENINES gadarn — FRENIN bri!
Gorchestion *Cæsar* ânt dan gudd
Yn d' ymyl di, WRONES rydd!

* Sax. Chr. 102.—Flores Hist. anno 908, p. 269.

† Ranulf. Higden in Gale, iii. 260.

‡ Pariendo suam sobolem primam difficultatem perpessa, tanta indignatione carnalem concubitum abhorruit, ut nunquam deinceps ad viri sui thorum rediens, se cælebatu castissimo contineret. *Ingulphi Hist.* 871.

"Wedi goddef cyfyngder mawr wrth eni ei phlentyn cyntaf, coleddai gasineb mor eithafol at fywyd priodasol, fel na ddychwelodd byth mwy i wely ei gŵr, ond cadwodd ei hunan mewn gwyryfdod diwair."

§ Henry Huntingdon, lib. v. p. 354.

Digitized by Google

Ymddengys fod yr arwres yn teilyngu y clod yma yn dda. Yr oedd ei gallu-oedd a'i bywiogrwydd yn wastad yn ngwasanaeth ei gwlad. Adeiladodd gastell yn *Sceargate*; un arall yn *Briege*, y Bridgenorth bresenol; y trydydd yn *Tamweorthig*, neu Tamworth; y pedwerydd yn *Stæfford;* y pummed yn *Eadesbyrig*, yn bresenol yr ystafell yn y goedwig yn sir Gaerlleon; y chweched yn *Wæringwic* neu Warwick; y seithfed yn *Cyricbyrig*, neu Chirbury; yr wythfed yn *Weardbyrig*, neu Wedsburrow, yn sir Stafford; a'r nawfed yn *Rumcof*, neu Runcorn, yn sir Gaerlleon. Cymerodd dref *Brecenanmere*, neu Frycheiniog, a gwnaeth ei brenines yn garcharor; cymerodd *Deoruby* neu Derby, trwy ruthr, ond collodd bedwar o farwniaid oddifewn i'r lle: ac yn olaf, adferodd *Gaerlleon*, ar ol iddi gael ei hanrheithio gan y barbariaid; ail-adeiladodd y muriau; ac, fel y myn rhai, helaethodd y ddinas gymaint nes cymeryd y castell i mewn, yr hwn yn flaenorol a safai o'r tu allan i'r cyffiniau hynafol.

*Ei marwolaeth.*

Rhoddodd angeu derfyn ar ei gyrfa ogoneddus yn *Tamworth*,* yn haf 922, o ba le y symudwyd ei chorph i Gaerloyw. Teimlid y golled am dani yn fawr gan yr holl deyrnas, ond nid gan neb yn fwy na'i brawd Iorwerth, i'r hwn yr oedd mor wasanaethgar yn y cyfriu-gynghor ag ar faes y frwydr.

*Edgar, 973.*

Edgar a wnaeth y porthladd hwn yn un o'i orsafoedd yn ei fordaith flynyddol o amgylch ei derfynau. Y mae y flwyddyn 973 yn hynod ar gyfrif y cynghrair a wnaeth efe yma gyda chwech o fân freninoedd, y rhai a ymrwymasant i'w gynorthwyo ar dir a môr yn mhob peth a wnelai. Dyma y ffaith, fel yr adroddir hi yn y *Saxon Chronicle*.† Y mae yr un peth yn cael ei grybwyll, efallai, wedi ei gopïo o'r blaenaf, gan *Henry of Huntingdon;* ond y mae *Higden*, mynach St. Werberg, er rhoddi mwy o anrhydedd ar ei ddinas enedigol, yn gwneyd nifer y breninoedd yn wyth; ac ychwanega fod Edgar, fel arddangosiad o'i uwchafiaeth, un diwrnod, ar ei fynediad i'w gwch, wedi cymeryd y llyw, a gwneyd i'w wyth isdeyrn ei rwyfo o'r palas, yr hwn y pryd hyny a safai yn y cae a elwir ar ei enw hyd heddyw, i fyny y Ddyfrdwy, hyd Eglwys St. Ioan, ac oddiyno yn ol i'w balas.‡

*Edmwnt Ystlyshaiarn.*

Yn y ganrif ddylynol dygwyd yn mlaen oresgyniadau y Daeniaid gyda chymaint o gyfrwystra fel ag i beri i bendefigaeth ymbleidgar a bradwrus Lloegr godi i fyny, a ffafrio eu cynlluniau. Edmwnt Ystlyshaiarn a gymerodd arfau i ryddhau ei wlad oresgynedig, a chariodd y rhyfel yn mlaen i'r siroedd gogleddol, yn mha rai yr oedd prif bleidwyr y goresgynwyr yn byw, gwlad y rhai a anrheithiodd efe, fel taledigaeth iddynt am eu brad. Nodir y ddinas hon fel un o'r manau a ddyoddefodd. Gorfodwyd Edmwnt, gan fradwriaeth ei bobl ei hun, i adael teyrnasoedd y Mers a Northumbria yn meddiant Canute; yr hwn, yn y rhaniad hynod hwnw ar Loegr rhwng y tywysogion cydymgeisiol hyn, yn 1016, a gadwodd y manau hyn fel ei ran ef.

*Canute, 1016.*

Ar adferiad y llinach Sacsonaidd, aethant, yn nghyda'r gweddill o dalaeth y Mers, i'w hen berchenogion. Leofric, pendefig haelionus, oedd y pryd hyny yn llywodraethwr y Mers, ac yn iarll Caerlleon. Nid oedd yr ieirll hyn yn cael eu creu, ond yn swyddogol felly. Bu efe farw yn 1057, a dylynwyd ef

* Sax. Chron. 109. † P. 122.—Henry Huntingdon, 356. ‡ Polychron. in Gale, iii. 267.

Digitized by Google

gan ei fab Alfgar, neu Algar, pendefig cynhyrfus; gwrthryfelodd, gyda chymhorth Gruffydd ap Llywelyn, a chollodd ei iarllaeth ddwywaith, ac a bardynwyd unwaith. Wedi iddo gael ei ddiswyddo yr ail waith, adfeddiannodd ei dalaeth trwy nerth arfau, gyda chymhorth Gruffydd, a chynorthwy llynges o Norway. Bu farw yn fuan ar ol hyny, a chladdwyd ef yn Coventry, lle yr oedd prif balasdy ieirll Mercia.

*Y Gorchfygiad Normanaidd.* Ei fab hynaf Edwin a'i dylynodd; ac ynddo ef y terfynodd y llinell Sacsonaidd o ieirll Caerlleon. Ar ol brwydr Hastings efe, a'i frawd Morcar, iarll Northumberland, a ffoisant i Lundain, gyda'r amcan o gael coron Lloegr, yr hon oedd yn wag trwy farwolaeth Harold. Wedi cael ei siomi yn ei obeithion, efe a gymerodd ei chwaer Algitha, gweddw y brenin a laddesid, ac a'i hanfonodd i Gaerlleon; ac amcanodd yntau ddiangc at Malcolm, brenin Ysgotland, ond fe'i goddiweddwyd ar y ffordd, a lladdwyd ef.

Cafodd Lloegr brofi cyfnewidiad trwyadl, ar yr adeg hon, gyda golwg ar ei pherchenogion. Y Congcwerwr, gyda'r amcan o sefydlu ar unwaith ei deyrnas newydd, a gwobrwyo ei ganlynwyr, a roddodd iddynt etifeddiaethau y pendefigion Sacsonaidd. Mewn modd call, efe a ranodd y talaethau, y rhai yn flaenorol a lywodraethid gan ychydig o wŷr galluog yn rhaniadau llai; ac felly torodd i fyny y gallu a fyddai cyn hyny mor fynych yn herio y goron. Gwlad y Mers, yr hwn oedd o'r blaen o dan lywodraeth iarll neu dduc, ac yn cael ei llywodraethu gan yr hyn a elwid, yn iaith y Sacsoniaid, *Merchenlege*, a dderbyniodd, mewn llawer o amgylchiadau, luaws o feistri. Daeth sîr Gaerlleon i ran *Gherbod*, rhyfelwr glew o Flanders. Trwy amryfusedd efe a syrthiodd i ddwylaw ei elynion (oblegyd galwesid ef yn ol i Flanders) yn fuan ar ol iddo gymeryd meddiant o'i etifeddiaethau newyddion, a thrwy iddo gael ei garcharu am dymhor hirfaith, bu gorfod arno roddi ffordd i un arall. Y Congcwerwr, yn ei le, a apwyntiodd *Hugh de Aurange*, yr hwn a adwaenir yn well wrth yr enw *Hugh Lupus* (Huw y Blaidd,) yr iarll Normanaidd cyntaf a fu yn feddiannol ar sîr Gaerlleon. Iddo ef y rhoddodd gyflawnder o allu; gwnaeth ei sîr yn sîr frein-iarllaidd, a rhoddodd iddo y fath lywodraeth freiniol fel yr oedd yr hen iarllod yn cadw eu senedd eu hunain, ac yr oedd ganddynt eu llysoedd cyfreithiol hefyd, yn mha rai y cospid unrhyw gamwedd a wneid yn erbyn urddas cleddyf Caerlleon, megys ag y cospid yn Westminster y cyfryw drosedd yn erbyn urddas y goron freninol, oblegyd *Gwilym* a ganiatâi i *Lupus* ddal y sîr hon *tam liberè ad gladium, sicut ipse* REX *tenebat Angliam ad coronam.** Y mae y cleddyf â pha un y gwisgwyd ef â'r urddas yma i'w weled hyd heddyw yn y *Museum*, a'r cerfiad arno, *Hugo comes Cestriæ.*† Swydd israddol arall a ddelid hefyd gan yr ieirll, yn rhinwedd y cleddyf hwn, ydoedd bod yn gleddyf-ddygiedydd Lloegr ar adegau coroniad.‡

Cymerodd Lupus feddiant uniongyrchol o'i diriogaethau. Dichon iddo gael ei arweddu i mewn iddynt gan *William* ei hun; oblegyd yr ydym yn cael fod y Congcwerwr yn Nghaerlleon yn bersonol yn 1069, pryd y gyrodd yn ol y Cymry, ac y gorphenodd ddarostwng talaeth y Mers dan ei awdurdod, yr hon, fel yr ymddengys, a fuasai mewn arfau hyd yn hyn.§ Ar yr un pryd, efe a

* "Trwy nerth ei gleddyf, megys ag y mae BRENIN Lloegr yn dal ei goron."

† "Huw, iarll Caerlleon." ‡ Leicester, 105. § Ordericus Vitalis, lib. iv. p. 516.

adgyweiriodd y muriau, ac a adeiladodd y castell; am fod y blaenaf naill ai wedi gwaethygu er amser Ethelfleda, neu ynte nad oedd yn cael ei ystyried yn ddigon cadarn at angenrheidrwydd yr amseroedd.

Mor gynted ag y darfu i *Lupus* ymsefydlu yn gadarn, dechreuodd ymarfer ei ragorfreintiau breninol. Ffurfiodd ei senedd trwy greu wyth o farwniaid; sef, *Nigel*, barwn Halton; *Robert*, Montalt; *William Malbedeng*, Nantwich; *Vernon*, Shipbrook; *Fitzhugh*, Malpas; *Hamon de Massie; Venables*, Kinderton; a *Nicholas*, Stockport. Yr oedd y rhai hyn i gynorthwyo yr iarll â'u cynghorion: *Ego comes Hugo et mei Barones*,* ydoedd ffurf ei wysiadau. Yr oeddynt yn rhwym o weini arno, ac o fynychu ei lys, er rhoddi arno fwy o urddas. Yr oeddynt yn rhwym, pan fyddai rhyfel â Chymru, i gadw at wasanaeth pob marchog, geffyl wedi ei harneisio, neu ddau heb eu harneisio, yn nosparth Caerlleon. Yr oedd eu marchogion a'u rhyddfreinwyr i feddu eu bron-genglau a'u llurigau, ac i amddiffyn eu tiroedd â'u cyrph eu hunain. Yr oedd gan bob barwn hefyd bedwar o ysweiniaid; a phob yswain un boneddwr; a phob boneddwr un gwas.† Yr oedd gan bob un o'r barwniaid hyn hefyd eu llysoedd barn yn rhydd, at bob achosion o gwyn a chyfraith, ynghyda phob cynghaws, oddieithr yr hyn a berthynai i *gleddyf* yr iarll. Yr oedd ganddynt heblaw hyny awdurdod ar fywyd ac angeu. Yr engraifft olaf o ymarferiad yr awdurdod hon ydoedd yn mherson *Hugh Stringer*, yr hwn a brofwyd am lofruddiaeth yn nghwrt Barwn Kinderton, ac a ddienyddiwyd yn 1597.‡

Yr oedd gan yr iarllod eu hystafellydd, yr hwn a lanwai le canghellydd; yr hon swydd sydd yn parhau hyd heddyw. Y cyntaf y gwyddom am dano oedd *Philippus Camerarius*, yr hwn a gymerodd ei enw oddiwrth ei swydd, yn amser *Randle Gernouns*, iarll Caerlleon. Yma y mae barwn y trysorlys, a swyddogion ereill yn gydffurf âg eiddo y goron yn Westminster; hefyd, barnwyr, o flaen pa rai y profid achosion ag y gallesid, o ran eu natur, eu profi yn nghwrtydd uchaf y wladwriaeth.§

Mewn efelychiad o allu breninol, arferai yr ieirll apwyntio uchel-gwnstabl dros sir Gaerlleon, yn gyfatebol i uchel-gwnstabl Lloegr; yr hon swydd a ddelid o dan gyflog gan farwn Halton, yr hwn ar y cyfrif hwnw, a gymerai y blaen ar y barwniaid ereill; ac yr oedd gan farwn Montalt (ar ei ol ef) flaenoriaeth ar gyfrif y swydd a ddaliai yntau o dan gyflog, fel uchel-oruchwyliwr.

Robert de Rothelent ydoedd farwn arall yr hwn oedd yn benllywydd y milwyr yn sir Gaerlleon, ac yn brif lywodraethwr y sir, o dan ei gefnder, Hugh Lupus. Yn gymaint a bod ei swydd a'i urdd yn darfod gydag ef, ni chyfrifir ef yn mysg y barwniaid. Dichon y cafwyd allan fod y swydd hon yn afreidiol, ac yn ymyryd â rhagorfreintiau yr uchel-gwnstabl.

Parhaodd y drefn yma o lywodraeth o'r Congcwest hyd deyrnasiad Harri III.—yspaid o 174 o flynyddau; pryd, ar farwolaeth John Scott, yn 1237 (y seithfed iarll Normanaidd,) heb etifedd gwrryw ganddo, y darfu i Harri gymeryd yr iarllaeth i'w ddwylaw ei hun, a rhoddi i ferched y diweddar iarll diroedd ereill yn ei lle; am ei fod yn anewyllysgar, fel y dywedai, i etifeddiaeth mor fawr

*Cymeryd yr Iarllaeth i fyny gan y Goron.*

* "Huw, iarll Caerlleon, at ei Farwniaid."

† Erdeswicke's MSS. quoted by Doctor Gower, p. 22.

‡ Doctor Gower's Materials, &c. p. 22. § Leicester, 152.

Digitized by Google

gael ei *rhanu yn mysg hen ferched.* Y brenin a roddodd y sir i'w fab Iorwerth, yr hwn ni chymerodd y teitl i fyny; ond yr hwn, rhaglaw, a'i rhoddodd i'w fab, Iorwerth o Gaernarfon, y tywysog Cymru cyntaf o'r gwaedoliaeth Seisonig.

Ar ol i'r iarllaeth gael ei chymeryd i fyny gan y goron, ymgymerodd llywodraeth y ddinas â ffurf newydd; oblegyd yn y flwyddyn 1242, y 26ain o Harri III., ymddengys ei bod ar y cyntaf o dan lywyddiaeth maer a siryddion. Ymddengys fod y maer yn cymeryd lle y cwnstabl; yr hon swydd yn amser yr ieirll Normanaidd, ydoedd, o danynt hwy, yn oruchaf yn mhob materion milwraidd a gwladol, yn y dref a'r sir. Ymddengys mai math o enw newydd ar y *bailiffs* ydoedd y siryddion, y rhai a weithredent o dan y blaenaf.*

Ar ol gosod gerbron feddylddrych cyffredinol o'r ddinas a'r sir hon hyd amser Harri III., bydd i mi yn awr ddychwelyd at Hugh Lupus, a rhoddi, hyd eithaf fy ngallu, hanes byr am y pethau a ddygwyddasant yno; gan adael y rhan eglwysig i gael ei drin ar wahan.

Yn nyddiau yr iarll galluog hwnw, ac efallai yn mhell cyn iddo ef ddyfod i feddiant o'r ddinas hon, yr oedd yn mwynhau, trwy hynafiaeth, amrywiol ragorfreintiau. Perthynai iddi yr hyn a elwid *Guild Mercatory*,† yr hwn a gyfetyb i'n corphoraeth bwrdeisdrefol presenol; fel nas gallai unrhyw berson na pherthynai i'r gymdeithas hono gario yn mlaen unrhyw fasnach neu grefft o fewn ei therfynau. Dyna oedd cyflwr pethau pan ddaeth y Normaniaid, yr hyn y darfu i'r ieirll wedi hyny ei gadarnhau o dan eu seliau.

Apwyntid dau o arolygwyr, y rhai a ddewisid o blith y dinasyddion mwyaf parchus, i fyntumio hawlion y gorphoraeth yma. Hwynt-hwy a dderbynient, at wasanaeth y ddinas, yr holl dollau a delid gan ddyeithriaid, oddieithr yn y ffeiriau, y rhai yn y dyddiau hyny y dywedir eu bod yn cael eu cynal deirgwaith yn y flwyddyn. Dichon fod y swyddogion hyn o'r un natur â'r deoniaid corphoriaethol yn Ysgotland. Ymddengys hefyd, oddiwrth y *Doomsday Book*, fod yma swyddog goruwch-lywodraethol, yr hwn a elwid *Præpositus Regis*, neu faer, gan yr hwn yr oedd gofal y materion gwladol yn ogystal â'r rhai trafnidiol.

*Caethion.* Y mae yn anhawdd dywedyd, ar yr adeg bresenol, pa nwyddau a gludid allan o'r wlad mewn ffordd o fasnach, heblaw caethion a cheffylau. Yr oedd y fasnach farbaraidd flaenaf yn cael ei chario yn mlaen gan y Sacsoniaid ar raddeg fawr iawn. Y mae y dysgrifiad o'r arwerthfa‡ yn ddarlun perffaith o'r drafnidiaeth bresenol mewn negroaid; mor ychydig a hyny yr ydym wedi dyfod allan o gyflwr barbaraidd yn yr engraifft yma.§

* Vale Royal, 161. † Eto, 157.

‡ Y mae tref a elwir *Brichstou* (Bristol,) ar gyfer yr Iwerddon, yr hon sydd yn dra chyfleus at drafnidio gyda'r wlad hono. Wulfstan a'u perswadiodd i adael heibio arferiad mor farbaraidd, yr hon nis gallai cariad at Dduw na'r brenin eu darbwyllo i'w rhoddi heibio. Dyma ydoedd y gaethfasnach, a chesglid y caethion o bob parth o Loegr; ac yn neillduol merched ieuaingc, y rhai y gofalent am eu bod yn feichiog, er rhoddi mwy o bris arnynt. Golwg druenus ydoedd gweled, yn y marchnadoedd cyhoeddus, resi o bobl ieuangc o'r ddwy ystlen, wedi eu rhwymo wrth eu gilydd â rhaffau; yr oeddynt o brydferthwch mawr, ac yn mlodau eu hieuengctyd; yn cael eu halogi yn feunyddiol, a'u gwerthu yn feunyddiol. Ffaith felldigedig! warthrudd truenus! Dynion, yn anystyriol hyd yn nod o serchiadau yr anifeiliaid direswm! Yn traddodi i gaethiwed eu perthynasau eu hunain, ac hyd yn nod eu plant.—*Vita St. Wulfstan in Anglia Sacra*, ii. 258. Esgob Caerwrangon oedd Wulfstan, a bu farw yn 1095.

§ Gwarth cenedlaethol ag y mae Lloegr yn bresenol yn rhydd oddiwrtho. Gol.

Digitized by Google

*Ceffylau, Crwyn, &c.* Ceffylau oeddynt nwydd drafnidiol arall; ond gwaherddid eu hanfon allan o'r wlad, oddigerth fel anrhegion, o dan gyfraith a wnaed gan y brenin Athelstan. Ond digon tebyg fod y rhai hyn, yn gystal a phethau ereill, megys meteloedd, crwyn, cŵn, sialc (*chalk,*) yn cael eu cludo o'r ynys yn barhaus, megys ag yn amser y Rhufeiniaid. Yr oedd Caerlleon, ar gyfrif ei safle, yn neillduol gyfaddas at gael digonedd o adgyflenwad o'r pethau hyn. Yr oedd y mynych ryfeloedd â'r Cymry yn rhoddi iddynt ddigon o gaethion; ac os buasai prinder o'r rhai hyn, yr oedd eu cymydogion o deyrnas Northumbria yn barod i werthu hyd yn nod eu perthynasau agosaf.* Yr oedd gwastadeddau breision sîr Gaerlleon yn cynyrchu digonedd o gyrn a chrwyn; a mwngloddfeydd Cymru blwm a chopr.

*Caws.* Ni ddylai caws gael ei adael o'r neilldu, oblegyd yr oedd yn nwydd o'r pwysigrwydd mwyaf. Gwnaeth y Prydeiniaid y fath gynydd yn nghelfyddyd y llaethdy, fel yr oedd, hyd yn nod o dan lywodraeth y Rhufeiniaid, symau anferthol o gaws yn cael ei anfon allan at wasanaeth y byddinoedd Rhufeinig; a diau fod gan y sîr hon y rhan helaethaf yn hyny.

*Nwyddau a gludid i'r Ynys.* Y nwyddau a gludid i'r ynys oeddynt berchwaethon *(spices)* a moethusion ereill y dwyrain, y rhai a geid naill ai o Venice, neu ar ol hyny o ddinasoedd Pisa ac Amalfi,† trysorfaoedd nwyddau trafnidiol gwerthfawr Asia.

*Brethyn, Llian, Creiriau.* Brethyn a ddygid o Flanders, a llian o Germany;‡ creiriau a harddwisgoedd eglwysig o Italy,§ nwyddau coelgrefydd. Arfogaeth ardderchog oedd nwydd bwysig arall; oblegyd yr oedd rhyfel a chrefydd yn yr amseroedd hyny yn gwneyd i fyny y rhan bwysicaf o drafnidiaeth y wladwriaeth. Y rhyfelwyr a'r delwau santyddol oeddynt brydferthion yr adeg hono; ystyrid fod troseddau y blaenaf yn cael eu maddau yn rhwydd trwy ymostyngiad i'r olaf; ac yr oedd y maddeuant a weinyddai yr offeiriaid mewn cyfartaledd i werth yr offrwm.

*Gwin.* Dygid gwin iddynt o Ffraingc ac Yspaen; a'r darganfyddiadau a wnaed gan *Ohthere*, yn nghyfeiriad y gogledd, o dan gyfarwyddiadau Alffred, a ddygai i ni fânflew, esgyrn morfilod, plu, dannedd pysg, a nwyddau ereill o'r tiriogaethau oerion hyny.‖ Y mae crwyn môr-wenoliaid yn cael eu crybwyll ddwywaith yn y *Doomsday Book*, yn mysg y nwyddau a drosglwyddid i Gaerlleon. Gallai fod yr Iwerddon hefyd yn eu cyflenwi â mânflew, ac amryw bethau ereill; gan mai dyma oedd llwybr trafnidiaeth ar yr ochr hono i'r deyrnas, a'r farchnad fawr i werthu nwyddau Gwyddelig. Y mae hen gân synwyrol, ond aflerw, a gyhoeddwyd gan *Hakluyt* (i. 199,) oddeutu y flwyddyn 1430, yn rhoddi i ni restr o'r nwyddau a werthid yma:—

Crwyn a physg, gleisiaid, penhwyaid, a phenwaig,
Gwlân o'r Iwerddon, llian, a *faldinge,*
Gwenoliaid da a ffurfient ran o'i nwyddau,
Crwyn *hertes* a mathau ereill o helwriaeth,
Crwyn y dyfrgi, y wiwair, ac ysgyfarnog yr Iwerddon,
Crwyn defaid, ŵyn, a llwynogod yma geid,
Crwyn mŷn, a chwningod, mewn cyflawnder.

* Willielm. Malmesb. in script. post Bedam, p. 17. † Anderson, i. 58, 59.
‡ Anderson, i. 52. § Bede Hist. Abb. Weremouth, 295, 297.
‖ Translation of *Orosius*, by the Hon. *Daines Barrington*, 9, 12, 13.

Digitized by Google

Diau fod Caerlleon wedi bod yn borthladd enwog er's hir amser. Ymddengys ei bod yn orsaf i lynges y Sacsoniaid, ac yn fynych yn eisteddle llys gwlad Mers, yn ystod y Saith-freniniaeth, yn gystal ag wedi iddi ddyfod yn dalaith ar adeg yr undeb cyffredinol o dan Egbert.

Rhaid casglu hanes cyflwr y ddinas hon, yn amser Iorwerth Gyffeswr, ac ar adeg y Congcwest, o'r *Doomsday Book.*

Ymddengys fod yma, yn amser y breninoedd Sacsonaidd bedwar cant ac un ar ddeg ar hugain o dai trethadwy, heblaw un ar bymtheg a deugain a berthynent i'r esgob; y cynyrchai ddeng *mark* a haner o arian; dwy ran i'r brenin, a'r drydedd i'r iarll: pa bryd bynag y deuai y brenin yn bersonol, byddai yn hawlio oddiar bob tir âr, ddau cant o *hesthas*, un *cuna* o gwrw, ac un *rusca* o ymenyn:* os byddai i unrhyw un wneyd cwrw drwg, yr oedd yn rhaid iddo naill ai eistedd mewn cadair yn llawn tom, neu dalu pedwar swllt. yr oedd yn y ddinas ddeuddeg o farnwyr, a saith o feistriaid yn cadw lleoedd at fathu arian. pa bryd bynag y byddai angen am adgyweirio y muriau neu y bont, rhoddid rhybudd am i un dyn o bob cyfair o dir yn y sir ymddangos; ac os byddai yn absenol, dirwyid ef i ddeugain swllt, y rhai a renid rhwng y brenin a'r iarll: ac fod y ddinas mor wag o bobl pan gymerwyd meddiant o honi gan Hugh Lupus, fel yr oedd ynddi ddau cant a phump o dai yn llai nag yn amser y Cyffeswr.

Y mae yn debygol fod y ddinas yn fuan wedi ymadferu o'i haflwyddiant, a phrofi cryn raddau o gynydd o dan ei meistri newydd, y rhai oeddynt bobl goethedig; oblegyd yr oedd y Normaniaid yn cymeryd arnynt fod mor gain yn eu gwisgoedd a'u tai, ag oeddynt o ran eu cymedroldeb mewn bwyta ac yfed. Bu i esiampl rhyfelwr enwog, y cyfryw ag ydoedd yr iarll newydd, gael ei hefelychu yn fuan; a bu i'w lys, ac eiddo ei olynwyr hefyd, wneyd y ddinas yn lle pwysig anarferol yn y parthau hyn.

Yn ol *Lucian*,† hen fynach llawen a flodeuai yn adeg y Congcwest, yr oedd ei thrafnidiaeth yn eang anarferol. Y mae yn siarad am y llongau "a ddeuent yno o *Gascoign* (Gwasgwyn,) Yspaen, Iwerddon, a Germani, y rhai, trwy gymhorth Duw, a thrwy llafur ac ymdrech morwyr, a ddeuant yma, ac â'n diwallant â phob math o nwyddau; ac felly trwy gael ein cysuro gan Dduw yn mhob peth, *yr ydym yn yfed gwin mewn digonedd;* oblegyd y mae yn y gwledydd hyny gyflawnder o winllanoedd."

*1159.* ] Yma, yn y fl. 1157, y cyfarfu Harri II. a Malcolm IV. o Ysgotland â'u gilydd; ac y gwnaed y trosglwyddiad i Harri gan yr olaf o dair o siroedd, sef Northumberland, Cumberland, a Westmoreland, y rhai a gymerasid trwy drais yn flaenorol oddiar y goron Brydeinig.‡

Baldwin, archesgob Caergaint, yn 1188, a ymwelodd â'r lle hwn, ar ei daith o Gymru, i ba le yr oedd ei zêl wedi ei arwain i bregethu Rhyfeloedd y Groes i'r mynyddwyr, yn mha orchwyl yr oedd yn cael ei gynorthwyo gan yr hyawdl, ond balch, *Giraldus.* Y cwbl y cymer yr hanesydd sylw o hono yn y ddinas barchus hon ydyw, fod *Constance*, iarlles Caerlleon, yn cadw nifer o wartheg

* Tybir mai cabwllt, neu aderyn wedi ei ddyspaddu, oedd *hestha: cuna* a arwyddai gerwyn neu lestr darllaw. Ni welaf un eglurhad ar *rusca.* [*Rusca* sydd dwb neu faril, felly y mae *Rusca butyri* yn arwyddo ffircynaid o ymenyn.] Gol.

† Quoted by Camden, i. 672. ‡ Fordun, i. 449.

Digitized by Google

godro, yn gwneyd caws o'u llaeth, a'i bod wedi anrhegu yr archesgob â thri chosyn; iddo weled anifail, haner o ŷch a haner o garw; dynes wedi ei geni heb freichiau, yr hon a fedrai wnïo yn llawn cystal â'i thraed ag y gallai ereill o'i hystlen â'u bysedd; ac yn olaf, iddo glywed am dorllwyth o gŵn wedi cael eu cenedlu gan fwngci.* Yn gymaint a bod Giraldus yn hygoelus iawn mewn daroganau, y mae yn rhyfedd na wnaethai efe ryw ddefnydd o'r arwyddion hyn: ond dichon na ddygwyddodd dim o bwys yn ei ddyddiau ef yn y parthau yma, at ba rai y gallesid eu cymhwyso.

Y dygwyddiadau hynod nesaf ydoedd anrheithiau Llywelyn ap Gruffydd, tywysog Cymru, yr hwn a gariodd dân a chleddyf hyd yn nod at byrth Caerlleon, ac a ddinystriodd bobpeth o amgylch ar bob ochr i'r âfon; yr oedd wedi cael ei ffyrnigo gan y creulonderau echrys a oddefai ei ddeiliaid oddiar law Geffrey Langley, yr hwn oedd raglaw y sîr o dan y tywysog Iorwerth.†

Ymddengys fod y ddinas hon yn barhaus yn gynullfan milwyr, ac yn fan lle y cronid gwŷr arfog at eu gilydd gogyfer â phob ymgyrch milwrol ar yr ochr yma i'r deyrnas, o amseroedd y Normaniaid hyd gongcwest yr Iwerddon gan William III. Yn 1257, Harri III. a wysiodd ei bendefigion‡ i'w gyfarfod, yn nghyda'u deiliaid, yn Nghaerlleon ar ddiwrnod pennodol, er mwyn goresgyn Cymru, a dialu am anrheithiadau y genedl; a gelwid ar yr esgobion § i fod yma hefyd ar yr un achlysur.

Iorwerth I., yn 1275, a apwyntiodd y ddinas hon fel y man i dderbyn gwarogaeth Llywelyn, i'r hyn y gwrthododd y tywysog uchelfeddwl hwnw ymostwng,‖ a dygodd arno ei hun y rhyfel a derfynodd yn ei ddinystr ef a'i dywysogaeth.

Ac yn y ddinas hon y derbyniwyd, yn 1300, ymostyngiad hollol y Cymry i lywodraeth Iorwerth, gan Iorwerth o Gaernarfon, tywysog Cymru, pryd y darfu i rydd-ddeiliaid y wlad wneyd gwarogaeth a llw o ffyddlondeb iddo am eu gwahanol diroddd.¶

1379.] Rhisiart II. a ymwelodd â phrif ddinas ei sîr hoff a ffyddlawn; ac anrhydeddodd hi trwy ei gwneyd yn dywysogaeth, a chysylltu â hi gastell Lleon‖ *(Rolt,)* arglwyddiaeth Maelor ac Iâl, tiroedd Castell y Waen, ac amryw leoedd ereill yn Nghymru, ac ar y cyffiniau. Ond Harri IV. yn ei bedwerydd flwyddyn, a ddileodd y trefniad yma, yr hwn oedd yn cyfyngu cymaint ar urddas ei fab fel tywysog Cymru.**

Harri IV. yn 1399, a gymerodd feddiant o'r ddinas a'r castell, ar ei ffordd i Fflint, yn erbyn ei anffodus frenin Rhisiart II., ac ar ei ddychweliad, efe a'i dyogelodd am un noswaith yn y carchar, a rhoddodd i farwolaeth, mewn modd barbaraidd, un o'r enw Syr Perkin-a-Legh, a boneddwyr ereill, y rhai a gymerasai mewn dalfa ar yr un adeg a'u meistr anffodus.

Yn ystod gwrthryfel Glyndwr, cafodd y ddinas hon ei gwneyd yn orsaf milwyr y brenin, ac yn fan cadwraeth arfau. Nid yw yn ymddangos fod ein cydwladwr erioed wedi gwneyd un ymgais i'w chymeryd, er fod llawer o foneddigion y sîr wrol hon yn bleidiol i'w achos.†† Ond yr oedd y wlad yn anffortunus

* Itin. Cambr. c. xi. p. 87. † Walsingham, p. 467; yr hwn a esyd y dygwyddiad yma yn 1255.
‡ Rymer, i. 635. § Eto, 636. ‖ Powel, 333. Rymer, ii. 53, 63. ¶ Powel, 382.
** Statutes at Large, 21 Rich. II. c. 9. †† Rymer, viii. 333.

Digitized by Google

wedi ymranu; a pharhaodd felly drwy ystod y rhyfeloedd cartrefol a ddygid yn mlaen mor ffyrnig rhwng teuluoedd Caerefrog a Lancaster Yr ysprydol Margaret, i'r dyben o gadw i fyny zêl ei phlaid, a ddaeth i'r sîr hon yn 1455, ac ymwelodd â'r ddinas hon.* Yn 1459, yn fuan ar ol brwydr *Bloreheath*, talodd ymweliad arall, gan gymeryd gyda hi y *Trawsfeddiannydd Llariaidd*, sef ei phriod Harri VI., a'i mab Iorwerth. Cadwai fwrdd cyhoeddus yn mha le bynag yr elai; ac anrhegodd y boneddigion hyny o sîr Gaerlleon a gymerasent eu hochr, âg elyrch bychain o arian, arwyddlun y tywysog ieuangc, fel nod cydnabyddol y Lancastriaid.† Apwyntiodd Iago, arglwydd Audley, i lywyddu y milwyr yn sîr Gaerlleon. Y mae y bardd *Michael Drayton* yn rhoi i ni ddysgrifiad bywiog o effeithiau yr anghydwelediad gwladol ar yr adeg hon. Dywed wrthym fod Audley

Wedi llafurio yn dost nes gwneyd i un
Hauer o dylwyth frwydro gyda'r llall;
Dau ddyn gyfodent o'r un gwely, ond,
Ar ol byr siarad, ymbellhaent o hyd.
Un wisgai rosyn *coch*, un arall *wŷn*,
Un bleidiai *York*, a'r llall *Lancaster* brudd;
Dymunai un wel'd *Audley*'n ar y blaen,
A *Sal'sbri* yn enill tir ddymunai'r llall;
Ac wrth ffarwelio, pan yn canu'n iach,
Ysgydwent gleddyfau llym naill ar y llall.‡

Hysbysir ni gan Daniel King, fod Iorwerth, tywysog Cymru, mab Iorwerth IV., wedi dyfod i Gaerlleon ychydig cyn Nadolig y flwyddyn 1475, ac iddo yn uniongyrchol gael ei ddwyn i'r castell mewn gorfoledd mawr. Ni allai fod gan Iorwerth un amcan wrth wneyd hyn heblaw fel llongyfarchiad i'w gyfeillion yn y parthau hyny, oblegyd nid oedd ei fab ar y pryd ond plentyn deuddeg oed. Nid oedd yr amlygiadau hyn o ffafrau breninol yn bethau dyeithr. Harri VII. a anfonodd ei frenines yma yn 1493; ac anfonodd ei fab Arthur i ymweled â'r lle yn 1497.

Cafodd y ddinas hon ei chyfran o ymweliadau afiachus yr amseroedd. Yn 1506, ymwelwyd â hi gan yr anhwyldeb a elwir yr *afiechyd chwysu*, yr hwn a ddistrywiodd, mewn tri diwrnod, un ar ddeg a phedwar ugain o rai ag oeddynt yn dal tai. Cafodd y sylw, fod gan yr angel dinystriol hwn barch i'r ystlen fenywaidd, ei wirioneddoli yma; oblegyd ni fu ond pedair o ferched farw o'r afiechyd.

Yn 1517, dylynwyd ef gan y pla, pryd y bu y fath niferi farw, ac y ffôdd ymaith y fath rifedi, nes yr oedd heolydd y ddinas wedi eu gorchuddio â glaswellt.

Ymddengys nad oedd dinaswyr Caerlleon yn llai enwog nag eiddo Coventry am eu cyflawniadau chwareuyddol.§ Arferent hwy arddangos dwy rywogaeth; un wedi ei ffurfio ar ramant foesol, a'r llall ar hanesiaeth ysgrythyrol. Yn 1529, arddangosasant ar groes uchaf y ddinas, chwareuaeth Robert, brenin *Cicyle*, neu Robert y Diafol, wedi ei benthyca oddiwrth y chwareuaeth Ffrengig o'r enw hwnw.

* Vale-royal, 185. † Speed's Hist. 858.
‡ The Miseries of Queen Margaret, part iv. § Dugdale, i. 249.

Digitized by Google

Hanes Robert, brenin Cicyle,
Balchder barodd iddo dd'od i dylodi.*

Yr oedd Robert, fel y brenin Nebuchodonosor, wedi meddwl ei fod tu hwnt i awdurdod unrhyw fod, dwyfol na dynol. Y nefoedd, er mwyn ei dynu i lawr, a barodd i gwsg trwm syrthio arno yn yr eglwys; ar ol i'r gynulleidfa ymwasgaru, cymerodd angel ei ffurf, gan dwyllo y sawl a weinyddent arno, y rhai a ddylynasant y brenin angylaidd i'r palas, lle y mae yn cymeryd lle Robert. Y mae Robert yn deffro; rhed i'w balas; ni adnabyddir ef; gafaelir ynddo fel twyllwr, ac yn y diwedd y mae yn cael ei apwyntio fel *ffwl y neuadd* i'r brenin newydd; ac

Mewn dillad atgas wedi ymwisgo,
A chynffonau llwynogod lawer o'i gylch,
Ni all'sai dynion yn iawn ei adnabod.

Ar ol dyoddef hir benyd a darostyngiad, y mae yr angel, wedi cael allan fod Robert wedi ei gyflawn iachâu o'i uchelfrydedd, yn ymadael o'i swydd, ac yn adferu y brenin druan i'w orsedd.

Y flwyddyn 1532 a'm hadgofia am y chwareuyddiaethau a gyflawnid yn y ddinas hon. Dyma y chwareuon hynod a adnabyddid wrth yr enw *Dirgelion*, y rhai a gyfansoddwyd yn wreiddiol yn y blynyddoedd 1327 a 1328, gan Randal Higgenet, mynach o Gaerlleon, fel y mae y rhaglith ganlynol yn dangos i ni.

Barchedig wŷr, foneddigesau oll,
Ymgynulledig ar yr adeg hon,
Trwy'r genadwri hyn cewch ddeall fod
Ryw amser ar y ddinas hon yn faer
Syr John Arnway, marchog; boddlawn fu
I roi cefnogaeth deilwng i chwareuon da,
Gwaith *Randal*, mynach o Gaerlleon dref.

Randal, fel yr ymddengys, a gyfansoddodd y *Dirgelion* hyn yn Lladin, ac aeth i lafur dirfawr i gael eu harddangos mewn gwisgoedd Seisonig, oblegyd gorfu arno fyned deirgwaith i Rufain i ofyn am ganiatâd ei Sancteiddrwydd.†

*Chwareuon y Sulgwyn.*

Ereill drachefn oeddynt o lafurwaith Syr *Henry Frances*, mynach arall, fel yr ymddengys oddiwrth ei broclamasiwn am ei chwareuon ar wythnos y Sulgwyn yn y flwyddyn hono, yr hwn a roddid allan gan glerc y Pendist, ac a ddangosai fod—

"Yn yr hen amser, nid yn unig er lledaeniad a chynydd y ffydd sanctaidd gatholig, ac i anog meddyliau y cyffredin bobl i ddefosiwn da ac athrawiaeth iachus, ond hefyd er lles cyffredinol y ddinas hon, chwareuad ac arddangosiad o amrywiol ystoriau y Beibl, gan ddechreu gyda'r greadigaeth, a chwymp Lusiffer, a diweddu gyda barn gyffredinol y byd, i gael eu cyhoeddi a'u dangos yn wythnos y Sulgwyn, y rhai a ddyfeisiwyd ac a wnaed gan Syr Henry Frances, yr hwn a fu am beth amser yn fynach yma, a'r hwn a gafodd gan Clement, y pryd hwnw yn esgob Rhufain, bardwn am 1000 o ddyddiau, a chan esgob Caerlleon ar y pryd, bardwn o 40 diwrnod, i bob dyn a ymgynullai yn dangnefeddus i wrando y chwareuon dywededig; y rhai a sefydlasid er gogoniant i

* Mr. Warton's Hist. Poetry, i. 184. Daniel King a'i geilw yn chwareuaeth *Robert Cecill*.
† Harleian MSS. 2124.

Dduw gan *John Arnway*, y pryd hyny yn faer Caerlleon, ei frodyr a'r holl gyfundeb; i gael eu dwyn allan, eu harddangos, a'u chwareu ar draul a chost crefftwyr a gweithfeydd y ddinas ddywededig," &c. &c.*

Dichon fod y chwareuon hyn wedi pallu er's amser maith, yr hyn a alwai am y proclamasiwn hon, yn nheyrnasiad Harri VIII., y tywysog hwnw ag oedd mor hoff o wag arddangosiadau. Yr oedd tair blynedd a deugain wedi myned heibio er y cyflawniad diweddaf o'r natur yma, pan y chwareuwyd *Dyrchafael y Fendigedig Forwyn* o flaen ei frawd Arthur, yn mhyrth mynachdy y ddinas hon.

Y *Dirgelion* hyn oeddynt gychwyniad aflerw y *theatre* (chwareudy) Seisonig. Yr oedd ein chwareuyddiaeth, fel y sylwa y cyfarwydd Mr. Warton, mewn amseroedd boreuol yn gwbl gyfyngedig i byngciau crefyddol; ac nid oedd y chwareuyddiaethau yn ddim amgen nag attodiad at ddefosiwn gwych a pheiriannyddol yr oes hono.† Cyfeiriaf y darllenydd at hanes difyrus y boneddwr hwnw am ddechreuad a chynydd y cyflawniadau hyn; a chyfyngaf fy hun at ychydig engreifftiau o arddangosiadau gwrthun a choelgrefyddol yr amseroedd hyny, pan y byddai y gynulleidfa yn gwrando gyda'r defosiwn a'r edmygedd mwyaf ar yr hyn a gynyrchasai yn yr oes bresenol chwerthiniad llawen mewn chwareudy, ar gyfrif ei afresymoldeb, neu wawd tuag at y rhan ddifrifol, ar gyfrif ei hannuwioldeb anfwriadol. Ni wnaf ond nodi wrth ddechreu, mai yn yr eglwys y cynelid y chwareuon hyn, er gwaethaf bygythion y creulawn Bonner, a'r duwiol Grindal.

Yr oedd y chwareuon hyn yn bump ar hugain mewn nifer. Chwareuwyd hwy am fwy na thair canrif, o flaen y gynulleidfa lygadrythol, y rhai a dderbynient y pyngciau diamrywiaeth gyda'r un boddhad blynyddol ag y mwynhai y Rhufeiniaid eu chwareuon yn adegau eu symlrwydd gonest.

> Tandemque redit ad pulpita notum
> Exodium, cum personæ pallentis hiatum,
> In gremio matris formidat rusticus infans.‡

Nid ydym ni yn eu cael yn ngeiriau y dyfeisydd gwreiddiol; oblegyd, trwy fod yr iaith a'r farddoniaeth wedi myned allan o arfer, cyfnewidiwyd hwy i arddull yr amser hwnw, at chwareuyddiaethau yr unfed ganrif ar bymtheg, a byddent yn cael eu hactio gan grefftwyr perthynol i'r pum' cwmni ar hugain, wedi eu dilladu mewn gwisgoedd cyfaddas.

1. Y Crwynwyr a actient chwareuyddiaeth Cwymp Lusifer. Arweinir i mewn fel hyn:—

> Chwi addoladwy Grwynwyr, y rhai, er's amser maith,
> Ddangosent gwymp y cythraul o'r nef i'r ddaear laith;
> Rhai ysgrifenwyr gredir, gan hyny dylai fod
> Eich pwngc i chwareu'r unrhyw yn fedrus er eich clod;
> Er mwyn yr awdwr bydded eich arddangosfa'n fyw,
> Iaith dlôs, chwareuwyr hawddgar, mewn gwisgoedd heirdd eu rhyw.

* Harleian MSS. 2013. † History of English Poetry, i. 237.

‡ Juv. Sat. iii. Lib. 1.

> Yr unrhyw gerdd aflerw a glywir gan y caeth,
> A chan ryw hen draddodiad cyfrifir hon yn ffraeth;
> Y dynwarediad hyfryd bob blwyddyn sydd yr un,
> A'r baban gwladaidd ofna yn mreichiau'i fam ei hun.

Digitized by Google

Diau fod y bardd Shakspeare yn ei bryddest ar y "*Midsummer-Night's Dream*," wedi tynu ei gymeriadau personol oddiwrth chwareuwyr o'r rhywogaeth yma.

2. Y Dilladwyr a arddangosent Greadigaeth y Byd. 3. Dyfrgludwyr yr afon, gyda phriodoldeb mawr, a gymerent i fyny Hanes y Diluw, yr hwn, yn gymaint a'i fod yn cael ei drin yn dra difyrus, y bydd i mi ddyfynu rhan o hono yma, fel cynllun o'r gweddill. Y mae eu rhagarweiniad yn eu hysbysu "fod Noa wedi myned i'r arch, yn nghyda'i holl deulu, oddieithr ei wraig." Ar ol y rhestr hirfaith o anifeiliaid, adar, bwystfilod, &c., ag y tybir iddynt fyned i'r arch, y mae Noa yn galw fel hyn ar ei wraig:—

NOA.*

Wraig, tyr'd i mewn, pa'm sefi draw,
Mewn pobpeth arall wyt flaen llaw;
Tyr'd yma, canys mae'n llawn bryd,
Rhag ofn ein boddi gyda'r byd.

GWRAIG NOA.

O! syr, cyfodwch hwyl i fyny,
A rhwyfwch allan gydag egni;
Oblegyd tra y dalio tir,
Ni ddeuaf ymaith, ar fy ngwir.
Mae'r gwragedd gyda mi'n chwedleua,
Ac ni symudaf gam oddi yma;
Ni chânt foddi, myn Sant Puw,
Tra gallaf fi eu cadw'n fyw.
Maent hwy yn hoff o honof fi,—
A gânt hwy dd'od i'th lestr di?
Neu rhwyfa ymaith i'r lle myni,
A chais wraig arall it', os gelli.

NOA.

Fab Sem, mae'th fam yn ddynes groes,
Ei bath ni welais yn fy oes.

SEM.

Mi âf i'w nhol, fy nhad, i'r arch,
Os dengys ichwi radd o barch.
Mam, mae 'nhad yn galw'n greulon,
Am ichwi dd'od i'r llestr weithion;
Yspiwch draw, mae'r gwynt yn chwythu,
A ninau am godi hwyliau i fyny.

GWRAIG NOA.

Dos at dy dad, a d'wed yn groyw,
Na ddeuaf fi i'w lestr heddyw.

NOA.

Tyr'd yma, wraig, a phaid gwneyd trwbl,
Neu aros allan byth a chwbl.

CAM.

A gawn ni ei gorfodi i dd'od?

NOA.

Cewch, feibion, a bydd er eich clod;
A brysiwch hefyd, canys gwn
Fod arnaf ofn y diluw hwn.

Y CHWEDLEUESAU.

Mae'r diluw'n d'od o'r gelltydd draw,
A'r dwfr yn llenwi ar bob llaw;
Ni gawn ein boddi gyda'r byd,—
Dyneswn at yr arch mewn pryd.
A mynwn ddyferyn cyn gwneyd hyny,
Can's mynych iawn y cawsom felly;
Ti yfi chwart ar un traflyngciad,
Ac felly finau mewn amrantiad.
Dyma botelaid o win da, cry',
Llawena hwn y galon gu;
Ac er i Noa ein gwel'd yn hir,
Ni fynwn lymaid bach o fir.

JAPHETH.

Erfyniwn arnoch, mam, mewn pryd,—
Eich plantos ydym ni i gyd,—
O dowch i'r llong rhag ofn y dw'r,
Pryderus yw ein tad, bid siwr.

GWRAIG NOA.

Ni ddeuaf ddim, er eich holl draeth,
Ond mynaf fy nghymdeithion ffraeth.

SEM.

Yn wir, fy mam, rhaid i chwi dd'od
O fodd neu anfodd, er ein clod.

NOA.

O tyred, wraig, i'r arch trwy deg.

GWRAIG NOA.

Hwda di hyna, a chau dy geg,
[*gan roi ergyd i Noa ar ei glust.*]

NOA.

O! Mari, tymher ddrwg yw hon;
Da yw tawelwch dan y fron.
Blant, tybiaf fod yr arch yn nofio,
Os felly, ni thâl i ni dario;
Y dyfroedd ar y tir sy'n codi:
Ewyllys Duw a wneler felly.

* Copïwyd hyn o'r MS. yn y Bodleian Library.

4. Yr Eillwyr a'r Canwyllwyr a arddangosent Abraham yn dychwelyd o ladd y pedwar brenin, &c.

5. Y Llieinwyr a'r Gwneuthurwyr Capiau a gymerent i fyny ystori Balaam a'i asyn; ac y maent yn peri i'r prophwyd anerch ei anifail mewn geiriau rhy isel a digrif i gael eu hail-adrodd. Ymddengys fod llawer mwy o barch yn cael ei arddangos i'r anifail hwn mewn teyrnas gyfagos, lle y cynelid gwyl flynyddol er anrhydedd iddo. Yr oedd y *festa asinaria*, neu wyl yr asynod, yn cael ei chadw yn Ffraingc yn nechreuad y bymthegfed ganrif;* pan y byddai yr anifail, wedi ei orchuddio â chlôg, yn cael ei ddwyn i mewn i'r eglwys, a'r clerigwyr yn ei ddylyn, y rhai a'i cyfarchent â'r emyn canlynol:—

O'r gwledydd dwyreiniol
Daeth yr asyn rhinweddol;
Un prydferth, a nerthol
At lwythi anferthol.
Ho! syr Asyn, ho!

Ar fryniog dir gweirglodd
Reuben a'i magodd,
'R Iorddonen a groesodd,
I Fethl'em carlamodd.
Ho, &c.

Aeth heibio y mulod,
Y ceirw a'r geifr hynod,
Tu hwnt mewn cyflymdra
I ddromedariaid Media.
Ho, &c.

Aur melyn Arabia,
Thus a myrrh o Seba,
Ddygodd i'r eglwys,
Hen asyn cyfrwys.
Ho, &c.

Tra tynai'r cerbydau,
Rai ysgafn eu pwysau,
Gwnai'i ddannedd caledion
Ei ebran yn yfflon.
Ho, &c.

Gyda chòl grawn yr heidden
Bwytâi yr ysgallen;
Us o'r gwenith, rywfodd,
Ar lawrdyrnu nithiodd.
Ho, &c.

Amen, meddi, asyn,
Wyt lawn o rawn melyn;
Amen, boed yn ddibaid
It' droedio'th hynafiaid.
Ho, &c.

6. Y Seiri a'r Towyr a ddatganent am Enedigaeth Crist. 7. Y Paentwyr a'r Gwydrwyr, am Ymddangosiad yr Angylion i'r Bugeiliaid. Y Darllawyddion am Ymadawiad y Doethion, neu y tri Brenin o'r Dwyrain, yn eu hymchwiliad am ein Hiachawdwr. 9. Y Sidanwyr am offrymau y tri Brenin. 10. Yr Eurych am ladd y Plant Bychain; a cheir ganddynt ymddiddan hynod rhwng y milwyr a'r gwragedd. 11. Y Gofaint a ddangosent fel yr oedd Crist yn dadleu â'r doctoriaid yn y deml. 12. Y Cigyddion a ddangosent fel yr arweiniwyd ef gan yr Yspryd i'r anialwch. 13. Y Glwferiaid a adroddent hanes marwolaeth Lazarus. 14. Y Barceriaid, am yr Iesu a'r Gwahangleifion. 15. Y Pobwyr, am y Swper diweddaf. 16. Y Plüyddion, y Bwäwyr, y Cwperiaid, a'r Llinynwyr, a ddewisent hanes y Dyoddefaint. 17. Yr Haiarnyddion, Hanes y Croeshoeliad. 18. Y Cogyddion a adroddent hanes disgyniad Crist i Uffern, a'r hyn a wnaeth efe yno; yr hwn a derfyna gyda hysbysu fod ein Gwaredwr wedi achub yr holl saint allan o'r Purdan, heb adael ar ol ond un hen wraig yn unig (dichon ei bod yn gymeriad gwirioneddol ar yr adeg pan y

* Memoires, &c. dela Fête des Foux, 14. Gwel hefyd ychwaneg ar y mater yma gan Mr. Warton, yn ei *History of Poetry*, i. 246.

Digitized by Google

cyfansoddwyd y chwareuyddiaeth hynod yma,) yr hon a gyffesai ei phechodau mewn araith hir:

Bum un adeg yn dafarnwraig,
Chwedleues dyner, a gwas'naethwraig,
O win a chwrw bum ddarllaw-wraig,
   Yr hyn a'm dygodd i dan wg.
Wrth werthu nid oedd genyf fesur,
Gwerthwn y cwbl oll ar antur,
Gan dwyllo llawer hen greadur,
   Er bod fy nghwrw yn ddrwg.

Yna croesawir hi gan y diafliaid; yr hyn a derfyna y chwareuyddiaeth.

Y mae Mr. Clarke, yn ei Lythyrau ar y genedl Yspaenaidd, wedi rhoddi peth hanes am gyflwr eu chwareuon, yn ein difyru â'r rhan hono o'u chwareuyddiaethau ag sydd yn dal perthynas â'n dirgelion hynafol ein hunain.

"Ar ol i dipyn o amser fyned heibio, ac ar ol i rai arddangosiadau gael eu cyflawni, y rhai oeddynt yn hirfaith, blinedig, annyddorol, ac yn llawn o ffwlbri ac ymchwydd gwag, y mae yr olygfa ardderchog yn dynesu: ymddangosodd actiwr, mewn gwisg hirllaes o borphor, yn nghymeriad Iesu Grist, neu y *Nuestro Senor,* fel y gelwir ef ganddynt hwy: yn ddiatreg, rhoddwyd mwgwd ar ei lygaid, cernodiwyd ef, poerwyd arno, rhwymwyd a fflangellwyd ef, coronwyd ef â drain, a gorfodwyd ef i ddwyn ei groes; yna penliniai, a llefai, *Padre mio! Padre mio!* FY NHAD! FY NHAD! paham y'm gadewaist? Ar ol hyn gosodai ei gefn ar y mur, a'i ddwylaw ar led, ac yno efelychai ingoedd marwol ei Arglwydd trengedig. Ond beth a feddyliech chwi, fy nghyfaill, ydoedd diwedd yr olygfa ddychrynllyd a difrifol hon? Wel, yn sicr un yn mhob ffordd yn gyfaddas i urddas a difrifoldeb yr achlysur: y mae un o'r chwareuyddesau yn rhyddhau Crist, ac yn cymeryd i ffwrdd ei goron a'i wisg o ysgarlad; ac wedi iddo ymwisgo yn ei berwig a'i bais, y mae yn ymuno gyda'r gweddill o'r chwareuwyr, ac yn dawnsio *sequedilios.*

Spectatum, admissi, risum teneatis, amici?*

"Gyda golwg ar y *sequedilios,* neu y ddawns, nid yw, ar y chwareufa Yspeinig, yn ddim amgen na cherdded yn araf y naill o gwmpas y llall; er, pan y dawnsir hi mewn tai preifat, ei bod mewn llawer o bethau yn ymdebygu i'r ddawns Seisonig. Ar ol hyn, y mae un o'r chwareuyddesau, mewn araith hir, yn esponio natur, dyben, ac amcan y sacramentau. Dylech ddeall fod yr Yspaeniaid yn caniatâu nifer mawr o ymsoniadau *(soliloquies,)* y rhai ydynt yn llawn o areithyddiaeth diddiwedd, yn eu chwareuon. Yn yr arddangosfa olaf, yr oedd *Crist* yn ymddangos yn orfoleddus mewn llong; ac felly y terfynai y chwareuaeth. Anghofiais eich hysbysu, fod Crist, cyn ei ddyoddefaint, wedi pregethu i bedwar chwarter y byd, yn eu gwisgoedd priodol, ar y chwareufan: fod Ewrop ac America wedi ei wrando yn llawen, a derbyn y ffydd; ond fod Asia ac Affrica wedi parhau yn ystyfnig." Gwel Lythyr VI.

Dyma y cwbl a adroddaf fi o'r tomenau hyn o chwedlau afresymol.

*1542. Puteindai Cyhoedd.* Yr oedd y ddinas hon, hyd yr adeg yma, wedi cael goddef ynddi buteindai cyhoeddus, y rhai, am amryw ganrifoedd, a ganiateid gan awdurdod gyfreithiol, ac a reoleiddid gan

* "Wedi gweled y peth, fy nghyfaill, a allaset ti beidio chwerthin?"

ddeddfau rhagorol, o ordeiniad Tŷ y Cyffredin, yn cael eu cadarnhau gan y brenin a'r arglwyddi. Cafodd tai felly yn Southwark ymyryd â hwy mewn modd neillduol yn 1161, yr wythfed o Harri II. Y mae un erthygl yn rhoddi lle i ni gredu fod rhyw afiechyd pennodol wedi gwreiddio yn foreuach nag yn amser y gwarchae ar Naples; oblegyd gwahardda i geidwaid puteindai gadw unrhyw ferch ag a fyddo o dan yr *afiechyd peryglus o losgach.** Nodid allan eu tai trwy fod eu wynebau wedi eu gwyngalchu, bod ganddynt arwyddfyrddau, nid yn hongian oddiallan, ond yn baentiedig ar y muriau. Yn mysg yr arwyddion, mi a welais lun het cardinal. Er fod y ceidwaid yn cael eu hamddiffyn yn eu galwedigaeth, eto ystyrid hwy yn bobl ddrygionus; nid oedd ganiatâd iddynt wasanaethu fel rheithwyr, na chadw tafarn.† Yr oedd y merched perthynol iddynt yn cael eu cau allan o ordinhadau yr eglwys, mor hired ag y glynent yn eu galwedigaeth, ac ni roddid iddynt gladdedigaeth Cristionogol, oni byddent wedi cael maddeuant cyn marw. Harri VIII. a ddileodd y tai hyn yn Surrey yn 1537; a'r rhai yn y ddinas hon yn 1542.

Hynodwyd y flwyddyn 1554 gan un o weithrediadau creulawn teyrnasiad Mari Waedlyd, sef llosgi *George Marsh*, oherwydd ei ymlyniad wrth y ffydd Brotestanaidd. Mynych y clywais y teilwng Ddoctor William Cooper yn dywedyd, pan ddygwyd Marsh i Boughton, lle y dienyddiad, gan y siryddion Amory a Cooper, fod yr olaf—yr hwn oedd yn un o hynafiaid y doctor, ac yn bleidiol i grefydd y dyoddefydd—wedi gwneyd ymgais i'w gael yn rhydd; ond trwy iddo gael ei oruwchreoli gan ei gydswyddog, gorfu arno ddiangc hyd nes y deuai amserau gwell, pryd y dychwelodd, a daliodd y swydd o faer yn 1561.

Daeth amseroedd hoenus ar ol hyn, efallai o barch i chwaeth yr ardderchog, ond rhamantus frenines Elizabeth. Yn y flwyddyn 1564, ar y Sul ar ol Gwylifan, yn ystod maeroliaeth Syr Lawrence Smith, cafodd "hanes Æneas a'r Frenines Dido ei chwareu ar y *Rood's eye*, wedi cael ei barotôi gan William Croston, boneddwr, a Mr. Man; ar ba achlysur y gwnaed dwy amddiffynfa, a llongau ar y dwfr, heblaw lluaws o wŷr ceffylau wedi eu harfogi a'u harneisio yn dda." Ymddengys fod yr amddiffynfeydd a'r llongau yn fath o arddangosiadau, i gario allan ryw weithred o wrhydri. Yr ydym yn clywed am y llong *Clod, yn llwythog o Enw da*, yn mysg arddangosiadau Harri;‡ ac *Amddiffynfa Prydferthwch, yn cael ymosod arni gan Ddymuniad rhinweddol*, yn mysg yr eiddo Elizabeth.§ Yr oedd yr ymosodwyr yn curo arni â sypiau o flodau; a'r rhai gwarchäedig a arllwysent yn eu herbyn gyflegrau wedi eu llenwi â phowdwr persawrus, neu ddyfroedd peraroglaidd.

Yn ystod maeroliaeth Syr Lawrence, yr ydym yn cael hanes am arddangosfa arall, un flynyddol, ar noswyl St. Ioan Fedyddiwr; oblegyd y mae Syr Lawrence, a'r henaduriaid, a'r cynghor trefol, yn gwneyd cytundeb â dau baentiwr, ar fod iddynt barotôi y pethau canlynol, "ynghyda phob addurniadau perthynol iddynt, sef, pedwar cawr, un unicorn, un dromedari, un penhwyad llawndwf, un camel, un asyn, un ddraig, chwech o ebolion, ac un ar bymtheg o fechgyn yn noethlymun; ar ol i'r cyfryw fod yn barod, ar iddynt ddwyn neu gario, neu beri cael eu dwyn neu eu cario, yn ystod y wyliadwriaeth, o le i le,

* Stow's Hist. London, ii. book iv. 7. † Drake's Parlem. Hist. ii. 233.
‡ Hollinshed, 809. § Yr unrhyw, 1318.

Digitized by Google

yn ol fel ag y buwyd yn arferol o wneyd," &c.* Nis gallaf ddychymygu beth oedd amcan y portread yma; ond canfyddaf fod terfyn wedi ei roddi arno yn ystod maeroliaeth 1599.

Ni ddylai rhinwedd Edward Dutton, maer y ddinas yn 1604, gael ei basio heb sylw arno. Y swyddog teilwng yma, fel esgob daionus Marseilles, a gadwodd ei orsaf yn ystod holl adeg ymweliad pla dinystriol:

"Pan y clafychai natur, ac angeu yn mhob chwa."

Ymwelodd y pla â'i dŷ, a bu farw rhai o'i blant a'i weinidogion. Symudwyd cwrt y canghelldy i Tarvin; cynaliwyd brawdlys Gwyl Fihangel yn Namptwich; a pheidiodd y ffeiriau yn ystod yr ymweliad alaethus yma.

Yn y flwyddyn 1617 cafodd y ddinas ei hanrhydeddu â phresenoldeb Iago I., lle y derbyniwyd ef gyda mawredd a wnelai anrhydedd i'r lle. Y maer, Edward Button, a anrhegodd ei fawrhydi â chwpan, wedi ei gorchuddio â chauad dwbl-euredig, ac ynddi gant o ddarnau aur a elwid *jacobins*. Efe hefyd a roddodd i fyny i'w fawrhydi gleddyf y ddinas, yr hwn a'i dychwelodd iddo, ac ar ol hyny dygai y maer y cleddyf o'i flaen ef ar geffyl. Cynygiwyd iddo yr urddas o gael ei wneyd yn farchog, ond efe a'i gwrthododd. Ni chyfyngodd y ddinas ei mawrfrydigrwydd i benau coronog: yr wyf yn cael fod Robert iarll Leicester, yn 1583, canghellydd y "sîr freninol," wedi cael y derbyniad mwyaf anrhydeddus; croesawyd ef yn y groes uchaf gan yr holl gorphoraeth, rhoddwyd gwledd iddo gan y maer, ac anrhegwyd ef â chwpan yn cynwys deugain o ddarnau aur, gwerth degswllt yr un. Yr anffodus iarll Essex, yn 1598, ar ei ffordd i'r Iwerddon, a groesawyd yn fwy urddasol fyth. Anrhegwyd ef â'r cyffelyb swm; ond mewn cwpan o'r un gwneuthuriad ag a roddwyd ar ol hyny i'r brenin Iago.

O'r flwyddyn 1617, nis gallaf ddarganfod dim o hynodrwydd neillduol am hir amser; hyd nes y daeth y ddinas i helbulon gwarchae yn 1645—6, mewn canlyniad i'w ffyddlondeb diysgog i Siarl I. Ar doriad allan y rhyfel cartrefol, talwyd sylw uniongyrchol i'r ddinas bwysig hon gan bleidwyr y brenin. Gosodwyd yr amddiffynfeydd yn y dull goreu o ran adgyweiriad, a chodwyd gweithiau allanol o'r gilfach ar y mur gogleddol, hyd at ymyl yr afon yn agos i Boughton; ac mewn canlyniad i hyny, tynwyd lluaws o dai i lawr, rhag iddynt roddi lloches i'r gelyn. Yr ymgais gyntaf ar y lle gan fyddin y senedd a wnaed ar y 20fed o Orphenaf, 1643, pan y darfu i Syr William Brereton wneyd ymosodiad ffyrnig ar yr amddiffynfeydd, ond cyfarfu â gorchfygiad. Yn yr un flwyddyn efe a anfonodd wŷs i Syr Abraham Shipman, yr hwn oedd y pryd hyny yn llywodraethwr, yn gofyn iddo roddi y ddinas i fyny: ond y llywodraethwr dewrfrydol a barodd iddo ddyfod a'i henill, a gwisgo yr anrhydedd.

Wedi i Arglwydd Biron gael ei orchfygu o flaen Namptwich, yr oedd sîr Gaerlleon braidd yn gwbl yn nwylaw Syr William Brereton, ac o'r amser hwnw goddefodd y ddinas fath o warchaead o'r manau hyny a ddaliai y gelyn yn y gymydogaeth, hyd yn nod mor belled a phentref Christleton. Rhuthrid allan, a gwneid ymgyrchiadau mynych; a hyny, fel y dywed dyddlyfr y gwarchae, er mantais i bleidwyr y brenin.

* Harleian MSS. No. 1961.

Digitized by Google

Medi 19eg, 1645, enillodd y senedd fantais ag oedd yn anadferadwy i'r rhai gwarchäedig. Y milwriad Jones, a'r *adjutant-general* Lothian, y rhai oeddynt wrth y gorchwyl o ddarostwng castell Beeston, a dynasant o'r lle hwnw, yn ddirgel, nifer mawr o filwyr, a'r noson hono cymerasant y gweithiau allanol, ac a ddaethant yn feddiannol ar bobpeth, hyd at furiau y ddinas. Ei Fawrhydi, yn uniongyrchol ar ol hyn, a ddaeth trwy Gymru, ac a aeth i mewn i'r ddinas hon, gyda'r amcan o galonogi y gwarchawdlu, a lletyodd yn nhŷ Syr Francis Gamul, yn agos i'r bont. Eithr ni ddaeth yno ond yn ddigon buan i fod yn llygad-dyst, o ben tŵr y Phœnix, o'r frwydr alaethus ar forfa Rowton, ar y 24ain o Fedi; pan y cafodd ei fyddinoedd, o dan Syr Marmaduke Langdale, y rhai oeddynt ar eu hymdaith i godi y gwarchae, eu gorchfygu, ar ol brwydr galed, gan alluoedd rhagorach y Cadfridog Pointz. Arosodd y brenin y noson hono yn Nghaerlleon; ac wrth ymadael dranoeth, a roddodd orchymyn i'r llywodraethwr, arglwydd Biron, os na fyddai ymwared mewn golwg o fewn wyth niwrnod, ei fod i ddyfod i gytundeb am roddi y lle i fyny. Aeth y brenin ar ei ffordd trwy Ddinbych, yn cael ei ddylyn hyd y dref hono gan dri o ddinasyddion parchus, Syr Francis Gamul, yr henadur Cooper, a'r cadben Thropp. Canlynwyd ar y gwarchae gyda'r bywiogrwydd mwyaf, gan Syr William Brereton; ond er hyny, daliodd y gwarchawdlu dewr allan am ugain wythnos, tu hwnt i ddysgwyliadau pawb: ac wedi cael eu darostwng i fyw ar geffylau, cŵn, a chathod, rhoddasant i fyny, ar y 3ydd o Chwefror 1645—6, ar amodau a barent anrhydedd i yspryd y gwarchäedigion. Ymadawodd gwŷr y brenin o'r ddinas, a phennodwyd y milwriad Jones, gan y senedd, yn llywodraethwr. Ond ni therfynodd trueni y dinasyddion gyda'r gwarchae; torodd allan bla arswydus yn 1647; bu farw dwy fil o'r trigolion, a daeth y ddinas bron yn anghyfanedd.

*Y Bont.* I'r dyben o roddi hanes pellach am adeiladau milwrol, gwladol, ac eglwysig y ddinas hynafol hon, yr wyf yn dychwelyd yn fy ol at y bont. Yr oedd y fynedfa yma yn bodoli yn flaenorol i'r Congcwest; ar yr adeg hono ymddengys ei bod naill ai wedi ei dinystrio, neu ynte ei bod gymaint mewn angen am adgyweiriad, fel yr wyf yn cael gorchymyn yn y *Doomsday Book*, fod i'r llywodraethwr wysio un dyn o bob cyfair o dir yn y sir at ail-adeiladu y bont a'r waliau; ac os byddai i rywun esgeuluso ymddangos, fod i feistr tir y person a wysiwyd felly dalu i'r brenin a'r iarll ddeugain swllt.

Yn ol hen lawysgrif a ddyfynir gan Mr. Grose, dechreuwyd hi gan adferydd mawr y ddinas, *Ethelfleda*, ac ar ol ei marwolaeth hi, iddi gael ei gorphen gan ei brawd Edward. Cyn yr amser hwnw, croesid yr afon trwy borthfa a dramwyai rhwng yr adeilad a elwid y *Ship-gate* a Maes Edgar. Nid yw yn ymddangos i mi fod un rhan o'r bont Saesonaidd yn aros, gan mor fynych yr adgyweiriwyd hi er y cyfnod pellenig hwnw.

*Y Sarn a'r Melinau.* Islaw i'r bwa agosaf i'r ddinas y mae ffrydlif, yr hwn, trwy gymhorth morglawdd mawr, neu sarn, sydd yn croesi yr afon ar wyrdraws, a ddiwalla felinau y ddinas â dwfr. Y melinau hyn, a'r sarn, a adeiladwyd ar y cyntaf gan Hugh Lupus,* a chadwyd hwy mewn bodolaeth gan ei olynwyr, ac wedi hyny gan ieirll Caerlleon o'r llinach

* Harleian MSS. 2032. 10. 2003. 41, 43.

Digitized by Google

freninol. Yr wyf yn deall ei bod yn cael eu gosod yn fynych gan y goron. Iorwerth, y Tywysog Du, yn enwedig, 1355, a'u caniataodd—y pysgota, y llys, &c.—am dair blynedd, i Robert o Bredone, person eglwys St. Pedr yn Nghaerlleon, ac ereill, am yr ardreth flynyddol o 190*l*.* Yr oedd yr ardreth hon yn anarferol o uchel yn y dyddiau hyny; ac achlysurid hi gan y ffaith fod pob trigianydd yn y ddinas o dan orfodaeth i falu yn y melinau hyn, oddieithr tirddeiliaid abad a mynachod St. Werburgh, ac mewn amseroedd ar ol hyny, tirddeiliaid y deon a'r côr offeiriadol, a breswylient oddiallan i Borth y Gogledd, gan y rhai yr oedd melin o'r eiddynt eu hunain yn *Bachpool.*

Rhaid i mi ofalu am grybwyll, fod y melinau hyn wedi cael eu caniatâu am ei oes i'm cydwladwr Syr Hywel y Fwyall, am ei wrhydri yn cymeryd Ioan, brenin Ffraingc, yn garcharor, yn mrwydr *Poitiers.* Gwnaed hyn hefyd gan y Tywysog Du, yr hwn nid yn unig a wnaeth Hywel yn farchog, ond hefyd a ganiataodd fod i saig o fwyd gael ei gweini o flaen ei fwyall, er cof am y defnydd rhagorol a wnaethai efe o honi ar y diwrnod hwnw, oddiwrth yr hyn y derbyniodd yr enw Syr Hywel y Fwyall.†

*Porth y Bont.*] Ar bob ochr i hen Borth y Bont *(Bridge-gate)* yr oedd dau o dyrau crynion; ac uwch ei phen yr oedd y tair pluen, paisarfau tywysogion Cymru. Gwisgwyd hwy gyntaf gan y TYWYSOG DU, ar ol brwydr Cressi, yn 1346: haera ein haneswyr mai y tair pluen estrys, y rhai a wisgai brenin Bohemia yn ei goron, ar y diwrnod hwnw, oeddynt; ac iddo gael ei ladd gan Iorwerth, yr hwn a gymerodd ei helm-addurn, ac a'i gwisgodd ar ol hyny, y plu a'r arwyddair, *Ich dien* (Yr wyf yn gwasanaethu.) Teimlaf yn anewyllysgar i anurddo anrhydedd ein tywysog ieuangc dewr, trwy dybio y buasai yn ystaenio ei gleddyf mewn ymladdfa mor anghyfartal. Yr oedd y brenin yn ddall gan henaint; ac wrth ddeall fod y frwydr yn myned yn erbyn ei gynghreiriaid, arweiniwyd ef, trwy ei orchymyn ei hun, i boethder yr ymladd, gan benderfynu marw yn achos Ffraingc. Dichon fod ein tywysog dewr wedi mabwysiadu yr arwyddnod breninol hwn mewn coffadwriaeth am y diwrnod hwnw, a'i ychwanegu at ei baisarfau ei hun, *Ich dien*, yr hen eiriau Seisonig am *Yr wyf yn gwasanaethu*, gan gyfeirio at yr adnod hono yn yr Ysgrythyr, "*Dros gymaint o amser ag y mae yr etifedd yn fachgen, nid oes dim rhagor rhyngddo a gwas;*"‡ teimlad ag oedd yn dra chyfaddas i wylder noddweddiadol a duwioldeb mabaidd y tywysog hwn.

Yr oedd y porth hwn, a phyrth ereill y ddinas, wedi eu gosod dan nawdd rhai gwŷr mawr a ddalient diroedd yn y sir freiniol. Iarll Amwythig a ofalai am Borth y Bont; iarll Rhydychain am Borth y Dwyrain; ac iarll Derby am Borth y Dwfr. Ond yr oedd Porth y Gogledd, yr hwn a berthynai mewn modd neillduol i'r ddinas, yn cael ei ymddiried yn gwbl i'w phrif ynadon. Codid tollau am fyned trwyddynt, oddiar bob dyeithriaid, er cynal y wyliadwriaeth; ac er fod yr achos wedi peidio er's llawer o amser, y mae tollau o hyd yn cael eu gofyn yn Mhorth y Bont.

*Gweithydd Dwfr.*] Uwch ben y porth fe safai tŵr wythonglog uchel, yr hwn a ddechreuwyd yn 1600, trwy ganiatâd y gorphoraeth,

* Harleian MSS. 2081. 21. † Hist. Gwydir Family. Fifteen Tribes of North Wales.
‡ Camden's Remains, 344.

gan John Tyrer o'r ddinas hon, a chynwysai y gweithydd a fuont am hir amser yn codi dwfr o'r afon Ddyfrdwy i ddyfrgist yn y pen uchaf, o ba le y trosglwyddid ef trwy bibellau braidd i bob rhan o'r ddinas. Dichon nad oedd y rhai hyn yn ateb y dyben yn effeithiol: oblegyd yn 1622, cafodd Tyrer ganiatâd o'r newydd i ddefnyddio tŵr a adeiladesid at waith dwfr a safle ffynhon, ddeg troedfedd ysgwâr, yn agos i *Spittle Boughton*, gyda chyflawn awdurdod er trosglwyddo y dwfr i'r ddyfrgist, neu y bibell ddwfr, gerllaw y groes uchaf. Y gwaith yma (yr hwn a ddechreuasid ar y cyntaf gan y *mynachod duon* yn amser Iorwerth I.*) a aethai yn adfeilion. Yn 1692, gan fod y gweithydd a godasid gan Tyrer wedi eu cael yn adfeiliedig a diwerth, John Hopkins a John Hadley, trwy gefnogaeth y gorphoraeth, a ddechreuasant weithydd newyddion er adgyflewni y ddinas â dwfr o'r afon Ddyfrdwy: ac i'r dyben hwnw, prynasant y caniatâd a roddasid i Tyrer, ac hefyd un o'r melinau ŷd, er mwyn cael lle cyfleus i osod i fyny eu peiriant. Cadarnhaodd y ddinas iddynt yr holl awdurdod a fuasai gan Tyrer, ac yn enwedig yr hawl i osod i fyny ddyfrgist gyferbyn a chwrt y fynachlog, fel derbynfa wastadol i ddwfr croyw.

Y mae hen Borth y Bont, yn nghyda'r tŵr wythonglog wedi eu tynu i lawr er's mwy na dwy flynedd yn ol; a bwa prydferth, o gynlluniad Mr. Joseph Turner, yn bresenol yn cyflenwi lle y blaenaf.

*Y Waliau.* Y mae un esgynfa i'r waliau yn sefyll yn agos i Borth y Bont; y rhai ydynt yr unig enghraifft gyfan o hen amddiffynfeydd yn awr yn Mhrydain. Y maent yn filldir a thri chwarter, a chant ac un o latheni o amgylchedd; a chan mai hon yw prif rodfa y trigolion, cedwir hwy mewn adgyweiriad rhagorol trwy gyllid pennodol, a elwir tollau y muriau, *Tollau y Muriau.* y rhai a gesglir yn y tolldy, ar bob nwyddau a marsiandïaeth a ddygir i borthladd Caerlleon o wledydd tu draw i'r moroedd, ac yn eiddo i bersonau nad ydynt yn rhyddfreinwyr o'r ddinas hon. Y mae lliain o'r Iwerddon yn ychwanegu yn ddirfawr at y drysorfa yma, gan ei fod agos yn ddwy ran o dair o'r cwbl: y doll ar y nwydd yma ydyw dwy geiniog ar bob cant o latheni. Yr oedd y derbyniadau blynyddol† oddiwrth yr amryw dollau, ar gyfartaledd yn ystod y saith mlynedd diweddaf, oddeutu £120. Y mae swyddog, a elwir yn arolygwr y muriau, yn cael ei ddewis allan o'r henaduriaid, i edrych ar ol yr adgyweiriadau; hen aelod yn gyffredin, i'r hwn y mae y swydd yn ddifyrwch yn ogystal ag yn iechyd. Y mae y drysorfa hon yn bresenol yn un barhaol: yn yr hen amseroedd, nid oedd tollau y muriau ond pethau achlysurol. Fel hyn, yn y 14eg o Iorwerth II. yr oedd treth o ddimai yn cael ei chaniatâu am ddwy flynedd am bob *cranock* o ŷd; ffyrling am yr un faint o gwrw, blawd, a brag; ac am nwyddau na enwid yn y caniatâd, ffyrling allan o bob gwerth deuswllt.

Nis gallaf ddarganfod unrhyw olion o'r hen waliau cyntefig, y fath a'r rhai y dywedir eu bod wedi eu hadferu gan y ryfelgar *Ethelfleda*. Ni fynwn er dim,

* De aquæductu per ipsos *(the black friars)* faciendo a fonte prope furcas. Vide Tanner, 65.
"Gyda golwg ar wneyd dyfrffos ganddynt (y mynachod duon) o'r ffynhonell gerllaw y mynedfeydd."

† Yr oedd y cyfartaledd yn cyrhaedd

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Yn 1786, i | £293 | 0 | 0 | |
| Yn 1796, i | 122 | 0 | 10½ | |
| Yn 1806, i | 61 | 4 | 9 | GOL. |

Digitized by Google

dynu y mymryn lleiaf oddiwrth glod y foneddiges hon; ond rhaid i mi nacâu iddi yr anrhydedd o fod wedi sylfaenu yr amddiffynfeydd, a helaethu y ddinas tu allan i'r cyffiniau Rhufeinig.* Y mae y ffurf bresenol mor Rufeinig, fel y buasai i unrhyw ychwanegiad a allasai hi wneyd, ddinystrio y cynllun neillduol hwnw ag y byddai y bobl gall hyny bob amser yn ei ddyogelu yn ffurfiad eu gorsafoedd, os byddai natur y tir yn caniatâu hyny. Nid yw y pethau hynafol a ddangosant eu bod wedi preswylio yma yn cael eu cyfyngu i unrhyw ran o'r ddinas: ceir hwy wrth gloddio ar bob ochr o'r tu mewn i'r waliau.

Y mae yr adeiladwaith milwrol o hyd yn gwbl Rufeinig o ran cynllun; dichon, ar ol iddynt hwy ymadael, iddo fyned yn adfeilion, yn yr oesoedd tylawd, cythryblus, a barbaraidd a ddylynasant; eto, ni chawsant erioed eu chwalu mor llwyr, fel nad oeddynt yn ddigon cadarn i amddiffyn y meddiannwyr. Yr ydym yn cael fod y lle yn cael ei gymeryd trwy drais oddiar y Brytaniaid, yn 828, gan Egbert; drachefn yr ydym yn ei gael yn meddiant y Daeniaid, yn 895, ac yn cael ei warchae gan Alfred, yr hwn a laddodd yr holl ladron-filwyr o'r *tu allan i'r muriau;* ac yn olaf, cawn fod y lle wedi cael ei gymeryd gan Ethelfleda, trwy i'r gwarchawdlu roddi eu hunain i fyny yn wirfoddol. Y mae yr holl ddygwyddiadau hyn yn profi fod yr amddiffynfeydd yn parhau, efallai mewn adfeilion, ac mewn angen am yr adferiad hwnw a gawsant gan y ddynes glodfawr yma.

Yr ydym yn gweled fod y dull *Rhufeinig* o ffurfio amddiffynfeydd yn cael ei gadw hyd heddyw, yn union ar yr hen gynllun. Ar bob ochr i'r pyrth taflai allan *propugnaculum*,† neu fath o amddiffynfa er blino y gelynion a amcanent ddyfod i mewn; rhyngddynt, yn union yn y ddyfodfa, yr oedd y *cataracta*, neu y llithr-ddorau, yn barod i gael eu gollwng i lawr pe buasai y pyrth yn cael eu fforsio; felly byddai rhan o honynt yn cael eu cau oddifewn i'r muriau, a'r lleill o'r tu allan. Pe dygwyddasai iddynt fod wedi gosod y pyrth ar dân, yr oedd tyllau uwch ben, i'r dyben o dywallt dwfr i lawr er diffodd y fflamau.

Y mae y muriau, mewn lluaws o fanau, yn enwedig ar du y gogledd a'r dwyrain, yn cael eu hamddiffyn gan dyrau, wedi eu cyfleu fel na byddent o fewn mwy nag ergyd bwa i'w gilydd, fel y gallai y bwa-saethwyr gyrhaedd y gelynion a ymosodent ar y manau cydrhyngddynt.‡ Yr oeddynt hefyd yn benaf o ffurf crwn, y fath ag a gymeradwyid gan yr archadeiladwyr Rhufeinig, fel y cynllun goreu er osgôi ergydion yr hwrdd-beiriannau.§

* Diau fod y ddinas wedi cael ei helaethu tu hwnt i'r terfynau Rhufeinig, ac yn ol pob tebyg gan *Ethelfleda*. Y mae y muriau cyntefig ar y dwyrain a'r gorllewin, yn gystal ag ar y gogledd, wedi cael eu hail-adeiladu neu eu hadferu, gyda darnau o'r hen waith Rhufeinig yn aros ynddynt o hyd. Ond y mae y muriau dwyreiniol a gorllewinol wedi cael eu dwyn yn mlaen yn mhell tu draw i derfyniad yr amgauad cyntaf, a mur newydd wedi ei adeiladu ar yr ochr ddeheuol. Y canlyniad ydyw, fod yr oll o'r dref Rufeinig, a lleeyn mawr o dir heblaw hyny, yn cael eu cynwys oddi fewn i'r muriau bresenol. T.P.

† Vegetius, lib. iv. c. 4.

‡ Intervalla autem turrium ita sunt facienda ut ne longius sit alia ab alia sagittæ intermissione, &c. *Vitruvius*, lib. 1. c. 5. "Dylai y cyfryngau rhwng y tyroedd gael eu gwneyd yn y fath fodd fel na byddont yn fwy nag ehedlad y saethau oddiwrth eu gilydd," &c.

§ Turres itaque rotundæ aut polygoniæ sunt faciendæ, *quadratus* enim machinæ celerius dissipant, &c. *Vitruvius*, lib. 1. c. 5. "Dylai y tyrau fod wedi eu hadeiladu yn grynion neu yn amlonglog, am fod yr hwrdd-beiriannau yn curo rhai ysgwâr i lawr yn gynt."

Turres sunt projiciendæ in exteriorem partem, uti cum ad murum hostis impetu velit appropinquare, a turribus, &c. *Ibid.* "Dylai y tyrau daflu allan oddiar y rhan allanol, fel, pan ymosodai y gelyn ar y mur, [y gellid ei guro yn ol â saethau] o'r tyrau." &c.

Digitized by Google

Y mae trwch y muriau yn cyfateb i'r lled a gymeradwyir gan *Vitruvius;* nis gall ond dau gerdded ochr yn ochr, oddieithr lle y mae y lleuyrch cylchynol yn caniatâu mwy o led. Yr archadeiladydd enwog hwnw a gyfarwydda, iddynt fod o'r cyfryw led ag y gallai dau filwr arfog basio eu gilydd yn ddirwystr.

Fy ffordd a'm harweinia o dan y castell, i un o'r pedwar prif byrth, y *Watergate* (neu Borth y dwfr) presenol, yr hwn sydd yn agor at lan y dwfr; ac yn agos i ba le y llifai y Ddyfrdwy mewn amser boreuach.

*Tŵr y Dwfr.*] Ar ongl eithafol y ddinas, tu hwnt i'r porth hwn, y mae tŵr ag sydd yn taflu allan, yn berffaith grwn, oddieithr lle y torir ar hyny gan dafliad allan bychan ysgwâr yn y fynedfa i mewn iddo. Cysylltir y tŵr a'r muriau trwy oriel ddofn agored, gyda murganllawiau ar bob ochr; odditanodd y mae bwa mawr er gwneyd lle i'r llanw fyned trwodd, cyn y cyfyngiadau diweddar, y rhai hefyd yr wyf fi yn eu cofio. Gelwir y tŵr hwn yn bresenol yn *Water-tower,* neu Dŵr y dwfr. Taflai allan i hen wely yr afon, lle y gorweddai y llongau mawrion, y rhai a sicrhaent eu cablau yn y modrwyau heiyrn mawr a osodasid yn y ceryg. Gelwid y tŵr hwn gynt "y tŵr newydd," eto sylfaenesid ef yn 1320; oblegyd y mae cytundeb i'r pwrpas hwnw ar gael rhwng maer a dinasyddion Caerlleon ac un *John de Helpston,* saer maen, am adeiladu *quandam turrem rotundam,* &c. tŵr crwn "yn ddeg llath a haner o drwch, gyda cheuedd o'r tu fewn; yn bedair llath ar hugain o uchder, ac mor gadarn ag i fod yn amddiffynadwy;" a hyn oll am y swm o gan' punt.*

*Porth y Gogledd.*] Yr agorfa nodedig nesaf ydyw Porth y Gogledd,† o'r tuhwnt i ba un y mae maesdref eang.

*Tŵr y Phœnix.*] Saif Tŵr y *Phœnix* ar ongl o'r muriau tu hwnt i'r porth hwn. Adeiladwyd y tŵr presenol yn 1613, a defnyddid ef gan chwech o gwmnïon fel ystafell drafnidiol. Cymerai ei enw oddiwrth yr aderyn dychymygol, arwyddlun cwmpeini y *paper-stainers,* yr hwn a osodasid i fyny ar ei ffrynt.


*Porth y Dwyrain.*] Porth y Dwyrain *(Eastgate)* ydyw yr agorfa nesaf. Yma y safai tŵr ysgwâr uchel, gyda llawer o ystafelloedd ynddo, wedi ei adeiladu (medd traddodiad) gan Iorwerth III. Yr oedd hwn wedi bod yn *Porta principalis* (neu brif borth,) ac yn brif fynedfa i'r dref, yn gystal ag yn derfyniad y *Watling street* enwog, yr hon a groesai yr ynys o *Dover,* ac ydoedd y brif-ffordd o'r porthladd hwnw i'r lle hwn. Yn 1769, tynwyd y porth yma i lawr, am y ceid ei fod yn rhy gul ac anghyfleus, a chyfodwyd bwa ardderchog yn ei le, yn gwbl ar draul Rhisiart, arglwydd Grosvenor. Tu draw i hwn y mae maesdref eang, yr hon a elwir *Forest street* (Heol y Goedwig,) y rhan isaf o ba un a amddiffynid gan borth, yr hwn a dynwyd i lawr fel peth afreidiol ychydig flynyddoedd yn ol.

Wedi myned heibio Porth y Dwyrain, bydd i'r ymdeithydd ganfod, o'r tu allan i'r muriau, ffos eang wedi ei thori trwy y graig galed, yr hon sydd yn awr yn ffordd gyffredin i'r dwfr; ond ymddengys i mi mai gwaith y Rhufeiniaid ydyw, fel amddiffyniad ar yr ochr hon, ac y mae yn barhad o ffurf cywironglog yr orsaf.

* Harleian MSS. No 2046. 10. † Hwn, yr olaf o'r hen byrth, a dynwyd i lawr yn 1808. Y mae un arall i gael ei godi ar ei safle. GOL.

Digitized by Google

Digitized by Google



*CASTELL CAERLLEON YN 1777.*

Digitized by Google

*Golygfeydd Prydferth.*] Y mae y golygfeydd oddiar amryw ranau o'r muriau yn neillduol o brydferth. Mynyddoedd sîr Ddinbych a sîr Fflint, a bryniau *Broxton*, a chraig unigol *Beeston*, a ffurfiant y rhan fwyaf afrywiog o'r olygfa; y gwastadedd brâs a ddyry olygfa fwy dymunol, ac y mae yr olygfa i fyny yr afon tua *Boughton* yn ein hadgofio, i ryw raddau, am y *Thames* (afon Llundain,) a *Richmond hill.*

Ar adeg y Congcwest, fel y sylwyd yn flaenorol, ymwelodd y brenin â'r ddinas hon yn bersonol, ac adferodd ei hamddiffynfeydd. Y mae yn debygol iddo, nid yn unig adgyweirio y muriau, ond iddo hefyd gwbl ail-adeiladu y castell* yn ol y drefn Normanaidd, a'i helaethu yn mhell tu hwnt i derfynau castell y Sacsoniaid, yr hwn a safai ar gopa y mynydd neu y bryncyn ar ba un y saif yr amddiffynfa. Nid yw y rhan hono ond dynwaredol yn unig, er mwyn gwneyd i'r lle ymddangos yn uwch, fel yr oedd arfer gan y Sacsoniaid wrth wneyd eu castellydd; ac ymddengys fod y gyfran a fwriwyd i fyny yma felly yn gymysgedd o geryg a math o glai anarferol o galed.

*Y Castell.*] Ffurfir y castell o ddwy ran, yr uchaf a'r isaf: pob un yn meddu ar borth cryf, ac wedi ei amddiffyn â thŵr crwn ar bob ochr, ynghyda ffos, ac yn yr hen amser â chrogbontydd. Oddi fewn i'r parth uchaf y mae rhai tyrau i'w gweled,† o adeiladwaith Normanaidd, pedwaronglog, gyda thafliadau allan ysgwâr yn mhob ongl, y tafliadau allan yn ysgafn braidd. Yr harddaf ydyw yr un a elwir tŵr *Iwl Caisar.* Elir i mewn iddo trwy ddrws Gothig eang, yr hwn sydd efallai o wneuthuriad diweddarach. Perthyna i'r ystafell isaf gronglwyd fwaog, wedi ei chadarnhau gyda chyplau ysgwâr cyffredin. Bu yr ystafell uchaf yn gapel, fel yr ymddengys oddiwrth y llestr a gynwysai y dwfr sanctaidd, a rhai lluniau, braidd wedi treulio ymaith, paentiedig ar y gwaliau. Ei maintioli ydyw pedair troedfedd ar bymtheg a phedair modfedd wrth un droedfedd ar bymtheg a chwe' modfedd; yr uchder hefyd yn un droedfedd ar bymtheg a chwe' modfedd. Y gronglwyd sydd fwaog; ond y cyplau, y rhai ydynt grynion, eiddil, a phrydferth, a redant i lawr y muriau, gan orphwys er benclymau corniog pump o bileri byrion, crynion a phrydferth, o'r un arddull a'r rhai sydd yn *chapter-house* yr eglwys gadeiriol; a dichon eu bod yn waith yr un celfyddydwr. Yr arfdy, rhai amddiffynfeydd, a rhai adeiladau at breswylio ynddynt, a wnant i fyny y rhan arall.

*Neuadd Lupus.*] Ar hyd ochrau y cwrt isaf y saif yr ystafell ardderchog a elwir *Neuadd Hugh Lupus*,‡ yn yr hon y cynelir llysoedd ustusiaid y sîr Y mae yn agos i gan' troedfedd o hyd; ei lled yn bump a deugain; ei huchder yn dra arswydol, ac yn deilwng o ystafell bendefigaidd hirwen aruchel. Cynelir y gronglwyd gan waith coed, mewn arddull fawreddog a cherfiedig; wedi ei seilio ar yr ochrau, ac yn gorphwys ar ysgwydd-dafliadau cryfion.

* Ordericus Vitalis, 516.

† Y mae y pyrth, y muriau, a'r tyrau, yn awr wedi eu dinystrio. GOL. YR AIL ARG.

‡ Diau y bydd i'r hynafiaethydd, ac efallai bob dyn o chwaeth, ofidio am fod yr hen adeilad hybarch yma wedi cael ei thynu i lawr Y mae llysdy newydd, ar ffurf chwareudy Groegaidd, wedi cael ei adeiladu yn y man lle y safai, yn gysylltiedig â pha un y mae carchar eang, ac adeiladau ereill, yn ol cynlluniad Mr. Harrison. Y mae ei ffrynt yn llenwi un ochr i ysgwâr eang; ar yr aswy y mae yr arfdy, a chyferbyn â hwnw y mae adeilad gyfatebol wedi ei bwriadu i gynwys cwrt y trysorlys, lluestai y milwyr, &c. Y mae y bedwaredd ochr yn agored. GOL.

Digitized by Google

Dichon fod yr adeilad orwech hon yn parhau yn ei maintioli gwreiddiol. Yr oedd nodweddiad yr iarll Normanaidd cyntaf yn galw am neuadd i gyfateb i fawredd ei haelioni; i'r hyn nid oedd unrhyw derfyn. Dywed *Ordericus** "Ei fod, nid yn unig yn haelionus, ond yn wastraffus. Nid teulu a ddygai i'w ganlyn, ond byddin. Ni chadwai gyfrif o unrhyw dderbyniadau na thaliadau. Yr oedd yn barhaus yn gwastraffu ei etifeddiaethau; ac yr oedd yn llawer hoffach o hebogyddion a helyddion nag o drinwyr y tir a dynion sanctaidd; a thrwy ei lythineb daeth mor anarferol o dew fel mai prin y gallai ymlusgo o gwmpas."

*Cwrt y Trysorlys.* Yn gysylltiedig âg un pen i'r neuadd fawr hon y mae y trysorlys, neu ganghelldy, sîr freiniol Caerlleon. Iarll Cholmondely ydyw yr ystafellydd presenol; a Syr Rhisiart Perryn, fy nghydwladwr teilwng, a eistedda ac a gyflawna ddyledswyddau y swydd o is-ystafellydd. Gyda golwg ar achosion o iawnder, y mae efe yn gweithredu yma fel arglwydd ganghellydd. Yr oedd yr ystafellydd yn un o brif swyddogion yr hen iarll, ac iddo ddwy bunt ar hugain o gyflog yn flynyddol. Dywedir mai yn yr adeilad yma yr oedd senedd breninoedd bychain yr iarllaeth. Y mae golwg hynafol ar yr adeiladwaith; ac oddifewn y mae nifer o eisteddleoedd, y rhai a nodir allan gan fwäau a phileri destlus; yn y pen uchaf y mae dwy eisteddfa; un i'r iarll, a'r llall i'r abad. Yr oedd yr wyth ereill i'w wyth barwn, a chymerent i fyny un ochr i'r ystafell.

O dan yr is-ganghellydd y mae barwn, yr hwn a gynalia lys wythnosol, yn mha un y gwneir apeliadau am ddwyn achosion i brawf. Y mae gwysiadau a rhaithlythyrau yn cael eu tynu allan yma, at frawdlysoedd y sîr hon, yn gystal ag at eiddo sîr Fflint. Yma hefyd, heblaw hyny, y mae archwiliwr, a selgeidwad, yr hwn a ofala am yr ysgriflyfrau cofnodiaunol.

Y mae y barnwyr yn lletya oddifewn i'r castell, yn ystod eu cylchdaith, yn ol hen ddefod. Darperir ar eu cyfer gan siryddion y ddinas; ac y mae siryddion y sîr yn cymeryd gofal eu ceffylau, ond ad-delir iddynt y drau lpan ddygant eu cyfrifon i mewn i gael eu harchwilio.

*Carchar.* Carchar y sîr i droseddwyr ydyw y lle olaf i gael ei ddysgrifio. Nis gallaf wneyd nemawr ddim yn rhagor na chadarnhau yr hanes a roddir am dano gan y dyngarol *Howard*. Y lle y cedwir hwy yn ystod y dydd sydd fuarth bychan, wedi ei amgylchu ar bob ochr gan adeiladau uchel heb ddim awyr yn dyfod drwyddo, oddieithr o'r pen uchaf, ac nid yw pelydr pureiddiol yr haul byth yn ymweled â'r fan. Eu cysgleoedd yn y nos ydynt gelloedd saith droedfedd a haner wrth dair a haner, wedi eu gosod yn rhês ar un ochr i geudwll tanddaearol; yn mhob un o'r rhai hyn y mae yn fynych dri neu bedwar o bersonau yn cysgu. Y mae yr oll yn cael eu gwneyd yn fwy dychrynllyd (iachusol, fel y tybir) drwy eu bod yn cael eu golchi â phŷg deirgwaith neu bedair yn y flwyddyn. Rhaid i awyr brin eu buarth cyfyng drafaelio trwy dair o fynedfeydd cyn cyrhaedd atynt: trwy ffenestr ystafell sydd gerllaw: trwy rât yn llawr yr ystafell hono i'r ddaeargell: ac yn olaf, o'r ddaeargell trwy gafell fechan uwch ben drws pob un o'r celloedd. Yn y cyfryw leoedd a hyn y mae y dieuog a'r euog yn cael eu cadw, hyd nes y byddo i'r

* Lib. iv. p. 522.

Digitized by Google

gyfraith benderfynu eu tynged. Diau genyf y rhaid fod y ceidwad tynergalon *Mr. Thomas*, yn teimlo loes yn fynych yn nghyflawniad ei ddyledswyddau angenrheidiol. Y mae *Mr. Howard* yn cymharu y lle i'r *twll du* yn Calcutta. Yr olwg a gefais i arno a'm cynhyrfodd i feddwl am garchar arall llawer gwaeth; lle nad oes

> Dim goleu clir, ond yn lle hyny mae
> Tywyllwch dudew'n hytrach idd ei wel'd,
> Yn unig er arddangos golygfeydd
> O bob echryslawn wae.*

Y mae cwnstabl y castell yn dal ei swydd am ei oes; efe yw gwir geidwad y carchar; ond apwyntia swyddog o dano. Y mae yn gyfrifol am bob carcharion a dyledwyr, ac yn atebol am danynt os diangant.

*Cospau yn y Carchar.* Oddifewn i furiau y carchar hwn, ceir engraifft o droseddwr yn dyoddef y gospedigaeth a elwid *prison forte et dure*, am sefyll yn fud ar ei brawf, nes y bu farw o newyn. Un *Adam*, mab i John o'r Woodhouses, yn 1310, y 4edd o Iorwerth II. a farnwyd yn euog o losgi ei dŷ ei hun, a chludo ymaith ei nwyddau. Safai yn fud; nodwyd rheithwyr fel arferol, y rhai a benderfynasant y gallai siarad os dewisai. Ar hyny traddodwyd ef i farw o newyn *(ad dietam;)* ac ar ol hyn tystiodd John le Morgan, cwnstabl y castell, fod y dywededig Adam wedi marw *ad dietam*.† Dyma ddechreuad y gospedigaeth o "wasgu i farwolaeth," yr hyn, fel yr ymddengys, oedd yn fath o ddull trugarog o brysuro marwolaeth; oblegyd rhaid ei bed yn llawer mwy erchyll, yn gystal â phoenus, yn ol y dull a nodir allan gan ddeddf Iorwerth I., yn nheyrnasiad yr hwn y dechreuodd.‡

Nid oedd yr enw *ad dietam* ond gwatwariaith, yn gosod allan yr ymborth truenus a ganiateid i'r dyoddefydd; sef ar y dydd cyntaf, tri thamaid o'r bara gwaethaf; ar yr ail, tri thraflwngc o ddwfr o'r pwll agosaf: a dyma oedd ei ymborth beunyddiol i fod yn olynol hyd oni fyddai farw.

Noda Mr. Rymer esiampl hynod o wraig yn Nottingham, yr hon a osodwyd dan y gospedigaeth hon, ac a fu fyw ddeugain niwrnod heb na bwyd na diod. Dygwyddodd hyn yn 1357, yn nheyrnasiad Iorwerth III., yr hwn, "er clod i Dduw a gogoniant i'r Forwyn Fair," &c., a ganiataodd i'r dyoddefydd bardwn rhydd.§ Wedi crybwyll, fod yn dra thebygol fod y wyrth yn cael ei chynorthwyo i raddau bychain gan fodddion naturiol, rhaid i mi sylwi, yn unol â'r enghraifft hon, fod y rhai collfarnedig mewn rhai achosion, yn cael eu hamddifadu yn gwbl o bob math o ymborth; mewn achosion ereill, efallai, oddiwrth enw y gospedigaeth a roddwyd ar Adam, ymddengys y caniateid iddynt y dogn beunyddiol truenus a nodwyd, yr hwn a barheid hyd oni byddai y gosp wedi ei throi yn "wasgu i farwolaeth."

* Bydd yn dda gan y teithydd dyngarol gyferbynu y trueni a ddysgrifir mor deimladwy yma, gyda sefyllfa gyfleus ac iachus buarthau a chelloedd y carchar presenol. Gol.

† Harleian MSS. No. 2079. 63.

‡ Yn ol deddf y 12fed o Sior III. pen. 20, byddai personau a gyhuddid o for-ladrad neu gyflafan, ac a safent yn fud, yn cael eu hystyried fel wedi eu heuogfarnu o'r troseddau hyny. Gol.

§ Enw y wraig oedd *Cæcilia*, a dyfarnwyd hi am ladd ei gŵr, John de Ridgeway. Rymer's Fœdera, vi. 13.

Digitized by Google

Y mae hynodrwydd yn y dull yr ymddygid at y carcharorion a ryddheid o'u celloedd truenus trwy gael eu dienyddio, ag sydd yn deilwng o sylw. Traddodid hwy gan y cwnstabl, neu ynte ei is-swyddog, gerllaw careg a elwid *Glover's stone*, oddeutu deg llath a phedwar ugain o bellder oddiwrth y porth allanol, i ddwylaw siryddion y ddinas, y rhai a'u derbynient gerllaw y gareg hono, yr hyn ydyw terfyn eithaf cyffiniau y castell, ac oddiyno dygid hwy i'r dienyddle, yr hwn sydd hefyd o dan eu gofal. Ni roddir dim cyfrif am yr arferiad yma, yn mhellach na bod traddodiad yn dywedyd fod drwgweithredwr gynt, ar ei ffordd i'r grogfa, wedi cael ei ryddhau gan ddinasyddion Caerlleon, ac fe ddichon trwy oddefiad yr ustusiaid, ar y rhai y tybid fod y ddyledswydd anhyfryd o ddienyddio pob drwgweithredwyr yn gorphwys, pa un bynag a fyddent o'r sir neu ynte o'r ddinas.

Gwahanwyd y ddinas oddiwrth y castell, a gwnaed hi yn sir ei hun, trwy siartr o eiddo Harri VII.; gadawyd y castell fel attodiad wrth y sir, a meddai

*Glover's stone.*

fynedfa allan trwy heol fechan a elwid Glover's stone, yr hon hefyd oedd yn annibynol ar y ddinas; ac yn yr hon y gallai unrhyw bersonau, heb fod yn rhydd-ddinaswyr, osod eu hunain i fyny mewn unrhyw fasnach heb gael aflonyddu arnynt gan y gorphoraeth ddinasol.

Perthynai i'r castell lywodraethwr, is-lywodraethwr, a chwnstabl; a'r gwarchawdlu ydyw dau gwmni o filwyr methiantus.

Y llywodraethiad gwladol a'r adeiladwaith yw y pethau nesaf i gael sylw. Yn fy hanes am GAERLLEON y *Normaniaid* a'r *Sacsoniaid*, yr wyf wedi rhoddi hanes byr am lywodraeth y ddinas yn y cyfnodau hyny. Ni wnaf yn bresenol ond crybwyll am y prif siartrau; ac yr wyf yn gweuieithio i mi fy hun y bydd i'r darllenydd esgusodi fy myrdra, am ei fod tu hwnt i allu yr hanesydd ymdeithiol i gasglu cymaint o ddefnyddiau ag a ddichon preswylydd yn y lle.

*Siartrau.*

Y siartr breninol cyntaf y breintiwyd y ddinas hon âg ef ydoedd eiddo Harri III.; yr hwn a gadarnha yr holl ragorfreintiau a roddasid arni gan yr ieirll Normanaidd, ac, fel y tybiaf, a daflodd y llywodraeth i ffurf o gorphoraeth reolaidd; oblegyd y mae efe yn caniatâu ac yn cadarnhau iddynt na oddefir i neb werthu unrhyw farsiandiaeth yn y ddinas, oddieithr dinaswyr, oddigerth yn y ffeiriau, o dan ddirwy o ddeg punt.

Iorwerth I. a roddodd i ddinas Caerlleon, a'i holl amgylchoedd, ei holl rydd-freiniau a'i rhagorfreintiau, i'w dinasyddion a'u hetifeddion, i gael eu dal ganddo ef a'i etifeddion am byth, trwy dalu yn flynyddol 100*l.*; efe hefyd a ganiataodd iddynt ethol trengholydd, a dadleuon y goron; ac fod iddynt gael *sock*,* *sack*, *toll*, *theme*, *infangthefe*, *outfangthefe*, a rhyddid trwy yr holl wlad a'r deyrnas oddiwrth doll, &c.

* SOCK, y mae gan y neb a feddo hyn hawl i gynal cyrtiau oddi fewn i'w diroedd ei hun. SACK, awdurdod i benderfynu cwynion ac ymrafaelion, a defnyddio at ei wasanaeth ei hun y dirwyon a ddeilliant oddiwrth y cyfryw benderfyniad o fewn ei diriogaeth ei hun. TOLL (treth) nid yw yn gofyn unhyw eglurhad. THEME, yr hawl i werthu ei holl gaethweision, eu plant, a'u heiddo. INFANGTHEFE, yr awdurdod i ddal, yn ei dirocdd ei hunan, ladron, pa un bynag a fyddant yn rhai o'i bobl ef ei hun, neu ynte yn eiddo unrhyw arglwydd arall. OUTFANGTHEFE, ydyw yr awdurdod i gymeryd i fyny, ar dir unrhyw berson, un o'i gaethddeiliaid ei hun, yr hwn a fuasai wedi cyflawni lladrad o fewn cylch ei arglwyddiaeth, a'i ddwyn ef i sefyll ei brawf yn ei gwrt ei hun. Vide Skene, *de verb signific.* and Somner's Gloss.

Digitized by Google

Iorwerth III. a gadarnhaodd yr holl bethau a ganiateisid yn flaenorol, ac ychwanegodd un arall, sef yr holl diroedd gweigion oddifewn i ryddid y ddinas, gyda chaniatâd i'r dinasyddion adeiladu ar y cyfryw fanau gweigion.

Iorwerth y Tywysog Du a nododd âg enwau neillduol derfynau y ddinas, gan ddechreu yn y *Bont Haiarn*, ac oddiyno i *Saltney*, *Port-pool*, *Flukersbrook*, *Boughton*, &c.

Rhisiart II. a fu yn dra charedig i'w hoff ddinas. Oddiar yr ystyriaeth o ryw gyfyngderau a ddyoddefasai, efe a ryddhaodd y deiliaid oddiwrth daledigaeth o dair punt ar ddeg a thriugain, deg swllt ac wyth geiniog, olddyledion o ardreth ddyledus i'r goron: rhoddodd iddynt yr enillion oddiwrth y borthfa tuag at ail-adeiladu ac adgyweirio pont y Ddyfrdwy; rhoddodd iddynt ddau ganiatâd o dollau y muriau, y cyntaf am bedair blynedd, a'r ail am bump, tuag at adgyweirio y gwaliau. Ond yn yr 22ain o'i deyrnasiad "er hyrwyddiad cyfiawnder yn yr unrhyw ddinas, a gwell gweinyddiad o hono, efe a ganiataodd i'w ddeiliaid, cadbeniaid, siryddion, a gweriniaid y ddinas dan sylw, gynal eu llysoedd; a phennododd yn mha gynghawsau y gallent ddyfarnu mewn cyfreithiau, cyflafanau personol, apeliadau, &c., megys yn y gyffredin gyfraith. Rhoddwyd o dan sêl tywysogaeth Caerlleon yn Nghaerlleon, Mai 2, 1398."* Ymddengys fod hyn wedi ei gael yn angenrheidiol, mewn trefn i gryfhau llywodraeth wladol y lle, yr hyn, bedair blynedd cyn hyny, a fawr amharchasid trwy derfysg arswydus yn mynachlog Syr Baldwyne o Radyngstone, yn cael ei gefnogi gan Syr John o Stanley gydag wyth gant o wŷr. Lladdesid un sirydd, a chyflawnasid lluaws o anfad weithredoedd ereill.†

Ar ol y chwyldroad a ddygwyddodd yn 1399, parhaodd y maer a'r dinasyddion yn bleidiol i achos eu meistr diorseddedig; ac ar ol ei farw, rhoddasant bob cymhorth yn eu gallu i Harri Percy. Wedi iddo gael ei orchfygu, derbyniasant bardwn y brenin, ac mewn trefn i enill eu serchiadau, darfu i Harri ieuangc, tywysog Cymru, ac iarll Caerlleon, gadarnhau eu holl siartrau a'u rhagorfreintiau blaenorol; wedi hyny caniataodd iddynt enillion treuhi y muriau a thŵr y bont, lle y casglid tollau.

Yn nghadarnhad y siartrau blaenorol gan Harri VI. yr ydym yn cael hanes am y tyrfaoedd o ddyeithriaid yn flaenorol a ddeuent yma; am fawredd trafnidiaeth Caerlleon, oherwydd rhagoroldeb ei phorthladd; a'r fasnach eang a ddygid yn mlaen mewn ymborth, i mewn i Gymru ac allan o honi. Y mae yn mhellach yn crybwyll fod cyfnewidiad galarus wedi cymeryd lle ar bethau; fod ymgynulliad y marsiandwyr tramor wedi cael ei atal trwy i'r forgilfach gael ei chau i fyny â thywod; ac fod y drafnidiaeth â Chymru wedi ei dinystrio er amser gwrthryfel Owain Glyndwr; a'r ystyriaethau hyn a barodd i'r brenin ddychwelyd yn ol ddeg punt o'r hen ardreth flynyddol.

Yr ymborth y cyfeirir ato, fe ddichon, ar ran pobl Caerlleon, oedd cosynau caws; ac efallai gwinoedd, per-chwaethon, a moethusion tramor ereill; am ba rai y gallasent dderbyn mewn cyfnewidiad gan y Cymry amrywiol fathau o anifeiliaid.

*Aelodau Seneddol.*] Harri VII., yn 1506, oddiar ystyriaeth o gyfyngderau pellach yn y ddinas, nid yn unig a ddychwelodd yn ol

* King, ii. 159. † Harleian MSS. No. 2057. 34.

Digitized by Google

bedwar ugain punt o'r ardreth flynyddol, ond rhoddodd iddi siartr newydd, trwy yr hwn y gwahanodd hi oddiwrth y sir, ac ychwanegodd amryw o'i rhagorfreintiau mwyaf gwerthfawr, y rhai y mae yn eu mwynhau hyd yn bresenol; ond trwy ei bod yn sir freninol, ac yn amser Iorwerth I. yn meddiant y goron, ni dderbyniwyd gwŷs, dros y sir na'r ddinas, i anfon aelodau i'r senedd, hyd deyrnasiad Harri VIII., pan yr awdurdodwyd y sir, yn 1543, i anfon dau farchog, a'r ddinas ddau ddinaswr. Etholwyr yr olaf oedd gwŷr rhyddion y ddinas; a'r siryddion oeddynt y swyddogion etholiadol.

*Y Gorphoraeth.* Y mae y gorphoraeth yn gynwysedig o faer, cofiadur, dau sirydd, pedwar ar hugain o henaduriaid, a deugain o gynghorwyr cyffredin. Y mae yma heblaw hyny ddau swyddog blynyddol, y y rhai a elwir *leave-lookers*, gwaith y rhai ydyw atal pob personau, nad ydynt yn wŷr rhyddion yn y ddinas, rhag cario yn mlaen unrhyw fasnach, nac arddangos ar werth unrhyw nwyddau neu farsiandïaeth o fewn ei therfynau. Arferent fyned o amgylch y ddinas, i'r dyben o sicrhau iddi ei rhagorfreintiau hyn; ac weithiau arferent gymeryd symau bychain o arian, fel *caniatâd* i rai heb fod yn ddinaswyr i werthu nwyddau yn fân sypynau; ond yn bresenol, un o swyddogion y *Pentise* sydd yn cyflawni y swydd hon, ac y mae yn cyflwyno enwau y personau a geir yn troseddu, fel ag i'w dwyn dan gosp cyfraith. Yr ydym yn cael, mor foreu a 1297, fod swyddogion cyffelyb yn cael eu hethol, y rhai a gyflawnent yr un swydd.*

Y manau lle yr ymgynulla y maer a swyddogion ereill y gorphoraeth i drin eu gorchwylion, neu i weinyddu cyfiawnder, ydynt ddau; y cyntaf yw y

*Pentise.* *Pentise*,† hen adeilad yn nghanol y ddinas, yn agos i groesiad y pedair prif heol. Sonir fod yr ochr ogleddol wedi cael eu hadeiladu yn 1497. Yma y mae pob gorchwylion o fewn cylch swydd ustus heddwch yn cael eu dwyn yn mlaen; a chaniateir i henaduriaid a fyddont wedi myned trwy y gadair weithredu tra y byddont yn gwisgo y *gown*. Yma hefyd yr eistedda y siryddion, yn cael eu cynorthwyo gan y cofiadur, i benderfynu achosion gwladol.

Tybiaf fod yr adeilad yma, Eglwys St. Pedr, ac ychydig dai i'r gogledd a'r

*Prætorium.* gorllewin, yn sefyll ar safle y *Roman Prætorium;* oblegyd y maent nid yn unig yn llenwi safle bendant y rhan hono o'r hen wersylloedd, ond yn rhoddi cyfrif hefyd am yr ataliad ar Heol y bont, yr hon a derfyna ar gyfer yr adeiladau hyn. Dyma yr achos hefyd paham y mae y rhan agosaf o Heol Porth y gogledd wedi ei thaflu allan o'i chŵrs, ac yn disgyn i Heol Porth y dwyrain, lawer o latheni tu hwnt i enau Heol y Bont; oblegyd y mae y rhan isaf o Heol Porth y gogledd, lle y saif y gyfnewidfa a'r farchnad gig, yn pwyntio yn uniongyrchol at y flaenaf; ond torir ar ei chŵrs gan y lle a gymerid i fyny gan yr adeiladau hyn. Terfyn y Prætorium ar y dwyrain ydoedd y rhan gul o Heol Porth y gogledd; ar y dê, rhan o Heol y Bont, Heol Porth y dwyrain, a Heol Porth y dwfr yn bresenol; ar du y gorllewin *Goss lane;* ac ar du y gogledd gan y llecyn lle yn awr y saif y farchnad bysgod. Nid ychydig o le a wnelai y tro i'r Prætorium, gyda'i adeiladau amgylchynol; oblegyd, heblaw y lle a feddiannai y cadfridog, yno yr oedd ystafelloedd y

* King, ii. 167 † Cafodd yr adeilad yma, yr hon a gyfyngai ar y fynedfa i Heol Porth y Dwfr, ei chwalu yn 1803. Gol.

pendefigion ieuaingc y rhai a fyddent yn uniongyrchol o dan ei ofal; yr *augurale*, lle yr offrymid gweddïau, aberthau, ac y cyflawnid amrywiol seremoniau crefyddol ereill, a allasai fod lle y mae safle yr eglwys bresenol; a dichon fod llys milwrol y cadfridog yn sefyll yn union yn y fan lle y mae y gorphoraeth yn bresenol yn eistedd er uniawni camwri.

*Y Gyfnewidfa.*] Cynelir llysoedd cyfiawnder yn y neuadd gyffredin, ystafell fawr a chyfleus uwchben y gyfnewidfa, wedi ei haddurno â phortreadau lluaws o bersonau poblogaidd.* Yma y cynelir cwrt y goron, cwrt y cyfreithiau, a chwrt y sessiwn. Y maer, yn cael ei gynorthwyo gan y cofiadur, ydyw y barnwr yn nghwrt y goron. Cyrhaedda ei awdurdod ef at bob math o droseddau gwladol, oddigerth uchelfradwriaeth. Efe hefyd ydyw y barnwr yn llys y cyfreithiau, gyda'r un cynorthwywr. Y mae y cwrt yma yn trin pob cyfreithiau cynghawsol, personol, a chymysgedig. Yn nghwrt y sessiwn, y mae yr henaduriaid a aethant trwy y gadair yn trin mân-ladradau, ac yn penderfynu ar droseddau israddol. Yn y lle hwn y mae y gorphoraeth yn cynal eu cyfarfodydd at wneyd isddeddfau er llywodraethu y ddinas; at arolygu yr adeiladau cyhoeddus a chyfarwyddo dosparthiad yr elusenau; ac yn olaf, cynelir yr etholiadau am ynadon i'r ddinas, yn ogystal ag aelodau seneddol, yn y cwrt hwn.

Yr unig weddillion o unrhyw westdy *(hotel,)* a hwnw heb fod yn hynafol iawn, a safai yn *Old Commonhall lane;* yr hwn, pan yn gyfan, a amgylchynai ysgwâr, a daliai gymundeb â Heol Porth y dwfr. Sylfaenwyd ef gan Syr Thomas Egerton, ystafellydd Caerlleon, wedi hyny arglwydd ganghellydd Lloegr, ac yr oedd wedi ei gynllunio ganddo fel tŷ i breswylio ynddo. Bu yr ychydig weddill o hono, yr hwn a wynebai y *lane*, ac a breswylid gan deulu tlawd, ar y 5ed o Dachwedd, 1772, yn olygfa o drychineb arswydus. Yn y llofft yr oedd dyn yn arddangos rhyw ddelw-chwareuyddiaeth; ac ar y foment

*Ffrwydriad.*] pan yr oedd yn arddangos i gynulliad tra lluosog, trwy ryw ddamwain anhysbys, 800 o bwysi o bowdwr gŵn, yr hwn a gedwid mewn ystorfa islaw, a gymerodd dân, ac a chwythodd i fyny dri uchder llofft. Lladdwyd tri ar hugain o bersonau, a llosgwyd, anafwyd, a drylliwyd a dadgymalwyd aelodau pedwar ugain a thri; o'r nifer yma ni fu farw ond tri, a'r rhai hyny o gload asgwrn clicied yr ên. Y feddyginiaeth fwyaf effeithiol a gafwyd at y llosg ydoedd *Goulard's extract of lead.*

Effeithiau allanol y ffrwydriad hwn oeddynt y rhai hyn; darfu i ffenestri a gwydr toredig amryw o'r tai yn y gymydogaeth syrthio i'r heol; oddiwrth yr hyn y mae yn ymddangos, na thorwyd hwy gan ysgytiad y powdwr gŵn, ond trwy bwysiant yr awyr yn yr ystafelloedd, yr hwn a ruthrai allan i'r gwagder a achlysurasid gan y ffrwydriad. Sylwyd ar beth tebyg ar adeg ffrwydriad mygdarth fflamllyd mewn mwnglawdd, pan yr oedd y coedydd yn syrthio tuag at y ffrwydr. Pa fodd bynag, pan yr oedd grym y powdwr yn cael ei gyfyngu gan fynedfeydd culion, yr oedd ei effeithiau craiddffoawl *(centrifugal)* i'w canfod; oblegyd fel yr oedd dau fachgenyn yn cerdded ar hyd y *rows* yn Heol

* Y portread llawn hyd a ddysgrifiwyd yn yr argraffiad diweddaf o'r gwaith hwn, fel eiddo Syr William Williams, Llefarydd Tŷ y Cyffredin, ydoedd bortread o un o deulu *Grosvenor*, fel y cafwyd allan wedi hyny. GOL.



Digitized by Google

Porth y dwfr, gyferbyn a mynedfa oedd yn arwain at yr adeilad, chwythwyd un o honynt yn erbyn y rheiliau, a'r llall i'r heol; a chafodd tô un tŷ ei chwythu ymaith, ar gyfer mynedfa i *Common-hall lane.*

Y mae i'w fawr ddymuno fod i ynadon didaro y ddinas hon, ar gyfrif y ddamwain ofnadwy yma, gymeryd i ystyriaeth ddyogelwch yr holl drigolion, yn hytrach na chyfleustra ychydig o unigolion diofal; ac naill ai eu gorfodi i beidio cadw ond y swm cyfreithlon, neu ynte, yn eu cyfarfod nesaf, apwyntio lleoedd priodol at ystorio powdwr gŵn. Dyma yr ail rybudd arswydus o'r natur yma a gafodd y ddinas. Ar y 1af o Ebrill, 1726, cafodd siop Mr. Thomas Murray, yn Heol y bont, a'r tŷ, eu chwythu i fyny; a chafodd ef ei hun a boneddwr ieuangc eu lladd. Ond er y rhybudd dwbl yma, ofnaf mai parhau yn ddidaro a wneir eto.

*Infirmary.*] Cafodd y dyoddefwyr a achubwyd o'r dinystr hwn ymgeledd* yn yr *Infirmary* sydd wedi ei sefydlu yma, a'r hon a ddygir yn mlaen ar reolau da, ac a gynhelir gan gyfraniadau gwirfoddol o'r ddinas, y sîr, a'r parthau cymydogaethol o Gymru. Y mae yn adeilad hardd, mewn safle iach, ac ar wahan oddiwrth yr heolydd. Sylfaenwyd y sefydliad elusengar yma yn 1756, a tharddodd oddiar gymunroddiad o 300*l.* a adawyd gan Dr. Stratford, dirprwywr Richmond, tuag at gychwyn *hospital* gyhoeddus yn y ddinas hon. Erfyniwyd am danysgrifiadau, a buan y codwyd y swm digonol at y pwrpas. Cyn y gallai yr adeilad bresenol fod yn barod i dderbyn y cleifion, parotowyd lle iddynt aros hyd nes y gorphenid hi, yn 1756, yn Heol Porth y gogledd. Agorwyd yr *Infirmary* newydd ar yr 17eg o Fawrth, 1761; ac y mae wedi cael ei chefnogi gydag yspryd ag sydd yn anrhydedd i'r ardaloedd cylchynol, yr hyn a alluogodd ei rheolwyr i dderbyn iddi, er ei sylfaeniad, ddim llai na 13,636 o wrthddrychau teilwng o gymhorth.† Y mae portread y sylfaenydd wedi ei osod i fyny yn ystafell gyfarfod cynghor y sefydliad: darlun tri chwarter hyd ydyw, yn gwisgo *wig* hir, a *gown* astudiwr yn y gyfraith wladol.

*Cyflwr Eglwysig.*] Bydd i mi yn awr gymeryd golwg byr ar gyflwr eglwysig y ddinas hynafol hon. Y mae yn angenrheidiol sylwi yn gyntaf fod teyrnas y Mers wedi ei rhanu yn bump o esgobaethau; Lichfield, Caerlleon, Caerwrangon, Lydnecester, a Dorchester; yr olaf o ba rai a symudwyd wedi hyny i Lincoln. Lichfield a wnaethpwyd, oddeutu y flwyddyn 785, yn brif esgobaeth, trwy orchymyn Offa, ac wedi hyny, am hir amser, ymgorphorodd ynddi ei hun ei his-esgobaeth, Caerlleon. Mor fawr y llwyddodd yr olaf sydd yn amlwg oddiwrth yr hanes am ei thaliad blynyddol i'r pab mewn amseroedd tra boreu; oblegyd, pan nad oedd Lichfield yn talu ond tair mil o *florins*, yr oedd ein hesgobaeth ni yn talu pum' mil. Dim rhyfedd fod ei heiddigedd wedi cael ei gyffroi! Ychydig iawn a wyddis am gyflwr yr eglwys yn y cyfnod Sacsonaidd. Digon yw dywedyd fod un o esgobion Lichfield, o'r enw Peter, yn y flwyddyn 1075, wedi symud eisteddle ei esgobaeth i Gaerlleon; a gwnaeth ddefnydd o eglwys St. Ioan fel ei eglwys gadeiriol, tra fu byw Ni bu y symudiad ond o fyr barhad; oblegyd darfu i'w olynydd ymsefydlu yn yr

* Casglwyd £630 yn ddiatreg yn mhlith trigolion dyngarol y ddinas, i gael eu rhanu yn mhlith y trueiniaid clwyfedig hyn.

† Y cyfanrif (a chynwys y cleifion oeddynt i mewn a'r rhai allanol) a dderbyniasant gymhorth oddiwrth y sefydliad hyd yr adeg bresenol (1809,) sydd yn cyrhaedd i 89,973. GOL.

Digitized by Google

hen esgobaeth, a bu Caerlleon heb esgob hyd ddadsefydliad y mynachlogydd; pan y darfu i Harri VIII., yn 1541, ei hadferu i'w hanrhydedd blaenorol, trwy ei chreu yn un o'r chwech* esgobaethau newyddion a ffurfiwyd ar yr achlysur pwysig hwnw; ac a bennododd eglwys diweddar fynachlog St. Werburgh yn eglwys gadeiriol.

Y cyntaf o'r esgobion newyddion oedd John Bird, Carmeliad, a swyddog taleithiol yn yr urdd; dyn gwenieithus i'r llys; yr hwn, trwy bregethu yn erbyn uwchafiaeth y pab, a gymeradwyodd ei hun i'r brenin fel ag i gael esgobaeth Bangor; oddiyno symudwyd ef i Gaerlleon, fel person addas at drais yr amseroedd hyny. Yn 1546, efe a roddodd i ffordd holl faenorau a thiroedd yr esgobaeth, a chan gymeryd bywioliaethau yn eu lle, efe a adawodd ei olynydd heb gymaint ag un erw o dir, oddigerth yr hyn y safai y palas arno, a'r buarth o'i flaen; tŷ arall, yn ymyl; perllan fechan, a elwid Woodyard; dau dŷ yn agos i eglwys St. Ioan; ac ychydig fân dai yn ninas Caerefrog. Ond er yr holl swm a drysorodd, cafwyd ei fod, ar esgyniad y frenines Mari, mewn dyled i'r goron o 1087*l.* 18*s.* am ddegymau a theyrnged; swm anferthol yn y dyddiau hyny! Eto buasai ei gyfeillgarwch â'r esgob Bonner yn ei achub ef, oni buasai wedi cyflawni y pechod ofnadwy (yn y dyddiau hyny) o briodi, am yr hyn y difuddiwyd ef o'i esgobaeth yn 1554.

Gadawodd ei esgobaeth yn un o'r rhai lleiaf mewn gwerth, eto y fwyaf o ran eangder, o unrhyw un yn Lloegr; canys cyrhaedda o Ben-ar-lâg yn sîr Fflint, at yr afon Derwent† yn Cumberland: gan gynwys yr oll o siroedd Caerlleon a Lancester; rhan o Westmoreland a Chumberland; Richmond yn sîr Gaerefrog; capeliaethau Holt ac Iscoed; eglwysi Pen-ar-lâg, Bangor Iscoed, Worthenbury; a chapeliaeth Overton Madoc, yn y parthau cyfagos o Gymru.

[*Y Fynachlog.*] Y fynachlog, o ba un y ffurfiwyd yr esgobaeth, oedd o hynafiaeth mawr. Dywed hanes iddi fod ar y cyntaf yn lleiandy, a sylfaenwyd oddeutu y flwyddyn 660, gan Wulpherus, brenin Mers, oherwydd annhueddiad ei ferch at fywyd priodasol. Dyma oedd y nodedig St. Werburgh, yr hon a gymerodd y gorchudd ar ol byw am dair blynedd yn ddihalog gyda'i gŵr Ceolredus, yn ol esiampl ei modryb, yr hynod Ethelreda; yr hon a fu byw gyda'i gŵr cyntaf Tonberctus gyda'r unrhyw burdeb, a chyda'i hail ŵr, y duwiol dywysog Egfrid, am ddeuddeng mlynedd. Llywyddodd St. Werburgh dros amryw fynachlogydd yn y Mers, bu farw yn Tricengham, ac yn unol â'i gorchymyn ei hun, claddwyd hi yn Heanburge; ond ar ddynesiad y Daeniaid, yn 875, cludwyd ei chorph i Gaerlleon, fel lle dyogel rhag ymosodiadau y paganiaid hyny.‡

Y mae yn ansicr pa mor hir y parhaodd y cyfundeb hwn. Dichon iddo gael ei ddinystrio gan anrheithiadau y barbariaid yn 895, a chael ei lwyr ddifodi; oblegyd dywedir wrthym,§ fod o deyrnasiad y brenin Athelstan, yn 925, hyd ddyfodiad y Normaniaid, gyfres o ganoniaid llëygol wedi eu sefydlu yno yn lle y lleianod. Gweithred dduwiol Ethelfleda oedd hyny, yr

* Westminster, Rhydychain, Bristol, Gloster, Peterborough, a Chaerlleon. Ataliwyd y flaenaf yn nheyrnasiad y frenines Mari.

† Y mae hyn yn adgofio un am derfynau yr hen dalaeth Gymreig *Teyrnllwg*, fel y nodir hwy yn yr "Iolo MSS." tudal. 86. J.R.

‡ Higden in Gale, iii. 240. § Yr unrhyw.

Digitized by Google

hon a adferodd yr adeiladau; y rhai ar ol hyny a adgyweiriwyd gan iarll Leofric, priod y ryglyddfawr Godiva. Gwaddolwyd y tŷ yn helaeth gan y breninoedd Edmund ac Edgar, a chan Leofric. Y mae siartr Edgar yn dechreu mewn arddull ag sydd mor gyfartal dduwiol ag ydyw o aruchel.*

Pan ddaeth Hugh Lupus i'r iarllaeth, efe a ddiddymodd y canoniaid llëygol, ac a sefydlodd yn eu lle drefedigaeth o'i gydwladwyr, Benedictiaid, o Bec yn Normandy; oherwydd fe ddichon nad oedd efe yn dewis ymddiried ei iachawdwriaeth i weddïau y crefyddwyr Sacsonaidd. Fe ddywedir fod y dernyn yma o grefyddolder i'w briodoli i ymosodiad o afiechyd y bu yr iarll yn goddef dano, pryd yr ymgymerodd â'r dull cyffredin yn y dyddiau hyny o dawelu cydwybod aflonydd. Efe a anfonodd am Anselm, abad Bec, ac wedi hyny archesgob Caergaint, yr hwn a drefnodd y sefydliad newydd; ac a apwyntiodd ei gaplan, Rhisiart, i fod yr abad cyntaf. Bu Lupus a'i olynwyr yn dra haelionus yn eu gwaddoliadau;† a bu y lle yn dra blodeuog hyd adeg ei ddadgorphoriad, yr hyn a wnaed trwy i Thomas Clerk, yr abad diweddaf, roddi ei swydd i fyny, a derbyniodd y ddeoniaeth newydd fel gwobr am hyny, yr hon swydd ni fwynhaodd ond am chwech wythnos. Cyllidau y fynachlog fawr yma oeddynt, yn ol Dugdale, 1503*l.* 5*s.* 11*d.*; yn ol Speed, 1073*l.* 17*s.* 7*d.*

Yn ol cynllun o'r fynachlog hon, sydd yn nghadw yn y casgliad Harleian, yr oedd ei heangder yn fawr iawn; yn amgylchu yr ysgwâr presenol, ac yn cuddio amrywiol ranau o'r tir amgylchynol. Y mae hen gwrt y fynachlog wedi ei addurno ar ddwy ochr gyda thai newyddion a heirdd, y rhai a adeiladwyd rhwng y blynyddoedd 1750 a 1754, ar *leases* a ganiateid gan y deon a'r siapter. Ochr arall a lenwir gan y palas newydd; adeilad prydferth, yr hwn a godwyd o dan nawddogaeth y diweddar esgob haelionus a lletygar, Edmund Keene, wedi hyny esgob Ely. Yr oedd y lle y saif yn cael ei lanw gynt gan dŷ yr hen abadau.

Y mae yr hen borth yn sefyll o hyd: mynedfa syml, ond ardderchog, ydyw; a chynwysa, tuag at yr heol, ddau fwa Gothic yn amgauedig oddi fewn i un crwn o drawsfesur mawr, yr hwn yr ymddengys ei fod yn llawr mwy hynafol. Ar un ochr yr oedd tŷ y porthor; ar y llall, le a elwid Cwrt St. Tomas. Safai capel, wedi ei gyflwyno i'r un sant lle y mae tŷ y deon yn bresenol; ac oddiwrth ei ymddangosiad hynafol, ymddengys mai yr hen adeilad ydyw y tu allan iddo.

Y mae y *cloisters* yn gyfan; eithr ni chynwysant ond tair o rodfeydd, y cwrt yn ymestyn ar un ochr hyd at yr eglwys. Oddiwrth yr amrywiol baisarfau ar y tô, ymddengys iddi gael ei hadgyweirio ar wahanol gyfnodau, o amser Iorwerth III. hyd eiddo Wolsey, pais-arfau yr hwn, ynghydag eiddo archesgobaeth Caerefrog, gyda chap y cardinal, ydynt hefyd i'w gweled yma.

*Ysgol.*] Ar un ochr safai tŷ y frawdoliaeth; ystafell eang, yr hon a ddefnyddir fel ysgol rydd, wedi ei sylfaenu gan Harri VIII. yn y 36ain mlwydd o'i deyrnasiad, i bedwar ar hugain o fechgyn, y rhai a apwyntir gan y deon a'r siapter; gallant aros yno am bedair blynedd os bydd eu hymddygiad yn rheolaidd; ond y mae gan y deon hawl i ganiatâu iddynt flwyddyn yn rhagor. Ni ddylai dim bachgen (oddieithr ei fod yn un o'r côr) gael ei ddewis

* Dugdale, Monast. i. 200. † Yr unrhyw, i. 985, &c.

Digitized by Google

cyn ei fod yn naw oed, nac ar ol pymtheg oed. Y mae dau feistr yn cael eu hapwyntio i'w haddysgu, un yn uwchfeistr a'r llall yn isfeistr, i gael eu hethol gan y deon a'r siapter.

Mewn congl ar yr ochr ddwyreiniol i'r *cloister*, y mae mynedfa a grisiau i'r ystafelloedd cysgu; ac i selerydd a chegin yr hen offeiriaid. Ar yr un ochr y mae mynedfa, a elwid gynt Rhodfa y Morwynion, yn arwain i gwrt bychan y fynachlog, rhan o'r hen adeilad a berthynai i'r côrgeiniaid.

*Y Chapter-house.* Y mae yr adeilad brydferth, y *chapter-house*, neu dŷ y côr offeiriadol, yn sefyll yn yr un rodfa o'r cloister. Y mae y wisg-ystafell yn fwaog, ac a gynelir gan bedair colofn, pob un wedi ei hamgylchu âg wyth o bileri meinion heb gnapiau ar eu penau, y rhai a gydbwyntiant yn agos i ben uchaf y golofn, ac a ymledant dros y to. Maint yr ystafell hon ydyw 33½ o droedfeddi wrth 27⅓; ei huchder yn 12¾ o droedfeddi. Ar yr ochrau y mae eisteddleoedd ceryg i'r gweinyddwyr ar orchwylion y siapter.

Y mae y *chapter-house* yn 50 troedfedd o hyd, 26 troedfedd o led, a 35 troedfedd o uchder; yn y pen uchaf y mae ffenestr, yn cynwys pump o raniadau pigfain, ac ar bob ochr iddi y mae un arall o dri. Yn yr uchder o 8½ troedfedd oddiwrth y llawr, y mae oriel gul yn rhedeg ar hyd tair rhan o'r ystafell; yn wahanedig oddiwrth y ffenestr gan dri o fân bileri o'r fath brydferthaf, uchel, a meinion. Y tô sydd o faen; y mae bonau y bwäau sydd yn ei gynal yn codi oddiar fân bilerynau *(pilasters)*, a chnapiau palmaidd ar eu penau.

Y llyfr-gloerau diweddar ydynt yn anffurfio y rhanau isaf o'r ystafell, mor uched a gwaelod y ffenestri. Yr oedd y muriau, fel yr wyf yn dyfalu, wedi eu haddurno â mân bileri, a maingc o geryg fel yr un yn y wisg-ystafell. Y mynedfeydd i mewn, o'r fynachlog yn gystal a rhwng y wisg-ystafell a'r *chapter-house*, ydynt Gothic; ond yn amlwg o rywogaeth diweddarach o ran adeiladwaith na'r ystafelloedd hyny.

Dywedir fod y *chapter-house* wedi ei adeiladu yn amser Randle y cyntaf, iarll Caerlleon, yr hwn a fu farw yn 1128, wedi mwynhau ei iarllaeth am wyth mlynedd. Yr oedd yr iarll mawr, Hugh Lupus, ewythr Randle, wedi ei gladdu yn mynwent y fynachlog: gorchwyl cyntaf ei nai oedd symud ei gorph i'r adeilad hon,* fel y lle mwyaf anrhydeddus; parchedigaeth a dalesid iddo yn ddiau pe buasai yr adeilad yn bodoli yn ei amser ef. Yma y bu ei weddillion heb gael eu haflonyddu hyd y flwyddyn 1724, pan, wrth gloddio yn y *chapter-house*, y deuwyd o hyd iddynt mewn arch o faen, wedi eu hamgau mewn lledr goreuredig, a chroes ar y ddwyfron; ac wrth ben yr arch yr oedd careg ar ffurf T, gyda phen blaidd, mewn cyfeiriad at ei enw, wedi ei gerfio arni. Yn union uwchlaw y ddwyfron yr oedd gorchudd tra hynod, wedi ei wneyd o bapur a blethasid yn gywrain, fel ag i ffurfio ysgwariau bychain tra phrydferth o ddu a gwŷn.† Darganfyddwyd eirch ereill o dan y ddwy ystafell, eiddo ieirll, a'u hiarllesau, neu eiddo abadau; ond yr oedd angeu, y lefelydd mawr, wedi eu darostwng yn llwch fel nad oedd modd eu gwahaniaethu.

Yr ieirll a gladdwyd yma oeddynt *Hugh*, yr hwn a fu farw yn 1101; *Randle* y cyntaf, neu de Meschines, yn 1128; *Randle* yr ail, neu de Gernouns, yr

* Leicester's Hist. Antiq. 127.

† Y mae darn o hono, wedi ei osod mewn modrwy, yn meddiant Philip Egerton, Ysw. o Oulton.

Digitized by Google

hwn a wenwynwyd yn 1155, gan William Peverel; *Hugh Cyvelioc*, a fu farw yn Leek yn 1181; *Randle* y trydydd, neu de Blundeville, yr hwn a fu farw yn Wallingford yn 1232, lle y claddwyd ei ymysgaroedd; claddwyd ei galon yn mynachlog Dieulacres yn sir Stafford, a throsglwyddwyd ei gorph i Gaerlleon; ac yn olaf, *John Scot*, yr hwn, yn 1237, a oddefodd yr un dynged a Randle yr ail. Felly cafodd pob iarll o'r llinach Normanaidd eu claddu yma, oddieithr *Rhisiart*, yr hwn a gollodd ei fywyd mewn llongddrylliad yn 1120.*

O'r abadau, cafodd *Geoffry*, yr hwn a fu farw yn 1208, a chwech ereill, eu claddu yn y *chapter-house*, neu yn ei wisg-ystafell.†

Y mae yr eglwys yn terfynu ochr ogleddol y fynachlog. Yn y rhan isaf o'r mur y mae rhês o fwäau, yn awr wedi eu cau i fyny, y rhai y gellid tybied eu bod yn fwy hynafol na'r gweddill. Hon, a rhan o'r drawsrodfa ogleddol, ydynt y darnau hynaf o'r adeilad bresenol; ond nid oes unrhyw weddillion yn aros y pryd hyn a allant ymffrostio mewn hynafiaeth mawr. Y mae holl lafur y Sacsoniaid, a braidd y cwbl o eiddo ei hail-adeiladydd, Hugh Lupus, yn awr wedi eu colli. Yr abad, Simon Ripley, yr hwn a etholwyd yn 1485, a orphenodd y rhodfa ganol a'r tŵr. Cynelir y corph gan chwech o fwäau pigfain. Y mae y colofnau yn drwchus, wedi eu hamgylchu â philerynau gyda chnapiau crynion bychain ar eu penau. Uwch ben y mae oriel, gyda chanllaw prydferth o faen, yn y manau lle y mae yn gyfan, a rhês o ffenestri mawrion, llydain, a phigfain; dyna yw yr arddull gyffredinol.

Ymddengys fod yr eglwys gadeiriol bresenol wedi cael ei hadeiladu (oddieithr y darnau dibwys a grybwyllwyd) yn amseroedd Harri VI. VII. a'r VIII.; ond yn benaf yn amseroedd y ddau olaf. Y pen gorllewinol prydferth a ddechreuwyd yn 1508, a gosodwyd i lawr y gareg gyntaf gyda llawer o seremoni. Y mae y ffenestr uwchlaw y drws wedi ei llenwi âg addurniadau prydferth; a ffrâm yn addurnedig â lluniau a cherfiadau ereill. Elir i lawr i'r eglwys hyd nifer lluosog o risiau; felly y mae lle i feddwl fod y bresenol ar sylfeini yr hen eglwys, ac ar lefel â'r hen heolydd, y rhai y gwyddom eu bod luaws o droedfeddi yn is na'r rhai presenol, am eu bod wedi cael eu codi trwy daenu hydddynt ysbwrial a sylweddau pwrpasol ereill.

Y mae y canolbarth o dan y tŵr mawr wedi cael eu niweidio yn fawr trwy wneuthuriad llofft i gynwys cloch yn ddiweddar, yr hon a guddia goronwaith o faen, a fuasai yn cynyrchu effaith dda pe buasid yn chwalu y llofft.

Oddiwrth godiad y bwäau a ymddangosant yn muriau corph yr eglwys a'i rhodfeydd, ymddengys fel pe buasai yr adeiladydd wedi bwriadu gwneyd ei nenfwd yn yr un dull a nenfwd Capel St. Mair a'r rhodfeydd corawl.

Y mae y côr yn dra phrydferth; a'r gwaith tabernaclaidd Gothic uwch ben yr eisteddleoedd wedi ei gerfio mewn dull ysgafn a cheindlws. Gwahenir y bwäau yn yr orielau gan bileri mawrion a destlus, y rhai efallai ydynt o amseriad boreuach na chorph yr eglwys; dichon eu bod yn waith yr abad Oldham, yr hwn oedd yn gymwynaswr, ac yn cymeryd dyddordeb yn yr adeilad.

Yn y ganghell y mae pedair o eisteddleoedd o faen i'r offeiriaid fyddent yn gwasanaethu, gyda cherfwaith Gothic uwch ben; cilfach neu ddwy at gadw

* Gellir gweled manylion marwolaethau y llinell ardderchog hon yn ngwaith Leicester; neu yn Dugdale's Baronetage, i. 32, &c.

† Willis's Cathedrals, i. 323.

Digitized by Google

naill ai y creiriau neu y llestri sanctaidd. O amgylch y muriau y mae cofadeiliau amryw o esgobion a chlerigwyr wedi eu gwasgaru; ond nid oes yr un o honynt o ardderchogrwydd neillduol; ac un o Syr William Mainwaring, boneddwr ieuangc gwrol, yr hwn a laddwyd yn amddiffyniad y ddinas yn ystod ei hir warchaead.

Saif gorsedd yr esgob ar sylfaen o gareg, mor hynod am ei cherfiadwaith ag am ei gwasanaeth gwreiddiol. Ei ffurf sydd ysgwâr hirgul; ac ar bob ochr y mae wedi ei haddurno yn brydferth â cherfiadau Gothic, bwäau, a phinaglau. O amgylch y rhan uchaf y mae rhês o ddelwau bychain, wedi ei bwriadu i arddangos breninoedd a seintiau teyrnas y Mers. Daliai pob un o honynt yn ei law ysgrifrol gyda'r enw yn gerfiedig arni. Penboethiaid anwybodus a anafasant luaws o'r ysgrifrolau hyn, yn gystal a'r lluniau; adferwyd yr olaf oddeutu y flwyddyn 1748; ond y mae y crefftwr, trwy gamgymeriad anffodus, wedi rhoddi penau benywaidd ar ysgwyddau dynion, a rhoddi gwynebau gwrywaidd ar gyrph yr ystlen deg. Ar y cyntaf yr oedd yno bedwar ar ddeg ar hugain o ffugyrau; y mae pedwar wedi eu colli; y gweddill a ddysgrifir yn ffyddlawn, a rhoddir hanes pob brenin a sant yn fanwl, mewn llyfryn bychan a gyhoeddwyd yn 1749, gan y teilwng Ddoctor William Cooper, yr hwn a gyflwynodd yr elw at wasanaeth yspytty y cotiau gleision yn y ddinas hon. Dymunaf ddatgan fy anghydwelediad â'r dybiaeth mai hon ydoedd creirfa St. Werburgh, fel y gelwir hi yn gyffredin. Diau nad ydoedd ddim yn rhagor na'r sylfaen ar yr hon y safai y wir greirfa, neu, fel y geilw y Ffrangcod ef, *la chasse*, yr hon a gynwysai y creiriau sanctaidd. Gwneir y rhai hyn o aur, arian, *vermeil*, hyny yw, llwch arian, neu ryw ddefnyddiau gwerthfawr, ac weithiau addurnid hwy â gemau o bris uchel. Y maent yn fynych o wahanol ffurfiau, megys eglwysi, cloergistiau, &c.; ac os byddai y crair yn llun pen, neu aelod, gwneid y *chasse* yn gyfaddas at ffurf y crair. Y mae y rhai hyn yn gyffredin wedi eu gosod yn amlwg mewn lle uchel; ac y maent bob amser yn symudadwy, fel y gellir eu cario mewn gorymdaith, naill ai er anrhydedd i'r sant, neu er osgôi rhyw drychineb anfad. Fel hyn, yn 1180, dygwyd crair St. Werburgh allan er rhoddi atalfa ar dân dinystriol yn y ddinas, yr hwn a fuasai er's hir amser yn anorchfygol trwy bob moddion ereill; ond bu i ddynesiad y gweddillion cysegredig brofi eu sancteiddrwydd, trwy roddi terfyn ar ei ddinystr aflywodraethus.

*Crair St. Werburgh*

*Llofruddiad.*

Cyn i mi adael y rhan yma o'r eglwys, rhaid i mi grybwyll am gyflafan annuwiol a gyflawnwyd wrth yr allor fawr yn 1492, gan foneddwr o Gymru, yr hwn a glwyfodd, braidd i farwolaeth, un o'r enw Patrick Filling, yr offeiriad a wasanaethai ar y pryd, fel y tybiwyf. Ataliwyd y gwasanaeth dwyfol arferedig ar unwaith, nes y gwnelid puredigaeth i lanhau yr eglwys oddiwrth y fath ystaen gwaedlyd. Purwyd y fynachlog ar ddyddgwyl St. Werburgh; ac eglwys y pwyf ar ddyddgwyl St. Oswald.*

Cyflawnwyd ysgelerwaith o'r natur yma yn eglwys *Notre Dame*, yn Paris, in 1670.† Bu farw yr offeiriad o'i archoll; a gwnaed penyd trwy orchymyn yr archesgob; offrymwyd gweddïau cyhoeddus am ddeugain o oriau yn yr holl eglwysi; ac apwyntiwyd ympryd, yr hwn oedd i barhau am dridiau. Terfynodd yr helynt trwy i orymdaith ardderchog gael ei ffurfio, yn yr hon yr ym-

* King. ii. 189. † Felibien Hist. Paris, ii. 1500. Pieces Justif. iii. 212.

Digitized by Google

unai yr holl senedd, er gwneyd iawn cyffredinol a boddhaol am y llofruddiad. Yr oedd yr heolydd wedi eu gorchuddio â llawrleni, a'r mân heolydd wedi eu cau i fyny â chadwyni er cadw allan y werinos; ac fel hyn yr adferwyd y lle i drefn briodol at gyflawni y swyddau cysegredig.

Gyda math o arswyd y byddaf yn darllen yn ngwaith y zelog *Fox*, am gylafan o'r fath yma a gyflawnwyd yn y deyrnas hon, yn nheyrnasiad y frenines Mari.* Daliwyd y penboethyn, a chospwyd ef trwy dori ymaith ei law, a thrwy ei losgi: eto y mae yr hanesydd yn rhoddi lle iddo yn mhlith dyoddefwyr llawer rhagorach o ran eu hegwyddorion yn y cyfnod barbaraidd hwnw.

O'r tu ol i'r côr y mae capel St. Mair; ac ar bob ochr, y mae rhodfa. Nid yw y cofadeiliau yn y manau hyn mewn un modd yn rhai hynod. Yn ei rhodfa ogleddol y mae beddrod gyda chroes flodeuog, eiddo abad; ac un arall ar ffurf allor, yr hwn a briodolir i Harri IV., ymerawdwr Germany, a'r hwn, yn ol y chwedl draddodiadol, y dywedid ei fod wedi diangc o'i drafferthion, a phreswylio yn *Godstall lane*, yn y ddinas hon; iddo farw yno, a chael ei gladdu yn y fynachlog. Y mae yn dra ansicr pa un a fu y tywysog mawr ond anffodus hwn erioed yn ein teyrnas; ond gwyddis yn dda iddo orphen ei ddyddiau yn Liege,† yn 1106, ac iddo gael ei gladdu yn fawreddog yn eglwys gadeiriol y ddinas hon.

Y mae y trawsrodfeydd o hydau anghyfartal; yr un ddeheuol yn eang iawn, ac wedi ei chyflwyno i St. Oswald, a dyna eglwys y plwyf o'r enw hwnw. Dywedir fod hon wedi ei hadeiladu ar safle eglwys St. Pedr a St. Paul, yr hon wedi hyny a newidiwyd i enw y Drindod Sanctaidd, ac yn olaf, i'r enw a ddeil yn bresenol. Wrth ail-adeiladu yr eglwys, helaethwyd y rhodfa yma yn fwriadol, a phennodwyd hi gan y mynachod i'r preswylwyr cymydogaethol, y rhai oeddynt gan mwyaf yn weision neu yn denantiaid iddynt. Ar y cyntaf, dymunai y brodyr crefyddol gael y cwbl iddynt hwy eu hunain, ac ar y cyfrif hwnw adeiladasant, mewn pellder oddiwrth y rhodfa hon, gapel a elwid St. Nicholas, a gwaddolasant ef â ficeriaeth, at wasanaeth y llëygwyr; ond ar ol hyny, cafodd y trigolion, ar eu dymuniad eu hunain, a thrwy gytundeb rhwng y maer a'r abad, oddeutu y flwyddyn 1488, adferu iddynt wasanaeth eglwys St. Oswald, yr hon a ddaliant hyd y dydd hwn.‡

Y capel, wedi iddo fyned yn ddiddefnydd, a brynwyd gan y dinasyddion, ac a dröwyd ganddynt yn neuadd gyffredin er dwyn yn mlaen eu gorchwylion masnachol.§ Mewn amseroedd diweddarach, ar ol adeiladu y gyfnewidfa, tröwyd ef yn ystordy gwlan; yn ystorfa i gertwyr; a rhan o hono yn chwareudy, gan weithredu o dan drwydded seneddol.

Nid oedd y fynachlog hon yn rhoddi ond noddfa am dymhor i'r afradlon. Y mae y ragorfraint a ganiatâwyd gan Hugh Lupus yn un hynod; efe a archodd, nad oedd i unrhyw leidr neu ddrwgweithredwr arall, a ddeuai i'r ffair a gynelid ar wyl St. Werburgh, gael ei gymeryd i fyny, oddieithr iddo gyflawni rhyw drosedd newydd yno.‖ Hyn, medd King, a dynodd yma dyrfa fawr o bobl afradlon ar yr adeg hono, a buont o wasanaeth neillduol i Randle y trydydd, iarll Caerlleon; yr hwn, wedi cael ei amgylchynu yn nghastell Rhuddlan

* Martyrs, iii. † Modern Univ. Hist. xxxix. 95. ‡ King, ii. 39.

§ Dichon fod yma neuadd gyffredin hynach; y mae heol fechan yn y ddinas hyd heddyw yn dwyn yr enw *Old Common-hall lane*. ‖ Leicester, 119.

Digitized by Google

gan fyddin luosog o Gymry, ac mewn perygl mawr, a anfonodd am gymhorth at ei gadfridog, *Roger Lacy*, yr hwn oedd ar y pryd yn ffair Wylifan. Lacy yn ddiatreg a gasglodd ynghyd fintai fawr o glerwyr, crythwyr, a phobl segur, y rhai a ymdyrasent yma ar gyfrif y rhagorfraint hon; aeth gyda hwy i Gymru, ac achubodd yr iarll o'i gyfyngderau. Randle, ar ei ddychweliad, a wobrwyodd Lacy â chyflawn awdurdod dros yr oll o'r rhai a fuasent yn offerynol i'w achub, *magisterium omnium lecatorum et meretricum totius Cestreshire.** Trwy y caniatâd yma awdurdodid ef i hawlio presenoldeb holl glerwyr a cherddorion y sir ar ddydd blwyddgylch y gorchestwaith hwn. Yr oeddynt i chwareu o'i flaen ef a'i etifeddion am byth, mewn gorymdaith i eglwys St. Ioan; ac ar ol y gwasanaeth dwyfol, i'r fan lle y cynaliai efe ei lys. Yna holid y cerddorion o barthed eu bywyd a'u hymarweddiad; pa un a fyddai neb o honynt yn chwareu heb drwydded flynyddol oddiwrth eu harglwydd, neu a oeddynt wedi clywed unrhyw air bach o barthed ei anrhydedd, yn mhlith eu cymdeithion. Y rhagorfreintiau hyn a gariwyd allan wedi hyny gan Ioan, mab Roger de Lacy, ac a osodwyd ganddo ar Hugh de Dutton a'i etifeddion. Cynelid yr orymdaith a'r llysoedd o fewn fy nghof i, gan eu gorchwyliwr; ond y maent yn awr wedi ei gadael i fyned i ebargofiant. Yr wyf yn cael hefyd fod Dutton a'i etifeddion yn hawlio yn y wledd hon gan y cerddorion, bedair potelaid o win, ac un ddysglaid fawr; ac ar yr un pryd daledigaeth o bedair ceiniog a dimai; ac am bob cerddor yn sir Gaerlleon, ac yn y ddinas hòno, y swm o bedair ceiniog, os byddai yn ymarfer ei gelfyddyd.†

*Y Carmeliaid.*] Y tai crefyddol ereill yn y ddinas hon oeddynt y Carmeliaid, neu y Mynachod Gwynion, gan bai rai y oedd mynachdy yn y rhan hono o blwyf St. Martin a elwir hyd heddyw yn *White-friars' lane;* y mae rhan o dŷ Mr. Marsden wedi ei ffurfio o'r gweddillion. Safai yr eglwys, fel yr ymddengys oddiwrth ddarlun Braun o'r ddinas yn 1581, ychydig o du y gorllewin iddi.

Yn ol siartr Roger Lacy i fynachlog Norton, ymddengys fod yno fynachlog y pryd hyny yn mhlwyf St. Mihangel,‡ yr hwn y mae efe yn ei throsglwyddo i ganoniaid y blaenaf. Y mae yr urdd i ba un y perthynai yn anhysbys i ni yn bresenol.

Yn mhlwyf y *Drindod* safai mynachdy o Ffrancisiaid, neu Fynachod Llwydion, yr hwn y tybia Dr. Tanner ei fod mor hen ag amser Harri III. Caniatesid y safle yma i un o'r enw John Cokke. Tybiaf fod hwn yn sefyll yn yr *Yatch field*, yn agos i'r lle a gymerir i fyny yn bresenol gan y neuadd liain a adeiladwyd yn ddiweddar. Yn ol plan *Speed* o ddinas Caerlleon, ymddengys fod yno eglwys yn ei amser ef; ac hyd heddyw y mae priddlechau paentiedig a gwydr goliwiedig, gweddillion hen fympwyon eglwysig, yn cael eu codi i fyny yn barhaus.

Yn mhlwyf St. Martin§ yr oedd mynachdy o Fynachod duon, neu bregethwrol, a dywed *Speed* iddo gael ei sylfaenu gan esgob o Gaerlleon, gan feddwl (fel y sylwa *Tanner*) Lichfield. Cafodd hwn, yn gystal a'r crefydd-dy arall yn

* "Awdurdod ar yr holl gardotwyr a cherddorion yn yr oll o sir Gaerlleon."

† Leicester, 142. ‡ Dugdale Monast. ii. 185.

§ Yn hytrach yn mhlwyf y *Drindod;* y mae 9*s.* 2½*d.* yn cael ei dalu, yn archwiliad y cyfrifon, am eu safle.

y plwyf hwn, eu caniatâu i'r unrhyw John Cokke. Y mae rhan o'r tŷ hwn, gyda'i ddaeargelloedd ysplenydd, yn cael eu dal gan Henry Hesketh, yswain.

*St. Ioan.* Yr oedd St. Ioan, yr hon a orwedd o'r tu allan i'r muriau ar ochr ddwyreiniol y ddinas, ar un adeg yn eglwys golegawl, a dywedir iddi gael ei sylfaenu gan y brenin Ethelred yn 689, wedi cael o hono ei rybuddio mewn gweledigaeth i'w hadeiladu ar y fan lle y caffai ewig wen. Ar ol i'r Daeniaid wneyd y ddinas yn adfeilion, adferwyd yr eglwys gan Ethelred, iarll Mers, yn 906, ac yn y ganrif nesaf adgyweiriwyd a gwaddolwyd hi gan yr iarll Leofric. Sylfaenwyd mynachlog yma hefyd; oblegyd y mae haneswyr yn cofnodi fod y brenin Edgar wedi cael ei rwyfo o'i balas i fynachlog St. Ioan. Y mae y *Doomsday Book* hefyd yn crybwyll am fynachlog St. Mair gerllaw yr un eglwys. Hon, heblaw hyny, oedd yr eglwys gadeiriol yn ystod yr adeg fer pan y symudwyd yr esgobaeth o Lichfield gan yr esgob Pedr. Mewn hen blan o honi ymddengys tŷ a elwid yn dŷ yr esgob.

Yn adeg y dadgorphoriad, cafwyd yma ddeon a saith o gôrgeiniaid neu ganonau (yn rhoddiad esgob Lichfield); saith o ficeriaid, dau gurad, a phedwar o gantorion corawl; clochyddion, a gweision ereill; tai y rhan fwyaf o ba rai a ddarlunir ar yr un plan. Nid oedd eu cyllid blynyddol, ar ol tynu allan ryw bethau, ond 27*l.* 17*s.* 4*d.* Caniatawyd safle y coleg, a rhyw ranau o'r adeiladau, gan y frenines Elizabeth i John Fortescue.*

Ar yr ochr ddwyreiniol i'r fynwent safai capel St. Anne, yr hwn a berthynai i'r brodyr a'r chwiorydd perthynol i frawdoliaeth St. Anne.† Hwn, mewn amseroedd diweddarach, a elwid neuadd *Cholmondeley*, ond y mae yn bresenol wedi ei lwyr chwalu.

Yr oedd eglwys St. Ioan, pan yn gyfan, yn adeilad ardderchog. Safai y tŵr ar un adeg yn ei chanol; ond yn 1574 cwympodd i lawr, ac ni ail-adeiladwyd ef byth. Dichon fod y gangell wedi cael ei dymchwelyd ar yr un pryd; yn y pen hwnw y mae rhai bwäau prydferth yn aros, a gweddillion ereill o hen gapelau. Oddi fewn y mae en greifftiau cywrain o nerth amrosgo yr adeiladdiaeth Sacsonaidd, yn y colofnau braisg a'r bwäau crynion a gynaliant y corph. Y mae y tŵr yn bresenol wedi ei osod yn y pen dwyreiniol, ac y mae ganddo ar un ochr y chwedl draddodiadol, yr hon a ddangosir gan lun dyn ac ewig.

Ar du y dehau i'r fynwent, ar fin dibynfa serth, yr hwn y tybir ei fod yr un a *Radeclive* y *Doomsday Book*, y mae adeilad fechan hynafol (dichon mai capel ydoedd,) a elwir y Feudwyfa *(anchoritage,)* lle y llechai rhyw hen feudwyon sanctaidd. Dichon mai dyma y fan lle y claddwyd hwy; oblegyd cafwyd yn y graig galed ddau gorph wedi eu gosod mewn tyllau a dorasid ar ffurf arch; dichon hefyd mai dyma y fan, fel y dywed y chwedl, lle y gorphenodd Harold, brenin diweddaf y Sacsoniaid, ei ddyddiau; oblegyd credid am hir amser gan y Saeson iddo ddiangc o frwydr *Hastings*, a gorphen ei ddyddiau mewn neillduaeth.

Y mae y Doctor Tanner yn tybied fod mynachdy y lleianod Benedictaidd, yr hwn a gyflwynasid i St. Mair, wedi tarddu naill ai o fynachdy St. Ioan, neu ynte ei fod yn weddillion o un o'r hen leiandai a berthynent i St. Werburgh. Dichon fod hyn yn wirionedd; oblegyd, oddiwrth siartr a ddyogelwyd gan

* Tanner, 39. † Harleian MSS. No. 1994. 69.

Digitized by Google

Dugdale, ymddengys fod Randle yr ail, iarll Caerlleon, wedi cael i *leianod Caerlleon*, rai darnau o dir gan Hugh Fitzoliver, iddynt hwy adeiladu eglwys a lleiandy arnynt; yr hyn sydd yn profi fod lleianod yn y ddinas yn flaenorol i'r rhoddiad yma.* Yr wyf yn cael hefyd fod Iorwerth y Tywysog Du wedi bod yn gymwynaswr; oblegyd y mae crybwylliad am siartr o'i eiddo ef i'r lleianod, yr hwn a ganiatawyd yn y 32ain o deyrnasiad ei dad.† Dilewyd y sefydliad yma (gyda'r tai crefyddol ereill) yn 1537. Y pryd hwnw Elizabeth Grosvenour oedd y brif leianes, yr hon a roddodd y tŷ i fyny, ac a gafodd bensiwn am ei hoes o ugain punt; ac un ar ddeg o'r chwiorydd a gawsant hefyd flwydd-daliadau, o 4*l.* i 1*l.* 6*s.* 8*d.* yr un. Caniatawyd y safle, yn y 33ain o Harri VIII., i'r Urian Breretons, y tad a'r mab. Y cyllidau oeddynt, yn ol Dugdale, 66*l.* 18*s.* 4*d.*; yn ol Speed, 99*l.* 16*s.* 2*d.* Y mae yn fy meddiant lawr-gynllun o'r lleiandy hwn; oddiwrth ba un yr ymddengys ei fod yn adeilad cryno, ond bychan. Yr oedd yr eglwys yn 22 llath o hyd, ac yn 15 o led; a chynelid y nenfwd yn y canol gan rês o bileri. Y capel ydoedd 9 llath wrth 4¾, a'r *cloisters* yn 30 llath wrth 21. Safai yn y *nursery-garden* ar yr ochr orllewinol i'r ddinas, yr hon a elwir hyd heddyw yn *Ardd y lleianod*, lle y mae olion y muriau a'r bwäau yn aros eto. Yr aderyn prydferth hwnw, y *rose-coloured ouzel*,‡ a saethwyd yn yr ardd hon ychydig o flynyddoedd yn ol.

*Yspytty.*] O'r tu allan i Borth y gogledd safai yspytty, yr hwn oedd wedi ei gyflwyno i St. Ioan Fedyddiwr, ac yn flaenorol yn gysegrfa, wedi ei gwaddoli â rhagorfreintiau mawrion. Rhoddwyd y swydd o lywodraethwr gan Iorwerth II. i ben-mynach *Berkinhead*, a'i olynwyr; ond ar ol hyny, gwerthwyd hi gan y goron i glerigwyr llëygol. Yr oedd y tŷ, ar adeg y dadgorphoriad, yn gynwysedig o gaplan a chwech o frodyr tlodion, incwm pa rai, ar ol tynu allan gostau, oedd 13*l.* 7*s.* 6*d.*§ Crybwyllir gan yr esgob Tanner‖ fod rhyddfreiniau yspytty St. Giles wedi cael eu cadarnhau gan Iorwerth III. Dywedir wrthyf fod gweddillion, y rhai y tybir eu bod yn rhan o'r adeilad yma, i'w gweled yn Heol y fforest.

Yr hen yspytty diweddaf a sefydlwyd i wahangleifion, yn maesdrefi Boughton, oddeutu dechreuad teyrnasiad Iorwerth II; gyferbyn, yr wyf yn meddwl, a'r dienyddle: y mae y gladdfa yn cael ei defnyddio hyd heddyw gan blwyf St. Oswald.

*Plwyfydd.*] Nifer y plwyfydd ydyw naw. Nid oes yr un o'r eglwysi yn hynod, oddieithr eglwys St. Pedr ac eglwys y Drindod, y rhai a hynodir gan brydferthwch eu pinaglau. Gorphenwyd pinagl y flaenaf¶ yn 1489; pryd y darfu i'r periglor ac ereill hynodi eu hunain trwy fwyta rhan o wydd arno, a lluchio y gweddill i'r pedair heol.**

*Poblogaeth.*] Nifer y trigolion, a chymeryd i mewn faesdrefi Boughton a Hanbridge, a amcan-gyfrifir oddeutu 14,713.†† Y mae y tai, braidd

* Sciatis me dedisse, et in perpetuam elemosynam concessisse DEO et Sanctæ Maria et MONIALIBUS Cestriæ, &c *Monasticon*, i. 507. "Bydded hysbys i chwi fy mod i wedi rhoddi a chyflwyno mewn elusen parhaus i DDUW, a'r Sanctaidd Fair, ac i LEIANOD Caerlleon," &c.

† Harleian MSS. No. 2057. 36. ‡ Br. Zool. II. 627. App. § Tanner, 64. ‖ Yr un, 65.

¶ Pinagl Eglwys St. Pedr, yr hwn a ffurfiai derfyniad prydferth i Heol y bont, a dynwyd i lawr ychydig flynyddoedd yn ol. GOL. ** King, i. 76.

†† Yn yr adroddiad cyffredinol am 1801, yr oedd poblogaeth Caerlleon yn 15,052. Dywedir ei bod yn awr yn cyrhaedd yn agos i 15,500. GOL.

Digitized by Google

i gyd, yn sefyll ar graig o dywodfaen sych. Pa un ai ar gyfrif fod yr awyrgylch mor glir, a phurdeb y dwfr, y mae yn sicr nad yw cyfartaledd y marwolaethau yn mhlith y preswylwyr ond yn unig fel un i un ar ddeg ar hugain: tra yr hysbysir fi, gan fy nghyfaill teilwng Doctor Haygarth* o'r ddinas hon, fod yn Leeds, un o bob un ar hugain—yn Northampton a'r Amwythig, un o bob chwech ar hugain—ac yn Llundain un o bob un ar hugain, bob blwyddyn yn talu teyrnged fawr natur.

*Rood-eye.*] Nid wyf yn cofio am unrhyw beth hynod, o'r tu allan i'r muriau, ag sydd wedi ei adael heb sylw arno, oddieithr y Rood-eye, a'r manau amgylchynol. Y mae yr afon Ddyfrdwy, ar ol dyfod allan o'r bwlch cyfyng gerllaw y bont, yn llifo oddi tan ddibyn cleiog crymeddol, ac ar y llaw ddehau yn golchi gweirglodd fawr a phrydferth, ers hir amser yn cael ei hamddiffyn rhag gorlifiadau yr afon gan ddyfrglawdd uchel. Tybiaf ei bod yn aros yn agored i'r llifeiriant hyd oddeutu y flwyddyn 1587, pan y darfu i'r gorphoraeth drefol (i ba un y perthyna) osod i un Thomas Lyneal, gwas i Syr Francis Walsingham, y borfa hon am un mlynedd ar hugain, yn nghyda chymaint o dir ag a allai ei enill ati oddiar y môr. Yr oedd hefyd i wneuthur, ar ei draul ei hun, borthladd i gychod a llongau ddadlwytho pan fyddai y llanw i mewn, yn agos i Borth y dwfr; am yr hyn yr oedd efe ar y cyntaf i gael dwy geiniog am bob llong a elai heibio yn llwythog; ond wedi hyny cynyddwyd y swm i bedair ceiniog; ac yr oedd Lyneal i dalu ardreth blynyddol o 20*l.* i'r ddinas. Cyfarfu â pheth rhwystrau ar y cychwyn: ond ymyrodd Syr Francis o herwydd hyny, fel y byddai i'w was gael myned yn mlaen heb aflonyddwch pellach.†

Y mae enw y llecyn yma wedi ei gymeryd oddiwrth *eye*, ei sefyllfa ddyfrllyd, a *rood*, y groes a safai yno, bôn yr hon sydd i'w weled eto. Ar y llecyn yma byddai ieuengctyd cryfion, yn y dyddiau gynt, yn ymarfer yn ngwrolgampau yr oes; mewn saethu, rhedeg, neidio, ac ymgodymu; mewn ffugiol frwydrau a buddugoliaethau dewr a rhamantus. Oddiwrth awgrymiadau a roddwyd gan Daniel King, tybiaf eu bod o'r un natur â'r rhai a ymarferid gan ddynion ieuaingc y brifddinas, fel y dysgrifid hwy gan Fitz-Stephen, ysgrifenydd a gydoesai â Harri II. "Meibion llëygol y dinasyddion a ruthrent allan o'r pyrth yn heidiau, wedi eu darparu â phicellau a tharianau; y rhai ieuangaf gyda gwaywffyn wedi eu blaenllymu, ond heb y dur; efelychent wrhydri rhyfel, a chymerent ran yn y frwydr ffugiol. Cymerai rhai y maes ar feirch da, y rhai a weryrent, gan gnoi yr enfa. O'r diwedd, dechreua y frwydr, a rhenir yr ymladdwyr ieuaingc yn ddosparthiadau—un dosparth a encilia, a'r llall a'u hymlid heb eu goddiweddu; tra, mewn man arall, y mae yr ymlidwyr yn gorddiwes y gelyn, gan eu difarchogi, a myned heibio iddynt yn mhell. Henaduriaid y ddinas a thadau yr ymladdwyr, ynghyda'r cyfoethogion, a ddeuent i'r maes ar feirch i weled yr ymarferiadau."‡

Gallem ddychymygu, oddiwrth yr hyn a ganlyn, fod yr hen hanesydd yn dysgrifio mabolgampau Ascanius a'i ddylynwyr ieuaingc ar wastadeddau Sicily:—

* Yn bresenol yn ymarfer ei alwedigaeth yn Nghaerbaddon. Gol.

† Harleian MSS. No. 2082. 31, 34.

‡ Vide Fitz-Stephen's Descr. London, cyfieithiedig gan hynafiaethydd, 1772. 46. 7, 8.

Digitized by Google

Postquam omnem læti consessum, oculosque suorum
Lustravere in equis, &c.

O amgylch y cylch, 'flaen eu tadau, marchogai
Y bechgyn mewn balchder milwraidd, nes deuai
Yr arwydd uchelsain ar edyn yr awel,
Fod amser yn galw am ddechreu'r ffug ryfel;
Mewn tair o finteioedd gwahanol ymresent,
Ymranent yn drefnus, a'u rhengau ddangosent:
Yn gyflym ar alwad dychwelent, gan daflu
Picellau gelynol i ganol y gwrthlu:
Am newydd ymgyrchiad ânt dros y gwastadedd,
Yn gylch o fewn cylch, gan dramwy'n ddiddiwedd,—
Ymlaen d'ont yn sydyn—enciliant yn unwedd;
Mewn ffugiol gynddaredd yr herient y gelyn,
Boddheir y torfeydd gan olygfa mor ddichlyn·
Un adeg i ddiangc y troant eu cefnau;
'Nawr lluchiant bicellau—mae'r gâd yn ail-ddechreu;
Ac yna mewn moment mae'r rhyfel yn peidio,—
Bydd pawb mewn tangnefedd, a derfydd y cyffro.

Baner ydoedd y gamp y cydymgeisid am dani yn chwareuon nodedig y *Rood-eye;** ond yn y flwyddyn 1609 cymerodd y difyrwch agwedd newydd; ac o dan deyrnasiad y tangnefeddus Iago, dododd y rhyfelwyr ieuaingc eu brwydrau ffugiol o'r neilldu, ac ymgymerasant â'r rhywogaeth o farchwriaeth ag y tybiai yr athronydd rhamantus hwnw, arglwydd Herbert, ei fod yn anaheilwng o ddyn anrhydeddus; "oblegyd," ebai ef, "nid wyf yn cymeradwyo yr ymarferiad o redeg ceffylau, am fod llawer o dwyll yn hyny."

Y gwobrwyon cyntaf ag y clywn am danynt, ar ol i'r ffug-ymladdfeydd gael eu rhoddi i lawr, oeddynt gloch a chawg, i gael rhedeg am danynt ar ddydd St. Sior; y rhai a ddarperid yn 1609 gan Mr. Robert Amery, cyn hyny yn sirydd y ddinas, ac a ddygid i lawr i'r *Rood-eye* gyda difrifoldeb mawr. Ymddengys mai dyma oedd dechreuad y gwpan a roddir gan y ddinas, a rhedir am dani ar yr un dydd bob blwyddyn, hyd yr amser presenol. Yr oedd cloch yn wobr dra chyffredin; cloch aur fechan oedd gwobr y fuddugoliaeth yn 1607, yn y rhedegfeydd gerllaw Caerefrog; oddiwrth hyny y tarddodd y ddiareb, pan lwyddid mewn unrhyw beth, ei fod wedi *dwyn y gloch.*

*Y Tlotty.*] Yn un pen i'r *Rood-eye* saif y *Tŷ Diwydrwydd;* adeilad eang a chyfleus, yr hwn a sylfaenwyd yn 1757, gydag arian a godwyd gan y ddinas ar flwydd-daliadau ar fywydau, er dwyn yn mlaen amrywiol welliantau o fewn ei chyffiniau. Yma y mae y tlodion yn cael darparu ar eu cyfer mewn modd cyfaddas, ac er esmwythdra mawr y plwyfi; y rhai a ryddheir oddiwrth y baich o gynal lluaws o dlodion, ag ydynt yn rhy segur i weithio, ac yn rhy falch i ddyfod i mewn i'r noddfa gysurus yma. Y mae tlodion plwyf Pen-ar-lâg yn cael eu hanfon yma hefyd, yn rhinwedd rhyw gytundeb rhwng llywodraethwyr yr elusen yma ac arolygwyr y tlodion yn y plwyf hwnw. Y mae y sawl a ddeuant yno yn gwneyd rhywfaint at eu cynaliaeth trwy weithio math o lieiniau breision.

* Yr hon a enillwyd yn 1578 gan y Sirydd Montford ar Ddydd Mawrth Ynyd.

Digitized by Google

*Y Llongborth.*] Ychydig tu hwnt i'r adeilad yma y mae y llongbyrth, yr ystordai, a lluaws o bethau ereill ag sydd yn ofynol at ddwyn yn mlaen fasnach arforawl y ddinas. Y rhai hyn ydynt gyferbyn a Phorth-y-dwfr; ac y maent wedi cael eu gwellhau yn fawr o fewn y blynyddoedd diweddaraf, a heol brydferth wedi cael ei hadeiladu yn y cyfwng cydrhyngddynt. Gall llongau o 350 o dunelli gyrhaedd y llongborth yn bresenol, lle y mae y llanw mawr yn codi pymtheng troedfedd ar gyfartaledd, a'r llanw lleiaf yn codi wyth. Yn y flwyddyn 1674, yr oedd y porthladd yma mewn cyflwr mor druenus, ac wedi ei gau i fyny mor hollol gan dywod, fel nas gallai llestri o ugain tunell gyrhaedd yma, ond gorfodid y llongau i orwedd yn *Neston*, yr hwn le ydoedd ddeng milldir o bellder; yr hyn a barodd i gynulliad o dai gael eu hadeiladu, y rhai a elwid *Parkgate*, ar lan y môr islaw y dref hono. Codwyd llongborth, a elwid *New quay* (yr hwn sydd yn awr yn adfeilion) yn agos i'r lle hwn yn nechreuad* yr eilfed ganrif ar bymtheg, er cyfleusdra i lwytho a dadlwytho llongau yn trafuidio â Chaerlleon; a chludid y nwyddau i'r ddinas, ac allan o honi, ar hyd y tir. Auffodion porthladd Caerlleon o'r diwedd a fu yn achos o gynydd Liverpool, yr hwn y pryd yma nid oedd ond lle disylw. Yn awr dechreuodd ddarganfod manteision ei safle; ac yn fuan daeth allan o'i chyflwr isel i'w sefyllfa flodeuog bresenol.

*Sianel newydd.*] Yn 1674, llwyddodd rhyw gyfaill i Gaerlleon i gael gan Mr. Andrew Yarranton, boneddwr ag oedd yn hyddysg yn manteision trafnidiol yr ynys hon, wneyd archwiliad o'r afon Ddyfrdwy a'i morgaingc. Tynodd gynllun, yr hwn a gynwysai wneuthur sianel newydd, dyfais i adenill darn mawr o dir oddiar y mor, ac adferu yr hen fordwyaeth i fyny hyd yn nod at y llongbyrth presenol: a chafodd hwn ei gyflwyno i'r Duc Caerefrog, y pryd hyny yn gefnogydd pob symudiadau daionus. Efe hefyd a awgrymodd y meddylddrych o gael camlas o'r gweithydd glo yn Aston gerllaw Pen-ar-lâg, yr hwn oedd i gael ei gysylltu â'r sianel newydd yma, er rhwyddhau trosglwyddiad glo i'r ddinas.† Cafodd amserau dyfodol y fantais o'i athrylith ddyfeisgar. Dygwyd ei gynllnniau i weithrediad heb ond ychydig amrywiad oddiwrth awgrymiadau Mr. Yarranton. Yr oedd ei doriad newydd i derfynu gyferbyn a Fflint; y mae yr un presenol yn agor gyferbyn a Wepra, ar yr ochr yma i Fflint. Y mae camlas‡ fechan Syr John Glynne yn dynesu at y Ddyfrdwy oddeutu dwy filldir islaw y ddinas. Yr oedd camlas Mr. Yarranton at gludo glo i ymuno â'r Ddyfrdwy yn agos i Fflint.

Cafwyd gweithred seneddol er adferu a dyogelu mordwyaeth yr afon, i benderfynu y tollau ar longau, ac i sefydlu dwy o borthfeydd at gyfleustra y rhai a deithient i sir Fflint. Pasiwyd actau ereill yn y blynyddoedd 1732, 1740, 1743, 1752; a dechreuwyd ar y gwaith gyda bywiogrwydd. Dygwyd y cynllun yn mlaen trwy danysgrifiadau; ac yr oedd yr anturiaethwyr i gael eu gwobrwyo â'r tiroedd yr awdurdodid hwy i'w henill ar bob ochr, o'r "*tywod gwyn* neu y môr o Gaerlleon; a rhwng sir Gaerlleon, ar du y gogledd, a sir Fflint, ar du y dehau; y rhai ydynt dywod, gwerydau, a thiroedd heb fod yn cynyrchu glas-

* Harleian MSS. No. 2003. 39.

† Mr. Andrew Yarranton's England's Improvements by Sea and Land, &c., 4to London, 1677. Y mae ei gynllun at eiddo y Ddyfrdwy yn tudal. 192.

‡ Nid yw y gamlas hon yn cael ei defnyddio yn awr. GOL.

Digitized by Google

wellt." Ymrafaelion pleïdiau ar y cyntaf a lanwent restr y tanysgrifiadau: zêl dros dŷ Hanover ar y pryd hwnw ydoedd gymysg, yn y ddinas hon, gyda zel dros ei manteision masnachol; eithr buan y darganfyddwyd nad ydoedd ond *gwallgofrwydd i'r lluaws, a mantais i'r ychydig.* Aeth y costau yn arswydus; gorfu ar luoedd werthu allan am uwchlaw 90 y cant o golled; prynwyd eu cyfranau gan bersonau cyfoethocach a mwy gochelgar, ac o'r diwedd daeth y cynllun yn wasanaethgar i raddau helaeth; ffurfiwyd camlas hardd, yn cael ei hamddiffyn gan gloddiau mawrion, yn mha un y cyfyngir yr afon am y pellder o ddeng milldir, ac ar hyd yr hon y gellir dwyn llongau o 350 o dunelli i fyny yn ddyogel at y llongbyrth. Enillwyd llawer o dir oddiar y môr; ac y mae ffermydd da i'w gweled yn awr mewn manau ag oeddynt ychydig yn ol yn meddiant yr elfen aflywodraethus.

Yr wyf yn cofio llanw ag oedd braidd yn gwbl ddiddefnydd yn llifo o gwmpas Tŵr y dwfr, hen sianel y Ddyfrdwy yn myned heibio i bwynt Blacon; ac nid oedd y dramwyfa i sîr Fflint yn agored, ar yr ochr hon, ond yn unig pan fyddai y llanw allan, a chollid llaweroedd o fywydau bob blwyddyn. Y mae dwy borthfa wedi cael eu sefydlu mewn lleoedd cyfaddas. Yr isaf ydyw y fynedfa briodol i deithwyr trwy Gaergybi i deyrnas yr Iwerddon; ac y mae yn galw yn uchel am gymhorth *turnpike* i'w chadw bob amser yn dramwyadwy; neu gellid parhau y ffordd i Saltuey, ar hyd y gwastadedd, fel ag i ymuno â'r ffordd fawr arall ar y morfa.

Yn awr .ni a gymeraf olygiad byr* ar drafnidiaeth y ddinas hon, fel y safai yn y blynyddoedd 1771 a 1776. Yr wyf yn dwyn yr olaf i'r golwg i'r dyben o ddangos mor fawr y mae y porthladd hwn wedi cael effeithio arno gan gynhyrfiadau ein deiliaid yn America; gan ei gyferbynu â thrafnidiaeth 1771, pryd yr ymddengys ei fod yn ei uchder mwyaf er adferiad y sianel. Yn 1771, daeth i mewn

297 o longau arfordirol; 19 o ba rai oeddynt yn llwythog o *groceries*, a nwyddau ereill o Lundain.

526 o longau arfordirol i hwylio allan; o'r rhai y daeth 23 yma o Lundain, a llwythwyd hwy â phlwm, cyflegrau heiyrn, dwy fil o dunelli o gaws, a nwyddau ereill.

Yn yr un flwyddyn, cawn fod 95 o longau wedi dyfod i mewn o barthau tramor; a 216 i hwylio allan am Iwerddon, Portugal, Yspaen, Itali, ac America.

O Norway a'r Baltic yr ydym cael coed, llin, gwêr, carth, haiarn, a phlangciau ffawydd. O Leghorn, symau mawrion o grwyn mŷn ac ŵyn, y rhai a weithir gan y glwferiaid, ar ol cael eu trin yma. Dyma, mewn gwirionedd, yr unig law-weithyddiaeth ag y gall y ddinas ymffrostio ynddo. Yr wyf yn cael fod yma, yn nheyrnasiad y frenines Elizabeth, Iago I., a'r rhan flaenaf o deyrnasiad Siarl I., fasnach eang mewn crwyn lloi yn cael ei dwyn yn mlaen. Yn y cyntaf o'r cyfnodau caethdrafnidiol hyn, y mae y frenines yn caniatâu i un Arthur Balsano drwydded i gludo o'r wlad 6000 *dickers* o ledr crwyn lloi, deg dwsin yn mhob *dicker*, am saith mlynedd, gan dalu pum' swllt am bob *dicker*. Iago I. a ganiataodd i James Maxwel, yswain, drwydded i anfon ymaith 18,000 o *dickers*, yn ol yr un doll, ac am un mlynedd ar hugain; a chadarnhawyd hyn

† Ceir adroddiad cymhariaethol o drafnidiaeth Caerlleon yn 1786, 1799, ac 1806, yn yr Attodiad. Gol.

Digitized by Google

ar ol hyny iddo gan Siarl I.* Yr oedd y Maxwel hwn yn un o weision ystafellwely y brenin; ac yn y teyrnasiad blaenorol, trwy iddo arddangos gradd gormodol o drahausder at foneddwr perthynol i'r llysoedd cyfreithiol, efe a dynodd arno ei hun wg y Saeson; a bu raid iddo wneyd iawn am y camwedd trwy ymostyngiad cyfaddas. Dichon fod y caniatâd cyntaf a roddodd Iago iddo fel math o ad-daliad am y diraddiad a ddyoddefasai.

O Yspaen a Phortugal y dygid symau helaeth o gorcyn, ffrwythau, olew yr olewydd, cnau, lludw *barilla*, a resins: ac amryw gannoedd o dunelli o win o Portugal: yr olaf a ffurfia y brif nwydd a drosglwyddir i'r ddinas hon o dramor.

Tra yr oedd y fasnach âg America yn agored, dygid pysgod ac olew o Newfoundland; a cherid yn mlaen fasnach fechan â Carolina.

Yr oedd yr allgludion y flwyddyn hon yn cynwys uwchlaw 6000 calloraid (pob un yn 36 bwsiel) o lo, o weithydd glo siroedd Caerlleon a Fflint (y rhai a orweddant oddifewn i derfynau y porthladd hwn); 1000 o dunelli o blwm; 300 o fwn plwm; 300 o risg derw; y cwbl o'r rhai hyn i wledydd tramor. Heblaw 3470 o dunelli o blwm, a 431 o fwn plwm, a anfonid ar hyd yr arfordir, hyny yw, i borthladdoedd Llundain a Liverpool i gael eu hail-lwytho.

Yn 1776, cofnodir 208 o lestri arfordirol wedi dyfod i mewn, a 619 wedi hwylio allan.

Daeth 166 o longau i mewn o dramor, gan gynwys y rhai a drafnidient rhwng Dublin a Parkgate; ac aeth 131 allan. Bydd i'r tabl canlynol ddangos sut yr oedd y fasnach yn cael ei rhanu, yn y cyfnod hwnw:

| | I mewn. | Allan. |
|---|---|---|
| America | 2 | 5 |
| Ffraingc | „ | 11 |
| Fflanders | „ | 1 |
| Holland | „ | 1 |
| Iwerddon | 140 | 104 |
| Ynys Manaw | 3 | 4 |
| Portugal | 3 | 3 |
| Yspaen | 4 | „ |
| Italy | 3 | 1 |
| Norway, Rwssia, a Phrwssia | 10 | 1 |

Anfonwyd 2877 calloraid o lo, 1184 tunell o blwm, a 168 o fwn plwm, i wledydd tramor; ond mor ddyhysbyddedig ydyw ein coed derw, fel na lwythwyd ond 18 tunell o risg. Anfonwyd 2813 tunell o blwm, a 431 tunell o fwn plwm, ar hyd yr arfordir.

Oddiwrth y tabl blaenorol ymddengys mai gyda'r Iwerddon y mae prif drafnidiaeth y ddinas hon; derbynia oddiyma bob blwyddyn (fel ystorfa) symau mawrion o hopys, brethyn, ystyffiau, hosanau, ffustian, nwyddau Manchester, caws, haiarn gyru, gynau heiyrn mawrion, *hardware*, llyfrau wedi ac heb eu rhwymo, carpedau, gwydr, sidanau, a symau mawrion o nwyddau tramor, y rhai a anfonir o Lundain ar hyd y tir, ac a lwythir yn y porthladd hwn.

Fel ad-daledigaeth am hyn, y mae yn trosglwyddo i mewn o'r Iwerddon, ar adeg ffeiriau Gwylifan a Gwylfihangel, uwchlaw 1000 o gistiau o liain, yn cynwys 25,000 o ddarnau o'r hyn leiaf; heblaw 900 o gistiau neu sypynau a dros-

* Harleian MSS. 2004. 4, 5, 16.

Digitized by Google

glwyddir i Liverpool, ac a anfonir dros yr afon Mersey i *Ince*, o ba le y cludir hwy mewn certwyni i Gaerlleon. Y mae y rhai hyn gyda'u gilydd yn ffurfio oddeutu miliwn o latheni at bob ffair. Ni ddechreuwyd y fasnach hon yn fwy yn ol na'r flwyddyn 1736, yn mha un y trosglwyddwyd i mewn 449,654 o latheni. Yr oedd y trosglwyddiadau i mewn ar gynydd hyd y flwyddyn olaf o'r rhyfel diweddar; er y pryd hyny nid oes dim cynydd wedi bod.*

Y mae yr Iwerddon hefyd yn anfon yma symau mawrion o grwyn ŵyn, gwlan, edafedd llin, gwêr, crwyn, ymenyn, plu, *quills*, esgyrn a charnau ychain, glud, perfeddi defaid a chathod, ymborth, a da byw.

Y mae nifer y llongau a berthynant i'r lle hwn yn arddangos yspryd gwrthdrafnidiol y trigolion; nid oes ond dwy ar hugain yn unig yn y fasnach dramor, yn cynwys yn y cyfan 1449 o dunelli, a 169 o forwyr; a 13 ar y drafnidiaeth arfordirol, yn cario 680 o dunelli, a nifer y morwyr ydyw 58; er hyny, y mae y porthladd yn ymestyn, ar ochr sir Gaerlleon i'r forgaingc, mor belled a phen *Wiral;* ac ar ochr sir Ffliut hyd y Foryd, neu enau yr afon Clwyd. Nid yw hyn, a siarad yn briodol, ond rhan yn unig o borthladd mawr Caerlleon, yr hwn a gyrhaedda un ffordd mor bell a'r Abermaw yn sir Feirionydd, a'r ffordd arall hyd gyffiniau eithaf sir Lancaster. Yn y rhandiroedd hyn y mae niferi o borthladdoedd ereill, ond y maont oll yn ddarostyngedig i arolygwr porthladd Caerlleon; ac y mae hyd yn nod Liverpool, yn y freinteb, yn cael ei galw yn "gilfach" o borthladd Caerlleon.

*Camlas.*] Yr oedd yn ddiweddar olwg led dda am ychwanegu llawer at drafnidiaeth y ddinas, trwy fordwyaeth canoldirol, yr hyn a ddechreuwyd gyda bywiogrwydd mawr ychydig flynyddoedd yn ol. Yr oedd i redeg trwy y sir islaw castell Beeston, ac i derfynu yn agos i Middlewich. Yr oedd cangen arall † i ymestyn hyd Namptwich. Yr oedd un genau i agor i'r Ddyfrdwy islaw Tŵr y dwfr. Y mae cronlyn ardderchog wedi cael ei ffurfio, i ba un y mae y cychod i ddisgyn, trwy bump o argaeau *(locks)* olynol, o dan furiau gogleddol y ddinas, ac wedi eu tori allan o'r graig fyw. Y mae ychydig filldiroedd o'r anturiaeth yma wedi eu cwblhau: ond, trwy anffodus gamgymeriad wrth gyfrif y draul, a thrwy anhawsderau na ragwelasid mo honynt yn nghyflawniad y gwaith, aeth y costau mor anferthol fel ag i roddi terfyn yn bresenol ar yr holl weithrediadau. Yr oedd y gangen arall, yr hon oedd i ymestyn yn nghyfeiriad Middlewich, i derfynu o fewn ychydig bellder pennodol i'r gamlas fawr rhwng mordwyaeth yr afonydd Trent a'r Mersey. Y prif amcanion mewn golwg oeddynt fasnach yr halen a'r caws; a glo, er diwallu rhanau mewnol sir Gaerlleon, o weithydd glo anferthol sir Stafford. Gallesid hefyd yn rhesymol ddysgwyl peth enill oddiwrth drosglwyddiad nwyddau haiarn, llestri pridd, a'r holl nwyddau a weithir yn nghanol y wlad, a fyddent o fewn cyrhaedd iddo.

* Lliain o'r Iwerddon a ddygwyd i Gaerlleon—

| Yn | Paciau. | Cistiau. | Boxes. | Bwrneli. | Cloerau. | Parseli. | Sypynau. |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1776 | 1684 .. | 14 .. | 988 .. | 20 .. | 16 .. | 6 .. | 8 |
| 1796 | 582 .. | ,, .. | 808 .. | 4 .. | ,, .. | ,, .. | ,, |
| 1806 | 327 .. | ,, .. | 936 .. | ,, .. | ,, .. | ,, .. | ,, |

Gellir amcan-gyfrif y nwyddau a gludid i mewn i Liverpool, neu a drosglwyddid o Fanchester, fel 60 sypynaid a 740 bocsiaid yn mhob blwyddyn. GOL.

† Y mae y gangen yma wedi ei chwblhau, a chynyrcha ychydig drafnidiaeth, ar gyfrif ei chysylltiad â chamlas Ellesmere. GOL.



Digitized by Google

Y mae y meddylddrych am gael camlas ar hyd y gwastadedd cydrhwng Caerlleon ac Ince* er's hir amser wedi cael meddwl am dano, gan bersonau ag ydynt yn dra chydnabyddus â masnach y ddinas hon. Gallasai un genau agor i'r Ddyfrdwy yn lle yr un presenol; un arall yn agos i Ince, yr hyn a fuasai yn ffurfio cysylltiad ar unwaith gyda Liverpool, y Weever, a'r gweithydd halen a'r llaethdai mawrion ar yr afon hono; gyda Warrington, a chyda thref flodeuog Manchester, a nifer lluosog o fanau o fewn cyrhaedd y Mersey, a chyda'r gamlas a berthyna i'r pendefig defnyddiol hwnw, duc Bridgewater, â pha un y mae y rhai mwyaf o'n cyfryngau mordwyol yn y canoldir wedi eu cysylltu. Gallai y ddinas fwynhau y toriad bychan yma heb i neb genfigenu wrthi, na chydymgais â hi; a'r hyn sydd o bwys mawr, nid yw y pellder ond bychan (saith milldir, yn ol map Burder,) ni byddai y draul ond ychydig, tra y byddai yr enill i'r rhai a ymgymerent â'r gwaith yn fawr.

Wedi gadael y ddinas, a myned heibio Handbridge, mi a gymerais y ffordd ar y llaw chwith, yr hon sydd barhad o'r ffordd Rufeinig oddiwrth yr afon. Ei chyfeiriad unionsyth ydyw yr unig brawf o'i hynafiaeth, nes y troa i'r caeau ar y chwith, lle y mae ei chŵrs yn cael ei nodi allan gan drumau a manau dyrchafedig. Yr amaethwr hefyd, wrth gloddio, yn fynych a ddaw ar draws sylweddau arwyddocaol; megys graian, a gweddillion palmant. Y mae ei chyfeiriad tuagat Eccleston (Tref Eglwys,) yn agos i ba le y mae gweddillion bryncyn. Y mae yn myned trwy barc Eaton, ac yn croesi y Ddyfrdwy yn Oldford.

*Eccleston.*] Y mae pentref *Eccleston* yn sefyll yn brydferth gerllaw y Ddyfrdwy, a cheir golwg oddiyno ar dyrau a phinaglau Caerlleon yn ymddyrchafu uwchlaw y glenydd coediog. Yr olygfa fwyaf eang a geir oddiar faingc ar fryn Eccleston, ar ochr y ffordd; yr hon a gymer i fewn ran o Gymru, sîr Gaerlleon, a rhan o sîr yr Amwythig, gan ffurfio cyfuniad rhagorol o diroedd breision, yn cael eu terfynu gan fryniau o amrywiol ffurfiau.

Y mae Eccleston yn dal yr un enw ag a feddai ar adeg y Gorchfygiad. Delid y lle y pryd hwnw gan Gilbert de Venables, o dan Hugh Lupus; cyn y dygwyddiad hwnw, gan Edwin, rhydd-ddeiliad. Ar dir yr etifeddiaeth yr oedd dau o weision, pedwar o gaethddeiliaid, ac un gwladwr, cwch a rhwyd. Disgynodd rhan o'r lle wedi hyny i feddiant y Vernons o Kinderton; ac yn olaf, trwy bryniad diweddar, ychwanegwyd ef gan deulu y Grosvenors at eu hen feddiannau yn y plwyf hwn. Perigloriaeth ydyw yr eglwys, ac y mae yn gyflwynedig i St. Mair.

*Eaton.*] Ychydig yn mhellach y saif *Eaton*, neu y pentref ar y dwfr; enw ag sydd y mwyaf cyffredin o unrhyw enw yn Lloegr. Ar adeg y Gorchfygiad yr oedd yma bysgodfa, yr hon a roddai waith i chwech o bysgotwyr, a chynyrchai fil o eogiaid. Y mae y bysgodfa wedi diflanu er's talm; ond tra y bodolai, byddai gweinidog Eccleston yn hawlio yr ugeinfed pysgodyn. Saif eisteddle† hynafol teulu y Grosvenors yn y dref-ddegwm hon; tŷ o bridd-

* Amcan ag sydd wedi ei gario allan yn ddiweddar, ac yn profi yn dra gwasanaethgar i lesiant trafnidiol Caerlleon. GOL.

† Y mae *Eaton Hall* wedi cael ei hail-adeiladu yn ddiweddar gan Robert iarll Grosvenor, yn yr arddull ardderchocaf o adeilyddiaeth Gothic, yn ol cynlluniau y cywrain Mr. Parden. Y mae haelioni y pendefig teilwng hwnw, a medrusrwydd yr un adeiladydd, wedi cael eu harddangos yn y gwaith o adeiladu eglwys blwyfol newydd yn Eccleston. GOL.

Digitized by Google

leini, wedi ei adeiladu tua diwedd yr eilfed ganrif ar bymtheg. Daeth y Grosvenors i'r wlad hon gyda'r Gorchfygwr, a chymerasant eu henw oddiwrth y swydd a ddalient yn y llys Normanaidd, sef y prif helydd. Eu hymsefydliad cyntaf yn y sir hon oedd yn *Over Lostock*, yr hwn le a roddwyd gan Hugh Lupus i'w hen nai, *Robert le Grosvenour*.

Yn 1234, Richard le Grosvenour a bwrcasodd ac a sefydlodd ei eisteddle yn Hulme. ond yn nheyrnasiad Harri VI., trwy briodas Rawlin neu Ralph Grosvenour gyda Joan, merch John Eaton o Eaton, yswain, symudwyd hi i'r lle hwn. Tra yr oedd marchogwriaeth yn nwyd yr amseroedd, ychydig deuluoedd a ymddysgleirient mewn dull mor nodedig; nid oedd neb yn arddangos ysbryd cyfartal er amddiffyn eu hawl i'w hanrhydedd. Er engraifft, dyna yr achos hynod hwnw rhwng Syr Robert le Grosvenour a Syr Richard le Scrope, yr hawlydd, ynghylch arf-bais, *azure one bend, or;* profwyd hwn o flaen yr uwch-gwnstabl ac uwch-ringyllydd Prydain, yn nheyrnasiad Rhisiart yr Ail, a pharhaodd y prawf am dair blynedd. Breninoedd, tywysogion o'r gwaed breninol, a'r rhan fwyaf o'r bendefigaeth, oeddynt dystion ar y prawf pwysig hwn. Yr oedd y ddedfryd yn un heddychlon, fod i'r naill blaid a'r llall gario yr un pais-arfau; ond y Grosvenours *avec une bordure d'argent*. Syr Robert a wrthwynebodd hyny, ac apeliodd at y brenin. Cadarnhawyd y ddedfryd: gadewir ei ddewis i'r amddiffynydd, naill ai defnyddio y *bordure*, neu ynte i ddwyn arfau ei berthynasau, hen iarllod Caerlleon, *azure a gerbe d'or*. Efe a wrthododd y gwahaniaethiad siomedigaethus, ac a ddewisodd y *gerbe*, yr hwn ydyw pais-arfau y teulu hyd y dydd hwn.

*Oldford.*] Croesi y Ddyfrdwy yn *Eaton-boat*, gan adael pont *Oldford* (Henryd) ar y llaw ddehau; adeilad brydferth, yn ffurfio cysylltiad arall rhwng deuparth cantref *Broxton;* yr hon, ar adeg y Gorchfygiad, a ddygai yr enw cantref *Dudestan*.

*Farn.*] Ar ol marchogaeth hyd wlad fudr a gwastad, cyrhaedd *Farn*, neu *Farndon*, tref fechan ar y Ddyfrdwy, a elwid yn y *Doomsday Book* yn *Ferenton*. Llosgwyd yr eglwys gan fyddin y senedd yn 1645, tra yn gwarchae ar gastell Holt (castell Lleon); ac ail-adeiladwyd hi ar ol i'r rhyfel beidio. Mewn un ffenestr, uwchlaw eisteddfa teulu parchus Barnston, y mae gwydr wedi ei baentio yn dra phrydferth, sef llywydd yn ei babell, gyda berllysg *(truncheon)* yn ei law, ac yn amgylchynedig â'r holl offerynau milwraidd ag oeddynt yn cael eu hymarfer yn amser Siarl I. O amgylch y rhai hyn y mae un ar bymtheg o ffugurau o wahanol raddau o filwyr, i lawr mor isel a'r tabyrddwr, gyda'u harwyddnodau amrywiol. Uwch ben y swyddogion y mae pais-arfau; uwch ben y llywydd y mae eiddo *Gamul;* ac ymddengys eu bod wedi eu bwriadu i gadw coffadwriaeth am Syr *Francis Gamul*, barwnig, maer gweithgar Caerlleon yn ystod y rhyfeloedd cartrefol. Uwch ben tri o'r lleill, y mae pais-arfau y *Grosvenors*, y *Mainwarings*, a'r *Barndistons;* tri o deyrngarwyr, y rhai a wasanaethasant yn yr un achos: Roger Grosvenor; Syr William Mainwaring, yr hwn a laddwyd wrth amddiffyn Caerlleon; a William Brandiston o Chirton, ysw., yr hwn a fu farw yn 1664.

Y mae y dref hon yn cael ei gwahanu oddiwrth

# SIR DDINBYCH

gan bont hynafol o feini, o ddeg o fwäau, gyda gweddillion o hen dŷ gwyliadwriaethol yn y canol; yr oedd yr amseriad, 1345, hyd yn dra diweddar, ar gareg uwchlaw y bwa a elwid *Bwa yr Arglwyddes*. HOLT,* tref fechan arall, a saif ar godiad tir ar yr ochr Gymreig i'r afon; y mae yn hen fwrdeisdref a chorphoraeth, yn cynwys maer, dau o is-faerod a threngholydd. Y trigolion, mewn cysylltiad âg eiddo Rhuthyn a Dinbych, a feddant y rhagorfraint o ddychwelyd cynrychiolwr i'r senedd. Corphorwyd y dref hon trwy siartr, yr hwn a ganiatawyd gan Thomas iarll Arundel, ac a ddyddiwyd o'i gastell yn Lyons, yn 1410. Y mae y caniatâd yn dra unochrog, ac y mae yn darllen fel hyn, *At fwrdeisiaid ein tref, ac i'w hetifeddion a'u holynwyr am byth, y rhai ydynt* SAESON. Dichon fod hyn yn tarddu oddiwrth y casineb â pha un yr ymddygai arglwyddi y cyffiniau at y Cymry, o achos gwrthryfel Owain Glyndwr, yr hwn nid oedd y pryd hwnw ond prin wedi ei ddarostwng. Parodd hyn i'r preswylwyr goleddu yspryd, yr hwn, efallai, a ddelir i fyny hyd heddyw, oblegyd o fewn ychydig flynyddoedd yn ol, hwynt-hwy oeddynt y rhai mwyaf anhydrin ac ymladdgar yn yr holl gymydogaeth. Y mae y dref yn mhlwyf *Gresford* (y Groesffordd,) ond yn esgobaeth Caerlleon. Dyma y cyfan ag sydd yn aros, ar yr ochr yma i'r Ddyfrdwy, o'r holl diroedd a roddodd Iorwerth Gyffeswr i'r esgobaeth hono, o'r holl dir ar yr ochr arall i'r afon; y rhai yn y lle cyntaf a roddodd efe i, ac wedi hyny a gymerodd oddiar, ein tywysog Gruffydd ap Llywelyn.† Y mae yr eglwys yn adeilad tra phrydferth; er hyny nid ydyw yn ddim amgen na chapel wrth yr un flaenorol: y mae yn meddiant deon a siapter Caerwynt, a pherthynai iddi ei swyddogion plwyfol fel manau ereill. Ar y bedyddfan y mae pais-arfau y *Warrens;* ac mewn un ffenestr y mae eiddo y *Stanleys*, cyn-feddianwyr y lle.

*Holt.* *Siartr.*


Y mae gweddillion truenus y castell yn sefyll ar fin yr afon; ac y maent wedi eu hysgaru gan ffos eang, yr hon a dorwyd trwy wely dwfr o graig goch feddal, a'r hon yr ymddengys iddi gael ei chloddio er mwyn adeiladu y castell. Cynwysai yr amddiffynfa hon bum' tŵr, ac yr oedd y gwaith wedi ei dori allan i'r ffurf hono, er rhoddi sylfaen i gynifer a hyny o dyrau. Bydd i hen ddarlun o hono, yr hwn y cyfarfyddais âg ef yn y *Museum*, yn mysg yr *Harleian MSS.*, yr hwn a dynwyd yn 1620 gan John Norton, pryd yr oedd yn gyfan, roddi gwir feddylddrych am yr adeilad gywrain yma. Amddiffynid ef ar dair ochr gan y bwlch dwfn a ffurfiasid gan y gloddfa, ac ar y bedwaredd gan y Ddyfrdwy, i ba un yr oedd llongborth eang yn ymestyn, yr hwn sydd i'w weled hyd heddyw ar dymhorau sychion; oblegyd y mae wedi cael ei orchuddio er's hir amser gan orlifiadau yr afon.

Ar y cyntaf yr oedd y lle hwn yn fath o orsaf allanol i *Deva* y Rhufeiniaid. Gellir gweled llechfeydd, ac olion hen weithiau ereill, yn agos i'r castell, ac ar yr ochr draw i'r afon; ac y mae bathynau wedi eu cael yma, ag sydd yn gosod y pwngc tu hwnt i bob dadl. Gwelais rai o eiddo *Antoninus*, *Galienus*, *Constantinus* a *Chonstantius*. Tybiaf mai yr enw Rhufeinig ar y lle oedd *Castro*

* *Castell Lleon* y gelwir "Holt" mewn hen lyfrau Cymraeg. CYF.

† Doomsday Book in Leicester, 405.

Digitized by Google




**HOLT CASTLE in 1610.**

*CASTELL LLEON YN 1610.*

Digitized by Google

Digitized by Google



PLAN OF HOLT CASTLE.

*PLAN O GASTELL LLEON.*

Digitized by Google

Digitized by Google

*Legionis*, a'r enw Cymreig oedd *Castell Lleon*, neu gastell y lleng; am fod ei warchodlu yn cael ei wneyd i fyny o ran o'r lleng oedd wedi ei sefydlu yn Nghaerlleon. Gallasai y cyffinwyr Seisonig yn hawdd gamgymeryd *Lleon* am y lluosog o *Llew*, ac felly ei alw yn *gastell y Llewod*, fel yr ydym yn cael y byddid yn ei alw pan y daeth i feddiant iarll Warren a'i olynwyr.

*Tir Powys.* Yr oedd y wlad hon yn ffurfio rhan o Bowys; yr hon, pan yn gyfan, a gyrhaeddai mewn llinell uniongyth, o fryniau *Broxton* yn sir Gaerlleon, i'r dehau hyd Bengwern Powys, neu yr Amwythig, gan gymeryd i mewn ddarnau mawrion o dir yn y ddwy sir yma; oddiyno trwy gyffiniau dwyreiniol sir Drefaldwyn, gan gynwys yr oll o'r sir hono, rhan o siroedd Maesyfed a Brycheiniog; yna, gan droi at y gogledd, cynwysai gymydau Mawddwy, Edeyrnion, a Glandyfrdwy, yn sir Feirionydd, a chan gylchynu rhan o sir Ddinbych, deuai ar hyd un rhan o fynyddoedd Clwyd, hyd at gopa Moel-famau, gan gymeryd i mewn holl sir Ddinbych, oddieithr y parthau hyny a ffurfiant yn bresenol arglwyddiaethau Dinbych a Rhuthyn; oddiyno, gan gymeryd cyfeiriad de-ddwyreiniol at fryniau Broxton, ymhawliai Molesdale, Hopedale, a Maelor, yn sir Fflint. Yr wyf wedi sylwi o'r blaen nad oedd gormesiad Offa ond tymhorol, ac o fyr barhad. Rhaid i mi nodi yn mhellach, yn ol yr erthyglau heddwch a wnaed rhwng Harri IV. a'n tywysog olaf Llywelyn,* nad oedd terfynau y dywysogaeth yn nemawr llai nag oeddynt yn amser Offa, pan y cytunwyd mai y Ddyfrdwy a fyddai y terfyn o *Wirall* i *Castrum Leonum*, neu Holt; oddiyno, mewn llinell syth, i Bengwern Powys.

Dichon ei bod yn llawer eangach o dan deyrnasiad Brochwel Ysgithrog, yr hwn a orchfygwyd gan y Saesoniaid yn mrwydr Caerlleon. Ar ol yr helynt yma, daeth y cyffiniau yn un olygfa o alanastra; y Cymry a thrigolion gwlad Mers, bob yn ail, yn gwneyd rhuthrgyrchoedd y naill i diriogaethau y llall,† hyd amser Offa; yr hwn, wedi iddo groesi yr Hafren gyda byddin fawr, a yrodd ymaith y Brytaniaid o'u sefyllfaoedd ffrwythlawn ar y gwastadeddau, ac a gyfyngodd deyrnas Powys i'r ochr orllewinol i'r clawdd hynod hwnw a adnabyddir hyd heddyw wrth ei enw. Yna y gorfu i dywysogion Powys adael eu hen drigfa yn Mhengwern, neu yr Amwythig, a'i symud i le nad oedd fymryn yn llai ffrwythlawn, sef i Mathrafael, yn nyffryn Meifod. Ar ol hyn, gelwid eu teyrnas weithiau wrth yr enw *Powys*, bryd arall *Mathrafael;* a daeth gwastadeddau sir yr Amwythig yn feddiant diamwys i deyrnas y Mers. Ymostyngodd rhanau o siroedd Caerloyw a Chaerwrangon o dan yr iau; a sir Henffordd yr un modd; ond ar ol peth amser, daeth y rhandir a ffurfia y wlad uwchlaw Croesoswallt, a'r ddwy Faelor, y Gymraeg a'r Saesoneg, ynghyda llawer o gymydau ereill, yn ol i'w hen berchenogion. Fel hyn yr oedd cyflwr pethau hyd 843, pan yr oedd RHODRI FAWR yn dywysog Cymru oll; yr hwn, ar ran ei fam, a feddiannai Ogledd Cymru; ar ran ei wraig, Ddeheubarth Cymru; ac ar ran ei nain, Nest, chwaer ac etifeddes i Congen ap Cadell, brenin Powys, efe a ychwanegodd wlad Powys at ei diriogaethau.‡ Efe, yn ol arfer ddinystriol yr adeg hono, a ranodd ei dywysogaeth yn mysg ei blant; i Anarawd efe a roddodd Ogledd Cymru; i Gadell, Ddeheubarth Cymru; ac i Merfyn, wlad Powys. Yr oedd pob un yn gwisgo *talaith* o aur, wedi ei hadd-

* Powel's Notes on Girald. Itin. Cambr. lib. ii. c. 11. p. 875.
† Bedæ Hist. lib. ii. c. 2. p. 80. Sax. Chr. 25. ‡ Powel, 35.

Digitized by Google

urno â meini gwerthfawr; am ba achos y gelwid hwy, *Y Tri Thywysog Taleithiog.*

Ar farwolaeth Merfyn, Cadell a drawsfeddiannodd gyfran ei frawd. Ei fab hynaf, Hywel Dda, yn 940, drachefn a unodd Gymru o dan un lywodraeth. Efe a adawodd ar ei ol bedwar o feibion, y rhai a ranasant Ddeheubarth Cymru a Phowys cydrhyngddynt; tra y cymerwyd i fyny lywodraeth Gogledd Cymru, yn 948, gan Ieuaf ac Iago, meibion Idwal Foel, ei ragflaenor. Y mae y terfysg a ddylynodd y rhaniad yma yn fy atal rhag dywedyd dim gyda sicrwydd, hyd nes y daeth Bleddyn ap Cynfyn, yr hwn a lywodraethai Gymru ar adeg y Gorchfygiad, ac a unodd deyrnasoedd Gwynedd a Phowys. Aeth y dywysogaeth allan o feddiant ei blant ef; ond daeth Powys i feddiant ei feibion; a daeth yn y diwedd yn eiddo cyfan i Feredydd, ei fab hynaf, ar ol yr ymrysonau a'r lladdfeydd arferol ar adeg y cyfryw raniadau.*

Meredydd a wnaeth y rhaniad a lwyr ddinystriodd o'r diwedd awdurdod y deyrnas hon a fu unwaith mor alluog. I'w fab hynaf, Madog, efe a roddes y rhan a alwyd ar ol hyny yn Powys Fadog; ac i Gruffydd, y rhan a alwyd Powys Wenwynwyn.†

Yr wyf yn gadael, hyd adeg ddyfodol, yr hanes am y rhanau ereill o wlad Powys. Ni wnaf ond olrhain olyniad y cyntaf, yr hyn sydd yn perthyn yn fwyaf neillduol i'm pwngc. Yr oedd Powys Fadog yn cynwys, yn ol rhaniad yr amseroedd hyny, bump o gantrefi; neu gant o drefydd degymau; ac isrenid y rhai hyn drachefn i bymtheg cwmwd. Nodwn hwy fel y canlyn:

| | | |
|---|---|---|
| Cantref y Barwn... | *Dinmael,*‡ | Sir Ddinbych. |
| | *Edeyrnion,* | Sir Feirionydd. |
| | *Glyndyfrdwy,* | Eto. |
| Cantref y Rhiw..... | *Iâl,* | Sir Ddinbych. |
| | *Ystrad Alun (Wyddgrug)* | Sir Fflint. |
| | *Estyn,* | Eto. |
| Cantref Uwchnant | *Merffordd,* | Yn sir Fflint. |
| | *Maelor Gymraeg,* | Sir Ddinbych. |
| | *Maelor Saesoneg,* | Sir Fflint. |
| Cantref Trefred. .. | *Croes-vaen,* | Yn sir Ddinbych. |
| | *Tref y Waen,* | |
| | *Croesoswallt,* | Sir Amwythig. |
| Cantref Rhaiadr... | *Mochnant-is-Rhaiadr, &c.* | Sir Ddinbych. |
| | *Nanheudwy,* | |
| | *Y Dref Wen,* | Sir Amwythig. |

Madog a briododd Susannah, merch Gruffydd ap Cynan, tywysog Gogledd Cymru, o'r hon y bu iddo ddau fab—Gruffydd Maelor ac Owain ap Madoc. I'r cyntaf efe a roddodd y ddwy Faelor, Iâl, Estyn, a Nanheudwy, a Mochnant îs Rhaiadr, &c; i Owain, dir Mechain Iscoed; ac i'w fab ordderch, Owain Brogyntyn, dyn ieuaingc o gryn alluoedd, Edeyrnion a Dinmael.§ Gruffydd a briododd Angharad, merch i Owain Gwynedd, a bu iddo un mab o'r enw Madog, yn yr hwn yr arosodd yr etifeddiaeth yn gyfan.

Yr ydym yn awr yn prysuro at derfyn y llinach. Nid oedd gan Madog ond un mab, Gruffydd, yr hwn a elwid yn gyffredin yn arglwydd Dinas Brân, am

* Powel, notes upon Girald. Itin. Cambr. lib. ii. c. 12. † Powel, 211.
‡ Llangwm Dinmael, Cerig y Druidion, &c. § Powel, 211.

Digitized by Google

iddo wneyd yr amddiffynfa hono yn brif drigfa iddo ei hun. Yn anffodus efe a syrthiodd mewn cariad âg Emma, boneddiges Seisonig, merch i Iago, arglwydd Audley; yr hon, trwy dynu ei serchiadau oddiwrth ei wlad, a'i gwnaeth ef yn un offeryn er ei darostwng, ac i ddinystrio ei dylwyth ei hun. Cymerodd blaid Harri III. ac Iorwerth I. yn erbyn ei dywysog naturiol. Cododd hyn ddialedd ei gydwladwyr yn ei erbyn; a bu raid iddo gyfyngu ei hun yn ei gastell Dinas Brân, lle, yn ol pob tebygolrwydd, y darfu i ofid a chywilydd roddi terfyn ar ei einioes. Efe a adawodd ar ei ol bedwar o blant, Madog, Llewelyn, Gruffydd, ac Owain. Y mae haneswyr* wedi camgymeryd wrth dybied mai y ddau gyntaf a lofruddiwyd yn eu mabandod, er mwyn eu hetifeddiaethau, gan John, iarll Warren, a Roger, mab arglwydd Mortimer, o Wigmore. Oblegyd ymddengys eu bod hwy wedi cyrhaedd oedran gŵr cyn marwolaeth eu tad, yr hyn a gymerodd le yn 1270. Yr ydym yn cael fod yr oll o'r pedwar mab yn dystion wrth y gwaddoliad a wnaed gan Gruffydd i'w mam Emma, ac ar ol ei farwolaeth yr ydym yn cael y pedwar yn ymuno i adnewyddu a chadarnhau gwaddoliad eu tad, a gwneyd cryn lawer o ychwanegiadau at hyny;† yr hyn nis gallai fod yn waith babanod. Y plant a lofruddiwyd oeddynt feibion Madog, mab hynaf Gruffydd. Yr oedd Iorwerth I. wedi rhoddi gwarcheidwadaeth un (rhan yr hwn oedd arglwyddiaeth Maelor ac Iâl, a chastell Dinas Brân, a Maelor Saesoneg ar farwolaeth ei fam,) i John, iarll Warren; a'r llall (yr hwn oedd i feddiannu arglwyddiaethau Castell y Waun, a Nanheudwy,) i Roger Mortimer, mab arglwydd Mortimer, o Wigmore. Yr arglwyddi hyn yn fuan a gydfradwriadasant pa fodd i gael ymwared â'r rhai a roddasid o dan eu gofal, a meddiannu eu hetifeddiaethau; ac mewn canlyniad i hyny, parasant i'r plant druain gael eu boddi o dan bont Castell Lleon (Holt.) Darganfyddais hyn mewn ysgrif a roddwyd i mi gan y Parchedig John Price, ceidwad y llyfrgell Bodleianaidd. Cyn hyny yr oedd dull marwolaeth y plant ar lafar gwlad, o dan ddameg am ddau dylwyth teg ieuaingc, y rhai a ddinystriasid yn y modd hwnw, ac yn yr un lle; ond yr oedd sylfaen yr hanes, hyd yn ddiweddar, wedi ei golli yn gwbl.

Wedi dwyn yr olyniad i'r cyfnod gofynol, ni bydd i mi ond dywedyd, fod Gruffydd, y trydydd mab, wedi cael llonydd i fwynhau ei gyfran ef, sef Glyndyfrdwy; oddiwrth ba un y tarddodd Owain, dialydd mawr y camwri a dderbyniasai ei dylwyth: a'r pedwerydd mab a dderbyniodd Gynllaeth, fel ei gyfran yntau. Daeth hwn, drachefn, i Gruffydd, tad Owain Glyndwr.

Cafodd creulondeb y ddau warcheidwad, yn lle cael ei gospi gan ei meistr, ei wobrwyo. Cadarnhawyd Dinas Brân a'r oll o Faelor i Warren, yn Rhuddlan, Hydref 7fed, 1281;‡ a chafodd Mortimer Gastell y Waen. Dechreuodd y blaenaf sicrhau ei feddiannau anghyfreithlon yn ddiatreg trwy adeiladu castell Holt; ond bu farw, a gadawodd ei orphen i'w fab *William*. Cyn y caniatâd yma, yr oedd teulu o'r enw *Holt* yn dal y lle hwn; efallai o dan y prif arglwydd. Parhaodd yr etifeddiaethau hyn yn y teulu hyd 1317, pryd, ar farwolaeth John, iarll Warren, yr aethant i Edward Fitzalan, iarll Arundel, yn hawl ei wraig Alice, chwaer i'r blaenaf. Yr oedd Warren wedi cael llythyr ysgar oddiwrth ei

* Powel, 212.

† Cefais hanes y gwaddoliadau hyn yn y papurau y bu Syr John Sebright mor garedig a'u benthyca i mi.

‡ Ayloff's Rotuli Walliæ, 81.

Digitized by Google

wraig, Joan de Baars, ac wedi cael caniatâd i drosglwyddo ei etifeddiaethau yn Nghymru, ac ereill yn Surrey a Sussex, yn ffafr John a Thomas, ei feibion o Maud de Nereford, â'r hon y buasai yn cydfyw cyn ei briodas â Joan. Dichon i'r plant hyn feirw heb etifeddion, gan i'r etifeddiaethau, megys y darparasai efe pe buasai pethau felly, wedi myned i'w etifeddion cyfreithlon ef ei hun.*

Bu yr etifeddiaethau hyn yn meddiant y *Fitzalans* am dair cenedlaeth. Dichon i Rhisiart II. afael ynddynt ar ol dienyddiad Rhisiart, iarll Arundel; oblegyd yr ydym yn cael fod y tywysog anffodus hwnw wedi gadael yn nghastell Holt, yn ystod ei ymweliad â'r Iwerddon, emau o werth dau can' mil o *farks*, a chan' mil o *farks* mewn bathynau;† y rhai, ynghyda'r amddiffynfa, a draddodwyd i Bolingbroke, yn flaenorol i ddiorseddiad Rhisiart. Thomas, mab i Rhisiart, a adferwyd i waedoliaeth yn y teyrnasiad canlynol. Bu efe farw yn 1416 heb etifedd; a disgynodd ei etifeddiaethau ansefydledig i'w chwiorydd, Elizabeth, yr hon a briodasai Thomas Mowbray, duc Norfolk, ond y pryd hyny yn wraig i Syr Gerard Usefleet; a Joan, yr hon a briodasai William Beauchamp, arglwydd Abergafenni. Achosodd hyn raniad pellach ar yr etifeddiaethau. Disgynodd cyfran Joan drachefn, trwy ferch, i Neville, arglwydd Abergafenni; wedi hyny yr wyf yn colli golwg ar yr olyniad hyd deyrnasiad Harri VII.; pan y gwnaeth y tywysog hwnw anrheg o honynt i Syr William Stanley. Pan ddienyddiwyd ef, Harri nid yn unig a ymaflodd yn yr arglwyddiaeth, ond cymerodd feddiant hefyd o'r eiddo eang a berthynai iddi; a chafodd yn nghastell Holt, mewn arian a llestri arian, ddeugain mil o *farks*, heblaw gemau, dodrefn, ac anifeiliaid ar y tir.‡

Harri VIII. a roddodd yr arglwyddiaeth hon i'w fab ordderch Henry Fitzroy, duc Richmond; i'r hwn y rhoddwyd meddiant o honi yn Holt, yn 1534, gan y duc Norfolk ac ereill.§ Ni fwynhaodd yr anrhydedd ond am dymhor byr, oblegyd bu farw yn ddwy ar bymtheg oed, yn 1536.

Yn y teyrnasiad nesaf yr wyf yn ei gael yn meddiant Thomas Seymour, yr arglwydd lyngesydd, a brawd cythryblus yr amddiffynydd Somerset. Gwnaeth amddiffynfa Holt yn iswasanaethgar i'w amcanion uchelgeisiol; a chronodd yno drysorfa fawr o ddefnyddiau rhyfel.‖ Darfu i'w ddienyddiad haeddiannol, ond anghyfreithlawn, daflu Maelor unwaith yn rhagor i feddiant y goron.

Yr oedd y nodedig iarll Leicester mewn meddiant o gastell y Waun; a dichon hefyd o holl arglwyddiaeth Maelor.

Yn 1643, yr oedd castell Holt yn nwylaw y goron; ond yn y flwyddyn hono, cymerwyd ef at wasanaeth y senedd gan Syr William Brereton a Syr Thomas Middleton.¶ Gwŷr y brenin a gawsant ail feddiant. Yn Chwefror 1645-6, gwarchaewyd yn dost arno gan y Cadfridog Mytton,** a diffynwyd ef yn wrol gan llywydd, Syr Rhisiart Llwyd o Ecclusbam, yn agos i Wrecsam, hyd ddechreu Ebrill, pan y rhoddwyd ef i fyny, ar amodau, i'r milwriad Pope, yn absenoldeb y cadfridog, yn ol cytundeb. Cafodd y llywydd ganiatâd i fyned tros y môr, gyda thri chant o bunnau; a'i foneddiges i fwynhau ei dir, yr hwn oedd yn werth tri chant o bunnau yn y flwyddyn.†† Yn uniongyrchol wedi i'r senedd gael meddiant o hono, gorchymynwyd ei chwalu.

* Dugdale's Baron. i. 32. † Holinshed. ‡ Leicester, 371.
§ King, ii. 105. ‖ Dugdale's Baron, ii. 368. ¶ Whitelock, 77 Idem, 192, 201.
** Drake's Parlem. Hist. xiv. 356. †† Whitelock, 231.

Digitized by Google

Y mae yr arglwyddiaeth yn bresenol yn meddiant y goron, o dan arolygiaeth goruchwyliwr Maelor ac Iâl—swydd ag y mae gan ei fawrhydi hawl i'w rhoddi i'r neb y myno; ond rhoddwyd caniatâd am y mwneion (y rhan werthfawrocaf o lawer) i deulu y Grosvenors yn nheyrnasiad Siarl I. yn ddarostyngedig i daliad blynyddol o ugain swllt. Gwnaed ymgais gan y brenin Gwilym i wrth-droi y tiroedd gwerthfawr hyn yn ffafr iarll Portland, a'i etifeddion am byth; ond wedi dangos anghyfreithlondeb y peth mewn modd galluog, ac yn enwedig ar ol araith ardderchog* Robert Price, ysw., wedi hyny barwn y canghelldy, barnodd ei fawrhydi yn ddoeth dynu yn ol y caniatâd a roddasid yn barod yn y trysorlys.

Nid oedd yr holl ardrethion a dderbyniai y goron ar yr adeg hono yn cyrhaedd ond i fil o bunnau, heblaw teyrngedau, cynorthwyon, ac enillion achlysurol. Y *deyrnged*, yn Nghymru, ydoedd anrheg a wnelid i'r tywysog ar ei esgyniad i'w orsedd, yn yr hen amseroedd, mewn anifeiliaid neu ŷd; ond wedi ei darostwng, telid hi mewn arian. Cyrhaeddai oddeutu pum' mil o bunnau. Talwyd hi deirgwaith yn amser Iago I.; yn gyntaf, ar ei ddyfodiad ef i'r goron; yn ail, ar greadigaeth ei fab Harri yn dywysog Cymru; yn drydydd, ar greadigaeth ei fab Siarl. Elizabeth, bob amser yn ofalus am ei huchel-freintiau, a hawliodd y deyrnged ar ei hesgyniad i'r orsedd, yn Nhachwedd 1558. Apwyntiodd ddirprwywyr i dderbyn y cyfryw; ond cyfarfu â gwrthwynebiad yn nhref Caerfyrddin, gan y preswylwyr, y rhai a haerent fod symau mwy wedi cael eu codi yn eu sîr hwy, yn amser Harri VIII. ac Iorwerth VI. nag y rhoddwyd cyfrif am danynt i'r tywysog. Carcharwyd rhai am eu gwrthwynebiad, ond rhyddhawyd hwy rhagllaw; a thrwy iddynt ddeisebu, deuwyd i gytundeb, pa bryd bynag y rhoddid cynorthwy i'r tywysog, na roddid teyrnged; ac yn y gwrthwyneb pan dderbynid teyrnged.†

Wrth adael Holt, dychwelais dros y bont, ac aethum ymlaen ar hyd rhan o

## SIR GAERLLEON,

mewn gwlad wastad, gyda golygfa foddhaol ar fryniau Broxton ar y llaw aswy, nes y cyrhaeddais safle castell *Shocklach*. Hwn, yn nghyda rhan helaeth o hen gantref Dudestan, a ddelid ar ol y Gorchfygiad gan Robert Fitzhugh, o dan Hugh Lupus. Perthynai i farwniaeth Malpas; ond pan ranwyd ef, daeth un ran i John de Sutton, barwn Dudley, y llall i Urien de Sancto Petro. Delid ef o dan y frenines Elizabeth, fel o'i maenor yn Greenwich Ddwyreiniol. Nid oes dim, ond ffos, yn nodi safle yr amddiffynfa hon. Ar yr ochr arall i'r ffordd y mae bryn eang, efallai yn fwy hynafol na'r castell, a cheir golygfa helaeth o'r cwmpasoedd oddiar ei ben. Oddiwrth yr enw Stretton, lle yn y gymydogaeth, tybiaf fod ffordd Rufeinig yn myned yn y cyfeiriad yma; ond nid oedd amser yn caniatâu i mi fyned i chwilio am dani.

Mewn ychydig bellder oddiwrth gastell Shocklach, aethum i mewn i Faelor Saesoneg, cantref o

* British Biogr. vii. app. 141.

† Strype's Annals, i.—Introduction, p. 14, efe a ddywed mai ŷd a gwin, i gynal teulu y brenin, ar ei esgyniad, a roddid yn yr hen amseroedd.

# SIR FFLINT,

anghysylltiedig â'r gweddill o'r sir. Ar yr adeg pan y gwnaed y *Doomsday Book*, yr oedd y tiroedd o amgylch *Worthenbury*, *Overton* a *Bettisfield*, yn perthyn i gantref Dudestan. Ond yn mhell cyn ffurfio y cantrefi newyddion, yr hyn, yn ol Syr Peter Leicester, ni chymerodd le yn llawer diweddarach na theyrnasiad Iorwerth III., y mae yn sicr fod y lleoedd hyn wedi myned yn eu holau i olynyddion tywysogion Powys. Ymddengys megys pe buasai wedi derbyn y cyfenw *Saesoneg*, am ei bod yn rhan o waddol Emma, gweddw Gruffydd ap Madog, yr hon oedd yn Saesones. Cynwysa dri o blwyfi: Worthenbury, Bangor, Hanmer, a chapeloriaeth Overton, ar yr ochr yma i'r Ddyfrdwy; Erbistock, ar yr ochr arall, gyferbyn ag Overton; ac Estyn yn y parth arall o sir Fflint.* Rhan yn unig o Erbistock sydd yn sir Fflint; y mae y gweddill yn sir Ddinbych. Heblaw y plwyfydd hyn, y mae amryw lecynau bychain yn perthyn i'r cantref yma, didoledig gan y sir olaf, y rhai a ffurfiant gysylltiad braidd rhwng hon a'r rhan arall o'r cantref. Tybir fod y gadwyn yn gyfan rywbryd; ond yr oedd llawer o'r dolenau yn fynych yn gaeau, y rhai (am eu bod mor fychain) yn fynych a esgeulusid ac a gollid. Gwyddir fod un o'r trefydd degwm, *Dutton*, yn mhlwyf Holt, wedi bod unwaith yn perthyn i'r cantref hwn; megys ag y mae Abenbury Fechan, yn mhlwyf Gwrecsam, yn perthyn yn bresenol. Cafodd Osley a Mereford, yr olaf yn mhlwyf Gresford, trwy ddeddf y 33ain o Harri VIII., eu hychwanegu at sir Fflint, a chynorthwyant i estyn y gadwyn tua Hope (Estyn,) y rhan fwyaf pellenig o'r cantref hwn. Yn ddiweddar y gwnaed y rhai hyn yn rhanau o sir Fflint, mewn cymhariaeth i'r gweddill o Faelor Saesoneg; yr hon a gyhoeddwyd fel yn ffurfio rhan o'r sir gan Iorwerth I. yn y *Statutum Walliæ*.

Cafodd arglwyddiaeth neu uwchafiaeth y gantref ei chaniatâu (yr wyf yn credu) gan Harri IV. i Syr John Stanley, marchog, a pharhaodd yn ei deulu ef hyd y 41ain o Elizabeth; pan y darfu i William, iarll Derby, ei chymunroddi i Syr Randle Brereton; ac y mae er y pryd hwnw wedi disgyn ar Syr Thomas Hanmer, barwnig, a Philip Lloyd Fletcher, yswain.

Y mae y rhan hon o sir Fflint o dan yr un lywodraeth a'r gweddill o honi; oddigerth y rhwymedigaeth i ymddangos yn y llysoedd sirol, yr hyn y gwneir i ffordd âg ef, o achos y pellder sydd rhyngddynt a'r trefydd lle y cynelir hwynt. Bydd ganddi, yn achlysurol, drengholydd o'i heiddo ei hun; ond y mae yn etholadwy gan y sir yn gyffredinol.

Y terfyn rhwng y parth hwn o'r cantref a sir Gaerlleon, ydyw *Flannen Brook;* oddeutu milldir tu hwnt i hyny ceir pentref ac eglwys Worthenbury, yr olaf yn adeilad newydd, o briddfeini, wedi ei hadeiladu yn ddestlus, a'i chyflwyno i St. Deiniol. Cymerwyd y berigloriaeth o Fangor, a gwnaed hi yn blwyf ar ei ben ei hun trwy act a basiwyd yn yr ail flwyddyn o deyrnasiad William a Mary; fel rhodd, y mae yn nwylaw teulu Emral. Yr enw yn y *Doomsday Book* ydyw *Hurdingberie;* cyn y Gorchfygiad, delid y lle gan iarll Edwin.

* Rhanau yn y plwyfydd eraill ydynt *Iscoed* yn Malpas, *Penley* yn Ellesmere, a *Bodidris* yn Llanarmon

Digitized by Google

*Broughton.*] Cymerais fy llety yn Broughton; hen dŷ pren parchus yr olwg arno, yn cael ei ddal gan fy ngharenydd parchus, Peter Davies, ysw., yn hawl ei wraig, merch hynaf o'r rhai sydd yn fyw i'r diweddar Broughton Whitehall, ysw. Yr oedd y Whitehalls ar y cyntaf o Staffordshire; ond ymsefydlasant yma yn 1663, oherwydd priodas rhwng Rowland Whitehall ac Elizabeth, merch John Broughton. Yr oedd y Broughtons eu hunain yn tarddu o hen dylwyth Cymreig Tudur Trefor, iarll Henffordd, a chymerasant eu henwau oddiwrth y lle hwn yn nheyrnasiad Harri VII.

*Threap-wood.*] O'r tu cefn i'r tŷ hwn y gorwedda y comins hynod a elwir *Threap-wood,* er's amser cyn cof yn noddfa i'r rhyw deg anffodus, y rhai a wnant y lle hwn yn gartref dros amser, i gael eu rhyddhau yn gyfrinachol oddiwrth ganlyniadau cariad angyfreithlawn. Y mae lluaws o dai yn wasgaredig ar hyd y comins er rhoddi derbyniad iddynt. Yr oedd y rhandir yma, hyd o fewn ychydig flynyddoedd yn ol, wedi bod mor anffodus a bod yn ddiberthynas âg unrhyw blwyf; ar y cyntaf, naill ai oherwydd ei fod yn nwylaw perchenogion anghrefyddol neu ddiofal, neu ynte a'i safle mewn coedwig neu leoedd anghyfanedd,* ni chafodd erioed ei uno âg unrhyw blwyf. O ganlyniad, ystyriai y trigolion eu hunain fel o'r tu allan i afael cyfraith, gwrthwynebent bob llywodraeth, ac yr oeddynt hyd yn nod yn wrthwynebol i ddeddf y cyllid, nes y gorfu arnynt ymostwng; ond nid heb dywallt gwaed ar yr achlysur hwn. Y mae hyd yn nod enw y lle yn dangos beth oedd arferion y preswylwyr. *Threap-wood,* tarddedig oddiwrth y gair Anglo-Sacsonaidd *Threapian,* dal at ffaith neu ymresymiad, pa un bynag a fyddo ai cywir ai anghywir. Y mae yn sefyll rhwng plwyfydd Malpas, Hanmer, a Worthenbury; ond ni pherthynai i'r un, nes iddo gael, yn ol deddfau diweddar y milisia, ei ddyfarnu i fod yn yr olaf, at ddybenion y milisia yn unig; ond trwy ddeddfau gwrthryfel y mae wedi cael ei gysylltu â Malpas. Er hyn i gyd y mae amheuon yn codi o berthynas i weinyddiad rhai deddfau o fewn ei derfynau. Y mae i'w obeithio y bydd i'r llywodraeth gymeryd cyfleustra i wneyd grym yr ynadon mor nerthol yn y fan yma ag mewn lleoedd ereill; yn enwedig pan ystyriwn fod yno ddau cant a saith a thriugain o breswylwyr, y rhai y mae angen am eu haddysgu yn yr athrawiaeth o ymostyngiad cyffredinol i'r gyfraith.

*Hanmer.*] O Broughton cymerais hynt i Hanmer,† pellder rhwng pump a chwe' milldir: aethum dros ran o Threap-wood; a chanfyddais yn y tir cauedig rai coed derw hybarch, gweddillion yr hen goedwig. Croesi pont y Sarn, dros y *Wichbrook,* yr hon a gyfyd oddeutu dwy filldir uwchlaw, mewn rhan o blwyf Malpas, ond yn sir Fflint, yn agos i'r *Wiches,* lle y mae ffynhonau heilltion a gweithydd halen. Cyrhaedd tŷ a elwir *Willington-cross.* Y mae y wlad, yr hon a fu hyd yma yn dra gwlyb a budr, yn awr yn cyfnewid i dir tywodlyd; ac y mae yn cael ei thori yn fryncynau bychain. Y mae y rhan oddeutu tref fechan Hanmer yn anarferol o brydferth; yn amrywiedig gyda llyn o haner cant o aceri, yn amgylchynedig ar bob ochr gydag uchel-

* Blackstone, 4to. i. 113.

† Heb fod yn mhell o Hanmer y mae Iscoed, am hir amser yn eisteddle y *Roydons* (y rhai sydd yn awr wedi darfod yn y llinach wrrywaidd); hanasant o Richard Roydon, o sir Caint, yr hwn a ddaeth i Faelor gyda dirprwyaeth arglwydd Abergafeni, arglwydd rhan o Faelor, yn yr 20fed o deyrnasiad Harri VI.

Digitized by Google

eddau bychain wedi eu diwyllio yn dda, a'u haddurno â choed. Y mae y dref, yr eglwys, a phrif eisteddle teulu yr Hanmers, yr hwn sydd yn dŷ diweddar o briddfeini, yn harddu un ochr; ac ar yr ochr arall i'r dwfr, ar safle hen balas Gredington, bwriedir adeiladu eisteddle arall gan y cyfreithiwr nodedig, Lloyd Kenyon, yswain,* yr hwn sydd yn hanu o du ei dad, o hen deulu yn sîr Lancaster; ac o du ei fam, o Lwydiaid y Bryn, o dylwyth Tudur Trefor.

Y mae yr eglwys yn adeilad dra phrydferth, gyda murganllawiau arni, o deyrnasiad Harri VII., yn amser yr hwn yr ail-adeiladwyd niferi o eglwysi ar ol yr hirfaith ryfel cartrefol. Y tô sydd o goed; y mae eiddo capel y *Fenns*, a'r rhodfa ogleddol, wedi cael ei ranu yn ysgwariau bychain, a'i gerfio yn y modd mwyaf cain. Yn ffenestri y blaenaf y mae gwydr lliwiedig, gyda dyddiadau, yn hysbysu yr amser pan y gwnaed ef, ar draul yr Hanmers, y rhai a gawsant roddiad y ficeriaeth trwy i fynachlog Haghmon, yn agos i'r Amwythig. eu hanrhegu â hi. Yma y mae bwrddlech destlus—llun menyw yn penlinio, ac yn gorphwys ar *sarcophagus*, neu arch o faen, yr hwn a godwyd gan Penn Curzon, ysw., a'i chwiorydd, er cof am eu nain, gweddw William Hanmer, ysw., yr hwn a fu farw Hyd. 2, 1777, yn 77 mlwydd oed. Yn y fynwent, o fewn rheiliau haiarn, gorwedda Luke a Cathrine Lloyd o'r Bryn, y rhai a fuont yn cydfyw yn ŵr a gwraig am wyth mlynedd a thriugain.

Yn nghapel Hanmer y mae dwy gofadail yn y mur am ddau o'r personau mwyaf urddasol: y mae y cerfiad ar y naill a'r llall yn yr iaith Lladin. Y cyntaf sydd er cof am Syr Thomas Hanmer, barwn, marchog sîr Fflint, yr hwn a fu farw yn 1678, ar ol byw yn gariadus a defnyddiol am 66 o flynyddau. Y llall sydd er coffadwriaeth am y diweddar Syr Thomas Hanmer, llefarydd Tŷ y Cyffredin yn y 12fed o'r frenines Anne; y mae yn enwog am ei argraffiad ardderchog o weithiau Shakspeare: bu farw Mai 7fed, 1746.

Oddeutu dwy filldir yn mhellach y saif *Bettisfield*;† hen dŷ o briddfeini yn perthyn i'r un teulu. Sylwais yma ar lun pen y diweddar Syr Thomas Hanmer, o waith Kneller, mewn *wig* hirllaes a gwddfdorch. Isabella, duces Grafton, ac yn hawl ei thad Henry Bennet, isiarlles Arlington. Priodwyd y foneddiges brydferth hon ar y cyntaf â Henry, duc Grafton, yr hwn a laddwyd yn 1690, yn y gwarchae ar Cork. Yn 1698, ymbriododd â'r diweddaf Syr Thomas Hanmer, a bu farw yn ddietifedd yn Chwefror 1723. Y mae ei darlun yn mhlith y boneddigesau prydferth yn *Hampton court*. Arddangosir hi yma mewn gwisg rydd, a chudyn hir. Darlun prydferth o ben Syr Thomas Hanmer, yr ail farwnig, ac aelod seneddol dros sîr Fflint, yr hwn a ymadawodd â'r fuchedd bresenol mewn oedran mawr yn 1678; y mae mewn dillad duon, gydag addurniadau gwynion, &c. Llun pen ei ail wraig Susan, merch i Syr William

* Crëwyd y cyfreithiwr nodedig yma yn bendefig Prydain Fawr yn 1788, ac yn yr un flwyddyn pennodwyd ef yn Brif-ynad y *King's Bench*, dyledswyddau pwysig yr hon swydd a gyflawnodd efe mewn adegau gofidus ac anhawdd gyda phenderfyniad, cyfiawnder, a galluoedd anghydmarol. Yr oedd yn gyfaill i'r goron ac i iawnderau y bobl, ni chymerodd ei ogwyddo gan wladyddiaeth yr amseroedd, ac ni adawodd i ymlyniad wrth blaid arwain ei farn. Yr oedd yn ategydd cadarn i foesoldeb, a gellir dywedyd fod ei ddyfarniadau i raddau wedi dylanwadu ar arferion yr oes: efe a ataliai ddrygioni, os na allai ei ddarostwng. Y mae palas mawr wedi cael ei godi yn ddiweddar yn Gredington, gan ei fab a'i olynydd. GOL.

† Y mae ychwanegiadau mawrion wedi eu gwneyd at y tŷ hwn gan y barwnig presenol. GOL.

Digitized by Google

Hervey o Iekworth, yn Suffolk; y mae ei phenwisg yn addurnedig â blodau. Portread gan Cornelius Jansen, a'r amseriad 1631 arno, o ddyn mewn gwisg ddu, wedi ei thrimio â gwŷn; ei wallt yn gyrliog a thrwchus, gyda chudyn cariad. Henry, iarll Derby, gyda gwallt byr, barf a whiskers yr un modd, mewn gwisg ddu, a gwddf-goler syth, cadwyn aur, a *George* yn crogi wrthi; Syr Thomas Hanmer, yr hwn a aeth gyda'r iarll pan y bu yn llysgenad yn Ffraingc yn y 27ain o'r frenines Elizabeth. Syr William Hervey o Iekworth, marchog, gyda gwallt, barf, a whiskers byrion a glaswyn, ac mewn gwisg ddu. Portread tra rhagorol, llawn hyd, o Syr Thomas Hanmer, yn ei wisg swyddogol, fel llefarydd, o waith Kneller. Llun bychan, o orpheniad hardd-wych, o ben Siarl I., yn ei wisgoedd, gyda het a phlu. Portread tri chwarter o'r un tywysog, ac o'i frenines, Henrietta Maria. Mewn un ystafell y mae portread rhagorol o Lady Hanmer, mewn gwisg wen brydferth, ac yn astudio Llysieulyfr Gerard; a phortread bychan o'r foneddiges *Warner a la Magdalene*, gyda gwallt hir ac annhrefnus, ac asgwrn penglog yn ei llaw. Yr oedd hi yn ferch i'r tŷ, ac yn wraig i Syr John Warner; y rhai, heb ymfoddloni ar wadu crefydd eu tadau, a benderfynasant adael y deyrnas, ac ymgymeryd â'r bywyd mynachol. Eu cyfeillion a apeliasant at y brenin (Siarl II.) i geisio ganddo eu hatal. Ei fawrhydi gyda'i ffraethineb drygionus, a ddywedodd wrthynt, *Os oedd Syr John wedi meddwl am wneyd ei hun yn un o ffyliaid y Duw Hollalluog, fod yn rhaid iddynt wrth amynedd.* Daeth Syr John yn *Jesuit*, a chymerodd arno yr enw y brawd Clare; hithau yn Clare druan, o ba urdd y cyflawnodd ei dysgyblaeth ddechreuol gydag ufydd-dod rhyfeddol! *Du ydwyf fi, ond hawddgar*, oedd testyn pregethwr ag oedd un diwrnod yn ei hanog (yn yr hyn a elwir yn bregeth wisgiadol) i ostyngeiddrwydd; arddangosai y dylai wneyd ei hun yn ddu, er mwyn bod yn hawddgar yn ngolwg yr Arglwydd. Yr abades ar hyn a ddywedodd wrth y newyddian druan, *Rhaid i chwithau hefyd, chwaer Clare, dduo eich hunan.* Ar hyn hi a aeth yn uniongyrchol i'r gegin, lle y duodd ei gwyneb a'i dwylaw gyda huddygl o'r simnai, ac felly daeth yn esiampl addysgiadol i'r chwiorydd a'i hedmygent!*

*Yr Arglwyddes Warner.*

Y mae *Bettisfield* wedi bod yn eiddo yr Hanmers er's canrifoedd. Cyn brwydr yr Amwythig rhanwyd eu meddiannau. Jenkin Hanmer, brawd-yn-nghyfraith i'r enwog Owain Glyndwr, a ranodd ei etifeddiaethau rhwng ei bedwar mab. Rhoddodd Hanmer, a'i diroedd yn Llwyn Derw, neu Oakenholt, y rhai a gawsai gyda'i wraig gyntaf, *Margaret*, merch i Ddafydd ap Bleddyn Fychan, i'w mab Gruffydd. Trwy ei ail briodas âg *Efa*, merch i Ddafydd ap Gronw ap Iorwerth o'r Llai, bu ganddo John, Edward, a Richard; i John, efe a roddes Haughton (tŷ yn y gymydogaeth hon) a Llai; ; i Edward, efe a roddes diroedd yn Fenns, yr hwn le nid oedd yn mhell; ac i Richard diroedd yn Bettisfield. Jenkin, yn fuan ar ol hyny, a gafodd ei ladd, tra yn ymladd yn wrol, yn y gâd ar faes a fu yn agos i'r Amwythig, yn erbyn y trawsfeddiannwr Bolingbroke. Gadawodd John egwyddorion ei dad, ac ymunodd âg ochr Lancaster, yn nheyrnasiad Harri VI. John Mowbray duc Norfolk, a Grey arglwydd Powys, a ddygasant dân a chleddyf trwy ei etifeddiaethau yn 1463,

* Gwel "Life of Lady Warner," p. 108, London, 1696. Yr oedd yn ferch i Syr Thomas Hanmer y cyntaf.

Digitized by Google

ac a losgasant ei dŷ yn Haughton; yr hyn a barodd iddo, yn y flwyddyn ddyynol, wneyd ei ymostyngiad i Iorwerth y buddugoliaethwr.*

Y mae yr oll o'r etifeddiaethau hyn yn awr wedi cael eu huno, ac yn meddiant Syr Thomas Hanmer, barwnig.

Y mae ysgrifenwyr yn amrywio o berthynas i ddechreuad y teulu mawr yma. Collins, i. 412, a'u holrheinia o Syr John Mackfel, yr hwn a feddai fab, John, cwnstabl castell Caernarfon yn nheyrnasiad Iorwerth I. Y mae y *Salesbury Pedigree* (Achau Teulu Salsbri,) yn tudalen 113, yn gwneuthur John Upton,† clerigwr, person eglwys Hanmer, yn ben y teulu, yr hwn a briododd Howys, ferch Anian ap Gwilym ap Gruffydd ap Gwenwynwyn, a chafodd o honi dri o feibion, Owain, Dafydd, a Philip. Philip a olynodd ei frodyr yn eu hetifeddiaethau; priododd Annes, merch ac etifeddes Dafydd ap Lyrid ap Ymyr ap Yowas, o Penley yn y cantref hwn, ac o honi hi cafodd Syr Dafydd Hanmer, un o ynadon y *King's Bench* yn amser Rhisiart II., a thad-yn-nghyfraith i Owain Glyndwr.

*Emral.*] Wrth adael Broughton, cymerais y ffordd tua Bangor (Iscoed.) Ar y ddehau gorwedda *Emral Hall*, eisteddle y *Pulestons;* teulu a ymsefydlasant yma yn amser Iorwerth I., ond cymerasant eu henw oddiwrth Puleston, tref-ddegwm yn sîr yr Amwythig. Y cyntaf a fu mewn meddiant o'r lle ydoedd Roger, swyddog a fawr hoffid gan y brenin; yr hwn, ar ol i Gymru gael ei darostwng, a'i pennododd ef i gasglu y trethi a godid er cynal y rhyfel â Ffraingc; ond y Cymry, am fod y fath beth yn ddyeithr iddynt, a ymaflasant yn De Puleston, ac a'i crogasant ef.‡ Ei fab Rhisiart a bennodwyd, gan yr un tywysog, yn sirydd Caernarfon, gyda chyflog blynyddol o ddeugain punt, a'r holl ol-ddyledion.§ Ei fab ef, Rhisiart arall, yn y 7fed o Iorwerth II., a ddaliai diroedd yn mhlwyf Worthenbury, am wasanaeth pennodol, a chydnabyddiaeth ariannol a delid gan dirddeiliaid i'r brenin, neu gaethddeiliaid i'w harglwyddi, am ryddid i briodi, neu beidio priodi. Felly y rhoddodd Gilbert de Maisnil, ddeng *mark* o arian i Harri III. am gael caniatâd i briodi gwraig; a Cecily, gweddw Hugh Pevere, am ryddid i briodi y neb a fynai.‖ Y mae yn rhyfedd fod yr arferiad wasaidd yma wedi cael ei dal i fyny mor hir. Dywed *Amobyr.*] rhai fod yr *Amobyr* yn mhlith y Cymry, y *Lyre-wyte* yn mhlith y Sacsoniaid, a'r *Marcheta mulierum* yn mhlith yr Ysgotiaid, yn ddirwyon a delid gan y caethddeiliad i'w feistr tir, i brynu ymaith ei hawl i gysgu y noswaith gyntaf gyda gwraig ieuangc y dyn oedd yn dal tir dano; ond nid wyf yn credu y bu erioed unrhyw genedl Ewropaidd (hyd yn nod yn y cyfnodau pan yr hònir fod yr arferiad yn bodoli) mor farbaraidd a goddef y fath gyfraith. Y mae yn wir i'r awdurdod a nodwyd uchod gael ei dwyn i mewn i Loegr gan y Normaniaid, o'u gwlad eu hunain. Yr *Amobyr*, neu yn hytrach *gobr merch*, oedd hen arferiad Brydeinig o hynafiaeth mawr, yn cael ei dalu naill ai am drais ar wyryfdod merch, neu am i gaethddeiliad gael hawl i briodi;¶ ac y mae yn golygu *pris gwyryf.* Yr oedd y cyfreithiau Cymreig,

* Salesbury Pedigree.

† Oddiwrth yr achau teuluol, ac amryw gofnodau, ymddengys nad oedd John de Hanmere, yr hwn a elwir *Upton* mewn camgymeriad, yn offeiriad; yr oedd efe yn byw yn nheyrnasiad Iorwerth I. Gol.
‡ Powel, 380.
§ Ayloff's Rot. Walliæ, 101.

‖ Madox. Antiq. Excheq. 465. 6.
¶ Leges Wallicæ, 92. and Glossar. 554.

Digitized by Google

mor bell oddiwrth gefnogi godineb, hyd yn nod yn ceryddu hyfdra anweddaidd gyda dirwyon trymion.* Yr oedd yr Amobyr wedi ei fwriadu fel amddiffyniad rhag cnawdolrwydd. Os treisid morwyn, yr oedd y treisiwr, neu ei thad yn ei le, i dalu y ddirwy. Os priodai y ferch, efe hefyd a dalai y ddirwy. Y mae un ddeddf mor hynod fel y mae yn deilwng o gael ei nodi. Os byddai i wraig fod yn anffyddlawn i wely ei gŵr, byddai raid i'r cwcwallt druan dalu pum' swllt i'w feistr cyhyd ag y byddai yn cydgysgu â hi; ond os peidiai a chydfyw â hi, a hithau yn cydgysgu â'i chariadfab, byddai y ddirwy yn disgyn ar y ferch a fyddai yn troseddu.

*Lyre-wyte.*] Yr oedd gan y Sacsoniaid eu *Lyre-wyte*, neu *Lecher-wyte*, i'r un dyben ag Amobyr y Cymry. Crybwyllir am y trosedd yn fynych yn y cyfreithiau Sacsonaidd;† unwaith, gyda chosp greulon yn cael ei chyhoeddi yn erbyn y troseddwr; ac eilwaith, gyda chynghor cryf oddiwrth y commissiwn. Yn gyffredin, maddeuid y trosedd trwy dalu arian, yn ol gradd y person a gawsai ei sarhau. Y mae yr *Hindoos* yn yr amser hwn yn talu arian mewn rhyw raddau o drosedd; ond yn fwy mynych y maent yn ei gospi trwy losgi, a marwolaethau poenus ereill.‡

*Bangor Iscoed.*] Parhau fy nhaith tua Bangor (Iscoed,) yr hon a saif ar lanau y Ddyfrdwy; ac yn y fan hon y mae porfeydd toreithiog o bobtu i'r afon. Y mae yr eglwys wedi cael ei hadeiladu ar wahanol amserau; ond nid oes un rhan o honi yn hen iawn. Perigloriaeth ydyw, wedi ei chysegru i St. Dinoth, abad Bancornaburg, neu Fangor yn nyddiau St. Augustine (Awstin,) a chan Philip Lloyd Fletcher, ysw., y mae yr hawl i'w rhoddi. Y mae y lle yn hynod am ei fod gynt yn safle y fynachlog Brydeinig fwyaf hynafol, neu yn hytrach athrofa, yr hon a gynwysai ddwy fil a phedwar cant o fynachod; y rhai, drwy ranu eu hunain yn saith mintai; a dreulient eu hamser bob-yn-ail mewn gweddi a gwaith;§ neu, yn ol ysgrifenydd arall, ‖ yr oedd cant (yn eu 'tro) yn treulio un awr mewn defosiwn; fel yr oedd yr oll o'r pedair awr ar hugain yn cael eu treulio mewn dyledswyddau cysegredig. Cafodd y cyfundeb duwiol yma ei chwalu, ar oi i'w brodyr gael eu lladd yn mrwydr Caerlleon, a'u tŷ ei ddinystrio. Y mae Gwilym y mynach, a'r llyfrgellydd o Malmesbury, yr hwn a gydoesai â'r brenin Stephan, yn son am y gweddillion yn ei ddyddiau ef; a dywed nad oedd un lle a allai arddangos mwy o adfeilion eglwysi wedi eu haner-chwalu, a lluaws o weddillion adeiladau ereill oedd i'w canfod yn ei amser ef.¶

Crybwyllir am ddau borth ar ei derfynau; yr oeddynt yn filldir y naill oddiwrth y llall; a gelwid un yn Borth Clais, a'r llall yn Borth Wgan, ac yr oedd y Ddyfrdwy yn rhedeg cydrhyngddynt. Y mae enw y blaenaf yn cael ei ddal o hyd mewn lle a elwir *Clai;* y llall mewn tŷ a elwir *Hoyan.* Rhaid fod y terfynau yn eang, gan fod y mynachod yn cynal eu hunain trwy lafur eu dwylaw. Yr oedd y brodyr syml ac annysgedig yn darparu ymborth a dillad i'r rhai dysgedig, ac yn cyfranu i'r tlodion y cwbl a fyddai yn weddill. Anfonai allan lawer o filoedd o frodyr crefyddol; a buasai ei chlod yn anllychwinedig pe buasai heb gynyrchu y nodedig *Pelagius* (Morgan,) oddeutu y flwyddyn 400, yr hwn yn gyffredin a adnabyddir wrth yr enw *arch-heretic.* Gallai fod dau o'i

* Leges Wallicæ, 78. † Leges Saxon. 40. 132. ‡ Gentoo Laws, 268, &c.
§ Bedæ's Hist. Eccles. ii. c. 2, p. 80. ‖ Camden, i. 663. ¶ Script. post Bedam, 294.

Digitized by Google

ddaliadau, yn y dyddiau hyny, wedi enill iddo lawer o broselytiaid: "Fod gweithredoedd da yn meddu teilyngdod; ac nad oedd babanod heb eu bedyddio mewn un perygl o gael eu damnio."

Yr oedd mynachod y cyfundeb yma, yr un modd a'r holl glerigwyr Prydeinig, yn wrthwynebwyr aiddgar i drawslywodraeth Eglwys Rhufain. Anfonwyd saith o esgobion, a nifer lluosog o wŷr dysgedig, fel cenadon o Fangor, i gyfarfod y cenadwr hynod hwnw, Awstin y mynach; pan y darfu iddo hawlio ar fod iddynt gydsynio â'i archiadau gyda'r fath drahausder, fel y gadawsant ef, gan benderfynu cynal i fyny ddefodau cyntefig eu heglwys eu hunain; yr hon a barhaodd yn bur, ac yn annibynol ar unrhyw esgobion tramor, am lawer o ganrifoedd ar ol yr adeg hono. Awstin a fygythiodd y Prydeiniaid â dialedd y Sacsoniaid. Pa mor bell y darfu iddo anog Edelfred yn ei oresgyniad, nid yw yn ymddangos; ond, os gellir dibynu ar *Bedæ*, darfu i'r gyflafan ar y mynachod ddylyn braidd yn uniongyrchol ar ol iddo draddodi ei fygythion.*

Ni ellais i ddarganfod unrhyw olion o'r lle yma a fu gynt mor hynod; ond cefais fy hysbysu fod ceryg wedi eu hysgwario yn fynych wedi eu cloddio i fyny mewn cae a elwir y *Stanyards;* dichon mai dyma safle yr hen adeiladau.

Y mae Bangor hefyd wedi bod yn safle y *Bonium*, neu *Bovium* dybiedig, yr hon oedd orsaf Rufeinig. Dywed Leland fod arian Rhufeinig wedi eu cael yno yn ei amser ef. Ni ellais i gael nag arian na cherfiadau, na dim o hynafiaeth pellach na phedwar o gauadau eirch o faen, y rhai a welir yn y llun cysylltiedig, a chroes hynafol; y cwbl wedi eu cloddio i fyny yn y fynwent. Rhif 1 a fedd arno bais-arfau y *Warrens;* 2. yr unrhyw, wedi ei chwarteru â phaisarfau anadnabyddus i mi; 3. cerfiad, *Hic Jacet* ITHEL CADWGAN; 4. cerfiad, *Hic Jacet* WILLIAM LE FRENS; dichon ei fod yn berson o darddiad Normanaidd. Yr wyf yn cael yr enw yn *Hanes Sir Gaerlleon* (tudal. 275,) gan Syr Peter Leicester: un Hugh de Frenes, yr hwn a briododd Alice, merch i Lacy, iarll Lincoln, a gweddw Thomas, iarll Lancaster, yr hwn a ddienyddiwyd yn 1321. Y groes ydyw y peth mwyaf hynafol. Y mae yr achyddwr cywrain, Mr. Wilkinson, yn dyfalu fod y griffwn a'r llew (y rhai ydynt ill dau yn baisarfau Prydeinig) yn edrych at y groes, yn arwyddocâu cofleidiad boreuol Cristionogaeth gan genedloedd ein hynys.

Y mae yr hen gychod Prydeinig, *vitilia navigia* Pliny (y coraglau diweddar,) mewn ymarferiad mawr yn y parthau hyn at bysgota eogiaid. Y maent yn bresenol wedi colli yr achos o'u henwau, am nad ydynt mwyach yn cael eu gorchuddio â *coria* (crwyn,) ond gyda lliain cryf wedi ei ddwbio â phyg; ni allant gynal ond un dyn, yr hwn a ddefnyddia fath o rwyf gyda medrusrwydd rhyfeddol. Yr oeddynt gan y Prydeiniaid o faintioli mawr, a gwnelent fordeithiau byrion ynddynt, yn ol yr hanesion a gawn gan Lucan.

Y bont sydd adeilad ysgafn a phrydferth, a chynwysa bum' bwa. Y mae ysgolfeistr dysgedig, yn y cerfiad canlynol, wedi croniclo amser ei hadgyweiriad:

| | | |
|---|---|---|
| MVND. 5607. | DENB CC. | CONCIT. |
| REPARAT. AN. CHRIST. 1658. | SVMP. E. COMIT. | LIB. M.A. |
| HEGYR. 1036. | FLINT. C. | |

* Bedæ Hist. Eccles. lib. ii. c. 2, p. 80.

Digitized by Google




COFFIN LIDS
FOUND AT BANGOR.

*CAUADAU EIRCH GAFWYD YN MANGOR ISCOED.*

Digitized by Google

Digitized by Google

Wedi croesi y Ddyfrdwy, daethum drachefn i sir Ddinbych: a chan droi ar y llaw aswy, ar ol marchogaeth am ddwy filldir, ymwelais âg *Eyton*, eisteddle Kenrick Eyton, ysw. Yr oedd y tŷ hwn yn ben hiliogaeth luosog o foneddigion, y rhai a gymerent eu henwau oddiwrth y lle, a elwid felly ar gyfrif ei safle. Y mae y Ddyfrdwy yn ymrolio islaw, gan ffurfio ymestyniad hirfaith a phruddaidd, ac yn cael ei chysgodi gan goedydd crogiannol. Wrth bont *Overton* (Trawsdref,) yr hon sydd oddeutu milldir tu hwnt i Eyton, y mae ei gwely yn cael ei gyfyngu, a'r afon yn llifo yn brydferth rhwng y glenydd uchel, y rhai a bortreadwyd mor ragorol gan bwyntyl anefelychadwy Mr. Sandby. Y mae yn cynwys dau fwa prydferth, ac adeiladwyd hi am y waith gyntaf o faen trwy haelioni Gwenhwyfar, merch i Jerwith Ddu o Bengwern, gerllaw Llangollen; boneddiges ambriod a breswyliai yn Eyton gyda'i chwaer Margaret, yr hon oedd yn briod â Madog ap Evan Eyton.*

*Eyton.*

*Overton.*

*Overton*, neu Overton Madog, Ovreton y *Doomsday Book*, sydd bentref hyfryd, yn sefyll ar godiad tir, oddeutu milldir tu hwnt i'r bont, uwchben gwastadedd o ddoldir brâs ar ffurf haner crwn, yn cael ei amrywiaethu gan y Ddyfrdwy, a'i derfynu ar y tu blaen gan lechweddau coediog a ffrwythlawn; tra y mae y mynyddoedd uchel a noethlwm yn ymddyrchafu yn y pellder, ac yn terfynu yr olygfa

Gelwid y lle, ar adeg y Gorchfygiad, yn *Ovreton;* a Sacsoniad oedd ei berchenog; ond rhoddwyd ef i Robert Fitzhugh. Yr wyf yn gweled, yn 1278, neu y 7fed o Iorwerth I., ei fod yn meddiant Robert de Crevecœur, yr hwn a gafodd iddo farchnad ar ddydd Mercher.† Yn yr 21ain o'r un teyrnasiad, gorchymynodd y brenin i Reginald de Grey, ynad Caerlleon, fyned yn bersonol i Overton ac yno sicrhau i'r bwrdeisiaid, neu y cyfryw ag a ddeuent yno i breswylio, ddigonedd o dir, oddifewn i diroedd castell Overton, a'r goedwig, i adeiladu tai.‡ Y cyfryw gefnogaeth a roddai y tywysog doeth yma i gynydd poblogaeth, er sicrhau cyffiniau ei gongcwest newydd. Yn 1331, neu y 5ed o Iorwerth III., rhoddwyd y lle, gyda thiroedd ereill yn y Faelor hon, i Eubule le Strange, barwn Knockyn.§

Nid oes dim olion o'r castell, yr hwn a safai mewn cae a elwir hyd heddyw *Castlefield*, yn wynebu y Ddyfrdwy. Traddodiad a ddywed iddo fod yn breswylfa Madog ap Meredydd, tywysog Powys, ac arglwydd Overton, oddiwrth ba amgylchiad y derbyniodd y lle yr ychwanegiad *Fadog* wrth ei enw.

Y mae yr eglwys yn adeilad hardd: ac ystyrir y fynwent yn mysg rhyfeddodau Cymru, ar gyfrif ei choed yw prydferth. Nid yw y lle ond curadiaeth yn unig, yn mhlwyf Bangor, yn esgobaeth Caerlleon

Y mae Overton yn un o'r bwrdeisdrefi ag sydd yn anfon aelod i'r senedd dros eiddo Fflint; yr hyn a wneir gan breswylwyr *Overton-foreign* a *Knolton*, y rhai a dalant *scot and lot*. Yr oedd yr hawl yma wedi cael ei sefydlu yn y blynyddoedd 1728 a 1737; ond gan i amheuaeth gyfodi pa un a oedd taliad trethi gan y meistr tir yn ddigonol, penderfynodd y senedd yn nacaol yn 1741. Gwnaeth Hanmer, ac amryw leoedd ereill, gais am hawl i bleidleisio, ond gwrthodwyd hyny gan dŷ y cyffredin yn nechreuad y ganrif bresenol.‖

* Eyton Pedigree. † Dugd. Bar. i. 592. ‡ Harl. MSS. No. 2074. 45. § Dugd. Bar i. 668.
‖ Y ddeunawfed. Gol.



Digitized by Google

Gwnaed ymchwiliad yn yr 28ain o Iorwerth I., yn Overton, o flaen Richard de Mascy, ynad Caerlleon, oddiwrth yr hyn yr ymddengys fod gan y brenin felin yno yn werth deuddeg punt yn y flwyddyn, a physgodfa werth ugain. Dengys hyn mor werthfawr oedd yr olaf yn y dyddiau hyny Rhaid mai yr unig bysgod ag oedd yn werth talu sylw iddynt ydoedd eogiaid. Yr oedd yn nwydd werthfawr, nid yn unig mewn tai preifat, ond, yn y dyddiau hyny, at gynaliaeth byddinoedd. Y mae archiad yn *Rymer* am dair mil o eogiaid wedi eu sychu, yr hon a roddwyd allan gan Iorwerth II., yn 1308, i'r dyben o'i alluogi i osod ei filwyr mewn ysgogiad, i wneuthur rhyfel âg Ysgotland.

Y mae llecyn neillduol yn agos i Soddylt, gerllaw y pentref hwn, ag sydd yn derfyn rhwng Lloegr a Chymru—esgobaethau Lichfield, Coventry, Caerlleon, a Llanelwy—siroedd yr Amwythig, Fflint, a Dinbych—cantrefi Croesoswallt, Maelor, a Bromfield—plwyfydd Ellesmere, Overton, ac Erbistock—a threfyddegwm Duddleston, Knolton, ac Erbistock.

*Gwernhailed.*] Ni ddylai Gwernhailed, eisteddle Philip Lloyd Fletcher, ysw., yn y plwyf hwn, gael ei basio heb sylw. O ychydig o leoedd y ceir golygfa mor ddymunol, ac ychydig sydd wedi cael eu diwyllio yn fwy chwaethus. Saif ar yr uchelfan sydd yn amgylchu y sîr. Oddi tanodd y llifa y Ddyfrdwy; yn cael ei hamgylchu ar yr ochr draw gan ddolydd o'r fath brydferthaf, a'i hamrywio yn y pellder gan niferi o fryniau; yn mhlith y rhai y mae eiddo Caergwrle yn ffurfio crynswth ardderchog ac amlwg.


*Bryn y Pŷs.*] Yn y gymydogaeth hon ymwelais â'r casgliad ardderchog o adar yn *Bryn y Pŷs*, eisteddle Richard Parry Price, ysw. Yn mysg ereill, y mae yno bâr o fwlturiaid; y rhai y cymeraf fy rhyddid i'w

*Fwlturiaid.*] crybwyll yn y fan hon, am ei bod yn rhywogaeth na chawsant eu dysgrifio. Hwynt-hwy ydynt y rhai lleiaf o'r teulu, heb fod yn fwy na haner cymaint arall a'r barcud. Y mae eu pîg yn wŷn, hir, ac heb ond ychydig o grymedd ynddo; croen bôn y bîg o liw glasaidd; y croen o gylch y llygaid yn noeth ac o liw cig: canwyll y llygad o liw gwellt; y pen a'r gwddf, yn groes i nodwedd y rhywogaeth, wedi eu gwisgo â phlu; y crombil yn hongianol; y pen, y gwddf, y cefn, y ddwyfron, a'r bol, a chilfachau lleiaf yr esgyll, o liw gwŷn pur; y cilfachau mwyaf, a'r rhai blaenaf, yn dduon, yr olaf a'u blaenau yn wynion; y rhan isaf o'r gynffon yn ddu; y blaen yn wŷn; y coesau o liw gwŷn budr, ac yn aflyfn gan gènau.

*Inhabit Angola.* Yr oeddynt yn dra aflonydd ac ymladdgar; ac yn llawer mwy bywiog nag y mae y rhywogaeth ddioglyd yma yn arfer bod. Y maent yn awr wedi meirw; ond y mae croen un o honynt, wedi ei ystwffio fel ag i ddynwared bywyd, yn amgueddfa anghymharol Syr Ashton Lever, yr hon yw y fwyaf addysgiadol a phrydferth o lawer o unrhyw rai yn Ewrop; ac yn mha un y caiff yr edmygydd gyfartal bleser â'r beirniad mwyaf dyfnddysg.

Rhaid i mi beidio gadael y gymydogaeth hon heb sylwi fod y ddylluan fechan (*Br. Zool.* i. No. 70) y rhywogaeth brin hono yn Mhrydain, wedi cael ei saethu mewn coedwig gyfagos. Y maent yn lluosog mewn gwledydd tramor; lle yr ymgynullant yn yr hydref a'r gwanwyn yn heidiau, i'r dyben o ymfudo i chwilio am lygod y maes. Y mae Childrey, tud. 44 a 100 o'i *Britannia Baconica*, yn cof-

Digitized by Google



*Angola Vulture*

Y FWLTUR ANGOLAIDD.

Digitized by Google

Digitized by Google

nodi dwy engraifft o ddylluanod o liwiau rhyfedd, y rhai a ddaethant yn 1580, ac yn 1648, i Essex, ac a gariasant ryfel yn mlaen yn erbyn y lluoedd o lygod ag oeddynt y prydiau hyny yn dinystrio y wlad: ond pa un a oeddynt yn ddylluanod o'r rhywogaeth yma, nis gallaf benderfynu. Sicrheir fi gan Mr. Stuart, fod y math yma yn ymweled âg Attica yn heidiau mawrion bob gwanwyn, ac yn bridio yno. Nid yw yn un ryfeddod fod yr aderyn hwn yn ganlyniedydd y dduwies Athenaidd, gan ei fod mor gyffredin yno. Y mae yn dra mynych yn cael ei arddangos ar fathodynau a cherfddelwau yr Atheniaid, a gwelais un yn cael ei osod ar law cerfddelw o'r dduwies, yn y casgliad ardderchog a berthyna i William Weddel, ysw., yn Newby yn sîr Gaerefrog.

O fewn ychydig bellder oddiwrth Overton croesais y terfyn i

## SIR YR AMWYTHIG

yn *Trench-lane*, yr hon a fu unwaith mor hynod ar gyfrif ei dyfnder a'i hafiachusrwydd. Poblogid y wlad hon gan y *Cornavii;* ac hyd amser Offa, rhenid hi rhwng tywysogion Powys a theyrnas y Mers; ond Offa, wedi iddo ymlid y Cymry o'u hen eisteddle yn Mhengwern, neu dref yr Amwythig, a ychwanegodd eu rhan hwy at ei deyrnas ei hun. Ar adeg y Gorchfygiad, meddiennid hi gan y dewr Edwin, iarll olaf Mers. Ar ei farwolaeth ef, rhoddwyd hi gan y y Gorchfygwr i Syr Robert de Montgomery, Norman galluog, ac iarll cyntaf Arundel a'r Amwythig.

*Ellesmere.*] Y mae y wlad, am y rhan fwyaf o'r ffordd i *Ellesmere*, yn wastad, budr, ac yn anhyfryd; ond fel y dynesir at y dref y mae yn dyfod yn fwy boddhaol; ac o amgylch iddi cyfyd nifer o fân fryniau prydferth, ffrwythlawn, a choediog; y mae yn wir fod y gwaelodion yn amddifad o afonydd; ond byddant yn fynych wedi eu llenwi â llynau bychain, a elwir yma *meres*, yn cael eu hymylu yn brydferth gan y mân fryniau diwylliedig. Y mae yn hynod nad oes yr un o'r rhai'n yn cynyrchu ffrwd o ddwfr; y mae eu cynyddiant trwy wlaw a dwfr codi, a'u colliant trwy fygdarthiad, yn cadw yn gyfartal!

Ellesmere sydd dref yn sefyll ar lan llyn, cant ac un o aceri o fesur; ei ddyfnder mwyaf ydyw chwe' llath ar hugain; ac y mae ynddo gyflawnder o bysgod. Y duc Bridgewater ydyw perchenog y llyn prydferth yma.

Y mae gan yr amgylchoedd ddwy fantais rhagor y llynau ereill. Y mae tref

*Parc Ottley.*] hardd yn ymylu ar un ochr iddo; tra y mae parc prydferth Ockle, neu Ottley, a'r tŷ pren hybarch,* yn addurn mawr ar yr ochr arall. Yr oedd hwn yn un o'r eiddo rhydd-ddaliadol hynaf yn y plwyf. Buasai er's hir amser yn meddiant yr *Ottleys*, ond trwy briodas Elizabeth, merch, ac etifeddes Rhisiart Ottley, gydag Humphrey Kynaston o Stoke, yn yr lleg o Harri V.,† trosglwyddwyd y lle i'r teulu presenol, yr hwn sydd o ddisgyniad Cymreig, yn tarddu o Bleddyn ap Cynfyn, tywysog Powys. Madog, mab i Philip ap Gruffydd, oedd y cyntaf a gymerodd i fyny yr enw *Kynaston.*

* Yn anffodus y mae y tŷ hwn wedi ei wneyd o'r newydd o'r tu allan; disgynodd ef a'r tir perthynol iddo, i feddiant Mrs. Vaughan, yr hon a'i cymunroddodd i'r diweddar Barchedig Charles Mainwaring. Gol.

† Shropshire Visitation, 173.

Y mae y parc wedi ei orchuddio â choed o faintioli mawrion, ac o dyfiant hynafol. Y mae coeden lwyfen fawr, o amrywiaeth y dail bychain, yn tynu sylw anarferol. Y tir sydd wedi ei dori yn brydferth i amryw ucheldera, ac y mae yr olygfa ar y dref, y llyn mawr, a'r ddau ereill, sef *Whitemere* a *Colemere*, yn gwneyd y fan yn safle o'r dosparth cyntaf.

Y mae y dref o darddiad Sacsonaidd, a chymer ei henw oddiwrth y dwfr; yr hwn a elwid *Aelsmere*, neu y *dwfr mwyaf*, am ei fod y penaf yn y parth yma o'r sir. Nid oes gan y lle nemawr i ymffrostio ynddo, oddigerth ei sefyllfa. Prif fasnach y fan ydyw brâg, am fod haidd y gymydogaeth yn rhagorol o dda.

*Y Castell.*] Y castell a safai ar fryncyn celfyddydol ar godiad tir, gyda thair o ffosydd mawrion ar yr ochr fwyaf hygyrch o hono. Yn bresenol, nid oes olion o hono i'w gweled; ac y mae y top wedi cael ei ffurfio yn *bowling-green*, yr hwn a ddichon ymgystadlu âg unrhyw sefydliad cyffelyb yn Lloegr, o barthed prydferthwch ac eangder yr olygfa oddiamgylch; y llyn islaw; ac o'r wlad frâs a'r coedwigoedd a amgylchynant y dref. Yn y pellder, gwelir Caerlleon, a bryniau Broxton; Gwrecsam a mynyddoedd Caergwrle; Castell Dinas Brân, a mynyddoedd y Berwyn; a'r un modd y gellir dywedyd am rai Meirionydd, bryn Llwynymynach, a Breyddin, Pimhill, Cleehill, a'r nodedig Wrekin.

Nis gallaf olrhain sylfaenydd y castell, na'r amser y distrywiwyd ef. Yr oedd y lle, fel y nodais o'r blaen, yn flaenorol i'r Gorchfygiad, yn meddiant Edwin; ond ar yr achlysur hwnw yn mherchenogaeth Syr Roger de Montgomery.

Yn 1177, trosglwyddwyd ef yn eiddo i un o dywysogion Gogledd Cymru. Darfu i Harri II. yn y flwyddyn hono, alw cynghor yn nghyd yn Rhydychain, ac yn mhlith trefniadau ereill er dyogelwch y deyrnas, rhoddodd i Ddafydd ap Owain ei chwaer Emma yn wraig, gydag arglwyddiaeth Ellesmere fel gwaddol. Gwnaeth y brenin cyfrwysgall hyn mewn trefn i sicrhau serchiadau Dafydd, ac felly atal rhyfel rhyngddo â'r Cymry; y rhai a roddasent iddo gymaint o aflonyddwch, ac a drechasent ei holl ymgeision i'w darostwng yn ystod teyrnasiad Owain Gwynedd, tad Dafydd. Atebodd y cysylltiad hwn y dyben; oblegyd ni aflonyddwyd ar y Saeson yn ystod bywyd y tywysog hwnw.

Ar ol ei farwolaeth, daliai Robert Lupus y faenoriaeth, trwy ei oruchwyliwr. Yna daeth eilwaith i ddwylaw tywysog Cymru. Y brenin Ioan, trwy ganiatâd a amserir o Dover, Ebrill 1204, a'i rhoddodd, gyda Joan, ei ferch ordderch o Agatha, ferch i Robert Ferrers, iarll Derby, i Lewelyn ap Iorwerth. Dichon fod Ioan yn meddwl y buasai, trwy ei fab-yn-nghyfraith, yn dychryn arglwyddi y cyffindiroedd i ufudd-dod; ond ni chafodd y brenin anffodus un llesâd oddiwrth yr ymgyswllt hwn. Profodd Joan yn anffyddlon i wely ein tywysog; yr hwn a grogodd William de Breos, yr achos o'i sarhad, ac a drôdd ei arfau yn erbyn y Saeson. Parodd hyn i Ioan gymeryd oddiar Lywelyn feddiant o amddiffynfa mor bwysig a chastell ar y cyffiniau; oblegyd, yn ol gwŷs a amserir o Warwick, yn y 10fed o'i deyrnasiad, y mae yn gorchymyn i'r llywydd, Bartholomew Turol, i'w draddodi yn uniongyrchol i William iarll Salusbury, a Thomas o Endinton. Ond er hyny efe a adawodd ardrethion y tiroedd i'w ferch. Er dial am hyn, Llywelyn ar ol hyny a losgodd y dref.

Digitized by Google

Yn y 4edd o Harri III., neu y flwyddyn 1219, Roger L'Estrange a roddodd i fyny i'r brenin faenorau Colemere a Hampton; eithr derbyniodd hwy yn ol, ynghyda chantref Ellesmere, a'r castell; ond am ei oes yn unig.

Yn 1246, neu yr 21ain o'r un brenin, ymddengys mai John L'Estrange oedd llywydd y castell. Yn mhen pedair blynedd ar ol hyn, penderfynodd Harri na byddai iddo mwyach adael lle mor bwysig yn nwylaw y Cymry Ac o ganlyniad, yr ydym yn ei gael yn gorfodi Dafydd ap Llywelyn i wneyd ymwrthodiad ffurfiol â'r rhandir yma, yr hon y mae yn ei rhoddi ymaith am byth Y mae y cytundeb wedi ei ddyddio o Alnet ar yr Elwy, ar wyl tori pen Ioan Fedyddiwr, yn 1240.

Yn 1252, neu yr 37ain o Harri III., cafodd maenoriaeth a chastell Ellesmere eu trosglwyddo i John de Grey, ar daledigaeth blynyddol o ddeg swllt.

Yn y flwyddyn 43ain, neu 1258, yr oedd Peter de Montford yn llywydd y castell. Yn yr 51ain caniatawyd y faenoriaeth, y castell, a'r cantref, i Hamon L'Estrange, a'i etifeddion, trwy daledigaeth o gan' punt yn y flwyddyn allan o'r faenoriaeth, y castell, a'r cantref. Cymerodd y pendefig hwn ran helaeth yn rhyfeloedd y barwniaid; cafodd ei ysgymuno am ei drahausder gan archesgob Caergaint; ond gan iddo ddychwelyd i'w ffyddlondeb, cafodd ei osod mewn swyddi o ymddiried, y rhai a gyflawnodd yn ffyddlawn i'r eithaf. Dywedir iddo brynu maenoriaeth Colemere a Hampton gan Peter de Montford, y rhai a adawodd efe i'w frawd Syr Roger L'Estrange. Iorwerth I., yn y bedwaredd flwyddyn o'i deyrnasiad, ar roddiad i fyny y caniatâd a wnaed i Hamon (yr hwn oedd iddo ef a'i etifeddion) a'i cadarnhaodd o newydd, ar yr amod iddo dderbyn castell a chantref Ellesmere am ei oes, a'r gweddill i'r brenin o dan ardreth. Y Roger yma, trwy warant y brenin, a ganiataodd amryw ddarnau o dir y faenoriaeth i wahanol bersonau; ac oddeutu yr un amser, cafodd y tiroedd diffaith a'r comins eu cau i mewn, a'u gwneyd yn *freehold* neu eiddo rhyddddaliadol.

Yn 1320, Iorwerth II., ar wrthryfeliad iarll Lancaster, a apwyntiodd Oliver de Ingeham yn llywydd y castell. Iorwerth III., yn 1329, wedi peri i'r trawsfeddianniadau ar y faenoriaeth yma gael eu lleihau, a roddodd y castell, a phentrefi Colemere a Hampton i Syr Eubule L'Estrange, mab ieuengaf y barwn L'Estrange o Knockin. Parhausant yn ei deulu ef hyd 1477, yr 17eg o Iorwerth IV., pan, drwy briodas Joan, merch yr etifedd gwrrywaidd diweddaf, gyda George Stanley, mab hynaf Thomas iarll cyntaf Derby, y daethant i'r teulu mawr hwnw, yn meddiant yr hwn y buont hyd 1594, yn 42ain o Elizabeth; pan y cafodd William iarll Derby, drwydded gan y frenines i'w trosglwyddo; yr hyn a wnaeth efe, i Richard Spencer ac Edward Savage; a hwythau i Syr Thomas Egerton, ceidwad y sêl fawr, ac wedi hyny canghellydd Lloegr a barwn Ellesmere. Y mae yn awr yn meddiant ei olynydd, y duc Bridgewater, gan yr hwn y mae meddiannau eang o amgylch y dref; ond dim palasdy, oddieithr un tra disylw, a elwir *Birch*.

Yr oedd yr eglwys mewn hen amseroedd yn perthyn i farchogion St. Ioan o Gaersalem. Rhoddasid hi iddynt gan Llywelyn, ac Iorwerth III. a gadarnhaodd y cyllid i'w penaeth. Y mae y ficeriaeth yn nwylaw y duc Bridgewater; ac y mae capeli Cockshute, Dudleston, a Penley, yn ddibynol arni.

Digitized by Google

Yn yr eglwys y mae ffugur alabastr o Syr Francis Kynaston o Ottley; ac un arall o'i foneddiges, wedi ei anurddo yn fawr. Bu ef farw yn 1590. Syr Francis arall, yr hwn oedd yn yswain i gorph Siarl I., a hynodid yn neillduol ar gyfrif ei gyfieithiad Lladinaidd o Garwriaethau *Troilus a Cressida*, o Saesoneg y bardd Chaucer.

Bu i amgylchiad hynod, a roddodd derfyn ar lawer o greulondeb a ymarferid tuag at y Gwyddelod brodorol trwy ochymyn y senedd, y rhai a wasanaethent yn myddin y brenin yn ystod y rhyfeloedd cartrefol, gymeryd lle yn y fan hon. Y tywysog Rupert, yn un o'i ymdeithiau ar draws y wlad, a arosodd yn Ellesmere, a phenderfynodd, mewn ffordd o ad-daliad, ddial marwolaethau y dyoddefwyr Gwyddelig, tri ar ddeg o ba rai a ddienyddiasid ychydig cyn hyny gan fyddin y senedd, mewn gwaed oer. Yma y gorchymynodd y tywysog i'r carcharorion, y rhai oedd yn ei feddiant, fwrw coelbrenau am eu bywydau ar dalcen y tabwrdd; ac yr oedd y tri ar ddeg ar ba rai y disgynai y dynged angeuol i gael eu crogi. Bwriwyd y coelbrenau, a detholwyd y dynion anffodus. Tra yr oedd y parotoadau yn myned yn mlaen at eu dienyddio, un o honynt (Philip Littleton,) yr hwn a fuasai yn geidwad parc i Robert Corbet, ysw., o Stanwardine, a ganfu Syr Vincent Corbet o Moreton Corbet, yn marchogaeth heibio, yr hwn oedd yn myddin y tywysog. Littleton a ddywedodd wrth filwr, ei fod ef yn sicr pe gwybuasai Syr Vincent ei fod ef yno, y buasai yn eiriol drosto. Y milwr, yn dra charedig, a redodd at y marchog, ac a hysbysodd iddo am yr amgylchiad; yr hwn yn ddiatreg a gafodd bardwn iddo. Dienyddiwyd y lleill; ac ar ol hyn, ni chafodd dim rhagor o Wyddelod eu gosod i farwolaeth yn y deyrnas hon.

O Ellesmere aethum yn mlaen ar fy nhaith tua Chroesoswallt. Oddiar fryn a elwir y *Perthi*, cefais olygfa anarferol o eang ar y rhan wastad o'r sir, yn cael ei therfynu gan fryniau siroedd Dinbych, Trefaldwyn, a'r Amwythig. Yn eu plith ymddangosai y bylchau mawrion trwy ba rai yr oedd yr Hafren a'r Ddyfrdwy yn rhuthro i'r gwastadedd o'u cyfyngleoedd mynyddig. Y mae y diriogaeth yn gymysgedig o goedwigoedd, tir ffrwythlawn, a rhosydd o eangder mawr. Ar ol marchogaeth dwy filldir neu dair ar hyd y gwastadedd, cyrhaeddais

## HALSTON,

*Halston.*] eisteddle y *Myttons*, fy hynafiaid ar ochr fy mam; tŷ da, wedi ei adeiladu oddeutu 1690, gyda digonedd o goed a dwfr, y rhai a drinid gyda chwaeth rhagorol gan fy nheilwng gefnder, John Mytton, ysw. Y mae y tŷ ar ddarn o dir uchel, yr hwn a gyfyd o wastadedd eang, rhan fawr o'r hwn oedd yn ddarostyngedig i orlifiadau mynych; anghyfleustra ag sydd wedi cael ei symud ymaith yn awr gan y meddiannydd presenol,* trwy lawer o drafferth a threulio swm mawr o arian, i sychu darnau mawr o dir isel; trwy yr hyn y mae y gymydogaeth wedi ei gwneyd yn fwy iachus a hyfryd. Y mae y gwastadedd hwn, trwy ei fod wedi ei fritho yn dda â choed, yn byrhau yr olygfa, nes y terfynir hi gan olygfeydd ardderchog y bryniau amgylchynol, y rhai a gynyrchant, mewn amryw ffurfiau, luaws o olygfeydd tra boddhaol. Y

* Mor gyflym fu yr olyniad, fel y mae Halston yn awr yn meddiant ŵyr y gŵr boneddig a grybwyllir uchod. GOL.

Digitized by Google

mae coedwig dra eang ar bob ochr i'r tŷ, yr hon a derfynir gan ddernyn prydferth o ddwfr, yr hwn a ffurfiwyd trwy estyn glanau yr afon Perry, a throsglwyddo cangen o honi trwy ranau isaf y goedwig, yn amgau amryw ynysoedd, glanau y rhai a gysgodir gan goed derw llawndwf o faintioli mawr iawn; y cyfan yn ffurfio un o'r darnau mwyaf boddhaol o ddwfr o gynulliad celfyddyd ag y gellir cyfarfod âg ef. Y mae y gweddill o'r tir yn cael ei ddyfrhau o'r afon Perry; yr hon afon a arferai fod yn llawn o bysgod—cornhwyaid, *perch*, brithylliaid, brwyniaid, gwyniaid, llyswod, nes y darfu i foethusrwydd diweddar roddi yspardun ychwanegol i fedrusrwydd herwhelwyr; gormes ag y cwynir o'i herwydd, er ei fod yn cael ei gefnogi yn hon, yn gystal ag yn y rhan fwyaf o afonydd y deyrnas. Y mae y Perry yn cyfodi yn y bryniau, yn mhlwyf Selatyn, llifa drwy amryw rosydd hyd at bentref Ryton, ac wedi hyny ymarllwysa i'r Hafren ychydig islaw i bont Montford.

*Y Cadfridog Mytton.* Yn y lle yma ganwyd yr enwog gadfridog Thomas Mytton, un o'r llywyddion galluocaf, mwyaf gweithgar a llwyddiannus, o blaid y senedd, yn ystod y rhyfeloedd cartrefol. Yr oedd maes ei weithrediadau yn benaf yn Ngogledd Cymru. Trwy ei wroldeb milwraidd ef y cafodd y rhan fwyaf o'r cestyll yn Ngogledd Cymru eu darostwng, a hynododd ei hun yn fawr mewn amrywiol frwydrau; ond trwy gael allan fod gan Cromwell a'i blaid ryw amcanion pellach mewn golwg nag ymladd am eu rhyddid yn unig (yr achos ar gyfrif pa un yr oedd efe yn ei bleidio,) rhoddodd ei lywyddiaeth i fyny, ac aeth o'r fyddin. Ganwyd ef yn 1608; priododd, yn 1629, ferch i Syr —— Napier o Luton, barwnig; bu farw yn Llundain yn 1656, a chladdwyd ef yn eglwys St. Chad, yn nhref yr Amwythig, Tachwedd 29fed.

Yn Halston y mae llyfrgell dra detholedig, a chasgliad da o arluniau: yn mysg pa rai y mae amryw o rai campus anarferol; yn enwedig Jacob, a'i fab Reuben yn dangos iddo siaced waedlyd Joseph, gan Guercino; pen, gan Raphael; St. Pedr, gan Guido; a'r brenin Dafydd, gan Dominichino.* Y mae llawysgrifau cywrain Mr. William Mytton† yn cael eu cadw yma hefyd, ar hynafiaethau sir yr Amwythig; gyda'r hwn waith y bu yn llafurio yn ddiflino am ryw flynyddoedd; ond yn anffodus er lles y cyhoedd, efe a fu farw cyn cwblhau ei amcan. I'w lafur ef yr wyf fi yn ddyledus yn fynych yn y rhan yma o'm gwaith.

*Hen Berchenogion.* Yn amseroedd y Sacsoniaid, yr oedd arglwyddiaeth Halston yn perthyn i Edwin. Y pryd hwnw yr oedd arni ddau Gymro ac un Ffrangcwr. Ar ol y Gorchfygiad, daeth yn eiddo i Guarine, sirydd sir yr Amwythig, hynafiad i'r Fitzalans, ieirll Arundel, trwy briodas gyda Mellet Peverel, yr hon a dderbyniodd y lle yma fel rhan o'i gwaddol. Ar ol hyny daeth yn llywyddiaeth berthynol i farchogion St. Ioan o Gaersalem, trwy iddo gael ei roddi iddynt gan rai o'r Fitzalans. Yn y 26ain o Harri VIII., prisid y lle i 160*l.* 14*s.* 10*d.* yn y flwyddyn.‡

* Yma y cedwir cerfiad, yn tebygu i raddau mawr i'r un a grybwyllir gan Mr. Walpole, yn ei *Anecdotes of Painting*, ii. 42. Portread o Siarl I. ydyw, gyda gwyneb llawn, wedi ei dori ar gareg eirinen wlanog *(peach)*; ac uwch ei ben y mae coron. Y mae ei wynob a'i ddillad, y rhai ydynt o arddull Vandyke, wedi eu paentio. Ar y tu arall y mae llun eryr, wedi ei drywanu â saeth, ac o'i gwmpas y mae yr arwyddair, *Myfi a fegais y bluen i'r saeth hwn.* Y mae y cwbl wedi ei gerfio yn y dull mwyaf rhagorol; ac wedi ei osod mewn aur, gyda chrystal yn mhob ochr. Dichon mai gwaith Nicholas Briot ydoedd, cerfiwr enwog yn y Bathdy yn amser Siarl I.

† Rhoddir hanes yn yr Attodiad am yr ewythr hwn i Mr. Pennant. T.P.

‡ Tanner.

Digitized by Google

Ar adeg y dadgorphoriad, Harri VIII. a awdurdododd, trwy lythyrau breintebol, John Sewster, ysw., i werthu y faenoriaeth hon i Alan Horde, yr hwn a wnaeth warogaeth am dani; ac ar ol hyny a'i cyfnewidiodd am diroedd ereill, gydag Edward Mytton o Habberley, hen dreftadaeth y teulu yn y sir hon; yr hwn gyfnewidiad a gadarnhawyd gan y frenines Elizabeth.

Y mae y capel yn un a gynelir trwy gyfraniadau, heb unrhyw gyllid heblaw yr hyn y rhynga bodd i'r perchenog i'w ganiatâu i'w gaplan; ac y mae o'r tu allan i lywodraeth eglwysig.

Y mae yr enw yn sawru i raddau o gysegredigrwydd, a golyga y *Maen sanctaidd*, neu *Holy stone*. Dichon fod yma ryw groes neu faen, gwrthddrychau ofergoeledd, yn sefyll rywbryd; ond y mae hono a'i chwedl ar goll yn gwbl. Fod y lle wedi bod yn gysegrfa sydd amlwg; oblegyd yn nheyrnasiad Rhisiart I., un *Meurig Llwyd*, hanedig o Hedd Molwynog, un o bymtheg llwyth Gwynedd, am ei fod yn ddigofus oblegyd rhyw gamwri a wnaethid â'i wlad, trwy ddygiad i mewn gyfreithiau newyddion ac arferion newyddion, wedi gafael yn rhai o swyddogion y brenin, a apwyntiesid i'w cario allan, a lladd amryw o honynt, a chrogi ereill. Efe a ffôdd rhag cynddaredd ei elynion, ac a gymerodd noddfa yn y lle hwn.*

*Y Dref Wen.* Yn y pellder o filldir o Halston, cyrhaeddais *Whittington* (y Dref Wen); pentref† a gynwysa bedwar ar ddeg a phedwar ugain o deuluoedd, ac yn sefyll mewn plwyf o'r un enw. Rhifedi y teuluoedd yn y lle a gyrhaeddant o gwbl i ddau gant a phymtheg a thriugain. Y mae y boblogaeth yn ddiweddar wedi cynyddu yn lled fawr. Yr ychwanegiad at y boblogaeth yn y plwyf sydd wedi cael ei gyfyngu yn benaf i'r pentref, ar gyfrif yr amrywiol dai a adeiladwyd er cyfleustra i'r llafurwyr gan deulu y Myttons; yr hyn a ddengys y lles a ddeillia o fod ein boneddigion yn preswylio ar eu tiroedd, a'r gwasanaethgarwch a'r lleshad a allant gyflawni trwy gefnogi cynydd poblogaeth, a noddi y tylodion llafurus a diwyd.

Y mae Mr. Llwyd, yn ei *Archæologia*,‡ yn barnu fod y lle yma yn cael ei hynodi o dan yr enw y *Dref wen*, gan Llywarch Hen, bardd enwog o hiliogaeth y Prydeiniaid Cumbriaidd, yr hwn a flodeuai yn y flwyddyn 590. Yma, ebe efe, y lladdwyd Cynddylan, penaeth yn ei wlad, mewn ymgais i yru ymaith haid o ormeswyr Gwyddelig:—

Y Dref wen yn mron y coed;
Yseu yw y hevras eiryoed:
Ar wyneb y gwellt y gwaed.

Y Dref wen yn yd hymyr,
Y hevras y glâs vyvyr:
Y gwaed y dan draed y gwŷr.

Y mae ein beirdd hefyd yn gwneyd y lle hwn yn eiddo ac yn brif eisteddle Tudur Trefor, pendefig Prydeinig oedd yn byw yn y flwyddyn 924, yn hawl ei fam Rhiengar (wyres ac etifeddes i Caradog Freichfras, iarll Henffordd, yr hwn a laddwyd gan y Saeson yn mrwydr Rhuddlan,§ yn 795); ac yn hawl ei dad, Ynyr ap Cadfarch, arglwydd y ddwy Faelor, Castell y Waen, y Dref wen,

* Davies's Display of Heraldry, 45

† Y bedyddiadau yn Whittington o 1788 hyd 1807, y ddwy flwyddyn yn cael eu cymeryd i fewn, oeddynt 823: y claddedigaethau yn yr un cyfnod, 491; a'r priodasau yn 170. Yn ol cyfrifiad 1801, sicrheir fod poblogaeth y plwyf yn 1398; a nifer y teuluoedd yn 299. Gol.

‡ Tudal. 260. § Powel, 20. Collins's Baronets, iii. 129.

Digitized by Google

Croesoswallt, Ewias, ac Urchenfield. Cynyrchodd Tudur, Edwin arglwydd Tegeingl, ac Ednowain Bendew, deuluoedd tra epilgar; hiliogaeth y rhai a gyfarfyddir yn benaf yn y rhan fwyaf o barthau siroedd Dinbych a Fflint.

Ar ol y Gorchfygiad, delid y lle gan Roger iarll yr Amwythig. Gelwir ef yn *Wititone* yn y *Doomsday Book.* Meddai y pryd hyny wyth o ffermydd ŷd; deuddeg o bresebau ychain; a choedwig yn dair milldir o hyd. Yr oedd y felin yn cynyrchu pum' swllt, a'r preswylwyr Cymreig yno yn talu ugain swllt.

Ar ol fforffetiad Robert, creulawn iarll yr Amwythig, rhoddwyd ef i William, mab i chwaer Pain Peverel, arglwydd Whittington; a thrwy briodas ei ail ferch, Mellet, gyda Guarine de Mets, pendefig o Lorraine, daeth yn eiddo i hwnw tua'r flwyddyn 1083. Yr oedd gweithrediadau rhyfelgar a champau marchogol yn gwneyd y rhai a'u dylynent yn rhyfeddodau yr amserau hyny, ac yn destyn rhamant uchel-hedegog. Y mae Guarine, y pryd hyny yn arglwydd Abberbury, ac yn sirydd y sir, yn clywed am benderfyniad Mellet i beidio priodi neb ond y marchog mwyaf nodedig ar gyfrif ei wroldeb. Yr ieuengctyd cydymgeisiol a arferent gydymgasglu yn Peverel, neu y castell ar y Peak, yno i ddangos eu gwerth. Y mae ein marchog ninau yn dyfod yno yn mhlith ereill, gyda'i "darian arian, a phluen falch y paen ar grib ei helm;" gorchfyga ei holl gydymgeiswyr; enilla y foneddiges brydferth; a derbynia arglwyddiaeth Whittington gyda hi fel cynysgaeth. Ei olynwyr a gymerasant i fyny yr enw Fitzwarine; parhausant yn arglwyddi y lle am yn agos i bedwar can' mlynedd; ac yr oedd pob etifedd, am naw olyniad, a'i enw cyntaf yn *Fulk.*

Yr oedd gan yr hiliogaeth ryfelgar yma, a'u cymydogion rhyfelgar y Cymry, eu hymrafaelion parhaus; yr oedd eu hyspryd yn rhy gydnaws i fwynhau heddwch. Guarine a thywysog Cymru a ymosodasant y naill ar diriogaethau y llall. Cafodd *ab Cynan* y fantais,* a chariodd ddinystr trwy yr oll o'r cyffindiroedd. Bu farw Guarine yn nheyrnasiad Harri I., a gadawodd ar ei ol fab, y Fulk Fitz-warine cyntaf, un o'r rhai mwyaf clodfawr o'i deulu, yr hwn a ymddysgleiriai yn aruchel mewn gweithrediadau rhyfelgar.

Cariad oedd y cymhelliad penaf, yn nyddiau marchwriaeth, i weithrediadau aruchel mewn calonau ieuaingc. Syrthiodd Fulk mewn cariad â Hawise, merch i Joos, ei warcheidwad. Ar ei dymuniad, efe a achubodd y tad o sefyllfa dra pheryglus; a derbyniodd ei llaw fel gwobr.

Iddo ef yr ymddiriedodd Harri I. ofal y cyffindiroedd, tua'r flwyddyn 1122; am hyny y gelwid ef yn *Fulk yr isgadben.* Ni bu yn hir heb gael gwaith i'w gleddyf. Y dewr Gruffydd ap Cynan a gariodd ei arfau i'r cyffindiroedd; cafodd ymladdfa bersonol â'n harwr; derbyniodd archoll yn ei ysgwydd, a gorfu arno ffoi am ddyogelwch; ond ni ddiangodd y buddugoliaethwr heb ei glwyfo.† Mewn anturiaethau dyfodol ni bu mor llwyddiannus; y tywysog Cymreig a gymerodd oddiarno arglwyddiaeth a chastell Whittington; yr hwn, mewn cytundeb dylynol â Harri II., yn yr ail flwyddyn o'i deyrnasiad, y tybiodd Owain Gwynedd yn addas dal gafael arno; a gwnaed iawn i Fulk drwy roddi iddo Alston yn sir Gaerloyw. Bu farw mewn oedran mawr, a chladdwyd ef yn Abberbury

* Dugdale Baron i 443. † Yr unrhyw.

Digitized by Google

Ni ddylwn anghofio, y dywedir am y Fulk hwn, iddo, pan yn chwareu gwyddbwyll *(chess)* gyda John Lackland, mab i Harri II., dderbyn ergyd ganddo gyda'r bwrdd, yr hon a ad-dalodd gyda'r fath ffyrnigrwydd, nes y bu agos iddo a lladd y tywysog ieuangc.

Ni ddarfu i'r Fulk dylynol ddirywio oddiwrth ei hynafiaid. Gwnaeth ei hun mor glodfawr yn y rhyfeloedd tramor, nes y cyfansoddwyd rhamant yn yr iaith Ffrengig ar ei weithrediadau ef a'i hynafiaid; a chafodd ei gyfieithu i'r iaith Saesoneg, o dan y teitl, *Gorchestion Guarine a'i Feibion.** Cynwysa, fel y mae yn bod yn y rhan fwyaf o ysgrifeniadau o'r fath yma, gymysgedd o beth gwirionedd gyda llawer iawn o ddyfais dychymyg.

Iddo ef yr adferwyd castell Whittington, a'r tiroedd cylchynol dibynol arno, wedi i iawn gael ei wneyd gan y brenin Ioan i Wrenoc a Wennen, meibion Meyrick, i'r rhai y rhoddasai tywysog Cymru y lle yn nheyrnasiad Harri II. Cafodd Wrenoc ryw diroedd yn y gymydogaeth, y rhai yr oedd i'w dal trwy wasanaethu fel *latimer*† (cyfieithwr) ‡ y brenin yn y parthau hyny, rhwng y Cymry a'r Saeson.§ Fulk, er hyny, a ballodd ar ol hyn yn ei ffyddlondeb i'r brenin; ac a ysgymunwyd wrth ei enw‖ am ei wrthgiliad oddiwrth y penadur hwnw: ond yr oedd yn dyoddef yn achos rhyddid; oblegyd yr oedd yn mysg y fintai ardderchog a gawsant gan Ioan y siartr ag sydd yn cael ei werthfawrogi mor fawr gan bob gwir Brydeiniwr.

Ymddengys na ddarfu iddo esgeuluso, yn y teyrnasiad nesaf, cael cadarnhad o'r etifeddiaethau hyn, a'u sicrhau i'w holl olynwyr. Cafodd gan Harri III., yn 1219, gadarnhad o Whittington iddo ef a'i etifeddion; am yr hyn y rhoddodd i'r brenin 262 o bunnoedd, a dau o feirch hela. Cafodd hefyd ryddid i gynal marchnad yma ar ddydd Mercher, a ffair ar ddydd gwyl St. Luc, am yr hyn yr anrhegodd ei fawrhydi â rhianfarch *(palfry.)* Y mae y gyntaf wedi ei cholli. Y mae yma yn barhaus ffeiriau, neu arddangosiadau o anifeiliaid, ar y dyddiau Iau olaf yn Ebrill, Gorphenaf, a Medi.

*Ffeiriau.*

Oddiwrth ffafr arall a ganiatawyd iddo gan yr un brenin, yn y flwyddyn 1220, ymddengys, fe ddichon, fod castell Whittington wedi cael ei wneyd yn anamddiffynadwy gan y Cymry; oblegyd y mae Harri yn rhoddi caniatâd i'r Fulk yma ei adgyweirio. Y mae coffadwriaeth o hyn yn cael ei gadw hyd heddyw mewn ystafell yn y porth, sef llun marchog ar geffyl wedi ei baentio yn aflerw ar y mur, gyda llinellau Saesoneg, o ba rai y mae a ganlyn yn rhyddgyfieithiad, y rhai ydynt braidd wedi gwisgo ymaith, yn gyfleuedig oddi tanodd:—

> Hwn oedd Syr Foulk Fitz-warren, gynt yn farchog mawr a gwrol,
> Yr hwn gadwai y Brython byth mewn braw, a mynych gyrai hwy ar ffo.
> Efe oedd perchenog y castell hwn, a daliai ef trwy awdurdod
> Harri, a elwid gynt y trydydd, y pryd hyny yn frenin yr holl dir yma.

* Y mae llawer o hono wedi ei ddyogelu yn y gyfrol gyntaf o *Leland's Collectanea*, p. 230.

† Y mae y gair *latimer* wedi rhoddi i'r iaith Gymraeg y geiriau *lladmer* a *lladmerydd*, sef cyfieithydd. J.R.

‡ Gwel Coke's 2 Inst. p. 515, lle y mae geiriau fel y canlyn:—"Ond beth os nad all y wraig siarad unrhyw iaith a ddealla y barnwr, megys y Gernywaeg, y Gymraeg, yr Isellmynaeg, neu y cyffelyb? yna bydd *latimer*, hyny yw, cyfieithwr ar ei lw i gyfieithu yn gywir." T.P.

§ Blunt's Ancient Tenures, 17.

‖ Rymer.

Ei daid, un o Lorraine, a fu yn glodfawr hynod,
Priododd ferch Peverley, a ba un y cafodd y Foulk hwn;
Cofrestrir ei hen orchestion marchwriaethol mewn llyfrau,
Ein brenin ni o Loegr a'i gwnaeth ar ol hyny yn farwn ac arglwydd

Hysbysir ni gan Dugdale fod y barwn hwn wedi boddi mewn afon yn mrwydr Lewes, tra yn ymladd dros ei frenin; ond y mae Mr. Mytton yn tybio yn ddigon rhesymol, mai ei fab oedd ar y maes y diwrnod hwnw; oblegyd o'r amser y cawsai y Fulk hwn ei apwyntio yn isgadben y cyffiniau gan Rhisiart I. hyd y frwydr hon, yr oedd pymtheng mlynedd a thriugain wedi myned heibio; felly, y mae yn debyg ei fod ef wedi marw, neu o'r hyn lleiaf yn analluog i weithredu fel rhyfelwr. Ei fab, gan hyny, a raid fod y person a syrthiodd yn y frwydr drychinebus hono; yr hwn a arweiniai fintai o filwyr profedig, a godasid yn y cyffindiroedd hyn, ac oeddynt wedi ymarfer â rhyfel trwy eu mynych ymladdfeydd â'r Cymry.

Yn uniongyrchol ar ol y frwydr hon, y buddugoliaethwr gwrthryfelgar, Montfort iarll Leicester, a apwyntiodd Peter de Montfort, un o'i dylwyth ef ei hun, yn llywydd y castell hwn; ac yn fuan wedi hyny, gan ddefnyddio awdurdod y brenin a ddelid yn garcharor ganddo, yn ei erbyn ei hun, a'i gorfododd* i roddi i fyny i Lewelyn ap Gruffydd, tywysog Cymru, gantref Ellesmere, amryw o gastelli y cyffiniau, ac yn mysg ereill, gastell Whittington a'i amgylchoedd. Arwyddwyd yr ysgrif hon yn Henffordd, ar yr 22ain o Fehefin, 1265. Harri hefyd a drosglwyddodd iddo benaduriaeth Cymru, ac ymostyngiad yr holl farwniaid Cymreig, ac arglwydd Whittington. Cadarnhawyd y pethau hyn iddo drachefn gan Harri, ynghydag ymostyngiad y siroedd cymydogaethol (yr hyn a delid yn gyffredin i hynafiaid y tywysog,) ar yr amod fod i Lewelyn dalu iddo 30,000 marks.

Yn 1281, daeth Fulk gydag Iorwerth I. yn ei ymgyrch yn erbyn y Cymry; a chafodd ei wobrwyo â rhodd o gwning-gaer rydd ar ei diroedd yn y faenoriaeth hon

Yn 1300, bu cweryl rhyngddo a'i gymydog galluog, Rhisiart iarll Arundel; ond penderfynwyd y mater trwy ymyriad y brenin.

Bu efe farw yn nheyrnasiad Iorwerth II. Yr oedd ei fab ar y pryd yn Ffraingc, yn ngwasanaeth ei fawrhydi; ond cafodd ei arglwyddes, Alionora, feddiant o'r faenoriaeth hyd nes y dychwelai ei phriod i wneyd gwarogaeth.

Yn 1329, neu y 3edd o Iorwerth III., cafodd yr iarll newydd ei gyhuddo gan Edmund, iarll Caint, ewythr i'r brenin, o daenu adroddiadau ymbleidiol, fod Iorwerth II. o hyd yn fyw; ac o amcanu codi gwrthryfel. Am y trosedd hwn gafaelwyd yn ei gastell yn Whittington; ond cafodd ei adferu iddo yn y flwyddyn ganlynol, ar eiriolaeth ei gyd-bendefigion.

Yn ngwrthryfel Owain Glyndwr, yr oedd ei gaethddeiliaid yn bleidiol i'w achos ef; ond cafodd eu harglwydd bardwn iddynt gan Harri IV

Yn 1420, yr 8fed o Harri V., darfu am y teulu ardderchog hwn yn y llinach wrywaidd; bu farw y Fulk diweddaf cyn dyfod i'w oed, gan adael ei chwaer Elizabeth yn etifeddes ei feddiannau. Ymbriododd hi â Richard Hankford, yr

* Rymer, i. 814.

Digitized by Google

hwn a fu farw yn 1430, y 9fed o Harri VI., gan adael ar ei ol unig ferch, Thomasine. Priododd hon Syr William Bourchier, yr hwn a grewyd, ar y cyfrif hwnw, yn arglwydd Fitzwarine. Olynydd iddo ef, John iarll Caerbaddon, a newidiodd y faenoriaeth hon gyda Harri VIII. am diroedd ereill. Iorwerth VI. a'i rhoddes i Henry Grey iarll Suffolk: a Mari, wedi iddo ef gael ei gollfarnu, a'i rhoddodd i Harri iarll diweddaf Arundel o'r enw Fitz-alan. Gwystlwyd y lle ganddo ef i un William Albany, ac ereill o ddinasyddion Llundain. Rhoddodd y rhai olaf eu teitl i fyny i Albany, yr hwn a gymerodd feddiant o'r etifeddiaeth. Hen wyres iddo ef, a'r unig etifeddes, a briododd â Thomas Lloyd o Aston, ysw., yn y sir hon.

*Castell.*] Y mae y castell yn sefyll ar le gwastad· y porth, a gweddillion dau o dyrau crynion mawrion, gyda holltau croesffurf ynddynt yn lle ffenestri, yn aros o hyd; a gellir lled-olrhain olion dau arall hyd heddyw. Amgylchynasid ef gynt gan ffosydd mawrion, y rhai a gynwysent amryw weithydd ereill. Llenwid y ffosydd â dwfr afonig a gyfyd gerllaw Pentre' Pant, yn mhlwyf Selattyn, yr hon, ar ei dyfodiad i'r plwyf hwn, a gollir am yn agos i filldir o ffordd, ac a ddaw allan yn y caeau o'r tu cefn i'r castell

Dichon fod y lle hwn yn amddiffynfa er amser ei feddiannwyr boreuaf. Nis gallasai unrhyw le ar gyffiniau cymydogion gelyniaethus, mewn un modd fod yn anamddiffynadwy; ond adeiladydd y castell ag y mae ei adfeilion dan sylw yn awr, yn ddiau, ydoedd y Fitz-warine mawr, ŵyr i Guarine, sylfaenydd y teulu. Yr oedd y rhai hyn yn mhlith y rhai penaf o'r barwniaid a elwid yn *Arglwyddi Cyffindirol Cymru;* am ddechreuad pa rai y rhoddir hanes cyflawn yn yr Attodiad.

*Goruchwyliwr.*] Cynalia goruchwyliwr y faenoriaeth ddau lys bob blwyddyn, y rhai a elwir *court-leet*, a *court-baron*, mewn ystafell* yn y castell; i ba rai y gwysir y trigolion, a dirwyir hwy i geiniog yr un am beidio bod yn bresenol. Telir ardrethion i'w arglwyddiaeth; ac y mae dirwy i arglwydd y faenoriaeth, o'r anifail goreu, yn cael ei hawlio ar farwolaeth y rhan fwyaf o'r rhydd-ddeiliaid o fewn yr arglwyddiaeth.

*Eglwys.*] Yr eglwys* sydd gysegredig i Ioan Fedyddiwr; y mae yn berigloriaeth, a'i gwerth yn llyfrau y brenin ydyw 25*l.* 4*s.* Adeilad fechan ydyw, a thybir iddi ar y dechreu fod wedi ei bwriadu fel capel i'r castell, ac iddi gael ei hadeiladu allan o weddillion defnyddiau yr amddiffynfa hono gan ei sylfaenydd. Yn ol traddodiad y lle, cafodd efe ei gladdu yn y porth, gan ei bod yn weithred ddefosiynol i bawb personau, ar eu mynediad i mewn i eglwysi neu dai crefyddol, weddïo dros eneidiau y sylfaenwyr a'r cymwynaswyr. Fulk Fitz-warine, y seithfed o'r enw, gan yr hwn yr oedd mwyaf o gyllid o neb o'r teulu, mewn llythyr cymun a wnaed yn y 15fed o Rhisiart II. a orchymynodd ei gladdu ef yn nghanghell yr eglwys. Yr oedd y rhan fwyaf

* Y mae hon yn cael ei hadeiladu o newydd yn awr gan Mr. Lloyd o Aston, arglwydd presenol y faenoriaeth; mewn dull mwy cydnaws â'r gweddill o'r hen adeilad. Gol.

* Ail-adeiladwyd yr eglwys yn 1806, dan arolygiad ei theilwng weinidog, y Parch Whitehall Davies. Tuag at y draul, sef oddeutu 1500*l.*, darfu i ddau lythyr casgl *(brief)* gynyrchu 42*l.* 2*s.* 1*d.* Wrth edrych i gyfraith eglwysig Burns, dan y gair Brief, gwelir fod y gost ar bob *brief* yn cyrhaedd i 330*l.* 16*s.* 6*d.*; o ganlyniad, rhaid fod dim llai swm na 703*l.* 15*s.* 1*d.* wedi cael ei godi mewn tanysgrifiadau er mwyn llesoli plwyf Whittington i'r swm o 42*l.* 2*s.* 1*d.* !! Gol.

Digitized by Google

o'i etifeddiaethau mewn siroedd ereill; ond rhoddodd i'r lle hwn y flaenoriaeth fel eisteddle hynafol y teulu.

Yn y flwyddyn 1630, anfonwyd allan gommissiwn o'r cynghor yn nghyffindiroedd Cymru, at John Trefor a Richard Lloyd, boneddigion, yn erchi fod iddynt wneyd cyfrif *(terrier)* o'r tir eglwysig, ac anfon rhestr o'r dodrefn oedd yn y tŷ, ac yn perthyn iddo, i'w ganlyn, yn mysg pa rai fe gafwyd tri phâr o arfwisgoedd, dwy waywffon, a dwy helm. Ymddengys fod y rhai hyn wedi eu bwriadu at wasanaeth y periglor, er amddiffyniad y castell, yn wyneb unrhyw ymruthriad sydyn o eiddo y Cymry.

Ar ol gadael y pentref, ar y ffordd tua Chroesoswallt, mi a sylwais ar Drenewydd, ar y llaw aswy, eisteddle Watkin Williams, Ysw., yn hawl ei fam, etifeddes y lle hwnw. Yr oedd ei thaid, Edward Lloyd, ysw., yr hwn a fu farw yn 1715, yn nodedig am ei ysgoleigdod, ac yr oedd wedi darparu defnyddiau at ysgrifenu hanes ei sîr enedigol. Aethum yn mlaen ar fy nhaith i

## GROESOSWALLT.

*Croesoswallt.*] tref fawr, oddeutu dwy filldir o Whittington; lle hynod yn yr hanesyddiaeth Sacsonaidd ac mewn hen chwedlau duwiolfrydig. Ar y fan yma, y 5ed o Awst, 642,* yr ymladdwyd y frwydr rhwng y Cristionogol Oswald, brenin y Northumbriaid, a'r paganaidd Penda, brenin y Mers. Gorthrechwyd Oswald, a chollodd ei fywyd. Y buddugoliaethwr barbaraidd a dorodd gorph y tywysog lladdedig yn ddarnau, ac a'u gosododd ar bolion yma ac acw ar y maes, fel cynifer o arwyddion goruchafiaeth; neu, yn ol yr hen benillion a adroddant y chwedl, ei *ben a'i ddwylaw* yn unig a amlygwyd felly:—

> Cujus et abscissum caput abscissosque lacertos,
> Et tribus affixos palis pendere cruentos, &c.
>
> Tair croes ar air y creulawn Penda godwyd,
> Ac arnynt pen a dwylaw Oswald ddodwyd,
> Yn siampl drist i'r dyrfa gynulledig
> Mai drwg oedd ef—oedd fyth yn fendigedig.
> Gwaith ofer oll! rhan wael enillodd Penda,
> Y teyrn ferthyrwyd ga'dd yr enill mwya';
> Mae'r sant yn awr mewn gwynfyd pur yn sylwi
> Ar Oswy ei fab yn myn'd i'r gâd mewn yni;
> Prin y gall Penda gynal sedd ddaearol,
> Tra gwisga Oswald goron aur dragwyddol!

Dichon i'r Brytaniaid roddi yr enw Maes-hir ar y fan lle yr ymladdwyd y frwydr, ar gyfrif hir barhad yr ymladdfa. Y Sacsoniaid, am amser maith, a ddalient i fyny enw y fan lle y bu yr ymladdfa, gydag ychwanegiad o'u gair cynhenid eu hunain, *feld*, neu *felth*, yn arwyddo maes; megys *maserfeld*, *maserfelth*, ac yn llygredig *masafeld*.

> Campus *Mesafeld* sanctorum canduit ossa.†
>
> Esgyrn y saint yn Mesafeld a gânwyd.

* Sax. Chron. 31. † Henry of Huntingdon, lib. iii. p. 331.

Mewn amseroedd diweddarach daeth yr enw yn gwbl Sacsonaidd; ac ar gyfrif tynged y brenin gelwid ef *Oswald's tree;* yn bresenol, *Oswestry;* a chan y Cymry cyfieithir ef yn *Croes-Oswallt.* Cyn yr amgylchiad yma, ac am amser maith ar ol hyny, yr oedd y diriogaeth yma yn meddiant y Brytaniaid; nes iddi gael ei gorchfygu gan Offa, a'i dwyn oddifewn i'w glawdd nodedig.

Derbyniodd tywysog oedd mor anwyl gan yr eglwys, ac mor ymlynol wrth broffeswyr y bywyd mynachaidd, ag oedd Oswald, bob anrhydedd ar ol ei farw ag a allent roddi iddo. Codwyd ef yn sant; a chafodd ei seintiolaeth ei chadarnhau trwy wyrthiau aneirif. Yr oedd ei weddillion (y rhai a symudwyd yn y flwyddyn ddylynol gan Oswy) yn effeithiol yn mhob anhwylderau ag yr oedd dyn ac anifail yn ddarostyngedig iddynt. Yr oedd hyd yn nod y fan lle y buasai ei gorph duwiol yn gorwedd, yn cyfranu rhinwedd trwy ddim ond dyfod i gyffyrddiad âg ef; ceffyl un teithiwr, wedi blino gan ormod llafur, a safodd yma, ac a orweddodd i lawr, gan ymrolio o gwmpas mewn ing, pan y darfu yn ffodus gyrhaedd y fan lle y syrthiasai Oswald. Mor gynted ag y cyffyrddodd â'r llawr, neidiodd ar ei draed mewn cyflawn nerth. Ei berchenog, dyn o gallineb mawr! a nododd y fan; aeth ar gefn ei farch, ac yn fuan a gyrhaeddodd y gwestty. Yno cafodd ddynes ieuangc yn glaf o'r parlys. Dywedodd am yr hyn a ddygwyddasai i'r ceffyl; perswadiodd ei chyfeillion i wneyd prawf o'r un feddyginiaeth; parodd iddi gael ei chario yno; ac yn ddiatreg cafodd yr unrhyw wellhad.*

*Eglwys.*] Codwyd eglwys ar y fan lle y merthyrwyd ef, a chysegrwyd hi i'r sant. Sylfaenwyd mynachlog, a ddygai yr enw *Blancminster*, *Candida ecclesia*, *Album monasterium*, a *Whiteminster* (oll yn golygu braidd yr un peth, sef y Fynachlog Wen.) Y mae yn dra hynod nad oes dim tystiolaethau ar gael pa bryd y sylfaenwyd hi, na pha adeg y dadgorphorwyd hi ychwaith. Rhaid fod yr olaf wedi cymeryd lle yn amser y Sacsoniaid; oblegyd, yn uniongyrchol ar ol y Gorchfygiad, cafodd eglwys St. Oswald ei rhoddi ar fynachlog yr Amwythig. Y mae yr esgob Tanner yn amheu a fu yma fynachlog erioed,† ond y mae awdurdod Leland yn gosod hyn i raddau allan o'r cwestiwn—fod yma ar un adeg ryw fath o grefydd-dy yn sefyll; oblegyd y mae yn dywedyd yn bendant, fod y bwäau, gyda beddrodau y mynachod, i'w gweled o fewn cof dyn.‡ Yr wyf fi yn tueddu i dybied mai math o goleg ydoedd; rhywogaeth o sefydliad tra chyffredin mewn lleoedd y buasai merthyrdod neu gyflafan wedi cymeryd lle, defosiynol neu benydiol, yn ol natur yr amgylchiad. Yr oedd rhywbeth o'r fath yma yn bodoli yn y lle hwn tua diwedd teyrnasiad Harri II.; oblegyd darfu i Reinerus, esgob Llanelwy (gan yr hwn yr oedd tŷ yn agos i'r fan) feddiannu holl ddegymau gwair ac ŷd yr eglwys hon a'i chapeli. Gwasanaethai y rhai hyn i gynal deuddeg o offeiriaid; ond rhoddodd Reiner y cyllidau i fynachod yr Amwythig, a thrwy awdurdod y Pab, efe a drôdd allan yr hen lëygwyr.§ Rhaid i mi sylwi, fod gan y rhan fwyaf o honynt wragedd cyfreithlawn; oblegyd darfu i'r clerigwyr Cymreig, am hir amser, wrthwynebu gosodiadau Eglwys Rhufain yn erthygl y gweddwdod, yn gystal ag mewn amryw bethau ereill.

* Bede's Hist. Eccles. lib. iii. c. 9—13, sydd oll yn llawn o chwedleuon o'r math yma.

† Monasticon, 445 ‡ Itin. v. 39.

§ Powel's Notes on Girald. Cambr. Itin. 877. Goodwin de Præsul. Angl. 657.

Digitized by Google

Giraldus Cambrensis a ddylynai archesgob Caergaint i'r lle hwn, i'r dyben o gyffrôi y bobl i gymeryd arfau i fyny i fyned i Ryfeloedd y Groes.

*Ffynhon Oswallt.*] Yn bresenol nid oes dim olion o unrhyw hen adeiladau, oddieithr adfeilion capel uwchben ffynhon hynod o dda, yr hon sydd yn dwyn enw y sant hyd heddyw: ac yn agos i'r eglwys y mae llecyn a ffos o'i amgylch; ond nid yw yn hysbys yn bresenol i ba ddyben yr oedd y lle yma wedi ei fwriadu.

*Cae-nef.*] Rhaid i mi ychwanegu, fod cae yn agos i'r dref a elwir Cae-nef, yr hwn y mae rhai wedi tybio mai dyma le merthyriad Oswald. Y mae ei fywyd a'i farwolaeth wedi rhoddi y teitl hwnw i ddau le; oblegyd y mae i'r *Heafenfeld* Sacsonaidd yn Northumberland yr un ystyr; yr hwn a dderbyniodd ar gyfrif y fuddugoliaeth a gafodd yno ar y tywysog Cumbraidd; Oswald yn priodoli ei lwyddiant yn gwbl i gyfryngwriaeth y nefoedd.

*Eglwys.*] Nid yw yr eglwys bresenol o hynafiaeth mawr; y mae yn eang, a chanddi dŵr syml a phrydferth. Yr ydym yn deall oddiwrth gofadail er coffadwriaeth am Mr. Hugh Yale, fod yr hen eglwys wedi cael ei chwalu yn 1616. Tybiaf fod yr un bresenol wedi cael ei hadeiladu yn uniongyrchol ar ei hadfeilion. Y mae yn sefyll yn gwbl allan o'r dref, mewn maes-dref o'r tu allan i New-gate, neu y Porth newydd, ac y mae yn ficeriaeth, o dan nawddogaeth iarll Powys, yr hwn hefyd ydyw arglwydd y faenoriaeth eang hon. Y mae rhan o'r plwyf yn parhau i ymarfer yr iaith Gymraeg; am ba reswm, y mae y gwasanaeth dwyfol i ryw fesur yn cael ei ddarllen gan yr offeiriad yn yr iaith hono.

*Muriau a Phyrth.*] Yr oedd y dref yn amddiffynedig â mur a phedwar o byrth. Y mae yr un a elwid y Porth du wedi ei chwalu; ond y mae y Porth newydd, Porth yr helyg, a Phorth *Beatrice*, yn aros yn barhaus. Yr olaf sydd adeilad brydferth, gydag ystafell i'r gwarchodwyr ar bob ochr; ac uwch ei ben bais-arfau y Fitz-alans, llew yn sefyll ar ei ddau droed ôl. Dichon iddo gael ei adeiladu gan Thomas, iarll Arundel, yn nechreuad teyrnasiad Harri IV., yr hwn a roddodd iddo yr enw er anrhydedd i'w wraig Beatrix, merch ordderch i frenin Portugal.

Uwch ben y Porth newydd y mae ffugur o farch ar lawn garlam, gyda changen o dderw yn ei enau. Y mae tybiaeth, ond ni ryfygaf ddywedyd pa mor gadarn y mae hono wedi cael ei sylfaenu, ei fod yn cyfeirio at rywogaeth ragorol o feirch am ba rai yr oedd gwlad Bowys (o ba un yr oedd y lle yma yn rhan) mor hynod, wedi eu cael drwy ryw ystalwyni Yspeinig rhagorol a ddygasid i'r wlad hon gan Robert de Belesme iarll yr Amwythig.

Dechreuwyd adeiladu y muriau yn 1277, neu y chweched o Iorwerth I., yr hwn a ganiataodd doll at y pwrpas hwnw ar drigolion y sîr, yr hon a barhaodd am chwe' blynedd; yn mha amser y gellir tybio eu bod yn orphenedig. Yr oeddynt oddeutu milldir o amgylchedd, ac yn meddu ffos ddofn ar y tu allan, yr hon y gellid ei llenwi â dwfr o'r mân afonydd yn y gymydogaeth.

*Castell.*] Nid oes ond ychydig ddarnau yn unig o'r castell yn aros. Safai ar fryncyn o dir a godasid i'r perwyl, gyda ffos ddofn, yn cyrhaedd hyd *Borth Beatrice* ar un ochr, ac hyd *Borth yr Helyg* ar yr ochr arall. Y mae

Digitized by Google

haneswyr Cymreig yn dyweyd iddo gael ei sylfaenu gan Madoc ap Meredydd ap Bleddyn, tywysog Powys, yn 1148.* Leland† a ddyry rhyw liw ar hyn, oblegyd dywed fod yno, yn ei amser ef, dŵr a elwid Tŵr Madog; ond y mae y croniclau Saesonig yn ei osod yn meddiant Alan, pendefig Normanaidd, yr hwn a'i derbyniasai yn uniongyrchol gan Gwilym y Gorchfygwr, ar ei esgyniad i'r orsedd. Yr Alan hwn ydoedd gwreiddyn y Fitz-alans, ieirll Arundel; hiliogaeth ddewr, yr hon a barhaodd (gyda llai o doriadau arni nag sydd yn gyffredin yn gydfynedol â mawredd) yn agos i bum' cant o flynyddoedd.

Syr William Dugdale‡ a ddywed fod yno gastell yn Oswaldster ar adeg y Gorchfygiad; yr hyn a dybiaf fi yn dra thebygol. Y mae y bryncyn ar ba un y safai, o waith celfyddyd, yn arddangos ei fod yn hynach na'r cyfnod Normanaidd. Byddai y Brytaniaid a'r Sacsoniaid yn arfer adeiladu eu hamddiffynfeydd ar fanau uchel o'r math yma. Y Normaniaid a adeiladent ar y tir neu y graig naturiol a chadarn; ond yn aml hwy a ddefnyddient yr uchelfanau hyn os buasent yn flaenorol yn safle castell Sacsonaidd. Credaf mai dyna fel y bu yn yr amgylchiad hwn. Fod un o'r Fitz-alans wedi adgyweirio neu ail-adeiladu yr hyn a gafodd efe yma: gallasai fod tŵr (fel y dygwyddai yn fynych) wedi derbyn yr enw Tŵr Madog, naill o barch i fab Meredydd, neu ryw ŵr mawr arall o'r enw hwnw.

Y castell hwn ydoedd preswylfa y perchenogion Normanaidd, ac yr oedd wedi ei gwbl orphen. Meddai ei *ballium*, neu fuarth, yr hwn a gymerai i fewn y rhan hono o'r dref a elwir hyd heddyw yn *Bailey head:* ei borth allanol, lle y rhoddid elusen i'r dall a'r efrydd yn gyffredin: bryncyn ar y tu allan i'r ffos fawr oedd safle yr adeilad yma; ac, ar gyfrif ei wasanaeth, a ddyg yr enw CRIPPLE-GATE, neu Borth yr efryddion, hyd heddyw. Yn olaf, yr oedd ganddo ei gapel, yn sefyll o fewn ychydig bellder, wedi ei gysegru i St. Nicholas, ac yr oedd yn meddiant ieirll Arundel.

Ni bydd i mi flino y darllenydd gyda rhestr sychlyd o olynwyr i'r lle hwn, neu warcheidwaid y rhai oedd dan oed. Ni wnaf ond sylwi yn unig, ar ol dienyddiad Edmwnd, iarll Arundel, yn nheyrnasiad Iorwerth II., fod ei frenines, er arddangos ei thuedd at ei hoffus Mortimer, wedi cael meddiant o hono i'r ffafryn hwnw.

Derbyniodd y dref luaws mawr o ragorfreintiau gan ei harglwyddi. Ei siartr gyntaf, yr hon, ar gyfrif ei byrdra, a elwid gan y Cymry yn *Siartr Gwta*.§ a ganiatawyd gan William, iarll Arundel, yn nheyrnasiad Harri II. Dylwn sylwi ei fod yn rhoddi i'r bwrdeisiaid yr unrhyw ragorfeintiau ag eiddo bwrdeisiaid tref yr Amwythig.

*Siartr Gwta.*

Yr unrhyw William, mewn cytundeb a wnaed yn amser y brenin Ioan, nid oedd i wneyd ymostyngiad mewn un man ond Blanc-minster, am gyflogau y marchogion a ddelid o dano ef; nac i ddarparu mwy na deg o filwyr, ar feirch neu ar draed, o fewn sir yr Amwythig; na mwy na phump allan o honi.

Ei fab John a gymerodd ran gyda'r barwniaid yn erbyn y brenin Ioan; yr hwn, er dial am hyny, a aeth i Groesoswallt yn 1216,‖ ac a losgodd y dref yn lludw. Ar farwolaeth y tywysog hwnw, cymodwyd ef â'i olynydd, Harri III.,

* Powel, 201. † Itin. v 39. ‡ Baronage.
§ Harleian MSS. No. 1881. 6. ‖ Wynn's Hist. Wales, 242.

Digitized by Google

*Ffair.* ac yn 1227, cafodd i'w faenor yn Blanc-minster, hawl i gadw ffair, ar noswyl, dydd gwyl, a thranoeth ar ol gwyl St. Andreas. Efe hefyd a wnaeth yr is-faerod yn ysgrifenyddion y farchnad, gydag awdurdod i garcharu unrhyw bersonau ymarferent ddulliau twyllodrus o brynu neu werthu; am ba ystyriaeth y talent ugain mark. Y bobl hyn yn fynych a draws-ymarferent eu hawdurdod: nid yw felly yn un ryfeddod fod cymaint o'r camwri ag y cwynai y Cymry o'i herwydd wrth Iorwerth I., wedi tarddu o'r lle hwn.*

Yn 1233, cafodd y dref anffodus hon brofiad o ail ddinystr, trwy iddi gael ei llosgi drachefn gan Lywelyn ap Iorwerth, tywysog Cymru.† Gwnaed darpariadau yn awr gogyfer âg ymysodiadau dyfodol; oblegyd, yn y teyrnasiad nesaf, eiddo Iorwerth I., cafodd y dref ei hamgylchu â muriau. Dygwyddodd hyn pan oedd y brenin "cyfrwysgall" hwnw yn ddiau yn meddwl am ddarostwng y Cymry; o ganlyniad, tybiodd mai priodol oedd sicrhau y dref hon, un o allweddau y wlad, gydag amddiffyniad priodol.

Yn 1318, yn ystod teyrnasiad ei fab anffodus, gorchymynwyd i Edmwnd iarll Arundel godi dau gant o draedfilwyr allan o Colne a'r gymydogaeth hon, i ymladd yn erbyn yr Ysgotiaid.

Yn 1331, Iorwerth III. a ganiataodd ffair arall i'r dref hon; ac yn 1346, gorchymynodd i Edmwnd Fitz-alan godi dau gant o'i rydd-ddeiliaid, o Clun a Chroesoswallt, i'w ganlyn ef i'r rhyfeloedd yn Ffraingc.

Yn 1397, yn gymaint ag i Rhisiart iarll Arundel, gael ei euogfarnu a'i ddienyddio, y brenin, Rhisiart II., a ymaflodd yn ei holl diroedd a'r faenoriaethau, ac a'u rhoddes hwy i William le Scrope iarll Wiltshire, un o'i hoffus ddynion.

*Y Siartr Breninol cyntaf.* Efe hefyd a roddodd i'r dref ei siartr breninol cyntaf, gan ei gwneyd yn gorphoraeth o dan yr enw "is-faerod a bwrdeisiaid Croesoswallt," *infra palatinatum Cestriæ in marchiâ inter* ANGLIAM *et* WALLIAM.‡ Yr oedd hwn hefyd wedi ei gyfansoddi ar seiliau un yr Amwythig. Yr oeddynt yn rhydd trwy y deyrnas (oddieithr rhyddid dinas Llundain ei hun) *de Theolonio, Lastugio, Passagio, Pontagio, Stallagio de Lene, et de Danegeldis, et Saynit et omnibus aliis consuetudinibus et exactionibus.*§

Rhisiart II., yn nghyda phwyllgor seneddol, yn y dref hon, a benderfynasant fod i'r ymrafael fawr rhwng duc Hereford, a Mowbray duc Norfolk, gael ei phenderfynu trwy ymladdfa bersonol yn Coventry; ac ymddangosodd y ddau dduc o flaen y brenin yn Nghroesoswallt, ar ol dadgorphoriad y senedd a gynelid yn yr Amwythig.||

Arglwydd newydd y lle, sef iarll Wiltshire, a syrthiodd yn ysglyfaeth i gynddaredd y bobl, ar ol i'w feistr breninol gael ei ddiorseddu, a chafodd Thomas,

*Thomas iarll Arundel.* mab yr iarll a ddienyddiasid, ei adferu i'w waedoliaeth. Bu ef yn gymwynaswr mawr i'r gorphoraeth; efe a roddodd iddi ryddhad, yn 1406, am gan' punt ag oedd yn ddyledus arnynt iddo, oddiar ystyriaeth o'r cyfyngderau a oddefasai y dref yn ystod

* Powel, 362. † Yr unrhyw, 288.

‡ "Yn nhywysogaeth Caerlleon, yn y cyffindiroedd rhwng LLOEGR a CHYMRU."

§ Amryw fathau o drethi, megys trethi ar "lwythi, am groesi afonydd, am fyned dros bontydd, am werthu mewn marchnadoedd, at wrthsefyll glaniad y Daeniaid, &c., ac oddiwrth bob tollau a threthi ereill o bob rhywogaeth." || Drake's Parliam. Hist. i. 519.



Digitized by Google

gwrthryfel Owain Glyndwr. Efe hefyd a gafodd bardwn y brenin i'w ddeiliaid yn Nghastell y Waen, Maelor, a'r faenoriaeth hon, am y rhan a gymerasent yn y cyffroad hwnw.

Yn yr un flwyddyn â'r rhyddhad uchod, efe a roddodd i'r dref siartr o'r fath mwyaf helaeth, yn cynwys lluaws o bethau a ddangosant arferion yr amserau hyny; a theilynga, ar y cyfrif hwnw, gofnodiad o rai o'r manylion. Nyni a

*Ei Siartr.*

ddechreuwn gydag un tra phwysig: "Nid oedd yr arglwydd, na neb o'i etifeddion, i atafaelu neu gymeryd meddiant o eiddo personau a fyddent wedi marw yn ddi-ewyllys, neu gydag ewyllys, yn y gorphoraeth. NAD oedd unrhyw fwrdeisiad o dan orfodaeth i fod yn dreth-gasglwr cyffredinol i'w arglwyddiaeth; er y gallai wasanaethu fel casglwr y derbyniadau dyledus o fewn y fwrdais; FOD y bwrdeisiaid yn rhyddion oddiwrth unrhyw daliadau y gelwid am danynt gan geidwad y castell, neu unrhyw rai o'i weision israddol, am unrhyw droseddau neu gamweddau a gyflawnid o'r tu allan i'r cyffiniau hyny, pan y dygid hwy i garchar y castell; oddieithr fod i'r ceidwad gael ceiniog ar ei etholiad ei hun, o bob palasdy yn y dref; a ffyrling o bob bwthyn, ar wyl St. Stephan, yn flynyddol; FOD y bwrdeisiaid yn rhyddion o hyn allan oddiwrth unrhyw doll a gyfodid ar gwrw oedd yn cael ei ddarllaw a'i werthu yn y dref, yr hon a delid yn flaenorol, yn ol saith geiniog y llestriaid am y cwbl a werthid: FOD iddynt gael eu rhyddhau oddiwrth dalu *Amobyr*, neu *Lyrewite*:* FOD i bwy bynag a fyddai yn byw yn nhŷ bwrdais, ac a fyddai farw yno, adael rhan i'r bwrdais hwnw ar ol ei farw; yn yr un modd a'r Uchelwyr, neu y rhydd-ddeiliaid, a breswylient ar diroedd yr arglwydd yn nghantref Croesoswallt: NAD oedd dim cwrw o'r Amwythig i gael ei werthu yn y drel heb drwydded, tra yr oedd unrhyw gwrw a ddarllawid yn y dref i'w gael, o dan ddirwy o chwe' swllt ac wyth geiniog: NAD oedd neb o drigolion arglwyddiaethau Croesoswallt, Melverley, Kinardsley, Egerley, Ruyton, a'r un dref ar ddeg,† i yru neu gludo unrhyw anifeiliaid, ŷd, neu ymborth, neu unrhyw nwyddau ereill, cyn i'r cyfryw gael eu cynyg ar werth yn gyntaf yn nhref Croesoswallt, o dan ddirwy o chwe' swllt ac wyth geiniog: NAD oedd neb o ddeiliaid yr arglwydd o dan orfodaeth i dalu y dreth *(redditus advocarii)* at ddyogelwch y castell," &c. &c.

*Gwarcheidwaid yn y pyrth.*


Hyd adeg y siartr uchod, yr oedd tenantiaid Cymreig ei arglwyddiaeth yn nghantref Croesoswallt o dan rwymau i gadw gwyliadwriaeth am dridiau a theirnos yn mhedwar porth y dref, yn ystod ffeiriau St. Andreas a St. Oswald, ynghyda nifer penodol o ddynion a elwid *Kaies;* ond darfu i'r rhai hyn, ynghydag ereill, yn fradwrus yspeilio ac anrheithio y dref. Ar ol hyny gorfu i'r tenantiaid dalu swm o arian fel cyflogau i nifer digonol o Saeson, fel y barnai y bwrdeisiaid a fyddai yn angenrheidiol, er cadwraeth y pedwar porth; a chafodd y Cymry eu rhyddhau am byth oddiwrth y ddyledswydd hono.

Yr oedd tirddeiliaid ieirll Arundel yn y parthau hyny o natur gymysgedig; naill ai yn ddisgynyddion o ddylynwyr Normanaidd eu hynafiad Alan, neu ynte y Cymry brodorol, y rhai oeddynt y nifer luosocaf, a choleddent anghar-

* Gwel tud. 142. † Old Ruyton, Cotton, Shelvoke, Shottaton, Wykey, Eardeston, Tedsmere, Rednall, Haughton, Sutton, a Felton; y rhai a ffurfiant faenoriaeth yn nghantref Croesoswallt.

Digitized by Google

Digitized by Google




CROESOSWALLT YR AMSER GYNT.

Digitized by Google

iad greddfol at eu cyd-ddeiliaid o darddiad tramoraidd. Gelwid y rhan Gymreig yn *Walcheria*, a gorweddai yn y rhan uchaf o'r faenoriaeth.

Cadarnhawyd siartr iarll Thomas gan ei amrywiol olynwyr, hyd amser Harri VIII. Siarl II. a ganiataodd un arall; yn mha un yr oedd maer, deuddeg o henaduriaid, a phymtheg o gynghorwyr cyffredin, gydag uwch-oruchwyliwr, a chofiadur, yn gwneyd i fyny y gorphoraeth.

Rhoddwyd gwarchawdlu yn Nghroesoswallt ar ran y brenin yn nechreuad y rhyfeloedd cartrefol, ond cymerwyd y lle yn Mehefin 1644 gan iarll Dinbych* a'r cadfridog Mytton. Yr oedd y llywydd wedi cadarnhau y dref yn anarferol o gryf; a rhag ofn i'r gelyn aflonyddu arno o glochdy yr eglwys, tynodd hwnw i lawr yn gydwastad â chorph yr adeilad, rhan o ba un a chwalwyd ganddo hefyd. Gwnaed yr ymosodiad yn erbyn y porth newydd, yr hwn a ddymchwelwyd yn ebrwydd gan y cyflegrau; pan y darfu i ddyn ieuangc hyf a beiddgar, o'r enw George Cranage, gymeryd bywall, a thori i lawr gadwyni y grogbont. Yna aeth lluoedd y senedd i mewn, ac enciliodd gwŷr y brenin i'r castell. Yna perswadiwyd Cranage i grogi *petard* (math o offeryn ergydiol at chwythu pyrth) wrth borth y castell. Wedi cael ei lanw yn dda â gwin, efe a ymgymerodd â'r anturiaeth beryglus yma; cripiodd yn ei flaen o dŷ i dŷ, a'r offeryn yn ei feddiant, nes y daeth i'r tŷ agosaf at y castell; yna sicrhaodd ef wrth y porth, rhoddodd dân arno, a diangodd heb dderbyn dim niwaid. Hyrddiwyd y porth i mewn, a chymerwyd y lle.† Er fod y dref wedi cael ei chymeryd yn y modd yma, ni chaniataodd y llywyddion i'r milwyr ei hyspeilio, ond rhoddasant iddynt bum' cant o bunnau yn anrheg yn lle hyny.

Yn ystod y mis dylynol, gwnaeth y milwriad Marrow gais i ail-gymeryd y lle; ond ymosodwyd arno gan Syr Thomas Middleton, a gorfu arno encilio gyda cholled fawr.‡ Ar ol marwolaeth y brenin, chwalwyd y castell.

*Hen Groesoswallt.* Oddeutu milldir o Groesoswallt, yn mhlwyf Sellatyn, y saif gorsaf filwraidd ardderchog, ar fryncyn hirgul ar ei ben ei hun, yr hwn sydd wedi cael ei gadarnhau â chryn gelfyddiaeth. Y mae y pen uchaf yn faes eang, yn cynwys oddeutu pymtheng acer neu ragor o dir ffrwythlawn, ac wedi ei amgylchu â dau o furiau a ffosydd o uchder a dyfnder mawr. Mewn pellder bychan oddiwrth y rhai hyn, yn ngodre y bryn, y mae ffos ddofn arall, yr hon sydd yn amgylchynu y cwbl, ac yn terfynu (megys ag y mae y ddwy ereill) yn y ddwy agorfa; y rhai ydynt wedi eu cyfleu yn drawsonglog gyferbyn â'u gilydd. Ar lethr y bryn, ar bob ochr i un agorfa, y mae rhês o ffosydd dyfnion hirgul, yn rhedeg ar draws rhwng yr ail ffos ac un arall, yr hon yr ymddengys ei bod wedi ei bwriadu er amddiffyniad uniongyrchol iddynt; oblegyd nid yw y gyntaf yn cyrhaedd dim pellach na'r ffosydd hyn; a'r llall, ond i ychydig bellder tu hwnt iddynt.

Gelwir y lle yma yn Hen Groesoswallt, Hen Ddinas, ac mewn hen amser Caer Ogyrfan, oddiwrth Ogyrfan, gwron ag oedd yn cydoesi âg Arthur. Nid oes dim sicrwydd o berthynas i ddechreuad y lle: y mae rhai yn ei briodoli i Oswald, neu i Penda, a thybiant ei fod, yn flaenorol i frwydr Maserfelt, yn meddiant un o'r ddau dywysog hyny. Tybia ereill ei fod yn waith yr hen Frytaniaid; ac at y dyb hon yr wyf finau yn tueddu. Y mae y nerth a'r llafur

* Whitelock, 92. † Mr. Edwards's MSS. ‡ Whitelock, 94.

Digitized by Google

a dreuliwyd wrth ei ffurfio, yn profi nad oedd yn orchwyl sydyn, megys gwersyllfa. Y mae ei ffurfiad, hyd yn nod at y ffosydd hirgul, yn Brydeinig; er engraifft, y mae Bryn y Clawddiau, ar fynyddoedd Clwyd, y rhai a wahanant sir Fflint oddiwrth ddyffryn Clwyd, yn waith cyffelyb.

*Clawdd Wat.*] Y mae clawdd a ffos fawr, a elwir yn *Glawdd Wat*, yn cael eu parhau oddiwrth ddwy ochr yr orsaf hon. Ychydig a wyddir am y gwaith hwn, er ei fod yn llawn mor ddwfn, er nad mor hir a Chlawdd Offa. Bydd i mi yma olrhain rhediad y ddau. Nis gellir canfod clawdd Wat ond ar yr ochr ddeheuol i felin Maesbury, yn mhlwyf Croesoswallt, lle y collir ef mewn tir corsog: oddiyno cymer gyfeiriad gogleddol i'r Hen-ddinas, ac heibio i Bentre'r clawdd, i Gobowen, lle y safai amddiffynfa fechan, a elwid Bryn y castell, yn mhlwyf Whittington: yna croesa gomins Prys Henlle, yn mhlwyf St. Martin: aiff dros afon Geiriog, rhwng Bryncinallt a Gefail Pont y blew, a'r Ddyfrdwy islaw Nant y bela; oddiyno y mae yn myned trwy barc Wynnstay, heibio i Bentre'r clawdd arall; i Erddig, eisteddle Philip Yorke, ysw., lle y mae amddiffynfa gref arall ar ei ffordd: o Erddig y mae yn myned o'r tu uchaf i Wrecsam, yn agos i Felin Puleston, heibio i'r Dolydd, Maesgwyn, Rhos-ddu, Croes-oneiras, Gwersyllt (trigfa Mr. Shakerley;) croesa yr afon Alun, a thrwy dref-ddegwm Llai, i Rydin, yn sir Fflint; uwchlaw lle y mae Caer-estyn, amddiffynfa Brydeinig: oddiyno â heibio i eglwys Estyn, ar hyd ochr Molesdale, yr hwn a edy tua'r pen isaf, gan droi i fynydd Sychdyn, monachlog yn agos i Laneurgain, heibio i felinau Llaneurgain, Bryn moel, Coed y llys, Nant y fflint, Cefn y coed, trwy y *Strand fields*, yn agos i Dreffynon; i'w derfyniad, ychydig islaw i fynachlog y Maesglas. Bum yn fanwl fel hyn i nodi ei rediad, am ei fod yn rhy fynych yn cael ei gamgymeryd am Glawdd Offa, yr hwn sydd yn dylyn y blaenaf, mewn pellderau anghyfartal, o bum' cant o latheni i dair milldir, nes y collir yr olaf yn llwyr.

*Clawdd Offa.*] Ymestynai *Clawdd Offa* o'r afon Gwy ar hyd siroedd Henffordd a Maesyfed, i sir Drefaldwyn, lle y bydd i mi ei gymeryd i fyny yn ei fynediad i Ogledd Cymru, yn Pwll y piod, tafarndy ar y ffordd rhwng Trefesgob a'r Drefnewydd; oddiyno y mae yn myned i'r gogledd, heibio i neuadd Mellington, yn agos i ba le y mae gwersyllfa a elwid Caer-din, gerllaw melin Brompton, lle y mae bryncyn; parc Linor yn agos i Drefaldwyn, morfa Fforden, Nant y cribau, wrth fôn hen amddiffynfa, neuadd Layton, ac eglwys Buttington. Yma collir ef am bum' milldir; ond dichon fod yr Hafren yn gwasanaethu am y pellder hwn, yn lle y clawdd terfyn nodedig yma; yr hwn, yn union gerllaw ymuniad y Bele â'r Hafren, a ymddengys drachefn, gan fyned heibio i eglwysi Llandysilio a Llanymynach, hyd at ddibyn craig serth o gareg galch yn y plwyf olaf: oddi yno y mae yn myned heibio i Dref y clawdd, dros y farch-redegfa ar Gefn y bwch, uwchlaw Croesoswallt, yna uwchlaw Sellatyn; oddiyno disgyna at yr afon Ceiriog, wedi hyny i'r Glyn, lle y mae bwlch mawr, y man y tybir y claddwyd y Saeson a syrthiasant yn mrwydr Crogen, am yr hon y sonir rhagllaw; yna y mae yn myned heibio i Gastell y Waun; ac islaw Cefn y wern, croesa y Ddyfrdwy, a ffordd Rhiwabon yn agos i Blas Madog, ffurfia ran o'r ffordd fawr i Wrecsam, hyd at y Pentre' bychan, lle y mae bryncyn; yna heibio i Blas Bower i Adwy'r Clawdd, yn agos

Digitized by Google

i Minera; heibio i Brymbo, croesa afon Cegidog, a thrwy ddyffryn bychan ar ochr ddeheuol mynydd Bryniorcyn, i Goed talwrn a Chae dwn, fferm yn agos i gapel Treyddin yn mhlwyf y Wyddgrug, gan bwyntio at fynyddoedd Clwyd; tu draw i hyny nis gellir darganfod dim olion pellach o hono.

Y mae Cae dwn, neu yn hytrach Cae twn, yn ol Dr. Davies, yn golygu *fractura*, neu doriad; ac nid oedd yn bosibl cael gwell enw ar derfyn y gwaith anferthol yma, yr hwn, fel y nodais, a derfynai mewn gwlad wastad ddiwylliedig, ar fferm Cae twn, yn agos i gapel Treyddin, yn mhlwyf y Wyddgrug. Y mae ei derfyniad yn mhell oddiwrth unrhyw fryn, neu amddiffynfa: felly y mae yn rhesymol meddwl fod yr ymgais aruthrol yma wedi cael ei atal yn sydyn gan ryw achos, am yr hwn y rhaid i ni fod byth mewn anwybodaeth.

Nid ymddengys un rheswm paham na fuasai yn parhau ei rediad o fôr i fôr. Dichon fod Offa yn tybio y buasai mynyddoedd Clwyd, a'r dyffryn dwfn ar yr ochr yma iddynt yn eu gwaelodion, yn gwasanaethu fel parhad o'i linell derfynol: yr oedd wedi cario ei arfau dros y rhan fwyaf o sir Fflint, ac ofer ddychymygai y byddai i'w lafur atal anrheithiadau y Cymry yn un parth, ac y byddai i'w orchymynion rwystro unrhyw ruthriadau tu hwnt i'r terfynau naturiol hyn, y rhai a nodasai efe fel cyffiniau ei fuddugoliaethau newyddion. Daeth gwendid y gorchwyl mawr yma i'r amlwg ar ol marwolaeth Offa: y Cymry, gyda rhuthr anwrthwynebadwy, a ddiystyrasant ei lafur, ac a gariasant eu hanrheithiadau yn mhell ac ar led ar y cyffiniau Seisonig. Gallu cryfach yn fynych a yrai ein cydwladwyr yn eu holau. Gwnaed cyfreithiau gwaedlyd gan y buddugoliaethus Harold yn erbyn pawb a droseddent y terfynau a nodasid gan y breuin Offa. Yr oedd y Cymro a geid mewn arfau ar yr ochr Sacsonaidd i'r clawdd i golli ei law ddehau.*

Y mae yn nodedig fod y ffos yn mhob man ar yr ochr Gymreig; ac y mae niferi o fryncynau bychain o waith llaw, safle amddiffynfeydd bychain, mewn llawer o fanau ar hyd y clawdd. Byddai gwarchodluoedd yn y rhai hyn, ac ymddengys eu bod wedi eu bwriadu i'r un dybenion a'r tyroedd ar fur mawr China, i wylied ysgogiadau eu cymydogion, ac i yru yn ol yr anrheithiadau gwrthwynebol.

Y mae yn hynod fod Clawdd Offa wedi cael edrych heibio iddo, neu ynte ei gymysgu gydag eiddo Wat, gan bawb ysgrifenwyr, oddieithr Thomas Churchyard y bardd;† yr hwn a ddyry reswm am y gwaith: fod y lle cydrhyngddynt yn dir rhydd, yn fan ag y gallai y Brytaniaid a'r Sacsoniaid gyfarfod mewn dyogelwch at bob amcanion masnachol.

*Sellatyn.*] O Groesoswallt cymerais y ffordd i *Sellatyn*, plwyf yn cynwys ond un dref-ddegwm, sef Porkington, ac yn meddu oddeutu 600 o drigolion.‡ Cafodd ei gofrestr, yr hon a ddechreua yn 1537, yn ffodus ei dyogelu yn amser dinystr mawr y cyfryw ysgrifeniadau, gan Mr. Welding, periglor Oliveraidd yn y rhyfeloedd cartrefol. Ymddengys oddiwrthi fod cyf. lwr y boblogaeth yn yr ugain mlynedd cyntaf ac olaf fel y canlyn:—

* Leland Cellect. iii. 230. Joannes Sarisburiensis, fel y dyfynir ef gan Camden.

† Gwel "Churchyard's Worthines of Wales," yr hwn a argraffwyd y waith gyntaf yn 1587 argraffwyd gan Thomas Evans, 1776.

‡ Yn 1801 yr oedd y nifer yn cyrhaedd 701. Gol.

Digitized by Google

| | Y gyntaf. | Yr olaf. | Cynydd. |
|---|---|---|---|
| Bedyddiadau | 258 | 410 | 152 |
| Priodasau | 29 | 98 | 69 |
| Cynhebryngau | 189 | 257 | 68 * |

Ymddengys fod yr anghyfartaledd boddhaol yma rhwng y genedigaethau a'r marwolaethau, yn tarddu oddiwrth sefyllfa fryniog y plwyf; yr hwn oedd yn llechweddu i lawr at wastadeddau corslyd plwyfydd Croesoswallt a Whittington, heb gyfranogi yn y gradd lleiaf o'u natur. Y mae gwelliadau mewn amaethyddiaeth yn gwneyd llawer tuag at gadw i fyny nifer y boblogaeth, trwy ddarparu iddynt ddigonedd o waith iachus a diniwaid: yr angen o hyny a barai i luoedd o honynt ymfudo, mewn llawer o fanau, i ganol drygedd ac afiechydon dinasoedd mawrion.

*Porkington.* Yn mhlwyf Sellatyn y saif Porkington, eisteddle fy nghâr, Robert Godolphin Owen, ysw.† Cymer y lle yma ei enw oddiwrth wersyllfa hynod mewn cae cyfagos, a elwid *Castell Brogyntyn*, amddiffynfa a berthynai i Owain Brogyntyn, mab ordderch i Madoc ap Meredydd, tywysog Powys Fadog.‡ Y mae yn grwn o ran ei ffurf, ac yn amgylchynedig â chlawdd mawr o bridd, a ffos ddofn. Ymddengys, yn ol hen ddarlun a geir yn mhlith ysgrifau Mr. Mytton, fod iddo ddwy fynedfa, yn lled agos i'w gilydd, yn taflu allan ychydig o'r ochrau, ac yn myned i wahanol gyfeiriadau; a phen pob un yn cael ei amddiffyn gan fur ar lun haner lleuad. Y mae y rhai hyn yn awr wedi eu chwalu.

Cyfnewidiwyd enw y tŷ yn fuan i un ag sydd yn lled debyg i'r un gwreiddiol. Yn 1218, y mae Harri III., mewn anerchiad i Lywelyn, tywysog Cymru, yn ei hysbysu fod, yn mhlith ereill, *Bleddyn Filius Oeni de Porkington*,§ wedi cyflawni i'w fawrhydi y gwasanaeth dyledus oddiwrtho.

Yr oedd Syr John Owain, pleidiwr gwresog y brenin Siarl I., o'r tŷ hwn, ond nid o dylwyth Owain Brogyntyn. Disgynai efe o Hwfa ap Cynddelw, un o bymtheg llwyth Gwynedd. Cyn i Sir John Owain ddyfod i feddiant o'r lle, yr oedd er's hir amser wedi bod yn meddiant y *Lacons*. Aeth oddiwrthynt hwy i Syr William Morris, o Gleueney, yn sîr Gaernarfon, trwy ei briodas â merch i William Wynne Lacon, ysw., a daeth i feddiant y perchenog presenol trwy i wyres y briodas hono briodi â John, pedwerydd mab Robert Owen, o Fodsilin, yn Môn. Buasai y boneddwr hwn (yr hwn oedd yn dad i Syr John) yn ysgrifenydd i'r enwog Walsingham, a chasglodd ddeug mil o bunnau o gyfoeth; swm, efallai, ag y buasai ysgrifenyddion diweddar yn ei ddiystyru, ond yr oedd yn gyfoeth mawr yn y dyddiau hyny. Nid yw yn ymddangos fod ei feistr wedi bod mor ofalus am dano ei hun, oblegyd ni adawodd efe ar ei ol ddigon i dalu traul ei gynhebrwng. Y mae yma ddarlun o Syr John, yr hwn, fel y nodwyd, oedd yn bleidiwr gwresog i achos Siarl I., yn filwriad yn y fyddin, ac yn is-lyngesydd Gogledd Cymru. Enwogodd ei hun yn fawr yn y gwarchae ar Fristol, a chafodd ei archolli yn drwm yn yr ymosodiad, pan gymerodd y tywysog Rupert y lle. Cymhwysderau cydnaws a'i dygodd i sylw ei uchelder;

* Rhwng 1788 ac 1807—Bedyddiadau, 538; priodasau, 100; cynhebryngau, 298.

† Yn awr yn eiddo ei nith, merch i'r diweddar Owen Ormsby, ysw. Gol.

‡ Powel, 212.

§ Rymer, i. 227. "Bleddyn fab Owain o Frogyntyn."

Digitized by Google

yr hwn, gan ei fod yn troi yr archesgob Williams o'i swydd fel llywydd castell Conwy, yn 1645, a wnaeth Syr John yn llywydd yn ei le. Ond cafodd yr amddiffynfa yma ei rhoddi i fyny, ar ol hir warchae, i'r cadfridog Mytton, trwy gynllwyn yr archesgob, a dylanwad ei gyfeillion; ac enciliodd y marchog i'w eisteddle yn mhellafoedd y sir. Yn 1648, cododd mewn arfau i wneyd yr ymdrech olaf ar ran ei feistr syrthiedig, dichon mai mewn cysylltiad â phleidwyr y brenin yn Essex a Chaint. Ymosodwyd arno yn fuan gan William Lloyd, sirydd y sir hono, yr hwn a orchfygodd efe, a archollodd, ac a gymerodd yn garcharor. Yna efe a warchaeodd ar Gaernarfon; ond trwy iddo glywed fod nifer o filwyr y senedd, dan lywyddiaeth y milwriaid Carter a Twisselton, ar eu hymdaith i ymosod arno, prysurodd i'w cyfarfod, gan gymeryd y sirydd gydag ef ar elor feirch. Cyfarfu â'i elynion yn agos i Landegai. bu ymladdfa ffyrnig rhyngddynt, ac ymddangosai ar y cyntaf fod Syr John yn cael y llaw uchaf; ond daeth i gyfarfyddiad â'u hol-fyddin, a darfu i dynged roddi ei dyfarniad yn ei erbyn: mewn ymladdfa bersonol âg un cadben Taylor, tynwyd ef oddiar ei farch, a gwnaed ef yn garcharor; a'i filwyr, wedi digaloni o herwydd colli eu harweinydd, a ffoisant. Bu y sirydd farw yr un diwrnod. Yr oedd y fuddugoliaeth yn cael ei hystyried o gymaint pwys, fel y derbyniodd y cadben Taylor, yr hwn oedd y genad a ddygodd y newydd i'r senedd, wobr o ddau gant o buunau allan o etifeddiaethau Syr John.*

Aethpwyd a Syr John i gastell Windsor, lle y cafodd bedwar o bendefigion yn garcharorion am yr un trosedd ag yntau. Ar y 10fed o Dachwedd, pasiwyd pleidlais ar fod iddo gael ei alltudio, a'r arglwyddi Goring, Loughborough, Capel iarll Holland, a'r cadfridog Langhern† yr un modd; ond wedi i'r brenin gael ei ddienyddio, cymerwyd mesurau mwy gwaedlyd. Gosodwyd y duc Hamilton, iarll Holland, a'r arglwyddi Goring a Capel, ynghyda Syr John Owain, i sefyll eu prawf. Syr John a ddangosodd yspryd teilwng o'i wlad. Dywedodd wrth ei farnwyr mai "gŵr boneddig syml o Gymru ydoedd ef, yr hwn a ddysgasid bob amser i ufuddhau i'r brenin; iddo ei wasanaethu yn onest yn ystod y rhyfel; ac yn gymaint ag iddo gael allan fod rhai dynion gonest yn amcanu codi byddinoedd, er mwyn ei ryddhau ef o'r carchar, iddo yntau wneyd yr un peth;" a therfynodd fel dyn nad oedd yn gofalu rhyw lawer pa beth a wnaent gydag ef. Yn y diwedd, dyfarnwyd ef i golli ei ben; am yr hyn, gyda chalondid ag oedd braidd yn gellweirus, efe a foesgrymodd yn isel i'r llŷs, ac a ddiolchodd yn ostyngedig. Rhywun a safai gerllaw a ofynodd beth oedd efe yn ei feddwl: yntau a atebodd mewn llais uchel, "Y mae yn anrhydedd mawr i ŵr boneddig tlawd o Gymru golli ei ben gyda'r fath arglwyddi ardderchog; oblegyd, myn ——, yr oedd arnaf ofn y buasent yn fy nghrogi."

Cafodd Syr John, trwy ffawd dda yn unig, ei siomi o'r anrhydedd y gwenieithiai iddo ei hun ei fod i'w dderbyn, oblegyd, fel y dywed ei feddargraff, *Famæ plus, quam vitæ solicito.*‡ Ni ofynodd am bardwn, ac ni anfonwyd un ddeiseb yn ei ffafr i'r senedd; yr hyn a wnaethpwyd yn gryf ar ran ei gydgarcharorion. Trôdd Ireton§ yn ddadleuydd drosto, a dywedodd yn y tŷ, "Fod

* Rushworth, ii. part iv. 1146. † Whitelock, 348.

‡ "Yr oedd yn fwy awyddus am glod nag am fywyd."

§ Mrs. Hutchinson a ddywed, yn ei "Memoirs" dyddorol (t.d. 305,) fod Syr J Owain yn gwbl ddyledus am ei fywyd i drugaredd ac ymdrechion ei gŵr hi ac Ireton; "fod y ceidwaid wedi dy-

yno un person, dros yr hwn ni ddywedodd neb un gair; ac am hyny erfyniaf ar fod iddo gael ei arbed yn gwbl trwy drugaredd a daioni y tŷ." Mewn canlyniad i hyny, efe a dderbyniodd drugaredd; ac wedi bod yn ngharchar am ychydig fisoedd, efe a gafodd, ar ei ddeisyfiad ei hun, ei ollwng yn rhydd. Dychwelodd i'w wlad enedigol, lle y bu farw yn 1666; a chladdwyd ef yn eglwys Penmorfa, yn sir Gaernarfon, lle y mae cofadail fechan yn dwyn hyd heddyw y beddargraff canlynol yn yr iaith Ladin:—

M.S.

Cysegredig i goffadwriaeth JOHN OWAIN, o Gleneney, yn sir Gaernarfon, milwr. Dyn tra gwresog o ran ei gariad at ei wlad: tuag at ei frenin (y merthyr duwiol Siarl I.) yn ddysglaer ar gyfrif ei ffyddlondeb diamheuol; yr hwn, er mwyn achub ei frenin cysegredig rhng cynddaredd cydfradwriaeth, yn y modd siriolaf a wynebodd y peryglon mwyaf. Nid unwaith y darfu iddo orchfygu a llethu byddinoedd y gelyn. Amddiffynai grefydd: nes o'r diwedd, trwy anffawd anhapus, syrthiodd y blaenor clodfawr i afael dynion drygionus, y rhai oeddynt erbyn hyn wedi trochi eu dwylaw mewn gwaed breninol. Oddiyma ni fynai fynai wared ei hun, ond trwy y dewrineb mwyaf pendant; yr oedd yn fwy awyddus am glod nag am fywyd. Amlygodd ei wddf i'r fwyall yn ddiarswyd, ond y gallu dwyfol a bylodd ei min, ac a ataliodd adenydd prysur tynged, nes y canfyddodd, yn hynafgwr llawen, SIARL yr 2il wedi ei adferu iddo ei hun, ac i'w eiddo. B A. 1666, yn 66ain mlwydd oed, bu farw mewn tangnefedd.

*Eglwys Sellatyn.* O Porkington mi a aethum i fyny at eglwys y plwyf. Y chwedl am ei sylfaeniad sydd fel y canlyn:—fod pendefig Brutanaidd ar un adeg yn hela, ac iddo gael, mewn twmpath ar y fan yma, ewig wèn; yr hyn a barodd iddo benderfynu (yn unol âg esiampl Ethelred, brenin y Mers, yn amgylchiad eglwys St. Ioan yn Nghaerlleon,) gysegru y fan i ddybenion crefyddol. Mewn canlyniad i hyny, efe a symudodd yr hen eglwys i'r lle hwn, yr hon, fel y dywed traddodiad, a safai yn flaenorol ar le a elwir hyd heddyw Bryn hen Eglwys.

Oddifewn iddi y mae y beddargraff canlynol [yn Lladin] er coffadwriaeth am Syr Robert Owain, mab, fel y tybiwyf, i'r arwr enwog Syr John.

H. S. E.

ROBERT OWAIN, o Porkington, marchog euraidd,* yr hwn a hanai o'r hynafol Hwfa ap Cynddelw, ac o foncyff breninol Owain Gwynedd. Yr oedd yn nodedig am ei uniondeb a'i ddewrder. Nid oedd yn elyn i neb, ond yn gyfaill i laweroedd. Cefnogai bob daioni. Carwyd ef tra fu byw, a hiraethwyd ar ei ol pan y bu farw, ar yr ail ddydd o Ebrill, 1698

Yn yr un eglwys y claddwyd corph esgob Cymreig, John Hanmer, esgob Llanelwy, yr hwn a fu farw yn ei breswylfod yn Pentrepant, yn y plwyf hwn, yn y flwyddyn 1629.

*Dr. Sacheverel.* Yn 1709, anrhegwyd Doctor Sacheverel, y wib-seren uchel-eglwysig hono, yr offeryn hwnw yn nwylaw plaid, â'r fywioliaeth hon; nid yn gymaint o ran ei gwerth, ond er rhoddi esgus iddo i wneyd

fod a deiseb i ysgrifenyddion y tŷ; ond nas gellid cael neb a deimlai ddyddordeb yn ei achos, gan dybied fod bywydau yr arglwyddi yn llawer mwy pwysig nag eiddo y boneddwr hwn." GOL.

* Wrth *farchog euraidd* y golygid marchog a fuasai wedi ennill ei ysparduau aur. CYF.

Digitized by Google

taith trwy barth eang o'r deyrnas; ac i brofi tueddiadau y bobl yn y siroedd breision a phoblog yr oedd i fyned trwyddynt. Cyfarfyddwyd ef ar gyffiniau y sir hon gan 5000 o ddynion ar geffylau, yn mhlith y rhai yr oedd lluaws o'r dynion cyfoethocaf yn sir yr Amwythig. Yr oedd yn cael, yn mhob tref, anrhydedd nad oedd ond ychydig yn fyr o fod yn addoliad. Yr oedd y dyrfa yn Nghroesoswallt mor fawr fel nas gallodd un hen wraig dda ond cael cipolwg yn unig ar ran o'i bersou sanctaidd; ond ymgysurai am ei bod wedi gweled ei berwig fyth-fendigedig fel y marchogai yn ei flaen.

*Castell y Waun.*] Oddiyno mi a brysurais yn mlaen tua Chastell y Waun, gan gadw at ffordd Is, rhwng y ddau glawdd. Wrth agosâu at y pentref,* y mae yno ddyffryn tra dwfn, yn llawn dolydd ffrwythlawn, yn cael ei ddyfrhau gan yr afon Ceiriog, a'i derfynu yn brydferth gan lechweddau uchel a choediog. Ar fin yr ochr agosaf at Gastell y Waen y mae bryncyn o waith celfyddyd; ac olion un arall, fel y tybiaf, ar yr ochr arall i'r ffordd sydd yn myned rhyngddynt. Yr oedd y rhai hyn at ddybenion archwiliadol, ac hefyd, fe ddichon, wedi eu bwriadu fel amddiffynfeydd; a dichon fod ar bob un o'r ddau gastell bychan er amddiffyn y bwlch. Barnaf mai gwaith y Sacsoniaid oedd y bryncynau hyn, ac iddynt gael eu gwneyd yn yr adeg pan y lluniodd Offa ei waith llafurfawr, yr hwn a red mewn ychydig bellder oddiwrthynt.

*Brwydr Crogen.*] Yn y dyffryn dwfn yma, yr hwn a ddirwyna o amgylch godreuon mynyddoedd uchelfrig y Berwyn, ymladdwyd brwydr waedlyd rhwng rhan o fyddin Harri II., a'r Cymry, yn 1165. Yr oedd Harri wedi penderfynu, unwaith yn rhagor, wneyd cais at ddarostwng Cymru, a dial am yr anrheithiadau parhaus a wneid yn y cyffindiroedd gan ei thywysog dewr Owain Gwynedd; ac i'r dyben hwnw cynullodd fyddin yn Nghroesoswallt. Owain, ar y llaw arall, a gynullodd ei holl benaethiaid, a'u deiliaid, yn Nghorwen. Y brenin wedi deall fod ei wrthwynebydd mor agos, a benderfynodd ddwyn y mater i derfyniad buan. Ymdeithiodd yn mlaen tuag ato; ac yn y dyffryn hwn, wrth gael ei hun wedi ymddyrysu mewn coedwigoedd anhydraidd, a chan alw i gof yr anffodion a'i cyfarfuasai yn nghoedwigoedd Eulo, gorchymynodd i'r rhan flaenaf o'i fyddin dori y coed i lawr, i'r dyben o sicrhau ei hun rhag cynllwyniad. Yr oedd gwŷr y gwaywffyn, a blodau ei fyddin, wedi eu cyfleu fel y gallent amddiffyn y gweithwyr. Parodd yr ymgais yma i yspryd y milwyr Cymreig cyffredin ymffyrnigo; ac heb yn wybod i'w swyddogion, syrthiasant gyda ffyrnigrwydd annhraethadwy ar y milwyr hyny. Bu y frwydr yn danbaid, a lladdwyd nifer o'r dynion dewraf: yn y diwedd, enciliodd y Cymry i Gorwen. Harri a gyrhaeddodd gopa mynyddoedd y Berwyn; ond cafodd ei flino mor enbyd gan wlawogydd arswydus, a bywiogrwydd a doethineb Owain, yr hwn a ataliai oddiwrtho bob ymborth ac angenrheidiau ereill,

* Yn mhen uchaf y dyffryn y mae dyfrbont ardderchog o ddeg bwa, yr hon a wasanaetha i gario camlas Ellesmere o'r naill ochr i'r llall; ei hyd, a chymeryd i mewn y pentanau, ydyw 196 troedfedd, ei huchder, hyd wyneb arferol y dwfr, yn 65 troedfedd. Oddiyma y mae y gamlas yn myned trwy *dunnel* hir trwy fryn cyfagos; a phan y daw allan o hwnw, y mae yn cael ei chario ar draws dyffryn yr afon Ddyfrdwy yn agos i Bont y Cysylltau, yn gyntaf ar hyd bryncyn uchel, ac yna mewn cafnau heiyrn, y rhai a gynelir gan golofnau o faen-saernïaeth prydferth, yn yr uchder o 126 troedfedd uwchlaw gwely yr afon. Hyd yr *embankment* ydyw 1500 o droedfeddi, a'r cafnau heiyrn yn 1000 o droedfeddi. Y mae y colofnau a gynaliant y gamlas awyrol hon yn ddeunaw o nifer. GOL.

fel y gorfu arno ddychwelyd mewn gwarth, wedi colli wmbreth mawr o ddynion a darpariadau rhyfel.*

Gelwir y frwydr hon weithiau yn frwydr Corwen; ond gyda mwy o briodoldeb yn eiddo Crogen: oblegyd cymerodd le islaw i Gastell Crogen, neu Gastell y Waun yn bresenol; ac y mae y fan hyd heddyw yn dwyn yr enw Adwy'r beddau, lle y claddwyd y gwŷr a laddesid yno.

*Eglwys y Waun.* Y mae eglwys y Waun (*Chirk*)† yn gysegredig i St. Mair, ac yr oedd gynt yn fywioliaeth gysylltiedig â mynachlog Glyn y Groes (*Valle Crucis.*) Oddifewn iddi y mae cyflawnder o fynor, wedi ei dori

*Cofadeiliau.* ar ffurfiau dynol, cofadeilion am arglwyddi diweddaraf y lle, ynghyda'u boneddigesau. Y goreu o honynt ydyw yr un o Syr Thomas Middleton, gyda barf bwyntiedig, gwallt hir, ac yn arfog; ac wrth ei ymyl y mae un arall o'i foneddiges, un o deulu y Napiers o Luton. Yr oedd Syr Thomas yn swyddog llwyddiannus a bywiog o blaid y senedd yn y rhyfel cartrefol. Tua diwedd ei oes cafodd allan ei fod yn anfwriadol wedi cynorthwyo i sefydlu gwaeth gormes, a mwy annyoddefol o lawer nag a wrthwynebasid ganddo yn flaenorol. Yn 1659, efe a gymerodd i fyny arfau, mewn cysylltiad â Syr George Booth, i'r dyben o adferu yr hen gyfansoddiad. Cafodd Syr George ei orchfygu gan y gwyliadwrus Lambert; a gorfu ar Syr Thomas gau ei hunan i fyny am noddfa yn ei gastell, yn mha le, ar ol deuddydd neu dri o ryw ymddangosiad o wrthsafiad, gorfu arno roddi y lle i fyny ar unrhyw delerau a welai y buddugoliaethwyr yn dda. Y mae llyfr achau y teulu yn dyweyd mai y mab (wedi hyny yn Syr Thomas) oedd llywydd y castell pan ddaeth Lambert o'i flaen.

Y cofadeiladau ereill a gynwysant ddelw fawr, ac wedi ei cherfio yn dra anghelfydd o lady Middleton, gwraig i Syr Thomas Middleton, barwniad, mab i'r blaenaf. Yr oedd hi yn ferch i Syr Thomas Wilbraham, o Woodley; a bu farw yn yr oedran cynar o ddwy ar hugain, yn y flwyddyn 1675.

Syr Rhisiart Middleton, a'i foneddiges, Frances, merch i Syr Thomas Whitmore, o Buildas. Bu efe farw yn 1716; hithau yn 1694. Wrth eu traed y gorwedd eu mab William, y barwniad olaf, yr hwn ni oroesodd ei dad ond dwy flynedd, gan farw yn bedair ar hugain oed.

Ar gofadail fechan ddestlus yn y mur, y mae beddargraff prydferth i Doctor Walter Balcanqual, duwinydd enwog o Ysgotland. Yn 1617, apwyntiwyd ef yn feistr yspytty Savoy, ond yn fuan rhoddodd ei swydd i fyny yn ffafr y galluog, ond anwadal, Marc Antonio di Dominis, archesgob Spalatro, fel gwobr iddo am ei droadigaeth at Brotestaniaeth. Yn 1618, anfonwyd ef i gynrychioli ei wlad i gymanfa nodedig Dort. Dyrchafwyd ef i ddeoniaeth Rochester; ac, yn 1639, i eiddo Durham; trwy ei deyrngarwch zelog, efe a wnaeth ei hun yn atgas yn ngolwg ei gydwladwyr, ac yn 1645, gorfu arno gymeryd noddfa yn Nghastell y Waun; ond suddodd o dan lafur y daith, a gerwindeb y tywydd, fel

* Powel, 221.

† Gelwir *Chirk* yn yr iaith Gymraeg yn Eglwys y Waun, ac ymddengys nad ydyw *Chirk* ond amrywiad ieithyddol o'r gair o ba un y mae *Church* ei hun yn dyfod, ac yn sefyll rhyngddo a'r gair Ysgotaidd *Kirk:* cymharer Birkenhead â *birken* yn lle *birchen*, a'r gair *perc* yn iaith y Deheudir, am y mesur a elwir yn fwy cyffredin *perch*, neu *pole*, yn yr iaith Saesoneg. J. R.

Digitized by Google

y bu farw ddydd Nadolig. Cyfansoddwyd ei feddargraff gan Dr. Pearson, esgob Caerlleon, ar gais Syr Thomas Middleton, gan yr hwn y cyfodwyd y gofadail.

*Castell.*] Saif y castell oddeutu milldir o'r pentref, yn rhediad clawdd Offa, ar gopa bryn uchel, yn taflu allan o fynyddoedd y Berwyn. Cyn sylfaeniad y castell hwn, safai yno un arall, yr hwn a elwid Castell Crogen; a'r diriogaeth oddiamgylch a elai dan yr enw Tref y Waun, eiddo arglwyddi Dinas Brân. Parhaodd yn eu meddiant hyd farwolaeth Gruffydd ap Madog, pleidiwr gwresog i Harri III. ac Iorwerth I. Ar farwolaeth Gruffydd, rhoddodd Iorwerth warcheidwadaeth ei ddau fab hynaf i ddau o'i gyfeillion: ymddiriedodd Madog i Ioan iarll Warren; a Llywelyn i Roger Mortimer, mab Roger, barwn Wigmore: y rhai, fel y soniwyd o'r blaen, yn fuan a roddasant y bechgyn anffodus oddiar y ffordd, ac a feddiannasant eu hetifeddiaethau. Iarll Warren a gymerodd feddiant o arglwyddiaethau Maelor ac Iâl; Mortimer ar eiddo Castell y Waun a Nanheudwy. Efe a sylfaenodd y castell. Ni pharhaodd yn ei deulu ond am dymhor byr, gan iddo gael ei werthu gan ei ŵyr Ioan i Rhisiart Fitz-alan iarll Arundel. Meddiannodd y Fitz-alans ef am dair cenedlaeth; ar ol hyny aeth i feddiant Thomas Mowbray, duc Norfolk, ac ustus Gogledd Cymru, Caerlleon, a Fflint, yn hawl ei wraig, Elizabeth, chwaer hynaf Thomas iarll Arundel. Wedi i Mowbray gael ei ddiswyddo a'i alltudio, yn 1397, dichon iddo gael ei feddiannu gan y goron; rhoddwyd ef drachefn i William Beauchamp arglwydd Abergafeni, yr hwn a briodasai y chwaer arall; a thrwy briodas ei wyres, unig etifeddes Rhisiart Beauchamp iarll Caerwrangon, gydag Iorwerth Neville (wedi hyny arglwydd Abergafeni,) trosglwyddwyd ef i'r teulu hwnw, yn nheyrnasiad Harri VI.*

Y perchenog nesaf, hyd y gallaf fi ddeall, ydyw yr anffodus Syr William Stanley, yr hwn, fel y dywed Leland, "a'i hadgyweiriodd yn dda." Ar ol ei ddienyddiad anniolchgar, fforffetiwyd y lle drachefn i feddiant ei feistr rheibus; wedi hyny, fel y tybiaf, rhoddwyd ef, yn 1534, yn nghastell Holt (un arall o gastellydd Syr William) gan Harri VIII., i'w fab ordderch, Henry Fitz-roy, duc Richmond a Somerset.† Trwy iddo ef farw yn ieuangc, daeth unwaith yn rhagor i feddiant y goron.

Yn y teyrnasiad nesaf, tybiaf iddo gael ei roddi i Thomas, arglwydd Seymour, brawd i'r amddiffynydd Somerset; oblegyd yr wyf yn cael fod Holt‡ yn ei feddiant, i'r hwn y perthynai.

Elizabeth a'i rhoddodd, ynghyda'r unrhyw arglwyddiaethau, i'w ffafryn anheilwng, Dudley iarll Leicester. Ar ei farwolaeth ef daeth Castell y Waun yn eiddo i'r arglwydd St. Ioan o Bletso; mab yr hwn, yn 1595, a'i gwerthodd i Syr Thomas Middleton, marchog, maer Llundain yn 1614.

Yn y flwyddyn 1642, Siarl I., trwy archiad o Rydychain, a gyfarwyddodd y milwriad Robert Ellyce, yr hwn oedd yn filwriad ar gatrawd o wŷr traed, i gymeryd meddiant o Gastell y Waun, ac i gymhwyso unrhyw arian bathol neu lestri arian a gaffai efe yno, tuag at dalu cyflogau ei gatrawd, ac yna ei draddodi i Syr Thomas Hanmer, yr hwn yr oedd ei fawrhydi wedi ei apwyntio yn llywydd. Yr oedd y boneddwr hwn o'r Groes newydd, ger-

* Powell, 213. † King's Vale-royal, 195. ‡ Dugdale Baron. ii. 368.

Digitized by Google

llaw Gwrecsam, ond yn hanu o Lwydiaid Bodidris yn Iâl. Buasai yn gwasanaethu o dan Gustavus Adolphus, ac ymddiriedid iddo yn fawr gan Siarl. Yr oedd ganddo ar y cyntaf gatrawd o chwe' chant o wŷr, ond cafodd ei gwanychu yn fawr; felly cafodd gommisiwn newydd, dyddiedig Tachwedd 1643, i godi deuddeg cant o wŷr. Arglwydd Capel hefyd a'i hanrhydeddodd trwy ei apwyntio, o dano ef, yn briflywydd yn siroedd Dinbych a Fflint.

Y mae gan yr adeilad ddyrchafedig yma lawer i ymffrostio ynddo ar gyfrif yr olygfa eang a geir o honi ar ddwy o bymtheg o siroedd; golygfa o'r fath fwyaf prydferth ac amrywiaethol! Ysgwâr ydyw y castell, gyda phump o dyrau crynion hynod o afrosgo a thrymion. Sieryd arglwydd Clarendon ac ereill am lwyr ddymchweliad yr amddiffynfa hon ar ol iddi gael ei rhoddi i fyny i Lambert. Eithr ni thynwyd i lawr ond un ochr, a thri o dyrau, a bu Syr Thomas Middleton fyw i'w hail-adeiladu mewn un flwyddyn.

Y prif ystafelloedd ydynt neuadd, yr hon a fesura 56 troedfedd wrth 27; gydag ystafell gyfarch oddifewn; ac oriel 100 troedfedd wrth 22, yn llawn portreadau. Yn eu plith y mae eiddo duc Ormond, a'i fab, arglwydd Ossory; y cymeriadau mwyaf rhinweddol, a phrif addurniadau oes ddrygionus Siarl II., y rhai a edmygid, a berchid, ac nid oedd gyffelyb iddynt. Bu Ossory farw o flaen ei dad; yr hwn a oddefodd ei golled gyda diysgogrwydd Rhufeiuwr, yn sylfaenedig ar obaith sicr y Cristion. Nis gallaf ddywedyd pa un oreu, ai fel canmoliaeth i'w fab, neu ynte fel gwawdiaith ar yr amserau hyny, ydoedd ei ddatganiad, *na newidiai efe ei fab trengedig am unrhyw fab byw yn Europ.*

Syr Orlando Bridgeman, arglwydd geidwad y seliau mawrion, yn ei wisgoedd, gyda gwallt teneu. Llywyddai efe ar ddau o lysoedd cyfiawnder gyda'r nodweddiad mwyaf caruaidd; a chollodd y seliau am iddo wrthod eu gosod, yn 1672, wrth gyhoeddiad atgas y brenin o barthed rhyddid cydwybod.

Arglwyddes Bridgeman, ail wraig i Syr Orlando, a mam i Charlotte, gwraig i Syr Thomas Middleton.

Syr Thomas Middleton mewn arfwisg; barf wen, a gwallt du, hirllaes. Yr un boneddwr ag y crybwyllir am dano yn yr hanes am y beddau.

Ei ferch, is-iarlles Warwick, gweddw Iorwerth Rich iarll Warwick, ac wedi hyny yn wraig i Mr. Addison, yr hon a fu, fel y dywedir, yn achos o'i anghymedroldeb.

Ni ddylid anghofio yr attodiad arferol hwnw at hen gastelli, sef y carchardy tanddaearol. Elid i lawr iddo trwy ddau a deugain o risiau; ond, yn ol arferiad canmoladwy ei berchenog presenol, nid yw y carcharorion yn cael eu cadw yno ond am yspaid byr ac esmwyth; ac y mae hyd yn nod hwnw yn pasio heibio yn ddifeddwl, ynghanol y llawnder mawr o fwyd a diod a roddir yma gan y ceidwad caredig, i ofal yr hwn yr ymddiriedir hwy.

*Arferiad farbaraidd.* Wrth ymadael trwy y porth allanol, mi a gofiais am arferiad farbaraidd, yr hon a gynaliwyd i fyny yn y wlad hon yn hwy nag mewn un parth arall o Frydain; sef, achub rhag dienyddiad hyd yn nod y llofrudd penaf, trwy dalu swm pennodol o ddirwy. Yr oedd y peth yn cael ei ymarfer gan arglwyddi y cyffiudiroedd yn y parthau hyn yn

Digitized by Google

y bymthegfed ganrif; a pharhaodd yn Mawddwy, yn sir Feirionydd, hyd nes y diddymwyd ef yn y 27ain o Harri VIII.*

Oddiwrth yr hen Germaniaid y cafwyd yr arferiad yma, y rhai a gymerent ddirwy mewn anifeiliaid fel iawn am lofruddiaeth; byddai hyn yn boddloni y perthynasau, ac nid oedd o un rhwystr i'r cyhoedd, y rhai yn ddiau a niweidid yn y pen draw drwy fod cefnogaeth yn cael ei roddi i ddialedd personol.†

*Were-geld.* Y Sacsoniaid a barhaent yr ymarferiad o dan yr enw *Were-geld;* ac felly gosodent bris ar fywyd pob gradd, o'r brenin hyd y gwerinwr.‡ Prisid pen y brenin yn 30,000 o *thrymses*, neu 4500*l*; un haner i gael ei dalu i'w berthynasau, a'r haner arall i'r deyrnas am y golled a oddefasai: bywyd gwerinwr a brisid yn 266 o *thrymses*, neu 39*l*. 18*s*.

Yr oedd *Were-geld* y Cymro yn isel iawn; oblegyd os na byddai ganddo ddigon o feddiannau i gael eu trethu at wasanaeth y brenin, ni chyfrifid fod ei fywyd yn werth mwy na 70 *thrymses*, neu 10 gini. Rhenid yr arian neu y ddirwy, megys yn amser yr hen Germaniaid, yn mysg perthynasau y person a laddesid; ac weithiau elai rhan i'r meistr tir, fel iawn am ei golled ef.

*Gwerth.* Yr oedd gan y Cymry hefyd, yn y cyffelyb fodd, eu *Galanas* a'u *Gwerth*, o'r un natur a'r blaenaf; ond yr oedd ein dirwy ni yn cael ei thalu mewn anifeiliaid, y rhai oedd cyfoeth y wlad.

Yr oedd y *Gwerth* nid yn unig yn iawn am lofruddiaeth neu ddynladdiad, ond am bob math o niwaid. Yr oedd cwcwalltu y tywysog i gael gwneyd iawn anarferol o uchel am dano;§ rhaid ydoedd i'r troseddwr dalu yn ddirwy gwpan aur â chauad arni, mor llydan a gwyneb ei fawrhydi, ac mor drwchus ag ewin aradrwr a fyddai wedi aredig am naw mlynedd; a gwialen o aur mor dàled â'r brenin, ac mor drwchus â'i fŷs bach; cant o fuchod am bob cantref fyddai dan ei lywodraeth, ynghyda tharw gwŷn, yn meddu clustiau o liw gwahanol, am bob cant o fuchod.

Yr oedd yr iawn i forwyn a gawsai ei ddarostwng yn dra hynod: Wedi i gwyn gael ei wneyd fod ei charwr wedi ei gadael, dyfarnai y llys ei bod i ddal ei gafael mewn cynffon tarw teirblwydd oed, a hono wedi ei heillio, a'i hiro yn dda â saim, a'i rhoddi iddi trwy ffyn llidiard. Yr oedd dau ddyn i symbylu yr anifail: os gallai, o gryfder, ddal ei gafael yn y tarw, yr oedd i ddyfod yn feddiant iddi fel iawn; os na allai, ni chaffai ddim ond y saim a lynai wrth ei dwylaw.‖ Yr wyf yn ofni oddiwrth hyn, ac amryw ddirwyon ereill am yr un trosedd, nad oedd fy nghydwladwyr yn edrych ar y camwedd fel o liw du iawn.

Yr oedd gan y Cymry, y Sacsoniaid, a'r Normaniaid, bob un eu dirwyon arianol am droseddau llai. Byddai Cymro, am golli bŷs, yn cael buwch ac ugain ceiniog; am ei drwyn, chwech o ychain a chwech ugain o geiniogau; ac am gael tynu ei wallt, ceiniog am bob bŷs, a dwy geiniog am y fawd, a ddefnyddid i gyflawni y trosedd.¶ Yr oedd gan y Sacsoniaid ddirwyon cyffelyb;** ac yr oedd y Normaniaid, fel personau tra anrhydeddus, yn darparu dirwy o bum' ceiniog am dynu un gerfydd ei drwyn, a deg am droediad yn ei ben ôl.††

* Gwydir Family, 107. † Tacitus de mor. Germ. c. 2. ‡ Wilkins's Leges Sax. 71.
§ Leges Wallicæ, 199. ‖ Yr unrhyw, 82. ¶ Yr unrhyw, 278. ** Wilkin's Leges Saxon. 44.
†† MS. Notes to my copy of Les Costumes de Normandie.

Digitized by Google

Yr oedd gan yr Ysgotiaid hefyd ddirwyon cyffelyb am ddynladdiad a niweidiau; y rhai, yn eu hen gyfreithiau hwy, a elent dan yr enw Cro, Galnes a Kelchyn:* ac yn olaf, yr oedd gan y Gwyddelod eu Eric, neu iawn am waed.† Yn wir, yr oedd y peth yn ffynu dros holl Ewrop, gydag amrywiadau cydffurfiol â gwahanol ddulliau y gwledydd.

Nis gallaf lai nag adrodd yr achlysur a fu yn achos o'r ymadawiad hwn. Dau o fileiniaid y rhai a gyflawnasent lofruddiaeth‡ o'r fath mwyaf arswydus yn mhellafoedd Cymru, a ffoisant i'r gymydogaeth hon am noddfa, tua diwedd y bymthegfed ganrif. Yr oedd dau deulu ar y pryd yn rhanu y wlad gyda'u hymrafaelion; y Kyffins a'r Trevors; y rhai oeddynt bob amser yn barod i dderbyn o dan eu nawdd unrhyw fileiniaid a gymeradwyid iddynt gan eu cyfeillion pellenig, pan y buasai eu hanfadrwydd wedi gwneyd eu harosiad gartref yn beryglus. Y Trevors, ar yr adeg hon, a roddasant nawdd i'r llofruddion hyn. Yr oedd cyfeillion y person a laddasent yn awyddus am ddial: oblegyd yr oeddynt ar y pryd mewn cynghrair â'r Kyffins, a gosodwyd cynllwyn i gael gafael yn y llofruddion. Ieuan ap Meredydd, boneddwr o sir Gaernarfon, yr hwn oedd yn dra awyddus i ddial y sarhad, a ddaeth drosodd gyda chwech o ddynion, a chyfarwyddid ef i gadw ei hun yn ddirgeledig, rhag i'r Trevors ddyfod i wybod am y peth, ac felly ddyrysu ei amcan. Felly efe a gadwodd i mewn trwy y dydd, gan wylied trwy y nos; o'r diwedd syrthiodd y fileiniaid i'w ddwylaw. Y Trevors yn ddiatreg a ymlidiasant ar ei ol; pan yr hysbyswyd ef gan y Kyffins, os byddai iddo gael ei oddiweddu, ac i'r troseddwyr gael eu hachub, y collai ei ddial; oblegyd, yn ol arfer y wlad, nid oedd raid ond myned a hwy o flaen porth Castell y Waun, na chaent eu clirio ar unwaith, ar daledigaeth o bum' punt. Hyn a barodd i Ieuan benderfynu gorchymyn i'w ddylynwyr dori ymaith eu penau rhag blaen yn y fan. Ond nid oedd un o honynt yn cyflawni y gorchymyn ond yn wanllyd; pan y dywedodd y troseddwr wrtho, pe buasai ef yn cael gwddf y dienyddwr o dan ei gleddyf, *y buasai yn gofalu am well min.*§ Da fuasai genyf pe buasai yr achos yn well, fel y rhoddasid clod iddynt am eu dibrisdod o angeu; ond prin y gallasai llofruddion o'r fath gael unrhyw gysur yn yr olwg ar anfarwoldeb; yr hyn a wnelai i'w cynhynafiaid, trwy ysprydoliaeth caniadau y Derwyddon, dybied yn warth cadw bywyd ag oedd i ddychwelyd iddynt mor fuan.

Yr un ystyriaeth a ddylanwadai ar y Daeniaid hynafol; rhyfelwr *a gwympai,‖ chwarddai, a threngai.* Dyma oedd diwedd y gwron Scandinafaidd, Agnerus:—

Herculè nemo illo visus mihi fortior unquam, &c.—Saxo. Gram p. 36. l. 29.

Ni welais i erioed y fath wroldeb hyf !
Ni lywodraethid ef gan angeu'r brenin cryf !
Y gwron syrthiai i lawr, ymbwysai ar ei fraich,
Ei wyneb tawel oedd, a'i feddwl heb ddim baich.
Heirdd feusydd Gwynfa fro ymrithient, a'u hardd lŷs,
I neuadd Odin fry ehedai mewn mawr frys:
Mewn gorfoleddus hoen gollynga'i anadl gu,
A gwenu ymaith wnai holl ingoedd angeu du !

* Regiam Majestatem, 74. † Davies, Hist. Ireland, 100.

‡ Yr oeddynt wedi lladd periglor, ar anogiad eu penaeth, am fod ei wraig yn dewis magu plentyn i ŵr mawr arall yn hytrach na'i blentyn ef.

§ Gwydir Family, 107. ‖ Bartholinus de Contempt. Mortis, p. 5.

Digitized by Google

*Brynkinallt.*] O Gastell y Waun ymwelais â *Brynkinallt*, oddeutu milldir islaw y pentref. Bu y lle yma gynt yn breswylfod y Trevors, y rhai a ddisgynent o Ednyfed Gam, disgynydd o Tudur Trefor.

Y tŷ* sydd o briddfeini, wedi ei adeiladu yn 1619. Y mae ynddo bortread rhagorol o Syr John Trevor, meistr y rholysgrifau, yn ei wisgoedd swyddol, ac yn eistedd. Efe a ddaliai y swydd hono yn nheyrnasiad Iago II. a Gwilym III. Yr oedd yn alluog, deheuig, ac anturiaethus; ac yn nheyrnasiad y blaenaf, cafodd y moesgyfarchiad gwarthus ei dalu iddo, mai efe oedd i olynu *Jeffries* yn y swydd o Ganghellydd, pe dygwyddai fod yn bosibl i'r olaf fod mewn un math o betrusder. Y brenin Gwilym a gaufu fod yn rhaid iddo wrth wasanaeth Trevor, felly apwyntiwyd ef yn brif arglwydd ddirprwywr y sêl fawr, ac yn aelod o'r cyfringynghor. Buasai yn llefarydd tŷ y cyffredin yn y ddau deyrnasiad. Yn nheyrnasiad Gwilym, cofnodir mai efe oedd y cyntaf a ffurfiodd blaid trwy brynu pleidleisiau, i ba ddyben yr ymddiriedid arian iddo gan y llŷs; ond yn 1694—5, torwyd ef allan o'r tŷ am dderbyn llwgrwobrwy o fil o *guineas* gan gorphoraeth dinas Llundain, am hyrwyddo mynediad drwodd Ysgrif yr Amddifaid, yr hon oedd wedi bod yn sefyll yn y tŷ am hir amser; a'r hyn y dylasai wneyd oddiar deimlad o gyfiawnder a thosturi yn unig. Yr oedd aelodau tŷ y cyffredin yn penderfynu myned yn ei erbyn trwy gyhuddgwyn; ond pallodd y peth trwy i'r senedd gael ei gohirio. Er hyny diau fod ei falchder wedi teimlo yn y modd llymaf; oblegyd gorfu arno, yn swyddogol, roddi y cwestiwn o flaen y tŷ, "Fod Syr John Trevor, y llefarydd, trwy dderbyn gwobr gan ddinas Llundain, &c. &c., yn euog o drosedd mawr a chamymddygiad."

Trwy briodas ei ferch Anne â Michael Hill, ysw., daeth i'r teulu hwn, ac y mae yn bresenol yn meddiant Arthur, arglwydd Dungannon, yr hwn a ddeillia oddiwrth Arthur Hill, ysw., yr ail fab o'r briodas hono.

*Cefn Uchaf.*] Wedi gadael Castell y Waun, esgynais i flaenau *Cefn uchaf*, yn mysg y planigfeydd ardderchog a thoreithiog a ymgodant o dan nawdd y perchenog presenol.* Y mae y bryn uchel hwn yn ymestyn tua Llangollen, ac yn rhoddi golygfa ag sydd yn anarferol o eangfawr. Y mae yr olygfa bellenig yn ddiderfyn. Un ochr a ymddyblyga uwch ben dyffryn o'r fath brydferthaf, yr hwn a ddyfrheir gan y Ddyfrdwy; amrywir ef gan lwyni, a therfynir ef yn y pen draw gan greigiau diffrwyth a noethlwm, y naill uwchlaw y llall.

Disgynais tua Llangollen, yr hon a saif ar yr afon Ddyfrdwy, ac a amgylchynir gan fynyddoedd uchel. Mwynheais farchogfa hynod o brydferth gyda

*Plas Trefor.*] glenydd y Ddyfrdwy. Ar yr ochr arall iddi y mae *Plas Trefor*, yn ymddangos yn dra phrydferth. Perthynai ar un adeg i'r Trevors; ond trwy briodas, aeth i Lwydiaid Glanrafon yn sir Drefaldwyn; a thrachefn, trwy yr unrhyw foddion, i Lwydiaid Pentre' hobin, yn sir Fflint. Odditano, braidd ar fin y dwfr, y mae tŷ hynafol ar ffurf ddigrifol, a elwir

* Y mae Brynkinallt wedi cael ei helaethu a'i adnewyddu yn fawr gan yr arglwydd Dungannon presenol.—Gol.

* Tad y diweddar Richard Middleton, ysw., yn yr hwn y terfynodd llinach wrrywol y teulu. Gol.

Digitized by Google

*Plas yn Pentre*, ar un adeg yn eiddo y *Foulkes*; ond mewn dyddiau diweddarach yn meddiant y *Skies* o Groesoswallt.

*Pengwern.*] Heb fod yn nepell o Langollen, mi a droais ychydig ar y llaw aswy i ymweled â *Phengwern*, neu Lŷs Pengwern, preswylfod Ednyfed Gam, pedwerydd mab Iorwerth Foel, a'r unfed ar ddeg mewn disgyniad oddiwrth Tudur Trefor, iarll Henffordd, o ba rai y mae y Mostyniaid wedi hanu yn llinach uniongyrchol. Y mae hyd heddyw yn meddiant Syr Roger,* pen cenedl yr enw.

Ychydig o olion yr hen dŷ sydd yn awr yn aros, oddieithr un ystafell fwaog, gul, nen yr hon a ffurfir o naw o fwäau ceryg, wedi eu gorchuddio â llechfeini culion, y rhai a osodir drostynt fel plangciau. Ymddengys fod yr ystafell uwchben wedi cael ei gorchuddio yn yr un modd. Bu y teulu yn preswylio yma am oddeutu pedwar cant o flynyddoedd, nes y daeth i feddiant y Mostyniaid, trwy briodas yr etifeddes, fel y nodwyd o'r blaen

*Llangollen.*] Tref fechan, dylodaidd, ydyw *Llangollen*, yn sefyll yn yr ysmotyn mwyaf rhamantus, gerllaw i gomins prydferth a ddyfrheir gan y Ddyfrdwy, yr hon, fel yn arwyddluniol o'i gwlad, a lifa gyda grym mawr trwy y dyffryn. Ymgoda y mynyddoedd i uchder dirfawr goruwch eu godreuon coediog; ac y mae un, copa yr hwn a goronir gan gastell hynafol Dinas Brân, yn anarferol o ardderchog.

Ni wn am un lle yn Ngogledd Cymru ag y gall y coethedig fel carwr golygfeydd ardebol, y synfyfyriol, neu y rhamantus, roddi mwy a ryddid i'w dueddiadau. Nid oes un lle mor gyflawn o fanau amrywiog at farchogaeth, neu rodfeydd difrifol. O'r safle ganolog yma, efe a ddichon, megys ag y gwnaethum inau, ymweled â phreswylfod Owain Glyndwr, a dyffrynoedd prydferth y Ddyfrdwy, hyd ei tharddiad, tu hwnt i Lyn Tegid; neu groesi y mynyddoedd i Ddyffryn Clwyd; neu gymeryd hynt i Wrecsam; neu ymweled â'r lleoedd a adewais yn ddiweddar.

Yn mhlith y rhodfeydd ar lanau y Ddyfrdwy, y mae gweddillion y fynachlog gyfagos, a'r esgyniad anhawdd i Gastell Dinas Brân, mor ddyddorol fel na thybiaf y bydd i unrhyw deithiwr o chwaeth farnu fod ail-ymweliad â hwy yn flinderus.

*Eglwys.*] Y mae eglwys Llangollen wedi ei chysegru i St. Collen ap Gwynnawg ap Clydawg ap Cawrdaf ap Caradog Freichfras ap Llyr Merim, ap Einion Yrth ap Cunedda Wledig, o Ethni Wyddeles, merch i Matholwch, arglwydd Cwl yn nheyrnas yr Iwerddon; yr hwn sant a gladdwyd yma: ac y mae wedi gadael ar ei ol chwedl ag sydd yn deilwng o'r *Coran* ei hun. Yr oedd gynt, yn yr eglwys, gerfddelw o eglwyswr, ar ei orwedd, mewn alabastr, yr hwn y tybiai y werinos mai eiddo St. Collen ydoedd.

*Pont.*] Y bont, yr hon a sylfaenwyd gan John Trevor, y cyntaf, esgob Llanelwy,† yr hwn a fu farw yn 1357, a elwid yn un o *Dri Thlws Cymru;* ond y mae yn fwy hynod ar gyfrif ei sefyllfa na'i hadeiladwaith. Cynwysa bum' bwa; y lletaf o ba rai nid yw yn fwy nag wyth droedfedd ar hugain o

* Yn bresenol yn meddiant ei fab, Syr Thomas Mostyn. Gol.

† Willis's St. Asaph, 52, 285.

Digitized by Google

drawsfesur. Nid yw yr afon yn gyffredin yn rhedeg ond o dan un o honynt; lle y mae wedi ffurfio gwely du o ddyfnder mawr, i ba un y mae y dyfroedd yn llifo gyda rhuthr gwyllt, oddiar ddibyn uchel toredig, rhan o'r graig esmwyth a chaled, yr hon a gyfansodda holl wely yr afon. Y mae yr olygfa, drwy y bwäau, naill ai i fyny neu i lawr, yn dra phrydferth.

*Castell Dinas Brân.*] Yn agos i droed y bont, gyferbyn â'r dref, y dechreua yr esgyniad i Gastell Dinas Brân, gweddillion yr hwn sydd yn gorchuddio braidd yr oll o gopa bryn eang, yr hwn sydd yn llechweddu i lawr yn syth ar bob ochr. Y ffurf sydd hirgul, a'r defnyddiau yn geryg geirwon y wlad, gydag ambell i foldwaith yma ac acw o dywodfaen. Y mae un ochr, nad ydyw mor sêth, yn cael ei hamddiffyn gan ffosydd dyfnion, wedi eu tori allan o'r graig galed. Hwn sydd yn un o'n cestyll Cymreig mwyaf hynafol. Ni wyddir pwy a'i sylfaenodd. Ni feiddiaf briodoli ei ddechreuad a'i enw i Brennus (Brân) brenin y Gauliaid, yr hwn a fu yn gwarchae ar Rufain; a'r hwn y mae traddodiad yn mynegi iddo ddyfod i'r parthau hyn i ymladd â'i frawd Belinus: ac nid wyf ychwaith yn cael ei darddiad oddiwrth y gair *Bryn*, na *Brân* (math o aderyn); ond oddiwrth yr afon fynyddig a elwir *Brân*, yr hon sydd yn rhedeg i lawr ei ochr.

Bu gynt yn brif breswylfod arglwyddi Iâl; a dichon iddo gael ei sylfaenu gan un o honynt. Yn nheyrnasiad Harri III. yr oedd yn encilfa i Gruffydd ap Madoc, yr hwn yn fradwrus a ochrai gyda'r Saeson yn erbyn ei gydwladwyr, a gorfyddid arno ymlochesu yn yr amddiffynfa awyrol hon.

Ar farwolaeth Gruffydd, Iorwerth I. yn angharedig a roddodd warcheidwadaeth mab hynaf ei hen bleidiwr i Ioan iarll Warren; a'r ail fab i Roger Mortimer. Deallodd y ddau warcheidwad ystyr y ffafr; ac o ganlyniad, gwnaethant i ffordd â'r plant druain, a chawsant gyflawn feddiant o'u hetifeddiaethau,* fel y soniwyd o'r blaen. Oddiwrth y Warrens aeth trwy briodas i'r Fitz-alans, ac a aeth i ganlyn olyniad arglwydd Maelor.

Y mae amser ei ymddadfeiliad yn anhysbys. Sonia Leland am dano fel lle adfeiliedig, ac ychwanega, fod eryr yn gwneyd ei nyth bob blwyddyn yn y creigiau amgylchynol; fod yn arferiad gollwng dyn i lawr mewn basged i gymeryd y cywion; ac y byddai raid iddo gael basged arall am ei ben, er ei amddiffyn rhag cynddaredd yr hen adar.

*Myfanwy Fechan.*] Yn 1390, yr oedd benyw nodedig o brydferth yn preswylio yn y castell hwn, yr hon a ddisgynai o Tudur Trefor, ac y mae yn debyg fod ei thad yn dal y castell o dan ieirll Arundel. Enw y foneddiges oedd Myfanwy Fechan; gwnaeth gongcwest o Hywel ap Einion Lygliw, bardd clodfawr, yr hwn a gyfansoddodd awdl i'w hanerch, o'r hon y mae y llinellau canlynol yn aralleiriad:†—

Dan wylo 'rwyf yn taro fy nhelyn brudd ei sain,
O: ymostynga heno i'm gwrando, eneth gain;
A boed i'm cerdd gael argraff ar falchder d'enaid di,
'Rhon wyt, â'th lendid addien, yn swyno 'nghalon i

* Rotuli Walliæ, 81.

† Yn gymaint a bod Cymraeg yr oes hono (oblegyd cyfansoddodd Hywel ei awdl yn 1390,) mor dywyll a Lladin i'r oes bresenol, bernais mai gwell oedd rhoddi yr aralleiriad uchod o honi yma, yn lle y cyfansoddiad gwreiddiol, megys ag y gwnaeth Mr. Pennant ei hun. Cyf.



Digitized by Google

Mae'n rhaid i degwch Creirwy roi ffordd i'th lendid pur,
A dyoddefiadau Garwy* o flaen fy mhoen a'm cur.
Yn mhell o Gaer Myfanwy, lle triga'r deg ei gwawr,
'Rwy'n treulio meithion oriau, mewn prudd unigedd 'nawr.
Tydi, sydd yn tywynu yn ddysglaer fel y dydd,
O! gwel dy ffyddlawn Hywel yn marw'n dlawd a phrudd!
Mewn aur benillion cenais, mewn iaith flodeuog ddawn,
Bereiddiol glod Myfanwy, sydd fenyw brydferth iawn;
Er hyny mae yr eneth yn uchel ac yn ffrom,
Yn chwerthin am fy mhoenau a'm cospedigaeth drom.
Er bod dy aeliau prydferth, a'th lygaid duon glân,
Yn ymgystadlu beunydd uwch ben dy ddannedd mân,
A raid i'th gariad farw yn anobeithiol ddyn,
Trwy gael ei ladd yn gelain gan lygaid hon ei hun?

Yn athrist megys Trystan,† i Gastell Dinas Brân,
Marchogais ar fy ngheffyl i wel'd y lili lân,
Yn serchog yr edrychais; fy nhynged caled yw,
Myfanwy! 'rwyt ti'n harddach na'r ceirios cochion gwiw!
Fel hyn *o bellder* gweled y ffurf ddymunwn i
A'm breichiau hyn yn serchog ei mwyn gofleidio hi.
Mor chwim ar farch Albanaidd, carlamu wneis yn hy'
I weled dy wynebpryd, f'angyles brydferth gu!
Ac er mor galed ydoedd y gwaith o ddringo'r allt,
Fy naca o dy wenau oedd lawer iawn mwy hallt!
Dy ragoriaethau er hyny, a'th degwch hynod, oedd
Yr hyn ddymunai'th gariad o hyd eu rhoi ar g'oedd.
O! harddach wyt, ac oerach, na'r eira ddaeth i lawr
O newydd, fore heddyw, ar grib yr Aran‡ fawr.
O! deg flodeuyn hawddgar, o deulu Trefor fawr,
Na foed i greulawn galon anurddo hyfryd wawr
Dy hoff wynebpryd prydferth, tra yma ar y llawr!
'Rwyt yn fy meddwl beunydd; pob noswaith a phob dydd
A ddygant fy Myfanwy i'm golwg yn ddi gudd;
Ac nid oes dim ond angeu all dynu'r bicell hon
A blanodd cariad gwresog yn fy mlinderus fron.
Ai tybed, tybed gelli, â llygad heb ddim serch,
Wel'd Hywel bur yn marw, o gariad atat, ferch?
Fy ngherdd am danat beunydd a lif o'r awen rydd,
Yr hon wyt fyrdd dysgleiriach na'r haul ar ganol dydd!
Pe byddai it' ddymuno fy llygaid o fy mhen,
Yn llawen iawn aberthwn i fy Myfanwy wen
Fy ngolwg diwasanaeth, dangosai hyny pwy
Yw'r achos o'm gofidiau, a'm hingoedd mewnol mwy!
Pan yn dy hafdy euraidd, yn eistedd yn ddi fraw,
Pan godo haul y bore o gyrau'r dwyrain draw,

* Ymddengys fod y marchog yma a'i foneddiges yr un a *Syr Gareth* a *Damoysell Lynet*, y rhai a hynodir yn y 7fed llyfr o Chwedl y teilyngaf frenin Arthur. Yr oedd Syr Gareth yn caru, ac yn cael ei garu gan Lyones, chwaer i Lynet. Aeth eu serch tu hwnt i derfynau gweddusrwydd: ond darfu i Lynet, er achub eu henw da, trwy swyn roddi atalfa ar eu hymserchiadau, nes ymuno o honynt mewn priodas.

† Trystan ydoedd farchog enwog arall. Ymddengys fod ei ofid ef yn tarddu am fod y foneddiges a garai wedi ei adael, yr hon, fel y dywed yr hanes, a aethai gyda Syr Bleoberys.

‡ Dau fynydd uchel yn sir Feirionydd.

Digitized by Google

Dy enw a adseinia o'r nentydd yn mhob man,
Dy enw seinir wed'yn gan fil o fryniau ban.
Nid oes, Myfanwy Fechan, forwynig uchel fri,
Un enw mor berseiniol a'th hyfryd enw di;
A phob rhyw fardd a wrendy, mewn perlewygol swyn,
Ar bur beroriaeth ddystaw fy ngherdd o fiwsig fwyn.
Am danat ti 'rwy'n gwywo, yn llwydo ar y llawr,
Yn ail i dònau Ddyfrdwy pan yn ewynu'n fawr;
Ond Och! ni ddichon geiriau fyth adrodd maint fy mhoen,
Tra 'rwyf fel hyn yn caru, yn ofer a di hoen!
Doethineb dwfn a rheswm, pa beth yw y rhai hyn,
A holl swynyddiaeth awen, a mwynion bro a bryn,
I sefyll am funudyn, yn erbyn dy holl swyn,
Yr hon sydd yn gorchfygu calonau dynion mwyn?
Pan welais di'r tro cyntaf, d'wysogaidd forwyn lân,
Mewn gwisgoedd o ysgarlad, fy enaid ro'ist ar dân;
A phob ysgogiad chwythai fy nymuniadau i,
Po mwyaf syllwn arnat, mwy fwy y carwn di.
Nid haner ffordd mor brydferth yw gwê y copyn mâd,
Ddysgleiria ar ein dolydd, a gwlithog fanau'n gwlad,
A gweled hardd fodrwyau dy wallt ardderchog di,
Yr hon wyt unig wrthddrych fy serch a'm gofal i.
Ond Och! fy ocheneidiau, a'm dagrau, ofer ynt,—
Y greulawn ferch a'u gollwng i fyned gyda'r gwynt;
A elli, heb dosturio, heb deimlo, ganfod gwae
Ysglyfaeth dy greulondeb—yn goddef fel y mae—
Yn welw gan anobaith, yn ddigwsg trwy y nos,
A'i unig waith yw wylo y dagrau fel y ffos?
O! gwel dy fardd, dy brydydd, yn myned yma i lawr
O! esmwythâ dy brydydd, dy fardd, o'i ofid mawr;
Er mwyn y Nefoedd dangos dosturi ar ei ran,
Cyn iddo fyn'd i orphwys i fynwent oer y Llan!
O! decach fun na'r blodau sydd yn addurno tlws
Ganghenau'r ysbyddaden, pan haf fo wrth y drws!
Tra pery bywyd, canaf dy ragoriaethau mâd,
A gwnaf dy glod yn hysbys trwy hen fynyddau'n gwlad,
Nes iddynt oll adseinio dy enw peraidd di,
Ac felly, trwy'm gorthrymder, fe'm hanfarwolir i.
Ac ni bydd imi rwgnach, er marw heb ddim bri,
Os caiff fy enw gydfyw, am byth, â d'enw di.

*Rhiwabon.*] Ar ol gorphwys ychydig, wedi dyfod i lawr o'r castell, telais ymweliad â *Rhiwabon*, ychydig filldiroedd o Langollen. Am beth amser yr oeddwn yn marchogaeth ar lenydd y Ddyfrdwy, yr hon oedd yn dyfrhau dyffryn prydferth a chul. O'r diwedd y mae y bryniau yn agosâu cymaint at eu gilydd, fel na adewir lle ond i fynedfa ardebol, yr hon a gysgodir gan goed. Croesi pont, a elwir y Bont newydd, ac esgyn am ryw yspaid, gan adael ar y llaw aswy wmbreth mawr o byllau glo: cyrhaedd pentref Rhiwabon, yr hwn a gymer ei enw oddiwrth yr *afon* ar ba un y saif.*

* Wrth gwrs, nis gall hyn fod yn iawn, oblegyd yna dylasai yr enw fod yn *Rhiwafon;* y tarddiad ydyw Rhiw-Fabon, ac yr oedd Mabon yn enw ar gymeriad yn y chwedlau Cymreig, efallai rhyw dduw diraddiedig o eiddo y Celtiaid. Gyda golwg ar golliant yr *f* yn yr enw hwn, cymharer Bod-organ (am Bod-Forgan) yn Môn. J. R.

Digitized by Google

*Eglwys.*] Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Mair. Y mae yn ddiweddar wedi cael ei gwneyd i fyny mewn modd tra destlus, yn benaf ar draul Syr Watkin Williams Wynn, yr hwn a roddodd ynddi organ, a bedyddfan fechan; yr olaf, ar fedyddiad ei fab hynaf,* yn 1772; y mae o fynor gwyn, ac yn sefyll ar gynalydd tri-throed o brydferthwch mawr.

*Cofadeiliau.*] Y mae y gofadail i'w wraig gyntaf, yr arglwyddes Harriett† Somerset, yr hon a fu farw Gorphenaf 24, 1769, mewn chwaeth ragorol. Cynwysa gerfddelw o *Obaith* yn ymbwyso ar ystên, ac i'w chanlyn y mae yr arwydd arferol o angor. Y mae sarph hefyd, gyda'i chynffon yn ei genau, arwyddlun o dragwyddoldeb, yn amgau y cerfiad ar un ochr i fonsail y gofadail.

Megys mewn gwrthgyferbyniad i'r gwaith rhagorol hwn o eiddo Mr. Nollekeu, y mae yn gyfleuedig yn erbyn y mur, gerfddelw fawr o Henry Wynn, ysw., degfed mab yr hen Syr John Wynn o Wydir, yr hwn a fu farw yn 1671. Ei agwedd ydyw yr eiddo pregethwr penboeth: a'i wisg ydyw côt wedi ei chyflawn fotymu, godrau byrion, ac esgidiau ysgwâr; gwrthddrych anffodus i'r eithaf i gerfiwr. Ar un ochr, penlinia Syr John Wynn o Wynnstay, barwniad; ac ar yr ochr arall, Jane ei wraig, merch i Eyton Evans, trwy yr hon y cafodd efe yr etifeddiaeth. Bu farw yn yr oedran o 91, yn 1718; a gadawodd ei etifeddiaeth i Syr W. W. Wynn, yr hwn oedd yn berthynas agos iddo; Syr John wedi hanu o linach wrrywaidd, a Syr Watkin o'r un fenywaidd o hen dylwyth mawr Gwydir. Ei fam ydoedd ferch ac etifeddes i Edward Thelwal, ysw., o Blas y ward, o Sydney, unig ferch William Wynn, ysw., prif ysgrifenydd Gogledd Cymru, a seithfed mab yr hen farwniad. Arddangosir Syr John fel yn ddall: dygwyddodd yr anffawd yma iddo yn ei hen ddyddiau, a chrybwyllir am dani yn ei feddargraff fel peth a fu iddo o les mawr, gan fod ei syniadau mewnol wedi cael eu gwella yn fawr trwy yr amherffeithrwydd corphorol hwn. Adgofia hyn fi am ddwy llinell, yn mha rai y mae y un meddylddrych yn cael ei arddangos yn llawer gwell:—

> The soul's dark cottage, battered and decayed,
> Lets in new light, thro' chinks which time has made.‡

Yn yr un capel y mae beddrod hynafol, ar ffurf arall, gydag addurniadau mynachaidd ar yr ochrau, ac angylion yn dal tarianau, ar ba rai y mae paisarfau sydd yn awr wedi ei anurddo. Ar y pen uchaf y mae dau ffugur: dyn arfog, gyda choler o SS, a boneddiges yn gorwedd wrth ei ochr ar fantell; wrth eu traed y mae llew, a mynach yn eistedd arno, a'i ben yn gorphwys ar un llaw.

O gylch ymylon y beddrod y mae y cerfiad canlynol (yn yr iaith Ladin):—

> Gweddiwch dros enaid John ap Elis Eyton, y milwr, yr hwn a fu farw ar yr 28ain o Fedi, yn y flwyddyn 1526, a thros enaid Elizabeth Calfley ei wraig, yr hon a fu farw ar yr 11eg o Fehefin, yn y flwyddyn 1524, eneidiau y rhai y byddo i Dduw eu bendithio. Amen.

* Y barwnig presenol.—Gol.

† Dylai yr arglwyddes Harriet Somerset fod yn *Henrietta*. T. P.

‡ "Tywyll fwthyn yr enaid, wedi ei friwio ac yn adfeiliedig,
A ollwng i mewn oleuni newydd trwy holltau a wnaed gan amser."

Digitized by Google

Y boneddwr hwn a ymunodd â Harri VII., ychydig cyn brwydr Bosworth; ac am ei fawr wasanaeth rhoddwyd iddo gryn lawer o dir yn anrheg yn y parthau hyn. Yr oedd o dylwyth Eyton, am ba un y crybwyllwyd yn flaenorol. Buasai ei daid yn briod ddwywaith â'r un foneddiges, yr hon, ar y dybiaeth o fodolaeth cyfathrach rhy agos o ran gwaed, a gafodd ei hysgaru oddiwrtho, wedi dwyn iddo fab o'r enw Ellis: ond trwy iddynt gael breint-lythyr goddefol, aethant at eu gilydd drachefn, a chawsant eu hail-briodi yn ffurfiol. Ar ol yr ail briodas, ganwyd iddynt blant ereill. Rhanwyd yr etifeddiaeth y pryd hyny; syrthiodd Rhiwabon a Watstay i feddiant Ellis, ac Eyton, i John, y cyntaf o'r ail dylwyth.*

Ar yr ochr arall i'r allor y mae cofadail ardderchog i Syr Watkin Williams Wynn (y cyntaf,) rhinweddau yr hwn sydd o hyd yn aros yn meddyliau ei gydwladwyr. Cwymp oddiar ei geffyl, ar y 26ain o Fedi, 1749, a amddifadodd y byd o ddinasydd defnyddiol. Y mae Rysbrack wedi dyogelu ei osgedd yn dda, a hyny mewn agwedd brydferth hefyd. Ar y gofadail ceir y cerfiad canlynol, yn yr iaith Ladin, yn yr hwn y mae y diweddar Dr. King, o St. Mary-hall, yn arddangos ansoddau ei feddwl:—

AT WARCHEIDWAID Y RHYDDID CYHOEDDUS.

Yma y claddwyd

WATKIN WILLIAMS WYNN, Barwniad,

yr hwn, wedi disgyn o gyff ardderchog o'r Hen Frythoniaid, a ddangosodd ei hun y mwyaf urddasol o'i linach, yn Frython trwyadl, nid yn unig mewn enw, ond mewn rhinwedd a ffyddlondeb. Wedi ei ethol, yn ddyn ieuangc, i'r senedd, daeth yn ddiymaros i sylw gan bawb ar gyfrif ei feddylgarwch a'i farn. Wedi iddo ddechreu cymeryd rhan yn y dadleuon, ac ymgymeryd â noddi ac amddiffyn rhyddid, yr oedd pawb yn aredmygu ei fawrfrydigrwydd a'i ffyddlondeb rhyfeddol, fel y daeth yn gyfiawn i gael ei ystyried yn benaeth y senedd, yn gystal ag yn dad ei wlad enedigol. Yr oedd wedi ei ddonio gymaint â chywirdeb a daioni amlwg fel nas gallai lai nag enill iddo ei hun barch ac edmygedd fel y dyn mwyaf diniwaid; ac am reswm cyffelyb, fel y tad doethaf mewn teulu, priod ffyddlon, y caredicaf o dirfeistri, prif noddwr llenyddiaeth, a chyson addolwr Duw a'r gwirionedd Cristionogol. Yn ychwanegol at hyn, mor foddhaol a siriol y byddai wrth fwrdd y wledd! Y fath onestrwydd oedd yn ei ymddiddanion! Y fath burdeb a phrydferthwch a ddysgleiriai o'i wynebpryd! Mor dduwiolfrydig y byddai wrth ei brydau bwyd! Mor gymedrol yn ymarferion ei fywyd! Y fath wylder, rhadlonedd, cyfeillgarwch, a rhyddfrydigrwydd a'i nodweddai ef trwy ei fywyd! Mor arswydus y mae Prydain wedi dyoddef o herwydd marwolaeth anamserol y fath ddyn mor fawr, pan y mae pawb a adnabyddent ei rinweddau (ac yr oedd yr hwn sydd yn ysgrifenu y llinellau hyn, gyda chalon athrist, yn eu hadnabod yn dda,) yn cyffesu yn awr, wedi iddo gael ei gymeryd ymaith, fod noddwr pob dynion trallodus, hyfrydwch pob dynion da, amddiffynydd pob dynion dysgedig, prydferthwch ac addurn ei Walia enedigol, wedi cael ei symud ymaith a'i ddiffoddi.

Bu farw 26ain o Fedi, 1749, yn 57 mlwydd oed.

* Eyton Pedigree.

Digitized by Google

*Wynnstay.*] Y mae parc Wynnstay yn cyrhaedd i bentref Rhiwabon; ac y mae yn dra manteisiol o ran ei sefyllfa—y tir yn llawn o goed; y golygfeydd yn eglur ac yn dra phrydferth; yn enwedig y rhai tuag at fynyddoedd y Berwyn, a'r bwlch ardderchog a wnaethpwyd drwyddynt tu hwnt i Langollen, gan y Ddyfrdwy gyflym, trwy wlad yr *afreolus a'r gwyllt* Glyndwr.

*Nant y Bele.*] *Nant y Bele* a orwedd oddeutu milldir oddiyma, ac y mae yn haeddiannol o ymweliad pob ymdeithydd. Oddiar graig yn ei ben pellaf ceir golygfa ardderchog ar y Ddyfrdwy, yn ymrolio yn arswydol mewn ceuedd dwfn wedi ei ymylu gan goed; ac o'r diwedd yn terfynu yn ffromllyd mewn llyn du a llonydd. At y gogledd, ceir golygfa fawreddog ar fynydd pigyrnaidd, ac amddiffynfa hynafol Dinas Brân, yn ymgodi mewn dyffryn toreithiog, yr hwn a derfynir gan y mynyddau noethlwm.

Y mae y tŷ wedi cael ei adeiladu ar amrywiol amserau. Y rhan fwyaf hynafol ydyw porth* o goed a phlastr, gyda'r amseriad 1616 arno. Ar dŵr oddifewn i'r cwrt y mae y llinellau rhagorol hyn, gan gyfeirio at enw y tŷ:—*Wynnstay*, neu byddwch foddlon ar y pethau da ag y mae Rhagluniaeth wedi eu gwlawio arnoch mor haelfrydig.

Cui domus est victusque decens, cui patria dulcis,
Sunt satis hæc vitæ, cætera cura, labor.
Struxit Johannes Wynn miles et baronettus, A.D. 1706.†

Enw blaenorol y lle oedd *Wat-stay*, o herwydd ei sefyllfa ar y clawdd hynod o'r enw hwnw; ond newidiwyd ef i'r un presenol gan Syr John Wynn, o barchedigaeth i'w enw ei hun. Ar y cyntaf, ei enw syml oedd Rhiwabon, a bu gynt yn breswylfa Madog ap Gruffydd Maelor, sylfaenydd Mynachlog y Groes.‡

Y mae y darn newydd, yr hwn a adeiladwyd gan y Syr Watkin cyntaf, yn dŷ§ ynddo ei hun; eto nid oedd ond cyfran o gynllun llawer mwy eang. Y mae wedi ei orphen yn y dull destlus a weddai i foneddwr gwladaidd a gonest; ei gyfaddasu at roesawu ei deilwng gymydogion, y rhai a allent fwynhau ei letygarwch heb ofni dinystrio yr addurniadau coegaidd, nad ydynt gymhwys ond i ystafelloedd eang tai mewn tref, neu balasdy mewn dinas fawr. Bwriada y perchenog presenol‖ ail-adeiladu yr hen ddarn; ac yn gymaint a'i fod yn barod wedi arddangos barn dda mewn ystafell ardderchog, yn yr hon y mae symlrwydd wedi ei gyfuno â mawredd, nid oes amheuaeth na bydd iddo gadw at yr arddull o weddusrwydd lleol trwy y cwbl.

Yn gysylltiol â'r tŷ y mae chwareudy bychan o'r fath brydferthaf, yn mha un y bydd y perchenog haelionus yn flynyddol yn bywiocâu yr adeg drymaf ar y flwyddyn gyda chwareuon¶ dramäyddol, am wythnos gyfan, ac yn y modd

* Y mae y porth hwn wedi cael ei dynu i lawr yn ddiweddar.—Gol.

† "I ba un y mae tŷ a chynhaliaeth briodol; i ba un y mae hyfryd enedigol wlad; y pethau hyn ydynt ddigon i fyw. Nid yw y lleill ond baich a blinder.—John Wynn, milwr a barwniad, a'i hadeiladodd, B.A. 1706."

‡ Eyton Pedigree.

§ Y mae y tŷ a ddysgrifia Mr. Pennant, a'r rhan fwyaf o'r arluniau, wedi eu dinystrio trwy dân, Mawrth 6ed, 1858. T.P.

‖ Y diweddar Syr Watkin Williams Wynn. Gol.

¶ Y mae y barwn presenol wedi newid y chwareuon hyn am gyfarfod amaethyddol bob blwyddyn¶ yn mha un y rhoddir gwobrwyon haelfrydig, a chroesawir yr ymwelwyr lluosog gyda yr haelfrydedd mwyaf caredig. Gol.

Digitized by Google

mwyaf tywysogaidd bydd yn anrhegu yr holl wlad gyda'r gweithrediadau difyrus mwyaf rhesymol a phrydferth.

Y gyfres bresenol o arluniau a berthynant i'r tŷ ydynt bortreadau o deuluoedd *Wynn* a *Williams*. Yma y mae un tra rhagorol (tri chwarter) o'r hen Syr John Wynn o Wydir, mewn het uchel, barf wen fawr, ac yn ngwisgiad amseroedd Iago I. Ni soniaf eto am dano ef hyd nes y deuaf at ei breswylfod hynafol

Y mae ei fab, Syr John Wynn, marchog, wedi ei dynu yn haner hyd; yn ddyn ieuangc, gyda chernflew a barf bigfain; gwallt du; gwddfdorch fawr; gwasgod ddu; gwregys gwŷn, yn cael ei gau â phwyntiau; a gwasgrwym o liw gwŷn blodeuog. Bu Syr John farw ar ei deithiau, yn Lucca, ac olynwyd ef gan ei frawd Rhisiart. Y mae llun pen Syr Rhisiart, o'i fath harddaf, gan Vandyck, yn nghadw yma. Yr oedd efe yn foneddwr o gyfrin-ystafell Siarl I., pan yn dywysog Cymru, ac yr oedd yn ei ganlyn yn y daith ramantus a gymerodd i Yspaen, yn 1623, i ymweled â'i briod ddyfodol. Ysgrifenodd Syr Rhisiart hanes rhagorol am ei deithiau, y rhai a argraffwyd, yn mhlith traethodau prinion ereill, gan Mr. Thomas Hearne. Ar esgyniad Siarl i'r orsedd, pennodwyd ef yn drysorydd i'r frenines; ac yn gymaint ag iddo farw yn ddiblant, olynwyd ef gan ei frawd Owain

Portread haner hyd o Henry Wynn, ysw., am yr hwn y crybwyllwyd yn flaenorol, a'r hwn a gynrychiolai sir Feirionydd yn y senedd ddiweddaf o eiddo Iago I. Portreadir ef mewn gwallt du, côb fawr, a llythyr yn ei law. Y mae yma hefyd bortread o frawd arall, yr hwn oedd yn gadben llong ryfel, yn yr un wisg; y mae y naill a'r llall yn bortreadau rhagorol o ran gwaith.

Heblaw hyny, y mae yma hefyd amryw o bortreadau mwy diweddar; megys eiddo y ddau ddiweddar dduciaid Beaufort, yn eu swyddwisgoedd Un arall, sef o Siarl, duc Beaufort, yn pwyso ar ysgwydd y diweddar Syr Watkin, ac yn syllu ar y ceffyl a elwid *Legacy*. Y portread yma o Syr Watkin ydyw y tebycaf iddo o'r cwbl.

Dau bortread o berchenog diweddar y lle hwn, a'i arglwyddes gyntaf, gan Dahl. Y mae ei berwig fawr a'i wisg yn rhoddi meddylddrych anfanteisiol iawn am dano ef. Diau fod y ffasiwn hono yn gymaint o anffawd i'r arlunwr ag ydyw i'r neb sydd yn ei osod ar waith.

Portread tri chwarter o Syr John Wynn, barwniad, gyda pherwig lawn a gwddfdorch. Yr un ag y crybwyllasom am ei gofadail yn flaenorol.

Dau bortread llawn hyd o Siarl II. a'i frenines, y rhai ydynt dra phrydferth, a derfynant y rhestr fer hon.

Wedi dychwelyd i Riwabon, aethum ar hyd y ffordd fawr tua Gwrecsam. Ar y ffordd, troais ychydig ar yr aswy i ymweled â *Chaer* fawr yn y plwyf hwn, a elwir *Garthen*, hyny ydyw, *Caer-ddin*, yr hon a saif ar gopa bryn, o ba le y ceir golygfa hardd ar y wlad eang a thoreithiog sydd yn ei amgylchu, sef Maelor Gymraeg, a rhan o Faelor Saesoneg, gan mwyaf yn wastad a choediog. Cynwysa y *Gaer* yma oddeutu pedair acer o dir, ac amddiffynir hi mewn rhai manau gan un, ac mewn manau ereill gan ddau o gloddiau tra chedyrn a ffosydd dyfnion. Y clawdd mewnol sydd wedi ei wneyd o geryg rhyddion, gyda mur o drwch mawr ar y top. Oddifewn i'r cylch y mae lluaws o olion hen adeil-

Digitized by Google

adau, lle y preswyliai hen feddianwyr y lle. Saif o fewn dau cant o latheni i glawdd Offa. Y mae rhan o'r ffordd fawr wedi ei ffurfio am gryn bellder ar hyd top y clawdd, yr hyn a ddengys ei drwch anferthol. Ymladdwyd brwydr dost yn agos i'r fan hon rhwng Owain Cyfeiliog, tywysog Powys, a'r Saeson, a buddugoliaethodd yr hen Frytaniaid; yr hyn a roddodd achlysur i gân brydferth a elwir *Hirlas Owain*, neu Gorn Yfed Owain, yr hon a gyfansoddwyd gan y tywysog ei hun.*

Dylynais rediad clawdd Wat, heibio i Bentre Bychan, preswylfod Mr. Meredydd, ac yn fuan cyrhaeddais *Erddig*, preswylfa brydferth Philip Yorke, ysw., yr hwn sydd le y mae natur wedi bod yn hynod o hael o'i phrydferthion arno, ac y mae wedi ei wellhau gan chwaeth ragorol ei deilwng berchenog.† Y mae dau ddyffryn bychan yn terfynu ei diroedd, y rhai a ddyfrheir gan afonig brydferth, ac a ymylir gan goedydd crogedig. Ar hyd un ochr i'r geulan y mae y clawdd yn rhedeg; ac yn y pen draw, rhwng y ddau ddyffryn, ac yn crogi uwch eu penau, y saif caerau bychain ond cryfion. Y mae un yn amgylchu gwaith o ffurf pum'onglog; tu hwnt i ba un, ar y dibyn, y mae bryncyn, yr hwn, fel yr ymddengys, ydoedd encilfa olaf y gwarchawdlu, pe buasent yn cael eu gwthio allan o'r blaenaf. Y rhai hyn a gyfansoddant yr hyn a elwir yn *amddiffynfa Rufeinig;* ond ni chafwyd na bathynau, na dim arall o'r eiddynt, i gadarnhau y dybiaeth ei bod yn un felly. Dernyn o fur wedi ei orchuddio â morter ydyw y cwbl sydd yn aros yn bresenol o'r castellyn hwn.

*Erddig.*

Yr oedd Erddig, ar y cyntaf, yn perthyn i hen deulu Cymreig o'r un enw, wedi hanu, fel y tybiaf, o Dudur Trefor. Prynwyd yr etifeddiaeth gan John Edisbury, o Bentre'r Clawdd, mab yr hwn, Josua, a adeiladodd y tŷ presenol yn 1678. Yr oeddynt yn hanedigol o sir Gaerlleon. Cafodd y lle ei werthu, o dan wŷs yn y canghelldy, yn 1715, i John Meller, o dylwyth *Meller Chapel* yn sir Derby, yr hwn oedd feistr yn y canghelldy, a'r hwn a'i cymunroddodd i'w nai (mab ei chwaer hynaf,) Simon Yorke, ysw., cefnder cyntaf i'r arglwydd ganghellydd, iarll Hardwick, a thad i'r teilwng feddiannydd presenol.

*Plas Sontley.*

Yn y gymydogaeth hon y saif yr hen balas tra hynafol a elwir *Sontley*, yr hwn ar un adeg a feddiennid gan deulu o'r enw hwnw,‡ canghen o'r Eytons o Eyton. Ac yn mhellach fyth, tua'r bryniau, y saif *Neuadd Cadwgan*, hen balasdy mawr ac eang. Yr oedd y lle hwn, ynghyda chryn lawer o dir, yn eiddo i'r *Jones's*, o dylwyth Tudur Trefor. Edward Jones, ysw., y meddiannydd diweddaf, a fu mor anffodus a chael ei wneyd yn hysbys, gan ei anwylaf gyfaill, Thomas Salisbury, ysw., o Leweni, am oresgyniad tramor, gyda'r amcan i adferu y grefydd Babaidd, a gwaredu Mari, breninės yr Ysgotiaid, yr hyn oedd ran o gydfradwriaeth *Babington*. Nid yw yn ymddangos fod gan y naill na'r llall y meddylddrych lleiaf am ladd y freninės Elizabeth. Pan gafwyd allan y brad, galwodd Salisbury yn Neuadd Cadwgan, a chynorthwyodd ei gyfaill ef i ddiangc. Rhoddodd Jones fenthyg ceffyl iddo, a newidiodd ddillad â'i offeiriad, er mwyn sicrhau ei ddyogelwch. Ffôdd Salisbury i sir Gaerlleon, ond buan y

*Neuadd Cadwgan.*

* Gwel gasgliad Mr. Evan Evans o Ganiadau Cymraeg, tudal. 1.

† Philip Yorke, ysw., a fu farw yn 1804, ac olynwyd ef gan ei fab, Simon Yorke, ysw Gol.

‡ Mewn hen ysgrifau gelwir y lle yn *Soulty* neu *Sullie*.

Digitized by Google

cymerwyd ef i ddalfa. Dienyddiwyd y ddau gyfaill gyda'u gilydd yn Llundain, Medi 21ain, 1586. Bu y ddau farw mewn gwir edifeirwch; a thystiai Jones, â'i anadl olaf, fod ei farwolaeth ef yn gwbl ddyledus i Salisbury, yr hwn y darfuasai iddo yn fynych geisio ei berswadio i roddi i fyny y fath amcan byrbwyll.*

*Gwrecsam.* O fewn ychydig bellder i Erddig y saif *Gwrecsam.* Dyma y dref fwyaf yn Ngogledd Cymru, a dyma y plwyf mwyaf poblogaidd. Ymddengys, oddiwrth yr hen enw, ei bod o darddiad Sacsonaidd; oblegyd gelwid hi *Wrightesham*, a *Wrightelesham.* Nis gallaf olrhain ei hanes yn mhellach yn ol nag amser yr olaf iarll Warren, i'r hwn y rhoddwyd hi.† Sonia Leland am dani fel lle yn mha un y preswyliai rhai marsiandwyr a gwneuthurwyr tarianau da.‡ Y mae y plwyf yn nodedig yn yr adeg bresenol am fod ynddo wneuthurfa peirianau rhyfel; ond yn awr yn rhai ymosodol, ac nid amddiffynol. Yn agos i'r lle y saif gwaith mawr at fwrw cyflegrau, o dan arolygiaeth Mr. Wilkinson, yr hwn sydd yn cyflenwi llawer o fanau yn Ewrop â'r *ratia ultima regum*§ yma; ac yn y rhyfel diweddar rhwng y Rwssiaid a'r Tyrciaid, darparai y ddwy blaid â'r rhywogaeth yma o ymresymeg.

Nid yw y gweithfeydd hyn nepell o *Ecclusham*, tŷ ac etifeddiaeth a berthynent i'r Llwydiaid o'r lle hwnw, a Dylassi. Etifeddes y diweddaf o'r rhai hyn, sef Syr Rhisiart Llwyd, llywydd castell Holt, a'i trosglwyddodd trwy briodas i Syr Henry Conway, barwniad, o Fodrhyddau. Daeth wedi hyny i feddiant Syr Thomas Longueville, trwy ymbriodi â merch i Syr John Conway; ac yna a werthwyd i John Humberston, ysw., a chanddo ef i Syr Watkin Williams Wynn, barwniad.

*Eglwys.* Eglwys Gwrecsam nid yn unig ydyw gogoniant y lle, ond Gogledd Cymru hefyd. Y mae o'r tu fewn yn dra eang; a chynwysa y corph ddwy o rodfeydd, a changell. Uwch ben y colofnau y mae digonedd o gerfiadau o amryfal ffurfiau digrifol, er gwawd ar y clerigwyr rheolaidd, a'r crefyddesau menywaidd, abadesau a lleianod; ac uwchlaw bwäau corph yr eglwys y mae lluaws o bais-arfau yr hen dywysogion Prydeinig a Sacsonaidd. Y beddrodau ydynt luosog. Y mwyaf hynafol ydyw yr eiddo marchog mewn cyflawn arfogaeth: wrth ei draed y mae ci, a thu hwnt i hwnw ddraig, cynffon yr hon a derfyna mewn pen sarph. Ar ei darian y mae llew, yn sefyll ar ei draed ol. Oddiamgylch y mae cerfiad; ond yr oll a ellais wneyd allan o hono oedd *Hic jacet* * * * * * * * *ap Howel.*|| Cafodd hwn ei gloddio i fyny ryw bryd, ac y mae yn awr wedi ei osod ar y clochdy.

Cofadail Hugh Bellot, ficar Gresford, ac wedi hyny esgob Bangor, a Chaerlleon, yw y nesaf Gorwedda yn ei wisgoedd ar ei hyd, yn agos i'r allor. Ei ddymuniad oedd cael ei gladdu yn y plwyf lle y byddai farw. Bu farw yn Berse, yn agos i'r dref hon, yn 1596. Cyflawnwyd gwasanaeth ei gladdedigaeth yn Nghaerlleon, a chladdwyd ei gorph yn y lle hwn. Dywedir ei fod

* Camden's Life of Queen Elizabeth, in Kenet, ii. 517, 518. State Tryals, i. 112, 120, 122.—Fforffediwyd etifeddiaeth Jones. Cafodd y tŷ, a rhan o'r etifeddiaeth, eu hadferu, trwy haelfrydedd y frenines, i'r cyfreithlawn etifedd, merch ac etifeddes yr hwn, Anne, a briododd y capten Roger Middleton, ail fab Rhisiart, mab hynaf ac etifedd Rhisiart Middleton o Ddinbych. Y mae y lle yn bresenol yn eiddo Mr. Middleton o Gastell y Waun.

† Dugdale's Baron, i. 82. ‡ Itin. v. 84. § "Y rheswm breninol diweddaf."

|| Y llythyrenau ereill ydynt REH. (neu R) EVEHRE.

Digitized by Google

mor zelog dros weddwdod yr offeiriadaeth fel na oddefai byth i ddynes breswylio na chysgu yn ei dŷ.*

Braidd gyferbyn ag eiddo yr esgob y mae cofadail er coffadwriaeth am Mrs. Mary Middleton, merch i Syr Rhisiart Middleton o Gastell y Waun.† Arddangosir hi fel yn cyfodi o'i bedd yn holl gyflawnder ieuengctyd a phrydferthwch. Bu farw yn ddynes dra gwywedig; ond yr wyf yn mawr hoffi syniad y cerfiwr, gyda chyfeiriad at yr adran aruchel hono yn y gwasanaeth claddu: *Yr udgorn a gân, a'r meirw a gyfodir yn anllygredig, a ninau a newidir.* Uwch ben y mae pigwrn anurddedig, ac arddangosfa o'r llu angylaidd, y rhai y gallesid yn hawdd eu hebgor, yn seinio yr alwad ddeffroawl.

Mewn congl yn un o'r rhodfeydd y mae cofeb fechan, ond prydferth i'r Parch. Mr. Thomas Middleton, a'i wraig Arabella Hacker, o waith Roubiliac. Y mae eu gwynebau mewn *profile*, a'u fathodyn, a llen yn crogi yn ysgafn ar un ochr

Yn mysg y beddargraffiadau y mae rhai i foddio pob chwaeth. Y mae yr un sydd er cof am fy hen isathraw, fy nysgawdwr cyntaf, mewn ysgol yn y dref hon, yn haeddu cael ei gadw:—

Febr. 28, 1743, obiit
Rev. Gulielm. Lewis,
Vir eruditus, affabilis, et benevolus,
Qui nil turpe vel in se admisit,
Vel fovit in aliis.‡

Y mae cerfiad yn y fynwent, ar fedd Elihu Yale, o Blas Gronw, ysw., yn arddangos amrywiaeth anarferol o fywioliaeth:—

Ganwyd ef yn America, preswyliodd yn Ewrop,
Ymdeithiodd yn Affrica, a phriodwyd ef yn Asia,
Lle y bu yn aros yn hir, ac yn llwyddiannus; a bu farw yn Llundain.
Gwnaeth lawer o ddaioni, ychydig o ddrwg; felly mae gobaith yn gydwastad
Fod ei enaid, trwy drugaredd, wedi myned i'r nefoedd.
Chwi sydd yn byw ar ei ol, ac yn darllen, cymerwch ofal
Ar gyfer yr ymadawiad sicr hwn i ymbarotôi:
Oblegyd nid oes dim ond gweithredoedd y rhai cyfiawn
Yn arogli yn bêr, ac yn blodeuo yn y llwch.

Claddwyd ef ar y 22ain o Orphenhaf, 1721. Anrhegodd yr eglwys âg allor, gyda darlun o sefydliad y sacrament, yr hwn a ddygasai o Rufain; hefyd, darlun o'r brenin Dafydd. Bu yn llywydd Madras, a dichon ei fod yn un tra llym hefyd, oblegyd efe a grogodd ei farchwas, oherwydd iddo farchogaeth ei geffyl am ddeuddydd neu dri, heb ei genad; am yr hyn y daeth Yale i gryn helbul yn Lloegr.§ Priododd un o'r enw Jeronima de Paibia, yr hon, ynghyda eu hunig fab, Charles Yale, a gladdwyd yn y *Cape of Good Hope*, lle y mae argraff Lladinaidd ar eu bedd.‖

* Willis's Cathedr. i. 332. † Bu farw Ebrill 8fed, 1747, yn 59 mlwydd oed.

‡ "Chwef. 28ain, 1743, bu farw y Parch. William Lewis, dyn dysgedig, caredig, ac elusengar, yr hwn ni wnaeth erioed yr un weithred anghyfiawn ei hun, ac ni chefnogodd y cyfryw yn neb arall."

§ Harris's Coll. Voy. i. 97.

‖ Wele gyfieithiad o'r beddargraph:—"Yma y gorwedd o dan y pridd, Siarl Yale, mab arglwydd Yale, llywodraethwr Madras, ac i Jeronima de Paibia; dyn ieuangc coethedig, hynod am ei rinwedd, unig fab ei dad a'i fam. Tra yn fyw, cerid ef gan bawb, ac yn awr, wedi ei farw,

Digitized by Google

O'r rhai canlynol, y mae y cyntaf yn syml; yr ail, yr hyn a alwai y *Spectator* yn ysgafn, ond yn deimladwy; ac y mae y trydydd yn eich hysbysu fod y trengedig wedi bod yn fyw, ond ni sonia ddim am ei farwolaeth.

"Here lies a churchwarden,
A choyce flower in that garden;
Joseph Critchley by name,
Who lived in good fame:
Being gone to his rest,
Without doubt he is blest."

Bu farw ar y 10fed o Fawrth, 1673—4.

"Here lies interr'd beneath these stones,
The beard, the flesh, and eke the bones
Of Wrexham clerk, old Daniel Jones." 1668.

"Here lies John Shore,
I say no more;
He was alive
In sixty-five." Hydref 9fed.

O'r tu allan i'r eglwys, y mae amrywiaeth mawr o gerfiadau digrif a gwrthun.

*Clochdy.*] Y clochdy sydd dŵr hardd, wedi ei addurno yn brydferth ar dair o'i ochrau gyda rhesi o seintiau wedi eu gosod mewn cloerau Gothig destlus. Yn eu plith y mae St. Giles, sant nawddogol yr eglwys, gyda'r ewig a'i magodd mor wyrthiol yn yr anialwch. Yn mhob congl y mae tŵr bychan ysgafn, gyda grisiau nydd-droellog, 24 troedfedd o uchder; holl uchder y clochdy ydyw 135 o droedfeddi.

Cofnodir fod dwy ddamwain wedi dygwydd i'r adeilad hon. Chwythwyd y clochdy i lawr ar ddydd gwyl St. Catherine, 1331; a llosgwyd yr eglwys oddeutu y flwyddyn 1457. Er mwyn ei hail-adeiladu, caniatawyd maddeuant pechodau am ddeugain niwrnod am bum' mlynedd, i bob un a gyfranai at waith mor dduwiol. Gorphenwyd hi ychydig cyn y flwyddyn 1472; ac fel y deallaf oddiwrth lythyr a dderbyniais gan gyfaill, gwydrwyd hi yn y flwyddyn hono â gwydr o Normandy. Ni orphenwyd y clochdy, fel yr ymddengys oddiwrth y dyddiad sydd arno, hyd y flwyddyn 1506. Yr eryr prês prydferth, yr hwn a wasanaetha fel bwrdd darllen, a roddwyd yn anrheg gan John ap Gruffydd ap Dafydd o Ystivan, yn y gymydogaeth hon, yn y flwyddyn 1524. Ei bris ydoedd chwe' phunt.*

Ficeriaeth ydyw yr eglwys, ac yr oedd gynt yn fywioliaeth berthynol i Fynachlog y Groes (*Valle Crucis;*) ond trwy anghydwelediad gydag Anian, ail esgob Llanelwy, adferwyd hi i'r esgobaeth.† Y mae y plwyf eang yma yn cael ei gynorthwyo â dau o gapel-eglwysi; Minera, neu y *Mwyn-glawdd ar y Ffos*, trwy fod clawdd Offa yn rhedeg gerllaw iddo; y mae hwn yn barth toreithiog gyda golwg ar fwneion, yn y rhan fynyddig o'r plwyf. Y capel-eglwys arall ydyw eiddo Berse, neu Bersham, lle o sylfaeniad diweddar.

galerir am dano. Ganwyd ef yn Madras, a bu farw yma ar y 23ain o Ionawr, yn yr eilfed flwydd ar hugain o'i oed, yn mlwyddyn yr Arglwydd 1711—12.

"Yma hefyd y claddwyd ei fam JERONIMA DE PAIBIA, yr hon, o gariad at ei mab, a adawodd India, i'r dyben o gael gorwedd yma gydag ef."

* Halston MSS. † Gwel hanes Valle Crucis, yn mhellach yn mlaen yn y gwaith hwn.

Gwaddolir yr ysgol rydd gyda deg punt yn y flwyddyn, y rhai a delir gan faer Caerlleon, sef cymunrodd Valentine Broughton, henadur o'r ddinas hono, at addysgu deuddeg o fechgyn.

Y mae y rhan orllewinol o'r plwyf hwn yn fryniog a mwneiol. Y mwngloddiau ar y tir gwyllt ydynt mewn rhan yn eiddo i Arglwydd Grosvenor, ac mewn rhan i gorphoraeth Caerlleon. Brymbo, tref-ddegwm arall, ar y tiroedd uchaf, a gynyrcha lo. Yn y man yma y rhoddwyd caniatâd i drigolion Holt, yn ol y siartr a roddwyd iddynt yn 1410, gan Thomas iarll Arundel, i godi mawn a glo. Y mae palas Brymbo yn hen breswylfod dda; bu unwaith yn eiddo y Griffiths; yna, trwy briodas, i'r Claytons o sir yr Amwythig; ac yn bresenol y mae yn meddiant Ashton Smith, ysw., yn hawl ei fam, merch ieuengaf Mr. Clayton. Y mae y rhan fwyaf o'r plwyf naill ai yn wastadedd, neu yn raddol fryniog; yn dra ffrwythlon a hyfryd, ac yn cael ei breswylio gan luaws o foneddigion, y rhai ydynt o hyd yn cynal i fyny y nodweddiad a adawodd eu cyndadau iddynt, trwy y bardd gonest *Churchyard*, yr hwn ei hunan a ddylynai yr aradr yn amser y frenines Elizabeth:

> Hwynt-hwy yw hoen a llonder y tylodion
> A gânt eu bwyd, bob dydd, wrth ddrysau'r mawrion;
> Mewn pob rhyw wlad, lle triga boneddigion,
> Y mae rhyw dŷ lle caiff y tlawd ei ddigon.

O Wrecsam telais ymweliad â *Gresford* (Groesffordd,) ac wrth fyned troais i *Acton*, preswylfod fy nghyfaill cywir Ellis Yonge, ysw., yr hwn sydd yn feddiannydd y lle, trwy ei brynu gan ymddiriedolwyr y diweddar John Robinson, o Gwersyllt, ysw.* Bu y lle yma gynt yn meddiant y Jeffries, hiliogaeth, wedi rhedeg yn ddifrycheulyd o hen foncyff,† a gawsant y gwarthrudd o gynyrchu, yn y ganrif ddiweddaf, George Jeffries, canghellwr Lloegr; dyn o alluoedd o'r radd flaenaf yn ei alwedigaeth, ond yn meddu ar galon ag oedd yn is-wasanaethgar i'r gweithrediadau gwaethaf. Y mae ei bortread,‡ yn ei lawn hyd, ac yn ei wisgoedd barwniaethol, wedi ei dynu gan Syr Godfrey Kneller. Eisteddodd Siarl II. i'r arluniwr enwog yma; yr hwn a fu byw i dynu llun Sior I., ac i dderbyn ganddo yr anrhydedd o fod yn farwniad. Jeffries oedd y chweched mab i John Jeffries, a Margaret, merch i Syr Thomas Ireland o Beausey, gerllaw Warrington. Yma y mae portread da o'r hen ŵr boneddig yn cael ei gadw, ar ei eistedd, mewn dillad duon: tynwyd ef pan oedd yn 82ain oed, yn y flwyddyn

*Y Canghellwr Jeffries.*

* Prynwyd *Parc Acton* yn 1785, o ddwylaw ymddiriedolwyr Mr. Yonge, gan Syr Foster Cunliffe, barwniad, yr hwn sydd wedi helaethu y tŷ ac addurno y gerddi gyda chwaeth a barn ddigyffelyb. GOL.

John Robinson, ŵyr i'r milwriad o'r enw hwnw, a briododd ferch hynaf syr George Jeffreys o Acton, nai i'r Canghellydd. Syr Gruffydd, yr hwn a fu farw yn 1693, a adawodd fab ar ei ol, o'r enw Robert, yr hwn a fu farw yn ieuangc, a thair merch, sef Elizabeth, gwraig John Robinson; Margaret, a fu farw heb briodi; a Ffranses, gwraig Philip Egerton o Oulton. Ni fu i Mr. a Mrs. Egerton blant, ac felly daeth Acton yn feddiant i'r Robinsons. Lady Dorothy, gweddw Syr Gruffydd, a oroesodd ei phriod lawer o flynyddau. Yr oedd yn ferch i Robert Pleydale o Holyrood Amnes, yn sir Gaerloyw. Y mae ei llythyr cymun yn cynwys amryw roddion elusengar yn ffafr Gwrecsam a phlwyfydd ereill, yn mha rai y mae yn deilwng yn cael ei chofio hyd heddyw wrth yr enw "*Dame Dorothy Jeffreys.*" T. P.

† Oddiwrth Kynric ap Rhiwallon, gorwyr i Tudur Trefor.

‡ Y mae y portread hwn, ac eiddo ei frawd, wedi cael eu symud i Erddig, GOL.

Digitized by Google

1690. Derbyniodd George ei addysg gyntefig yn yr ysgol rydd yn yr Amwythig,* o ba le y symudwyd ef i un Westminster. Ni dderbyniodd erioed addysg golegawl, ond rhoddwyd ef yn uniongyrchol yn y deml fewnol, lle y cynaliwyd ef yn benaf gan ei nain. Ni chafodd erioed ei alw yn rheolaidd fel bargyfreithiwr. Adeg y pla yn Llundain a roddodd iddo gyfleustra i ddyfod yn mlaen yn ei alwedigaeth; oblegyd, yn 1666, efe a gymerth wisg cyfreithydd, ac a ddadleuodd yn mrawdlys Kingston, i ba le nid oedd ond ychydig o gyfreithwyr dadleuol yn teimlo ar eu calon ddyfod ar yr adeg hono; o'r amser hwnw efe a weithredodd heb fod neb yn sylwi ar ei afreoleidd-dra. Oddeutu y pryd yma efe a ddechreuodd dalu ei anerchiadau carwriaethol (heb yn wybod i'w theulu) i ferch marsiandwr cyfoethog; yn yr hyn y cynorthwyid ef gan ferch i glerigwr. Daeth y peth i'r amlwg, a thaflwyd y gynorthwyes dros y drws. Jeffries, gyda chalon garedig na bu iddo erioed ddangos ei fod yn ei meddu yn ei ddyddiau goreu ar ol hyny, a gymerodd drugaredd arni, ac a'i priododd. Bu iddo yn wraig ragorol, a chafodd fyw i'w weled yn arglwydd brif ynad Lloegr. Ar ol ei marw hi, efe a briododd weddw Mr. Jones, o sîr Drefaldwyn, a merch i Syr Thomas Blodworth.

Ei ddyrchafiad cyntaf o'r cwrt ydoedd i fod yn ynad Cymreig. Yn 1680, gwnaed ef yn brif ynad Caerlleon; ac yn farwniad yn 1681. Wedi hyn, efe a gyfododd gyda chyflymdra rhyfeddol; ac, fel y mae yn dra hysbys, a gwympodd yn llawn mor ddisymwth. Yr oedd ei ymarweddiad, fel canghellwr, yn onest a galluog; fel gwleidyddwr, nid oedd un egwyddor a roddai atalfa arno; ond yr oedd yn gwbl ymgyflwynedig i fesurau gwaethaf llys brenin drygionus. Yr oedd yn dra hoff o'r botel; a thalai mor lleied o sylw i'w gymeriad, fel y darfu iddo, un diwrnod, ar ol yfed i ormodedd gyda'r arglwydd drysorydd, ac ereill, ymbarotôi at ymddiosg, a myned i ben pawl i yfed iechyd da y brenin, pe na buasai yr awdurdodau wedi eu lluddias.† Bu farw yn y Tŵr, ar y 18fed o Ebrill, 1689, naill ai o herwydd yfed yn galed neu o dorcalon, a thrwy hyny cafodd ei gadw rhag y gwarth o gael ei ddienyddio yn gyhoeddus. Claddwyd ef yn ddirgelaidd yn y Tŵr, trwy archiad oddiwrth y brenin at ei berthynasau.

Y mae yma hefyd bortread llawn hyd o un o'i frodyr, Syr Thomas Jeffries, marchog o urdd Alcanatara; ac o berthynas iddo ef, er anrhydedd i waedoliaeth Tudur Trefor, o ba rai yr oedd y Jeffries yn hanu ar y cyntaf, y mae prawfion digonol i'w cael yr edmygid ef gan yr Yspaeniaid, yn mysg pa rai y buasai yn byw am hir amser fel llysgenad, yn Alicant a Madrid. Yr oedd wedi gwneyd ei hun mor gymeradwy gan y weinyddiaeth Yspeinig fel ag yr anogwyd ein llys ni i'w apwyntio yn olynydd arglwydd Landsdowne, fel y prif genadwr Prydeinig; ond rhoddodd y Chwyldroad derfyn ar ei ddyrchafiad. Y mae ganddo, dros ei gôt, fantell wen hir, gyda chroes yr urdd arni. Brawd arall ydoedd yn ddeon Rochester, a bu farw ar y ffordd tra yn myned i ymweled â'i frawd, y canghellydd, pan yn garcharor yn y Tŵr.

*Gresford.* Y mae *Gresford*,‡ neu *Croesffordd*, *ffordd y groes*, yn sefyll oddeutu dwy filldir yn mhellach. Yr eglwys a saif ar grib bryn uchel, uwch

* Hist. Shrewsbury, 128. † Reresby's Memoirs, 231.

‡ Yr enw Cymraeg, yr hwn a ddaeth yn *Gresford*, nid *Croesffordd* ydoedd, ond *Y Groesffordd*, yn mha un y mae y fannod Gymreig yn peri cyfnewidiad yn y gydsain gyntaf pan y mae yr enw calarn yn dygwydd bod yn fenywaidd. Yr un modd, mewn achosion ereill, y mae yr enw Cymraeg yn ymddangos gyda'r llythyren gyntaf yn feddal, er fod y fannod wedi ei gadael allan. Ond nid yw pobl y wlad wedi cyfieithu y fannod yn yr achos yma, am na elwir y lle "*The* Gresford"

Digitized by Google

ben dyffryn bychan a phrydferth, yr hwn a ymegyr i ddyffryn eang a breiniol sir Gaerlleon; y mae golygfa ardderchog i'w chael o ben uchaf y bryn hwn. Yr eglwys ei hun sydd adeilad brydferth, ond nid yw wedi ei haddurno mor wych ag un Gwrecsam, er i'r ddwy gael ei hadeiladu yn yr un teyrnasiad. Ar dop y tŵr y mae delwau o'r deuddeg apostol. Ar un ochr mewn cilfach, y mae delw o Harri VII. Cafodd y tu fewn ei adgyweirio yn ddestlus a gofalus, o dan arolygiad a barn ragorol y Parchedig Mr. New-come, y ficer presenol.*

*Eglwys.*

*Beddrodau.* Y mae yma ddwy o gofadeiliau hynafol; un o honynt, yr hon a guddir i raddau mawr gan eisteddle, yn gareg fflat, ac arni lun tarian a cherfiadau ereill. Y pais-arfau ar y darian ydyw tri o bysg penfras. Dengys hyn fod y marw yn un o hiliogaeth ddiweddar Ithel ap Ednyfed, tad yr hwn oedd mewn meddiant o drefydd-degwm Gresford ac Allington, y rhai a roddwyd iddo am wasanaeth milwrol i Bleddyn ap Cynfyn yn y rhyfeloedd â'r Saeson. Yr oedd Ithel hefyd yn meddiannu Lleprog Fawr, Lleprog Fechan, a Threfnant yn Nhegangle. Claddwyd llawer o'i hiliogaeth yn y fan hon.†

Yn y rhodfa ogleddol y mae beddrod milwr, mewn arfwisg. Ar ei darian y mae llew yn sefyll ar ei draed ol: ac o amgylch yr ymyl, *Hic jacet* MADOC AP LLEWELYN AP GRUFFYDD.‡ Yr oedd efe o Eyton, Erlisham, a Rhiwabon. Claddwyd ef ar ddydd gwyl St. Mathias, 1331.

*Y Treforiaid.* Y mae yma, heblaw hyny, rai cof-feini yn y muriau am Dref-oriaid Trefalyn. Hanai y teulu o eiddo Brynkinallt, a medd-iannent y lle hwn trwy briodas Rhisiart, pedwerydd mab Syr John Trefor, â Mallt, merch a chwbl etifeddes i Siencyn ap Dafydd ap Gruffydd o Alynton, sef Trefalyn. Mewn amserau diweddarach, cafodd Thomas, ail fab o'r teulu, yr hwn oedd yn gyfreithiwr enwog, ei greu yn Farwn Trefor o Bromham, Rhag. 31, 1711, teitl ag sy'n awr wedi ei golli yn nghreadigaeth newydd is-iarll Hampden. Y gofadail gyntaf ydyw un John Trefor, ysw., mewn arfwisg, ar ei ledorwedd, gyda cherfiad Cymraeg ar lechfwrdd sydd yn gorchuddio haner ei gorph. Y mae yn arwyddocâu iddo farw yn Llundain, yn Mehefin 1589; ac fod ei fab, Syr Rhisiart, wedi gorchymyn i'w esgyrn gael eu symud i'r lle hwn.

Syr Rhisiart a ffurfiodd ei gofadail ei hunan yn 1638, pan oedd yn bedwar ugain mlwydd oed, yn arddangos ei hun mewn arfwisg, ac yn penlinio: a'i wraig, Catherine, merch i Robert Puleston, ysw., o Emral, wrth ei ochr. Y mae yr ysgrifiad yn ein hysbysu, mai yn benaf er coffadwriaeth am ei foneddiges y parodd efe i'r gofadail yma gael ei gwneyd. Gwasanaethodd am flynydd-oedd lawer yn y rhyfeloedd yn yr Iwerddon; bu yn llywydd Newry, a siroedd Down ac Ardmagh; yn aelod o gynghor y cyffindiroedd, ac yr oedd yn islyng-esydd Gogledd Cymru; a bu fyw (fel y dywed wrthym) i weled plant i blant ei blant. Y mae yma gofadail arall i'w foneddiges, yr hon sydd yn penlinio gyda phump o'i merched.

(yn Saesoneg,) er fod pentref yn y gymydogaeth yn cael ei alw "*The Rosset,*" am y Cymraeg *Y Rhosydd*, fel y dywedir wrthyf. J.R.

* Y mae yn awr wedi marw. GOL.

† Salusbury Pedigree.

‡ Yr enw gwirioneddol ydyw *Griffri*. Ychydig flynyddoedd yn ol, wrth dynu y mur i lawr yn *Pantiochyn*, hen balasdy heb fod yn mhell o Gresford, deuwyd o hyd i amryw hen feini, y rhai yr oedd yn amlwg eu bod wedi cael eu dwyn yno o eglwys. Un o honynt sydd ddarn o gareg fedd, ac arni darian a llew ar ei draed ol, a'r cerfiad *Hic jacet Griffri*, mewn cadwraeth ragorol. Symudwyd hon i eglwys Gresford, yn mha le, yn ol pob tebyg, y gosodasid hi ar y cyntaf. T.P.

Digitized by Google

*Trefalyn.* Yn eu palas, *Trefalyn*, yr hwn sydd gerllaw, y mae portread hynod o Syr Rhisiart, mewn dillad duon. Uwch ei ben, croga ei arfau, gyda'r geiriau *So then* (Felly y pryd hyny;) oddi tano y mae rhyw gyfferi, a'r geiriau *Now thus* (Yn awr fel hyn:) gyda chyfeiriad at ei gyflwr blaenorol a'i ystâd bresenol.

Yn y plwyf yma y preswyliai yr Aylmers, y rhai ydynt yn awr wedi darfod. Disgynent o Eynydd ap Gwerngwy, un o'r pymtheg llwyth, i'r hwn y rhoddodd Bleddyn ap Cynfyn feddiannau eang yn y parthau hyn; yn mysg ereill, Aylmer, oddiwrth yr hwn le y cymerodd John, un o'i ddisgynyddion, ei gyfenw. Yr oedd gan deulu o'r enw Langford feddiannau hefyd yn y plwyf hwn.

Ar derfyn y llechwedd uchel sydd yn ymddyrchafu uwchlaw y gwastadeddau, o ba le y ceir golygfa ddiderfyn braidd i'r gogledd a'r gogledd-ddwyrain, y mae *Y Rofts.* cae a elwir y *Rofts*, yr hwn, mewn hen amseroedd, a ffurfiai amddiffynfa Brydeinig gadarn Y mae yn cael ei hamddiffyn gan dair o ffosydd a chloddiau cryfion, wedi eu tori ar draws y gwddfdir main sydd yn ei chysylltu â rhanau uchaf y plwyf. Ar ddwy ochr y mae yn anoresgynadwy ar gyfrif sythder yr allt; ac ar y bedwaredd, yr hon sydd yn wynebu sir Gaerlleon, ac yn llawer haws ei hesgyn, amddiffynir hi gan ddwy neu dair o ffosydd ereill, y rhai ydynt yn awr braidd wedi cael eu lefelu gan yr aradr. Mewn un gongl o'r amddiffynfa hon y saif bryncyn eang at wneyd arsylliadau: ymddengys fod hon wedi bod yn lle pwysig; yn gaerfa i gadw ein gwlad rhag goresgynwyr; yr hyn a barai fod bryn celfyddydol yn gwbl angenrheidiol, i'r dyben o wneyd arsylliadau ar symudiadau y gelyn. Gorwedda, fel y tybiaf, yn maenoriaeth Merford; yr hon, ynghydag un Horsley,* drwy weithred seneddol yn nheyrnasiad Harri VIII., a gysylltwyd â sir Fflint; ond pa un a ydynt yn cyrhaedd i blwyf Estyn, yn sir Fflint, neu a ydynt yn cael eu hamgylchu gan sir Ddinbych nid wyf yn gwbl sicr.

*Gwersilt Isaf.* Yn nghymydogaeth Gresford y safai *Gwersilt Isaf*,† yr hwn balasdy a losgwyd hyd y llawr ar yr 20fed o Ebrill, 1738, trwy yr hyn y collodd y wlad hen deulu parchus a theilwng y *Shakerlies*, y rhai a ymsefydlasant yno yn fuan ar ol yr Adferiad. Yr oeddynt yn wreiddiol o Shakerly yn swydd Lancaster, ond symudasant i'r lle hwn yn uniongyrchol ar ol dychweliad y teulu breninol. Yr oedd y milwriad (wedi hyny Syr Jeffrey) Shakerly yn bleidiwr gwresog i achos y brenin, a llywyddai fintai o wŷr meirch o dan Siarl I. Yn ystod y rhyfel, efe a ffurfiodd gyfeillach gynhes â'r milwriad Robinson, perchenog Gwersilt Uchaf; yr hyn a barodd iddo, yn fuan ar ol y flwyddyn 1660, brynu yr etifeddiaeth yma gan y cadben Sutton, hen bleidiwr arall i achos y brenin, ac yn hanu o Dudur Trefor, ond wedi cael ei ddinystrio o ran ei amgylchiadau yn yr achos breninol. Gwnaeth y milwriad hyny, nid yn unig er gwneyd i fyny am etifeddiaeth fawr y buasai dan orfod i'w gwerthu yn Nghaint, er cynaliaeth yr achos, ond hefyd fel y byddai yn agos at ei gyfaill a'i gydfilwr. Nid oes dim son am dano yn yr hanesion am y rhyfeloedd cartrefol, er ei fod yn bresenol braidd yn mhob brwydr o bwys. Y mae yr hanes am yr hyn a ddygwyddodd yn flaenorol i frwydr Rowton-Heath, yn agos i Gaerlleon, yn dra hynod, ac yn deilwng o gael ei gadw; felly mi a'i dodaf

* Y mae Merford a *Hoseley*—nid Horseley—yn cael eu hamgylchynu gan sir Ddinbych. T. P.

† Y mae *Gwersilt* yn cael ei ysgrifenu yn fwy cyffredin yn bresenol yn *Gwersyllt*, un o ffurfiau y gair sydd yn golygu *gwersyll*, gyda'r lythyren *t* wedi ei gadael allan. J. R.

yn yr Attodiad,* fel y cefais ef gan ei ŵyr, y diweddar Peter Shakerly, ysw.

*Gwersilt Uchaf.* ] Yn union uwchlaw Gwersilt Isaf y saif *Gwersilt Uchaf*, preswylfa John Cawley Humberston Cawley, ysw.† Y mae y golygfeydd o'r gerddi, ar fynyddoedd Estyn, a chastell Caergwrle, yn dra phrydferth; ac y mae y rhodfeydd islaw, gydag ochrau yr Alun, yn nodedig o ramantus a swynol. Perthynai yr etifeddiaeth hon i'r milwriad Robinson, pleidiwr nodedig i'r brenin, a phan y bu farw Siarl I. gorfu arno ddiangc o'r wlad. Gadawodd ei balas yn adfeilion alaethus; ond ar adeg yr Adferiad dychwelodd, a chafodd adfeddiant o hono, gyda'r teimlad boddhaol o'i gael wedi ei ail-adeiladu yn rhagorol gan rhyw law drawsfeddiannol.‡

*Marchwiail.* ] Dychwelais yn ol trwy Wrecsam, ac ymwelais âg eglwys fechan *Marchwiail*, yr hon sydd oddeutu tair milldir o ffordd o'r dref. Oddi fewn iddi y mae cofadail fechan, ond prydferth, er cof am Miss Yorke o Erddig, yr hon, yn ngwanwyn cynar bywyd, pan yn ymagor fel blodeuyn, a gipiwyd ymaith yn 1770, yn yr unfed flwyddyn ar bymtheg o'i hoed. Saif Myfyrdod, ar ffurf benyw, mewn gwisg rydd a chyda dwylaw plethedig, yn drist uwchben llwyn o rosynau, un o ba rai, yn arddangosiadol o'r pwngc, sydd wedi syrthio o'r tu fewn i gylch ffurfiedig gan sarph, yn arwyddo tragwyddoldeb.

Saif *Neuadd Marchwiail* mewn ychydig bellder oddiwrth yr eglwys. Bu yn hir yn meddiant cangen ieuangach o'r *Broughtons* o Broughton. Ychydig cyn yr Adferiad, yr oedd Edward Broughton, ysw., yn cael ei gadw yn garcharor yn y *Gate-house*, o achos ei deyrngarwch. Syrthiodd mewn cariad â merch y ceidwad, un o'r enw Wike, a rhwymodd ei hunan gydag amodysgrif§ yn cynwys y llwon mwyaf ofnadwy. Priododd hi, ond bu farw heb blant, a gadawodd ei etifeddiaeth i frawd ei wraig, olynwyr yr hwn a'i meddiannent hyd o fewn ugain mlynedd yn ol. Oddiyno dychwelais ar hyd yr un ffordd i Langollen.

Yn y bore, marchogais allan i edrych y wlad a orweddai i'r de-orllewin. Rhedai y ffordd ar hyd yr un ochr a'r dref i'r afon: esgynais fryn a orchuddid mewn lluaws o fanau â choed bedw. O'i gopa cefais olygfa anarferol o hardd; un ffordd, ar yr hen gastell yn sefyll ar ei fryn pigyrnaidd; a mynyddau muriog Glisseg o'r tu ol iddo yn amrywiol resi. Islaw, ar yr ochr arall, y gorwedda

*Llandysilio.* ] palasdy *Llandysilio*, preswylfa Thomas Jones, ysw., mewn dyffryn prydferth yn cael ei ddyfrhau gan y Ddyfrdwy, yr hon a ymnydda trwy ei waelod, wedi llifo rhwng dwy o greigfryniau mawrion, ag oeddynt braidd yn atal iddi gael lle i redeg. Meddiannwyr blaenorol Llandysilio oedd y *Cupers* neu *Cuppers*, y rhai a elwid mor foreu ag amser Harri II., *Cuppers* hynafol y Gogledd;‖ yr oedd ganddynt sefydliadau yn siroedd Caerefrog, Lancaster, a'r Amwythig. Un o honynt a brynodd yr etifeddiaeth hon, a'i ferch a'i etifeddes ef a'i trosglwyddodd i'r teulu presenol, trwy briodi â Mr. Jones, y pryd hyny o Lanbothian, yn sir Drefaldwyn.

*Eglwys.* ] Y mae yr eglwys yn gyflwynedig i sant Tysilio, tywysog Powys, mab i Brochwel Ysgithrog, o Arddun Benasgell, merch i sant Pabo Post Prydain. Y mae y plwyf yn nghantref Iâl; yr hwn a gynwysa, heblaw hyny, blwyfydd Bryn Eglwys, Llandegla, Llanarmon, a Llanferres.

* Attodiad, Rhif IV. † Gwerthwyd y lle ganddo ef i —— Atherston, ysw. Gol.

‡ Gwel feddargraff y milwriad yn yr Attodiad, Rhif V.

§ Gwel Attodiad, Rhif VI. ‖ Cupper's Pedigree at Llandysilio.

Digitized by Google

# PARHAD
## O'R
# DAITH GYNTAF YN NGOGLEDD CYMRU,
## MDCCLXXIII.

---

Wedi disgyniad hel fou o hŷd mawr, yr wyf yn myned i mewn i

## SIR FEIRIONYDD,

i'r rhan hono a fydd byth yn enwog yn hanes Cymru, ar gyfrif yr arwr a gynyrchodd, yr hwn a dorodd y fath ffugur yn nechreuad y bymthegfed ganrif. Yr oedd y diriogaeth hon yn yr hen amseroedd yn gwmwd yn Nheyrnas Mathrafal, neu Powys; ac y mae yn barhaus yn dal ei hen enw, *Glyndyfrdwy*. Y mae oddeutu saith milldir o hŷd; yn gul, ffrwythlawn mewn porfa, yn amgylchynedig gan fynyddoedd uchel, yn fynych wedi eu gwisgo â choed; gorwedda yn mhlwyfydd Llangollen, Llandysilio, Llansantffraid, a Chorwen.

*Glyndyfrdwy.*

Yr oedd y rhandir ar un adeg yn meddiant arglwyddi Dinas Brân. Ar ol i iarll Warren foddi dau fab hynaf Gruffydd ap Madog, yr arglwydd diweddaf, efe a gymerodd feddiant o etifeddiaeth yr hynaf o'r ddau; ond ymddengys iddo ddyoddef rhyw bangfeydd yn ei gydwybod o herwydd ei drosedd; ac yn lle gwneyd i ffordd â'r gwrthddrych arall a ofnai, fel y buasai gwleidyddwr cyfrwys yn yr oes hono yn gwneyd, efe a gafodd gan Iorwerth I. drosglwyddo y rhandir yma i Gruffydd Fychan, trydydd brawd y bachgen anffodus, trwy ganiatâd a arwyddwyd yn Rhuddlan, ar y 12fed o Chwefror, 1282.* *Owain Glyndwr* ydoedd y pedwerydd mewn disgyniad o'r boneddwr hwnw.†

Dychwelais oddiyno ar hyd yr un ffordd; croesais y Ddyfrdwy yn Llangollen; ac ar ol marchogaeth am oddeutu milldir, troais, mewn dyffryn bychan ffrwythlawn, i ymweled â mynachlog

*Llan-egwest*, *Glyn-Egwest*, neu *de Valle Crucis*, yr hon a saif yn hybarch wrth droed y mynyddoedd, mewn gwastadedd bychan gwerddlonaidd, a ddyfrheir gan ffrwd brydferth, ac a gysgodir gan goedydd crogedig. Yr oedd y dyffryn yn mha un y safai y fynachlog yn cael ei alw, yn mhell cyn adeiladu y crefydd-dy, yn Bant y Groes, yn ddiameu oddiwrth hen golofn a gyfodasid yno er cof am Eliseg. Tŷ o Cistersiaid ydoedd, a sylfaenwyd ef yn y flwyddyn 1200, gan Madog ap Gruffydd Maelor, arglwydd Maelor, ac ŵyr o du ei fam i Owain Gwynedd, tywysog Cymru. Nis gallaf ddarganfod unrhyw waddoliadau, yn mhellach na bod haner degymau Gwrecsam wedi cael eu rhoddi iddo gan Roger, esgob Llanelwy, yr hwn a fu

*Monachlog y Groes.*

* Rotuli Walliæ, 87.

† Y mae hanes bywyd Owain Glyndwr yn yr Attodiad, Rhif VII. Gol.

farw yn 1224; a'r haner arall gan ei olynydd, yr esgob Abraham, yn 1227. Yr esgob nesaf, Hywel ap Ednyfed, a'i hanrhegodd âg eglwys Llangollen.* Cafodd y mynachod nawddogaeth amryw fywioliaethau ereill; megys Gwrecsam, Rhiwabon, Castell y Waun, Llansantffraid, a Llandegla; ond cafodd eu hawl i'r rhai hyn, yn gystal ag i Langollen, ei gwestiyno gan yr esgob Anian, yr hwn a adwaenir yn gyffredin wrth yr enw, Y Brawd du o Nannau; perthynai i urdd y Dominiciaid, a chysegrwyd ef yn 1268,† yr hwn a ddygodd ei achos o flaen cenad y Pab, swyddog o Gaergaint, ac abad Tallelechew, a chafodd ddyfarniad yn ei ffafr ef a'i olynwyr; ond gan fod tipyn o amheuaeth ynghylch nawddogaeth eglwys Llandegla, rhoisant i'r fynachlog (yn ei le) y drydedd ran o ddegymau Bryneglwys.‡

*Cyllid.* Nid oedd y gwaddoliadau tirol yn ychydig. Yn y flwyddyn 1291, cafwyd fod gan yr abad, gerllaw y mynachdy, hafotty, tri o gaeau âr, melin, a chyfleusterau ereill, y rhai a ystyrid yn werth 3*l*. Hafottai Bodhange, Tregam, Rudryn, a Baketon, a osodid am 5*l*. 10*s*. Hefyd, fferm Nante, hafotty Nustroyz, Convenet, Grennychamt, y rhai a osodid am 3*l*. 19*s*. 8*d*.; ac hefyd, hafotty Wyrcessam, yn cynwys un cae âr, a pheth porfa, gwerth 15*s*.; a deg ar hugain o wartheg, gwerth 1*l*. 10*s*.

Ei holl sefydliad ydoedd 14*l*. 14*s*. 8*d*.§ Ar adeg y dadgorphoriad, cafwyd fod cyllid y tŷ (yn ol Dugdale) yn werth 188*l*. yn y flwyddyn; y mae Speed yn gwneyd allan ei fod yn 214*l*. 3*s*. 5*d*. Yr abad diweddaf oedd John Herne, yr hwn a gafodd flwydd-dal o 23*l*. wrth roddi y lle i fyny. Hyn, a 10*l*. 13*s*. 4*d*. mewn blwydd-daliadau i fynachod oedd yn fyw ar y pryd, ydoedd yr holl gostau a arosent yn 1553.‖

Y mae dau o'r abadau, Dafydd ap Ifan Iorwerth, ac Ioan, wedi cael eu moli gan y bardd Gutyn Owain, yr hwn a flodeuai oddeutu y flwyddyn 1480. Y mae yn mawr ganmol eu lletygarwch: sonia fod ganddynt bedair saig o gig, dysglau arian gloywon, gwinoedd, &c. Nid yw Gutyn yn anghofio duwioldeb y tŷ, ac y mae yn hynod o ddedwydd pan yn son am iddo gael ei fendithio gan yr abad Ioan, tri o fysedd yr hwn oedd yn llwythog o fodrwyau.¶


Gwŷr rhyddion Llangollen a wnaethant ganiatâd, mewn lle ar yr afon gerllaw eu tref hwy, o bysgodfa i fynachol *Valle Crucis*. O ddiffyg bod ganddynt sêl o'r eiddynt eu hunain, dodasant wrth y caniatâd sêl Madog, sylfaenydd y fynachlog. Y mynachod a wnaethant weithydd newyddion ar yr afon, er mwyn dal y pysgod; yr hyn a barodd ymrafael rhyngddynt â'r gwŷr rhyddion. Trosglwyddodd yr olaf y peth i farn yr abad, a phump o fynachod o'u dewisiad hwy eu hunain, i benderfynu y pwngc ar eu llw. Madog a'i ysgrifenydd, John Parvus, a apwyntiasant ddiwrnod at y gwaith. Cynaliwyd y cyfarfod; gweinyddwyd y llw gyda difrifoldeb; a phenderfynodd yr abad a'r mynachod y pwngc yn eu ffafr eu hunain. Haerent eu bod wedi prynu yr hawl i godi y gweithydd a fynent, ac o'u hadgyweirio, gan etifeddion Llangollen. Y tywysog a gadarnhaodd y dyfarniad, a rhoddiad y bysgodfa, trwy ysgrif ddyddiedig yn 1234.

Cafodd y tŷ yma ei ddadgorphori tua 1553, a dywedir mai efe oedd y cyntaf o'r mynachlogydd a aeth dan y dynged hono. Arosodd yn y goron hyd y 9fed

* Goodwin, 657. † Yr unrhyw, 678. ‡ Yr unrhyw.
§ Willis's St. Asaph, 178. ‖ Willis's Abbies, ii. 312. ¶ Sebright MSS.

Digitized by Google

Digitized by Google



*PILER ELISEG.*

**PILLAR OF ELISEG.**

Digitized by Google

o Iago I., yr hwn a'i rhoddodd i Edward Wotton, a wnaed ar ol hyny yn arglwydd Wotton. Yn 1654, yr ydym yn cael fod boneddiges o'r enw Margaret Wotton, un o'r Ymneillduwyr, mewn meddiant o'r lle; ac iddi gael ei gorfodi i'w werthu trwy orchymyn y dirprwywyr dros yr awdurdodau a reolent ar y pryd.

*Eglwys.*] Y mae gweddillion o'r eglwys yn aros o hyd, a rhan o'r fynachlog: ffermdwr sydd yn byw yn yr olaf. Yr oedd yr eglwys wedi ei hadeiladu ar ffurf croes, mewn gwahanol arddulliau o adeilyddiaeth. Y mwyaf hynafol ydyw y pen dwyreiniol, lle y mae y ffenestri o ffurf hirgul, ac yn bigfain yn y pen uchaf. Y mae y ffenestr orllewinol yn fawr, ac yn cael ei rhanu gan gerfwaith o faen; ac uwch ei phen y mae ffenestr gron o wneuthuriad tra phrydferth. Uwch ben hyn mae y cerfiad er coffadwriaeth am y person a ail-adeiladodd neu a adgyweiriodd y rhan hon: anrhydedd a delid yn fynych i gymwynaswyr o'r math yma. Yn y ffurf hon y mae: AD. ADAM. DMS. *Fecit Hoc opus. Pace Beata quiescat.* Amen. Ac yn union oddi tanodd y mae y llythyrenau M.D. ... efallai yn rhan o'r dyddiad; y gweddill wedi ei golli. Nis gallwn sicrhau pwy ydyw y person a fwriedir ei goffhau yn y llinell hon. Dichon ei fod yn un o deulu Trefawr, yn yr hwn y mae yr enw *Adam* yn dygwydd fwy nag unwaith; megys Adda Fawr o Drefawr; ac Adda ap Iorwerth Ddu o Bengwern.

Y mae cnapiau y pileri oddi fewn i'r eglwys wedi eu gorpheu yn brydferth. Yn y rhan ogleddol y mae *cloister* o ddau fwa; bwa a fu unwaith yn cynwys beddrod; a cherllaw iddo y mae *benetoire* dwbl, neu lestr i ddal y dwfr sanctaidd.

Gwnaed y rhan fwyaf o'r adeilad o gerig brâs a llechfeinaidd y wlad. Y mae fframiau y drws a'r ffenestr o gareg nadd brydferth.

Yr oedd ystafell yr abad gerllaw i'r eglwys. Y mae lle bychan yn agor o honi, lle y gallai sefyll i wrando y gwasanaeth dwyfol yn cael ei gyflawni islaw.

Y mae y rhan isaf o'r fynachlog yn fwaog, ac yn cael ei chynal gan resi o bileri isel; yn awr wedi eu rhanu yn wahanol ystafelloedd. Yn y ffrynt y mae ffenestr fawr, gyda cherfwaith prydferth o faen, yr hwn a gyrhaedda hyd y llawr. Ymddengys fod yno risiau bychan o'r tu mewn, y rhai a arweinient i ystafell y brodyr,—ystafell balmantedig uwchlaw y bwäau.

Yn un o'r cwsg-ystafelloedd presenol y mae careg (yn awr yn rhan o fantell simnai,) wedi ei cherfio yn brydferth, a'r llythyrenau amherffaith hyn arni: *Hic jacet* ... ARVRVET. Dyma yr unig weddillion o unrhyw feddrod. Y mae bedd y sylfaenydd, yr hwn a gladdwyd yma, wedi ei gwbl golli;* ac nid yw eiddo Gruffydd ap Madog Maelor, arglwydd Dinas Brân, ar gael ychwaith; yr hwn, ar ol ochri gyda gelynion ei wlad yn 1270, a gladdwyd oddi fewn i'r muriau hyn.†

*Piler Eliseg.*] Oddeutu chwarter milldir yn uwch yn y dyffryn, deuais ar draws gweddillion hen golofn gron, efallai y fwyaf hynafol o unrhyw bileri Prydeinaidd cerfiedig ag sydd yn awr yn bodoli.

Yr oedd yn gyfan hyd ryfeloedd cartrefol yr eilfed ganrif ar bymtheg, pryd y taflwyd hi i lawr, ac y drylliwyd hi gan ryw benboethiaid anwybodus, y rhai

* Powel, 255, 293. † Yr unrhyw, 321, 327.

a dybient ei bod yn edrych yn rhy debyg i groes i adael iddi sefyll. Dichon ei bod yn dwyn yr enw hwnw; oblegyd mae y tir y gorwedda ynddo yn barhaus yn myned dan yr enw Llwyn y Groes, oddiwrth y coed oedd yn ei amgylchu. Cafodd ei chodi mewn cyfnod mor foreu, fel nad oes dim syndod pe gwelem arlliw o'r hen eilunaddoliaeth, neu o leiaf o hen arferion cyntefig ein gwlad, yn y dullwedd o honi pan yn berffaith.

Ar feddrod y codasid y piler; ac yr oedd ffoledd a choelgrefydd yn talu iddo yr anrhydedd arferol. Coffadwriaeth am y marw ydoedd; gwelliant ar hen golofnau y Derwyddon gynt, ac wedi ei dori i ffurf, a'i gylchynu â cherfiadau. Y mae yn mhlith y ceryg llythyrenedig cyntaf a ddylynodd y Meini hirion, Meini gwŷr, a'r Llechau. Safai ar fryncyn mawr, efallai wedi ei amgylchu gan goed, yn yr adeg y cyfodid pileri, ac y gosodid hwy o dan bob *pren gwyrddlas.**

Dywedir fod y gareg, pan yn gyflawn, yn ddeuddeg troedfedd o uchder: nid yw yn awr ond chwe' troedfedd. Y mae yr hyn sydd yn weddill o'r penclwm yn ddeunaw modfedd o hyd. Safai wedi ei gosod mewn bonsail ysgwâr, yr hwn sydd hyd heddyw yn gorwedd yn y bryncyn. ei led sydd oddeutu pum' troedfedd a thair modfedd; ei drwch yn ddeunaw modfedd.

Y mae dechreuad y llythyreniad yn rhoddi i ni yn lled agos yr amser y codwyd hi; a hysbysa ni am y person i goffadwriaeth pa un y cafodd ei chyflwyno: "*Concenn filius Catteli, Catteli filius Brochmail, Brochmail filius Eliseg, Eliseg filius Cnoillaine, Concenn itaque pronepos Eliseg edificavit hunc lapidem proavo suo Eliseg.*"† O fewn ychydig o flynyddoedd yn ol agorwyd y bryncyn, a chafwyd gweddillion rhyw esgyrn yno, wedi eu gosod, fel yr arferid yn y dyddiau hyny, rhwng meini fflat.

Y Concenn, neu y Congen yma, ydoedd ŵyr i Brochmail Ysgithrog, yr hwn a orchfygwyd yn mrwydr Caerlleon yn y flwyddyn 607.‡ Copïwyd y geiriau ar y gareg gan Mr. Edward Llwyd: y mae y cerfiad yn awr yn annarlleuadwy; ond oddiwrth y copi a gymerwyd gan yr hynafiaethydd enwog hwnw, yr oedd y llythyrenau yn tebygu yn fawr i'r rhai a ddefnyddid yn y chweched ganrif.§

Yr oedd un o breswylfeydd Congen ac Eliseg yn y wlad hon. Y mae trefddegwm gerllaw y golofn yn dwyn, oddiwrth yr olaf, yr enw Eglwyseg; ac y mae y trumau ardebol o greigiau yn cael eu galw Glisseg am yr un rheswm. Efallai mai preswylfa y tywysog Powys hwn yn y parthau hyn oedd Dinas Brân, yr hwn oedd ar derfyn dyffryn Glisseg. Tybia Mr. Llwyd fod y lle yma wedi cael yr enw trwy fod Eliseg wedi cael ei gladdu ynddo; oddiwrth engraifft gyffelyb yn sir Gaerfyrddin; lle y mae y fan yn mha un y saif careg goffadwriaethol yn cael ei alw yn Pant y Polion,‖ wedi ei lygru o Pant Pawlin, oddiwrth *Paulinus*, sef y person y codwyd hi er cof am dano.

Servator fidei patriæque semper amator
Hic Paulinus jacet cultor pientissimus æqui.¶

* Kings, ii. 17. Gwel y dysgedig Rowlands, 52

† "Congen fab Cadell, Cadell fab Brochmail, Brochmail fab Eliseg, Eliseg fab Cnollain, Congen, ac yna ei orwyr Eliseg, a godasant y gareg hon er cof am ei daid Eliseg."

‡ Bedæ Hist. lib. ii. c. 2. p. 80. § Gwel Dr. Morton's Table of Alphabets

‖ Nis gall hyn fod, am nas gallasai *Paulinus* ond cynyrchu *Peulin* yn y Gymraeg, megys yn wir y mae wedi gwneyd yn Neheudir Cymru, yn *Capel Peulin;* tra nad yw y cynaniad presenol o Paul fel *Pôl*, yn ddim amgen nag ymgais i efelychu y Saeson. J. R.

¶ "Yma y gorwedd Paulinus, bob amser yn caru ei wlad,
Yn amddiffynydd y ffydd, ac yn gonest lafurio y ddaear."

Digitized by Google

Y mae dwy o ffyrdd oddiwrth y golofn hon: yr un arferol sydd ar hyd y dyffryn, ar y ffordd fawr ragorol sydd yn arwain i Ruthyn; y llall nid yw yn gyfaddas ond yn unig i un a fyddo yn marchogaeth; eithr y mae yn llawer mwy dewisol ar gyfrif y golygfeydd rhamantus. Dychwelais trwy *Valle Crucis;* ac ar ol ymdroelli ar hyd ffordd sêth at yr hen gastell, disgynais, a

*Dyffryn Glisseg.*

chroesais y ffrwd a elwir Brân, nes cyrhaedd dyffryn Glisseg, yr hwn sydd yn hir a chul, yn cael ei derfynu ar y llaw ddehau gan glogwyni aruthrol, wedi ei ranu i haenau cyfredol aneirif o galchfaen gwŷn, ac yn fynych yn cynyrchu coed yw anferthol: ac ar yr aswy, gan fryniau llyfnion a gwyrddleision, y rhai a ymylir gan goed prydferth. Un o'r rhai penaf o greigiau y Glisseg a anrhydeddir â'r enw Craig Arthur. Yr un yn mhen draw y dyffryn a elwir Craig y Forwyn, yr hon sydd yn uchel, sêth, ac yn cael ei therfynu gan golofn naturiol anferthol o faint.

Y mae y dyffryn hwn yn cael ei breswylio (yn ffodus) gan hiliogaeth annibynol o amaethwyr twymgalon a chyfoethog, heb eu difa hyd yn hyn gan wŷr mawr y wlad.

I'r dyben o gyrhaedd y ffordd fawr, aethum ar hyd llwybr i fyny gallt sêth ar y llaw aswy; ac oddeutu haner y ffordd ymwelais â thŷ sydd yn hynod am iddo fod yn breswylfa i un Edward Davies, pleidiwr isel ac yspeiliwr o dan y gorthrymydd yn amser y rhyfeloedd cartrefol. Adnabyddid ef yn well yn ei

*Cneifiwr Glâs.*

wlad ei hun wrth yr enw *Cneifiwr Glâs*, ar gyfrif ei duedd yspeilgar, a lliw ei ddillad; ac ystyrid ef yn offeryn cymhwys yn nwylaw gorthrymder yr amseroedd hyny. Yn 1654, appwyntiwyd ef, gan y ddirprwyaeth at drefnu etifeddiaethau, yn oruchwyliwr y cantreflys o fewn maenor *Valle Crucis*, trwy iddo gael ei gymeradwyo i'r swydd hono gan y milwriad George Twisleton. Nid yw yn ymddangos fod y *Cneifiwr* yn rhyw hynod o bur hyd yn nod i'w blaid ei hun, pan fyddai ei lesâd personol ef yn sefyll ar y ffordd. Arferai gymeryd pleidwyr y brenin o dan ei nawdd, os caffai ei dalu yn dda. Ar un adeg, efe a guddiodd Syr Evan Llwyd o Fodidris, pan yr oedd swm mawr o arian yn cael ei gynyg am ei ddal. Byddai yn ei letya mewn seler o dan y parlwr; yna galwai ei bobl ynghyd, a gorchymynai iddynt, mewn cynddaredd ofnadwy, i fyned allan i chwilio am Syr Evan, gan daro ei droed yn y llawr, a datgan gyda llw, os oedd y marchog *ar wyneb y ddaear*, y mynai gael gafael arno.

*Bwlch y Rhiw Felen.*

Wedi esgyn codiad tir am ychydig yn mhellach, cyrhaeddais y lle a elwir *Bwlch y Rhiw Felen*, ac yna disgynais i waered drachefn i'r ffordd fawr. Hynodir y fan yma gan farwolaeth

*Llywarch Hen.*

dau o feibion *Llywarch Hen*, tywysog Prydeinig o'r chweched ganrif, y rhai a laddesid mewn brwydr; y mae y bardd tywysogaidd, eu tad, yn galaru ar eu hol mewn cerdd wylofain, o ba un y mae y llinellau canlynol yn rhan:—

Bedd Guell yn y Rhiw Felen,
Bedd Sawyl yn Llangollen.*

Llywarch Hen a adawodd ei wlad i yru allan y Sacsoniaid a'r Gwyddelod o'r wlad hon. Nid yw yn ein hysbysu beth fu y canlyniad; ond yr oll a ddywed ydyw, ei fod wedi colli deuddeg o feibion yn yr ymgyrch garedig.

* Llwyd's Archæol. 259.

Digitized by Google

O'r grib uwchlaw Rhiw Felen, ceir golygfa dra eang ar gantref Iâl; yn fryniog, yn llawn porfa ffrwythlawn, ac anifeiliaid lawer; ond yn y lle hwn y mae yn llwm, ac yn amddifad o gloddiau a choedydd; twmpathau a wnaut, gan mwyaf, yn lle y blaenaf; ac yn lle yr olaf y mae dyrysgoed. Yn agos i'r fan hon y mae Plas yn Iâl, eisteddle teulu hynafol yr Ialiaid, y rhai a ddisgynent oddiwrth Osborne Fitzgerald, iarll Desmond, yr hwn a ddaeth drosodd gyda Gruffydd ap Cynan; a'r penaf o'i ddisgynyddion ydyw y Fychaniaid o Gorsygedol. Wedi dyfod i waered am encyd, croesais yr Alun, yn y fan yma yn ffrwd fechan (yr hon, ar ol llifeirio a u beth amser, a dderbynia gynydd lled fawr,) dyfrhâ ddyffrynoedd y Wyddgrug ac Estyn; rheda rhwng y ceulanau ardebol gerllaw Caergwrle hyd Gresford, lle y mae yn lllfeirio trwy wastadedd eang, ac ymuna â'r Ddyfrdwy rhwng *Holt* ac *Eaton Boat*. Yr wyf yn gadael, ar y llaw aswy, le a elwir Hafod yr Abad, safle un o breswylfeydd abad *Valle Crucis* yn ystod misoedd yr haf. Yn agos i ochr y ffordd y gorwedd Tomen y Rhodwydd,* unwaith yn amddiffynfa a adnabyddid wrth yr enw castell Iâl,† yr hwn a adeiladwyd gan Owain Gwynedd, oddeutu y flwyddyn 1148.‡ Dyma y fan y mae Leland, mewn camgymeriad, yn ei alw yn gastell a berthynai i Owain Glyndwr.§ Cynwysa fryncyn anferth o bridd, gydag un arall uwch fyth, yn agos i un pen, yr hwn yw y brif amddiffynfa. Amgylchir y rhai hyn gan ffos a chlawdd; ac nid oes iddynt ond un fynedfa i mewn. Yn bresenol nid oes yn aros yr olion lleiaf o'r oruwch-adeiladaeth, yr hwn, fe ddichon, ydoedd o goed; oblegyd hysbysir ni fod y castellyn byr-barhaol yma wedi cael ei losgi, yn mhen naw mlynedd ar ol ei adeiladu, gan Iorwerth Goch ap Meredydd.‖

*Castelli Coed.*] Yn y modd yma y mae yn rhaid i ni roddi cyfrif am ddiflaniad lluaws o gastelli Cymreig, enwau y rhai a gedwir mewn hanesyddiaeth; ond nid oes y rhith lleiaf o honynt ar gael yn bresenol, ac yn ofer y buom yn chwilio am danynt. Gwneid hwy o goed, megys ag yr oedd yn dra arferol hefyd gan amryw hen genedloedd ereill, a rhai diweddarach o ran hyny. Y Persiaid, ar ddynesiad y Spartiaid, a ymgauasant eu hunain oddifewn i'w muriau coed; a chafodd Caisar gryn helbul gyda rhyw dŵr mewn castell a elwid Larignum, yn yr Alpau, yr hwn a wnaed o goed a elwid *Larix*, neu *Larch* (llurs,) y rhai y dywedid eu bod yn anhylosg.¶ Mewn amseroedd diweddarach, cafodd castell Bamborough ei adeiladu ar y cyntaf o goed, gan Ida; a chafodd bwrdeisdref Murray ei chadarnhau gan y Daeniaid gyda'r un defnydd. Yr oedd gan bobl o'r un sir a hwy, yn y flwyddyn 1228, gestyll coed;** ac yn mhen can' mlynedd ar ol yr engreifftiau diweddar hyn, mewn cymhariaeth, darfu i William de Melton, archesgob Caerefrog yn 1317, gadarnhau yr amddiffynfa yn y ddinas hono, yr hon a elwid *Old Bale*, gyda phlangciau deunaw modfedd o drwch.

Yn mha le bynag y darllenwn fod hen gastell wedi llwyr ddiflanu, a phan nas gallwn roddi cyfrif am ddefnyddiad y ceryg at wneuthur unrhyw adeilad arall yn y gymydogaeth, rhaid i ni dybio mai o goed y cawsent eu gwneyd, ac

* Yn yr achos hwnw buasai y *rhod* yr un â *rawd* yn beddrod neu bedd-rawd, am *feld;* ac â *rawd* yn gauaf-rawd, preswylfod gauafol; y gair Gwyddelig yw *rath*, a gair cyfansawdd hynod a ddefnyddir gan Adamnan, yn ei *Vita S. Columbæ*, ydyw *ratabusta*, yr hwn sydd braidd yr un ystyr â'r gair Cymraeg bedd-rawd. J. R.

† Powel, 201. ‡ Yr unrhyw. § Itin. v 35.

‖ Powel, 208. ¶ Vitruvius, lib. ii. c. 9. p. 35. ** Annals of Scotland, 149.

Digitized by Google

iddynt gael eu dinystrio gan dân, yr hwn a deflid iddynt naill ai gyda ffaglau, neu ynte yn ol dull yr hen Scandinafiaid, fel y dysgrifir gan *Olaus Magnus*, trwy luchio iddynt fwrneli o sylweddau hylosg a thanllyd.

*Llandegla.* O Domen y Rhodwydd, croesais y wlad am oddeutu dwy filldir, i bentref *Llandegla*, yr hwn le sydd mor hynod am ei ffeiriau buchod. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Tegla, gwyryf a merthyr; yr hon, ar ol ei throadigaeth trwy St. Paul, a ddyoddefodd ferthyrdod o dan Nero yn Iconium.

*Ffynhon Sant Tegla.* O fewn oddeutu dau gant o latheni i'r eglwys, mewn llecyn o dir a elwir Gwern Degla, y mae ffynhon fechan yn tarddu, a'r llythyrenau A. G. θ U: G yn gerfiedig ar y gareg nadd uwch ei phen. Y mae y dyfroedd o dan nawdd y santes; a myntumir hyd heddyw eu bod yn dra iachusol i'r rhai a fyddont yn goddef o dan *Glwyf Tegla*, neu y cryd cymalau. Rhaid i'r claf olchi ei aelodau yn y ffynhon; offrymu pedair ceiniog iddi; rhodio deirgwaith o'i hamgylch; ac adrodd y pader (gweddi yr Arglwydd) dair gwaith. Ni ymgymerir byth â'r defodau hyn nes y byddo yr haul wedi myned i lawr, i'r dyben o wneyd y peth yn fwy difrifol i'r credinwyr. Os bydd y goddefydd yn wrryw, rhaid iddo fel Socrates, aberthu ceiliog i'w *Esculapius*, neu yn hytrach i *Tecla Hygeia*; ond os bydd o'r rhyw deg, gwnaiff iâr y tro. Dygir yr aderyn mewn basged; yn gyntaf o amgylch y ffynhon; wedi hyny i'r fynwent; a chyflawnir yr unrhyw weddïau a'r unrhyw gylchdroadau o amgylch yr eglwys. Yna y mae y dyoddefydd yn myned i'r eglwys; ac yn gorwedd o dan fwrdd y cymundeb, gyda'r Beibl o dan ei ben; gorchuddir ef â charped neu lian, a gorwedda yno hyd doriad y dydd. Yna ymadawa, wedi offrymu chwe' cheiniog, a gadael yr aderyn yn yr eglwys. Os bydd yr aderyn farw, bernir fod yr afiechyd wedi ei iachâu, a bod yr aflwydd wedi cael ei drosglwyddo i'r aderyn anffodus.†

*Bodidris.* O'r lle yma ymwelais â *Bodidris*, hen balasdy mawr hynafol, yn perthyn i Evan Lloyd Vaughan, ysw.,* o Gorsygedol, yn hawl ei fam Margaret, merch i Syr Evan Lloyd, barwniad, y gwrryw diweddaf o'r teulu. Yr oedd yn hanu o Lywelyn ap Ynyr ap Howel ap Moriddig ap Sandde Hardd; yr hwn trwy ei wroldeb mewn rhyfel, a gafodd gan ei dywysog Gruffydd ap Madog, arglwydd Dinas Brân, yr arbenigrwydd anrhydeddus yn ei bais-arfau o wisgo pedair ergyd o waed: oblegyd iddo, tra yn ymddiddan â'i dywysog, ar ol y frwydr, a'i law aswy yn dyferu o waed, yn ddamweiniol ei thynu ar draws ei gleddyf, a gadael arno ôl ei bedwar bys. Y tywysog, wrth sylwi ar hyn, a orchymynodd iddo eu dwyn ar ei darian; ac ar yr un pryd rhoddodd iddo dref-ddegwm Gelligynan, yn y gymydogaeth hon, fel arwydd mwy sylweddol o'i ffafr.‡

Cymer Bodidris ei enw oddiwrth Idris, mab i Lywelyn Aurdorchog, nen arglwydd Iâl. Saif mewn dwy sir, Fflint a Dinbych; ac y mae y bwrdd hir yn y neuadd âg un pen yn y naill a'r pen arall yn y llall o'r ddwy.

* Yn bresenol yn eiddo i Syr Thomas Mostyn, barwniad, yn hawl ei fam, nith i Evan Vaughan ysw. GOL.

† Y mae yr arferiad ofergoelus uchod wedi darfod am dani, a buasai y traddodiad yn mherthynas iddi wedi darfod hefyd oni bai cofnodiad ein hawdwr. JOS.

‡ Trwy roddiad a amserir yn Iâl, ar noswyl St. Egidius, yn 1256. Gwel Salus. Pedigree, p. 51.

Digitized by Google

*Llanarmon.*] Oddiyma aethum yn mlaen ar fy nhaith tua *Llanarmon*, pentref ag y mae ei eglwys wedi ei chysegru i St. Germau, esgob Auxerre; yr hwn, ynghyda Lupus (Bleiddyn,) a wnaeth gymaint er ennill y fuddugoliaeth "Haleliwiah," ar y Pictiaid a'r Saeson, gerllaw y Wyddgrug. Yr oedd yn noddwr o'r fath mwyaf poblogaidd, ac y mae ganddo luaws o eglwysi ereill yn Nghymru o dan ei nawddogaeth. Y mae delw o ŵr eglwysig, yr hwn y tybir a'i cynrychiola ef, i'w gweled yn ngwal y fynwent. Yn nyddiau Leland, yr oedd llawer o gyrchu yma gan bererinion;* ac offrymid llawer o ariau yn y lle, a hyny, fe ddichon, i'r ddelw ddychymygol hon o hono.

Yn yr eglwys y mae beddrod mab i'r rhyfelwr bys-waedlyd uchod, yn dwyn ar ei darian y pais arfau a ennillasid gan ei dad, a cherfiad o amgylch, *Hic jacet Gruffydd ap Llywelyn ap Ynyr.* Wrth ei draed y mae ci yn cnoi pentwr o ymysgaroedd. Traddodiad y wlad ydyw iddo fyned i ysgarmes, yn mha un y collodd ei fywyd trwy gael ei glwyfo yn ei fol; fod ei ymysgaroedd wedi syrthio allan, ac fod ci wedi gafael ynddynt, fel ag y darlunia y cerfiwr. Os syrthiodd yn Rhyfeloedd y Groes, fel y tybir, tra yn ymladd o blaid y bedd sanctaidd, rhaid fod y cerfiwr wedi anghofio ei wneyd â'i gluniau yn mhleth, oblegyd dyna ydoedd y dull yn mha un y gwnelid cofadeiladau y cyfryw farchogion crwydrol. Y mae y beddrod yn gistfaen i gyd o un gareg, yn mha un y dodwyd ei gorph, ac yr anfonwyd ef adref. Y cauad sydd gareg arall, ar ba un y mae ei lun wedi ei gerfio.

*Carneddau.*] Y mae twmpathau claddu, neu garneddau, i'w cael yn dra mynych yn y plwyf hwn. Yr oeddwn yn bresenol pan agorwyd un o honynt, a chynwysai lawer o geryg rhyddion a phridd, yn orchuddiedig â haen o weryd oddeutu dwy droedfedd o drwch, ac uwchlaw hyny orchudd o dywyrch gwyrdd. Yn ystod ein hymchwiliad, darganfyddasom, yn rhywle tua chanol y garnedd, amryw lestri wedi eu gwneyd o glai llosgedig yn yr haul, o liw coch o'r tu allan, a du oddi fewn, trwy eu bod wedi eu hystaenio â'r lludw a gynwysent. Yr oedd pob un wedi ei osod gyda'i enau at y llawr, ar faen gwastad; ac uwch ben pob un yr oedd careg arall, i atal iddo gael ei dori gan y pwysau oddi uchod. Yn gymysg â'r ceryg rhyddion yr oedd lluaws o ddarnau o esgyrn; megys esgyrn y cluniau, y breichiau, ac ambell i asgwrn pen. Yr oedd y rhai hyn wedi diangc rhag effeithiau tân y goelcerth annghladdol, a chawsant eu gosod o gwmpas y llestri, y rhai a gynwysent weddillion y corph, yr hwn oedd wedi cael ei losgi yn lludw pur.

Bydd i mi yn y fan yma grybwyll am hynafiaeth mawr yr arferiad yma, yr hon oedd yn cael ei dwyn yn mlaen yn mysg y cenedloedd mwyaf coeth, yn mhlith y Groegiaid a'r Rhufeiniaid, yn gystal ag yn mysg y bobl fwyaf barbaraidd. Yr oedd y Germaniaid hynafol yn ymarfer y ddefod hon, fel yr ymddengys oddiwrth Tacitus.† Yr oedd y Derwyddon yn ymarfer yr unrhyw hefyd, gyda'r ychwanegiad gwallgofus o losgi pobpeth ag oedd yn wasanaethgar yn y bywyd hwn, oddiar y dybiaeth y byddai ar y trengedig angen am danynt yn y byd arall; ac fel cadarnhad o hyn, y mae arfau, ac amryw bethau rhyfedd ereill, na wyddir yn y byd i ba ddyben yr oeddynt, hyd y dydd heddyw yn cael eu darganfod o dan hen feddrodau hynafol.‡

* Leland Itin. v. 85. † De moribus German. ‡ Mela, lib. iii. c. 2

Digitized by Google

Y *Sarmatæ* pellenig, a'r holl genedloedd Scandinafaidd, a gydsynient gyda golwg ar losgi cyrph y meirw; ac yr oedd y Daeniaid, trwy yr ymarferiad yma, a'r gwahanol seremoniau claddedigol, yn cadw cof am dri chyfnod gwahanol.*

Y cyfnod cyntaf, yr hwn oedd yn unrhyw â'r un sydd dan sylw a elwid *Roisold* a *Brende-tiide*, neu oes y llosgi.

Yr ail a elwid *Hoigold*, a *Hoielsetiide*, neu oes y twmpathau. Cleddid y corph yn gyfan, yn y cyfnod hwn, gyda'r holl addurniadau a wisgai tra yn fyw. Yr oedd breichledau, neu arfau, ac hyd yn nod ceffyl yr arwr ymadawedig, yn cael eu gosod o dan y twmpath. Byddent yn arfer claddu arian, a phob eiddo drudfawr perthynol i'r trengedig, gydag ef, oddiar y dybiaeth y byddai ar yr enaid, yn gymaint a'i fod yn anfarwol,† angen am y pethau hyn yn y byd arall. Dyna ydoedd syniad y *Gauliaid*, a'r holl genedloedd gogleddol. Yn mysg y rhai olaf, pan yr oedd mor-ladroniaeth yn cael ei ystyried yn beth anrhydeddus, byddai yr yspeilwyr hynod hyn yn cyfarwyddo fod i'w holl yspail gwerthfawr gael ei gladdu gyda hwynt,‡ er mwyn rhoddi anogaeth i'w plant ddylyn yn eu llwybrau,—cynal eu hunain, ac anrhydeddu eu henwau, trwy weithredoedd rhyfelgar. Oddiyma yr ydym yn cael hanesion am gyfoeth mawr wedi ei ddarganfod mewn beddrodau, ac am y mynych drais ar weddillion y meirw, mewn dysgwyliad am drysorau, hyd yn nod am ganrifoedd wedi i'r arferiad hon ddarfod.

Y drydedd oes a elwid *Christen loms-old*, pan y darfu i ddygiad Cristionogaeth i'w plith roddi pen ar yr arferion blaenorol. oblegyd "y mae Cristionogion," fel y sylwa y physygwr dysgedig o Norwich, "yn casâu y dull yma o gladdu; ac er na phetrusent roddi eu cyrph i'w llosgi tra yn fyw, ffieiddient y dull hwnw ar ol marw o honynt; gan garu dadgysoddiad yn hytrach na difodiant, ac ymostwng yn weddus i ddedfryd Duw, fod i ni ddychwelyd, nid i ludw, ond i lwch."*

Oddiwrth sylwadau yr ysgrifenwyr galluog hyn, gallwn gasglu pa bryd y dilewyd yr arferiad o losgi yn mhlith y gwahanol genedloedd; darfu gyda phaganiaeth. O ganlyniad, darfu yn gyntaf yn mhlith y Prydeiniaid; oblegyd cynelid yr arferiad i fyny am beth amser gan y Sacsoniaid, ar ol iddynt orchfygu y deyrnas hon; ond gadawsant hi o'r neilldu wedi iddynt dderbyn goleuni yr efengyl. Y Daeniaid a ddaliasant at yr arferiad o losgi eu meirw mewn llestri yn hwyaf o bawb; oblegyd o'r holl genedloedd gogleddol ag yr oedd ganddynt unrhyw safle yn y teyrnasoedd hyn, hwynt-hwy oeddynt yr olaf i dderbyn athrawiaethau Cristionogaeth.

Nis gallaf sefydlu unrhyw reol wrth ba un y gellir barnu i ba bobl y perthynai y gwahanol fathau o lestri a charneddau, pa un a oeddynt ai Prydeinig, Rhufeinig, Sacsonaidd, neu Ddaenaidd.

Y mae rhai carneddau yn cael eu gwneyd o bentwr o geryg yn unig, megys y rhai hyny yn ynys Arran; amryw barthau o Scotland; ac mewn rhai manau yn Nghernyw.

Ereill, megys yr un yn Llanarmon, sydd yn gyfansoddedig o geryg a phridd, wedi eu gorchuddio yn ddestlus a thywyrch. O'r rhai hyn, y mae y gwaelod yn gydwastad â'r llawr mewn rhai manau, ac mewn ereill yn amgylchynedig â

* Wormii Mon. Danic. 40. † Pomponius Mela, lib. iii. c. 2. ‡ Bartholini Antiq. Dan. 438.

Digitized by Google

ffos; gwneid hwy weithiau o bridd yn unig. Ereill drachefn ydynt o ffurf bigfain, a rhai yn hirgul; o'r hyn y mae engraifft yn nghymydogaeth Bryn y pys, yr hwn a elwir *Bedd y Cawr*. Yn olaf, nid oedd rhai o'r claddfeydd yn cynwys dim ond cylch gwastad, wedi ei amgylchu, yn ol dull y Derwyddon, â cheryg ar eu penau; a'r cyfryw oeddynt feddau Ubbo, a'r brenin Harald, yn Sweden.*

Y mae y llestri a gynaliant y llwch yn cael eu cyfleu mewn gwahanol ddulliau hefyd; naill ai gyda'r genau at i waered, ar gareg wastad, ac un arall uwchben er eu hamddiffyn; neu gyda'r genau at i fyny, a chareg i'w dyogelu yn yr un modd.

Yn dra mynych ceir y llestri hyn wedi eu cyfleu mewn celloedd ysgwâr wedi eu ffurfio o lechfeini. Weithiau ceir mwy nag un o'r celloedd hyn o dan yr un garnedd. Yn Dupplin, yn sir Perth, cyfarfyddais â dim llai na dwy ar bymtheg o honynt, wedi eu gosod yn gylch.† Pan y ceir llawer gyda'u gilydd, y mae y garnedd naill ai yn gladdfa deuluaidd, neu efallai yn cynwys gweddillion nifer o arwyr a syrthiasant yn ogoneddus yn yr un achos da: oblegyd ni thelid y cyfryw anrhydedd ond yn unig i'r dewr a'r daionus.

Byddai y llestri a geid yn gyffredin yn y celloedd hyn yn cael eu hamgylchu gan ddarnau o esgyrn a ddiangasent rhag y tân; oblegyd byddai cyfeillion yr ymadawedig yn dra gofalus i gasglu pob mymryn, y rhai a osodent, gyda gweddillion y marw, o amgylch y llestri, gan ystyried y byddai esgeulustra yn hyn yn bechod o'r fath mwyaf. Nid oes genym ddim sicrwydd am y seremoniau a ymarferai y Prydeiniaid ar yr achlysuron galarus yma, ond oddiwrth luaws o bethau ag yr ydym yn eu darganfod yn barhaus yn ein carneddau, ymddengys fod cyfatebiaeth neillduol rhyngddynt â'r rhai a ymarferid yn ngwlad Groeg a Rhufain yn yr hen amseroedd.

Byddai y Groegiaid yn y lle cyntaf yn diffodd y goelcerth anghladdol gyda gwin, a byddai cymdeithion a pherthynasau y marw yn cyflawni y gweddill. Dyna ydoedd y seremoni yn nghladdedigaeth Patroclus.

Cyn i'r marwor lwyr ddiffoddi, cochwin pur a daflent hwy,
Nes y byddai'r lludw yn gorwedd yn un crynswth marwaidd mwy:
Yna casglai hoff gymdeithion esgyrn y trengedig cu,
I'r aur-lestr, gyda dagrau, gan eu dwyn i'r babell ddu,
Lle gorchuddid hwynt â lliain,— yna codent feddrod ban,
Gan ddwfn dori ffosydd mawrion, i'w amddiffyn 'gylch y fan
Yn y canol uchel godent wely pridd, ymchwyddol ryw,
Er gwneyd coffa am y marw, a fu gynt yn nhir y byw.‡

Yr oedd y ddyledswydd o gasglu yr esgyrn a'r llwch yn gorphwys ar y perthynas agosaf. Fel hyn y mae Tiballus yn erfyn yn ddwys ar fod i angeu ei arbed mewn tramoraidd wlad, o herwydd nad oedd ganddo neb o'i berthynasau agosaf i gyflawni y gymwynas olaf iddo.

Me tenet ignotis ægrum Phæacia terris,
Abstineas avidas, mors violenta, manus! &c.§

Yma ‖ 'n dihoeni mewn tramoraidd wlad,
'Rwy'n gorwedd dan afiechyd, eneth fâd;

* Succia Antiqua et Hodierna, tab. 315. † ..our in Scotland, iii. 106.
‡ Iliad, lib. xxiii. lin. 310. § Elegia, lib. i. el. 3. ‖ Yn Phœnicia.

Digitized by Google

O Angeu! cadw draw dy bicell ffrom,
Ac na thrywana'm calon lesg a throm:
Un fam i'm helpu yn fy olaf loes,
I gasglu'm hesgyrn, hèl fy llwch, nid oes·
Na chwaer i wylo uwch fy meddrod trist,
Na thywallt myrr Assyria ar fy nghist.
Na thithau, *Delia* fwyn, fy nghariad pur,
Nid wyt ti yma i leddfu'm poen a'm cur!

Erfyniaf ganiatâd i ddodi yma yr hanes a ddyry Virgil am seremoniau annghladdol Pallas.* Yr ydym yn cael yn eu plith luaws o rai a ymarferid gan y cenedloedd gogleddol. Yr oedd anifeiliaid o wahanol rywogaethau yn cael eu llosgi neu eu claddu gyda'r corph. Gosodid yspail rhyfel, ac arfau o amryw fathau ar y goelcerth anghladdol; cesglid yr esgyrn a'r lludw at eu gilydd; a chodid twmpathau o bridd yn garnedd arnynt. Y mae yr holl bethau hyn yn cael eu darganfod yn barhaus yn ein beddrodau. Ceir cyrn, ac ereill o weddillion anifeiliaid pedwar-troediog, arfau o brês a maen, wedi eu cyfleu islaw yr un math o feddau yn union ag a ddarlunir gan Homer a Virgil. Dichon nad oedd y seremoniau ereill yn cael eu gadael heibio; ond nid oes genym un awdurdod i'n galluogi ni i sicrhau eu bod yn mhobpeth yn cyfateb.

Jam pater Æneas, &c.

Ar arch y pen Tuscanaidd, a th'wysog Troia fawr,
Y gweithiau anghladdiadol a godwyd ar y llawr,
Ac yna dwyn i'r goelcerth, 'nol defod hen y wlad,
Eu hoff gyfeillion gwrol a laddwyd yn y gâd.
O'r fflamau duon cyfyd y mygdarth tua'r nen,
A'r mwg yn dorchau cyrliog ymddyrcha fry uwch ben,
Y milwyr traed amgylchant dair gwaith y tanllwyth mawr,
Tair gwaith y meirchlu gyrchant o'i amgylch ar y llawr.
Eu dagrau, fel y llefant yn uchel ar bob tro,
A bylant eu heirf gloywon, a threiglant ar y gro.
Dylyna croch ruddfanau; adseinia'r nefoedd fry
I'r llefau cymysgedig, a sain yr udgorn cry'.
Rhai, yn y fflamau, fwriant hardd ffrwyni'r meirch di fraw,
Cleddyfau dur a helmau y gelyn drechwyd draw:
Rhai fwriant y tarianau a ddygai'u brodyr cu,
A gwaywffyn aflwyddiannus y lladdedigion lu.
Yn awr o gylch y goelcerth y gwaeda'r ŷch a'r carw,
A'r moch gwrychynog leddir, i anrhydeddu'r marw.
Y maesydd a archwiliant, a'r defaid gwlanog laddant,
Ac ar y fflamau ysol eu meirwon gyrph a fwriant.

Gan fy mod gyda'r pwngc o gladdu, bydd yn briodol i mi sylwi fod ysgerbwd dynol cyfan wedi cael ei ddarganfod rhwng dwy lechfaen o hyd cyfatebol, yn agos i'r lle hwn. Y mae hyn, yn gystal a llawer o engreifftiau cyffelyb mewn gwahanol barthau o'n hynys, yn profi nad oedd y cyndrigolion bob amser yn llosgi cyrph y meirw: oblegyd, heblaw yr engraifft hon, y mae ysgerbwd, amgauedig yn y modd yma, wedi ei gael yn un o ynysoedd yr Orkneys,† ac ereill yn sir Murray; a chydag un o'r rhai diweddaf yr oedd llestr yn cynwys lludw,

* Lib. xi. l. 184. † Llythyr oddiwrth y Parch. Mr. Low o Birsa.

Digitized by Google

ac amryw ddarnau o siarcol,* yr hyn a brawf fod y ddau ddull yn cael eu hymarfer yn yr un oes.

*Tomen y Fardra.*] Ar lan yr afon, yn agos i bentref Llanarmon, y mae bryncyn eang o waith llaw, yr hwn a elwir *Toment y Fardra*,† ar yr hwn yr oedd rhywbryd gastell bychan, gweddillion yr hwn a ganfyddir mewn sylfaeni amddiffynfa fechan bedaironglog. Y mae yr afon yn terfynu un ochr i'r bryncyn, a ffos ddofn ar yr ochr arall. Heb fod yn mhell oddiyno, y mae ogof fawr naturiol, o uchder mawr am eucyd o ffordd: wedi hyny y mae yn gostwng, ac yn ymestyn i bellder anadnabyddus.

O Lanarmon aethum yn mlaen ar fy nhaith ar hyd ffyrdd drwg y plwyf hwnw Y mae y wlad yn awr yn dyfod yn gulach, am fod y mynyddoedd yn dyfod yn nês. Ar un ochr y mae creigiau uchel o geryg calch, yn nhref-

*Tre'r Yrys.*] ddegwm *Tre'r Yrys*, y rhai ydynt doreithiog‡ mewn mwn plwm; a thybir i'r lle gymeryd ei enw oddiwrth Gyrys, yr hwn a wnaeth y casgliad cyntaf o hen ddiarebion Cymreig, a'r hwn a adwaenir wrth y teitl, Madwaith hen Gyrys o Iâl.

Ar y llaw chwith y mae mynyddoedd Clwyd, y rhai a ranant y wlad yma oddiwrth ddyffryn Clwyd. Amaethir y rhai hyn yn lled uchel; y maent yn rhydd oddiwrth greigiau, ac yn orchuddiedig â grug.

Y mae bwlch, neu fynedfa, rhwng y bryniau hyn ag sydd yn dwyn enw tra

*Bwlch Agricla.*] hynod, a gorwedda rhwng y bryniau a elwir Moel Eithinen a Moel Fenlli. Gelwir ef, *Bwlch Agricla;*§ a gellir meddwl mai y ffordd yma yr aeth Agricola i Ynys Fon. Fod y Rhufeiniaid, mewn oesau diweddarach, wedi bod yn preswylio yn y rhan hon o'r wlad, a ymddengys yn amlwg oddiwrth y niferi o fathynau a gafwyd yn y gymydogaeth, yn enwedig yn mhlwyf Llanferres, yn mha le y cafwyd cyflawnder o geiniogau *(denarii.)*

*Moel Fenlli.*] *Moel Fenlli* sydd yn nodedig am fod arni amddiffynfa Brydeinig gadarn, wedi ei dyogelu, fel arferol, gyda chloddiau a ffosydd. Dichon fod hon yn meddiant penaeth o'r enw hwnw; oblegyd y mae Nennius‖ yn son am y cyfryw frenin yn nhiriogaeth Iâl; ond, fel yr oedd arfer ein hen haneswyr, y mae yn cymhlethu ystori mor wrthun gyda'r crybwylliad am dano, fel ag i ddinystrio pob crediniaeth ei fod erioed wedi bodoli, oni buasai fod y bryn yn aros fel prawf pendant o hyny. Yr oedd St. Garmon, medd yr abad, wedi bwriadu talu ymweliad â'r Benlli hwn; ond ni chafodd dderbyniad croesawgar; er hyny cafodd dderbyniad tra charedig gan un o'r gweision, yn ei fwthyn tlawd ei hun; yr hwn a laddodd ei unig lô, ac a'i coginiodd, a gosododd ef o flaen y sant a'r ddau gyfaill oedd gydag ef.

* Tour in Scotland, 1769, quarto ed.

† *Y Fardra* a olyga *Y Faerdre*, tref y maer neu y goruchwyliwr, yr hwn a ddygwydd yn fynych yn Nghymru fel enw lle. J. R.

‡ Gelwir hwn yn awr *Eryrys*, ac oddiwrth fod y pentref a elwir felly yn un o'r rhai uchaf yn Nghymru, ymddengys iddo darddu o *eryr*, yr un modd ag *Eryri*, fel y gelwir cymydogaeth y Wyddfa. J. R.

§ Y mae hyn yn amhosibl, oblegyd rhaid i Agricola ddyfod yn *Aircol*, neu *Aercol*, yn y Gymraeg; dygwydda y blaenaf, yn wirioneddol, yn y *Nennian Genealogies*, a cheir yr olaf yn *Skeene's Four Anc. Book of Wales*, ii. 173; gwel hefyd i. 318. Byddai yn awr yn *Aergol* neu *Aergwl*, a buaswn i yn tybied fod yr enw a olygir yma naill ai *Y greigle*, *Y grugle*, neu y cyffelyb. J. R.

‖ C. xxx. xxxi.

Digitized by Google

Cafodd y caredigrwydd yma gyflawn daledigaeth: oblegyd wele! bore dranoeth cafwyd y llô yn fyw ac yn iach gyda'i fam.

*Llanferres.*] Ychydig tu hwnt i'r bwlch hwn, aethum i mewn i blwyf *Llanferres*, yr hwn sydd yn gyfoethog mewn mwnau. Aethum drwy y pentref, ac heibio yr eglwys. Y mae yr olaf wedi ei chysegru i St. Berres *(Britius,)* dysgybl St. Martin yr Hungariad, a'i olynydd yn esgobaeth Tours, yn y rhan olaf o'r bedwaredd ganrif. Yr oedd yr eglwys, ar y pryd, yn cael ei hail-adeiladu, yn benaf trwy haelfrydedd Mrs. Catherine Jones o'r Colomendy.*

Cafodd pen dwyreiniol yr eglwys ei adgyweirio yn 1650, gan Dr. John Davies, awdwr y Geiriadur Cymraeg a Lladin, hynafiaethydd rhagorol, ac yn enedigol o'r plwyf hwn.

Yn ystod fy nhaith, croesais y ffordd fawr rhwng y Wyddgrug a Rhuthyn; yr hon, ar ol maith esgyniad, sydd yn myned heibio Bwlch Pen-y-barras, lle tra theilwng o sylw pob ymdeithydd, ar gyfrif yr olygfa brydferth a geir oddiyno ar Ddyffryn Clwyd.

Yr oedd fy llwybr yn awr yn fy arwain tua'r dwyrain, ar hyd y ffordd fawr, i

## SIR FFLINT.

Y mae y llecyn hwn wedi cael ei gadarnhau trwy gyfraith gostfawr, yn nghwrt y canghelldy, yn 1763, rhwng teulu y *Grosvenors* ac arglwyddi maenor y Wyddgrug: y rhai cyntaf yn ei hawlio fel rhan o'r rhodd fwneiol yn nghantref Iâl, a'r lleill yn haeru ei fod yn rhan o sir Fflint, ac o fewn plwyf y Wyddgrug. Yr oedd y dyfarniad yn ffafr arglwyddi y Wyddgrug; ac y mae hyny wedi ei gofnodi ar fwa, uwchben careg hynod, a elwir *Careg Carn March Arthur;* yr hon a ddyfarnwyd y pryd hyny i fod yn derfyn plwyf y Wyddgrug yn sir Fflint, a Llanferres yn sir Ddinbych.

Parheais i fyned yn mlaen ar hyd y ffordd fawr; a phan o fewn oddeutu dwy filldir i'r Wyddgrug, syllais yn hir ar y dyffryn prydferth sydd yn ym-

*Y Fron.*] agor gyda thlysni teleidwiw o'r *Fron*, preswylfod y cywrain Barchedig Richard Williams. Yma y mae Cymru yn dodi heibio ei haddurnwisg aruchel, ac yn ymddarostwng i ymwisgo mewn ffurf fwy tyner, i'r dyben o wneyd ei hundeb agosaol â'i chymydoges Saesonig yn fwy esmwyth. Buasai yn ddymunol pe y gweithredasai yn fwy cymedrol, heb ei gario i'r fath eithafedd ag y rhaid i'r Saeson mwyaf pleidgar addef ei bod wedi gwneyd.

Gelwid y fan yma, yn yr hen amseroedd, yn Ystrad Alun; cwmwd yn nghantref *Y Rhiw:* lle a breswylid gan hiliogaeth ddewr, ag oeddynt yn wastadol mewn rhyfel â gwŷr Caerlleon ar un ochr, a gwŷr Iâl ar yr ochr arall: oblegyd ni oddefai fy nghydwladwyr i'w cleddyfau gweithgar rydu: os na

* Saif Colomendy yn mhlwyf Llanferres Yr oedd Richard Wilson, yr arlunydd enwog, yn berthynas i Mrs. Catherine Jones, a dreuliodd y blynyddoedd olaf o'i oes yno, ac yn y Wyddgrug Dywedir mai efe a baentiodd arwyddfwrdd y gwesty ar ochr y ffordd, a elwir y *Loggerheads*, yr hwn sydd yn agos i'r Colomendy. T. P.

Digitized by Google

byddai Saeson i ymladd â hwynt, tröent eu harfau yn erbyn gwaed eu cymydogion Cymroaidd agosaf.

Pan reoleiddiwyd siroedd Cymru ar y cyntaf gan Harri VIII., cafodd y dyffryn hwn, a elwid y pryd hyny *Molesdale*, gyda'r parhad o hono, a adwaenid wrth yr enw *Hopesdale*, eu cysylltu â sîr Ddinbych; ond, yn y 33ain o'r unrhyw benadur, rhoddwyd hwy i sîr Fflint.

Y mae y cwbl braidd i'w weled o'r fan hon; golygfa hyfryd wedi ei chyfansoddi o dir toreithiog, yn cael ei derfynu yn brydferth gan esgyniadau graddol, ei ddyfrhau gan yr Alun, ac fel math o amrywiaeth y mae tref brydferth ac eglwys hardd yn sefyll yn y canol; ynghyda niferi o balasau, llwyni, a ffermydd o driniaeth rhagorol. Yn mysg y rhai blaenaf canfyddir yn amlwg *Coed Llai* (Leeswood,) preswylfod y diweddar Syr George Wynne, yn codi fel palasdy ardderchog ar hyd llechwedd brydferth ar yr ochr ddeheuol i'r dyffryn, ac yn amgylchynedig â choed a glaslenyrch. Ac nid yw yr olygfa bellenig yn llai prydferth. Y mae tair aber ardderchog y Ddyfrdwy, y Weever, a'r Mersey, ynghyda bryniau sîr Gaerlleon, a'r rhesi mwy pellenig yn siroedd yr Amwythig, Stafford, Derby, Caerefrog, Lancaster, Westmoreland, a Chumberland, yn cwblhau yr olygfa brydferth hon.

*Coed Llai.*

*Nerquis.* Capel *Nerquis*, yr hwn nid yw nepell oddi yma, sydd adeilad destlus gyda phinagl hardd. Oddi fewn iddo y mae cilfach eang gothic wedi ei cherfio yn gywrain, yr hon ar un adeg a gynwysai ddelw o'r Forwyn, ac y mae yn cael ei galw (fel y gelwir pob cilfach o'r fath yn Nghymru,) yn *Gadair Mair.* Heb fod yn mhell oddiwrth y capel y mae tŷ *Nerquis*, neu balasdy odiaeth, a adeiladwyd yn 1638 gan John Wynne, ysw., o linach Edwyn arglwydd Tegengle. Bu Thomas Pindar, ysw., mab i'r enwog Syr Paul, yn feddiannol arno am ychydig amser, trwy ei briodas â Miss Wynne, etifeddes y lle. Gwnaethpwyd eu mab Paul yn farwniad yn 1662, a thrwy iddo farw heb briodi, daeth yr etifeddiaeth yn hawl ei fam yn eiddo i Paul Williams, ysw., o Bont y Gwyddel. Ar farwolaeth Edmund Williams ysw., yn 1737, daeth yn eiddo i'w chwaer;* yr hon sydd yn awr yn weddw i Robert Hyde, ysw., ac y mae yn cadw y lle gyda gwir letygarwch.

*Y Wyddgrug.* Oddiyma i'r *Wyddgrug* y mae y ffordd yn hyfryd. Cynwysa y dref hon, gan mwyaf, un heol lydan a phrydferth, ar godiad tir graddol, yn nghanol gwastadedd bychan, ond tra ffrwythlon. Y mae yr eglwys yn sefyll ar ucheifa, ac adeiladwyd hi yn amser Harri VII.; addurnir hi â chlochdy anarferol o hardd a adeiladwyd mewn blynyddoedd diweddarach. Cyn y Diwygiad, yr oedd yn meddiant mynachlog Bustleham, neu Bysham, yn sîr Berk. Ficeriaeth yw y fywioliaeth, ac y mae capeli Nerquis a'r Treuddyn yn dibynu arni. Yn agos i'r olaf y mae *maen-hir* helaeth, neu garreg goffadwriaethol, yr hon a elwir Careg y Llech; y mae yn bum' troedfedd o uchder, yn saith o led, ac yn ddeunaw modfedd o drwch; saif yn syth ar dwmpath wedi ei balmantu mewn modd anghelfydd.

*Eglwys y Wyddgrug.* Y mae adeilyddiaeth eglwys y Wyddgrug o arddull gothaidd dechreuad yr unfed ganrif ar bymtheg; y ffenestri yn fawrion, a'r bwâau yn bŵl. Oddi fewn, ac oddi allan, y mae rhesi o anifeil-

* Ei hwyres, Miss Gifford, yw yr etifeddes bresenol. GOL.

iaid wedi eu cerfio, fel y byddid yn arferol o wneyd yn yr oes hono. Gellir gweled yr un pethau ar yr hen adeilad goruwch ffynhon Gwenfrewi. Y mae y tu fewn yn dra destlus; cynwysa gorph yr eglwys a dwy rodfa, y rhai a gynelir gan saith o fwäau, pileri y rhai sydd i'w haredmygu yn fawr ar gyfrif eu hysgafnder. Gwneir hwy i fyny o bedwar o bilerynau crynion, a'r lle cydrhyngddynt wedi ei gafnio allan, a'r cnapiau wedi eu cerfio yn brydferth. Cydrhwng codiad pob bwa y mae angel yn dal tarian, ar ba rai y mae pais-arfau naill ai y cymwynaswyr, neu ynte offerynau y Dyoddefaint. Y mae pais-arfau y *Stanleys* hefyd, y rhai a fuont am hir amser mewn meddiant o'r maenor yma, i'w gweled yn dra mynych. Yn mysg cerfiadau ereill, y mae yno y *Veronica*, neu wyneb ein Hiachawdwr, wedi ei dynu ar gadach poced a roddwyd iddo gan wraig pan ar ei ffordd i le y croeshoeliad. Efe a'i cymerodd ganddi, sychodd ei wyneb âg ef, a rhoddes ef yn ol gyda'r darlun gwyrthiol arno. Y mae y dernyn gwerthfawr yma yn nghadw yn Eglwys St. Pedr yn Rhufain; ac addolir y ddynes fel santes, o dan yr enw *Cadach Pocel;* yr hon, ar y cyntaf, a elwid yn *Vera Icon*, neu wir ddelw; ond trwy gael ei phersoneiddio fel hyn, cafodd y teitl *St. Veronica.* O dan y ddwy ffenestr uwchlaw y ganghell, y mae yr hoelion, gefeiliau, a phethau ereill perthynol i'r croeshoeliad, wedi eu cerfio mewn dull anghelfydd.

*Cofadeiliau.*] Yn mhenau dwyreiniol y ddwy rodfa y mae tri o gilfachau gothig wedi eu cerfio yn brydferth. Yr oedd gynt ddelwau ynddynt, ond y maent yn awr wedi eu dinystrio. Y mae y ddwy rodfa ar yr ochr ddeheuol braidd i gyd wedi eu gorchuddio â chofadeiliau; ac yn eu plith y mae un tra ardderchog er coffadwriaeth am Robert Davies, ysw., o'r Llanerch, gyda delw o hono ar ei sefyll, wedi ei ddilladu mewn gwisg Rufeinig. Bu efe farw ar yr 22ain o Fai, 1728, yn 44 oed.

Gerllaw iddo y mae cofadail yn y mur o'i daid, Robert Davies arall,* o Gwysaney,† trigle dreftadol a phreswylfa y teulu, cyn iddynt ddyfod i feddiant o'r Llanerch yn nyffryn Clwyd, trwy briodas y boneddwr hwn âg Anne, merch ac etifeddes i Syr Peter Mutton, marchog.

Yn agos i hwn y mae cofadail arall yn y mur, er coffadwriaeth am Robert Warton, yr hwn a gyfenwid *Parfew.* Yr oedd ar y cyntaf yn abad Bermondsey, ac etholwyd ef yn esgob Llanelwy yn 1536. Preswyliai gryn lawer yn Ninbych a'r Wyddgrug, tra bu yn yr esgobaeth hon;‡ symudwyd ef i esgobaeth Henffordd yn 1554, lle y bu farw yn 1557. Cafodd ei gyhuddo yn anghyfiawn o gamdreulio cyllid yr esgobaeth hon: yn y gwrthwyneb, ymddengys ei fod yn gymwynaswr haelfrydig i eglwysi Gresford, Gwrecsam, a'r Wyddgrug; y rhai, fe ddichon, a gafodd efe mewn cyflwr anorphenol. Claddwyd ef yn Henffordd o dan feddrod hardd, â'i ddelw arno; ond codwyd y gofadail ddiolchgar hon er cof am ei haelioni i eglwys y Wyddgrug, fel yr oedd cerfiad oddi tano ar un adeg yn hysbysu, gan un John ap Rys. *Hoc opus factum fuerrit, per John ap Rys.* Uwch ben y mae ei bais-arfau ar darian, yn

* Bu y boneddwr hwn farw yn 1666.

† Nid yw Gwysaney yn mhell o'r Wyddgrug; hen dŷ o'r fath mwyaf parchus, ac yn sefyll mewn lle prydferth: yr oedd yn ddigon cadarn i osod gwarchawdlu ynddo yn ystod y rhyfeloedd cartrefol; ond cymerwyd ef Ebrill 12fed, 1645, gan Syr William Brereton. (*Whitelock*, 142.)

‡ Willis's Bangor, 341. Cathedrals, i. 521. Athenæ Oxon, i. 682.

Digitized by Google

nghydag eiddo esgobaeth Llanelwy; ac uwchlaw hyny gerfiad, *Robtus pmussione Divina Ep'us* ASSAV.* Y mae angel yn cynal un pen; ac esgob y pen arall.

Y mae beddargraff y parchedig Ddoctor Wynne, yr hwn a gyfansoddwyd ganddo ef ei hun, amryw flynyddoedd cyn ei farwolaeth, yn teilyngu ei gyhoeddi.

WILLIAM WYNNE o'r Tŵr, D.D.

Am dymhor yn gymrawd o goleg yr Holl Eneidiau, Rhydychain, a pheriglor Llanfechan yn yr esgobaeth hon. Ymadawodd â'r bywyd hwn† oed† Mewn cydymffurfiad â hen arferiad, oddiar barch priodol i weddusrwydd, a gofal am iechyd ei gydgreaduriaid, tueddwyd ef i roddi cyfarwyddiadau arbenig am iddo gael ei gladdu yn y fynwent gyfagos, ac nid yn yr eglwys.‡ Ac yn gymaint a'i fod yn dirmygu gwenieithio i ereill tra yn fyw, y mae wedi gofalu am atal i neb wenieithio iddo yntau ar ol ei farw, trwy beri i'r cof-faen bychan yma gael ei osod i fyny yn ystod ei fywyd. Dduw, bydd drugarog wrthyf fi, bechadur! Heb DDUW, heb ddim §

Yn ddiweddar cloddiwyd i fyny yn y fynwent gareg ag arni y cerfiad yma

Fundamentum
Ecclesiæ Christus.
1597.
W. H. Eps.‖

Yr esgob hwn ydoedd William Hughes, yr hwn a fu farw yn 1600 Rhaid fod y cerfiad ar ryw gareg a ddefnyddiwyd mewn rhyw adgyweiriadau, oblegyd yn ddiau sylfaenwyd yr eglwys oddeutu yr amser a nodir genyf fi.

*Bryn y beili.*] Yn mhen gogleddol y dref y saif y bryn oddiwrth ba un y derbynia ei henwau Prydeinig a Lladin, sef YR WYDDGRUG a MONS ALTUS, *y bryn uchel neu amlwg*. Y mae hwn mewn rhan yn naturiol, ac mewn rhan yn gelfyddydol. Ein hynafiaid Prydeinig, ac ar ol hyny y Sacsoniaid a'r Normaniaid, gan gymeryd mantais ar fryn oedd mor hawdd ei wneyd yn ddiffynadwy, a'i torasant i ffurf, ac a adeiladasant gastell arno. Y mae yn ddigon tebyg y gallai fod gan y Rhufeiniaid hefyd rywbeth i'w wneyd âg ef; oblegyd cafwyd bathodyn aur prydferth o eiddo Vespasian ynddo: ond gan mai dyma yr unig brawf iddo fod yn eu meddiant, ni bydd i mi bwyso dim pellach nag awgrymu y posiblrwydd: gan fod yr Wyddgrug yn nghymydogaeth llaweroedd o'u mwngloddiau, a manau lle y mae llawer o'u bariau wedi eu cael.

Gelwir y bryncyn yn bresenol yn Fryn y Beili, oddiwrth y gair *Ballium*, neu fuarth y castell. Ymddengys ei fod wedi cael ei amddiffyn yn gadarn gyda ffosydd mawrion, er fod yr esgynfa mor anhygyrch. Cynwysa dair rhan:

* "Robert, trwy ganiatâd Duw, esgob Llanelwy."

† Bu farw Mawrth 3ydd, 1776, yn 77 mlwydd oed. Y mae y manau gweigion uchod wedi eu llanw i fyny felly.

‡ Doctor Verheyen, meddyg yn Louvain, a symbylid gan yr un ogwyddor ddyngarol. Bu farw yn 1710, gan adael ar ei ol y beddargraff canlynol:—"Partem sui materialem hic in cœmeterio condi voluit, ne templum dehonestaret, aut nocivis halitibus inficeret." *Keysler's Travels*, i. Letter xxx. p. 279. Quarto Edit. Dymunai "ar fod i'w gorph gael ei gladdu mewn bedd o briddfeini, rhag iddo anurddo yr eglwys, neu ei llygru â nwyon neu fygdarth afiachus."

§ Ychydig flynyddau yn ol, helaethwyd yr eglwys, ac y mae bedd y Doctor Wynne yn bresenol oddi fewn i'r adeilad. T. P.

‖ "Syfaeniad Eglwys Crist, 1597. W. H. esgob."

Digitized by Google

y *Ballium*, neu y buarth isaf; yr uchaf; a'r amddiffynfa, neu y *Donjon*. Y mae pen uchaf y ddau flaenaf wedi cael eu lefelu gan gelfyddyd; a gwahanir y cwbl gan ffosydd dyfnion. Yr oedd yr amddiffynfa yn sefyll ar le a ddyrchafasid yn uchel gan law celfyddyd; ac o amgylch ei ymylau y mae ychydig o geryg, unig olion yr hen adeilad. Ar un ochr i'r buarth uchaf cafwyd wmbreddau mawrion o esgyrn, rhai o honynt yn esgyrn dynion; ereill yn esgyrn anifeiliaid, gan mwyaf yn rhai dofion, megys ychain, defaid, ceffylau, a moch, ac ychydig weddillion o gyrn ceirw ac iyrchod.

Oddiar gopa y bryn yma ceir golygfa gyfyngedig, ond tra phrydferth, o'r dyffryn amgylchynol; ac ar du y gorllewin, ymgyfyd Moel Famma,* gydag amlygrwydd arswydus yn mhlith mynyddoedd Clwyd.

Yr hanes sicr cyntaf a allaf gael am y lle hwn ydyw yn nheyrnasiad Gwilym Goch, pan yr oedd yn meddiant Eustace Cruer,† yr hwn y pryd hyny a dalai warogaeth am yr Wyddgrug ac Ystrad Estyn; efe, fe ddichon, oedd y person a'i treisiodd o feddiant ei hen berchenogion.

Yn niwedd teyrnasiad Harri I., neu ddechreu un Stephan, Robert, yr hwn a elwid, ar gyfrif ei fod yn preswylio yn y lle hwn, *de Montalto*, uchel oruchwyliwr Caerlleon, ac un o farwniaid yr ieirll Normanaidd, a ddaeth yn berchenog arno. Hysbysir ni fod y castell y pryd hyny yn dra chadarn; ac iddo gael ei warchae yn fynych; ond na chafodd ei gymeryd, hyd oni ddarfu i'r Cymry, heb fod yn alluog yn hwy i oddef anrheithiadau y gwarchawdlu, wneyd ymgais, yn 1144, i'w ddarostwng, o dan arweiniad eu tywysog dewr Owain Gwynedd. Y gwarchawdlu, am yspaid maith, a amddiffynasant y lle gyda gwroldeb mawr; ond o'r diwedd cymerwyd ef drwy ruthr; llawer o'i amddiffynwyr a laddwyd, a'r gweddill a gymerwyd yn garcharorion, a gwnaed yr amddiffynfa yn gydwastad â'r llawr.‡

Adferwyd ef drachefn ar ol hyn; oblegyd yr ydym yn cael yn *æræ Cambro-Britannicæ*,§ iddo gael ei gymeryd yn ngauaf 1198, gan Lewelyn ap Iorwerth; ac oddeutu y flwyddyn 1267, cafodd ei warchae, a'i gymeryd y drydedd waith, a'i chwalu yn llwyr gan Gruffydd ap Gwenwynwyn, arglwydd Powys.

Boneddigion Ystrad Alun oeddynt yn mhlith y rhai penaf a gwynent oherwydd yr anrheithiadau a wneid arnynt gan Roger de Clifford, ynad Caerlleon, a'i is-swyddog Roger Scrochil, ychydig amser cyn ein darostyngiad gan Iorwerth I. Tystient fod eu tiroedd yn cael eu cymeryd oddiarnynt; eu bod yn cael eu dirwyo yn drwm ac yn anghyfiawn ganddynt ar yr achlysuron mwyaf dibwys; a'u bod, ar ol talu swm o arian am gael bod yn rhydd oddiwrth y cyfreithiau Seisonig, yn gorfod ymostwng i gymeryd eu profi trwy reithwyr, neu gan ddeuddeg o ddynion, yn groes i ymarferion eu gwlad.‖

Yr oedd rhan helaeth o'r wlad, yn y teyrnasiad hwn, wedi ei gorchuddio yn gymaint gan goedwigoedd, fel yr oedd Iorwerth, cyn darostwng Cymru, yn gorfod tori mynedfa trwyddynt, yn y rhandir rhwng y Wyddgrug a'r lle a

* Nid oes un amheuaeth nad y sillebiad cywir ydyw *Moel Fammau*, Mynydd y Mammau; y boneddigesau hyny oeddynt o ddosparth y *Matres* dwyfol, y rhai a addolid ar un adeg gan y Celtiaid, yn enwedig y Gauliaid: gwel hefyd *Elton's Origin of English History* (London, 1882,) p. 264. J.R.

† Powel, 151.

‡ Yr unrhyw, 199.

§ Yn niwedd "Commentariolum" Mr. Llwyd, 157.

‖ Powel, 356.



Digitized by Google

elwid y pryd hyny *Swerdewood;* a gorchymynai nad oedd dim i gael ei dalu am y niwaid a wneid trwy hyny i'r perchenogion.* Yr ydwyf yn cael ei fod wedi galw am nifer o gymynwyr coed i'r perwyl hwn; ac yn y flwyddyn ganlynol, ni chafodd dim llai na dau gant o gymynwyr a glowyr *(carbonarii)* eu gwysio o goedwig Dean, a sir Henffordd, o dan lywyddiaeth Gilbert de Clare, iarll Caerloyw.

Yn y flwyddyn 1322, Syr Gruffydd Llwyd, boneddwr dewr, yr hwn a wnaethid yn farchog gan Iorwerth I., am iddo ddwyn y newydd am enedigaeth ei fab, Iorwerth o Gaernarfon; a'r hwn, ar ol ein darostyngiad, a ymlynodd wrth y Saeson, hyd nes y daeth i gredu fod eu hiau yn anoddefol; cyfododd mewn arfau, anrheithiodd holl Ogledd Cymru a'r Mers, ac yn mysg manau ereill, gwnaeth ymgais i gymeryd y castell hwn; ond bu yn aflwyddiannus; cafodd ei orchfygu, a'i gymeryd yn garcharor.†

O'r amser yma, nid ydym yn clywed am y lle fel amddiffynfa. Y mae Matthew Paris a Dugdale‡ yn ei gamgymeryd am gastell Pen-ar-lâg, a haerent iddo gael ymosod arno, a'i gymeryd hefyd, gan Ddafydd, brawd y Llywelyn olaf. Parhaodd y Wyddgrug§ yn meddiant olynwyr Robert, yr hwn a wnaeth warogaeth am dano yn 1302, i Iorwerth, tywysog Cymru yn Nghaerlleon; ond yn 1327, y barwn diweddaf, gan na feddai etifedd gwrryw, a'i trosglwyddodd i Isabel, brenines Iorwerth II., am ei bywyd; ac wedi hyny i John o Eltham, brawd ieuengach i Iorwerth III.; bu hwn farw yn ddiblant, ac aeth ei feddiannau i'r goron.

Pa mor hir y bu yr arglwyddiaeth yma yn meddiant y goron, nid wyf yn sicr. Yr wyf yn gweled iddi gael ei chaniatâu i deulu Stanley, efallai Syr John Stanley, gan Harri IV., ar yr un adeg ag y rhoddodd iddo Estyn ac Ystrad Estyn. Bu yn meddiant ieirll Derby hyd ddienyddiad yr iarll Iago; ar ol hyny, pwrcaswyd maenor Estyn a'r Wyddgrug gan amryw bersonau, y rhai a fuont yn eu mwynhau hyd yr Adferiad; ar ol hyny gwnaed cais gan ei fawrhydi, yn 1662, at yr arglwyddi, am adbryniad y maenorau hyn gan iarll Derby; yn mha un y cydsyniai ei arglwyddiaeth i dalu i'r pleidiau, ar y 26ain o Fawrth, 1664, y swm o 11,000*l*, ac i gael llawn feddiant o'r lle. Tybiai yr arglwyddi fod pobpeth wedi ei orphen; ond trwy i iarll Derby wrthod cyflawni ei ran ef o'r peth, gosodwyd y mater o flaen y brenin; yr hwn, y 14eg o Chwefin, 1664, a orchymynodd i'r cynbrynwyr gael aros mewn meddiant tangnefeddus o'r lleoedd. Darfu i deulu Derby, rywsut neu gilydd, adenill meddiant o arglwyddiaeth Estyn; ond y mae un y Wyddgrug yn bresenol‖ yn meddiant y foneddiges Vincent. Y mae enillion mwneiol y faenor, y rhai,

* Rotuli Walliæ, 75, Anno 9 Edward I. Cawn archiad cyffelyb yn Rymer.

† Powel, 383. Wynn, 313. ‡ M. Paris, 885. Dugdale Baron. i. 527.

§ Rhoddwyd y Wyddgrug, ynghyda Phen-ar-lâg, i Syr Thomas Stanley, gan Harri VI. yn 1443. Syr Thomas a wysiwyd i'r senedd, fel barwn Stanley, yn 1456, a bu farw yn 1459, pryd y dylynwyd ef gan ei fab mwy nodedig Syr Thomas Stanley, wedi hyny iarll Derby. Yn 1484, Rhisiart III. a roddodd "gastell, maenor, ac arglwyddiaeth Estyn," ynghyda nifer o faenorau ereill, ac amryw diroedd, yn sefyll mewn gwahanol siroedd, i'r pendefig hwn. Mewn canlyniad i'r iaith o ddullwedd neillduol a ddefnyddiwyd yn rhoddiad Rhisiart III. y cafodd maenor Estyn ei adfeddiannu yn 1680, gan yr iarll Derby ar y pryd, ar ol cyfraith hir gyda Mr. John Trevor. Y mae hanes cyflawn am yr achos yn cael ei roi gan Syr T. Raymond, dan yr enw *Murray v. Eyton.* T. P.

‖ Prynwyd yr arglwyddiaeth yn ddiweddar gan Syr Thomas Mostyn, o feddiant ei frawd-ynghyfraith, Thomas Champneys, ysw. Gol.

Digitized by Google

ar ryw adegau, ydynt wedi bod yn dra helaeth, yn cael eu rhanu yn gyfartal cydrhwng y foneddiges hon, y *Trevors*, a John Lloyd, ysw., o Hafodunos.

Wrth ymadael o'r Wyddgrug,* cymerais yr ochr orllewinol i'r dyffryn; rhandir ag sydd yn llawn o balasau lluosog boneddigion o amgylchiadau annibynol, hyd yma heb gael eu dal na'u llyngcu yn nhrobwll dwfn ein pendefigaeth. Y rhai hyn ydynt weddillion yr arferiad o ranu tiroedd y tad rhwng y meibion, yr hyn oedd mor gyffredin gynt yn Ngogledd Cymru, a'r rhai sydd yn aros yn anniwygiedig gan y damweiniau hyny, trwy amser neu ffawd, a ddygwyddant i laweroedd. Troais ychydig ar y llaw ddehau i weled pyrth ysplenydd *Leeswood* (Coed llai,) preswylfa y diweddar Syr George Wynne,† barwniad: ac i fyny

*Y Tŵr.*

ychydig yn uwch, i'r Tŵr, i fwynhau ymgom ffraeth, fywiog, a boddhaol y Parchedig Ddoctor William Wynne (yr hwn sydd yn awr wedi ein gadael.) Yr oedd y boneddwr hwn yn un o'r sawl a ddyogelasant eu trefdadaeth oddiwrth linell hirfaith o hynafiaid, heb lawer o gynydd arni, ac heb ei hamharu hefyd. Bychan yw y tŷ; ond y mae rhan o hono yn esiampl gywir o'r tai a fodolent ar gyffindiroedd Lloegr ac Ysgotland: tŵr ysgwâr o dri uchder llofft. Yn y rhan isaf o hono y mae ystwffwl mawr yn aros o hyd yn y nenfwd, yn arwyddluniol o farbareiddiwch yr amseroedd. Yn ystod y rhyfeloedd rhwng tai Caerefrog a Lancaster, yr oedd y lle yma yn cael ei breswylio gan Reinallt ap Gruffydd ap Bleddyn, un o'r chwe' chadben gwrol a fu yn amddiffyn castell Harlech yn mhlaid Harri VI. Yr oedd efe a'i bobl yn barhaus mewn ysgarmesau â dinasyddion Caerlleon. Yn 1465, daeth nifer o'r diweddaf i ffair y Wyddgrug; aeth yn ysgarmes rhwng y ddwyblaid; lladdwyd llawer ar bob ochr; ond Reinallt a gafodd y fuddugoliaeth; cymerodd yn garcharor Robert Bryne, llieiniwr, a fuasai yn faer Caerlleon yn 1461, yr hwn a arweiniwyd ganddo i'w dŵr, a chrogwyd ef gerfydd yr ystwffwl mawr yn y neuadd. Gwnaed ymgais ar ol hyny i gael gafael ar Reinallt; a daeth dau cant o wŷr grymus o Gaerlleon yno gyda'r amcan hwnw. Yntau a enciliodd i goedwig gyfagos, gadawodd i nifer fawr o'r gelynion fyned i mewn i'r tŷ; yna rhuthrodd allan o'i loches, a sicrhaodd y drws; ac wedi rhoddi y lle ar dân, efe a'u llosgodd yn ddidrugaredd: wedi hyny, ymosododd ar y gweddill, a dylynodd hwy i lan y môr, a'r rhai a ddiangasant rhag y cleddyf, a foddwyd yn y dyfroedd. Derbyniodd Rheinallt ei bardwn gan Thomas, arglwydd Stanley, arglwydd cynghorfa Cymru, yr hyn a gadarnhawyd wedi hyny o dan y sêl fawr gan Iorwerth IV. Y mae ei orchestion wedi eu cadw ar gof gan feirdd yr oes hono, mewn caniadau ag ydynt ar gael hyd heddyw; yn enwedig gan Lewis

* Ceir hanes am y ddwyfroneg aur a gafwyd yn agos i'r Wyddgrug, yn yr *Arch. Camb.* am 18[illegible]. tudal. 98. T. P.

† Syr George Wynne, yr hwn a grëwyd yn farwnig yn 1731, "a enillodd gyfoeth trwy waith plwm, yr hwn, mewn ugain mlynedd, a gynyrchodd 360,000*l*. Yr arian yma a wariodd efe mewn pob math o afradlonedd, etholiadau, sychu cors ac adeiladu ei dŷ arni, yr hwn a saif yn hyfryd o dan gysgod bryn, gyda gerddi da, a phâr o *gates* o haiarn gyru, wedi eu gwneyd gan yr un llaw ag a wnaeth rai Castell y Waun." *(Gough's Camden.)* Yr oedd Richard Wilson, yr arlunydd, yn berthynas i deulu y Wynne yma o Goed llai, a Syr George Wynne a'i cymerodd, pan yn dra ieuangc, i Lundain, ac a'i cynorthwyodd ef i ddysgu ei alwedigaeth. Wilson ar y cyntaf a ymarferai baentio portreadau, ond yn ystod ymweliad hirfaith a dalodd âg Italy, efe a ddarganfu beth oedd gwir deithi ei athrylith, ac a ddaeth yn baentiwr *landscapes*. Nid oedd ei deilyngdod mawr yn cael ei werthfawrogi yn briodol gan ei gydoeswyr, ac efe a enciliodd i Gymru, a threuliodd y rhan olaf o'i oes yno. Claddwyd Wilson yn mynwent y Wyddgrug, Mai 15fed, 1782. T. P.

Digitized by Google

Glyn Cothi, mewn Awdl* ganmoliaethol i Reinallt. Ymddengys fod Lewis wedi priodi gwraig weddw yn Nghaerlleon, yn groes i ewyllys y trigolion; y rhai a'i hyspeiliasant o'r oll a feddai. Miniodd hyn awen ddychanol y bardd: "Gwysia weinidogaeth angylion a diafliaid i'w gynorthwyo; a bwria helaethrwydd o fellditbion ar Gaerlleon a'i thrigolion. Dymuna ar fod i'r dwfr foddi, y tân losgi, a'r awyr lygru y fangre atgas; ac fod i laswellt dyfu yn mhob rhan o'r breswylfa hon o eiddo y saith bechod marwol."

Yr oedd y Tŵr, yn yr hen amser, yn cael ei alw ar enw yr arwr hwn. Gelwid ef hefyd *Bryncoed*, oddiwrth y coed a'i hamgylchynai, fe ddichon. Yn amser Leland, preswylid ef gan John Wynn ap Robert.

Disgynais i waered i fy ffordd flaenorol: aethum heibio i Bentrehobin, hen dŷ parchus a adeiladwyd yn 1540, eiddo Trevor Llwyd, ysw.† Y boneddwr hwn, a'r Llwydiaid o *Farn* (yn awr wedi darfod,) yr hwn oedd dŷ oddeutu tair milldir yn uwch i fyny y dyffryn hwn, a ddisgynent oddiwrth Edwyn arglwydd Tegengle, gan yr hwn yr oedd nifer luosog o ddisgynyddion yn y parth hwn, a rhanau ereill o sir Fflint. Aethum heibio i wely yr afon *Terrig*, neu yr afon wyllt; ar y pryd nid oedd ond afonig fechan; eithr ar brydiau ymchwydda gyda chynddaredd ofnadwy. Wedi gadael ei gwely, aethum heibio i *Leeswood* (Coed llai,) preswylfod hynafol fy nghâr, Thomas Eyton, ysw.‡ Yr oedd *Dafisiaid* Gwysaney, *Wynniaid* y Tŵr, a'r teulu yma, yn hanu o Cynrig Efell, mab i Fadog ap Meredydd, tywysog Powys isaf.§ Gelwid ef yn arglwydd Eglwyseg; ac yr oedd ganddo heblaw hyny, fel ei gyfran, Ystrad Alun, a'r Treuddyn yn mhlwyf y Wyddgrug; y rhai, trwy yr arferiad o ranu tiroedd, a ddaethant yn rhanedig yn mysg ei ddisgynyddion; ac y mae y teuluoedd hyny yn mwynhau cyfran o'r rhai hyn hyd heddyw.

*Terrig.*

Yn mhellach yn mlaen y saif *Hartsheath*, palasdy Gwilym Lloyd Wardle, ysw., yr hwn a ddisgynai, yn y llinach fenywaidd, o Lwydiaid yr un lle, o gyff Edwyn. Catherine Lloyd, merch ac etifeddes ——Lloyd|| o Hartsheath, ysw., a briododd, cyn y flwyddyn 1681, ryw berson a alwai ei hun yn Syr John Gwilym; arfera pobl y wlad ei alw yn fab i Oliver Cromwell. Defnyddiai baisarfau Gwilym yn union fel y maent yn achyddres Gwilym, gan ddal ei afael yn eiddo *Hatheway*, ac ychwanegu rhai *Lloyd*, ac yn ambriodol cymer i fyny y llaw waedlyd, oblegyd ni fu erioed farwniad o'i enw ef. Y mae genyf ei sêl yn fy meddiant, wedi ei gosod wrth lythyr o'i waith, ac yn ysgrifenedig â llaw deg, dyddiedig Mehefin 6ed 1681; ei arwyddair oedd, *Spes potentior viribus.* Claddwyd ef Ionawr 17eg, 1689, a hithau, Chwefror 5ed, 1739, ill dau yn nghladdfa deuluaidd y Llwydiaid yn eglwys y Wyddgrug. Cedwir portread haner hyd rhagorol o hono ef yn *Hartsheath*. Y mae y palasdy yn sefyll yn

* Y gwahaniaeth rhwng Cywydd ac Awdl ydyw hyn: y mae y cyntaf yn cynwys cyplau seithsill o hyd: tra y mae yr olaf yn cynwys penillion o amryw hydau o fesurau: rywbeth ar ddull un o awdlau *Pindar*.

† Yn awr yn eiddo Rice Thomas, ysw., Coed Helen, ger Caernarfon, yn hawl ei wraig, chwaer i Trefor Llwyd, ysw. GOL.

‡ Yn bresenol yn breswylfod ei nai, y Parch. Hope Wynne Eyton.—GOL.

§ Bu Madog farw yn 1160.

|| Enw tad y foneddiges a briododd Syr St. John Gwilym, yn ol Reynolds, oedd Edward Lloyd. Yn 1697, yr arglwyddes Gwilym a briododd â Richard Lloyd, ysw. Dywed Reynolds ei bod yn fyw, ac oddeutu 120 mlwydd oed, yn 1738. T. P.

Digitized by Google

brydferth ar esgyniad tir hirfaith ar ochr y dyffryn, yn llawn o goedydd heirdd ac o dan ddiwylliant rhagorol. Saif ar y pen deheuol, a medda olygfa dra phrydferth ar y dyffryn; yr hwn a renir gan graig unigol Caergwrle, yn ymddyrchafu allan o hono, gydag adfeilion hen gastell ar ei chrib.

*Plas-teg.*] Ychydig yn mhellach i fyny y dyffryn y saif *Plas-teg;* tŷ nodedig, a pherthyna i'r *Trevors;* ond yn awr, ac er's llawer o flynyddoedd, ffermwyr sydd yn preswylio ynddo.* Daeth i feddiant y *Trevors* trwy briodas Robert Trefor, o Frynkinallt, gyda Katherine, ferch i Llewelyn ap Ithel o'r Wyddgrug a'r Plas-teg. Y mae wedi ei adeiladu gyda rheoleidd-dra mawr, ac ardderchogrwydd syml. Yn y canol y mae neuadd 43 troedfedd o hyd wrth 23 o led; y grisiau ydynt eang; ac uwch ben y mae ystafell giniawa o'r un maintioli a'r neuadd, ac yn 12¾ troedfedd o uchder. Yn mhob congl o'r tŷ y mae aden neu dŵr ysgwâr, yn cynwys (megys ag y gwna y canol) bump o uchderau. Yn mhob un y mae ystafell 22½ troedfedd wrth 19½ troedfedd; ac oddifewn i bob un o'r ystafelloedd hyn y mae *closet* o dair troedfedd ar ddeg a saith modfedd ysgwâr.

Adeiladwyd y tŷ yn 1610, gan Syr John Trevor,† ail fab i gangen o Drefalun. Priodolir ei gynlluniad i Inigo Jones; ond yr wyf yn amheu y traddodiad. Y mae yn amddifad o addurniadau *Grecian-gothic* ei ddyddiau gwaethaf, ac o rai Groegaidd pur ei ddyddiau goreu.

*Caergwrle.*] Oddiyma aethum yn mlaen ar fy nhaith i *Gaergwrle,* pentref ar lanau yr Alun, yn mhlwyf Estyn, ffurf pa un a ddengys ar unwaith iddo fod ar un adeg yn orsaf Rufeinig, yr hyn a genfydd llygad yr hynafiaethydd yn amlwg, oddiar grib y graig gyfagos, lle y safai y castell. Arddengys y terfynau eu bod yn gywironglog, a ffurfid un ochr gan y llechwedd ar hyd glanau yr afon. Yma eto y mae yr hen drefn o dair o heolydd llydain yn cydredeg â'u gilydd, a thair o rai culach yn eu croesi mewn cywironglau. Nid oedd ar y goreu ond lle bychan, math o ragorsaf i Deva; ond er hyny meddai

*Rhufeinig.*] holl ddylynyddion arferol moethusrwydd y Rhufeiniaid. Yn amser Camden (1606) darganfyddwyd *twymystafell* yn agos i'r lle, bum' llath o hyd, pedair llath o led, a haner llath o uchder, wedi ei thori allan o'r graig galed. Y llawr ydoedd o briddfeini wedi eu gosod mewn morter; a chynwysai briddlechau caboledig wedi eu trydyllu; ar y rhai hyn gosodasid rhywogaeth o bibellau priddfeinig y rhai a drosglwyddent y gwres i'r ystafell uwch ben. Ar rai o'rpriddlechau hyn yr oedd yn gerfiedig LEGIO XX,‡ yr hyn a ddengys pwy oedd y sylfaenwyr. Clywais hefyd ar sail dda, fod priddfeini Rhufeinig wedi eu cael yn adfeilion hen balasdy Estyn, preswylfod teulu o'r enw Hope. Clywais hefyd fod gwelyau helaeth o ludw haiarn wedi cael eu darganfod yn agos i Gaer Estyn yn y plwyf hwn, lle y tybir y safai gweithfeydd y Rhufeiniaid.

*Ffyrdd.*] Heblaw y profion hyn, y mae yma olion o ffordd Rufeinig, yn cyfeirio o'r pentref tua'r Wyddgrug, ac y mae yn weladwy mewn dau neu dri o fanau; yn enwedig yn y caeau ar y tu deheuol i'r Plas-teg. Tybiaf

* Ei berchenogion diweddar, Arglwydd ac Arglwyddes Dacres, a ychwanegasant gryn lawer at yr hen balasdy, a phreswylient yno yn achlysurol. Y mae yn awr yn meddiant —— Roper, Ysw. Gor.

† Beddargraff yn eglwys Estyn.

‡ Camden, ii. 828.

Digitized by Google

fod rhan o'r ffordd bresenol yn ddarn o'r un Rufeinig. Y mae bryncyn celfyddydol yn sefyll yn gyfagos i'w rhediad. Y mae ffordd arall yn cyfeirio tua Phen-ar-lâg, yr hyn sydd yn cryfhau fy nhybiaeth fod y fan hono hefyd yn fath o ragorsaf Rufeinig. Yn gymaint a bod y gair *ystryd* (strata) yn gyffredin yn arwydd o ffordd Rufeinig, gallai fod yno drydedd ar yr ochr nesaf i Wrecsam o Gaergwrle; oblegyd yr ydym yn cael ar y ffordd hono, *Groes yr ystryd*, yn myned tros le a elwir Cefn y Bedd, ac yn arwain i'r castell. Yr oedd y ffyrdd hyn yn ffurfio mynedfa at rai o'r parthau mwneiol o Gymru, lle y mae arian Rhufeinig wedi eu cael.

Y mae Mr. Edwards yn cynyg tybiaeth dra ffodus gyda golwg ar darddiad enw y lle hwn. *Caer Gawr Lle,** neu wersyll *Lleon Gawr;* oblegyd byddai y Brytaniaid yn arfer rhoi yr enw hwnw ar yr ugeinfed leng, i ddangos ei nerth; ac y mae yn gyfystyrol â *Victrix,* gan roddi iddi nerth cawr.†

Yr oedd y lle hwn, yn rhaniad Cymru gan Rodri Fawr, yn ffurfio rhan o Gantref y Rhiw. Pan oresgynodd y Sacsoniaid ein cyffiniroedd, gosodasant ef yn eu cantref a alwent Exestan, ac ychwanegasant ef at sîr Gaerlleon. Yr ydym yn cael yn y *Doomsday Book,* fod Estyn (yr hon a ddyry yr enw i'r plwyf) yn cael ei dal ar yr adeg hono gan un o'r enw Gislebert; cyn hyny gan Edwevin, yr hwn oedd rydd-ddeiliad. Mewn amseroedd dylynol, adnabyddid y rhandir hon wrth yr enw Ystrad Estyn. Pan ranwyd Cymru yn siroedd gan Iorwerth I., cysylltwyd hi â sîr Fflint; ond gwahanwyd hi oddiwrthi gan Harri VIII., ac ychwanegwyd hi at sîr Ddinbych; ond yn ystod yr un teyrnasiad, adferwyd hi drachefn i'r sîr gyntaf a enwyd. Y mae yn dybiaeth gyffredin yn y wlad, fod y symudiad olaf wedi cael ei ddwyn oddiamgylch trwy ddylanwad iarll Derby, er mwyn cael ei holl etifeddiaethau Cymreig yn yr un sîr; oblegyd, ar yr adeg hono, yr oedd y teulu yn feddiannol ar Ben-ar-lâg, Ystrad Alun, a'r faenor hon; y rhai a roddasid, ar y dydd cyntaf o Ionawr, 1401, gan Harri IV. i Syr John Stanley.‡ Yr oedd y teulu, ar yr adeg hon, mewn meddiant o arglwyddiaeth Maelor Saesoneg, yr hon ydoedd yn rhan o sîr Fflint er yr amser y cawsai ei gwneyd yn sîr. Yr unig faenor ag y mae iarll Derby yn ei feddiannu yn bresenol yn Nghymru ydyw maenor Estyn. Yr wyf yn cael fod Rhisiart II., yn 1388, wedi rhoddi tiriogaeth Estyn ac Ystrad Estyn, i John de Holland iarll Huntingdon,§ arglwydd o'r fath mwyaf galluog; ond yr hwn, ar ol i'w feistr gael ei ddiswyddo, a ddienyddiwyd gan y bobl yn Plessy, yn swydd Essex.

*Castell.*] Safai castell Caergwrle ar grib craig anferthol, anhygyrch ar un ochr, ac o esgyniad tra anhawdd ar yr ochrau ereill. Y mae rhai o'r muriau, a rhan o dŵr crwn yn aros o hyd, ac y maent yn ddigon i ddangos

* Y mae hyn yn gwbl amhosibl, oblegyd nid yw Caer Lleon Gawr ond *Chester,* a'i ystyr lythyrenol ydyw, Castell Lleon y Cawr. Y mae *Lleon,* yr hwn mewn gwirionedd nid yw ond y Lladin *legion,* yn cael ei gymeryd fel enw dyn, yr hwn a elwir yn mhellach yn *gawr:* mor drwyadl y mae Lleon wedi cael sefydlu ei gymeriad personol, fel yr ymddengys, yn ei gŵrs priodol, mewn Geirlyfr o Gymry Enwog. Nis gallai, mewn un modd, fod y gair Cymraeg am *Victrix.* J. R.

† Dyma a gynyrchodd y chwedl fod Caerlleon wedi cael ei hadeiladu gan *Lleon Gawr.* Y mae Camden, mewn camgymeriad, yn galw y lleng yn *Lleon Fawr.*

‡ Rhoddwyd Pen-ar-lâg ac Ystrad Alun i Syr Thomas Stanley, wedi hyny yr arglwydd Stanley cyntaf, gan Harri VI., ar y 14eg o Hydref, 1443. Rhoddwyd Estyn gan Rhisiart III. i'r ail arglwydd Stanley ar yr 17eg o Fedi, 1484. T. P.

§ Dugdale's Baron. ii. 78.

Digitized by Google

na fu y lle erioed o faintioli helaeth. Yn gyfagos iddo, ar y lleoedd hygyrch, amddiffynid ef gan ffosydd tra dyfnion, wedi eu tori trwy y graig. Ar yr ochr ogledd-ddwyreiniol y mae gwastadedd lled eang; ac o gwmpas ei ymyl y mae olion clawdd o bridd a cheryg, ynghyda ffos, y fath ag sydd i'w cael yn y gorsafoedd Prydeinig; gan hyny gellir tybied ei fod yn meddiant y Prydeiniaid mewn amseroedd boreuol; a'i fod wedi ei fwriadu, mewn cysylltiad â Chaer Estyn—gorsaf Brydeinig a gynwysai un gaer a ffos, ar yr ochr wrthgyferbyniol i'r dyffryn, uwchlaw y pentref—er amddiffyn y fynedfa trwy y bwlch yma i Gymru. Yma y mae y dyffryn bron a chau i fyny, heb adael dim ond prin le i'r Alun lifo trwy ei gymoedd ardebol, nes y daw eilwaith i'r tir agored yn agos i eglwys Gresford.

*Caer Estyn.*

*Sylfaenydd.*

Nis gallaf olrhain pwy oedd sylfaenydd y castell hwn. Dichon ei fod yn un o'r ychydig hen amddiffynfeydd Cymreig ag y gallwn ymffrostio ynddynt. Y mae ei ffurf hirgrwn, ei amddifadrwydd cymhariaethol o dyrau, a'i gydymffurfiad âg ereill y gwn yn dda am eu dechreuad, yn peri i mi gredu yn ewyllysgar mai gwaith ein cydwladwyr ydyw, ar ol iddynt adfeddiannu y rhandir hon. Yn nheyrnasiad Owain Gwynedd, yr wyf yn cael ei fod yn ffurfio rhan o etifeddiaethau Gruffydd Maelor.*

Dafydd, brawd Llywelyn, tywysog olaf y Cymry, a'i daliai gan Iorwerth I. Cwynai Dafydd yn fawr o herwydd y driniaeth niweidiol a gaffai gan Roger de Clifford, ustus Caerlleon, yr hwn a dorai ei goed i lawr oddeutu Estyn, ac a ymdrechai at ei yspeillo o'i hawliau.† Pan gododd mewn arfau gyda'i frawd, er ei amddiffyn, gadawodd warchawdlu yn y castell hwn; ond yn Mehefin, 1282, rhoddwyd y lle i fyny i'r penadur Seisonig. Mor gynted ag y daeth i'w feddiant, efe a'i rhoddodd, gyda phobpeth a berthynai iddo, i'w anwyl frenines Eleanor;‡ oddiwrth yr hyn y galwyd ef yn *Queen Hope*, neu Estyn y frenines. Lletyodd Eleanor yma ar ei ffordd i Gaernarfon, lle yr oedd ei phriod yn ei hanfon i roddi i'r Cymry lywodraethwr a anesid yn eu plith. Naill ai ar yr adeg hon, neu yn fuan ar ol hyny, llosgwyd y castell gan dân damweiniol.

*John de Cromwell.*

Yn 1307, y gyntaf o Iorwerth II., rhoddwyd y castell a'r maenor hwn i John de Cromwell, ar yr amod fod iddo adgyweirio y castell, yr hwn oedd y pryd hyny yn adfeilion. Yn 1317, y mae yn cael gorchymyn i godi haner cant o filwyr traed, gogyfer â'r rhyfeloedd yn Ysgotland, oddiar ei diroedd yn y wlad hon.§ Ar ol ei farwolaeth ef, yr wyf yn cael bwlch yn yr olyniaeth, hyd yr amser y daethant i feddiant Syr John Stanley.

Y mae Caergwrle, ynghydag Estyn, yn fwrdeisdref; ac mewn cysylltiad â Fflint, &c., anfona aelod i'r senedd.

*Bryn Iorcyn.*

O du y gorllewin i'r castell, ar fryn uchel, y mae *Bryn Iorcyn*, preswylfa dreftadol Ellis Yonge, ysw.,‖ yr hwn a ddisgyna o gyff ffrwythlawn y Tudur Trefor hwnw ag y soniwyd mor fynych am dano. Iorwerth, y deuddegfed mewn disgyniad, a briododd ferch i William le Yonge, o Croxton,¶ a galwodd ei blant yn ol enw eu mam, yr hyn a barhawyd ar ol hyny gan y teulu.

* Powel, 211. † Yr unrhyw, 350. ‡ Ayloffe's Rot. Walliæ, 87.
§ Dugdale's Baron. i. 44, 45. Rotuli Scotiæ, 136.
‖ Y mae yn awr wedi marw. GOL. ¶ Salusbury Pedigree, 36. b.

Digitized by Google

*Estyn.*] Yr oedd gan Llewelyn ap Dafydd ap Meredydd, disgynydd o Ynyr o Iâl, etifeddiaethau yn y plwyf hwn, y rhai a fforffediwyd yn nheyrnasiad Harri IV., am ei ymlyniad wrth Owain Glyndwr, a rhoddwyd hwy i Jenkin Hope, gorwyr i Hugh Hope o Ben-ar-lâg.*

Rhenir y plwyf gan yr afon Alun; y mae pentref ac eglwys Estyn yn sefyll *Eglwys.*] oddeutu milldir oddiwrth y castell, ar yr ochr ogleddol i'r afonig hon. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Cynfar. Y cofadeiliau mwyaf hynod, ydynt ddau o'r *Trevors* o'r Plas-teg; un o ba rai, yr hwn sydd yn y mur, sydd i Syr John Trevor, marchog, sylfaenydd y tŷ hwnw, ac ysgrifenydd i iarll Nottingham, yr hwn a fuddugoliaethodd ar yr *armada* anorchfygol, a llywydd y llynges yn nheyrnasiad Elizabeth ac Iago I. Bu farw yn ei balas yn y gymydogaeth, yn 1629, yn 67 mlwydd oed.

Y mae y llall hefyd yn y mur; gyda dau ffugur yn penlinio: y dyn mewn gown, a chrychdorch am ei wddf; a'r foneddiges gyda chadach dros ei gwddf. Nid oes yma unrhyw gerfiad; ond oddiwrth y pais-arfau ymddengys ei fod yn perthyn i un o'r Trevoriaid.

*Siartr.*] Y siartr gyntaf a roddwyd i Estyn ydoedd gan Iorwerth y Tywysog Du, yr hwn a amserir o Gaerlleon, yn y bummed flwyddyn ar hugain o deyrnasiad ei dad, neu 1351. Y mae efe yn erchi fod cwnstabl y castell ar y pryd i fod yn faer, yr hwn, ar ol derbyn y sacrament, ydoedd i dyngu ar yr efengylwyr sanctaidd, y byddai iddo ddyogelu rhagorfreintiau y bwrdeisiaid, fel y caniateid hwy yn y siartr hwnw; ac fod iddo, ar ddydd gwyl Fihangel yn mhob blwyddyn, ddewis dau o honynt yn isfaerod. Y mae yn ychwanegu braidd yr oll o'r manteision ereill a ganiateid yn siartrau yr amseroedd hyny; yr oll o ba rai a gadarnhawyd wedi hyny gan Richard II.†

Y mae digonedd o galchfaen yn cael eu llosgi yn galch ar fryn Caergwrle, yr hwn sydd fynydd uchel o'r math hwnw o faen; o ba le y mae swm aruthrol yn cael ei gludo i sir Gaerlleon. Yn agos i'r pen uchaf fe geir, mewn daear *Entrochi.*] rydd, niferi o'r cyrph hyny a elwir *entrochi*, o rywogaeth ryfedd ac anghyffredin, gyda chymalau crynion a chnyciog. Barna cloddwyr mai darnau ydynt o ryw rywogaeth o fôr-ser wedi troi yn bren, canghenau y rhai sydd yn ymdebygu i'r sylweddau hyn.

Mewn hen amseroedd, torid meini melinau allan o'r graig ar ba un y saif y castell, yr hon a gyfansoddir o gerygos mân wedi eu dysodi mewn grutfaen.

Ar etifeddiaeth *Rhyddyn*, yr hon a berthyna i Syr Stephen Glynne,‡ yn *Ffynhonau heilltion.*] agos i'r Alun, y mae dwy ffynhon, y rhai ydynt wedi eu nawsio yn gryf â halen; a'r rhai, ar dywydd sych, a arferent fod yn gyniweirfa colomenod i bigo i fyny y gronynau caledion. Defnyddid y ffynhonau hyn gynt fel meddyginiaeth rhag yr ysgyrfi. Arferai y goddefwyr yfed chwart neu ddau yn y dydd; a byddai rhai yn berwi y dwfr,

* Salusbury Pedigree, p. 52, b. 67. † Sebright MSS.

‡ Yn anffodus y mae olyniad cyflym wedi cymeryd lle yn y tŷ hwn. Y mae Syr John, a'i deilwng fab Syr Stephen, wedi marw er cyhoeddiad yr argraffiad cyntaf o'r gwaith hwn; ac yn bresenol y mae parhad y teulu yn dibynu ar y maban§ Syr Stephen.

§ Y mae priodas hwn gyda merch arglwydd Braybroke, a genedigaeth Syr Stephen arall, yn argoeli parhad y teulu teilwng yma. Gol.

Digitized by Google

nes y delai i'r haner, cyn ei yfed. Y canlyniad fyddai rhyddni, cnoi yn yr ymysgaroedd, a salwch yn y cylla, yr hwn a ddiflanai mewn ychydig ddyddiau, ac yna a gynyrchai chwant bwyd rhagorol. Dyry Dr. Short hanes am wraig oedd yn y cyflwr isaf oblegyd ysgyrfi, yr hon a gwbl iachawyd trwy ymarfer dyfroedd y ffynhonau hyn.

O bentref Est yn, dychwelais yn ol ar hyd ochr ogleddol y dyffryn; aethum heibio i'r Wyddgrug; a phan oddeutu milldir i'r gorllewin i'r dref hono, ymwelais â *Maes Garmon;* llecyn sydd hyd heddyw yn dal euw y llywydd seintiedig yn y frwydr hynod, "Buddugoliaeth yr Aleliwia," yr hon a ymladdwyd yn 420, rhwng y Prydeiniaid, yn cael eu blaenori gan yr esgobion Germanus a Lupus, a bagad o Bictiaid a Sacsoniaid paganaidd a anrheithient y wlad. Dygwyddodd hyn yn wythnos y Pasg, pan oedd y fyddin Gristionogol, yn wlyb ar ol cael eu bedyddio yn ddiweddar yn yr afon Alun, yn cael eu harwain gan eu llywyddion sanctaidd yn erbyn y llu paganaidd. Garmon a'u haddysgodd i ddal sylw ar y gair a roddai efe, ac i'w ail-adrodd. Felly efe a roddodd allan ALELIWIA. Ei filwyr a gymerasant i fyny y sain cysegredig, gan ei adfynychu â'r fath nerth gorfoleddus, nes yr oedd y bryniau yn adseinio gan y cri, a tharawyd arswyd yn y gelynion fel y ffoisant ar bob ochr; niferi o honynt a laddwyd â'r cleddyf; a niferi a foddwyd yn yr afon gerllaw.*

*Maes Garmon.*

Dyna ydyw yr hanes a ddyry Constantius o Lyons, yr hwn a ysgrifenodd fywyd St. Germanus, o fewn deuddeng mlynedd ar hugain ar ol marwolaeth y sant. Y mae amheuwyr wedi gwrthwynebu y ffaith, am nad oedd y Sacsoniaid ar y pryd mewn meddiant o Frydain. Gellir addef hyny; ond y mae y dysgedig USHER yn gwrth-hyrddio yr amheuaeth, trwy sylwi yn gyfiawn, fod y bobl hyny, er's cryn lawer o amser yn flaenorol, wedi goresgyn ein hynys ar adegau, a gwneyd anrheithiadau mawrion mewn rhai manau; ac fel tyst y mae yn galw Ammianus Marcellinus;† ac at ei awdurdod ef, gallaf nodi fod y Rhufeiniaid yn cael allan yr angenrheidrwydd am osod swyddog o'r newydd i wylio eu hysgogiadau, a gwrthwynebu eu rhuthriadau.

Maes Garmon, lle y cafwyd y fuddugoliaeth nodedig hon, a saif gerllaw Rhual, preswylfa brydferth Thomas Gruffydd, ysw., ewythr yr hwn, Nehemiah Gruffydd,‡ a gyfododd golofn, er coffadwriaeth am y peth, ar ba un y mae yr hyn a ganlyn wedi ei gerfio, yn yr iaith Lladin:—

> Yn y flwyddyn 443, y Sacsoniaid a'r Pictiaid, gyda galluoedd unedig, a gychwynasant ryfel yn erbyn y Prydeiniaid, yn y parth hwn, ac hyd heddyw gelwir ef Maes Garmon. Pan ddaethant i lawr i wneyd rhyfel âg arweinyddion apostolaidd y Prydeiniaid, Garmon a Bleiddyn, Crist a ymladdodd yn y gwersyll. Llefasant oll "ALELIWIA" dair gwaith. Y fyddin wrthwynebol a lwyr orchfygwyd gan ddychryn; buddugoliaethasant, a chafodd y gelynion eu gwasgar heb dywallt gwaed. Enillwyd y fuddugoliaeth trwy ffydd, nid trwy rym arfau. Nehemiah Griffith a osododd y gofgolofn hon, er cof am FUDDUGOLIAETH Y ALELIWIA. 1786.

* Brit. Eccles. Antiquitates, 335. Paulus Diaconus, lib. xv. c. 12; a *Bedæ*, lib. i. c. 20, lle y ceir dysgrifiad o'r frwydr.

† Lib. xxvi. c. 4.

‡ Efe a gyfansoddodd gân a elwir y *Leek* (y Geninen.) T. P.

*Rhual.* Adeiladwyd Rhual yn 1634, gan Evan Edwards, ysw.,* ysgrifenydd i Rhisiart, iarll Dorset, ac aelod yn senedd 1628, dros Camelford. Mary, ei wyres, a briododd Walter Gryffith, ysw., o Lanfyllin, a throsglwyddodd yr etifeddiaeth i deulu y meddiannydd presenol. Y mae braidd yr holl balasdai a adeiladwyd yn Nghymru, o ddechreuad yr eilfed ganrif ar bymtheg hyd yr adeg pan y sylfaenwyd hwn, ar ffurf y lythyren Rufeinig H. Yr oedd y cynllun hwnw o adeilyddiaeth wedi cael ei ymarfer cyn hyny, fel y mae yn amlwg oddiwrth hen dŷ parchus Pentrehobin, a dylynwyd yr esiampl yma a thraw yn yr un ganrif, ond yn fwyaf cyffredinol yn yr adeg a nodwyd.

*Hesp-alun.* Oddiyno aethum yn mlaen tua Cilcen; ac ar fy ffordd gwelais *Hesp-alun*, neu yr Alun sech; lle y mae yr afon Alun, yn debyg i'r ***Mole*** surllyd neu y ***Guadiana*** alarus, yn suddo o dan y ddaear, gan barhau yn ŷ cŵrs hwnw am oddeutu haner milldir, ac yna yn dyfod i oleuni dydd. Oddeutu dwy filldir o'r lle hwn y mae eglwys Cilcen, o dan y Foel Famau, y rhaniad uchaf o fynyddoedd Clwyd.

*Mynyddoedd Clwyd.* Ymestyna y rhai hyn yn gadwyn o'r tu uchaf i Brestatyn ar aber y Ddyfrdwy, o'r gogledd i'r dehau, mor bell a Moel yr Acre yn mhlwyf Llanarmon; lle yr ymunant â Mynydd Cefn du, yr hwn a ymestyna i blwyf Gwyddelwern. Nid oes un fynedfa drwy y rhai hyn o gwbl, oddieithr yn Bodfari, heb ddringo yr ochrau serth; a myned trwy y bylchau a ffurfir yn uwch i fyny rhwng y cribau crynion a grugog, y rhai a ymddyrchafant fwy na dwy ran o dair o'r ffordd i'r copäau: a'r rhai a ffurfiant, o ochr orllewinol dyffryn Clwyd, olygfa o'r fath fwyaf prydferth, yn enwedig yn y tymhor pan yr ymddysgleiriant gan flodau glasgoch y grug. Y mae rhai adar, a garant sefyllfaoedd uchel, i'w cael yma eto; y mae ychydig o ieir mynydd, duon a chochion,† wedi diangc rhag gŷnau y saethwyr; a gwelais y *ring-ouzel* o gylch y parthau isaf. Y mae y bryniau hyn yn gymysgfa o bridd, clai, a graian. Y garreg‡ sydd o natur haenog a maluriog, ac y mae yn ddiwerth at braidd bob gwasanaeth ymarferol. Yr ochrau ydynt yn llawn ffynhonau, y rhai a lifeiriant yn fân ffrydiau, er mawr lesâd i breswylwyr y llechweddau breision.

*Eglwys Cilcen.* Y mae eglwys Cilcen yn hynod ar gyfrif ei nenfwd cerfiedig, yr hwn y dywedir iddo gael ei ddwyn yno o fynachlog y Maesglas ar adeg y dadgorphoriad: ac felly gyflawni prophwydoliaeth o

* Y mae portread o Evan Edwards yn Rhual, wedi ei baentio, fel y dywedir, gan Vandyck: yma hefyd y mae dau o bonau cywrain, ar bren, o Rhisiart, iarll Dorset, a'i arglwyddes, y nodedig Anne Clifford. Yn y casgliad y mae amryw bortreadau teuluol, gan Edward Bellins a Gilbert Jackson, enwau anadnabyddus yn rhestr yr arlunwyr; ond y mae eu teilyngdod yn hawlio lle iddynt yn mhlith y paentwyr enwocaf. Blodeuent oddeutu y flwyddyn 1632. GOL.

† Y mae y rhywogaeth gyntaf wedi llwyr ddiflanu, a'r ail braidd yn gwbl felly hefyd, ar y bryniau hyn.—GOL.

‡ Cyfansoddir haenau y rhes yma o fryniau gan mwyaf o *schistus* cleiog a brâs. GOL.

Y mae y golygydd yn cymeryd y cyfleustra yma i ddiwygio camgymeriad a ymddengys yn Nhaith Mr Aikin trwy Ogledd Cymru, yr hon sydd yn gywir ar y cyfan. Yn nhudal. 182 dywed, "Y mae Dyffryn Clwyd yn cael ei derfynu gan Foel Famau, a bryniau ereill o geryg calch;" tra y mae y mynydd hwnw, a braidd yr holl rês, yn gyfansoddedig o *schistus* cleiog, ar ba un y ceir yn achlysurol welyau o geryg calch. GOL.

Digitized by Google

eiddo ein Robin Ddu, yr hwn, pan yn edrych ar y mynachod yn ei osod yn ei le, a sylwodd y gwnai y tro yn burion mewn eglwys o dan y *Foel Famau.*

Yn y plwyf hwn, ar ochr y ffordd fawr, heb fod yn mhell oddiwrth balas Cilcen, y mae y nodedig *Ffynhon Leinw;* ffynhon hirgul fawr, gyda gwàl ddwbl o'i hamgylch. Sylwir ar hon gan *Camden*, am ei bod yn llenwi ac yn treio; ond y mae yr hynodrwydd yma wedi darfod er ei amser ef, o leiaf mor bell ag y gellais i gael allan.

*Ffynhon Leinw.*

Yn agos i'r ffynhon hon y mae palas Cilcen, preswylfa cangen o'r Mostyniaid, yn awr yn meddiant y Parch. Mr. Edwards* o'r Pentre, yn sir Drefaldwyn, yn hawl ei wraig gyntaf, Charlotte Mostyn, etifeddes y lle.

*Dyffryn Nanerch.*

Saif y ffynhon hon yn *Nyffryn Nanerch;* yr hwn a ymestyna un ffordd hyd y Wyddgrug; ac yn y pen arall ymuna â dyffryn Bodfari, yr hwn yw y drws i Ddyffryn Clwyd. Y mae afonig brydferth, y Wheeler, yn codi ar yr ochr ddwyreiniol iddo; yr hon, ar ol rhedfa fer, a ymuna â'r afon Clwyd. Y mae palasdy Penbedw, preswylfa Watkin Williams, ysw.,† yn addurn mawr i'r dyffryn bychan hwn. Yn llyfrgell y boneddwr yma fe geir rhai gweddillion o gasgliad Syr Kenhelm Digby, rhai llyfrau wedi eu lliwio yn gywrain; ac achrestr ardderchog ‡ teulu Digby, a'i gysylltiadau, gyda'r holl bais-arfau a'r beddrodau oedd ar gael, wedi eu lliwio yn y modd mwyaf prydferth, ar draul o fwy na mil o bunnau; swm anferthol yn yr amser pan y gwnaed y casgliad, sef yn y flwyddyn 1634.

Y mae Penbedw yn sefyll mewn maenor o'r enw hwnw, yr hwn a roddwyd, Gorphenaf 17eg, 1544, gan Harri VIII., a'i frenines, Catherine Parr, yn dyst wrth yr ysgrif, i Peter (Pyers) ap Howel, neu Pedr Mostyn, o Wespre, ar yr amod o daledigaeth o 73*l.* ar law. Y mae ysgrif y rhoddiad yn adrodd iddo fod yn rhan o feddiannau iarll Caint, yn nghwmwd Dogbylyn, yn sir Ddinbych.

Yn y caeau islaw y tŷ, y mae rhan o gylch derwyddol, a charnedd fechan. Ar un o gribau y mynydd, mewn uchder mawr uwchlaw y tŷ, y mae *gorsaf Brydeinig* dra chadarn, gyda dwy ffos o ddyfnder anferthol, a chloddiau cyfaddasol, ar yr ochrau hygyrch: ac ar yr ochr anhygyrch y mae rhodfa wastad, wedi ei lefelu ar hyd y bryn, fe ddichon er mwyn cyfleustra i'r meddianwyr gael ymarferiad corphorol. Gelwir yr orsaf hon *Moel Arthur*, dichon er anrhydedd i'n tywysog clodfawr. Dyma un o'r gadwyn o orsafoedd a amddiffynent wlad y Gordofigion, a'u holynwyr, yn erbyn anrheithiadau y goresgynwyr. Y maent yn mhell o fod yn neillduol i'r genedl hono; oblegyd dyna oedd dull cyffredin yr amddiffynfeydd trwy yr holl ynys. Tybiaf eu bod o ddechreuad tra boreuol; ond gwneid defnydd o honynt mewn amseroedd diweddarach—mor ddiweddar ag amser Owain Glyndwr. Y maent braidd i gyd yn cael eu gwneyd yn ddiffynadwy yn yr un dull, gyda ffosydd a chloddiau uchel, y rhai a ffurfid naill ai o bridd neu o geryg rhyddion, a meddent un, ac yn fwy cyffredin ddwy, fynedfa i mewn. Yn y dysgrifiad o eiddo Caractacus (Caradog) gan

*Gorsafoedd Prydeinig.*

*Moel Arthur.*

* Yn bresenol yn meddiant ei fab, Thomas Mostyn Edwards, ysw. GOL.

† Bu Watkin Williams, ysw., farw yn niwedd y flwyddyn 1808. GOL.

‡ Crybwyllir am dani yn *Wood's Athenæ Oxon.* ii. 354, ac yn y *Brit. Biog.* iii. 1313. Trwy ganiatâd Mr Williams, erchais i rai o'r beddrodau gael eu copio; ac eiddo yr Arglwyddes Venetia Digby i gael ei gerfio yn yr *Antiquary's Repertory.*

Digitized by Google

Tacitus, ni a gawn eu ffurfiad yn gywir: *Tunc montibus arduis, et si qua clementer accedi poterant, in modum valli saxa præstruit.** Nid ydynt o un ffurf bennodol; ond y mae yr amddiffynfa yn gydffurf â'r bryn. Y maent yn gyffredin yn amddifad o ddwfr, yr hyn a ddengys nad oeddynt wedi eu bwriadu i fod yn lleoedd i aros ynddynt yn hir, ond manau i encilio iddynt dros amser gyda'u teuluoedd, a'u diadelloedd, pan ddeuai goresgyniad sydyn. Y gwŷr rhyfelgar a arosent ar y maes, tra yr oedd pobpeth ag oedd yn anwyl ac yn werthfawr ganddynt yn cael eu trosglwyddo i'r nawddleoedd hyn, o dan warchawdlu priodol.

*Eu dybenion.*

Y maent bob amser y naill yn ngolwg y llall, fel y gellid, trwy dân, neu ryw arwyddion ereill, roddi rhybudd o ddynesiad gelyn. Y gyntaf o'r rhai a ffurfiant y gadwyn hon ydyw *Moel Hiraddug*, oddeutu dwy filldir neu dair oddiwrth y môr, ar fryn creigiog, yn mhlwyf y Cwm. Dichon, yn flaenorol i gastell Dyserth, y gallai fod gorsaf arall ar y graig hono. yn yr amgylchiad hwnw, dylesid ei hystyried fel yr orsaf gyntaf, neu wylfa glan y môr; a'r bryn mawr uwchlaw Newmarket, yr hwn a elwir Cop y Goleuni, a'r hwn a welir o'r rhan fwyaf o'r lleill, a allasai fod y lle o ba un y rhoddid arwydd am ddynesiad gelyn ar y môr, pa un bynag a fyddai ai Sacsoniaid neu Ysgotiaid yspeilgar.

*Moel Hiraddug.*

Y nesaf at Foel Hiraddug ydyw *Moel y Gaer*, yn mhlwyf Bodfari, uwchlaw y fynedfa i ddrws Dyffryn Clwyd.

*Moel y Gaer*

Y trydydd ydynt yr amddiffynfeydd eang ar *Fryn y Cloddiau*. Dyma y mwyaf sydd genym; gan ei fod yn filldir a haner o amgylchedd, ac yn cael ei gylchynu gan ffosydd sengl, dwbl, triphlyg, ac hyd yn nod bedwarplyg, fel y byddai angen yr ochrau yn galw. Yn y ffos nesaf i mewn y mae niferi o dyllau, fel pe wedi eu bwriadu i gynwys dynion ar ryw wyliadwriaeth neillduol.

*Bryn y Cloddiau.*

*Moel Arthur* ydyw y nesaf. Braidd ar ei gyfer, ar fynydd Helygen, ar y rhan uchaf o hono, y mae *Moel y Crïo;* bryncyn celfyddydol eang, yr hwn a ymddengys fel pe byddai yn orsaf ganol rhwng hwn a *Moel y Gaer* yn mhlwyf Llaneurgain; ond y mae ein hanwybodaeth ni o'r gelfyddyd filwrol yn y dyddiau hyny, yn ein rhwystro i nodi eu dyben neillduol.

*Moel y Crïo.*

*Ail Foel y Gaer.*

Yn nesaf daw *Moel Fenlli*. Islaw i hwnw y mae gorsaf arall, ar fryn llai, yr hon a ymgyrhaedd i ddyffryn Clwyd, a gelwir hi wrth yr enw cyffredin *Moel y Gaer*. Dyma yr oll ag yr ymddengys eu bod wedi eu bwriadu at amddiffyn y rhan yma o'r wlad.

*Moel Fenlli.*

*Trydedd Foel y Gaer.*

*Caer Estyn*, a'r orsaf gogyfer ar graig Caergwrle, a ddiffynent y cyffin hwnw. Yn mhellach yn mlaen yr oedd Pen-ar-lâg; ac yn mhellach fyth, lle y mae dyffryn sîr Gaerlleon yn ennill ar ein gwlad, yr oedd gorsaf y *Rofts*, yn mhlwyf Gresford. Gallaswn roddi rhestr hir o'r gorsafoedd hyn, efallai mor belled a Môr Hafren, yn ngwlad y Siluriaid, a gwledydd y

*Caer Estyn.*

* Taciti Annales, lib. xii. c. 33. "Yna, os byddai y ddyfodfa ato yn esgyniad esmwyth, efe a bentyrai geryg mawrion ar y tu blaen, ar y serthle creigiog, yn ol dull mur."

Cornavii ar yr ochr draw i'r Hafren; ond y mae y rhai hyn yn ddigon at y pwrpas presenol.

*Nanerch.*] Yn fuan ar ol myned heibio Penbedw, yr wyf yn cyrhaedd *Nanerch*, pentref gydag eglwys fechan, heb fod yn hynod mewn dim, ond cofadail i Charlotte Theophila Mostyn, gwraig i Richard Mostyn, ysw., cynfeddiannydd Penbedw, a merch a chydetifeddes (gyda'i chwaer Margaretta Maria, yr hon a briododd Syr John Conway o Fodrhyddan) i John Digby, mab yr enwog Syr Kenelm; a dyna fel y daeth rhai darnau detholedig o'i gywreinion i'n gwlad ni.

Yn ffenestr y ganghell yr oedd, rywbryd, y geiriau hyn: *Orate pro bono statu Howell ap John ap Dda ap Ithel*,* yr hwn, fel y tybir, a sylfaenodd yr eglwys hon.

*Rhandir fwneiol.*] Y mae y dyffryn hwn yn ffurfio un llinell derfyn i randir fwneiol ein sîr. Bydd i mi yn awr gymeryd golwg megys o'r awyr ar y cyfan, y rhai y bum yn eu hamgylchynu yn ystod fy nhaith, gan ddechreu gyda'r parth gogleddol. Gellir rhanu y parth mynyddig yn ddwy ran. *Y Rhan Gyntaf.*] Y mae y rhan gyntaf yn cymeryd i fewn ddyffryn, gwastadedd, a môr. Y pwynt pellaf ydyw Dalar goch, neu graig Dyserth, yr hwn a derfynir gan wastadeddau aradwy a ffrwythlawn Rhuddlan. Y mae y cwrs yn cael ei barhau yn mlaen tua'r dehau, trwy blwyfydd y Cwm, Tremeirchion, a Chaerwys, ac yn cael ei derfynu gan ddyffryn Clwyd, ac eiddo Bodfari. Y mae plwyfydd Ysgeifiog a Nanerch yn dylyn, ac ar eu hol hwy daw cyfran o Cilcen, pan y mae y rhandir fwneiol hon yn cymeryd tro o'r tu uchaf i blwyf y Wyddgrug yn Rhosesmor, i blwyf Llaneurgain; yna wyneba y dwyrain yn mhlwyfydd Helygen a Threffynon, yn eiddo Whiteford, Llanasa, Gwaenysgor, a Meliden, yna pwyntia tua'r gorllewin, lle yr ymuna â chraig Dyserth.

*Yr Ail Ran.*] Y mae yr ail raniad yn wahanedig oddiwrth y cyntaf gan suddiad dwfn yn y ddaear cydrhwng Rhosesmor a phlwyf y Wyddgrug. Y mae hyd yn nod yn y rhanau isaf, ar ochr y gorllewin, gadwyn o fwngloddiau. Ond y mae y tir yn codi drachefn yn mynydd y Wyddgrug, a'r rhandir fwneiol yn cael ei pharhau trwy blwyfydd Llanferres, ochrau dwyreiniol Llanarmon, Llandegla, creigiau Glisseg, a Minera o'r tu uchaf i Wrecsam.

Y mae canol y rhaniad cyntaf yn gwbl yn gareg galch, fel ag y mae yr ochr orllewinol, o Dalar goch i Rosesmor: oddiyno, neu ar yr ochr ddwyreiniol, y mae yr haenau yn cyfnewid. Tuag at odreuon y mynyddoedd, newidiant i'r *Chert.*] sylwedd callestraidd hwnw a elwir *chert* (math o gareg dân,) mwy neu lai pur. Yn îs i lawr y maent yn ymddirywio i gareg ddu a elwir *Shale.*] *shale*, yr hon a ddadgysodda yn fuan yn yr awyr. Mor belled a hyny y mae mwn plwm i'w gael. Yn fuan ar ol yr haenau hyn y *Tywodfaen.*] mae tywodfaen yn dechreu, a glo yn cael ei ddarganfod, y rhai a barhant hyd lan y môr, ac o dan y môr, nes yr ymddangosant ar yr ochr draw yn mhenryn Wiral, a thrachefn tu hwnt i forgainge y Mersey.

Gellir dywedyd yr un peth am yr haenau yn yr ail raniad. Y mae gwelyau

* "Gweddïwch er daioni i gofgolofn Hywel ap John ap Dda ap Ithel."

Digitized by Google

o geryg calch yn ymestyn ar hyd yr ochr orllewinol tu hwnt i greigiau Glisseg, ac yn eu cymydogaeth ar y ddwy ochr i'r afon Ddyfrdwy. Gorwedda y gwytheni yn Minera mewn *chert* graianog. Y mae cyfnewidiad sydyn yr haenau yn bur amlwg. Gellir ei weled ar bob ochr i ddyffryn cul Nanerch, ceryg calch yn ffurfio un ochr, a'r gareg lechog faluriedig yn cyfansoddi yr ochr arall.

Pe byddai i mi fyned yn mlaen gyda'm damcaniaeth awyrol, gallwn weled darfyddiad yr haenau calchfaen nes y codant ar yr ochr gyferbyniol o ddyffryn Clwyd. Byddai i'm llygaid ganfod y rhan fwyaf bellenig ar ochr ogleddol morgilfach y Traeth Coch, yn ynys Môn, ar wahan yn mhell oddiwrth unrhyw un arall. Penrhynoedd mawrion Llandudno a Rhiwleden, neu y Gogarth fawr a'r Gogarth fach (y flaenaf ar brydiau yn gyfoethog mewn copr) a ymddangosent yn nesaf. Penmaen Rhos, a'r creigiau parhaol ar hyd morlenydd sîr Ddinbych, a ddylynent yn yr olygfa nês adref, llawer o ba rai a gynyrchant fwn plwm. Ac yn olaf, byddai i'r creigiau anghysylltiol yn Henllan, tu hwnt i Ddinbych, a Choed Marchon, tu hwnt i Ruthyn, gynyrchu i'r amaethwr diwyd, trwy eu calch rhagorol, wrtaith sicrach o gynyrchu cyfoeth, na'r ymchwiliad ans... ar ol y mwneion dwfn-guddiedig.

Y mae dyfnder calchfaen a *chert* ein rhandiroedd mwneiol yn anhysbys; nid yw eu gwaelod, nac eiddo yr holltau neu y gwytheni a'u croesant, erioed wedi ei ddarganfod. Dylynwyd mwn plwm hyd y dyfnder o 130, neu 140 o latheni, ac yna darfyddodd; ond y mae y wythen ddienill yn ymddangos islaw yn anghauedig. Gweithiwyd ein mwngloddiau, fel y dangosais o'r blaen, er yn foreu iawn,* ond rhoddwyd i fyny lawer gwaith. Eithr yn gymaint a bod amryw o'n gwytheni wedi cael eu gweithio am gan' mlynedd, a throsodd, gellir sicrhau y pwngc yn mherthynas i'r dyfnder hyd pa un y cynyrchant fwn yn y wlad hon.

*Dyfnder y Gwytheni.*

*Eu rhediad.* Y mae y gwytheni yn rhedeg naill ai i'r gogledd a'r dehau, neu i ddwyrain a gorllewin. Ond y mae yn hynod nad yw y mwn plwm a geir yn y rhai blaenaf, braidd byth yn cynyrchu digon o fwn arian i dalu am lafur y purwr. Nid yw mwn mynydd y Wyddgrug, ac eiddo Minera, yn cynyrchu braidd ddim arian.

Y mwnau a gynyrcha y rhandiroedd dan sylw ydynt fwn plwm, a *calamine* (alcan), neu *Lapis calaminaris;* a'r mwn, yr hwn a etyb yr un dyben, a eilw y mwngloddwyr yn *black jack.*

*Mwn Plwm.* Y mae ein mwnau plwm yn gwahaniaethu mewn ansawdd. Y math llafnaidd, neu yr un mwyaf cyffredin, ac a elwir yn *fên y crochenydd,* a gynyrcha o bedwar cant ar ddeg i un cant ar bymtheg a chwarter o blwm, allan o ugain cant o fwn: ond y mae y cynyrch diweddaf yn beth tra anghyffredin.

*Arian.* Y mae y swm o arian a gynyrcha ein plwm yn amrywio hefyd. Y rhan uchaf o wythen o fwn plwm ydyw y gyfoethocaf mewn arian; a'r gwaelod mewn plwm. Bydd i'n purwyr arian brofi unrhyw blwm a gynyrcha ddeng owns mewn tunell o blwm, ac uwchlaw hyny. Y cynyrch arferol ydyw pedair owns ar ddeg: fe gafwyd un owns ar bymtheg; ond y mae caffaeliadau o'r fath yn bethau tra anghyffredin o fewn y cylch yma.

* Tudal. 47 o'r gwaith hwn.

Digitized by Google

*Mwn plwm gwyrdd.* Rai blynyddau yn ol cafwyd mwn plwm gwyrdd yn y mwnglawdd arian ar fynydd Helygen. Ni chafwyd ond swm bychan, yr hwn a gynyrchodd oddeutu tri chant ar ddeg a chwarter oddiwrth dunell o'r mwn. Yr oedd o ansawdd hynod o anhydawdd, ac ymarferid galluoedd mwyaf y ffwrnais doddi cyn y cynyrchai unrhyw fetel.

*Mwn Brown, neu Caulk.* Y rhywogaeth o fwn brown neu lwydwyn, yr hwn a elwir *Caulk*,* a gynyrcha o bum' cant a chwarter i un cant ar ddeg o blwm o'r dunell. Y mae y toddwyr, heblaw hyny, yn cael o'r peth a elwir yn *waste*, neu y twmpathau, y rhai ydynt ysbwrial mwnau da, am ei fod wedi ei gymysgu gymaint â chlai, graian, ceryg, neu alcan, fel nas gellir ei wahanu ond trwy dân, o ddeg i dri chant ar ddeg o blwm o'r dunell.

*Mwngloddiau cyfoethog.* Ar wahanol adegau yr ydym wedi cael mwngloddiau a gynyrchent gyfoeth mawr mewn rhyw barthau o'r rhandir yma. Y wythen gyfoethocaf a ddarganfyddwyd oddeutu haner cant o flynyddau yn ol yn mwnglawdd Rowley, neu Bant y Pwll dwr, ar fynydd Helygen; yr hwn a ymestynodd, gydag ychydig o ataliadau, i gae bychan, eiddo Syr George Wynne o Goed llai, ac eiddo rhydd-ddaliadol Mr. David Hughes; cynyrchodd hwn, mewn llai na deng mlynedd ar hugain, i wahanol berchenogion, anturiaethwyr, a thoddwyr, uwchlaw miliwn o bunnau o arian. Bydd i'r darllenydd ddysgwyl cael, yn y parthau hyn, genedlaeth mor gyfoethog a Cræsus; ond *citò parta citò dilabuntur.*† Y mae yn bwnge sydd heb ei benderfynu hyd heddyw pa un a gafwyd mwy o gyfoeth allan o'r ddaear, ai ynte a gollwyd mwy mewn ymchwiliad am y gwobrwyon yn yr hapchwareu tanddaearol hwn.

Toddir llawer o'r mwn a geir yn ein gwlad yn y gwahanol ffwrneisiau perthynol i amrywiol gwmnïon: y mae llawer hefyd yn cael ei drosglwyddo o'r wlad yn y ffurf o fwn. Yr oeddwn yn dymuno cael gwybod pa swm a doddid yn flynyddol o fwnau y wlad hon; ond cefais allan, ar gyfrif y mwnau a ddygid i mewn o Ysgotland a manau ereill, y buasai cael cyfrifiad felly yn drafferth anorchfygol. Y mae yr holl blwm, a'r mwn, yn cael eu trosglwyddo allan o borthladd Caerlleon, oddieithr ychydig swm, yr hwn a ddefnyddir gan blymwyr, ac at ddybenion ereill, yn yr ardaloedd cymydogaethol. Rhaid i mi, gan hyny, gyfeirio y darllenydd at yr Attodiad (Rhif II.) am y nifer o dunelli a anfonwyd allan o'r porthladd hwnw yn y blynyddau 1771, 1776. Trwy garedigrwydd Mr. Jken, toll-gasglwr, caniateir i mi ddywedyd, fod y symau canlynol o'r flwyddyn 1758 hyd Nadolig 1777, wedi cael eu cofnodi yn y tolldy, at eu trosglwyddo i wledydd tramor, ac ar hyd yr arfordir:

| *Plwm.* | | | | *Mwn Plwm.* | | *Ysgum Arian.* | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *Tunelli.* | *cant.* | *chw.* | *ps.* | *T.* | *c.* | *T.* | *c.* |
| 79,533 | 11 | 2 | 16........... | 12,840 | 6 ........... | 2767 | 7 |

Nis gallaf sicrhau pa gynifer o ownsiau o arian a gynyrchwyd o'n mwnau, am y rhesymau a nodwyd yn flaenorol. Ni fedraf ond dyweyd, fod cwmpeini un tawdd-dy wedi cael fel y canlyn:—

* Na chamgymerer hwn am *Sulphate of Barytes*, neu *Caulk* sir Derby. Gol.

† "Y pethau a gynyrchir yn fuan, a ddarfyddant yn fuan." Digon tebyg mai Syr George Wynne yw y person y bwriedir cyfeirio ato yma. (tud. 212.) T.P.

Digitized by Google

| | | Owns. | | Owns. |
|---|---|---|---|---|
| Yn y flwyddyn | 1754 ............ | 12,160 | Yn 1774 ............... | 5693 |
| „ | 1755 ............ | 1276 | „ 1775 ............... | 6704 |
| „ | 1756 ............ | 7341 | „ 1776 ............... | 4347 |

Ni raid hysbysu y darllenydd mai y blynyddau blaenaf oeddynt adegau llawnder mwneiol; a'r cyfryw, y mae yn rhaid i mi ddywedyd, na cheir eu cyffelyb ond yn anfynych. Y mae pump o dawdd-dai ereill; ond yr wyf yn credu na ddaeth yr un o honynt i fyny â'r tŷ hwn yn swm yr arian. Prynir y metel gwerthfawr yma yn benaf gan gelfyddydwyr yn Sheffield a Birmingham.

*Calamine.* Ceir *calamine* (alcan) mewn cyflawnder mawr yn ngwytheni y calchfeini a'r *chert*, yn yr un dull a mwn plwm. Lle y mae cyflawnder o'r blaenaf, ni fydd ond ychydig neu ddim o'r olaf. Y mae *calamine* hefyd wedi ei gyfyngu yn gwbl i ochr ddwyreiniol y sîr. Anfonir oddeutu mil o duneili o hono allan o'r wlad bob blwyddyn. Crybwyllais, yn tudal. 53, o'r gwaith hwn, mor lleied a wyddid am dano yn sîr Fflint hyd o fewn triugain mlynedd yn ol; a gallaf ychwanegu yma ein bod yn ddyledus i John Barrow, genedigol o Wlad yr Haf, yr hwn, gan ei fod yn dra chydnabyddus â'r mwn hwnw yn ei wlad ei hun, a nododd allan ei wasanaethgarwch i ni.

Y mae *calamine* yn ymgymeryd âg amrywiol ffurfiau a lliwiau; gwyrdd, melyn, coch, a du; y mae yn fynych yn ymddangos yn garegaidd, ac yn fynych yn debyg i ddelltwaith esgyrn. Y peth goreu a ymddengys yn debyg i gŵyr gwenyn; ond nid yw y rhywogaeth hono, mwy na'r engreifftiau crisialaidd cywrain, i'w cael yn gyffredin.

Cyfarfyddir â mwn arall, *zinc*, yr hwn a elwir yma *black jack*, yn ein mwngloddiau. Yr ydym yn ei gael yn gymysg â sulphur a haiarn, o liw llwydlas a brown melynaidd, ac o liw ambr tywyll haner tryloyw. Cronstedt a eilw y blaenaf yn ZINCUM *ferro sulphurato mineralisatum;* a'r olaf yn ZINCUM *calciforme cum ferro sulphuratum*, Rhif 1. *a*.

Pwrcaswyd y rhai hyn gan gwmni o Bristol, trwy freintlythyr, a throsglwyddid hwy yno er cynorthwyo yn ngwneuthuriad prês.

*Crisial Iceland.* Ceir amryw rywogaethau o wydrfeini yn ngwytheni y galchfaen; yn enwedig yr amrywiaeth a elwid *Iceland Crystal (spatum islandicum)*, neu y gwydrfaen attoriadol, yr hwn a ardderngys wrthddrychau yr edrychir arnynt fel pe yn ddwbl.*

*Ymenyn y Tylwyth Teg.* *Petroleum*, neu olew y graig, a geir hefyd weithiau yn nghilfachau y mwngloddiau; y mae iddo arogl dymunol, ac ystyrir ei fod yn llesol at y cryd cymalau, trwy rwbio y manau poenus âg ef. Geilw y mwngloddwyr ef yn *Ymenyn y tylwyth teg*, a diau rhai yn perthyn i'r dosparth daionus o honynt; dichon mai yr un â'r rhai hyny (a elwid

*Knockers.* *Knockers*, yn nyddiau ofergoeledd,) y rhai y credid eu bod yn cyfarwyddo y mwngloddwyr at wythen gyfoethog, trwy gnocio yn barhaus yn y mwnglawdd. Ond y mae yr oes oleuedig hon wedi cael allan mai yr achos o'r twrw ydoedd dyferiad dwfr. Nid yw y *dæmones*

* Ceir y mwn gwerthfawr a elwir *Carbonate of Barytes*, ar ochr Bryn Rhiallt, rhwng Treffynon a Llanelwy. GOL.

Digitized by Google

*montani* (diafliaid y mynydd,) fel y geilw Agricola* hwy, byth yn ymweled â'n mwngloddiau ni, oddieithr yn y ffurf o danchwa, o'r hon y mae dwy rywogaeth, sef yr un *fygol*, a'r un *danllyd*. Y mae yr olaf yn dra chyffredin yn ein pyllau glo, ond anfynych y profir ef yn y gweithydd mwn plwm, oddigerth pan y mae y *shale* yn dechreu, neu geryg yn canlyn glo. Y mae y cyntaf † yn lladd mewn moment, trwy ei fygdarth drewllyd, ac y mae yn drychineb ag sydd yn gyffredin i ddaeargelloedd neu ffynhonau a fyddont wedi cael eu hir esgeuluso. Yr ail‡ sydd danllyd, a llosga a dinystria yn y modd mwyaf arswydus, fel y mae y glowyr, o herwydd esgeuluso tanio y mygdarth yn ddigon buan, yn cael profi yn fynych. Yr engraifft fwyaf arswydus o hyn a gymerodd le, ar y 3ydd o Chwefror, 1675, mewn gwaith glo yn Mostyn, hanes yr hwn y bydd i mi ei adrodd o'r "*Philosophical Transactions;*"§ ac felly derfynu fy nodiadau ar ein gweithydd mwneiol.

*Tanchwa,*

*Yn Ngwaith Glo Mostyn.*

"Yr oedd y tanchwa wedi cael sylwi arno er's peth amser cyn hyny, fel picellau tanllyd yn ymsaethu, ac yn croesi eu gilydd o'r ddwy ochr i'r pwll. Yr oedd y moddion arferol wedi cael eu hymarfer er clirio y pwll oddiwrth y drwg yma. Wedi stopio y gwaith am dridiau, y goruchwyliwr—gan feddwl myned oddiamgylch i lygad y pwll lle yr oedd yn cyfarfod goleuni dydd, a dwyn gwynt gydag ef mewn ffordd ddyogel, fel, os ffrwydrai drachefn, y gallai hyny ddygwydd heb beryglu bywydau y dynion—a aeth i lawr, gan gymeryd gydag ef ddau ddyn, yr hyn a farnai a fyddai yn llawn ddigon ar y pryd. Gyda'i fod i lawr, y gweddill o'r rhai a weithient, gan ysgornio cael eu gadael ar ol mewn adeg o berygl, a ddisgynasant i lawr ar eu holau; ond un o honynt, yn fwy anwyliadwrus na'r lleill, a aeth yn ei flaen yn rhyfygus gyda'l ganwyll yn union uwchben llygad pwll y tanchwa, yr hwn yn ddiatreg a gymerodd dân, gan hedeg yn ol ac yn mlaen uwchlaw holl geueddau y gwaith, gyda gwynt nerthol, a thân parhaus; ac fel yr elai rhagddo cynyrchai gynhwrf rhuadwy a nerthol ar bob ochr.

"Y dynion, pan welsant hyn gyntaf, oeddynt wedi ymdaflu, gan mwyaf, ar eu hwynebau, a chuddio eu hunain, goreu y gallent, yn y *slack* rhydd, neu y glo mân, ac o dan gysgod y pyst; eto, er hyny, dychwelodd y chwa allan o'r ceueddau, a chan dynu at enau y pwll, daeth i fyny gyda rhuthr anghredadwy; y gwynt a'r tân a rwygasant ymaith y dillad oddiar eu cefnau, gan ddeifio yr hyn a adewsid, a llosgi eu gwallt, eu dwylaw, a'u hwynebau; a syrthiai y deifwynt arnynt mor llym, fel pe buasai eu crwyn wedi cael eu fflangellu â rheffynau. Cafodd rhai o honynt, nad oedd ganddynt ond cysgod gwael, eu cario bymtheg neu un ar bymtheg o latheni o'r lle yr oeddynt ar y cyntaf, a churwyd hwy yn erbyn nenfwd y glo, ac ochrau y pyst, fel y gorweddent ar ol hyny, am gryn yspaid, mewn cyflwr o ddideimladrwydd, nes y buont am hir amser heb allu clywed, na dyfod o hyd y naill i'r llall. Fel y tynai i fyny at yr agorfa i oleu dydd, cafodd afael yn un o'r dynion, yr hwn oedd agosaf i'r agorfa; ac i fyny y daeth, gyda'r fath dwrw dychrynllyd, nid annhebyg i ergyd o

* Y mae yr ysgrifenydd galluog yn dywedyd, mewn yspryd ofergoelus, fod deuddeg o ddynion wedi cael eu lladd gan un o'r *Dæmones truculenti* (y diafliaid ffyrnig) yn mwnglawdd Anneberg.—*De anim. subter.* 491.

† Carbonic Acid Gas. Gol.

‡ Hydrogen Gas. Gol.

§ Rhif 136, neu Cyf. ii. 878. Lowthorp's Abridgement. Ysgrifenwyd yr hanes gan Mr. Roger Mostyn.



Digitized by Google

gyflegr, ond yn fwy cras, yr hyn a glywyd o bymtheng milldir o ffordd, gyda'r gwynt; a chododd y fath gwmwl o fwg fel ag i dywyllu yr awyr uwch ben am gryn amser. Yr oedd crib y bryn uwchlaw y pwll yn ddeunaw llath o uchder, ac yno y tyfai coed pedair llath ar ddeg neu bymtheg o hyd; er hyny, gwelid corph y dyn, a phethau ereill o'r pwll, yn mhell uwchlaw penau y coedydd uchaf, o leiaf gan' llath. Ar y pwll safai peiriant a weithid gan geffyl, o waith coed cadarn, a llawer o waith haiarn hefyd; ar ba un yr oedd baril at ddirwyn y rhaff i fyny ac i lawr, yr hwn a bwysai uwchlaw 1000 pwys; yr oedd y pryd hyny yn gweithio, un bwced yn myned i lawr, a'r llall yn dyfod i fyny yn llawn o ddwfr. Yr oedd y baril yma wedi ei sicrhau wrth y ffrâm, gyda chloiau a bolltau haiarn; eto taflwyd ef i fyny, a chariwyd ef gryn lawer o ffordd oddiwrth y pwll; a chafodd darnau o hono, er eu bod wedi eu sicrhau â chylchau o haiarn a hoelion cryfion, eu chwythu i'r coedydd yn y gymydogaeth; felly hefyd y ddwy bwced; a phenau y rhaffau, ar ol i'r bwcedi gael eu chwythu i lawr oddiwrthynt, a safent am foment yn yr awyr, fel picellau, ac yna daethant i lawr wrth eu pwys. Cafodd holl ffrâm y peiriant ei symud allan o'i lle; a dillad, capiau, a hetiau y dynion a ddiangasant, a gafwyd ar ol hyny, wedi eu malurio yn ulw, a'u lluchio yn mhlith y coedydd gryn lawer o bellder oddiwrth enau y pwll."*

O Nanerch aethum yn mlaen ar fy nhaith trwy y dyffryn cul, yr hwn sydd wedi ei addurno yn brydferth â choedydd crogedig. Gadael eglwys Ysgeifiog ar y llaw ddehau. Yn y plwyf hwn, ychydig flynyddoedd yn ol, saethwyd yr

*Hoopoe.*

aderyn nodedig hwnw, a elwir *Hoopoe*, cyf. i. Rhif. 90 o'r *British Zoology*. Y mae y rhywogaeth yma oddeutu maintioli yr aderyn a elwir y drudwy; y mae yn hawdd ei adnabod wrth ei grib mawr; ei big hir, eiddil, a chyrfiog; a thrwy nad oes ganddo ond deg o blu yn ei gynffon. Nis gallaf ond ychwanegu at yr hyn a ddywedais eisoes, fod yr Arabiaid yn ei alw yr *aderyn negeseuol;* nid yn unig ar gyfrif tebygolrwydd ei grib i'r plu a addurnant gapiau y negeseuwyr Chaouaidd neu Dyrcaidd; ond hefyd am fod y Mahometaniaid yn credu mai dyma yr aderyn (pan oedd adar yn medru siarad,) a arferai ymddiddan â Solomon, ac mai efe hefyd oedd y llythyr-gludydd a drosglwyddai yr ohebiaeth epistolaidd rhwng y brenin doeth hwnw a brenines Seba.†

*Caerwys.*

Yn y fan lle y mae dyffryn Nanerch yn ymuno âg eiddo Bodfari, esgyn i *Caerwys*, tref ag sydd yn ymddadfeilio gan henaint. Cy-

* Ebrill 6ed, 1807, dygwyddodd trychineb arswydus o'r un natur, yn ngwaith glo Mostyn, trwy ba un y dinystriwyd 28 o bersonau, naill ai trwy gael eu lladd mewn moment, neu farw mewn canlyniad i effeithiau y nwy tanllyd. Gallesid meddwl y buasai yn ddigon o rybudd er galw sylw y goruchwylwyr, ac i wneyd y gweithwyr yn fwy gochelgar! ond och! ar y 10fed dydd o fis Mawrth, 1809, er fod ymgasgliad y chwa farwol wedi cael sylwi arno er's rhai dyddiau, dygwyddodd ffrwydriad arall, yr hwn a barodd farwolaeth 22 drachefn. Fel hyn yn yr yspaid byr o ddwy flynedd, trwy esgeulusdod amlwg rhywrai, a rhyfyg a chrediniaeth ddall rhywrai ereill mewn rhagordeiniad, collodd 50 o lo-wyr gweithgar eu bywydau, gwnaed 26 o ferched yn weddwon, a 66 o blant ieuaingc yn amddifaid.

Yr oedd effeithiau y nwy tanllyd ar y corph dynol yn union yr un fath ag a ddysgrifir gan Mr. Mostyn; ond mewn pethau ereill nid ymddengys ei fod wedi gweithredu gyda chymaint o ffyrnigrwydd, ac nid oedd twrf y ffrwydriad, er ei fod yn fawr, i'w glywed o gymaint o bellder. Gellir sylwi fod y pyllau yn mha rai y mae *hydrogen gas* yn casglu mor gyflym, yn ymyl y môr, ac heb fod yn mhell oddiwrth y "Graig losg" a ddysgrifiwyd yn y gwaith hwn, tudal. 27. Y mae rhai o'r haenau cyfagos yn cynwys ceryg tân. GOL.

† Bochart Hieroz. part ii. p. 347. Hefyd, Universal Ancient Hist. iv. 107. nodiadau.

Digitized by Google

nwysa bedair o heolydd, yn croesi eu gilydd yn gywironglog, yn ol pedwar pwynt y cwmpas. Y mae ei henw, fel y mae Camden wedi sylwi er's hir amseroedd, yn sawru o hynafiaeth mawr—*Caer*, neu amddiffynfa, a *Gwŷs**, neu alwad, yr hyn a arddengys fod y dref, yn yr hen amseroedd, yn fan lle y gweinyddid cyfiawnder. Ni bydd i mi haeru iddi fod unwaith yn orsaf Rufeinig, er fy mod wedi clywed, ar awdurdod gredadwy, fod nifer o fathodynau copr wedi eu cael mewn pant islaw y dref yn ystod y ganrif bresenol (y ddeunawfed;) ac y mae eto yn aros yn y plwyf, gerfiad Lladin, wedi ei dori mewn llythyrenau aflerw ar gareg ar ei phen,† heb ei naddu, i'r effaith yma; *Hic jacit mulier bo ...... obiit.*‡ Y mae y gareg yn 4 troedfedd 6 modfedd o uchder, ac yn dair troedfedd o led. Y mae lluoedd o *garneddau* claddu yn wasgaredig hyd y gymydogaeth, ac un yn bur agos i'r gareg hon. Y mae yn dra thebygol fod y gwastadedd hwn wedi bod rywbryd yn faes y gâd. Pa un a ydyw y gareg yma yn cofnodi rhyw wrones a laddwyd yma, nis gallaf ddyweyd.

Caerwys,§ ynghyda thref arall yn y gymydogaeth ag sydd yn awr wedi diflanu, a elwid Tref Edwyn, a Rhuddlan, a fuont, er yn dra boreuol, yn eisteddleoedd brawdlysol y rhanau hyn o Gymru. Yn 1281, pendefigion Tegengle a osodasant o flaen archesgob Caergaint (yr hwn a ddaethai i lawr gyda'r bwriad Cristionogol o derfynu yr anghydwelediad rhwng Iorwerth I. a Llewelyn) eu cwynion o berthynas i'r trais a wneid ar eu rhyddfreiniau yn y lle; gan sicrhau, mai un ragorfraint o'r eiddynt oedd cael eu barnu yn ol cyfreithiau Cymru, yn y tri lle a nodwyd; ac fod dynion goreu y wlad yn cael eu carcharu am y dymunent gael barnu eu hachosion yn Nhref Edwyn,‖ yn ol cyfreithiau Cymru Pa mor bell y cafodd eu cwynion sylw, nid ydym yn gwybod; ond pan sofydlwyd llysoedd mewn amseroedd ar ol hyny, adfeddiannodd Caerwys ei hanrhydedd hynafol. Yn y dref hon y cynelid y prif frawdlysoedd. Yr oedd ganddi ei neuadd drefol, a'i charchar, ac yma y dienyddid hefyd. Parhaodd felly hyd rywbryd ar ol canol yr eilfed ganrif ar bymtheg, pryd y symudwyd y llysoedd prawf i Fflint.

Yn y flwyddyn 1241, neu y 26ain o Harri III., y tywysog hwnw a ganiataodd i drigolion Tegengle, siartr¶ ag oedd yn eu rhyddhau oddiwrth dalu yr *amobr;* ond ar yr un pryd efe a osododd arnynt orfodaeth i gael pedwar ar hugain o bersonau, y rhai oeddynt i gadw yr heddwch yn y wlad; a gorfodai i'r dref hon, Picton, Oxton, a phentrefydd ereill, i anfon tri o ddynion bob un i weithio yn y cynauaf, megys ag yr arferent wneyd yn nyddiau y ddau dywysog Cymreig blaenorol. Ymddengys fod hyn wedi cymeryd lle yn ystod rhyw fantais a gawsai Harri ar y Cymry, ar ddamwain.

Yn Nghaerwys y cynelir y ffeiriau mwyaf am anifeiliaid, defaid, a cheffylau, yn yr holl sir. Y maent o hynafiaeth mawr. Y John Trefor cyntaf, esgob Llanelwy, a ymddengys yn mysg y rhai a ymofynent am siartr i gynal march-

* Nid oedd y *wŷs* yn cael ei rhoddi allan o *gaer*, ond o *lys* neu gwrt. Nid yw yn annhebygol nad y gair Lladin *castra*, wedi esmwythâu ei sain, ydyw y *caer* Cymraeg: yn yr amgylchiad hwnw buasai Caerwys yn *Castrensis* neu *Castrense*, gyda'r gair *oppidum*, neu ryw air arall cyffelyb, yn cael ei ddeall. J. R.

† Y mae y dernyn hynafol hwn, a ddefnyddid fel post llidiard gardd, yn awr wedi ei symud i ardd Downing. GOL.

‡ "Yma y gorwedd dynes dda............bu farw."

§ Powel, 360. ‖ Powel, 360. ¶ Mostyn MSS.

Digitized by Google

nadoedd yma yn 1356: ond y mae y marchnadoedd yn y lle hwn yn awr wedi ffaelu yn hollol, byth er amser cynydd Treffynon.

Iarll Plymouth ydyw arglwydd y maenor hwn; a meddianna, trwy bwrcas o eiddo un o'i hynafiaid, etifeddiaeth y Griffiths o Neuadd Caerwys, y rhai a ddisgynent o Ednowain Bendew, un o'r pymtheg llwyth. Uwchlaw drws Neuadd Caerwys y mae yn gerfiedig, "*Piers, ac M. Gryffydd, 1589.*" Buasai unwaith yn hen dŷ gweddol dda, gyda phorth iddo.

Y maenorau ereill* yn sir Fflint ydynt yn bresenol fel y canlyn:†

| | |
|---|---|
| Mostyn, | Syr Roger Mostyn. (1) |
| Picton ac Axton, | Syr Pyers Mostyn. |
| Hawarden (Pen-ar-lâg), | Syr Stephen Glynne. |
| Wyddgrug, | Yr Arglwyddes Vincent. (2) |
| Maelor, | Syr Tho. Hanmer, a Philip Lloyd Fletcher, ysw. |
| Eulo, | John Davies, ysw. (3) |
| Treffynon, | Syr Thomas Egerton. (4) |
| Prestatyn, | Parch. Richard Williams (5) |
| Colsyl, | Paul Panton, ysw. |
| Estyn, | Iarll Derby. |

Ond yr hyn a roddai anrhydedd arbenig ar dref Caerwys, ydoedd y rhagorfraint a feddai o fod y fan lle y cynelid yr Eisteddfod, neu gynulliad y beirdd a'r cerddorion, am lawer o ganrifoedd. Yma y deuai y rhai hyny o ryw ardaloedd pennodol; megys ag yr oedd Aberffraw yn Mon yn gyrchfa rhai yr ynys hono, a sir Gaernarfon; a Mathrafal yn Mhowys i eiddo y wlad hono. Yr achos fod y lleoedd hyn yn cael eu hanrhydeddu gymaint, ydoedd, am fod y ddau le olaf yn drigleoedd y tywysogion; a Chaerwys, o herwydd y palas breninol a safai islaw y dref, preswylfod Llewelyn ap Gruffydd.

Yr eisteddfodau hyn oeddynt *Gampau Olympaidd* y Prydeiniaid. Ar y cyntaf yr oedd ein beirdd yn dyfod allan i'r ymdrechfa, wedi eu tanio gan gydymgais caruaidd, enillent y fuddugoliaeth, ac yr oeddynt yn foddlawn ar yr anrhydedd hono yn unig. O'r diwedd, pan ddaeth yr ymgeiswyr yn fwy lluosog, ac i ddyfod yn ormes ar y wlad, cafodd rheolau newyddion eu sefydlu, o angenrheidrwydd. Ni oddefid i'r ymgeiswyr siomedig flino clustiau y dywysogaeth mwyach â'u cyfansoddiadau truenus. Ni chaniateid i neb ond beirdd o deilyngdod ddatgan eu cyfansoddiadau; a cherddorion medrus i chwareu. Yr oedd y rhai hyn yn myned trwy brofiad hirfaith: pennodid beirniaid i benderfynu eu gwahanol alluoedd; a rhoddid graddau cyfaddas, a chaniatâd i ymarfer eu doniau, yn y dull a ddarlunir yn y tudalenau dyfodol. Apwyntid y beirniaid gan ddirprwyaeth oddiwrth ein tywysogion; ac ar ol darostyngiad Cymru, gan freninoedd Lloegr, er fod Iorwerth I. wedi ymarfer creulondeb gwladwriaethol at feirdd ei oes ef, eto darfu i dywysogion dylynol farnu yn gyfaddas adfywio sefydliad oedd mor dueddol i wareiddio ymarferion cenedl ffyrnig. Gan y goron yr oedd yr hawl, nid yn unig i nodi y beirniaid, ond hefyd destynau y caneuon; ac yn debyg i'n harglwydd ganghellwyr presenol, ni chymeradwyent unrhyw destyn ond a fyddai yn foddhaol i'r llys Seisonig.

* Merford a Hosely sydd faenor arall yn sir Fflint. T.P.

† Yn 1809—(1) Syr Thomas Mostyn. (2) Syr Thomas Mostyn. (3) Bryan Cooke, ysw. (4) Crewyd ef yn Iarll Grey de Wilton. (5) Richard Wilding, ysw.

Digitized by Google

*Yr Hen Feirdd.*] Ond cyn i mi ddechreu ar hanes yr olyniad o Eisteddfodau Prydeinig, bydd i mi son ychydig am hynafiaeth uchel y nodweddiad a wnelai, mewn amseroedd diweddar, y prif ffugur yn y cyfarfodydd hyn. Yr oedd y *Bardi* (Beirdd y Prydeiniaid) yn meddu ar awdurdod mawr yn mhlith y cenedloedd Celltaidd. Yr Almaeniaid a galonogid yn y frwydr gan benillion a ddatgenid mewn tôn ddofn a difrifol.* Yn mysg y Gauliaid,† canent am wrhydri gwŷr enwog, ac yn arbenigol clodforent yn eu hemynau y rhai a syrthiasent yn y frwydr.

> Vos quoque qui fortes animas belloque peremtas
> Laudibus in Longum vates dimittitus ævum
> Plurina securi fudistis carmina Bardi.—Lucan. i.

> A chwithau feirdd, eich nefol fflam sy'n tanio,
> I ganu clod gwroniaid, gan ymbyngcio
> Yn ngherdd eich gwlad, er anfarwoli'r dewrion
> A laddwyd draw, mewn gwaedlyd frwydrau cyfion;
> Dyogel ewch yn mlaen â'ch gwaith perseiniol,
> A chanwch gerdd ardderchog ac anfarwol!

Y mae yn dra thebygol fod y beirdd a'r cerddorion o dan reolau neillduol yn amser Derwyddiaeth; ond ni chawn unrhyw brofion o hyn hyd yn mhen amser maith ar ol hyny; hyd ddyddiau Cadwaladr, brenin diweddaf Prydain, yr hwn a fu farw yn Rhufain oddeutu y flwyddyn 688. Dywedir am dano ef, ei fod unwaith gyda'i bendefigion mewn cyfarfod o'r natur yma, pryd y daeth cerddor ymlaen, ac a ganodd alaw mewn cywair mor anfoddhaol, fel y cafodd ef a'i holl frodyr eu gwahardd i'w chwareu byth mwyach, o dan ddirwy drom; ond gorchymynid iddynt chwareu *Mwynen Gwynedd* yn ei lle.

*Yn amser Cadwaladr.*]

*Yn amser Arthur.*] Yr wyf yn tybio y buasai, yn flaenorol i hyn, ryw reolau cerddorol yn Mhrydain; oblegyd yr wyf yn cael fod tôn, a elwid *Gosteg yr Halen*, yn cael ei chwareu bob amser pan ddodid y llestr a fyddai yn dal yr halen o flaen marchogion y brenin Arthur, ar ei ford gron.‡

*Yn amser Gruffydd ap Cynan.*] Ar ol Cadwaladr, y tywysogion nesaf a ymgymerasant â'r gorchwyl o ddiwygio eu cerddoriaeth, oeddynt Bleddyn ap Cynfyn a Gruffydd ap Cynan. Yr oedd y cyntaf yn cydoesi â'r Goresgynwr; a'r olaf â'r brenin Stephan. Lluniasant hwy ddeddfau, na byddai i neb ddylyn *galwedigaeth* bardd neu gerddor, ond yn unig y rhai a fuasent wedi cael eu harweddu gan yr Eisteddfod, yr hon a gynelid unwaith bob tair blynedd. Gwaharddid iddynt drespasu ar dalaethau y naill y llall: ac ni chaniateid iddynt ddarostwng eu hunain trwy ddylyn unrhyw alwedigaeth arall. Nid oedd yr un o honynt i ofyn mwy na deg swllt am unrhyw gerdd, o dan boen colli y cyfan, a chael eu difuddio o'u galwedigaeth am dair blynedd.§

Ar ol amseroedd y tywysogion, darfu i'r pendefigion, eu holynwyr, gymeryd y bobl hyn o dan eu gofal a'u nawdd, gan ganiatâu iddynt y rhyddid i wneyd

* Tacit. de mor. German. † Strabo, lib. iv. 302. Athanæus, lib. vi. 246.
‡ Mr Morris's MSS. of British Music. § Leges Wallicæ, 85

Digitized by Google

cylchdaith o'u gwahanol diriogaethau deirgwaith yn y flwyddyn, sef ar wyliau y Nadolig, y Pasg, a'r Sulgwyn; a'r holl dywysogaeth unwaith yn mhob tair blynedd.

Yr oedd y beirdd yn y cyfrifiad uchaf. Nis gallaf roddi meddylddrych cryfach am y parch a delid iddynt, na thrwy ddyfynu o'r Cyfreithiau Cymreig yr hanes a roddir am eu gradd yn llys y tywysog, a'r amrywiol anrhegion a gwobrau ag y meddent hawl iddynt, a'r cospau trymion a sefydlasid er cadw eu personau rhag cael eu dirmygu. Tybid eu bod wedi eu cynysgaethu â galluoedd ag oeddynt gyfartal i ysprydoliaeth. Hwynt-hwy oeddynt haneswyr geneuol pob amgylchiadau a aethent heibio, yn neillduol a chyhoeddus. Adroddent helyntion mawrion y wladwriaeth; ac yn gyffelyb i *Scalds* y cenedloedd gogleddol, cadwent ar gof luaws aneirif o bethau a fuasent hebddynt wedi myned i ebargofiant. Yr oeddynt hefyd yn drwyadl gydnabyddus â gweithiau y tri phrif-fardd cyntefig, nid amgen *Myrddin ap Morfryn*, *Myrddin Emrys, a Thaliesin Ben Beirdd.* Ond yr oedd ganddynt dalent arall, yr hon, fe ddichon, a'u gwnelai yn fwy anwyl gan y boneddigion Cymreig na'r lleill i gyd; sef eu bod yr achyddwyr mwyaf galluog, a chwyddent eu balchder trwy ganu clodydd eu hynafiaid o'r amseroedd mwyaf pellenig.

Y *Bardd Teulu*, neu y *Bardd Llys*, a ddaliai yr wythfed lle yn llys y tywysog. Meddiannai ef ei dir yn rhydd. Rhoddai y tywysog iddo farch a gwisg o frethyn, a'r dywysoges a'i darparai â lliain.* Eisteddai yn nesaf at lywodraethwr y palas, ar y tair brifwyl arbenig; oblegyd ar yr adegau hyn yr oedd y llywydd i'w anrhegu â'i delyn.† Ar yr unrhyw wyliau yr oedd i gael gwisg y *Distain*, neu lywydd y tylwyth, fel ei wobr.

Pan y gelwid am gân, yr oedd y *Cadeirfardd* yn gyntaf i ganu emyn er gogoniant i Dduw; wedi hyny, un arall er anrhydedd i'r tywysog. Wedi i'r rhai hyn fyned trosodd, yr oedd y *Teuluwr*, neu fardd y neuadd, i ganu ar ryw bwngc arall.

Os byddai i'r dywysoges alw am gân ar ol iddi godi oddiwrth y bwrdd, a myned i'w hystafell, rhaid fyddai i'r *Teuluwr* ganu i'w hucheldder mewn llais isel, rhag iddo aflonyddu y datgeiniaid yn y neuadd. Dywed y Dr. Sion Dafydd Rhys, mai *angeu* a fyddai ei destyn; ond gwell genyf fi ddylyn Wotton, yr hwn, yn lle *angeu*, a ddywed mai *amgen*, neu rywbeth arall, a fyddai y testyn, yn wahanol i'r pwngc y cenid arno yn y neuadd.

Pan fyddai y bardd yn myned ar hynt chwiwladronaidd gyda'i dywysog, a'i filwyr, yr oedd i ddatgan o'u blaenau ei gyfansoddiadau calonogol, ac i gael yr anner oreu o'r yspail yn dâl am ei drafferth; ac mewn amgylchiad pan y byddai i'r fintai ymffurfio yn barod i'r frwydr, yr oedd y bardd i ganu *dodydd y freniniaeth Brydeinig* o'u blaenau. Hyn a wnelid i'r dyben o adgofio iddynt eu hawl hynafol o'r holl deyrnas; oblegyd byddai eu hanrheithiadau yn cael eu gwneyd braidd bob amser i wlad y Saeson, ac felly ni ystyrient eu bod yn gwneyd dim ond gafael yn eu heiddo eu hunain.

Rhoddai y tywysog iddo dawlfwrdd o ifori: telyn, medd ereill; a'r dywysoges fodrwy aur. Yr oedd i letya gyda llywodraethwr y palas.

* Leges Wallicæ, 35. † Yr unrhyw, 35, 16.

Digitized by Google

Pan y gelwid arno i ganu gyda beirdd ereill, yr oedd i gael cyfran ddwbl, fel arddangosiad o'i ragoriaeth.

Os byddai y bardd yn gofyn am unrhyw ffafr gan ei dywysog, byddai raid iddo ganu un o'i gyfansoddiadau; os gan bendefig, tri; os gan berson cyffredin, byddai raid iddo ganu nes y byddai i hwnw bwyso ar ei benelin, neu fyned i gysgu. Yr wyf yn ofni oddiwrth hyn mai creaduriaid hynod o fegerllyd oedd ein beirdd, ac fod eisiau gosod atalfa arnynt; eto, er hyny, yr oeddynt mewn bri uchel. Gosodid eu *Gwerth*, neu iawn am eu bywyd, yn chwech ugain a chwech o wartheg,* ac am unrhyw niwaid a wneid iddo, byddai raid talu chwech o wartheg a chwech ugain o geiniogau.

Yr oedd *Merch-Gobr*, neu ddirwy priodasol ei ferch, yn chwech ugain o geiniogau. Ei chowyll, argyffreu, neu anrhegion priodasol, yn ddeg swllt ar hugain; a'i chyfran yn dair punt.† Y mae yn hynod fod gan y *Pencerdd Gwlad* hawl i ferch-gobr, neu amobr, am ferched yr holl rai israddol iddo o'r frawdoliaeth o fewn y dalaith, y rhai a dalent bedair ceiniog ar hugain ar eu priodas; yr hyn a ddengys, nid yn unig hynafiaeth, ond awdurdod mawr y bobl hyn.

Nid oedd y *Pencerdd* yn mhlith swyddogion‡ y llys; ond yn achlysurol eisteddai yn y degfed lle. Yr oedd yntau yn dal ei dir yn rhydd; ac i gyflawni ei ran yn lled debyg i'r bardd llys, lle yr hwn a gymerai, fel yr ymddengys, lle bynag y byddai; oblegyd, pan fyddai y pencerdd yn bresenol, eisteddai y blaenaf yn y ddeuddegfed gadair. Nid oedd neb i chwareu heb drwydded ganddo ef. Ystyrid ei farwolaeth yn werth cant a chwech ar hugain o wartheg; ac unrhyw niwaid a wneid iddo, yn chwech o wartheg, a chwech ugain o geiniogau. Yr oedd pob un o'r tri phrif gerddorion i dderbyn gan eu harglwydd, y cyntaf, *telyn;* yr ail, *crwth;* y trydydd, *pibgorn;* y rhai, ar eu marwolaeth, a elent yn eu holau i'w harglwydd.§

Yr oedd telyn y tywysog yn cael ei hystyried yn werth chwech ugain o geiniogau, ac eiddo y Pencerdd yr un bris; yr agoriad yn bedair ceiniog ar hugain: telyn boneddwr a ddyfarnid yn werth triugain o geiniogau.

Dywed Powel,‖ fod Gruffydd ap Cynan wedi dwyn gydag ef o'r Iwerddon, amryw o gerddorion medrus, y rhai a ddyfeisiasant yr holl offerynau cerdd a ddefnyddir yn bresenol. Gyda phob parch i'n chwaer-deyrnas, rhaid i mi olygu, os nad oedd ein hofferynau yn wreiddiol yn rhai Prydeinig, i ni eu benthyca oddiar y Rhufeiniaid, y rhai, drachefn, a gymerasant eu hofferynau oddiar y Groegiaid. Tybiaf fy mod yn gweled cynddelw o delyn yn ffug. 7, tab. lxxvi. o attodiad Montfaucon, cyf. iii.; o'r crwth yn Salmydd Doctor Burney, tab. v., ffug. 4, neu ei delyn Etruscan, ffug. 10; ac o'r bibell mewn amrywiol bibau syml, cyn iddi gael genym ni yr ychwanegiad o'r cyrn, oddiwrth yr hyn y cafodd yr enw *pibgorn*, a'r enw Seisonig *cornet.*¶ Y mae commissiwn at gynal Eisteddfod yn Nghaerwys, yn 1568, hyd yn bresenol yn meddiant Syr Roger Mostyn, ynghyda'r DELYN ARIAN, yr hon a fuasai er's amseroedd cyn cof yn rhodd ei hynafiaid, i'w chyflwyno i'r Pencerdd. Y mae yr arwydd yma o anrhydedd yn mesur pump neu chwech modfedd o hyd, ac arni dannau yn

* Leges Wallicæ, 37. † Yr unrhyw.
‡ Leges Wallicæ, 37. § Yr unrhyw, 68. ‖ Powel, 191.
¶ Gwel luniau y crwth a'r pibgorn yn *Archæologia*, iii. tab. vii.

Digitized by Google

cyfateb i nifer y duwiesau awenyddol. Y commissiwn hwn ydyw yr olaf o'r fath a roddwyd allan; ac y mae yn y ffurf ganlynol:—

GAN Y FRENINES.

*Elizabeth*, trwy ras Duw, brenines Lloegr, Ffraingc, a'r Iwerddon, amddiffynyddes y ffydd, &c., at ein hymddiriedus a'n gwir gariadus Syr Rhisiart Bulkeley, marchog, Syr Rhys Gruffydd marchog, Ellice Price, yswain, doethawr yn y gyfraith wladol, ac un o'n cynghor yn nghyffindiroedd Cymru, William Mostyn, Ieuan Llwyd o Iâl, John Salusbury o Rug, Rees Thomas, Morus Wynne, William Lewis, Peres Mostyn, Owain John ap Howel Vaughan, John William ap John, John Lewis Owain, Morus Gruffydd, Symound Thelvall, Ellis ap William Lloyd, Robert Puleston, Harry Aparry, William Glynne, a Rees Hughes, ysweiniaid, ac at bob un o honynt, yn anfon anerch. Yn gymaint a dyfod i wybodaeth yr arglwydd lywydd, ac ereill o'n cynghor yn nghyffindiroedd Cymru, fod crwydriaid, a segurwyr ereill, yn galw eu hunain yn gerddorion, prydyddion, a beirdd, wedi dyfod yn ddiweddar yn dyrfa mor anoddefol yn nghyffindiroedd Gogledd Cymru, fel y mae nid yn unig foneddigion ac ereill yn cael aflonyddu arnynt yn eu preswylfeydd, gan eu hafreoleidd-dra digywilydd; ond hefyd fod cerddorion a chantorion medrus, mewn tref a gwlad, yn cael eu hanghefnogi i deithio, ac i ymarfer eu gwybodaeth; ac hefyd yn cael eu lluddio i raddau nid bychain yn eu bywioliaethau a'u cyflawniadau. Y mae yr arglwydd lywydd, a'r cynghor, wedi barnu fod yn dra angenrheidiol diwygio y bobl hyn, a'u gosod mewn trefn; a chan wybod eich bod chwi yn ddynion doeth, ac o ymddygiad cyfiawn, ac hefyd yn meddu profiad a gwybodaeth eang yn y gelfyddyd, yr ydym wedi eich apwyntio chwi fel dirprwyaeth i'r dyben hwnw. Ac yn gymaint a bod rhai aelodau o'r cynghor a fuont yn ddiweddar yn ymdaith mewn rhyw ran o'r dywysogaeth ddywededig, wedi derbyn perffaith ddealltwriaeth, neu ynto hysbysiad credadwy, mai y llo arferol at gynal y cyfryw gommissiwn, yn flaenorol i hyn, ydoedd Caerwys, yn sir Fflint; ac mai eiddo William Mostyn, yswain, a'i hynafiaid, ydoedd rhoddi a chyflwyno y delyn ariau a berthyna i benaeth y frawdoliaeth hono, ac fod rhybudd o flwyddyn o leiaf wedi arfer cael ei roddi o gynulliad a gweithrediad y cyfryw gommissiwn. Y mae ein cynghor dywededig, gan hyny, wedi apwyntio fod cyflawniad y commissiwn yma i fod yn y ddywededig dref Caerwys, y dydd Llun cyntaf ar ol gwyl y fendigedig Drindod, yr hwn a fydd yn mlwyddyn ein Harglwydd Dduw 1568.*

Ac am hyny yr ydym yn gofyn ac yn gorchymyn i chwi, trwy awdurdod y presenolion hyn, nid yn unig beri i gyhoeddiadau agored gael eu gwneyd yn mhob ffeiriau, marchnadoedd, trefydd, a lleoedd cynulliadol ereill yn ein siroedd Mon, Caernarfon, Meirionydd, Dinbych, a Fflint, fod i bob person a phawb personau a fwriadant enill eu bywioliaeth trwy yr enw neu yr ymhoniad o fod yn gerddorion, prydyddion, neu feirdd, o fewn talaeth Aberffraw, yr hon a gymer i fewn y pum' sir ddywededig, ymddangos ger eich bron chwi ar y dydd ac yn y lle dywededig, i ddangos eu dysg yn hyny; ond hefyd fod i chwi, 20ain, 19eg, 18eg, 17eg, 16eg, 15eg, 14eg, 13eg, 12eg, 11eg, 10eg, 9, 8, 7, neu 6

* Dyma yr Eisteddfod olaf a gynaliwyd yn Nghaerwys. Dyfarnwyd y wobr gan Sion ap William ap Sion. *Sebright MSS.*

o honoch, o ba rai yr ydych chwi, Syr Richard Bulkley, Syr Rees Gruffydd, Ellice Price, a Wm. Mostyn, ysweiniaid, neu dri, neu ddau o honoch, i fod o nifer y rhai a gyrchant i'r lle hwnw ar y dydd a ragnodwyd, gan alw atoch y cyfryw ddynion medrus yn y gelfyddyd o gerddoriaeth Gymreig ag a farnoch yn gyfleus i fyned ymlaen i gyflawni y commissiwn, ac i dderbyn i mewn y cyfryw a chynifer ag a farnoch trwy eich doethineb a'ch gwybodaeth yn deilwng, i ac o dan y cyfryw raddau a drefnasid yn flaenorol i hyn, fel y byddo iddynt ymarfer a dylyn eu gwyddor a'u celfyddyd a berthyn i'w galwedigaeth yn y fath drefn weddus a berthyna i bob un o'u graddau, ac yn ol fel y byddo i'ch barn a'ch doethineb dybio yn addas drefnu iddynt; gan roddi rhybuddion a gorchymynion pendant, yn ein henw ni, ac ar ein rhan, am fod i'r gweddill, y rhai ydynt annheilwng, ddychwelyd at ryw orchwyl gonest ac ymarferiad priodol, y cyfryw ag a fyddo mwyaf cyfaddas iddynt at enill eu bywioliaeth, o dan boen cael eu cymeryd i fyny fel crwydriaid pengaled a segur, ac i gael ymddwyn tuag atynt yn ol y cyfreithiau a'r cospau sydd wedi eu darparu yn y cyfryw achos; gan adael arnoch chwi, a'n cynghor dywededig, edrych allan am fod cyhoeddusrwydd priodol o hyn yn cael ei wneyd, trwy dystysgrif o dan eich dwylaw o'ch gweithrediadau yn nghyflawniad y commissiwn hwn. Er mwyn sicrhau fod heddwch a threfn dda yn cael eu cadw yn y cyfryw gynulliad, yr ydym yn eich hysbysu fod y dywededig William Mostyn wedi addaw edrych am fod dodrefn a phethau angenrheidiol wedi eu darparu ar gyfer y cynulliad yn y lle rhagnodedig. Rhoddwyd o dan ein sêl yn ninas Caerlleon, y 23ain o Hydref, yn y nawfed flwyddyn o'n teyrnasiad.

Arwyddwyd, cynghor ei Mawrhydi,
yn nghyffindiroedd Cymru.*

Mewn canlyniad i hyn, cynaliwyd Eisteddfod ar y 26ain o Fai dylynol; ac ar yr achlysur yma derbyniodd y personau canlynol eu graddau:—

| | | |
|---|---|---|
| **Lewis Edward,**<br>**William Lleyn,**<br>**Owain Evan, neu Gwynedd,**<br>**Simwnt Fychan,** | a grewyd yn | brif-feirdd cerdd dafod. |
| **William Cynwal,**<br>**Lewis Menai,**<br>**Sion Tudur,**<br>**Huw Lleyn,**<br>**Bedo Haveep,**<br>**Sion Phylip,**<br>**Huw Conwy,** | ——— | brif astudwyr mewn cerdd dafod. |
| **Ieuan Tew,**<br>**Huw Pennant,**<br>**Hywel Ceiriog,** | ——— | ail-fyfyrwyr mewn cerdd dafod. |

* Cynaliwyd Eisteddfod arall yma yn y 15fed o Harri VIII., Gorph. 26ain, yn yr hon y cadarnhawyd yr hen reolau o barth beirdd. Rhisiart ap Hywel ap Ifan Fychan, o Fostyn, Syr William Gruffydd, a Syr Roger Salusbury, a lywyddent; yn cael eu cynorthwyo gan Gruffydd ap Ifan ap Llewelyn Fychan, a Thudur Aled, bardd enwog.

Digitized by Google

| | | |
|---|---|---|
| Dafydd Alaw,<br>Edward Brwynllys,<br>Rhys Gelli, | a grewyd yn | astudwyr dysgyblaidd mewn cerdd dafod. |

## CERDDORIAETH OFFERYNOL.

*Telyn.*

| | | |
|---|---|---|
| Sion ap Rhys Bencerdd,<br>William Penllyn,<br>Hwlcyn Llwyd, | ——— | ben beirdd a dysgawdwyr cerdd offerynol. |

*Telyn.*

| | | |
|---|---|---|
| Thomas Anwyl,<br>Dafydd Llwyd ap Sion ap Rhys,<br>Edward ap Ifan,<br>Robert ap Hywel Llanfor,<br>Humphrey Goch, | ——— | ben beirdd (ond nid dysgawdwyr) mewn cerdd offerynol. |

*Telyn.*

| | | |
|---|---|---|
| Rhichard Glyn,<br>Robert Llwyd,<br>Ifan Penllyn,<br>Lewis Llanfor, | ——— | brif astudwyr mewn cerdd offerynol. |

*Telyn.*

| | | |
|---|---|---|
| Huw Dai,<br>Huw ap Morris,<br>Siamas Morlas,<br>Sion Niwbwrch,<br>Ellis Gruffydd, | ——— | ail eto. |

*Telyn.*

| | | |
|---|---|---|
| Lewis Berain,<br>Ieuan ap Meredydd,<br>Gwalchmai ap Dafydd, | ——— | astudwyr dysgyblaidd mewn cerdd offerynol. |

*Crwth.*

| | | |
|---|---|---|
| Siamas Eutyn,<br>Ifan Penmon, | ——— | ben beirdd a dysgawdwyr mewn cerdd offerynol. |

*Crwth.*

| | | |
|---|---|---|
| Robert ap Rhys Gutyn,<br>Thomas Môn,<br>Sion Ednyfed,<br>Thomas Grythor, | ——— | ben beirdd (ond nid dysgawdwyr) mewn cerdd offerynol. |

*Crwth.*

| | | |
|---|---|---|
| Sion Ddu Grythor, | ——— | brif astudiwr mewn cerdd offerynol. |

Digitized by Google

*Crwth.*

| | | |
|---|---|---|
| Robert ap Ivan Llwyd,<br>Edward Grythor,<br>Thomas Cegidfa,<br>Rhys Grythor Hiraethog,<br>Thomas Grythor Bach,<br>Dafydd ap Hywel Grythor,<br>William Ednyfed, | a grewyd yn | ail astudwyr mewn cerdd offerynol. |

*Crwth.*

| | | |
|---|---|---|
| Richard Conwy,<br>Sion Alaw,<br>Robert Conwy,<br>Grythor Llwyd Marchedd, | ——— | astudwyr dysgyblaidd mewn cerdd offerynol. |

Dylid sylwi, fod chwareuwyr ar y crwth trithant, tabyrddwyr, a phibgornwyr, yn cael eu cyfrif yn mhlith y dosparth israddol: ni chaniateid iddynt eistedd i lawr, ac ni chaent ond ceiniog am eu poen.

Yr oedd y gwahanol raddau yn cael eu cynwys yn y rhestr hon. Yr oedd pedair yn y gelfyddyd farddol, a phump yn yr un offerynol. Yr isaf, neu yr hwn a ellid ei alw yn fwy priodol yn ymgeisydd, neu ddechreuwr ydoedd y *Dysgybl Yspâs*, neu y *dysgybl isaf*, yr hwn a orfyddai (os yn ymgeisydd am urdd farddol) ddeall cyfansoddiad pum' math o Englyn, a'u cyfansoddi o flaen Pencerdd, yr hwn ydoedd i gyhoeddi, ar air a chydwybod, ei fod yn meddu ar wir athrylith farddol. Yna dechreuai fel

Dysgybl Dysgyblaidd: yma y mae yn cael urdd; ond rhaid iddo fod yn deall deuddeg o'n gwahanol fesurau, ac arddangos esiamplau o bob un o honynt o'i gyfansoddiad ei hun; ac os na enillai, mewn tair blynedd, yn ei deilyngdod ei hun, y radd nesaf, diraddir ef o hon. Os llwydda, y mae yn cyrhaedd gradd

Dysgybl Pencerddaidd, neu ymgeisydd am radd *Pencerdd*, pryd y rhaid iddo ddeall priodoldeb ymadroddion, a'r gwahanol fesurau, a chyfansoddi mewn un ar hugain o honynt; ac os mewn tair blynedd na chyrhaedda efe, trwy ei deilyngdod ei hun, i'r gradd nesaf, y mae yn syrthio yn ol i radd *Dysgybl Dysgyblaidd*; ond os llwydda, y mae yn dyfod yn

Pen Bardd, neu Pencerdd, penaeth yn y gelfyddyd yr oedd yn ymgeisydd ynddi, pryd y byddai yn ofynol iddo fod yn berffaith yn mhob cangen o'i gelfyddyd. Yna derbyniai arwydd y delyn arian; neu eiddo cadair aur neu arian, yr hwn a wisgai ar ei ysgwydd. Gosodid ef hefyd, gyda seremoni mawr, mewn cadair odidog, rhan o'r *dodrefn* ag y sonir am danynt yn y commissiwn; yno y derbyniai urdd ei radd; a'r pryd hyny enillai yr enw anrhydeddus o *Gadeirfardd*, neu *Fardd Cadeiriog.* Gallai Pencerdd herio unrhyw fardd arall i ddatganu neu ganu am y wobr, ond rhoddi rhybudd o undydd a blwyddyn. Os llwyddai, byddai yn ei henill; os na wnai, collai ei radd; a'r buddugol a gadwai y wobr am ei oes, ond y byddai yn rhaid iddo ei dangos bob blwyddyn yn yr Eisteddfod.

Digitized by Google

Mewn cerdd offerynol yr oedd pum' gradd; y rhai ni wahaniaethient oddiwrth y rhai yn y gelfyddyd arall, oddieithr yn y ddau isaf: 1. *Y Dysgybl Yspâs heb radd;* 2. *Dysgybl Yspâs graddawl;* 3. *Dysgybl dysgyblaidd;* 4. *Dysgybl pencerddaidd;* 5. *Pencerdd.* Yr oedd y rhai hyn, yr un modd a'r lleill, i gael eu henill trwy deilyngdod gwahanredol yn y gelfyddyd; ond yn gymaint a bod eu cymhwysderau yn cael eu nodi mewn celfeiriau cerddoriaeth Brydeinig, mwy nag a allaf fi wneyd ydyw rhoddi esponiad arnynt. Ni ddylai neb ond pencerdd ryfygu myned yn ddysgawdwr. Pencerdd ein dyddiau ni oedd y telynor anarferol o athrylithgar hwnw, Mr. John Parry, yn ddiweddar o Riwabon, dyn dall, yr hwn a feddai yr holl deyrnas fel ei *gylch clera*, a pharhaodd yn ddihefelydd hyd y diwedd.

Yr oedd ein Penceirdd, ar ol cael eu cymhwyso yn y modd yma, yn drwyddedig i ganu, neu i ddatganu, o dan reolau penodol. Yn ol deddf ein tywysogion, yr oedd sylw neillduol yn cael ei dalu i'w moesoldeb: "Nid oeddynt i fod yn gyngwystlwyr, crwydriaid, mynychwyr tafarnau, meddwon, cecrwyr, godinebwyr, lladron, na chymdeithion i'r cyfryw; yn y pethau hyn, os troseddent, yr oedd pob dyn, yn ol y gyfraith, yn cael ei wneyd yn swyddog, a chanddo hawl i'w dal a'u cospi hwy; ïe, hyd yn nod i gymeryd oddiarnynt yr oll a feddent o'u hamgylch." *

Gwaherddid iddynt ymarfer unrhyw eiriau athrodus wrth siarad neu sisial; diraddio, gwatwar, gwawdio, dyfeisio celwyddau, neu eu hadrodd ar ol ereill, o dan boen o ddirwy a charchariad; nid oeddynt i gyfansoddi câu am unrhyw berson, heb ei ganiatâd; nac i fyned i dŷ neb heb genad reolaidd wedi cael ei rhoddi yn flaenorol.

Caniateid i bob *Pen bardd* a *Phencerdd* gymeryd dysgyblion i mewn am yspaid pennodol o amser, ond nid mwy nag un ar yr un adeg. Nid ystyrid fod dysgybl yn gymhwys i ddysgu un arall. Yr oedd pob un i fod gyda'i athraw yn ystod y Grawys, oddieithr iddo gael ei atal gan afiechyd neu garchariad, o dau boen colli ei radd. Byddai raid iddo ddangos pob cyfansoddiad i'w athraw, cyn iddo gael ei ganu yn gyhoeddus. Nid oeddynt i ddylyn ymarferion *clêr y dom,* nac unrhyw fath arall o gerddorion crwydrol. Gelwid arnynt, fis cyn pob gwyl, i benderfynu eu teithiau gyda'u gwahanol ddysgawdwyr, rhag y byddai gormodedd o honynt yn heidio i'r un manau; ni oddefid i ddim mwy nag un o honynt fyned at berson na fyddai yn talu ond deg punt o ardreth yn flynyddol; a dau at y cyfryw a dalent ugain punt; ac felly mewn cymhariaeth hyd i rai o sefyllfa uwch, ac yr oedd pob athraw yn rhwym i gadw copi o'r rheolau hyn, a'u darllen a'u hesponio i'r dysgyblion yn ngwyliau y Grawys, pan ddeuent am eu haddysgiadau. Nid oedd neb i ddynwared, gwawdio, na gwatwar yr *awenyddion* ar gyfrif eu habsenoldeb meddyliol, neu pan fyddai yr AWEN, neu y *poeticus furor*† arnynt, oddiar y dybiaeth nas gallai un bardd, os byddai wedi ei awdurdodi yn briodol, byth fyfyrio ar destynau amhriodol.

I ba dŷ bynag y deuent yn amser gwleddoedd, rhaid fyddai iddynt aros yno tra y parhai y wledd; oddieithr iddynt gael cenad meistr y tŷ, neu wahoddiad

* Powel, 192. † Y GYNDDAREDD FARDDONOL.

i fyned i rywle arall. Os crwydrent o dŷ i dŷ, yr oeddynt i gael eu cymeryd i fyny fel gwibiaid a chrwydriaid, ac i golli eu clera,* yr hwn a fyddai yn cael ei fforffetio at wasanaeth yr eglwys. Os byddai iddynt feddwi, collent eu gwobr; ond os gwnelent drais ar ddiweirdeb gwraig neu forwyn, byddai iddynt gael eu dirwyo a'u carcharu, a chollent eu *clera* am saith mlynedd.

Yr oedd y taliadau neu y gwobrau hyn yn cael eu rheoleiddio. Yr oedd *dysgybl dysgyblaidd* yn meddu hawl i 3*s*. 4*c*. am ei gywydd.

*Dysgybl Penceirddaidd* a dderbyniai am yr un rhywogaeth o gyfansoddiad 6*s*. 9*c*.

Nid oedd ei feistr, neu y *Pencerdd* yn cael dim yn ychwaneg: ond yn unig y byddai gŵr y tŷ yn gyffredin yn ei anrhegu â rhyw ddilledyn, neu ryw arwydd arall o'i ffafr.

Y cerddorion a dderbynient y taliadau canlynol: *Dysgybl Yspâs graddawl* ni dderbyniai ond 1*s*. yn mhob un o'r prif wyliau.

*Dysgybl Dysgyblaidd*, ar yr un adegau, a dderbyniai 2*s*.; a *Dysgybl Penceirddaidd*, 3*s*. 4*c*.

Y Pencerdd a dderbyniai yr un swm, ond ei fod yn cael rhodd wirfoddol. Yr oedd efe hefyd yn hawlio taliadau mewn priodasau breninol, a phriodasau ereill; ac ar eu cylch clera, yr hwn ni oddefid ond unwaith yn mhob tair blynedd. Ond heblaw y taliadau, er mwyn cefnogi y clerwyr i gadw i fyny iaith a choffadwriaeth am weithredoedd nerthol y Brytaniaid, yn gystal a'u hachau, caniateid iddynt geiniog o bob tir âr, a dimai allan o bob haner tir âr, o fewn eu dosparth.

Nid oedd y *Pen bardd* a'r *Pencerdd* yn ymweled ond yn unig â thai y boneddigion yn eu cylchdeithiau; ond os byddai iddo ddiraddio ei hun trwy ymweled â'r bobl gyffredin, nid oedd i ddysgwyl ond taledigaeth y clerwr cyffredin, cylch yr hwn ydoedd ymweled â thai y bobl iselaf.

Y rhai canlynol oeddynt y cyfryw ag y caniateid iddynt ddifyru clustiau y werin. Unrhyw un a fyddai yn goddef gan unrhyw afiechyd; megys dallineb, cloffni, &c., dysgybl yspâs, dysgybl dysgyblaidd, a dysgybl penceirddaidd. Yr oedd y trefniad cyntaf yn seiliedig ar drugaredd.

Ni ellid cynal unrhyw wyl gyhoeddus, gwledd fawr, na phriodas, yn briodol, heb bresenoldeb y beirdd a'r cerddorion. Byddai cydymgais gogoneddus yn cyfodi rhyngddynt, a rhoddid gwobrau i'r rhai mwyaf teilwng. Yn 1176, yr

*Eisteddfod yr Arglwydd Rhys.*

*Arglwydd Rhys*, tywysog y deheubarth, a wnaeth wledd fawr † yn ngwyliau y Nadolig, ar gyfrif gorpheniad ei gastell newydd yn Aberteifi; am yr hon y rhoddwyd rhybudd, trwy holl Frydain, o undydd a blwyddyn yn mlaen llaw: a mawr oedd cynulliad y dyeithriaid, y rhai a groesawid yn ardderchog; fel nad ymadawodd neb heb gael ei gwblfoddloni. Yn mysg cyflawniadau milwraidd, ac

* Neu eu tâl. Y mae weithiau yn golygu eu gwaith yn mynod oddiamgylch.

† Powel, 237.

Digitized by Google

amrywiaeth o olygfeydd, yr oedd Rhys wedi gwahodd yno holl feirdd Cymru, ac wedi darparu *cadeiriau* iddynt, y rhai a osodasid yn ei neuadd, lle yr eisteddent ac yr ymddadleuent, ac y canent, i ddangos eu medrusrwydd yn eu gwahanol gelfyddydau: ar ol hyny, efe a gyfranodd wobrwyon teilwng ac anrhegion gwerthfawr i'r buddugwyr. Beirdd Gwynedd a enillasant y gwobrau; ond cerddorion tylwyth Rhys a ragorasant yn eu celfyddyd hwy. Ar yr achlysur hwn, y *Brawdwr llys*, neu y beirniad, swyddog o'r bummed radd, a gyhoeddai y buddugwr mewn llais uchel, a derbyniai gan y bardd, fel ei dâl, gorn yfed mawr, wedi ei wneyd o gorn ŷch; a modrwy aur. a'r teisban ar ba un yr eisteddai yn ei gadair urddasol.*

*Datgeiniad.*

Byddai beirdd yr amseroedd hyny yn fynych yn canu â'u lleisiau gyda'r delyn, megys ag y byddent yn yr hen amseroedd, yn y dull a ddysgrifir gan Ammianus Marcellinus.† Yr oedd hefyd rywogaeth arall o gerddor, o fath israddol, a elwid *Datgeiniad*, yr hwn a ganai ei gerdd gydag offerynau y lleill. Yr oedd hwn yn israddol i'r bardd a'r cerddor; er hyny yr oedd yn ofynol iddo feddu ar gryn raddau o wybodaeth yn y ddwy gelfyddyd: yr oedd yn ofynol iddo fod yn alluog i gyweirio y delyn a'r crwth; dangos ei fedrusrwydd mewn chwareu amryw nodau a chyweiriau, a bod yn berffaith gydnabyddus yn yr hyn a elwir yn bedwar mesur ar hugain cerdd dant; ac i fod yn alluog i ganu gyda chwaeth a melodedd. Gofynid iddo hefyd fod yn alluog i ddarllen yn eglur, ac ysgrifenu yn gywir. Nid yn unig yr oedd i ddeall cyfansoddiad ar y pedwar mesur ar hugain, ond yr oedd i arddangos engreifftiau o honynt o'i waith ei hun, neu o leiaf, mewn tri o honynt; ac os cyfarfyddai âg unrhyw hen gerdd a fyddai wedi cael ei chopïo yn anghywir, yr oedd efe i'w diwygio. Yr oedd hefyd i gario gydag ef delyn neu grwth mewn gorchudd gwŷn. Dysgwylid iddo yn mhellach, nid yn unig fod yn waetiwr medrus wrth y bwrdd, ond hefyd i allu carfio yn ddichlynaidd bob rhywogaeth o ffowls. Ar adeg priodas un o'r teulu breninol, ei swydd ef oedd gweinyddu ar y briodasferch.

*Cyff clêr.*

Ar yr achlysuron hyn, yr wyf yn cael fy adgofio am ddefod neu arferiad arall, â pha un yr oedd a fynai y beirdd. Ar ol i'r wledd briodasol fyned drosodd, gosodid un o'r Penceirdd yn GYFF CLER, a rhoddid ef i eistedd ar gadair, tra y byddai yr holl feirdd ereill yn sefyll o'i gwmpas, ac yn ei wneyd ef yn destyn eu caniadau llawen a digrifol, er difyrwch i'r gweddill o'r cwmpeini. Ar y diwrnod hwnw nid oedd i ddyweyd yr un gair mewn ffordd o atebiad; ond dranoeth byddai efe at ei ryddid i ddifyru y neuadd ar draul y beirdd israddol; ac yr oedd hefyd i gyfansoddi cerdd ar destyn a roddid iddo, yn gyson â'i urddas.

*Datgeiniad Pen Pastwn.*

Byddai yr isaf o'r teulu cerddorol yn cael dyfod i mewn ar brydiau. Hwn oedd y *Datgeiniad Pen Pastwn*, neu yr un a ganai at swn ei bastwn, yn gymaint a'i fod yn anghyfarwydd â phob offeryn arall. Pan oddefid iddo ef gael dyfod i mewn, byddai raid iddo sefyll yn nghanol y neuadd, a chanu ei awdl neu ei gywydd, gan guro yr amser, a chwareu y cyfeiliant gyda'i bastwn; ond os byddai yno broffeswr cerddoriaeth, rhaid oedd yn gyntaf gael ei ganiatâd ef cyn y meiddiai ddifyru y

* Leges Wallicæ, 23. † Lib. xv. 9.

Digitized by Google

cwmni â'r math yma o gerddoriaeth. I ba le bynag y deuai, byddai raid iddo wasanaethu fel gwas israddol i'r bardd neu y cerddor.*

Terfynaf fy hanes am yr Eisteddfodau, a fy Nhaith, gyda dysgrifiad o athrylith farddonol y Cymry gan Michael Drayton, yr hwn, yn brydferth a ffyddlawn, a gofrestra yr amrywiol nodweddiadau a gymerent yn eu chwareuon difyrus.

Rhai oeddynt feirdd, ac yn eu sanctaidd wyniau
Cofrestrent âch ac enwog waith yr oesau:
A chyda'r tant tarawai rhai felodedd;
Tra ereill—mwy anfedrus gyda'u bysedd,
A ganent â thelynau pêr gerddorion,
Mewn awen lawn, gan roddi gwir ragorion.
Hwnyma fu fuddugol mewn Eisteddfod,
Ac enill wnaeth y delyn arian fawrglod:
Penillion hwn a geid o'r aur amserau,
O amryw hyd, ac amryw wych fesurau.
*Englynion* pêr a ganai rhai o'r beirddion;
Ac ereill mewn uwch arddull yn fwy hyfion,
Adroddent eu dychymyg mewn *Cywyddau*,
Tra ereill feirdd ragorent yn eu *Hawdlau*.
Er fod y rhai'n yn dangos gwych amrywiaeth,
Mae yn yr oll gydgordiad pur fesuriaeth;
Can's yn y gelf gysegraidd hon y treulient,
O'u mabaidd oed, eu bywyd; a llafurient
Drwy gydol oes, yn nghanol y mynyddoedd,
Heb braidd wel'd llyfr ar hyd y maith flynyddoedd;
Ond eto gwnaent yr oll mor bur a hyfryd
A phe baent hwy yn ysgol fawr Celfyddyd.†


* Cyfieithwyd amrywiol ranau o'r hanes yma o'r *Cambro-brytannicæ Cymraecæve Linguæ Institutiones;* llyfr ag sydd yn dra phrin, a ysgrifenwyd gan Dr. John Dafydd Rhys o Lanfaethlu yn sir Fôn, yr hwn a argraffwyd yn 1592. Cymerodd ei radd fel doethawr yn Sienna; ond yn Rhydychain y derbyniodd ei addysg. Dychwelodd i'w wlad ei hun, lle yr ymarferodd ei gelfyddyd gyda llwyddiant mawr. Ar gais Syr Edward Stradling, o Donats, y cyfansoddodd efe y llyfr hwn. Dywed wrthym, iddo ysgrifenu y rhan gyntaf yn nhŷ Mr. Morgan Meredydd, yn sir Faesyfed, a'r gweddill mewn lle o'r eiddo ei hun yn sir Frycheiniog, yn ddeng mlwydd a thri ugain oed, ac o dan gysgod llwyn o ddrain gwynion. Gwel ei Ragymadrodd.

† Poly Olbion, song iv.

DIWEDD Y RHAN GYNTAF.

Digitized by Google

Digitized by Google



PISTILL CAIN.

Gwel Tudal. 307.

Digitized by Google

# RHAN II.

DOWNING,

LLANELWY, DINBYCH, RHUTHYN, CORWEN, BALA,

DINAS MOWDDWY, DOLGELLAU,

ABERMAW, HARLECH, YSPYTTY, LLANRWST,

ERYRI,

PENMORFA, LLEYN, CAERNARFON, YNYS FON,

BANGOR, CONWY.



Digitized by Google

Digitized by Google

# YR AIL DAITH YN NGOGLEDD CYMRU.

Yn y daith yma, yr hon sydd yn ddylyniad o'm taith flaenorol, cyfeiriais fy nghamrau i'r gorllewin o Downing, gan fyned heibio Whiteford (Rhyd wen,) eglwys ein plwyf, ac esgyn i fryn y Garreg;* lle tra uchel ac amlwg yn y wlad hon. Cymerodd y Rhufeiniaid fantais ar y safle, a gosodasant ar ei gopa oleudy *(Pharos,)* i'r dyben o arwain y mordwywyr i Gaerlleon, ac allan o honi, ar hyd sianel beryglus y Seteia† Portus. Y mae yr adeilad hon yn aros o hyd. Gobeithiaf na bydd i'm cyfeillion fy marnu yn hynafiaethydd *Quixotaidd*, a dychymygu fy mod yn camgymeryd, yn fy ail daith, adeilad ag y buwyd hyd yma yn tybied mai melin wynt ydoedd, am oleudy Rhufeinig. Y mae yn lled gyfan; o ffurf gylchog; yr uchder yn fawr; a'r tryfesur tufewnol yn ddeuddeg troedfedd a haner; a thrwch y muriau yn bedair troedfedd a phedair modfedd. Y mae y drysau, neu y mynedfeydd i mewn, yn sefyll gogyfer y naill y llall; uwchben pob un y mae ffynel ysgwâr, neu simnai, yr hon a agora ar y tu allan, oddeutu haner y ffordd i fyny yr adeilad. Ar bob ochr y mae ffenestr. Oddeutu pedair troedfedd oddiar y llawr y mae tri o dyllau crynion, wedi eu leinio oddi fewn â morter, megys ag y mae yn gyffredin mewn adeiladau Rhufeinig; a threiddiant trwy yr holl fur, i ryw ddybenion ag sydd yn bresenol yn anadnabyddus.

[*Goleudy.*]

Oddifewn y mae olion grisiau, y rhai a arweinient i'r llofftydd, o bai rai y mae yn ymddangos fod dwy. Ar hyd yr uchaf, ar yr ochr sydd yn fwyaf gweladwy o'r môr, y mae wyth o dyllau bychain ysgwâr, wedi eu gweithio oddifewn â cheryg nadd (oblegyd nid yw y gweddill o'r adeilad ond o gareg galch arw, mewn gwely o forter caled), ac yr oedd pob un o'r rhai hyn yn cael eu gwahanu gan baneli coed, wedi eu gosod mewn rhychau dyfnion, ac erys y rhai olaf mewn cyflwr perffaith hyd heddyw. Yn mhob un o'r rhaniadau hyn y gosodid y goleuadau, y rhai y barnai y Rhufeiniaid yn angenrheidiol eu cadw ar wahan, neu eu dyogelu rhag rhedeg y naill i'r llall, rhag ofn i'r morwyr eu camgymeryd am seren. *Periculum in corrivatione ignium ne sidus existimetur.*‡

At yr adeilad y mae yn dra amlwg fod ffordd lydan a dyrchafedig yn arwain, yr hon a gyfeiriai o'r dwyrain; ac yn agos i'w phen uchaf y mae olion ffos, yr hon a amgylchai ac a amddiffynai yr adail wasanaethgar hon. Yr wyf yn awr yn disgyn, ac yn nhroed yr allt yn myned heibio i'r *Maen Achwyn-*

* Hist. Whiteford, iii.—Gol.

† Ni thybir yn bresenol mai y *Seteia* ydyw y *Ddyfrdwy*, ond rhyw afon fwy i'r goglodd, efallai y *Mersey*. J.R.

‡ Plinii Hist. Nat. lib. xxxvi. c. 12.

Digitized by Google

*fan*, am yr hwn y soniais yn barod. Y mae yn y twmpathau o amgylch *Glol*, yr hwn sydd fynydd amgauedig ychydig yn mlaen, amrywiol gylchau, sylfeini rhyw hen adeiladau o geryg heb eu gweithio â morter. Oddeutu milldir oddiyma y saif tref fechan *Newmarket* (Trelawnydd), yr hon a adeiladwyd braidd yn gwbl gan ei pherchenog y pryd hyny, John Wynne, ysw., o Gop, yr hwn a fu farw yn y ganrif bresennol. Hen enw y plwyf ydoedd *Trelawnydd*, am yr hwn nis gallaf gael rheswm boddhaol. Yn y fynwent y mae croes hynafol dra phrydferth. Yma y saif un o'r ysgolion elusenol, a sefydlwyd ac a agorwyd yn 1726, gan Dr. Daniel Williams,* gweinidog Ymneillduol, gyda gwaddol o wyth bunt yn y flwyddyn; yr hon elusen a estynodd efe i bob sir yn Ngogledd Cymru, ond hynododd Wrecsam yn fwy arbenigol trwy adael iddi gyflog blynyddol o bymtheg punt, fel y lle y ganwyd ef ynddo. Efe hefyd a sefydlodd drysorfa, yr wyf yn credu, yn mhob un, allan o'r hon y mae y plant yn cael eu prentisio, gyda phum' punt yr un.

[ *Trelawnydd.* ]

*Cop.* ] O'r dref aethum i fyny y bryn, a elwir *Cop ar leni*, ar ben uchaf yr hwn y mae carnedd enfawr, wedi ei gwneyd o geryg calch. Dichon ei fod yn fath o *specula*, neu dŵr i ysbïo oddiarno, ac yn goffadwriaeth am ryw swyddog lled uchel hefyd. Os un Rhufeinig, efallai fod *Paulinus* wedi rhoddi iddo enw, Cop-Paulini. Y mae ansicrwydd mawr yn perthyn i'r gwreiddiau hyn: dichon y byddai yn llawn cystal i mi sefyll at y tarddiad cyntaf† a roddais i'r gair, sef *Cop y Goleuni;* oblegyd gallasai fod yn lle i roddi arwyddion trwy dân o agoshad gelyn ar hyd y môr, neu *yn orsaf y tân sanctaidd*, oddiwrth Goelcerthi y Derwyddon, tebyg i *Karn Gollewa* (carn y goleuadau), a *Karn Leskyz*, neu garnedd y llosgiadau, o eiddo y Cernywiaid, y rhai y tybir gan y dysgedig *Borlase*‡ eu bod yn cael eu defnyddio i ddybenion cyffelyb. Bu y rhandir oddiyno i Gaerwys unwaith yn ddiau yn faes brwydr: nid oes un lle yn Ngogledd Cymru yn arddangos cynifer o garneddau; ond y maent i gyd yn feddrodol, fel y profir gan y llwch-lestri a gafwyd ynddynt. Y maent yn llawer llai o faintioli na'r gyntaf a nodwyd, ac wedi eu gorchuddio â thywyrch. Ni byddai yn ormod rhyfyg dyfalu mai yn y fan yma y bu y lladdfa ar y Gordofigion gan Agricola, pan y cafodd ein cenedl wrolfryd braidd ei chwbl ddiddymu. Y mae rhan o grib y bryn yn cael ei alw *Bryn y saethau*, am mai dyma ydoedd safle y saethyddion yn ystod y frwydr.

*Gwaenysgor.* ] Dychwelais ar hyd crib y mynydd, y rhan a hynodir ar ei hyd gan garneddi gwyrddion, beddrodau hen wroniaid. Yr wyf yn gweled odditanaf eglwys fechan *Gwaenysgor*, yr hon sydd yn hynod ar gyfrif ei chofrestr hynafol.

*Llanasaph.* ] Disgynais i eglwys a phentrefydd *Llanasaph*, y flaenaf wedi ei chysegru i Sant Asaph, dydd gwyl yr hwn a gynelir ar y 1af o Fai. Laurence Child, esgob Llanelwy yn 1385, a gafodd awdurdod i ddefnyddio cyllid yr eglwys hon i ddarparu goleuadau§ i'r brifeglwys; ac ad-

* Efallai yr adnabyddid ef yn well ar gyfrif ei Lyfrgell yn Llundain, a chrybwyllir am dano gan Mr. Pennant yn ei Hanes Llundain. T.P.

† Gwel tudal. 220 o'r gwaith hwn. ‡ Antiq. Cornwall. 1731.

§ Willis's St. Asaph, App. No. xxi.

Digitized by Google

gyweirio yr adfeiliadau a wnaethid arni yn ystod y rhyfeloedd. Wrth agosâu o'r tiroedd uchel at lan y môr, yr wyf yn canfod adfeilion capel bychan yn mhentref Gwespyr, gerllaw Talacre, un o breswylfeydd Syr Pyers Mostyn, barwniad, a changen o deulu Mostyn. Y mae ei chwarel gerllaw yn hynod ar gyfrif rhagoroldeb ei thywodfeini; ac felly hefyd y mae y gwning-gaer eang ac enillfawr islaw, ar gyfrif moethusrwydd y cwningod, trwy eu bod yn eu porthi ar blanigion arfordirawl.

*Gronant.* ] Croesi *Morfa Gronant.* Y mae traddodiad yn dywedyd ei fod yn cyrhaedd mor bell, fel y gallai pobl ar yr ochr yma siarad â'r bobl yn sir Gaerlleon, ar yr ochr arall i'r sianel. Gallai hyn fod yn ormodiaith; ond, oddiwrth gofnodau credadwy, ymddengys fod y gwastadedd yma gynt yn dra eang, ac iddo gael ei gwtogi i'w derfynau cyfyng presenol trwy orlifiad y môr, yr hwn sydd hyd heddyw yn dal gafael ar ei derfynau. Yn flaenorol i'r trychineb yma, yr oedd yn meddiant esgobaeth Llanelwy, trwy ganiatâd a wnaed gan Iorwerth y Tywysog Du, mab i Iorwerth III., i Lewelyn ap Madoc, yr hwn a etholwyd yn esgob Llanelwy yn 1357. Dygwyddodd y gorlifiad yn flaenorol i deyrnasiad Harri V. Cyn hyny yr oedd yr esgob yn talu cydnabod i'r trysorlys yn Nghaerlleon y swm o ugain marc; ond darfu i Harri V. yn 1414, a Harri VI. yn 1445 a 1451, ar ystyriaeth o'r anffawd, ryddhau yr esgobaeth oddiwrth y taliad hwnw.* Pe na buasai y cofnodiad yma yn brawf anwrthwynebol o enilliad y cefnfor ar y gororau hyn o'n gwlad, y mae profion naturiol ereill i'w cael, a fuasent ar unwaith yn rhoddi digon o sail i greu amheuaeth. Dyna fangciau Hyle, y rhai a redant am ddeuddeg neu bedair ar ddeg o filldiroedd yn gyfochrog â chantref Wiral, yn sir Gaerlleon, ac a wahenir oddiwrth Gymru gan afonig fechan, yn ol pob tebygoliaeth, buont unwaith yn rhan o dir sych Lloegr. Ychydig filldiroedd i'r gorllewin o forfa Gronant, islaw plwyf Abergele, yn sir Ddinbych, y gellir gweled, ar drai isel, yn dra phell oddiwrth y tir, ac wedi eu claddu yn y tywod, nifer mawr o goed derw—coedwig, yn flaenorol i'r trychineb yma. Yn olaf, y mae yn mur y fynwent yn Abergele feddargraff heb amseriad arno, yn yr iaith Gymraeg, yn hysbysu fod y person a gladdwyd yno yn byw "dair milldir i'r gogledd" o'r lle hwnw, yn mha ranbarth y mae y môr yn bresenol yn gwbl a thrwyadl feddiannydd.

Ychydig tu hwnt i Gronant y mae hen balas y *Nant*, gynt yn meddiant y *Conways*, cangen o *Conways* Bryneuryn, yn agos i Landrillo Rhos, y rhai a hanent o Gruffydd Goch, arglwydd Rhos a Rhyfoniog.

Wrth agosâu at Prestatyn, oddeutu dwy filldir o Drelacre, y mae y gwastadedd yn dyfod yn anarferol o doreithiog mewn ŷd, yn enwedig gwenith, yr hwn sydd o ansawdd dra rhagorol; ac y mae yn parhau yn gyfartal dda drwy yr holl randir gwastad, mor belled a Rhuddlan, lle y mae yn cael ei dori gan y morfa, ac y mae drachefn yn cael ei barhau ar hyd yr arfordir yn mhell tu hwnt i Abergele. Ychydig islaw melin Prestatyn, mewn gwaendir, y mae *Castell Prestatyn.* ] safle y castell; nid oes yno ddim ond tir wedi ei godi i fyny, gyda sylfeini yn cynwys ceryg a morter, a ffos mewn ychydig bellder oddiwrtho, yn aros o hono yn bresenol. Y mae yn debyg i'r

* Willis's St. Asaph, 65. App. No. xxxi. xxxii.

amddiffynfa fechan hon gael ei chodi gan y Cymry, ond iddi gael ei chymeryd oddiarnynt gan y Saeson, y rhai oeddynt mewn meddiant o honi yn 1167, yr unig amser ag yr ydwyf fi yn medru cael unrhyw hanes am dani, pan y cafodd ei dinystrio gan Owain Gwynedd, Cadwaladr ei frawd, a Rhys, tywysog y Deheubarth; a darostyngwyd yr oll o Degengle o dan awdurdod ei benadur cyfreithlawn.

Y mae arglwyddiaeth a phentref Prestatyn yn gorwedd yn mhlwyf Meliden. Rhoddwyd y lle yma gan Rhisiart I. i Robert Banaster, yr hwn a'i mwynhaodd am dair blynedd a haner, ac a adeiladodd y dref, yr hon a ddinystriasid gan Owain Gwynedd. Robert de Crevecœur, yn y 7fed flwyddyn o Iorwerth I., a'i hawliodd fel etifedd ei hynafiad, Banaster. Gwnaed ymchwiliad o flaen rhaith o bedwar ar hugain* o bersonau; penderfynasant yn ffafr Robert: wedi hyny yr wyf yn cael, yn ol ysgrifau ereill, ei fod yn meddiannu tiroedd yn Maelor Saesoneg, a Phrestatyn, y rhai a ddaliai trwy daledigaeth gwasanaeth un marchog.

Disgynodd arglwyddiaeth Prestatyn i ddwylaw y *Conways* o Fod-rhyddan, trwy briodas Angharad, merch ac etifeddes Syr Hugh de Crevecœur. Ar raniad yr etifeddiaeth, wedi marwolaeth Syr John Conway, daeth yr arglwyddiaeth hon i feddiant y Parchedig Richard Williams o'r Fron, yn hawl ei fam, merch ieuengaf Syr Thomas Longueville, yr hwn a'i meddiannai yn hawl ei wraig gyntaf, un o ferched Syr John Conway. Mewn blynyddoedd diweddarach, gwerthodd Mr. Williams hi i'w frawd-yn-nghyfraith, Rhisiart Wilding, ysw

Y mae y ffordd oddiyma i Ddyserth yn anarferol o hyfryd, wrth odreu mynyddoedd uchel, yn gyfoethog o fwn plwm, gyda gwastadedd gwych a ffrwythlawn ar y llaw ddehau. Y mae y graig wen yn ymddangos yn amlwg ar y llaw aswy, ac y mae ei hochrau i'w gweled wedi eu rhychu yn ddwfn gan y mwngloddwyr, yn eu hymchwiliad am fwn. Yn agos i'r fan yma y mae dechreuad dyffryn Clwyd, a therfyniad y rhês o fynyddau sydd yn ei amgau o du y dwyrain. Heb fod yn nepell oddiyma y saif *eglwys Dyserth.* mewn pant prydferth a rhamantus, islaw nifer o greigiau afrywiog; y mae yr eglwys trwy ei bod yn cael ei chysgodi gan goed yw mawrion, a ffurfiad neillduol rhai o'r beddau, yn llunio golygfa anarferol o darawiadol. Ar un adeg yr oedd rhaiadr yn ngheuedd dwfn a chrynaidd craig, ac yn cael ei dywyllu yn brydferth gan eiddew, yn rhoddi harddwch ychwanegol i'r fan; ond yn ddiweddar, y mae troad y dwfr at wasanaeth melin wedi yspeilio y lle o'r prydferthwch amrywiaethol hwn. Y mae y ffrwd, yr hon nid yw ond ychydig yn israddol i un Treffynon, yn llifo yn benaf o un ffynhon, a elwid ffynhon Asaph, mewn nant yn mhlwyf y Cwm, oddeutu milldir o ffordd oddiyno. Y mae y ffynhon wedi ei hamgau â cheryg, mewn ffurf amlonglog, ac yr oedd gynt yn meddu ei haddunedwyr, megys eiddo St. Gwenfrewi.

*Eglwys Dyserth.*

*Castell.* Uwchlaw eglwys Dyserth, ar graig uchel, y saif gweddillion y *castell.* Nis gallaf olrhain sylfaeniad yr amddiffynfa hon; gelwid hi wrth yr enwau Din-colyn, Castell y Ffailon, a Chastell Gerri.† Dichon mai castell Cymreig ydoedd, a'r olaf o'r gadwyn o orsafau Prydeinig ar fryniau Clwyd.

* Sebright MSS.

† Llwyd's Itin.

Cadarnhawyd ef, yn 1241, gan Harri III.;* ond ni chafodd namyn oes fer, oblegyd yn 1261, Llewelyn ap Gruffydd a wnaeth y castell hwn, ac eiddo Diganwy, yn gydwastad â'r llawr.† Mewn gwarchaead ar y lle hwn y cafodd Einion, mab Ririd Flaidd, ei ladd.‡ Cyfodwyd croes ar y fan, yr hon a elwid Croes Einion, paladr yr hon, yn addurnedig â cherfiadau dyeithr, a dybir ei bod yn awr yn ffurfio y gamfa i fynwent Dyserth; yn mha un y mae croes arall, o wneuthuriad hynod o gywrain.

Safai y castell ar gopa y graig, ochrau yr hon a dorasid yn sythion, er gwneyd y lle yn fwy anhygyrch. Mewn un man, islaw y pen uchaf, y mae rhag-gaer ysgwâr, a'r ffosydd wedi eu tori mewn rhan allan o'r galchfaen sylweddol. Y mae gweddillion y castell yn dangos mai nid amser a fu yr achos o'i adfeiliad; y maent yn gorwedd yn dalpiau mawrion, wedi cael eu dymchwelyd trwy gloddio odditanynt, yr hwn oedd yn ddull cyffredin o gario gwarchae yn mlaen, yn mhell iawn cyn bod powdwr gŵn yn adnabyddus.

Mewn cae ychydig i'r dehau i'r castell, y mae adeilad gandryll, a elwir Siamber Wen. Dywedir mai dyma oedd preswylfod Syr *Robert Pounderling,*§ ar un adeg yn llywydd y castell cyfagos, marchog gwrol a doeth, yr hwn a gafodd guro un o'i lygaid o'i ben gan foneddwr o Gymru, mewn ymladdfa ornest; ond pan ddymunwyd arno herio ei wrthwynebydd i ymladd lawlaw, os cyfarfyddai âg ef rywbryd wedi hyny yn llys, gomeddodd wneyd, gan ddatgan nad oedd efe yn bwriadu i'r Cymro guro ei lygad arall allan o'i ben.‖

*Syr Robert Pounderling.*

*Moel Hiraddug.*

*Moel Hiraddug,* gorsaf Brydeinig, ar fryn tra syth a chreigiog, gyda phentwr anferth o geryg rhyddion ar yr ochr fwyaf hygyrch, a saif ar y tu dehau i'r castell, ac a ffurfia y nesaf ato yn y gadwyn o amddiffynfeydd.¶ Ar yr ochr ddwyreiniol, ac ar le a elwir Marian, y mae ffosydd dyfnion a hirion, allan o ba rai y mae mwneion wedi cael eu cloddio; efallai yn amser y Sacsoniaid: ymddengys, oddiwrth y darnau, a lliw yr ysbwrial, mai haiarn oedd y mwn: ac ar gopa y bryn (yr hwn sydd yn mhlwyf y Cwm) y mae gwely mawr o wydrfaen coch prydferth, yr hwn a ymddengys fel pe yn cymeryd ei liw oddiwrth y mwn.

Yn mhentref Dyserth y mae dau neu dri o hen dai mawrion hynafol. Perthynai un** o honynt i archddiacon Llanelwy, hyd nes y cysylltwyd y swydd hon at yr esgobaeth gan William Hughes, prelad yr esgobaeth hono, yr hwn yn 1573 a gafodd awdurdod gan yr Archesgob Parker i ddal yr urddas yma yn gysylltiedig â'i esgobaeth. Y diweddaf a fu yn ei ddal ydoedd Thomas Powel, periglor Hirnant a Llanfechan, yr hwn a fu farw yn 1589. Yr oedd ar brydiau yn cael ei breswylio gan yr esgobion, ar ol iddynt gael meddiant o hono. Bu yr esgob Parry farw ynddo yn 1623.

*Eglwys Cwm.*

Y mae eglwys y *Cwm,* fel yr arddengys yr enw, yn gorwedd yn mynwes y bryniau, ac yn wynebu ar ddyffryn Clwyd. Yn y fynwent y mae hen gareg yn dwyn y cerfiad hwn: *Hic jacet* TANGWISTE, *uxor* LLEWELLIN *ap* INIR; ond pa un ai Ynyr o Iâl sydd ansicr.

* Powel, 307. † Yr unrhyw, 326. ‡ Hengwrt MS.
§ Llwyd's Itin. MS. ‖ Leland's Itin. vi. 23. ¶ Gwel tudal. 220 o'r gwaith hwn.
** Y mae yr adeilad hynafol hon yn awr wedi ei thynu i lawr, a thŷ newydd wedi ei godi at wasanaeth y clerigwr trigiannol. GOL.

Digitized by Google

*Bod-rhyddan.*] O Dyserth marchogais i *Bod-rhyddan*, yr hwn le a fu am hir amser yn breswylfod y *Conways*, teulu a hànai o Syr Hugh Conway, mab i'r hen John Coniers, o Richmond, sir Gaerefrog, brawd Iefan, arglwydd Coniers:* ei fab, Syr Harri, trwy ei briodas âg Angharad, etifeddes i Syr Hugh Crevecœur, o Brestatyn,† efallai a fu yn achos o'u sefydliad yn y wlad hon. Bu Prestatyn yn meddiant y *Conways* hyd farwolaeth Syr John Conway, barwniad, yn 1721, yr etifedd diweddaf o'r llinach wrywaidd, pryd y rhanwyd yr etifeddiaeth.

*Rhuddlan.*] Oddeutu milldir a haner yn mhellach y mae bwrdeisdref fechan *Rhuddlan*, yn sefyll yn ddyrchafedig uwchlaw glanau cochion a chleiog afon Clwyd, ac uwchlaw *Morfa Rhuddlan*, yr hwn forfa sydd yn fythgofiadwy ar gyfrif yr ymgyrch a gymerodd le arno yn 795, rhwng y Sacsoniaid a'r Cymry: syrthiodd ein penadur Caradog yn y frwydr hon,‡ ac yr wyf yn ofni fod buddugoliaeth wedi cyhoeddi ei dedfryd yn ein herbyn. Y mae yn wir ein bod ni yn dyweyd fod Offa, brenin hyglod y Mers, wedi cael ei ladd yno; ond y mae y cronicl Saesonig yn gosod ei farwolaeth§ yn y flwyddyn cyn y frwydr hono. Yr alaw alarus nodedig a adnabyddir wrth yr enw *Morfa Rhuddlan*, fel y tybir, a gyfansoddwyd ar yr achlysur; oblegyd nid buddugoliaethau yn unig a gofnodir gan y delyn. Mor brydferth y mae Dafydd yn galaru am waed y lladdedigion ar fynyddoedd Gilboa: PA FODD Y SYRTHIODD Y CEDYRN, AC Y DYFETHWYD ARFAU RHYFEL!

*Y Castell.*] Y mae y *castell* wedi bod, ar un adeg, yn adeilad brydferth, mewn ysgwâr gyda dau eithafion wedi eu gosod ar onglau cyferbyniol, a thŵr crwn dwbl yn mhob un; ac un sengl ar y ddwy ongl arall. Y mae y buarth o ffurf wythonglog afreolaidd. Y ffos sydd eang, ac wedi ei gwynebu ar bob ochr â cheryg. Yr oedd y llethriad serth at yr afon yn cael ei amddiffyn gan furiau uchel, a thyrau ysgwâr; y mae un o'r rhai hyn yn gyfan, ac y mae yno olion o ddau ereill; gelwir y blaenaf *Tŵr y silod;* un arall, yn y castell, a elwid *Tŵr y Brenin*.

O du y dehau i'r castell, yn y pellder o oddeutu yr wythfed ran o filldir, y mae bryncyn eang o bridd, safle hen amddiffynfa arall, o amseroedd tra boreuol; y cyfan wedi ei amgylchu â ffos hynod o ddofn (yn cymeryd i fewn hefyd y fynachlog), yr hon a groesa o finion y bryncyn, yn agos i esgyniad y ffordd bresenol i Lanelwy, hyd ffordd arall gyfredol; yn agos i ba un y mae yn cael ei pharhau, yna trŷ, a disgyna braidd yn y parth deheuol o ffos furiedig y castell: y cyfan yn ffurfio arwynebedd ysgwâr tra eang. Y mae y gwahanol weithiau hyn wedi cael eu gwneyd ar dri o wahanol amserau. Y bryncyn, yr hwn a elwir yn bresenol *Tut-Hill*, a'i oruwchadeiladaeth (pa beth bynag ydoedd) sydd drwyadl Brydeinig, a dywedir iddo gael ei adeiladu gan Llewelyn ap Sitsyllt, yr hwn a deyrnasai o 1015 hyd 1020.‖ Yr oedd yn breswylfod ein tywysogion o'r amser hwnw: ond Gruffydd ap Llewelyn, yn 1063, trwy ei fod wedi tramgwyddo Iorwerth Gyffeswr, wrth roddi derbyniad i Algar, un o'i ddeiliaid gwrthryfelgar, a gafodd ymosod arno gan Harold, yr hwn, o ddialedd, a losgodd y palas yn Rhuddlan.¶ Adferwyd ef yn fuan, ac

* Mr. W. Mytton's Coll. Pedigrees. † Salusbury Pedigree, p. 68. b. ‡ Powel, 20.
§ Sax. Chron. 65. ‖ Camden ii. ¶ Powel, 100.

Digitized by Google

yn fuan hefyd y collwyd ef. Robert, a gyfenwyd ar ol hyny Robert o Ruddlan, Normaniad rhyfelgar, nai i Hugh Lupus, iarll Caerlleon, a'i henillodd oddiar y Cymry, a thrwy orchymyn Gwilym y Gorchfygwr, cadarnhaodd ef â gweithiau newyddion,* a gwnaeth ef yn breswylfod iddo ei hun; o ba le y parai flinder mawr i'n cydwladwyr. Y mae y tyroedd ysgwâr yn amlwg o adeilyddiaeth Normanaidd, ac yr oedd yn naturiol iddynt gael eu mabwysiadu gan y perchenog newydd. Yma talwyd ymweliad â Robert gan ein tywysog Gruffydd ab Cynan, yr hwn a ddaethai i erfyn cymhorth y barwn Normanaidd yn erbyn ei elynion, yr hyn a gafodd, ond o herwydd rhyw ymrafael, ymosododd arno yn ei gastell, cymerodd a llosgodd y buarth, a lladdodd y fath rifedi o'i ddynion fel na ddiangodd ond nifer fechan o honynt i'r tyrau.†

Harri II., yn 1157, a gryfhaodd y castell trwy weithiau newyddion, ac a adawodd ynddo warchawdlu cadarn cyn gadael y wlad. Er hyny, cymerwyd ef, yn 1167, gan Owain Gwynedd, yr hwn a'i gwnaeth yn anamddiffynadwy; ond cafodd wedi hyny ei ail-gadarnhau gan y Saeson; oblegyd ymddengys fod y castell hwn, a dau ereill, wedi cael eu rhoddi, gydag Emma, ei ferch ordderch, gan Harri i Ddafydd ap Owain, mab ac olynydd Owain Gwynedd. Yma, yn 1187, y croesawodd efe, yn dra thywysogaidd, Baldwin, archesgob Caergaint, pan ar ei daith trwy Gymru.‡ Dichon iddo ei roddi i fyny drachefn i'r Saeson; oblegyd yr wyf yn cael, yn 1214, iddo gael ei warchae a'i gymeryd gan Llewelyn ap Iorwerth, ei olynydd yn y dywysogaeth.§

Rhaid i mi beidio esgeuluso crybwyll un ffaith, er nad wyf yn alluog i nodi y flwyddyn yn mha un y dygwyddodd y peth,—fod Randle Blundeville, iarll Caerlleon, wedi cael ei gau i fyny yn y castell hwn gan fyddin fawr o Gymry, ac yr oedd yn y cyfyngder mwyaf, nes iddo gael ymwared trwy ei gadlywydd, Roger Lacy, yr hwn a gyfenwid *Hell;* casglodd hwn at eu gilydd nifer mawr o segurwyr a cherddorion, mewn byr amser, y rhai a lwyddasant i yru ymaith y fyddin warchaeol. Fel gwobr am hyny, efe a dderbyniodd gan yr iarll, *Magisterium omnium peccatorum et meretricum* TOTIUS CESTRESHIRE.‖

Yr wyf yn cael ei fod yn meddiant Iorwerth I., yn 1277; ac mor ddwfn argyhoeddedig o'i bwysigrwydd yn narostyngiad Cymru ydoedd efe, fel y gwnaeth y lle yn gynullfan yr holl filwyr oedd wedi eu bwriadu at y pwrpas hwnw. Dyma lle y cedwid yr arfau, a dyma lle yr oedd yr ystorfa fawr o ymborth er cynaliaeth ei fyddin, yn ei rhagfynediad i mewn i'r wlad. Y tywysog coronog, Llewelyn ap Gruffydd, a wyddai y perygl o adael lle mor bwysig yn nwylaw y gelyn: ond gwrthsafodd yr ymdrechion mwyaf egnïol a wnaed arno yn 1281, gan Llewelyn a'i frawd, yr hwn oedd y pryd hyny newydd ymgymodi âg ef, dan ystyriaeth o'u perygl cyffredin. Yn fuan ar ol hyny, bu y lle yn garchar i'r olaf, ychydig cyn ei ddienyddiad alaethus yn yr Amwythig.

I'r dyben o sicrhau yr amddiffynfa hon rhag unrhyw ymosodiadau pellach o eiddo y Cymry, trôdd Iorwerth ei holl feddylfryd at wneyd y lle yn anorchfygol. Felly efe a ddechreuodd gyda gweithred o gyfiawnder, sef gwneyd ad-

* Order Vital, 670. † Life of Gr. ap Cynan, Sebright MSS.
‡ Giraldi Cambr. Itin. 872. Sir Richard Hoare's Ed. xi. 134. § Powel, 270.
‖ "Awdurdod ar yr holl gardotwyr a cherddorion yn holl sir Gaerlleon."—*Leycester*, 142. Daliai yr iarll yma ei iarllaeth o 1182 hyd 1232.

Digitized by Google

daliad i Meistr Rhisiart Bernard, periglor Rhuddlan, am rai tiroedd a gymerasid oddiarno i'r dyben o eangu y castell;* a thrachefn, yn 1282, y mae yn cyfnewid gyda'r un eglwys, chwe' acer a haner o dir, i'r un dybenion;† ac ar ba rai yr adeiladodd efe y castell, adfeilion yr hwn yr ydym yn awr yn syllu arnynt. Cymerwyd amser maith i'w orphen; oblegyd yr wyf yn cael archeb yn 1291, am arolygu y gweithiau yn nghastelli Rhuddlan, Fflint, a Chaerlleon.‡ Nis gallaf lai na sylwi yma ar y mawr angenrheidrwydd a fodolai am gadw ffrwyn gref yn mhen y genedl oedd newydd gael ei darostwng, trwy osod yn y wlad warchodluoedd cryfion; oblegyd, er yr holl ryfeloedd a ddygasid yn mlaen, yr oedd yn aros mor boblog fel y gallodd Iorwerth, gyda'i gyfrwysdra arferol, dynu allan o honi nid llai na phymtheg mil o filwyr, i'w gynorthwyo yn ei ymgyrch Ysgotaidd.§ Bu y canlyniad o hyn braidd yn ddinystriol i'w achos; oblegyd tra yr oedd yn gwersyllu yn agos i Linlithgow, cododd ymrafael genedlaethol rhwng y Saeson a'r Cymry; ac ar ol llawer iawn o dywallt gwaed, enciliodd yr olaf oddiwrth ei fyddin.||

*Cymeryd y Castell gan y Cadfridog Mytton.* Yn ystod rhyfeloedd cartrefol yr eilfed ganrif ar bymtheg, gosodwyd gwarchodlu o wŷr y brenin yn y castell hwn; ond cymerwyd ef gan y *Cadfridog Mytton* yn mis Gorphenaf, 1646; ac yn y flwyddyn hono, gorchymynwyd gan y senedd wneyd y castell hwn yn anamddiffynadwy, ac amryw gastelloedd Cymreig ereill yr un modd.¶

Gyda golwg ar hanes gwladol Rhuddlan, yr wyf yn cael fod y lle, yn nheyrnasiad Iorwerth Gyffeswr, yn ffurfio rhan o diriogaethau eang iarll Edwyn, iarll diweddaf y Mers, yr hwn, ar adeg y Gorchfygiad, a feddiannai y cantref yma, a rhan o Ogledd Cymru.** Ymddengys mai Edwyn ap Gronw, un o bymtheg llwyth Gwynedd, oedd o dano ef yn arglwydd y parthau hyn. Yr oedd y pryd hyny, o achos anrheithiadau Harold, yn ddiffaethwch; a pharhaodd felly nes y daeth i feddiant Hugh Lupus. Y pryd hyny daeth yn ben tref y rhanbarth: ac yr oedd Hugh yn mwynhau cyfran o'r eglwys, y bathdy, a'r mwngloddiau o fwn haiarn†† a geid yn y lle, a chyfran o ddyfroedd yr afon Clwyd, h.y. o'r felin a'r bysgodfa a geid ar y rhan hono a berthynai i iarll Edwyn; cyfran o'r coedwigoedd ar y faenor, ac o'r doll, ac o'r pentref a elwid Bren: ac yr oedd y pryd hyny yn Rhuddlan wyth o fwrdeisiaid. Yr holl bethau hyn a ganiataodd Hugh Lupus i Robert o Ruddlan, gydag ychwanegiad o ryw fân bentrefydd a ddibynent ar y lle; a chrewyd bwrdeisdref newydd, gyda deunaw o fwrdeisiaid, y rhai a fwynhaent yr un rhagorfreintiau ag eiddo Henffordd a Bretril; rhyddheid hwy oddiwrth bob dirwyon uwchlaw deuddeg ceiniog, oddieithr mewn achos o ddynladdiad, lladrad, a chymeryd gwas un oddiarno.‡‡

*Bwrdeisdref.* Iorwerth I. a wnaeth y dref hon yn fwrdeisdref rydd, apwyntiodd gwnstabl y castell ar y pryd i fod yn faer, a'r isfaerod i gael eu dewis yn flynyddol gan y bwrdeisiaid ar ddydd gwyl Fihangel, y rhai oeddynt i gael eu dwyn at y cwnstabl i'w tyngu. Yr oedd y dref gael awdurdod i

* Ayloffe's Rot. Walliæ, 75. † Sebright, MS. ‡ Rot. Walliæ, 98. § Carte, II. 264.
|| Dalrymple's Annals, II. 257. ¶ Whitelocke, 231. ** Dugdale's Baronage, I. 11.
†† Dichon mai y rhai a grybwyllwyd genym yn mhlwyf Cwm, i ba un y gallai fod y faenor yn ymestyn; oblegyd y mae *Dissarch*, neu Dyserth, yr hwn sydd gerllaw plwyf y Cwm, yn cael ei nodi yn y *Doomsday Book* fel yn perthyn iddo. ‡‡ Doomsday Book.

Digitized by Google

garcharu, oddieithr mewn achosion a berthynent i fywyd, neu golli aelod; pan fyddai troseddwyr o'r natur yma yn cael eu trosglwyddo i'r castell, ni dderbynid ond bwrdeisiaid yn unig fel meichnïon. Nid oedd Iuddewon i gael preswylio yn y dref. Yr oedd gan y bwrdeisiaid goedwig a chwning-gaer rydd, &c., &c.

Rhoddwyd y siartr yma gan y brenin yn Fflint, Medi 8fed, yn y ddeuddegfed flwyddyn o'i deyrnasiad; y tystion oeddynt Robert, esgob Caerbaddon a Wells, ac ereill, a chadarnhawyd hi gan Rhisiart II. yn Leicester, a thrachefn yn Westminster.

Ni appwyntiwyd cwnstabl i'r castell er's amser Oliver Cromwell.

Y mae y bwrdeisiaid yn gwneyd eu rhan at ethol aelod seneddol dros fwrdeisdrefi Fflint. Y rhai cymhwys a breswyliant yn y dref, a'r rhan hono o'r plwyf a elwir *Rhuddlan Franchise*, yr hon a gyrhaedda oddeutu milldir o'r dref.

*Senedd.*] Dichon nad oedd y senedd a gynaliwyd yma, fel y dywedir, gan Iorwerth I. yn 1288, yn ddim amgen na chynghor wedi ei alw ynghyd gan y gorchfygwr, i'r dyben o ranu ei diriogaethau newyddion yn siroedd, ac i roddi cyfreithiau iachus i'r Cymry; i ddiddymu unrhyw hen arferion a farnai y tywysog doeth hwn yn aflesol, ac i ddwyn i mewn y cyfryw o'r rhai Seisonig ag a fernid yn wasanaethgar. Ni wnaethpwyd hyn yn frysiog; oblegyd yn y flwyddyn flaenorol, yr oedd dirprwyaeth wedi cael ei hapwyntio, gyda Thomas Beke, esgob Tŷ Ddewi, yn llywydd; yr hon oedd i ystyried a gwneyd adroddiad ar lŵ, ar gyfreithiau gwahaniaethol y ddwy wlad. Oddiwrth eu penderfyniadau hwy y ffurfiwyd y clodfawr GYFREITHIAU RHUDDLAN; yn mha rai, yn mysg sefydliadau gwerthfawr ereill, y dygwyd i mewn apwyntiad siryddion a threngholwyr, ac y pennodwyd eu dyledswyddau; nodwyd allan brif droseddau yr amseroedd; y rhan fwyaf o ba rai oeddynt weithredoedd o drais, yspeiliad, a lladrad; y fath ag a allesid ddysgwyl yn mhlith pobl anfoesgar, a'r rhai a darddent yn fwy o derfysgiadau yr amseroedd nag o ddiffyg cyfreithiau iachusol.*

Y mae dernyn o hen adeilad, a elwir "Parliament House," o hyd i'w ganfod yn Rhuddlan; efallai mai dyna y fan lle yr eisteddai y brenin gyda'i gynghor. Oddiyno yr ymarferodd y ddichell dra-adnabyddus o gynyg iddynt dywysog wedi ei eni yn eu plith, na fedrodd erioed siarad un gair o Saesoneg, a bywyd a buchedd yr hwn ni allai un dyn ei ystaenio:† y cwbl o ba amodau a dderbyniwyd yn awyddus gan ein cyndadau anghymodlawn, heb feddwl fawr mai y person y cyfeirid ato ydoedd y baban Iorwerth, yr hwn oedd newydd gael ei eni yn Nghaernarfon.

*Pont.*] Y mae y bont yn cynwys dau fwa. Ymddengys iddi gael naill ai ei hail-adeiladu neu ei hadgyweirio yn 1595. Y mae yr amseriad hwnw, gyda phais-arfau Llanelwy, a chynlythyrenau enw *William Hughes*, yr esgob yn yr amser hwnw, ar y murganllawiau. Ychydig iawn yn uwch na'r fan yma y mae y llanw yn llifo, ac y mae yn dwyn i fyny at y bont ysgraffau neu lestri yn cario tua 70 tunell. Y mae porthladd y manau hyn oddeutu tair

* Gwel y Statuta Walliæ passim. † Powel, 376.

Digitized by Google

milldir yn mhellach, yn *Vorryd*,* neu y rhyd fawr, lle yr ymarllwysa yr afon i'r môr, ac o ba le y trosglwyddir llawer iawn o ŷd a choed allan o'r wlad.

*Hendre.*] Yn mhen deheuol y dref y saif *Hendre*, tŷ hynafol, eiddo John Egerton, ysw., o Oulton, yr hwn, ynghydag etifeddiaeth† dda yn y plwyf hwn, a rhai tiroedd yn Nhremeirchion a Llanelwy, a ddisgynasant i deulu Oulton, trwy briodas Philip Egerton, ysw., pedwerydd mab ac etifedd Syr Rowland Egerton, â Catherine, merch ac unig etifeddes Pyers Conway o Hendre. Yr oedd y Philip yma yn fyw yn 1655.‡

*Gwindy.*] Ni ddylid anghofio y tŷ a elwid *Gwindy*. Nid oes ond ychydig o drefydd yn Nghymru heb fod ynddi dŷ o'r enw hwn: ond y mae eu gwasanaeth wedi ei golli er's hir amser. Mewn hen amseroedd, byddai gan y rhan fwyaf o foneddigion un yn eu cymydogaeth, lle y cyfarfyddent â'u cyfeillion ac ereill, i ymgampio. Yma byddai y boneddwr yn cadw seler win, yr hwn a fân-werthai er elw iddo ei hun. Yna treulient y diwrnod trwy saethu â bwäau, ymgodymu, taflu maen, ac amrywiol fabolgampau ereill. Ar y dechreu, yr oedd yr yfed yn gymedrol; ond yn y diwedd, daeth yr amcan i gael ei gamarfer; a gwnaed y manau hyn yn nythleoedd i bob math o droseddau, y rhai a gyflawnid gan weision neu gyfeillion perchenog y Gwindy, ac a drosglwyddid i'w ofal ef: ac yno y *Llaw-ruddion*, y rhai a ddeuent i'r lle a'u *dwylaw yn gochion* ar ol rhyw fwrdrad, a ddyogelid nes y byddai i ryw iawn gael ei dalu am eu troseddau.

*Eglwys.*] Y mae yr *eglwys* wedi ei chysegru i'r Forwyn Fair. Nid oes dim yn hynod o'i chylch, heblaw beddfaen hynafol, gyda chroes flodeuog a chleddyf; yr olaf yn arwydd o foneddigeiddrwydd y person a gladdesid. Rhoddwyd nawddogaeth yr eglwys hon, yn 1284, i esgobaeth Llanelwy, fel iawn am golli un Eglwysfach, yr hon a gymerasid oddiarni, ac a roddasid fynachlog Conwy.§

Priordy y mynachod duon a safai oddeutu haner milldir i'r dehau o'r castell. Y mae rhyw ychydig yn ngweddill ag ydynt yn dwyn olion hynafiaeth mawr, a'r gweddill wedi eu troi ar ffurf ffermdy ac ysgubor. Nid ydym yn gwybod amser ei sylfaeniad: ond diau fod hyny cyn gorchfygiad Iorwerth I., oblegyd cafodd Anian, neu *Eineon de Schonan*, mynach o'r tŷ hwn, ei wneyd yn esgob Llanelwy yn 1268. Dyoddefodd lawer yn y rhyfeloedd rhwng Iorwerth a Llewelyn, ond buan y gwnaed ei golledion i fyny, at ba rai y caniatawyd 17*l*. 10*s*.;‖ heblaw hawl i bysgota yn yr afon Clwyd gydag un rwyd, yn rhydd oddiwrth bob atalfeydd.¶ Ar adeg y dadgorphoriad, rhoddwyd y tŷ i Harry ap Harry, ond perthyna yn bresenol i John Davies, ysw., o'r Llanerch.

Yn agos i'r lle yr oedd rhai tiroedd a elwid *Nunneland* a St. *Marieland*:** ond pa un a oeddynt yn perthyn i ryw dŷ o grefyddolion benywaidd, nis gallaf ddywedyd.

Yr yspytty, yr hon a fodolai yn 1281, a safai rhwng y dref a Bod-rhyddan.

* Y mae yn llawer tebycach fod *Vorryd*, hyny ydyw *Y Vorryd*, yn golygu Rhyd-y-môr. J. R.
† Y mae yr etifeddiaeth hon wedi cael ei gwerthu i'r Parch. Edward Hughes, o Kinmael. Gol.
‡ Achau yr Egertons o Oulton.
§ Willis's St. Asaph, 159. Rot. Walliæ, 92.
‖ Rymer, ii. 292.
¶ Rot. Walliæ, 90
** Sebright MSS.

Digitized by Google

Mor fuan ag y gorphenodd Iorwerth I. amddiffynfeydd Rhuddlan, a llenwi ei dref newydd â thrigolion, efe ac esgob Anian II. a wnaethant ddwy ddeiseb at y Pab, i erfyn am symud esgobaeth Llanelwy i'r lle hwn.* Arddangosent unigedd ac annyogelwch y blaenaf; y perygl yr oedd ynddo oddiwrth ladron arfog, yn gystal a'r cyflwr peryglus ag yr oedd corph y mwyaf gogoneddus gyffeswr, St. Asaph, yn amlygedig iddo yn barhaus; y brenin yn arbenig a ychwanegai, am ddyogelwch y lle hwn, ar gyfrif y gweithiau mawrion a gyflawnasai ynddo. Ond ni atebodd y deisebau hyn un dyben; rhwystrwyd hwy naill ai gan farwolaeth y Pab, neu ynte anogaeth archesgob Caergaint i ail-adeilad[u] yr eglwys gadeiriol ar ei hen safle.

*Llanelwy.* Ychydig tuhwnt i'r priordy, disgynais i lawr hyd ochr yr afon Clwyd, ac ar ol ei rhydio, daethum yn fuan i olwg *Llanelwy*. Y mae y bont brydferth a hir, y dref fechan, a'r eglwys gadeiriol yn nghanol y coed, yn ffurfio golygfa o'r fath fwyaf boddhaol. Gorwedda y lle ar lethr codiad tir hyfrydlawn: yr eglwys gadeiriol ar y pen uchaf. Llifa afon Clwyd ar yr ochr ddwyreiniol: yr Elwy, ffrwd o'r fath mwyaf terfysglyd, ar yr ochr orllewinol· oddiwrth yr olaf y cymer y lle yr enw Prydeinig *Llan-Elwy*. Y mae y dref-ddegwm yn mha un y saif yn myned hefyd o dan yr enw Bryn-Paulin;† ac un man o honi, Bryn yr Wylfa; oddiwrth ba amgylchiadau, yn gystal ag ar gyfrif cymhwysder mawr y sefyllfa, rhwng dwy afon, nis gallaf lai na meddwl fod Paulinus wedi ffurfio gwersyllfa yma, naill ai wrth fyned i Ynys Fôn, neu wrth ddyfod oddiyno.

Am ei hanesiaeth eglwysig, gallwn siarad gyda mwy o sicrwydd. Pan gafodd Kentigern, esgob Glasgow, ei yru o'i esgobaeth yn y fl. 543, efe a enciliodd i Gymru, ac a sefydlodd yma fynachdy i naw cant a phump a thriugain o fynachod, ar gynllun un Bangor Iscoed; rhai i lafurio, a rhai i weddïo. Yma efe a adeiladodd eglwys; ac wedi enill o'i blaid y tywysog Prydeinig Maelgwyn Gwynedd, yr hwn a fuasai unwaith yn elyn ffyrnig iddo, efe a *Esgobaeth.* sefydlodd yma esgobaeth, ac efe ei hun a fu yr esgob cyntaf. Trwy iddo gael ei alw yn ol i Ysgotland, efe a bennododd fel ei olynydd, Asaph, neu Hassaph, Prydeiniwr o dduwioldeb mawr ac o deulu da (yr oedd yn ŵyr i Pabo Post Prydain). Bu farw yn 596, claddwyd ef yn ei eglwys gadeiriol, a rhoddodd ei enw [Seisonig] i'r lle.

Adeiladwyd yr eglwys ar y cyntaf o goed; ond yn fuan wedi hyny o geryg. Yn 1247, yn ystod rhyfeloedd Harri III., cafodd yr esgobaeth ei hanrheithio â thân a chleddyf,‡ a gorfu i'r esgob, yr hwn a ochrai gyda'r Saeson, fyw ar *Eglwys Gadeiriol.* elusen. Yn 1282, llosgwyd yr eglwys gadeiriol hyd y llawr; ond gwnaed iawn digonol i'r esgobaeth, trwy i Iorwerth I. ganiatâu iddi diroedd yn Nhrelawnydd, Nanerch, Dincolyn, Coed y Mynydd, a rhandir fwneiol gyfoethog yn Dyserth; rhoddwyd 409 o erwau o dir, ac nid ymddengys fod gwerth pob un o honynt yr adeg hono ond chwe' cheiniog yn unig.§ Yn 1402, aeth yr eglwys dan drallodion newyddion; llosgwyd hi gan Owain Glyndwr, ynghyda'r palas, a thai [y] canonau; ond, rhyfedd

* Rymer, ii. 245. Willis's St. Asaph, 45, 149, 155.

† Hyny ydyw, Bryn Polyn, yr hyn yn dra thebyg a olyga hyny, dim mwy na dim llai. J.R.

‡ Matthew Paris, 642.

§ Sebright MSS.

Digitized by Google

son! yn fuan ar ol hyny, enillodd at ei blaid John Trefor, prelad camdriniedig yr esgobaeth, yr hwn a ddiswyddwyd oblegyd ei wrthryfelgarwch. Bu yr eglwys yn adfeilion ar ol hyn am bedwar ugain mlynedd, pryd yr ail-adeiladwyd hi gan y prelad teilwng hwnw, Richard Redman. Y mae yr un adeilad yn aros o hyd, un brydferth, syml, a destlus. Y mae y deon a'r siaptr presenol (allan o ryw drysorfa a ymddiriedwyd i'w gofal at y pwrpas hwnw,) yn awr yn adgyweirio y côr, ar ol holl ddifrod anocheladwy amser yn ystod agos i bedwar cant o flynyddoedd. Bydd i'r efelychiad rhagorol o'r gothic, a'r copiad dedwydd yn y ffenestr ddwyreiniol o'r gweddillion ardderchog yn mynachlog Tintern, ychwanegu nid ychydig at brydferthwch yr eglwys.*

*Beddrodau.*] Ychydig o feddrodau sydd yma. Dyma un mewn gwisg esgobol, yr hwn y tybir ei fod er coffadwriaeth am yr esgob haelfrydig hwnw, Dafydd ap Owain, yr hwn a fu farw yn 1512; ac yn y fynwent, yn agos i'r drws gorllewinol, y mae cofadail o allor syml i'r esgob Isaac Barrow, yr hwn a fu farw yn 1680; beddargraff duwiol yr hwn y gallaf fi ei ddarllen yn ddidramgwydd, pa mor babyddol bynag y barno penboethiaid ei fod. [Lladin ydyw y beddargraff; felly dodwn y cyfieithad canlynol o flaen y darllenydd.]

> Gweddillion Isaac, esgob Llanelwy, y rhai a roddwyd yn llaw yr Arglwydd mewn gobaith am adgyfodiad gorfoleddus yn gwbl trwy haeddiannau Crist. Bu farw y tad dywededig ar ddydd gwyl Ioan Fedyddiwr, B.A. 1680, yn 67 mlwydd oed, ac yn yr unfed flwyddyn ar ddeg o'i symudiad (i'r esgobaeth.)
>
> O! chwychwi y rhai a ewch i mewn i dŷ yr Arglwydd, i dŷ gweddi, gweddiwch dros eich brawd, fel y byddo iddo gael trugaredd yn nydd yr Arglwydd.

Ychydig o esgobion a fuont yn fwy clodfawr ar gyfrif eu duwioldeb a'u gweithredoedd da. Dechreuodd fel esgob Ynys Manaw, lle y prynodd i fyny yr holl fywioliaethau oedd yn nwylaw lleygwyr, a rhoddodd hwynt i'r eglwys. Treuliodd symau mawrion i gadw ieuengctyd yr ynys yn yr ysgol, a sylfaenodd dair ysgoloriaeth iddynt yn Dublin. Yn Llanelwy efe a adgyweiriodd yr eglwys gadeiriol, a'r melinau; sylfaenodd elusendy i wyth o wragedd gweddwon tylodion; a chyflawnodd luaws aneirif o weithredoedd haelionus ac elusenol. Yn mhlith ei rinweddau ereill, yr oedd ei waith yn addysgu ei nai, Doctor Isaac Barrow, y mwyaf o wyddonwyr a mesuronwyr, oddieithr ei ddysgybl ef ei hun, Syr ISAAC NEWTON; a'r mwyaf iachus fel duwinydd, a diau y darllenir ei weithiau gydag edmygedd tra yr erys y syniad am grefydd yn ein gwlad.

*Eglwys y Plwyf.*] Yn mynwent *Eglwys y plwyf* y mae beddrod arall, digon hynod, gyda dail, tarian yn dwyn llun llew ar ei draed ôl, a cherfiad o amgylch, *Hic jacet Ranulfus de Smalwode;* ac o dan y darian y mae cleddyf yn pasio, yr hwn a ddelir gan law. Dywedir iddo gael ei ddwyn yma o Ruddlan; ond yr ydym wedi ein gadael yn y tywyllwch o berthynas i'r person y bwriadwyd anfarwoli ei goffadwriaeth trwyddo.†

* Y mae y ffenestr ddwyreiniol yn bresenol wedi ei llanw â gwydr lliwiedig prydferth, mewn rhan ar draul yr esgob Bagot, ac mewn rhan gan amryw bendefigion a boneddwyr y dywysogaeth, pais-arfau y rhai ydynt wedi eu paentio ynddi. GOL.

† Anrhegwyd fi, yn y modd mwyaf caredig, â hen ddarlun o hwn, ac o amryw gofadeiliau Cymreig hynafol, gan yr hynafiaethydd rhagorol hwnw, y Parch. Wm. Cole, o Milton, yn agos i Gaergrawnt; boneddwr ag yr ydwyf o dan lawer o rwymedigaeth iddo am amrywiaeth o wybodaeth wasanaethgar.

Digitized by Google

Saif yr eglwys hon yn mharth isaf y dref, a gwasanaetha i drigolion tref a gwlad, am nad yw yr eglwys gadeiriol yn cael ei defnyddio i'r dyben hwnw.

Aelodau y siaptr ydynt y deon, yr archddeacon (yr hwn yw yr esgob,) chwech o gorgeiniaid, a saith o ganoniaid. Heblaw y rhai hyn, perthyna i'r eglwys bedwar o ficeriaid corawl, pedwar o gantorion, pedwar o gorganwyr, ac organydd.

Nid yw y palas* presenol yn hynod o urddasol. Ail-adeiladwyd ef gan yr esgob Dafydd ap Owain, yn 1503, wedi iddo fod yn adfeilion am gan' mlynedd. Er yr amser hwnw, nid yw wedi cael ond ychydig iawn o welliadau gwirioneddol.

Y mae yr esgobaeth yn cynwys yr oll o sîr Fflint, oddieithr Pen-ar-lâg,† a chantref Maelor yn yr un sîr; yr oll o sîr Ddinbych, oddieithr deoniaeth Dyffryn Clwyd; yr oll o sîr Drefaldwyn, oddieithr saith plwyf; cantrefi Mowddwy, Penllyn, ac Edeyrnion, yn sîr Feirionydd; ac hyd yn nod yn sîr yr Amwythig y mae ganddi ychydig leoedd. Nifer y bywioliaethau ydynt gant a deg ar hugain; o ba rai y mae y cwbl, oddieithr saith,‡ yn nawddogaeth yr esgob; ac felly hefyd y mae y ddeoniaeth gyfoethog.

Y ffordd o Lanelwy ar hyd y morfa, a elwir y *Row*,§ sydd yn dra phrydferth; dyfrheir y dyffryn gan yr afon Elwy, yr hon a lifa o dan geulenydd uchel, yn orchuddiedig â choed heirdd; yn y pen pellaf iddo y mae *Pont yr Allt goch*, pont ardderchog o un bwa uchel, yn mesur 85 o droedfeddi ar draws. Yn y fan yma y mae yr Elwy yn cymeryd cyfeiriad arall, gan lifo i'r gorllewin, yna i'r gogledd, yn mlaen trwy y nentydd mwyaf rhamantus, yn cael eu hamrywio gan ddoldiroedd, coedwigoedd, a chreigiau ogofaol; ac nid yw yn amddifad o hynafiaethau. Y *Ffynhon Fair*, yr hon sydd ffynhon ardderchog, yn amgauedig mewn mur onglog, ac mewn hen amseroedd yn döedig; a gweddillion hen gapel ar ffurf croes, wedi ei orchuddio yn brydferth âg eiddew, a arddengys olygfa hybarch, mewn pant dwfn a choediog, heb fod yn mhell oddiwrth y bont: ac, yn nyddiau pererindodau, byddai yn cael ymweliad mynych gan grefyddwyr. Ar fryn uwchlaw saif Wig-fair, preswylfod John Lloyd, ysw.; mewn llawn fwynhad o'r olygfa brydferth hon. Y mae efe yn hanu, o du ei dad, o Ednowain Bendew, un o'r pymtheg llwyth; ac o Hedd Molwynog, trwy hynafiad o du ei fam, yn hawl yr hon y mae yn mwynhau palasdy hynafol Hafodunos.

*Pont yr Allt goch.*

Ceir yr olygfa fwyaf ysplenydd ar y glynoedd ardebol hyn, o *Bencraig*, ar diroedd Mrs. Jones, Gallt-faenan; o ba le y gellir gweled tri o honynt ar un golwg, ynghydag amrywiaeth annysgrifiadwy o wrthddrychau ereill, tra theilwng o gael ymweliad gan bob teithiwr.

*Pencraig.*

* Y diweddar esgob teilwng a haelfrydig, Lewis Bagot, a ail-adeiladodd y rhan fwyaf o'r palas, a thrwy lawer o ychwanegiadau gwnaeth ef yn breswylfod cyfaddas i gyfoeth yr esgobaeth. Gol.

† Gwel tudal. 74 o'r gwaith hwn.

‡ Sef, Treffynon, yn sir Fflint; Kevedoc, neu St. Sior, yn sir Ddinbych; Kinnersley, Oswestry, Knocking, Whittington, a Selattyn, yn sir yr Amwythig.

§ Nid yw hwn, er gwaethaf y dull Saesonig o'i sillebu, yn golygu dim ond *Y Ro*, gro neu raian y glenydd: yn debyg i hyn y mae lle yn nyffryn Conwy yn cael ei alw *Y Ro Wen*, ond y mae y brodorion yn ymhyfrydu yn y gwaith o'i ysgrifenu yn *Roe Wen*, fel yr wyf yn credu. r.n.

Digitized by Google

*Llanerch.* Yn *Llanerch*, prif breswylfod fy nghâr, y diweddar John Davies, ysw., a elwid gynt *Lleweni Fechan*, oddeutu haner milldir i'r dwyrain o'r bont; yno arosais am enyd i aredmygu yr olygfa swynol ar Ddyffryn Clwyd, gyda'r terfyn mawreddog cydrhyngddo â sir Fflint. Y mae y gwastadedd cyfryngol o ffrwythlondeb anghydmarol: ymgripia y manau amgauedig i fyny yn uchel ar y bryniau; y mae y rhan arall wedi ei dyranu yn amrywiol gopäau, y rhai, yn y tymhor, a ymddysgleiriant yn yr haul pan yn machlud, gan flodau porphoraidd y grug. Bywioceir yr olygfa gan eglwysi a phalasdai heirdd. O Tremeirchion-Green, yr hwn a saif yn mhell uwchlaw Llanerch, ceir golygfa dra ysplenydd ar yr holl ddyffryn, o'r terfynlin gorllewinol, a thiriogaeth uchelfrig Eryri. Y mae ei ganol, o ben i ben, yn gyfoethog o drefydd a chastelli; yn mhlith y rhai yr ymddyrcha yn benaf, graig Dinbych, a'i hamddiffynfa fawr ar ei chopa.

*Tremeirchion.* Yn eglwys *Tremeirchion* y mae beddrod anafedig y Syr Robert Pounderling, am yr hwn y soniwyd yn flaenorol. Ymddengys, oddiwrth ei goesau croesion, ei fod wedi cyflawni pererindod at y bedd sanctaidd.

*Dafydd Ddu o Hiraddug.* O dan fwa gothic prydferth y gorwedda, mewn gwisgoedd offeiriadol, ac wedi ei llunio yn dda, ddelw o *Dafydd Ddu o Hiraddug*. Odditano y mae yn gerfiedig, *Hic jacet David ap Roderic ap Madoc.* Yr oedd yn ficar y lle hwn, ac yn un o urddasolion eglwys gadeiriol Llanelwy: yr oedd yn brophwyd ac yn fardd: ac yr oedd ganddo ddyddordeb mawr yn rholeiddiad ein lleisiadaeth. Credaf fod *Daroganau Robyn Ddu*, y rhai ydynt mor glodfawr yn Ngogledd Cymru, yn perthyn yn briodol i Dafydd, yr hwn a flodeuai yn 1340, uwchlaw can' mlynedd cyn amser Robyn.

Yn yr eglwys hon safai croes, yr hon oedd yn hynod am ei gwyrthiau, y rhai a fawrygir mewn awdl, oddeutu y flwyddyn 1500, gan Gruffydd ap Ifan ap Llen Fychan. Y mae y groes yn bresenol wedi ei chwalu, ond y mae y penclwm cerfiedig i'w weled o hyd, mewn adeilad a saif gerllaw y fynwent.

Yn y gwaelod, nid yn mhell o Dremeirchion, y saif, yn haner-claddedig yn y coed, dŷ hynod *Bachegraig;* yn awr yn eiddo Seignior Piozzi,* yn hawl ei wraig Hester Lynch, gweddw Henry Thrale, ysw.; a merch ac etifeddes y diweddar John Salusbury, ysw. Cynwysa balasdy, â thair o ochrau, yn amgau cwrt ysgwâr. Yr ochr gyntaf a gynwysa neuadd eang, a pharlwr; y mae y gweddill yn ymgodi yn chwech o uchderau rhyfeddol, yn cynwys y gromen *(cupola,)* ac o'r ail uchder yn ymffurfio yn byramid: yr ystafelloedd ydynt fychain ac anghyfleus. Yn ffenestri y parlwr y mae amryw ddarnau o wydr lliwiedig, yn cynwys pais-arfau marchogion y *bedd sanctaidd;* megys eiddo y perchenog, gyda chalon yn y gwaelod, yn amgau cynlythyrenau ei enw ef a'i wraig, a'r flwyddyn, 1567 R. C. S., ac oddiarnynt *cor unum, via una;* pais-arfau Elystan Glodrydd; pais-arfau ei gydfasnachydd enwog, Syr Thomas Gresham, ac eiddo amrywiol deyrnasoedd â pha rai yr oedd y marsiandwyr haelionus hyn yn trafnidio. Y mae yno hefyd rai olwyn-

* Bu Mr. Piozzi farw yn 1809. GOL.

Digitized by Google

ion toredig, arwyddion cyffredin urdd St. Catharine; wrth ei urdd farchogyddol, gellir barnu mai pabydd oedd efe, a gallai fod yn talu parch neillduol i'r santes hono. Y priddfeini ydynt ragorol, ac ymddengys eu bod naill ai wedi eu gwneyd yn Holland, neu gan Isellmyn yn y lle, oblegyd mewn rhai pyllau gerllaw y tŷ y mae esiamplau o'r cyffelyb briddfeini i'w cael o hyd: dichon fod cynllun y tŷ wedi cael ei ddwyn o Flanders, lle y mae y rhywogaeth yma o adeiladau i'w cael nid yn anfynych. Dywed pobl y wlad iddo gael ei adeiladu gan y diafol, mewn un noson, ac fod yr adeiladydd yn dal meddiant o un ystafell ynddo yn barhaus: ond ymddengys fod gan Syr Rhisiart Clough, marsiandwr enwog yn nyddiau y frenines Elizabeth, well hawl i'r anrhydedd. Y mae cyn-lythyrenau ei enw mewn llythyrenau haiarn ar y ffrynt, gyda'r flwyddyn 1567; ac ar y porth, 1569.

Yr oedd Syr Rhisiart yn ddyn o nodweddiad aruchel; efe a gododd ei hun, trwy ei deilyngdod, o fod yn fachgen tlawd yn Ninbych, i fod yn un o farsiandwyr mwyaf ei oes. Ar y dechreu yr oedd yn gôr-ganiedydd yn Nghaerlleon:* yna bu mor ffodus a chael ei osod yn egwyddorwas gyda'r enwog Syr Thomas Gresham; ac wedi hyny ei gydymaith; gyda pha un yr ystyrir ef fel cydsylfaenwyr y Gyfnewidfa Freninol *(Royal Exchange)*, trwy iddo gyfranu amryw filoedd o bunnau tuag at yr amcan mawreddig hwnw. Preswyliai gan mwyaf yn Antwerp, lle y claddwyd ei gorph; ond dygwyd ei galon i'r Eglwys Wen, yn y gymydogaeth hon. Dywedir ei fod wedi gwneyd taith bererinol i Gaersalem, ac iddo gael ei wneyd yn farchog o urdd y *bedd sanctaidd:* y mae hyn yn cael ei gadarnhau; oblegyd efe a ymgymerodd â'r pum' croes, arwyddlun yr urdd, fel ei bais-arfau.† Yr oedd ei gyfoeth mor fawr, fel y daeth "*Efe a aeth yn Clough*" yn ddiareb, pan fyddai rhywun yn dyfod i ryw gyfoeth anarferol. Gadawodd ar ei ol ddwy o ferched: un o honynt a roddodd efe, gyda'r tŷ yma, ac amryw ddegymau yn Lleyn, i Roger Salusbury, un o feibion ieuengaf Lleweni: a'r llall i un o *Wynniaid* Melai, gyda pha un y rhoddes efe y fynachlog yn Maenan. Efe hefyd a adawodd ddegymau Cilcen i'r ysgol yn Ninbych. Y mae y rhai hyn yn bresenol wedi eu colli i'r ysgol, trwy iddynt gael eu cysylltu fel segur-swydd âg esgobaeth Llanelwy. Digon tebyg na fwynhaodd ei etifeddion ond ychydig o'i gyfoeth, oblegyd dywedir ei fod wedi myned i Syr Thomas Gresham, yn ol cytundeb a wnaed yn nghylch pa un a fyddai fyw hwyaf. Syr Rhisiart a fu farw gyntaf; ond nid yw yn wybyddus yn mha flwyddyn y dygwyddodd hyny. Bu Syr Thomas fyw hyd y flwyddyn 1579. Yr oedd gan Syr Rhisiart fab ordderch, am yr hwn yr anfonodd o Antwerp, a sefydlodd ef yn Plas Clough, sef tŷ a adeiladasai efe ar forfa Dinbych, yr hwn sydd hyd yn bresenol yn meddiant yr hiliogaeth. Y mae darlun‡ gwreiddiol, ar fwrdd, o'r person urddasol yma, yn cael ei gadw yn mhreswylfod presenol y teulu, sef Glanywern. Haner hyd ydyw, ac wedi ei baentio yn anarferol o dda ar fwrdd. Ei wallt sydd yn hynod o fyr, ac o liw brown tywyll; a'i farf yn tueddu at fod yn felyn. Y mae yn arwisgedig mewn siaced fêr a chlôs, o liw du wedi ei fritho â gwŷn; llodrau gwynion mawrion. Yn ei law ddehau y mae maneg; ei law chwith sydd ar ei gleddyf;

* Fuller's Br. Worthies, Flintshire, p. 40. † Salusbury Pedigree, 17.

‡ Y mae hwn wedi ei gerfio yn yr "Account of London," gan Mr. Pennant, p. 369. GOL.



Digitized by Google

ac ar ei ochr ddehau y mae dagr. Ar un ochr i'r darlun y mae pais-arfau y Bedd Sanctaidd wedi eu paentio, y rhai yr oedd efe wedi eu mabwysiadu. Dichon iddo gael ei baentio yn Antwerp, yn mha le, ar yr adeg yma, yr oedd cyflawnder o arlunwyr o'r teilyngdod uchaf. Yr oedd Syr Rhisiart wedi cynllunio pethau mawrion er llesâd i'w wlad enedigol: yr oedd wedi bwriadu gwneyd yr afon Clwyd yn fordwyadwy o Ruddlan; a gwneyd ochrau ei balasdy yn ystorfeydd, o ba rai y gallai gyflenwi yr ardaloedd cymydogaethol â phob math o nwyddau.

Yn union o flaen y tŷ yr wyf yn croesi yr afon Clwyd dros bont y Cambwll; ac wedi troi ar yr aswy, yr wyf yn ei chroesi drachefn dros Bont Gruffydd, *Varis.* er mwyn chwilio yn mhlwyf Bodfari, am y *Varis* hynafol. Yn fuan yr wyf yn myned i mewn i'r bwlch dwfn a ffurfiwyd yn naturiol yn mryniau Clwyd, allan o'r dyffrynoedd hyd i sîr Fflint. Ond er fy holl ymchwiliad, ac eiddo rhai cymdeithion deallus, ni lwyddais. Yr unig beth hynafol sydd i'w gael, ydyw *Moel y Gaer*, gorsaf Brydeinig ar fryn ar y llaw aswy. Y mae prydferthwch yr olygfa yn gwneyd iawn am y siomedigaeth. Y mae y dyffryn yn gul, ffrwythlawn, ac wedi ei amrywiaethu â llwyni, ac yn cael ei ddyfrhau gan y ffrwd risialaidd a elwir y *Wheeler*. Y mae y parthau o *Maes Mynan.* amgylch *Maes Mynan* yn nodedig o brydferth; cynwysa nifer o fryniau gwahanredol, wedi eu gorchuddio â choed; ymestyniad hardd o ddoldiroedd; a'r mynydd cribog, a elwir *Moel y parc*, a'i odreu yn llawn o goedydd, yn ymddangos megys mewn gwrthgyferbyniad i ranau mwy llariaidd yr olygfa. Eiddo Syr Roger Mostyn ydyw y lle yma yn bresenol; prynwyd ef gan un o'i deulu o feddiant y *Massies*, enw ag oedd yn cynrychioli sîr Fflint mor foreu a'r flwyddyn gyntaf i'r frenines Mari.* Gelwir y fan yn Llys Maen Mynan, ac yma bu Llewelyn ap Gruffydd, "ein llyw olaf," yn preswylio mewn tŷ ag yr oedd ei sylfaeni i'w gweled, mewn dôl gyfagos, ychydig flynyddau yn ol.†

Ond ni chefais, yn un rhan o'r dyffryn yma, yr olion lleiaf o'r orsaf Rufeinig *Varis*, am yr hon y crybwyllir gan Antonine, yn ei unfed ar ddeg *Iter*, yr hwn sydd yn ei chyfleu yn nghylch pedair milldir ar bymtheg neu un filldir ar hugain o *Gonovium*, neu Gaer-hen; oblegyd ymddengys fod peth ansicrwydd yn y darlleniad.

Gadael y ffordd fawr ar y llaw chwith; rhydio y *Wheeler;* ac wedi croesi yr *Neuadd Lleweni.* afon Clwyd, cyrhaedd i neuadd *Lleweni*. Oddeutu y flwyddyn 720, dywedir fod *Marchweithian*, un o bymtheg llwyth neu bendefigion Gwynedd, yn preswylio yn y fan yma. Yn bresenol, y mae yn meddiant yr anrhydeddus Thomas Fitz-maurice,‡ brawd i ardalydd Landsdown, yr hwn a'i prynodd oddeutu deng mlynedd yn ol gan Syr Robert Salusbury Cotton, barwniad, o fynachlog Cumbermere, yn sîr Gaerlleon. Yr oedd y boneddwr hwnw mewn meddiant o hono trwy briodas ei hynafiad, Syr Robert Cotton, â Hester, chwaer i Syr John Salusbury, y barwniad diweddaf o'r enw, yn amser Siarl II. Teulu Seisonig oedd y Salusbriaid, ac ymsefydlasent yma cyn amser Harri III. Trosglwyddwyd amryw o'r hen

* Willis's Not. Parliam. ii. pt. 2nd, 25. † Hist. Gwedir, 28.

‡ Yn bresenol yn meddiant ei unig fab, Iarll Kirkwall. Gol.

Digitized by Google

bortreadau gyda'r etifeddiaeth, i'r perchenog presenol, ac y maent yn nghadw yn yr hen neuadd. Syr *John Salusbury* (y Cadarn) a arddangosir ar fwrdd, yn haner hyd, gyda gwallt byr, tywyll, heb ddim barf, mewn siaced felen addurnedig, coler fawr, ac un llaw ar ei gleddyf; amseredig 1591, oed 24. Dylynodd ef yn yr etifeddiaeth ar ddienyddiad ei frawd hynaf Syr Thomas, yr hwn a ddyoddefodd yn 1586, am y rhan a gymerodd yn nghydfradwriaeth Babington. Y mae darlun o hono ef, fel y tybir, i'w weled yma; yn ei arddangos mewn gwisg ddu, gwallt tywyll, cernflew byrion, barf drwchus, ac yn gwisgo clust-dlws; y mae ei benguwch yn ei law; ei ddwyfron yn noeth.

*Syr John Salusbury.*

*Syr Thomas Salusbury 1af.*

*Syr Harri.*

Syr Harri, y barwniad cyntaf, a osodir yn eistedd yn ei grys; ei ddwyfron yn noeth; dros un fraich y mae mantell goch wedi ei thaflu; ei lodrau yn gochion, gyda byclau ar ei liniau; ei hosanau o liw porphor; ei yslopanau yn addurnedig â siderau; ei farf yn drwchus; ei gernflew yn fychain; eistedda mewn dellt-ystafell, fel pe buasai yn ymwisgo. Mi a welais yma bortread hardd o'i fab hynaf, Syr Thomas, yr hwn oedd mor nodedig gyda'i ysgrifell a chyda'i gleddyf. Ymddengys fel pe buasai ar fin gadael ei deulu, i ymuno â'r fyddin; oblegyd yr oedd yn bleidiwr aiddgar i'r goron yn amser Siarl I. Y mae yn ffarwelio â'i wraig a'i dri phlentyn; wedi ymwisgo mewn côt o liw melynaidd, botasau brown, a chleddyf hardd wrth ei glun; gweinir arno gan farchwas, mewn gwisg hirllaes o ganfas, yn dal ceffyl, gyda phais-arfau y tŷ ar ysgwyddau y dyn, fel arwydd o'i wasanaeth. Derbyniodd y boneddwr hwn ei addysg yn Ngholeg yr Iesu, Rhydychain, ac yn gymaint a'i fod, fel y dywed Wood,* yn meddu tuedd naturiol at farddoniaeth a rhamant, efe a ymarferodd yn y pethau hyny; un o gynyrchion ei ysgrifell ydyw *Hanes Joseph*, mewn barddoniaeth Seisonig, yn dair pennod ar ddeg. Ymneillduodd i Leweni, a bu farw yn 1643.

*Yr ail Syr Thomas.*

*Catrin o'r Berain.*

Ni ddylwn fyned heibio, yn y fan yma, i bortread boneddiges ag oedd yn dra hynod yn y rhan yma o Gymru; yr enwog Catherine Tudor, yr hon a adnabyddir yn well wrth yr enw *Catrin o'r Berain*, oddiwrth ei phalas yn y gymydogaeth hon. Merch ac etifeddes ydoedd i Tudor ap Robert Fychan, o'r Berain; ei gŵr cyntaf oedd John Salusbury, etifedd Lleweni; ac ar ei farwolaeth ef rhoddes ei llaw i Syr Richard Clough. Dywed traddodiad ei bod yn cael ei harwain i'r eglwys, yn nghladdedigaeth ei gŵr cyntaf, gan Syr Richard, ac o'r eglwys gan Morus Wynn o Wydir, yr hwn a sisialodd wrthi ei ddymuniad am gael bod yn ail ŵr iddi: hithau a'i gwrthododd yn foesgar, gan ei hysbysu ei bod wedi derbyn cynyg Syr Richard ar y ffordd i'r llan; a'i sicrhau (a bu cystal a'i gair) os byth y gelwid arni i gyflawni yr un ddyledswydd alarus, ag yr oedd yn ei gylch ar y pryd, ar ol y marchog, y caffai yntau fod yn drydydd! Mor fuan ag y bu farw y trydydd gŵr, er mwyn dangos nad oedd ganddi unrhyw ofergoeledd yn mherthynas i'r rhif TRI, hi a derfynodd trwy briodi Edward Thelwall, ysw., o Blas y Ward; bu farw Awst 27ain, a chladdwyd hi yn Llannefydd, ar y dydd cyntaf o Fedi, 1591.

* Athen. Oxon. ii. 25.

Digitized by Google

Y mae ei phortread yn un rhagorol, tri chwarter hyd, ar fwrdd. Oddiwrth yr amseriad, 1568, ymddengys iddo gael ei baentio gan Lucas de Heere, yr unig arlunydd o'r adeg hono ag oedd yn alluog at y gwaith, hyd y gwn i. Dywedwyd wrthyf, ei bod yn gwisgo, yn y tlws a ddefnyddiai wrth ei chadwyn aur, wallt ei hail ŵr, a'r un mwyaf anwyl ganddi.

Y mae Lleweni, er ei fod yn sefyll ar le gwastad, yn meddu ar olygfeydd prydferth ar y mynyddoedd ar bob ochr i'r dyffryn; y mae tref a chastell Dinbych yn wrthddrychau rhagorol, yn y pellder o ddwy filldir, ac y mae y manau agosach i'r lle yn bywiocâu y wlad trwy ŷni trafnidiol y perchenog bywiog.

*Càndy eang.*] Y prif ddiwygiad o eiddo Mr. Fitz-maurice ydyw sefydlu gweithfa eang at gànu. Y mae yr adeilad, yn yr hon y dygir y gwaith yn mlaen, ar ffurf haner lleuad; rhodfa brydferth o bedwar cant o droedfeddi o hyd, gyda chwareudy *(loggia)* yn y canol, a addurna y tu blaen, a therfynir y ddau ben â phabell. Y mae y llofft sychu yn 180 troedfedd o hyd; yr ystordy brown a'r ystafell bacio yn 90 troedfedd; ac o'i flaen y mae pump o ffynhonau, prydferthwch y rhai sy'n faddeuadwy pan ystyrir eu bod yn addurno adeilad sydd o ddechreuad Isellmynaidd. Ond y mae hwn yn ddigymhar, pa un bynag ai ei faintioli, cywreinrwydd ei beirianwaith, ai ynte eangder y tir cànu, a gymerir i ystyriaeth. Y rhan fwyaf o'r llian a gànir yma a ddygir o'r Iwerddon, gan denantiaid ei etifeddiaethau mawrion yn y wledd hono, yn lle ardrethion. Y mae llawer hefyd yn cael ei anfon yno o'r ardaloedd cymydogaethol, gan bersonau neillduol, er mwyn dim ond eu gwŷnu.*

Y mae yr eangder mawr ar ba un y mae Mr. Fitzmaurice yn dwyn ymlaen y gweithrediadau hyn yn cael ei deimlo yn fawr yn ei gymydogaeth. Bydded i ddefnyddioldeb ei fywyd fod yn effeithiol i ddeffro ein boneddigion i ystyriaeth o'i deilyngdod, a'r lles a ddeillia oddiwrth ei lafur, a'u hanog hwythau i gefnogi pob cynllun o'i eiddo a fyddo er lles y cyhoedd.

Y mae Dafydd, brawd ein holaf Lewelyn, yn cwyno yn ddirfawr oblegyd y difrod a wneid gan Reginald de Grey, ynad Caerlleon, wrth dori i lawr ei goed yn Lleweni;† yr hwn le a ddaliai Dafydd, mae yn debyg, fel arglwydd Dinbych.

*Pontruffydd.*] Gyferbyn a Lleweni y mae *Pontruffydd*, yr hon sydd yn awr yn cael ei hail-adeiladu yn brydferth; a cherllaw iddi y mae palasdy destlus, eiddo Bell Lloyd, ysw. Yn y tŷ y mae delw o ben William Roberts, esgob Cymreig tra hybarch, mewn cap du clôs, gyda barf a gwallt hir; ac yn ei wisgoedd. Am ei onestrwydd yn dyfod o hyd i werth mil o bunnau o eiddo eglwysig, cafodd ei ddyrchafu, trwy ddylanwad yr archesgob Laud, i esgobaeth Bangor, yn 1637. Yn ystod y rhyfeloedd cartrefol, dyoddefodd yn drwm o herwydd ei deyrngarwch, a chafodd ei yspeilio o bobpeth. Ar yr Adferiad, adfeddiannodd ei esgobaeth, ac, ar ol bywyd o dduwioldeb ac elusengarwch, efe a fu farw Awst 12fed, 1665, yn ei bersondy yn Llanddyrnog, gerllaw Dinbych, lle y claddwyd ef, wedi cyrhaedd ei bedwar ugain mlwydd oed.

* Er pan fu farw Mr. Fitz-maurice yn 1793, y mae bywiogrwydd y Càndy wedi gwywo. Y mae hysbysiadau allan yn bresenol (1809,) fod Lleweni ar werth. GOL.

† Powel, 350.

Digitized by Google

*Yr Eglwys Wen.* Oddeutu milldir a haner i'r dehau o'r tŷ hwn, ymwelais â'r *Eglwys Wen*, neu St. Marcellus, eglwys blwyfol Dinbych. Yn y porth, y mae dernyn prês bychan yn arddangos, yn penlinio wrth allor, Richard Myddleton (llywydd castell Dinbych o dan Iorwerth VI., Mari ac Elizabeth,) yr hwn, ynghyda Jane ei wraig, a gladdwyd odditanodd. O'i ol ef y mae naw o feibion; o'i hol hi, saith o ferched. Bu ef farw yn 1575; hithau yn 1565. Cofnodir ei rinweddau yn y llinellau syml a ganlyn*:—

> Ofer ydyw in' ymffrostio yn ein gwaed a'n pechod câs,
> Cig a gwaed dd'ont i gydorwedd, dan oer leni daear lâs;
> 'Rhwn sy'n gorwedd fu'n ddiweddar yn y byd mewn parch yn byw,
> I enill cyfaill, 'nabod gelyn, prin y ca'dd ei wlad ei ryw.
> Darlun oedd ei fyw o'i angeu, angeu brawf ei fywyd fflwch,
> Noda'i fys beth oedd cymeriad 'rhwn sydd heddyw yn y llwch.
> Ei rinweddau a gofnodir, ar ei fedd ei enw fydd,
> Bydd i'w feibion a'i hoff ferched ddal ei glod tra pery dydd;
> O edrychwch, a chanfyddwch ar y gareg arw draw,
> Yr yrfa a'r bywyd a arweiniodd, naill a'r llall â chywir law.

Yr oedd amryw o'r meibion yn gymeriadau tra nodedig. Y trydydd, Gwilym, ydoedd yn fôr-gadben, ac yn brydydd tra rhagorol. Cafodd ei addysg foreuol yn Rhydychain; ond arweiniwyd ef gan ei duedd filwrol i wledydd tramor, lle yr hynododd ei hun fel milwr a morwr. Trwy ei ymddygiad da cafodd ein llynges, yr hon a anfonasid allan yn 1591, i'r Azores, i gyfarfod â'r trysorlongau Yspaenaidd, ei harbed. Daeth Philip II., drwy ryw hysbysrwydd a roddwyd iddo, i wybod am y peth, ac anfonodd allan lynges, ddeng waith cymaint, i rwystro ein cynllun. Cadben Myddleton a gadwodd gwmpeini â'r gelyn, i gael gwybod ei nerth, a gadawodd ef yn union yn yr adeg i roddi rhybudd i'n llyngesydd ni, Arglwydd Thomas Howard, o'i nerth, yr hwn yn dra doeth a enciliodd rhag dyfod i ymladdfa mor anghyfartal. Syr Richard Greenville, is-lyngesydd, rywfodd, a adawyd ar ol. Nis gwyddom yn iawn pa un a ddylem ai edmygu ei wroldeb, neu ynte feio ei ryfyg, am iddo, gyda'i un long, amcanu herio llynges. Efe† a syrthiodd, o dan bwys tyrfaoedd, gan adael i'r gelyn synedig esiampl anfarwol o'i wroldeb ei hun, ac o yspryd Prydeinig. Efe† a gyfieithodd y salmau ar fesur cerdd dafod, i'r iaith Gymraeg, a gorphenodd hwynt Ionawr 4ydd, 1595, *apud* Secutum *insulum occidentalium Indorium;* y rhai, yn gystal a'i *Farddoniaeth*, a gyhoeddwyd yn Llundain: y blaenaf yn 1603, a'r llall yn 1593.‡ Dywedir mai efe, a'r cadben Thomas Prys o Blasiolyn, a rhyw gadben Koet, oedd y rhai cyntaf i ysmocio tybacco (neu ei yfed, fel y dywedent hwy) yn gyhoeddus ar heolydd Llundain; ac fod y Llundeinwyr yn ymgasglu yn dyrfaoedd i edrych arnynt.§ Nid oedd pibelli wedi eu dyfeisio y pryd hwnw; ac o ganlyniad, arferent y dail wedi ei nydddroi, yn debyg i *cigars*. Priodolir y ddyfais yn gyffredin i Syr Walter Raleigh. Gall hyny fod; ond yr oedd efe yn ormod o ŵr llys i ysmocio yn gyhoeddus, yn enwedig yn nheyrnasiad Iago I., yr hwn a ymddarostyngasai i ysgrifenu llyfr yn erbyn yr ymarferiad, dan y teitl, *Y Gwrth-hyrddiad i Dybacco.*

* Wrth gwrs, Saesoneg yw y llinellau; ond y mae y cyfieithydd yn cynyg i'r darllenydd yr aralleiriad uchod o honynt. Cyf.

† Wrth yr *efe* cyntaf y golyga Syr Richard Greenville, a'r ail *efe* ydyw Cadben Myddleton. T.P

‡ Athen. Oxon. i. 284 § Sebright MSS.

Digitized by Google

Thomas, y pedwerydd mab, a ddaeth yn arglwydd faer Llundain, ac efe oedd sylfaenydd teulu Castell y Waen. Dywedir iddo, pan mewn gwth o oedran, briodi gwraig dra ieuangc, yr hyn a fu yn destyn gwatwargerdd ddychanol hynod, *Room for cuckolds, here comes my lord mayor!**

Charles y pummed mab, a ddylynodd ei dad yn llywyddiaeth castell Dinbych.

Yr wyf yn myned i son yn awr am Hugh, y chweched mab, dyn ag y byddai i'w fywyd gwasanaethgar roddi dysgleirdeb ar y teulu mwyaf urddasol. Arddangosodd y boneddwr hwn (wedi hyny Syr Hugh) ei dalentau mawrion yn lled foreu; a dechreuodd, fel y mae yn mynegu i ni ei hunan, trwy ymchwiliad am lo o fewn milldir i'w le genedigol. Ni fu ei ymgais yn llwyddiannus: yr oedd ei athrylith wedi ei rhagarfaethu i weithredu ar chwareufwrdd mwy. Y brif-ddinas a'i cynysgaethodd â maes digon eang i'w feddylfryd mawr: ni raid hysbysu ond i ychydig o ddarllenwyr, mai efe a gynlluniodd, ac a ddygodd i berffeithrwydd, y meddylddrych mawreddog o ddiwallu dinas Llundain â dwfr. Yr oedd y cynllun wedi bod o dan ystyriaeth yn nheyrnasiad y frenines Elizabeth; ond ni chafwyd neb yn ddigon anturiaethus i ymgymeryd â'r gwaith. Yn 1608, daeth y CYMRO anorfod yn mlaen, A THARAWODD Y GRAIG; ac ar Wyl Fihangel, 1613, yr oedd y dyfroedd yn llifeirio i'r brif-ddinas sychedig. Efe a'u dygodd, er gwaethaf bryniau a dyffrynoedd, a chyfrif pob troad, am yn agos i bedair milldir ar bymtheg ar hugain; cloddodd ef trwy ddyfrbontydd mewn rhai lleoedd; mewn manau ereill, tyllodd trwy y bryniau, gan roddi i'r dyfroedd redfa danddaearol. Yr oedd yn wir gynddelw o'r dynion athrylithgar a gyflawnasant y cyffelyb weithiau yn ddiweddar; ond efe a aberthodd ei olud personol er llesâd y cyhoedd. Derbyniai ddwy fil o bunnau bob mis oddiwrth ei weithiau mwn yn sir Aberteifi, y rhai a lyngcid i fyny yn yr afon hon.† Derbyniodd yr anrhydedd gwag o weled ei hun yn cael ei amgylchu gan y brenin, a'i lys, a holl gorphoraeth Llundain, yn mysg pa rai yr oedd ei frawd (yr hwn oedd y maer etholedig am y flwyddyn ddyfodol). Y dyfroedd a ruthrasant allan yn eu gwyddfod, derbyniodd y peiriannydd aruchel eu cymeradwyaeth, a'r urdd o farchog; ac yn 1622, y teitl o farwniad. Yr oedd ei gyfoeth hardd ef ei hun wedi ei wario yn yr anturiaeth, yr hon sydd yn awr yn dwyn cyllid rhyfeddol i'w pherchenogion, a gorfu arno ymgymeryd â'r swydd israddol o fod yn arolygydd o dan gyflog! a bu yn arbenig o ddefnyddiol yn mhob achosion pan y byddai ffosellu a chloddio i'r ddaear yn ofynol. Bydd genyf achlysur i son am ereill o'i weithiau yn nghorph y gwaith hwn. Cynrychiolodd fwrdeisdref Dinbych yn y senedd yn y blynyddoedd 1603, 1614, 1620, 1623, 1625, a 1628. Anrhegodd gorphoraeth Dinbych â chwpan arian, a rhoddodd un arall i benaeth ei deulu, pob un o'r ddwy sydd yn bresenol ar gael. Ar yr un yn Gwaenynog y mae y cerfiad canlynol :—

*Mentem non munus.*
*Omnia a Deo.*
*Hugh Myddleton.*‡

* "Lle i gwcwalltiaid, wele fy arglwydd faer yn dyfod;" Myddleton Pedigree, MS.

† Fodinæ Regales, 32.

‡ "Dealltwriaeth, nid swydd. Pobpeth oddiwrth Dduw. Huw Myddleton."

Digitized by Google

Bu ef farw yn 1631.* Syr† —— Myddleton, y barwniad olaf o'r gangen hon o'r teulu, a fu farw ychydig flynyddoedd yn ol. Y cynrychiolydd presenol sydd wraig weddw mewn amgylchiadau tra chyfyng: gadawodd Syr Hugh ryw nifer o gyfranau yn nghwmpeini yr *Eurychod*, i gael eu rhanu rhwng yr aelodau tylodion; ond yn gymaint nad oedd gŵr y wraig druan hon yn dygwydd bod yn aelod o'r cwmpeini hwnw, cafodd cynrychiolydd y cymwynaswr penaf a fu gan Lundain erioed, hyderaf trwy anwybodaeth am ei sefyllfa, ei gadael i ddiweddu ei dyddiau mewn tylodi dwfn.

*Humphrey Llwyd.*

Yn y mur y mae cofadail afreidiol er amcanu cynal mewn coffadwriaeth yr enwog hynafiaethydd hwnw, *Humphrey Llwyd.* Arddangosir ef mewn gwisg Yspaenaidd, yn penlinio wrth allor, o dan rês o fwäau bychain; uwch ben y mae ei bais-arfau yn arddangos ei darddiad. Yr oedd yn hanu o *Rosendales* y gogledd, y rhai a ymsefydlasant yn *Foxhall*, yn y gymydogaeth hon, yn 1297, trwy briodi etifeddes y lle. Hanai ef ei hun o gangen a ymsefydlasai yn Ninbych, yr hon fwrdeisdref a gynrychiolai yn y senedd yn 1563. Cafodd ei addysg yn Rhydychain, a bu yn gymrawd o goleg *Brazen-nose*, a daeth yn athraw yn y celfyddydau. Dychwelodd i'w wlad enedigol yn foneddwr perffaith. Astudiasai y gelfyddyd feddygol yn y brifathrofa; ond yr oedd yn fwy hynod am hyawdledd anghyffredin, yn areithydd rhagorol, ac yn athronydd dwfn. Wedi y clod a roddwyd iddo gan Camden, byddai yn rhyfyg dywedyd dim yn ychwanegol am ei fedrusrwydd mawr yn hynafiaethau ein gwlad. Ymarferai, er mwyn ei ddifyrwch hamddenol, â physygwriaeth a cherddoriaeth. Y mae ei arwyddair o dan ei bortread, yr hwn sydd yn bresenol yn meddiant ei gynrychiolydd John Lloyd, o Aston, ysw., yn arddangos tuedd haelfrydig ei feddwl: HWY PERY CLOD NA GOLUD. Mewn meddygaeth, ac yn astudiaeth hynafiaethau, y mae wedi gadael profion lluosog o'i wybodaeth, yr hon yr ymddengys ei bod yn annherfynol. Efe a wnaeth fap o Loegr i'w gyfaill Ortelius. I'w frawd-yn-nghyfraith, arglwydd Lumley (chwaer yr hwn a briodasai), efe a ffurfiodd gasgliad helaeth o lyfrau defnyddiol a chywrain; y rhai ar ol hyny a bwrcaswyd gan Iago I., ac y maent yn awr yn ffurfio y rhan werthfawrocaf o'r Amgueddfa Frytanaidd.‡ Yn ei lythyr diweddaf at y daearyddwr enwog Ortelius,§ y mae yn rhagweled ei farwolaeth ei hun, yr hyn a ddygwyddodd yn fuan ar ol ei ddyddiad, yn Awst 1568, yn 41 mlwydd oed. Y mae y cerfiad tra syml ar ei gofadail yn addaw rhoddi ei gymeriad; ond yn lle hyny nid oes i'w weled ond tair llinell o fesur salm.

THE CORPS AND EARTHLY shape doth rest, Here tombd in your sight,
Of *Humfrey Lloyd*, Mr of Arte, a famous worthy Wight.
By fortune's hapye Lore he Espowsyd and take hys wyfe to be
*Barbara*, second Syster to the noble Lord *Lumle:*
*Splendian*, *Hare*, *Jane*, and *John*, *Humfrey*, Also a *Lumley*,
His Children were, of whych be dead *Jane* and eke *Humphrey:*

* Myddleton Pedigree, MS.

† Dywedir fod rhyw Syr *Hugh Myddleton* (Gwel *Arch. Camb.* 1850,) wedi marw yn 1756-7. Nid yw yn ymddangos fod y teitl fyth wedi cael ei adgymeryd i fyny; ond y mae lle i gredu nad ydoedd wedi darfod yn 1792, a digon posibl nad ydyw wedi darfod ar ol hyny. T. P.

‡ Granger, i. 270. Am hanes ei weithiau gwel Athen.

§ Yn y rhagdraith i'w *Commentarioli Britannicæ descriptionis fragmentum*, 4to edit.

Digitized by Google

His famous Monuments and dedes that lusteth for to see,
Here in the Epytaph annext set forth at large they Be.*

Y mae beddrod Syr John Salusbury ar ffurf allor: ei ddelw ef, a'i foneddiges, ydynt wedi eu cyfleu arno, yn eu gorwedd; efe mewn arfwisg, hithau gyda gwddf-goler fawr. Ni ddywedir dim am y cwpl daionus yma, ond fod Syr John wedi marw yn 1578; a'i bod hithau, yn mhen deng mlynedd ar ol hyny, wedi cyfodi y gofadail hon er coffadwriaeth am dano, ac am dani ei hunan, fel y tybiaf, gan adael gwagle i lanw i fyny ddydd a blwyddyn ei hymadawiad.

*Dinbych.*] Ychydig yn mhellach yn mlaen y saif *Dinbych*, wedi ei chyfleu, yn debyg i Stirling, ar lechwedd craig fawr, yn cael ei choroni â chastell. Ei hen euw Prydeinig ydoedd Castell Caledfryn yn Rhos, hen enw y rhandir ar ba un y saif. Y gair *Dinbech*,† yr enw Cymreig presenol, a arwydda fryn bychan, yr hyn ydyw hefyd, mewn cymhariaeth i'r mynyddoedd amgylchynol. Yr adeg gyntaf yr wyf yn cael hanes am y lle ydyw yn nechreuad teyrnasiad Iorwerth I., gan yr hwn y dewisodd Dafydd, er gwaethaf ei frawd Llewelyn, ddal yr arglwyddiaeth hon, yn nghyda chantref Dyffryn Clwyd.‡ Bu yn breswylfod iddo hyd ddarostyngiad ein gwlad; yn fuan wedi hyny efe a gymerwyd yn garcharor yn agos i'r lle, ac a gludwyd yn llwythog gan heiyrn at y teyrn Seisonig i Ruddlan.

Y brenin, trwy gyfrwysdra gwleidyddol, a sicrhaodd ei gongcwest newydd, trwy anrhegu ei ddylynwyr âg amryw o'r prif arglwyddiaethau. Rhoddes arglwyddiaeth Dinbych i Henry Lacy, iarll Lincoln, yr hwn a adeiladodd y castell yma, ac a amgauodd, oddifewn i furiau, y dref fechan a gafodd yno. Yn mysg rhagorfreintiau ereill, efe a roddodd i'w ddeiliaid ryddid i ladd a dinystrio pob math o fwystfilod gwylltion ar yr arglwyddiaeth, oddigerth mewn rhyw ranau pennodol a gauid allan o'r rhyddid hwnw; tybiaf fod hyny er difyrwch neillduol yr arglwydd cyntaf; § oblegyd yr wyf yn cael, yn nheyrnasiad Harri VI., enwau pum' parc yn yr arglwyddiaeth hon, sef Moylewike, Caresnodooke, Kylford, Bagh*, a Posey, ar ba rai y gosododd ei fawrhydi Owain Tudur yn warcheidwad. Ar farwolaeth Lacy, aeth yr arglwyddiaeth yn eiddo i Thomas, iarll Lancaster, yn hawl ei wraig Alicia, merch i'r perchenog diweddaf. Wedi i Thomas gael ei euogfarnu, Iorwerth II. a'i rhoddes i Hugh D'Espencer, yr hwn a drôdd allan yn arglwydd gorthrymus, a chyfyngodd ar y rhagorfreintiau a roddasai Lacy i'r preswylwyr. || Trwy ddiwedd alaethus y ffafryn hwnw, daeth drachefn i'r goron: a rhoddwyd hi gan Iorwerth III. i un arall, llawn mor anffodus, Roger Mortimer, iarll March, marwolaeth yr hwn a alluogodd y brenin i roddi yr arglwyddiaeth hon i William Montacute, iarll Salusbury. Bu ef farw yn 1333; a thrwy i'r ddedfryd yn erbyn Roger Mortimer gael ei dattroi, adferwyd yr arglwyddiaeth i'r teulu, yn mherson Roger, ei ŵyr: a thrwy briodas Anne, chwaer i Roger arall, diweddaf iarll March, â Richard

* "Yma y gorphwys yn y bedd, o fewn eich golwg, gorph a ffurf ddaearol Humphrey Llwyd, Athraw yn y Celfyddydau, dyn hyglod a theilwng. Trwy dynged ffodus efe a gymerodd yn wraig Barbara, ail chwaer i'r ardderchog arglwydd Lumley: ei blant oeddynt Splendian, Hare, Jane, John, Humphrey, a Lumley, o ba rai y mae Jane ac Humphrey wedi meirw. Ei gofadeiliau nodedig a'i weithredoedd, pwy bynag a chwennycho eu gweled, y maent wedi eu cofnodi yn llawn yn y beddargraff cysylltiedig."

† Dyna fel y silleba Mr. Pennant yr enw yn y fan hon. Cyf.

‡ Rotulæ Walliæ, 66. § Sebright MSS. || Yr unrhyw.

Digitized by Google

Plantagenet, iarll Caergrawnt, daeth i dylwyth Caerefrog, ac felly i'r goron. Yn 1563, y frenines Elizabeth a'i rhoddodd, fel anrheg dra gwerthfawr, i'w hoffddyn annheilwng Robert iarll Leicester; yr hwn yn fuan a wnaeth i'r wlad deimlo pwys ei orthrwm. Er i'r tenantiaid ei anrhegu â dwy fil o bunnau ar ei ddyfodiad cyntaf i'r arglwyddiaeth, eto nid oedd yn foddlawn; gorfododd i'r rhydd-ddeiliaid godi yr hen ardrethion o 250*l* yn y flwyddyn i wyth neu naw cant,* ac wrth ei ewyllys ei hun efe a gauodd i fyny y tiroedd didriniaeth, er mawr golled i'r tenantiaid, y rhai, wedi cythruddo o herwydd ei raib, a godasant i fyny, ac a wnaethant ei amgloddiau gormesol yn gydwastad â'r llawr. Rhoddwyd lliw ar hyn fel pe buasai yn derfysg a gwrthryfel; a chafodd dau ddyn ieuangc gobeithiol o dylwyth Lleweni, eu cymeryd i'r Amwythig, a'u profi a'u dienyddio yno. Meddodd yr hyfder hefyd i wystlo y faenoriaeth i ryw farsiandwyr yn Llundain;† ac yr wyf yn meddwl iddo eu twyllo am eu hygoeledd. Yr amrywiol afreolaethau a darddent oddiwrth yr ymarferion hyn, a ddaethant mor fawr, fel y darfu i'r frenines Elizabeth gyfryngu, a thrwy siartr cadarnhaodd i'r tenantiaid feddiant o'u tiroedd mewn tawelwch, a rhoddwyd yr afreolaeth i lawr.‡ Cynhyrfwyd y rhai hyn drachefn yn amser Gwilym III., ar gyfrif y tiriogaethau eang a roddwyd i'r iarll Portland. Cododd y cyffelyb gynhyrfiadau, a defnyddiwyd yr unrhyw foddion er eu rhoddi i lawr: yn bresenol, y mae yr arglwyddiaeth hon, a maenorau mawrion Maelor ac Iâl, yn aros yn y goron, ac yn cael eu harolygu yn dangnefeddus gan oruchwyliwr a apwyntir gan y brenin.

Yr oedd y castell, a'r rhan amgauedig o'r dref, yn cymeryd i fyny le mawr ac eang, ac amddiffynid hwy gan furiau a thyrau cryfion: y rhai olaf gan
*Pyrth.* mwyaf yn ysgwâr. Y mae dau o byrth i'r rhanbarth allanol; yr un a elwir yn *Dŵr y Bwrdeisiaid* sydd yn fawr, ysgwâr, ac wedi ei adeiladu yn hynod gyda cheryg bychain llwydliw. Y llall a elwid yn *Borth y Trysorlys*, yn mha un y cedwid llys yr arglwydd. Y mae rhyw nifer o dai, gyda golygfeydd ysplenydd o honynt, yn cael eu preswylio yn bresenol yn y parth hwn. Dywed Leland, fod yno amryw resi o heolydd wedi bod; ond yn ei amser ef nid oedd prin bedwar ugain o bersonau yn dal tai oddifewn i'r muriau hyn. Yma y saif y capel, St. Hilary, yr hwn yn flaenorol a berthynai i'r gwarchawdlu, ond y mae yn bresenol yn lle o addoliad i'r dref. Yn yr hen amser, arferid gweini offerenau yma bob Sul dros eneidiau *Lacy* a *Percy*.§ Heb fod yn mhell oddiyma y mae gweddillion hen eglwys anorphenedig, yr hon sydd yn 175 o droedfeddi o hyd, ac yn 71 o led, ac ymddengys y bwriedid iddi gael ei chynal gan ddwy rês o golofnau. Dechreuwyd yr adeilad ardderchog yma yn 1579, fel yr ymddengys oddiwrth yr amseriad ar un o'r meini sylfaenol. Dyma ydoedd yr hen gerfiad; oblegyd yn bresenol y mae wedi ei amharu yn fawr:—

1$^{mo}$ Martii 1579
Et Regni Re: Elizabethæ 22.‖
W.

* Secret Memoirs of Robert earl of Leicester, 89.

† Strype's Annals, ii. 498. ‡ Baron Price's Speech.

§ Leland Itin. v. 61.

‖ "1af o Fawrth, 1579, a theyrnasiad y frenines Elizabeth 22ain."

Digitized by Google

Ar yr ochr arall yr oedd yn gerfiedig—

Veritas, vita, via. Duo sunt templa Dei. Unu mudus I. ein: est Pontifex primogenties ejus verbu Dei: Alterum rationalis anima: cujus sacerdos est verus homo.

G. A.*

*Eglwys.*] Dechreuwyd yr eglwys hon o dan nawdd Leicester; ond dywedir iddo adael heibio yr adeiladau a wnelai yn Nghymru, ar gyfrif y digofaint cyhoeddus a gynhyrfasai trwy ei ormes.† Ar ol hyny casglwyd swm o arian i'r dyben o orphen y gwaith; ond y mae hanes yn dywedyd, pan oedd iarll Essex yn myned trwy Ddinbych, ar ei ymdaith i'r Iwerddon, iddo fenthyca yr arian a gasglesid at y pwrpas hwnw, y rhai ni chawsant byth eu haddalu, a thrwy hyny gadawyd yr eglwys yn anorphenedig.‡

Saif y castell ar grib y bryn, un ochr i ba un sydd yn gwbl syth. Y mae y fynedfa iddo yn dra mawreddog, o dan fwa gothic, uwchlaw pa un y mae delw Henry Lacy, yn eistedd mewn gwisgoedd llaesion urddasol. Ar bob ochr i'r porth, safai tŵr mawr wythonglog. Y mae y bylchau ynddo yn fawrion ac arswydus; gwasanaethant i ddangos yr hen ddull o adeiladu: ymddengys y byddent yn adeiladu mur dwbl gyda lle gwag lled helaeth cydrhyngddynt, i ba un y teflid pob ysbwrial, ceryg, a chalch poeth, y rhai mewn amser a gydymgorphorent nes dyfod mor galed a chareg. Dywed Leland, na chafodd y rhan yma o'r gwaith byth ei orphen, fod yr iarll wedi cefnu ar y gorchwyl pan gollodd ei fab hynaf, yr hwn yn ddamweiniol a fu foddi yn y ffynhon, genau yr hon sydd eto i'w gweled yn muarth y castell. Bu Siarl I. yn treulio noson yma, ar y 23ain o Fedi, 1645, ar ei enciliad o Gaerlleon, mewn tŵr a elwir hyd heddyw *Siambr y Brenin.*

Y mae yr olygfa trwy y bwäau drylliedig yn anarferol o brydferth, ac yn ymestyn dros yr holl ddyffryn, a'r cwbl o'i fryniau dwyreiniol, o Moel Fenlli hyd graig Dyserth; golygfa hardd, ond ei bod yn ddiffygiol o ddwfr; oblegyd y mae yr afon Clwyd yn gyffredin yn rhy fechan i gael ei gweled; ac ar wlawogydd bydd mor wyllt nes gorchuddio rhan eang o'r doldiroedd amgylchynol.

Y mae Leland yn adrodd hanesyn hynod am yr amddiffynfa hon, nas gallaf ei gael mewn unrhyw hanesydd arall; efe a ddywed fod Iorwerth IV. wedi cael ei warchae ynddo; a'i fod wedi cael caniatâd i ymadael o'r lle, ar yr amod iddo adael y deyrnas am byth. Yr unig adeg pan y bu y tywysog hwnw o dan orfodaeth i adael ei deyrnas ydoedd yn 1470, pan yr hwyliodd o Lynn; nid o achos unrhyw ymddarostyngiad i'w elynion, ond oherwydd sefyllfa braidd anobeithiol ei achosion ar yr adeg hono.

Bu Jasper Tudur, iarll Penfro, yn y flwyddyn 1459, mewn meddiant o'r lle hwn, ac amryw ereill yn y dywysogaeth, ar ran ei haner-brawd penwan, Harri VI.,§ ond cawsant eu cymeryd oddiarno gan yr Yorkiaid yn y flwyddyn ddylynol. Yn 1468, efe a ddychwelodd, gyda 2000 o Gymry, ac a losgodd y dref,‖ gan ymhoffi mewn dialedd yn hytrach na chongcwest.

* Copiwyd y rhai hyn o Bapurau Dr. Foulk, yn *Mr. Mytton's MSS.* Dyma ystyr y Lladin:—"Y gwirionedd, y bywyd, y ffordd. Y mae dwy deml i Dduw. Un ydyw y deyrnas, archoffeiriad yr hon ydyw cyntafanedig Air Duw; y llall ydyw y meddwl rhesymol, offeiriad yr hon ydyw y dyn ei hun." † Memoirs. ‡ Dr. Foulk's Papers.

§ Dugdale Baron. ii. 241. ‖ Carte, ii. 775.

Digitized by Google

*Brwydr.* ] Yn nechreuad mis Tachwedd, 1645, cafodd byddin y senedd, gerllaw y dref hon, fuddugoliaeth o'r pwysigrwydd mwyaf ar wŷr y brenin. Yr oedd y fyddin olaf o dan lywyddiaeth Syr William Vaughan, yn cynwys nifer mawr o wŷr, yn Gymry a Gwyddelod, y rhai a gynullasid gyda'r bwriad o fyned i waredu Caerlleon, yr hon oedd y pryd hyny yn cael ei gwarchae; daeth yr amcan i glustiau Syr William Brereton, yr hwn yn ddioed a anfonodd y swyddog gallueg Mytton, ac o dano ef y milwriad Jones, a'r milwriad Louthian, gyda mil a phedwar cant o wŷr meirch, a mil o wŷr traed, i rwystro y cynllun. Gwnaeth Mytton ei ddyledswydd, ymosododd ar wŷr y brenin yn rymus, ac ar ol amryw ymladdfeydd poethlyd, llwyr orchfygodd hwynt; cymerodd yn garcharorion bum' cant o wŷr meirch a phedwar cant o wŷr traed; lladdwyd cant, a chwalwyd hwy mor effeithiol nad oedd cant o honynt i'w cael gyda'u gilydd yn yr un man.*

*Gwarchae.* ] Yn 1646, yr ydym yn cael y castell yn meddiant gwarchawdlu o wŷr y brenin: ei lywydd ydoedd William Salusbury o Fachymbyd, yr hwn a adnabyddid yn gyffredin wrth yr enw *Salsbri Hosanau Gleision.* Dechreuwyd y gwarchae o dan lywyddiaeth y cadfridog Mytton, oddeutu yr 16eg o fis Gorphenaf; † ond y fath ydoedd amddiffyniad dewr y gwarchawdlu, fel na roddwyd y lle i fyny hyd y 3ydd o Dachwedd, a'r pryd hyny ar yr amodau mwyaf anrhydeddus.‡ Y mae yn dra hynod, er fod y penadur anffodus wedi rhoddi allan orchymyn, yn mis Mehefin, am i bob gwarchawdlu yn Lloegr a Chymru yn gyffredinol roddi eu harfau i lawr ar amodau teg ac anrhydeddus, eto darfu i'r cyntaf a ildiodd yn Ngogledd Cymru, ddal allan am fwy na dau fis ar ol yr olaf o gastelli Lloegr.

*Priordy.* ] Priordy y *Carmeliaid*, neu y *Mynachod Gwynion*, a safai yn ngwaelod y dref. Sylfaenesid ef gan John Salusbury o Leweni, yr hwn a fu farw, fel yr ymddengys oddiwrth ddarn anafedig o brês a ddarganfyddwyd yn eglwys y priordy, ar y 7fed o Fawrth, 1289.§ Y mae Speed yn priodoli yr adeilad i un John de Sunimore, yn 1399; ond y mae y cerfiad yn rhoddi yr anrhydedd i Salusbury. Ar adeg y dadgorphoriad, rhoddwyd y tŷ hwn i Richard Andreas a William L'Isle. Yr eglwys, yr hon sydd yn bresenol wedi ei throi yn ysgubor, ydyw yr unig ran sydd yn aros: dyma gladdfa teulu y sylfaenydd, hyd y Diwygiad; ac yr oedd rhai o'u beddrodau i'w gweled o fewn cof dyn.

Y mae y dref bresenol yn gorchuddio rhan fawr o lechwedd y bryn, ac y mae rhai heolydd yn ymestyn ar hyd y gwastadedd. Ei phrif nwyddau trafnidiol ydyw esgidiau a menyg, yr hon sydd yn fasnach dra eang. *Masnach.* ] Anfonir sypynau mawrion o honynt yn fynyddol i Lundain, i ystordai mawrion y brif-ddinas, ac er mwyn eu trosglwyddo i wledydd tramor.

Bydd i gyfansoddiad y fwrdeisdref hon, a'i dechreuad, gael ei eglurhau trwy y cyfysgrifau canlynol a dderbyniais oddiwrth un o'i bwrdeisiaid. Dechreua *Siartr.* ] trwy ddyfynu y siartr olaf, yr hwn ydyw yr un a roddwyd gan Siarl II., ac yn hwnw dyfynir llythyrau breintebol a roddwyd allan gan

* Whitelock, 179. † Yr unrhyw, 216.
‡ Yr unrhyw, 226. Am amodau yr Ymostyngiad, gwel Attodiad.
§ Collins's Baronets. Arg. 1720, i. 82.

Digitized by Google

y frenines Elizabeth, amseredig yn Westminster ar yr 20fed o Fehefin, yn y bedwaredd flwydd ar bymtheg ar hugain o'i theyrnasiad; yn mha rai y llefara y frenines fel y canlyn: "Wrth ganfod fod Iorwerth I., trwy ei lythyrau breintiedig, amseredig yn Northampton, ar y 29ain o Awst, yn y ddeunawfed flwyddyn o'i deyrnasiad, wedi rhoddi i Henry Lacy, iarll Lincoln, fod i'w holl ddynion, y pryd hyny yn preswylio yn ei dref Dinbych, neu y rhai y byddai iddynt ei thrigianu rhagllaw, drwy ei holl diriogaethau, y rhai gynt a berthynent i frenin Cymru, ac hefyd trwy siroedd Caerlleon, Amwythig, Stafford, Gloster, Caerwrangon, a Henffordd, fod yn rhydd ac am byth yn glir oddiwrth bob toll, o ba natur bynag; ac yn canfod fod Iorwerth III., trwy ei lythyrau breintiedig yntau, y rhai a amserwyd yn Nghaerefrog ar y 27ain o Hydref, yn y chweched flwyddyn o'i deyrnasiad, drosto ei hun a'i etifeddion, a'i olynwyr, wedi peri fod y sawl a breswylient y pryd hyny, ac yn yr amser a ddeuai, yn y dref hono, i gael rhyddid ac ymwared oddiwrth bob math o drethi a thollau pa bynag; ac yn canfod hefyd fod Rhisiart II., trwy ei lythyrau breintiedig yntau, y rhai a amserwyd yn Westminster ar yr 22ain o Chwefror, yn yr ail flwyddyn o'i deyrnasiad, wedi caniatâu i'r dynion a ragnodwyd, fod i'r dref ddywededig Dinbych, a haner milldir o ffordd o amgylch y dref, i fod yn fwrdeisdref rydd, ac fod y dynion a breswylient ynddi y pryd hyny, ac yn yr amseroedd a ddeuent, i fod yn rhydd-fwrdeisiaid; ac yn canfod hefyd, fod Rhisiart III., trwy ei lythyrau y rhai a amserwyd yn Westminster ar y 10fed o Ragfyr, yn yr ail flwyddyn o'i deyrnasiad, wedi cadarnhau y rhagorfreintiau a ragnodwyd, ac iddo drwy ei lythyrau breintiedig, roddi i'r cyfryw fwrdeisiaid, eu hetifeddion a'u holynwyr, y rhai ydynt Saeson, yr hawl i borfa, i bob math o anifeiliaid, ac ar bob adeg o'r flwyddyn, yn mhorfa gyffredin y dref a choedwig Lleweni; ac fod i'r bwrdeisiaid rhagddywededig, eu hetifeddion a'u holynwyr, gael rhyddid ac ymwared yn ei holl diriogaethau yn Lloegr a'r Iwerddon, oddiwrth bob math o drethi, ac unrhyw dollau ereill pa bynag. Ac y mae y ddywededig frenines Elizabeth, trwy ei llythyrau breintiedig fel y nodwyd, wedi ordeinio, ffurfio, caniatâu, a chadarnhau y gall tref a bwrdeisfa Dinbych ymhelaethu, ar bob ochr, filldir a haner o ffordd, yn ol yr ystyr gyffredin yn y lle hwnw, o'r groes uchel sydd yn sefyll yn y farchnad yn y dref a ragenwyd; a bydd y dref a'r fwrdeisfa ragddywededig, a bwrdeisiaid y dref hono, sydd yn awr ac ar ol hyn mewn bodolaeth, o hyn allan ac am byth, yn un gorphoraeth wladyddol, mewn pethau, ffaith, ac enw, o dan y teitl, 'Henaduriaid, Isfaerod, a Bwrdeisiaid bwrdeisdref Dinbych;' ac ordeinir hefyd fod sêl gyffredin i gael ei darparu, at ddwyn yn mlaen unrhyw achosion neu faterion; ac ordeinir hefyd, ar fod yno ddau henadur, dau o isfaerod, dau drengholydd, a phump ar hugain o'r rhywogaeth uchaf a'r cymeriadau goreu o'r bwrdeisiaid i fod yn brif fwrdeisiaid a chynghorwyr yn y fwrdeisdref a nodwyd yn flaenorol.

"Y mae yr henaduriaid a'r isfaerod i'w hethol a'u pennodi ar ddydd Gwyl Fihangel, bob blwyddyn. Y mae dau swyddog arall, y rhai a elwir *serjeants at mace*, at wasanaethu y gwysiadau a'r gorchymynion a anfonir allan o gwrt y fwrdeisdref hon; apwyntir hwy gan isfaerod y fwrdeisdref ar y pryd.

"Y mae hefyd gofiadur yn perthyn i'r fwrdeisdref, yr hwn a bennodir gan yr henaduriaid, yr isfaerod, a'r prif fwrdeisiaid.

Digitized by Google

"Heddgeidwaid, trethgasglwyr, a swyddogion israddol ereill, a apwyntir yn yr un modd gan yr henaduriaid, yr isfaerod, a'r prif fwrdeisiaid.

"Y mae hefyd ystafell y cynghor, neu *guild*, o fewn y fwrdeisdref, er mwyn cynal llysoedd gwysiadol, o flaen yr henaduriaid, yr isfaerod, a'r prif fwrdeisiaid.

"Cynelir llys cofiadurol, bob dydd Gwener trwy y flwyddyn, o flaen isfaerod y fwrdeisdref, neu un o honynt; ac yn y llys hwnw gwrandewir, trwy achwyniadau a ddygir o'i flaen, bob math o ddadleuon, cyfreithiau, gwysiadau, a gofyniadau arianol; pob math o droseddau *vi et armis*, neu rywfodd arall; ac ac hefyd bob math o ddyledion, cyfrifon, bargeinion, twyll-weithrediadau, camatal ysgrif-weithredoedd, ysgrifeniadau, amddiffyniadau, a chymeryd meddiant o, neu atafaelu anifeiliaid, neu nwyddau; a phob cytundebau pa bynag, a wneir oddifewn i'r fwrdeisdref ragnodedig; ac y mae y cyfryw ddadleuon, gwysiadau, a chyfreithiau i gael eu gwrando a'u penderfynu o flaen y cyfryw isfaerod, neu un o honynt.

"Y mae yr henaduriaid yn ustusiaid, ac i gynal llysoedd chwarterol, yn yr un dull a'r sessiynau sirol, y rhai a gynelir yn ol y gyfraith wladol, i wrando a phenderfynu achosion; ond nid ydynt i weithredu mewn achos o farwolaeth, neu golli bywyd neu aelod.

"Nid oes i unrhyw un o ustusiaid y sir ymyraeth mewn unrhyw faterion neu amgylchiadau pa bynag, a fyddont yn perthyn i swydd ustus heddwch, os byddant wedi cyfodi neu gymeryd lle oddifewn i'r fwrdeisdref.

"Y mae y bwrdeisiaid trigiannol i wasanaethu fel rheithwyr yn y brawdlysoedd.

"Yr henaduriaid a'r isfaerod ydynt i fod yn ddirprwywyr y gwisgoedd.

"Y mae y bwrdeisiaid trigiannol i fod yn bleidleiswyr yn etholiad aelod seneddol dros y fwrdeisdref."

Nis gallaf lai na chofnodi rhinwedd y rhai hyny yn y flwyddyn 1572, y rhai a feddent ar ddigon o wroldeb i wrthsefyll awgrymiadau, addewidion, a bygythion arglwydd mor ddiegwyddor ag y cafodd ein teyrnas erioed ei blino ganddo; gan yr hwn yr oedd y gallu i osod mewn gweithrediad, a'r ewyllys i gyflawni, unrhyw ddial ag y gallai gwrthwynebiad i'w ewyllys ei gyffrôi. Yn y flwyddyn hono, ei bleser ef oedd, fod i un Henry Dynne gynrychioli y fwrdeisdref hon yn y senedd; yr oedd y bwrdeisiaid yn anhydrin, a dewisasant foneddwr arall, yr hyn a barodd i'r llythyr canlynol gael ei ysgrifenu, yr hwn yr wyf yn ei argraffu o ran cywreinrwydd.

Llythyr oddiwrth iarll Leicester at yr isfaer, yr henaduriaid, a'r bwrdeisiaid, yn eu mawr feio am ddewis cynrychiolydd yn y senedd heb gydsyniad ei arglwyddiaeth, ac yn gorchymyn iddynt newid eu hetholiad, a dewis Henry Dynne.

Hysbyswyd fi yn ddiweddar pa mor leied o ystyriaeth a roddasoch i'r llythyr a anfonais atoch, gyda golwg ar enwi eich cynrychiolydd, at yr hyn nis gallaf ond rhyfeddu yn fawr (yn gymaint ag mai myfi ydyw eich arglwydd, a chwithau yn denantiaid i mi, ac hefyd ar gyfrif y lluaws troion a chyfleus-

Digitized by Google

terau daionus ag y bum bob amser yn ewyllysgar i'w sicrhau i chwi, er llesâd eich holl diroedd,) felly yr wyf yn cymeryd y peth mor —— ac mor anniolchgar, fel, os na bydd i chwi ar dderbyniad y llythyr hwn, yn ddiatreg dynu yn ol eich dewisiad, ac apwyntio y cyfryw un ag a nodaf fi, sef Henry Dynne, bydded yn dra sicr genych, nad gwiw i chwi byth ddysgwyl am ddim caredigrwydd na ffafr oddiar fy nwylaw, yn yr un o'ch amgylchiadau ar ol hyn; nid oherwydd fy mod i yn gwneyd unrhyw gyfrif mawr o'r peth, ond am na fynwn i neb dybied eich bod yn meddwl mor lleied o honwyf, y rhai ydych yn rhwymedig i mi (fel eich arglwydd) i gyflawni cymaint a hyn o ddyledswydd i mi, ag i wybod fy nghynghor a'm pleser; dichon y dywedwch fod eich dewisiad wedi ei wneuthur cyn derbyn fy llythyr (yn ddiau ychydig a feddyliais y buasech mor anghofus, neu yn hytrach mor ddifeddwl o honof, fel na ddarfu i chwi, cyn eich etholiad, fy ngwneyd yn hysbys o'r peth, neu o leiaf deimlo rhyw awydd am fy nghynghor yn y mater, gan i chwi gael digon o amser i wneyd hyny), ond yn gymaint ag i chwi, o honoch eich hunain, fyned ymlaen fel hyn yn fyrbwyll yn y peth, heb fy nghydsyniad, felly y tybiais yn dda eich hysbysu, nad wyf yn meddwl ei gymeryd mewn un modd oddiar eich dwylaw, ac felly dymunaf ar fod i chwi yn fwy ystyriol gymeryd sylw o hyn, ac ymddwyn ataf yn y fath fodd ag a allai sicrhau fy ffafr tuag atoch; os amgen, na fydded i chwi byth ddysgwyl unrhyw garedigrwydd oddiar fy llaw i: ac felly yr wyf yn canu yn iach i chwi. O'r llys, y dydd diweddaf hwn o Ebrill, 1572.

R. LEYCESTER.

Ni chafodd y llythyr llym yma unrhyw effaith: safodd y bwrdeisiaid at eu dewisiad eu hunain, ac y mae enw Richard Candishe, boneddwr, yn sefyll fel aelod seneddol dros Ddinbych yn y flwyddyn hono.* Ymddengys fod Mr. Candishe yn foneddwr a fu yn anrhydedd i gynrychiolaeth Dinbych. Yr oedd yn fab i Richard Candishe, ysw.; o deulu da yn Suffolk, ac yn trigianu yn Hornsey, gerllaw Llundain, lle y bu farw. Y mae cofadail ddestlus wedi cael ei chodi er cof am dano yn eglwys Hornsey; y mae ar ffurf pyramid; *wedi ei addaw a'i gyfodi* (fel y dywed y cerfiad) *gan Margaret, iarlles Cumberland, 1601:* uwchlaw hyn y mae gafr, arwyddlun tŷ y *Bedfords*, ac uwchlaw hyny, y mae coronig.† Nid yw y rheswm am hyny yn amlwg; ond dichon mai ar gyfrif ei deilyngdod, yr hyn a arddangosir allan gan y beddargraff canlynol fel peth oedd yn dra anghyffredin.

*Beddargraff ar farwolaeth yr addoladwy a'r anarferol fedrus Richard Candishe, o Suffolk, yswain.*

Candishe a hanai o deulu ardderchog,
  Addurnid â rhinwedd a champau ei oes;
Dysgedig, haelfrydig, crefyddol, meddylgar,
  Yn llawn o'r wir awen, celfyddyd, a moes;
I'w deyrn 'roedd yn ffyddlawn, y llys a'i hedmygai,
  Y mawrion a'i parchent ar gyfrif ei waith;
'Roedd ef yn garedig gan bawb, a dymunol,
  Hyd nes y daeth angeu i ddybenu ei daith.
    Mae'n gorwedd yma mewn daearfedd,
    A'i nefol ran aeth i dangnefedd.

* Willis' Notitiæ Parliam. iii. 98.
† Yr oedd pais-arfau Mr. Candishe ar un o ochrau y pyramid.

Digitized by Google

Nid oedd y fath ddyn mewn un modd yn debyg o gael nawddogaeth y ffafryn annheilwng uchod. Nid oedd Leicester ond yn efelychu ei feistres yn ei ddirmyg ar ragorfreintiau y senedd: ni thybiai Elizabeth ei bod yn ddim amgen nag offerynau i gario allan ei hewyllys hi: oblegyd os unwaith y beiddient ei wrthwynebu, byddai iddi yn ddiseremoni eu hysbysu o'i hanfoddlonrwydd. Peter Wentworth, am ddwyn ger bron y cynygiad syml, "y gallai aelod seneddol, heb unrhyw ymyriad â'i berson, neu berygl i'r cyfreithiau, alw sylw at unrhyw achwynion pa bynag yn mherthynas i'r wladwriaeth hon, gyda golwg ar wasanaeth Duw, dyogelwch y tywysog, a'r deyrnas fawreddus hon," a gafodd ei anfon i'r tŵr; ac i ddeiseb y tŷ am ei ryddhad, anfonwyd yr atebiad hwn, ei fod *yn beth tra anaddas i'w mawrhydi roddi unrhyw gyfrif am ei gweithrediadau.* Ei huchelfraint ydoedd rheol y llywodraeth: gwaherddid i'r cyfringynghor ymyryd mewn materion llywodraethol, nac mewn achosion eglwysig;* a dyma ydoedd TEYRNASIAD EURAIDD ELIZABETH!

Lacy, iarll Lincoln, a ddygodd gydag ef amrywiol deuluoedd Seisonig, y rhai a ymsefydlasant yn y wlad hon; megys y *Lathams, Knowsleys, Curthose, Pigots, Heitons,* a'r *Peaks;* y mae y ddau deulu olaf wedi gadael disgynyddion ag ydynt yn aros hyd y dydd hwn. Pwrcasodd y *Pigots* dir yn mhlwyf Llanuefydd, a gadawsant i'r tŷ yr enw Plas Pigot. Y *Chambres* hefyd oeddynt deulu arall a ymsefydlasant yn Nghymru yn yr un adeg: yr oedd y cyntaf yn ystafellydd i'r prif iarll, fel yr ymddengys oddiwrth y cofnodiad canlynol:—*Henricus de Lacy comes Lincoln, constablarius Cestreæ D. de Roos et Reweiniok, concessit John de la Chambre camerario pro homagio et servitio suo duas carucatas terræ cum pertinentiis in Lewenny.*† Y mae yr hen balas, a elwir Plas Chambres yn sefyll gerllaw y *Denbigh Green:* John Chambres, ysw., y perchenog diweddaf o'r enw hwnw, a fu farw o fewn cof dyn.

*Gwaenynog.* O Ddinbych aethum i dŷ lletygar *Gwaenynog,* oddeutu dwy filldir o bellder, o flaen pa un y saif y coed derw mwyaf mawreddog yn y dywysogaeth.‡ Y mae y nentydd coediog prydferth yn wir werth talu ymweliad â hwy: trefnwyd rhodfeydd destlus cydrhyngddynt gan y perchenog, John Myddleton, ysw., a ffurfiant olygfeydd mor brydferth o'r fath ag y gallwn ymffrostio ynddynt. Y mae y Foel Famau yn terfynu un olygfa yn ardderchog; tra y mae gweddillion castell Dinbych yn ymrithio yn ddisymwth ar derfyniad y llwybr yn y pen draw.

Wrth chwilio drwy bapurau y tŷ hwn, daethum ar draws hanesyn cysylltiedig âg ef, yr hwn sydd yn rhy hynod i beidio cael ei gofnodi. Profa o leiaf fod cyflwr moesau, a pharch i'r gyfraith, yn hynod o isel ar yr adeg bellenig hono; oblegyd nid ymddengys fod y goron wedi gwneyd dim sylw o drosedd mor anfad. Yr oedd y troseddwr yn mwynhau ffafr y goron, yr un modd a deiliaid heddychlon ereill.

Dafydd Myddelton, yr hwn a elwir yn drysorydd Dinbych yn y 19eg o

* Drake's Parliam. Hist. iv. 396.

† "Henry de Lacy, iarll Lincoln, cwnstabl Castell y Rhos a Rhyfoniog, a ddyry i John de la Chambre, ar gyfrif ei ffyddlondeb a'i wasanaeth, ddwy gyfran o dir, gyda'u perthynolion, yn Lleweni."

‡ Y mae amser, a'r fwyall, wedi dinystrio braidd y cwbl o'r coed mawreddog hyny, a'r coedwigoedd amgylchynol. Perthyna Gwaenynog yn bresenol i'r Dr. Myddleton. Gol.

Digitized by Google

Iorwerth IV., ac yn *Valectus Coronæ Domini Regis** yn yr ail o Rhisiart III., a dalodd anerchion carwriaethol i Elyn, merch Syr John Done, o Utkinton, yn sir Gaerlleon, ac a enillodd serch y foneddiges; ond gwell oedd gan y rhieni eu câr, Richard Done, o Croton, ac aeth y briodas yn mlaen felly. Dafydd, wedi cael hysbysrwydd am y peth, a wyliodd y priodfab yn dyfod allan o'r llan, yn arwain ei wraig, ac a'i lladdodd ar y fan; yna cariodd ymaith ei gariad, ac a'i priododd yr un diwrnod; felly bu yn forwyn, yn weddw, ac yn wraig ddwywaith yn yr un dydd! Oddiwrth Roger, y mab hynaf o'r briodas hon, y mae Myddeltoniaid y lle yma wedi tarddu.

Yr wyf yn crybwyll am Thomas Myddelton, un arall o'i hiliogaeth, yn unig er profi fod yr arferiad o udo fel y Gwyddelod,† neu y *Coranich* Ysgotaidd, mewn bri yn ein plith ninau; oblegyd dywedir iddo gael ei gladdu *cum magno dolore et clamore cognatorum et propinquorum omnium.*‡

Yn y tŷ yma y mae delw o ben George Griffith, esgob Llanelwy, yr hwn a gysegrwyd Hydref 28ain, 1660, i'r esgobaeth hon, ar gyfrif ei dduwioldeb a'i ddyoddefiadau mawrion yn achos y brenin. Efe ydoedd o deulu y Penrhyn, yn sir Gaernarfon, i ba un y dygodd ddysgleirdeb ychwanegol trwy ragoroldeb ei ymarweddiad. Y mae yn gwisgo cap ysgwâr, coler, ac yn ei ddillad esgobol. Bu farw yn mhen chwe' blynedd union ar ol ei gysegriad, a chladdwyd ef o dan gareg syml yn ei eglwys gadeiriol ei hun.

Wedi gwneyd Gwaenynog yn brif orsaf yn y gymydogaeth hon, ymwelais

*Henllan.*

oddiyno un diwrnod â *Henllan*, eglwys blwyfol y parthau hyn; yr hon sydd yn hynod ar gyfrif yr ymraniad rhwng yr eglwys a'r clochdy: y mae y flaenaf wedi encilio i'r gwaelod, tra y mae yr olaf yn dal at ei orsaf ar ben y bryn. Y mae yr eglwys wedi ei thôi â choed; rhywogaeth o dô ag sydd erbyn hyn wedi myned allan o arferiad. Y sant nawddogol ydyw St. Sadwrn, yr hwn a gydoesai â St. Gwenfrewi. Yma y claddwyd Syr Peter Mutton, yr hwn a ddisgynai o Richard Mutton, o Ruddlan, ac Elen, merch i Syr John (Aer Hên) Conwy, o Fod-rhyddan. Yr oedd Syr Peter, fel y mae ei feddargraff yn ein dysgu, yn brif ynad Gogledd Cymru, yn brifysgrifydd cyhoeddus, ac yn ysgrifenydd y goron. Meddai yr anrhydedd o gynrychioli bwrdeisdref Caernarfon yn y senedd; ac ar un tro parodd ddifyrwch mawr yn y tŷ trwy ddywedyd yn un o'i areithiau, "ei fod yn cofio bymtheng mlynedd cyn ei eni," &c. &c. Ond yr oedd yr ynad rhagorol, a gwnaeth gyfoeth mawr, a daeth i feddiant o etifeddiaeth Llanerch, trwy ei phrynu gan Edward Gruffydd, ysw., brawd hynaf ei fam, yr hon a aeth gyda'i ferch i Robert Davies, o Gwysaney, yswain.

*Llanerch.*

Y mae *Llanerch* yn sefyll mewn lle o'r fath mwyaf hyfryd, mewn parc bychan, ond prydferth, gyda llyn hardd o ddwfr yn y gwaelod, ac yn meddu golygfa ysplenydd ar y dyffryn, a rhês hirfaith bryniau Clwyd, gyda'u hochrau ffrwythlawn yn terfynu mewn copäau grugog. Y mae yr hen dŷ hybarch, yn enwedig yr hen neuadd, wedi cael ei andwyo trwy y newidiadau diweddar, a'i droi yn fath o balasdy o'r dull mwyaf coegaidd. Gosodwyd allan

* "Ceidwad Coron yr Arglwydd y Brenin."

† Y mae hyn yn cael ei brofi gan Fabinogi Boneddiges y Ffynhon: gwel *Guest's Mabinogion*, iii. 16, 57. J. R.

‡ "Yn nghanol mawr ing a gofid ei holl gydnabyddion a i gymydogion."

Digitized by Google

y gerddi gan Mutton Davies, ysw., ar ei ddychweliad o'r Eidal yn y ganrif ddiweddaf, ac yr oeddynt yn arddull y wlad hono, yn addurnedig â dyfrweithiau a cherfddelwau, yn gollwng dwfr allan o amryw fanau, er syndod i'r edrychwyr gwledig. Ar farwolaeth John Davies, ysw., Mawrth 8fed, 1785, aeth y lle, a'r etifeddiaethau eang, rhwng ei ddwy chwaer,* Letitia, yr hon wedi hyny a briododd Daniel Leo, ysw., o deyrnas yr Iwerddon; a Mary, gweddw Philip Puleston, ysw., o Hafodywern, gerllaw Gwrecsam.

*Foxhall.*] Yn y plwyf hwn y mae *Foxhall*, hen breswylfod y Rosyndales, o Rosyndale, yn y gogledd, y rhai a ddaethant i'r wlad hon yn 1297, ond buan y cyfnewidiasant eu henwau i Lloyd. Y mae hyd heddyw yn meddiant un o'u holynwyr, y Parchedig Mr. Lloyd, o Aston, sîr yr Amwythig. Gerllaw iddo, cychwynwyd *Foxhall* newydd, rhan o gynllun mawreddog a dynwyd allan gan Mr. John Panton, cofiadur Dinbych, ac aelod dros y fwrdeisdref hono yn 1592 a 1601. Ni adeiladwyd ond un aden yn unig. Uchelgais y sylfaenydd oedd taflu y Foxhall cyntaf i'r cysgodion: ond daeth yn fethdalwr, a gorfu arno werthu y tŷ anorphenedig, a'r etifeddiaeth a berthynai iddo, i'r boneddwr a fwriadai ei daflu i'r cysgod. Bu farw yn 1614, a chladdwyd ef yn Henllan.

Heb fod yn mhell oddiwrth eglwys Henllan y mae plwyf Llannefydd, ar fin yr afonig Meirchion, lle y mae olion hen breswylfod i Meredydd ap Meirchion, neu Merach y Meirch, arglwydd Isdulas. Y mae rhan o'r adeilad yn sefyll hyd heddyw, yn enwedig y capel, yr hwn a wasanaetha yn bresenol fel ffermdy; ond y mae rhai hen sylfeini yn arddangos ei bwysigrwydd cyntefig.

*Dyffryn Aled.*] Oddiyno, wedi marchogaeth am ychydig filldiroedd, cyrhaeddais *Ddyffryn Aled*, rhandir gul yn cael ei therfynu gan fryniau uchel. Y mae hen dŷ Dyffryn Aled yn sefyll yn y gwaelod: bu am genedlaethau yn breswylfod y Wynniaid, y rhai a ddisgynent o Farchudd, un o bymtheg llwyth Gwynedd, arglwydd Brynffanigl, gerllaw Abergele. Diana Wynne, merch ac unig etifeddes Pyers Wynne, ysw., yr etifedd gwrryw diweddaf, a briododd, yn gyntaf, â Ridgeway Owen Meirig, ysw., o sir Gaerefrog; ac wedi hyny, â Philip Yorke, o Erddig, yn sir Ddinbych.* Yn ystod ei gweddwdod, hi a adeiladodd dŷ newydd, yn y dull mwyaf prydferth a mawreddog, ar ochr y bryn gyferbyn a'r hen balasdy, y tu allan wedi ei wneyd o geryg a ddygid o'r chwarelydd gerllaw Caerbaddon. Dranoeth ar ol i'r seiri meini orphen eu gwaith, syrthiodd yr holl amgauadwaith i lawr, ac aeth traul dirfawr i'w adgyweirio.

*Llansanan.*] Ar ben y dyffryn saif pentref ac eglwys *Llansanan*, yr hon sydd wedi ei chysegru i St. Sanan, yr hwn oedd gyffesydd a meudwy; wedi disgyn (oblegyd yr oedd hyd yn nod ein seintiau yn gallu ymffrostio yn eu hachyddiaeth) o deulu hynafol, yn agos i diriogaeth tad St. Gwenfrewi, gyda pha un y daliai gyfeillach gywir. Cafodd gweddillion y ddau eu claddu yn Ngwytherin; i ba le, er mai annheilwng ydoedd, y penderfynais ar unwaith wneyd pererindod.

* Y mae y ddwy wedi marw: rhanwyd yr etifeddiaeth; Mrs. Leo a roddes ei rhan i fab ei gŵr, yr hwn sydd yn awr yn meddiannu Llanerch: aeth rhan Mrs. Puleston i'w hunig ferch, gwraig Bryan Cooke, ysw., o Owston, yn sir Gaerefrog. GOL.

† Y mae Dyffryn Aled yn bresenol yn meddiant Pyers Wynne Yorke, mab hynaf y personau teilwng a grybwyllir uchod. GOL.

*Llyn yr Ogof.* Ar fy ffordd, disgynais i lawr glyn syth a choediog, yn nhref ddegwm Penared, i ymweled â rhaiadr tywyll *Llyn yr Ogof*, lle y mae yr Aled yn disgyn i ogof ddu arswydus, yr hon a gysgodir gan goed derw. Ychydig yn uwch i fyny, y mae un arall, yn amlygedig i oleu dydd, yn disgyn o uchder anferthol, ac yn rhanu y glyn noethlwm. Y mae Llyn Aled, o ba un y mae yr afon yn llifo, yn gorwedd ychydig bellder oddiyno, ynghanol mynyddoedd duon a grugog, drwy ba rai y mae y rhan fwyaf o'r ffordd i *Gwytherin* yn myned.

*Gwytherin.* Saif y pentref bychan a'r eglwys yma ar godiad tir, ar derfyn dyffryn bychan, yn agos i darddle yr afon Elwy. Hynodir yr eglwys hon am mai hi a gafodd yr anrhydedd cyntaf o dderbyn gweddillion *St. Gwenfrewi* ar ol ei hail farwolaeth. *St. Gwenfrewi.* Ar farwolaeth St. Beuno cafodd ei rhybuddio gan lais i alw gyda St. Deifer, yn Bodfari; gan St. Deifer cyfarwyddwyd hi i alw gyda St. Sadwrn, yn Henllan; a chan St. Sadwrn cyfarwyddwyd hi i chwilio am noddfa barhaol gyda St. Elerius, yn Nghwytherin. Yno yr aeth; cafodd yn y lle leiandy o fynachesau, derbyniodd y llen gan y sant, ac ar farwolaeth y brif fynaches Theonia, olynodd hi yn y swydd aruchel hono. Bu St. Gwenfrewi farw ar y 3ydd o Dachwedd, a gorweddodd yma mewn tawelwch, yn agos i gorph ei rhagflaenores, am bum' cant o flynyddoedd. Ond oherwydd gwyrth, yr hon, fel y tybid, a gyflawnasid trwy ei chyfryngoliaeth hi, ar fynach yn yr Amwythig, penderfynodd yr abad symud ei gweddillion i'w mynachlog hwy. *Symud ei Gweddillion.* Anfonwyd saith o ddynion sanctaidd fel cenadon: gwrthododd trigolion Gwytherin ymadael â'r fath drysor: parodd gweledigaethau i'r rhai blaenaf ddal yn eu penderfyniad: ac o'r diwedd, ar ol i ewyllys y nefoedd gael ei ddatguddio, mewn gweledigaeth arall, i berson Gwytherin, yr hwn a anogodd ei braidd i ymgroesi rhag bod mor annuwiol a gwneyd gwrthwynebiad pellach, rhoddwyd y gweddillion i fyny, a chludwyd hwy mewn buddugoliaeth i'r lle a benodasid iddynt.* Yr abad ar y pryd ydoedd Robert. Mr. William Mytton† a'i geilw yn Pennant. Os oedd o gymydogaeth Treffynon, nid wyf yn rhyfeddu am ei fod mor ofalus am weddillion ei gydwladyddes, y rhai y gwyddai y byddent yn sicr o gyfoethogi ei fynachdy, trwy rinwedd y grefft o wneuthur gwyrthiau a ymarferid mor fynych yn yr oes hono.

Yn yr eglwys dangosir yr arch yn mha un y cedwid ei gweddillion, cyn eu symud i'r Amwythig. Yma hefyd y mae beddfaen hynafol, ac arno lun y groes a chwpan (yr olaf yn arddangos swydd offeiriadol yr ymadawedig,) a'r geiriau *Hic jacet Llywarch mab Cadell,* wedi eu cerfio ar y groes.

Y mae Capel Gwenfrewi yn bresenol wedi ei lwyr ddinystrio: safai o'r tu dehau i'r eglwys; ond nid oes dim o hono yn aros oddieithr ychydig o ffosydd a sylfeini. Yn y capel hwn yr oedd beddfaen, gyda chroes nodedig wedi ei cherfio arno, ac wrth y groes yr oedd bwyall ryfel hynafol, offeryn cyffredin yr ymadawedig. Y mae genyf gopi o'r llun, yr hwn a dynwyd oddiwrth y gwreiddiol gan Mr. Edward Llwyd, yn nghasgliad *Sebright.*

* Gellir gweled hyn, a llawer yn ychwaneg, yn hanes Bywyd St. Gwenfrewi, p.p. 88, &c.
† Antiquities of Shropshire, folio MS.

Digitized by Google

Ar du y gogledd i'r fynwent y mae pedair o geryg amrosgo yn sefyll yn sythion. Ar un o honynt y mae cerfiad aflerw, am yr hwn y cyfeiriaf i'r darluniau attodiadol.

Ar fy nychweliad, dylynais rediad yr afon Elwy, heibio i Hafodunos, preswylfod Howel Lloyd,* ysw.; heibio i eglwys a phentref *Llangernyw;* heibio i Garthewin, preswylfod Robert Wynn, ysw.; yr hon a ddyry olygfa hardd a bywiog ar ddyffryn bychan ffrwythlawn, yr hwn a derfynir gan fryniau, gorchuddiedig gan goedydd hongianol; ac heibio i Lanfair Dolhaiarn,† pentref ac eglwys ychydig bellder uwchlaw cydlifiad yr Elwy a'r Aled. Hana Mr. Wynn o Gronon Llwyd, a gyfenwid Penwyn, o Melau, yn y gymydogaeth hon, cangen o Marchudd, ond gyda phais-arfau gwahanol. Yn y plwyf hwn, uwchlaw yr Elwy, yr oedd un o breswylfeydd Hedd Molwynog, disgynydd o RHODRI FAWR, brenin holl Gymru. Dynodir y lle gan ffos fawr, a elwir *Yr Henllys;* megys ag y mae y cae a elwir *Maes y Bendithion* yn dynodi y fan lle y derbyniai y tylodion ei elusenau.‡ Yr oedd Molwynog yn ben ar un o bymtheg llwyth Gwynedd; cydoesai â Dafydd ap Owain Gwynedd, a chynorthwyai y tywysog hwnw i gario tân a chleddyf trwy Loegr, hyd yn nod at furiau Coventry. Disgynydd o'i drydydd mab, Gwrgi, a boblogodd Ogledd Cymru â Llwydiad; canys Bleiddyn, mab Bleiddyn Fychan, gan gymeryd i fyny yr enw Llwyd, a sylfaenodd deulu Hafodunos. Yn mysg ei weithredoedd daionus, rhaid cofnodi mai iddo ef yr ydys yn ddyledus am y bont faen yn Llansanan.

*Llangernyw.*

*Yr Henllys.*

Hyderaf na ddigia fy nghydwladwyr am i mi ddatgan fy ofnau, ein bod ninau, mewn amseroedd boreuol, mor ffyrnig a barbaraidd a'r gweddill o Ewrop: a bydd iddynt oddef hyn yn well wrth i mi ddyweyd ein bod yn canlyn gyda hwynt mewn gwareiddiad, a mynediad yn mlaen yn yr oll o'r celfau cain. Nis gallwn wadu nad oeddym, hyd eithafion,

Yn eiddigus o'n anrhydedd, yn sydyn a chwyrn mewn ffrae.

*Amseroedd anwaraidd.*

Y mae hanes dau o'r teulu yma yn cadarnhau yr haeriad. Meurig ap Bleiddyn, yn ddigofus oherwydd y camwri a dderbyniai efe a'i denantiaid oddiar law y barnwyr a'r swyddogion Seisonig, a laddodd un o'r rhai blaenaf, ac a grogodd amryw o'r rhai olaf ar y coed derw yn ei barc; trwy yr hyn y fforffetiodd efe ei dir i'r goron, yr hwn a adnabyddir yn y parthau hyn wrth yr enw Tir Meurig Llwyd.§ Gyda golwg ar ei berson, efe a'i dyogelodd oddifewn i furiau cysegredig Halston;‖ ac wedi priodi, sylfaenodd yn y gymydogaeth hono deulu Llwyn y maen.

Bleiddyn Fychan, un arall o'r tylwyth yma, a ymrafaeliodd â'i denantiaid, ac mewn nwyd o gynddaredd a'u hymlidiodd oll oddiar ei etifeddiaeth, ac a'i trôdd yn fforest;¶ darlun tlws iawn o arferion yr amseroedd! Y mae y lle yn gorwedd yn mhlwyf Llansanan, ac yn dwyn yr enw *Forest* hyd y dydd hwn.

* Yn bresenol ei fab, John Lloyd, ysw. GOL.

† Gelwir y lle hwn yn awr *Llanfair Talhaiarn;* pa awdurdod sydd dros *Dolhaiarn*, nis gwn; ond ni byddai ysgrifenwyr o amser Mr. Pennant byth yn teimlo eu hunain dan y rhwymau lleiaf i roddi enwau lleoedd fel y byddent yn eu cael, os dygwyddai fod ganddynt ddamcaniaeth o'r eiddynt eu hunain yn mherthynas i'w tarddiad. J.R.

‡ Llwyd's Itin. i. 14. MS.

§ Llwyd's Itin. i. 16. ‖ Gwel tudal. 152 o'r gwaith hwn. ¶ Llwyd's Itin. i. 15.

Digitized by Google

*Llanrhaiadr.*] Dychwelyd i Waenynog, a phasio heibio o dan gastell Dinbych, ymweled â *Llanrhaiadr*, pentref yn nghanol y dyffryn, hynod am ffenestr ddwyreiniol o wydr lliwiedig, pur dda ac yn dra chyfanaidd, yn arddangos pwngc tra hoffus yn yr adeg hono, sef gwreiddyn Jesse. Arddangosir y patriarch ar lawr, a choeden achyddol yn tyfu allan o hono, yn cynwys holl freninoedd Israel a Judah hyd amser ein HIACHAWDWR. Y mae y canghenau o amgylch y breninoedd wedi eu deilio yn dra phrydferth; yn y pen uchaf y mae rhosyn Lancaster, ac un arall gyda llygad-mewn-gogoniant oddifewn iddo; gwnaed y ffenestr yn 1533, ar ol i'r tŷ hwnw ddyfod i'r orsedd. Yma y mae cofadail fawr i Maurice Jones, o Lanrhaiadr, yswain; y mae ar ei orwedd, yn pwyso ar ei fraich, mewn gown, a'i berwig wedi ei chyrlio yn dda, ac yn amgylchedig gan luaws o rai yn wylo, a chryn lawer o wrthuni anghladdol.

Yn y fynwent y mae beddrod cyffredin, ar ffurf allor, i ŵr boneddig, yr hwn sydd wedi dewis adeiladu ei glod ar rifres hir ei hynafiaid, er gwahaniaethu ei lwch ef oddiwrth eiddo ei israddolion. Dywed wrthym mai

> YMA Y GORWEDD CORPH JOHN, AP ROBERT, O'R PORTH, AP DAFYDD, AP GRUFFYDD, AP DAFYDD FYCHAN, AP BLEIDDYN, AP GRUFFYDD, AP MEREDYDD, AP IORWERTH, AP LLEWELYN, AP IORWERTH, AP HEILIN, AP COWRYD, AP CADFAN, AP ALAWGWA, AP CADELL, BRENIN POWYS, YR HWN A YMADAWODD A'R FUCHEDD HON YR XX DYDD O FAWRTH, YN MLWYDDYN EIN HARGLWYDD DDUW 1642, AC O'I OED XCV.

Gyferbyn a'r eglwys y mae tŷ Llanrhaiadr, mewn rhan yn hynafol, ac mewn rhan wedi ei ail-adeiladu gan Richard Parry, ysw., y diweddar berchenog, yr hwn, o fewn y tair blynedd diweddaf, a'i gwerthodd i Richard Wilding, ysw., o Lynlleifiad. Perthynai ar y cyntaf i'r Salusbriaid; trosglwyddwyd ef i John Lloyd, ysw., o Fodidris, trwy ei briodas â Catherine, merch Henry Salusbury, ysw.; Syr Evan Lloyd, barwniad o Fodidris, a'i gwerthodd i'r rhagddywededig Maurice Jones, ac oddiwrtho ef daeth i feddiant Robert, tad y diweddar berchenog.

*Golygfa hardd.*] Ar fryn, o du y gogledd-orllewin i'r eglwys, a elwir Cader Gwladus,* ceir golygfa hardd ar y dyffryn cydrhwng Dinbych a Rhuthyn, a'i holl led wedi ei fritho â choedwigoedd, dolydd, a meusydd ŷd; ac o'r bron yr holl rês o'r terfynau dwyreiniol yn ymddyrchafu uwch ei ben. Y mae golygfa ddymunol ar gastell Dinbych o'r fan hon, gyda'i furiau a'i dyroedd yn ymestyn ar grib y graig serth a dyrchafedig.

Yn ngwaelod y codiad yma y mae Ffynhon St. Dyfnog, yr hwn oedd yn un o'n seintiau hir-achyddol; mewn amseroedd gynt, arferid cyrchu iddi gan grefyddolion. Y mae y ffynhon wedi ei hamgau mewn mur onglog, a'i haddurno â lluniau dynion bychain; ac o'i blaen y mae yr ymdrochle at wasanaeth y baddwyr duwiolfrydig.

Yn agos iddi y mae rhai elusendai cysurus i wyth o wragedd gweddwon,

* Enw Cymraeg digon cyffredin.

Digitized by Google

sylfaenedig gan Mrs Jones, o Lanrhaiadr (un o'r *Bagots*), yn 1729: y mae gan bob un ei gardd, a deuswllt yn yr wythnos.

Yma y mae esgobaeth Bangor yn cyfyngu ar un Llanelwy, gan gymeryd oddiarni eglwys brydferth Llanrhaiadr, a'r oll o'r rhan uchaf o'r dyffryn.

*Bachymbyd.* ] Yn agos i'r ffordd i Ruthyn y mae *Bachymbyd*, preswylfod ac etifeddiaeth berthynol i Arglwydd Bagot, y rhai a ddaethant i'r teulu trwy i'w hen daid, Syr Walter Bagot, briodi â Jane, merch ac unig etifeddes Charles Salusbury, ysw. Gerllaw ochr y ffordd gellir gweled rhai coed castan* prydferth; y mae un o honynt bron yn bedair troedfedd ar hugain o amgylchedd. Ni raid hysbysu y darllenydd nad yw y math yma o bren yn frodor o Brydain Fawr, nac hyd yn nod o Ewrop. Yr ydym yn ddyledus am dano i'r Rhufeiniaid, y rhai, efallai, a'i planasant ar y cyntaf yn Nghaint, lle y mae wedi cael ei feithrin mor helaeth, mewn rhai manau, nes ffurfio coedwigoedd mawrion; mewn manau ereill o'r deyrnas, ymddengys fel yn cael ei dyfu yn mhobman; mor brin ag y gallai ei fod ar y cyntaf yn yr Eidal, ar ol cael ei drosglwyddo yno o Lydia, ei wlad gynhenid.†

*Rhuthyn.* ] Cyrhaedd *Rhuthyn*,‡ a myned i mewn trwy Borth y Dŵr, yr unig borth ag sydd yn aros iddi. Saif y dref yn brydferth ar lechwedd

*Castell.* ] ysgafn a chrib codiad tir. Y castell sydd ar yr ochr ddeheuol, ac mewn rhan wedi suddo i'r ddaear: y mae y gweddillion truenus o hono yn crogi uwchben gostyngiad tir sydd yn gwynebu y gorllewin, lle y mae dernyn neu ddau o dŵr o hyd i'w gweled, yn gymysg â'r graig frodorol, yr hon, mewn rhai manau, a wasanaethai fel gwynebwaith i'r amddiffynfa, ac yr oedd ei gwaelod wedi ei ffurfio o honi: rhenir hi ar ei thraws gan ffos, wedi ei naddu allan o'r gareg galed, gyda phorth yn mhob pen iddi. Y mae y gonest Churchyard, gyda llawer iawn o wirionedd a symlrwydd, yn dysgrifio y gwaith fel hyn:—

The castle stands on rocke much like red bricke,
  The dykes are cut with toole through stonie cragge;
The towers are hye, the walles are large and thicke,
  The worke itself would shake a subject's bagge.§

Y mae darlun o hono, a gefais yn yr Amgueddfa Brydeinig, yn dangos ei fod yn ymddyrchafu yn uchel goruwch y llawr, ac fod ei dyrau lluosog yn haeddiannol o glod y bardd.

Y mae y golygfeydd o gopa yr adfeilion yn dra theilwng o sylw yr ymdeithydd. Os bydd yn hoffi safle fwy awyrog, cynghorwn ef ar bob cyfrif i esgyn i uchelderau Bwlch Pen y Barras, o ba le y ceir golygfa gyflawn ar y dyffryn yr ymffrostiwn ynddo, a bryniau pellenig ein rhanbarthau Alpaidd.

* Rhai Yspaenaidd ydynt. T. P.

† Sardibus eæ provenere primum. Ideo apud Græcos, Sardianos balanos appellant. Plin. Hist. Nat. lib. xv. c. 23. "Daethant (y coed) ar y cyntaf o Sardis, ac am hyny, yn mysg y Groegiaid, gelwir hwy y mês Sardianaidd."

‡ *Rhuthyn* y geilw y Cymry y dref hon, ac ymddengys ei fod yn golygu *Rhudd-ddin*, neu yr amddiffynfa goch, fel y dynodir gan ei henw arall, *Castell Coch*, heb son am fod y castell yn awr yn ddisu yn goch. J. R.

§ "Saif y castell hwn ar graig debyg i briddfeini cochion; y mae y ffosydd wedi eu tori âg erfyn trwy graig garegog; y tyrau ydynt uchel, y muriau yn fawr a thrwchus; y gwaith ei hun a ysgydwai bwrs un o'r deiliaid."

Digitized by Google

Enw Cymraeg yr amddiffynfa ydyw *Castell Coch yn Gwernor.** Dichon fod gan ein cydwladwyr amddiffynfa yma yn amser Iorwerth I., yr hwn a adeiladodd y castell yr ydym ni yn edrych ar ei weddillion yn awr,† ac a'i rhoddes, ynghyda chantref Dyffryn Clwyd, yn 1281, i Reginald de Grey; am yr hyn y darfu iddo, yn 1301, wneyd gwarogaeth yn Nghaerlleon i Iorwerth o Gaernarfon, y pryd hyny yn dywysog Cymru. Y brenin, ar yr un adeg, a ychwanegodd drefydd-degwm Maes-mynan, Penbedw, a Blowite, fel attodiadau i'r castell hwn; a dylaswn ychwanegu tir Wenchal de Lacy. Allan o'r hen gantref yma y ffurfiwyd arglwyddiaeth bresenol Rhuthyn, yr hon a gymer i fewn amryw blwyfydd. Arosodd yn nheulu y *Greys* hyd amser Rhisiart iarll Caint, yr hwn, wedi difa ei holl feddiannau trwy gyngwystlo, a'i gwerthodd i Harri VII. Y freniues Elizabeth a'i rhoddodd i Aubrey Dudley, iarll Warwick; ac y mae yn awr yn meddiant Richard Myddleton, ysw., o Gastell y Waun. Dylwn sylwi fod Iorwerth II. wedi gorchymyn i'r arglwyddiaeth hon ddarparu dau cant o filwyr traed at ei ryfelgyrch i Ysgotland, yn 1309; ond, yn 1325, nid oedd eisiau ond un marchog, a deg ar hugain o wŷr traed.‡

Y trigolion, mewn cysylltiad âg eiddo Dinbych, a Chastell Lleon, neu Holt, a anfonant gynrychiolydd i'r senedd.

*Ei llosgi gan Glyndwr.* Cafodd tref Rhuthyn ei llosgi gan Owain Glyndwr, ar yr 20fed o Fedi, 1400. Cymerodd y cyfleustra i fyned i mewn iddi yn ddirybudd ar ddiwrnod ffair, cyfoethogodd ei ddylynwyr âg yspail lawer, ac yna enciliodd i'w amddiffynfeydd yn nghanol y mynyddoedd.

*Cymeryd y Castell gan Mytton.* Yn yr eilfed ganrif ar bymtheg, gosodwyd gwarchawdlu o wŷr y brenin yn y castell, ac yn 1646 safodd warchae o Chwefror hyd ganol Ebrill; pryd y rhoddodd i fyny, gyda lluniaeth ynddo am ddau fis, i'r cadfridog Mytton;§ yr hwn a dderbyniodd ddiolch y senedd am ei wasanaeth; gorchymynodd tŷ y cyffredin fod i Mr. Fogge, ei gaplan, dderbyn haner cant o bunnau am ddwyn iddynt y newydd, a chadarnhasant apwyntiad y cadfridog o'r uwchfilwriad Mason, fel llywydd yr amddiffynfa yn y dyfodol.|| Cafodd y castell, yn fuan ar ol hyny, ei ddinystrio trwy orchymyn y tŷ.

*Eglwys.* Y mae yr eglwys yn fawr, eto nid yw ond capel i Lanrhudd. Y mae y tô wedi ei ranu yn ddestlus yn ysgwariau bychain, addurnedig â cherfiadau, ac wedi ei nodi âg enwau y gweithwyr. Yr unig gofadail o unrhyw deilyngdod ydyw un Doctor Gabriel Goodman, deon Westminster yn nheyrnasiad y frenines Elizabeth, llun yr hwn a arddangosir gan gerfddelw o'i ben. Yr oedd y duwinydd rhagorol hwn yn enedigol o Ruthyn, a mawr hynodid ef

* Llwyd's Itin. MS. iii. 61. † Rotulæ Walliæ, 66. ‡ Rymer, iii. 157, iv. 137.

§ Y cadfridog Mytton, yn y flwyddyn cyn hyny, a roddasai allan ei broclamasiwn yn y ffurf ganlynol: y gwreiddiol o ba un a gafwyd yn meddiant Paul Panton, ysw., o'r Plasgwyn.

"Gorchymynir i chwi drwy hynyma i beidio aflonyddu na niweidio Mr. John Price, o Dderwen, yn sir Ddinbych, yn ei berson, ei feirch, ei etifeddiaeth, nac i gynyg unrhyw drais arall arno heb awdurdod arbenig oddiwrthyf fi, neu Bwyllgor Gogledd Cymru. Amserwyd yr 16eg o Chwefror, 1645.

THOS. MYTTON.

At yr holl lywyddion, swyddogion, a milwyr,
yn ngwasanaeth y brenin a'r senedd, o
fewn chwe' sir Gogledd Cymru." GOL.

|| Drake's Parl. Hist. xiv. 355.

Digitized by Google

ar gyfrif ei amrywiol ragoriaethau. Fel eglwyswr, enillodd glod mawr am ei gyfieithiad o'r epistol at y Corinthiaid, oblegyd yr oedd yn cynorthwyo yn y cyfieithiad o'r Beibl i'r iaith Seisonig; fel dyngarwr, y mae ei waith yn sefydlu yspytty i ddeuddeg o bobl dylodion, a warden (yr hwn yw periglor y lle), wedi anfarwoli ei duedd garedig; ac y mae ei gariad at wŷr dysgedig yn cael ei amlygu, nid yn unig trwy ei waith yn sefydlu yma ysgol rydd i'r plwyf hwn, ac eiddo Llanelidan, gyda chyflog i'r meistr o haner degymau plwyf Llanelidan, y rhai yn bresenol a gyrhaeddant i'r swm o fwy na chant ac ugain punt yn y flwyddyn; ond hefyd trwy ei nawddogaeth i'r enwog Camden,* yr hwn y darfu iddo ei alluogi i ymgymeryd â'r teithiau hyny, y rhai a gynyrchasant y casgliad mwyaf rhagorol o hynafiaethau taleithiol ag a fu erioed ar gael.

Perthynai yr eglwys yn wreiddiol i urdd o fynachod Augustinaidd a elwid Bonhommes,† y rhai a ddaethant drosodd i Loegr yn 1283; ond ni ddichon fod yspaid eu parhad yma ond tra byr; oblegyd, yn 1310, yr ydym yn cael fod John, mab Reginald de Grey, yn ei gwneyd yn golegawl, gan sefydlu yma saith o offeiriaid rheolaidd, gyda gwaddol o 205 o aceri o dir yn Rhosmeirion a Rhiw, heblaw tiroedd ereill, a choedydd, melin, porfa i dair ar hugain o wartheg, a tharw, a'r hawl i gadw tri ugain o foch yn nghoedwigoedd yr arglwyddiaeth.‡ Am y pethau hyn, a phethau daionus ereill, yr oedd yr offeiriaid rhagddywededig i gyflawni yn feunyddiol wasanaeth difrifol yr offeren, dros eneidiau Iorwerth I., y frenines Eleanor, Reginald de Grey, a Matilda ei wraig, y sylfaenydd a'i wraig, eu holl garedigion a'u perthynasau, a phob un o nawddogwyr yr eglwys hon.§

Dichon fod John de Grey wedi ei gladdu yma; ac efallai mai ei fedd ef ydyw yr un a eilw Churchyard yn fedd rhyw iarll Caint; safai yn y gangell, ac yn ei ddyddiau ef yr oedd ar y llaw ddehau i'r côr.

Cysylltid ystafelloedd yr offeiriaid â'r eglwys trwy rodfa; rhan o ba un sydd wedi ei adeiladu i fyny, a gwasanaetha fel preswylfod y warden. Pan ymgymerodd John de Grey â'r gorchwyl, cafodd gydsyniad Syr Hugh, y pryd hyny yn beriglor Llanrhudd; i ba un y mae yn addef fod hon yn israddol, trwy arfer gwlad yn ogystal a thrwy gyfraith.‖

Yn y flwyddyn 1583, gadawyd y lle yma o dan ofal pedwar o wŷr eglwysig, gyda blwydd-daliadau o chwe' phunt i lawr hyd un bunt, chwe' swllt, ac wyth geiniog yr un.¶ Rhoddwyd y tiroedd gan Iorwerth VI. i William Winlove a Richard Fyld.**

Y mae Rhuthyn, ac amryw blwyfydd ereill, y rhai gynt a wnaent i fyny gantref Dyffryn Clwyd, yn ffurfio deoniaeth yn esgobaeth Bangor, ac yn dwyn yr hen enw.

Crybwylla Leland am dŷ o fynachod gwynion†† yn y dref, ond ni ddyry unrhyw fanylion. Dichon y safai yn yr heol a elwir hyd heddyw yn Heol y Prior.

Reginald de Grey a sefydlodd yn y wlad hon luaws o'i ddylynwyr, megys y *Thelwalls*, y *Goodmans*, y *Moyles*, y *Jervises*, y *Towerbridges*, a'r *Alsbels;* yr

* Camden Middlesex i. 385. † Leland Itin. iii. 135.
‡ Dugdale's Monast. iii. pars ii. 57. § Yr unrhyw. ‖ Yr unrhyw.
¶ Willis's Abbies, ii. 311. ** Tanner, 708. †† Itin. v. 45.

Digitized by Google

olaf, wedi ei lygru i *Ashpool*, a gynrychiolid gan dŷ yn mhlwyf Llandyrnog, ac a elwid *Plas Ashpool*, yr hwn a safai yn ngwaelod Dyffryn Clwyd, o fewn fy nghof i. Yr olaf o'r llinach, dynes ieuangc brydweddol, ond mewn darfodedigaeth dwfn, a briododd Wyddel o'r enw *Uniack*, a bu farw yn mhen ychydig wythnosau ar ol y briodas.

*Carchar.* ] Y mae y carchar newydd yn peri anrhydedd mawr i'r adeiladydd, Mr. Joseph Turner, yr hwn a gynlluniodd y lle gyda phob sylw at anhebgorion y manau truenus hyn; dyogelwch, glanweithdra, ac iechyd. Gwahanir y dyledwyr oddiwrth y troseddwyr gan fur uchel, yr hwn a rana eu buarthau, y rhai ydynt awyrog ac eang, a baddonau yn ddarparedig iddynt. Y mae celloedd y collfarnedigion yn gydwastad â'r ddaear; ac y maent yn sychion, goleu, a chryfion; cyferbyniad odiaeth i lawer o'r hen garcharau trymllyd yn yr hen amseroedd.

O Ruthyn, ymwelais â'r fam-eglwys fechan a destlus, *Llanrhudd*, yr hon sydd yn gyflwynedig i St. Meugan, ser-ddewinydd enwog, a meddyg i'r brenin Gwrtheyrn. Yma y mae cofadail John Thelwall, ysw., o Fathafarn, a'i wraig, yn penlinio wrth allor; o'r tu ol iddo ef y mae deg o feibion; o'r tu ol iddi hithau, bedair o ferched. O'r meibion, y mae Syr Bevis mewn arfogaeth; y gweddill mewn gŷnau; ac y mae tri yn dwyn penglogau yn eu dwylaw, i arwyddocâu eu marwolaeth gynarol. Yr oedd Syr Bevis yn weinydd yr ystafell-wely i Iago I., ac ymddengys ei fod yn feddiannol ar yspryd anturiaethus cryf. Prynodd gan un o'r enw Gibbs ranau o ryw diroedd, y rhai oeddynt i gael eu hadenill oddiar y môr, yn Brading-haven, yn Ynys Gwŷth, a chymerodd yn gyfranog âg ef ei gydwladwr, y clodfawr Syr Hugh Myddleton. Ceisiodd Syr Hugh nifer o Isellmyn i gau i mewn ac adenill yr hafan oddiar y môr; ond ar ol gwario saith mil o bunnau, gorfu arno ef a Syr Bevis roddi i fyny, a chymeryd eu colled.* Bu y saith mab ereill fyw i oedran mawr, a blodeuasant yn gyfocsolion yn y gwahanol alwedigaethau yr ymgymerasant â hwy.

*Y Thelwalls.*

John, yr hynaf, a fu farw yn 97 mlwydd oed, a gadawodd ar ei ol hiliogaeth yn rhifo rhwng dau gant a deugain a dau gant a thriugain.

Syr Eubule a ddaeth yn benaeth Coleg Iesu, yn Rhydychain. Ni bydd i mi flino y darllenydd â hanes yr holl deulu; ond ni ddylwn adael heibio Ambrose, y nawfed mab, yr hwn a ddechreuodd ei yrfa fel gwas i Syr Francis Bacon; ac mor gymeradwy ydoedd efe, fel y darfu i Syr Francis, er mwyn ei wobrwyo, anog y brenin i urddo yr holl feistri yn y canghelldy yn farchogion; am yr hyn yr oedd Ambrose i gael rhad rodd o gan' punt yr un. Wedi i hyny gael ei wneyd, ac i'r arian gael eu talu, efe a ddychwelodd i'w frawd Syr Eubule, yr hwn oedd yn un o'r meistri, ei gyfran ef o'r swm a dderbyniasai.

Y mae yn yr eglwys gorphlun o Ambrose, wedi ei gerfio yn rhagorol: ei wallt yn fyr; ei farf yn bigog; a'i wddfdorch yn fflat.

Hanodd y teulu yma o Thelwall, yn sir Gaerlleon, a chymerasant eu henw oddiwrth y lle. Yr oedd y sylfaenydd yn un o ddylynwyr Reginald de Grey, ac ymsefydlasant yn y parthau hyn. Er mor luosog ydoedd disgynyddion

* Worsley's Hist. Isle of Wight, p. 196.

Digitized by Google

y teulu, a'r cangenau ereill, nid oes ond dau yn unig yn aros o'r enw, sef y Parchedig Edward Thelwall, o Lanbedr,* lle o'r fath mwyaf prydferth, yn sefyll yn uchel ar ochr y bryniau, ddwy filldir o Ruthyn; a Simon Thelwall, ysw., o Flaen-iâl.

Cangenau ereill oeddynt y *Thelwalls* o Bathafarn, mewn hen amseroedd yn barc o eiddo arglwydd Grey o Ruthyn, yn sefyll mewn lle prydferth yn agos i droed Moel Fenlli. Y mae y tir yn ymddyrchafu, mewn triniaeth ragorol, oddiwrth y tŷ, ac yn cael ei amrywio yn brydferth gan goedydd hongianol. Yn y tŷ y mae portreadau o saith o feibion y John Thelwall a enwyd o'r blaen. Yma hefyd y mae portread o ryw John Thelwall, dadleuydd dysgedig yn y gyfraith, mewn meddygaeth, a'r gwyddonau dyngarol. Bu ef farw yn 1686, a chladdwyd ef yn Llanrhudd. Arddangosir ef mewn portread haner hyd, gyda gwallt hir a gwŷn, a gwddfdorch, gyda nos-wisg o liw llwyd-dywyll; ac yn saith a thriugain mlwydd oed; y mae wedi ei baentio yn dda, gan Randle Wilcock, yn 1675. Ar bren, y mae darlun o ben Syr James Dyer, prif ustus maingc y brenin yn nheyrnasiad y frenines Elizabeth. Ar ei ben y mae cap ysgwâr; y mae wedi ei wisgo mewn gown coch, gyda chadwyn aur ysplenydd, gwddf-goler fechan, a barf wèn a bèr. Dywedir ei fod yn awdwr llyfr o adroddiadau yn y Ffrangcaeg, yr hwn a aeth drwy amryw argraffiadau; y mae ei lun yn ei ddechreu.† Bu farw Mawrth 29ain, 1581-2, yn 72 mlwydd oed.

Yr oedd cangen arall hefyd o *Blas y Ward*, yr hon a ddaeth i'r teulu trwy briodas John Thelwall â Felice, merch ac etifeddes Walter, yr hwn a gyfenwid Ward,‡ o'r lle hwn. O'r tŷ hwn yr oedd Edward Thelwall, ysw., gyda'r hwn y gosodwyd arglwydd Herbert o Cherbury, yn ei ddyddiau ieuengaf, i ddysgu Cymraeg, ac i'r hwn y dyry efe y cymeriad uchaf.§

Yr oedd *Thelwalls* y Plas coch, a rhai Nantclwyd (nid oedd y lleoedd hyn nepell oddiwrth eu gilydd) o'r teulu yma hefyd. Y mae Bathafarn yn bresenol yn meddiant y Parch. Mr. Carter,‖ a Nantclwyd yn eiddo i Richard Kenrick, ysw.; yr olaf sydd ddisgynydd o'r Thelwalls, yn y llinach fenywaidd.

O Lanrhudd y mae y dyffryn yn culhau yn fawr, ac y mae bron yn cau i fyny gyda phlwyf Llanfair. Os gosodaf ei derfyn yn y Bontnewydd, nis gall fod terfyniad mwy prydferth; lle y mae y bont, yn agos i ymuniad y Clwyd a'r Hespin, a mynydd uchel, gyda'i ochrau yn orchuddiedig â choedydd crogedig, yn cloi i fyny yr olygfa..

Myned dros ran o Goed Marchan, commins eang a noethlwm,¶ a hynodir ef trwy fod ynddo chwarel o fynor coch a gwŷn, er ei fod o ansawdd lled arw. Disgyn i lawr i nant gul Nantclwyd; a marchogaeth am beth amser ar draws cyttiroedd anial. Ar un o honynt y mae gwersyllfa fechan, gyda ffos yn ei hamgylchu, yr hon a elwir *Caer Senial.* Yn agos i'r fan hon, yr wyf yn myned i

* Yn awr, trwy bryniant, yn eiddo i Robert Ablet, ysw. GOL.

† Grainger, i. 235. ‡ Salusbury Pedigree, 33. b, § Life of Lord Herbert, pp. 23, 24.

‖ Ei ferch a'i unig etifeddes ef (yn awr wedi marw) a'i trosglwyddodd trwy briodas i Arglwydd William Beauclerk, yr hwn a'i gwerthodd yn ddiweddar i'r Parch Roger Butler Clough, o Creiviat. GOL.

¶ Y mae yn bresenol wedi ei gau i fyny. GOL.

Digitized by Google

## SIR FEIRIONYDD,

*Caer Drewyn.*] Ac, yn ngolwg y blaenaf, ymwelais â *Chaer Drewyn*, gorsaf arall, yn meddu cyflawn olwg ar ddyffrynoedd prydferth Glyndyfrdwy ac Edeyrnion, y rhai a ddyfrheir gan yr afon Dyfrdwy. Gorwedda ar lethr bryn syth; y mae o ffurf gylchyrog, ac oddeutu haner milldir o amgylchedd; cynwysa yr amddiffynfa un mur, yr hwn sydd gan mwyaf yn adfeilion; eto, mewn rhai manau, y mae y gwynebwaith o hyd yn ganfyddadwy: yn nhrwch y muriau y mae olion ystafelloedd i'w canfod yn barhaus. Perthyna i'r amddiffynfa hon ddwy fynedfa. Yn agos i'r ochr ogledd-ddwyreiniol y mae ysgwâr hirgul, yn ychwanegol at y prif weithiau; ac yn gymaint a bod y tir yn y fan hono yn lled fflat, cadarnheir ef â ffos fawr, a mur: oddifewn y mae olion sylfeini hen adeiladau; y mae un o honynt yn gylchyrog, ac yn amryw latheni o drawsfesur: y mae y ffos wedi ei chario allan lawer yn mhellach na'r mur, ac ymddengys fel rhan o ychwanegiad anorphenol at y cwbl. Tybir fod Owain Gwynedd wedi meddiannu yr orsaf hon, tra yr oedd Harri II. yn gwersyllu ar fryniau y Berwyn, ar yr ochr arall i'r dyffryn. A dywedir fod Owain Glyndwr hefyd wedi defnyddio y lle fel encilfa achlysurol.

*Gorsaf Brydeinig.*]

*Saith Marchog.*] Heb fod yn mhell oddiyma, yn agos i Gwyddelwern, y mae man a elwir yn *Saith Marchog*, oddiwrth yr amgylchiad* fod Owain yn y fan yma wedi dyfod yn ddirybudd ar warthaf Reginald de Grey, a saith o farchogion a'i dylynent.† Bu i deulu hynafol gymeryd i fyny enw tebyg i hwn, Saeth Marchog; ac yr oeddynt yn gwisgo pais-arfau, llew ariannaidd ar ei ddau droed ol, ar waelod o liw asur, &c. Lowry, etifeddes y teulu, a ymbriododd â Thomas Myddelton, o Garthgynan.‡

Nid oedd gorsaf neu amddiffynfa Caer Drewyn ond un o'r gadwyn a ddechreuai yn Dyserth, ac a barheid ar hyd bryniau Clwyd hyd fynyddoedd Iâl; oblegyd y mae rhai ereill ar y diweddaf; un ar Foel y Gaer; ac un arall ar Foel Forfydd; ac ymddengys fod llau Bryneglwys yn safle y drydedd. Dyma oedd encilfanau y preswylwyr yn amser rhyfel, neu oresgyniadau sydyn: yma y gosodent eu gwragedd, eu plant, a'u hanifeiliaid, o dan warchodaeth gref; neu efallai y gallai tylwyth neu genedl gyfan ymlochesu iddynt, nes yr enciliai y gelyn; oblegyd ni allai byth fyw yn hir mewn gwlad lle y byddai pob math o ymborth wedi eu dyogelu fel hyn. Y mae hefyd yn gwbl mor sicr, nas gallai y preswylwyr eu hunain aros yn y lleoedd hyn am yspaid hir, am fod y rhan fwyaf o'r amddiffynfeydd yn amddifad o ddwfr.§

Myned i lawr goriwaered, ond yn gymaint a bod y rhyd arferol dros y Ddyfrdwy i Gorwen yn annhramwyadwy, aethum drachefn i ffordd Ruthyn, ar gomins sydd wedi ei nodi yn drwm â charneddau, y rhai yn gyffredin a

* Camgymeriad ydyw hyn, oblegyd yr oedd yr enw yn bodoli pan gafodd Mabinogi Branwen ferch Llyr ei ysgrifenu; ac os bydd i'r darllenydd gymeryd y drafferth o droi i *Guest's Mab.* iii. 92, bydd iddo gael dosparth arall o *saith marchog*. Y mae yr adran wedi ei chamgyfieithu yn druenus yn tudal. 116, pan yr ydym yn cael, "Ac am y rheswm yma y gosodwyd y saith marchog yn y dref:" dylasai fod, "Ac am y rheswm yma y galwyd y dref yn saith marchog." J. R.

† Mr. Thomas's MSS. ‡ Salusbury Ped. 25. b. § Gwel tudal. 220 o'r gwaith hwn.

Digitized by Google

ddynodant faes brwydr. Ymddengys i mi mai beddau y lladdedigion mewn rhyw ysgarmes a fu rhwng y Cymry a'r Saeson, oddeutu y flwyddyn 1255, ydynt; pan y darfu i Llewelyn ap Gruffydd, wedi casglu ynghyd ei holl nerth, adfeddiannu y rhan fewndirol o Ogledd Cymru, a'r oll o sir Feirionydd, y rhai a drawsfeddiannasid gan Harri III.*

*Rhug.* ] Myned heibio i balasdy *Rhug.* Y lle hwn sydd hynod ar gyfrif carchariad bradwrus Gruffydd ap Cynan, tywysog Gogledd Cymru, yn fuan ar ol ei fuddugoliaeth yn Carno, yn y flwyddyn 1077; trwy iddo gael ei hudo yno gan fradwriaeth un o'r enw Muriawn Goch. Y mae y bryn ar ba un y safai y castell i'w weled o hyd yn yr ardd. Er ei holl yrfa fuddugoliaethus, bu mewn hirfaith gaethiwed, trwy iddo gael ei fradychu i ddwylaw Hugh Lupus, iarll Caerlleon, a Hugh Belesme, iarll yr Amwythig, a throsglwyddwyd ef i gastell Caerlleon, lle y bu yn garcharor am ddeuddeng mlynedd. O'r diwedd efe a waredwyd trwy wroldeb Cynrig Hir, dyn ieuangc o'r ardaloedd hyn, yr hwn trwy ddyfod i Gaerlleon, o dan yr esgus o brynu rhyw nwyddau, a gymerodd fantais, tra yr oedd y ceidwaid yn gwledda, i gludo ymaith ei dywysog, yn llwythog o heiyrn, ar ei gefn, i le o ddyogelwch.†

Mewn amseroedd diweddarach, daeth y lle hwn yn eiddo i Owain Brogyntyn, mab ordderch i Fadog ap Meredydd, tywysog Powys. Y fath ydoedd rhagoriaethau Brogyntyn, fel y cafodd ran gyfartal â'i frodyr cyfreithlawn o etifeddiaeth ei dad. Dywedir i mi fod ei ddagr, o waith cywrain, yn cael ei gadw o hyd yn y tŷ hwn. Trwy briodas Margaret Wenn, merch ac etifeddes i Ieuan ap Hywel, un o ddisgynyddion Brogyntyn, gyda Pyers Salusbury o Fachymbyd,‡ y deilliodd y Salusbriaid o Rug; enw ag sydd yn bodoli yn y llinach wrrywaidd hyd y ganrif bresenol.§

Gallaf grybwyll yma, fel attodiad at hanes bywyd Owain Glyndwr, fod Harri IV., ar ddyfarniad ei eiddo, wedi gwerthu arglwyddiaeth Glyndyfrdwy i Robert Salusbury‖ o Rug.

Croesi y Ddyfrdrwy, ar bont hardd o chwe' bwa, oddiar ba un y mae yr afon i gael ei gweled yn dra manteisiol, i fyny ac i lawr, mewn dau wely eang, yn cael eu hymylu gan goedydd, ac yn dyfrhau doldiroedd ffrwythlawn.

*Corwen.* ] Cyrhaedd *Corwen*, eglwys a thref fechan, yn sefyll o dan graig fawr wrth droed mynyddoedd y Berwyn, y rhai a ffurfiant olygfa brydferth oddiar amryw ranau o'r ffordd y daethum ar hyd-ddi.

Y mae Corwen yn nodedig am mai dyma y lle yr oedd cynullfan mawr y lluoedd Cymreig o dan Owain Gwynedd,¶ yr hwn, o'r fan yma, a roddodd atalfa ar oresgyniad Harri II. yn y flwyddyn 1165. Y mae y gwersyll yn cael ei nodi, fel yr hysbyswyd fi, gan glawdd pridd, uwchlaw yr eglwys tua'r dehau; a chan olion sefyllfaoedd nifer luosog o babellau oddiyno hyd bentref Cynwyd.

Y mae yr eglwys wedi ei hadeiladu ar ffurf croes. Oddifewn iddi y mae beddrod un o'i ficeriaid, Iorwerth Sulien. Y mae ei lun, yn dal cwpan yn ei

* Powel, 820. † Life of Gruffydd ap Cynan. Sebright MSS. ‡ Salusbury Pedigree, 14.

§ Adgymerwyd yr enw *Salusbury* gan Edward, ail frawd Syr Robert Vaughan, barwniad, i ba un y gadawyd yr etifeddiaeth mewn ewyllys, a marwolaeth anamserol yr hwn, yn Sicily yn 1807, tra yn ngwasanaeth ei wlad, a barodd alar dwfn a chyffredinol. Efe a ail-adeiladodd balas Rhug. Gol.

‖ Powel, 214. ¶ Arglwydd Lyttelton, iv. 99.

Digitized by Google

law, yn cael ei arddangos mor isel â'i ddwyfron, gyda'r cerfiad canlynol arno, "*Hic jacet Jorwerth Sulien, Vicarius de Corvaen, ora pro eo.*"* Y mae yr oll wedi ei gerfio, yn brydferth, ar gauad yr arch; ond ofnaf nad yw yn ddigon hen i fod yn fedd i St. Julien, archesgob Tyddewi, y dyn mwyaf duwiolfrydig a'r ysgrifenydd mwyaf yn holl Gymru:† er hyny, y mae gan y sant hwn ei ffynhon yma, ac y mae yr eglwys o dan ei nawdd.

Ar yr ochr ddeheuol i'r eglwys y mae croes anghelfydd wedi ei thori, yr hon a ddangosir i ddyeithriaid fel cleddyf Owain Glyndwr. Y mae croes arall dra hynod yn y fynwent yn deilwng o sylw: y mae y llafn yn gladdedig mewn careg fflat, yr hwn a gynelir gan bedair neu bump o feini afrosgo, megys pe buasai y cyfan wedi eu ffurfio er dynwared, ac er parchedigaeth i hen gromlechau cysegredig amseroedd tra boreuol.

Y mae cofgolofn o'n hofergoelion yn aros yn *Nghareg y Big yn y fach rewlyd*, careg arw a phigfain a saif gerllaw y porth. Dywedir wrthym fod pob ymgais i adeiladu yr eglwys mewn unrhyw le arall, wedi ffaelu oherwydd rhyw alluoedd gwrthwynebol, nes i'r sylfaenwyr, wedi eu rhybuddio gan weledigaeth, gael eu cyfeirio i'r llecyn lle y saif y golofn hon.

Yn y fynwent y mae adeilad, yr hwn a sylfaenwyd gan William Eyton, o Blas Warren, yn sir yr Amwythig, yr hwn, yn 1709, a adawodd mewn ewyllys swm o arian er cynaliaeth chwech o weddwon clerigwyr o sir Feirionydd yn unig, ac er adeiladu chwech o dai iddynt fyw ynddynt. Mewn canlyniad i hyny, codwyd yr adeilad hon, ac y mae tiroedd, gwerth oddeutu triugain punt yn y flwyddyn, wedi eu prynu, yr hyn a renir yn gyfartal cydrhwng y gwragedd gweddwon a breswyliant yno.

*Mynyddoedd y Berwyn.*

Gadael Corwen, a dychwelyd yn ol mor belled a'r bont ar hyd y ffordd y daethum. Mynyddoedd mawrion y *Berwyn** ydynt derfyn dwyreiniol y dyffryn prydferth hwn. Eu cribau uchaf ydynt Cader Fronwen, a Chader Ferwyn. Ar y flaenaf y mae peutwr mawr o geryg, wedi eu dwyn yno o ryw le pellenig, gyda llafur mawr, i fyny gallt mor serth; ac yn eu canol y mae colofn seth. Yr ydym yn cael ein gadael mewn anwybodaeth gyda golwg ar yr hwn y darfu i'w uchelgais ddringo mor uchel i godi cofgolofn iddo ei hun. Islaw eu cribau dywedir fod ffordd o

*Ffordd Helen.*

waith celfyddyd yn rhedeg, yr hon a elwir *Ffordd Helen;* boneddiges ag y bydd genyf achlysur i siarad ychwaneg am dani yn fuan.

Ar y mynyddoedd hyn, ac yn neillduol o gwmpas Cader Fronwen, y ceir y *Rubus Chamœmorus* (*Cloudberries*, neu *Knotberries* y Saeson). Llwyd* a

*Mwyar Berwyn.*

ddywed fod y Cymry yn eu galw yn Fwyar Berwyn, *Mora Montis Berwyn*. Defnyddir hwy yn fynych at wneyd aeronbasteiod; ac y mae y Swediaid a'r Norwegiaid yn ystyried y mwyar yn gyfferi

* Yma y gorwedd Iorwerth Sulien, ficer Corwen, gweddiwch dros ei enaid."

† Bu ef farw yn 1089.

‡ Gallai *Berwyn* olygu naill ai y mynydd gyda'r copa gwŷn, neu y dyn gyda'r pen gwŷn neu deg: a barnu oddiwrth *Gadair Ferwyn* a *Chadair Fronwen*, yr oedd ar y cyntaf yn enw personol, fel y defnyddir ef mewn lle arall; felly byddai i'r blaenaf olygu cadair rhyw Ferwyn, yr hwn, efallai, ydoedd yn arwr o'r un ystyr gyfriniol a Bronwen ac Idris. J. R.

§ Yn Camden's Br. ii. 835.

Digitized by Google

gwrthglafraidd rhagorol, a chynauafant symiau helaeth yn yr hydref, at ddybenion cogyddol. Y Laplandiaid a'u maluriant ac a'u bwytânt fel ymborth moethus, yn llaeth y carw Llychlyn; ac i'r dyben o'u cadw trwy y gauaf, claddant hwynt yn yr eira, a phan ddaw y gwanwyn y maent yn eu cael mor dirfion a phe buasent newydd eu casglu.* Gwelais hwy yn Ucheldiroedd Ysgotland yn cael eu dwyn i'r bwrdd fel moethusfwyd ar ol ciniaw.

*Cynwyd.*] Cyrhaedd *Cynwyd*, pentref bychan, hynod yn yr hen amseroedd fel man lle y byddai gwŷr mawr y gymydogaeth yn cadw llysoedd, i benderfynu terfynau eu gwahanol hawlion ar y tiroedd gwyllt a'r comins, ac i wneyd sylw o'r gormesiadau; ond y mae hyny wedi darfod er's talm, a'r cofnodiadau wedi eu dinystrio.

*Rhaiadr Cynwyd.*] O'r lle hwn ymwelais â *Rhaiadr Cynwyd*, yr hyn yn brydferth a derfyna y nant sydd yn ymestyn oddeutu haner milldir o'r pentref. Ymruthra dwfr yr afon Trystion o ochrau y bryn, drwy geunentydd dyfnion a chulion, o graig i graig, y rhai ydynt yn orchuddiedig gan goed. Ychwanegir llawer at brydferthwch yr olygfa gan yr hen foncyffion amrosgo a grogant mewn llawer o fanau dros y clogwyni; ac addurnir hi yn fwy fyth gan y felin fechan, a'i phreswylwr, yn y gwaelodion anghysbell hyn.

Myned yn mlaen ar fy nhaith tua'r Bala. Pasio eglwys fechan Llangar.

*Caer Bont.*] Gweled, ychydig yn fwy ymlaen ar y llaw chwith, mewn cae a elwir *Caer Bont*, wersyllfa fechan gron, yn cynwys ffos a chlawdd, gyda dwy fynedfa iddi, wedi ei bwriadu, mae yn debyg, er amddiffyn y bwlch hwn. Fy nghyd-deithiwr, y Parch. John Lloyd, a'm hysbysai iddo ef, mewn taith flaenorol, esgyn i ben bryn, uwchlaw y lle hwn, a elwid *y Foel*, ar gopa yr hwn yr oedd caerfa gylchog, o gerygos mân, heb fod un o honynt yn fwy na thair troedfedd o uchder; gyda mynedfa i mewn o'r dwyrain, neu godiad haul. Trawsfesur y cylch ydyw oddeutu deg llath. Oddifewn yr oedd cell gron, oddeutu chwe' throedfedd o drawsfesur, ychydig bach yn is na'r arwyneb; ac yn y pellder o rywbeth tua chan' llath, ac yn wynebu hwn, yr oedd olion carnedd anferth, yn cael ei hamgylchynu gan geryg mawrion. Yr oedd yr oll o'r fan yma yn ffurfio lle o addoliad perthynol i'r hen Frythoniaid, a dichon fod llwyn yn ei amgylchynu. Ond o berthynas i'r hyn sydd genyf i'w ddywedyd am *Dderwyddiaeth*, mi a'i cadwaf nes y deuaf i Ynys Fôn, lle yr oedd prif eisteddle y grefydd hono.

*Llandrillo.*] Myned ymlaen i *Landrillo*, pentref gydag eglwys wedi ei chyflwyno i St. Trillo. Saif ar yr afon Ceidio, yn ngenau glyn eang, yr hwn a ymestyna am oddeutu dwy filldir, yn nghesail mynyddoedd y Berwyn, ac yn arwain i'r bwlch hynod hwnw drwyddynt, a elwir Milldir Yerrig, i sir Drefaldwyn.

*Pont Gilan.*] Oddeutu milldir o ffordd o Landrillo, croesais y Ddyfrdwy drachefn, yn *Mhont Gilan*, pont o ddau fwa, ar draws dyfroedd dyfnion a duon. Tu hwnt i'r fan hon y mae prydferthion newyddion yn ymagor yn y dyffryn, yn enwedig ar y llaw ddehau; culha yn ddirfawr; rhed y ffordd gyda throed clogwyn o uchder aruthrol, wedi ei orchuddio â choed derw hybarch, y rhai a gadwasant eu safle anhyblyg,† yn mysg y creigiau mwyaf

* Flora Scotica, i. 267, tab. xiii.

† Och! eu lle nid edwyn ddim o honynt mwy. Gol.

Digitized by Google

geirwon, y rhai yn awr ac eilwaith a ddangosant eu hwynebau llwydion a thoredig, yn nghanol gwyrddlesni dwfn dail y coedydd, sydd yn sugno maeth mor ryfeddol yn eu mysg. Y mae tyfiant y dderwen, trwy wthio ei gwraidd at i lawr, yn fynych yn rhwygo yr haenau anferth yma, malurion pa rai a ganfyddir wedi eu gwasgaru yn y gwaelodion, o faintioli rhyfeddol. Y mae yr holl olygfa yn gofyn pensyl un tebyg i Salvator Rosa: ac yma gallai ein harlunwyr ieuaingc gael lle cyfaddas i astudio arddull yr arlunydd mawr hwnw yn ngwaith natur yn ei gwylltineb.

Ychydig tu hwnt i ben pellaf y lle rhamantus yma, mewn agorfa ar y llaw ddehau, y saif eglwys a phentref Llandderfel; y mae y flaenaf wedi ei chysegru i *St. Derfel Gadarn*, ac yr oedd yn hynod am ddelw anferth o goed o'r sant, yr hon oedd yn destyn cryn lawer o ofergoeledd yn yr hen amseroedd. Yr oedd gan y Cymry brophwydoliaeth y byddai iddi *roddi fforest gyfan ar dân.* Pa un ai i gyflawni hyny, ai ynte er rhoddi pen ar yr hygoeledd yn mhlith y bobl, nis gallaf ddyweyd; ond fe ddygwyd y ddelw i Lundain, yn y flwyddyn 1538, a defnyddiwyd hi fel rhan o'r tanwydd a losgai yr anffodus fynach *Fforest* yn lludw, yn Smithfield, am wadu uwchafiaeth eglwysig y brenin. Y dyn anffodus hwn a grogwyd mewn cadwyni wedi eu gosod o amgylch ei ganol, wrth grogbren, ac uwchlaw iddo yr oedd y llinellau canlynol yn ysgrifenedig, gyda chyfeiriad at ein delw ni:—

[St. Derfel.]

**David Derfel Gutheren,**
**As sayth the Welshman,**
**Fetched outlawes out of hell;**
**Now is he come with spere and sheld,**
**In harnes to burne in Smithfeld,**
**For in Wales he may not dwel.**

**And Foreest the freer,**
**That obstinate lyer,**
**That wylfully shalbe dead.**
**In his contumacye,**
**The gospel doeth deny,**
**The kyng to be supreme heade.***

Cyflawnwyd y brophwydoliaeth, llosgwyd y ddelw, a llwyr ddifawyd *y Fforest*, er mawr foddhad i'r arglwydd faer, duciaid Suffolk a Norffolk, yr arglwydd lyngesydd, arglwydd y sêl gyfrin, a llawer ereill o'r bendefigaeth, y rhai a anrhydeddasant yr *auto de fe* (gweithred o ffydd) yma â'u presenoldeb;† ond yn anffodus, nid oedd y mynach yn meddu ar ddideimladrwydd ein sant pren ni, ac ar gyffyrddiad y fflamau arddangosodd y dychrynfeydd naturiol ar ddynesiad marwolaeth ingol, ac ni thalai ond ychydig sylw i ymresymiadau y duwiol Latimer, yr hwn a osodasid ar gyfer y dyoddefydd, mewn pwlpud, i bregethu iddo nes y delai i deimlo mawredd y trosedd o wahaniaethu mewn barn oddiwrth ei freniu ar faterion crefyddol; am yr hyn y dyoddefodd yr esgob ei hun mewn teyrnasiad dylynol. Tybiai Forest yn addas farnu nad Harri oedd pen yr eglwys; a mynai Latimer wthio yr anrhydedd hwnw ar Fari, yr hon a ddewisai ei drosglwyddo i'r Pab.

Gyferbyn â'r eglwys hon y mae pont Llandderfel, o bedwar bwa. Ychydig bellder oddiwrthi, y mae y dyffryn yn cau i fyny braidd; ac yn Calettwr ter-

* Halle's Chr. ccxxxiii. "Dafydd Derfel Gadarn, fel y dywed y Cymro, a gyrchai wrthryfelwyr allan o uffern. Yn awr y mae wedi dyfod, gyda gwaywffon a tharian, mewn harnais i losgi yn Smithfield, am na feiddia aros yn Nghymru. A Fforest y mynach, y celwyddwr ystyfnig. a fydd farw o'i wirfodd; yn ei gyndynrwydd mae'n gwadu yr efengyl, sef mai y brenin yw y prif ben."

† Stow's Annals, 573.

fyna yn ardderchog gydag ucheldir coediog, uwchben pa un yr ymddyrchafa mynyddoedd yr *Arennig*, er iddynt yn union wedi hyny ymddangos yn dra phell. Yr wyf yn sefyll yma am foment i anog y teithydd, yr hwn nid yw yn dewis dylyn fy nghamrau yn fanwl, i ganlyn rhediad y Ddyfrdwy o Fangor, trwy y rhandiroedd ffrwythlon a ddyfrheir ganddi oddiyno hyd Langollen; ei dylyn trwy Lyndyfrdwy hyd Gorwen, ac oddiyno, trwy ddyffryn anghydmarol Edeyrnion, i'r fan hon, lle, am ychydig ffordd, y mae yn rhedeg trwy wastadedd, gwrthgyferbyniad anhyfryd i'r llwybr a ddylynasid yn flaenorol.

*Rhiwaedog.*] Ar y chwith saif *Rhiwaedog*, nodedig am frwydr a fu yma rhwng Llywarch Hen a'r Sacsoniaid, yn mha un y collodd efe Cynddelw, yr olaf o'i feibion lluosog. Tybir mai mewn lle heb fod nepell oddiyma, a elwir pabell Llywarch Hen, y treuliodd efe y noswaith hono i orphwys ar ol y frwydr, a gorphen ei farwnad bruddaidd, yn mha un y galara am yr oll o'i feibion. Ynddi y mae yn cyfarwyddo yr olaf i amddiffyn ael y bryn hwnw, yn ddidaro am dynged yr unig un o honynt oedd yn fyw.

> Cynddelw, cadw dithau y Rhiw,
> Ar a ddêl yma heddiw;
> Cudeb am un mab nid gwiw.*

Y mae tŷ ac etifeddiaeth Rhiwaedog yn awr yn meddiant Mr. Dolben, hanedig o du ei fam o'r Llwydiaid, yr hen feddiannwyr tra hynafol. Einion ap Ithel, o'r lle hwn, un o'i hynafiaid gwrol, a gytunodd â John duc Lancaster, yn 1394, i'w ddylyn ef am flwyddyn yn ei ryfelgyrch i Guyenne, gydag un dyn cyflawn arfog, a bwäwr; am yr hyn y gwobrwyodd y duc ef âg ugain marc, i gael eu talu allan o'i faenoriaeth yn Halton.†

*Rhiwlas.*] Myned heibio i bentref ac eglwys Llanfawr, a chroesi llifeiriant Troweryn, islaw *Rhiwlas*, hen eisteddle y *Prices*. Yn y tŷ y mae portreadau o rai o'r teulu: yn mysg ereill, y mae portread William Price, ysw., aelod seneddol dros y sîr yn y senedd hir, ond cafodd yn fuan ei ddiswyddo o herwydd ei ymlyniad wrth y brenin.

*Bala.*] Cyrhaedd *Bala*, tref fechan yn mhlwyf Llanycil, nodedig am ei masnach mewn hosanau gwlan, a'i marchnadoedd mawrion bob bore Sadwrn, pan y mae gwerth o ddau i bum' cant o bunnau yn cael eu gwerthu bob dydd, yn ol fel y byddo y gofyn. O gylch y lle y mae gwragedd a phlant

*Gwau.*] mewn llawn gwaith, yn gwau ar hyd y ffyrdd; ac yn eu plith y mae gwŷr corphol i'w gweled, yn cynorthwyo eu gwragedd yn yr orchwyliaeth fenywaidd hon. Yn ystod y gauaf, y mae y menywod, o herwydd eu cariad at gyfeillach, yn fynych yn ymgynull yn nhai y naill y llall i wau; eisteddant o gylch y tân, gan wrando ar ryw hen ystori, neu hen gerdd, neu swn y delyn; a gelwir hyn *Cymhorth Gwau.*

Y mae llawer o'r gwlan yn cael ei brynu yn ffeiriau mawrion Llanrwst, yn sîr Ddinbych.

*Tomen y Bala.*] Yn agos i ben de-ddwyreiniol y dref, y mae bryncyn mawr o bridd, yr hwn a elwir *Tomen y Bala;* yn yr haf bydd wedi ei orchuddio yn gyffredin gan rai yn gwau hosanau, o'r ddwy ystlen, ac o bob

* J. D. Rhys's Grammar, 103. † Mr. Evan Evans's notes.

Digitized by Google

oed. O'i ben uchaf ceir golwg hardd ar Lyn Tegid, a'r mynyddoedd cyfagos. Ar y llaw ddehau, gwelir y ddwy Arenig, y Fawr a'r Fach; tu hwnt i'r pen pellaf, ymddyrchafa y ddwy Aran eu penau, gyda'u dau gopa, Aran Mowddwy ac Aran Penllyn; a thu hwnt i'r cwbl, y mae Cader Idris uchelfrig yn terfynu yr olygfa.

Ymddengys mai gwaith y Rhufeiniaid yw y bryncyn hwn, ac iddo gael ei godi yma, gyda chastell bychan ar ei ben, i ddyogelu y fynedfa tua'r môr, ac i gadw ein mynyddwyr yn llonydd. Bu i'r Cymry, mewn amseroedd ar ol hyn, gymeryd y faintais o hono, yn gystal ag ar amryw weithydd ereill o'r un natur.

Y mae y dref ar ffurf dra rheolaidd: y brif heol yn nodedig o lydan, ac y mae yr heolydd llai yn ymuno â hi mewn cywironglau. Ni bydd i mi wadu nad allai ei tharddiad fod yn Rhufeinaidd.

Y bryncynau, neu y tomenau hyn, a ffurfiant gadwyn. Sylwais ar un, yn ngolwg hwn, ar y ffordd fynyddig i Ruthyn, yr hon a elwir *Tomen y Castell; Caer Crwyni* sydd wersyllfa fechan, heb fod yn mhell oddiwrthi, ac yn edrych i lawr ar ddyffryn Edeyrnion; y bryncyn yn ngardd Rhug sydd un arall; y mae trydydd, yr hwn sydd yn llawer llai, yn gorwedd yn ngolwg hwn, ar y ffordd i Wyddelwern; ac yn mhellach yn mlaen, yn mhlwyf y Bettws, y mae pedwerydd, yr hwn sydd yn myned dan yr enw cyffredin Tomen y Castell.

Y mae y Bala yn cymeryd ei henw o herwydd ei hagosrwydd at y fan lle y mae afon yn ymarllwys o lyn. *Balloch*, yn yr Ersaeg, a arwydda yr un peth. Ni wn ond ychydig am ei hanes boreuol, yn mhellach nag yr ymddengys ei bod yn ddibynol ar gastell Harlech; ac iddi, yn nheyrnasiad Iorwerth II., gael ei rhoddi yn ngofal Einion de Stanedon, cwnstabl y castell hwnw;* ac yn amser Iorwerth III. gwobrwywyd ei brif gadfridog, Walter de Manni, â thiroedd y Bala a Harlech am byth; a gwnaed ef yn sirydd y sir am ei oes.† Gallaf ychwanegu, wrth fyned heibio, fod Iorwerth I. wedi rhoddi i ryw Hugo de Turbervill yr hawl i hela pob math o fwystfilod gwylltion ‡ trwy holl sir Feirionydd, a dichon nad oedd y brodorion darostyngedig ond gweision iddo.

*Llyn.*] *Llyn y Bala, Pimble Mere*, neu *Lyn Tegid*, sydd yn gorwedd o fewn ychydig bellder i'r dref; ac y mae yn llen brydferth o ddwfr, yn agos i bedair milldir o hyd, ac yn ddeuddeg cant o latheni o led yn y man lletaf: y man dyfnaf arno sydd gyferbyn a Bryn Golen, lle y mae yn chwe' llath a deugain o ddyfnder, gyda thair llath o laid; ei lanau ydynt raianog; a'i amgylchoedd yn llechweddau esmwyth, o dan driniaeth ragorol, ac yn amrywiedig â choed. Mewn tywydd tymhestlog, bydd ei donau yn rhedeg yn dra uchel, a gormesant gryn lawer ar y pen gogledd-ddwyreiniol, yn mha le, o fewn cof dyn, y mae niferi o aceri wedi eu colli. Weithiau cyfyd naw troedfedd, ac y mae gwlawogydd a gwyntoedd gyda'u gilydd yn peri iddo orlifo dyffryn prydferth Edeyrnion.

*Pysgod.*] Ei bysgod ydynt benhwyaid, *perch*, brithylliaid, ychydig dorgochiaid, a chyflawnder o lyswod; ynghyda heigiau o'r pysgod mynyddig hyny, gwyniaid, y rhai a gladdant yn mis Rhagfyr, ac a ddelir yn niferi

* Sebright MSS. † Dugdale Baron. ii. 149.

‡ Rotulæ Walliæ, 98. Yn tudal. 97 y mae archiad fod iddo gael chwech o geirw o fforest sir Feirionydd.

mawrion yn y gwanwyn, neu yr haf. Y mae penhwyaid wedi eu dal yma yn pwyso pum' pwys ar hugain, brithylliaid o ddau ar hugain, *perch* o ddeg, a gwyniaid o bump. Hawlir holl bysgotaeth y llyn ardderchog yma gan Syr Watkin Williams Wynn. Bu unwaith yn eiddo mynachlog y Maesglas; oblegyd darfu i Owen Brogyntyn wneyd rhodd i Dduw, St. Mair, a mynachod y tŷ hwnw, "o ryw ddwfr yn *Penthlinn* (Penllyn), a elwid *Thlyntegit* (Llyn Tegid), neu *Pembelmere*, a'r holl borfa ar holl dir y *Penthlinn* rhagddywededig." Y tystion wrth hyn oeddynt Reiner (yr hwn a fu yn esgob Llanelwy o 1186 hyd 1224), ac Ithail, caplan Owain.*

Y mae y dyfroedd yn ymarllwys allan o dan Bont Mwnwgl y Llyn, yr hon sydd o dri bwa. Ymddangosant yn fychain mewn cymhariaeth i faintioli y ffrydiau sydd yn rhedeg i'r llyn; oblegyd nid yw y Ddyfrdwy, ar dymhorau sychion, yn tori y ffugr a ddysgwyliaswn. Y mae gleisiaid, mewn cyflawnder, yn dyfod i'r fan hon; ond anaml y deuant i'r llyn, ac nid yw y gwyniaid, ond yn bur anfynych, yn dyfod i'r afon. Dywed hanes fod y Ddyfrdwy yn myned trwy y llyn heb ymgymysgu o gwbl â'i ddyfroedd; yr un modd ag y mae y chwedl yn dywedyd fod yr afon Rhone yn myned trwy lyn Geneva. Ond y gwir yw hyn, nid yw y Ddyfrdwy yn ymgymeryd â'i henw nes ar ol iddi adael y llyn.

Gerllaw yr ochr orllewinol, yn agos i'r bont, ac yn union gyferbyn a Thomen y Bala, safai castell bychan arall; nid mor uchel, ond yr oedd yn eangach na'r un ar y bryncyn hwnw. Yn bresenol y mae wedi cael tori trwyddo gan y ffordd fawr; ond y mae yn weladwy ar y ddwy ochr; a safai y castell ar yr ochr nen y darn isaf, yn union uwch ben yr afon; ac y mae olion mur i'w gweled hyd heddyw. Yr oedd hwn yn iswasanaethgar i'r un dybenion a'r lleill; oblegyd, oddiwrth natur y tir, y mae yn rhaid fod ffordd i deithwyr ar ddwy ochr y llyn. Tybiaf mai hwn ydoedd castell y Bala, yr hwn a sylfaenwyd gan Lewelyn ap Iorwerth yn 1202.† Dichon fod yno, yn flaenorol i hyn, gastell hynach; oblegyd mewn rhyw lawysgrif gelwid ef Castell Gronw Befr o Benllyn, yr hwn Gronw, yn ol y Trioedd, a dybid ei fod yn byw oddeutu amser y brenin Arthur.

*Y Ddyfrdwy yn gysegredig.* Nid oes un afon yn Lloegr wedi cael ei mawrygu yn fwy gan y beirdd, ar gyfrif ei chysegredigrwydd, na'r Ddyfrdwy. Yr oedd gan bob gwlad, o'r braidd, ryw afon a ddalient mewn parchedigaeth neillduol. Y Thessaliaid a dalent anrhydedd dwyfol i'w *Peneus*, ar gyfrif ei phrydferthwch: y Scythiaid, a addolent yr *Ister* oblegyd ei maintioli: y Germaniaid y *Rhine*, am mai hi fyddai yn penderfynu cyfreithlondeb eu plant; suddai yr un anghyfreithlon, tra y nofiai y llall:‡ a gadewch i mi ychwanegu y *Ganges* at y rhestr, o'r tu allan i ddyfroedd pa un ni fynai Indiad o ryw sect bennodol roddi i fyny ei anadl ar un cyfrif. Byddai ein hafon ninau yn rhagfynegu dygwyddiadau dyfodol trwy newid cwrs ei sianel:§ ac ymddangosai weithiau fel pe yn chwyddo yn wyrthiol heb y gwlaw arferol; felly, yn ol pob tebygolrwydd, cafodd ei henw Seisonig *(Dee)* nid oddiwrth *Du (black)*, am nad yw ei dyfroedd felly, oddieithr mewn rhai manau, ar gyfrif y dyfnder: nac oddiwrth *Dwy*, oblegyd nid yw yn ymddangos ei bod yn tarddellu o un-

* Sebright MSS. † Powel, 258. ‡ Cluverius Germ. Antiq. lib. i. 185.
§ Girald. Cambr. Itin. c. xi. Sir Richard Hoare Ed. vol. ii. p. 165.



Digitized by Google

rhyw ddwy ffynhonell; ond oddiwrth Duw, dwyfol, ar gyfrif ei phriodoleddau rhyfeddol. Byddai ein hynafiaid gwreiddiol, y Galiaid, yn duweiddio ffynhonau, llynau, ac afonydd. Yr oedd ganddynt afon, yr hon yn eu hiaith hwy, a'n hiaith wreiddiol ninau, a ddygai yr un enw, ond eu bod hwy wedi ei Ladineiddio yn *Divona*.*

Salve fons ignote, ortu, sacer, alme, perennis,
Vitree, glauce, profunde, sonore, illimis, opace.
Salve urbis GENIUS, medico potabilis haustu,
DIVONA Celtarum lingua, fons addite divis.†

Giraldus, yr hwn a deithiai trwy ein gwlad yn 1188, yw y cyntaf i roddi yr hanes am ansoddau prophwydol y Ddyfrdwy; a pharhaodd y syniad am oesoedd lawer ar ol hyn. Spenser a'i dyg i fewn fel un o'r afonydd ag oeddynt yn bresenol yn mhriodas y Tafwysg a'r Medway:‡

Dylyna y Ddyfrdwy, yr hen Frythoniaid gynt
A'i galwent yn DDWYFOL, llifa ger Caerlleon Gawr.

Ond y mae Drayton yn fanylach fyth, ac ychwanega luaws o'r tueddiadau prophwydol, y rhai a draddodasid i lawr iddo ef o amseroedd mwy hynafol:—

Sancteiddrwydd y Ddyfrdwy ddechreuai hysbysu,
Trwy wyneb crychedig neu donau'n bygylu,
Fod ganddi ryw bethau i'w siarad wrth ddynion,
A fyddai er ennill eu gwybod yn gyson.
Hen afon y tybid y gallai hi wybod
Am ryw weithrediadau sy'n awr wedi darfod.
Bu'n derfyn hynafol rhwng Lloegr a Chymru,
A sylwai y ddwywlad pan fyddai yn gwgu,
Yn newid ei rhydiau, fod drwg neu ddaioni
Y ddwywlad gyffiniol ar hyny yn crogi;
Hysbysai am heddwch neu ryfel anhydyn,
Am salwch neu iechyd, am lawnder neu newyn.§

Priodol, gan hyny, y gallasai yr afonydd cysegredig gael eu galw yn URBIS GENII;‖ ac fod y Ddyfrdwy mor deilwng o'r enw a'r un o honynt, a brofir gan y dyfyniad uchod. Yn olaf, y mae Milton, yn y llinell ganlynol, yn cyfeirio yn brydferth at ddeonglwyr y daroganau yn mysg y Brythoniaid, yr hen Dderwyddon, y rhai a breswylient ar ei glanau:—

Na chwaith lle taena'r Ddyfrdwy'i chyfareddol lif.¶

Buwyd am hirfaith amser cyn cael yn glir â'r ofergoelion hyn. Yr oeddynt yn ffynu yn nyddiau Gildas, yn y chweched ganrif, pryd yr oedd ein hynafiaid

* Y mae hyn yn hollol gywir; yr enw Cymraeg yn llawn ydyw *Dyfrdwy*, am yr enwau hynach fyth, *Dyfrdwyf*, a *Dubrduiu*, yr oll o ba rai sydd ar gael, a golygant y *Dwfr Dwyfol*: ac fel y mae *dwfr* yn cael ei dori i lawr i *dwr* yn yr iaith gyffredin, y mae yr enwog Owain yn cael ei alw *Glyndwrdwy*, neu yn dalfyredig, *Glyndwr*; tra y mae y fath ffurfiau a *Glendower* mewn rhan yn Gaelaidd ac mewn rhan yn ffregod. Er gwaethaf Mr. Pennant, y mae rhai coeg-ysgoleigion hyd heddyw yn ymhyfrydu mewn siarad yn ddisynwyr yn nghylch enw yr afon hon. J. R.

† Ansonius Claræ Urbes, lin. 29. "Henffych! ffrwd o darddiad anadnabyddus; gysegredig, adfywiol, wastadol, wydrog, lâs, ddofn, scingar, yn rhydd oddiwrth laid, gysgodawg. Henffych! angel gwarcheidiol y ddinas! yfadwy fel diod iachaol, mewn dracht; gelwir hi Divona (Dyfrdwy) yn iaith y Celtiaid; afon a ddyroddwyd gan y duwiau."

‡ Stanza 39, cant. xi. lib. iv § Song x. ‖ "Engyl gwarcheidiol y ddinas." ¶ Lycidas.

Digitized by Google

yn dal yn gryf eilunaddoliaeth y Derwyddon yn nghanol eu seremonïau Cristionogol: ac er holl fygythion llawer penadur,* daliasant eu tir o hyd: ac y mae dwfr-ddewiniaeth yn cael ei ymarfer yn barhaus yn ein plith; am fwy nag un math o'r cyfryw y bydd genyf achos i siarad.

Cefais allan y gallwn yn y fan yma, gyda mwy o rwyddineb nag o un lle arall, ymweled â *Cheryg y Druidion;*† plwyf ag sydd yn sefyll ychydig filldiroedd i'r gogledd, yn sir Ddinbych; yr hwn le sydd yn hynod am rai gweddillion Derwyddol, y rhai ydynt yn rhoddi enw ar y lle. Ar ol marchogaeth am yspaid ar hyd ffordd druenus, cefais fy siomi yn fawr; yr oedd y gweddillion cysegredig wedi cael eu cludo ymaith gan ddwylaw halog, a'u gwneyd yn fur! Gan hyny, rhaid i gasglu fy holl ddysgrifiad o'r rhai hyn o waith y nodiadur ar Camden,‡ a'r darluniau a ddyogelwyd ganddo yn y Sebright MSS.

*Ceryg y Druidion.*

Yr oedd y fwyaf yn engraifft hardd o *Gistfaen* Brydeinig. Cynwysai un gareg ar y pen uchaf, wedi ei gosod ar ogwydd tua'r gogledd, ac yr oedd, pan fesurwyd hi gan Llwyd, yn ddeg troedfedd o hyd, yn cael ei chynal gan gareg ar bob ochr, oddeutu saith droedfedd o hyd, ac yn agos i ddwy droedfedd a haner o drwch. O dan un pen yr oedd careg, dair troedfedd o hyd; o dan y pen arall, un ddwy droedfedd. Nid oedd y ceuedd oddi tanodd ond saith troedfedd o hyd, tair o haner o led, a dwy a haner o uchder; yr hyn a brofa yn ddigon cadarn nad celloedd y Derwyddon oedd y cofadeiliau hyn; rhaid felly mai claddleoedd oeddynt, fel y tybia Dr. Borlase. Nid oedd preswylwyr brodorol ein hynys bob amser yn llosgi cyrph eu meirw. Y mae esgyrn dynol wedi cael eu darganfod mewn cistfeini tebyg, yn ysgerbydau llawn hyd; mewn manau o'r fath yma, gallasent orwedd yn gyfleus, gyda'u holl arfogaeth i'w canlyn. O gwmpas hwn yr oedd cylch o geryg, yn amgau llecyn yn mesur deugain o gamrau ar draws, a gallasai fod wedi ei fwriadu er cadw pobl o fewn pellder hybarch oddiwrth weddillion rhyw benaeth galluog. Adnabyddid y gofadail hon wrth yr enw *Carchar Cynrig Rwth;*§ nid am ei fod yn wreiddiol wedi cael ei ddefnyddio fel carchar; ond y mae traddodiad fod, mewn amseroedd diweddarach, orthrymydd bychan o'r enw hwnw yn byw yn y gymydogaeth, yr hwn a arferai ddirwasgu y rhai a droseddasent yn ei erbyn i'r ceuedd rhwng y ceryg hyn; yr hwn le a allesid ei ddefnyddio fel poenydfa, yn debyg i'r *celloedd* bychain yn nhŵr Llundain, neu y gwieilgut haiarn yn y Bastille.

Yr oedd y Gistfaen arall yn lled debyg i'r gyntaf; ond nid oes un crybwylliad am y cylch o feini: dichon eu bod wedi eu cludo ymaith cyn i Mr. Llwyd ymweled â'r lle.

*Y Barwn Price.*

Yn Giler, yn y plwyf hwn, y ganwyd yr ynad cywir a galluog hwnw, *Robert Price*, ysw., barwn y canghelldy; ac wedi hyny ynad y dadleuon cyffredin. Y mae ei araith alluog yn nhŷ y cyffredin,

* Edgar a Chanute.

† Yr enw ydyw *Ceryg y Drudion;* nid yw yn golygu na mwy na llai na Cheryg y Gwroniaid. Y mae lle hefyd yn Môn a elwir Ceryg y Drudion; ond nid ydyw mor adnabyddus, ac nid yw y Monwysiaid wedi dwyn y Derwyddon i mewn iddo, hyd y gwn i. J. R.

‡ II. 813.

§ *Cynrig Rwth* ydoedd fath o Polyphemus (cnawd-fwytäwr) o'r rhyw fenywaidd, yr hon a ymhyfrydai mewn ymborthi ar gnawd babanod: gelwir hi *Cynrig Bwt* yn Llanberis, a phreswyliai o dan gareg fawr a elwid *Y Gromlech*, yn agos i'r ffordd i Fwlch Llanberis. Yr oedd un yn nghymydogaeth Llangollen hefyd: gwel y *Cymmrodor*, cyf. ii. tudal. 33--39. J. R.

Digitized by Google

yn erbyn trosglwyddiad yr arglwyddiaethau mawrion yn Nghymru i iarll Portland, yn brawf hyd heddyw o'i gariad at ei wlad. Ei ddyrchafiad cyflym gan y brenin Gwilym, a ddyry gymaint o urddas ar ei fawrhydi ag ar Mr. Price; oblegyd ni allai unrhyw ystyriaeth beri i'r blaenaf, pa mor boenus bynag iddo a fuasai ei wrthsafiad yn erbyn ei ewyllys, adael i'w ddeiliaid golli gwasanaeth ynad mor alluog a gonest ag y gwyddai ydoedd ein cydwladwr.

Dychwelyd i'r Bala, a chanlyn fy nhaith yn mlaen ar hyd ochr ddeheuol y llyn, lle o'r fath hyfrytaf i farchogaeth. *Llanycil.* Myned heibio i eglwys *Llanycil*, cyflwynedig i St. Beuno; a chanfod, ar yr ochr gyferbyniol, Llangower, cyflwynedig i Gwawr, mam y bardd Cymroaidd Llywarch Hen. Islaw y llifa yr afon Gwawr, yr hon yn unig a gyfleinw y llyn ar yr ochr hono.

*Glan y Llyn.* Myned heibio i *Glan y Llyn*,* hen balasdy ar fin y dwfr; yr hwn, yn gystal a'r nesaf, a fu unwaith yn eiddo y *Vaughans.*

*Caer Gai.* Gadael ar y llaw ddehau, hen balasdy hynafol arall, *Caer Gai*, yn sefyll ar godiad tir. Dywed Camden mai castell ydoedd, yr hwn a adeiladwyd gan un o'r enw Caius, Rhufeinwr; ond priodolir ef gan y Brythoniaid i Gai, brawdmaeth i'r brenin Arthur. Dichon mai adail Rufeinig oedd, oblegyd cafwyd llaweroedd o fathynau mewn gwahanol fanau yn y gymydogaeth; ac y mae'n sicr iddi fod unwaith yn gaerfa i amddiffyn y bwlch hwn, at yr hyn yr ydoedd wedi ei chyfaddasu yn dda, o ran ei sefyllfa, yn gystal ag ar gyfrif ffurf y bryn.

*Castell Corndochon.* Aethum yn mlaen oddeutu dwy filldir ymhellach, i ymweled â chaer arall, oddeutu milldir oddiwrth y ffordd i Ddolgellau, ar gopa craig uchel, ac yn dwyn yr enw *Castell Corndochon*, am ystyr yr hwn yr ydym mewn cwbl anwybodaeth. Y mae dwy ochr i'r graig yn serth. O flaen y castell y mae ffos ddofn wedi ei thori. Cynwysai y castell dŵr hirgul, ar ffurf grynaidd yn y pen pellaf; a'i fesuriad oddi fewn ydoedd tair troedfedd a deugain wrth ddwy ar hugain. O'r tu ol i hyny, ac yn cael ei gysylltu âg ef gan fur, y mae adfeilion tŵr ysgwâr; gorwedda hwn yn mhrif gorph yr amddiffynfa, ffurf yr hon, fel y sylwa Camden, a dueddai at fod yn hirgrwn. Buasai y gaerfa hon yn un eang iawn; adeiladwyd hi â morter, wedi ei wneyd o raian a môr-gregyn, a'i gwynebu â thywodfeini, wedi eu hysgwario, a'u tori yn dda.

*Llanuwchllyn.* Dychwelais yn nghyfeiriad Caer Gai; ac, heb fod nepell oddiyno, i bentref ac eglwys Llanuwchllyn. Yn yr olaf y mae delw o ddyn arfog, gyda helm bigyrnaidd, a choler arfog o gwmpas ei ên a'i wddf; ar ei ddwyfron y mae pen blaidd, ac ar ei fol un arall; ac yn y lle cydrhyngddynt, dri rhosyn. Y cyntaf yw pais-arfau Ririd Flaidd; a'r lleill yn eiddo Cynedda Wledig,† neu y Gwladgarol, tywysog o Cumberland, meibion yr hwn (ar ol i'w tad gael ei orchfygu gan y Sacsoniaid, yn y chweched ganrif) a

* Y mae yr hen balasdy wedi ei droi yn ffermdy; a thŷ newydd wedi cael ei adeiladu gerllaw iddo gan Syr W. W. Wynn, o'r tu ol i'r hwn y mae planigfeydd tyfiannol. Gol.

† Nid yw *Cynedda Wledig* yn golygu dim ond y tywysog *Cynedda*, neu *Cunedda*, fel yr ysgrifenir yr enw yn fwy cywir: hen ystyr y gair *gwlad* ydoedd llywodraeth, rheolaeth, a *gwledig* ydoedd llywodraethwr. Ond yn awr y mae *gwledig* yn arwyddo peth perthynol i wlad: ni fu *gwledig* erioed yn golygu gwladgarol, mor belled ag y g' laf fi gael allan. J. R.

Digitized by Google

ennillasant, ac a gymerasant feddiant o'r parthau hyn o Gymru: ac oddiwrth Meirion, ŵyr iddo, y dywedir gael o'r sîr yr enw sîr Feirionydd. Yr oedd Ririd yn arglwydd Penllyn, ac y mae y lle hwnw yn ffurfio cantref yn sîr Feirionydd. Yr oedd castell gynt yn perthyn i'r lle, a dichon mai castell Corndochon ydoedd. O gylch ymyl y beddrod y mae cerfiad ambaredig, yr hwn, mor belled ag y gallaf fi ei wneyd allan, a ddarllena yn debyg i hyn: *Hic jacet Johannes ap *** ap Madoc ap J——eth, cujus animæ pr——etur Deus. Amen. anno Dni.* MCCC. V̄. 88.

Gerllaw y pentref yma y llifa Afon y Llan, Afon Lliw, neu Amliw. Y mae yr olaf yn codi o ddwy ffynhon, ac yn ymarllwys i'r flaenaf. Gall y neb a ddewiso olrhain tarddiad y Ddyfrdwy o'i dwy ffynhonell ddechreuol, ddewis y rhai hyn: ond myfi a gyfarfyddais â thrydedd, yn nghongl bellaf y llyn, yn tarddu yn nghymydogaeth mynydd uchelgrib yr *Aran*, i ba un y dyry Spenser yr anrhydedd o ffurfio yr afon nodedig hono, wedi rhedeg, mae'n debyg, drwy y llyn heb ymgymysgu â'i ddyfroedd. Y mae y bardd yn gwneyd troed y mynydd uchelgrib yma yn fagwrfa ein brenin clodfawr Arthur; dywed iddo, ar ol ei eni, gael ei draddodi i farchog perthynol i'r tylwyth teg, yr hwn yn ddiatreg a'i cludodd at ryw arwr hynafol, i gael ei ddwyn i fyny mewn ymarferiadau corphorol a milwrol.

*Mynydd Aran.*

Y mae yn amlwg fod Spenser yn gydnabyddus â'r holl nofelau oedd yn ei ddyddiau rhamantus ef, a diau iddo glywed am Gaer Gai, ac am ei hen breswylydd, Gai, i'r hwn y mae yn dewis rhoddi yr enw mwy clasurol *Timon;* canys felly y gwna i'r brenin Arthur alw ei dadmaeth.

Fe'm dygwyd i fyny gan *Timon* hynafgwr,
Yr hwn yn ei ie'ngctyd a fu yn rhyfelwr;
Mewn rhyfel yr ydoedd dan gamp yn gelfyddgar,
Ac ef ydyw'r callaf sy'n awr ar y ddaear;
Ei dŷ sy'n y dyffryn, fan werddlas a hafaidd,
Wrth droed mynydd *Aran* fwsoglog a henaidd,
Lle cyfyd y *Ddyfrdwy* yn ddysglaer fel arian,
A threigla'n arafaidd ar hyd y mân raian;
Yno fe'm dysgodd, tra parodd ei ddyddiau,
I ddylyn glân fywyd—un llawn o rinweddau.*

Y ffrwd barchedig hon, a adnabyddir yn bresenol wrth yr enw *Afon Twrch*, sydd gornant mynyddig ffyrnigwyllt, yn ymdywallt o fynydd yr Aran; a chroesa y ffordd mewn man o ba un y dechreuaf fy nhaith yn mhlith Alpau fy ngwlad, gan esgyn oddiyno, yna disgyn i lawr i nant ddofn, a elwir Cwm Cynllwyd, yn cael ei amgylchu gan faesydd mor sythion fel mai gydag anhawsdra mawr y mae y trigolion yn gallu eu diwyllio.† Amrywir yr olygfa

* Fairy Queen, book I. canto ix.

† Mehefin 20fed, 1781, cafodd y lle yma ei gwbl ddinystrio trwy ymrwygiad cwmwl. Dyoddefodd manau ereill yn Ngogledd Cymru, ar yr un amser, oddiwrth ddamweiniau cyffelyb. A ganlyn sydd hanes y trychineb alaethus yma, wedi ei gymeryd o un o newyddiaduron y cyfnod hwnw:

"Dydd Mercher diweddaf, disgynodd swm aruthrol o wlaw yn mhlwyf Llanuwchllyn, yn agos i'r Bala, yn cael ei ddylyn gan fellt, yr hyn a barodd i'r afon Twrch (tarddiad yr hon sydd yn y mynydd hynod a elwir Bwlchygroes, a disgyna i Lyn Tegid) orlifo ei glanau yn y fath genllif aruthrol, nes ysgubo ymaith bobpeth o'i flaen: gellir olrhain olion y dinystr o Fwlchygroes hyd

Digitized by Google

gan goed, yn neillduol coed bedw. Ar y llaw ddehau y mae mynyddoedd eangfawr yr Aran yn ymddyrchafu; neu yn hytrach ddau gopa yn cyfodi oddiar un sylfaen.

*Bwlch y Groes.* Cyrhaedd troed *Bwlch y Groes*, un o'r rhai mwyaf erchyll yn Ngogledd Cymru. Elir i'w ben uchaf trwy ddringo llwybr igamogam, anarferol o gul a syth; y bwlch ei hun sydd wastadedd grugog a noethlwm, ar ba un y tybiaf fod y groes yn sefyll, i'r dyben o anog diolchgarwch yr ymdeithwyr, oherwydd cyflawni eu hymdaith beryglus mor ddyogel. Y disgyniad, ar yr ochr arall, sydd yn llawer mwy syth a blinderus, i ddyffryn

*Dyffryn Mowddwy.* cul a hirfaith *Mowddwy*. Y mae yn saith neu wyth milldir o hyd, ac mor gyfyng fel y mae prin gae i'w gael yn ei waelod. Ei derfynau ydynt fryniau mawrion, yn gyffredin yn anarferol o wyrddlas, ac arnynt borfeydd rhagorol i ddefaid; ond y mae un, ar y llaw aswy, yn arddangos y fath wyneb arswydus, gan ei fod mor syth, megys yn y canol rhwng clogwyn a llechwedd; y mae yn goch a noethlwm, ac yn rhy syth i laswellt dyfu arno; a byddai llithriad i lawr o'i gopa yn llawn mor sicr o fod yn angeuol a phe disgynid o ben clogwyn unionsyth. Mewn un man, ar y llaw ddehau, y mae y mynyddoedd yn ymagor, ac yn gwneyd bwlch i roddi golygfa arall, aruthr ac ardebol, sef copa gwyllt ac ysgythrog Aran Fowddwy, yr hon a ymddyrchafa uwch ben mewn mawrhydri aruthrol.

Y mae prydferthwch yn y dyffryn hwn nad ydyw i'w gael yn fynych mewn rhai ereill yn y gwledydd mynyddig hyn. Rhenir yr holl fanau amgauedig gan wrych byw rhagorol, a rhedant i fyny ochrau y bryniau, mewn manau mor sythion, fel mai prin y gallasai teithiwr cyffredin gael lle i osod ei droed i lawr. Y mae niferi o goedwigoedd bychain yn gymysg â hwy; a'r bryniau

y llyn. Cafodd dau ar bymtheg o dai, gyda'u holl ddodrefn, deg o wartheg, a nifer mawr o ddefaid, eu hysgubo ymaith; gorchuddiwyd llaweroedd o ddolydd a maesydd ŷd gyda graian a llaid, fel ag i wneyd y cnwd am y tymhor yma yn gwbl ddiwerth; un ddôl, yn neillduol, a orchuddiwyd â cheryg mawrion, fel nad oedd yn werth amser eu clirio ymaith er mwyn diwyllio y tir; cafodd y ceryg hyn eu hyrddio, gan gyflymdra y llifeiriant, amryw gannoedd o latheni, ac y maent o'r maintioli anferthol a ganlyn; sef, y mae un yn 19 troedfedd o hyd, 9 o led, a 6 o ddyfn; un arall yn 19½ troedfedd wrth 7½, ac yn 6 o ddyfn; cafodd yr olaf ei hollti o herwydd cyflymdra ei hysgogiad, trwy iddi daro yn erbyn un arall; cafodd wyth o geryg, oddeutu haner maintioli y rhai uchod, eu cario haner milldir, a chafodd pump o bontydd eu hysgubo ymaith yn y plwyf. Yn un o'r tai, darfu i un hen wraig orweiddiog foddi yn ei gwely, yr unig un sydd ar goll yma; yn rhagluniaethol, cafodd preswylwyr y Pandy eu rhybuddio mewn pryd, buasai ychydig funudau o oediad yn angeuol i'r holl bentref; cafodd y tai a'r bont brydferth yn y lle hwnw eu llwyr ddifodi, ac nid oes dim olion o honynt wedi eu gadael. Dwy o ferched ieuaingc oeddynt yn yr un gwely; cafodd un o honynt ei lladd gan fellten, ond diangodd y llall heb ond i'w chap gael ei ddeifio ychydig.

"Yr un diwrnod yn Rhuthyn, cododd yr afon i uchder arswydol, yr hyn a gynhyrfodd luaws o bobl i fyned ar y bont i weled y llif; mewn ychydig funudau cawsant oll eu hamgylchu gan y dyfroedd, a gorfu arnynt aros yn y sefyllfa anghysurus hono drwy y nos; John Bills, gwydrwr, un o'u nifer, a bwysai ar ganllaw y bont, yr hwn a roddodd i ffordd yn anffodus, trwy yr hyn y bu foddi. Haws dychymygu nag adrodd teimladau ei gymdeithion yn y fath sefyllfa ofnadwy, mewn llawn ddysgwyliad gweled y bont yn cael ei chario ymaith bob munud, a hwythau yn cyfranogi o'i dynged anamserol; bore dranoeth yr oedd y llif wedi gostwng i raddau, a chafodd y bobl yn rhagluniaethol eu hachub. Yn Mhenmachno, yr oedd tri ar ddeg o geffylau yn sefyll mewn ystabl, yn perthyn i ddau borthmon, saith o ba rai a laddwyd gan y mellt; ac y mae yn dra hynod fod y saith a laddwyd yn eiddo yr un porthmon; y chwech ereill, eiddo y porthmon arall, ni dderbyniasant un niwaid. Ar y cyfan, nid yw dylif mor gyffredinol yn y parthau hyn yn cael ei gofio gan y trigolion hynaf."

Digitized by Google

*Mawn.*] uwch ben a arddangosant fawn rhagorol hyd y copa uchaf, lle y mae y gors a'r grug yn cydgyfarfod, y rhai a roddant nawdd i luoedd o ieir cochion y mynydd, ac ychydig* o rai duon. Ond y mae eu pwysigrwydd i'r parthau hyn yn anfesurol fwy, yn gymaint ag mai dyma welyau tanwydd yr holl drigolion. Y mawnogydd ydynt dra phell oddiwrth eu preswylfeydd; a chydag anhawsder mawr y maent yn cael eu mawn. Y mae y ffyrdd ar lethrau y mynyddoedd, yn gyffredin, yn rhy sythion hyd yn nod i geffyl; gan *Ceir Llusg.*] hyny, y mae y dynion yn cario i fyny gyda hwy, ar eu cefnau, fath o gàr llusg ysgafn, yr hwn a lanwant â mawn, ac a lusgant, gyda rhaff wedi ei rhoddi ar draws eu dwyfronau, at ymyl y llethr: † yna ânt o'i flaen, a thynant y càr i lawr, o hyd ar y blaen, gan arwain ei symudiadau, y rhai, mewn llawer engraifft, a fuont mor chwyrn ag i ddymchwelyd a thynu y meistr gydag ef, er perygl i'w fywyd, ac nid heb gryn lawer o niwaid corphorol.

Wedi marchogaeth am beth amser ar hyd gwaelod y dyffryn, myned heibio *St. Tydecho.*] i bentref ac eglwys *Llan y Mowddwy:* y mae yr olaf yn gyflwynedig i *St. Tydecho,* un o'n seintiau mwyaf hynod. Y mae ei chwedl wedi ei hysgrifenu mewn cywydd,‡ gan Dafydd Llwyd ap Llewelyn ap Gruffydd, arglwydd Bathafarn; yr hwn a fu o gynorthwy mawr i ddwyn Harri VII. i mewn, trwy borthi ei gydwladwyr â phrophwydoliaethau fod un o honynt hwy i waredu Cymru oddi tan iau y Saeson, trwy yr hyn y cyfodwyd miloedd o ddynion, o dan Syr Rhys ap Thomas, ac amryw ereill, i ymuno â Harri, y pryd hyny iarll Richmond, yn Aberdaugleddyf.

Hysbysir gan y bardd enwog yma, i Tydecho fod yn abad yn Mhrydain Fechan (*Armorica,* yn Ffraingc,) ac iddo ddyfod trosodd yn amser y brenin Arthur; ond ar ol marwolaeth y gwron hwnw, pan y darfu i'r Sacsoniaid oresgyn y rhan fwyaf o'r wlad, enciliodd y sant, ac arweiniai yma fywyd caled, gan orwedd ar y ceryg noeth, a gwisgo crys o rawn; er hyny, defnyddiai ei amser yn wasanaethgar, gan drin y tir, a chynal lletygarwch. Maelgwyn Gwynedd, y pryd hyny yn ŵr ieuangc, a dramgwyddodd wrth y sant, a chymerodd feddiant o'i ychain; ond gwelid ceirw gwylltion yn cyflawni eu gwaith dranoeth, a blaidd llwyd yn llyfnu ar eu holau. Maelgwyn, wedi ei gythruddo oblegyd hyn, a ddygodd ei gŵn gwynion i hela y ceirw, tra yr eisteddai efe ei hunan ar gareg lâs, i fwynhau y difyrwch; ond pan y ceisiodd godi ar ei draed, cafodd allan fod ei ben ol wedi glynu yn sefydlog wrth y graig, fel y bu gorfod iddo ofyn maddeuant y sant, yr hwn, ar ol derbyn cyflawn ad-daliad, a fu mor garedig a'i ryddhau o'i sefyllfa annymunol.

Cymaint a hynyna am y chwedl. Fod St. Tydecho wedi byw, a bod Maelgwyn Gwynedd wedi bod yn dywysog yn ein gwlad, nid oes genyf unrhyw amheuaeth; ac fod y blaenaf wedi derbyn gan yr olaf y rhagorfreintiau a fwynhai ar un adeg, sef nawddogaeth i ddyn ac anifail, sydd hefyd yn llawn mor debyg: yr oedd pob troseddwr, pa mor euog bynag a fyddai, yn cael noddfa yma.

* Erbyn hyn wedi diflanu. GOL.

† Yn bresenol y mae y mawnogydd yn gorwedd yn dra phell oddiwrth ymyl llethr y bryn: gan hyny, y mae y brodorion yn gorfod dwyn ceffyl yno, trwy ryw lwybr amgylch-ogylch, i gynorthwyo i lusgo y mawn hyd ymyl y llethr, yna cymerir ei le gan y dynion.

‡ Cywydd TYDECHO SANT, yn amser Maelgwyn Gwynedd.

Digitized by Google

Dywed y chwedl ei bod i barhau am gant o oesau; ond och! yr oedd y dyfodol yn dywyll iddynt! ni ragwelasid y Diwygiad. Yr oedd y lle i fod yn rhydd hefyd oddiwrth bob ymladd, llosgi, a lladd: ac nid oedd caniatâd i aflonyddu ar neb o'r preswylwyr, heb wneuthur yr ad-daliad mwyaf cyflawn.

Yr oedd tiroedd Tydecho hefyd wedi eu rhyddhau oddiwrth bob rhoddion eglwysig, hawlion, a gormesiadau, ac oddiwrth y dreth fawr hono, ag y byddai braidd bobman yn ddarostyngedig iddi, sef *Gobr Merched*, y gospedigaeth am anniweirdeb; yr hon y darfu i'r sant, o dosturi at wendid ei braidd, yn dra doeth gymeryd gofal am gael rhyddhad iddynt oddiwrthi.

*Dinas Mowddwy.*] Oddeutu pedair neu bum' milldir ymhellach ymlaen, cyrhaeddais *Ddinas Mowddwy*, yr hon a saif ar wastadedd uchel, yn nghyfuniad tri o ddyffrynoedd, o dan y bryn a elwir *Craig y Ddinas;* ar lwybrau mawnoglyd pa un y byddaf yn awr yn edrych gydag arswyd, wrth adgofio fel yr arferwn, pan yn ieuangc, ddringo i'w chopa, er mwynhau y pleser o ymlithro i lawr yn ngheir llusg y mawn. Y mae troed y graig hon yn cael ei ddyfrhau gan y Cerris a'r Dyfi. Yr olaf, yr hon a geidw ei henw hyd nes yr ymgolla yn y môr yn Aberdyfi, a gyfyd yn ngwaelod craig anferth a elwir Craig Llyn Dyfi, o dan Aran Fowddwy. Y mae ynddi ddigonedd o leisiaid, y rhai a ddelir yn y nos, mewn helfa fywiog, ond anghyfreithlon, gan bicellwyr, y rhai a gyfarwyddir at y pysgod gan ffaglau fflamllyd o wellt.

Nid yw Dinas Mowddwy, er yn cael ei anrhydeddu â'r enw *Dinas*, yn cynwys ond un heol, yr hon sydd yn uniawn a llydan, gyda thai cwbl anghydweddol â'r teitl; ond er hyny y mae yn meddu ar holl arwyddion awdurdod, megys y cyffion, y post ffrewyllu, y feg-fawr, neu y llyffethair fawr, y brysgyr, a'r mesuronydd ymerodrol. Y mae hefyd yn brif ddinas arglwyddiaeth eang,

*Perchenogion.*] o dan awdurdod fy nheilwng gefnder, John Mytton,* ysw. Y mae yn ei dal oddiwrth Gwilym, neu *Wilcocke*, fel y gelwir ef yn gyffredin, pedwerydd mab Gruffydd ap Gwenwynwyn, arglwydd Powys. Ei wyres, ac unig etifeddes y lle, a briododd Syr Hugh de Burgh, mab y clodfawr Hugh, prif ynad Lloegr. Ei fab ef, Syr John, a adawodd ar ei ol bedair o ferched, y rhai a briodasant i deuluoedd Newport, Leighton, Lingen, a Mytton; Aliauor, y bedwaredd ferch, a roddodd ei llaw, a'r rhandir hon, i Thomas Mytton, hynafiad yr arglwydd presenol.

*Rhagorfreintiau.*] Y mae awdurdod y ddinas hon, dros randir a gymer i mewn y plwyf eang yma, ac hefyd saith allan o'r wyth trefydd-degwm a berthynant i blwyf Mallwyd, yn dra helaeth. Cynwysa y gorphoraeth faer, henaduriaid, cofiadur, ac amryw fwrdeisiaid. Bydd y maer yn profi troseddwyr; ond, fel yr hysbyswyd fi gan y diweddar brif swyddog teilwng, gôf gonest o ran ei alwedigaeth, nid ydynt er's rhai blynyddau wedi gwneyd ymgais at ffrewyllu; ac mai y cyffion, neu garchariad yn y feg-fawr, oedd y gospedigaeth lymaf a ymarferent: ond y maent yn meddu yr awdurdod i drwyddedu y tafarndai yn eu hardal, ac hefyd yn ustusiaid heddwch mor belled ag y cyrhaedda terfynau eu teyrnas fechan.

Bydd y cofiadur (yn absenoldeb yr arglwydd) yn profi pob achos yn mherthynas i eiddo, heb fod dros ddeugain swllt o ran gwerth; ac y mae y cyfreith-

* Taid y perchenog presenol. GOL.

Digitized by Google

wyr, talion y rhai nid ydynt uwchlaw haner coron, yn cael eu dewis allan o'r rhai mwyaf gwybodus yn y cyfundeb, neu y rhai a fedrant ddarllen.

Cefais ymborth yn y maenordy, o ba le y cymerais rodfa hyfryd am oddeutu dwy filldir, ar hyd y dyffryn, gyda glanau yr afon Dyfi. Y mae y dyffryn yn ymagor, a'r bryniau yn myned yn llai o ran eu huchder, tua'r gorllewin. Wedi myned dros y Dyfi, croesais bont uwchlaw dyfroedd dyfnion a llonydd y Clywedog, mor ddued ag ingc, ac yn ymsymud yn ddioglyd trwy agendor, i oleu dydd.

*Mallwyd.* ] Cyrhaedd ***Mallwyd,*** lle hynod am sefyllfa ei hallor, yn nghanol yr eglwys; yr hon y darfu i'r Doctor Davies, awdwr y Geiriadur Cymraeg, y pryd hyny yn beriglor y lle, er gwaethaf archiadau yr archesgob Laud, ei symud o'i hen safle ofergoelus yn y pen dwyreiniol.

Y mae un o'r coed yw yn y fynwent yn dra theilwng o sylw. Math o fforest o goed ydyw, yn tarddu o un boncyff, yn ffurfio cysgodfa eang, ac yn ardderchog o ran ymddangosiad. Rheswm arall dros blanu y prenau hyny mewn mynwentydd, heblaw y rhai a roddir yn gyffredin, ydoedd hen arferiad mewn amseroedd hynafol, ar Sul y Blodau, i wneyd i hwn gadw lle y palmwydd, oddiwrth ba un y mae y Saeson yn galw y dydd yn *Palm Sunday;* bendithid y cangau ar y dydd hwnw; llosgid rhai o honynt yn llwch; ac â'r rhai hyn byddai yr offeiriad, ar y Dydd Mercher y Lludw dylynol, yn nodi y bobl ar eu talcenau, gan ddywedyd,

Memento, homo! quod pulvis es, et in pulverem reverteris.*

Ac arferid gosod i fyny rai o'r cangau a fendithid felly, yn y caeau, yn wythnos y gweddïau, neu ar adegau gorymdeithiau.

*Llofruddiaeth Greulawn.* ] Dychwelyd i Ddinas Mowddwy. Ar y ffordd, hysbyswyd fi am y fan, heb fod nepell oddiyma, lle y cafodd Lewis Owain, is-ystafellydd Gogledd Cymru, a barwn canghelldy Gogledd Cymru, ei lofruddio yn greulawn yn y flwyddyn 1555, gan fintai o garnladron ag oeddynt yn blino y sir yma y pryd hyny. Ar ol y rhyfeloedd rhwng tylwythau Caerefrog a Lancaster, yr oedd lluoedd o droseddwyr a gwrthryfelwyr yn preswylio yn y wlad hon; ac yr oedd wedi ymsefydlu yn y parthau hyn, am yspaid hir ar ol yr amseroedd annedwydd hyny, fintai o garnladron, y rhai a barhaent i yspeilio, llosgi, a llofruddio, yn heidiau lluosog, er gwaethaf y gallu gwladol; a byddent mor ddigywilydd a lladrata a gyru minteioedd o wartheg, ganol dydd goleu, o'r naill sir i'r llall, yn eithaf ddidaro. I roddi terfyn ar eu hanrheithiau, rhoddwyd allan gomissiwn i John Wynn ap Meredydd o Wydir, a Lewis Owain, i'r dyben o sefydlu heddwch y wlad, a dwyn pob troseddwyr yn erbyn ei llywodraeth i farn a chospedigaeth. Mewn canlyniad i'r eirchion hyn hwy a gyfodasant gorph† o wŷr nerthol, ac ar nos Nadolig daliasant uwchlaw pedwar ugain o wrthryfelwyr a throseddwyr, ar ba rai y cynaliasant brawf, gan eu cospi yn ol eu haeddiant. Yn eu plith yr oedd dau o feibion rhyw wraig, yr hon a erfyniai yn daer ar Lewis Owain am bardwn i un o'r ddau; gwrthododd yntau gydsynio; pan y darfu i'r fam, mewn cynddaredd, ei hysbysu (gan ddy-

* "Cofia, ddyn! mai llwch ydwyt, ac mai i'r llwch y dychweli."

† Y mae dechreuad gwisiwn y sirydd yn Ngogledd Cymru o amseriad llawer boreuach. Gwel Attodiad, Rhif ix.

Digitized by Google

noethi ei dwyfron,) *Y mae y bronau melynion hyn wedi rhoddi sugn i rai a olchant eu dwylaw yn dy waed di.* Penderfynwyd ymddial gan y fileiniaid a ddiangasent. Gwyliasant am eu cyfleustra; ac fel yr oedd yn myned trwy y parthau hyn i frawdlys sir Drefaldwyn, ffurfiasant gynllwyn iddo yn nghoedwigoedd mawrion Mowddwy, mewn man a elwir yn awr, oblegyd y weithred, Llidiart y Barwn; lle yr oeddynt wedi tori i lawr amryw o goed hirion, i groesi y ffordd, ac atal y fynedfa. Yna arllwysasant arno gawod o saethau, un o ba rai, yr hwn a lynasai yn ei wyneb, a dynodd efe allan, ac a dorodd. Wedi hyny ymosodasant arno gyda chyllill a gwaywffyn, a gadawsant ef yn farw, ac arno uwchlaw deg ar hugain o archollion. Ei fab-yn-nghyfraith, John Llwyd, o'r Ceiswyn, a'i hamddiffynodd hyd y diwedd; ond diangodd ei weision llwfrgalon ar yr ymosodiad cyntaf. Rhoddodd ei farwolaeth heddwch i'r wlad; oblegyd gweinyddwyd cyfiawnder yn y modd llymaf ar ol hyn; cafodd yr holl nythiaid o garnladron ei chwalu, a dyoddefodd lawer o honynt gan ddwylaw cyfiawnder; diangodd y gweddill o'r wlad, byth i ddychwelyd yn ol.

Y mae traddodiadau y wlad o barthed y carnladron o hyd yn parhau yn dra chryf. Clywais y byddai cymaint o'u hofn ar deithwyr fel nad elent ar hyd y ffordd gyhoedd i'r Amwythig, ond croesent gribau y mynyddoedd rhag syrthio i'w dwylaw. Byddai y trigolion yn gosod pladuriau yn simneiau eu tai, rhag i'r chwiwladron ddyfod i lawr yn y nos, a'u haflonyddu: y mae rhai o'r cyfryw i'w gweled hyd heddyw. Adwaenid yr epil yma wrth yr enwau *Gwylliaid Cochion Mowddwy*, a *Gwylliaid y Dugoed.*

Gadael y Ddinas, a chymeryd y ffordd tua *Dolgellau.* Myned heibio i hen weithydd plwm, y rhai na weithiwyd erioed hyd yma gyda dim llwyddiant. Gallaf grybwyll yma am rywogaeth neillduol o bridd, am yr hwn y mae y lle yma yn hynod, math o *ochre* glâs, yr hwn a wlycha y bugeiliaid, ac a bwyant mewn pestl; yna ffurfiant ef yn beleni, er nodi eu defaid. Y mae hen ddiareb am y tri pheth y dymunai pobl Mowddwy weled eu halltudio o'r wlad, yn profi eu bod yn gydnabyddus âg ef er's hir amser:

O Fowddu ddu ni ddaw—dim allan
A ellir ei rwystraw,
Ond tri pheth hel'eth, hylaw,
*Dyn atgas*, NOD GLAS, a gwlaw.

Oddeutu tair milldir o'r Ddinas, yr wyf yn myned heibio, ar y llaw chwith, i fferm eang *Pennant-higi*, ar hon y megir niferi lluosog o ddefaid: saif mewn iseldir dwfn, yn amgylchedig ar dair ochr gan fynyddoedd mawrion, ac yn ffurfio amchwareufa ardderchog. Y mae yr oll o'r wlad yn orlawn o ddefaid a gwartheg; ac y mae y gwlan yn mhobman yn cael ei weithio yn wlaneni ac yn hosanau.*

*Bwlch Oerddrws.* ] Esgyn ar hyd gallt serth, i fynedfa *Bwlch Oerddrws;* ac y mae y wlad yn sydyn yn arddangos wyneb newydd. O'n blaen y mae llethr eang o dir truenus, yn cael ei derfynu gan fynyddoedd mawrion a chreigiog; yn mysg pa rai y mae Cader Idris yn ymddyrchafu goruwch yr oll.

* Yn bresenol, brethyn brâs sydd yn gwneyd i fyny y rhan fwyaf o drafnidiaeth sir Feirionydd, yr hon sydd mewn cyfiwr tra blodeuog. GOL.

Digitized by Google

*Y Gynadledd yno.*] Y mae y bwlch hwn yn hynod am ei fod yn un o'r tri lle, yn mha rai yr ymgynullodd, yn mhen chwe' blynedd ar ol rhyfeloedd Glyndwr, holl wŷr mawrion rhai ardaloedd, i'r dyben o ddirgymhell gweinyddiad cyfiawnder yn eu hawl eu hunain, heb unrhyw awdurdod cyfreithiol.

Achoswyd hyn, fe ddichon, gan y cyfreithiau annhrugarog a wnaed gan Harri IV. yn erbyn y Cymry. Yn mhob un o'r lleoedd hyn, gwnaethant ymrwymiad y naill gyda'r llall, i beri fod cyfiawnder yn cael ei wneyd am bob camwri a wnaed o flaen ac ar ol y rhyfeloedd, ond nid yn ystod y cyfnod terfysglyd hwnw. Yr oedd pob un i gael ei nwyddau, neu ei dir, a gymerasid oddiarno trwy drais, yn ol heb gŵyn cyfraith; ac unrhyw nwyddau a atelid ar ol hyny a ystyrid fel wedi eu lladrata; neu os byddai ei arglwydd wedi eu gwerthu, yr oedd i gael ei ddirwyo i ddeg punt, a'r nwyddau, neu eu gwerth, i gael eu hadferu i'r perchenog. Os byddai y troseddwr wedi ei grogi, neu wedi marw o farwolaeth naturiol, yr oedd yr ymhawliad i gael ei wneyd yn erbyn ei wraig, neu ei ysgutorion; ond os byddai iddynt hwy neu hi wadu yr ymhawliad, yr oedd yn rhaid i'r achwynydd gael ei gydfeirniaid; hyny ydoedd, chwech o bersonau gydag ef, i dyngu i gyfiawnder yr ymhawliad; ond (yr un modd a'r Saeson pan y profid trwy reithwyr) yr oedd gan yr amddiffynydd hawl i wrthwynebu un o'r chwech, ac yr oedd un arall i gael ei ddarparu yn ei le.

Ar ol hyn dylyna amryw reolau tuag at adferu llywodraeth y wlad yn gyffredinol; ac amryw gyfreithiau o berthynas i ddiarddeliadau ac *estrays*, crwydriaid, meichnïaeth, adgaffael dyledion, dynladdiad, lladradau, dyledswyddau swyddogion, &c. Terfyna y gyfres gyda gwerth amrywiol fathau o ddaoedd ac anifeiliaid, y rhai yr oedd iawn i gael ei wneyd am danynt. Er engraifft, yr oedd ceffyl a chaseg, ar lw y perchenog a dau gymydog, yn cael ei osod yn ddeg swllt; ebol yn ugain ceiniog; ŷch yn dri swllt ar ddeg a grôt; buwch yn ddeg swllt; yr oedd llogi ŷch, a llaeth y fuwch yn cael eu prisio hefyd; mamogiad a ystyrid yn werth un geiniog ar bymtheg, ei gwlan yn bedair ceiniog, ei llaeth yn ddwy geiniog, a'i hoen yn wyth geiniog.

Fel prawf o bris uchel arfau rhyfel, ac nad oedd genym ond ychydig o wneuthurwyr y cyfryw yn ein plith y pryd hyny, yr oedd cleddyf dwy law yn cael ei brisio yn ddeg swllt, ac un unllaw yn chwe' swllt a chwe' cheiniog; a tharian ddur yn ddau swllt ac wyth geiniog; tra, fel y mae yn hynod, yr oedd bwa, yr hwn a allent wneyd, yn cael ei brisio yn un geiniog ar bymtheg, a saeth yn chwe' cheiniog.

Nid oedd unrhyw ddirwy arall yn cael ei phennodi am dori y cyfreithiau, heblaw fforffedio y budd o'r cytundeb, yr hyn, yn yr amseroedd ansefydlog hyny, fe ddichon, oedd yn llawn ddigon, am ei fod yn gadael y troseddwr yn amddifad o bob cymhorth, ac yn ddigyfaill.

*Dolgellau.*] Disgyn oddiyno, ar hyd ffyrdd hynod o ddrwg a charegog i *Ddolgellau;* y mae pob mynedfa i'r dref hon, fel pob tref arall, yn gauedig gan dollbyrth; ac y mae pob mynedfa yn cael ei hadgyweirio am

Digitized by Google


ychydig o ffordd,* trwy gymhorth y tollau bychain. Bechan yw y dref; a'r heolydd wedi eu cyfleu yn y dull mwyaf afreolaidd; ond y mae ei sefyllfa mewn dyffryn prydferth, ffrwythlawn, yn llawn o goedwigoedd, ac yn addurnedig â llaweroedd o balasdai prydferth; a'i ddyfrhau gan yr afon Mynach; dros ba un, oblegyd ei gorlifiadau mynych, y mae pont o amryw fwäau. Cymer y dref ei henw am ei bod yn sefyll mewn dôl, ac ynddi gyflawnder o goed cyll. Nid oes ynddi ddim ag sydd hynod, heblaw yr eglwys, yr hon, er nad oes ynddi eisteddleoedd, sydd yn adeilad dda. Oddi fewn iddi y mae cofadail i Feiryg Fychan ap Ynyr Fychan, o dylwyth Nannau, yn y gymydogaeth, ac yn bummed mewn disgyniad o'r tywysog Cadwgan, mab i Bleddyn ap Cynfyn, yr hwn a breswyliai yma, ac yn meddiant hiliogaeth yr hwn y mae yn aros hyd heddyw. Y mae efe yn arfog, gyda helm fechan a chlòs, a gwddfgadwyn, ei gleddyf yn ei law, a mantell fèr wedi ei thaflu dros y gweddill o'i arfogaeth.

*Cader Idris.*] Y mae *Cader Idris* yn ymgyfodi yn union uwchlaw y dref, ac y mae yn gyffredinol yn wrthddrych sylw pob ymwelydd. Amgylchynais waelodion y mynydd am oddeutu dwy filldir, gan adael llyn bychan, *Llyn Gwernan*, ar y llaw chwith, a dechreuais yr esgyniad ar hyd ffordd geffyl gul a serth, efallai y ffordd uchaf yn Mhrydain, gan ei bod yn ffordd gyffredin, hyd yn nod i geffylau llwythog, i Lanfihangel-y-Pennant, dyffryn ar yr ochr arall. Wedi cyrhaedd crib y bryn, canfyddais mai porfa eang ydoedd o laswellt brâs, yn gymysg âg ychydig siglen. Y mae y bryn oddiyno yn llechweddu at i fyny: y rhan serthaf, hyd y pigyn uchaf, a elwir Pen y Gader, yn dyfod yn fwyfwy creigiog: y mae y dynesiad at y copa yn arbenig felly, ac yn orchuddiedig â darnau mawrion o greigiau afliwiog, tra geirwon, ac wedi eu cysylltu ynghyd gyda rhyw sylwedd haner-gwydrol, yr hyn a ddyry iddynt ymddangosiad hynod o losgfalaidd, yn ychwanegol at yr olwg anghysylltiol a damweiniol sydd arnynt. Ar fy esgyniad, cyfarfyddais â chrugau o geryg, o'r un rhywogaeth gellog a *llyffant-faen* sir Derby,† ond o liw gwyrdd. Trôdd y diwrnod allan mor wlyb a niwliog, fel y collais y mwynhad o'r olygfa fawr oddiar y copa. Nis gallwn weled ond fod y lle y safwn arno yn grugau amrosgo o fater rhyfeddol o annhrefnus. Ar adegau gallwn weled clogwyn aruthrol ar un ochr, lle y mae y mynydd yn cilio i mewn, gan ffurfio math o amchwareufa, gyda llyn yn y gwaelod; eto yn dra uchel mewn cymhariaeth i droed y mynydd. Ar yr ochr arall, yn hytrach yn nês, mi a welais *Craig gau*, yr hon sydd yn fawr anferthol, gyda llyn yn y gwaelod, mewn ceuedd dwfn. Y mae hwn wedi ei ddarlunio mor ragorol gan bensyl fy nghydwladwr, Mr. Wilson, fel na bydd i mi ymgynyg at unrhyw fanylion pellach.

Wrth ddyfod i lawr o'r *Gader*, cedwais gydag ymyl y clogwyn mwyaf, nes y daethum yn agos i'r *Cyfrwy*, pigyn arall. Yr oedd yr holl le, am yspaid hir, wedi ei orchuddio â cheryg rhyddion, ar ffurf ffrwd, yn llechweddu o'r ochr serth. Y mae niferi mawr o honynt yn golofnaidd, ond yn anghysylltiol; yn ysgwâr neu bum'onglog; nid oes yr un o honynt yn syth, ond gorweddant yn

* Y mae y ffyrdd, i bob cyfeiriad o Ddolgellau, yn bresenol, mewn cyflwr rhagorol. GOL.

† Mae yn debyg mai rhywogaeth frâs o'r *porphyry* ydyw y gareg y cyfeirir ati yma, wedi ei gwneyd yn gellog trwy ddadgyfansoddiad y *feltspath*. GOL.



CADER IDRIS.

Digitized by Google

hynod o annhrefnus yn mhob cyfeiriad. Ymddangosai rhai yn crogi i lawr gwyneb y clogwyn; y mae penau rhai ereill yn ymrithio allan mewn dyfnder mawr odditanaf, yr hyn a ddangosai drwch mawr y ffrwd. Da genyf pe buasai y diwrnod yn fwy ffafriol: ond hyderaf y bydd i deithydd arall amgylchu y cwbl, a rhoddi hanes mwy boddhaol am y mynydd nag y galluogwyd fi i wneyd.*

*Uchder.*] Am uchder y mynydd hwn, ynghydag Aran Fowddwy, a'r Arenig Fawr, gallaf roddi hanes tra manwl, trwy gynorthwy y cywrain Mr. Meredith Hughes o'r Bala; yr hwn a sicrha i mi fod Pen y Gader yn 950 o latheni yn uwch na maes *(green)* y Bala; Aran Fowddwy yn 740 o latheni yn uwch na Llyn Tegid; a'r Arenig yn is o ddim ond 20 llath na'r Aran; fod y disgyniad o Lyn y Bala i Ddolgellau yn 180 o latheni; felly nid yw yr holl wahaniaeth gwirioneddol mewn uchder rhwng y Gader a'r Aran ond 30 llath yn unig.

Wedi ymadfywio ar ol blinder y daith hon, cychwynais ar un arall, i'r dyben o amgylchu bôn eangfawr y mynydd. Cymerais yr un llwybr ag o'r blaen; a daliais ati i farchogaeth islaw *Tyrau Mawr*, un o bigynau Cader Idris, y graig uchaf y bum erioed yn marchogaeth oddi tani. Tu hwnt, ar y llaw ddehau, y mae dau lyn, a elwir *Llynau Cregenan;* ac heb fod yn rhyw lawer pellach, y mae rhai gweddillion o gylchoedd o geryg sythion, gyda lluaws o garneddi; careg anferthol o fawr yn sefyll yn syth ar ben uchaf craig gyfagos; ac amryw feini hirion, neu golofnau sythion anghelfydd.

*Llys Bradwen.*] Ychydig o ffordd tu hwnt i'r rhai hyn, gerllaw yr afon Cregenan, gwelais olion *Llys Bradwen*, llys neu balas Ednowain, penaeth un o bymtheg llwyth Gwynedd, yn nheyrnasiad Gruffydd ap Cynan, neu yn fuan ar ol hyny. Mesura y gweddillion oddeutu 30 o latheni ysgwâr; y fynedfa i fewn yn saith droedfedd o led, gyda chareg fawr ar ei phen ar bob ochr, yn gwasanaethu fel pyst y drws; y mae y muriau wedi eu ffurfio o geryg mawrion, heb gael eu plastro â morter; yn fyr, y mae adeiladwaith y palas hwn yn dangos fod y gelfyddyd o adeiladu mewn cyflwr tra isel yn yr amseroedd hyny; nis gellir ei gymharu i ddim ond i furddyn anghelfydd hen feudy.

Cafodd Ednyfed ap Aaron, un o ddisgynyddion y dyn mawr yma, yr anrhydedd o letya Owain Glyndwr, mewn adeg pan oedd pethau yn dywyll arno; a dywedir iddo ei guddio rhag y gelynion a ymlidient ar ei ol, yn mhlwyf Llangelynin, mewn ogof, yr hon a elwir hyd heddyw yn *Ogof Owain.*

Rhaid i mi beidio arwain y darllenydd i feddwl fod yr holl breswylfeydd, yn yr amseroedd boreuol hyny, yn gyfartal mewn ardderchogrwydd â phalas Ednowain ap Bradwen. Byddai preswylfeydd y boneddigion israddol yn cael eu ffurfio o wiail, yn debyg i *wigwams* yr Indiaid, neu gytiau preswylwyr Ucheldiroedd Ysgotland, heb erddi na pherllanau, ond wedi eu gwneyd at eu symud o'r naill fan i'r llall, er mwyn cael porfa newydd, neu fwy llawnder o helwriaeth. Byddai y dodrefn yn cyfateb; ni byddai yno na byrddau, llieiniau, na napcynau;† ac y mae hyn yn llai rhyfedd, pan y cawn, hyd yn nod mor

* Y mae Mr. Aikin, ieu., yn ei "Daith trwy Gymru," yn dysgrifio, gyda llawer o gywirdeb, ranau cyfansoddol Cader Idris, a mynyddau ereill yn y Dywysogaeth. Gol.

† Girald. Cambr. Descr. Walliæ, 868. Syr Richard Hoare's Ed. vol. ii. p. 293.

Digitized by Google

ddiweddar ag amser Iorwerth II., fod gwellt yn cael ei ddefnyddio yn ystafellwely y brenin.* Er hyny, yr oedd y lletygarwch uchaf yn cael ei ymarfer: yr oedd pob tŷ yn agored, hyd yn nod i'r dyn tylotaf. Pan ddeuai dyeithrddyn i mewn, cymerid ei arfau oddiarno, a dodid hwy o'r neilldu; ac yn unol â'r arferiad ysgrythyrol, dygid dwfr iddo i olchi ei draed. Nid oedd yr ymborth ond syml: ni chynwysai y pryd amrywiaeth ddestlus o ddysgleidiau, ond nifer o bethau wedi eu gosod gyda'u gilydd mewn un ddysgl fawr: y bara ydoedd deisenau teneuon wedi eu gwneyd o flawd ceirch, y fath ag a welir yn gyffredin yn yr amser presenol yn ein parthau mynyddig. Gweinyddai y teulu ar y gwahoddedigion, ac ni chyffyrddent â dim nes y byddent hwy wedi darfod, pan y bwytäent yr hyn a fyddai wedi ei adael ar ol. Cerddoriaeth, ac ymddiddan rhydd y genethod ieuaingc, a wnaent i fyny ddifyrwch y cwmni; oblegyd yr oedd eiddigedd yn beth anadnabyddus yn ein plith. Minteioedd o ddynion ieuaingc, na wyddent am un gelfyddyd ond dwyn arfau, yn fynych a elent i'r tai, a byddent yn cael eu croesawu yn wresog; oblegyd ystyrid hwy yn amddiffynwyr gwirfoddol rhyddid eu gwlad. Ymgymysgent âg aelodau menywol y teulu, unent eu lleisiau mewn canu gyda'r delyn, a threulient y dydd gyda bywiogrwydd anhafal. O'r diwedd, suddent mewn cwsg, nid ar lythoedd costus, neu welyau plu; ond ar hyd ochrau yr ystafell, ar haen deneu o frwyn wedi eu sychu, o amgylch tân mawr wedi ei gyneu yn y canol, y gorweddent blith-draphlith, wedi eu gorchuddio yn unig gan fath o frethyn brâs o wneuthuriad cartrefol, yr hwn a elwid *Brychan*, yr un peth a'r *Bracha* mwy hynafol; a chadwent y naill y llall yn gynhes,, trwy orwedd yn agos at eu gilydd, neu os byddai i un ochr golli ei gwres naturiol, tröent, nes y byddai yr ochr oer yn nesaf i'r tân.†

*Lletygarwch yr Hynafiaid.*

*Cerddoriaeth yr Hynafiaid.*

Cyfarfyddir â rhyw wythïen o'r gerddoriaeth hynafol yn y rhanau mynyddig hyn o'r wlad. Bydd nifer o bobl yn ymgynull at eu gilydd, o'r ddwy ystlen, ac eisteddant o gwmpas y delyn, gan ganu penillion bob yn ail, o farddoniaeth hynafol neu ddiweddar. Yn gyffredin bydd y bobl ieuaingc yn dechreu y nos trwy ddawnsio, a phan y byddont wedi blino, eisteddant i lawr, ac ymgymerant â datganu fel amrywiaeth. Yn fynych, fel yr *Improvisatori*, neu yr angenogion yn yr Eidal, canent benillion difyfyr. Bydd i un medrus yn y gelfyddyd hon ddwyn allan benill fel atebiad i'r diweddaf a ganwyd; y mae y testynau yn creu llawer o ddifyrwch; oblegyd y maent weithiau yn gellweirus, bryd arall yn dychanol, a thro arall yn garwriaethol. Parhaent i ganu yn ddibaid, ac ni byddent byth yn canu yr un penill ddwywaith, oblegyd buasai hyny yn achos i'r neb a wnelai, golli yr anrhydedd o fod yn flaenaf yn y gân. Fel yr eos, parhaent i ganu drwy gydol y nos: *Certant inter se, palamque animosa contentio. Victa morte finit sæpe vitam, spiritu prius deficiente quam cantu*,‡ a ellid ei ychwanegu o'r braidd. Y mae y gynulleidfa yn gyffredin yn galw am y dôn; weithiau ni fedr ond ychydig ganu arni; eithr mewn llawer o amgylchiadau bydd yr holl gwmni yn canu; ond pan y mae mintai o ddatgeiniaid rhagorol wedi ymgynull, anaml y byddant yn galw am dôn; oblegyd nid yw o bwys

* Anderson's Dict. Com. ii. 112. † Giraldus, 888.

‡ "Ymgystadleuent y naill â'r llall, ac y mae yr ymdrechfa yn fywiog a chyhoedd. Terfyna y gorchfygedig ei fywyd trwy angeu—yr anadl yn pallu cyn i'w dôn ddarfod."

iddynt hwy pa dôn a dery y telynor. Y mae plwyf weithiau yn ymgystadlu yn erbyn plwyf, nes y bydd y bryniau yn adseinio gan y cydgan.

Myned yn mlaen ar fy nhaith fel o'r blaen, rhwng mynyddoedd uchel, mewn dyffryn cul. Ymadael â'r bwlch cyfyng, a myned ar hyd ffordd dda, wedi ei ffurfio ar ochrau y mynyddoedd, gyda llechweddiad hyfryd oddiwrthi tua'r môr, yr hwn yn bresenol sydd yn llawn o ysmotiau du a gwyrdd, y rhai a amrywir gan y goleuni trwy y cymylau toredig. Y mae y ffordd yn myned yn awr rhwng bryniau gwyrddleision a llyfnion, porfeydd defaid y wlad; oblegyd y maent yn grynion ar eu copäau, ac wedi eu gorchuddio â diadelloedd, y rhai a gynyrchant y defnyddiau i'r gweithfeydd yn y gymydogaeth. O le a elwir yr Allt-lwyd, yr wyf yn cael golwg gyflawn ar y gwastadedd a elwir *Tywyn Meirionydd*, yr hwn sydd yn gymysgedd o ddolydd a mawnogydd duon, yn cael ei ddyfrhau gan yr afon Dysyni, yr hon a ymarllwysa i'r môr ychydig filldiroedd islaw. Ar un ochr y mae pentref ac

*Tywyn.* eglwys *Tywyn.* Y bersonoliaeth sydd fywioliaeth berthynol i esgob Lichfield; perthynai y ficeriaeth i leiandy Barking, yn Essex, ond y mae yn awr yn nawddogaeth esgob Bangor. Esgeulusais ymweled â'r lle hwn; ond credaf na buasai fy llafur yn myned yn ofer; oblegyd yr wyf yn cael, yn mhlith papurau Llwyd,* ddarlun o ffugyr beddrodol eglwyswr, un arall o ryfelwr, a dwy golofn anghelfydd, un yn saith droedfedd o uchder, gyda llun y groes, a cherfiad ar bob ochr, mewn hen lythyrenau. Y mae colofn arall, yn cael ei nodi yr un modd â chroes, ond y mae y cerfiad mewn llythyrenau o ffurf wahanol, wedi cael ei thynu yn yr un casgliad oddiwrth un yn mynwent Llanfihangel y Traethau yn y sir hon.

O'r fan lle y gwnaethum y crwydriad yma, yr wyf yn esgyn ar hyd llwybr syth trwy gaeau; ac ar ol croesi yr afon, ciniawais ar gareg fawr o dan y

*Craig y Deryn.* graig anferthol a elwir *Craig y Deryn*, yr hon a elwir felly ar gyfrif y niferi mawrion o for-frain, colomenod y creigiau, a hebogau a fridiant arni. Yn ei bôn y mae ffrwd anferthol o geryg, yr hon a ymestyn am rai cannoedd o latheni oddiwrth waelod y graig, a ffurfir hi trwy barhaus ddisgyniad malurion o honi. Yma y mae y Tywyn wedi ei gulhau i ddyffryn ffrwythlawn, yr hwn a ymestyna oddeutu dwy filldir yn mhellach. Yn agos i'w ben pellaf y mae craig hir ac uchel, yn gul yn y

*Castell Teberri.* top. Yma y safai castell *Teberri*, yr hwn a ymestynai ar ei hyd dros holl arwyneb y copa, ac yr oedd yn amddiffynfa o gadernid ac eangder mawr. Yr ystafell fwyaf cyflawn ydoedd yn 36 troedfedd o led, ac wedi ei thori allan o'r graig ar y ddwy ochr; oblegyd y mae cryn lawer o hono yn geuol. Mewn rhai manau, yr oedd y clogwyni, wedi eu hamgylchu gan fur, yn ffurfio yr amddiffyniad. Y muriau ereill ydynt wedi eu hadeiladu yn rhagorol; y ceryg wedi eu hysgwario yn dda; a'r morter yn gyfansoddedig o gregyn a graian, ond yn bresenol y mae yn noddedig o bwdr. Y mae yr holl le mor orchuddiedig gan dwmpathau, fel y mae y gorchwyl o'i archwilio yn waith tra anhawdd. Saif yn mhlwyf Llanfihangel y Pennant, a dywedir iddo ar un adeg gael ei amddiffyn gan un o'r enw *Coch o'r Pennant.*

Dichon mai dyma y castell *Bere* a berthynai i'n Llywelyn olaf, a'r hwn a

* Sebright MSS.

Digitized by Google

gymerwyd ychydig amser cyn darostyngiad Cymru, gan William de Valence, iarll Penfro.* Ymddengys hefyd ei fod yr unrhyw â'r hwn a draddodwyd gan Iorwerth I. i geidwadaeth Robert Fitzwalter, yr hwn, ar yr un pryd, a gafodd ganiatâd i hela pob math o fwystfilod gwylltion† yn y sir hon. Priodol ydyw crybwyll hyn, oblegyd y mae amddiffynfa gadarn arall yn sir Aberteifi, ac enw cyffelyb arni.

*Talyllyn.* Troi yn ol oddeutu haner milldir, a marchogaeth rhai milldiroedd gyda glanau y dyffryn prydferth hwnw a elwir *Talyllyn;* y mae yn gul iawn, ond cynwysa ddoldiroedd heirdd, a therfynir ef gan fynyddoedd uchel a gwyrddleision, y rhai y mae eu llechweddau yn dra sythion. Myned heibio *Llyn y Myngil*, llyn prydferth oddeutu milldir o hyd, yr hwn a leinw y dyffryn fel nad oes ond ffordd gul ar un ochr. Terfyna yn hynod o dlws; oblegyd culha yn raddol i ffurf afon, a rhuthra trwy fwa maen cryf i fwlch cul; saif yr eglwys ar un ochr, ac ar y llall ychydig o fythynod yn gymysgedig â'r coed. Yr eglwys, ac eiddo Llanfihangel y Pennaut, ydynt gapelau perthynol i Dywyn.‡

*Arch Hynod.* Yn gyfagos i'r dyffryn hwn, mewn lle a elwir *Llwyn Dôl Ithel*, yn y flwyddyn 1684, wrth gloddio mawn, mewn oddeutu tair llath o ddyfnder, deuwyd o hyd i arch, wedi ei wneyd o ffawydd, oddeutu saith troedfedd o hyd, wedi ei gerfio a'i euro yn y ddau ben. Yr oedd dau ysgerbwd dynol, o'r ddwy ystlen, fel y tybir, oddi fewn iddo, wedi eu gosod a phen un wrth draed y llall; yr esgyrn oeddynt laith a gwydn, ac o faintioli anarferol; esgyrn y cluniau yn saith modfedd ar hugain o hyd. O fewn llathen i'r arch deuwyd o hyd i ysgerbwd arall o'r un maintioli a'r rhai blaenaf, yn gorwedd ar y clai noeth; ac o fewn dau rŵd iddynt, fedd, yn cynwys ysgerbwd o'r maintioli cyffredin. Ar hyd y beddau a'r arch yr oedd gwiail cyll§ wedi eu gosod, a'r rhisg arnynt, ac mor wydn ag i fod yn blygadwy.|| Yr oedd cadwraeth anghyffredin y gwiail hyn, a gwydnedd yr esgyrn. i'w briodoli i ansawdd pygaidd y fawnog yn mha un yr oeddynt wedi cael eu claddu. Gosodasid y gwiail yno i ryw ddyben ofergoelus, efallai i wrthweithio dylanwad dewiniaeth; y mae cneuen ddwbl y coed cyll, mewn rhyw ranau o Ucheldiroedd Ysgotland, hyd heddyw yn cael priodoli iddynt y rhinwedd yma.

Ychydig filldiroedd tu hwnt i eglwys Talyllyn, y mae y bryniau braidd yn cydgyfarfod yn eu godreuon, ac yn newid eu hagwedd. Nid oes dim gwyrddlesni i'w weled yn awr, dim ond natur yn ei hagrwch a'i gwylltineb. Y mae ochrau y bryniau wedi eu tori yn fil o dalpiau; rhai yn bigfain a blaenllym; ond y rhan fwyaf yn ymdaflu ymlaen, ac yn crogi drosodd yn y fath fodd ag i beri braw arswydus rhag iddynt gwympo. Tyfa ychydig dwmpathau yn eu plith; ond y mae eu lliw tywyll, yn gystal ag eiddo y creigiau, yn ychwanegu at arswydolrwydd yr olygfa, yn hytrach na dim arall.

* Leland's Collect. i. 178. † Rotuli Walliæ, 99. ‡ Ecton, 499.

§ Dodid gwialeni cyll weithiau mewn beddau. Cafwyd gwialen gollen, a'r rhisg arni, yn medd *Randulph Higden*, awdwr y "*Polychronicon*," ar adeg yr adgyweiriad diweddar ar eglwys gadeiriol Caerlleon; a chafwyd gwialen gyffelyb mewn bedd arall ar yr un achlysur. Y mae amryw dybiau wedi cael eu cynyg er rhoddi cyfrif am yr arferiad hynod hon, ond ni chafwyd dim esponiad boddhaol ar y peth. T. P.

|| Llwyd's Itin. MS. Crybwyllir am engraifft arall gan Camden, ii. 793.

Digitized by Google

Gelwir un o'r clogwyni hyn *Pen y Delyn*, ar gyfrif y gyffelybiaeth sydd ynddo i lun telyn. Gelwir un arall, *Llam y Lladron*, am y dywed traddodiad y byddai lladron yn cael eu dwyn yma, a'u bwrw i lawr. Nid oes yr amheuaeth lleiaf na allasai y gyfryw gosp gael ei gweinyddu trwy orchymyn rhyw arglwydd gormesol; ond anfynych y byddem ni, yn yr hen amser gynt, yn cospi unrhyw drosedd â marwolaeth; byddai y crogbren yn cael ei ddefnyddio yn achlysurol am ladrad,* ond byddid yn cymeryd dirwyon braidd yn mhob amgylchiad, hyd yn nod am lofruddiaeth; yr hyn a gynyrchai ddial personol, ac a ddygai yn mlaen gyfres o ymrafaelion diddiwedd, a thywallt gwaed.

*Llam y Lladron.*

Ar y chwith y mae uchafedd creigiog Cader Idris.† Myned heibio i lyn bychan, a elwir *Llyn y tri Graienyn*, y rhai ydynt dair o greigiau anferth, darnau o'r mynyddoedd cyfagos, o ba rai y disgynasant. Dywed y bobl gyffredin mai tri graienyn ydoedd y rhai hyn a syrthiasent i esgid y cawr Idris, y rhai a fwriodd efe allan yn y fan hon, am eu bod yn brifo ei droed.

*Llyn y tri Graienyn.*

Myned dros y Bwlch Coch, ac wedi disgyn ar hyd ffordd anarferol o ddrwg,‡ cyrhaedd Dolgellau drachefn; o ba le yr ymwelais â Nannau,§ hen breswylfod teulu hynafol Nannau, yn awr y Vaughans. Y mae y ffordd tuag yno yn un esgyniad parhaus am ddwy filldir: felly fe ddichon mai dyma y palasdy boneddwr a saif ar y tir uchaf o unrhyw un yn Mhrydain. Gorchuddir yr etifeddiaeth â choedwigoedd heirdd, y rhai a guddiant holl ochrau y nentydd am lawer o filldiroedd o ffordd. Ar ochr y ffordd y saif hen dderwen hybarch, yn y cyfnod olaf o ddarfodedigaeth, ac wedi ei thyllu gan amser ar ffurf bwa gothig; er hyny y mae ei chylchfesur yn bresenol yn saith droedfedd ar hugain a haner. Y mae ei henw yn dra chlasurol, *Derwen Ceubren yr Ellyll*.|| Mor fynych y mae y dychymyg gwresog wedi gweled y tylwyth teg yn chwareu o amgylch ei boncyff! neu oni allai fod llygad y darfelydd wedi canfod yr *Hamadryad* yn ymruthro allan o risgl ei bren cyfoesol?

Uwchlaw Nannau y mae craig uchel, a'i chrib wedi ei amgylchu â chlawdd o geryg rhyddion. Buasai hwn, ar ryw adeg, yn wersyllfa Brydeinig, gorsaf, efallai, i ryw orthrymydd, oblegyd ei henw ydyw Moel Orthrwm.

Y mae parc Nannau yn nodedig am ei hyddgig *(venison)* tra rhagorol, ond

* Leges Walliæ, 221.

† Yr oedd *Idris* nid yn unig yn gawr, ond yn un goleuedig, ac yn astudio seryddiaeth; a chan nad ewyllysiai i neb sefyll yn ei oleuni, dewisodd gopa y mynydd uchaf yn Meirionydd i sylwi ar y wybrenau. Tipyn yn galed arno ydyw fod *Cadair Idris* yn cael ei droi i'r Saesonog yn *Arthur's Seat:* pwy a ddyfeisiodd y cyfieithiad goleuedig yma, nid wyf yn gwybod. J. R.

‡ Y mae y rhai hyn wedi eu gwella yn fawr yn bresenol. GOL.

§ Y mae Nannau wedi cael ei ail-adeiladu, mewn modd sylweddol, er hyny yn brydferth, gan ei feddiannydd presenol, Syr Robert Williames Vaughan, barwniad, ac y mae y dynesiad at ei sefyllfa ucheledig wedi cael ei rwyddhau yn fawr gan ffyrdd rhagorol. Nid yw y golygydd yn dymuno gwneyd ei nodiadau yn gyfrwng i udganu clod, ond byddai yn anghyfiawnder â gwir deilyngdod iddo beidio dyweyd fod yn gyfunedig yn mherchenog Nannau, yn y graddau uchaf, y nodwedd o fod yn aelod seneddol gonest ac annibynol, gyda'r ansoddau mwyaf defnyddiol hyny a wnant FONEDDWR GWLEDIG TRIGIANNOL yn fendith yn ei gymydogaeth. GOL.

|| Y mae yr hanes am y modd y darfu i Owain Glyndwr ladd dyn arall, a thaflu ei gorph i geubren derwen, a'r modd y cafwyd ei ysgerbwd ynddi wedi hyny, yn cael ei adrodd yn y *Brython*, cyf. i. tudal. 93. T. P.



Digitized by Google

bychan. Crybwyllais o'r blaen am olion tŷ Hywel Sele, o fewn y parc hwn, ac am ei hanes anffodus.*

Dychwelyd trwy Ddolgellau; ac oddeutu milldir tu hwnt, oddiar godiad tir, cael golygfa hardd ar dri o ddyffrynoedd, yn cael eu terfynu yn brydferth gan fryniau, eu haddurno â phalasdai boneddigion, a'u dyfrhau gan ymuniad yr afon *Mynach* â'r *Maw*, neu y *Fawddach*. Hudir fi rhag cymeryd y ffordd unionsyth tuag Abermaw, gan y parch mawr a deimlwn bob amser tuag at farn boneddwr, yr hwn, ychydig flynyddoedd yn ol, a anrhydeddodd ein gwlad â'i sylwadau,† ac a roddodd ganmoliaeth arbenig i raiadrau Glyn Maw. Caniatäer i mi ychwanegu, fod yr ystyriaeth o derfynu y daith fechan hon yn nhŷ lletygar y diweddar Mr. John Garnons, o'r Rhiw Goch, yn gymhelliad arall i'm hamcan yn hyn o beth.

*Llanelltyd.*] Croesi pont Llanelltyd. Islaw y mae dolydd prydferth, ond eu bod yn cael eu hacru yn druenus trwy fod yn rhaid cloddio iddynt am fawn, yr hwn ydyw tanwydd pobl y wlad hon. Llifa llanw y môr o fewn ychydig bellder i'r fan yma; ac ar y glanau yr wyf yn gweled llong fechan, yn barod i'w gollwng i'r dwfr. Ar y chwith y mae eglwys Llanelltyd: ar y dde y mae gwastadedd brâs, yn mha un y saif gweddillion

*Mynachlog y Cymmer.*] mynachlog y *Cymmer*. Y mae rhan o'r eglwys i'w gweled hyd heddyw, ac arddengys ei hysplenydd-dra hynafol. Yn y pen dwyreiniol y mae tair o ffenestri uchel, ond culion iawn, ac yn bigfain yn y pen uchaf; ac uwchlaw y rhai hyn dair o rai llai, yn gladdedig mewn llwyn tew a thywyll o eiddew. Y mae y neuadd fawr, a rhan o dŷ yr abad, yn awr yn ffurfio ffermdy.

Bu hon yn fynachlog o'r urdd Cistersaidd, nid wedi ei sylfaenu gan Lewelyn ap Iorwerth, fel y mae rhai wedi tybied, yr hwn ni wnaeth ond cadarnhau y gwaddoliadau fel tywysog Cymru—ond gan y ddau dywysog Meredydd a Gruffydd, meibion Cynan a Hywel, meibion Gruffydd, oddeutu y flwyddyn 1198. Yn siartr Llewelyn, yn 1209, crybwyllir am eu rhoddion, a'i eiddo yntau, yn nghyda therfynau tiroedd y fynachlog,‡ yr hyn a ddengys iddi gael ei sylfaenu gan bersonau ereill. Y mae y siartr yma yn gyflawn anarferol; dros afonydd, llynoedd, a môr; adar, anifeiliaid dofion a gwylltion; dros yr holl fynyddoedd, coedwigoedd, pethau symudadwy ac ansymudol; o'r holl bethau islaw ac ar wyneb y tiroedd a roddid felly; a dyry ryddid i gloddio am feteloedd a thrysorau cuddiedig: gwnaed hyn oll yn mhresenoldeb Esau, y pryd hyny yn *arglwydd* abad, ac ereill, brodyr o'r sefydliad.§ Ar adeg y dadgorphoriad, prisiwyd y cyllid yn 51*l.* 13*s.* 6*d.* yn ol Dugdale; a 58*l.* 15*s.* 4*d.* yn ol Speed. Yr unig gostau ar y sefydliad yn 1553, ydoedd 6*l.* 13*s.* 4*d.*, yr hyn a delid i Lewis ap Thomas, yr abad diweddaf, fel y tybir.‖

*Castell.*] Uchtryd ap Edwyn a adeiladodd gastell yma, yr hwn a gymerwyd ac a chwalwyd, oddeutu 1116, gan Eneon ap Cadwgan, a Gruffydd ap Meredydd ap Bleddyn;¶ ac nid yw hyd yn nod y man y safai arno i'w adnabod yn bresenol.

* Gwel Attodiad, Rhif VII.

† A Gentleman's Tour through Monmouthshire and Wales, yn 1774, argraffwyd dros T. Evans, 1775.

‡ Sebright MSS.

§ Dugdale's Monast. i. 826; yr hwn, yn gystal a Tanner, sydd yn ei chamgymeryd am fynachlog *Cwmhir*, yn y Deheubarth.

‖ Willis, ii. 313.

¶ Powel, 183.

Digitized by Google

Digitized by Google

bychan. Crybwyllais o'r blaen am olion tŷ Hywel Sele, o fewn y parc hwn, ac am ei hanes anffodus.*

Dychwelyd trwy Ddolgellau; ac oddeutu milldir tu hwnt, oddiar godiad tir, cael golygfa hardd ar dri o ddyffrynoedd, yn cael eu terfynu yn brydferth gan fryniau, eu haddurno â phalasdai boneddigion, a'u dyfrhau gan ymuniad yr afon *Mynach* â'r *Maw*, neu y *Fawddach*. Hudir fi rhag cymeryd y ffordd unionsyth tuag Abermaw, gan y parch mawr a deimlwn bob amser tuag at farn boneddwr, yr hwn, ychydig flynyddoedd yn ol, a anrhydeddodd ein gwlad â'i sylwadau,† ac a roddodd ganmoliaeth arbenig i raiadrau Glyn Maw. Caniatäer i mi ychwanegu, fod yr ystyriaeth o derfynu y daith fechan hon yn nhŷ lletygar y diweddar Mr. John Garnons, o'r Rhiw Goch, yn gymhelliad arall i'm hamcan yn hyn o beth.

*Llanelltyd.* Croesi pont Llanelltyd. Islaw y mae dolydd prydferth, ond ea bod yn cael eu hacru yn druenus trwy fod yn rhaid cloddio iddynt am fawn, yr hwn ydyw tanwydd pobl y wlad hon. Llifa llanw y môr o fewn ychydig bellder i'r fan yma; ac ar y glanau yr wyf yn gweled llong fechan, yn barod i'w gollwng i'r dwfr. Ar y chwith y mae eglwys Llanelltyd: ar y dde y mae gwastadedd brâs, yn mha un y saif gweddillion mynachlog y *Cymmer*. Y mae rhan o'r eglwys i'w gweled hyd heddyw, ac arddengys ei hysplenydd-dra hynafol. Yn y pen dwyreiniol y mae tair o ffenestri uchel, ond culion iawn, ac yn bigfain yn y pen uchaf; ac uwchlaw y rhai hyn dair o rai llai, yn gladdedig mewn llwyn tew a thywyll o eiddew. Y mae y neuadd fawr, a rhan o dŷ yr abad, yn awr yn ffurfio ffermdy.

*Mynachlog y Cymmer.*

Bu hon yn fynachlog o'r urdd Cistersaidd, nid wedi ei sylfaenu gan Lewelyn ap Iorwerth, fel y mae rhai wedi tybied, yr hwn ni wnaeth ond cadarnhau y gwaddoliadau fel tywysog Cymru—ond gan y ddau dywysog Meredydd a Gruffydd, meibion Cynan a Hywel, meibion Gruffydd, oddeutu y flwyddyn 1198. Yn siartr Llewelyn, yn 1209, crybwyllir am eu rhoddion, a'i eiddo yntau, yn nghyda therfynau tiroedd y fynachlog,‡ yr hyn a ddengys iddi gael ei sylfaenu gan bersonau ereill. Y mae y siartr yma yn gyflawn anarferol; dros afonydd, llynoedd, a môr; adar, anifeiliaid dofion a gwylltion; dros yr holl fynyddoedd, coedwigoedd, pethau symudadwy ac ansymudol; o'r holl bethau islaw ac ar wyneb y tiroedd a roddid felly; a dyry ryddid i gloddio am feteloedd a thrysorau cuddiedig: gwnaed hyn oll yn mhresenoldeb Esau, y pryd hyny yn *arglwydd* abad, ac ereill, brodyr o'r sefydliad.§ Ar adeg y dadgorphoriad, prisiwyd y cyllid yn 51*l.* 13*s.* 6*d.* yn ol Dugdale; a 58*l.* 15*s.* 4*d.* yn ol Speed. Yr unig gostau ar y sefydliad yn 1553, ydoedd 6*l.* 13*s.* 4*d.*, yr hyn a delid i Lewis ap Thomas, yr abad diweddaf, fel y tybir.‖

*Castell.* Uchtryd ap Edwyn a adeiladodd gastell yma, yr hwn a gymerwyd ac a chwalwyd, oddeutu 1116, gan Eneon ap Cadwgan, a Gruffydd ap Meredydd ap Bleddyn;¶ ac nid yw hyd yn nod y man y safai arno i'w adnabod yn bresenol.

* Gwel Attodiad, Rhif VII.

† A Gentleman's Tour through Monmouthshire and Wales, yn 1774, argraffwyd dros T. Evans, 1775.

‡ Sebright MSS.

§ Dugdale's Monast. i. 826; yr hwn, yn gystal a Tanner, sydd yn ei chamgymeryd am fynachlog *Cwmhir*, yn y Deheubarth. ‖ Willis, ii. 313. ¶ Powel, 183.

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

hynod o annhrefnus yn mhob cyfeiriad. Ymddangosai rhai yn crogi i lawr gwyneb y clogwyn; y mae penau rhai ereill yn ymrithio allan mewn dyfnder mawr odditanaf, yr hyn a ddangosai drwch mawr y ffrwd. Da genyf pe buasai y diwrnod yn fwy ffafriol: ond hyderaf y bydd i deithydd arall amgylchu y cwbl, a rhoddi hanes mwy boddhaol am y mynydd nag y galluogwyd fi i wneyd.*

*Uchder.*] Am uchder y mynydd hwn, ynghydag Aran Fowddwy, a'r Arenig Fawr, gallaf roddi hanes tra manwl, trwy gynorthwy y cywrain Mr. Meredith Hughes o'r Bala; yr hwn a sicrha i mi fod Pen y Gader yn 950 o latheni yn uwch na maes *(green)* y Bala; Aran Fowddwy yn 740 o latheni yn uwch na Llyn Tegid; a'r Arenig yn îs o ddim ond 20 llath na'r Aran; fod y disgyniad o Lyn y Bala i Ddolgellau yn 180 o latheni; felly nid yw yr holl wahaniaeth gwirioneddol mewn uchder rhwng y Gader a'r Aran ond 30 llath yn unig.

Wedi ymadfywio ar ol blinder y daith hon, cychwynais ar un arall, i'r dyben o amgylchu bôn eangfawr y mynydd. Cymerais yr un llwybr ag o'r blaen; a daliais ati i farchogaeth islaw *Tyrau Mawr*, un o bigynau Cader Idris, y graig uchaf y bum erioed yn marchogaeth oddi tani. Tu hwnt, ar y llaw ddehau, y mae dau lyn, a elwir *Llynau Cregenan;* ac heb fod yn rhyw lawer pellach, y mae rhai gweddillion o gylchoedd o geryg sythion, gyda lluaws o garneddi; careg anferthol o fawr yn sefyll yn syth ar ben uchaf craig gyfagos; ac amryw feini hirion, neu golofnau sythion anghelfydd.

*Llys Bradwen.*] Ychydig o ffordd tu hwnt i'r rhai hyn, gerllaw yr afon Cregenan, gwelais olion *Llys Bradwen*, llys neu balas Ednowain, penaeth un o bymtheg llwyth Gwynedd, yn nheyrnasiad Gruffydd ap Cynan, neu yn fuan ar ol hyny. Mesura y gweddillion oddeutu 30 o latheni ysgwâr; y fynedfa i fewn yn saith droedfedd o led, gyda chareg fawr ar ei phen ar bob ochr, yn gwasanaethu fel pyst y drws; y mae y muriau wedi eu ffurfio o geryg mawrion, heb gael eu plastro â morter; yn fyr, y mae adeiladwaith y palas hwn yn dangos fod y gelfyddyd o adeiladu mewn cyflwr tra isel yn yr amseroedd hyny; nis gellir ei gymharu i ddim ond i furddyn anghelfydd hen feudy.

Cafodd Ednyfed ap Aaron, un o ddisgynyddion y dyn mawr yma, yr anrhydedd o letya Owain Glyndwr, mewn adeg pan oedd pethau yn dywyll arno; a dywedir iddo ei guddio rhag y gelynion a ymlidient ar ei ol, yn mhlwyf Llangelynin, mewn ogof, yr hon a elwir hyd heddyw yn *Ogof Owain.*

Rhaid i mi beidio arwain y darllenydd i feddwl fod yr holl breswylfeydd, yn yr amseroedd boreuol hyny, yn gyfartal mewn ardderchogrwydd â phalas Ednowain ap Bradwen. Byddai preswylfeydd y boneddigion israddol yn cael eu ffurfio o wiail, yn debyg i *wigwams* yr Indiaid, neu gytiau preswylwyr Ucheldiroedd Ysgotland, heb erddi na pherllanau, ond wedi eu gwneyd at eu symud o'r naill fan i'r llall, er mwyn cael porfa newydd, neu fwy llawnder o helwriaeth. Byddai y dodrefn yn cyfateb; ni byddai yno na byrddau, llieiniau, na napcynau;† ac y mae hyn yn llai rhyfedd, pan y cawn, hyd yn nod mor

* Y mae Mr. Aikin, ieu., yn ei "Daith trwy Gymru," yn dysgrifio, gyda llawer o gywirdeb, ranau cyfansoddol Cader Idris, a mynyddau ereill yn y [illegible]wysogaeth. GOL.

† Girald. Cambr. Descr. Walliæ, 868. Syr Richard Hoare's Ed. vol. ii. p. 293.

Digitized by Google

Digitized by Google

[illegible] Ymddangosai rhai yn crogi i lawr [illegible] yn ymrithio allan mewn dyfnder [illegible] oddi tanom [illegible] mawr y ffrwd. Da genyf pe bu- [illegible] y diwrnod [illegible] deithydd arall amgylchu [illegible] nag y galluogwyd fi i [illegible].*

[illegible] Aran Fowddwy, a'r Arenig [illegible] y cywrain Mr. [illegible] Pen y Gader yn 950 o lath- [illegible] Aran Fowddwy yn 740 o latheni yn [illegible] 30 llath na'r Aran; fod y [illegible] latheni: felly nid yw yr holl [illegible] Gader a'r Aran ond 30 llath [illegible].

[illegible] ar un arall, i'r dyben [illegible] ag o'r blaen; a [illegible] Cader Idris, y graig [illegible] ar y llaw ddeheu, y [illegible] yn llawer pellach, y [illegible] o garnedd [illegible] ac amryw [illegible]

[illegible]

[illegible]

[illegible]

[illegible]



M. Griffith del.

W. Deeble sculp.

PISTILL MAWDDACH.

Digitized by Google

Myned yn mlaen ar fy nhaith ar glawdd uchel uwchlaw yr afon *Maw.* Y mae y dyffryn yn fuan yn culhau yn fawr; ochrau y gelltydd a orchuddir yn brydferth â choedwigoedd, braidd hyd eu cribau; ac y mae yr afon yn ymgymeryd â ffurf rhaiadr, gan ymrolio dros sianel greigiog.

Oddeutu pum' milldir neu chwech o Ddolgellau, yn Dol y Melynllyn, troais allan o'r ffordd, i gyfarfod llwybr rhuthrog yr afon *Gamlan*, yr hon a ddisgyna, gydag ychydig ymrwystriadau, o graig i graig, am yspaid hirfaith, yn mysg coed a thwmpathau, nes y cyrhaedda ben clogwyn uchel, o ba un y disgyna i llyn du, yr hwn a gysgodir gan goedydd, a'r hyn a ddyry iddo yr enw *Rhaiadr Du.** Y mae bedwen ardderchog, yr hon sydd wedi ei phlanu uwchlaw, yn gorphen yr olygfa brydferth yma.†

*Rhaiadr Du.*

Croesi *Pont ar Gamlan*, islaw i ba un y disgyna yr afon i'r *Maw.* Heb fod yn nepell oddiyma, y mae ymuuiad yr afon *Maw* a'r *Eden* yn arddangos golygfa brydferth arall. Y mae bryn uchel, gorchuddiedig gan goed, yn terfynu yma, ac yn ffurfio fforchiad y ddwy afon, yn gyfatebol i'r llechweddau sythion trwy ba rai y llifa y rhaiadrau hyn, gan arddangos golygfa debyg i'r rhai a geir yn ngwylltfanau cysgodog yr Amerig.

Dechreu esgyn gallt led fawr, a chael ar ei phen uchaf rai llwyni o goed derw hardd; o'm blaen yr oedd gwlad noeth. Disgyn trwy ryw gaeau sythion, i gyfres arall o nentydd coediog, a nydd-droant o gylch y gwaelod, gan ymuno â'r rhai blaenorol. O amryw fanau, ceir golwg ar Gader Idris mewn cyflawn fawrhydi uwchlaw y fforestydd llechweddog yma, yr hyn sydd yn rhoddi gogoniant ar yr olygfa. Yn fuan wedi i mi ddyfod i blith y coed, cefais fy synu gan raiadr arall o fawredd ardderchog. O'r fan lle y safwn i, yr oedd yn ffurfio rhaiadr mawr, a therfynid ef ar un ochr gan ddarnau toredig o graig, ar y llall gan glogwyn uchel, gyda choed yn tyfu, yma ac acw, allan o'i wyneb naturiol. Ar gopa pob rhan yr oedd derw a bedw yn ffurfio llwyni bychain ar wahan i'w gilydd, yr hyn a roddai iddo fath o nodweddiad gwahanredol i'u rhaiadrau ereill. Wedi i'r dwfr gyrhaedd gwaelod y ceuedd dwfn, rhuthra i agendor greigiog a chul, o ddyfnder aruthrol, dros yr hon y mae pont fynyddig a phrydferth o bren; a'r cyfan, am bell ffordd, yn cael eu tywyll gysgodi gan goed. Gelwir hwn *Pistyll Cain;* ac heb fod yn nepell oddiwrtho, y mae un arall, oblegyd y mae natur wedi bod yn afradus yma mewn prydferthion o'r fath hyn. Yr afon *Maw*, am gryn ffordd, a lifeiria ar hyd glyn dwfn, yr hwn a derfynir gan fynydd noethlwm, ac a welir drwy y coed a dyfant ar y ddwy ochr. Ymarllwysa y dwfr ar hyd nifer o risiau, o wahanol uchderau, i lyn tra du a llonydd, o ba un yr ail gychwyna yn drystiog, a chollir ef ymhlith y coedwigoedd pell-ymestynol.

*Pistyll Maw.*

Yn llymder y gauaf, y mae llecyn, llawer uwch i fyny, o ba un y gellir gweled y ddau raiadr yma ar unwaith, yn arddangos trwy y coedydd olygfa mor anarferol ag ydyw o ardderchog. Ar ol dyfod allan o'r dyfnderoedd rhamantus hyn, yr wyf yn cyrhaedd eangder hirfaith o dir digoed, plwyf helaeth *Traws-*

* Adnabyddir y rhaiadr hwn yn awr yn fwy cyffredin wrth yr enw "*Dol y Melynllyn.*" GOL.

† Y mae ty prydferth wedi ei adeiladu yn agos i'r rhaiadr hwn, gan William Maddocks, ysw. GOL.

Digitized by Google

*fynydd*, yr hwn sydd wedi ei gau i fewn ar bob ochr gan fryniau uchel ysgythrog, o amrywiol ffurfiau.

*Bedd Porus.*] Mewn ffermdy, heb fod yn mhell oddiwrth y ffordd yma i Rhiw Goch, ymwelais â *Bedd Porus*. Ar gareg leddf uwch ei ben y mae y cerfiad canlynol, yr hwn sydd wedi cael ei gopïo dipyn yn wahanol gan Mr Llwyd yn y *Britannia*:*

PORVS
HIC IN TVMVLO IACIT,
HOMO PIANVS FVIT.

Y mae rhai wedi tybio mai R oedd y P (yn Pianvs) ar y cyntaf, ac mai CHRISTIANUS FUIT oedd y geiriau; ond beth bynag a allai y llythyren mewn dadl fod, sicr ydyw nad oes yna ddigon o le rhwng HOMO a'r gair nesaf, i'r llythyrenau CHRIS.

Heb fod yn mhell oddiyno, mewn cae arall, y mae careg fawr ar ei phen, yr hon a elwir *Llech Idris*. Y mae rhyw hen chwedl wirion gan draddodiad am dani, mewn cysylltiad â'r cawr Idris; ond nid ydyw yn ddim amgen nag un o'r hen gof-feini sydd mor gyffredin yn Nghymru, ac mewn llawer o fanau ereill.

Wedi marchogaeth am ychydig amser, canfod, ar gommins, am y waith gyntaf, y nodedig *Sarn*, neu *Lwybr Helen;* ffordd ag y tybir *Sarn Helen.*] iddi gael ei gwneyd trwy ran o Ogledd Cymru, gan Helen, merch Eudaf, a gwraig i'r ymerawdwr Maximus.†

Y mae y ffordd hon yn bresenol wedi ei llwyr orchuddio â thywyrch; ond, wrth godi y rhai hyn, y mae, yn y rhan fwyaf o fanau, yn gwbl weladwy; oddi tanodd y mae y ceryg a'i ffurfiasent, ac a ymestynent drwy ei holl hyd, yn y lled o wyth lath. Y mae carneddau yn gyfagos iddi, oblegyd yr oedd yn arferiad gan y Rhufeiniaid gladdu gerllaw eu prif-ffyrdd. Yn agos i'r fan a nodwyd, cafwyd un, yr hwn a gynwysai bump o ystenau i gadw lludw y meirw; yr oedd holl ddefnyddiau y garnedd hon yn gyfansoddedig o bridd a cheryg wedi eu llosgi, gydag amryw ddarnau o briddfeini, y rhai a osodasid o amgylch yr ystenau, i'w cadw rhag cael eu llethu.

Wedi gorphwys am noswaith yn Rhiw Goch, aethum yn mlaen ar fy nhaith am ychydig filldiroedd, hyd *Gastell Prysor*, amddiffynfa *Castell Prysor.*] fechan dra hynod, wedi eu chyfleu mewn bwlch yn y mynyddoedd, ar graig gron naturiol, ac yn ymddangos, ar yr olwg gyntaf, yn debyg i'r bryncynau o waith llaw dyn, at y rhai y galwasom sylw yn flaenorol. O amgylch y copa buasai gwâl, olion yr hon sydd ganfyddadwy mewn amryw fanau; ac mewn un lle y mae olion tebyg i dŵr crwn; y wyneb allanol sydd yn dra rheolaidd, ond y mae y gwaith yn gwbl amddifad o forter. Er hyn oll, y mae yn ddigon tebyg fod y castellyn yma yn un Rhufeinaidd; oblegyd fe gafwyd llaweroedd o fathynau ac ystenau o gwmpas y lle. Y mae yr enw yn egluro paham na ddefnyddiasid morter yn ngwneuthuriad y muriau, oblegyd y mae *Castell Prysor*‡ yn arwyddo castell *wedi ei wneyd mewn brys*, ac felly nid oedd amser i barotôi y cymrwd arferol. O amgylch y gwaelod y mae

* II. 791. † Rowland, 165.

‡ Y mae hwn yn ddiniwaid, ond nid yw yn debyg o fod yn gywir: y mae yn debycach fod gan *prys* fwy i'w wneyd â choedydd neu dwmpathau. J. R.

sylfeini amryw adeiladau, y rhai gyfleuasid yno i'r dyben o fwynhau yr amddiffyniad a roddai.

Oddiyma cymerais y llwybr tua *Ffestiniog*, a chanfyddais, ar ochr y ffordd, *Lyn Rathllyn*,* yr hwn sydd lyn bychan, hynod am amrywiaeth nodedig o'r

*Pysgod Ceimion.*

pysgod a elwir *perch*, y rhai a feddant grwth ar eu cefnau; ac y mae y rhan isaf o asgwrn eu cefn, yn agos i'r gynffon, wedi ei anffurfio yn rhyfedd;† yn mhobpeth arall, y maent fel y rhywogaeth gyffredin, y rhai ydynt yn llawn mor luosog yn y llyn yma. Ceir yr un amrywiaeth yn Fahlun, yn Sweden.

*Gwersyll Rhufeinig.*

Heb fod yn mhell oddi yma, yn y tir cauedig, cefais hen wersyll Rhufeinig ardderchog, mewn safle dra phriodol, sef man o ba un y ceid golwg eang ar y wlad, mewn rhan yn lefel, ac mewn rhan yn llechweddu oddi wrtho, ac yn amddiffynfa i nifer o fylchau i'r gorsafoedd llai yn y rhandir fynyddig yma. Amddiffynir ef â ffos a chlawdd, ar yr olaf y mae olion mur:‡ yn agos i un pen y mae bryncyn mawr o bridd; y mae yn doredig, ac yn geuol yn y canol, oherwydd symudiad ymaith y ceryg a ffurfient yr amddiffynfa; o gylch ei waelod y mae ffos ddofn. Gelwir y gwersyll yma *Tomen y Mur;* ceir bathynau ac ystenau mor fynych oddeutu y lle hwn ag yn y lle a nodasom yn flaenorol. Y mae Sarn Helen yn rhedeg iddo yn un pen, a pharheir hi yn mlaen hyd Rhyd yr Halen, yn mhlwyf Ffestiniog, a chydag ochr y Fannod Fawr, dros fferm a elwir Cae Du, i Ffridd y Dduallt, at y rhan uchaf o fferm a elwir Croesor, yn mhen uchaf Cwm Croesor, a thrwy Gae Ddafydd, yn Nanmor, ac efallai i Ddinas Emrys. Y cangenau ydynt luosog: nis gallaf am foment lai na meddwl fod un yn pwyntio, trwy Gastell Dolyddelen, at Gaer Hen, neu Conovium; a'r un trwy Bont Aberglaslyn, a'r Gymwynas, gellir meddwl ei fod yn un arall, yn pwyntio at Segontium (Caernarfon). Yr wyf wedi crybwyll am Ffordd Helen o'r blaen, yn mysg mynyddoedd y Berwyn; gadawer i mi ychwanegu y rhai a gofnodir gan y nodiedydd ar Camden, yn Llanbadarn Odyn, sîr Aberteifi; ac o Frycheiniog i Gastellnedd, sîr Forganwg, y rhai ydynt yn myned ar enw yr un dywysoges.§

*Lle amgauedig hirgrwn.*

Yn ymyl ochr y ffordd, ar y commins, ychydig o bellder oddiwrth y gwersyll, y mae lle hirgrwn amgauedig, oddeutu 36 o latheni o hyd, a 27 o led yn y canol, ac yn cael ei amgylchynu gan glawdd uchel, ond heb ffos. Y mae dwy fynedfa i fewn iddo, y naill gyferbyn a'r llall; ac yn agos i un pen y mae yn ymddangos fel pe buasai darn o hono wedi ei dori ymaith gan wâl, sylfeini yr hon sydd yn aros eto.

*Llan Elltydd.*

Troais yn ol o blwyf Trawsfynydd, ar hyd y ffordd brydferth y bum hyd-ddi y diwrnod cyn hyny, nes cyrhaedd *Llan Elltydd*, pryd y cedwais ar ochr y bryn, uwchlaw y dyffryn sydd yn arwain i'r Abermaw. Y mae y daith yn dra phrydferth; y dyffryn yn cael ei ddyfrhau

* Tybiaf mai *Llyn Strallyn* ydyw hwn, lle y mae y gair diweddaf yn sefyll am *Ystrad y Llyn;* felly golyga yn llythyrenol, *Llyn Ystrad y Llyn*. J. R.

† Br. Zool. iii. tab. xlviii.

‡ Yn mhlith adfeilion y gwersyll, cafwyd cerfiad, yn hysbysu, fel y dywed Mr Brand, fod "pedair troedfedd ar bymtheg ar hugain o'r mur wedi eu hadeiladu gan y *Century of Ardesus.*" Archæologia, vol. xiv. pl. 10, fig. 2, App. p. 276. Gol.

§ Camden, ii. 790.

Digitized by Google

gan y Maw (ond yma ei hunig enw yw yr Afon,) yr hon sydd yn lledu fel y dyneswn at y môr; yr ochrau yn cael eu britho â choedwigoedd, a'u terfynu gan y bryniau. Cefais dref fechan *Abermaw* yn sefyll wrth fôn rhyw fynyddoedd uchel, a'r tai wedi eu gosod hyd yr ochrau sythion, y naill uwchlaw y llall, yn y fath fodd fel ag i roddi cyfleustra i'r rhai uwchlaw edrych i lawr cyrn simneiau y tai islaw iddynt. Saif y dref yn ymyl y môr, ar enau yr afon Maw, neu Mawddach; a chymer ei henw (Cymraeg a Saesoneg) oddiwrth yr amgylchiad hwnw. Pan fyddo y llanw i fewn, y mae yn gwneyd mor-gilfach yn y lle hwn, oddeutu milldir ar ei thraws; ond y mae y fynedfa iddi yn beryglus, ar gyfrif y niferi o draethelli tywod. Dyma borthladd sîr Feirionydd; ond nid yw yn cael ei fynychu yn gymaint ag y dylid, oblegyd nid yw y trigolion yn amcanu gwneyd masnach ar raddeg fawr, ond gwerthant eu nwyddau trwy ddwylaw prynwyr, y rhai a gymerant ymaith y rhan fwyaf o'r enill o ddwylaw y brodorion a ddylasent ei fwynhau; er hyny y mae llongau yn dyfod yn achlysurol i gyrchu y gwlaneni; a hysbyswyd fi fod, ychydig flynyddoedd yn ol, werth deugain mil o bunnau o honynt, a deng mil o bunnau o hosanau, wedi cael eu hanfon allan mewn blwyddyn. Gwerthir llawer o'r gwlaneni i Yspaen, ac oddiyno anfonir hwy i'r America Ddeheuol.

*Abermaw.*

O fewn ychydig flynyddoedd yn ol yr oedd yn aros weddillion hen dŵr, yn mha un yr arferai Harri, iarll Richmond, ymguddio pan y delai drosodd i ymgynghori â'i gyfeillion yn mherthynas i'r goresgyniad amcanedig. Hynodir ef mewn darn barddonol o'r oes hono, a chymharir ef, o ran nerth, i Dŵr Rheinallt, gerllaw y Wyddgrug.*

Mewn ymweliad blaenorol â'r lle hwn,† darfu i gywreinrwydd fy arwain i wneyd ymchwiliad i wirionedd hanes tra rhyfedd am ddynes yn mhlwyf Cylynin, yr hon oedd wedi ymprydio am amser goruwchnaturiol o hirfaith. Cymerais gwch, a chefais fordaith o'r fath hyfrytaf i fyny yr afon, yn cael fy swyno gan brydferthwch y gleuydd, yn dryfrithedig gan goedwigoedd, porfeydd gwyrddlas, a meusydd ŷd. Glaniais, ac wedi cerdded am ychydig, deuais o hyd i wrthddrych fy ymchwiliad mewn fferm o'r enw Tyddyn bach. Ei henw oedd Mary Thomas, ac yr oedd yn cael ei hyrddio yma, a'i chadw gyda thiriondeb a glanweithdra mawr. Yr oedd yn saith mlwydd a deugain oed, o wynebpryd da, yn llwydaidd iawn, yn deneu, ond nid wedi gwywo cymaint ag a allesid ddysgwyl, oddiwrth ddyeithrwch yr amgylchiadau ag y bwriadaf eu cofnodi; yr oedd ei llygaid yn weiniaid, ei llais yn isel; y mae wedi colli gwasanaeth ei choesau, a chedwir hi yn gwbl yn ei gwely: y mae curiad ei gwaed yn lled gryf, a'i synwyrau yn glir a diruadol.

*Dynes yn Ymprydio.*

Wrth i mi ei holi, hysbyswyd fi iddi gael, pan tua saith mlwydd oed, ryw doriadau allan yn ei chroen, tebyg i'r frech goch, y rhai a ddaethant yn gydlifol a chyffredinol; ac iddi ddyfod mor ddolurus fel nas gallai oddef y cyffyrddiad lleiaf: cafodd raddau o esmwythâd trwy gymhwysiad croen dafad, newydd ei dynu oddiar yr anifail. Wedi hyn, ymaflwyd ynddi yn y gwanwyn ac yn nghwympiad y dail, â chwyddiadau ac enyniadau, yn ystod pa amser yr oedd yn gorfod cadw ei gwely; ond ar adegau gallai gerdded o gwmpas, ac aeth unwaith mor bell a Threffynon, mewn gobaith o gael iachâd.

* Gwel tudal. 211 o'r gwaith hwn. † Gorph. 18fed, 1770.

Digitized by Google

Pan oedd oddeutu saith mlwydd ar hugain oed, ymosodwyd arni gan yr un anhwyldeb, ond mewn dull llawer llymach; ac yn ystod dwy flynedd a haner, bu yn gwbl annheimladwy, ac heb gymeryd un math o ymborth, er y byddai ei chyfeillion yn agor ei genau gyda llwy, i gael rhywbeth i lawr; ond y foment y tynid ymaith y llwy, byddai ei dannedd yn cau, gyda chlec arswydus a grym mawr: yn ystod yr adegau hyny, arferai daflu i fyny ddognau mawr o waed.

Y mae yn cofio yn dda am ddychweliad ei synwyrau, ac adnabyddai bawb o'i hamgylch. Nid oedd yn tybied ei bod ond wedi cysgu noswaith, a gofynai i'w mam a oedd wedi cael rhywbeth i'w fwyta ddoe, am y teimlai ei bod yn dra newynog. Dygwyd cig o'i blaen, ond yr oedd mor bell oddiwrth gymeryd dim sylweddol, fel na allodd lyngcu ond llwyaid o faidd teneu. O'r amser yma, bu am saith mlynedd a haner heb brofi un math o ymborth na gwlybwr, heblaw digon o'r olaf i wlychu ei gwefusau. Ar derfyn y cyfnod hwn, tybiodd fod arni chwant bwyd, a gofynodd am ŵy, o ba un y bwytaodd oddeutu cymaint a chnewyllyn cneuen. Oddeutu yr adeg yma, arwyddodd ddymuniad am gael y sacrament; yr hwn a weinyddwyd iddi, trwy fwydo briwsionyn o fara mewn ychydig win. Ei hymborth yn bresenol ydyw mymryn bach o fara, a llonaid gwydryn bychan o ddwfr; weithiau lwyaid o win: ond y mae yn fynych yn ymatal am ddyddiau cyfain heb un math o ymborth na diod. Anesmwyth y mae yn cysgu: ac nid yw gweithrediadau cyffredin natur ond bychain. Hysbyswyd fi gan yr un a weinyddai arni, fod ei thueddfryd meddyliol yn dra thawel; ei thymher yn rhywiog; a'i bod yn dra chrefyddol, ac yn neillduol o wresog mewn gweddi—effaith naturiol hir ymataliad oddiwrth fwyd, ac ymroddiad parhaus ei meddwl oddiwrth bob amgylchiadau bydol. Y mae ar yr adeg hon (1786,) yn parhau yn yr un sefyllfa, ac yn cadw at yr un reol o ymborthi.*

Nid yw yr engraifft yma o ddylanwad afiechyd (canys nis gellir ei alw yn ddim arall) heb rai ereill o gyffelyb natur.

Y cyntaf ydyw achos boneddiges, ar yr hon y gweinyddid gan y diweddar Ddoctor Gower, o Chelmsford, yr hon a gaethiwyd i'w gwely am ddeng mlynedd,

* Y mae Mary Thomas yn fyw o hyd (Rhagfyr 1809); ond y mae er's peth amser yn cymeryd cymaint o ymborth ag a ddysgwylid i ddynes yn yr oedran mawr o 85 ei gymeryd, yn ystod 65 o ba rai y mae wedi cadw ei gwely. Ei synwyrau ydynt berffaith glir; yn 1806, yr oedd yn cofio ac yn siarad gyda boddhad am ymweliad Mr. Pennant â Chylynin.

Y mae achos cyffelyb o ymprydiad yn myned yn mlaen yn bresenol yn Tutbury, sir Stafford, yn mherson un Anne Moore; y manylion am yr hyn a gyhoeddwyd yn y "*Medical Journal,*" am fis Tachwedd, 1808, gan Mr. Robert Taylor, yr hwn a fu unwaith yn feddyg rheolaidd, a chan ysgrifenydd dienw yn y "*Medical Observer*" am fis Mawrth, 1809. Dywed y boneddwr blaenaf "iddi glafychu Tachwedd 4ydd, 1806; ac o'r amser hwnw hyd fis Mawrth, 1807, ni chymerodd fwy na haner owns yn feunyddiol o gynaliaeth, a'r rhan fwyaf o hwnw yn dê. O Ebrill 14eg, yn yr un flwyddyn, cyfyngwyd hi i'w gwely yn barhaol. Mai 20fed, llyngcodd damaid o deisen, ond bwriodd ef i fyny yn ddiatreg, gyda chyfog a thaflu gwaed; ac yn niwedd Mehefin, bwytaodd ychydig o *gurrants* duon; o'r adeg hono ymgynaliai ar ddogynau bychain o dê a gwlybyron. Medi 18ed, 1808, ydoedd y pymthegfed dydd yn ystod y rhai ni chymerodd un math o gynaliaeth o gwbl, a'r pedwerydd mis ar ddeg y bu heb gymeryd dim ymborth sylweddol."

Yr ysgrifenydd arall, yn mhlith amryw fanylion dyddorol, a ddywed "iddi fod am y deuddeng mis blaenorol i Awst, 1808, heb ddim mymryn o ysgothiad allan o'i chorph; a thrachefn, ar y 23ain o Ionawr, 1809, yr oedd wedi byw am ddeunaw wythnos a phum' diwrnod heb brofi cymaint a dyferyn o ddwfr!"

Hysbysir y golygydd, ar yr awdurdod oreu, fod Anne Moore yn parhau o hyd yn yr un cyflwr truenus, ac mor deneu, fel, wrth wasgu ar ei bol, nid oes braidd ddim olion ymysgaroedd i'w teimlo. GOL.

Digitized by Google

yn ystod pa amser yr oedd ganddi wrthwynebiad eithafol a pharhaus i bob math o ymborth sylweddol. Yfai beint o dê yn feunyddiol; ac unwaith yn ystod tridiau neu bedwar, cnoai ychydig *raisins* neu almonau gwynion, rhyw bedwar neu haner dwsin o bob un: ond ni byddai byth yn eu llyngcu. Anaml y byddai yn bwyta yn amlach nag unwaith yn y mis, a'r pryd hyny fymryn o fara sych, o faint cneuen; ond yn fynych llwyr-ymwrthodai â phob math o fwyd am wythnosau gyda'u gilydd. Adferwyd y foneddiges hon i'w chynefin iechyd, ond nid heb y sylw manylaf i'w hymborth, o dan arolygiaeth y meddyg, fel y gallai gerdded dwy filldir heb orphwys na chymeryd adgyfnerthiad.

Cyfeiriaf fy narllenydd am yr engraifft arall at fy *Nhaith yn Ysgotland*, yn 1769,* yn amgylchiad Katherine Macleod, yn sir Ross; ac yn olaf, gallaf grybwyll am Martha Taylor, o ——, yn agos i Bakewell, yn sir Derby, yr hon ni chymerodd un math o ymborth, o'r 22fed o fis Rhagfyr, 1C39, am dri mis ar ddeg, heb gymeryd dim, yn ystod yr holl amser hwnw, heblaw ychydig ddyferion o *syrup*, dwfr a siwgr, neu sudd *raisins* wedi eu rhostio. Yr oedd hithau hefyd yn dra chrefyddol; yr oedd yn deneu iawn; ei dwylaw yn ystwyth; a'i harllwysiadau yn anarferol o fychain.†

*Evans y Consuriwr.* Bydd i mi yn awr grybwyll am berson hynod, arall, ond nid mor ddiniwaid â Mary Thomas, er ei fod yn byw yn yr un plwyf â hi. Serddewin hynod oedd hwn, a chnaf o'r fath waethaf. Ei enw oedd *Arise Evans*, cymeriad o rywogaeth y twyllwyr a fodolent yn y wlad hon mor gyffredin yn nheyrnasiad Elizabeth ac Iago I. Y mae ei ddarlun yn nghadw yn yr "Antiquarian Repertory," a chyfateba i'r dysgrifiad a roddir o hono gan ei ddysgybl galluog, *William Lilly*, yr hwn a ddywed fod ganddo dalcen llydan, aeliau duon, ysgwyddau tewion, trwyn fflat, gwefusau mawrion, edrychiad at y llawr, gwallt du cyrliog, a throed cam. Yr oedd yn astudiwr dwfn yn y *gelfyddyd ddu;* a sicrheir i ni gan Lilly fod ganddo y *dirnadaeth goreu yn naturiol am leidr*, a llawer o bethau ereill, a adnabu efe erioed; ei fod yn dra chydnabyddus â *natur ysprydion;* a'i fod lawer gwaith wedi ymarfer y *dull cylchog o'u codi.* Yna y mae yn ein hysbysu fel y darfu i'w gyfaill Evans ddwyn iddo ryw weithred, trwy gymhorth yr angel Salmon, yr hon a ladratasid oddiar un o'i gwsmeriaid, ac ar yr un pryd chwythu i fyny ddarn o dŷ y person yn meddiant yr hwn yr oedd: a thrachefn, am y modd y bu iddo, er mwyn boddhau cywreinrwydd arglwydd Bothwell a Syr Kenelm Digby, y rhai a ddymunent weled yspryd, agos a cholli ei fywyd, trwy gael ei gario dros afon Lundain, a'i fwrw i lawr gerllaw Battersea, gan yr ysprydion, y rhai a dramgwyddasai ar yr adeg pan yr oedd yn eu galw, *o ddiffyg gwneyd digon o fwg.*‡ Yr oedd twyll-weithredoedd gwrthun o'r fath yma yn cael eu cefnogi gan hygoeledd yr amserau; ac yr oedd y prif ddynion yn cael eu twyllo gan yr ymhonwyr hyn i wybodaeth gyfrin. Er mwyn dangos fod Cymru yn doreithiog o bob math o gymeriadau, rhaid i ni hòni hawl yn yr hynod *Ddoctor Sion Ddu*, a anwyd yn Nant y Croes,§ yn sir Faesyfed, ac ymofynid

* Vol. i. p. 186. Vol. iii. Appendix, N. iv. p. 391.

† Harleian Miscell. iv. 41. 55. Gwel *London Magazine*, 1762, p. 340, lle y mae engraifft arall o hir ddirwest.

‡ Yn hanes bywyd Benvenuto Cellini y ceir chwedl wrthun o gyffelyb natur.

§ J. D. Rhys, Cambr. Brit. Ling. Institut. p. 60.

Digitized by Google

âg ef gan y tywysogion penaf yn Ewrop. Ben Johnson, yn ei Chwareuaeth Ddigrifol ar yr Uwchfferyllydd *(The Alchemist)*, am dymhor a roddes ergyd mor farwol i'r gelfyddyd, ag a roddes Cervantes yn Yspaen i farchwriaeth; ond yn gymaint a bod awydd am arian a chywreinrwydd yn nwydau mor anhawdd eu gorchfygu, ymgododd drachefn gyda bywiogrwydd adnewyddol, a daliodd ei dir hyd amser yr Adferiad.*

Y mae *gwydr dangos* y Doctor Du yn meddiant Mr. Walpole: nid ydyw yn ddim amgen na dernyn o lo *canal*, wedi ei gaboli yn wych fel gwydr, a'i osod mewn ffrâm. Byddai yn ofynol i hwn gael edrych i mewn iddo gan ryw gyd-weithredydd, a mynegid tynged unrhyw ymofynydd diniwaid ar unwaith, oddi-wrth yr hyn y cymerai efe arno ei fod wedi ei weled yn y gwydr. Yr oedd hwn yn wahanol i'r *gareg ddangos* a'r *maen sanctaidd*,† yr hon ydoedd belen wedi ei ffurfio o risial, a'i chaboli yn brydferth a rhyfeddol, mewn amseroedd pan nad oedd gwasanaeth haiarn yn adnabyddus. Edrychid i mewn i'r cyfryw gan fachgen diwair, a'r Derwydd oedd i hysbysu tynged yr ymofynydd oddi-wrth ei adroddiad ef. Bu hwn yn cael ei ddefnyddio am hir amseroedd ar ol dyddiau Derwyddiaeth; oblegyd cafwyd un yn meddrod Childeric, brenin Ffraingc, yr hwn a fu farw yn 480.‡

Wedi dychwelyd i'r Abermaw, aethum yn mlaen am beth amser ar hyd glân y môr, yn nghanol traethau symudol o dywod. Myned gerllaw *Cail Wart*, heibio i gareg, yr hon a wasanaetha yn awr fel pontbren, ar ba un y mae y cerfiad canlynol:—*Hic jacet* Calixtus *Monedo Regi.* Nid oes y traddodiad lleiaf o ba le y daeth y gareg hon.

*Cors-y-gedol.*] Esgyn i fyny o lân y môr i *Cors-y-gedol*,§ hen balasdy y *Vaughans*, lle y croesawyd fi am amryw ddyddiau gan y di-weddar William Vaughan, ysw., yn ol dull hen farwn o'r amser gynt. Y mae y coed o gwmpas y tŷ yn eang, ond y mae gwynt y gorllewin yn effeithio arnynt yn rhyfeddol; eu brigau wedi eu heillio yn gwbl wastad, a'r cangau wedi eu cydwau fel ag i ffurfio un arwynebedd clòs ac anhydraidd.

Nid oes ond ychydig o leoedd yn mha rai y mae cymaint o gyflawnder o hynafiaethau Prydeinig, ag amgylchoedd Cors-y-gedol. Yn gyntaf, ymwelais

*Craig y Ddinas.*] â *Chraig y Ddinas*, sef copa bryn, yr hwn a amgylchynid gan grug anferth o geryg, adfeilion mur, y rhai, mewn llawer o fanau, a arddangosent arwyneb rheolaidd a gwastad: hwn, ac ereill cyffelyb, ydynt yr amrywiadau cyntaf oddiwrth yr hen waliau ceryg, yn flaenorol i'r gwelliant mewn saernïaeth a gynyrchwyd trwy ddefnyddio morter. I mewn i hwn y mae mynedfa wyrgam, wedi ei gwynebu â cheryg ar y ddwy ochr; a cherllaw iddo y mae dwy gaerfa o geryg. Y mae y cyfan ar lethr crog y bryn, yn agos i ba un y mae bwlch i fyned i mewn i'r wlad.

*Llyn Bodlyn.*] Oddeutu milldir yn mhellach ymlaen y mae *Llyn Bodlyn*, llyn bychan o dan glogwyn uchel, yn llawn o'r pysgod a elwir tor-

* See Lilly's Life *passim*. † Doctor Woodward's Method of Fossils, i. 30.

‡ Gwel fy Nhaith yn Ysgotland, 1769, 3ydd arg. tudal. 115. Y mae yn fy meddiant dri o'r cywreinion hynafol hyn, y rhai a brynais yn arwerthiant duges Portland, Ebrill 28ain, 1786. Rhif 453 yn y catalôg.

§ Y mae yr ystâd yma, trwy etifeddiaeth, yn awr yn rhan o ystadau cang Syr Thomas Mostyn, barwniad. Gol.

Digitized by Google

gochiaid, y rhai a gymerant abwyd, a pharant ddifyrwch mawr i'r genweiriwr. *Llyn Cwm Hywel* sydd un arall yn y gymydogaeth hon, ag sydd yn hynod am ryw frithylliaid anffurfiol yn eu penau (gwelais hwynt fy hun,) y maent yn dewion, fflat, ac ar ffurf llyffantod duon; yr hyn, fe ddichon, a roddodd ddechrouad i hanes chwedleuaidd Giraldus am y rhywogaeth erchyll a gofnodir ganddo ef.

*Llyn Irddin.*] Wedi myned heibio *Llyn Irddin*, dernyn bychan o ddwfr, ar wastadedd, yr ydym yn dyfod i gynulliad rhyfeddol o hynafol bethau Derwyddol. Ar y gwastadedd y mae dau gylch. Y mae y blaenaf *Cylchau o Geryg.*] oddeutu 56 troedfedd o drawsfesur, wedi ei ffurfio o grugau o geryg rhyddion, gyda cholofnau unionsyth, wedi eu gosod yn y pellder o bum' llath oddiwrth eu gilydd, yn barau, fel ag i rannu yr holl gylch yn bedair rhan o'r braidd. Oddeutu deg llath ar hugain oddiwrth hwn, y mae un llai, gydag amryw feini unionsyth yn mysg y rhai llai, ond nid wedi eu gosod mor reolaidd. Bwriad, nid damwain, yn ddiau a arweiniodd adeiladwyr y cylchoedd hyn yn ngosodiad y colofnau ceryg; ond y mae arnaf ofn, pan y deuaf i siarad yn fwy cyflawn am danynt, y bydd raid i'r achos aros o hyd yn guddiedig, ar gyfrif pellder yr amser, yn gystal â dirgelion yr offeiriadaeth hynafol.


Haner milldir i'r dehau oddiwrth y rhai hyn, ar ochr bryn, y mae dwy o garneddau, o faintioli aruthrol, yn cynwys cynulliad anghyffredin o ddefodau, *Carneddau Hengwm.*] neu grefydd, y Derwyddon, yn y ffurf o *Gromlech, Maen Hir*, a *Chistfaen*. Y mae y ddwy yma o ffurf hirgul, ac wedi eu llunio o geryg rhyddion; y fwyaf yn 55 troedfedd o hyd, ac yn 12 troedfedd o uchder yn y canol. Yn y pen dwyreiniol y mae cromlech fawr, yn cael ei ffurfio o ddwy gareg ogwyddol, y naill wedi ei gosod ar ymyl y llall, ar bump o geryg fflat ar eu penau, saith droedfedd o uchder mewn un man, a phedair troedfedd a deng modfedd yn y lle isaf. Oddeutu wyth lath oddiwrth hon y mae careg uchaf cromlech, yn gorwedd yn fflat ar y garnedd, heb unrhyw gynaliaeth arall, yn ol pob ymddangosiad.

Un llath ar ddeg yn mhellach y mae crug anferth arall o geryg, ac ynddo gromlech fawr, yn cael ei chynal gan feini unionsyth. Y mae yn bresenol wedi ei gwneyd yn gilfach i fugail, yr hwn sydd wedi gosod eisteddleoedd ceryg o'i mewn, ac wedi ffurfio simnai trwy y ceryg rhyddion uwchben. Yn yr un garnedd, ychydig yn fwy ymlaen, y mae cromlech ardderchog arall, careg orweddol pa un sydd yn ddeuddeg troedfedd wrth naw; pedair o golofnau mawrion, neu feini hirion, tair wedi syrthio yn bresenol, ac un yn sefyll yn syth. Y mae y colofnau o'r uchder o ddeg troedfedd a phedair modfedd i ddeuddeg troedfedd ac wyth modfedd, a phob un o bedair i bum' troedfedd o led.

Ar du y gogledd-orllewin i'r cywreinion hynafol hyn, ar gopa bryn, y mae *Castell Dinas Cortin.*] gorsaf gadarn, a elwir *Castell Dinas Cortin*, wedi ei hamddiffyn â ffos oddiamgych; gyda gwaith rhag-gaerol ar un ochr. Diameu fod hon, a *Chastell Craig y Ddinas*, wedi eu ffurfio fel amddiffynfeydd i'r tir cysegredig, yr hwn a ddysgrifiwyd uchod. Gallaf ychwanegu un gwrthddrych arall o amddiffyniad, o'r un natur, pan y cyfarfyddais, ar fy nychweliad i Gors-y-gedol, â dwy o gromlechau mawrion ereill, wedi eu

Digitized by Google

Digitized by Google



PASS OF DRWS ARDUDWY.

Digitized by Google

goeod ar fryniau bychain, y naill yn agos i'r llall; ac oddifewn i un o honynt yr oedd pum' llechen berthynol i *Gistfaen*, y pen uchaf iddi wedi cael ei ddinystrio. Y mae y lle yn fwy hynod ar gyfrif ei enw, *Bryn Cornyn Iau*, wrth yr hwn enw y mae cymydogion y cywreinion hynafol hyn yn hoffi ei alw. Y mae yn llawer tebycach mai lle i aberthu ydoedd, cyn neu ar ol yr helfa, ac iddo

*Cernunnos.*

gael ei enw oddiwrth y duw corniog *Cernunnos*, yr hwn a addolid gan y Galiaid, a gweddïent arno fel amddiffynydd rhag y peryglon a ddylynent y difyrwch hwnw.* Yr un grefydd gyffredin oedd gan y Galiaid a'r Brytaniaid; fel y buasai yn llawn mor resymol i Cernunnos gael ei ystyried yn meddu lle yma yn gystal ag yn Ffraingc.

*Cromlechau.*

Y mae y gymydogaeth hon hefyd yn llawn o *Gromlechau* o faintioli mawr iawn. Mesurais un, ar dyddyn a elwir Bryn y Foel, yr hon oedd yn un droedfedd ar bymtheg a phedair modfedd o hyd, saith droedfedd a phedair modfedd o led, ac ugain modfedd o drwch. Gorweddai oddeutu dwy droedfedd uwchlaw y llawr, yn cael ei chynal gan geryg mân, ac amgylchynid hi gan gylch o geryg rhyddion. Y mae y rhan fwyaf o Gromlechau yr ardaloedd hyn yn gorwedd yn agos iawn i'r ddaear, ac yn hyny y maent yn gwahaniaethu oddiwrth eiddo lleoedd ereill. Y maent hefyd yn gorwedd yn llorweddol, yr hyn a ddengys fod eu dyben, beth bynag a allasai fod, yn wahanol.

Y mae y wlad hon yn nghantref Ardudwy. Y fynedfa iddi sydd o Drawsfynydd, a gelwir hi yn *Ddrws Ardudwy*, yr hwn sydd wedi ei

*Drws Ardudwy.*

ffurfio gan natur trwy y mynyddoedd diffrwyth, y rhai a wahanant y rhandiroedd. Cefais fy nhemtio i ymweled â'r bwlch nodedig hwn, a chefais fod ei arswydolrwydd yn llawer mwy na'r meddylddrych mwyaf pruddglwyfus a allesid ffurfio am dano. Ymddangosai yr ochrau fel pe wedi eu rhwygo gan ryw gyffroad nerthol i fil o glogwyni, yn ffurfio ar eu topiau gyfresi o aelgerthi, yr hyn a barodd i'r gwladwyr, gan eu cymharu i resi o golomendai, eu galw yn Gareg y Colomenod. Y mae gwaelod y bwlch hwn wedi ei orchuddio â dylif o geryg, y rhai ydynt wedi dyfod i lawr o'r ochrau; ac ar hyd-ddo y mae llwybr cul i farch, ar y graig lithrig, yr hwn a ffurfiwyd trwy symud ymaith rai o'r darnau, y rhai, mewn manau ereill, ydynt ar ffurf grisiau sythion a pheryglus; ac wedi y cwbl, fel pe na buasai anhawsderau naturiol a chelfyddydol y ffyrdd hyn yn ddigon i beri i'r gormeswyr ddychrynu, y mae, mewn un lle, olion mur, yr hwn a gyrhaeddai ar draws y bwlch, yn mha un y gallai fod y drws a roddodd enw i'r lle.

*Maes y Garnedd.*

Ar fy nychweliad, ymwelais â thŷ cyffredin, a elwir *Maes y Garnedd*, lle genedigol y milwriad Jones, yr hwn y bu iddo law yn merthyrdod ei frenin; ac am ei drahausdra tuag at foneddwyr y gymydogaeth y mae llawer o siarad hyd heddyw, a hyny gyda thipyn o boethder. Wedi ei gynhyrfu gan benboethni, efe a ddylynodd yn gymhwys i bobman lle y gorchymynid iddo fyned gan yr addfwyn Cromwell; yr oedd yn swyddog milwraidd gwrol a llwyddiannus mewn achos a ddangosodd, mewn amser, nad oedd ond cynyrch uchelgais, a sylfaen gorthrymder.

Oddiar rai o'r uchelfanau wrth farchogaeth hyd y manau hyn, cefais lawn

* Religion de Gaulois, ii. * 85.

Digitized by Google

olwg odditanaf (oblegyd yr oedd yn drai,) ar y rhês hir o dywod a graian, yr hon a red o'r arfordir hwn am ddwy filldir ar hugain allan i'r môr. Priodol y

*Sarn Badrig.*

gelwir hi *Sarn Badrig*, neu *Badrhwyg** (sarn yn dryllio badau,) oherwydd y nifer mawr o longau sydd wedi eu colli arni. Y mae y draethell yma yn sych ar ddistyll, ar yr adeg y byddo y llanw uchel *(spring tides)*, a nodir hi mewn ystormydd gan frasdonau arswydus. Dywed traddodiad, fod yr holl barth yma o'r môr, ar un adeg, yn gantref preswyliedig, a elwid Cantre'r Gwaelod; ac iddi gael ei orlifo gan y môr oddeutu y flwyddyn 500, yn amser Gwyddno Goronhir.

Dygwyddodd damwain gyffelyb ar forlenydd Essex, mewn rhyw gyfnod pellenig o amser. Rhaid i ganonwyr St. Paul fod yn feddiannol ar brebendari cyn y gallent ddyfod yn berchenogion trigiannol y fywioliaeth eglwysig; a'r un a roddir iddynt yn gyffredin ydyw, Y *præbenda consumpta per mare*,† yr hon a orweddai ar forlenydd y wlad hono.

O Gorsygedol, aethum yn mlaen ar fy nhaith tua Harlech; ond, ar y ffordd, temtiwyd fi gan fy nghydymdeithydd cyson, y parchedig John Lloyd, i fyned allan o fy ffordd i ymweled â châr agos iddo ef, yr hwn a drigianai rai millldiroedd ar ein llaw ddehau, yn ei hynafol diriogaethau, *Cwm Bychan*. Aethom tuag yno trwy Glyn Artro, dyffryn bychan, yn cael ei ddyfrhau gan afon o'r enw hwnw, a choedwigoedd prydferth ar ei glenydd. Yr oedd yr olygfa at i fyny yn eithafol o brydferth, craig bigfain, gyda llwyn peraroglaidd o amgylch ei godreu; a thu hwnt i hyny ymddyrchafai y mynyddoedd noethlwm, y rhai a derfynent gyffiniau y lle y marchogem ato.

Ar ol myned trwy y coed, ac esgyn i *Ddinas Porchellyn*, yr oedd genym o'n blaenau ddiffaethwch gwyllt o greigiau a mynyddoedd caregog. Bu y rhandiroedd hyn, er eu bod yn ymddangos mor anffafriol i lysieuaeth, ar ryw adeg, wedi cael eu gorchuddio â derw hynafol; ac y mae ychydig nifer o honynt eto yn aros, rhwng wyth droedfedd a naw troedfedd o gylchfesur. Aethom yn mlaen o dan eu cysgod, uwchlaw rhaiadr cyflym, gyda golygfa ysplenydd o'n blaen o bont bren wirioneddol fynyddig, a melin fechan; ac ychydig yn mhellach yn mlaen, y mae bwa hynafol, wedi ei daflu o graig i graig, gan ffurfio mynedfa uwchlaw llyn du a llonydd, yn cael ei gysgodi gan goedydd. Rhydio yr afon drachefn gerllaw *Llyn y S[illegible]ph*. Dringo i fyny ar hyd llwybr grisiaog, a chyrhaedd o fewn cyflawn olwg *Cwm Bychan*, wedi ei fynwesu yn nghanol creigiau o uchder mawreddog. Ar ol marchogaeth am enyd, yn mhell uwchlaw llyn o'r un enw, disgyn, a chyrhaedd tŷ yr hybarch *Evan Llwyd*, yr hwn, gyda'i hynafiaid, a ymffrostiant iddynt fod yn arglwyddi y creigiau hyn er y flwyddyn 1100. Dichon fod y lle yma, a bwlch amddiffynedig *Drws Ardudwy*, yn cael eu dal gan feibion Cadwgan, yn eu hymgyrchoedd â meibion Uchtryd ap Edwyn, y rhai o'r diwedd a alltudiasant allan o'r wlad.

Rhoddaf yma, yn gymaint a'u bod yn wir achau Mr. Evan Llwyd, a'm cyddrafaelydd, y rhai ydynt blant dau frawd, ac yn dangos eu bod yn ddeuuawfed mewn disgyniad oddiwrth *Bleddyn ap Cynfyn*,—y gofrestr ganlynol, fel cynllun gwreiddiol o hen achyddiaeth Gymreig:—

* Y mae y Cymro cyffredin yn sefyll at *Sarn Badrig*, ac ni ŵyr ddim am *Badrhwyg*, nac am gwch o unrhyw fath o dan yr enw *bâd:* gadewir hyn i'r beirdd. J. R.

† "Y brebendiaeth a lyngcwyd gan y môr."

Digitized by Google

Evan ap Edward, ap Richard, ap Edward, ap Humphrey, ap Edward, ap Dafydd, ap Robert, ap Howel, ap Dafydd, ap Meirig Llwyd o Nannau, ap Meirig Vychan, ap Ynyr Vychan, ap Ynyr, ap Meirig, ap Madog, ap Cadwgan, ap Bleddyn ap Cynfyn, tywysog Gwynedd a Phowys.*

Cefais fy arwain i gwmpeini cynrychiolydd y fath linach hir a hon, yr hwn a roddodd i mi y derbyniad mwyaf croesawgar, ac yn ol defawd yr hen Frythoniaid. Croesawodd ni â chwrw a bîr cryf, i olchi i lawr y *goch yr wden*, neu afr wedi ei hongian a'i sychu, a chaws, yr hwn a wneid o laeth y fuwch a'r ddafad. Dangosodd i ni hefyd yr hen gwpan deuluol, wedi ei gwneyd o gŵd tarw, o'r hon yr yfasid traflyngciadau mawrion yn yr hen amser gynt. Byddai y teulu yn ystorio eu holl ymborth at y gauaf, am na byddai tramwy at y lle yn ystod y rhan fwyaf o'r tymhor hwnw, oblegyd yr eira. Yma y maent wedi byw am genedlaethau lawer, heb gynyddu na lleihau eu hincwm; heb glud trystfawr, na dim o'i gyd-ddylynyddion chwerw.

O'r tŷ hwn yr hanai y gwrol Dai Llwyd, i'r hwn y dywedir fod yr alaw Gymreig hono, *Ffarwel Dai Llwyd*, wedi ei chyfansoddi, ar yr achlysur o'i fynediad gyda Jasper Tudor,† ac Owain Lawgoch, i ymladd â Rhisiart Fradwr, wrth ba enw yr adwaenid Rhisiart III. gan y Cymry.

Y mae y palasdy yn engraifft gywir o breswylfod hynafol boneddwr Cymreig. Y dodrefn yn anghoeth: y mwyaf hynod o ba rai ydyw y *cistiau styffylog*, neu y cistiau mawrion at gadw blawd ceirch, yr hwn a gyfansoddai y rhan bwysicaf o'u hymborth.

Y tiriogaethau perthynol i'r palasdy a ymestynent am bedair milldir bob ffordd, a chynwysent lanerch fechan o ddoldir, llyn prydferth yn heigio gan bysgod, coedwig fechan, a llawer iawn o greigiau; y cyfan yn ffurfio golygfa o'r fath fwyaf mawreddog. Y mae y mynyddoedd noethlwm a gylchynant ei ddyffryn a'i lyn, yn ymdebygu i amchwareufa anferthol. Rhenir y dolydd gan ffrwd fechan, a therfynir hwy ar un ochr gan y llyn; ar y llall, gan ei goed, y rhai a gylchynant odreu y creigiau, trwy ba un y llifa yr afon, ac o'r tu hwnt iddynt ymdreigla o'r uchderau, mewn nifer o raiadrau. Y mae yn cadw ei holl diroedd yn ei ddwylaw ei hun; ond rhana ei holl wartheg yn mhlith yr *hafottai*, neu y tai lle y cedwir y llaeth yn yr haf, er mwyn y cyfleustra o edrych ar ol ei yroedd a'i ddiadelloedd: y mae wedi sefydlu ei etifedd ar ran arall o'i etifeddiaeth. Bu i'w uchelgais ar un adeg ei arwain i amcanu sychu y llyn, i'r dyben o ychwanegu ei feddiannau tirol; ond och! ni enillodd ond ychydig aceri o frwyn a chyrs; felly efe a roddes derfyn ar ei weithrediadau, ac a arbedodd ddernyn prydferth o ddwfr. Ar un ochr i'r llyn efe a ddarganfyddodd haen o bridd gwŷn prydferth, oddeutu haner llath o drwch, yr hwn y canfyddais nad oedd yn ddim amgen na'r peth a eilw ein mwnwyr yn *Lac Lunæ*, ac *Agaricus Mineralis*.‡ Y mae y Germaniaid yn ei ddefnyddio yn fynych fel cyffur sugniadol mewn rhyddni gwaed a thwymynau peryglus:§ a byddai iddo hefyd wneyd gwrtaith da.

* Y mae lluawa o deuluoedd parchus, yn y wlad hon, o'r un disgyniad.

† Yr oedd person o'r un enw gydag Owain Tudor yn mrwydr Croes Mortimer, a chafodd ei ddienyddio gydag ef. Gwel *Holinshed*, tud. 660.

‡ Amrywiaeth briwsionllyd o sialc neu *carbonate of lime*. GOL.

§ De Costa's Fossils, i. 83.

Digitized by Google

Y mae boncyffion a gwreiddiau ffawydd, o faintioli anferth, wedi eu cael yn fynych yn agos i'r llyn. Sylwodd Mr. Llwyd ar un, ac ôl tan arni, yr hwn a ddefnyddiodd i adgyweirio *Tyddyn y Traian*, tŷ cydetifeddol perthynol i'r teulu; hen attodiad arferol mewn cysylltiad â'r rhan fwyaf o'n palasdai Cymreig o unrhyw hynodrwydd.

Yn mysg y mynyddoedd a amddiffynant y Cwm, y mae un a elwir *Carreg y Saeth*, ar ymyl pa un y mae *Maen Hir* a *Charnedd* o faintioli mawr. Dichon y byddai yr hen helwyr yn sefydlu eu gorsaf ar y Gareg hon, i wylied y ceirw yn myned heibio, y rhai, yn y dyddiau gynt, oeddynt yn lluosog yn y parth hwn o'r wlad. Ac nid ydynt wedi darfod yma ond er's ychydig amser; hysbyswyd fy ngwesteiwr gan un o'r genedlaeth olaf, ei fod wedi gweled deunaw o honynt yn pori ar yr un ddôl, ar yr un adeg.

*Helwriaeth Hynafol.*] Yr oedd gan y Cymry amryw anifeiliaid a ystyrient yn wrthddrychau helwriaeth; megys y *carw; haid wenyn;* a'r *gleisiaid;* yr *arth;* y *dringhedydd* (anifeiliaid a arferent ddringo, megys cathod gwylltion, gwiwair, a'r cyffelyb, fel y tybiaf); a'r *ceiliog coed.* Y dosparth olaf oeddynt y *llwynog;* yr *ysgyfarnog;* a'r *iwrch.* Y mae rhai o'r cyfryw yn dyfod yn dra amhriodol o dan ein meddylddrych ni am hela, eto cynwysid hwy yn y gyfres berthynol i gyfraith hela, yr hon a ffurfiwyd, fel y tybir, gan y tywysog Gruffydd ap Cynan.*

Tybiaf hefyd, fod y dyfrgi yn cael ei hela; gan fod *Cylch Dyfrgwn*, neu daledigaeth blynyddol, yn mhlith y Cymry, am ddyfrgwn y tywysog.†

Y tair helfa gyntaf oeddynt *Helfa Gyffredin.* Cynwysai y carw, am ei fod yr ardderchocaf o filod helwriaeth; ac am y gallai pawb a ddeuent yno pan leddid ef, a chyn iddo gael ei flingo, feddu hawl mewn rhan o hono. Yr anifeiliaid nesaf oeddynt *Helfa Gyfarthfa*, neu yr anifeiliaid y gellid eu hela â chŵn, megys yr arth, &c., y rhai yr ymlidid ar eu holau nes y dringent i fyny i goeden. Yr aderyn a grybwyllir yma, ceiliog y coed, a eisteddai ar frigyn pren, lle yr edrychai ar yr helwyr, nes y saethid ef gyda'r bwa croes, yn ol dull yr hen amseroedd.


Y trydydd dosbarth ydoedd *Helfa Ddolef*, am y dylynid hi gyda gwaedd yr helwyr; a chynwysai y llwynog, yr ysgyfarnog, a'r iwrch. Arferid ei hela gyda chŵn, neu filgwn, y rhai a ollyngid at yr anifail, allan o gynllyfanau, yn y rhai y delid y cŵn. Nid oedd neb i ollwng ei filgi pan fyddai y cŵn yn ymlid, oddieithr fod ganddo filgi yn y cnud, o dan boen cael tori llinyn gàr ei filgi; ac nid oedd at ei ryddid i ladd unrhyw anifail hely pan fyddai yn gorphwys, neu ar ei wely, dan boen o fforffedio ei fwa a saeth i arglwydd y faenoriaeth. Pan y byddai amryw filgwn, eiddo amryw bersonau, wedi eu gollwng at unrhyw anifail, y neb ag y byddai ei gi yn nesaf at yr anifail, pan fyddai ddiweddaf yn y golwg, a hawliai y croen. Yr oedd gâst yn eithriad, oddieithr y gellid profi ei bod yn dòrog gan gi a enillasai groen yn flaenorol.

Yr oedd pob un a gariai gorn i roddi hanes gwyddonol am naw gwrthddrych yr ymlidfa; os amgen, edrychid arno fel ymhonwr, a fforffediai ei gorn. Yr oedd yr un ddirwy hefyd yn perthyn i'r gynllyfan; nid oedd mwyach i'w

* Lewis's Hist. Wales, Introd. 56. † Record of Caernarvon, Harl. MSS.

Digitized by Google

Digitized by Google



*CASTELL HARLECH.*

**HARLECH CASTLE**

Digitized by Google

gwisgo am ei ganol, dan boen ei cholli; ond er hyny caniatêid iddo ei gwisgo am ei fraich.

Ystyriai yr hen Gymry fod cig y carw, yr ysgyfarnog, y baedd gwyllt, a'r arth, yn brif foethusion yn mhlith anifeiliaid helwriaeth.

Yr oedd gan y tywysog ei *Bencynydd*, neu ei brif heliwr. Efe oedd y degfed swyddog yn y llys. Cynwysai ei swper un ddysglaid o gig; wedi hyny yr oedd i gael tri chorniaid o fedd, un gan y brenin, y llall gan y frenines, a'r trydydd gan oruchwyliwr y tylwyth. Nid oedd byth i gymeryd llw, ond wrth ei gorn a'i gynllyfan. Perthynai iddo y drydedd ran o ddirwyon ac enillion yr helwyr ereill; ac yr oedd ganddo yr unrhyw ran o'r *amobr*, neu ddirwy priodas, pan y byddai rhai o'u merched yn priodi. Ar ryw adeg bennodol o'r flwyddyn, nid oedd i hela ond dros y brenin yn unig: ar adegau ereill, caniatêid iddo hela drosto ei hun. Ei gorn ydoedd gorn ŷch, o werth punt. Yn y gauaf, caniatêid iddo groen ŷch, i wneyd cynllyfanau; ac yn yr haf, groen buwch, i wneyd socasau byrion.

Byddai gan y brenin hawl i hela lle y mynai; ond os ymlidid ar ol anifail, a'i ladd ar etifeddiaeth unrhyw foneddwr, ac heb gael ei ddylyn a'i hawlio y noswaith hono, gallai perchen y tir ei ddefnyddio at ei wasanaeth ei hun; ond yr oedd i ofalu yn dda am y cŵn, ac i gadw y croen.

Y gosp am ladd carw dôf o eiddo y brenin ydoedd talu punt; a rhyw ddirwy bennodol: os un gwyllt a fyddai, ac os lleddid ef rhwng rhyw ddiwrnod pennodol yn mis Tachwedd a dydd Gwylifan, y gwerth fyddai triugain ceiniog; ond byddai y ddirwy am ei ladd yn gant a phedwar ugain ceiniog. Yr oedd carw yn cael ei ystyried yn gydwerth âg ŷch; ewig yn gydwerth â buwch lawndwf; iwrch yn gydwerth â gafr; hwch wyllt yn gydwerth âg un ddof. Nid oedd dim gwerth ar bryf llwyd, am y byddai yn frechog mewn rhai blynyddoedd; nid oedd dim gwerth ychwaith ar fleiddiaid a llwynogod, ac anifeiliaid rheibus ereill, am y gallai y neb a fynai eu lladd; ac nid oedd dim gwerth ar ysgyfarnog ychwaith, a hyny am reswm tra hynod, am y credid y byddai yn newid ei hystlen bob mis.*

*Harlech.*] O Gwm Bychan cymerais y ffordd tua *Harlech*,† tref fechan a thylodaidd iawn, heb fod yn hynod am ddim ond ei chastell, yr hwn sydd yn sefyll ar graig serth, yn wynebu Mor y Werydd, ac uwchlaw morfa eang, yr hwn ar un adeg a orchuddid gan ddwfr. Hen enw yr amddiffynfa hon ydoedd *Tŵr Bronwen*, oddiwrth Bronwen, chwaer i Brân ap Llŷr, brenin Prydain. Mewn amseroedd ar ol hyny, gelwid hi *Caer Collwyn*, oddiwrth Collwyn ap Tango, un o bymtheg llwyth Gwynedd, ac arglwydd Eifionydd Ardudwy, a rhan o Leyn. Yr oedd ei wyrion yn blodeuo yn ystod teyrnasiad Gruffydd ap Cynan. Bu yn preswylio am beth amser mewn tŵr ysgwâr yn yr hen amddiffynfa, olion yr hwn sydd yn ddigon amlwg hyd heddyw; megys hefyd rhan o'r hen furiau, ar ba rai y mae y muriau mwy diweddar, mewn rhai manau, yn gorphwys.

* Leges Wallicæ, xxxix. 256 hyd 260.

† Y mae tarddiad diniwaid ar lafar gwlad am yr enw hwn, sydd yn ei wneyd yn *hardd-lech*—y gareg brydferth, neu yn hytrach y lechfaen brydferth. Scandinafaidd ydyw yr enw, a cheir ef yn *Hardlech*, *Hardelay*, a ffurfiau ereill, yr wyf yn credu. J. R.

Digitized by Google

Y castell presenol, yr hwn a adeiladwyd gan Iorwerth I., sydd adeilad ysgwâr ardderchog, gyda thŵr crwn yn mhob congl, ac un ar bob ochr i'r fynedfa i mewn, gyda mân-dyrau prydferth yn ymgodi o'r tyrau mawr crynion, yn debyg i'r rhai yn ei gastelli ereill yn Nghaernarfon a Chonwy. Gorphenwyd ef cyn y flwyddyn 1283; o leiaf, yr wyf yn cael allan mai can'punt yn y flwyddyn oedd cyflog Hugh de Wlonkeslow, y llywydd y pryd hwnw;* ond cafodd ei ostwng ar ol hyny; oblegyd ymddengys nad oedd y taliad blynyddol ond 26*l.* 13*s.* 4*d.*, a haner can'punt yn ol hanesion ereill, pryd y bernir ei fod yn cynwys cyflog y llywydd a chadben y dref. Nid oedd nifer y gwarchawdlu ond ugain, cyflog y rhai a gyrhaeddai i 140*l.*† Y cwnstabl‡ presenol ydyw Evan Lloyd Vaughan, ysw.; a'i gyflog ydyw haner cant o bunnau yn y flwyddyn, y rhai a delir allan o gyllidau Gogledd Cymru. Y mae yn anhygyrch ar yr ochr nesaf i'r môr; ar yr ochr arall amddiffynid ef gan ffos ddofn, wedi ei thori, ar draul fawr, allan o'r graig galed.

Yr oedd y lle yma, yn 1468, yn meddiant Dafydd ap Ieuan ap Einion, pleidiwr grymus i dylwyth Lancaster, ac mor hynod ar gyfrif ei wroldeb ag ydoedd oblegyd ei ymddangosiad hardd a'i daldra mawr.§ Gwarchaewyd arno yn y lle gan William, iarll Penfro, wedi ymdaith trwy galon ein mynyddau, gydag anhawsderau anghredadwy; oblegyd mewn rhai manau byddai raid i'r milwyr ddringo; ac mewn manau ereill, ymfwrw i lawr y creigiau;|| ond o'r diwedd gwarchaeasant ar y lle, yr hwn, hyd yma, a fernid yn anhygyrch. Gadawodd yr iarll ofal y gwarchae i'w frawd, Syr Richard, gwron cyfartal mewn maintioli a dewrder a'r llywydd Prydeinig. Anfonodd Syr Richard gais ato am iddo ymostwng; i'r hyn yr atebodd Dafydd yn hyderus, ei fod wedi cadw castell mor hir yn Ffraingc, nes yr oedd holl hen wragedd Cymru yn son am dano; ac y cadwai hwn mor hir nes y byddai holl hen wragedd Ffraingc yn siarad yn ei gylch. Newyn, ond odid, a'i gorfododd i ymostwng; rhoddes i fyny ar amodau anrhydeddus, ac ymrwymodd Syr Richard i gadw ei fywyd, trwy eiriol drosto gyda'i feistr creulawn, Iorwerth IV. Y brenin ar y cyntaf a wrthododd ei gais; pan y darfu i Herbert ei hysbysu y gallai gymeryd ei fywyd ef yn lle bywyd y penaeth Cymreig; neu ynte y byddai iddo roddi Dafydd yn ei ol yn y castell, ac y gallai y brenin anfon y neb a fynai i'w gymeryd allan o hono drachefn. Llwyddodd hyn; eithr ni chafodd Syr Richard unrhyw wobr arall byth am ei wasanaeth.¶

*Gwarchae arno.*

* Ayloffe's Welsh Calendar, 92. † Doddridge, 58.

‡ Delir y swydd yn bresenol gan Syr Robert Vaughan, bar. GOL.

§ Gwydir Family, 77.

|| Camden, ii. Gelwir y ffordd hyd heddyw, *Lle Herbert*. Yn canlyn y mae enwau yr amddiffynwyr dewrgalon:—

Dafydd ap Ieuan ap Einion.
Gruff. Fychan ap Ieuan ap Einion.
Siankyn ap Iorwerth ap Einion.
Gr. ap Ieuan ap Einion.
Tho. ap Ieuan ap Einion.
John Hanmer.
Dafydd ap Ieuan ap Owain o Bowys.
Rheinallt ap Gruff. ap Bleddyn, o'r Tŵr, gerllaw y Wyddgrug.
Mauris ap Dafydd ap Jeffre.
Dafydd ap Einion ap Ieuan Rymus.
Hywel ap Morgan ap Iorth Goch.
Ednyfed ap Morgan.
Thomas ap Morgan.
Sion Tudur, clerk.
Gr. ap Ieuan ap Iorwerth, yr hynaf.

¶ Life of Lord Herbert, 7, 8.

Digitized by Google

Digitized by Google



TORQUES.

Digitized by Google

Margaret o Aujou, priod ffyddlawn a bywiog yr addfwyn Harri VI., a gafodd noddfa yn y castell hwn, yn 1460, ar ol brwydr anffodus Northampton. Ffoasai ar y cyntaf i Coventry, ac oddiyno enciliodd i'r amddiffynfa yma:* wedi arosiad byr, aeth i Ysgotland, ac ar ol casglu yn nghyd ei holl garedigion yn ngogleddbarth Lloegr, arllwysodd ei holl ddialedd ar ei gelyn, y duc York, yn mrwydr Wakefield.

Newidiodd y castell ei feistri amryw weithiau yn ystol rhyfeloedd cartrefol y ganrif ddiweddaf. Amddiffynwyd ef yn ddewr gan yr uwchgadben Hugh Pennant, nes iddo gael ei adael gan ei wŷr. Yn y diwedd, cymerwyd ef, yn mis Mawrth, 1647, gan y cadfridog Mytton, pan yr oedd Mr. William Owain yn llywydd, ac nid oedd yr holl warchawdlu ond wyth ar hugain o wŷr. Cafodd yr anrhydedd o roddi i fyny ar amodau, ac o fod yr amddiffynfa olaf yn Ngogledd Cymru a ddaliodd allan dros y brenin.† Dywedir hefyd mai dyma yr amddiffynfa olaf yn Lloegr a ddaliodd allan dros dylwyth Lancaster.

Iorwerth I. a ffurfiodd Harlech yn fwrdeisdref, ac a roddodd iddi ryw dir-oedd pennodol, a meddiannau ereill.

*Torchau.*

Yn agos i'r lle yma y cafwyd y dernyn hynafol ‡ hwnw, ar ba un y mae y dysgedigion wedi barnu yn gymhwys rhoddi yr enw *Torques* (Torchau). Y mae yn cael ei ddysgrifio yn dda gan Camden, fel modrwy blethweol o aur, oddeutu pedair troedfedd o hyd, ac ynddi dair rhigol hydd-droellog, gydag ymylau miniog yn rhedeg ar ei hyd, at y penau, y rhai ydynt syml, byrion, a thröedig fel bachau crochan. Pa un a oedd hon yn gwbl Rufeinaidd, neu ynte yn gyffredin i'r ddwy genedl, nid âf i ymddadleu. Ei gwasanaeth ydoedd fel gwregys, i ddal yn brydferth gawell saethau y gwŷr mawr, yr hwn a grogai o'r tu ol iddynt wrth fach, a chroesai y dorch euraidd y ddwyfron, gan fyned dros yr ysgwydd. Y mae Virgil, yn ei ddysgrifiad prydferth o fabolgampau ieuengctyd Troia, yn arddangos yr ymarferiad o honynt yn y llinellau hyn a gamddeallir mor fynych:—

Cornea bina ferunt præfixo hastilia ferro:
Pars læves humero pharetras; it pectore summo
Flexilis obtorti per collum circulus auri.

Ysgydwai pobun waywffon uwch ben;
Ar gefnau'r lleill y cawell-saethau oedd
Yn crogi wrth aur-dorchau dysglaer pur.§

Yr oedd *torchau* y Gauliaid a'r Brytaniaid yn dra gwahanol i'r rhai hyn, gan mai coler ydoedd, o aur neu ryw fetel arall, a wisgid am y gwddf. Yr oedd gan ein gwrones *Buddug*, un fawr felly, o aur pur; a gwisgai *Virdomarus* un arall, yn cael ei sicrhau o'r tu ol gyda bachau, yr hon a syrthiodd i lawr pan y darfu i'r gorchfygwr dori ymaith ei ben.

Illi virgatis jaculanti ex agmine braccis
Torquis ab incisâ decidit unca gula ‖

* Carte, ii. 757. † Whitelock, 242. ‡ Yn bresenol yn meddiant Syr Roger Mostyn.

§ Y mae y cyfieithiad yma dipyn yn wahanol i'r un yn Camden, ii. 786.

‖ "Tra yr oedd efe, wedi ymwisgo mewn llodrau brithion, yn ysgwyd ei waywffon o flaen y fyddin, gwahanwyd ei ben oddiwrth ei gorph, a syrthiodd oddiam ei wddf ef aur-dorch gron." Propertius, lib. iv. eleg. x. v. 43.



Digitized by Google

Derbyniodd Manlius y cyfenw *Torquatos* (Aurdorchog) oddiwrth dorch a enillodd oddiar un o'r Gauliaid, yr hwn a laddodd efe, mewn ymladdfa lawlaw, yn ngolwg y fyddin; ac ni chafodd Publius Cornelius, wedi y lladdfa a wnaeth ar y *Boii*, yn mhlith yspail ereill, ddim llai na phedair mil a deg a thriugain o aurdorchau.*

Yr oeddynt mewn ymarferiad hefyd gan y Rhufeiniaid, y rhai a'u rhoddent fel gwobrwyon milwrol; ac yr oeddynt yn rhoddi y rhai aur, fel y mae Pliny yn cymeryd arno, i'r cynorthwywyr, a'r rhai arian i'r dinaswyr.† Dichon eu bod yn cael eu gwneyd mewn amrywiol ffyrdd: gwelais un dra phrydferth (yr wyf yn meddwl ei bod yn bresenol yn meddiant y parchedig Mr Prescot, o Gaergrawnt), wedi ei gwneyd o amryw ddolenau o wyfr arian, wedi eu nyddu droelli yn nghyd; yr oedd yn ddigon o hyd i fyned ddwywaith o amgylch y gwddf, gyda chlaspiau i'w dal yn ei lle.

Parhaodd yr arferiad o wisgo y Torchau o'r cyfnodau boreuaf yn Mhrydain hyd amseroedd diweddarach. Llewelyn, un o arglwyddi Iâl, a elwid *Llewelyn Aurdorchog* ar y cyfrif hwnw; ac y mae yr hen ddywediad cyffredin, *Mi a dynaf y dorch â chwi*, yn arwyddo y byddai i un ymdrechu yn galed cyn cael ei orchfygu.

O Harlech esgynais fryn tra syth, ac ar fy ffordd sylwais ar luaws o *feini hirion*, a chylchau wedi eu ffurfio o gerygos cyffredin, ac o wahanol dryfesurau; weithiau byddai cylch o fewn cylch; mewn manau ereill byddent yn croesi y naill y llall. Buaswn yn meddwl mai sylfeini *Cytiau y Gwyddelod* oeddynt, math o breswylfeydd am y tro, er cyfleustra yr helwyr, y rhai a wnelai ein hynafiaid‡ boreuaf, oni buasai eu bod yn croesi eu gilydd. Y mae y dysgedig Borlase yn rhoddi engreifftiau o hyny, yn nghylchoedd Botallek,§ y rhai y mae efe yn tybio iddynt gael eu ffurfio at ryw wasanaeth crefyddol; ac fod un gwasanaeth neu seremoni yn cael ei chyflawni mewn un cylch neillduol, a'r llall mewn rhanbarth wedi ei bennodi at hyny yn ol ofergoeledd y Derwyddon. Nid oedd niferi o gylchoedd yn gyfyngedig i'n hynys ni: y mae y barwn Dahlberg|| wedi rhoddi darluniau o gynulliadau tebyg, yn agos i dref Wexio, yn Smaland, yn Sweden, y rhai ydynt ar dir gwastad, wrth droed carnedd anferthol, gyda cholofn uchel, a glôb fawr o gareg ar ei phen. Y mae rhai colofnau ceryg, neu feini hirion, i'w gweled yn y rhesi o geryg a wnant i fyny y cylchoedd.

*Cytiau y Gwyddelod.*

Gelwir y garnedd yn *Garnedd y Brenin Ingo:* ond yn gymaint ag y dywedir fod y tri brenin a fu o'r enw hwnw yn Gristionogion trwyadl, ac yn byw yn yr unfed ganrif ar ddeg, tybiaf fod y garnedd a'r cylchau yn perthyn i amseroedd boreuach, ac wedi eu codi er coffadwriaeth am ryw deyrn paganaidd; oblegyd darfu i'r hen¶ Gristionogion gogleddol ddileu pob cyfryw arferion.

Rhaid i mi sylwi yma mai enw y lle hwn ydyw *Banllef Hir*, neu yr alwad i'r gâd. Dichon iddo fod yn faes brwydr, ac fod penaeth wedi syrthio yma, oblegyd y mae un o'r meini hirion o faintioli anghyffredin o fawr.

* Livij, lib. xxxvi. c. 40. † Pliny, lib. xxxiii. c. 2.
‡ Mona Antiqua. § Antiq. Cornwall, 188, tab. xiv.
|| Suecia Antiqua, &c., tab. 322. ¶ Wormii Mon. Dan. 4.

Digitized by Google

*Glyn.* Oddiyma y mae y ffordd yn anoddefol o ddrwg a charegog, nes cyrhaedd y *Glyn*, palasdy fy nghâr, Robert Godolphin Owen,* ysw.; yr hwn a saif mewn glyn rhamantus, gyda digon o goed o'i gwmpas. Buasai hwn yn breswylfod hen deulu y *Wynnes*, ond trosglwyddwyd ef i'r Oweniaid trwy briodas Syr Robert âg aeres y lle yn y ganrif ddiweddaf.

*Llyn Tegwyn.* Myned heibio i bentref *Llan Tegwyn*, a cherllaw i lyn bychan, yn llawn o'r planigyn dyfrol prydferth hwnw a elwir *Lili y dwfr*. Ychydig yn mhellach yn mlaen y mae *Llyn Tegwyn*, yr hwn a gyflawn deilynga yr enw, *teg* a *gwyn* (*fair and lovely.*)† Mesura oddeutu milldir o amgylchedd; y mae ei ddyfroedd o loywder grisialaidd; ei'lenydd yn llawnion; a'i derfynau yn ddestlus a glanwaith. Y mae y llwybr cul ar yr hwn y marchogem yn mlaen, uwch ei ben, wedi ei dori allan o allt, ochrau yr hon a gyfansoddir o lechfaen briwsionllyd, y rhai a ymdaflant allan mewn uchder mawr uwch ben, gan fygwth dinystr: bywiocêid yr olyfa yn fawr gan ddiadelloedd o eifr gwynion, y rhai a lament rhwng y copäau, ac a edrychent i lawr arnom gwbl ddigyffro.

O un o'r uchderau y mae golygfa fynyddig eang o flaen ein llygaid. Mynyddoedd aruthrol Arfon, a rhai Meirionydd, heb fod yn llawer llai, yn ffurfio y fath olygfa ramantus, ac yn ymddyrchafu megys wedi eu rhanu i dyrfa o benau creigiog. Y mae y rhai olaf yn neillduol o lwm, ac yn ymddangos yn gwbl noeth, oddieithr lle yr amrywir ·hwynt gan wyrddlesni mwsoglyd, neu y gwŷnir hwynt gan y *lichen tartaricus* (mwsogl Tartary). Y mae copa uchaf Eryri, yr hwn a elwir y *Wyddfa*, yn ymddyrchafu yn amlwg goruwch y cwbl. Oddiyno y mae y mynyddoedd yn lleihau yn raddol, hyd Leyn, yr hwn a ymestyna o flaen ein llygaid yn mhell i'r gorllewin, gan derfynu yn mhentir Aberdaron. Disgyn i lawr i nant ddofn, ochrau yr hon sydd wedi eu gwisgo *Felyn-rhyd.* â choed, gyda'r *Felyn-rhyd* yn y gwaelod; ond er ei henw, ffrwd mor ddued a'r inge ydyw; ac yn dra phriodol y galwyd y dwfr-ddisgyniad ardderchog ychydig uwchlaw iddi yn *Rhaiadr Du.*

Wedi marchogaeth am encyd fer, cyrhaedd pentref a chapel *Maentwrog*, yr hwn sydd yn ddibynol ar eglwys *Ffestiniog.* Yn agos i un pen y mae careg fawr unionsyth, a elwir Maen Twrog, oddiwrth sant o'r enw hwnw, mab i Cadfan, a'r hwn a adeiladodd eglwys Llandwrog, ac yr oedd yn cydoesi â St. *Tanybwlch.* Beuno. Gorwedda y lle yn nyffryn *Tanybwlch*, rhandir cul, ond prydferth, oddeutu tair neu bedair milldir o hyd, yn cael ei ranu gan afon fechan y Ddwyryd, yr hon a ffurfir gan y Cynfael a ffrwd arall, y rhai a ymunant tua'r pen uchaf. Cynwysa y dyffryn ddolydd breision; ei ochrau wedi eu hymylu â llwyni; a therfynir y lle tlws yma gan fynyddoedd clogwynog, megys pe byddai mewn clawr afrywiog. Yma y mae gwestty bychan prydferth, er lletya teithwyr, y rhai a ddylent deimlo yn dra dyledus i bendefig,‡ am y gwelliant mawr a dderbyniodd y lle trwy ei haelioni.

Uwchlaw iddo y mae tŷ, wedi ei fynwesu mewn coed, ac yn sefyll mewn lle prydferth ar ochr y bryn. Y mae y palasdy hwn, yn gymaint ag iddo newid

* Yn bresenol yn meddiant ei nith, merch ac etifeddes y diweddar Owen Ormsby, ysw. GOL.

† Seinir enw y sant yn bresenol yn *Tecwyn;* a siarad yn fwy diamwys, tybiaf mai y cyfieithiad i'r Saesoneg o Lyn Tecwyn a fyddai *Tecwyn's Lake.* J. R.

‡ Y presenol iarll Macsyfed.

Digitized by Google

ei berchenogion mor fynych o herwydd eu hymlyniad wrth y botel, wedi tynu llawer adsylwad moesol oddiwrth deithwyr Seisonig. "Y mae gan gwrw trwm, gludiog, ddigon o swynion i foddi synwyrau yr holl dywysogaeth;"* ond, gadawer i mi ychwanegu, wedi cyrhaedd gradd bennodol, y mae gwirod tanllyd yn cael eu galw i mewn, i gwblhau y dinystr a ddechreuwyd gan y blaenaf: eto yr wyf yn hyderu nad yw ei swynion yn boddi synwyrau yr HOLL dywysogaeth, ond y gallai fod, ar ol ymchwiliad teg, rhyw gongl yn glir oddiwrth y gloddest Bacchanalaidd.

Y mae yr afon, oddeutu y fan yma, yn ymledu fel ag i ddyfod yn lle rhagorol at bysgota gleisiaid; ac yn mhen ychydig y mae yn myned i fraich o'r môr, a elwir y *Traeth bach*.

Marchogaeth i fyny y dyffryn, ac yna disgyn, er mwyn cyfarfod llifiant y

*Rhaiadr y Cynfael.*

*Cynfael*, yr hon a ymarllwysa ei dyfroedd drwy geunant dwfn-gerfiedig gan amser, a'i ochrau yn gynwysedig o greigiau blaenllym ac ysgythrog am yspaid hir, yn cael eu tywyllu gan goedydd a enhuddant y cyfan, y rhai a darddant allan o'r ymylon a'r glanau. Yn agos i *Ffestiniog*, y mae rhaiadr arall, tra phrydferth, a chynwysa dri disgynfa o aruthredd mawr, yr olaf yn ymarllwys i lyn du a dwfn, yr hwn a argysgodir gan greigiau dibynol. Islaw, y mae craig golofnog ardderchog, yn ymgodi o'r conllif, yr hon a elwir *Pwlpud Hugh Llwyd Cynfael*. Yr oedd Hugh yn byw yn amser Iago I., a thybid ei fod yn ddewin, ac mai o'r fan yma y traddodai ei ddaroganau swyngyfareddol yn mherfeddiou y nos; lle mor gymhwys at y pwrpas hwnw, mae'n wir, ag ydoedd corbwll *Acheron*.

Oddeutu milldir oddiwrth yr afon Cynfael, y mae gwestty cysurus arall, yr hwn sydd wedi fy nerbyn i yn fynych, ar derfyn fy nheithiau blinion. Gyferbyn ag ef y saif

*Cwmorthin.*

*Cwmorthin*, encilfa fwy neillduedig, ac mor anhawdd myned iddo braidd a Chwm Bychan. Yn fy ymweliad â'r lle, disgynais trwy goedwigoedd, ar hyd ffordd seth, i ddyffryn tra dwfn a chul, yr hwn a groesais, a dechreuais ddringo i fyny esgynfa dra pheryglus a blinedig, ar wyneb creigiog mynydd uchel: yr oedd y llwybr yn gul a pheryglus, ac anaml, yr wyf yn credu, y bydd ceffylau yn anturio hyd-ddo. Wedi llafurio am oddeutu milldir, cyrhaeddasom y lle rhyfedd yma, a breswylid gan ddau ffermwr, mewn cwm yn cael ei amgylchynu gan y terfynau mwyaf gwyllt, ac yn cynwys llyn prydferth, a dau dyddyn, nad ydynt yn cynyrchu ond porfa yn unig; felly, pe byddai ar y preswylwyr eisiau rhywbeth arall, rhaid iddynt ddisgyn i lawr o'u Cwm i'w ymofyn. Y mynyddoedd a'i hamgauant ydynt *Moelwyn yr Hydd*, a *Moelwyn Gwyn*, ac ereill llawn mor afrywiog. I fyny yn uchel yn y blaenaf y mae y Llyn Du Bach, yn yr hwn y ceir y pysgod a elwir *perch;* a llyn arall, a elwir Llyn Trwstyllon; a chyferbyn a'r olaf y mae trydydd, a elwir Llyn Conglog; yr oll o ba rai a ffurfiant raiadrau ardderchog i lawr gwynebau y mynyddoedd, ar ol gwlawogydd trymion. Dewisasom ffordd arall i ddyfod i lawr o'r lle hynod hwn, gan nydd-droelli i fyny ar hyd llwybr cul yn y pen draw, ar ran o Foelwyn yr Hydd, i'r dyben o ddisgyn drwy Gwm Croesor; gan ein bod y pryd hyny yn awyddus i gyrhaedd y ffordd

* Barn fryslog oedd hon, a ffurfiwyd gan un teithydd tra hynaws, yr hon y bu mor onest a'i gadael allan yn yr ail argraffiad o'i daith foddhaol.



PULPIT HUGH.

Digitized by Google

Digitized by Google

agosaf i fyned at *Bont Aberglaslyn.* Ond yn ein disgyniad cyfarfuasom â'r fath lwybrau culion, troadau mor sydyn, a chlogwyni mor echrydus, fel yr oedd ein ceffylau druain, a hyny am reswm da, yn crynu bob modfedd; ac yn wir, cawsom ddiangfa ryfeddol i gael yn ddyogel i'r gwaelod. Bydd i'r teithydd a ddewiso ddylyn ol ein traed, gael gwaelod cul a phorfaog yn Nghwm Croesor, gydag ychydig dai: aiff trwy goedwig brydferth, ac yn fuan caiff ei hun ar y ffordd fawr o Danybwlch i Gaernarfon.

Yn y daith hon, aethum o Ffestiniog ar hyd ffordd nad oedd mor beryglus. Heb fod ddwy filldir oddi yma, ar y ffordd o Drawsfynydd i Yspytty, daethum ar draws *Fforedd Helen,* yr hon sydd yma yn gwbl agored, ac yn arddangos y ceryg geirwon o bai rai yr oedd wedi cael ei gwneyd.

Gerllaw iddi, yn *Rhyd yr Halen,* ar y llaw ddehau, y mae gweddillion

*Beddau Gwŷr Ardudwy.*

*Beddau Gwŷr Ardudwy.* Y mae y beddau hyn oddeutu chwe' throedfedd o hyd, ac yn cael eu nodi yn mhob pen gan ddwy gareg ar eu penau; ond y mae y rhan fwyaf o'r ceryg, erbyn heddyw, wedi myned. Y mae eto i'w canfod amryw gylchau o geryg, y mwyaf yn mesur oddeutu 52 troedfedd ar ei draws; carnedd fawr, gyda dwy gareg uniounsyth wedi eu gosod mewn un parth, megys i nodi y fynedfa i'r gell, yr hon efallai a amgauir ganddo; a cherllaw y mae carnedd lai, a chylch llai; yr oll o ba rai ydynt wedi eu hamgylchu â chylch mwy, yr hwn sydd yn awr yn anghyfan, oherwydd cludo ymaith y meini at wneyd cloddiau. Y mae traddodiad perthynol i'r eof-feini hyn yn glasurol; ac agos yn gyfatebol i anrhaith y Sabiniaid. Yr oedd gwŷr Ardudwy, i boblogi eu gwlad, wedi gwneyd rhuthr i ddyffryn Clwyd, ac wedi cymeryd meddiant o rai o ferched y wlad: cludasant hwy yn ddyogel hyd y fan yma, lle y goddiweddwyd hwy gan ryfelwyr y dyffryn; cymerodd brwydr ofnadwy le, yn mha un y lladdwyd y cwbl o wŷr Ardudwy; ond yr oeddynt, rywfodd neu gilydd, wedi enill calonau y merched, fel y darfu iddynt, pan welsant eu gorchfygu, yn hytrach na dychwelyd adref, ruthro i lyn cyfagos, a elwir hyd heddyw, oddiwrth yr amgylchiad, *Llyn y Morwynion,* a boddi yno. Fod y fan yma wedi bod yn faes cyflafan arswydus, sydd dra thebygol: y mae y beddi a'r carneddau yn profi hyny; ac y mae y cylchau yn dangos fod y peth wedi cymeryd lle pan yr oedd seremoniau Derwyddiaeth yn bodoli.

Oddiyma disgynais ar hyd gallt hirfaith a blinderus *Bwlch Carreg y Frân,* i ddyffryn cul Penmachno; ac wedi esgyn bryn arall, troi ar y ddehau, i'r mynydd-

*Llyn Conwy.*

oedd duon a morfaog, i ymweled â *Llyn Conwy,* lle y tardd yr afon hynod o'r enw hwnw. Y mae yn ddernyn tra eang o ddwfr, mewn sefyllfa drymllyd dros ben yn nghanol creigiau a chorsydd, a'i ochrau wedi eu bylchio yn ddireol. O ran ei sefyllfa y mae y dernyn uchaf o ddwfr, o unrhyw faintioli, ag y cyfarfyddais âg ef yn y parthau hyn. Y mae ynddo dair o ynysoedd; i un o honynt yr ymheidia y gwylanod cefnau duon, yn ystod yr adeg bridio. Y maent mor ofnadwy o ffyrnig yn eu hamddiffyniad o'u cywion, fel y gwn am ddyn y bu agos iddo a chael ei foddi, mewn ymgais a wnaeth i nofio i'w nythod, trwy iddo gael ei faeddu gan yr hen adar; a da oedd ganddo gael diangc gyda'r archollion arswydus a wnaed ar y rhan uchaf o'i gorph. Y mae y dwfr yn tarddu allan o ben y llyn, ar ffurf ffrwd fechan; ond ar ol

Digitized by Google

rhedeg am ychydig filldiroedd, cyn y cyrhaedda Lanrwst, y mae wedi dyfod yn afon fawr, trwy fod amrywiol ffrydiau mynyddig yn ymuno â hi.

*Yspytty.*] Disgyn am ddwy filldir neu dair, a chyrhaedd pentref *Yspytty Ifan*, neu orsafle urdd o farchogion perthynol i St. Ioan o Gaersalem; a elwid felly am ei bod, yn y wlad anlletygar hon yn yr amser hwnw, o dan nawdd y marchogion, y rhai a ddalient y faenor, ac a wnaent ei hamgylchoedd yn noddfa. Ar ol i'r urdd hon gael ei dileu, daeth y rhagorfraint yma yn felldith i'r gymydogaeth; oblegyd cafodd y lle, yn gymaint ag nad oedd o dan unrhyw lywodraeth, ei wneyd yn nythle haid o ladron a llofruddion, y rhai a anrheithient y wlad, yn mhell ac agos, yn gwbl ddigywilydd, hyd deyrnasiad Harri VII., pan y llwyr ddifodwyd hwy trwy wroldeb a challineb Meredydd ap Ifan.

Wedi yspaid tra hirfaith, daeth caredigrwydd arall i'r golwg, yn sefydliad yr elusendai i chwech o ddynion tylawd, y rhai a sylfaenwyd yn 1600, gan y cadben Rhisiart Vaughan, marchog tylawd o Windsor, ac yn hanu o deulu yn y gymydogaeth a breswylient yn y Pant Glâs.

*Beddrodau.*] Yn yr eglwys y mae tri o ffugyrau alabastr. Y cyntaf ydyw eiddo y gwrol Rhys Fawr ap Meredydd, o dylwyth Plas Iolyn; i ba un, yn mrwydr Bosworth, y darfu i Harri VII. ymddiried baner freninol Lloegr, ar ol i'w dygiedydd, Syr William Brandon, gael ei ladd gan Rhisiart; arwydd teilwng o barch i'r Cymry, y rhai yn gyson a bleidient achos tŷ Lancaster. Yr ail sydd eglwyswr, ei fab, Robert ap Rhys, croesddygydd a chaplan i'r cardinal Wolsey; a'r trydydd ydyw Lowry, gwraig Rhys Fawr. Gallaf ychwanegu ei fod wedi gadael amryw feibion ar ei ol, o ba rai y disgynodd amryw deuluoedd, yn enwedig teuluoedd Rhiwlas, Pant Glâs, Giler, a'r Foelas.

*Foelas.*] O'r Yspytty telais ymweliad â'r *Foelas*, oddeutu dwy filldir o ffordd, yr hwn le sydd yn hynod ar gyfrif colofn fawr, ac ysgrif arni er cof am Lywelyn, tywysog Cymru, yr hwn a laddwyd yn y flwyddyn 1021. Yma hefyd y mae tomen fawr, ar ba un y safai castellyn perthynol i'r Cymry, yr hwn a ddinystriwyd gan Lewelyn Fawr.* Addefa Mr. Llwyd fod y cerfiad yn hynod o dywyll. Y mae yn gymysg o Ladin a Chymraeg. Y llinell olaf a ddywed, *Levelinus optimus princeps hic humatus;*† yr hyn, os ydyw yn cyfeirio at ryw un o dywysogion Cymru, a raid fod yn golygu Llewelyn ap Sitsyllt; oblegyd efe, o'r tri Llewelyn a fu yn ein llywodraethu, ydyw yr unig un ag y mae lle ei gladdedigaeth yn anhysbys i ni.‡

Troi yn ol, a thrachefn gyrhaedd afon Gonwy. Myned i

## SIR GAERNARFON,

*Rhaiadr y Graig Lwyd.*] Ac ar ol marchogaeth am ychydig amser, dyfod at raiadrau hynod yr afon hon, heb fod nepell o'i hymuniad â'r Machno. Y mae yr olygfa yn dra anghyffredin, o gymydogaeth pandy cyfagos, lle y mae sianel yr afonydd yn ffurfio triongl o geubyllau dyfnion a


* Gwel y Gân â pha un yr anerchwyd ef gan Llewelyn Brydydd Moch. Casgl. Evans, Aw ll vii.

† "Llewelyn y penaeth galluog a gladdwyd yma."

‡ Camden, ii. 816.

Digitized by Google

Digitized by Google



*RHAIADR Y GONWY.*

FALLS OF THE CONWY.

Digitized by Google

phruddglwyfus, wedi eu treulio gan y dwfr trwy y graig. Heb fod yn nepell islaw, dechreua y rhaiadr, y mwyaf anferthol a welais erioed, a thwrf erchyll yr hwn a roddai ddigon o rybudd ei fod yn ymyl. Y creigiau a'i hamgylchynant ydynt o uchder anferthol, a dynesant yn agos iawn y naill at y llall, ond y maent yn ddiffygiol o'r cydgynulliad o goed ag ydynt mor fynych yn dylyn y rhan fwyaf o'n rhaiadrau. Y mae un disgyniad o uchder tra mawr; ac islaw i hwnw, mewn llawn olwg, y mae olyniad o bedwar o rai llai. Y disgyniad sydd syth a pheryglus, ac ni ddylai neb amcanu ato, ond y rhai a feddant ddigon o nerth corphorol, a phen ansyfrdan. Pan yn y gwaelod, cefais fy hun wedi fy amgylchu gan glogwyni noethlwm, wedi eu gwynebu â chreigiau colofnog ac onglaidd, yn cyfeirio yn llethrog at yr afon, yr hyn a ychwanegai at ddyeithrwch yr olygfa.

Myned i lawr gallt serth, a chyrhaedd *Nant Conwy*, neu *Ddyffryn Conwy*, wedi croesi y Bont-ar-y-Lleder; islaw i ba un y mae yr afon Lleder yn prysuro i ymuno â'r un sydd yn rhoddi enw ar y dyffryn. Sylwi ar lyn dwfn, llydan, a llonydd, yn nghŵrs afon Gonwy, a elwir *Llyn yr Afangc*, am fod *afangcod*, mewn hen amseroedd, yn preswylio yma. Ein hynafiaid, gyda phriodoldeb mawr, a'u galwent, *Llost-lydan;* ac yr oedd eu crwyn o gymaint gwerth, fel y prisid un o honynt yn chwech ugain ceiniog; tra nad oedd croen y *martin* yn ddim ond pedair ceiniog ar hugain; y gath bali yn ddeuddeg; a'r dyfrgi, y blaidd, a'r llwynog, yn ddim ond deuddeg ceiniog.* Ymddengys eu bod y prif addurniadau a'r moethbethau yn nyddiau Hywel Dda.

[*Afangcod.*]

Ymagora y dyffryn yn raddol o'r pen yma, ac ymestyna am oddeutu ugain milldir, gan derfynu yn nhref Conwy. Buan y daw yn filldir o led, a chynydda mewn prydferthwch, yn enwedig yn nghymydogaeth Llanrwst, lle y rheuir ef yn niferi o ddolydd o'r fath mwyaf prydferth. Y mae ochrau y bryniau wedi eu diwyllio yn dda: ar du y gorllewin, ymddyrchafa mynyddoedd Eryri yn un gyfres fawreddog: ar du y dwyrain cynwysa fryniau isel a thoredig, wedi eu britho â phorfeydd breision, maesydd o ŷd, a llwyni o goed. Y mae yr afon yn ymdreiglo drwy y cyfan, a chyn y cyrhaedda Lanrwst, y mae wedi dyfod o faintioli mawr.

[*Bettws Wyrion.*] Ymweled âg eglwys *Bettws Wyrion Iddon*, oddifewn i ba un y mae cerflun o Gruffydd ap Dafydd Goch, mab i Dafydd Goch, mab ordderch i Dafydd, brawd i dywysog olaf Cymru. Y mae mewn arfwisg, ar ei orwedd, a'r cerfiad canlynol arno: *Hic jacet Gruffud ap Davyd Goch, agnus Dei misere mei.*†

[*Pont y Pair.*] Ychydig pellach yn mlaen, cyrhaedd *Pont y Pair*, pont dra hynod, dros yr afon Llugwy, yn cynwys pum' bwa, wedi eu sylfaenu ar y creigiau afrosgo, y rhai a ffurfiant bileri o'r fath mwyaf parhaol. Y mae y creigiau hyn yn glogwyni, a phan fyddo llifeiriant uchel yn yr afon, arddangosir i'r teithydd raiadrau o'r fath mwyaf arswydus o'r tu isaf i'r bont. Y mae y golygfeydd tu hwnt, ar fynyddoedd creigiog, wedi eu hymylu a choedydd, yn brydferth anarferol.

* Leges Wallicæ, 260, 261.

† "Yma y gorwedd Gruffydd ap Dafydd Goch. Oen Duw, bydd drugarog wrthyf."

Digitized by Google

Adeiladwyd y bont hon ar yr achlysur canlynol: yr oedd gan un o'r enw Hywel, saer maen o Benllyn, achos i fyned i sessiwn sir Feirionydd, oddeutu y flwyddyn 1468, yr hon a gynelid y pryd hyny yn Nghonwy, a chafodd ei atal ar ei daith gan lifogydd yn y Lleder. Parodd hyn iddo benderfynu newid ei drigfod, a symud i'r lle hwn, ac yma y gwnaeth bont, ar ei draul ei hun, heb dderbyn dim at y costau ond ambell i rodd wirfoddol a roddid iddo gan deithwyr. Wedi hyny symudodd at y Llugwy, a dechreuodd adeiladu Pont y Pair, ond bu farw cyn gorphen ei waith.*

*Castell Dolwyddelen.* Gadewais y bont, ac, ar ol dringo gallt serth, cyrhaeddais *Gastell Dolwyddelen*, yn sefyll mewn dyffryn creigiog, wedi ei fritho gan fonion coedydd, ac yn cael ei ddyfrhau gan y Lleder. Y terfynau ydynt fynyddoedd geirwon a noethlwm; ac, yn mysg ereill, ceir yma y mynydd mawr a elwir *Siabod*, yr hwn yn fynych a ganfyddir yn amlwg o fanau pell.

Y mae y castell yn sefyll ar graig uchel, anhygyrch ar un ochr, ac ar ei phen ei hun; cynwysa ddau dŵr ysgwâr: un yn ddeugain troedfedd wrth bump ar hugain; y llall oddeutu un ar ddeg ar hugain wrth ugain. Yr oedd i bob un o'r ddau, yn yr amser gynt, dri o loriau. Defnyddiau yr amddiffynfa hon ydynt geryg maluriog y wlad; eto wedi eu hysgwario yn dda, y gwaith maen yn rhagorol, a'r morter yn galed. Gorweddai buarth y castell rhwng y ddau dŵr.

Adeiladwyd ef gan rai o'n tywysogion; ond yr ydym yn anhysbys pwy oeddynt. Nid oedd ond ychydig o gastelli yn Ngogledd Cymru, cyn i'r wlad gael ei darostwng gan y Saeson. Nid oedd angen am danynt; oblegyd yr oedd natur wedi creu amddiffynfeydd a fuasent (oni bai ein hymraniadau dinystriol) yn gwbl anorchfygol. Pe buasai angen am encilfeydd celfyddydol, yr oedd cyfoeth ein gwlad yn ddigonol i ddarparu y moddion at eu codi. Yr oedd elw trafnidiaeth yn ein ffafr. Ataliai hyn ein tywysogion rhag defnyddio eu trydedd uchelfraint, sef bathu arian.† Ar ein diadelloedd a'n gyroedd yn fynych y byddai y Saeson yn byw, a dygai hyny symau mawrion o arian i Gymru, y rhai y byddem yn fynych o dan orfod eu talu, i bwrcasu heddwch dianrhydeddus. At ddybenion ereill nid oedd angen am arian, oblegyd yr oedd pob un o'r deiliaid yn rhwym i gynorthwyo yn adeiladaeth y castelli breninol, oddieithr y llafurwyr perthynol i'r brenin.‡

Iorwerth Drwyndwn a wnaeth y lle yma yn breswylfod iddo ei hun; ac yma y dywedir i Lywelyn Fawr,§ ei fab, gael ei eni. Os ydyw castell Dolinchalau yr un un a hwn (fel y barnaf ei fod), yr oedd i Gruffydd ap Tudor, yn nheyrnasiad Iorwerth I., fel cwnstabl, gyflog blynyddol o ddeugain mark (27*l.* 6*s.* 8*d.*), i'w talu gan y trysorlys yn Nghaernarfon, mewn dau daliad gwahanol.

Meredydd ap Ifan, un o hynafiaid y *Wynnes* o Gwydir, yn nheyrnasiad Harri VII., a brynodd *lease* y castell hwn, a'r tiroedd amgauedig perthynol iddo, gan gymunweinwyr Syr Ralph Berkenet; oblegyd yr oedd wedi ei adael allan yn mhlith y lleoedd a ganiatesid gan Rhisiart III., ac a adfeddiannasid

* Llwyd's Itin. MSS. i. Dywed yr un awdurdod, fod yn agos i'r fan yma Gromlech, a elwid Cromlech Hwfa, ar ol un Hwfa ap Cyfnerth, yn *Rhyddon*, yr hwn a ymguddiodd o dani, yn yr amser pan yr oedd Iarll Penfro yn anrheithio y wlad yn y parthau hyn.

† Leges Wallicæ, 71. ‡ Eto, 71. § Gwydir Fam. 7.

Digitized by Google

gan ei olynydd.* Yn flaenorol i'r amser yma, yr oedd Hywel ap Ifan ap Rhys Gethin, lleidr nodedig, yn preswylio yma. Mor fuan ag y daeth i feddiant Meredydd, efe a symudodd ei breswylfa o Eifionydd, cantref yn y sir, i'r castell hwn; gan roddi y rheswm rhagorol a ganlyn dros hyny. "Gwell genyf ymladd â lladron a gwrthryfelwyr, nag â'm gwaed fy hun a'm perthynasau. Os preswyliaf yn Eifionydd, rhaid i mi naill ai lladd fy mherthynasau fy hun, neu gymeryd fy lladd ganddynt hwy." Yr oedd y cwerylon yn mhlith boneddigion Eifionydd yn cynyrchu llofruddiadau parhaus; ac yr oedd Nant-Conwy yn llawn o garn-ladron.

Llwyddodd y boneddwr hwn i dawelu y wlad yn lled fuan; sefydlodd orsafoedd o'r *dynion tàlaf a mwyaf galluog* a allai gael; nes yr oeddynt o'r diwedd yn saith ugain o ddynion tàl yn tynu bwa, pob un wedi ei wisgo mewn "siaced arfog, cap da o ddur, cleddyf byr a dagr, ynghyda'i fwa a saethau; ac yr oedd gan amryw o honynt geffylau, a chaethweision ymlidiol, y rhai oeddynt yn barod i ateb y cri ar bob achlysuron." †

**Penamnaen.** Efe a sylfaenodd dŷ cadarn *Penamnaen*, oddeutu milldir oddiwrth y castell. Symudodd yr eglwys, yr hon cyn hyny oedd mewn llwyn o goed, i le mwy agored, er mwyn rhagor o ddyogelwch; oblegyd ni feiddiai adael ei dŷ heb roddi ynddo wyliadwriaeth gref; ac un arall, yn cynwys ugain o wŷr tàl y bwäau saethu, yn ei ganlyn ef, pa bryd bynag yr elai i'r eglwys: heblaw gwyliedydd, ar graig a elwid Carreg y Big, i roddi rhybudd am ddynesiad y carn-ladron. Terfynodd ei fywyd defnyddiol yn 1525, gan adael ar ei ol dri ar hugain o blant cyfreithlawn, a thri o blant ordderch.

Yr eglwys, yr hon oedd unwaith yn fywioliaeth berthynol i abatty Beddgelert, sydd yn dra bechan; ac y mae ynddi gofadail, yr hon a godwyd er coffadwriaeth am y sawl o'r teulu a gladdwyd yma.

Ar fy nychweliad i Bont y Pair, aethum ychydig o fy ffordd i fyny yr afon

*Rhaiadr y Wennol.* Llugwy, i weled rhaiadr hynod, *Rhaiadr y Wennol.*‡ Y mae yr afon yn llifeirio ar hyd gwely cul a cherygog, am belldder maith, yn nghanol dolydd culion, yn cael eu terfynu gan olygfa fynyddig fawreddog; yna disgyna i geubwll rhyfeddol. Lled anhawdd yw cyrhaedd y gwaelod; ond pan geir yno, y mae yr olygfa ryfeddol, o fynydd a' chlogwyn, yn gysgodedig gan goedydd, y rhai a addurnant y pen uchaf, ac hyd yn nod a darddant allan o'r holltau yn yr ochrau, yn wirioneddol brydferth.

*Carreg y Gwalch.* Croesi Pont y Pair, a myned o dan graig dra uchel, wedi ei gwisgo â choed, a elwir *Carreg y Gwalch.* Dyma lle yr oedd encilfa pleidiwr nodedig i dylwyth Lancaster, o'r enw Dafydd ap Siencyn, yr hwn a lechai mewn ogof, yr hon a elwir fyth ar ei ol yn *Ogof Dafydd ap Siencyn.* Yr oedd y derw ardderchocaf yn holl Gymru yn tyfu ar y

* Gwedir Family, 137; llyfr ag y mae genym i ddiolch am dano i fy nghyfaill parchus, yr anrhydeddus Daines Barrington.

† Gwedir Family.

‡ Adnabyddir hwn yn bresenol [gan y Saeson] wrth yr enw *Swallow Falls*, ond tybiaf fod y cyfieithiad yn ddrwg, gan fod *gwennol* yn golygu nid yn unig yr aderyn hwnw, ond hefyd y plu onglog yn ei gynffon; a'r darn cul a dorir allan o glust y ddafad, er engraifft, fel nod, a elwir *gwennol* gan y bugeiliaid. Y cyfeiriad mewn perthynas i'r rhaiadr ydyw, at y graig sydd yn rhanu y dwfr yn ddwy len; felly y mae yr enw wedi ei fwriadu i fod yn fwy dysgrifiadol nag a ymddangosai oddiwrth y cyfieithiad Seisonig o hono. J. R.

Digitized by Google

graig hon, o fewn cof dyn. Yr wyf fi yn cofio bonion amryw o honynt, y rhai a brofent eu bod yn gyfartal i unrhyw goed derw a dyfasant yn y gweryd dyfnaf; eto, y mae y creigiau hyn yn gwbl amddifad o bridd am encyd hirfaith; felly rhaid fod yr holl faeth a dderbyniai y coed yn cael ei dynu trwy fod eu gwraidd yn treiddio yn ddwfn, trwy holltau yn y ceryg, i ryw sylwedd maethol.

*Gwydir.*] Y mae palasdy hynafol *Gwydir* yn sefyll yn agos i droed y graig hon; wedi ei adeiladu o amgylch dau gŵrt, un mawr ac un llai. Uwch ben y porth y mae yr amseriad, 1555, gyda I.W. John Wynn ap Meredydd, taid yr enwog Syr John Wynn, yr hwn a ysgrifenodd hanes y teulu. Dengys hyn fod 1553, yr amser y tybir fod y blaenaf wedi marw, yn gamgymeriad. Cymer y lle ei enw oddiwrth *Gwaed-dir*,* oherwydd y brwydrau a ymladdwyd yma gan Llywarch Hen,† oddeutu y flwyddyn 610; neu efallai oddiwrth yr ymladdfa greulawn yn 952, rhwng meibion Howel, a'r tywysogion Ieuaf ac Iago;‡ a gellir ychwanegu trydedd, rhwng Gruffydd ap Cynan, a Thrahaern ap Caradog, lawn mor waedlyd.§ Y mae y dybiaeth iddo gael yr enw am mai efe oedd y tŷ cyntaf yn Nghymru a gafodd ffenestri o wydr yn ddisail, am fod y cyfleusderau hyny yn hysbys er's hir amser yn flaenorol. Y mae Syr John Wynn ei hun yn son am amseriad ar ffenestr yn Nolwyddelen, yn 1512, yr hyn sydd lawer o flynyddoedd cyn i Gwydir gael ei adeiladu. Ond y mae y llinell ganlynol gan fardd a flodeuai rai canrifoedd yn flaenorol i hyny, yn brawf cryfach o hynafiaeth gwydr yn y wlad hon:—

Trwy ffenestri gwydr yd ym gwelent.‖

Ar graig, yn mhell uwch law *Gwydir Isaf*, y safai un arall, yr *Uchaf*, wedi ei adeiladu, fel yr ymddengys, er mwyhau yr olygfa brydferth a geir oddi yno ar y dolydd gwyrddleision a ddyfrheir gan afon Conwy, a'u terfynau ceindlws. Math o hafdy ydoedd, a adeiladwyd gan Syr John Wynn, yn 1604, gan yr hwn yr oedd chwaeth glasurol. Yr oedd y muriau wedi eu gorchuddio â cherfiadau; ac yr oedd ei sefyllfa yn haeddiannol deilyngu y clod a roddid iddo yn yr englyn canlynol, yr hwn sydd uwch ben y drws—

Bryn Gwydir, gwelir golau—adeilad
Uwch dolydd a chaerau;
Bryn gwych adail, yn ail ne',
Bron wen henllys, brenhinlle.¶

Y mae hwn wedi ei chwalu yn ddiweddar; ond y mae capel y teulu, yr hwn a saif yn agos i safle yr hen dŷ, yn aros o hyd, a chyflawnir gwasanaeth dwyfol ynddo bob prydnawn Sul. Yn mysg papurau ereill, perthynol i Gwydir, y rhai a roddwyd i mi gan fy nghyfaill, Paul Panton, ysw., y mae un tra hynod, wedi ei dynu allan gan yr hen Syr John Wynn, yn cynwys rheolau i'w gaplan—cymysgedd rhyfedd o drahausder a duwiolfrydedd.** Y mae y rhestr o'i ddillad, wedi ei thynu allan ganddo â'i law ei hun, yn deilwng o gael ei chadw hefyd, am ei bod yn dangos, nid yn unig yr hyn a wnelai i fyny gyf-

* Seinir yr enw yn *Gwydir*, ac y mae arnaf ofn y rhaid i ni o hyd gredu fod ei wreiddyn yn ansicr. J. R. † Gwel ei Weithiau. ‡ Powel, 60. § Gwel hanes ei Fywyd.

‖ Gwel gyfansoddiadau Cynddelw Brydydd Mawr, yr hwn a flodeuai tua'r flwyddyn 1250.

¶ Hist. Gwedir Fam. xii. ** Attodiad, Rhif X.

Digitized by Google

lawn wisgiad boneddwr yn y dyddiau hyny, ond hefyd gynildeo yr amseroedd yn mhlith pobl fawr, trwy eu bod yn eu trosglwyddo yn eu llythyrau cymun, gan eu pasio felly o genedlaeth i genedlaeth.*

Anfonwyd Syr John i Lundain yn 1571, i astudio y gyfraith; yr oedd yn ddyn galluog, ac yn dra hysbys yn hynafiaethau ei wlad a'i deulu. Darfu i'w bwysigrwydd dynu sylw y llys; oblegyd ġwnaed ef yn farwnig yn mis Mehefin 1611.

Parhaodd y lle yma yn meddiant y teulu hyd y flwyddyn 1678, pan yr aeth i deulu y diweddar dduc Ancaster, trwy briodas Mary, merch ac etifeddes Syr Richard Wynn, â Robert ardalydd Lindsey; ac y mae yn bresenol yn meddiant Syr Peter Burrell,† marchog, yn hawl ei wraig Priscilla, barwnes Willoughby, chwaer hynaf Robert, diweddar dduc Ancaster.

*Pont Llanrwst.*] Oddiyma i *Lanrwst* y mae rhodfa brydferth, gan mwyaf gydag ochr yr afon. Saif y dref yn sir Ddinbych, ar yr ochr gyferbyn a Gwydir. Eir iddi dros y bont, cynllun gorchestol *Inigo Jones.*] *Inigo Jones.* Cynwysa dri bwa; y canol yn 59 troedfedd o led; y mae dau o honynt yn dra phrydferth, ac yn arddangos ol llaw yr archadeiladydd: y trydydd a wahaniaetha gryn lawer, oblegyd cafodd ei ail-adeiladu yn 1703, gan gelfyddydwr o athrylith tra israddol. Buasai yn dda genyf wneyd mwy o anrhydedd i'm gwlad, a thybio fod Inigo yn enedigol o'r gymydogaeth; ond ymddengys mai yn Llundain y ganwyd ef, a'i fod yn fab i weithiwr brethynau,‡ yr hwn, yn ol pob tebygolrwydd, oedd o'r rhan yma o Gymru; pa un bynag, y mae ein hawl i'r mab yn cael ei gefnogi gan draddodiad cyffredinol. Y mae troad ei wynebpryd, a thanbeidrwydd ei dymherau,§ o leiaf, yn dangos nad oedd yn berthynas pell i ni. Cefnogid ef gan iarll Arundel, a William iarll Penfro; a chan y naill neu y llall o honynt anfonwyd ef i Itali. Ei wir enw bedydd ydoedd *Ynyr*, yr hwn a gyfnewidiodd efe yno am *Inigo* neu *Ignatius*. Yr un modd, John Cooper, prif chwareuydd y *Viola de Gamba* i Siarl I., wedi iddo fod yn Itali, a gymerodd i fyny yr enw *Giovani Coperario*.‖ Gwaith ofer fyddai rhoddi hanes bywyd dyn ag y mae ei fywgraffiad wedi cael ei ysgrifenu gan y dynion mwyaf galluog yn y celfau cain. Bydd yn ddigon i ni ddywedyd, fod y Syr Richard Wynn cyntaf wedi cael cynllun y bont hon gan Jones, yr hon a adeiladwyd ganddo, yn 1636; yn benderfynol i anrhydeddu ei wlad hyd y gallai, trwy brydferthwch y cynllun, wedi ei ffurfio gan adeiladydd i ba un yr oedd gan Gymru, o leiaf, hawl fel perthynas agos.¶

Y mae un amgylchiad, yn nglŷn â hanes y dyn athrylithgar yma, ag sydd yn deilwng o gael ei grybwyll, am ei fod yn dal rhyw berthynas â'r wlad y gallai fod yn hanu o honi. Pan y gosodwyd ef ar waith i ddarparu addurniadau cywrain, a phaentio y golygfeydd at chwareuon y flwyddyn orfoleddus 1619, efe a ddewisodd *Greigiau Eryri* at y chwareuyddiaeth, ER ANRHYDEDD I

* Attodiad, Rhif XI.

† Crewyd ef yn Farwn Gwydir yn 1796. GOL.

‡ Mr. Walpole's Anecd. Painting, ii. 142.

§ Ei ddarlun, tab. yn tud. 142. Anecd. and his Life passim.

‖ Howkin's Hist. Music, iv. 55.

¶ Yn mysg papurau y teulu, nid oes gair o son am Inigo; pe buasai o deulu y *Wynns*, fel y mae wedi cael ei haeru yn gyhoeddus, diau na buasai y papurau mor ddystaw yn ei gylch.

Digitized by Google

GYMRU. Cyflawnodd ei waith gyda'r fath lwyddiant, fel y cenfigenodd y bardd *Ben Jonson* wrtho; oblegyd yr oedd y golygfeydd yn cael eu hedmygu yn fwy na'r chwareuyddiaeth, yr hyn a allasai fod yn hawdd: ond yr oedd Jonson wedi tramgwyddo cymaint, nes y gollyngodd allan ei anfoddogrwydd mewn nifer o benillion, y rhai ydynt mor wanllyd ag ydynt o ddygasog a disail.*

Y mae yr afon yn y fan yma yn ymddangos yn dra phrydferth, gan ymestyn mewn llinell unionsyth yn mhell uwchlaw y bont, ac yn fynych yn cael ei bywiogi gan nifer o goraglau, *vitilia navigia* yr hen Frytaniaid, yn brysur gyda'r gorchwyl o ddal gleisiaid; ac yn misoedd Chwefror a Mai, luaws mawr o frithylliaid. Nid yw y llanw yn dyfod i fyny yn uwch na Llyn y Graig, milldir a haner yn is na'r bont; i ba le, ar lanw uchel, y gall cychod yn cario deuddeg tunell ddyfod.

*Tref ac Eglwys Llanrwst.* Nid yw tref *Llanrwst* ond bechan, ac y mae wedi ei hadeiladu yn ddrwg; nid oes ynddi ddim neillduol, heblaw yr eglwys, yr hon sydd yn gysegredig i *St. Rhystyd*, neu *Restitutus*,† archesgob Llundain yn 361, yr hwn oedd yn bresenol yn nghymanfa Arles yn 353. Dywedir fod y tir ar ba un y saif wedi cael ei roddi gan Rhun, mab Nefydd Hardd, er cael maddeuant am lofruddio y tywysog Idwal, mab i Owain Gwynedd, yr hwn a laddwyd trwy orchymyn ei dadmaeth Nefydd, i ba un yr oedd wedi cael ei ymddiried.‡ Y mae rhyw gerfiad cywrain, y dywedir iddo gael ei ddwyn o'r fynachlog gyfagos, yn addurno y tu fewn iddi. Buasai *Capel Gwydir*, a sylfaenwyd yn 1633, gan y Syr Richard Wynn a grybwyllwyd eisoes, oddiwrth gynllun o eiddo Inigo Jones, yn addurn arall, oni buasai ei fod yn cael ei esgeuluso mor gywilyddus. Ar y mur y mae cofadail adfeiliedig o farbl,§ wedi ei haddurno yn brydferth âg arwyddion buddugoliaethau: bwriadesid hi i gofnodi hynafiaid y teulu; ond yn ol pob ymddangosiad presenol, y mae yn debyg o ymfalurio yn domen o ysbwrial plith-draphlith.

*Platiau Prês a Beddrodau.* Yn cael eu mathru dan draed, y mae amryw blatiau prês,‖ wedi eu cerfio yn gywrain â llun penau rhai o'r teulu arnynt, y rhai a orweddant oddi tanynt. Yn eu mysg y mae llun Syr *John Wynn*, yr hwn a gasglodd y cofnodion, ac a fu farw yn 1626. Y mae traddodiad pobl y wlad yn dyweyd mai gorthrymwr mawr ydoedd; ac yn unol â hyny y maent wedi anfon ei yspryd aflonydd i breswylio yn *Rhaiadr y Wennol*. Y mae llun pen ei wraig, *Sydney*,¶ merch i Syr William Gerard, canghellydd yr Iwerddon, wedi ei gerfio yn brydferth ar brês, gerllaw iddo; ac eiddo eu merch, *Mary*, gwraig i Syr Roger Mostyn, ar un arall. Gwaith yr enwog *Sylvanus Crue* yw y rhai hyn. Ond darlun haner hyd o Sarah Wynn,** merch i Syr Thomas Middleton, o Gastell y Waun, a gwraig i Syr Richard Wynn, o waith William Vaughan, ydyw y dernyn goreu o waith cerfio a welais i erioed: eto, nid ydyw ei enw ef, nac enw yr un o'r celfyddydwyr a nodwyd o'r blaen, ar restr y celfau cain. Yr oedd ei gŵr yn foneddwr o alluoedd

* Ben Jonson's Works, vi. 294.

† Yr enw a gymerir i mewn yn *Llanrwst* ydyw *Grwst* neu *Gwrwst*, cyfystyr manylaidd i Goedelic Fergus. J. R.

‡ Pymtheg Llwyth Gwynedd, o ba rai yr oedd Nefydd yn un.

§ Attodiad, Rhif XII.

‖ Er pan gyhoeddwyd y gwaith hwn, y mae rhyw sylw wedi cael ei dalu i'r cofebau hyn; y mae y platiau prês wedi cael eu symud, a'u gosod yn ddestlus ar furiau y capel. GOL.

¶ Bu farw yn 1639. ** Bu farw yn 1671.

Digitized by Google

mawrion, yn was yr ystafell-wely i Siarl I. pan yn dywysog Cymru, ac yn un o'r rhai a aethant gydag ef i Yspaen, yn 1623. Gadawodd o'i ol hanes rhagorol am y daith, yr hwn a gyhoeddwyd gan Mr. Hearne. Bu farw ar y 19eg o fis Gorphenaf, 1649, a chladdwyd ef, yn mhell o'i enedigol wlad, yn eglwys Wimbledon. Y mae cerflun hardd o'i ben, o waith y celfyddydwr Jansen, yn cael ei gadw hyd heddyw yn Wynnstay; ac y mae yr argraff prydferth o hono gan y celfyddydwr anefelychol hwnw, Mr. Bartolozzi, yn fy ngosod dan rwymedigaeth fawr i Syr W. W. Wynn, i haelfrydedd caredig yr hwn yr wyf yn ddyledus am y fath addurn i'm llyfr.*

Y mae yma gareg syml er cof am ei frawd hynaf, Syr John Wynn, marchog, yr hwn a fu farw ar ei deithiau, yn Lucca, yn 1614, ac a gladdwyd yn mhlwyf St. Ioan. Gwelais amryw o'i lythyrau, y rhai a ddangosant ei fod yn ddyn sylwgar; gall rhai o honynt, yn yr Attodiad,† roddi boddhad i'r darllenydd.

Rhaid i mi nodi un beddrod arall, yr hwn sydd lawer yn hynach na'r lleill, sef beddrod *Hywel Coytmor*, llun yr hwn a arddangosir yn arfog, ar gareg. Yr oedd efe yn ŵyr i'r marchog o'r Bettws; efe oedd perchenog Gwydir, a gwerthwyd y lle gan un o'i olynwyr i deulu y Wynniaid.

Yn yr eglwys hon y mae yn nghadw arch careg Llewelyn Fawr, ochrau yr hwn sydd yn addurnedig â dail pedair dalen. Claddwyd y tywysog hwnw yn mynachlog Conwy; ond ar adeg y dadgorphoriad, symudwyd yr arch i'r lle hwn.

*Mynachlog Maenan.* Gwnaethum ddwy wibdaith o Lanrwst; un i ymweled â *Mynachlog Maenan*, yr hon a symudwyd yma o Gonwy, yn 1289, trwy ganiatâd y pab Nicholas,‡ ar gais Iorwerth I. a'r mynachod, fel y dywed efe. Y brenin a ganiataodd iddynt dref-ddegwm Maenan, yn lle un Conwy, ac a gadarnhaodd iddynt yr holl gyllid a'r rhagorfreintiau a fwynhaent cyn hyny, yn nghydag amryw eithriadau oddiwrth dollau, trethi, a thaliadau;§ ac heblaw hyny rhoddodd iddynt nawddogaeth eu hen eglwys yn Nghonwy.‖ Yr oedd cyllid y tŷ yma, ar adeg y dadgorphoriad, yn ol Dugdale, yn 162*l.* 15*s.*; ac yn ol Speed yn 179*l.* 10*s.* 10*c.* Yr abad diweddaf oedd Rhisiart Kyffin,¶ yr hwn a dderbyniodd bensiwn o ugain punt yn y flwyddyn. Yn y bummed flwyddyn o deyrnasiad y frenines Elizabeth, rhoddwyd y fynachlog hon i Eliseus Wynne: ac y mae hyd heddyw** yn meddiant ei olynyddes, yr arglwyddes Wynne, gweddw y diweddar Syr John Wynne, o Lynllifon. Y mae hen dŷ mawr,†† wedi ei adeiladu o weddillion y fynachlog, yn aros yn bresenol.

Dychwelais trwy Lanrwst, ac oddeutu dwy filldir oddiyno, uwchlaw afon

*Trefriw.* Gonwy, ymwelais â phentref *Trefriw*, lle y mae niferi o longau bychain yn cael eu hadeiladu, y rhai a ollyngir i lawr yr afon, ar adeg gorllanw y môr. Dywedir fod gan Lewelyn Fawr balas yn agos i'r lle hwn; ac fel prawf o hyny, cafwyd amryw geryg wedi eu naddu wrth aredig mewn cae a elwir Gardd y Neuadd. Cafodd eglwys Trefriw ei hadeiladu ar y

* Journey to Snowdon, Pl. iv. Gol.

† Rhif XIII.

‡ Rymer ii. 427.

§ Dugdale Mon. i. 927. Stevens's Transl. 100.

‖ Rotulæ Walliæ, 92.

¶ Geilw Willis ef yn *Rhisiart ap Rhys*.

** Yn awr (1809) yn meddiant arglwydd Newborough, ŵyr i Syr John Wynne o Glynllifon. Gol.

†† Y mae y tŷ yma wedi cael ei helaethu a'i adgyweirio yn ddiweddar. Gol.

Digitized by Google

dechreu gan Lewelyn, er lleihau llafur ei dywysoges, yr hon a orfyddai, yn flaenorol i hyny, fyned ar ei thraed i Laurhochwyn, ffordd hirfaith trwy ganol y mynyddoedd.*

Oddiyno aethum yn fy ol mor belled a Gwydir, ac esgynais allt dra serth, gan adael y parc perthynol i'r tŷ ar fy llaw chwith. Myned ar draws morfa agored, yn llawn o fawnogydd, tanwydd rhagluniaethol y wlad. Enw y lle ydyw Bwlch yr Haiarn; y mae yma beth gweithydd plwm wedi eu darganfod, ond nid oeddynt o nemawr werth. Yn y parthau hyn y mae y *Gale* neu y *Bog Myrtle* (myrtwydd y gors) yn tyfu mewn cyflawnder, a'u harogl persawrus yn llenwi yr awyr. Planigyn gogleddol ydyw, ond nid ŷw yn ymledu yn mhell. Ceir ef yn Lapland, Norway, a Sweden, ac mewn rhai parthau mynyddig o Brydain Fawr. Gelwir ef *Bwrli*, neu y planigyn cyfogol; a *Gwyrddling*, neu y planigyn gwyrdd. Defnyddir ef gan ein cydwladwyr at lifo melyn. Gosodant gangau o honynt o dan ac ar eu gwelyau, i gadw ymaith chwain a phryfed; ac hefyd y maent yn ei weinyddu mewn powdwr, neu wedi ei doddi, ac yn ei gymhwyso at yr ymysgaroedd er gwrthweithio llyngyr. Heblaw hyny, y mae weithiau yn cael ei ddefnyddio yn lle hopys.

*Myrtwydd y Gors.*

Y mae y *Sorbus aucuparia*,† neu onen y mynydd, i'w chael yn fynych yn y parthau hyn. Y dosparth tlotaf o'r trigolion a wnant fath o ddiod o honi, yr hon a elwir *diod griafol*, trwy ferwi y grawn mewn dwfr. Mewn amseroedd boreuach, arferid gwneyd defnydd ofergoelus o'r coed: byddai darn o hono wedi ei ffurfio ar lun croes, yn cael ei gario yn y boced, a chredid ei fod yn amddiffyniad anffaeledig rhag pob math o swynion.

Wedi cyrhaedd y copa, ymwelais, ar y llaw ddehau, â *Llyn Geirionydd*—llyn bychan, ond y mae yn hynod am mai ar ei finion ef y preswyliai yr enwog *Taliesin* (Ben Beirdd,) yr hwn a flodeuai oddeutu y flwyddyn 560, yn amser Gwyddno Garanhir, is-dywysog perthynol i Gantre'r Gwaelod.

*Taliesin.*

Y mae hanes ein bardd yn dechreu yn debyg i hanes Moses; oblegyd deuwyd o hyd iddo yn amlygedig ar y dwfr, wedi ei rwymo mewn côd ledr, mewn gored a roddasid i Elphin fab Gwyddno at ei gynaliaeth. Y tywysog ieuangc, am ei fod wedi gwastraffu ei dda, ar y cyntaf a dorodd allan i wylo, o herwydd caffael o hono, fel y tybiai, helfa mor ddiwerth. Ond cymerodd dosturi ar y maban, a pharodd i ofal priodol gael ei gymeryd am dano. Wedi hyn, llwyddodd Elphin; a Thaliesin, fel y tyfodd i fyny, a'i hanerchodd â'r gân foesol a ganlyn yr hon a elwir "*Dyhuddiant Elphin;*" tybir i'r maban ei chyflwyno i'r tywysog ar y noswaith y deuwyd o hyd iddo yn y gored.

Elphin deg, taw â'th wylo;
Na chabled neb yr eiddo;
Ni wna les drwg obeithio;
Ni wyl dyn ddim a'i portho;
Ni bydd coeg gweddi Cynllo.
Na thŷr Duw ar addawo;
Ni chaed yn Ngored Wyddno
Erioed cystal a heno.

* Sebright MSS.

† *Pyrus aucuparia* Smith, Fl. Br. p. 533. Gol.

Digitized by Google

Digitized by Google



*Y WYDDFA O GAPEL CURIG.*

SNOWDON FROM CAPEL CURIG.

Digitized by Google

**Elphin deg, sych dy ddeurudd;**
**Ni weryd bod yn rhybrudd;**
**Cyd tybiaist no chefaist fudd;**
**Ni wna les gormod cystudd;**
**Nac amheu wyrthiau Dofydd;**
**Cydbwyf bychan wyf gelfydd;**
**O foroedd ac o fynydd,**
**Ac o eigion afonydd,**
**Y daw Duw a da i ddedwydd.**

**Elphin gyneddfau diddan,**
**Anfilwraidd yw d'amcan;**
**Nid rhaid it' ddirfawr gwynfan;**
**Gwell yw Duw na drwg ddarogan;**
**Cyd bwyf eiddil a bychan,**
**A'r gorferw mor dylan,**
**Mi a wnaf yn nydd cyfyrdan**
**It well no thrichan' maran.**

**Elphin, gyneddfau hynod,**
**Na sòr ar dy gaffaelod;**
**Cyd bwyf wan ar lawr fy nghod,**
**Mae rhinwedd ar fy nhafod;**
**Tra fwyf fi y'th gyfragod,**
**Nid rhaid it ddirfawr ofnod;**
**Drwy goffa enwau'r Drindod,**
**Ni ddichon neb dy orfod.**

*Glyn Llugwy.*] Oddiyma disgynais allt serth, i *Glyn Llugwy*, gwaelod yr hwn a ddyfrheir gan yr afon Llugwy; y mae yn llawn porfa, ac amrywir ef gan lwyni bychain o goed derw ieuaingc, tra annhebyg i'r coedwigoedd mawrion a orchuddient y lle hwn, Dyffryn Mymbyr, Llanberis, a pharthau ereill o Eryri, yn amser Leland.* Myned trwy fwlch cul, uwchlaw cenllif cynddeiriog, yr hwn a ddisgyna yn rhaiadrau toredig o graig i graig. Ychydig o ffordd oddiyma, myned i Ddyfryn Mymbyr, dyffryn yn mha un y mae coedwigoedd, ac hyd yn nod goed sengl, wedi diflanu. Y mae eglwys fechan *Capel Curig*, ac ychydig o dai gwasgaredig, yn rhoddi tipyn o fywyd yn y rhandir anghysbell hon. Yma y mae y Wyddfa a'i holl feibion, *Crib Goch*, *Crib y Distyll*, *Lliwedd yr Aran*, a lluaws ereill, yn ymagor o flaen ein golygon ar unwaith, ac yn gwneyd y ffordd hon yn oreu oll i agosâu at yr Alpau yr ymffrostiwn ynddynt. Terfynir y dyffryn hwn, ar un ochr, gan y Foel Siabod; ar y llall, gan y Glyder Fach, ac amryw fryniau ereill o lai hynodrwydd. Y mae y gwaelod yn ddoldiroedd; ar yr adeg hon yn llawn prysurdeb oblegyd y cynauaf gwair, ac yn llawn o gertwyni, ceffylau, ac hyd yn nod ddynion a merched, yn llwythog o wair. Amrywir ei ganol gan ddau lyn bychan,† gydag ochrau pa rai y marchogem; ac ychydig o ffordd tu hwnt iddynt, yn agos i Bont y Gwryd, disgynasom oddiar ein ceffylau i ymweled â chopa y Glyder, yr hwn le sydd yn hynod ar gyfrif yr hanes a ddyry golygydd Camden am gyflead anarferol y creigiau. Cyfarwyddasom ein gweision i fyned yn mlaen tua Llanberis, gyda'n ceffylau. Yr oedd yr esgyniad yn hirfaith, serth, a llafurus, yn wlyb a llithrig; ac yr oedd yr holl ffordd braidd wedi ei chuddio â darnau rhyddion o greigiau, o dan ba rai yr oedd rhuad parhaus y dyfroedd, y rhai a ymgeisient am eu ffordd i'r gwaelodion.

*Y Glyder Fach.*] Cafodd ein llafur ei gyflawn ad-dalu pan gyrhaeddasom y copa. Yr oedd y cylch yn orchuddiedig â chynulliadau o feini, o anferthol faintioli, o ddeg troedfedd o hyd i ddeg ar hugain, ac yn gorwedd yn mhob cyfeiriadau· yr oedd y rhan fwyaf o honynt o ffurf golofn-

* Itin. v. 45.

† Uwchlaw yr isaf o'r llynau hyn, ynghanol yr olygfa ysplenydd yma, y mae y diweddar Arglwydd Penrhyn wedi adeiladu gwesty cyfleus. Y mae yn orsaf gyfryngol rhwng Bangor a Cherniogc. Yr olygfa oddiyno ar "Y Wyddfa a'i holl feibion," sydd yn hynod o darawiadol. Gol.

Digitized by Google

aidd, yn fynych wedi eu pentyru y naill ar y llall; mewn manau ereill, yn haner unionsyth, yn gogwyddo at i lawr, y rhai a orweddant yn gwbl ddireol gyda golwg ar eu bonseiliau. Coronid eu copäau yn fynych yn y dull rhyfeddaf gyda meini ereill, yn gorwedd arnynt ar eu hyd. Yr oedd un o honynt oddeutu 25 troedfedd o hyd, ac yn 6 o led: dringais i fyny, ac wrth i mi daro fy nhroed, teimlwn ysgydwad crynedig cryf o'r naill ben i'r llall. Yr oedd un arall, 11 troedfedd o hyd, a chwech o amgylchedd yn y man teneuaf o hono, wedi ei fantoli mor gywrain ar bigyn craig, fel y buasid yn meddwl y gallasai cyffyrdd-iad plentyn ei fwrw i lawr. Yr oedd yno drydydd maen, anferth o faintioli; ac yn meddu ar briodoledd careg siglo.

Yr wyf yn ystyried y mynydd hwn fel math o ddrylliad ar natur, wedi ei ffurfio a'i daflu i fyny trwy ryw ddirdyniadau mewnol, yr hyn a roddodd i'r cynulliadau aruthrol hyn o geryg y fath gyfleadau dyeithrol; oblegyd pe buas-ent yn haenau sefydlog, wedi eu dynoethi o'u pridd gan hirfaith wlawogydd, ffurfiasent ymddangosiad rheolaidd, fel ag yr ydym yn cael eu bod yn mhob gwelyau ereill o'r unrhyw ddefnyddiau.

Y mae un rhan o'r mynydd hwn wedi ei ffurfio yn fath o adwy, gyda chreig-iau pigog, yn pwyntio at i fyny, y naill uwchlaw y llall, hyd i uchder mawr. *Trefaen.* ] Yn nghanol y dyffryn islaw, y cyfyd y mynydd hynod a elwir *Tre-faen,** gan ymgymeryd, ar yr ochr hon, â ffurf bigyrnaidd, noeth-lwm, a thra afrywiog. Darfu i'r tremiad ar yr olygfa wyllt, oddiar un clogwyn, beri i mi beidio agosâu i ymchwilio yn mhellach i natur ei gyfansoddiad.

O'r Glyder Bach aethum dros wastadedd, mwy na haner milldir o led, yr hwn a elwir *Y Waen Oer;* canfod, oddiar ei ymyl, mewn ceunant erchyll, *Lyn y Bwchllwyd;* ac yn ngwaelod y dyffryn, yn agos i droed Trefaen, *Lyn Ogwen*, hynod am y gleisiaid rhagorol a ddelir ynddo.


O'r Waen Oer disgynasom ar hyd llwybr tra pheryglus i Gwm Bwchllwyd, ac oddiyno i Lyn Ogwen. Adnabyddir y ffordd o'r lle hwnw i ddyffryn, neu *Y Benglog.* ] yn hytrach geunant, *Nant Ffrancon*, wrth yr enw *Y Benglog*, y llwybr ceffyl† mwyaf arswydus yn Nghymru, yr hwn sydd wedi ei weithio yn y dull mwyaf garw yn fath o risiau, am bellder maith. Ar un ochr, mewn ceunant dwfn, wedi ei ffurfio o dan greigiau cwympiedig, ar un adeg yr oedd cuddfan Rhys Goch o Eryri, bardd mynyddig, noddwr yr hwn oedd Robert ap Meredydd, pleidiwr i Owain Glyndwr, o dynged yr hwn y cyf-ranogodd. Gallaf sicrhau yr ymdeithydd, yr hwn a ymhyfryda yn natur yn ei gwylltineb, na byddai i ymweliad â Nant Francon,‡ o Fangor, yn waith edifar ganddo. Y mae dyfroedd pump o lynau yn ymdywallt i lawr y clogwyn yn nghanol y Benglog, gan ffurfio yr afon Ogwen, yr hon a ymarllwys i'r Fenai ychydig o filldiroedd islaw. Amgylchynir y nant hon â mynyddoedd o uchder mawr, gan mwyaf yn glogwynog; ac y mae copäau llawer o honynt wedi eu

* Gelwir hwn *Tryfan*. J. R.

† Gwnaed hon yn ffordd ragorol, gan y diweddar Arglwydd Penrhyn, ac y mae yn awr yn un o'r prif dramwyfeydd i'r Iwerddon. Gol.

‡ Heblaw aruthredd y golygfeydd, gall yr ymdeithydd yn bresenol gael golwg ar Lyn Ogwen, y chwareli llechi, y rheilffyrdd, a'r holl welliantau a wnaed yn ddiweddar yn Nant Ffrancon, gan Arglwydd Penrhyn, yr hwn le oedd gynt mor anghyfanedd. Gol.

Digitized by Google



*TREFAEN A RHAN O LYN OGWEN.*

**TREVAEN & PART OF LLYN OGWEN.**

Digitized by Google

Digitized by Google

hymylu â chreigiau pigfain. Gwelais, o ddyfnderau y nant, y bugeiliaid yn neidio o bigyn i bigyn; ond yr oedd y pellder mor fawr fel yr ymddangosent i mi megys bodau o urdd arall, yn hofran yn yr awyr.

Y mae mynydd Trefaen, o'r gwaelod hwn yn ymddangos ar ffurf tra hynod, gan ymdebygu i wyneb dyn, yn gorwedd ar ei gefn. Y mae y talcen, y trwyn, y gwefusau, a'r ên, yn dra amlwg; a gallem ychwanegu, gydag ychydig o gymhorth darfelydd barddonol, ein bod yn gweled barf un o'r cyndrigolion,—archdderwydd.

*Cwm Idwal.*] Dechreu ar esgyniad caled arall i Gwm Idwal, lle cofiadwy am mai yma y llofruddiwyd tywysog ieuangc o'r enw hwnw, mab i Owain Gwynedd, gan Dunawt, mab i Nefydd Hardd, un o bymtheg llwyth Gwynedd, i ofal yr hwn yr oedd Owain wedi ymddiried y bachgen, i gael ei fagu yn ol defod y wlad. Yr oedd yn lle cyfaddas i gynyrchu amcanion llofruddiog, yn cael ei amgylchu â chlogwyni erchyll, ac yn cysgodi llyn, yr hwn a ymlechai yn y gwaelod. Yn ol traddodiadau y bugeiliaid, y mae yn llawn o ellyllon; ac ni feiddia un aderyn ehedeg dros ei ddyfroedd damniol, am eu bod mor farwol ag eiddo *Avernus.*

Quam super haud ullæ poterant impunè volantes
Tendere iter pennis.*

Yn agos i'r lle yma y mae chwarel ag sydd yn dra hynod am hogfeini, o ba rai yr anfonir wmbreth mawr yn flynyddol i Lundain.

Y mae llafur newydd a mwy blinderus i fyned drwyddo yn yr esgyniad o Gwm Idwal, i'r uchelderau a adawsom. Gorwedda y ffordd o dan y clogwyn anferthol hwnw, a elwir Castell y Geifr. Lawer oes yn ol yr oedd gweddillion mynydd creigiog yn ffurfio ffordd gyda rhediad anarferol. Y mae ffrwd o geryg, pob un o honynt o faintioli anferthol, yn pwyntio at y Cwm, na all ond y rhai cryf ac ystwyth o gorph, yn gystal a'r rhai sydd yn feddiannol ar benau cryfion i ddal yr olygfa arswydus ar y ceunentydd dychrynllyd odditanynt, ddringo drostynt.

*Twll Du.*] Gweled, ar y llaw ddehau, rwyg anferthol mewn craig, a elwir *Twll Du*, neu *Gegin y Diafol.* Bwlch echrydus ydyw, yn nghanol clogwyn du, yn ymestyn o ran ei hyd am 150 o latheni; oddeutu 100 o latheni o ddyfnder; a dim ond chwe' llath o led; yn un agorfa unionsyth ar wyneb y mynydd. Wedi gorchfygu pob anhawsderau, a chymeryd fy anadl, anturiais edrych i lawr i'r gagendor ofnadwy yma; a chanfyddais nad oedd ei erchylldod wedi lleihau dim ar gyfrif fy sefyllfa ddyrchafedig; ond ychwanegid at hyny gan ddyfroedd Llyn y Cwm, y rhai a ruthrent allan yn ffrochwyllt yn ei waelod.

*Clogwyn Du.*] Cyrhaedd y *Glyder Fawr*, a myned heibio i ymyl y *Clogwyn Du yn mhen y Glyder*, clogwyn mor arswydus ag unrhyw un yn Eryri, ac yn crogi dros Lyn Idwal. Y mae ei gymydogaeth yn nodedig yn mhlith llysieuwyr am blanigion anghyffredin, yn mysg pa rai y gellir nodi y *Saxifraga nivalis, Bulbocodium,* † a'r *Lichens Islandicus.* Y mae yr olaf ‡ yn

* "Dros yr hwn ni fyddai yr adar yn alluog, heb berygl, i fyned ymlaen ar eu hynt adeiniog."

† BULBOCODIUM Ray, Syn. 274, ac ANTHERICUM *serotinum* ysgrifenwyr diweddarach, y rhai y darfu i un awdwr, gan gymeryd ei gamarwain gan yr enw, eu galw BOLBOCODIUM *vernum:* planigyn y dywed iddo ei ddarganfod ar y Glyder; ond y mae yn sicr na chafwyd ef erioed yn wyllt mewn unrhyw le yn Lloegr na Chymru. GOL.

‡ Lightfoot's Fl. Scotica, ii. 83.



Digitized by Google

dra gwasanaethgar yn mhlith trigolion Ynys yr Iâ *(Iceland).* Defnyddir trwyth o'r dail ir mewn dwfr ganddynt, yn y gwanwyn, fel cyffer rhyddhaol; ac eto, wedi eu sychu, newidiant eu hansawdd, ac ar ol eu malu yn llwch, ffurfiant ymborth cyffredin, naill ai trwy wneyd y llwch yn fara, neu ei ferwi gyda llaeth, neu ddwfr. Y mae *Haller* a *Scopoli* yn crybwyll hefyd ei fod yn cael ei ddefnyddio, yn eu hamser hwy, yn Vienna, mewn achosion o beswch a darfodedigaeth, wedi ei wneyd yn isgell, neu botes.*

*Y Glyder Fawr.*] Y mae yr olygfa o ben y mynydd yma yn dra ardderchog. Gwelir y Wyddfa oddiyma yn fanteisiol; dyffrynoedd dyfnion a llynau Llanberis a Nant Ffrancon, ac amrywiaeth mawr o olygfeydd ereill tra swynol. Y mae y gwastadedd a ffurfia y pen uchaf wedi ei orchuddio yn rhyfedd â cheryg rhyddion, yn debyg i làn y môr; mewn rhai manau yn croesi y naill y llall yn mhob cyfeiriad, ac yn gwbl noeth. Yma ceir cynulliadau lluosog o geryg wedi eu gosod braidd yn sythion, yn bigfain, ac yn bigyrnau: y cwbl wedi cael eu curo gan y tywydd, eu bwyta gan amser, yn fêl-wlithog, ac o liw llwyd hybarchus. Ymddengys fod yr elfenau wedi ymladd yn erbyn y mynydd hwn: y mae y gwlaw wedi ei olchi, y mellt wedi ei rwygo, hyd yn nod y pridd wedi ei adael, a'r gwynt wedi ei wneyd yn wrthddrych gwastadol ei gynddaredd. Dywed y bugeiliaid mai yma y mae trigfan yr ystormydd, a galwant un rhan o hono yn *Garnedd y Gwynt.*

Cysylltir y mynydd hwn â'r Glyder Fach gan y Waun Oer; felly y mae gan yr ymdeithydd ei ddewisiad o ffyrdd i'r mynyddoedd rhyfeddol hyn; ond yr un fwyaf esmwyth ydyw yr un y disgynais i ar hyd-ddi, i nant Llanberis. Ar fy ffordd, aethum heibio i gopa craig afrywiog, yr hon, mi dybiaf, ydyw *Rhiw y Glyder*, yr hon a gofnodir gan *Llwyd* a *Ray*, am ei hamrywiaeth o blanigion anghyffredin. Daethum i lawr oddiyno trwy *Oleu Fawr.*

*Llyn y Cŵn.*] Yn fuan wed'yn ymwelais â llyn bychan a elwir *Llyn y Cŵn*, yr hwn sydd yn hynod ar gyfrif chwedl *Giraldus*,† yr hwn a'n hysbysa fod y pysgod a ddelid ynddo, yn ei ddyddiau ef, y rhai oeddynt o dri math—gleisiaid, gwyniaid, a llyswod—i gyd yn unllygeidiog, pob un yn amddifad o'r llygad chwith. Annichon ydyw gwrthbrofi hyn yn bresenol, oblegyd nid oes dim un pysgodyn yn y llyn yn awr! Ond i wneyd iawn am hyny, bydd i'r llysieuydd gael ar ei lanau y planigion canlynol—*Lobelia dortmanna*, *Subularia aquatica*, a'r *Isoetis lacustris;* ac heb fod yn mhell oddiwrtho, y *Juncus triglumus*, yr hwn sydd yn dra chyffredin yma, ac yn rhai o fynyddoedd Ysgotland. Ceir yma hefyd yr *Hieracium alpinum*, *Rubus saxatilis*, *Solidago cambrica*, ac amryw blanigion anghyffredin ereill. Yn ystod y rhan hon o'r ddisgynfa, yr wyf yn gadael y *Llider Fawr*‡ a'r *Llider Fach*—dau o fynyddau mawrion, y rhai a ffurfiant derfynau Nant Peris—ac yn cyrhaedd y dyffryn hwnw trwy *Geunant yr Esgar*, neu y *Gelyn.*§


* Er y pryd hyny y mae wedi cael ei roddi ar Restr Llysiau Meddygol Ynys Prydain. Woodville Med. Bot. p. 566, tab. 205. Gol.

† Sir Richard Hoare's Ed. vol. ii. p. 131.

‡ Nid yw *Llider* byth i'w glywed, ond *Y Llidir* yn unig, yr hyn a allai fod yn dyfod oddiwrth y fath enw ag *Elidir*, gan olygu Mynydd Elidir. J. R.

§ Y mae yr eglurhad yma yn amhriodol; *esgair* ydyw y gair, a golyga yspardun mynydd, neu drum isel sydd yn gysylltiedig â thir uwch. J. R.

Digitized by Google



NANT BERIS A RHAN O'R GLYDER A'R GRIB GOCH.

NANTBERIS WITH THE GLYDER & CRIB GOCH.

Digitized by Google

*Nant-beris.* ] Dyffryn prydferth ydyw hwn, yn cael ei derfynu gan droed y Wyddfa, Cefn Cwm Gafr, y ddwy Glyder, a'r ddwy Lider, yr oll o honynt yn fynyddoedd o'r gradd uchaf. Y mae yn unionsyth, a braidd o led cyfartal, yn llawn o ddolydd, a dau o lynau mawreddog, y rhai a ddaliant gymundeb â'u gilydd trwy afon a rêd rhyngddynt. Y coed derw hybarch, y rhai y sonir am danynt gan Leland, nid ydynt yn bodoli mwyach. Y mae cybydd-dod, neu afradlondeb, a'u dylynydd gwastadol, tylodi, wedi yspeilio ein tywysogaeth o lawer iawn o'i haddurniadau deiliog. Yn mysg camgymeriadau aneirif y gorchwyl yma, ofnaf y bydd yn rhaid i'r teithydd, yn lle y MAENT yn guddiedig gan goed, ddywedwyd IDDYNT FOD felly. Ond er hyn i gyd, y mae y rhandir digysgod yma yn deilwng o'i sylw. Yr oedd llwybr, ar un adeg yn ddim amgen nag olyniad o risiau afrywiog a charegog, yn rhedeg ar un ochr, yn uchel uwchlaw y llyn, ac yn fynych wedi cael ei dori allan o'r graig. Yr wyf yn deall fod hwn, erbyn hyn, wedi ei wneyd yn ffordd, yr hon sydd yn rhwyddhau llawer ar yr ymgyrchu yma, ac yn lleihau neillduedd y lle, a'i gydgordiad â'r gwyllt amgylchoedd.

*Castell Dolbadarn.* ] Ar graig uchel, uwchlaw un o'r llynau, y saif gweddillion *Castell Dolbadarn*, yn cynwys tŵr crwn, ac ychydig o weddillion muriau. Adeiladwyd ef o geryg teneuon, llafnaidd, y wlad, wedi eu hasio wrth eu gilydd â morter tra chryf, heb gregyn. Trawsfesur y tŵr oddifewn nid yw ond 26 o droedfeddi. Ymddengys iddo gael ei adeiladu i amddiffyn y fynedfa hon i berfeddbarth Eryri; defnyddid ef hefyd fel carchar gwladol. Y mae yn amlwg mai rhyw dywysog Cymreig a'i hadeiladodd. Dywedir wrthyf mai Padarn Beisrydd,* mab Idwal ydoedd.

Yn y dyffryn hwn y mae dau gynulliad o dai truenus. Y pellaf sydd yn agos i ben y llyn uchaf, gydag eglwys, wedi ei chyflwyno i St. Peris, yr hwn, fel y dywedir wrthym, oedd yn *gardinal.* Yma hefyd y mae ffynhon y sant i'w gweled, wedi ei hamgylchu â mur. Y mae gwarchodes y lle yn byw gerllaw, ac y mae yn adrodd eich tynged wrth ymddangosiad neu ddiffyg ymddangosiad pysgodyn bychan, yr hwn sydd yn llechu yn rhai o dyllau y ffynhon.

Oddi yma marchogais uwchlaw y llynau, at eu pen isaf. Y llyn uchaf ydyw y lleiaf, ond y mae yn brydferthach dernyn o ddwfr. Dywedir ei fod, mewn rhai manau, yn 140 o latheni o ddyfnder; ac fod ynddo gyflawnder o dorgochiaid, cyn i'w nifer gael ei leihau gan y ffrydiau a lifant o'r gweithiau copr, y rhai a geir ar hyd ochrau y bryniau. Y mae y llyn isaf oddeutu milldir a haner o hyd, culha yn raddol nes dyfod ar ffurf afon, yr hon a elwir *Rhythell*,† yr hon a lifeiria mewn gwelyau amrywiog nes y cyrhaedda Gaernarfon, ond cyn cyrhaedd yno, adnabyddir hi wrth yr enw *Seiont* (Afon y Saint.)

Yn agos i ben y llyn y mae dynes hynod yn preswylio, a chefais siomedigaeth am nad oedd gartref pan y gelwais. *Marged ach Ifan* ] Hon ydyw *Marged ach Ifan*, o Benllyn, yr engraifft olaf o nerth ac yspryd merched yr hen Frytaniaid. Y mae ar yr adeg yma (1786) oddeutu deg a phedwar ugain mlwydd oed. Y fenyw hon ydoedd yr oreu am hela, saethu, a

* *Padarn Beisrydd* (neu yn fwy cywir *Beisrudd*) ydoedd daid i *Gunedda*, ac yn llawer rhy foreu. J. R.

† Enw yr afon hon yn bresenol ydyw *Rhythallt*. J. R.

Digitized by Google

physgota, o neb yn ei hamser. Cadwai o leiaf ddwsin o gŵn—daeargwn, milgwn, ac adargwn,—y cwbl yn rhagorol o ran eu rhywogaeth. Lladdai fwy o lwynogod mewn un flwyddyn nag a laddai yr holl helyddion ereill mewn deng mlynedd: rhwyfai yn rymus, ac yr oedd yn frenines y llyn: chwareuai yn dda ar y crwth, ac yr oedd yn gydnabyddus â'n holl hen alawon Cymreig: nid esgeulusai waith y llaw-gelfyddydwr, oblegyd yr oedd yn saer rhagorol: a phan yn ddeg a thriugain oed, yr oedd yr oreu yn y sir am ymaflyd codwm, ac ychydig o wŷr ieuaingc a feiddient ymgystadlu â hi. Rai blynyddau yn ol, yr oedd ganddi forwyn o gyffelyb anian; ond darfu i angeu, yr heliwr cadarn hwnw, ei hyspeilio o'r diwedd o'r gydymaith ffyddlawn hon. Yr oedd Marged heblaw hyny yn ôf, yn grydd, yn adeiladydd cychod, ac yn gwneyd telynau. Byddai yn pedoli ei cheffylau ei hun, yn gwneyd ei hesgidiau ei hun, ac yn adeiladu ei chychod ei hun; a byddai yn ymgymeryd â gwneyd cytundebau i gario mŵn copr i lawr y llynau. Ni ddylwn anghofio dywedyd fod yr holl feirdd yn y gymydogaeth mewn cariad â Marged, ac anfonent iddi eu caneuon serchiadol mewn gwir awen Gymroaidd. Yn y diwedd rhoddes ei llaw i'r mwyaf merchedaidd o'i hedmygwyr, megys pe buasai yn benderfynol i fyntumio hyd y diwedd y tra-rhagoriaeth a roddasai natur arni.

Oddeutu haner milldir yn mhellach yn mlaen, ymwelais â gweddillion *Llys Dinorddwig*,* yr hwn y dywedir ei fod yn dŷ a berthynai i Lewelyn ap Gruffydd: y mae y gwaliau yn uchel a chryfion; y neuadd yn bedair llath ar hugain o hyd; ac o flaen y tŷ y mae ffos ddofn, dros ba un y mae yn debyg fod pont grogedig yn yr hen amseroedd. Heb fod nepell oddiyma y mae lle a elwir *Rhiw'r Cyrn;* oddiar ba un y byddai swyddog, yn oi hen ddefod, yn chwythu corn, er rhoddi rhybudd i'r teulu o ddynesiad eu meistr, ac i alw yn nghyd y gweision ar unrhyw achlysur pan y byddai galwad am danynt.

*Llys Dinorddwig.*

*Gorsafau Prydeinig.*

Rhan o'r gwastadedd digoed rhwng afon Fenai a'r mynyddoedd ydyw hwn. Y mae ei ddiffyg mewn nerth yn cael ei wneyd i fyny gan amrywiol orsafau, wedi eu hamddiffyn yn ol yr hen ddull Prydeinig. *Dinas Dinorddwig*, oddeutu haner milldir i'r de-ddwyrain o eglwys Llanddeiniolen,† ydyw y benaf. Y mae y cylch mewnol yn fawr iawn, ac amgylchynir ef gan amgaer o geryg bychain, yr hon a gyfnerthir gan un arall o geryg mawrion; yna dylyna ffos ddofn, bryncyn o bridd, ffos anferthol arall, a thrydedd amgaer: o fewn y cylch mewnol y mae cylch arall o geryg, efallai y fan lle yr oedd gorsaf y penllywydd.

Ychydig o ffordd i'r dwyrain y mae ffynhon o ddwfr duraidd nerthol, yr hon a fu gynt mewn bri mawr. Gelwir hi *Ffynhon Cegin Arthur;* o honi hi y tardda yr afon a elwir Aber Cegin, yr hon a ymarllwysa i'r môr cydrhwng Bangor a'r Penrhyn.

Ar ein ffordd oddiyma, gwelsom orsaf Brydeinig arall, a elwir *Penygaer*, yr hon yr oeddym yn myned heibio iddi; ac yn fuan wed'yn, heibio i un arall.

* Seinir yr enw hwn bob amser yn bresenol yn *Dinorwig*, a byddai yn ddyddorol cael gwybod pa awdurdod sydd dros y ffurf hirach a roddir gan Pennant, gan ei fod yn arddangos cysylltiad yr enw â'r *Gordofigion;* y mae yn deg ychwanegu ei fod wedi ei argraffu *Dinorddwig* yn "Johnson's Diary of a Journey in North Wales in 1774." J. R.

† Y mae yn y fynwent ywen ag sydd yn saith droedfedd ar hugain o gylchfesur.

Digitized by Google

lai, o'r enw *Bryn Costrelau*, yr hon a amgylchir gan fur sengl; ac ar fryncyn ar y naill ochr y mae un arall, a elwir *Caer Cwm y Glo*, neu *Caer Careg y Fran*, o ba un, fel y clywsom, yr oedd ffordd balmantedig i Lys Dinorddwig. Gallaf ychwanegu yma fod Iorwerth I., ar ol marwolaeth Llewelyn ap Gruffydd, wedi rhoddi y palas yma i Syr Gruffydd Llwyd, y boneddwr a ddygodd iddo y newydd gyntaf am enedigaeth ei fab, Iorwerth o Gaernarfon.

Dychwelyd yn ol ar hyd yr un ffordd, ac wedi ymadferu trwy gysgu noswaith yn nhŷ Mr. Close, goruchwyliwr y mwngloddfeydd yn Llanberis, yn gynar bore dranoeth dechreu ar ein hesgyniad i gopa uchaf Eryri, o dan arweiniad Huw Siôn, yr hwn y mae yn dda genyf allu ei gymeradwyo fel arweinydd o'r fath alluocaf. Cadw ar ochr y llyn am gryn ffordd, yna troi ar yr aswy a chanfod,

*Ceunant Mawr.* ] heb fod yn mhell o'r ffordd, y *Ceunant Mawr*, rhaiadr ardderchog, yn ymfwrw tros ddwy o greigiau anferth, i ddau o ddyfn-agenau o'r fath mwyaf dychrynllyd. Yn agos i'r lle hwn, deuwyd o hyd i rai *gleiniau*; rhai o wydr, ac un arall o fath o faen tywyllddu.

Y mae y gleiniau, a chragen nodedig, yr hon a gafwyd yn yr un lle, yn meddiant y Parchedig John Llwyd, o Gaerwys. Adnabyddir y gleiniau yn sir Gaernarfon, a manau ereill, wrth yr enw *Glain Neidr*, a gwisgir hwy fel cyfareddau rhag sych-beswch, ac afiechydon ereill.

Esgyn, uwchlaw *Cwm Brwynog*, nant anarferol o ddofn, yn yr hon y ceir cyflawnder o *Wair y Rhosydd*, yr hwn a wneir i fyny yn benaf o amrywiol fathau o frwyn, yn enwedig y *Juncus squarrosus*, neu frwyn y mwsogl, *Scirpus cæspitosus*, brwyn cnwb-fwsogl y waen, *Schænus nigricans*, brwyn du y gors, a'r *carices*, yn gymysgedig âg amryw fathau o laswellt. Y mae y gwair a gynyrcha y doldiroedd isaf yn gwbl wahanol o ran ansawdd, am ei fod yn anarferol a bur a meddal; a chynwysa gan mwyaf y glaswellt rhagorol hwnw a adnabyddir gan lysieuwyr wrth yr enw *Agrastis capillaris.** Gan ein bod yn

*Glaswellt.* ] bresenol gyda phwngc y glaswellt, dichon y bydlai yn hyfryd gwneyd sylw, mor ryfeddol y mae rhai o honynt yn newid o ran eu hymddaugosiad, fel ag yr ydym yn esgyn y bryniau uchaf: glaswellt main y waen, *Aira cæspitosa*, peiswellt y defaid, *Festuca ovina*, glaswellt mynyddig y waen, *Poa alpina*, a rhyw ychydig ereill, y rhai, yn yr iseldiroedd, lle y mwynhant ddylanwad priodol yr haul, a meithder yr haf, er aeddfedu eu hâd, a adgynyrchir yn yr un dull a glaswellt yn gyffredinol; ond fel y cyrhaeddant sefyllfa mwy ucheledig, lle y maent yn teimlo oherwydd byrdra yr haf, a diffyg o wres angenrheidiol yr haul er perffeithio eu hadau, deuant yn *fyw-epiliog;* hyny ydyw, y mae gwreiddiau eu hadau yn epilio, ac yn ymsaethu fel blagur yn y cwpan, o ba un y disgynant, gan wreiddio yn ddiymaros, a thyfu; trefniad caredig a rhagluniaethol, er mantais i'r hinsoddau oerion, y rhai nid ydynt mor gyfaddas at gynyrchu llysiau!

Nid yw y rhandir fynyddig hon yn cynyrchu ond ychydig o ŷd. cynyrch yma ydyw gwartheg a defaid, y rhai, yn yr haf, a ymgadwant yn dra uchel ar y mynyddoedd, yn cael eu dylyn gan eu perchenogion, yn-

*Hafottai.* ] nghyda'u teuluoedd, y rhai a breswyliant am yr adeg hono mewn *Hafottai*, megis ag y gwna yr amaethwyr yn mynyddau Swit-

* Hudson Fl. Ang. fol. ed. Agrostis vulgaris Smith. Fl. Br. Gol.

Digitized by Google

serland yn eu *Sennes*. Cynwysa y tai hyn un ystafell hir, gyda thwll yn un pen, i ollwng allan y mwg oddiwrth y tân, yr hwn a wneir oddi tan y twll. Syml iawn ydyw eu dodrefn. defnyddiant geryg yn lle ystolion neu gadeiriau, a'u gwelyau ydyw gwair, wedi eu trefnu yn rhesi ar hyd yr ochrau. Gwnant eu dillad eu hunain; a lliwiant eu brethynau â *Chen du y ceryg*, neu *Lichen omphaloides* y llysieuwyr; ac â chen arall, *Lichen parietinus;* lliwiau brodorol a gesglir hyd y creigiau. Yn ystod yr haf, y mae y meibion yn treulio eu hamser naill ai yn ngwaith y cynauaf, neu yn edrych ar ol y diadelloedd: a'r merched yn godro, neu wneyd caws ac ymenyn. At eu gwasanaeth eu hunain, y maent yn godro y defaid a'r geifr, a ffurfiant gaws o'u llaeth, yr hwn a fwytânt eu hunain. Y mae ymborth y mynyddwyr hyn yn hynod o syml, ac yn gynwysedig o ymenyn, caws, a bara ceirch: yfant faidd; ond bydd ganddynt yn wastad yn nghadw ychydig o boteli o gwrw cryf, i'w ddefnyddio fel cordial, mewn afiechyd. Y maent yn bobl o ddealltwriaeth da, yn ofalus a gwyliadwrus; yn gyffredin yn dàl, teneu, ac o gyfansoddiadau cryfion, ar gyfrif eu dull o fyw. Ar ddynesiad y gauaf, disgynant i'r *Hendref*, neu yr hen breswylfod, lle yr arweiniant, yn ystod y tymhor hwnw, fywyd anweithgar.

Yn ystod ein hesgyniad, gwelsom, ar y llaw chwith, uwchlaw y cwm, *Foel y Cynghorion*.* Myned trwy *Fwlch y Maes-cwm*, ac amgylchynu ochr y Wyddfa, nes cyrhaedd *Bwlch y Cwm Brwynog*, lle y mae yr esgyniad yn dyfod yn dra anhawdd, o herwydd ei serthedd dirfawr. Y mae teithwyr yn gadael eu ceffylau yn y fan yma. Dechreu ar ymdaith lafurus, gan ddringo yn mysg y creigiau. Ar yr aswy yr oedd y clogwyni uwch ben Cwm Brwynog, gyda *Llyn du yr Arddwy** yn y gwaelod. Ar y llaw ddehau yr oedd y rhai uwch ben y

*Y Llynoedd uchel.*

llynoedd bychain Llyn Glâs, Llyn y Nadroedd, a Llyn Goch.* Yr olaf ydyw yr uchaf ar yr ochr hon i'r mynydd; ac ar eu glanau, fel y mynegir i ni, yn nyddiau y *tylwyth teg*, byddai y boneddigion bychain hyny yn cadw eu dawnsfeydd. Yr oedd y ffordd yn y fan yma, o glogwyn i glogwyn, yn ffurfio math o wddfdir, ond nid un o'r rhai mwyaf boddhaol, nes y cyrhaeddasom wastadedd glaswelltog, lle y cawsom beth gorphwysfra, cyn i ni ymlafurio i fyny hyd gyfres arall o greigiau toredig: ar ol y rhai hyn, ni a gawn ail lecyn gwastad, cyn i ni gyrhaedd yn gwbl i'r copa,

*Pen y Wyddfa.*

yr hwn, mewn ffordd o ragoriaeth, a elwir Y WYDDFA, neu *y Uc anlwg*.† Y mae yn codi braidd i bigyn, neu, o leiaf, nid oes yno ond lle i wal gylchog o geryg rhyddion, oddi fewn i ba un y mae teithwyr yn gyffredin yn cymeryd eu hymborth.


Ymddengys y mynydd o'r fan yma fel pe yn cael ei ategu gan oedair o ysgwyddau mawrion, rhwng y rhai y mae pedwar o gymoedd dyfnion; ac y mae ganddynt oll, oddigerth un, un neu ragor o lynau yn ymlochesu yn eu gwaelodion

*Ffynhon Lâs.*

pellenig. Y nesaf atom ydoedd y *Ffynhon Lâs*, yn gorwedd yn union odditanom. Bu un o'r cwmni mor ryfygus a disgyn ar hyd ffordd nodedig o ddrwg i graig a ymdaflai allan, ac a grogai

* Yr enwau hyn yn awr ydynt *Moel Gynghorion*, *Llyn du'r Arddu*, a *Llyn Coch*. Y mae *Llyn Goch* Pennant yn meddu y cyfnewidiad ag yr ydym yn fynych yn cyfarfod âg ef allan o'i le, pan y mae yn rhoi ystyr enwau Cymraeg. J. R.

† Y mae y deongliad yma yn dra phrydferth, ond tebycach ydyw fod yr ystyr i gael edrych am dano yn y gair *gwydd* (coed), yr hyn a gysylltai yr enw gyda'r mynydd fel Coedwig Freninol. J. R.



Y WYDDFA O GWM Y GLO.

Digitized by Google

Digitized by Google

dros y clogwyn arswydus; ac yno ymddangosai yn debyg i'r duw Mercher yn barod i gymeryd ei adenydd oddiar gopa mynydd *Atlas*. Ymddangosai dyfroedd y Ffynhon Lâs, o'r uchder yma, yn dduon ac amhlymiadwy, a'r ymylon yn gwbl wyrddion. Oddiyno y mae olyniad o gymoedd, yn cael eu hamgylchu gan fryniau uchel a chlogwynog, ochrau y rhan fwyaf o ba rai ydynt fel muriau perffaith, a ffurfiant yr amchwareufa brydferthaf yn natur. Y mae y Wyddfa ar un ochr; Crib y Distyll, gyda'i chopäau fel dannedd llif, ar ochr arall; Crib Goch, rhês fynyddig o liw coch tanllyd, yn ymddangos o dan yr un flaenorol; a chyferbyn a hi y mae y terfyn a elwir y Lliwedd. Ategydd arall, tra hynod, i'r mynydd hwn ydyw Y Clawdd Coch, yn ymddyrchafu yn grib mor fain a chul, fel y mae prin yn caniatâu lle hyd yn nod i lwybr traed ar hyd-ddo.

Y mae yr olygfa o'r sefyllfa ddyrchafedig yma yn ddiderfyn. Mewn taith flaenorol,* gwelais oddiarni sir Gaerlleon, mynyddoedd uchel sir Gaerefrog, rhan o ogledd Lloegr, Ysgotland, a'r Iwerddon; golygfa amlwg ar Ynys Manaw; ac ymddangosai Ynys Fôn fel map odditanaf, a phob afonig yn weladwy. Cymerais lawer o drafferth i gael gweled yr olygfa hon yn y modd mwyaf manteisiol. eisteddais i fyny mewn ffermdy ar du y gorllewin hyd haner nos, ac yna cerddais yr holl ffordd i'r copa. Yr oedd y noson yn hynod o glir a serog: at y bore, diflanodd y sêr, a bu yspaid byr o dywyllwch, yr hwn yn fuan a ymlidiwyd ymaith gan doriad y dydd. Ymddangosai corph yr haul yn dra amlwg, rywbeth yn debyg i faintioli y lleuad, cyn iddo godi yn ddigon uchel fel ag i wneyd ei belydrau yn rhy danbaid i'n golygon. Yr oedd y môr a derfynai y parth gorllewinol wedi ei oreuro gan ei belydrau, yn gyntaf gan resi meinion, ac yn y diwedd yn ymddysgleirio gan gochni. Yr olygfa a ymddangosai megys dyrchafiad graddol y lleu mewn chwareudy. Gwelsom ychwaneg ac ychwaneg, nes y daeth ei wres mor angerddol fel ag i godi y tarthion oddiwrth yr amrywiol lynau, yr hyn i raddau a dywyllodd yr olygfa. Yr oedd cysgod y mynydd yn cael ei daflu am filldiroedd o ffordd, ac yn arddangos ei ffurf ddengribog; y Wyddfa yn ffurfio un copa, a Chrib y Distyll y copa arall. Cyfrifais y pryd hyny rhwng ugain a deg ar hugain o lynau, naill ai yn y sir hon, neu sir Feirionydd. Trôdd y diwrnod allan mor boeth, fel y darfu i'n taith gostio i mi groen y rhan isaf o'm gwyneb, cyn i mi gyrhaedd yr orphwysfa, ar ol lludded y bore.

Ar y diwrnod hwn,† cafodd yr awyr ei thywyllu yn fuan iawn ar ol i mi ddyfod i'r copa. Yr oedd tarth tew yn enhuddo holl amgylchoedd y mynydd. Yr oedd yr olygfa i lawr yn echrydus. Rhoddai feddylddrych am niferi o ddyfnderau, yn cael eu cuddio gan fwg tew, yr hwn a chwyrlïai yn wyllt o'n hamgylch. Yn dra mynych byddai i bwff o wynt wneyd agorfa yn y cymylau, yr hyn a roddai olwg amlwg a phrydferth ar lyn a dyffryn. Weithiau ymagorent yn unig mewn un lle; dro arall, mewn amryw leoedd, gan arddangos golygfa fwyaf dyrys a dyeithr o ddwfr, maesydd, creigiau, neu agendorau, mewn haner cant o wahanol fanau. Yna cauid y rhai hyn i fyny ar unwaith, a gadewid ni mewn tywyllwch dudew; yn mhen ychydig amser, ymwahanent drachefn, a hofrient mewn cylchau gwylltion o gylch canol y mynydd, gan amlygu, mewn manau, y copäau a'r gwaelodion yn amlwg i'n golygon. Dis-

* Awst 15fed, yn ol yr Hen Gyfrif. † Awst 15fed, yn ol y Cyfrif Newydd.

Digitized by Google

gynasom o ganol yr olygfa amrywiog hon gyda llawer o hwyrfrydigrwydd; ond cyn i ni gyrhaedd ein ceffylau, torodd allan arnom ystorm o daranau. Yr oedd eu hymroliad yn mysg y mynyddoedd yn anadroddadwy o ddychrynllyd; y gwlaw yn anarferol o drwm. Esgynasom ar ein ceffylau, a chawsom i'r gwaelod trwy lawer o beryglon; oblegyd yr oedd y mân ffrydiau, y rhai a ddyferent ar ochrau y ffyrdd pan oeddym yn myned i fyny, erbyn hyn wedi chwyddo yn genllifoedd; ac yr oeddym ni a'n ceffylau mewn perygl o gael ein hysgubo ymaith gan y dyfroedd disymwth hyn. O'r diwedd, cyrhaeddasom yn ddyogel, er yn ddigon gwlyb a blinedig, i'r hen lety blaenorol.

Anfynych y mae y teithiwr yn cael diwrnod priodol i fyned i ben y Wyddfa; oblegyd yn fynych, pan yr ymddengys yn glir, caiff ei enhuddo yn sydyn ac *Attyniad Cymylau.*] annysgwyliadwy gan niwl, am ei bod yn tynu ati gymylau, y rhai, ychydig cyn hyny, a ymddangosent yn mhell ac mewn uchderau mawrion. Ar brydiau, sylwais arnynt yn disgyn i haner eu huchder, ac er iddynt gael eu gyru i'r dehau a'r aswy, eto cyfarfyddent drachefn o bob ochr, ac ymunent i amgau copa y mynydd mewn un tywyllni anhydraidd.

*Afonydd.*] Y mae swm y dwfr a lifa i lawr o lynau Eryri yn dra mawr; yn gymaint felly fel nad ambeuaf fod y crynswth o hono yn fwy na dyfroedd afon Lundain, uwchlaw y fan lle y mae llanw y cefnfor yn ei chyfarfod.

*Uchder.*] Yr adroddiadau a wnaed am uchder y mynydd nodedig hwn ydynt yn amrywio cryn lawer. Y mae un Mr. Caswell, yr hwn a roddwyd ar waith gan Mr. Adams, yn 1682, mewn archwilfa a wnaeth ar Gymru, yr hwn a'i mesurodd âg offerynau a wnaed o dan gyfarwyddiadau Mr. Flamstead,* a haera fod ei uchder yn 1240 o latheni; ond drwg genyf ddyweyd, ar gyfrif anrhydedd ein mynydd, fod yn rhaid i ni roddi mwy o goel ar ymbrofiadau a wnaed mewn blynyddoedd diweddarach, y rhai ydynt wedi ei dynu i lawr i 1189 o latheni, ac un droedfedd, a chyfrif o borthladd Caernarfon i'w gopa uchaf.

Y mae y gareg a gyfansodda y Wyddfa, a'r rhan fwyaf o Eryri, yn anghyffredin o galed. Yn y cilfachau, mewn rhai manau, ceir yn fynych grisialau mawrion, ond geirwon, ac yn aml iawn y *cubic pyritæ*, y gareg dân chwe'ochrog, yr hon a geir yn gyffredin yn mhob mynyddoedd uchel. Mynychir hwy hefyd gan fwyalchen y graig, aderyn mynyddig; ac y mae yn rhai o'r llynau gyflawnder o dorgochiaid a gwyniaid, pysgod mynyddig. Y mae yr hen breswylydd, yr afr, yn lleihau o ran ei gwerth bob dydd, er yr amser pan y mae perwigau eglwysig wedi myned allan o arferiad, yn ffurfiad y rhai y byddai eu blew gwynion yn cael eu defnyddio yn gyffredinol. Er hyny, cedwir diadelloedd mawrion o honynt at wasanaeth y llaethdy, a godrir hwy yn dra rheolaidd a phrydlon.

*Llysieuaeth.*] Nid yw *Llysieuaeth* yn dyfod o fewn fy nghylch i. Felly ni ddywedaf ddim am y planigion, yn mhellach na bod y rhywogaethau hyny ag y mae LINNÆUS yn eu galw yn briodol yn *Ethereæ* (Awyrolion,) yn cael eu cyfyngu yn gwbl i ranau uchaf y mynyddoedd; ac er y rhaid

* Wren's Parentulia, i. 253. Tybiaf i Caswell gael ei osod ar waith gan Mr. Adams, awdwr yr "Index Villaris."

Digitized by Google

fod eu hadau yn cael eu chwythu at i lawr, nid ydynt byth yn tyfu yn y parthau isaf, y rhai ydynt yn gwbl amddifaid o ryw fathau o blanigion, er yn frodorion o fanau uwch ar yr un mynydd.

*Anifeiliaid.* Anifeiliaid y parthau hyn ydynt lwynogod, gan mwyaf. Yr oedd ceirw i'w cael yma yn nyddiau Leland, yn y fath niferi ag i ddinystrio yr ychydig a amcanai y ffermwyr ei hau: ond yr oeddynt wedi cael eu llwyr ddifodi cyn y flwyddyn 1626.* Yn gymaint a bod Eryri yn *Fforest Freninol.* *Fforest Freninol*, rhoddid allan warantau er lladd y ceirw. Gwelais un oddiwrth y duc Suffolk, wedi ei hamseru Ebrill y 30ain, 1552; ac un arall,† yn y flwyddyn gyntaf o deyrnasiad y frenines Elizabeth, wedi ei llaw-nodi gan Robert Tounesden; a thrydydd, yn 1561, gan Henry Sidney.‡ Yr ail a gyfeirid at *feistr yr helwriaeth, coeduigwr a cheidwad fforest ei mawrhydi y frenines yn Eryri, sîr Gaernarfon.* Yr olaf a estynai derfynau y fforest i siroedd Meirionydd a Môn, er mwyn boddhau rhaib yr hoffddyn Dudley, iarll Leicester, yr hwn a apwyntiesid yn brif goedwigwr trwy lythyr breninol. Mewn canlyniad i hyny, efe a orthrymai y tair sîr gyda digywilydd-dra mawr. Darfu i nythiaid o hysbyswyr yn ddiatreg roddi ar ddeall iddo y gallai y rhan fwyaf o etifeddiaethau y boneddigion gael eu dwyn o fewn cylch y terfynau. Apwyntiwyd dirprwywyr i ymholi i'r gormesiadau a'r dirgeliad tiroedd a gyflawnid o fewn cylch y fforest. Crynhowyd rheithwyr; ond gwrthodwyd eu dedfryd gan y dirprwywyr, am ei bod yn anffafriol i amcanion yr iarll. Cyflawnasai y rheithwyr eu gwaith yn onest, gan ddwyn eu rheithfarn yn ffafr y wlad. Yr oedd Leland, heb fod yn mhellach yn ol nag amser Harri VIII., o dan y ddirprwyaeth freninol; ac eto sicrha, fod yr oll o *Cregery*, h.y. Eryri, yn sîr Gaernarfon, ac nad oes dim o honi yn sîr Feirionydd; er, fel y mae yn ychwanegu, fod y sîr hono yn fynyddig hefyd.§

Cafodd dirprwyaeth newydd ei chyfeirio ar ol hyn at Syr Rhisiart Bulkeley, o'r Baron Hill, sîr Fôn, Syr William Herbert, ac ereill; eithr rhoddwyd diwedd ar hon yn fuan trwy benderfynolrwydd Syr Rhisiart; ond yn 1578, apwyntiwyd un arall yn dibynu ar yr iarll. Gwysiwyd rheithwyr unochrog, a chyfarwyddwyd hwy i ymddangos yn Beaumaris, y rhai a aethant yr un dydd i edrych morfa Malltraeth, ddeng milldir o ffordd oddiyno; a chawsant fod y morfa hwnw yn fforest y Wyddfa, er ei fod mewn sîr arall, ac yn cael ei wahanu oddiwrthi gan gaingc o fôr; am fod y dirprwywyr wedi eu hysbysu, ddarfod iddynt gael gwŷs yn nhrysorlys Caernarfon (i ba un y torasent i fewn y flwyddyn o'r blaen, gan ei chwilota,) trwy yr hon y cawsant allan fod carw wedi cael ei godi yn fforest y Wyddfa, yn sîr Gaernarfon, a'i ymlid hyd lanau y Fenai; iddo nofio dros yr afon hono, a chael ei ladd yn Malltraeth, o ganlyniad fod y lle hwnw yn fforest y Wyddfa! Yr oedd y rheithwyr yn ymddangos yn ngosgorddwisg *(livery)* yr iarll, sef glâs, gyda ffyn bratiog ar eu llewys; a chawsant byth ar ol hyny eu nodi allan gyda'r teitl o'r *rheithwyr duon a werthasant eu gwlad.*

Syr Rhisiart Bulkeley, heb gael ei ddigaloni yn y gradd lleiaf gan y dyfarniad yma, a barhaodd yn ddiysgog yn ei wrthwynebiad i'r gorthrymydd; a dododd holl gamwri y gweithrediadau o flaen y frenines, yn nghyda'r gor-

* Gweler MSS. † Attodiad, Rhif XIV. ‡ Yr unrhyw § Itin. v. 43.

Digitized by Google

thrymder yr oedd ei deiliaid teyrngarol, y Cymry, yn goddef odditano oherwydd y ddirprwyaeth, fel y rhyngodd bodd i'w mawrhydi, trwy broclamasiwn yn Westminster yn 1579, i'w galw yn ol. Leicester, wedi cael ei siomi yn ei amcanion, a erlidiodd Syr Rhisiart hyd eithaf ei allu; aeth mor bell a'i gyhuddo o feddu rhan yn y cydfradwriaeth Babingtonaidd. "GER BRON DUW," meddai y frenines, "ni a gymerwn ein llw ar yr efengylwyr, na ddarfu iddo erioed fwriadu i ni unrhyw niwaid," ac ar hyny aeth at y Beibl, gan ei gusanu, ac ychwanegu, "Ni bydd i ni ei draddodi i garchar; yr ydym wedi ei ddwyn i fyny er yn fachgen.*

*Yn gysegredig.*] Ystyrid y Wyddfa yn gysegredig gan yr hen Frythoniaid, fel yr oedd Parnassus yn cael ei ystyried gan y Groegiaid, ac Ida gan y Cretaniaid. Dywedir hyd heddyw, am bwy bynag a gysgo ar y Wyddfa, y bydd iddo ddeffro wedi cael ei lanw â'r awen, yn union fel pe buasai wedi cymeryd cynt-hun ar fryn Apollo. Yr oedd y Brythoniaid, mewn hen amseroedd tra boreuol, yn addoli mynyddoedd ac afonydd;† ond nid ydyw hyny yn ymddangos oddiwrth y Tribanau a ddyfynir gan yr hynafiaethydd galluog Mr. Rowlands,‡ oblegyd y mae y geiriau "Eiry Mynydd" yn gymhwysadwy, nid at y mynydd hwn yn arbenigol, ond at bob rhai a orchuddir âg eira. Y mae llaweroedd o'r Tribanau hyn, a phob un yn terfynu gydag addysg foesol, o waith Llywarch Hen; o ba rai y gall y canlynol wasanaethu fel engraifft —

Eiry mynydd, gwangcus iar,
Gochwiban gwynt ar dalar;
Yn yr ing, goreu yw câr §

Yr oedd gan y Cymry yr ymlyniad cryfaf bob amser wrth diriogaeth Eryri. Yr oedd yn ffurfio math o attodiad perthynol i dywysogaeth Cymru, yr hwn a ddaliai y tywysog a'i ragflaenoriaid er amser Brutus. Dywedwyd wrth Iorwerth I., gan drigolion Eryri, yn y cyfarfod a fu rhyngddo a'n cydwladwyr, yn y flwyddyn 1281, hyd yn nod pe buasai eu tywysog yn tueddu at foddhau y brenin, trwy roddi meddiant iddo, na byddai iddynt hwy dalu gwarogaeth o gwbl i ddyeithriaid, o iaith, ymarferion, â chyfreithiau pa rai yr oeddynt yn anhysbys.|| Yr oedd gan ein tywysogion, yn ychwanegol at eu teitl, yr eiddo ARGLWYDD ERYRI. Yr oedd ganddynt bump o farwniaid cedyrn o fewn y diriogaeth, y rhai a'i dalient ganddynt. Y fath ydoedd pwysigrwydd y diriogaeth gadarn hon, fel pan oedd Llewelyn yn ei gyfyngder olaf, y gwrthododd ei rhoddi i fyny i Iorwerth, gan wrthod hefyd gynyg y brenin hwnw o fil o bunnoedd yn y flwyddyn, a rhyw sir anrhydeddus yn Lloegr, gan wybod yn dda y byddai i'w dywysogaeth derfynu gyda'r ymddarostyngiad hwnw.

*Cynal Ffair yma.*] Nid cynt nag y cwblhaodd Iorwerth ei gongcwest, nag y cynaliodd ffair orfoleddus ar hwn, ein prif fynydd; ac ymohiriodd i orphen gorfoledd ei fuddugoliaeth, trwy gynal ymladdfeydd ffugiol ar forfaoedd Nefyn.

*Enw.*] Canaf yn iach â *Snowdonia*, neu *Eryri*, gydag ychydig sylwadau ar ei henw, a'i hinsawdd. Y mae y blaenaf yn gyfieithiad llythyrenol¶

* O ysgrifau Paul Panton, ysw. † Gildas. ‡ Rowlands, 253.
§ Casgliad Mr. Rhys Jones o Ganiadau Cymreig, tud. 13. || Powel, 369.
¶ Gan y Sacsoniaid yn gyntaf i SNAWDUNE. *Sax. Chr.* 203.

Digitized by Google

o'r hen enw, *Creigiau'r Eira*,* am fod eira yn disgyn mor fynych arni. Y mae mynyddoedd *Niphates*, yn Armenia, ac *Immaus*, yn Tartary, yn derbyn eu henwau oddiwrth yr un amgylchiad. Tybia rhai fod yr enw wedi tarddu oddiwrth *Greigiau yr Eryri;* ond nid yw yr aderyn hwnw braidd byth yn ffurfio ei nyth yn y creigiau hyn. Y mae yr amgylchiad arall yn un parhaol: nid am y dychymygir eu bod yn cael eu gorchuddio âg eira, mewn rhyw ran neu gilydd, yn ystod yr holl flwyddyn, fel y mae y chwedl wedi cerdded ar led, oblegyd y mae yn dygwydd yn aml, hyd yn nod yn y gauaf, eu bod yn gwbl glir oddiwrth eira.

*Y Tywydd.* Ymddangosiad cyntaf yr eira sydd yn gyffredin rhwng canol mis Hydref a dechreu Tachwedd: y mae y lluwch a ddisgynant yno y pryd hyny yn gyffredin yn cael eu golchi ymaith gan y gwlawogydd, a'r mynydd yn aros yn glir hyd y Nadolig. Rhwng yr adeg hono a diwedd Ionawr y mae y cnwd mwyaf o eira yn disgyn; yr hwn a ddylynir gan rai ereill tua diwedd Ebrill, neu ddechreu Mai, y rhai a arosant mewn rhyw fanau hyd ganol Mehefin, yn mha fis yr ydys yn ei weled yn amryw droedfeddi o drwch Y mae hyd yn nod wedi dygwydd fod y cnwd mwyaf wedi disgyn yn Ebrill, neu ddechreu Mai; ac nid ydyw hyny byth yn peidio dygwydd, pan y mae y gauaf blaenorol wedi cael y cnydau lleiaf o eira. Y mae chwedl Giraldus, fod eira yn parhau yno drwy gydol y flwyddyn, yn gwbl ddisail.

Yn agos i ben Nant Peris, yr ydym yn myned o dan y Glyder Fawr, ac yn canfod haen o graig ar ffurf golofnog, yn mhell uwch ein penau. Ar adegau, y mae darnau mawrion o'r graig aruthrol hon yn disgyn i lawr, adfeilion pa rai ydynt wasgaredig oddeutu y gwaelod, ac yn arddangos engreifftiau arswydol o'r cwympiadau achlysurol hyn. Gelwir un y *Gromlech*, am ei bod yn ddamweiniol wedi disgyn ar geryg ereill, ac yn aros yn ddyrchafedig oddiwrth y ddaear, gyda gwagle odditani, yn debyg i'r hen hynafiaethau Derwyddol hyny. Y mae hyd y gareg sydd ar ei gorwedd yn driugain troedyfedd; y lled yn chwech a deugain; a'r trwch yn un ar bymtheg. Dywedir fod hen wraig† wedi bod yn preswylio rywbryd yn y ceuedd hwn, ond y mae yn bresenol yn gwasanaethu fel corlan defaid.

Oddi yma y mae yr esgynfa naill ai dros geryg rhyddion, neu risiau sylweddol, ac y mae yn dra syth. Ffordd ryfeddol ydyw, yn gorwedd mewn ceunant ofnadwy, yr hwn a derfynir ar bob llaw, am fwy na milldir o ffordd, gan glogwyni aruthr, mewn pellder lled gyfartal oddiwrth eu gilydd; clogwyni y ddwy Glyder ar un llaw, a rhai y Wyddfa ar y llaw arall.

*Gorphwysfa.* Ymadgyfnerthu mewn lle a elwir *Gorphwysfa.* O fewn ychydig bellder i'r fan hon y mae Bwlch y Gwyddyl; oddiyno ceir golwg nodedig ar Ddyffryn Mymbyr, y ceunant ag yr ydym wedi myned trwyddo; ac ymhell oddi tanom y mae dyffryn prydferth Nant Gwynant, lle y bu llawer ymladdfa waedlyd yn amser Iorwerth IV., rhwng William iarll Penfro, a'r Lancastriaid Cymreig, o dan Ieuan ap Robert.

* Bydd i hyn ymddangos fel cyfieithiad o'r gair *Snowdon* yn ei ol i'r Gymraeg, yr olaf ei hun yn hen gamgyfieithiad i'r Saesonaeg o *Eryri*, gwlad yr eryrod: y camgymeriad yn yr achos cyntaf wedi ei achosi oherwydd y tebygrwydd rhwng *eiry* (eira), ac *eryr* (math o aderyn). J. R.

† Y mae hyn yn cyfeirio at y cnawd-fwytäwr *Cynric Bwt;* gwel y nodiad ar tudal. 291 o'r gwaith hwn. J. R

Digitized by Google

*Cwm Dyli.*

Disgyn ar hyd ffordd sêth, i'r parth hwnw a elwir *Cwm Dyli;* lle y gadawsom ein ceffylau, ac y dechreuasom ar daith flinderus i ymweled â dyffrynoedd cuddiedig yn mynwesau y mynyddoedd. Dechreuasom trwy ddringo i fyny arwyneb craig, yr hon sydd yn doredig i luaws o glogwyni byrion, ac yn cael ei gwahanu yn y canol gan raiadr—ymarllwysiad dyfroedd y llynau mynyddig. Ar ol llafurio am oddeutu chwarter awr, cyrhaeddasom Gwm Dyli, gweirglodd o dir gwastad, yn cael ei dyfrhau gan afon, a'i llonaid o bobl yn trin gwair, trwy fod yr amaethwr a'i deulu yn byw yma yn yr *Hafotty*, am y tymhor haf. Wedi ciniawa gyda hwynt ar gaws a maidd, cadwasom gydag ochr yr afon, a chanfyddasom o'n blaen arwyneb craig arall, llawn mor anhygyrch, a rhaiadr yn disgyn ar hyd-ddi. Ond esgynasom hi, er mai trwy lafur yr un mor galed. Wedi cyrhaedd y pen uchaf, cawsom yno gwm, oddeutu milldir o hyd, wedi ei lanw â *Llyn Llydaw*, dernyn ardderchog

*Llyn Llydaw.*

o ddwfr, yn ymnyddu o dan y creigiau, ac yn cael ei fylchu yn ddirfawr gan dafliadau allan creigiog i mewn iddo, yma ac acw. Y mae ynddo un ynys fechan, lle y preswylia gwylanod cefnau duon; yma y maent yn epilio, ac oblegyd iddynt gael eu dychrynu gan y fath ymwelwyr annysgwyliadwy, torasant ar dawelwch y lle anghysbell yma gyda'u hysgrechion oernadol. Aethom yn mlaen ar ein taith, gan esgyn ar hyd llwybr cul uwchlaw y llyn, hyd ei ben pellaf; yna disgynasom, a chyrhaeddasom yr ochr gyferbyniol, i'r dyben o gyrhaedd trydydd esgyniad, llawn mor flinderus a'r rhai blaenorol. Dygodd hwn ni i'r agendor echrydus o dan

*Ffynhon Lâs.*

glogwyn mawr y Wyddfa, yn mha un y llochesa y llyn a elwir *Ffynhon Lâs.** Y mae ei sefyllfa yn ofnadwy o erchyll, am yr amgylchynir ef gan fwy na thair rhan o gylch gan glogwyni echrydus y Wyddfa, Crib y Distyll, a'r Grib Goch, yn nghyda serthleoedd muriawg y Lliwedd, y rhai a ymestynant dros y llyn arall a Chwm Dyli. Yn y Lliwedd y mae agorfa ryfedd, a elwir *Bwlch y Saethau;* dichon mai gorsaf i'r helwyr ydoedd, i wylio crwydriadau y ceirw.

Ymddangosai ymylon y Ffynhon Lâs yn y fan yma yn feision a graianog. Y mae ei ddyfroedd yn meddu goliw gwyrddaidd; ond yr hyn sydd yn dra hynod ydyw, fod y creigiau a adlewyrchir ynddynt yn ymddangos yn amrywiedig gan resau o'r lliwiau prydferthaf, ac yn newid braidd yn ddiderfyn.

*Chwitiar.*

Yma y gwelsom y *Chwitiar*, math o aderyn bychan, a thyner yr olwg arno, yr hwn ydyw yr unig aderyn, heblaw Mwyalchen y graig, sydd yn mynychu yr ucheldérau hyn: y mae y rheswm paham yn ddigon amlwg, sef prinder bwyd.

Daethom i lawr o'r lle anial yma ar yr ochr arall i'r bryn, uwchlaw Llyn


*Y Grib Goch.*

Llydaw, a chlogwyni cochion aruthrol y *Grib Goch* yn ymgodi yn uchel uwch ein penau, yn un trum main, bylchog, ar ei hyd. Yr oedd wyneb llawer o'r creigiau wedi eu nodi â gwytheni mawrion o risial gwŷn a garw; ac ereill, yn enwedig y Grib Goch, uwchlaw y pen uchaf i'r llyn, yn amrywiedig â gwyrddlesni tywyll coed meryw y mynydd.

* Oddeutu dau cant o latheni uwchlaw y llyn y mae rhai gweithydd copr, yn perthyn i Syr Robert Williams, barwniad, cynyrch y rhai a gludir mewn sachau, ar gefnau dynion, am yn agos i filldir o ffordd, dros un o bigau uchaf y Wyddfa, nes cyrhaedd ffordd dramwyadwy i geir llusg. Gol.

Digitized by Google


Digitized by Google



LLYN GWYNAN

Digitized by Google

Digitized by Google



LLYN DINAS & MOEL HEDOG.

Digitized by Google

Wedi cyrhaedd crib y bryniau, uwchlaw pen isaf y llyn, disgynasom i Gorphwysfa, lle y cawsom ein ceffylau, a dychwelasom unwaith yn rhagor i *Nant Gwynant*.

*Nant Gwynant.*] Dyma y dyffryn mwyaf prydferth yn holl Eryri, yn amrywiedig â choedydd, llynoedd, afon, a dolydd, heblaw fod ei amgylchoedd o'r fath mwyaf mawreddog. Gwarchodir ef ar y ddwy ochr gan fynyddau mawrion, megys y Grib Ddu, neu ran o Fynydd Nanmor, y Lliwedd, yr Aran, y Dduallt a'r Wenallt, y rhai a ymestynant am oddeutu pum' milldir, hyd eglwys Bedd Gelert. Aethom heibio, ar y llaw aswy, i Hafod Lwyfog, preswylfod y diweddar Meurig Meredydd, ysw., yr hwn sydd yn amgylchedig â choedwigoedd mawrion. Ychydig yn mhellach yn mlaen y mae *Llyn Gwynant*, oddeutu tri chwarter milldir o hyd, a cherllaw iddo y mae adfeilion hen gapel o'r un enw. Buasai er's talm yn gapel cynorthwyol i eglwys Bedd Gelert, a chynelid ef gyda'r swm o bum' punt yn y flwyddyn a delid o etifeddiaeth Gwydir. Dywedir iddo gael ei sylfaenu gan John Williams, ŵyr i John Coetmor ap Meredydd ap Ieuan ap Robert, o Gesailgyfarch a Gwydir, gôf aur yn Llundain; yr un un ag y dywedir iddo roddi papurau Leland i Michael Drayton.

Yn agos i ben y llyn y mae y dyffryn* yn dyfod mor gyfyng fel ag i adael dim ond llwybr cul; ond y mae yn ymagor drachefn braidd yn sydyn i eangder ardderchog, yr hwn a lenwir gan mwyaf â dyfroedd prydferth *Llyn Dinas.* Tu hwnt i hyny mae cyfres o weunydd, wedi eu britho â choed, ac yn cael eu dyfrhau gan afon a ffurfir gan yr amrywiol lynau; ond y mae o hyd yn dal gafael yn yr enw *Afon Glaslyn,* oddiwrth yr uchelaidd *Ffynhon Lâs,* o ba un y tardda.

Yn y gwaelod yr ymgyfyd craig anferthol, ar ei phen ei hun, ac wedi ei gorchuddio â choed: dyma *Ddinas Emrys*, sydd mor hynod mewn hanesyddiaeth Brydeinig er yr amseroedd boreuaf; oblegyd dyma y fan lle yr

*Dinas Emrys.*]

> Eisteddai'r prophwyd Myrddin, gan roi i'r brenin brau
> Hanesion oesau i ddyfod, a chanu ei glod yn glau.

*Y Chwedl.*] Pan y darganfu Gwrtheyrn ei fod yn analluog i gydymgais â'r Sacsoniaid bradwrus, yr hwn y darfuasai iddo, yn y flwyddyn 449, eu gwahodd i Frydain, efe a benderfynodd, trwy gynghor ei ddewiniaid, adeiladu amddiffynfa anorchfygol yn Eryri. Casglodd yn nghyd y defnyddiau at hyny, ond diflanasant oll mewn un noswaith. Y tywysog, wedi rhyfeddu at hyn, a ymgynghorodd eilwaith â'i wŷr doethion. Sicrhaodd y rhai hyn iddo, na byddai i'w adeilad byth sefyll, oni byddai iddi gael ei thaenellu â gwaed plentyn a anesid heb gymhorth tad. Archwiliwyd y deyrnas: o'r diwedd, un o'i negeseuwyr a glywoddra i bechgyn, wrth chwareu, yn edliw i un arall nad oedd ganddo dad. Dygwyd y plentyn a'i fam o flaen y brenin. Cyffesodd hithau mai *Hunlle* oedd ei dad; math o greadur ag sydd erbyn hyn, fel y mae yn fwyaf ffodus, heb neb yn credu yn ei fodolaeth. Gorchymynwyd aberthu y

* Y mae ffordd gerbyd ragorol wedi ei hagor yn ddiweddar trwy y dyffryn, ac yn ffurfio cymundeb rhwng Capel Curig a Bedd Gelert, yr hon a gyflea olyniad o olygfeydd o'r fath fwyaf anial, aruchel, a rhamantus. GOL.

Digitized by Google

bachgen, enw yr hwn oedd Myrddin; ond yn gymaint ag iddo ddyrysu yr holl ddewiniaid â'i gwestiynau, ac esponio helynt yr adeiladaeth, efe a gafodd ei ryddid,* a daeth

> I'r brenin mawr galluog a adeiladai'n ffol
> Ei gastell ar erch lanerch, yn lle ar brydferth ddol,
> Yn brophwyd enwog unwaith, yn lle y diffaith lu
> A'i twyllent ef â'u swynion, fel hen ellyllon du.†

Dyma chwedl farddonol yr amgylchiad hynod hwn. Bellach am y gwirionedd. [*Myrddin Emrys.*] *Myrddin Emrys*, neu *Ambrosius*, ydoedd fab i bendefig Rhufeinaidd o'r enw hwnw. Lleianes oedd ei fam, yr hon, er mwyn achub ei bywyd a'i hanrhydedd,‡ a ddyfeisiodd y chwedl am ei dad, yr hon a lyngcwyd yn rhwydd gan ofergoeledd yr oes hono. Yr oedd Myrddin yn rhifyddwr ac yn seryddwr galluog, ac yn dra dysgedig yn ysgoleigdod ei oes. Y bobl gyffredin, fel arferol, a briodolent y cwbl a wnelai i ddewiniaeth; a darfu i'w ddarganfyddiad fod Gwrtheyrn wedi dechreu sylfaenu ei gastell ar siglen, yn ddiatreg ychwanegu at y llinell hono yn ei gymeriad. Priodolir lluaws o brophwydoliaethau iddo; ailadroddiad pa rai a waharddwyd, fel y dywedir, gan y cynghor eglwysig a gynaliwyd yn Trent.

Y mae tair ochr o'r graig hynod hon yn glogwynog; ar y pen uchaf y mae gwastadedd eang; ar yr ochr hygyrch o honi y mae dwy wal fawr o geryg; ac oddifewn y mae gweddillion hen adeilad o geryg, deg llath o hyd: y mae y gwaliau wedi eu hadeiladu heb forter, ond yn gryfion er hyny. Yn gymaint a'i fod yn ffaith, ddarfod i Wrtheyrn, ar ol ei anffodion, encilio i greigiau Eryri, ac iddo farw heb fod yn mhell oddiyno, y mae yn bosibl ei fod wedi dewis y lle yma i adeiladu ei amddiffynfa, am ei fod yn fan rhagorol at y pwrpas hwnw, trwy ei fod braidd yn llanw genau y dyffryn, a gallasai *Merlin Ambrosius* roddi i'r lle yr enw Emrys. Y mae man cyfagos, a elwir *Cell y Dewiniaid*, gyda chyfeiriad at ddewiniaid llŷs Gwrtheyrn, yn amgylchiad arall sydd yn cadarnhau hanes y prophwyd rhyfeddol tybiedig hwn.

[*Bedd Gelert.*] Oddiyma y mae ffordd fer, ond hyfryd, yn agos i'r afon, i bentref *Bedd Gelert*, yr hwn a saif mewn rhandir brydferth, yn nghysylltiad tri dyffryn, yn agos i gydlifiad y Glaslyn a'r Colwyn, yr hon a lifa trwy Nant Colwyn, y dyffryn a arweinia at Gaernarfon. Yr oedd ei sefyllfa y fwyaf cymhwys yn y byd at gynyrchu myfyrdodaeth grefyddol, ynghanol mynyddoedd uchel, coedwigoedd, a ffrydiau murmuraidd. Bechan ydyw yr eglwys, ond y mae yr uchaf yn holl Eryri. Y ffenestr ddwyreiniol a gynwysa dri o holltau culion. Y tô sydd brydferth; ac y mae yn aros hyd heddyw gryn weddillion o rwyllwaith. Y mae capel ar un ochr yn cael ei gynal gan ddau o bileri prydferth, a bwäau pigfain, neu gothig. Ni chanfyddais yno unrhyw feddau, na dim yn werth ei gofnodi, heblaw y beddargraff canlynol:—

Infra jacet corpus Evani Lloyd, de Hafod Lwyfog, Armigeri, qui Inhumatus fuit paterno et avito, Tumulo, sexto die Idus Maiæ.
A.D. 1678. Annos Natus 72.§

* Nennius, c. xl., xlii., xliii. † Draiton's Polyolb. Song x.
‡ Powel's Notes on Gir. Camb. lib. i. c. x.
§ "Islaw y gorwedd corph Evan Lloyd o Hafod Lwyfog, cludydd arfau (yr hwn ni chladdwyd yn meddrod ei hynafiaid.) Mai 6ed, B.A. 1678, yn 72 mlwydd oed."

Digitized by Google

*Prioriaeth.*] Bu yr eglwys yn fynachdy perthynol i frawdoliaeth o Augustiniaid, ac yn gyflwynedig i Fair Santes. Y mae lle i dybied y gallent fod o'r dosparth hwnw a elwid y Gilbertiniaid, y rhai a wneid i fyny o ddynion a merched, yn byw o dan yr un gronglwyd, ond yn cael eu gwahanu y naill oddiwrth y llall gan fur; oblegyd darganfyddais ddernyn o dir yn agos i'r eglwys, a elwid Dôl y Lleian.

Diau fod Bedd Gelert y sefydliad crefyddol boreuaf yn yr holl wlad hon, oddigerth Ynys Enlli. Y mae Tanner yn priodoli ei sefydliad i "Llywelyn ein llyw olaf;" ond y mae yn sicr i hyny gymeryd lle yn mhell cyn ei amser ef: oblegyd y mae ar gof a chadw siartr am amryw diroedd a roddwyd i'r lle gan Llewelyn Fawr,* yr hwn a ddechreuodd ei deyrnasiad yn 1194. Cafodd y lle ei noddi yn yr un modd gan amrywiol dywysogion dylynol. Dafydd ap Llewelyn a'i hanrhegodd â rhyw diroedd yn Mhennant Gwernogan, y rhai a berthynent i Tudur ap Madog, i ba rai nid oedd gan y tywysog un hawl pa bynag. Parodd hyn gŵyn cyfraith rhwng meibion Tudor, a Philip, abad y tŷ, o flaen William de Grandison a R. de Stanedon, yn Nghaernarfon, yn mha le y rhoddwyd dedfryd yn erbyn y fynachlog.† Caniatâwyd i'r prior, at ei gynaliaeth, borfa Llecheiddior, a rhan o felin, porfa *Fentidilt*, a pheutref Gwehelyn, a phorfa Tre'r beirdd, un tir aradwy, a rhan bennodol o'r gwenyn. Gyda'r hen Frythoniaid yr oedd y gwenyn mewn bri mawr, am mai hwy a gynyrchent eu hoff ddiod, sef Medd, ac ystyrient eu bod wedi cael eu creu yn MHARADWYS; eu bod wedi gadael y lle hwnw ar gwymp dyn, a chael eu bendithio mewn modd neillduol gan Dduw ei hun; ac mewn canlyniad i hyny, nad oedd unrhyw wasanaeth offeren i gael ei gweinyddu ond wrth oleuni eu cwyr.‡

Heblaw hynyna, yr oedd gan yr abad rodd flynyddol o haner cant o wartheg a dwy ar hugain o ddefaid. Rhaid fod treulion y tŷ yn fawr iawn. Gorweddai ar y ffordd fawr o Loegr a Gorllewinbarth Cymru i Ogledd Cymru, ac o'r Iwerddon a Gogledd Cymru i Loegr. I'r dyben o alluogi y lle i gynal i fyny ei letygarwch arferol, ar ol iddo ddyoddef gan dân yn y flwyddyn 1283, yr ydym yn cael fod Iorwerth I., mewn modd haelionus, yn ei drwyadl adgyweirio; ac fod yr esgob Anian, oddeutu y flwyddyn 1286, er mwyn anog cyfranwyr ereill, yn caniatâu i bob rhai a fyddent yn wir edifeiriol am eu pechodau, ryddhad am ddeugain niwrnod oddiwrth bob penyd a osodasid arnynt.§

Yn 1535, cafodd y lle ei roddi, gan Harri VIII., i fynachlog Chertsey, yn Surrey; ac yn 1537, rhoddwyd ef, yn nghyda'r olaf, fel attodiad at fynachdy Bisham, yn sir Berks.‖ Ar adeg y dadgorphoriad, rhoddodd y brenin yr holl diroedd perthynol iddo yn sir Gaernarfon, i deulu y Bodvels; a'r holl rai yn Môn i'r Prydderchiaid, oddieithr tref-ddegwm Tre'r beirdd.¶ Cyllid Bedd Gelert ar yr adeg hono yn ol Dugdale oedd 70*l.* 3*s.* 8*d.*; ac yn ol Speed, 69*l.* 3*s.* 8*d.* Edward Conway ydoedd yr abad diweddaf. Nid oes yr un mymryn o weddillion y tŷ yn aros. Y mae yn fy meddiant ddarlun o hen sêl y mynachdy, amseredig 1531: arni y mae llun y forwyn a'i maban, ond nid oes dim o'r cerfiad yn aros, oddieithr BETHKELE.

* Rymer, ii. 816. † Sebright MSS. ‡ Leges Wallicæ, 254.
§ Rymer, ii. 817. ‖ Dugdale Monast. iii. 21. ¶ Rowland's MSS.

Digitized by Google

I'r dyben o wneyd fy ngwibdaith fynyddig yn gyflawn, mor bell ag yr oedd yn fy ngallu, cymerais daith o'r pentref hwn i fyny dyffryn cul. Esgynais ffordd sêth, yn nghanol coed teneuon a hongianol; a gwelais o'r ffordd frwd o dda duon yn dyfod i lawr i'm cyfarfod, ar eu taith o ryw ffair yn y gymydogaeth. Y mae y dyffryn yn ymagor, ac yn cael ei ddyfrhau gan y Colwyn, yr hon a lifa o lyn bychan y darfu i ni fyned heibio iddo, a elwir *Llyn Cader*. Gadael, ar y llaw ddehau, esgyniad arall i'r Wyddfa, lle y mae ei throed yn ymestyn yn dra phell, ac nid yw yn agos mor syth ag ar ochr Nant Peris. Cyrhaeddasom yn fuan at lyn prydferth *Cawellyn*, yr hwn sydd mor hynod am ei dorgochiaid. Uwchlaw y llyn y safai tŷ Cae-uwch-llyn, er amseroedd pellenig yn drigfa y *Quellyns* (teulu sydd yn awr wedi darfod), y rhai a gymerent eu henw oddiwrth y lle. Y mae y mynyddoedd oddeutu y fan yma yn dynesu yn agos iawn at eu gilydd. Ar y chwith y mae y Mynydd-fawr yn wrthddrych tarawiadol; y mae ei gopa yn llyfn a'i wyneb wedi ei ffurfio yn glogwyn aruthrol, yn encilio i mewn ar ffurf haner cylchog. Moel Eilio sydd fynydd arall o faintioli aruthrol, ond y mae ei gopa yn rheolaidd o grwn, a'i wyrddlesni o'r fath brydferthaf. Yn Bettws Garmon, lle y mae pentref ac eglwys wedi ei chysegru i St. Garmon, y mae yr olygfa yn newid i gyfres o ddoldiroedd prydferth, yn cael eu dyfrhau gan afonig gyflym ei rhediad.

*[Llyn Cader]* *[Cawellyn.]*

Yma yr wyf yn troi fy nghefn ar y gwastadeddau diaddurn, ac yn myned yn fy ol, nes myned heibio i lyn Cawellyn. Heb fod yn mhell tu hwnt i ben draw y llyn hwnw, troais ar y ddehau, i ymweled â *Llyn y Dywarchen*, yr hwn sydd er's hir amseroedd wedi cael ei hynodi gan ysgrifell eithafol Giraldus,* am ei *insula erratica*, ei ynys grwydrol, fel y geilw ef hi. Saif y llyn bychan hwn yn nghanol mawnog; ac ar y pryd arddangosai y rhyfeddod a gofnodir gan ein hanesydd rhamantus. Yr oedd arno ynys nofiadwy, o ffurf afreolaidd, ac oddeutu naw llath o hŷd. Ymddengys nad yw ond darn o'r fawnog, wedi ei ryddhau odditanodd gan y dwfr, ac yn cael ei gadw gyda'i gilydd gan gymhlethiad y gwreiddiau a ffurfiant y math yma o ddaear. Yn fynych symudir hi gan y gwynt; bryd arall ymuna â'i glenydd cynhenid; ac, megys y dywed Giraldus, y mae gwartheg yn cael eu cymeryd ymaith weithiau yn garcharorion arni, a chan awel arall o wynt yn cael eu cludo ar fordaith fer oddiwrth y lan.

*[Llyn y Dywarchen.]*

Myned yn mlaen ar ein taith tua *Drws y Coed*, bwlch ag sydd yn arwain tua Chlynog. Terfynir ei ochrau gan fynyddoedd mawrion; ar un ochr gan Talmignedd; ar y llall gan glogwyn anferthol a ffurfia ran o'r Mynydd-fawr. Rai blynyddau yn ol gwnaed yma rai anturiaethau am gopr, o rywogaeth y gareg dân: ac yn y creigiau ceid yn fynych lafnau tra theneuon o'r metel cynhenid. Cefais fy nhemtio i estyn ychydig ar fy ymchwiliad mynyddig; oblegyd yn awr y mae y mynyddoedd yn iselhau yn dra chyflym o'u huchder mawreddog, ac yn myned yn llai o hyd fel y dynesant at Fôr y Werydd. Fy amcan oedd cael golwg ar ddau o lynau prydferth, a elwir *Llynau Nantlle*, y rhai a ffurfiant ddwy len brydferth o ddwfr, ychydig iawn o bellder oddiwrth eu gilydd. Oddiyma y ceir golwg ardderchog ar y Wyddfa, yr hon a derfyna yr olygfa trwy

*[Drws y Coed.]* *[Llynau Nantlle.]*

* Itin. Camb. lib. ii. c. ix. p. 871.

fwlch Drws y coed. O'r fan hon y darfu i Mr. Wilson ein ffafrio â darlun o honi, yr hwn sydd mor fawreddog ag ydyw o gywir. Ychydig sydd yn hysbys o hyn; oblegyd nid oes ond ychydig yn ymweled â'r lle.

Yn agos i'r llynau hyn y bu Iorwerth I. yn preswylio am ychydig ddyddiau, yn haf 1284; ac oddiyma rhoddodd allan fwy nag un o'i gyhoeddiadau. Yr wyf yn cael rhai wedi eu dyddio ar y 17eg a'r 20fed o Orphenhaf. Y mae ereill yn cael eu dyddio, yn yr un flwyddyn, o Fangor, Caernarfon, y Wyddgrug, ac Estyn. Y mae un o Gaernarfon yn cael ei ddyddio mor ddiweddar a'r 22ain o Hydref;* yr hyn a ddengys y fath sylw a dalai i sefydliad ei lywodraeth yn ei dalaethau newyddion. Y lle y preswyliai yma a elwid Bala Deulyn, neu y fan lle y mae afon yn ymarllwys o ddau lyn; ond yn bresenol y mae pob cof am sefyllfa y dref wedi ei lwyr golli; ond dichon, gydag ymchwiliad manwl, y gellid dyfod o hyd i ryw olion o honi yn y dyddiau presenol.

Dychwelais ar hyd yr un ffordd; a thrachefn cyrhaeddais Fedd Gelert, lle y cefais letty canolig.† Yr oedd y prydnawn mor hyfryd, fel y cawsom ein temtio yn anwrthwynebol i beidio gohirio ein hymweliad â *Phont Aberglaslyn* hyd y bore dranoeth, yr hon nid yw ond ychydig o bellder oddiyma. Y mae y rhan gyntaf o'r ffordd ar hyd y dyffryn cul; ond yn mhen ychydig amser y mae y mynyddoedd yn dynesu mor agos at eu gilydd, fel ag i adael ond lle yn unig i'r afon wyllt ymrolio dros ei gwely caregog; uwchlaw hon y mae ffordd gul,‡ wedi ei ffurfio trwy lafur anamgyffredadwy uwch ben y dwfr. Ymddengys fod y ffordd ar y cyntaf wedi cael ei thori allan o'r graig, ac yna ei gorchuddio â cheryg mawrion, fel y gwneir yn gyffredin yn rhai o'n bylchau culion. Y mae yr olygfa y fwyaf ardderchog ag y gellid ei dychymygu. Ymgyfyd y mynyddoedd i uchder aruthrol, a chyferbyn â ni nid oes ond cyfres doredig o glogwyni, y naill uwch ben y llall, mor uchel ag y gall y llygad gyrhaedd. Nid oes yma ond ychydig o lysiau yn tyfu; eto, mewn rhai manau y mae digon i demtio yr afr druan i ddinystr; oblegyd bydd iddi yn fynych neidio i lawr at fymryn o laswellt, yn mha le, heb fod yn ddichonadwy iddi ddychwelyd, y rhaid iddi farw o newyn, ar ol i'r ychydig borthiant, yr hwn a brynwyd mor ddrud, gael ei ddifa ganddi.

*Pont Aberglaslyn.*

Y mae y bont yn terfynu y bwlch; a chynwysa un bwa, wedi ei daflu dros gorbwll dwfn, o graig i graig. Uwchlaw y mae rhaiadr enfawr, lle y gall yr ymdeithydd ar brydiau gael difyrwch mawr, wrth sylwi ar y gleisiaid, yn niferi mawrion, yn gwneyd ymgeisiadau i neidio dros y gored. Yn agos i'r lle hwn y mae pysgodfa gleisiaid. Bu yma gored freninol yn nheyrnasiad Harri IV., yr hon y pryd hyny a ddelid dan ardreth gan Robert ap Meredydd. Dichon y perthynai, mewn hen amseroedd, i'n tywysogion brodorol ni; oblegyd ymddengys ei bod yn rhagorfraint o'r fath werthfawrocaf. Yr ydym wedi canfod o'r blaen, fod Elphin wedi cael un yn rhodd gan y brenin, ei dad; a'r effaith a gafodd ei siomedigaeth arno, trwy iddo golli ei gyllid arferol, a chael (yr hyn,

* Sebright MSS. Rymer ii. 276 hyd 289.

† Bydd i'r teithiwr gael yma yn bresenol westty bychan, ond tra chysurus. Y mae y gwelliant mewn tai o'r fath yma, yn Ngogledd Cymru, yn ystod y blynyddoedd diweddaraf, wedi bod yn fawr iawn. Gol.

‡ Y mae yn bresenol wedi ei helaethu i led cyfleus. Gol.

yn ddiau, yn yr adeg hono, oedd yn beth tra anarferol) gored wâg! Gleisiad oedd y pysgodyn mwyaf defnyddiol, a'r un a brisid fwyaf gan y Cymry: ystyrid ef yn mysg yr helwriaeth; ac os wyf fi yn cofio yn iawn, efe ydyw yr unig rywogaeth o bysgodyn a ddyogelid gan y gyfraith.

Gyferbyn a Beddgelert y mae Moel Hedog. Mewn cors, heb fod yn mhell oddiwrth y mynydd hwnw, y cafwyd, yn 1784, darian bres o'r fath gywreiniaf, yr hon y darfu i Mr. Williams o Lanidan ganiatâu i mi y ffafr o gael golwg arni. Ei thrawsfesur ydoedd dwy droedfedd a dwy fodfedd; ei phwysau, oddeutu pedwar pwys. Yn y canol yr oedd boglwm syml, yn codi uwchlaw dwy fodfedd. Nodid arwyneb y darian â saith ar hugain o gylchau esmwyth, yn meddu yr un canolbwynt, ac yn ymgodi; rhwng pob un yr oedd pant, o'r un lled a'r manau dyrchafedig, yn cael eu nodi gan rês sengl o foglymau esmwyth. Yr oedd yr holl darian yn fflat, ac yn dra ystwyth. Nis gallaf briodoli hon i'r Cymry, oblegyd yr oeddynt hwy yn dirmygu pob math o arfogaeth amddiffynol.

*Tarian Gywrain.*

Ar y ffordd wrth ddychwelyd i Feddgelert, nodwyd i mi gareg ar ochr y ffordd, yn dwyn yr enw *Cadair Rhys Goch o Eryri*, y bardd mynyddig enwog a gydoesai âg Owain Glyndwr. Yr oedd efe o deulu Hafod Garegog, yn y fynedfa i'r Traeth Mawr, o ba le yr arferai gerdded, ac wedi eistedd ar y gareg hon, cyfansoddai ei gywyddau a'i awdlau. Yn mysg ereill, y mae awdl dychan a gyfansoddasai i lwynog a laddasai ei baun ef. Bu farw oddeutu y flwyddyn 1420, a chladdwyd ef yn nhir sanctaidd Bedd Gelert, wedi diangc rhag dialedd y Saeson, am iddo lanw ein cydwladwyr â chariad at ryddid, a'u hanog trwy ei gyfansoddiadau, i ymdrech hirfaith a gwrol er cael ymwared o'r iau estronol.

*Rhys Goch.*

O Fedd Gelert dychwelais i Bont Aberglaslyn; ac yn fuan cyrhaeddais y *Traeth Mawr*, ymestynfa eangfaith o dywod rhwng siroedd Caernarfon a Meirionydd, mynedfa beryglus i ddyeithriaid, ar gyfrif y llanw a ddaw i mewn yma gyda chyflymdra mawr. Dyma y fan a ffurfia waelod morgilfach eang Aberteifi. Yn y flwyddyn 1625, Syr John Wynn, o Wydir, a rag-ganfu y meddylddrych mawr o enill y darn yma oddiar y môr, a darn llai, a elwid *Traeth Bach*, trwy wneuthur morglawdd.* Erfyniodd gynorthwy ei gydwladwr

* Y mae yr anturiaeth feiddgar yma yn bresenol yn cael ei hamcanu at ei dwyn i ben, gan William Madocks, ysw., yr hwn, yn 1807, a gafodd drwydded gan y goron, yr hon a gadarnhawyd gan weithred seneddol, i roddi iddo ef a'i etifeddion, yr oll o'r tywod yn y Traeth Mawr, rhwng *Pont Aberglaslyn* a phenrhyn y *Gêst*.—I sicrhau y rhandir yma, yr hon a gynwysa oddeutu 3500 o aceri o dir, y mae morglawdd eang yn cael ei ffurfio, yr hwn sydd i ymestyn am 1600 o latheni o hyd, o lanau sir Gaernarfon hyd i Feirionydd; ac yr oedd 1000 o latheni o hono bron wedi eu cwblhau yn mis Awst, 1809. Y mae y morglawdd hwn i fod yn 12 llath o led ar ei ben uchaf, ac yn gyfartal o ran lled yn y gwaelod, ac i gael ei gyfansoddi o geryg a phridd a ddygir yno mewn gwageni bychain ar reilffyrdd o'r tir yn mhob pen iddo. Gwelwyd yn fuan fod y defnyddiau hyn yn suddo i'r tywod, neu yn cael eu cludo ymaith gan weithrediad y llanw a'r trai. I gyfarfod â'r anhawsder yma, dyfeisiwyd math o fatiau cryfion a thrwchus, y rhai a wneid o'r brwyn a orchuddiant y morfa cyfagos; a darfu i'r rhai hyn, gyda chymhorth pawl a yrid i'r tywod, wneyd sylfaen safadwy. Y mae y corph mawr o ddwfr, a ymlifa i lawr o fynyddoedd Eryri, i gael ei arllwys trwy bump o lifddorau, pob un yn bymtheg troedfedd o uchder. Y mae y glansarnau *(piers)* â pha rai y cysylltir hwy, wedi eu bwriadu i gynal pont, ac yn eu hochrau, tuag at yr afon, y mae agoriadau i wneyd lle i lifddorau crôg, i'r dyben o sychu neu ddyfrhau y tir a enillir. Gwneir ffordd, i gysylltu y ddwy sir, ar hyd ochr ddwyreiniol y morglawdd, yr hon a fydd, nid yn unig yn gyfleustra, ond yn foddion i arbed y mynych golliant ar fywydau a achosir trwy anturio croesi y fynedfa beryglus ar draws y *Traeth Mawr*.—Y mae Mr. Madocks, eisoes,

Digitized by Google

enwog, Syr Huw Myddleton. Bydd i lythyr Syr John, ac atebiad Syr Huw, esponio y peth yn well na dim hanes a allaf fi ei roddi am dano; oblegyd ni chafodd byth ei gario allan, fel y tybiaf, o eisiau arian. Y mae llythyr Syr John fel y canlyn :—

"Y gwir deilwng Syr, fy nghefnderw da, ac un o brif addurniadau y genedl,

Clywais am waith mawr a wnaethoch yn Ynys Gwyth, pryd yr adenillwyd dwy fil o erwau oddiar y môr. Gallaf ddywedyd wrthych chwi fel y dywedodd yr Iuddewon wrth Grist—Y pethau a glywsom ni eu gwneuthur mewn manau ereill, gwna yma hefyd yn dy wlad dy hun.

Y mae dau feisle eang yn sir Feirionydd, ar bwys pa rai y mae peth o'm hetifeddiaeth i, y rhai a elwir *Traeth Mawr* a *Thraeth Bychan*, yn gorchuddio eangder mawr o dir, ac yn myned i'r môr trwy un agorfa, yr hon nid yw uwchlaw milldir o led ar orllanw, ac yn bur fâs. Y mae y ffrydiau dwfr croyw a redant i'r môr yn gryfion a mawrion, a chludant i'w canlyn lawer iawn o dywod; heblaw fod gwynt y dehau yn chwythu yn gyffredin yn union i geg yr agorfa, ac hefyd yn cludo cryn swm o dywod i'w ganlyn, nes y mae llawer o'r tir amgylchynol wedi ei orchuddio ganddo. Y mae yno, ac yn y wlad amgylchynol, ddigonedd o goed a phrysgwydd, a defnyddiau cyfaddas ereill at wneyd morgloddiau, y rhai y gellir eu cael yn bur rad, a gwaith hawdd ydyw eu cludo i'r lle; yr hyn y maent yn ei wneyd, fel yr wyf yn clywed, yn sir Lincoln, er cadw allan y môr. Nid yw fy medrusrwydd i ond bychan, ac nid oes genyf ddim profiad yn y cyfryw bethau, eto bydd ynwyf ddymuniad bob amser i wneyd gwasanaeth i'm gwlad yn y cyfryw orchwylion ag a fyddont er llesâd, a gadael ar fy ol goffadwriaeth o'm hymdrechion; ond trwy fy mod yn cael fy atal gan orchwylion ereill, nid ydwyf ond wedi dymuno yn dda, heb wneuthur dim. Yn awr, gan ryngu bodd i Dduw eich arwain i'r wlad hon, dymunaf arnoch farchogaeth i'r lle, gan nad yw oddiar daith diwrnod oddiwrthych; ac os barnwch y peth yn addas i anturio arno, yr wyf yn foddlawn i wario cwpl o gannoedd o bunnau mewn undeb â chwi i ddwyn y gwaith yn mlaen

Y mae genyf lawer iawn o fwn plwm ar fy nhir, a mwnau ereill yn agos i'm tŷ; o rhynga bodd i chwi ddyfod yma, gan nad yw fwy na thaith deuddydd oddiwrthych, bydd i chwi roesaw caredig—dichon y canfyddwch yma rywbeth a fydd o les i chwi a minau. Pe gwyddwn yn sicr pa ddiwrnod y deuech i weled y Traeth Mawr, anfonwn fy mab Owain Wynn i'ch cyfarfod, ac i'ch hebrwng oddiyno i'm tŷ. Terfynaf, gan gofio atoch yn dra charedig, a gorphwysaf,

Eich anwyl gyfaill a chefnderw,

Gwydir, 1af Medi, 1625. J. WYNN.

At yr Anrhydeddus Syr Huw Myddleton,
Marchog a Barwniad."

trwy forglawdd blaenorol, wedi enill oddiar y môr 1900 o aceri o dir yn ngodreu dyffryn *Penmorfa*. Ar un gyfran o'r rhandir yma, yr hwn yn flaenorol a orchuddid gan y môr ar orllanw, y mae wedi adeiladu tref *Tremadoc*, yr hon a gynwysa yn benaf ysgwâr o dai, ar un ochr i ba un y mae marchnadfa brydferth. Heb fod nepell oddi yno y mae wedi adeiladu eglwys ddestlus, yn yr arddull gothig, yr hon y bwriada ei gwaddoli. Y mae ei breswylfod prydferth, *Tanyrallt*, ar graig yn mhell uwchlaw y dref, yn nghanol planigfeydd tyfol, yn arddangos ei chwaeth, yn gystal ag y mae y gweithydd mawrion islaw yn dynodi ei yspryd dewr ac anturiaethus. Bydded iddo gyfarfod â'r llwyddiant a deilynga mor fawr ar gyfrif anturiaeth sydd yn cyfuno cymaint o yni, medrusrwydd, a gwladgarwch mor ragorol gymhwysadwy. GOL.

Digitized by Google

"Anrhydeddus Syr,

Derbyniais eich llythyr caredig. Ychydig yw yr hyn a wnaed genyf fi, am yr hyn yr wyf yn rhoddi y gogoniant i Dduw. Rhynged bodd i chwi wybod fod fy ymgais cyntaf at weithrediadau cyhoeddus wedi ei gwneyd yn mhlith fy nghenedl fy hun, o fewn llai na milldir i'r lle y cefais fy modoliaeth gyntaf, 24 neu 25 o flynyddoedd yn ol, pan yn chwilio am lô i dref Ddinbych.

O berthynas i'r tiroedd gorlifiedig ar bwys eich etifeddiaeth chwi, y mae llawer o bethau pwysig yn nglŷn â hyny. Os ydynt i gael eu hadenill, yr hyn nis gellir ond prin ei gyflawni heb geryg mawrion, o ba rai yr oedd digonedd yn Ynys Gwyth, yn gystal a choed; a rhaid treulio symau mawrion o arian—nid cannoedd, ond miloedd—ac yn gyntaf oll, rhaid cael caniatâd ei Fawrhydi. Gyda golwg arnaf fy hun, yr wyf yn cynyddu mewn blynyddoedd, ac yn llawn gwaith yma gyda'r mwngloddiau, yr afon yn Llundain, a manau ereill—ac y mae fy nhreulion wythnosol uwchlaw 200*l.*, yr hyn sydd yn fy ngwneyd yn dra hwyrfrydig i ymgymeryd âg unrhyw waith arall; ac y mae y lleiaf o'r rhai hyn, pa un bynag ai y tiroedd gorlifiedig neu ynte y mwngloddiau, yn gofyn dyn cyfan a phwrs mawr. Ardderchog Syr, y mae fy nymuniad i'ch gweled yn fawr, a buasai hyny yn fy nhynu yn mhell o fy ffordd; ond y fath ydyw fy ngorchwylion yma ar hyn o bryd, er terfynu y gwaith mawr hwn, fel mai prin y gellir fy hebgor am un awr yn y dydd. Y mae fy ngwraig yma hefyd, ac nis gallaf ei gadael yn mhlith dyeithriaid. Eto, y mae fy serch at weithiau cyhoeddus, a'm dymuniad i'ch gweled chwi, y fath ag a ddichon (os caniatâ Duw) fy nhynu rywbryd ar ol hyn i'r parthau yna. Felly gyda'm serchiadau calonog yr wyf yn eich trosglwyddo chwi a'ch dymuniadau daionus i Dduw.

Eich cefnderw caruaidd at eich gwasanaeth,

Y Lluest, Medi 2il, 1625. HUW MYDDLETON."

Y mae yr olygfa o ganol y traethau tuag Eryri yn wyllt i'r eithafion. Ymddyrchafa mynydd uwchlaw mynydd, gan arddangos yr agwedd fwyaf gwyllt a noethlwm ag sydd yn ddychymygadwy, yn anial, clogwynog, a chreigiog. Ymgyfyd y *Cyfnicht** yn graig bigfain ardebol, ac ymddyrchafa y *Wyddfa* o'r tu ol; yn dalach o'i hysgwyddau na'i chymdeithion.

Wedi gadael y traethau, daethum i wlad o ddoldiroedd, yn frithedig a chreigiau ar eu penau eu hunain, yn ymgodi mewn amryw leoedd, ac yn ymlochesu mewn coedwigoedd, creigiau, a chlogwyni. Ar y ffordd sylwais ar ychydig fwn haiarn gwael, a chynulliadau o grisial garw, gweddillion rhyw anturiaeth fwneiol anfuddiol. Y mae tref fechan *Penmorfa* yn sefyll ar ben y doldiroedd hyn. Yr eglwys sydd wedi ei chysegru i St. Beuno, ac yn gysylltiedig â hi y mae capel *Dolbenmaen*. Yma y claddwyd y marchog dewr Syr John Owain. Heblaw y cof-faen am dano ef, y mae yno un arall, lawer yn llai, i Syr William Morris o Glenenney, yr hwn a fu farw Awst 11eg, 1662. Mewn hen amseroedd yr oedd y parth yma yn llawn o foneddigion. Gorwedda yn nghantref Eifionydd, ac yn yr amser gynt meddiannid ef gan ddau dylwyth; un, yn disgyn o Owain Gwynedd, tywysog Cymru, yn cynwys

*Penmorfa.*

* Y dull presenol o'i seinio ydyw *Cnicht;* nid yw y *cht* yn bur Gymreigaidd, a dygwydda gan mwyaf mewn geiriau benthyciedig, megys *dracht*, o'r gair Saesoneg *draught*. Y mae *Siabod* yn gyfartal amheus: yr hen enw, fel y dywedwyd wrthyf, ydyw, neu ydoedd, *Moel Llys-abad*. J. R.

Digitized by Google

pedwar o balasau, Cesail Gyfarch, Ystumcegid, Clenenney, Brynkir, Glasfryn, neu Gwmstrallyn; y llall yn hanu o Collwyn ap Tangno, ac yn cynwys y y palasau canlynol: Whilog, Bron y Foel, Bercyn (Abercain,) Gwynfryn, Tal Henbont (yn awr Plas Hen,) a Penardd.* Bu i fy nghywreinrwydd fy arwain ar un adeg i wneyd cylchdaith o ychydig filldiroedd i ymweled â'r hen balasdai hyn. Yn y dyddiau yr wyf fi yn cyfeirio atynt, yr oedd yr ymrafaelion rhwng y boneddigion yn llanw yr holl wlad â thywallt gwaed. Yr oedd hanes Eifionydd, yn ystod y cyfnod hwnw, yn hanes dialedd, brad, a lladdedigaeth. Yr ystyriaeth yma a barodd i Meredydd ap Iefan, hynafiad Wynniaid Gwydir, adael ei wlad enedigol hon.†

Nid oedd un tŷ yn y cantref heb fod yn meddu ar ei ystori echrydus. Ymrafaelient, pe na buasai ond am "feistrolaeth y wlad, a'r cyfarchiad *bore da* cyntaf!"‡

John Owain ap John ap Meredydd a Hywel ap Madog Fychan, a syrthiasant allan â'u gilydd am ddim gwell rheswm. Ymladdodd Hywel a'i bobl yn wrol. Pan syrthiodd, ei fam a ddododd ei llaw ar ei ben, i atal yr ergyd angeuol, a chafodd haner ei llaw a thri o'i bysedd eu tori ymaith gan un o'i charenydd agosaf. Gwnaed cais at ladd Hywel ap Rhys yn ei dŷ ei hun, gan feibion John ap Meredydd, am ddim gwell rheswm na bod eu gweision wedi ymrafaelio yn nghylch pysgodfa. I ddechreu, gosodasant dân yn y palas gyda bwrneli mawrion o wellt. Y gwarchäedigion, wedi brawychu o herwydd y fflamau, a ymlechasant o dan y byrddau a'r meingciau; tra yr oedd Rhys, yr hen wron, yn sefyll â'i gleddyf yn ei law, gan gyhuddo ei ddynion o lwfreidddra, ac yn dywedyd wrthynt *ei fod wedi gweled mwy o fwg yn y neuadd hono lawer gwaith ar nos Nadolig.* Ni byddai y gweithrediadau ysgeler hyn yn cael eu dylyn âg unrhyw gospedigaeth, oddieithr a darddai trwy ddialedd personol; ac yn rhy fynych telid iawn am y llofruddiaethau mwyaf anfad. Yr oedd *Gwerth*, neu *bris gwaed*, o lofruddiad y brenin hyd at dori ymaith fŷs bach un o'i ddeiliaid.

*Hynafiaethau.*] Y mae amrywiol hynafiaethau yn wasgaredig dros y rhan yma o'r wlad. Yn agos i Dolbenmaen y mae tomen fawr, ar ba un y gallasai tŵr gwyliedydd fod, fel y barna Mr. Rowland. Yn agos i Ystumcegid y mae tair cromlech yn gysylltiedig y naill â'r llall, dichon mai er cof am dri phenaeth a laddwyd ar y fan. Ac yn agos i Glenenney, ar Fwlch Craigwen, y mae cylch derwyddol prydferth, yn cynwys yn bresenol ddeunaw ar hugain o feini; yn y pellder o filldir, ac yn ngolwg hwn uwchlaw Penmorfa, y mae un arall. Cyn dychwelyd yn ol, ymwelais â Brynkir, lle yr oedd teulu o'r enw hwnw yn preswylio o fewn fy nghof i. Saif o dan y mynydd mawr Hedog, yr hwn a wahana y wlad hon oddiwrth ddyffryn Bedd Gelert. Oddiyma gostynga y tir yn raddol hyd ben pellaf y sir.

*Corachod.*] Yn ystod fy arosiad yn Mhenmorfa, galwyd fy sylw at *Dic bach*, corach, yr hwn a ddeuai yno yn achlysurol. Gwas ydoedd i foneddwr yn y gymydogaeth; yr oedd oddeutu deng mlwydd ar hugain oed, ac yn dair troedfedd ac un fodfedd ar ddeg o daldra. Nodwyd ef i mi er mwyn

* Gwedir Family, in Mr. Barrington's Miscell. 8vo 143.

† Am y rheswm a roddodd ar yr achlysur, cyfeirir y darllenydd at tudal. 329 o'r gwaith hwn.

‡ Hist. Gwedir Family

Digitized by Google

dysgrifio ei chwaer, *Mari Bach o Gwmmain;* benyw fechan brydferth, a'r troedfedd a phedair modfedd o daldra. Yr oedd ei rhinweddau yn fwy na'i maintioli; y mae yn darllaw, yn pobi, ac yn piclo; mewn gair, gwna bobpeth a ddichon y deuluyddes oreu wneyd. Y mae eu rhieni yn preswylio yn y parthau hyn, a chanddynt lawer o blant o daldra cyffredin; ond dewisodd natur amrywio oddiwrth y rheol yn ffurfiad y pâr bychan yma.

*Tarth Drygsawrus.*

Yn ngauaf 1694, yr oedd y gymydogaeth hon yn hynod ar gyfrif math o darth rhyfedd a drygsawrus. Am oddeutu pythefnos neu dair wythnos, darfu i'r hyn a elwir *mephites*, neu darth heintus, godi allan o randir forfaog dywodlyd a elwir Morfa Bychan,* tebyg i fflam o liw glâs gwan, a chroesodd dros wyth milldir o fôr, hyd Harlech. Ar yr ochr hono rhoddodd dân mewn un ar bymtheg o deisi gwair, a dwy ysgubor, un yn llawn o wair, a'r llall o ŷd. Effeithiodd ar y glaswellt yn y fath fodd fel y darfu i niferi o wartheg, ceffylau, defaid, a geifr, feirw; er hyny, yr oedd dynion yn gallu myned i'w ganol heb un math o berygl. Yr oedd yn hawdd iawn ei chwalu; unrhyw dwrw mawr, megys canu cyrn, tanio drylliau, neu rywbeth tebyg, a'i gwasgarai ar unwaith. Ni byddai yn symud ond yn y nos; ac ymddangosodd ar adegau, ond yn llai mynych, yn ystod yr haf dylynol: wedi hyny peidiodd o gwbl. Dichon iddo godi, fel y mae golygydd Camden yn barnu, mewn canlyniad i ryw drychineb lleol, megys disgyniad haid o locustiaid yn y fan hono, megys ag y bu mewn gwirionedd yn y môr gerllaw Aberdaron; y rhai, ar ol llygru o honynt, a allasent, trwy i'r gwynt chwythu am gyfnod pennodol o un pwynt, gyfeirio yr haint i un man neillduol, tra y gallai manau ereill, heb fod mor bell, ddiangc rhag ei effeithiau arswydus. Y mae Mouffet yn rhoddi hanes am bla yn Lombardy, yr hwn a dorodd allan, oddeutu y flwyddyn 591, oddiar syrthiad cwmwl o locustiaid, y rhai a lygrasant yr awyr i'r fath raddau, fel y bu farw 80,000 o ddynion ac anifeiliaid.†

Aethum yn mlaen ar fy nhaith gyda glan y môr, yr hwn sydd gan mwyaf yn wastadedd, oddigerth lle y mae ychydig benrhynau bychain yn ymestyn allan. Ar yr arfordir yma, bu y Parchedig Hugh Davies, o Biwmaris, yn

*Dinystr ar Adar y môr.*

llygad-dyst o ddinystr anarferol ar adar y môr, yr hyn a ddygwyddodd yn 1776. Canfu y morlan wedi ei orchuddio am filldiroedd gyda'u gilydd âg adar wedi meirw, yn enwedig y mathau hyny a ymwelant yn flynyddol â'r creigiau yn yr haf; megys, y paledn, llurs, gwylogau, a'r gwylanod penwyn; o'r olaf yr oedd rhai miloedd. Yr oedd yno hefyd gryn rifedi o wylanod Cernyw. O'r adar a ymfudant i wledydd pellenig i fridio, yr oedd hucanod, gwyddau gwylltion, gwyreiniaid, môr-hwyaid duon, hwyaid copaog, &c. Yr oedd y rhew, o Ionawr 6ed hyd Chwefror 2il, yn ystod y gauaf hwnw, wedi bod yn anarferol o galed: dichon fod tymhestl wedi goddiweddu yr adar ymadawol a'r rhai yn tynu tua chartref, ac achosi y dinystr; ac fod yr adar a ymgartrefant yn wastadol gyda ni, wedi dyoddef yr un dynged, gan na allent wrthsefyll y gwynt rhewllyd.

*Cricaeth.*

Myned heibio i Ystymllyn, palas —— Wynne,‡ ysw.; ac yn fuan wedi hyny cyrhaedd *Cricaeth*, bwrdeisdref dylodaidd, cyfranog â

* Camden ii. 788. Ph. Trans. No. 208. Lowthorp's Abridg. ii. 183.

† Theatre of Insects, Engl. ed. 986.

‡ Yn bresenol Humphrey Jones, ysw. Gol.

Digitized by Google

Chaernarfon yn etholiad aelod seneddol. Saif ei chastell ar fryn lled grynaidd, yr hwn a ymestyna yn mhell allan i'r môr, a'r gwddfdir yn cael ei groesi, er mwyn amddiffyniad, gan ddwy o ffosydd dyfnion; ac o bob tu i'r porth y mae tŵr crwn mawr. Y mae y buarth o ffurf afreolaidd, ac ynddo weddillion tŵr ysgwâr; tu hwnt i hyny y mae buarth arall, ac ynddo, ar ymyl y graig, y mae dau ereill, hefyd yn ysgwâr. Y mae yn debyg fod yr holl dyrau ar y cyntaf yn ysgwâr, oblegyd y mae y tu fewn i'r ddau dŵr crwn yn ysgwâr hefyd. Y mae ei adeilyddiaeth mor debyg i eiddo castell Dolwyddelen, fel nad oes genyf un amheuaeth na chafodd y castell yma ei sylfaenu gan dywysog Cymreig, ac na ddarfu i Iorwerth I., ei sylfaenydd tybiedig, ond yn unig amgau y ddau dŵr ag sydd yn awr yn grynion. Ar ol gorchfygu Cymru, Iorwerth a apwyntiodd William de Leyburn yn llywydd arno, gyda chyflog o gan' punt yn y flwyddyn; gyda pha swm yr oedd i gynal gwarchodlu o ddynion nerthol (deg o honynt yn saethwyr y bwa croes), un caplan, un meddyg, un saer coed, ac un saer maen.*

*Syr Hywel y Fwyall.*] Bu ein cydwladwr enwog, *Syr Hywel y Fwyall*, yn llywydd y castell hwn; hanai y gwron yma o Gollwyn ap Tangno. Yr oedd gyda y Tywysog Du yn mrwydr *Poitiers*, ac efe, fel y byddwn ni yn dywedyd, a gymerodd frenin Ffraingc yn garcharor; ond y mae hanesyddiaeth yn rhoddi yr anrhydedd hwnw i *Denis de Morebeque*, marchog o Artois.† Dichon y rhaid i ni ymwadu â'r anrhydedd arbenig hwnw: ond nid oes amheuaeth nad ymddygodd efe gyda dewrder neillduol ar yr achlysur dan sylw; oblegyd darfu i'r Tywysog Du, nid yn unig roddi iddo lywyddiaeth y castell hwn, yn mha le ar ol hyny y bu yn preswylio, ond gwnaeth ef yn farchog, ac fel coffadwriaeth parhaus am ei wasanaeth da, gorchymynodd, o hyny allan, fod i saig o fwyd gael ei gweini o flaen y fwyall, gyda pha un y cyflawnasai y fath wrhydri; ac am y rheswm hwnw yr oedd yn ei gwisgo yn ei bais-arfau, a gelwid ef yn Syr Hywel y Fwyall: ar ol i'r saig ymddangos ger bron y marchog, byddai yn cael ei chludo i lawr, a'i rhanu i'r tylodion. Ffurfiwyd gosgordd o wyth o rydd-ddeiliaid i wylied y saig, y rhai a dderbynient wyth geiniog yn y dydd o gyflog, ar draul y brenin; a'r rhai hyn, dan yr enw rhydd-ddeiliaid y goron, a barhawyd ar y sefydliad hyd amser y frenines Elizabeth. Dywed rhai, heb unrhyw betrusder, fod rhydd-ddeiliaid y goron wedi eu himpio ar y boncyff yma. Wedi marwolaeth Hywel, cludid y saig fel o'r blaen, a rhoddid hi i'r tylodion, er mwyn ei enaid; a dichon i hyny barhau hyd mor ddiweddar a'r amser a nodwyd yn flaenorol.‡

Wyth milldir yn mhellach y saif tref Pwllheli. Ar fy ffordd, croesi afon brydferth, ar bont o dri bwa, yn Llanystumdwy, eglwys a phentref mewn gwaelod coediog a phrydferth. Ychydig yn fwy yn mlaen, i mewn yn y tir, y mae *Plas Hen*, preswylfod Evan Lloyd Vaughan, ysw.;§ trwy *Plas Hen.*] briodes âg aeres o'r enw Vaughan, un o ddisgynyddion Collwyn ap Tangno: ar ol hyny hi a briododd William Lloyd, un o feibion ieuengaf Bodidris. Yr oedd y William Lloyd yma yn sirydd yn 1648, a lladdwyd ef mewn

* Sebright MSS. † Froissart, tom. i. ch. clxiiii. p. 195. Johnes Froissart, i. p. 439.

‡ Gwel xv Tribes of North Wales: a Hist. Gwedir Family, in Mr. Barrington's Miscell.; a Hist. Gwedir, 8vo. 143.

§ Yn bresenol yn meddiant Syr Thos. Mostyn, bar., yn hawl ei fam. Gol.

Digitized by Google

ysgarmes yn agos i Fangor, gan Syr John Owain.* Croesi yr afon Erch, gerllaw eglwys gyflwynedig i St. Cawrdaf. Wedi marchogaeth milldir arall, cyrhaedd *Pwllheli*, y dref oreu yn y rhan hon o'r wlad, a'r ystorfa lle cedwir nwyddau at wasanaeth y rhandir yma. Gorwedda yn agos i'r môr, ac y mae ganddi borthladd gweddol dda i longau a gariant oddeutu triugain tunell. Elir i mewn iddo heibio i graig uchel, a elwir Careg yr Imbill, oddeutu milldir oddiwrth y dref, â pha un yr unir hi gan resau o fryniau tywod. Gwnaed y lle yma yn fwrdeisdref rydd gan y Tywysog Du, trwy siartr wedi ei amseru yn y 12fed flwyddyn o'i dywysogaeth, yn Nghaernarfon, er anrhydedd i *Nigel de Loryng*, o *Lohareyn*, un o foneddigion ei ystafell-wely, i ba un yr oedd wedi rhoddi Pwllheli a Nefyn, oddiar ystyriaeth o'i wasanaeth mawr yn *Gascony*, ac yn arbenigol yn mrwydr *Poitiers*. Dyry hawl iddo i *Servitiis quorumcunque tenentium tam liberorum quam nativorum*;† wrth yr hyn gallem feddwl nad oedd efe yn cynwys y Cymry yn y rhagorfreintiau. Beth oeddynt, yr wyf yn methu deall; ond yr oeddynt yr unrhyw ag eiddo bwrdeisiaid Rhosfair (Niwbwrch): ac am danynt yr oedd Pwllheli i dalu i *Nigel* bedair punt ar ddeg yn y flwyddyn, a Nefyn ddeuddeg ar hugain. Y fwrdeisdref hon, a'r eiddo Nefyn, a rad-roddodd efe iddo, ynghyda'u holl attodion, gyda phedwar *librate* o dir, tuag at adgyweirio ei faenordai; ac am yr holl bethau hyn, nid oedd i dalu fel cydnabyddiaeth ond rhosyn, yn lle pob gwasanaeth. Os byddai farw yn ddietifedd, yr oedd y cwbl i fyned i'r goron. Iorwerth III. a gadarnhaodd y rhoddion, ar ol hyny, yn Sandwich.

Carn Fadryn. Oddiyma marchogais oddeutu pum' milldir i fewn i'r wlad, i *Garn Fadryn*, bryn creigiog uchel, ar ei ben ei hun, yr hwn sydd yn hynod ar gyfrif iddo fod ar un adeg yn amddiffynfa gadarn o eiddo Rhodri a Maelgwyn, meibion Owain Gwynedd, i ba rai yr oedd y rhan hon o'r wlad yn perthynu. Y mae y gwaelod, yr ochrau, a'r pen uchaf, yn llawn o gelloedd, hirgul, hirgrwn, neu grwn, a bu tô arnynt unwaith, er eu hamddiffyn rhag gerwindeb yr hin: ac y mae llawer o honynt eto yn lled gyfain. Y llywyddion a breswylient ar y pen uchaf; a phobl y wlad, yn nghyda'u hanifeiliaid, mewn adegau o oresgyniad, a gyfaneddent yr ochrau a'r gwaelod. Yr oedd yr oll o'r copa wedi ei gylchynu â mur, yr hwn sydd eto yn weledig mewn rhai manau. O'r copa ceir golwg eang ar y wlad, gyda morgilfach Caernarfon ar un ochr, ac eiddo Aberteifi ar yr ochr arall. Gwelir Sarn Badrig‡ yn ymestyn yn ei hyd peryglus o sir Feirionydd, agos yn gyfredol âg arfordir Lleyn. Y mae Deheubarth Cymru i'w weled yn amlwg hefyd, a'r Iwerddon ar dywydd clir; ac o'n blaenau y mae holl Eryri yn arddangos terfyn o'r fath mwyaf ardderchog ac anorfod.

Wrth droed y mynydd hwn y saif *Madryn*, yn ddiweddar yn balasdy i deulu o'r enw hwnw. Gwerthwyd ef gan y *Madryns*, a chymunroddwyd ef gan y prynwr i'w nai, —— Bodvel, ysw., yr hwn a fu farw heb etifedd; felly daeth yn eiddo i'w chwaer, gan yr hon y cymunroddwyd ef i William Lewis, ysw., o Lysdulas, yn Môn, nith henaf yr hwn a'i dygodd trwy briodas i Love Parry, ysw., o'r Wern Fawr.

* Vide MS. in Mostyn library.

† "I wasanaeth pwy bynag a breswylient yno, gwŷr rhyddion yn gystal a brodorion."

‡ Gwel tudal. 316 o'r gwaith hwn.

O Bwllheli aethum yn mlaen ar fy nhaith tua *Llanbedrog*, gan gadw gyda glanau y forgilfach ardderchog hono a elwir Angorfa Tudwal, yr hon a gysgodir gan ddwy o ynysoedd, a'r rhai a gyfenwir oddiwrth St. Tudwal; ac y mae capel bychan yn gysegredig iddo ar y fwyaf o'r ddwy. Ei phreswylyddion presenol ydynt ddefaid, cwningod, a phaledn (*puffins*) yn eu hadeg.

*Penrhyn Du.*] Yn y *Penrhyn Du*, un o benrhynau y forgilfach hon, y mae llawer o ymchwiliadau wedi bod am fwn plwm; ac yn y blynyddoedd diweddaraf y mae ymgeisiadau wedi cael eu gwneyd i godi dwfr o'r mwngloddfeydd, gyda thânbeiriant; ond y mae y treulion wedi troi allan yn fwy na'r enillion. Ychydig yn mhellach na hyn y mae morgilfach arall, a elwir *Safn Uffern*, yr hwn le y mae y morwyr yn arswydo rhagddo, am ei fod ef a Sarn Badrig (pen eithafol yr hon sydd braidd yn gyferbyniol âg ef), yn debyg i *Scylla* a *Charybdis* yr hynafiaid.

*Aberdaron.*] Mewn ychydig amser cyrhaeddais *Aberdaron*, pentref tylodaidd yn nghwr pellaf sir Gaernarfon, yn sefyll ar forgilfach dywodog, o dan rai clogwyni uchel a thywodlyd. Y mae genau y forgilfach yn cael eu hamddiffyn gan ddwy o ynysoedd bychain, a elwir Ynys Gwylan, man dyogel i fân gychod y preswylwyr, y rhai ydynt oll yn bysgotwyr. Cymer y pentref ei enw oddiwrth yr afonig Daron, yr hon sydd yma yn ymarllwys i'r môr.

Yn yr eglwys y mae dwy o rodfeydd, y rhai a gynelir gan bedwar o bileri tra phrydferth. Gan mai dyma y fan lle y byddai crefyddwyr yn gyffredin yn cymeryd cwch am Ynys Enlli, yr oedd yma fawr gyrchu mewn hen amseroedd. Cawsai ei chysegru i St. Hywyn, sant o'r ynys hono; yr oedd yn fath o ddinas noddfa,* a mawr fyddai y cyrchu yma gan bererinion. Dywed Leland y byddai yn cael ei galw yn Llan Engan Frenin, *Fanum Niniani Reguli*.† Yr oedd Ninian yn sant, yn fab i dywysog Cymreig, a'r hwn y gallasai traddodiad fod wedi ei anfon yma i sylfaenu yr eglwys.

*Ynys Enlli.*] O'r porthladd hwn cymerais gwch, rywdro, am *Ynys Enlli* (*Bardsey*, neu Ynys y Beirdd), yr hon a orwedda oddeutu naw milldir i'r gorllewin. Ymddangosai fod y cychwyr wedi eu nawsio â chrefyddolder y lle; oblegyd cyn iddynt rwyfo nepell, ymataliasant, tynasant eu hetiau oddiam eu penau, ac offrymasant i fyny weddi fer. Ar ol amgylchu penrhyn, ymddangosai yr ynys yn gyflawn yn ein golwg; rhwyfasom heibio o dan y mynydd uchel sydd yn ffurfio un ochr iddi; ac wedi amgylchu y pen arall, aethom i gilfach fechan dywodog, yr hon a amgylchir gan greigiau isel, megys y mae y rhan wastad o honi i gyd. Wedi glanio, canfyddais fod yr holl randir yma yn wastadedd ffrwythlawn, o dan driniaeth dda, ac yn tyfu pobpeth a gynyrchir gan dir y sir yn gyffredinol. Tŷ yr abad sydd adeilad o geryg, ac y mae amryw o'r trigolion yn byw ynddo: heb fod nepell oddiwrtho y mae capel hynod, neu areithfa, yr hwn sydd yn adeilad hir a bwaog, gydag allor gareg yn agos i'r pen dwyreiniol, ar ei phen ei hun. Yn y lle hwn y bydd un o'r trigolion yn darllen gweddïau: cyflawnir pob gwasanaeth crefyddol arall yn Aberdaron.

Y mae yr ynys oddeutu dwy filldir o amgylchedd, ni chynwysa ond ychydig drigolion, a thalant eu hardrethion i arglwydd Newborough. Rhoddwyd hi

* Powel, 176. † Itin. v. 51. Bu farw Ninian yn 432.

Digitized by Google

gan Iorwerth VI. i'w ewythr, Syr Thomas Seymour, ac ar ei farwolaeth ef i John, iarll Warwick.* Y diweddar Syr Thomas Wynn a'i prynodd gan y Parchedig Ddr. Wilson o Newark.

Bu yr ynys, yr hon ag y mae ei hamgylchiadau ysprydol yn bresenol yn ngofal un dyn gwledig, ar un adeg, yn ystod eu bywyd, yn noddfa i 20,000 o saint; ac wedi iddynt feirw, yn alluog i roddi beddau i gynifer o'u cyrph. iawn, gan hyny, y dylesid ei galw yn *Insula Sanctorum*, neu Ynys y Saint. Rhaid i mi sylwi, gyda Dr. Fuller, "y buasai yn haws cael beddau i gynifer a hyny o saint yn Ynys Enlli, na chael saint i lanw cynifer a hyny o feddau."†

*St. Dyfrig.*] Ond i ddynesu at y gwirionedd: dywedir fod *St. Dyfrig*, archesgob Caerlleon-ar-Wysg, ar ol cael ei dreulio ymaith braidd yn gwbl gan henaint, yn rhoddi i fyny ei esgobaeth i St. Dewi, yn encilio yma, ac, yn ol yr hanesion cywiraf, yn marw yn 612; iddo gael ei gladdu yn y fan lle y bu farw, ond iddo, mewn amseroedd ar ol hyny, gael symud ei weddillion oddiyno i Landaff. Tybir fod lladdedigaeth mynachod Bangor Iscoed, oddeutu y flwyddyn 607, wedi cynyddu poblogaeth yr ynys; oblegyd nid yn unig y brodyr a ddiangasent, ond llaweroedd ereill o Frytaniaid duwiolfrydig a ffoisant yma i osgôi cynddaredd y Sacsoniaid.

*Y Fynachlog.*] Y mae yr adeg yn mha un y sylfaenwyd y tŷ crefyddol hwn yn dra ansicr; digon tebyg iddo gael ei sylfaenu cyn enciliad Dyfrig; oblegyd buasai rywbeth o'r fath hyny yn ofynol er peri iddo ddewis y lle. Ymddengys yn debyg iddo fod yn sefydliad o eiddo y *Culdees*, neu y *Colidei*, y meudwyon crefyddol cyntaf a adnabyddir yn Ynys Prydain; y rhai a chwilient am ynysoedd a manau anghyfanedd, yn mha leoedd y gallent addoli yr unig wir Dduw mewn dyogelwch. Nid oes un amheuaeth y byddid yn cyrchu yma mewn amseroedd tra boreuol; oblegyd dywed ein hanesion fod y fan yn flodeuog fel mynachdy yn nyddiau Cadfan, brenin Prydain,‡ yr hwn a gydoesai â Dyfrig. Mynachlog ydoedd wedi ei chysegru i Fair y Wyryf. Yr wyf yn cael yn mhlith y *Sebright MSS.*, grybwylliad am ddeiseb oddiwrth yr abad at Iorwerth II., yn mha un y gesyd allan y niweidiau a dderbyniasai oddiar law sirydd Caernarfon, yr hwn a'i gorfodasai i dalu 3*l.* 8*s.* 6*d.* yn wrthymgroes i amodau "y llwyr a chwbl feddiant;" ar ba achlysur gorchymynodd y brenin i Roger de Mortimer, prif ynad Cymru, wneyd ymchwiliad i'r mater; ei adroddiad ef ydoedd, fod yr abad yn dal ei diroedd yn sir Gaernarfon, *in puram et perpetuam elemosynam*,§ heb unrhyw wasanaeth na chydnabyddiaeth gwladol; ac yn mhellach, fod Dafydd, arglwydd Lleyn, brawd i dywysog olaf Cymru, wedi codi yr un swm; a'r un modd ei *Bencynydd*, neu feistr ei gŵn, digon tebyg o dan yr esgus o'u cynal hwynt. Y brenin, o ganlyniad, trwy ei ffafr neillduol, a thrwy anogaeth ei gynghor, a ebargofiodd am byth y swm hwnw, a phob ol-ddyledion; a chyfarwyddodd na byddai i neb o hyny allan, ar ei gyfrif ef na'i etifeddion, byth aflonyddu y fynachlog.

Ar adeg y dadgorphoriad aeth y tŷ o dan yr un dynged â thai crefyddol ereill. Yr oedd ei gyllid, medd Dugdale, yn 46*l.* 1*s.* 4*d.*; ond yn ol Speed, yr oedd yn 58*l.* 6*s.* 2*d.* Yn y flwyddyn 1553, nid oedd ond 1*l.* 6*s.* 8*d.* yn aros o gostau i gynal crefyddolion y lle.

* Tanner, 705. † Worthies of Wales, 29. ‡ Rowl. 187. § "Yn elusenau llwyr gwbl a pharhaol."

Digitized by Google

Enw Prydeinig yr ynys ydyw *Ynys Enlli*, neu *Ynys yn y Llif*, oherwydd y llifeiriant cryf a ymrwyfa, yn enwedig cydrhyngddi â chyfandir Arfon. Y Saeson a'i galwasant *Bardsey*, fe ddichon, o herwydd y beirdd a enciliasent yno, y rhai a ddewisent feudwyaeth yn hytrach na chwmni gormeswyr tramor.

Y mae cyflawnder o bysgod i'w cael o amgylch yr ynys, a digonedd o gimychiaid; y mae y *cimwch glein-gefnol Br. Zool.* iv. N° 22, i'w gael yn amlach yma nag yn unman arall o'r bron.

Aethom i'n cychod o'r creigiau ar yr ochr arall o'r ynys, yn union gyferbyn â'r lle y glaniasom ynddo. Rhwyfasom trwy y cerhynt cryf a elwir *Râs Enlli*, rhwng yr ynys a phenrhyn mawr Braich y Pwll—*Canganum Promontorium* Ptolemy; gelwir un rhan o hono, oddiwrth ryw geryg melynion, Maen Melyn; y gweddill sydd glogwyn anferthol, du ac erchyll. Wedi glanio yn Aberdaron, marchogais i'w gopa, a chanfyddais yno weddillion eglwys fechan, a elwir *Capel Fair;* a chefais fy hysbysu fod, yn ngwaelod y penrhyn, islaw nod gorllanw, ffynhon o ddwfr croyw, at ba un yr arferai coelgrefyddolion ddisgyn, ar hyd llwybr amgylchog a hynod o beryglus, i gael llonaid ceg o'r dwfr pan fyddai y llanw allan; yr hwn, os gallent ei gario i fyny i'r pen uchaf yn ddyogel, heb ei lyngcu, a sicrhai iddynt eu dymuniad, gan nad beth a fyddai. Yr oedd hon hefyd o dan nawdd y Wyryf, a gelwid hi *Ffynhon Fair.* Yr oedd y capel wedi ei adeiladu yn y fan yma, er rhoddi cyfleustra i forwyr erfyn am nawdd y sant gwarcheidiol yn eu mynediad trwy y forgaingc beryglus yma; a diameu genyf, yn yr hen amseroedd, fod y muriau wedi eu gorchuddio â llechau addunedol. Heb fod nepell oddiyma aethum heibio i weddillion *Capel Anhelog*, sef y capel nad oedd gwaddol yn perthynu iddo.

*Capel Fair.*

Wedi myned yn mlaen trwy wastadedd ffrwythlawn, esgynais fynydd uchel, yr hwn a elwir *Uwch Mynydd*, yn ymgrogi uwch ben y môr; arno y mae amrywiol geueddau crynion, wedi eu hymylu â cheryg, preswylfeydd rhyw oresgynwr, efallai, am dymhor. Dyfod i lawr, a myned heibio i dŷ mawr hynafol, a elwir *Methlem.*

Heb fod nepell oddiyma, oddeutu chwarter milldir oddiwrth lan y môr, y mae craig uchel yn ymddyrchafu, a elwir *Maen y Mellt.* Marchogaeth heibio i *Gefn-amwlch*, preswylfod John Griffith, ysw.;* ac yn fuan ar ol hyn i *Frynodol*, preswylfod Hugh Griffith, ysw.; yn mha le y cefais dderbyniad lletygar am ddwy noswaith. Oddiyma ymwelais â'r morlenydd yn y gymydogaeth, y rhai ydynt isel a chreigiog, yn ymagor i amrywiol grigylloedd bychain, tra hwylus i'r pysgotwyr, y rhai a gânt ynddynt, yn ystod adeg pysgota penwaig, le dyogel i encilio rhag ystormydd. Yn mhlith y rhai hyn y mae Porth Tywyn, Porth Colman, Porth Gwylan, a Phorth Ysgadan. Yn agos i'r olaf, oddeutu deng mlynedd ar hugain yn ol, cafodd craig, yr hon a ymddyrchai i uchder mawr allan o'r môr, ei cholli yn sydyn, ar ol noswaith o dymhestl arswydus o fellt a tharanau, a thybir iddi gael ei tharo i lawr gan y follt anwrthwynebol. Sylwais fod y maesydd o amgylch Porth Gwylan yn orchuddiedig gan *sampier y ddafad (sheep's*

*Maen y Mellt.*

* Cefn-amwlch sydd yn bresenol yn meddiant Mrs. Wynne, o'r Voelas; a Brynodol yn eiddo John Griffith, ysw Gol.

*samphire),** ar ba rai y mae defaid a gwartheg yn ymborthi yn wangcus, ac yn tewychu yn anarferol. Cefais fy moddhau yn fawr yma gyda blodau hardd y *thrift* (clustiau Pedr), y rhai a ymddysgleiriant ar niferi o'r porfeydd.

*Lleyn, ei chynyrch.*] Y mae *Lleyn* yn gwmwd tra eang: yn gyffredin, gwastadedd ydyw, ond amrywir ef gan fryniau neu greigiau o'r fath mwyaf nodweddiadol, yn ymgodi ar eu penau eu hunain mewn amryw barthau; ond nid oes yr un o honynt yn ymddangos mor amlwg a *Charn Fadryn* a *Charn Boduan.* Nid yw tai y werin ond gwaelion iawn; wedi eu gwneyd o glai, eu tôi â gwellt, ac yn gwbl amddifaid o simneiau. Er gwaethaf esiamplau canmoladwy y boneddigion, y mae y wlad yn aros mewn cyflwr anniwylliedig, yn cael ei hesgeuluso er mwyn y fasnach mewn penwaig. Y prif gynyrch ydyw haidd, a da duon. Hysbyswyd fi fod mwy na thair mil o wartheg yn cael eu gwerthu bob blwyddyn o'r parthau hyn. Y mae llawer iawn o geirch, haidd, ymenyn, a chaws, yn cael eu trosglwyddo o'r wlad. Y tir sydd ragorol fel porfa, am y dyfrheir ef gan fil o fân ffrydiau. Y mae yn amddifad o goed, oddigerth oddeutu palasau y boneddigion.

*Penwaig.*] Yr oedd penwaig, oddeutu y flwyddyn 1771, yn cael eu dal yma mewn cyflawnder mawr, o Borth Ysgadan (Porth y Penwaig) hyd Ynys Enlli. Cyrhaeddai gwerth yr hyn a ddelid yn fynych hyd oddeutu pedair mil o bunnau. Weithiau helltid hwy ar y lan; ar adegau ereill prynid hwy gan longau Gwyddelig ar y môr, y rhai a'u cludent i Ddublin i gael eu ciwrio. Y pysgod anwadal hyn, ar y cyfnod a nodwyd, a wnaent eu hymddangosiad yn mis Gorphenhaf, ac a ymadawent yn mis Hydref; mewn cyfnodau boreuach, arferent dalu eu hymweliad yn mis Medi, ac elent ymaith yn mis Tachwedd. Delir y pysgod a elwir *dories* yn fynych yma, ond byddai y pysgotwyr yn arfer eu taflu yn eu holau i'r môr, o achos eu hymddangosiad hyll: ac nid oedd y moethusion yn adnabyddus i'r boneddigion, hyd nes y darfu i un o'u gweision, yr hwn a wyddai am y pysgod hyn, eu gwneyd yn hysbys o honynt. Delir yr *Atherine, Br. Zool.* N° iii. 157, yn agos i Bwllheli; a chymerir cimychiaid bychain weithiau, yr hai a ymgladdant yn y tywod; gwahaniaethant oddiwrth y rhywogaeth gyffredin ar gyfrif eu preswylfod, a'u bod yn llai o faintioli. Gwneir y trapiau at ddal cimychiaid o linyn pacio, a'r abwyd ydyw darnau o'r morgi ysmotiog lleiaf *(lesser spotted shark, Br. Zool.* iii. N° 47.*)* Sylwa y pysgotwyr fod y pysgod gwangcus hyn, ar adegau, yn cymharu ar wahan; oblegyd ar rai prydiau nid ydynt yn dal ond gwrywiaid yn unig, a benywiaid yn unig ar brydiau ereill.

Y mae eglwysi y rhan hon o'r wlad yn dra hynafol. Darfu i ryw achos neu gilydd fy atal rhag gweled amrywiol hen gerfiadau; cefais afael ar ychydig o honynt wedi hyny. Dywedir fod yn eglwys Llangynodl yr un a ganlyn: *Hic jacet Gwen Hoedl,* boneddiges sanctaidd oedd yn byw yn yr hen amseroedd. *Dervori hic jacet,* sydd gerfiad arall ar gareg sydd yn bresenol uwch hen drws ystabl Penprys, yn mhlwyf Llannor;† ac yn Nghapel Yferach, yn mhlwyf Aberdaron, y mae un arall.‡ Y maent wedi eu tori ar geryg tra geirwon, a diau eu bod yn waith rhywrai yn oesoedd boreuaf Cristionogaeth.

* Salicornia Herbacea. Gwel Fl. Br. p. 2. Gol.

† Sobright MSS.

‡ Yr unrhyw.

Digitized by Google

*Brynodol.*] *Brynodol*, trwy ei fod yn sefyll ar ochr bryn, a ddyry olygfa eang ar randir wastad a digoed, y môr, a chrynswth ardderchog o fynyddoedd. Mynyddoedd yr Eifl, Boduan, a'r "uchel Garn Fadryn," a ymgodant yn ein hymyl; a thu hwnt i'r rhai hyn, ymgyfyd holl ERYRI, a'r alpau hyny a amgylchynant y Wyddfa hyd y rhai mwyaf pellenig yn sir Feirionydd.

*Porth yn Lleyn.*] Wedi ymadael â Brynodol, disgynais i lawr i wastadedd eang; cyrhaedd *Porth yn Lleyn*,* môrgilfach ragorol a thywodog, yn cael ei hachlesu ar du y gorllewin gan benrhyn cul, yr hwn a red allan yn mhell i'r môr. Ar un parth o hono y mae gweddillion amddiffynfeydd tra chryfion; dichon fod gan y Rhufeiniaid ryw fath o rag-orsaf yma: gan y rhai yr oedd un arall, fel y bydd genyf achlysur i sylwi eto, rhwng y lle yma a Chaernarfon.

*Nefyn.*] Yn wahanedig oddiwrth y gilfach hon gan bentir bychan, y mae môrgilfach *Nefyn;* a cherllaw iddi dref fechan o'r un enw, yr hon a gyfranoga â Chaernarfon yn yr hawl i ethol aelod seneddol. Cafodd y lle yma ei roddi i *Nigel de Lohareyn* gan Iorwerth y Tywysog Du, yn y 12fed flwyddyn o'i dywysogaeth, a gwnaed hi yn fwrdeisdref rydd; cafodd hefyd farchnadfa fwrdeisiol, a phob rhagorfraint arall a roddid i fwrdeisdrefi rhyddion, a phob breintiau a thollau a ganiatasid hyd yma i eiddo Niwbwrch yn Môn. Rhoddodd hefyd iddi hawl i gynal dwy ffair bob blwyddyn, a marchnad ar ddydd Sul, i ba un y gorfyddai i breswylwyr y rhan hono o gwmwd Lleyn, neu *Dinthlayn*,† fyned i farchnata.

Yma y darfu i Iorwerth I., yn 1284, gynal bloddest ei fuddugoliaeth yn nghongcwest Cymru; ac, efallai, i heddychu ei ddeiliaid newyddion, mewn efelychiad o'n tywysog Arthur, *efe a gynaliodd yno ford gron, ynghyda dawns a ffug-ymladdfa*,‡ yn mha le yr oedd—

Marchogion dewr yn lluoedd, a barwnigion hyf,
Mewn heddwch dystaw'n chwareu eu gwrol gampau cryf;
Boneddigesau prydferth, â llygaid dysglaer iawn,
Yn dylanwadu'n siriol, wrth ranu'r gwobrau gawn,
Am ffraethder a champ arfau; ymdrecha'r dewrion draw
I enill gwenau tirion, ganmolir ar bob llaw.

Yr oedd y cynulliad yn aruthrol; nid yn unig yr oedd prif bendefigion Lloegr yn bresenol, ond yr oedd niferi hefyd o wledydd tramor, yn addurno y wledd â'u presenoldeb.

* Yn y flwyddyn yn 1806, pasiwyd gweithred seneddol er gwneyd glansarn *(pier)* a gweithydd ereill yn Mhorth yn Lleyn, ac i gorphori cwmni er codi arian a chasglu tollau. Apeliwyd wedi hyny at y senedd am gymhorth arianol i gario allan y cyullun, ond gwrthodwyd y cais. GOL.

† Wrth gwrs y mae *Dinthlayn* yn golygu *Dinllayn*, yr hwn yn awr a seinir *Din Llaen*, ac yr wyf yn tybied fod *Porth yn Lleyn* Pennant wedi cael ei wella ronyn o *Borth Din Llaen*, gan ei fod yn awr yn cael ei alw bob amser naill ai *Porth Din Llaen* neu *Port Din Llaen*. Fel hyn ymddangosai fod dau air, Lleyn, *lagin-i*, a Llaen, *lagin-a;* y mae genym air cyfathrachol yn *Leinster*, yr hwn wedi tynu oddiwrtho ei derfyniad Scandinafaidd, ydoedd yn ol yr hen iaith Wyddelig, yn *Lagin*, a golygai y Gwaywffyn, neu efallai Gwŷr y Gwaywffyn. Nid yw y gwneuthurwyr mapiau, y rhai a fynant ysgrifenu *Llaen* fel *Lleyn*, am fod y porthladd yn Lleyn, yn debyg o adael i'r brodorion genedigol gael llais yn y mater. J. R.

‡ Ad rotundam tabulam juxta Snowdon præconizatam in choreis et hastiludiis ad invicem colludentibus. *Annal. Waverleins.* in *Gale*, ii. 239.

Digitized by Google

Y mae yr arferiad hon yn un dra hynafol, oblegyd gellir ei holrhain yn ol hyd yn nod yn mhellach nag amser Arthur. Gallwn ganiatâu y byddai ef yn cynal ei ford gron ar ol ei fuddugoliaethau mewn rhyfel; ac fod ganddo bedwar ar hugain o farchogion a eisteddent wrth fwrdd y wledd, yr hwn a allasai fod wedi ei wneyd ar ffurf crwn, i'r dyben o ddinystrio pob ymrafael yn nghylch uwchafiaeth yr eisteddle. Ond byddai y *Gauliaid* hefyd yn eistedd wrth eu byrddau crynion, a byddai gan bob marchog, o'r tu ol iddo, yswain mewn llawn arfogaeth yn gweini arno.* Cynaliwyd y cyfarfodydd gwrol yma am lawer o oesau ar ol hyn. Heblaw y cyfarfod hwn a fu yn Nefyn, cynaliwyd un arall gan iarll Mortimer, yn Kenilworth, lle yr oedd y marchogion yn cyflawni eu hymarferiadau milwraidd, a'r boneddigesau yn dawnsio mewn mantelli sidan.†

Yr ymarferiadau milwraidd, fel y tybiaf, a gyflawnid yn y llecynau cylchog y cyfarfyddir â hwy hyd heddyw mewn rhai parthau o Loegr, wedi eu hamgylchu â chlawdd pridd uchel, ffos ar y tu fewn, a dwy fynedfa i'r lle, y naill gyferbyn a'r llall, drwy ba rai y gallai y marchogion ddyfod i'r cylch, a gwneyd eu hymosodiad. Gwelais un o'r rhai hyn gerllaw Penrith, yr hwn sydd yn dwyn yr enw *Bord Gron Arthur;*‡ gwelais rai ereill, llawer mwy, ar forfa Thornborough, yn sir Gaerefrog; am ba un, rywbryd eto,§ y gallaf roddi ychydig o hanes.

Esgyn o Nefyn am gryn ffordd ar hyd ystlys mynydd uchel; ac wedi marchogaeth am ychydig amser ar dir gwastad, gadael ein ceffylau ar ol, i'r dyben o ymweled â *Nant y Gwytherin*, neu *Nant Gwytheyrn*, y ceudwll echrydus i ba un y dywedir fod Gwrtheyrn wedi ffoi rhag dialedd ei ddeiliaid, ac yn mha le y dywedir iddo ef a'i gastell gael eu dinystrio gan fellt.

*Nant Gwytheyrn.*

Y mae Nennius|| yn gosod yr olygfa yn agos i Teifi, yn sir Gaerfyrddin; ond credaf fod yr hanesydd hwnw, nid yn unig yn camgymeryd y lle, ond hyd yn nod y modd y bu farw. Bu fyw yn afradlon, o ganlyniad, penderfynodd y mynachod na byddai iddo gael marw fel dynion yn gyffredin, ac felly parasant iddo gael ei ddinystrio gyda nodau amlwg o ddialedd y nefoedd arno. Ni ddichon y dychymyg ffurfio lle mwy cyfaddas i ddyn encilio iddo o ŵydd dynolryw, neu yn fwy tebyg o greu hyder ynddo ei fod yn ddyogel rhag pob erlyniad. Saif yn nghesail mynydd tra uchel, ar ddwy ochr yn derfynedig gan ddwy o elltydd caregog, ar ba rai nid ymddengys un llysieuyn, heblaw y grug deifiedig a'r eithin corachaidd; y drydedd ochr a arddengys glogwyn du o'r fath erchyllaf o'n blaen, gyda chopa uchaf yr Eifl yn ymddyrchafu uwch ben; a'r unig lwybr agored i'r fan anial yma sydd tua'r môr, yn wynebu y gogledd! o ba le y mae y gwynt oerllyd hwnw yn ymarfer ei holl rymusder, ac yn haner rhewi yr ychydig drigolion yn ystod y gauaf. Preswylir y nant gan dri o deuluoedd, y rhai a godant geirch, ac a gadwant ychydig wartheg, defaid a geifr; ond ymddengys mai gorchwyl anhawdd iawn ydyw cael eu cynyrch bychan allan o'r fan yma i'r farchnad.

Yn union uwchben y môr, y mae bryncyn uchel a gwyrddlas, un naturiol; ond y mae y top a'r ochrau wedi eu ffurfio gan law celfyddyd; y blaenaf wedi

* Athenæus, lib. iv. † Dugdale's Warwickshire, i. 247.
‡ Tour in Scotland, 1769, 3rd ed. p. 278.
§ Tour to Harrowgate, p. 48. Gol. || Hist. Br. c. xlviii.

Digitized by Google

ei wneyd yn fflat; a'r ochrau wedi eu nodi âg wyth o asenau amlwg o'r top i'r gwaelod. Dichon mai ar gopa hwn yr oedd preswylfod y tywysog anffodus; o ba un y mae llaw amser wedi dileu pob olion heblaw hyn. Hyd ddechreuad y ganrif ddiweddaf, yr oedd carnedd—oddifewn yn geryg, a'r tu allan wedi ei gorchuddio â thywyrch gleision—i'w gweled yma: adnabyddid hi wrth yr enw Bedd Gwrtheyrn: traddodiad wedi trosglwyddo yn rheolaidd y mynegiad mai dyma y fan lle y claddwyd ef. Darfu i drigolion y plwyf, efallai ar anogaeth eu gweinidog y pryd hyny, Mr. Hugh Roberts, yr hwn oedd yn ddyn cywrain, gloddio i'r garnedd hon,, a chawsant ynddi arch careg, yn cynwys esgyrn dyn tàl.* Y mae hyn yn rhoddi gradd o grediniaeth yn y traddodiad, yn enwedig gan na chafwyd unrhyw esgyrn ereill yn agos i'r garnedd; ac nid oedd unrhyw garneddau ereill ychwaith yn y fan; yr hyn a brawf o'r hyn lleiaf y parch a ddangosid i urddas y person, ac fod y lle wedi cael ei adael ar ol marwolaeth y ffoadur breninol, oddeutu y flwyddyn 465.

*Mynyddoedd yr Eifl.*

Wedi dyfod o'r nant ddigysur hon, cefais bwngc newydd arall yn fater ystyriaeth. Deuais i fwlch, rhwng dau o gopäau *Mynyddoedd yr Eifl;* rhês ag sydd yn tori ffugur tra hynod, gyda'u penau pigfain fel torthau siwgr gwŷn, ac yn weladwy o amrywiol barthau pell ac agos o'r wlad: ymestynant yn wyrdraws, a gwahanant Leyn oddiwrth gantref Arfon, ac estynant eu penau i'r môr gerllaw Nant Gwrtheyrn.

*Tre'r Caeri.*

Ar draws y bwlch, o'r naill gopa o'r Eifl i'r llall, ymestyna caer anferthol o geryg, neu efallai weddillion mur, yr hyn a gaua y bwlch i fyny yn gwbl. Ar yr Eifl y mae yr orsaf Brydeinig fwyaf perffaith ac ardderchog, yn gystal a'r un a ffurfiwyd yn fwyaf celfydd, a welais i erioed. Gelwir hi *Tre'r Caeri.*† Y mae yr ochr yma, yr hon ydoedd yn ochr hygyrch, yn cael ei hamddiffyn gan dair o waliau; yr isaf sydd yn dra amherffaith, y nesaf yn lled gyfan, ac ynddi y mae y brif fynedfa. Y mae y wal yma, mewn un lle, yn pwyntio at y drydedd wal, yr hon a red o gwmpas copa y bryn; ymuna yr ail wal â'r gyntaf, yr hon a red i bwynt, troa yn ol, ac ymuna â'r uchaf, mewn man lle y mae y bryn yn dyfod yn anhygyrch. Y mae gwynebfeini y ddwy wal uchaf yn dra chyfain, yn enwedig yr uchaf. Codant i uchder mawr, ac arddangosant, o'r gwaelod, wyneb ardderchog a thra eang. Y lle ar y top sydd wastadedd afreolaidd; rhan o hono yn fflat, a rhan yn syth, gorchuddir ef yn benaf gan rug, yr hwn a ddyry nawdd i ychydig ieir cochion y mynydd. Y mae yr oll braidd wedi ei lanw â chelloedd, Er ei weled yn fanteisiol, dylid edrych ar y lle o'r pen uchaf, o gwmpas pa un y mae y celloedd yn hynod o amlwg, ac wedi eu cyfleu yn dra chelfydd. Oddeutu y canol y mae lle ysgwâr, wedi ei amgau â cheryg; math o *prætorium*, wedi ei amgylchu â dwy res o gelloedd: y mae niferi o rai ereill yn wasgaredig oddiamgylch ar hyd y gwastadedd, ac ereill drachefn yn ymyl y wal ar hyd yr ochr fewnol iddi.

Y mae y celloedd o'r bron yn gyfain: o amrywiol ffurfiau; crwn, hirgrwn, hirgul, ac ysgwâr. Yr oedd amryw o'r rhai crynion yn bymtheg troedfedd o

* Kennet's Paroch. Antiq. Hist. Allchester, 698.

† Dyma yr eglurhad arferol, ond ni bydd iddo sefyll archwiliad: oblegyd gelwir y lle, nid *Tre'r Caeri*, ond *Tre'r Ceiri*, yr hwn a seinir yn wahanol, a golyga yn nhafodiaith sir Gaernarfon, Tref y Cawri, gan fod *ceiri* yn lluosog o *cawr*, yn y sir hono J.B.

Digitized by Google

drawsfesur; y rhai hirgrwn yn ddeg troedfedd ar hugain o hyd, gyda mynedfeydd hirion i mewn iddynt, wedi eu gwynebu yn rheolaidd â meini. Yr oedd yr oll o honynt, pan yn cael eu preswylio, wedi eu hamddiffyn yn dda rhag y tywydd gan dô, naill ai o wellt neu o dywyrch.

Yr oedd y wal uchaf mewn llawer o fanau yn bymtheg troedfedd o uchder ar y tu allan, ac yn fynych yn un droedfedd ar bymtheg o led. Cynwysai ddwy ran gyfredol a chysylltiedig, un yn uwch na'r llall, ac yn gwasanaethu fel murganllaw i'r isaf, yr hon, fel yr ymddengys, a feddai rodfa, tebyg i'r un ar furiau Caerlleon. Yr oedd mewn un lle, gell yn nhrwch y wal, neu efallai ruthr-borth, ond y mae i raddau yn gauedig trwy fod rhai o'r ceryg wedi syrthio i fewn iddo.

Penderfynais olrhain pob rhywogaeth o amddiffynfeydd o'r natur yma a orweddent yn y gymydogaeth hon. Wrth ddisgyn o Dre'r Caeri tua'r dehau,

*Garn Guwch.*

yn fuan iawn esgynais i *Foel Garn Guwch*, mynydd o ffurf pigfain, ar gopa yr hwn y mae twmpath anferth o geryg, yn ymddangos fel adfail anffurfiol; ond wrth sylwi ar rai gwynebfeini mewn cell yn y canol sydd o hyd yn aros, ymddengys iddo fod yn dŵr mawr ar un adeg, ac yn orsaf allanol i'r lle blaenorol. Gelwir yr adfeilion hyn gan bobl y wlad yn *Arffedogaid y Gawres.*

Rhaid i mi sylwi, ddarfod i mi ganfod, oddiar yr Eifl, amrywiol fryniau llai wedi eu cadarnhau mewn dull tra thebyg. Gallaf grybwyll *Carn Fadryn*, yr hon a ddysgrifiais yn barod; *Carn Boduan*, uwchlaw Nefyn; *Moel ben Twrch*, rhwng Tre'r Caeri a Phenmorfa; a *Chastell Gwgan*, nodedig ar gyfrif amddiffynfa fechan gron; ac at y rhai hyn gallaf ychwanegu bryn amddiffynedig arall, a elwir *Pen y Gaer*, ar yr ochr arall i'r bwlch sydd yn arwain o Arfon i Leyn. yr oll o ba rai a'i gwna yn dra thebygol mai y wlad hon ydoedd encilfa lluoedd o'r Brytaniaid, er diangc rhag cynddaredd cyntaf y goresgynwyr Sacsonaidd.

*Llanaelhaiarn.*

Ar ol chwilio Arffedogaid y Gawres, disgynais i bentref ac eglwys *Llanaelhaiarn*, yr olaf yn gysegredig i St. Aelhaiarn, ar gyfrif chwedl sydd yn rhy wrthun i'w hadrodd. Gerllaw iddi y mae ffynhon ragorol, i'r hon y mynych gyrchid gynt ar gyfrif rhinwedd tybiedig ei dyfroedd. Parhau i ddisgyn: ar y llaw ddehau y mae bryniau conaidd y *Gern Goch* a'r *Gern Ddu*, pen eithafol y gadwyn hirfaith a ymestyna yn wyrdraws o'r Wyddfa, gan ddechreu yn Talmignedd. Cyrhaedd

*Clynnog.*

*Clynnog*, yr hon a saif mewn llwyn bychan yn agos i lan y môr, wrth droed y mynyddoedd. Y mae yr eglwys y fwyaf mawreddog, fel adeilad o'r fath, yn Ngogledd Cymru. Adeiladwyd hi ar ffurf croes.

*Eglwys*

ei hyd o'r dwyrain i'r gorllewin sydd oddeutu 138 o droedfeddi, ac o'r gogledd i'r dehau 70 troedfedd. Yn agos i'r allor y mae tair o eisteddleoedd destlus, yn cael eu gwahanu gan bileri yn cynal bwäau gothaidd, lle yr eisteddai yr offeiriaid gweinyddol. Ychydig yw nifer y cof-feini: y mae yma un, i William Glynn de Lleuar, gyda'i lun, a lluniau ei wraig a'i saith blentyn un arall i'w fab-yn-nghyfraith George Twisleton, ysw., o Aula Barrow, yn sir Gaerefrog, ac yn hawl ei wraig, o'r Lleuar. Tybiaf ei fod yr un a'r milwriad Twisleton, swyddog bywiog o dan Oliver Cromwell, a'r hwn a

Digitized by Google

gafodd yr anrhydedd o orchfygu, a chymeryd yn garcharor, y marchog gwrol Syr John Owain.*

Yn gysylltiedig â'r eglwys y mae *Capel St. Beuno.* Y mae y fynedfa iddo trwy ddaeargell gul, wedi ei llorio â llechau mawrion; y maent yn hynach na'r capel; y rhai a ymddangosant braidd oddeutu yr un oed. Y mae Leland yn siarad am yr eglwys fel y *gwaith newydd*, ac y mae yr arddull adeiladyddol yn gwirio ei eiriau. Sonia hefyd am yr hen eglwys, lle y mae St. Beuno yn gorwedd, fel yn agos i'r un newydd.† Y fynedfa yw yr unig ran sydd yn aros. Tebyg ydyw fod y capel wedi cael ei adeiladu ar ol i Leland ymweled â'r lle, yn y man lle y safai yr hen eglwys, yr hon a allai fod wedi myned yn adfeilion.

*Bedd St. Beuno.* Yn y canol y mae bedd ‡ y sant, yn syml, ac ar ffurf allor. Byddai gan hen grefyddwyr ffydd gref ynddo, ac ni fyddai ganddynt yr amheuaeth leiaf y byddai i gysgu noswaith ar ei fedd, iachâu pob math o glefydon. Byddid yn arfer ei orchuddio â brwyn, a gadael plant afiach arno hyd y bore, wedi eu trochi yn dda yn gyntaf yn y ffynhon sanctaidd sydd gerllaw; a gwelais fy hunan wely plu arno, ar un adeg, ar ba un y buasai un parlysig druan o sir Feirionydd yn gorwedd drwy y nos, wedi myned yn gyntaf o dan yr un seremoni olchyddol.

*Hanes St. Beuno.* Yr ydwyf wedi rhoddi peth hanes am *St. Beuno* yn flaenorol.§ Wedi iddo ymgymeryd â'r wisg fynachaidd, efe a sefydlodd fynachdy yma yn 616. Cadfan, brenin Gogledd Cymru, ydoedd ei brif noddwr, yr hwn a addawodd iddo lawer o dir: ei fab Cadwallon a gyflawnodd yr addewid, ac a dderbyniodd gan y sant deyrnwialen aur, yr hon oedd yn werth triugain o wartheg. Ond hawliwyd y tir ar ran plentyn bychan; a phrofwyd fod y teitl yn dda: a'r brenin a wrthododd roddi iddo dir yn ei le, ac ni roddai i fyny yr anrheg ychwaith. Beuno a'i melldithiodd, ac a aeth ymaith; ond tawelwyd ef gan Gwrddeint, cefnder i'r brenin, yr hwn a'i goddiweddodd, ac a roddodd dref Celynog am byth i Dduw a St. Beuno, er mwyn ei enaid ei hun, ac enaid y drygionus Cadwallon. Yn mhell ar ol ei amser ef, yr oedd yma sefydliad gan y Carmeliaid, neu y mynachod gwynion. Cawsant hwy eu diddymu, ond nis gwn pa bryd. Ar adeg y trethiad Lincolnaidd yn y flwyddyn 1291, yr oedd yr eglwys yn un golegaidd, a chynwysai bump o brebendariaethau; a pharhaodd felly hyd amser y dadgorphoriad.‖ Y berigloriaeth sydd segur swydd gysylltiedig â phenogaeth Coleg Iesu, yn Rhydychain; ac y mae y ficeriaeth dylodaidd yn rhodd o eiddo yr esgob. Ni chofnodir beth oedd ei chyllid ar adeg y dadgorphoriad; ond rhaid ei fod ar un adeg yn fawr iawn: bu breninoedd a phrif bobl y wlad rywbryd yn mhlith y cyfranwyr tuag ati. Cadwaladr a roddodd *Graianog;* Tegwared a roddodd *Borthamel;* Cadell a roddodd *Cylcourt;* y tywysog Merfyn a roddodd *Garngwyn;* Cadwgan ap Cynfelyn a roddodd *Bodfeilion* yn Lleyn; Idwal a roddodd *Benrhos* a *Chlynnog Fechan* yn Môn; ac heblaw y rhai hyn, y mae niferi o rai ereill, am ba rai y mae yn rhaid i mi gyfeirio y darllenydd at fy awdurdod.¶

* Whitelock's Mem. 311, 454, 599. † Itin. v 13.

‡ Hysbysir fi fod y bedd yma wedi cael ei symud, mewn canlyniad i ymchwiliad ofer am gorph y sant. Dywedir hefyd fod yr offrymau a nodir yn y tudalen nesaf wedi darfod. Gol.

§ Gwel tudal. 36 o'r gwaith hwn. ‖ Tanner, 705.

¶ Dugdale's Monast. ii. 919.



Digitized by Google

Nid oes yn bresenol, yr wyf yn credu, un math o drysorfa at gadw yr adeilad hybarch yma rhag myned yn adfeilion. Nid yw yr offrymau o loi ac ŵyn, y rhai a ddygwyddent gael eu geni â *Nôd Beuno* arnynt (yr hwn sydd fath o nôd naturiol ar y glust), wedi llwyr ddarfod. Dygir hwy i'r eglwys ar Sul y Drindod, cylchwyl flynyddol y sant, a throsglwyddir hwy i'r wardeiniaid; y rhai a'u gwerthant, ac a ddodant yr arian a dderbyniant am danynt mewn cist fawr, a elwir *Cyff Beuno,* wedi ei gwneyd o un darn o dderw, a'i sicrhau â thri o gloau. Oddiyma y tardd diareb o eiddo y Cymry, pan fyddont yn amcanu at gyflawni rhywbeth anhawdd, "Byddai cystal i chwi geisio tori Cyff Beuno." Rhoddir yr ychydig arian a geir oddiwrth yr anifeiliaid cysegredig, neu oddiwrth offrymau achlysurol, naill ai fel cymhorth i'r tylodion, neu at adgyweiriadau.

*Offrymau.*

Gall y sawl ag sydd yn ymhoffi mewn hynafiaethau Derwyddol, weled *Cromlech* dra anghyffredin ar dir Bachwen, oddeutu haner milldir o'r lle hwn. Y mae gogwyddiad y gareg uchaf tua'r gorllewin; ar ei gwyneb y mae niferi o dyllau bychain a beision, gyda dau neu dri o rai mwy na'r lleill, y rhai, o bosibl, a ddefnyddid at ymarfer rhyw fath o ddewiniaeth. Oddeutu deg ar hugain o gamrau oddiwrthi y mae careg ar ei phen, wedi ei gosod, fel y tybir, er dynodi pa mor agos y gallai y bobl ddynesu at y lle, pan fyddai yr offeiriad Derwyddol yn aberthu.

*Cromlech.*

Y mae y pellder o Glynnog i Gaernarfon yn ddeng milldir; gwastadedd parhaus; ymgilia y mynyddoedd yn raddol oddiwrth y môr, fel ag i adael cryn arwynebedd o dir gwastad ar ein dynesiad at ben tref y sir. Y mae y ffordd yn rhagorol, ac y mae y rhan fwyaf o honi yn meddu y teilyngdod o fod wedi cael ei gwneyd ar draul y plwyfydd. Y forlan sydd isel, graianog, a thywodog, a ffurfia un ochr o forgilfach Caernarfon.

Croesi y *Llyfni,* afon gyflym a lifeiria o lyn Nantlle. Clywais yma am wersyll cryf, a elwir *Careg y Ddinas;* am ba un yr wyf yn cael y nodiad canlynol yn llawysgrifau teithiol y diweddar Dr. Mason, hynafiaethydd enwog o Gaergrawnt. Crybwylla ef am dani fel yn sefyll ar ynysig yn afon Llyfni, gyferbyn â phalasdy *Lleuar.* Y mae y tair ochr at yr afon yn dra sythion; a'r bedwaredd yn cael ei hamddiffyn gan ddwy ffos, a dau warchglawdd, wedi eu gwneyd, gan mwyaf, o geryg, yn enwedig yr un fewnol, yr hwn sydd yn chwe' llath o uchder. Yn y canol, y mae bryncyn; dichon mai adfeilion tŵr ydyw. Y fynedfa i fewn sydd ar du y dwyrain, rhwng penau ceuleuydd yr afon.

*Dinas Dinlle.*

Oddeutu tair milltir oddiyma, troi ar y chwith, i ymweled â *Dinas Dinlle,* bryn anferthol o raian a thywod, ar ymyl morfa eang, ar lan y môr. Ar y pen uchaf y mae gwastadedd eang, yn cael ei amgylchu gan fur rhyfeddol, wedi ei wneuthur, yn ol pob ymddangosiad, o'r pridd a grafwyd allan o'r gwastadle ar y top. Oddifewn iddo y mae gweddillion sylfeini adeiladau, o ffurf hirgrwn, wedi eu gwneyd o bridd a cheryg crynion; ac mewn un rhan o hono y mae carnedd o'r un defnyddiau. O'r tu allan i'r mur, mewn un lle, y mae ffos tra dofn, gyda gwarchfur uchel arall: ac ymddengys fod y tir tuag at y gwaelod wedi cael ei lyfnhau yn mhobman gan law celfyddyd. Y mae yno fynedfa i mewn, reolaidd, yn un pen; yn y

Digitized by Google

pen arall, y mae y tir yn gogwyddo at y môr, ac yn hollol agored, am y bernid fod amddiffyniad o'r ochr hono yn gwbl afreidiol. Y mae y tonau wedi gwneyd anrhaith dirfawr, ac wedi gwisgo un ochr o honi yn ddibyn mawr. Rhaid i mi briodoli yr amddiffynfa hon i'r Rhufeiniaid; ac yr wyf yn fwy cadarn yn fy nhybiaeth am fod llawer o'u bathynau wedi cael eu darganfod yma, yn mysg pa rai yr oedd un o eiddo *Alectus.* Dichon i'r Rhufeiniaid gael eu tueddu i wneyd yr orsaf hon, er mwyn sicrhau lle i lanio unrhyw nwyddau ag y byddai y wlad mewn angen o honynt; am fod y fynedfa i borthladd Segontium, yn dra mynych, hyd yn nod yn bresenol, yn dra dyryslyd; a rhaid ei bod yn fwy felly yn nghyfnodau boreuaf morwriaeth.

Ysgrifena y teithiwr dysgedig, a'r llysieuydd galluog, Mr. Thomas Johnson,* fel hyn am Ddinas Dinlle; "Stationem hic in ipso littore Romani milites habuerunt, cujus adhuc satis clara vestigia manent."† Dichon fod yma un arall o'r un natur; oblegyd yr wyf yn cael, mewn hen fapiau o eiddo Saxton a Speed, yr enw *Caer Ierienrode*‡ (Arianrhod,) ychydig yn is i lawr, tua genau yr afon Lyfni; ac wrth fod yr enw Caer yn cael ei ychwanegu, rhaid ei fod yn lle amddiffynedig.

Pan ymwelais â Dinas Dinlle, yr oeddwn dan arweiniad cyfaill teilwng, a hynafiaethydd dysgedig, y Parchedig Richard Farrington (yr hwn sydd yn awr wedi gadael y fuchedd hon.) Aeth â mi i'w breswylfod, Dinas Dinorthwy,§ oddeutu pedair milltir oddiyma. Ar y ffordd dangosodd i mi Ddinas y Prif, neu y penaeth, gwersyll bychan oddeutu pedair llath a deugain ysgwâr. Y mae pob congl wedi ei dyrchafu uwchlaw y muriau: ac oddifewn y mae sylfeini rhyw adeiladau ceryg. Wrth yr enw, gallai fod yn breswylfod y penaeth yn ystod yr haf, yr hwn a lywyddai yn Segontium, ac a drigai yno yn y gauaf.

*Glynllifon.*] O'r Ddinas ymwelais â *Glynllifon*, palasdy a adeiladwyd gan y diweddar Syr John Wynne, yr hwn a saif gerllaw yr afonig *Llifon*, yr hon a dardda o fynydd y Cilgwyn. Yn y fan yma y preswyliai *Cilmin Droed-ddu,* un o bymtheg llwyth Gwynedd, a nai i Merfyn Frych, tywysog Cymru, yr hwn a laddwyd yn 841. Oddiwrtho ef y disgyna teulu y *Glynnes*, y rhai a gymerasant eu henw oddiwrth y lle. Ar eu pais-arfau y maent yn dwyn *coes ddu,* mewn cyfeiriad at enw eu hynafiad. Y mae chwedl ffol yn ein hysbysu, ddarfod i goes Cilmin gael ei hafliwio wrth iddo ddiangc rhag y diafol, llyfrau yr hwn y buasai yn cynorthwyo rhyw ddewin i'w lladrata. Wrth neidio dros ffrwd, yr hon oedd i fod yn derfyn yr ymlidfa, a'r hon a droisai y diafol yn ddu, aeth coes chwith Cilmin i'r dwfr, a thrwy hyny yr afliwiwyd hi. Y mae ein chwedlau yn afresymol; ond nid yn fwy felly nag eiddo gwledydd y Dwyrain. Daeth Glynllifon i feddiant y diweddar Syr John

* Cyfferydd cywrain, golygydd *Gerard's Herbal.* Teithiodd trwy Ogledd Cymru yn 1639, er casglu llysiau. Cyhoeddodd hanes ei daith yn 1641, cyfrol fechan o dan yr enw *Mercurius Botanicus.* Cafodd ei ladd wrth amddiffyniad Tŷ Basingstoke, yn 1644.

† "Yr oedd gan y milwyr Rhufeinig orsaf yn y lle hwn, ar lan y môr; y mae yr olion o hon o hyd yn ddigon amlwg."

‡ Dyma *Gaer Arianrhod* Mabinogi Math ap Mathonwy, ac nid oes un llecyn yn Nghymru yn fwy cysylltiedig na'r rhanbarth cyfagos iddi â'r duwiau a'r duwiesau Celtaidd, yn mysg pa rai yr oedd Arianrhod yn fath o Wener (*Venus.*) J.R.

§ Yn y Gymraeg byddai y sillebiaeth yn *Dinorddwy*, ac y mae yn ein dwyn eto ar gof am y Gordofigion. J.R.

Digitized by Google

Wynne, trwy briodas ei dad, Thomas Wynne, ysw.,* o Foduan. â Frances ail ferch John Glynne, ysw., o Lynllifon.

Myned yn mlaen ar fy nhaith, ar hyd y ffordd fawr Croesi y *Wyrfai* yn Mhont Newydd, yr hon a lifeiria o Lyn Cwellyn, ac yn fuan wedi hyny, croesi y *Seiont,* a chyrhaedd CAERNARFON.

*Caernarfon.* ] Y dref hon mewn gwirionedd ydyw ymffrost Gogledd Cymru, ar gyfrif prydferthwch ei safle, rhagoroldeb ei hadeiladau, rheoleidd-dra ei chynlluniad, ac uwchlaw y cwbl, mawreddogrwydd ei chastell, yr arwyddlun mwyaf ardderchog o'n darostyngiad. Tarddodd y lle hwn oddiar weddillion yr hen *Segontium;* ond nid yw yn ddyledus am ei henw, fel y tybir yn gyffredin, i Iorwerth I. Y mae Giraldus Cambrensis yn son am dani yn ystod ei daith yn y flwyddyn 1188;† ac y mae Llywelyn Fawr yn dyddio siartr o honi yn y flwyddyn 1221.‡ Meddyliaf nad oedd Caernarfon y dyddiau hyny yn ddim amgen na'r hen *Segontium,* ond fod y Cymry wedi newid yr enw i'r un mwy cyfaddas, *Caer ar Fon.*§ Ond yn ol pob tebygolrwydd, fe adeiladwyd y dref bresenol gan Iorwerth; ac ni fuasai y fath ryfelwr doeth ag ef yn petruso rhag cymeryd mantais ar safle mor gyfaddas i roddi ffrwyn yn mhen y wlad ag yr oedd newydd ei gorchfygu. Medda yn naturiol ar hanfodolion nerth; trwy ei bod yn cael ei therfynu ar un ochr gan fraich o'r môr, a elwir y *Fenai;* gan afon y Saint ar ochr arall; ar y drydedd, a rhan o'r bedwaredd, gan grigyll o'r Fenai (afon Cadnant); a'r gweddill a fedda yr ymddangosiad o fod wedi cael ei gyflawni trwy foddion celfyddydol. Ymgymerodd Iorwerth â'r gwaith mawr hwn yn ddiatreg ar ol gorchfygu y wlad yn 1282; a chwblhaodd yr amddiffynfeydd a'r castell cyn 1284; oblegyd ar y 25ain o Ebrill yn y flwyddyn hono, esgorodd ei frenines ar Iorwerth II., o fewn ei furiau, y tywysog Cymru cyntaf o linach y Saeson. Adeiladwyd ef yn yspaid un flwyddyn, trwy lafur y brodorion, ac ar draul penaethiaid y wlad, ar ba rai y gosododd y gorchfygwr y gorchwyl anhyfryd.‖ *Henry Ellerton,* neu *de Elreton,* a apwyntiwyd yn benaeth y seiri meini,¶ a dichon mai efe oedd y cynlluniwr; ac o dano rhaid fod lluaws o weithwyr cywrain ereill: oblegyd diameu genyf nad oedd y Cymry ond cymynwyr coed a naddwyr ceryg. Dichon fod llawer o'r defnyddiau wedi cael eu dwyn yma o'r hen Segontium, neu yr hen Gaernarfon; a dywed traddodiad, fod llawer o'r ceryg calch, o ba rai y mae wedi ei adeiladu, wedi eu dwyn yma o'r Tŵr Celyn, yn Môn; a'r grudfaen o'r Faenol, yn y sîr hon. Yr oedd y Fenai yn hyrwyddo y cludiad yn fawr yn y ddau amgylchiad.

Y mae y muriau a'r castell, o ran y tu allan iddynt, yn bresenol yn union yr un fath ag oeddynt yn amser Iorwerth. Amddiffynir y blaenaf â niferi o dyrau crynion, a meddant ddau brif borth: y dwyreiniol, yn wynebu y mynyddoedd; a'r gorllewinol, ar y Fenai. Y fynedfa i'r castell sydd yn dra mawreddog, islaw tŵr mawr, ar wyneb yr hwn y mae cerfiun o'r sylfaenydd, â

* Wedi hyny crewyd ef yn Farwniad. Bu farw yn Ebrill, 1749.

† Iter. Cambr. 865. Sir Richard Hoare's ed. vol. ii., p. 83.

‡ Y siartr yma ydoedd i abadau Penmon, Sebright MSS.

§ Yn gymaint a bod Pennant yn gwbl hysbys fod y parth hwnw o'r wlad yn mha un y safai y dref yn cael ei alw *Arfon,* y mae yn hynod ei fod wedi trin ei henw fel y darfu iddo: nis gall fod ond *Caer yn Arfon,* enw nad yw mewn un modd yn ymddangos yn hen, a chadarnha ei olygiad nad ydyw ar safle yr hen Segontium, er yn agos ati. J. R.

‖ Sebright MSS.

¶ Sebright and Gloddaeth MSS.

Digitized by Google

chleddyf ar haner ei dynu o'r wain yn ei law, megys pe buasai yn bygwth ei ddeiliaid newyddion ac anufudd. Perthynai i'r porth bedwar o ddorau haiarn, a phob anhebgorion ereill at beri cryfder. Y cwrt sydd hirgul. Y tyroedd ydynt dra phrydferth; nid oes yr un o honynt yn grwn, eithr y maent oll naill ai yn bum'onglog, chwechonglog, neu wythonglog: y mae dau o honynt yn uwch na'r lleill. Tŵr yr Eryr sydd yn arbenigol o brydferth, ac yn ychwanegol ato y mae tri o fân dyrau eiddil ac onglog yn ymgodi oddiar ei ben uchaf. Tybir, gyda rheswm lled gryf, medd cyfaill hynafiaethol i mi, fod y llun *eryr* ar y pen uchaf yn *Rhufeinaidd*, ac i Iorwerth ddyfod o hyd iddo yn yr hen *Segontium*. Cafodd Iorwerth II. ei eni mewn ystafell fechan dywyll yn y tŵr hwn,* heb fod yn ddeuddeg troedfedd o hyd, nac yn wyth o led: mor lleied, yn y dyddiau hyny, y meddyliai brenines am na rhwysg na chyfleusderau! Saif y porth—trwy ba un y daeth y garuaidd Eleanor i mewn, i roddi i'r Cymry dywysog o'r eiddynt eu hunain, yr hwn ni fedrai siarad un gair o Saesonaeg—yn y pen pellaf, mewn uwchder mawr goruwch y gwastadedd amgylchynol: mor uchel, fel nad oedd un modd i'w gyrhaedd ond trwy grog-bont. Pan yn ei unfed-ar-bymtheg mlwydd oed, derbyniodd y tywysog warogaeth ei ddeiliaid hudoledig yn Nghaerlleon,† wedi ei addurno, fel arwyddluniau o'i urddas, â thalaith aur o gylch ei ben, modrwy aur am ei fys, a theyrnwialen arian yn ei law.‡

Y mae muriau y castell hwn oddeutu saith droedfedd o drwch; a meddant, oddifewn i'w trwch, rodfa o'r fath mwyaf cyfleus, gyda holltau culion at ollwng saethau allan. Y mae muriau y Tŵr Eryr oddeutu dwy droedfedd yn fwy o drwch. Ceir golygfa ysplenydd oddiar ei gopa, ar afon Menai, Ynys Môn, a'r parthau agosaf o fynyddoedd Eryri.

Y cyntaf yr wyf yn cael allan fel wedi ei apwyntio yn llywydd y castell, gan Iorwerth, ydoedd John de Havering, gyda chyflog blynyddol o 200 *marks;* â pha swm yr oedd i gynal yn wastadol, heblaw ei deulu ei hun, bedwar ugain

* Y mae hanes castell Caernarfon wedi cael chwilio i mewn iddo mewn modd galluog gan y diweddar Mr. Hartshorne; yr hwn sydd wedi profi yn benderfynol fod yr adeilad orwych yma wedi cael ei dechreu yn hydref y flwyddyn 1283, a'i chario yn mlaen ar wahanol adegau hyd 1322, felly yn ymestyn tros yspaid o 38 o flynyddau. Y cerflun breninol a addurna y porth a osodwyd i fyny yn Ebrill 1320, yn y 13eg flwyddyn o Iorwerth II., ac yn ol pob tebygolrwydd arddangosa y penadur hwnw, ac nid ei dad ofnadwy. Nid ymddengys fod unrhyw sail i'r dybiaeth, yr hon a gymeradwyir gan Pennant, fod yr eryrod ar ben y Tŵr Eryr yn rhai Rhufeinig, nac iddynt gael eu dwyn yno o'r hen Segontium. Dengys Mr. Hartshorne fod y tŵr rhyfeddol hwn wedi cael ei doi drosto yn 1316, ac fod y lloriau wedi eu gosod yn 1317. Y mae y ffaith fod Iorwerth II. wedi cael ei eni yn Nghaernarfon, ar yr 24ain o Ebrill, 1284, yn anwadadwy; ond y mae y fan arbenig lle y ganwyd ef yno yn amheus. Ymddengys fod yr "ystafell fechan dywyll" yn y Tŵr Eryr, yr hon a ddysgrifir gan Pennant, ac y credir mor hyderus mai ynddi y ganwyd y tywysog, wedi cael ei hadeiladu ar ol hyny. Yr oedd y traddodiad fod Iorwerth II. wedi cael ei eni yn y Tŵr Eryr yn cael ei dderbyn yn gyffredinol cyn i Mr. Hartshorne gyhoeddi canlyniad ei ymchwiliadau: ond y mae sail i gredu fod traddodiad boreuach yn bodoli unwaith, yr hwn a nodai ran arall o'r castell fel lle genedigaeth mab y frenines Eleanor. Argraffwyd papur Mr. Hartshorne yn yr *Archæological Journal*, cyf. vii. tud. 237; ac y mae talfyriad byr o'i resymau yn yr *Archæologia Cambrensis* am 1848. Y mae erthygl ar yr un pwngc gan y Proffeswr Babington i'w chael yn yr *Archæologia Cambrensis* am 1879. T. P.

† Powel, 382. ‡ Dodridge's Wales, 6.

o wŷr, o ba rai yr oedd pymtheg i fod yn fwa-saethwyr, un caplan, un meddyg, ac un gôf; y gweddill oeddynt i wasanaethu fel ceidwaid y pyrth, gwylwyr, a swyddogaethau angenrheidiol ereill.*

Yn 1289, yr wyf yn cael ddarfod i'r brenin apwyntio un Adam de Wetenhall, i'r unrhyw swyddogaeth bwysig.†

Y sefydliad am y dref a'r castell ydoedd fel y canlyn:—

Derbyniai llywydd y castell, weithiau driugain punt; bryd arall ddim ond deugain.

Byddai cadben y dref yn cael 12*l.* 3*s.* 4*d.* fel ei gyflog blynyddol; ond ar adegau cysylltid y swyddogaeth hon â'r flaenaf, ac yna byddai y cyflog yn 60*l.* am y ddwy.

Caniateid i'r llywydd a'r cadben bedwar ar hugain o filwyr at amddiffyniad y lle, y rhai a dderbynient bedair ceiniog yr un yn y dydd am eu gwasanaeth. Diau nad oedd y gwarchodlu ysgafn yma wedi cael ei fwriadu ond at amser heddwch yn unig.

Derbyniai ceidwad pyrth y dref y swm o 3*l.* 10*s.* fel cyflog blynyddol.‡

Nis gallaf gael allan ddarfod i'r lle yma ddyoddef ond dwywaith§ oddiwrth flinderau rhyfel. Yn y gwrthryfel mawr o eiddo y Cymry, o dan Madog, yn 1294, cymerasant y dref trwy ruthr, ar ddiwrnod ffair, a lladdasant y gwarchodlu Seisonig â'r cleddyf;‖ ac, yn ol Mr. Carte,¶ cymerasant y castell hefyd, a chastell Conwy, a daethant yn feistriaid ar holl Ynys Fôn.

Yn yr eilfed ganrif ar bymtheg, cymerwyd y dref gan y cadben Swanby, ar ran y senedd, yn 1644; gwnaeth 400 yn garcharorion, a chymerodd lawer o arfau, cêr rhyfel, ac yspail. Ar ol hyny, daeth gwŷr y brenin i feddiant o'r lle. Apwyntiwyd arglwydd Byron yn llywydd; ar yr hwn y gwarchaewyd gan y cadfridog Mytton yn 1646, yr hwn a roddodd y lle i fyny ar y telerau mwyaf anrhydeddus. Yn 1648, cafodd y cadfridog Mytton a'r milwriad Mason eu gwarchae ynddo gan Syr John Owain; yr hwn pan glybu fod y milwriaid Carter a Twisselton ar eu ffordd i waredu y lle, a dynodd ymaith ran o'i fyddin, er ymosod arnynt ar eu hymdaith. Cyfarfu y ddwy fyddin yn agos i Landegai: gorchfygwyd Syr John, a gwnaed ef yn garcharor; ac mewn canlyniad i hyny, ymostyngodd holl Ogledd Cymru i awdurdod y senedd.**

*Llongborth.* Ffurfia y llongborth rodfa o'r fath hyfrytaf ar lanau y Fenai, a cheir golygfa foddhaol oddiarni.

Y mae Caernarfon yn amddifad o weithfaoedd; ond dygir yn mlaen fasnach *Masnach.* fywiog â Llundain, Bristol, Lerpwl, a'r Iwerddon, yn ngwahanol angenrheidiau bywyd. Preswylia yma lawer o deuluoedd hy-

* Sebright MSS. † Ayloffe's Rotuli Walliæ, 96. ‡ Dodridge, 56.

§ Y mae Mr. Pennant wedi anghofio am warchaead Owain Glyndwr ar y lle, gyda byddin o Ffrangcod, yn 1402. Cyf.

‖ Powel, 380. ¶ Carte, ii. 237. ** Whitelocke, 87, 208, 311.

barch; ac y mae yn y dref luaws o dai rhagorol; un tra hynafol, a elwir *Plas Pulesdon*, sydd yn hynod ar gyfrif tynged ei feddiannydd cyntaf, *Syr Roger de Pulesdon*, yr hwn oedd yn uchel yn ffafr Iorwerth I. Apwyntiwyd ef yn sirydd a cheidwad Ynys Môn* yn 1284. Pa swydd a ddaliai yma, nis gwn; ond yn 1294, pennodwyd ef i gasglu treth at gario allan y rhyfel gyda Ffraingc, yr hon dreth nid oedd y Cymry erioed wedi arfer ei thalu; felly ymarfogasant, a chrogasant De Pulesdon ac amryw o'i bobl. Bu hyn yn rhagarwydd am wrthryfel cyffredinol: Madog, un o berthynasau "Llywelyn ein llyw olaf," a flaenorai bobl y wlad hon. Daeth Iorwerth yn eu herbyn yn bersonol, a thrwy gryn drafferth llwyddodd i beri i'r gwrthryfelwyr ymostwng unwaith yn rhagor i'w iau.†

*Roger de Pulesdon.*

*Capel.* Nid yw yr eglwys yn ddim amgen na chapel i *Lan Beblic;* a dichon nad oedd ar y cyntaf wedi ei bwriadu ond fel capel i'r gwarchodlu.

*Siartr.* Iorwerth I. a roddodd i Gaernarfon ei siartr freninol gyntaf, a gwnaeth hi yn fwrdeisdref rydd. Yn mysg rhagorfreintiau ereill, nid oedd neb o'i bwrdeisiaid i gael eu profi am unrhyw drosedd a gyflawnid rhwng yr afon Gonwy a'r Dyfi, oddigerth gan reithwyr o'u cyd-drefwyr.‡

*Corphoraeth.* Llywodraethir hi gan faer, yr hwn, trwy freintlythyr breninol, sydd yn llywydd y castell. Y mae iddi hefyd un henadur, dau o is-faerod, ysgrifenydd y dref, a dau o ringylliaid. Etholir cynrychiolydd seneddol y dref gan ei bwrdeisiaid, mewn cysylltiad âg eiddo Conwy, Pwllheli, Nefyn, a Chricaeth. Y mae gan bawb hawl i bleidleisio, pa un bynag a fyddant yn trigo yn y lle ai peidio, os wedi enill eu rhyddfreiniad yno.§ Yr aelod cyntaf ydoedd John Pulesdon; a'r ail waith yr anfonodd gynrychiolwyr, yr hyn a gymerodd le yn amser Iorwerth VI., yn y flwyddyn gyntaf o'i deyrnasiad, etholodd y fwrdeisdref Robert Pulesdon, a'r sir a etholodd John Pulesdon;‖ fel pe buasai y dref a'r sir yn penderfynu gwneyd iawn i'r teulu am y trais a ymarferasid tuag at eu hynafiad.

*Rhydd-ddeiliaid.*

*Llan Beblic.* Saif mam eglwys Caernarfon oddeutu haner milldir i'r deddwyrain o'r dref; gelwir hi *Llan Beblic*, am ddarfod ei chyflwyno i Sant Peblig, neu *Publicius* (yn ol ein haneswyr ni,) yr hwn oedd fab i Macsen Wledig, neu Macsen y Gorthrymydd, a'i wraig Helen, merch i Eudaf. Dywedir iddo ymneillduo o'r byd, a chymeryd i fyny y wisg grefyddol.¶ Rhisiart II. a roddodd yr eglwys hon, a chapel Caernarfon, i leianesau St. Mair yn Nghaerlleon, ar gyfrif eu tylodi.** Yr wyf yn cael, mewn siartr arall o eiddo yr un tywysog, fod ei daid Iorwerth III., wedi rhoddi i'r crefyddolion hyn fywioliaeth Llangathen, yn sir Gaerfyrddin;†† a chafodd yr oll, ar adeg y dadgorphoriad, eu cysylltu gydag esgobaeth Caerlleon, ac y maent yn aros hyd

* Aylofle's Rotuli Walliæ, 89. † Matt. Westm. 423. ‡ Sebright MSS.
§ Willis's Notitia Parliam. iii. part i. 76. ‖ Yr unrhyw, pt. ii. pp. 9, 10.
¶ Rowland's Mona Antiqua, 165. ** Sebright MSS. †† Yr unrhyw.

Digitized by Google

heddyw o dan nawdd esgob y ddinas hono. Yn yr eglwys y mae beddfaen i fab* Syr William Gryffydd o'r Penrhyn, yr hwn a fu farw yn 1587, a Margaret, merch i John Wynn ap Meredydd. Y mae eu cerfluniau mewn mynor gwyn, yn gorwedd ar fat, ac wedi eu cerfio yn ardderchog; y mae efe mewn arfogaeth; a hithau gyda gwddfdorch fer, a chrych-addurniadau am ei harddyrnau. mewn gwisg hirllaes, a gwregys am ei gwasg—gwisg gyffredin i foneddigesau o'r cyfnod hwnw.

*Amddiffynfa Rufeinig.*

Gerllaw i geulan sêth yr afon *Saint (Seiont)*, heb fod yn mhell oddiwrth y castell, y mae hen amddiffynfa Rufeinig. Ar ddwy ochr, y mae y muriau yn lled gyfan; un yn 74 llath o hyd; y llall, yr hon sydd yn pwyntio at yr afon, yn 64 llath. Yr uchder sydd ddeg troedfedd ac wyth modfedd. Y trwch yn chwe' throedfedd. Y mae cryn lawer o'r gwynebfeini wedi cael eu cludo ymaith; a thrwy hyny arddangosir neillduolrwydd yr adeiladwaith Rhufeinig. Cynwysa gyfresau rheolaidd; yn y lleill, y mae y ceryg wedi eu cyfleu yn igam-ogam. Ar hyd y muriau y mae tair rhes gyfredol o dyllau crynion, heb fod dros dair modfedd o drawsfesur, wedi eu plastro yn ddestlus oddi fewn, ac yn rhedeg drwy holl drwch y mur. Y mae tyllau ereill cyffelyb, y rhai a ddarganfyddir yn mhen eithaf y mur, ac ymddangosant fel pe y byddant yn rhedeg drwyddo ar ei hyd. Nis gallaf ganfod dyben y naill na'r llall. Tybir fod y rhai a redant trwy drwch y mur wedi eu bwriadu er blino y gelyn â saethau; ond o herwydd fod eu trawsfesur mor fychan, y mae y cwmpas angenrheidiol, er cyfeirio y saeth, yn eisiau. Yn agos i gonglau un o'r muriau y mae pentwr o geryg, a gweddillion twr; oblegyd i wrth gloddio yno, rai blynyddau yn ol, darganfyddwyd sylfeini twr crwn. Yr oedd wedi ei phalmantu, ac oddi fewn iddi darganfyddwyd corn carw, ac esgyrn amryw anifeiliaid llai. Ymddengys ei bod wedi ei bwriadu i ddyogelu glanfa o'r afon Saint, ar orllanw. Hysbyswyd fi, fod yn *Nhre'r Beblic*, ar yr ochr arall, weddillion cyffelyb, gwaith yr un bobl. Y mae y dernyn tra chywrain hwn o hynafiaeth yn bresenol wedi cael ei anurddo mor warthus gan furiau, ac adeiladau ereill, fel yr wyf yn ofni y bydd i'm dysgrifiad o hono fod i raddau yn annealladwy.

*Segontium.*

Mewn ychydig bellder uwchlaw hwn, ac oddeutu chwarter milldir oddiwrth y Fenai, y mae safle yr hen *Segontium*, i ba un yr oedd yr amddiffynfa a nodwyd yn iswasanaethgar. Ffurfia hirgylch crwn o gryn eangder, yn ol pob ymddangosiad oddeutu chwe' acr, ac yn llechweddu i lawr ar bob ochr. Mewn amryw fanau y mae gweddillion muriau; ac mewn un lle, ceir gweddillion adeilad wedi ei wneyd o briddlechau, a'i blastro â math o gymrwd caled a llyfn: ymddengys fod hwn yn rhan o dwym-ystafell *(hypocaust.)* Y mae y cymrwd yn yr holl fanau ereill yn hynod o galed, ac wedi ei gymysgu â llawer o raian a thywod. Y mae y ffordd fawr yn bresenol yn myned trwy ganol yr hen orsaf hon, tu hwnt i ba un ni feddai y Rhufeiniaid ond un neu ddwy o fân orsafoedd allanol yn y sir hon. Cafwyd yma fathodyn aur, o bwysau tua dau swllt ar bymtheg, ac yn gerfiedig arno, T. DIVI AVG FIL AVGVSTVS.

* Ymddengos mai enw y mab yma hefyd ydoedd "William," ond fod rhai o'r llythyrenau wedi cael eu trawsosod.

Digitized by Google

Tybia Camden y gallai fod hon yn *Setantiorum Portus*, a grybwyllir gan Ptolemy, gan fod yn foddlawn i'w ddarllen yn Segontiorum:* ond y mae sefyllfa y flaenaf yn ddiamcuol yn ngenau yr afon *Ribble*. Gallai ei fod yn iawn pan y tybia iddi gael ei galw, mewn amseroedd diweddarach, yn Gaer Cystenyn,† ac fod gan Hugh Lupus, yr hwn yn ddiau a oresgynodd Ynys Fôn yn 1098, orsaf am dymhor yn y fan hon. Pa mor bell y gellir dibynu ar yr hyn a ddywed *Matthew of Westminster*, fod *Constantius*, tad Cystenyn Fawr, wedi cael ei gladdu yma, nis gallaf ddywedyd; na pha un bynag, fel y dywed yr un hanesydd ymhellach, a ddarfu i Iorwerth beri i'w gorph gael ei gyfodi o'i fedd, a'i gladdu yn anrhydeddus yn yr eglwys (Llan Beblic, mae'n debyg.)‡ Dywed Mr. Rowlands fod gan Helen, mam Peblic, gapel yma, yr hwn y dywed ei fod ar gael yn ei ddyddiau ef.§. Y mae ffynhon, gerllaw i'r amddiffynfa, yn dwyn enw y dywysoges hono, ac y mae rhyw olion o hen adfeilion i'w gweled hyd heddyw yn y gymydogaeth. Dywed traddodiad fod y capel yn sefyll yn y fan hono.

Gall y teithydd a fyddo yn dymuno ymweled â'r Wyddfa, o'r dref hon, gael ffordd ragorol. Ar ol croesi y *Fai*, neu y *Wyrfai*,‖ yn Mhont y Bettws, oddeutu pedair milldir a haner o Gaernarfon, efe a gaiff, yn nghymydogaeth pentref *Bettws Garmon*, neu *Is-Gwyrfai*, raiadr prydferth yn ei wynebu, ar ei ffordd i fyny y dyffryn; yr hwn a gynwysa ddolydd gwyrddion, yn cael eu dyfrhau gan yr un afon, a'i derfynu gan fynyddau yn prysur ymddyrchafu i arucheledd alpaidd. Bydd iddo fyned o dan gysgod *Moel Eilian*, mynydd ardderchog o faintioli aruthrol, wedi ei arwisgo â thywyrch llyfnion a gwyrddlas, a'i gryncler o'r fath mwyaf rheolaidd. Ar y llaw ddehau bydd iddo fyned heibio i *Gastell Cidwm*, yr hwn y dywed Mr. Rowland ei fod yn un o'r amddiffynfeydd ar y fynedfa i Eryri; craig aruthrol ydyw, i ben uchaf yr hon ni esgynais, ac felly nis gallaf sicrhau fod arni unrhyw weithydd, yn gyffelyb i'r gorsafcedd Prydeinig ereill. Y mae llyn *Cawellyn* yn y fan yma braidd yn llanw y dyffryn: ei ddyfroedd ydynt nodedig am eu *Torgochiaid*, y rhai a ddelir mewn rhwydi yn misoedd cyntaf y gauaf, wedi y tymhor hwnw ymgladdant mewn dyfnderau nas gellir cyrhaedd atynt. Mewn hen amseroedd, gelwid y llen eang yma o ddwfr, ar gyfrif sythder ei lanau, yn *Llyn y Torlenydd*. Uwchlaw iddo, ar yr ochr ddehau i'r llyn, yr ymddyrchafa y *Mynyddfawr* mawreddog, llyfn ar ei gopa, ond ei ochrau yn ymgilio i fewn ar ffurf hanercylchog, gan arddangos clogwyn o'r fath mwyaf echrydus. Yn fuan wedi hyn, y mae y dyffryn yn ymledu; daw y *Wyddfa* yn gyflawn i'r golwg. Aiff yr ymdeithydd heibio i *Lyn y Gader*, ac ymuna â mi yn fy ymdaith flaenorol yn *Bedd Gelert*.

* ii. 798. † Nennius.

‡ Math. West. 411. § Rowl. Mona Antiq. 163. Ganwyd Helen yn Segontium.

‖ Cyfyd yr afon hon o Lyn Cawellyn, a gwahana gantrefi Uwchgorfai ac Isgorfai.

# PARHAD

## O'R

# AIL DAITH YN NGOGLEDD CYMRU,

## MDCCLXXIII.

---

O GAERNARFON mi a groesais y borthfa i *Dal y Foel*, yn

## YNYS FON.

*Abermenai.*] Y mae y Fenai yn y fan hon yn ddwy filldir o led. Wrth fyned trosodd cefais olwg ar *Abermenai*, y fynedfa dra chul i borthladd Caernarfon, yr hon a wneir yn fwy peryglus fyth, ar gyfrif y traethau oddifewn yn gystal ag oddiallan. Y mae i Abermenai ei phorthfa, ac y mae yn un o bump dros y culfor yma. Yr oeddynt yn wreiddiol yn eiddo coron Lloegr; hyd nes y darfu i Harri VIII. eu rhoddi oll i Richard Gifford, un o weision ei ystafell-wely; yr hwn, drachefn, a'u gosododd i William Bulkeley, yn y 33ain flwyddyn o deyrnasiad ei feistr breninol: ond er y pryd hwnw, y mae pob un o honynt, oddigerth hon, wedi cael eu trosglwyddo i ddwylaw ereill.

*Niwbwrch.*] Cyrhaeddais *Niwbwrch* yn fuan, oddeutu tair milldir oddiwrth lan y môr, yr hwn le sydd wedi syrthio yn ddirfawr o'i ysplenydd-der hynafol. Yma y bu un o breswylfeydd ein tywysogion. Yn amser Mr. Rowlands, yr oedd sylfaen y Llŷs, neu y palas, i'w weled ychydig i'r dehau i'r eglwys, yr hon y tybir ei bod yn gapel teuluol. Yn ei gymydogaeth, yn y *Frondeg*, y mae careg yr hon ni sylwais i arni. Yr ydwyf yn cael crybwylliad am dani yn ysgrifeniadau Mr. Rowlands; yr hwn sydd wedi rhoi i ni y cerfiad canlynol: CUR . . . FILIUS CUURICINI EREXIT HUNC LAPIDEM.* Y mae awdwr *Hanes Môn*† hefyd yn crybwyll am dani, ond amrywia yn enw y sylfaenydd, a'i dad. Y mae ei ddarlleniad ef fel hyn: FILIUS ULRICI EREXIT HUNC LAPIDEM.‡ Clywais ar awdurdod gredadwy fod y cerfiad yn bresenol yn annarllenadwy; ond y mae arddull y cof-faen yn fy nhueddu i'w briodoli i un o'r Daeniaid; y mae y cyfryw yn fynych yn dra chyffredin yn Scandinavia. STODINGUS *fecit erigi lapidem* in memoriam ARNONIS *filii sui qui profectus est in* HARDALAM§—THORSTATUM & GURA *fecerunt erigi saxum in memoriam* LAFSONIS *patris sui*‖—a'r un amherffaith, megys hwn am *Ulric*,

* "Cur . . mab Cuuricini a gododd y gareg hon." † Printed for Dodsley, 1775. 4to. p. 43.

‡ "Mab Ulrici a gododd y gareg hon."

§ Pering skioldi Monum. Suev-gothic. 289. "Stodingus a barodd i'r maen hwn gael ei gyfodi er coffadwrlaeth am ARNONIS—meibion a aethant i Hardalam."

‖ Yr unrhyw, 301. "Thorstatum a Gura a barasant i'r piler hwn i gael ei osod i fyny er cof am eu tad Lafsonis."

Digitized by Google

SAXO *lapidem hunc posuit*,* ydynt yn brofion o fodolaeth yr arferiad yn nheyrnasoedd y Baltic.

Darfu i'r Daeniaid oresgyn Ynys Môn lawer gwaith; a chydrhwng y blynyddau 969 a 972, darostyngwyd yr holl ynys† gan Godfryd, mab Harold: gallasai mab duwiol, yn ystod un o'r goresgyniadau hyn, yn ol arferiad ei wlad, fod wedi codi y gofadail yma i'w dad: ond oddiwrth gyflwr amherffaith y cerfiad, nid ydym yn gwybod pa un ai beddrodol ai aberthol ydoedd.

Yr oedd Niwbwrch, neu yn fwy priodol *Rhos-fair*, yr enw Prydeinig, yn un o faenorau ein tywysogion. Rhenid hi yn ddwy ran; cynwysai un ran swyddogion y teulu o dan y tywysog, y rhai oeddynt o ddau fath, ac yr oedd ganddynt ddeuddeg darn o dir cydrhyngddynt: yr oedd rhan yn cynal y *Maer-drefwyr*, neu y rhai a arolygent ei dir; y llall ydoedd i'r *Garddwyr*, personau pennodol tebyg i'r bythynwyr ni, y rhai a feddent ddarnau bychain o dir a elwid *Gerddi*.‡ Yr oedd heblaw hyny wyth o ddarnau, y rhai oeddynt eiddo rhydd-ddeiliaid; olynwyr y rhai a fwynhasant yr unrhyw hyd yr amser pan oedd fy awdwr (Mr. Rowlands) yn ysgrifenu. Dyma hefyd lle yr oedd eisteddle cyfiawnder am yr oll o gwmwd Menai, a pharhaodd felly am hir amser wedi i'r lle ddyfod dan lywodraeth y Saeson. Yr oedd tipyn o barch i breswylfod breninol yn cael ei ddangos o hyd gan y meddiannwyr breninol newyddion. Daeth yn faenor i dywysogion Cymru. Iorwerth I. a wnaeth y dref yn gorphoraeth, a rhoddodd iddi farchnad fwrdeisiol, ac amryw ragorfreintiau ereill, y rhai a gadarnhawyd gan y senedd yn y flwyddyn gyntaf i Iorwerth III.§ O'r amser hwnw galwyd hi *Newborough* (y fwrdeisdref newydd.) Yn y rhan olaf o'r teyrnasiad hwnw yr oedd yno dri ar ddeg a phedwar ugain o dai, tair ar ddeg o erddi, un berllan, deuddeg cadlas, a thriugain o ddarnau bychain o dir wedi ei gau i mewn at wasanaeth y tai. Meddai y goron ei goruchwyliwr am y rhanbarth yma, gyda chyflog o ddeg punt yn y flwyddyn. Yr oedd y palas a'r capel breninol yn bodoli yn amser Iorwerth III.; canys ymddengys oddiwrth ymchwiliad a wnaethpwyd yma yn 1329, o flaen William de Shaldeford, cynrychiolydd Rhisiart iarll Arundel, ustus Gogledd Cymru, fod tenantiaid cwmwd Menai wedi cael gorchymyn i adgyweirio yr adeiladau hyn: ond, trwy iddynt ddangos allan, pe buasai y ddyledswydd hono yn cael ei gosod mewn grym, na byddent ond o ychydig neu ddim mantais i'r brenin, archwyd i'r ustus wneyd ymchwiliad i wirionedd y peth; a pha un a fyddai ddim yn well iddo gymeryd swm blynyddol yn lle yr adgyweiriadau, nid yn unig o'r palas a'r capel, ond hefyd o'r holl adeiladau ereill ar y faenor freninol.‖ Mewn amserau ar ol hyn, meddai yr anrhydedd o anfon cynrychiolwyr i'r senedd Brydeinig. Rhisiart ap Rhydderch o Myfyrion a eisteddai yn y drydedd o Harri VIII., a John ap Robert Llwyd am y flwyddyn gyntaf i Iorwerth VI.; yr hwn, yn y flwyddyn nesaf a drosglwyddodd yr anrhydedd yma i Biwmaris. Y mae gogoniant Niwbwrch yn bresenol wedi myned heibio.

Hanfoda yn awr trwy wneuthuriad matiau a rhaffau, y rhai a wneir o *for-*

* Wormii Mon. Danica, 501. "Saxo a gododd y golofn hon." † Powel, 34. 62.
‡ Record of Caernarvon, in Biblioth. Litteraria, 23.
§ Mr. Rowlands' MSS. ‖ Sebright MSS.

*hesg;* planigyn ag y darfu i'r frenines Elizabeth, oddiar deimlad at y cyfryw o'i deiliaid a breswylient ar forlanau tywodlyd, gyda doethineb wahardd ei ddinystrio, i'r dyben o ragflaenu yr anffodion sydd wedi dygwydd ar ol hyny, o gael haner y plwyf wedi ei gladdu yn y tywod ansefydlog,* trwy gynddeiriog-rwydd tymhestloedd.

*Llanddwyn.* ] Dyma ydyw sefyllfa pethau yn *Llanddwyn*, plwyf ag sydd yn ymestyn allan yn mhell o dan y môr, ac yn terfynu mewn gwddfdir cul; y mae o'r bron yr oll o hono wedi ei orchuddio gan fryniau tywod. Hysbysir ni nad oedd arno ddim yn rhagor nag wyth o dai bychain, neu, fel y gelwid hwy y pryd hyny, *weles*,† yn amser Iorwerth III.; eto, yn nheyrnasiad Harri VIII., yr oedd yn un o'r bywioliaethau cyfoethocaf yn esgobaeth Bangor. Ni chyfodai y cyfoeth ar gyfrif ffrwythlondeb gwirioneddol y lle, ond oddiar ofergoeledd y werin bobl; oddiwrth bererindodau at groesau, gweddillion cysegredig, ffynhonydd sanctaidd, a pheuydiau, ac oddiwrth yr hyn a eilw Mr. Rowlands yn ιχθυομαντια (*ichthumantia*), neu ddewiniaeth trwy bysgod.‡ Yn amser Owain Glyndwfr, darfu i un Iorwerth Fychan, periglor Llanddoged, wneyd ymhawliad i'r offrymau, ac ymafiodd ynddynt yn gysegr-yspeilgar; ond Gryffydd le Yonge, canghellydd ein harwr, a ymyrodd, a thrwy gyhoeddiad a roddodd derfyn ar y trais yma ar iawnderau y lle.§

*Eglwys.* ] Ar y gwddfdir y mae adfeilion eglwys, cysegredig i St. Deuwen, merch i Brychan, un o Gristionogion cyntefig Prydain. Yn agos iddi y mae ychydig o weddillion o dŷ y clerigwr. Ymddengys nad oedd y flaenaf yn adeilad amddifad o brydferthwch. Y mae yr olaf yn hynod fel preswylfod Richard Kyffin, periglor Llanddwyn y pryd hyny, ac wedi hyny deon Bangor, ac a adnabyddid wrth yr enw y *Deon Du*. Yr oedd efe yn gyfaill gwresog i dŷ Lancaster, ac yma efe a gynlluniai â Syr Rhys ap Thomas a phenaethiaid Cymreig ereill, pa fodd i ddwyn drosodd y duc Richmond, y pryd hyny yn Britany; i'r hwn y trosglwyddent, trwy ddefnyddio cychod pysgota, bob hanesion angenrheidiol.

O Niwbwrch, darfu i mi, rai blynyddau yn ol, wneyd taith i Aberffraw, oddeutu saith milldir i'r gogledd, i chwilio am balas arall o eiddo ein hen dywysogion. Cymerent un o'u teitlau oddiwrth y lle hwn, sef *Princeps de Aberffraw* (Tywysog Aberffraw), yr hwn a flaenorai yr un *Dominus de Snowdon* (Arglwydd Eryri). Croesais, ar ddistyll, y fraich o'r môr a elwir Malltraeth; a marchogais heibio i eglwys *Llan-Gadwaladr*, yr hon y dywedir iddi gael ei sylfaenu gan Cadwaladr, brenin diweddaf y Brytaniaid, ac a wnaed yn un o gysegr-fanau yr ynys. Uwch ben y drws yr oedd cerfiad er coffadwriaeth am Cadfan, taid i'r sylfaenydd, i'r perwyl yma: CATAMANUS *Rex sapientissimus opinatissimus omnium Regum*.‖ Dywedir fod y maen ar yr hwn y cerfiasid hyn o flurf arch; a dichon fod ganddo le mwy cyfaddas yn yr eglwys o flaen hon.

*Llan-Gadwaladr.* ]

* Gwel hanes effeithiau galarus y tywod symudol yma yn *Mr. Cordiner's Letters*, 86, 87; ac yn fy Nhaith yn Scotland, 1769, 4th ed. 144. 168.

† Rowlands' MSS. ‡ Yr unrhyw. § Yr unrhyw, a Hist. Anglesey, 44.

‖ Camden, ii. 566. Rowlands, 157. "Cadfan frenin, y doethaf, a'r mwyaf meddylgar o'r holl breninoedd."

Ar feddfaen yn yr eglwys y mae y beddargraff hynod a ganlyn (yn Lladin:)

Ar farwolaeth *Owain Woode* milwr, a fu farw ar y chweched o *Ebrill*,
B.A. 1602, yn 76 mlwydd oed.

*Dedwydd, teirgwaith ddedwydd, dylathau mynor,*
*A ddaliant* bren* *ardderchog y mae ynys annedwydd yn ei golli.*
Owain, *yr hwn tra yn fyw, oeddit* bren *defnyddiol,*
*Ac yn awr, wedi ei farw, y mae yn* bren *y bywyd i Dduw.*
*Myfi ei fab, a adeiladais y gofadail hon i'm tad,*
*A'm gweddi ydyw, ar fod i'm llwch hefyd fod yn gyffelyb.*
1602.

*Aberffraw.*] Oddeutu milldir neu ddwy ymhellach cyrhaeddais safle y preswylfod tywysogaidd. Y mae wedi ei ddarostwng yn bresenol i nifer bychan o dai tylodaidd, yn sefyll ar yr afon Ffraw, yn agos i forgilfach fechan. Nid oes math yn y byd o olion ei hymffrost blaenorol yn aros. Yr oedd yn brif breswylfod ein tywysogion, ac yn un o'r tri llys lle gweinyddid cyfiawnder yn yr holl dywysogaeth.† Yma hefyd y cedwid bob amser un o'r tri chopi o'r cyfreithiau hynafol; un arall yn *Dynefawr*, sir Gaerfyrddin; a'r trydydd a gedwid gan ddoctoriaid y gyfraith at eu gwastadol wasanaeth.‡ Yr oedd y lle yma o hynafiaeth mawr, gan ei fod yn un o'r tri man a nodwyd gan Rhodri Fawr, oddeutu y flwyddyn 870, i'w olynwyr breswylio ynddynt. Wedi hyny anrheithiwyd y lle gan y Gwyddelod yn 962.§ Cymerwyd mesuriad o Aberffraw yn y 13eg o Iorwerth III., oddiwrth yr hwn y gallwn wybod beth oedd rhai o gyllidau hynafol y tywysogion Cymreig. Ymddengys fod rhan yn codi oddiwrth ardrethion tiroedd, oddiwrth enillion melinau a physgodfeydd, ac yn fynych oddiwrth bethau a gymerid yn lle arian; ond byddai y pethau olaf yn fynych yn cael eu cyfnewid am eu gwerth mewn arian.

*Llanidan.*] Ond i ddychwelyd at y Fenai. O Niwbwrch ymwelais â *Llanidan*, preswylfod arglwydd Boston, yr hwn a saif yn brydferth ar y fraich hono o'r môr, gan arddangos golygfa hardd ar Gaernarfon, a mynyddoedd Eryri. Y mae yr eglwys, yr hon sydd yn ymyl, wedi bod ar un adeg yn eiddo mynachlog Beddgelert. Yn y flwyddyn 1535, dylynodd dyngedl y tŷ hwnw. Y frenines Elisabeth a'i rhoddodd i Edmond Downam a Peter Ashton; y rhai a'i gwerthasant, yn 1605, i Richard Prydderch o Myfyrion, merch yr hwn a briododd âg un o Lwydiaid Llugwy, ar yr ochr arall i'r ynys. Ar ddarfyddiad y teulu hwnw, prynwyd eu holl etifeddiaethau gan arglwydd Uxbridge, yr hwn a'u gadawodd i'w nai, Syr William Irby, y diweddar arglwydd Boston.

Yn yr eglwys y mae creirfa gysegredig, heb fod wedi ei gwneyd o aur nac o arian, ac heb gael ei haddurno â meini gwerthfawr; ond o rutfaen tra chyffedin, gyda chauad tebyg i dô tŷ. Pa un a gynwysai unrhyw weddillion o'r sant achlesol, a elwid St. Aidan, ac am yr hwn y crybwylla yr hybarch Bede‖ mor anrhydeddus, nis gwn i. Yr oedd eglwys Durham yn meddu ei

* Chwareuad ydyw ar enw y marchog, sef *Woode* (pren.)—Cyf.
† Leges Wallicæ, 147. ‡ Yr unrhyw, 6. § Powel, 62.
‖ De vita Cudbercti, c. 4.

groes, tri o'i ddannedd, ei ben, a dau o wyau y griffwn.* Ficeriaeth ydyw y fywioliaeth, â pha un y cysylltir capelau Llanedwen, Llanddaniel, a Llanfair y Cwmmwd.

Rhaid i mi beidio myned heibio i'r gareg hynod a elwir *Maen Morddwyd* heb air o sylw arni, yr hon sydd yn awr wedi ei sicrhau yn ddyogel yn mur yr eglwys. Mewn hen amseroedd, yr oedd mor nodedig am fod yn yr un lle, fel, pa mor bell bynag y cludid hi, y byddai yn sicr o ddychwelyd yn ol yn ystod y nos. Hugh Lupus, iarll Caerlleon, yn benderfynol i ddarostwng ei thueddiadau ymsymudol, a fynodd ei sicrhau â chadwyni haiarn wrth gareg arall, lawer yn fwy na hi, a'i bwrw i'r môr; ond, er syndod i'r holl edrychwyr, cafwyd hi y boro dranoeth yn ei lle arferol.†

Yr wyf yn awr yn myned i mewn i dir clasurol, ac eisteddfanau duwiolfrydig yr hen Dderwyddon; y llwyni cysegredig, yr allorau, a'r meini coffadwriaethol. Rhaid i frâs grybwylliad o'r hyn a welais foddloni fy narllenwyr; yr hwn a gyfeirir at weithiau yr enwog a'r dysgedig Mr. Henry Rowlands, gynt ficer y lle hwn, ac at eiddo fy nghyfaill y diweddar barchedig Dr. Borlase, yr hwn sydd wedi ychwanegu arddangosiadau newyddion o'r gweddillion tywyll hyn.

*Tre'r Dryw.*] Yn *Nhre'r Dryw*, neu breswylfod yr Archdderwydd, cyfarfyddais â'r gweddillion anffurfiedig a ddysgrifir gan Mr. Rowlands. Ei Fryn Gwyn, neu Brein Gwyn, neu yr orsedd freninol, sydd geuedd crwn o 180 troedfedd o drawsfesur, wedi ei amgylchu gan garnedd anferth o bridd a cheryg, yn amlwg wedi eu dwyn yno o rywle arall, am nad oes unrhyw olion eu bod wedi cael eu cymeryd o'r ysmotyn hwnw. Nid oes iddi ond un fynedfa i mewn. Tybir mai dyma ydoedd prif orseddfa y cyflawniadau derwyddol.

Heb fod yn mhell oddiwrthi y mae un o'r *Gorseddau*, yn awr yn ymddangos megys wedi ei chwalu, ond ar un adeg yn cynwys pentwr cribog o geryg, ar ba un yr eisteddai Derwydd yn arucheledig, yn dysgu y bobl a'i hamgylchynent,‡ *multa de Deorum immortalium vi et potestate disputare, et juventuti tradunt.*§

Yma hefyd y mae gweddillion cylch o feini, gyda Chromlech yn y canol; ond y cwbl yn dra amherffaith. Y mae dwy o'r ceryg yn fawr iawn; un, yr hon a wasanaetha yn bresenol fel rhan o dalcen tŷ, sydd yn ddeuddeg troedfedd a saith modfedd o uchder, ac wyth droedfedd o led; ac un arall yn un droedfedd ar ddeg o uchder, ac yn dair troedfedd ar hugain o amgylchedd. Y mae hefyd rai ceryg llai yn aros. Y cylch hwn, pan yn gyflawn, ydoedd yn un o demlau y Derwyddon, yn mha un y cyflawnid eu seremoniau crefyddol. Tybia Mr. Rowlands fod yr oll o'r gweddillion hyn yn amgylchedig gan gylch o Dderw, ac yn ffurfio llwyn tywyll a chysegredig, *Jam per se roborum eligunt lucos, nec ulla sacra sine ea fronde conficiunt.*||

* Smith's Beda, App. No. xv.

† Giraldus Itin. Cambr. lib. ii. c. vii. and Powel's note. Sir Rich. Hoare ed. vol. ii. p. 103. Dywed Giraldus fod y gareg yn cymeryd ei henw oddiwrth ei ffurf.

‡ Mona Antiq. 92, tab. iv.

§ Cæsar Bel. Gal. lib. vi. "Trinent lawer o bethau yn mherthynas i nerth a gallu y duwiau anfarwol, a thraddodient y canlyniad o hyny i'w dylynwyr."

|| Plin. Hist. Nat. lib. xv. c. 44. "Dewisent iddynt eu hunain lwyni derw; ac ni byddent byth yn darparu unrhyw ebyrth, oddieithr mewn llwyni derw."

Digitized by Google

*Caer Lêb.*] Yn agos i hwn y mae Caer Lêb,* neu yr amddiffynfa gylchynedig gan ffos, yr hon sydd o ffurf ysgwâr, gyda chaer ddwbl, a ffos lydan cydrhyngddynt, ac un lai ar yr ochr allanol. Oddifewn y mae sylfeini adeiladau crynion ac ysgwâr. Tybia Mr. Rowlands mai dyma oedd trigfa yr Archdderwydd, a'i fod wedi rhoddi yr enw i'r dref-ddegwm yn mha un y saif, sef Tre'r Dryw.

*Tref-Wry.*] Yn Tref-Wry† gwelais amryw olion aneglur o gylchoedd o feini, a gweddillion ereill o adeiladau, yr oll mor adfeiliedig, neu yn guddiedig gan chwŷn, fel ag i fod agos yn amddifad o ffurf. Er mwyn tynu ein meddylian oddiwrth yr olygfa druenus sydd arnynt yn bresenol, bydded i ni symud y cyfnod i'r adeg pan y byddent

Yn llawn o Feirdd, dda'ent allan yn y nos,
Mewn gwisgoedd llaes o wŷn, ddiniwaid liw,
A'u mwyn delynau fflachient yn y lloer,
Gan bêr emynu pur anfarwol gerdd ‡

Yr oedd *Bod-drudan*, neu drigfa y Derwyddon, *Tre'r Beirdd*, neu eiddo y

*Bodowyr.*] Beirdd, a *Bodowyr*, preswylfa yr offeiriaid,§ oll yn fân bentrefi, ac agos yn amgylchynu preswylfod yr Archdderwydd, yr hon ydoedd y rhan bwysicaf o'i osgordd. Yn y lle olaf gwelais Gromlech drwchus, yn gorphwys ar dri o feini.

Y mae glan y môr yn agos i Borthamel, heb fod yn mhell oddiyma, yn nodedig am mai dyma y fan lle y glaniodd Suetonius, ac a roddodd derfyn ar deyrnasiad Derwyddiaeth yn yr ynys hon. Aeth ei wŷr traed trosodd mewn cychod yn meddu gwaelod gwastad, efallai yn y lle a elwir yn awr Pont yr Ysgraffiau.‖ Ei wŷr meirch a groesasant mewn rhan trwy rydio, ac mewn rhan trwy nofio. Y mae y dysgrifiad o'r ymladdfa mor fywiog fel y dodaf ef i mewn yn ngeiriau yr hanesydd Rhufeinig¶ ei hun:—

"Ar y lan safai byddin gymysg mewn trefn ryfelgar, ac wedi ei harfogi yn dda; y merched yn rhedeg oddiamgylch yn wylltion mewn gwisgoedd duon, a'u gwallt yn chwyfio, ac fel ellyllon yn cyhwfanu eu ffagleni; amgylchynid hwy gan y Derwyddon, yn dyrchafu eu dwylaw i'r nefoedd, ac yn tywallt allan y melldithion mwyaf echrydus. Safai y milwr mewn syndod at newydd-deb yr olygfa. Ei goesau a aethant yn ddiymadferth, ac arosai ei gorph yn ddiysgogiad. O'r diwedd, wedi eu bywiogi gan eu blaenor, a'r naill yn anog y llall i beidio cymeryd eu dychrynu gan fintai o ferched a phenboethiaid, agorasant eu baneran, dymchwelasant bawb a'u gwrthsafent, a bwriasant hwy i'w tanau eu hunain. Ar ol y frwydr, gosodasant warchawdluoedd yn y trefydd, a thorasant i lawr y llwyni a gysegrasid at ofergoeledd o'r fath erchyllaf: oblegyd yr oedd y Brutaniaid yn dal mai iawn ydoedd aberthu ar eu hallorau gyda gwaed eu caethion, ac ymgynghori â'r duwiau trwy archwilio ymysgaroedd dynol."

Y fath olygfa ydoedd hon! ac mor deilwng o bwyntyl arluniwr ysprydoledig! Nid oes olion o unrhyw weithiau o eiddo y Rhufeiniaid wedi eu gadael yn y

* Mona Antiq. 88. tab. iii. † Yr unrhyw, tab. iii. fig. 2.
‡ Mr. Mason's Caractacus. § Rowlands, 240. ‖ Yr unrhyw, 99.
¶ Taciti Annales, lib. xiv. c. 30.

Digitized by Google

wlad hon. Bu eu harosiad mor fyr, fel na chawsant amser i ffurfio unrhyw beth parhaus. Yn *Mryn Gwydryn*, o'r tu ol i Llanidan, y mae dwy neu dair o ffosydd a chloddiau o ffurf hanercylchog, pob pen yn terfynu mewn clogwyn, gan adael lle cydrhyngddynt heb fod yn eang iawn. Oddiwrth ei ffurf, yn gystal â'i henw, Caer Idris, yr wyf yn tybied mai caer Brydeinig ydoedd.

*Bryn Gwydryn.*

Drwg genyf nad yw yn fy ngallu i roddi gwell hanes na'r un canlynol am yr awdwr gwir ddysgedig, y parchedig Henry Rowlands, ficer y plwyf hwn. Y mae ei hanes am yr hynafiaethau derwyddol yn y parth yma o'r ynys, a'i ddarluniau o honynt, yn waith o'r pwysigrwydd mwyaf, ac ystyried na fwynhaodd erioed unrhyw fanteision llenyddol ond a gafodd yn ei ynys enedigol. Fe ddywedir na ddarfu iddo erioed deithio yn mhellach na Chonwy; ond yr wyf yn credu ei fod yn sicr mai yr Amwythig ydoedd terfynau pellaf ei deithiau. Bu farw yn 1723, yn 68 mlwydd oed, a chladdwyd ef o dan lech o fynor du yr ynys yn mhlwyf Llanedwen. Yr oedd yn hanu o Henry Rowlands, yr hwn a fu farw yn esgob Bangor, yn 1616, a'r hwn yn 1600 a brynodd gan Robert Gruffyth o'r Penrhyn, etifeddiaeth y Plas Gwyn, yn y plwyf rhagnodedig, yr hwn a erys hyd heddyw yn ei hiliogaeth. Y mae y cerfiad ar ei fedd o'i gyfansoddiad ef ei hun, ac y mae fel y canlyn (yn yr iaith Lladin):—

> Er cysegredig goffadwriaeth. Yma y dodwyd Henry Rowlands, o'r Plâs Gwyn, Clerigwr, ficer yr eglwys hon, yr hwn a obeithiai, gyda ffydd dduwiol, y byddai iddo gael ei ddeffroi oddi yma, yn y dydd diweddaf, trwy yspryd yr Iesu, ac oddiyno, gan fod TRUGAREDD WEDI BUDDUGOLIAETHU, y cymerid ef i fyny i dragywyddol orfoledd gyda Christ, yr hyn yn wresog yr hiraethai am dano, sef i fod yn dragywyddol gyda'r Arglwydd.—Bu farw Mehefin 21, yn mlwyddyn iachawdwriaeth 1723, oedran 68. Y mae y gwynt yn chwythu lle y myno. Mawl yn gwbl i'r Tri-yn-Un.
>
> *Nid yw pob rhoddion o unrhyw les, oddieithr yr hyn a renir i'r tlodion,*
> *Pan y derfydd yr holl gelfyddydau, ac y byddo bethau ysgrifenedig ddifanu.*


*Moel y Don.* Oddeutu tair milldir yn mhellach y mae porthfa *Moel y Don*. Dywedir fod Aeloedd, brenin Dublin, a thad i Racwel, mam Gruffydd ap Cynan, wedi adeiladu castell yma, a elwid yn yr hen amser *Castell Aeloedd Frenin*, ond gan drigolion y wlad, *Bon y Don*.* Yma y darfu i fyddin Iorwerth I. yn 1282, wneyd ymgais a fu yn angeuol i lawer dyn gwrol. Glaniodd ei luoedd yn yr ynys hon, ac ar ol darostwng i ufudd-dod yr ychydig breswylwyr nad oeddynt wedi cymeryd llw o ufudd-dod iddo ef, adeiladodd bont o gychod yn agos i'r fan hon, yn union yn yr un lle, medd rhai, ag y darfu i Agricola groesi. Y Cymry, yn hysbys o'i amcan, a godasant amddiffynfeydd i ddyogelu y fynedfa i'r mynyddoedd. Luke de Tany, llywydd dewr, yr hwn a ddaethai yn ddiweddar o Gascony gyda nifer o filwyr Gasconaidd ac Yspeinig, yn foiddgar a groesodd dros y bont anorphenedig ar drai, efallai o ddirmyg ar y gelyn: nid oedd yr un o honynt yn y golwg: ond pan ddaeth y llanw i fewn, yr hyn a dorodd ymaith eu cysylltiad â'r rhan agosaf o'r bont, y Cymry yn ddisymwth a ruthrasant arnynt gyda bloeddiadau dychrynllyd; lladdasant niferi, a gwth-

*Gorthrechu y Saeson.*

* Life of Gruffydd ap Cynan. Sebright MSS.

Digitized by Google

Digitized by Google



*EGLWYS LLANFAIR A'R PLAS NEWYDD.*

**LLANFAIR CHURCH AND PLASNEWYDD.**

Digitized by Google

iasant y gweddill i'r môr. Ar yr achlysur hwn lladdwyd Tany ei hun, Syr Roger Clifford yr ieuengaf, tri ar ddeg o farchogion, dau ar bymtheg o foneddigion ieuaingc, a dau gant o filwyr; William Latimer yn unig a ddiangodd, trwy ragoroldeb ei farch, yr hwn a nofiodd gydag ef at y bont.*

*Hen arfau y Cymry.* Gadewch i ni dybied fod dychryn ar yr adeg yma wedi gafael yn y milwyr Saesoneg: eto, gan na ragwelasid hyny gan y Cymry, dylem roddi clod dyladwy i'n cydwladwyr am eu dewrder, ar adeg pan (mewn cymhariaeth i filwyr cyflawn-arfog gwledydd ereill) yr ymladdent braidd heb arfau o gwbl. Y mae bardd, o ddiwedd y drydedd ganrif ar ddeg, fel hyn yn dysgrifio (ŷn Lladin) nodwedd ac arfogaeth y fyddin o hen Frythoniaid a arweiniwyd i Ffraingc gan ein tywysog dewr, *Richard Cœur de Lion* (Rhisiart Galon Llew.)

> Medda y genedl Gymreig y nodweddiad naturiol hwn, yn mhlith yr holl briodoliaethau o eiddo natur, a geidw yn arbenig fel ei nodweddiad ei hun er yr amseroedd boreuaf. Preswyliant mewn coedwigoedd am oriau, a dewisant ryfel yn hytrach na heddwch. Hawdd ydyw eu ffrochi, cyflym yr ymlidiant trwy lwybrau dyrys, ac nid ydynt byth yn llwytho eu traed â sandalau, na'u coesau â botasau. Dysgir iddynt ddyoddef oerni, ac ni ddiffygiant dan unrhyw lafur. Gyda gwisg fèr, ni feichir y corph âg unrhyw arfau; ac nid ydynt yn amddiffyn y corph gyda llurig na helm; gan ddwyn yn unig yr arfau â pha rai y parant laddfa yn myddin y gelynion—pastwn deuben, gyda phicell, gwaywffon hir, bwa gyda chawell, ac arfau ereill, ac ymhyfrydant mewn brwydrau mynych a thywallt gwaed.†

*Coed.* Ychydig o ffordd o Foel y dôn aethum i mewn i goedwigoedd prydferth Syr Nicholas Bayley,‡ y rhai a ymylant y Fenai am bellder maith Dechreua y rhan goediog o'r ynys yn Llanidan, a dyg ar gof i ni hen enw Ynys Fôn, sef yr Ynys Dywyll, oherwydd tywyllni dwfn ei llwyni; ond yn bresenol y mae, oddigerth ar yr ochr hon, yn gwbl amddifad o goed, a'r hinsawdd mor wrthwynebol i'w tyfiant, fel, yn y rhan fwyaf o fanau, mai gydag anhawsder y gall y boneddigion godi planigfa o gylch eu palasau.

*Plas Newydd.* Y mae y *Plas Newydd*, preswylfod Syr Nicholas Bayley, yn glôs ar y dwfr, ac yn cael ei achlesu ar dair ochr gan goed derw a choed ŷn hybarch. Y mae yr olygfa i fyny ac i lawr y forgaingc hon, sydd mor debyg i afon, yn eithafol o brydferth. Y glanau ydynt greigiog; y rhai ar yr ochr gyferbyniol yn orchuddiedig gan goed; a thu hwnt i hyny yr ymddyrcha cyfres hirfaith yr alpau Eryraidd. Yma y safai tŷ a adeiladasid gan Gwenllian, yr hon a hanai o Cadrod Hardd.§ Y mae y palas wedi cael ei wella, a'i newid ar ffurf gastellog, gan y meddiannydd presenol.‖

*Cromlechau.* Yn y coed y mae rhai hynafiaethau derwyddol hynod. O'r tu ol i'r tŷ gellir gweled dwy gromlech aruthrol. Y mae y gareg uchaf o un o honynt yn ddeuddeg troedfedd a saith modfedd o hyd, deuddeg o led, a phedair o drwch, yn cael eu chynal gan bump o feini tàl. Y llall, yr

* Powel, 382. † William Brito, fel ag y dyfynir ef yn Camden's Remains.
‡ Yn awr Iarll Uxbridge. Gol.
§ Plas Gwyn MSS. ‖ Iarll Uxbridge.—Gol.



Digitized by Google

hon nid yw ond prin yn wahanedig oddiwrth y flaenaf, sydd braidd yn ysgwâr, o bum' troedfedd a hanner, ac yn cael ei chynal gan bedair careg. Nid yw nifer cynalyddion y Cromlechau ond damweiniol, a dibynant ar faintioli a ffurf y gareg orweddol. Dyma y rhai mwyaf ardderchog a feddwn, a'r rhai uchaf oddiwrth y llawr; oblegyd gall ceffyl canolig o faint fyned o dan y fwyaf.

Y mae y Dr. Borlase wedi dangos yr annhebygolrwydd o fod y meini hyn erioed wedi eu bwriadu na'u defnyddio fel allorau. Eu ffurf a ddengys yr amhosiblrwydd o gyneu tân, neu offrymu aberthau ar eu copäau llechweddol; ac y mae braidd y cwbl a welais yn meddu llechweddiad. Rhesymol ydyw tybied iddynt fod yn feddrodau, ac y gallai fod y corph wedi ei osod yn y cyfwng odditanodd; ac addoliad dwyfol yn cael ei weinyddu, neu aberthau yn cael eu cyflawni, gerllaw y cofadeiliau, ar ran ysprydoedd y meirw.*

Y mae y mathau yma o gofadeiliau i'w cael yn y rhan fwyaf o wledydd Ewrop yn Scandinavia,† yn Holland,‡ ac yn Ffraingc: yn y wlad olaf y mae y Pierre Levée, gerllaw Poitiers, yn engraifft aruthrol.§ Ymestyna cromlechau hefyd yn mhellach tua'r dehau; oblegyd y mae Mr. Amstrong yn rhoi darlun o un o'r un natur yn Minorca.‖ Amrywiant o ran eu ffurf. mewn llawer y mae y lle rhwng y cynalyddion yn cael ei lanw i fyny gan geryg o faintioli mwy neu lai;¶ ac felly yn dyogelu gweddillion y trengedig a fyddont wedi eu gosod yno. Dichon fod yr holl rai a welwn ni yn ein hymyl wedi eu cau i fyny felly ar y cyntaf; ond mewn amser a ddinystriwyd, naill ai gyda'r gobaith cysegr-yspeilgar o gael cyfoeth wedi ei gladdu gyda'r corph, neu, fel y dygwydda yn fynych yn bresenol, er mwyn cymhwyso y ceryg at wasanaeth defnyddiol. Y mae ereill drachefn yn gwbl soddedig yn y garnedd, neu y pentwr ceryg; o na rai y gellid dwyn engreifftiau yn Llanfaelog, yn yr ynys hon, Ynys Arran,** ac yn sir Feirionydd.††


*Carnedd.*] Heb fod yn mhell oddiwrth y Gromlech y mae *Carnedd* fawr: y mae rhan o honi wedi ei symud ymaith, ac oddifewn darganfyddwyd cell oddeutu saith droedfedd o hyd a thair o led, wedi ei gorchuddio ar y top gyda dwy o geryg fflat, ac wedi ei leinio ar yr ochrau gydag ereill. I fyned i mewn iddi, rhaid oedd i mi gropian dros lechen a osodasid ar draws y fynedfa. Ar dop y gareg yr oedd dau o dyllau hanercylchog, digon o faint i gymeryd i fewn wddf dyn; tybir fod yno un arall uwchlaw, fel y gallai y naill gyda'r llall gyflawni swydd cyffion. Nid yw ond tybiaeth mae yn wir, eto nid yw yn un annhebyg, mai yn y lle yma y cedwid y trueiniaid a fwriedid eu haberthu; am y gwyddir yn dda y byddent yn arfer cyflawni y ddefod felldigedig, ac yn fynych ar gaethion a fyddent wedi bod yn hir yn ngharchar,‡‡ efallai mewn celloedd tebyg i'r rhai hyn.

*Vaenol.*] Ychydig islaw Plas Newydd, ar ochr Sir Gaernarfon, y gwelir coedwigoedd eang y *Vaenol*, gyda'r hen dŷ o'r un enw. Buasai y lle yma yn hir yn breswylfod teulu o'r enw Williams, cangen o dylwyth Ednyfed

* Darllener rhesymau yr awdwr dysgedig dros ei dybiaeth, Antiq. Cornwal, p. 210, &c.
† Wormii Monum. Dan. 7.
‡ Oudheinkundige Brieven, &c., tab. 1.
§ Braunii Civitat, v. 18.
‖ Hist. Minorca.
¶ Arddangosedig yn *Montfaucon*, Supplement v., tab. lxv. ffugr uchaf.
** Voyage to the Hebrides, 2nd ed. 208.
†† Gwel tudal. 314 o'r Gwaith hwn.
‡‡ Borlase Antiq. Cornwal.

Digitized by Google

Digitized by Google



TORTHAETHFY FERRY.

Digitized by Google

Vychan, a'r hwn a anrhydeddwyd â barwnigaeth, Mehefin 15fed, 1622. Syr William Williams, yr olaf o'r llinell, ydoedd ddyn yn arwain bywyd afradlon; buasai yn briod, ond ni bu iddo blant. Daeth yn gydnabyddus â Syr Bourchier Wrey, o Trebitch, dyn ieuangc wedi ei ddwyn i fyny i'r gyfraith. Mewn cyflwr o feddwdod perswadiwyd ef i wneyd ewyllys, a throsglwyddo ei holl etifeddiaeth i Syr Bourchier am yspaid ei fywyd, a bywyd ei frawd, y parchedig Chichester Wrey, a'r gweddill i'r brenin William am byth. Y cyfreithiwr ieuangc hefyd a adawodd flwydd-dal iddo ei hun o 540*l.*, y deugain punt ôd at y draul o gasglu y lleill. Efe hefyd a bwrcasodd yr etifeddiaethau oedd ar oesau, y rhai a fwynhawyd gan ei gynrychiolwyr hyd farwolaeth y parchedig Mr. Wrey; ac ar hyny cymerodd y diweddar Mr. Smith, o Tedworth yn Hampshire, feddiant o honi yn rhinwedd rhoddiad o eiddo y brenin William i'w hynafiad, dirprwywr yn swyddfa yr halen ac yn bresenol y mae y cwbl, gwerth 4000*l.* yn y flwyddyn, yn cael ei fwynhau gan ei hen nai, Ashton Smith, ysw.

*Ei gadael i'r brenin.*

O'r Plas Newydd aethum yn mlaen ar fy nhaith yn ngolwg y dwfr. Yn Nghraig y Ddinas cefais fy nal yn anocheladwy i wledda fy llygaid ar yr olygfa ardderchog ar grymeddiad y Fenai. Heb fod yn mhell oddiyma, marchogais ar lan y môr, i aredmygu cenllif gwyllt *Pwll Ceris,* yn mha le, trwy wrthsafiad y creigiau, a chuldra y sianel, y mae rhaiadrau mawrion a throbyllau ffyrnigwyllt, yn ystod yr adeg pan y mae y llanw neu y trai yn dyfod yn gryf. Ar ddistyll ymddengys y sianel, am gryn bellder, yn bigog gan greigiau duon ac erchyll. Y mae cynddaredd y llanw yn eu plith, ar yr adegau a grybwyllais, yn annirnadwy, oddieithr i'r morwr. Anturiais fy hunan (pan yn ieuango) mewn cwch bychan yn ystod ei gynddaredd mwyaf, ac ni bydd i mi byth anghofio y cylchdroadau cyflym rhwng craig a chraig, yn nghanol y tonau berwedig, a'r cenllif a redai fel ffrwd melin Ar orllanw y mae pobpeth yn dawel. Y mae hwn yn atalfa fawr i fordwyaeth llongan mawrion, y rhai y mae yn rhaid iddynt ymaflyd yn yr adeg briodol, a chael gwasanaeth llonglywydd *(pilot)* da. Y mae y gweddill o'r culfor yn ddyogel; ei holl hyd ydyw oddeutu pedair milldir ar ddeg; deg o'r Bay Glâs, yn agos i Beaumaris, hyd Gaernarfon, a phedair oddiyno hyd y fynedfa i mewn yn Abermenai.

*Pwll Ceris.*

*Llandysilio.*

Ychydig yn is i lawr, ar wddfdir bychan byr, y saif eglwys *Llandysilio,* yn ymestyn allan yn mhell i'r dwfr; curadiaeth o'r fath mwyaf trymllyd. Y mae yn hynod fod y rhan fwyaf o'r pedwar plwyf ar ddeg a thriugain, i ba rai y mae yr ynys wedi ei rhanu, yn meddu eu heglwysi heb fod yn mhell oddiwrth lan y môr.

*Porthaethwy.*

Saif *Porthaethwy,* y borthfa fwyaf cyffredinol i Fôn, yn union o dan yr eglwys. Y mae cludiad anifeiliaid yn y fan hon yn fawr iawn, nis gallaf eu cyfrif; ond ystyrir fod yr ynys yn anfon allan yn flynyddol o ddeuddeg* i bymtheug mil o dda corniog, a thyrfaoedd o ddefaid a moch. Cyfrifir hefyd fod y nifer sydd yn aros o dda corniog yn ddeug mil ar hugain.† Oddiwrth yr un awdurdod ymddengys, fod yn 1770, uwchlaw deng mil a phedwar ugain o fwsieli o ŷd yn cael eu trosglwyddo allan. Nid yw yr

* Dichon fod y nifer a nodir yma yn ormod: y mae gan y golygydd reswm dros gredu nad ydyw yn fwy na phum' mil. GOL.

† Hist. Anglesey, 6.

Digitized by Google

awdwr yn cyfrif ond haidd, rhyg, a cheirch; ond gwelais y hun weithiau anghydmarol yn tyfu ar yr ynys. Y mae y gwelliantau mewn amaethyddiaeth wedi cynyddu er pan roddwyd i lawr yr arferiad o gludo eiddo didoll o Ynys Fanaw; cyn yr amser hwnw byddai pob amaethwr yn sefyll ar gopa rhyw fryn uchel, yn dysgwyl am y llong a gariai y fasnach anghyfreithlawn, ond er yr amser hwnw y mae wedi ymosod o ddifrif at ddiwydrwydd a thriniaeth ei dir. Nid am nad oedd yr ynys, yn yr amseroedd boreuaf, yn hynod am ei ffrwythlondeb. *Mon, Mam Gymru,* ydoedd enw a gymerai arni ei hun hyd yn nod yn y ddeuddegfed ganrif.*

*Arferiad Farbaraidd* ] Yr oedd arferiad farbaraidd, mewn cysylltiad â'r gyfundrefn wriogaethol, yn ffynu yn yr ynys hon, ac yn bosibl mewn llawer o fanau ereill. Yma yr arddangoswyd gallu arglwydd i werthu ei gaethddeiliaid a'u plant, fel pe buasent yn anifeiliaid ar ei etifeddiaeth. Gwnaed hyny yn Mhorthaethwy lawer o flynyddau ar ol teyrnasiad ein tywysogion ni.† Nid yw ysgrif y gwerthiant ar gael; ond yr wyf yn cael yn ysgrifau Mr. Rowlands dair o engreifftiau, o ba rai y mae yr un ganlynol yn cynwys ffurf-ysgrif gyflawn yr arferiad greulawn hon.

"Ednyfed Fychan ap Ednyfed, mewn lleoedd ereill a elwir Ednyfed ap Arthelw ferch Dafydd ap Gruffydd a Hywel ap Dafydd ap Ryryd, mewn mannau ereill a elwir Hywel ap Arthelw ferch Dafydd ap Gruffydd, tirddeiliaid rhyddion palasdy arglwyddiaeth tywysogol Rhaudir Gadog, &c., ydym yn rhoddi ac yn cadarnhau i Wilym ap Gruffydd ap Gwilym, marchog, a rhyddberchenog Porthamel, &c., saith o'r brodorion o'r groth; sef Hywel ap Dafydd Dew, Matto ap Dafydd Dew, Ieuan ap Efan Ddu, Llewelyn ap Dafydd Dew, Dafydd ap Matto ap Dafydd Dew, Hywel ap Matto ap Dafydd Dew, a Llywelyn ap Evan Coke, ynghyda'u holl nwyddau ac anifeiliaid, &c., i gael eu dal, &c., fel ein caethweision rhagenwedig, &c., i'r dywededig Gwilym Gruffydd ap Gwilym, eu hetifeddion a'u llythyr-gymunweinwyr, am byth. Arwyddwyd yn Rhandir Gadog, ar yr 20ed dydd o Fehefin, yn yr 27fed flwyddyn o Harri VI."‡

Y mae y wlad o'r fan yma, ac yn gwbl hyd Gaergybi (pedair milldir ar hugain) ar ddê ac aswy, yn llwm, digoed, amddifad o gloddiau, yn cyfodi yn fân fryniau, yn cael ei dyfrhau gan aneirif ffrydiau, ac yn ffrwythlawn mewn porfa ac ŷd.

Aethum yn mlaen ar fy ffordd § yn agos i'r Fenai, yr hon sydd yn awr yn lledu cryn lawer. Y mae y glanau cyferbyniol yn anadroddadwy o brydferth, yn uchel, ac wedi eu gwisgo yn geindlws â choedwigoedd. Bangor a ymegyr ar ochr sir Gaernarfon; ac o'i blaen y mae morgilfach ysplenydd, yn cael ei therfynu gan benrhyn anferthol Penmaen Mawr, a Llandudno fawr, yn ymddangos megys ar ei phen ei hun; a morgainc afon Gonwy yn llifo i lawr yn y gwaelod rhwng y ddau benrhyn mawreddog hyn. Canfyddir yr olygfa yma yn fwyaf manteisiol o'r llecyn prydferth hwnw

*Golygfeydd ardderchog.* ]

* Giraldus Itin. Cambr. Sir Richard Hoare's ed. vol. ii. p. 103.

† Rowlands' Mona Antiq. 122. ‡ Rowlands' MSS.

§ Trwy haelfrydedd arglwydd ac arglwyddes Bulkeley, y mae ffordd ragorol i gerbydau wedi cael ei ffurfio ar draul fawr, o Borthaethwy i Biwmaris, yn arddangos olyniad o olygfeydd digymhar o ran prydferthwch, fel y mae y forgilfach swynol yn graddol ymagor. Cyfiawn y gellir ei galw yn un o'r rhodfeydd prydferthaf yn y byd. GOL.

a elwir y "*Green*," yn agos i gastell Biwmaris: o ba le y gellir gweled, heblaw hyny, Ynys Seiriol, a'r forgilfach ar lun haner-lleuad yn cyrhaedd oddi yno i'r dref, y castell ei hun, *Baron Hill*, gyda'i welliantau ceiudlws; ac ni ddylai y *Red Hill* (Bryn Coch,) preswylfod Mr. Sparrow, yr hwn a saif ar ben nant goediog, gan gyfeirio y llygad at ran fawr o'r olygfa ysplenydd yma, gael ei adael allan o'r dysgrifiad.

*Biwmaris.*] Saif tref *Biwmaris*, fel y mae yr enw Saesoneg (*Beaumaris*) yn arddangos, mewn lle hyfryd ar dir isel, ar fin y dwfr; y mae yn ddestlus, o adeiladaeth dda, ac y mae un heol yn dra phrydferth. Iorwerth I. a greodd y lle; oblegyd, ar ol sylfaenu castelli Caernarfon a Chonwy, efe a ddarganfu ei bod yn angenrheidiol rhoddi ffrwyn arall yn mhen fy nghydwladwyr anhydyn. Adeiladodd y castell yma yn 1295,* a dewisodd lecyn morfaog, yn agos i gapel St. Meugan, y fath ag a roddai iddo gyfle i ffurfio ffos fawr o amgylch y castell, a'i llenwi â dwfr o'r môr. Efe hefyd a dorodd gamlas i'r dyben o wneyd lle i longau ddadlwytho eu llwythi o dan y muriau;† ac fel prawf o hyn, a bodolaeth y cyfryw gyfleusterau, yr oedd, o fewn canrif yn ol, fodrwyau heiyrn yn gysylltiedig wrthynt, i'r dyben o sicrhau y llongau neu y badau. Yr oedd y morfa, mewn amseroedd boreuach, yn fwy o lawer nag ydyw yn bresenol, ac yn orchuddiedig â morhesg rhagorol.‡ Erys traddodiad cryf fod un Helig ap Clunog§ yn meddu yma feddiannau mawrion, y rhai a gyrhaeddent i Ddwygyfylchau, a thŷ prydferth lle y mae y môr yn llifeirio yn bresenol; yr oll o ba rai a dansuddwyd yn ddisymwth; a haerir y gellir gweled eto, ar drai isel, adfeilion tai, a sarn o Ynys Seiriol yn nghyfeiriad y Penmaen Mawr.‖

Yr oedd y tiroedd ar ba rai yr adeiladodd Iorwerth y castell yn eiddo personol; ac ymddengys iddo wneyd cyflawn iawn i'r perchenogion; ac yn mhlith taliadau ereill a wnaed, rhoddodd i Einion ap Meredydd, Gruffydd ap Ifan, ac Einion ap Tegerin, diroedd yn nhref-ddegwm Eirianell, a Thre'r Ddol, yn rhydd oddiwrth ardreth na gwasanaeth, gan fod y castell wedi ei adeiladu ar eu tir.¶

Y mae pob un o dri chastell Iorwerth yn amrywio o ran eu ffurf. Gan hwn y mae yr arddelwad lleiaf i brydferthwch, am nad yw yn feddiannol ar uchder na cheindlysedd Caernarfon na Chonwy. Y muriau allanol a warchodir gan ddeg o dyrau crynion a chryfion; nid yw y rhai hyn ond amgaer i'r castell, yr hwn a saif oddifewn mewn cryn bellder cyfartal; y mae yn fwy o uchder na'r blaenaf, ac y mae ganddo ei dyrau crynion. Oddifewn y mae ysgwâr o 190 troedfedd, neu fel y mae Mr. Grose yn ei alw, ysgwâr â'i gornelau wedi eu tori ymaith. *Neuadd.*] Y mae gan y brif neuadd bum' ffenestr yn ei ffrynt; y mae yn 70 troedfedd o hyd, a 23½ o led. Ymddengys fod y fynedfa iddi trwy is-neuadd, i fyny esgyniad o risiau.

* Dechreuwyd adeiladu castell Biwmaris yn 1295; ond, yr un modd a chastelli ereill Iorwerth yn Nghymru, buwyd am flynyddau cyn ei orphen. T. P.

† Sebright MSS. ‡ Yr unrhyw, a Plas Gwyn MSS.

§ Gelwir y morwr hynafol yma yn gyffredin *Helig ap Glannog*. Y mae ei diriogaeth ef yn rhywle a elwir Tyno Helig, ac ymddengys mai y môr ydoedd ar lenydd Môn ac Arfon: oddiwrth Glannog y cafodd Ynys Seiriol yr enw *Ynys Glannog*, yr hwn a grybwyllir yn tudal. 393 J. B.

‖ Plas Gwyn MSS. ¶ Rowlands MSS.

Digitized by Google

*Capel.* Oddifewn i'r muriau, ar un ochr, y mae capel prydferth, ar ffurf chwareudy, yr ochrau yn addurnedig â bwäau Gothig, a'r nenfwd yn cael ei gynal gan asenau yn ymgodi oddiar bilerynau ceindlws, rhwng pob un o ba rai y mae ffenestr gul, a thu ol i rai y mae ystafelloedd bychain, wedi eu henill o drwch y muriau, dichon wedi eu bwriadu i'r swyddogion, neu bersonau o urddas. Y mae oriel gul yn rhedeg oddifewn i holl furiau y castell.

Y fynedfa i fewn a wyneba y môr; a cherllaw iddi y mae gwaith cul a hir, yn ymestyn allan, a elwir *Gunners' Walk* (Rhodfa y Magnelwyr.)

Y llywydd cyntaf ydoedd Syr William Pickmore, marchog o Gascony, yr *Cwnstabl y Castell.* hwn a apwyntiwyd gan Iorwerth I. Yr oedd yno gwnstabl y castell, a chadben y dref. Y cyntaf a dderbyniai gyflog blynyddol o ddeugain punt, a'r olaf 12*l.* 3*s.* 4*d.*; ac yr oedd porthor Biwmaris yn cael 9*l.* 2*s.* 6*d.* Caniateid pedwar ar hugain o filwyr fel gwyliadwriaeth i'r castell a'r dref, yn ol pedair ceiniog y dydd i bob un.*

Yr oedd cwnstabl y castell bob amser yn gadben y dref, oddieithr mewn un amgylchiad: yn y 36ain o Harri VI. delid y swydd flaenaf gan Syr John Boteler, a Thomas Norreys a ddaliai y llall.

Yr oedd y castell yn faich trwm iawn ar y wlad: byddai mynych ymrafaelion rhwng y gwarchawdlu a phobl y wlad. Yn amser Harri VI. dygwyddodd ymladdfa waedlyd, yn mha un y cafodd Dafydd ap Evan ap Hywel, o Lwydiarth, a lluaws ereill, eu lladd.

O amser Syr Rowland Villeville, neu Brittayne, yr hwn y dywedid ei fod yn fab ordderch i Harri VII., ac yn gwnstabl y castell, cafodd y gwarchawdlu eu tynu ymaith hyd y flwyddyn 1642, pan y darfu i Thomas Cheadle, swyddog o dan iarll Dorset, y pryd hyny yn gwnstabl, roddi ynddo filwyr a darpariadau rhyfel. Yn 1643, Thomas Bulkeley, yr hwn yn fuan ar ol hyny a grewyd yn arglwydd Bulkeley, a'i holynodd; ei fab, y milwriad Richard Bulkeley, ac *Ei gymeryd yn 1646.* amryw o foneddigion y wlad, a'i daliasant ar ran y brenin hyd Fehefin 1646, pan yr ymostyngodd i'r cadfridog Mytton ar delerau anrhydeddus, yr hwn a wnaeth y cadben Evans yn islywydd o dano ef. Yn 1653, holl draul blynyddol y gwarchawdlu ydoedd 1703*l.*

*Y Dref.* Iorwerth I. wedi iddo adeiladu y dref, a'i hamgylchodd â muriau, gwnaeth hi yn gorphoraeth, a gwaddololdd hi â rhagorfreintiau mawrion, a thiroedd o gryn werth. Symudodd yr hen rydd-ddeiliaid, trwy gyfnewid am eu meddiannau, i wledydd ereill. Henllys, yn agos i'r dref, ydoedd breswylfod Gwerydd ap Rhys Goch, un o'r pymtheg llwyth, a'i hiliogaeth hyd yr adeg hon, pan y darfu i Iorwerth eu symud i Bodlewyddan, yn sir Fflint, a rhoddi eu hen dreftadaeth i'r gorphoraeth.† Anfona un aelod i'r senedd. Ei chynrychiolydd cyntaf ydoedd Meurig Gruffydd, yr hwn a eisteddai yn y 7fed flwyddyn o Iorwerth VI.‡

*Y For-gilfach.* Y mae angorfa dda i longau yn y forgilfach sydd yn gorwedd o flaen y dref; ac y mae ynddi saith gwrhyd o ddwfr hyd yn nod ar y trai iselaf. Mewn awelon trymion y mae llongau yn cael

* Dodridge, 58.

† Plas Gwyn MSS.

‡ Willis's Notitia Parliam. iii. 23.

noddfa yma. Ni pherthyna i'r dref unrhyw drafnidiaeth, eto y mae ganddi ei tholldy er derbyn nwyddau yn achlysurol.

*Porthfa.*] Y borthfa a orwedda yn agos i'r dref, ac y mae yn dramwyadwy ar ddistyll. Rhoddwyd hi trwy siartr i'r gorphoraeth yn y 4edd o'r frenines Elisabeth. Yr ydwyf yn cael archiad oddiwrth Iorwerth II. i Robert Power, ystafellydd Gogledd Cymru, yn gorchymyn iddo edrych i mewn i gyflwr y cwch, yr hwn oedd y pryd hyny allan o adgyweiriad; ac os byddai hyny yn bosibl, iddo gael ei wneyd yn gymhwys at wasanaeth, ar draul y dref; ond, os ydoedd wedi myned yn rhy ddrwg i'w adgyweirio, fod i un newydd gael ei adeiladu, ac fod i'r brenin dalu y draul. Ymddengys fod pobl Biwmaris yn talu yn flynyddol, am y fraint o gael porthfa, ddeg swllt ar hugain i'r trysorlys; ond oddiwrth yr archiad yma, ymddengys mai y brenin oedd i ddarparu y cwch.* Ar ol croesi y sianel, y pellder dros y tywod i Aber, yn sir Gaernarfon, y man y cyfeiria y teithydd ato, ydyw pedair milldir. Gelwir y tywod yma yn *Draeth Telafan*, a *Wylofain*,† ar gyfrif yr ysgrechiadau a'r galarnadau a wnelai y trigolion pan orlifwyd ef gan y môr, yn nyddiau Helig ap Clunog.

*Eglwys.*] Y mae yr eglwys yn ddibynol ar Landegfan, yr hon sydd o fewn rhoddiad arglwydd Bulkeley. Gelwir y flaenaf yn gapel y Fendigedig Forwyn; er hyny, mewn hen ysgrifau, gelwir un rodfa yn gapel St. Mair, ac un arall yn gapel St. Nicholas. Yn y flaenaf, y mae cofadail brydferth o farchog a'i arglwyddes mewn alabastr gwŷn, wedi ei gosod ar eu gorwedd ar feddfaen ailoraidd. Symudasid ef ar y dadgorphoriad o'r crefydd-dy yn Llanfaes, i'r lle yma, ac y mae coffadwriaeth ac enwau y personau a arddangosir wedi eu colli. Ar yr ochr ddeheuol i'r allor y mae careg gyda'r cerfiad canlynol [yn Lladin]: pa fodd y daeth yma, ac i ba ddyben, nis gallaf gael allan.

> Henry Sydney, marchog o urdd yr Ardas, milwr, Llywydd Cynghor Cyffindiroedd Cymru, Arglwydd Raglaw yr Iwerddon.
>
> Antonius Sentleger, marchog o urdd yr Ardas, milwr, ac ar un adeg Arglwydd Raglaw yr Iwerddon.
>
> Franciscus Agard, marchog, aelod o'r Cynghor yn yr Iwerddon.
>
> Edward Waterhowe, a'm cododd i (y gofadail.)
>
> William Thwyates, marchog, bu farw yr 20fed dydd o Ionawr, 1565.
>
> Adnebydd dy hun.—Mewn ffydd a Thangnefedd.

Ymddengys iddi gael ei chodi gan ryw Edward Waterhowe. Buasai Syr Henry Sydney yn arglwydd raglaw yr Iwerddon, ond bu farw yn Lloegr yn 1586. Syr Anthony St Leger oedd un arall. Y mae y ddau ereill yn anadnabyddus.

Uwch ben y blaenaf y mae cof-faen yn y mur, o fynor du, er coffadwriaeth am Thomas, chweched mab Syr Julius Cæsar, meistr y rholysgrifau, yr hwn a fu farw yn beriglor Llanrhuddlad, yn yr ynys hon, 1632. Y mae yn yr iaith Lladin i'r perwyl canlynol:—

> Cysegredig i Goffadwriaeth y dyn ardderchog Thomas Cæsar, Proffeswr mewn Duwinyddiaeth, chweched mab i Syr Julius Cæsar, marchog euraidd, a Meistr y Rholysgrifau perthynol i Gyfrin-gynghorau y siriol freninoedd Iago

* Sebright MSS.

† Fel mater o ffaith, seinir yr enw yn awr yn *Traeth y Lafan*, beth bynag a allai y gair olaf olygu. J.R.

a Siarl, yr hwn, gan ei fod yn fachgen addawol, a ddechreuodd astudio y celfyddydau a'r gwyddorau yn Ngholeg y Brenin, Rhydychain, ac yn ddiweddarach trwy drwydded yn Gymrawd o Goleg yr Holl Eneidiau. Yna, yn mhen amser, fel periglor eglwys Llanrhuddlad, efe, yn gystal trwy ei deilyngdod ei hun, a thrwy fraint anarferol, a gymerodd ei radd fel Doethawr yn Nghaergrawnt, er mwyn cludo i'w ganlyn yn wastad yr anrhydedd mwyaf yn y ddwy Brifysgol; a chan fod yn ddysgedig tu hwnt i'w flynyddoedd, efe a newidiodd fywyd am angeu, Mawrth 5ed, 1632, yn y 32ain mlwydd o'i oed. Joanna Cæsar, ei anwyl wraig, ac unig ferch Huw ap William Prisiart, marchog o gwmwd Llifon, Môn, a gododd y gofadail hon fel llafur cariad. B.A. 1634.

*Llanfaes.*] Ychydig bellder oddiwrth y dref, ar lan y môr, y saif gweddillion *Llanfaes*, neu y *Friars*. Sylfaenwyd ef gan y tywysog Llywelyn ap Iorwerth, ac, yn ol traddodiad cyffredinol y wlad, ar fedd ei wraig Joan, merch i'r brenin Ioan, yr hon a fu farw yn 1237, ac a gladdwyd yn y fan hon. Yma hefyd y claddwyd mab i un o freninoedd Denmark, arglwydd Clifford, a lluaws o farwniaid a marchogion a syrthiasant yn y rhyfeloedd â'r Cymry.* Yr oedd yn gyflwynedig i St. Ffrancis, a chafodd ei chysegru gan Hywel, esgob Bangor, yr hwn a fu farw yn 1240. Y brodyr oeddynt Ffrancisiaid, neu y mynachod lleiaf. Cafodd eu beglwys a'u tŷ eu dinystrio, a'u tiroedd eu hanrheithio yn y gwrthryfel a godwyd yn fuan ar ol marwolaeth Llewelyn, ein tywysog olaf, gan ei berthynas Madog. Iorwerth II. oddiar ystyriaeth o'u hauffodion, a faddeuodd iddynt y trethi dyledus oddiwrthynt iddo ef, yr hyn, yn flaenorol i'r rhyfel, oedd yn ol 12*l*. 10*s*. Yr oedd y mynachod hyn yn bleidwyr cryfion i Owain Glyndwr. Harri, yn ei ymgyrch cyntaf yn erbyn Owain, a yspeiliodd y mynachdy, ac a ddododd rai o'r mynachod i'r cleddyf, ac a gludodd ymaith y gweddill; ond ar ol hyny rhyddhaodd hwynt, adferodd y lle, ond poblogodd ef â meudwyaid Seisonig. Dichon iddo gael ei wneyd yn adfeilion drachefn; oblegyd y mae Harri V. trwy freint-lythyr, yn sefydlu yma wyth o fynachod, ond gorchymyna nad oes ond dau o honynt i fod yn Gymry.†

Ar adeg y dadgorphoriad, Harri VIII. a werthodd y fynachlog, a'i meddiannau, i un o'i wŷr llys. Daethant yn ddiweddarach yn eiddo teulu o'r enw White (yn awr wedi darfod,) y rhai a godasant yma balas da. Daeth yn ddiweddar, trwy bryniad, yn eiddo i arglwydd Bulkeley. Y mae yr eglwys wedi ei throi yn ysgubor, ac y mae arch‡ y dywysoges Joan yn awr yn gwasanaethu fel cafn i roddi diod i anifeiliaid. Hysbysir fi, fod ar dyddyn Cremlyn Mynach, yr hwn a fu unwaith yn eiddo y fynachaeth, wedi ei dori ar gareg fawr, ddarlun o'i noddwr St. Ffrancis; ac fod ei ben hefyd wedi ei dori ar gareg mewn mur, yn un o heolydd Biwmaris, i ba un y byddai raid i bawb teithwyr arddangos eu parch, dan boen o dalu dirwy.

*Brwydr.*] Oddeutu y flwyddyn 818, ymladdwyd brwydr waedlyd yn agos i Lanfaes: ni fynegir yr achos, na phwy oedd y pleidiau; ond yr wyf yn barnu oddiwrth yr hanes,§ ei bod rhwng Egbert, brenin y Sacsoniaid Gorllewinol, a'r Cymry; oblegyd darfu i'r blaenaf, yn nheyrnasiad Merfyn Frych, gario ei arfau hyd i holl barthau Gogledd Cymru.

* Leland's Collect. i. 65, and Henry V.'s patent in Sebright MSS. † Sebright MSS.

‡ Symudwyd yr arch yma o'r lle diraddiol hwn, a dodwyd ef o dan adeilad Gothig brydferth, mewn sefyllfa hyfryd yn ngerddi *Baron Hill*. Gol. § Powel, 24.

Digitized by Google

*Castell Aber Llienawg.*] Oddeutu milldir yn mhellach y saif *Castell Aber Llienawg*, amddiffynfa ysgwâr fechan, gyda gwedlillion twr crwn bychan yn mhob congl. Amgylchynir y cwbl gan ffos. Y mae Cordd gafuiog yn cael ei dwyn yn mlaen at lan y môr, ac yn ei phen eithaf y mae bryncyn o bridd, wedi ei fwriadu i amddiffyn y lle glanio. Sylfaenwyd y castell hwn gan Hugh Lupus iarll Caerlleon, a Hugh Goch iarll yr Amwythig, yn 1098, pryd y goresgynasant yr ynys, ac yr ymddygasant gyda mwy o farbareidd-dra chaidd at y brodorion druain, yn enwedig at un o'r enw Kenred, nag a anurddodd hanesyddiaeth un wlad erioed. Rhagluniaeth a ddanfonodd Magnus, brenin Norway, i ddial am eu creulondeb. Ymddengys fod ei ddyfodiad ef yn hollol ddamweiniol. Cynygiodd lanio, ond gwrthwynebwyd ef gan yr ieirll. Magnus a safai ar ben blaen ei long, a chan alw ato un o'r rhai goreu o'i saethyddion, arllwysasant ar unwaith eu holl saethau at iarll yr Amwythig, yr hwn a safai yn gyflawn-arfog ar y lan. Trywanodd saeth ef trwy un o'i lygaid, yr unig fan nad oedd wedi ei amddiffyn.* Y buddugoliaethwr, wrth ei weled yn neidio i fyny yn ei ing marwol, yn drahaus a waeddodd allan, yn ei iaith ei hun, *Leit loupe*—hyny ydyw, *Dawnsied!*†

Yr oedd gwarchawdlu yn yr amddiffynfa hon mor ddiweddar ag amser Siarl I.; pryd y cedwid hi dros y senedd gan Syr Thomas Cheadle; ond cymerwyd hi gan y milwriad Robinson yn 1645, neu 1646.‡

*Penmon.*] Oddeutu milldir yn mhellach ymwelais â phriordy *Penmon*, yr hwn, fel y blaenaf, sydd ar lan y môr. Y gweddillion o hono ydynt yr ystafell fwyta, a'r eglwys; rhan o'r olaf a ddefnyddir yn bresenol. O'r tu fewn y mae cofadail fechan, yn hysbysu fod Syr Thomas Wilford, o Ildington, yn Nghaint (un o ferched pa un a briodasai Syr Richard Bulkeley,) wedi marw Ionawr 25ain, 1645. Oddeutu milldir oddiwrth lan y môr y mae ynys fechan a elwir *Priestholm*, neu Ynys Seiriol, neu Glannauch,§ yr hwn le, efallai, a allasai fod yn breswylfod y brodyr, oblegyd y mae y mynachdy yn myned dan y ddau enw: weithiau gelwid hwy *Canonici de insula Glannauch*.|| Dichon fod rhai o honynt yn preswylio ar y cyfandir, i edrych ar ol yr eiddo, a'r lleill i ddwyn ymlaen y defosiynau mewn neillduaeth. Yr unig olion o'u preswylfod ydyw twr ysgwâr; ond y mae digonedd o esgyrn bodau dynol, yn wasgaredig i fyny ac i lawr, yn brofion o'i sancteiddrwydd tybiedig, ac o ddymuniad coelgrefyddol y bobl am gael eu claddu yn y fan hon. Yr encilwyr cyntaf i'r ynys hon, yn ol Giraldus, oeddynt feudwyaid; am ba rai (fel arfer) y mae yn adrodd chwedl ofergoelus, sef, pan y byddai iddynt anghytuno, fod pla o lygod yn aflonyddu arnynt; y rhai a ymadawent mor fuan ag y darfyddai eu gelyniaeth at eu gilydd.¶ Eu holynwyr oeddynt fynachod duon, wedi eu cysegru i'r Forwyn Fair, a'u gwaddoli gan Lewelyn ap Iorwerth, yn flaenorol i'r flwyddyn

* Torfæi Hist. Norveg. iii. 423.

† Girald. Hist. Cambr. 867. Sir Rich. Hoare's ed. vol. ii. p. 105. ‡ Plas Gwyn MSS.

§ A'i ysgrifenu fel arall, hwn ydoedd *Glannawc*, neu *Ynys Glannog;* saif ei dyddordeb hanesyddol ar y ffaith fod Cadwallon wedi cael ei warchae ynddi pan y gwasgwyd arno gan Edwin yn 629; y cofnodiad yn yr *Annales Cambriæ* ydyw, "Obsessio Catguollaun regis in insula Glannauc." Yr Edwin hwn, brenin yr Eingl yn Northumbria, a orchfygodd Ynys Môn, ac a roddodd iddi yr enw *Anglesey*, neu Ynys yr Eingl. J.R.

|| Dugdale Monast. ii. 383. "Mynachod o Ynys Glannauch."

¶ Gir. Cambr. lib. ii. c. 6. p. 868. Sir Rich. Hoare's ed. vol. ii. p. 108.

Digitized by Google

1221,* oud, yn ol hanes Môn, sylfaenwyd hi gan Faelgwyn Gwynedd. Yr oedd y prif fynach yn un o dri arglwyddi ysprydol Ynys Fôn. Ar adeg y dadgorphoriad, prisid y cyllidau yn 47*l.* 15*s.* 3*c.* yn y cyfan, neu 40*l.* 17*s.* 9*c.* yn glir; y rhai a roddasid, yn y 6ed o deyrnasiad y frenines Elisabeth i un o'r enw John More.

*Ynys Seiriol.* Y mae y sianel, neu y *Sound*, fel y gelwir hi, rhwng Môn ac Ynys Seiriol, yn ddwfn iawn; a dyna y dramwyfa gyffredin i longau wrth fyned i, neu ddyfod allan o, angorfa Biwmaris. Ar yr ochr arall y mae y Sianel Ddwyreiniol, yr hon, ar ddistyll trai, sydd rhwng yr ynys a phwynt Traeth Telafen, ychydig yn fwy na chwarter milldir o led, ac yn nofiadwy i fân longau yn unig. Y mae yr ynys oddeutu milldir o hyd, yn dra uchel, ac yn amgylchynedig gan glogwyni, oddieithr ar yr ochr nesaf i Benmon, ac hyd yn nod yno y mae yr esgyniad yn syth iawn. Llechwedda y tir yn raddol o'r copa hyd ymylon y clogwyni. Yn ystod cyfran o'r haf y mae yr holl ynys yn llawn o adar gwibdeithiol. Y llechwedd ar yr ochr sydd yn fyw o'r PUFFIN AUKS, *Br. Zool.* i. No. 232, y rhai a chwyrlïant yn ddibaid oddiamgylch, disgynant, ac ânt o'r golwg i'w tyllau; neu deuant allan, safant yn syth, edrychant arnoch yn y dull mwyaf digrifol, yna ehedant i ffwrdd, ac naill ai cyflawnant eu chwyldroadau, neu ânt allan i'r môr i chwilio am ymborth.

*Pâledn.* Eu hymddangosiad cyntaf sydd oddeutu y pummed neu y degfed o Ebrill; ond ymadawant â'r lle, braidd bob aderyn, ddwywaith neu dair cyn ymsefydlu. Eu gwaith cyntaf ydyw tori tyllau i ddaearu; yr hyn a wneir gan y gwrrywiaid, ac y maent mor brysur ar yr adeg hono fel y gellir eu dal â llaw. Bydd rhai yn arbed y drafferth iddynt eu hunain o wneyd tyllau i ddaearu, ond cymerant feddiant o eiddo y cwningod, y rhai, yn ystod adeg y *Puffins*, a enciliant i'r ochr arall o'r ynys.

Dodwyant un ŵy gwŷn. Y mae y gwrrywiaid, yn gystal a'r benywiaid, yn cyflawni y gwaith o eistedd, ac yn cymeryd lle y naill y llall ar adeg ymborthi. Deorir y cywion yn nechreu Gorphenhaf. Y mae gan eu rhieni y serch cryfaf atynt; dim ond i chwi afael ynddynt gerfydd eu hesgyll, bydd iddynt frathu eu hunain yn y dull mwyaf creulawn, ar unrhyw ran o'u cyrph ag y gallant ei gyrhaedd, megis pe byddent wedi myned i wan-obaith: a phan ollyngir hwy yn rhydd, bydd iddynt brysuro ymaith at eu cywion yn y man daearu. Y mae y trwst a wnant pan ddelir hwy yn ddychrynllyd, ac heb fod yn annhebyg i ymgeisiadau mudan i lefaru. Derfydd yr anwyldeb yma cyn adeg eu hymadawiad, yr hyn fydd braidd yn gyson tua'r unfed ar ddeg o Awst. Yna ânt i ffwrdd, bob un o honynt, a gadawant ar eu hol y rhai ieuaingc a fyddont heb lawn bluo, yn ysglyfaeth i'r gwalch ymfudol, yr hwn a wylia enau y tyllau am eu hymddangosiad, gan y gorfodir hwy i ddyfod allan yn fuan, neu farw o newyn.

*Ymborth.* Ymborth yr adar hyn ydyw mân-benwaig, neu wymon, yr hyn a'u gwna yn dra drygflasus; eto y mae y cywion, wedi eu piclo, a'u cadw gyda pher-chwaethon, yn cael eu hoffi yn fawr gan rai pobl.

*Cyfnewidiad yn eu pigau.* Ymddengys yn sicr nad yw y Puffins yn bridio hyd y drydedd flwyddyn o'u hoed. Profir hyn gan y sylwadau a wnaed gan y parchedig Hugh Davies ar wahanol ffurfiau eu pigau, yn mhlith

* Tanner, 699.

Digitized by Google



HEBOG YNYS SEIRIOL.

**PUFFIN AUK.**

Digitized by Google

Digitized by Google

y miloedd o'r rhywogaeth a welodd ar wasgar, megis ag y crybwyllais eisoes, (tudal. 358.) Y mae efe wedi sylwi arnynt yn ngwahanol dymhorau eu bywydau. Y rhai a dybiai efe eu bod o'r flwyddyn gyntaf, oeddynt fychain, gwanllyd, yn amddifad o gwysau, ac o liw tywyll; y rhai o'r ail flwyddyn oeddynt gryn lawer yn fwy ac yn gryfach, o liw goleuach, gydag olion gwanaidd o'r cwysau yn eu bôn; y rhai o flynyddau addfetach oeddynt o liwiau mwy bywiog, ac o nerth mawr. Yn mhlith y myrddiynau a heidiant bob blwyddyn i Ynys Seiriol, nid oes yr un o honynt wedi cael sylwi arno nad oedd ei big o dyfiant unffurf. Dichon y deil yr un sylw yn dda gyda golwg ar WALCH Y PENWAIG (Razor-bill, Br. Zool. i. No. 230,) gan fod Mr. Davies wedi cael lluoedd o rai gyda phigau llawer llai nerthol na'r rhai a fynychant yr ynys hon; o liw unffurf du, ac heb y cŵys gwŷn nodweddiadol, a'r rhychau duon.

*Pysgod.*] Y mae y sianel rhwng Ynys Seiriol a sir Fon wedi cynyrchu rhai pysgod tra anghyffredin. Y *Morgi Biwmaris* (Brit. Zool. iii. No. 50;) y *Morris*, No. 67; a'r *pysgodyn cegddu* trifforchog, No. 84, ydynt rywogogaethau newyddion a ddaliwyd yn y môr yma.* Yr wyf yn ddyledus i'r diweddar Mr. William Morris o Gaergybi, am yr un ag y rhoddais ei enw arno. Y Parchedig Hugh Davies a'm hanrhegodd â'r ddau arall. Y mae y *gragen lâs* newydd, neu yr un a elwir *umbilicated* (y fogeilaidd,) i'w chael yn fynych yn nghymydogaeth yr ynys hon.

*Planigion.*] Y mae y *Smyrnium Olasatrum*,† neu yr *Alexanders*, braidd yn gorchuddio y pen de-orllewinol o'r ynys, a bwyteir hwy yn awyddus (wedi eu berwi) gan forwyr newydd ddyfod adref o fordeithiau pell. Yr *Iris Fœtidissima*, neu yr helesg drewllyd, sydd yn hawdd eu cael oddeutu y tŵr ysgwâr, ac yn fynych yn cael eu gwneyd yn bowltis, gan y bobl gyffredin, a hyny yn llwyddiannus, at yr yspinog, neu ddolur y gwddf.

*Baron-hill.*] Dychwelais i Biwmaris, ac oddiyno ymwelais â *Baron-Hill*, preswylfod arglwydd Bulkeley, yr hwn a saif ar ben llanerch eang, yn ymlechweddu i lawr at y dref, ac yn meddu coed o'r tu cefn ac ar yr ochrau, y rhai ydynt yn addurniadau prydferth i'r wlad. Sylfaenydd Baron-hill ydoedd Syr Rhisiart Bulkeley, person urddasol o'r enw hwnw.‡ Adeiladodd ef yn 1618; yn flaenorol i'r amser hwnw yr oedd preswylfod y teulu yn Cwrt Mawr, yn y dref gyfagos, ac ar ol hyny mewn lle arall, a elwid yr Henblas. Y mae y preswylfod presenol yn ddiweddar wedi cael ei drwyadl gyfnewid, gyda chwaeth ragorol, gan ei feddiannydd ardderchog, yn unol â chyfarwyddiadau yr adeiladydd cywrain hwnw, Mr. Samuel Wyatt.

Yr olygfa o Baron-Hill, mewn gwirionedd, ydyw ymffrost yr ynys. Y mae y môr yn ffurfio morgilfach ardderchog, y Fenai yn ymagor iddo gyda holl fawredd un o afonydd America. Terfyniad y dwfr o'n blaenau ydyw cyfres

* Rhestrwyd y *cegddu trifforchog* gan ei ddarganfyddwr cyntaf, y parchedig Hugh Davies, yn ngenedl newydd y *Batrachoides*, a darlunir ef fel hyn. BAT. *trifurcatus* in foveola dorsali, pinnæ primæ rudimento, serie verrucarum utrinque 8—10, cirro mentali. Gwel y "Gentleman's Magazine" am Fehefin 1809.—Y mae dyfyniadau o lythyrau y naturiaethwr manwl a chywir hwnw, ar bwngc y "*Morris*" a "Morgi Biwmaris," yn cael eu rhoddi yn yr Attodiad. GOL.

† Smith, Fl. Br. p. 328. GOL.

‡ Ni bydd i mi yma dori ar fy nhaith gyda'i hanes; ond yn gymaint a'i fod yn deilwng o sylw y darllenydd, cyfeiriaf ef at yr Attodiad, Rhif xvi.

Digitized by Google

Digitized by Google

miloedd o'r rhywogaeth

dal. 358.) Y mae

au. Y rhai a dybiai

d, yn amddifad o

yn lawer yn fwy ac

ysau yn eu bôn; y rhai

, ac o nerth mawr.

ys Seiriol, nid oes yr

fiant unffurf. Dichon

ENWAIG (Razor-bill, Br.

dd o rai gyda phigau

liw unffurf du, ac heb y

*ysgod.* ] Y mae y siane pysgod tra

);) y *Morris*, No. 67; a'r

gaethau newyddion a

ddar Mr. William Morris

Parchedig Hugh Davies

newydd, neu yr un a

n nghymydogaeth yr ynys

*Planigion.* ] Y mae y gorchuddio y

wyddus (wedi eu berwi)

Yr *Iris Fœtidissima*, neu yr

y tir ysgwâr, ac yn fynych

a hyny yn llwyddiannus, a

*Baron-hill.* ] Dychwelais i wylfod arglwydd

ymlechweddu i lawr at y dref

rhai ydynt yn addurniadau

Syr Rhisiart Bulkeley,

1618; yn flaenorol i'r amser

yn y dref gyfagos, ac ar ol

y preswylfod presenol yn

chwaeth ragorol, gan ei

yr adeiladydd cywrain hwnw.

Yr olygfa o Baron-Hill,

y môr yn ffurfio morgilfach

awredd un o afonydd Amer ... gael,

* Rhestrwyd y *cegddu triffordog* ... m 1871:

ngenedl newydd y *Batrachoides*, ... 47. Ar-

primo rudimento, serie verrucarum ... faith ddi-

dine" am Fehefin 1909.—Y mae dyfyn

bwnge y "*Morris*" a "Morgi Biw ... : "Samson

† Smith, Fl. Br. p. 328. Gol.

‡ Ni bydd i mi yma dori ar fy ... Gruffydd ap

y darllenydd, cyfeiriaf ef at yr

haner-cylchog o greigiau a mynyddoedd, y penaeth ydyw y Wyddfa, gyda'u cribau yn ymnyddu i'r cymylau, a'u gwaelodion wedi eu toreithiog amaethu, ac yn llechweddu yn raddol hyd at fin y dwfr. Y penrhyn aruthrol, Penmaenmawr, a chrynswth anferth Llandudno, ydynt nodweddau afrosgo ond tarawiadol, ac yn ffurfio cyferbyniad cryf i'r rhanau mwyaf esmwyth a boddhaol o'r olygfa.

*Cromlech.*] Aethum yn mlaen ar fy nhaith, ac yn Trefawr aethum heibio i *Gromlech* fawr ac afrosgo, gydag olion o rai ereill cyfagos. Cyr-

*Plas Gwŷn.*] haedd *Plas Gwŷn*, eisteddle fy nghyfaill* Paul Panton, ysw., yn hawl ei wraig gyntaf, Jane, merch i William Jones, ysw. Adeiladwyd y tŷ gan Mr. Jones, a gellir ei ystyried yn un o'r rhai goreu yn yr ynys. Yma y cedwir dau bortread, penau dau o esgobion, genedigol o Gymru. *Humphrey Humphreys*, yr hwn a fu farw yn esgob Henffordd yn 1712, yn 63 oed. Cafodd ei baentio gan Mrs. Mary Beale, pan oedd yn esgob Bangor; ac arddangosir ef mewn llewys lliain, gyda gwallt tywyll, a gwynebpryd da. Yr esgob arall ydyw *Robert Morgan*, yr hwn a fu farw yn esgob yr un esgobaeth yn 1673, a chofnodir iddo fod yn gymwynaswr i'w eglwys gadeiriol. Y mae yn yr un wisg a'r blaenaf; medda wallt byr glaswyn, cap du, clòs, a gwynebpryd caled.

*Traeth Coch.*] O Blas Gwŷn cymerais daith i *Draeth Coch*, morgilfach eang wedi ei gorchuddio â thywod cadarn; yn yr hwn, ar yr ochr orllewinol, y mae cymysgedd mor fawr o gregyn, nes y mae yn cael ei arfer fel gwrtaith trwy bob rhan o'r ynys, o fewn pellder rhesymol. Ar yr ochr ddwyreiniol, o fewn tair milldir i Blas Gwŷn, yn agos i lan y môr, y mae dau fryncyn crwn ar bob ochr i ffos ddofn yn arwain at eglwys Llanddonan. Ymddengys fod y rhai hyn yn waith y Daeniaid, wedi eu bwrw i fyny i amddiffyn eu llongau yn eu gwibdeithiau lladronaidd; anffawd ag yr oedd yr ynys hon, yn ol ysgrifeniadau y beirdd, yn dra darostyngedig iddi.

*Bwrdd Arthur.*] Uwchlaw Llanddona y mae bryn uchel, a elwir *Bwrdd Arthur*. Dichon mai yr enw priodol ydoedd Din, neu Ddinas Sulwy; oblegyd y mae eglwys odditano yn dwyn yr enw Llanfihangel Din Sulwy. Ar ei phen uchaf y mae gorsaf Brydeinig fawr, wedi ei hamgylchu a rhês ddwbl o geryg, gyda'u pigau meinion at i fyny; ac mewn rhai manau y mae y gaer wedi ei ffurfio o geryg mân. Yn y cylch y mae olion adeiladau hirgrwn: y fwyaf yn ffurfiedig o ddwy rês o geryg fflat wedi eu gosod ar eu penau. Preswylfeydd y meddiannwyr am dymhor oedd y rhai hyn. Rhaid ei fod yn lle o nerth mawr; oblegyd, heblaw yr amddiffyniad celfyddydol, y mae y bryn yn llechweddu yn syth ar bob ochr, ac y mae yr ymyl, y nesaf i'r caerau, gan mwyaf yn glogwyni. Y mae yn werth y drafferth i esgyn y bryn hwn, er mwyn yr olygfa eang a geir oddiarno; cymysgedd o fôr, craig, a mynyddoedd, yn aruthrol o ardderchog.

Uwchlaw iddo, nododd y parchedig Hugh Davies i mi yr *Hypericum montanum* (eirinllys y mynydd); ac islaw, ar yr ochr orllewinol, y *Cistus hirsutus* (rhosyn y creigiau.)

* Bu farw y cyfaill hwn i Mr. Pennant yn 1797, a dylynwyd ef gan ei fab o'r un enw. Rhinweddau ac amrywiol gyneddfau da yr hwn yr ateiir y Golygydd rhag gwneyd cyfiawnder, rhag iddo gael y cymeriad o fod yn wenieithiwr, neu o ufuddhau yn ormodol i rwymedigaethau cyfeillgarwch gwresog a brwdfrydig. Gol.

Digitized by Google

*Llaniestyn.*] Disgynais i eglwys *Llaniestyn*, yr hon sydd yn hynod ar gyfrif oedd ei sant nawddogol, St. Estyn, neu Iestyn,* mab Geraint, marchog teilwng o fwrdd crwn y brenin Arthur, yr hwn a laddwyd gan y Sacsoniaid yn y gwarchae ar Lundain! Y mae llun y sant yn arddangos dyn gyda chwcwll am ei ben, barf gron fawr, a blew ar ei wefus uchaf ac isaf. Y mae am dano fantell hirllaes, wedi ei sicrhau gyda boglwm: yn un llaw y mae ffon, gyda llun rhyw anifail ar y pen uchaf iddi; yn y llall y mae rhôl a rhyw ysgrifen arni: o gwmpas ei fantell hirllaes y mae gwregys a chord hir. Ymddengys oddiwrth y cerfiad mai offrwm† addunedol ydoedd hwn. Yr ydwyf yn ei roddi fel y cefais ef gan fy nheilwng a'm cywrain gyfaill, yr anrhydeddus Daines Barrington.‡ "Hic jacet Santtus Yestinus cui Gwenllian, filia Madoc et Gryffyt ap Gwilym, optulit in oblocoem istam imaginem p. salute animarum s."§ Wrth y cord y mae yn amlwg fod y Gwenllian dduwiolfrydig yn tybied fod St. Iestyn yn Ffrancisiad; cam-amseriad digon cyffredin yn yr amseroedd boreuaf.

*Penmynydd.*] Taith arall ydoedd i *Benmynydd*, oddeutu dwy filldir i'r dehau o Blas Gwŷn, ar un adeg yn breswylfod hynafiaid Owain Tudur, ail ŵr i Catherine o Ffraingc, brenines waddolog Harri V.; "yr hon," fel y mae y gonest Halle yn ein hysbysu, "gan ei bod yn ieuangc a chnawdol, a ddylynai ei mympwyon ei hun, yn hytrach na chynghor caredig, a chanddi fwy o barch i'w serchiadau neillduol nag i'w hanrhydedd cyhoeddus, a gymerodd yn ŵr yn ddirgel (yn 1428) foneddwr golygus, a pherson hardd, wedi ei addurno *Owain Tudur.*] â lluaws o ddoniau naturiol a grasusol, ac a elwid *Owain Tudur*, wedi hanu o arddderchog hynafiaid, ac o linach hynafol Cadwaladr, brenin olaf y Brytaniaid."|| Y briodas hon, a fu mor bwysig yn ei chanlyniadau, a adferodd y llinach o dywysogion Prydeinig i'r deyrnas hon,

Ni chwynwn mwy am Arthur sydd ar goll:
A henffych well, chwychwi gynwynol deyrn;
I epil Prydain wen boed henffych well!

Teyrnasodd y rhai hyn am hir amser, o dan yr enw teulu Tudur; yr hiliogaeth gymysg wedi darfod ar esgyniad Harri VII., ŵyr i'n cydwladwr ardderchog.

Bu Owain ei hunan yn anffodus. Collodd ei gymhares freninol yn 1437, wedi iddi ddwyn iddo dri mab ac un ferch, Edmwnd, Jasper, ac Owain; yr olaf a ymgymerodd â bywyd mynachaidd¶ yn mynachlog Westminster, ac a fu farw yn fuan ar ol hyny; a bu farw y ferch yn ei mabandod. Ymddengys, ar ol marwolaeth eu mam, fod Edmwnd a Jasper wedi cael eu gosod yn barchus o dan ofal Catherine de la Pole, merch i Michael de la Pole iarll Suffolk, ac abades Berking. Y mae deiseb o'i heiddo hi, wedi ei hamseru yn 1440, ar gael,

* Rhoddir dysgrifiad o'r ddelw hon o St. Jestyn gan Mr. Bloxam, yn yr *Arch. Camb.* am 1871: a cheir cerfiad o hono, yr hwn y dywed ei fod yn dra rhagorol, yn yr *Arch. Camb.* am 1847. Arddangosir St. Jestyn mewn gwisg meudwy, ac ystyria Mr. Bloxam fod y ddelw yn berffaith ddigymhar. Y.P.

† Dylid cymharu yr offrwm hwn â'r cyfryw gerfiadau a'r un canlynol yn y Deheudir: "Samson posuit hanc crucem pro anima eius." J.R.

‡ Archaeologia, v. 146.

§ "Yma y gorwedd St. Iestyn, i'r hwn yr offrymodd Gwenllian, ferch Madoc ap Gruffydd ap Gwilym, y ddelw, er iachawdwriaeth eneidiau sanctaidd."

|| Halle Chr. 41.

¶ Sandford's Geneal. 291.

Digitized by Google

yn ymofyn am daledigaeth rhyw arian oedd yn ddyledus iddi ar eu cyfrif hwynt.* Yn ystod bywyd y frenines, ni wnaed nemawr o sylw o'r briodas, er fod cyfraith wedi ei gwneyd ar ol y dygwyddiad hwnw, yn gwahardd i unrhyw berson, o dan ddirwyon trymion, briodi brenines waddolog Lloegr, heb ganiatâd neillduol y brenin.† Ar farwolaeth Catherine, collwyd pob parch i'w phriod: ymaflwyd ynddo, a thraddodwyd ef yn gyntaf i Newgate, o ba le y diangodd trwy gymhorth ei gyffeswr a'i was. Wedi cael ei ddal eilwaith, traddodwyd ef i gadwraeth iarll Suffolk, cwnstabl castell Wallingford,‡ ac ar ol peth amser, cafodd ei draddodi drachefn i Newgate.§ Diangodd eilwaith. Nid yw parhad ei ail-garchariad yn hysbys. Ar ol cryn amser, rhoddwyd graddau uchel o anrhydedd ar ei ddau fab hynaf, haner brodyr y brenin. Yn y flwyddyn 1452, gwnaed y ddau yn ieirll; Edmwnd a wnaed yn iarll Richmond, a Jasper yn iarll Penfro. Yr oedd Harri, ar yr adeg yma, yn cael aflonyddu arno gan ymhoniad cyhoedd y duc York i'r olyniad, a thybiai mai doeth ydoedd cadarnhau ei ddylanwad trwy bob moddion dichonadwy. Y Cymry, yn falch o'r anrhydedd a ddodasid ar eu cydwladwyr ieuaingc, a fuont yn gefnogwyr ffyddlawn byth ar ol hyn i dŷ Lancaster.

Yr oedd gan Owain, heblaw hyny, fab anghyfreithlawn, a elwid Dafydd, a wnaed yn farchog gan Harri VII., a'r hwn a roddodd iddo ef yn wraig, Mary, merch ac etifeddes John Bohun o Midhurst, yn Sussex, a chyda hi etifeddiaeth fawr.‖ Ni wnaed nemawr o sylw o Owain hyd y flwyddyn 1460, pryd, fel y mae y freinteb yn ein hysbysu, y rhoddwyd iddo, ar gyfrif ei wasanaeth da, y parciau, ac hefyd borfa y parciau yn arglwyddiaeth Dinbych, yn nghyda gwarcheidwadaeth yr unrhyw arglwyddiaeth.¶ Yn y flwyddyn nesaf, ymladdai yn ddewr o dan faner ei fab Jasper, yn mrwydr Croes Mortimer; ni fynai adael y maes, ond cymerwyd ef gydag amryw o foneddigion Cymreig,** a dienyddiwyd ef gyda hwynt yn fuan wedi hyny yn Henffordd, a chafodd ei gladdu yn eglwys y Grey Friars yn y ddinas hono.††

Er fod genedigaeth Owain yn cael ei drygliwio, y mae yn sicr ei fod o darddiad uchel iawn.

*Of a noble race was Shenkin, of the line of Owen Tudor.*‡‡

Harri VII. yn gynar yn ei deyrnasiad, a roddes allan gomissiwn i Syr John Leiaf, Gutyn Owain yr offeiriad, a nifer o rai ereill, i wneyd ymchwiliad i'w ddisgyniad o ochr ei dad; y rhai a brofasant, o'n croniclau Cymreig, *yn ddiddadl*, ei fod "yn disgyn yn uniongyrchol, yn y llinach wrrywaidd, oddigerth un ddynes, o Brutus, ŵyr i Æneas y Trojan, a'i fod yn fab i Brute mewn pum' ugain o raddau."§§ Mi a doraf ychydig yn fyrach na'r llinach hirfaith yma. Yr oedd Owain Tudur yn ddiau o darddiad pendefigaidd. Yr oedd yn seithfed mewn disgyniad o Ednyfed Fychan, cynghorydd, ac arweinydd byddinoedd Llywelyn Fawr, ac yn rhyfelwr llwyddiannus yn erbyn y Saeson. Ei darddiad

* Rymer, x. 828. † Drake's Parliam. Hist. ii. 211. ‡ Rymer, x. 685. § Yr unrhyw
‖ Camden, i. 204. Dugdale Baron. i. 187. ¶ Rymer, xi. 439.
** Yn mysg y rhai yr oedd Dafydd Llwyd a Morgan ap Reuther. Holinshed, 660.
†† Leland Itin. iv. 86, viii. 36.
‡‡ O hil ardderchog yr oedd Siencyn, o linach Owain Tudur.
§§ Gwel Adroddiad y Comissiwn, &c., yn Wynn's Hist. Wales, 331, &c.

Digitized by Google

oedd o Marchudd, un o'r pymtheg llwyth. Gwraig Ednyfed oedd Gwenllian, merch i Rhys, tywysog Deheubarth Cymru: felly gallai ymffrostio mewn dau ddisgyniad breninol, a thraddodi achyddiaeth heb fod yn annheilwng o'r ymerodraeth Brydeinig.

Rhaid fod Owain wedi bod yn offeryn i ddwyn ymlaen ei ddyrchafiad ei hun, ac yn ddyledus am dano yn gwbl i'w deilyngdod personol. Yr oedd ei daid, Tudur ap Gronw, yn ddyn o wroldeb mawr, ac yn hoffus gan Iorwerth III., a chafodd yr anrhydedd o'i wneyd yn farchog ganddo. Bu farw a chladdwyd ef Medi 19eg, 1367, yn y mynachdy yn Mangor. Ei bedwerydd mab, Meredydd, nid oeddmewn uwch swydd nag yswain i'r esgob. Wedi cyflawni lloruddfiaeth, efe a ffôdd o'i wlad, a bu fyw yn alltud; yn ystod yr amser yma, esgorodd ei wraig ar Owain, testyn ein hanes presenol. Pa fodd y cafodd ei arwain i'r llŷs Seisonig nis gwyddis; ond fe ddichon mai trwy ei wasanaeth milwraidd, y ffordd gyffredin i anrhydedd y pryd hyny.

*Tŷ Penmynydd.* Gweddillion preswylfod y Tuduriaid, y rhai sydd i'w gweled yn y ffermdy presenol, ydynt ddrws y porth, a hen fantell simnai y neuadd. Y mae rhai pais-arfau, a'r amser pan yr adeiladwyd neu yr adgyweiriwyd y lle, wedi eu dyogelu hefyd, yn nghyda chynlythyrenau enwau y perchenogion. Yr oedd y Tuduriaid, er's cryn lawer o amser cyn i'r hiliogaeth ddarfod, wedi cymeryd i fyny yr enw *Owain*. Rhisiart oedd yr etifedd gwrryw diweddaf, ac yr oedd yn sirydd y sir yn 1657. Margaret, etifeddes y tŷ, a briododd Coningsby Williams, ysw., o Lan y gors, yn yr ynys hon, yr hwn a'i meddiannodd am ei oes. Wedi hyny gwerthwyd ef i arglwydd Bulkeley, yn moddiant olynydd yr hwn y mae yn parhau.

*Eglwys Penmynydd.* Yn *Eglwys Penmynydd* y mae cofadail dra phrydferth o alabastr gwŷn, wedi ei symud ar adeg y dadgorphoriad o fynachlog Llanfaes i'r lle hwn; dichon iddi gael ei chodi er cof am un o deulu Tudur,* yr hwn a gladdwyd yma. Arni y mae llun dyn mewn llawn arfogaeth, gyda helm bigfain, a chôt ddur i lawr hyd ei wasg. Y mae ei fonaldiges mewn ewcwll dew ac onglong. Eu traed a orphwysant ar lewod; a chynhelir eu penau gan angylion.

*Tregarnedd.* Oddeutu milldir yn mhellach ymwelais â *Thregarnedd*, yn mhlwyf Llangefni, ac ar un adeg yn breswylfod y gwrol *Ednyfed Fychan.* *Ednyfed Fychan*, am yr hwn y crybwyllwyd yn tudal. 398. Ei arfau ar y cyntaf oedd pen Twrc wedi ei dori i ffwrdd, yn gwisgo aeldorch aur: ond ar ol iddo orchfygu y Saeson, y rhai oeddynt yn goresgyn ein cyffiniroedd, a lladd tri o'u prif gadbeniaid, penau y rhai ddyg i'w feistr Llewelyn Fawr, cyfarwyddodd y tywysog, fel gwobr, fod iddo wisgo coch, a chwpl ermin rhwng tri phen Sais wedi eu tori. Hanodd yn uniongyrchol o hono Harri VII. a'r VIII., Iorwerth VI., y freninès Mari, a'r freninès Elisabeth, a phob pen coronog yn Lloegr byth ar ol hyny, heblaw arwyr heb fod yn llai godidog o ran eu gradd. Yn eu plith yr oedd *Syr Gruffydd Llwyd.* *Syr Gruffydd Llwyd*, mab Rhys ap Gruffydd ap Ednyfed Fychan. Y boneddwr hwn a dderbyniodd gan Iorwerth I. yr anrhydedd o fod yn

* Rhoddir hanes cyflawn am Dduduriaid Penmynydd yn yr Arch. Camb. am 1869. Dysgrifir y cofadail hefyd yn yr un gyfrol, ac yn fwy llawn mewn un forouach, gan Mr. Bloxam. T.P.

Digitized by Google

farchog, am ddwyn iddo y newydd am enedigaeth ei fab Iorwerth o Gaernarfon. Gwnaeth warogaeth am ei diroedd yn Nghymru i'r tywysog ieuangc yn Nghaerlleon; ond, trwy ei fod yn ddigllawn oblegyd y camwri a oddefai ei gydwladwyr dan yr iau Seisonig, efe a feddyliodd am wrthryfela. Rhwng y blynyddau 1316 a 1318, efe a amcanodd ffurfio cynghrair âg Iorwerth Bruce, brenin byrhoedlog yr Iwerddon. Pasiodd llythyrau rhyngddynt, ond yn aneffeithiol.* O'r diwedd, oddiar fawredd ei yspryd, efe a benderfynodd ei hunan ryddhau ei wlad oddiwrth y caethwasiaeth ag y buasai efe ei hunan, o bosibl, yn beth cymhorth i'w dwyn iddo, a chymerodd arfau i fyny yn 1322,† ac am enyd rhedodd dros y wlad gyda thanbeidrwydd anwrthwynebadwy. O'r diwedd efe a ddarostyngwyd, a gymerwyd, a diau iddo oddef yr un dynged gyffredin a'n gwrthryfelwyr dewrfrydig. Yr wyf yn cael ei fod wedi cadarnhau ei dŷ yn Nhregarnedd gyda ffos a chaer gref, a gwneyd amddiffynfa gadarn arall oddeutu tri chwarter milldir oddiyno, yn Morfa Malltraeth, a elwid Ynys Cefenni; yr hon a wnaethai efe yn ynys trwy ddwyn o'i hamgylch ddyfroedd yr afon Cefni:‡ pob un o ba rai sydd yn aros eto. Y mae y ffos braidd yn berffaith, ac yn agos i bedair llath o ddyfnder, ac wyth o led. Ei ferch Morfydd, un o'i gydetifeddesau,§ a drosglwyddodd, trwy briodas, yr etifeddiaeth hon, sef ei chyfran hi, i Madog Gloddaeth; a dylynodd olyniad y tŷ hwnw hyd 1750, pryd y cafodd ei throsglwyddo gan y diweddar Syr Thomas Mostyn i Mr. Owen Williams.

*Carnedd fawr.*] Cymerir enw y lle hwn oddiwrth *Garnedd* fawr, neu bentwr o geryg, yn amgylchynedig gan feini mawrion wedi eu gosod yn syth, mewn cae cyfagos. Ymddengys fod oddi tani fynedfeydd wedi eu ffurfio ar yr ochrau a'r pen uchaf gan geryg gwastad, neu yslabiau. Dyma oeddynt y manau lle y claddid y meirw.‖ Nid am fod esgyrn neu ystenau bob amser yn cael eu darganfod ynddynt; oblegyd ymddengys fod y sylfaenwyr, fel adeiladwyr pyramidiau yr Aipht, yn cael eu siomi yn fynych yn eu gobeithion o gael eu gweddillion wedi eu dodi yn y beddadeiliau llafurfawr hyn.

Ychydig o flynyddau yn ol, o dan garnedd debyg i'r un yn Nhregarnedd, darganfyddwyd, ar dyddyn a elwid Bryn-celli-ddu, yn agos i breswylfod Syr Nicholas Bayley, fynedfa dair troedfedd o led, pedair troedfedd a dwy fodfedd neu dair o uchder, ac oddeutu pedair troedfedd ar bymtheg a haner o hyd, yr hon a arweiniai i ystafell, oddeutu naw troedfedd o dryfesur, a saith droedfedd o uchder. Y ffurf ydoedd chwe'onglog afreolaidd, a'r ochrau wedi eu gwneyd o chwech o yslabiau geirwon, un o ba rai a fesurai yn drawsonglog wyth droedfedd a naw modfedd. Yn y canol yr oedd piler anghelfydd o gareg, pedair troedfedd ac wyth modfedd o amgylchedd. Yr oedd hwn yn cynal y pen uchaf, yr hwn oedd yn gynwysedig o un maen mawr, yn agos i wyth droedfedd o dryfesur. Ar hyd ochr yr ystafell, os gallaf ddefnyddio y gair, yr oedd maingc o gareg, ar ba un y cafwyd esgyrn dynol, y rhai a faluriasant yn llwch braidd wrth gyffwrdd â hwynt: y mae yn debyg fod y cyrph ar y cyntaf yn cael eu gosod ar y faingc. Ceir profion fod yr hen Gauliaid yn gosod eu meirwon yn y dull hwn mewn celloedd; a'u bod yn gosod offeryn careg o dan

* Wynn's Hist. Wales, 311. † Powel, 383. ‡ Rowlands' MSS. § Sebright MSS.
‖ Gwel Borlase's Cornwal, p. 207, tab. xvii. fig. 1. iii; a'i Scilly Islands, 29, 30, tab. ii., at p. 18.

ben bob corph, yr hwn a wasanaethai fel gobenydd:* ond ni chafwyd dim o'r fath beth yn y beddrod hwn.† Y mae amgylchedd y garnedd arorweddol hon o ddeg a phedwar ugain i gant o droedfeddi. Ymddengys mai yr un ydyw a'r hon y sylwa Mr. Rowlands arni yn ei *Mona Antiqua*.‡

*Patriarch Tregaian.*] Ni ddylwn beidio crybwyll am batriarch mawr *Tregaian*, capeloriaeth yn y plwyf yma, yr hwn oedd yn byw yn y flwyddyn 1580, a bu farw yn yr oed o 105; ei enw ydoedd William ap Hywel ap Iorwerth. Cafodd o'i wraig gyntaf ddau ar hugain o blant, o'i ail, ddeg, o'i drydedd, bedwar; ac o'i ddwy ordderchwraig, saith; y cyfan yn dri a deugain. Yr oedd ei fab hynaf yn bedair a phedwar ugain yn 1581, a'i ferch hynaf yn ddeuddeg a thriugain; ac nid oedd ei fab ieuengaf y pryd hyny ond dwy flwydd a haner oed; felly rhwng ei blentyn hynaf a'i un olaf yr oedd yspaid o ddwy flwydd a phedwar ugain. Nid oedd dim llai na thri chant o bobl wedi hanu o'r cyff yma o fewn yr yspaid hwnw, o ba rai yr oedd pedwar ugain yn byw yn y plwyf hwn. Bychan o gorpholaeth ydoedd, o dymher siriol a digrifol; yn brin yn ei ymborth, gan fyw yn benaf ar laeth. Treuliai ei amser mewn gorchwylion gwledig, a'i amser hamddenol mewn pysgota a hela; a chadwodd ei gof a'i synwyrau hyd y diwedd.

Dychwelais i Blas Gwŷn, ac oddiyno croesais i'r Traeth Coch, i gorn gorllewinol y forgilfach a elwir *Castell-mawr*, penrhyn bychan, fflat ar y top, ac yn gysylltiedig â'r lan gan wddfdir isel. Y mae yn gyfansoddedig o gareg galch, yr hon a gludir i leoedd pellenig mewn llongau arfordirol, y rhai a orweddant mewn sianel fechan gerllaw y graig, ac y mae eu niferi yn fynych yn bywiogi yr olygfa. Darganfyddwyd bathodyn Rhufeinig yn y gymydogaeth hon; ond nid oes dim olion fod yma wersyll ganddynt erioed. Tu hwnt i Gastell-mawr, ar lan y môr, gwelais ddarnau mawr o fynor du, wedi eu llenwi â chregyn, a phethau ereill tebyg.

*Castell-mawr.*]

*Llugwy.*] Myned yn mlaen gyda glan y môr. Ar y llaw aswy y mae coed Llugwy, y rhai ydynt fawrion yn yr ynys hon. Perthynai yr etifeddiaeth gynt i'r Llwydiaid; yn bresenol i arglwydd Boston. Heb fod yn mhell o'r ffordd, yn nhiroedd Llugwy, y mae Cromlech o'r maintioli mwyaf anferth, o ffurf ysgwâr a gwastad. Ei mesuriad mwyaf ar draws ydyw dwy droedfedd ar bymtheg a haner, y ffordd leiaf, pymtheg troedfedd; ei thrwch yn dair troedfedd a naw modfedd; ei huchder oddiwrth y llawr yn ddim ond dwy droedfedd; yr oedd yn cael ei chynal gan amryw feini. Y Cymry, y rhai a briodolent bobpeth mawr i'r hyglod frenin Prydeinig, a alwent hon *Coeten Arthur*. Yn y coed y mae rhai cylchau Derwyddol, y naill yn agos iawn i'r llall.

*Cromlech fawr.*]

*Morgilfach Dulas.*] Croesi Traeth Llugwy, ac yn fuan wedi hyny marchogaeth dros forgilfach *Dulas*, yr hon hefyd sydd yn sych ar ddistyll trai. Rhed am oddeutu milldir a haner i'r wlad, a mynychir hi gan fân lestri, y rhai a gludant ymaith y ceirch a'r ymenyn o'r parthau hyn. Oddiallan i'w genau y mae ynys fechan, a elwir Ynys Gadarn. Myned heibio

* La Religion de Gaulois, ii. 312, plate 42.

† Byddai hwn yn *rúth* Cymreig, ond pa un a olygai ar y cyntaf *rúth* i'r marw (bedd-rawd) ai ynte *rúth* at breswylio yn y gauaf (gauaf-rawd,) nid yw yn gwbl eglur. J. R.

‡ P. 94, tab. vii.

i Lys Dulas, preswylfod Mrs. Lewis; ac yn fuan wedi hyny cyrhaedd eglwys *Llaneilian*, yn sefyll ar y creigiau heb fod yn mhell oddiwrth y môr.

*Llaneilian.*

Y mae wedi ei hadeiladu yn brydferth, ac y mae yn tori ffugur lled bwysig yn mysg yr eglwysi yn y parth yma o Gymru. Y mae yn gysegredig i St. Eilian (Eilian Ganaid.) Yr oedd efe gynt yn sant o'r fath mwyaf poblogaidd, a chanddo luaws mawr o ddylynwyr, y rhai a erfynient ei gymhorth i'w gwaredu oddiwrth amrywiaeth o anhwylderau. I enill ei ffafr arferent wneyd offrymau mawrion iddo, y rhai a gedwid mewn cist yn yr eglwys, a elwid *Cyff Eilian*. Ar un adeg yr oeddynt wedi cyrhaedd swm mor fawr, nes y darfu i'r plwyfolion brynu â hwy dri o dai anedd, at wasanaeth yr eglwys, y rhai a berthynant i'r fywioliaeth hyd heddyw.

Yn agos i'r fan hon yr oedd *Caswallon Law-hir* (Longimanus)* yn cynal ei lŷs. Yr oedd efe wedi rhoddi llawer o diroedd ac amryw ragorfreintiau i'r eglwys hon, yn mhlith pa rai yr oedd *Nawddfa*, neu gysegrfa. Yr oedd yn un o'r saith saint nawddogol i eglwysi yn Ynys Môn, y rhai oeddynt yn meddu hawl *(in capite)* i amrywiol diroedd; un o amodau yr hyn, fel yr ymddengys, ydoedd dyogeliad y nawddleoedd hyn.†

*Mynydd Parys.*

Oddiyma ymwelais â Mynydd Trysclwyn; ar ran o ba un, a elwir *Mynydd Parys* (y mae yn debyg mai oddiwrth un o'r enw Robert Parys, yr hwn ydoedd yn drysorydd Gogledd Cymru‡ yn nheyrnasiad Harri IV.) y caed y corph mwyaf o gopr a ddarganfuwyd erioed hyd y gwyddys. Y mae yr olwg allanol ar y bryn, yr hwn a gyfyd yn greigiau anferthol o greigrisial *(quartz)* gwynion, yn nodedig o arw. Llecha y mŵn mewn math o geuedd, ac y mae ar un ochr iddo lŷn bychan, ar ddyfroedd yr hwn, y rhai ydynt mor ddrygchwaethus ag eiddo llyn *Avernus*, ni wyddys fod un aderyn erioed wedi disgyn. Y mae yr holl randir, trwy y gorchwylion mwneiol, wedi ymgymeryd â'r ymddangosiad mwyaf gwyllt. Tardda mygdarth o'r tomenau o gopr llosgedig, a thaenant eu dylanwad gwenwynig am filldiroedd oddiamgylch. Yn y manau agosaf, y mae tyfiant llysiau wedi cael ei lwyr ddinystrio braidd; y mae hyd yn nod y mwsogl a chèn y creigiau wedi eu lladd; ac nid ymddengys fod dim yn alluog i wrthsefyll y mygdarth ond y glaswellt *Melic*§ porphoraidd, yr hwn sydd yn blodeuo mewn cyflawnder.

Nid oes genyf amheuaeth nad oedd y mwnglawdd hwn yn cael ei weithio er's amser pell yn ol. Ymddengys olion o'r hen orchwyliaethau mewn amryw fanau, yn cael eu dwyn yn mlaen trwy dori ffosydd, a thrwy boethi y graig yn wynias, yna bwrw dwfr yn sydyn i mewn, fel ag i beri hollt, neu grac; ac felly yn anghelfydd gyflawni lle powdwr gŵn.‖ Y mae darnau o siarcol hefyd wedi eu cael, yr hyn a brofa fod coed yn cael eu defnyddio at y pwrpas hwnw. Yn gymaint a bod y Brutaniaid yn cludo i mewn i'w gwlad eu holl weithiau prês,

* Nid oes ond un *Caswallon* mewn hanesyddiaeth Brydeinig, a hwnw oedd *Cassivelaunus*; y mae y lleill wedi eu ffurfio trwy gyfnewid ychydig ar yr enw Cymraeg *Cadwallon*. Rhaid mai yr un a feddylir yma oedd Cadwallon, tad Maelgwn Gwynedd, oblegyd gelwid ef Cadwallon Law-hir. J. J.

† Rowlands' Mona Antiqua, 133. 147. Y saint nawddogol ereill oeddynt St. Beuno, St. Cybi, St. Cadwaladr, St. Peirio, St. Machutus, neu Mechel, a St. Cyngar.

‡ Yr oedd un arall o'r un enw yn nheyrnasiad Iorwerth III.

§ Melica Cærulea, Lightfoot Fl. Scot. i. 96. Aira Cærulea, Hudson Fl. Angl. i. 33.

‖ Gwel tud. 47 o'r gwaith hwn.

Digitized by Google

y mae yn sicr mai y Rhufeiniaid a weithient y mwngloddiau hyn; ac y mae yn dra thebygol eu bod yn anfon eu mŵn i Gaer-hen i gael ei doddi, o ba le y daeth y deisen gopr nodedig a ddarganfyddwyd yno.* Gallai hefyd fod ganddynt aelwyd doddi yn yr ynys hon; oblegyd cafwyd teisen o gopr yn Llanfaethlu, ychydig o filldiroedd o'r lle hwn. Ei phwysau ydoedd haner cau'pwys, ac yr oedd arni nod tebyg i *L*.

Yn y flwyddyn 1762, daeth un Alexander Frazier i Fôn i chwilio am fwnau. Ymwelodd â Mynydd Parys; galwedd ar Syr Nicholas Bayley, a rhoddodd y fath hanes ffafriol am y lle, fel y tueddwyd y boneddwr hwnw i wneyd prawf, a suddo mwndyllau, neu shafftiau. Darganfyddwyd mŵn; ond cyn fod unrhyw swm wedi ei gael, gorlifwyd y mwngloddiau gan ddwfr. Yn mhen oddeutu dwy flynedd ar ol hyn, Meistri Roe a'i Gyf. o Macclesfield a apeliasant at Syr Nicholas am *lease* ar fwnglawdd Penrhyn Du yn sir Gaernarfon; gyda pha un y gorfu arnynt gymeryd *lease* ar ddarn o'r mynydd hwn hefyd, a chario yn mlaen lefel, a gwneuthur ymgais deg. Gwnaed yr ymgais yn unol â hyny: darganfyddwyd mŵn; ond yr oedd y draul yn gorbwyso yr enillion. Parhausant i weithio gyda cholled fawr: ac o'r diwedd, penderfynasant daflu y gwaith i fyny. Rhoddasant orchymyn i'w goruchwyliwr i'r pwrpas hwnw; ond efe, megys yr ymgais olaf, a ranodd ei ddynion yn ddeg o wahanol gwmnïon, tri neu bedwar mewn partneriaeth, a pharodd iddynt suddo shafftiau mewn amryw leoedd oddeutu wyth gau' llath i'r dwyrain o le a elwid y *Fentr Aur*, ar y dybiaeth y rhaid fod ffynhon o ddwfr codi a darddai o'r lle, yn dyfod oddiar gorph o fŵn. Yr oedd ei dybiaeth yn gywir; canys yn mhen llai na deuddydd daethant ar draws y mŵn sylweddol yn y dyfnder o saith droedfedd oddiwrth yr arwyneb, yr hwn a drôdd allan i fod y corph mawr hwnw ag sydd wedi ei weithio byth er hyny gyda'r fath enill. Y diwrnod ar ba un y gwnaed y darganfyddiad ydoedd yr 2il o Fawrth, 1768; yr hwn sydd byth ar ol hyny wedi cael ei gadw yn wyl gan y mwngloddwyr. Yn fuan ar ol y darganfyddiad yma, dechreuwyd anturiaeth arall gan y parchedig Edward Hughes, perchenog rhan o'r mynydd, yn hawl ei wraig, Mary Lewis o Lys Dulas; felly y mae yr holl drysor yn eiddo i Syr Nicholas Bayley† ac yntau.

*Y Mŵn.*] Y mae eangder corph y mŵn copr yn anadnabyddus. Sicrhawyd fod ei drwch, drwy yru lefel o tano amryw flynyddau yn ol, mewn rhai manau yn bedair llath ar hugain. Y mae y mŵn gan mwyaf o'r rhywogaeth a eilw Cronstedt, yn *Pyrites cupri flavo virdescens;*‡ a chynwysa swm mawr o sulphur. Amrywia yn ngraddau ei ragoroldeb; y mae peth o hono yn dra rhagorol, ond y rhan fwyaf yn salw o ran ansawdd.

Deuir o hyd i rywogaethau ereill o gopr yma. Yn ddiweddar cafwyd gwythen o'r un a eilw Cronstedt yn *Pyrites cupri griseus*,§ oddeutu saith lath o led, yn agos i ben dwyreiniol y mynydd; y mae peth o liw llwyd fel haiarn; peth yn gwbl ddu; y cyntaf a ddyry allan un pwys ar bymtheg o gopr yn mhob cant, a'r olaf ddeugain. Y mae mŵn wedi ei ddarganfod yn ddiweddar, yn y ffurf o bridd rhydd, o liw dugoch tywyll; ac y mae y peth goreu o hono wedi cynyrchu mwy nag wyth mewn ugain. Rai blynyddau yn ol, deuwyd o hyd i

* Gwel tud. 53 o'r gwaith hwn. † Yn bresenol iarll Uxbridge. Gol.
‡ *Pyrites* (neu gallestr) o liw gwyrddfelyn. § *Pyrites* copr.

Digitized by Google

ddeg pwys ar hugain o gopr pur, wrth yru lefel trwy fawnog; peth o hono yn y ffurf o fwsogl, a pheth yn ddalenau tra theneuon.

Codir y mŵn allan o'r gwely yn grugau mawrion; torir ef yn ddarnau mân; a gwerthir y peth pur o hono heb ei drin am o 3*l.* i 6*l.* y dunell, neu anfonir ef i'r tawdd-dai perthynol i'r gwahanol gwmnïon i gael ei doddi yn fetel. Y mae gan Mr. Hughes ffwrneisiau mawrion o'i eiddo ei hun yn Ravenhead, yn agos i Liverpool, ac yn Abertawe, yn Neheudir Cymru. Gellir cael meddylddrych am gyfoeth y mwngloddiau hyn pan ystyrir y bu gan gwmni Macclesfield 14,000 o dunelli o fŵn ar y lan ar un adeg, a Mr. Hughes 30,000.

Torir y mŵn mwy amhur hefyd yn fân ddarnau, oddeutu maintioli wyau ieir; ond i'r dyben o'i glirio oddiwrth y swm o sulphur a gynwysa, yn gystal a phob sylwedd amherthynasol, rhaid iddo fyned dan yr orchwyliaeth o gael ei losgi. I'r dyben hwnw gosodir ef rhwng dwy wâl gyfredol o hyd dirfawr; y mae rhai odynau yn ugain, ereill yn ddeugain, ac yn haner cant o latheni o hyd; y mae rhai hefyd yn ddeg, ereill yn ugain troedfedd o led, ac uwchlaw pedair troedfedd o uchder. Nid yn unig llenwir y lle cydrhyngddynt â'r mŵn, ond codir ef lawer o droedfeddi yn uwch, ar ffurf grymaidd, o'r naill ben i'r llall; yna gorchuddir y cyfan â cheryg fflat, gan eu cau yn glòs â chlai, ac uwchben dodir haen gyffredinol o glai, a mân ysbwrial y gwaith, er mwyn rhwystro i ddim o'r tarth nawsio allan. Yn ddiweddar y mae odynau wedi cael eu gwneyd gyda bwäau o briddfeini uwchben, yr hyn ydyw y dull goreu o losgi.

*Brwmstan.* O fewn yr ychydig flynyddoedd diweddaraf, y mae ymgeisiadau wedi cael eu gwneyd er atal i'r sulphur ddiangc. Gwneir hyn gyda ffliwiau, wedi eu ffurfio o briddfeini, a'u topiau ar ffurf bwa Gothig, lawer o ugeiniau o latheni o hyd: y mae un pen yn agor i'r gwelyau copr y rhai sydd i gael eu llosgi. Gosodir y gwelyau hyn ar dân gyda swm pur fychan o lô; am fod y gweddill yn cael ei effeithio trwy eu hylosgedd eu hunain. Y mae y rhan hediannol (*volatile*) yn cael ei gyfyngu, a'i gyfeirio i'r ffliwiau; yn eu rhedfa y mae y mân-ranau sulphuraidd yn taro yn erbyn y pen uchaf, ac yn disgyn i'r gwaelod yn y ffurf o'r brwmstan puraf; yr hwn a gesglir, ac a gludir i dai cyfagos, lle y mae yn cael ei doddi i wneyd y peth a werthir yn y siopau dan yr enw *stone brimstone.*

Y gwelyau copr, wedi eu pentyru fel hyn at eu llosgi, ydynt o eangder dirfawr. Cynwysa rhai bedwar can' tunell o fŵn, ereill ddwy fil. Gofyna y cyntaf bedwar mis i gael eu cyflawn losgi; yr olaf, yn agos i ddeng mis. Wedi eu llosgi fel hyn, cludir hwy i leoedd priodol i gael eu trin, neu eu golchi, a'u gwneyd yn farchnadol. Trwy yr oruchwyliaeth yma, lleiheir y mŵn i'r bedwaredd ran o barthed i'w swm; ond y mae gryn lawer yn well o ran ei ansawdd: a thrwy y moddion hyn y mae yn cael ei nawsio yn gryf ac yn rhagorol gyda chopr, yr hwn a doddir gan y *sulphuric acid;* a chesglir ef, neu y mae yn cael ei nawsio drachefn gan haiarn yn y pyllau a ddysgrifiwyd uchod. Y mae yr holl haiarn wedi cael ei doddi.

*Copr wedi ei nawsio.* Ond y mae cynyrch llawer rhagorach o gopr i'w gael o'r dwfr a waeloda yn y rhan isaf o'r gwely mŵn, yr hwn sydd wedi ei drwytho yn uchel â'r metel gwerthfawr. Codir hwn i fyny naill ai gyda dirwynlathau neu felinau gwynt, i'r arwyneb, ac yna rhenir ef i niferi

Digitized by Google

o byllau pedwaronglog, un ar bymtheg ar hugain o droedfeddi o hyd, rhai pyllau yn fwy a rhai yn llai, o ddeuddeg i bymtheg troedfedd o led, ac ugain modfedd o ddyfn. A siarad yn iaith y cyfarwydd, rhaid i Wener wneyd cytundeb â Mawrth, neu ni ddylynir hyn âg unrhyw effaith. Mewn Cymraeg plaen, rhaid i swm o haiarn gael ei suddo yn y dwfr. Nid yw o bwys pa fath haiarn; hen grochanau, cylchau, angorion, neu unrhyw ysbwrial a wna y tro; ond yn ddiweddar, er mwyn cyfleustra y gorachwylwyr, y mae yr anturiaethwyr yn gwneuthur platiau newydd, pedair troedfedd o hyd, troedfedd a haner o led, a thri chwarter modfedd o drwch. Y rhai hyn a suddant yn y pyllau; y mae mân-ranau y copr yn ddiatreg yn cael eu nawsio gan yr haiarn, a'r haiarn yn cael ei doddi yn raddol i *ochre* melyn; y mae rhan fawr o hono yn llifo ymaith gyda'r dwfr, ac yn suddo i'r gwaelod. Y platiau, neu yr hen haiarn (fel y dygwydda fod,) a gymerir allan yn fynych, ac y mae y copr yn cael ei grafu ymaith; a mynychir hyn hyd nes y byddo yr oll o'r haiarn wedi cael ei ysu. Nid yw y copr a geir fel yma yn gwahaniaethu nemawr oddiwrth gopr pur, ac y mae yn cael ei brisio yn unol â hyny, a gwerthir ef am o 25*l.* i 45*l.* y dunell.

Nid yw y dull yma o nawsio yn beth newydd; y mae wedi cael ei ymarfer er's hir amser yn mwngloddiau Wicklow, yn yr Iwerddon; ac oddeutu canrif cyn hyny yn rhai Heru-grundt, yn Hungary, lle y gelwir y nawsiant yn *Ziment Copper.** Y mae dyfroedd y mwngloddiau Hungaraidd wedi eu trwytho â chopr yn llawer cryfach nag eiddo mynydd Parys. Y rhai cyntaf a gyflawnant eu gorchwyliaeth mewn deuddeg neu oddeutu ugain niwrnod; tra y mae yr olaf yn gofyn dau fis. Dodir pedolau ceffylau, haiarn wedi ei wneyd ar lun calonau, a ffurfiau ereill, yn y dyfroedd tramor, a phan fyddont o ran eu hymddangosiad wedi eu trawsnewid, rhoddir hwy yn anrhegion i ddyeithriaid cywrain.

Nid yw y mŵn i'w gael yn y dull cyffredin o fwngloddio, ond torir ef allan o'r gwely, fel y torir careg allan o chwarel. Ffurfir ceuedd yn awr yn y mŵn sylweddol a fyddo yn ngoleu dydd, ac ymestyna am oddeutu can'llath o hyd, tua deugain llath o led, a phedair llath ar hugain o ddyfn. Y mae y penau yn bresenol wedi cael tori odditanynt, ond cynhelir hwy gan golofnau anferthol a bwäau ysplenydd, y cwbl yn fetelaidd; ac y mae yr ogofau hyn yn crwydro yn mhell o dan y ddaear. Diflana y rhai hyn yn fuan, a bydd miloedd o dunelli o fŵn wedi ei gael o'r colofnau a'r toau. Y mae ochrau y ceuedd mawr yma gan mwyaf yn sythion, a chyrhaeddir i'r gwaelod trwy risiau bychain wedi eu tori yn y mŵn; a rhaid i'r ymwelydd cywrain ymddiried iddynt hwy, a rhaff, nes y cyrhaedda rhyw ysgolion, hyd y rhai y gall gyflawni y gweddill o'r disgyniad. Ar ymylon yr agendor y mae llwyfanau coed, y rhai a daflant allan yn mhell; ac arnynt y mae dirwynlathau, gyda pha rai y gollyngir y dynion i weithio ar wyneb y clogwyn. Yno yn hongian, gweithiant yn yr awyr, pigant â'r gaib le bychan at sefyll arno, torant allan y mŵn yn dalpiau mawrion, a bwriant ef i'r gwaelod gyda thwrw mawr. Yn y cyfryw sefyllfaoedd, ffurfiant ogofau, ac yno ymddangosant fel mewn llety dyogel, nes y daw y rhaff i'w dwyn i fyny. Chwythir llawer o fŵn gyda phowdwr gwn, a chlywais fod wyth dunell o'r nwydd yma yn cael ei ddefnyddio at hyny.

* Brown's Travels, 68. Keysler's Travels, iv. 70.

Y mae natur wedi bod yn dra haelfrydig o'i ffafrau mwneiol yn y lle hwn; oblegyd uwchlaw y mŵn copr, ac heb fod yn fwy na thri chwarter llath o dan arwyneb y tir, y mae gwely o glai seimlyd o liw melynaidd, o un i bedair llath o drwch, yn cynwys mŵn plwm, ac yn cynyrchu o 600 i 1000 o bwysi o blwm allan o bob tunell; ac y mae un dunell o'r metel yn cynyrchu dim llai na 57 owns o arian. Yn gymysg â'r pridd, y mae yn fynych rai rhanau o liw *cinnabar*, neu fŵn coch: pa un a ydyw y rhai hyn yn arwyddo presenoldeb mwnau arian, neu arian byw, ni chymeraf arnaf benderfynu. Y mae rhywbeth yn ymyryd â thoddiant llwyddiannus y pridd yma yn y grât; yn gymaint fel nad ydyw yr enill i'r anturiaethwyr wedi bod gymaint ag a allesid yn rhesymol ei ddysgwyl oddiwrth yr ymbrawfion a wnaed arno yn y tawddbot: ac y mae ganddynt yn bresenol oddeutu 8000 o dunelli o hono ar y lan, heb ei werthu. Y mae y lle hwn wedi cael ei weithio am blwm mewn amser pell iawn yn ol. Yn ngwaelod y llyn, cafwyd hen aelwyd at doddi wedi ei gwneyd o rutfaen, ac amryw ddarnau o blwm wedi ei doddi, oddeutu pedair modfedd o hyd, dwy o led, a haner modfedd o drwch.

Y mae y gweithydd hyn wedi ychwanegu yn ddirfawr at boblogaeth yr ynys; oblegyd y mae oddeutu pymtheg cant o bersonau ar waith, y rhai, ynghyda'u teuluoedd, y tybir eu bod yn agos i 8000 o bersonau, yn cael eu bara oddiwrth y mwngloddiau hyn. Y mae pentref bychan *Amlwch*, porthladd y lle, yn cynyddu yn gyflym, a'i farchnadoedd yn dyfod yn fawr. Ar adeg y gwaith mwyaf, y mae gweithwyr Mr. Hughes yn unig yn derbyn, am wythnosau lawer, ddau cant o bunnau mewn un wythnos, ac oddeutu cant a haner mewn un arall, at eu cynaliaeth yn unig. Nid yw y porthladd ond gagendor fawr, rhwng dwy graig, yn rhedeg yn mhell i'r tir, ac yn sych ar ddistyll trai; i ba un y mae llongau o un hwylbren yn rhedeg, ac yn derbyn eu llwythi.*

*Amlwch.*

O Fynydd Parys ymwelais â'r rhan ogledd-orllewinol o'r ynys, ac aethum dros wlad wastad dywodlyd, ffrwythlon mewn ŷd. Gweled ar y ddehau, y *Llygoden Ganol;* ac yn mhellach yn mlaen y drydedd ynys fechan o'r euw hwnw, a elwir y *Llygoden Orllewinol.* Rhwng y rhai hyn, ar arfordir Môn, y mae morgilfach Cemlyn, lle y mae angorfa ddyogel i longau bychain. Heb fod yn mhell oddiyma, canfod y chwarel hynod o fynor, cyffredin i'r fan hon, rhai parthau o Italy, ac i Corsica, yr hwn a adnabyddir yn y siopau wrth yr enw *Verde di Corsica.* Ei liwiau ydyw gwyrdd, du, gwŷn, a phorphor tywyll, o osodiad afreolaidd. Mewn gwahanol ddarnau y mae un neu y llall o'r lliwiau yn eisiau; ond yn mysg y rhanau gwyrdd ceir yn fynych wythenau culion o'r maen ystinos *(asbestos)* ceindlws a gwŷn sidanaidd. Rhywogaeth gyfansoddedig o fynor ydyw; y mae rhan yn galchyrog, a gellir gweithredu arno gan *aquafortis;* y rhanau gwyrddion ydynt o bridd magnesiaidd; y cwbl yn cyfansoddi yr hyn a elwir yn gyffredin *Serpentine.* Y mae yn dueddol i gael ei gynghroesi gan graciau bychain, neu wythenau y maen ystinos, ac felly yn analluog o gael ei gaboli yn uchel. Y mae y chwarel

*Chwarel Fynor.*

* Ceir hanes cyflawnach am gyflwr presenol Mynydd Parys yn yr Attodiad, Rhif xvii., am ba un, ac am gymhorth arall i wneyd y gwaith yn fwy perffaith, y mae y Golygydd yn ddyledus i'w gyfaill gwerthfawr Paul Panton, ysw., o'r Plas Gwyn. GOL.

Digitized by Google

yn gorwedd ar diroedd Monachdy, yn mhlwyf Llanfair-yn-Nghornwy; ac y mae i'w gael drachefn yn ynys y *Skerries*, oddiallan i'r plwyf hwn.

Nid yw y chwarel, na'r maen ystinos, yn bresenol ar waith. Dodai yr hynafiaid bris uchel ar yr olaf, cyfartal i bris perlau. Gweuent napcynau o hono, ac ar adeg gwleddoedd mawrion difyrent eu hunain (i'r dyben o'u glanhau) trwy eu bwrw i'r tân, o ba le y dychwelent heb eu niweidio, ond gyda chaboliad uwch. Gwnaent amdo o hono hefyd i wŷr mawr, cyn iddynt gael eu gosod ar y pentwr angladdol, a thrwy hyny dyogelent eu lludw yn bur oddiwrth ludw y coed. Credai yr hynafiaid nad oedd i'w gael yn unman ond yn India, mewn manau lle na byddai cawodydd byth yn disgyn, a thrigle seirph echryslawn.*

*Garreg Lwyd.*] Oddiyno ymwelais â'r *Garreg Lwyd*, preswylfod y boneddwr teilwng a chyfeillgar John Griffith, ysw. Oddiyno gwnaethum

*Y Skerries.*] ymgais i hwylio i'r *Skerries*, neu, fel y gelwir hwy yn Gymraeg, *Ynys y Moelrhoniaid*, yr hon sydd yn y pellder o dair milldir o'r lle hwn, ac oddeutu haner milldir oddiwrth y parth nesaf o Fôn; ond darfu i fôr aflywodraethus ein gorfodi i ddychwelyd gyda brys. Y mae yr ynys yn dra chreigiog, ond y mae yn rhoddi ymborth i ychydig ddefaid, cwningod, a phalednod *(puffins.)* Y goleudy, yr hwn a osodwyd arni yn y flwyddyn 1730, sydd o wasanaeth mawr i longau a hwyliant rhwng yr Iwerddon a phorthladdoedd Caerlleon a Liverpool. Y cynyrch oddiwrth y tunelliad, oddeutu y flwyddyn 1759, ydoedd 1100*l.* yn y flwyddyn; o ba swm yr oedd yr Iwerddon yn cyfranu 400*l.* Y mae llongau Prydeinig yn talu 1*d.* y dunell, a thramoriaid 2*d.* Chwery pysgod o amgylch yr ochrau creigiog yn dyrfaoedd o'r rhifedi mwyaf rhyfeddol, ac ymddangosant megys mor luosog nes y mae eu cefnau allan o'r dwfr; y rhai hyn yn benaf ydynt y *Cole-fish* a'r *Whiting Pollacks;* y mae pysg penfras yn llercian islaw mewn cyflawnder; ac y mae y *Wrasses* prydferth, &c. yn fynych yn cael eu dal.

Perthynai yr ynys hon yn yr hen amser i eglwys gadeiriol Bangor, yr hon a hawliai yn gwbl y fraint o bysgota ar ei glenydd. Yr oedd hawl esgobion yr eglwys hono, trwy ryw esgeulustra, wedi cael ei golli ganddynt; ac yr oedd y *Griffiths* o'r Penrhyn wedi trawsfeddiannu y fraint, trwy adael yn yr ynys yr hyn a elwid *Wele*, gwely neu feddiant bychan.† Oddeutu 1498, yr esgob Dean a ymwrolodd, ac a ail-ymaflodd yn y bysgotfa yn bersonol, ac ar yr 8fed o Hydref a gymerodd wyth ar hugain o "bysgod a elwir Grapas;" pryd y darfu i Syr William Griffith anfon "ei fab, ei etifedd, gydag amryw ddynion mewn arfau, y rhai yn gythryblus yn sir Fôn, oddifewn i esgobaeth yr esgob dywededig, a gymerasant y pysgod hyny oddiar weision yr esgob a ragnodwyd." Ond darfu i'r esgob gonest beri iddo wneyd ad-daliad, ac a sefydlodd ei hawl fel arglwydd ar bysgodfeydd yr ynys.‡ Nid oedd un o'i olynwyr, sef Nicholas Robinson, mor wydn; ond, yn ol Mr. Willis,§ trosglwyddodd yr ynys i un o'i feibion. Oddeutu deugain neu haner cant o flynyddau yn ol, un William Robinson, ysw., o'r Monachdy, yn y sir hon, ac o Gwersyllt yn sir Ddinbych, yr etifedd gwrrywaidd diweddaf, a gollwyd mewn tymhestl ar ei ddychweliad

* Plinii Nat. Hist. lib. xix. c. 1.

† Record of Caernarvon, in the Bibliotheca Litteraria, 20. ‡ Willis's Bangor, 245.

§ Yr unrhyw. Yr esgob a'i geilw yn Ynys St. Daniel.

Digitized by Google

Y mae natur wedi bod yn dra haelfrydig o'i ffafrau mwneiol yn y l… oblegyd uwchlaw y mŵn copr, ac heb fod yn fwy na thri chwarter l… arwyneb y tir, y mae gwely o glai seimlyd o liw melynaidd, o un i b… o drwch, yn cynwys mŵn plwm, ac yn cynyrchu o 600 i 1000 o bw… allan o bob tunell; ac y mae un dunell o'r metel yn cynyrchu dim… owns o arian. Yn gymysg â'r pridd, y mae yn fynych rai rhanau o… *bar*, neu fŵn coch: pa un a ydyw y rhai hyn yn arwyddo presenol… arian, neu arian byw, ni chymeraf arnaf benderfynu. Y mae rh… ymyryd â thoddiant llwyddiannus y pridd yma yn y grât; yn gym… ydyw yr enill i'r anturiaethwyr wedi bod gymaint ag a allesid yn… ei ddysgwyl oddiwrth yr ymbrawfion a wnaed arno yn y tawddbot:… ganddynt yn bresenol oddeutu 8000 o dunelli o hono ar y lan, heb d… Y mae y lle hwn wedi cael ei weithio am blwm mewn amser pell i… Yn ngwaelod y llyn, cafwyd hen aelwyd at doddi wedi ei gwneyd o … amryw ddarnau o blwm wedi ei doddi, oddeutu pedair modfedd o hy… led, a haner modfedd o drwch.

Y mae y gweithydd hyn wedi ychwanegu yn ddirfawr at boblogaeth … oblegyd y mae oddeutu pymtheg cant o bersonau ar waith, y rhai, yn… teuluoedd, y tybir eu bod yn agos i 8000 o bersonau, yn cael eu bara o… y mwngloddiau hyn. Y mae pentref bychan *Amlwch*, p… y lle, yn cynyddu yn gyflym, a'i farchnadoedd yn dyfod … Ar adeg y gwaith mwyaf, y mae gweithwyr Mr. Hughes yn unig y… am wythnosau lawer, ddau cant o bunnau mewn un wythnos, ac oddi… a haner mewn un arall, at eu cynaliaeth yn unig. Nid yw y porth… gagendor fawr, rhwng dwy graig, yn rhedeg yn mhell i'r tir, ac y… ddistyll trai; i ba un y mae llongau o un hwylbren yn rhedeg, ac … eu llwythi.*

*Amlwch.*

O Fynydd Parys ymwelais â'r rhan ogledd-orllewinol o'r ynys, ac a… wlad wastad dywodlyd, ffrwythlon mewn ŷd. Gweled ar y ddehau, … *Ganol;* ac yn mhellach yn mlaen y drydedd ynys fechan o'r e… elwir y *Llygoden Orllewinol*. Rhwng y rhai hyn, ar arfordir Môn, … gilfach Cemlyn, lle y mae angorfa ddyogel i longau bychain. … mhell oddiyma, canfod y chwarel hynod o fyn… i'r fan hon, rhai parthau o Italy, ac i Corsica, y… nabyddir yn y siopau wrth yr enw *Verde di Corsica*. Ei liwiau y… du, gwŷn, a phorphor tywyll, o osodiad afreolaidd. Mewn gwah… y mae un neu y llall o'r lliwiau yn eisiau; ond yn mysg y rhanau … yn fynych wythenau culion o'r maen ystinos *(asbestos)* ceindlws a… aidd. Rhywogaeth gyfansoddedig o fynor ydyw; y mae rhan yn … gellir gweithredu arno gan *aquafortis;* y rhanau gwyrddion y… magnesiaidd; y cwbl yn cyfansoddi yr hyn a elwir yn gyffredin S… mae yn dueddol i gael ei gynghroesi gan graciau bychain, neu … maen ystinos, ac felly yn analluog o gael ei gaboli yn uchel. Y …

*Chwarel Fynor.*

* Ceir hanes cyflawnach am gyflwr presenol Mynydd Parys yn yr Attodiad, l… un, ac am gymhorth arall i wneyd y gwaith yn fwy perffaith, y mae y Golygydd … gyfaill gwerthfawr Paul Panton, ysw., o'r Plas Gwyn. Gol.

Digitized by Google



*EGLWYS CAERGYBI.*

**HOLYHEAD CHURCH.**

o'r lle anghysbell yma, gydag oddeutu dwsin o bobl i'w ganlyn, y rhai yn an-

*Monachdy.* ] ffortunus a aethent gydag ef. Yr oedd y Monachdy wedi bod yn rhan o feddiannau abatty Conway, ac wedi ei drosglwyddo gan yr un esgob i'w fab.

Caniataer i mi gofnodi fod, ychydig o flynyddau yn ol, ar dyddyn a elwid Ynys y Gwyddel, yn mhlwyf Llanfflewyn, bedair milldir i'r gogledd o'r Gareg Lwyd, dair o freichledau aur, a *Bulla* o aur, wedi eu darganfod, mewn cadwraeth ragorol. Prynais ddwy o'r rhai blaenaf, y rhai a gedwais fel cofion cywrain o breswyliad y Rhufeiniaid yn hen ynys Fôn.

O'r Gareg Lwyd marchogais i Gaergybi, oddeutu un filldir ar ddeg neu ddeuddeg o bellder. Myned heibio i Lanfachraeth a Llanynghenedl, i bont Rhyd-Pont, lle y mae ffrwd dra bechan yn gwneyd y penrhyn mawr yn ynys. Croesi Tywyn y Capel, morfa isel a thra tywodlyd, yn cael ei derfynu ar un ochr gan greigiau, dros ba rai, ar wyntoedd uchel, y mae y môr yn tori yn y dull mwyaf ofnadwy a chynddeiriog, a'r rhai y bydd morwyr yn arswydo rhagddynt mewn gwirionedd. Yn nghanol y morfa y mae bryncyn celfyddydol, ar ba un y saif adfeilion Capel St. Ffraid. Nid oes genyf un math o amheuaeth nad oedd, yn flaenorol i'r capel, yn safle amddiffynfa fechan; oblegyd ni welais erioed fryncynau celfyddydol wedi eu codi ond at weithydd o ansawdd filwrol.

*Cregyn Tir.* ] Y mae y morfa yma yn llawn o'r cregyn a elwir FASCIATED WREATH, *Br. Zool.* iv. Rhif 119, a'r ZONED SNAIL (y Falwoden Gylchog,) Rhif 133.

Heb fod yn mhell oddiyma, rhwng Bodior a Rhyd-Pont, yn mhlwyf Rhoscolyn, y mae ffosyl nad ydyw i'w gael yn fynych. Deuir o hyd

*Amianthus.* ] i *amianthus* gwyrdd, neu y maen ystinos brau, yn gyflawnder mawr, mewn *serpentine* gwyrdd, yn debyg i'r un yn Monachdy; ond o herwydd natur anhyblyg eu defnydd, nid ydynt yn gymhwys at yr un gwasanaeth.

*Caergybi.* ] O fewn dwy filldir i Dywyn y Capel y saif tref *Caergybi;* y mae ei sefyllfa ar borthladd hynod a dyogel, yn cael ei amddiffyn yn y fynedfa i mewn rhag y gwyntoedd gan Ynys Gybi, a gyfenwid Corineus, mab Solomon duc Cernyw; yr hwn, ar ol astudio am rai blynyddoedd yn Ffraingc, a ddychwelodd i Frydain, ac a sefydlodd ei esgobaeth yn y lle a elwir yn bresenol Caergybi.* Er anrhydedd i'w athraw, St. Hilarius, esgob Poitiers, efe a roddodd ei enw ar un o'r penrhynoedd; sef yr un sydd yn bresenol yn myned dan yr enw St. Eilian.

*Tref.* ] Bechan ydyw y dref, ond y mae llawer o gyrchu iddi gan deithwyr i ac o deyrnas yr Iwerddon; a dyma orsaf y llythyr-longau, o ba rai y mae pump mewn gwaith yn wastadol: y maent yn llongau cryfion, a dwylaw da arnynt.

*Eglwys.* ] Yr eglwys sydd wedi ei chysegru i St. Cybi; adeilad hynafol, furfylchog, a'r tu fewn i'r porth, a'r tu allan i ran o'r drawsrodfa, wedi eu cerfio yn anghelfydd. Ar y tu allan i'r olaf y mae draig, dyn yn tywys arth gyda rhaff, ac arddangosiadau gwrthun ereill. Dywedir fod St. Cybi

* Cressy's Ch. Hist. 149.

Digitized by Google



EGLWYS CAERGYBI.

HOLYHEAD CHURCH.

Digitized by Google

[illegible] yma, gydag oddeutu [illegible] o bobl i'w ganlyn, y rhai [illegible] a aethant gydag ef. Yr oedd y Monachdy [illegible] o [illegible] abaty Conway, ac wedi ei droglwy[dd] [illegible] i'w [illegible].

Monachdy.

[illegible] fel, ychydig o flynyddau yn ol, ar dyd[d] [illegible] yn mhlwyf Llanfflewyn, bedair milldir i'r gogled[d] [illegible] o [illegible], a *Bulla* o aur, wedi eu darganfod, mewn [illegible]. [illegible] o'r rhai blaenaf, y rhai a gedwais fel cofion [illegible] y [illegible] yn [illegible] Fila.

O'r [illegible] i Gaergybi, oddeutu un filldir ar [illegible] o [illegible]. [illegible] i Lanfachraeth a Llanynghened[d] [illegible]. [illegible] y mae fraid dra bechan yn gwneyd y penrhyn mawr [illegible] y Capel, morfa isel a thra tywodlyd, yn cael ei derfyn[u] [illegible], [illegible] ar wyntoedd uchel, y mae y môr yn [illegible] a [illegible], a'r rhai y bydd morwyr yn [illegible]. Yn nghanol y morfa y mae bryncyn celfy[ddol] [illegible] Capel St. Ffraid. Nid oes genyf un math o [illegible] i'r capel, yn [illegible] amddiffynfa fechan; oblegy[d] [illegible] wedi eu codi oed at weithydd o ansaw[dd] [illegible].

Y mae y morfa yma yn llawn o'r cregyn a elwir [illegible] [illegible], *Br. Zool.* iv. Rhif 119, a'r ZONED SNAIL (y [illegible]), Rhif 133.

Tywyn.

[illegible] fel yn [illegible], rhwng Bodior a Rhyd-Pont, yn mhlw[yf] [illegible] y mae [illegible] ydyw i'w gael yn fynych. D[illegible] i [illegible] gwyrdd, neu y maen ystinos brau, yn g[illegible] [illegible] gwyrdd, yn debyg i'r un yn Monachdy; o[illegible] [illegible] eu [illegible], nid ydynt yn gymhwys at yr [illegible] [illegible].

Amaethon.

O fewn dwy filldir i Dywyn y Capel y saif tref *Caergy[bi]* [illegible] ar [illegible] hynod a dyogel, yn cael ei [illegible] y [illegible] rhag y gwyntoedd gan Ynys Gybi, a gyfen[w]yd [illegible] Caerwr, yr hwn, ar ol astudio am rai bly[nyddoedd] [illegible], a ddychwelodd i Frydain, ac a sefydlodd ei esgobaet[h] [illegible] yn [illegible] Caergybi.* Er anrhydedd i'w athraw, St. Hi[lary] [illegible] a [illegible] ei enw ar un o'r penrhynoedd; sef yr [illegible] [illegible] yn [illegible] dan yr enw St. Elian.

Caergybi.

Bechan ydyw y dref, ond y mae llawer o gyrchu iddi gan de[ithwyr] o [illegible] yr Iwerddon; a dyma oraf y llythyr-longau, o ba[illegible] [illegible] wastadol: y maent yn llongau cryfion, a d[illegible] [illegible] mewn [illegible] yn [illegible].

Tref.

Yr eglwys sydd wedi ei chysegru i St. Cybi; adeilad hy[nod] [illegible], a'r tu fewn i'r porth, a'r tu allan i ran o'r drawe[illegible], Ar y tu allan i'r olaf y mae draig, dy[illegible] [illegible] yn [illegible]. Dywedir [illegible] [illegible] gwrthun ereill.

Eglwys.

*Cressy's Ch. Hist. 148.



BIBLIOTHECA BODLEIANA

Digitized by Google

wedi sylfaenu yma fynachlog fechan odddeutu y flwyddyn 380;* a Maelgwyn Gwynedd, yr hwn a ddechreuodd deyrnasu oddeutu 580, goleg.† Gelwid y tywysog ymà, *Draco Insularis* (Draig yr Ynys,) a dichon fod y ddraig sydd wedi ei cherfio ar yr eglwys yn cyfeirio ato ef. Y mae ereill yn haeru fod y coleg hwn wedi cael ei sylfaenu gan Hwfa ap Cynddelw, arglwydd Llys Neifion, ac un o bymtheg llwyth Gwynedd, a chydoeswr âg Owain Gwynedd.‡ Gelwir penaeth y coleg yn Penclas, neu Pencolas, ac yr oedd yn un o arglwyddi ysprydol Môn; archddiacon yr ynys oedd un; abad Penmon oedd y llall. Ei deitl Lladinaidd ydoedd Rector, fel yr ymddengys oddiwrth yr hen sêl, ar yr hon yr oedd y cerfiad, *Sigillum Rectoris et Capituli* Ecclesia *de* CAER GYBI.§ Nid wyf yn gwybod nifer y côrgeiniaid; ond yr oeddynt yn ddeuddeg o leiaf, am mai dyna y nifer oedd ar restr y pensiwn yn 1553,‖ yn ol 1*l*. yr un. Cyn y dadgorphoriad, yr wyf yn cael fod y periglor, neu y *provost*, canys felly y gelwid ef, yn cael 39 mark, un caplan yn cael 11, a'r ddau arall yr un swm cydrhyngddynt.¶ Cyfrifid yr holl werth, yn y 26ain o Harri VIII., yn 24*l*. Gan y brenin yr oedd yr hawl i apwyntio y *provost*. Iorwerth III. a roddodd yr hyn a elwid yn swydd *provost* yn ei gapel rhydd yn Caer-Cube, i'w gaplan Thomas de London; i ba ddyben y darfu i'r brenin, yn 1351, ei ryddhau oddiwrth bob gwasanaeth iddo ef ei hun.** Iago I. a roddodd y coleg hwn i Francis Morris a Francis Philips. Daeth wedi hyny yn eiddo i Rhys Gwynne, ysw., yr hwn a roddodd i Goleg Iesu, Rhydychain, y degymau mawrion, er cynaliaeth dau gymrawd a chynifer a hyny o ysgolorion;†† ac fyth er yr amser hwnw y mae y plwyf yn cael ei wasanaethu gan gurad a bennodir gan y coleg.

*Eglwys y Bedd.*] Yn agos i'r eglwys safai, mewn hen amseroedd, gapel a elwid *Eglwys y Bedd*, a *Chapel Llan y Gwyddel*. Sirigi,‡‡ un o freninoedd y Pictiaid Gwyddelig, a oresgynoddd y wlad hon, ac a laddwyd yn y fan yma gan Caswallon Law-hir, yr hwn a deyrnasai oddeutu y flwyddyn 440.§§ Gwnaed Sirigi yn sant gan ei gydwladwyr, ac yr oedd ganddo yn y capel hwn greirfa, i'r hon y priodolid y rhinwedd o gyflawni lluaws o wyrthiau. Yr oedd gan y lle hwn gyllidau ar wahan i'r eglwys golegawl. O'r diwedd aeth yn adfeilion, a bu yn ddiwasanaeth am oesau. Wrth symud ymaith yr ysbwrial, nid llawer o flynyddau yn ol, cafwyd arch careg, gydag esgyrn o faintioli anferthol; ond ni ddylem dybied mai esgyrn Sirigi oedd y rhai hyn; y rhai a gludasid ymaith gan ryw grwydriaid Gwyddelig, ac a osodwyd yn eglwys gadeiriol Crist yn Dublin.‖‖

* Tanner, 699. † Hist. Anglesey, 29. ‡ Yr unrhyw, 699.

§ Yr unrhyw, 30. "Sêl periglor a phen yr Eglwys yn Nghaergybi."

‖ Willis's Abbies, i. 303. ¶ Willis's Bangor, 201.

** Newcourt's Repertorium, i. 453. †† Tanner, 699, a Hist. Anglesey, 31.

‡‡ Yr oedd y Sirigi hwn mor bell o fod yn frenin y Pictiaid Gwyddelig, fel y mae yn debyg mai arweinydd morladron ydoedd, yn cynwys, efallai, y Daeniaid yn Nublin, ac y mae yn fwy tebyg mai ei enw oedd Sitric; Rowlands yn ei *Mona Antiqua* a'i geilw yn Siric y Crwydryn. Nid yw yn debyg iddo ef gael ei wneyd yn sant, ond y mae esgob Gwyddelig o'r enw Siric i'w weled yn *Merthyrdraith* Donegal. Y Cadwallon dan sylw, nid Cadwallon Law-hir ydoedd, ond tywysog a flodeuai yn y 10fed ganrif. Nis gall neb feio Pennant am beidio myned i mewn yn ddyfnach i'r pethau hyn, ond y peth rhyfedd ydyw fod dynion yn myned yn mlaen o hyd i ysgrifenu yr hanes am yriad allan y Gwyddelod o Gymru (fel y gelwir y peth,) trwy ffugddangos hanes anrheithiau y Daeniaid a'r *Norsemen*. J.R.

§§ Powel, Pref. 15. ‖‖ Hist. Anglesey, 34, 35.

Digitized by Google

*Amddiffynfa Rufeinig.* Y mae terfynau y fynwent yn hawlio hynafiaeth uwch na'r eglwys. Lle ysgwâr ydyw o ddau gant ac ugain o droedfeddi wrth gant a deg ar hugain. Y mae tair o'r ochrau wedi eu cau gyda muriau cedyrn, o ddwy droedfedd ar bymtheg o uchder, a chwe' throedfedd o drwch; y bedwaredd sydd yn agored i greigiau clogwynog y porthladd, ac ni chafodd erioed ei murio, am y bwriedid y lle i longau encilio iddo, a derbyn amddiffyniad oddiwrth y lle cauedig hwn. Yn mhob congl o'r mur y mae tŵr hirgrwn. Arddengys y maen-saerniaeth fod y cyfan yn amlwg yn Rhufeinig: y mae y mortar yn dra chaled, ac wedi ei gymysgu â chryn lawer o gerygos brâs. Ar hyd y muriau y mae dwy rês o dyllau crynion, oddeutu pedair modfedd o drawsfesur, y rhai a dreiddiant trwyddynt. Y maent yn mhob peth yr un fath a'r rhai yn *Segontium*, ac wedi eu plastro yn ddestlus oddifewn.

Y mae gwasanaethgarwch y porthladd hwn i'r Rhufeiniaid, yn eu mordeithiau o amrywiol leoedd i borthladdoedd sîr Lancaster, ac eiddo Caerlleon, yn ddigon amlwg. Nis gallasent gael gwell lle i redeg i mewn iddo ar dywydd caled, na hwn, am ei fod yn ymestyn allan yn mhellach i Fôr y Werydd; ac felly gallent ei gyrhaedd gyda llai o berygl cael eu chwythu i'r lan nag mewn un lle arall. Os (fel y mae yn dra thebygol) oeddynt yn trafnidio â'r Iwerddon, nid oedd un lle yn fwy cyfaddas at hyny. Ni ddarfu i'r Rhufeiniaid, mae'n wir, erioed ffurfio trefedigaeth yn y wlad hono, ond yn sicr masnachent â hi, hyd yn nod yn nyddiau Agricola, "pan oedd ei llongbyrth a'i phorthladdoedd yn cael eu hadnabod yn well, o herwydd y lluaws o farsiandwyr a ddeuent yno er mwyn trafnidiaeth."*

*Y Pen.* Cerddais o'r dref hyd dop *Y Pen*, i chwilio am hynafiaethau ereill. Ar fy ffordd, gwelais adfeilion Capel y Gorlles, un o'r lluaws ag sydd yn wasgaredig ar hyd y penrhyn sanctaidd yma. Ar yr ochr lle yr esgynais i, cafodd fy llwybr ei atal gan wal fawr uchel, mewn lluaws o fanau wedi ei gwynebu yn iawn, ac oddeutu deg troedfedd o uchder mewn rhai o'r lleoedd mwyaf cyfan, a mynedfa drwyddi. Ar gopa Pen y Gaer Gybi, neu dop y mynydd, y mae sylfaeni adeilad gron, wedi ei chymrydu yn gadarn â mortar o'r un rhywogaeth ag yn yr amddiffynfa yn y dref. *Goleudy.* Ymddengys mai *Pharos* (goleudy) ydoedd, yr hwn oedd yn dra angenrheidiol at fordwyo y moroedd hyn.

O ben y mynydd cefais olygfa eglur ar Gaergybi: yr oedd ar y pryd yn orllanw, a'r sianel wedi ei llenwi ar bob ochr i bont Rhydpont. Y mae yr ynys o led anghyfartal, ac wedi ei bylchio yn fawr gan y môr.

Y rhan o'r Pen ag sydd yn wynebu y môr, sydd naill ai yn glogwynog, neu *Adar.* ynte wedi ei dyllu yn ogofau mawreddog. Y mae adar o amryw fathau yn bridio yn y creigiau; yn eu plith yr Hebogau Ymfudol, Crëyrod, Gweilch y Penwaig, &c. Chwilir am eu hwyau i'w bwyta; a deuir o hyd iddynt trwy ollwng dyn i lawr gyda rhaff, yr hon a ddelir gan un neu fwy o ddynion. O fewn cof, darfu i'r dyn a ollyngasid i lawr, trwy ei bwysau orchfygu y llall, a'i dynu i'w ganlyn; fel ag y bu farw y ddau yn druenus.

Dychwelais yn ol dros bont Rhydpont, ac ar hyd y ffordd fawr (yr hon sydd

* Tacitus, Vita Agricola.

*Presaddfed.*] yn rhagorol) tuag at Fangor. Ychydig ar y llaw aswy y mae *Presaddfed*, preswylfod Mrs. Roberts, yr hwn gynt a berthynai i'r *Owens*. Ar y fan y safai palasdy Hwfa ap Cynddelw, am yr hwn y soniwyd o'r blaen. Daliai ei etifeddiaeth yn rhydd am roddi ei bresenoldeb ar adeg coroni y tywysog, a dal i fyny yr ochr ddehau i'r gortho *(canopy)* uwchlaw pen y tywysog yn y gwasanaeth mawreddog hwnw. Yr esgob hefyd, yr hwn oedd y prif gaplan, a ddaliai ryw dir ar gyfrif y swydd o'i goroni ef.

Yn agos i'r gwestty cysurus a elwir Gwindy, yn nghanolbarth yr ynys, ar y *Bodychan.*] ffordd fawr, y saif *Bodychan*, hen adeilad, yr hon a fu unwaith yn breswylfod Rhys ap Llewelyn ap Hwlcyn, uchelsirydd y sir hon, ac yn ŵr galluog yn amser Harri VII. Y teulu ar ol hyn a gymerasant i fyny enw y lle, ac a fuont yn flodeuog am lawer o genedlaethau. Y sylfaenydd, Rhys ap Llewelyn ap Hwlcyn, a aeth i faes Bosworth i gynorthwyo Harri VII gyda mintai o wŷr traed; ac fel cydnabyddiaeth am hyny, tyngwyd ef yn sirydd Môn am ei oes *(durante termino vitæ suæ.)* Gwnaeth ei dŷ (yr hwn sydd yn bresenol yn ysgubor) yn garchar y sir, ac y mae y ddaeargell berthynol iddo i'w gweled hyd heddyw Yn y ganrif ddiweddaf, aeth i *Sparrows* y Bryn Coch, trwy briodas etifeddes y lle hwn.

*Llantrisant.*] Ar y llaw ddehau y mae eglwys *Llantrisant*, yr hon sydd yn hynod ar gyfrif cofadail y parchedig Hugh Williams, D.D., un o hynafiaid teuluoedd Wynnstay a Bodlewydden, a thad i Syr William Williams, llefarydd tŷ y cyffredin, a dadleuydd cyffredinol yn 1687. Yr oedd efe yn ail fab* i William Williams, o'r Chwaen, yn yr ynys hon, yr hwn y mae yr achyddwyr yn ei olrhain o Cadrod Hardd, penaeth Prydeinig. Priododd Emma Dolben, o'r Caeau Gwynion, yn agos i Ddinbych. Dyry ei feddargraff [yr hwn sydd yn Lladin] i ni y gweddill o'i hanes.

> Yma y gorwedd Hugh William o Nantanog, yn sir Fôn, Doethawr mewn Duwinyddiaeth. Bu farw yr 28ain o Fedi, Blwyddyn yr Arglwydd 1670, yn y flwyddyn 74ain o'i oedran. Meddyliwch am y diwedd.

Ar gareg gydwastad â'r llawr o dan y gofadail y mae y cerfiad canlynol [yr hwn sydd hefyd yn Lladin]:—

> Yma y gorwedd Hugh Williams o Nantanog, proffeswr Duwinyddiaeth a pheriglor yr Eglwys hon a Llanrhuddlad. Prebendari y Faenol yn esgobaeth Llanelwy. Rhanog yn Llanddinam, sir Drefaldwyn. Gorphenodd ei yrfa Medi 21ain, yn y 74ain mlwydd o'i oed, B.A. 1670, cyflwynodd ei hun yn ewyllysgar at lesâu y praidd a osodwyd dan ei ofal, ac ymdreuliodd ac ymdrechodd ymdrech dda. Dysger ei fod yn gweddu i fugail, nid yn gymaint i wylio dros, ond hefyd i dreulio ac ymdreulio er llesâd ei braidd.

*Poblogaeth Môn.*] Cyn i ni adael yr ynys, gofynaf genad i roddi hanes byr am ei phoblogaeth, yn y dull ag y cefais ef gan Paul Panton, ysw.; sylwadau yr hwn ar yr un testyn ydynt wedi ymddangos o'r blaen mewn lle llawer mwy parchus.†

* Yr oedd mab hynaf W. Williams yn hynafiad i'r Williamsiaid o Dy-fry, y rhai a feddiannant Chwaen hyd heddyw.

† Phil. Trans. lxiii. part i. p. 180.

Digitized by Google

Oddiwrth gyfrif a roddwyd ar y 13eg o Awst, 1563, yr oedd 2010 o deuluoedd yn Môn;* felly a chaniatâu pump o bersonau ar gyfer pob teulu, nifer yr holl drigolion y pryd hyny ydoedd 10,050. Yn 1776, nifer y tai yn Môn ydoedd oddeutu 3956: a chaniatâu pump yn mhob teulu, holl nifer y boblogaeth ydoedd 19,780; yr hyn nid ond 340 yn fyr o ddyblu y boblogaeth yn y cyfnod cydrhwng y ddau gyfrif.†

# SIR GAERNARFON.

Myned yn mlaen ar fy nhaith o Borthaethwy i fyny ffordd serth, ac yn fuan disgynais i *Fangor*, tref fechan yn sefyll mewn dyffryn sydd yn agor i forgilfach Beaumaris. Dyma lle y mae y sedd esgobol. Nid yw preswylfod yr esgob ond canolig iawn,‡ mewn palas gerllaw i'r eglwys gadeiriol; yr hon, oddiwrth yr ysgrifiad sydd arni, yr ymddengys ei hailadeiladu gan yr esgob Skeffington, yr hwn a fu farw yn 1533, yn mynachlog Beaulieu, yn yr hon y buasai yn abad. Cyfarwyddodd fod ei gorph i gael ei gladdu yno; ei galon yn Mangor, o flaen delw ei sant nawddogol, St. Daniel.

*Bangor.*

St. Daniel, mab Dunawd, abad Bangor Iscoed yn sir Fflint, yn gyntaf a sefydlodd yma goleg er addysgu ieuengtyd, a chynal yr achos clerigol yn y parthau hyny.§ Cressy a'i geilw yn fynachlog, a dywed ei bod yn llawn o fynachod;‖ dichon mai ffoadigion o'r Fangor arall, oddiwrth ba un, efallai, y cafodd ei henw. Oddeutu y flwyddyn 550, Maelgwn Gwynedd, un o'r hen foneddigion hyny, y rhai a ddeuant yn rhinweddol yn eu hen ddyddiau, ac a "wnant aberth i DDUW o weddillion y Diafol,"¶ a drôdd y coleg yn esgobaeth, ac a apwyntiodd Daniel i fod yr esgob cyntaf. Ni wyddom beth oedd eangder ei esgobaeth. Y mae yr un bresenol yn cynwys yr oll o sir Fôn; sir Gaernarfon, oddieithr Llysfaen, Eglwys Rhos, a Llangystenyn, y rhai a berthynant i Lanelwy, a Llanbeblig i Gaerlleon. Yn sir Ddinbych y mae ganddi bedwar-ar-ddeg o blwyfi, ac yn sir Drefaldwyn saith.

*Yr Eglwys Gadeiriol.*

Dinystriwyd yr eglwys gadeiriol gan y Sacsoniaid gwrthryfelgar yn y flwyddyn 1071. Ail-adeiladwyd hi drachefn; oblegyd cawn, yn y flwyddyn 1212,** fod y brenin Ioan wedi goresgyn y wlad, a gorfodi yr esgob, Robert o'r Amwythig, i fyned oddiwrth yr allor, a thalu iddo ef ddau cant o hebogiaid am ei ryddhad. Yn y fl. 1402, darostyngwyd hi unwaith yn rhagor yn lludw trwy gynddaredd Glyndwr, ac arosodd yn y cyflwr hwnw am ddeng mlynedd a phedwar ugain, pan yr adferwyd y côr gan yr esgob Dean, neu Deny; ac adeiladwyd corph yr eglwys a'r tŵr gan yr esgob haelionus hwnw Thomas Skeffingtou, yn 1532. Yr oedd y tŵr i gael ei godi i ddwywaith yr uchder, ond darfu i farwolaeth yr esgob rwystro i'r amcan gael ei

* Willis's Bangor, 51.


† Yn 1795 amcan-gyfrifid poblogaeth Môn yn 28,611; yn nghyfrifiad 1801, yr oedd yn cyrhaedd i 33,334, ar wahan i bedwar o blwyfi y rhai ni roddasant adroddiad i fewn, y rhai y bernid eu bod yn cynwys tua 1000 o eneidiau. GOL. Yn 1881, yr oedd poblogaeth Môn yn 50,964. CYF.

‡ Y mae y palas esgobol wedi ei wella yn fawr gan y parchedig John Warren, yn ystod yr amser y bu efe yn esgob GOL.

§ Willis's Bangor, 53. ‖ Church Hist. 233. ¶ Swift.

** Annal. Menev. in Goodwin, ii. 650.

Digitized by Google



*EGLWYS GADEIRIOL BANGOR.*

**BANGOR CATHEDRAL.**

Digitized by Google

Digitized by Google

gario ymlaen.* Gwnaethpwyd, neu wydrwyd, y ffenestri, yn ol arferion yr amserau, trwy dduwiolfrydedd gwahanol bersonau, yn mysg pa rai y gallwn gyfrif y Deon Kyffin, a rhai o'r *Griffiths* o'r Penrhyn.†

*Beddadeiliau.*] Nid oes dim yn neillduol oddifewn, oddieithr ychydig feddi. Gorwedda y tywysog doeth a gwrolfrydig Owain Gwynedd, o dan fwa, gyda chroes flodeuog wedi ei thori ar gareg lefn. Bu ef farw gyda galar am dano gan ei holl gydwladwyr, ac yn cael ei arswydo gan ei elynion, yn 1169. Ar y llawr y mae cerfiad anurddedig o ffugur, mewn prês, a fwriadesid i arddangos Richard Kyffin, deon gweithgar yn yr eglwys hon yn nheyrnasiad Rhisiart III. a Harri VII. Bu farw ar y 13eg o Awst, 1502. Y mae y lle y claddwyd ef hyd heddyw yn dwyn yr enw *Bedd y Deon du*, fel y tybiaf oddiwrth liw ei wynebpryd. Claddwyd amryw o'r esgobion yma, ond, oddieithr lluniau di-ben yr esgobion Rowlands a Vaughan, y rhai a amharwyd yn yr amseroedd penboeth, nid oes unrhyw gofadeiliau hynod am unrhyw un o honynt yn aros yn bresenol. O'r greirfa ar ochr aswy yr allor fawr, o dan ba un, yn 1137, y claddwyd y tywysog dewr a doeth Gryffydd ap Cynan,‡ nid oes dim olion i'w gweled yn bresenol.

Mewn hen amseroedd, yr oedd yma gapel wedi ei gyflwyno i St. Mair, yr hwn a safai o'r tu ol i'r palas. Dywedir iddo gael ei sylfaenu gan y brenin Edgar, yn nechreuad teyrnasiad Hywel ap Ieuaf; yr hwn ar y pryd a gadarnhaodd freintiau yr esgobaeth, ac a'i gwaddolodd yn haelfrydig.§

Tŷ y pregethwyr mynachaidd a safai ychydig o ffordd allan o'r dref. Sylfaenwyd ef mor gynar a'r flwyddyn 1276: dyry yr esgob Tanner yr anrhydedd o wneyd hyny i Tudor ap Gronw, arglwydd Penmynydd a Threcastell yn Môn, yr hwn a'i helaethodd neu a'i hail-adeiladodd yn 1299, ac a gladdwyd yma yn 1311. Iorwerth VI. a wnaeth anrheg o'r lle i Thomas Brown a William Breton. Yn fuan ar ol hyny, gwnaethpwyd hi yn ysgol rydd gan Jeffry Glynn, LL.D., dadleuydd yn Doctor's Commons, a brawd i'r esgob Glynn. Trwy ei lythyr cymun, yr hwn a brofwyd Gorph. 21ain, 1557, efe a adawodd y llywodraeth o honi i'w frawd, ac i Meurig Gruffydd, esgob Rochester. Buont hwy feirw cyn cyflawn sefydlu pethau, ond gadawsant eu hawdurdod i Syr William Petre, ac ereill; y rhai a gytunasant ar reolau i'r meistr a'r isfeistr, gyda chydsyniad yr esgob, y deon a'r siaptr, ac Alexander Nowel, deon St. Paul, yr hwn, fel y dywedir, a'u cyfansoddodd.‖ Uwch ben mantell y simnai y mae hen gofadail i ryw Gruffydd, gyda chleddyf hir o'r tu ol iddo. Ar ochr y grisiau y mae careg arall, efallai yn rhan o fedd y sylfaenydd Tudur ap Gronw ap Tudur, gyda'r geiriau *ap Tudor* yn gerfiedig arni.¶

*Castell.*] Hugh Lupus, yn ei anrheithiad barbaraidd i Fôn, a sefydlodd gastell yn Mangor, i'r dyben o gario ymlaen ei ddifrodiadau gyda mwy o ddyogelwch.** Yr oedd ei safle yn gwbl anadnabyddus, nes iddo gael ei nodi allan i mi gan y parchedig E. R. Owen, i'r hwn foneddwr yr wyf o dan fynych rwymedigaeth yn y rhan hon o'm gwaith. Gorwedda agos i chwarter milldir i'r dwyrain o'r dref, ar drum o fryniau a derfynant yr ochr ddehau-

* Willis's, 21. † Ibid, 17, 18. ‡ Bywyd Gruffydd ap Cynan yn y Sebright MSS.
§ Willis, 46, 183. Wynne's Hist. Wales, 59. ‖ Willis's Bangor, p. 47. ¶ Salisbury Pedigree, 126.
** Sebright MSS. yn Mywyd Gruffydd ap Cynan

Digitized by Google

ddwyreiniol o'r dyffryn, ac agos yr un pellder oddiwrth y porthladd. Safai y castell ar fryn creigiog, a chlogwynog mewn llawer o fanau. Y mae yn hawdd olrhain tair ochr o'r gwaliau; ar y ddehau-ddwyreinol ymestynent hyd gant ac ugain llath; ar y ddehau-orllewinol chwech a thriugain, gan derfynu mewn clogwyn; ar yr ogledd-ddwyreiniol gellir eu holrhain am ddeugain llath, a therfynant yn yr un modd. Ar y bedwaredd ochr, yr oedd nerth naturiol y lle yn peri fod ychwaneg o amddiffyniad yn afreidiol. Bryncynau o bridd, yn tueddu at ffurf haner-cylchog, gyda chreigiau a chlogwyni, a gysylltant y muriau gogledd-orllewinol a dehau-ddwyreiniol. Ni wyddom amser ei ddadymchweliad; dichon, mor fuan ag y cyflawnodd yr iarll ei fwriadau, iddo gael ei adael i syrthio yn adfeilion.*

Wrth adael Bangor, cymerais y ffordd tua Chonwy. Mewn ychydig bellder *Aber Cegid.*] oddiwrth y flaenaf, croesais *Aber Cegid*, crigyll bychan, y gellir ei rydio ar ddistyll; ac o ba le y mae llawer o filiynau o lechi yn cael eu trosglwyddo allan o'r wlad bob blwyddyn. Saif y chwareli oddeutu pedair milldir oddiyma, yn agos i'r fynedfa i Nant Ffraugcon, ychydig bellder oddiwrth yr afon Ogwen. Eiddo Arglwydd Penrhyn ydynt, yr hwn sydd wedi ychwanegu yn ddirfawr at boblogaeth y sir trwy y gwelliadau a wnaeth yn masnach y llechi. Y mae y chwareli erbyn hyn wedi dyfod yn ffynhonell trafnidiaeth anferthol. Pan ddaeth ei arglwyddiaeth gyntaf i'r etifeddiaeth, nid oedd mil o dunelli yn cael eu hanfon yn flynyddol o'r deyrnas: nid oedd braidd yn bosibl trafaelio y wlad; y ffyrdd nid oeddynt nemawr gwell na llwybrau ceffylau: y bythynod oeddynt druenus, a'r amaethwyr mor dylodion, fel nas gallent, yn yr holl randir, gynyrchu mwy na thair o droliau cydrhyngddynt, a'r rhei'ny yn eithaf truenus. Yn bresenol y mae ffordd gerbyd ragorol wedi ei gwneyd, hyd yn nod tu hwnt i Nant Ffraugcon, ac y mae dychryniadau y Benglog wedi cael eu llwyr ddiddymu;† ac y mae oddeutu cant a thri o gertwyni llydan-echelog yn awr mewn gwaith parhaus yn cludo y llechi i lawr i'r porthladd. Yn y flwyddyn 1792, yr oedd uwchlaw deuddeng mil o dunelli yn cael eu hanfon allan; a hyderir, mewn ychydig amser, y bydd y swm wedi ei gynyddu i un fil ar bymtheg. Yr ydys ar fin helaethu y porthladd: y mae bob amser yn llawn o longau: gwelais un fy hun o fwy na thri chant o dunelli: gwasanaethir hwy yn eu tro; ond y fath ydyw y gwelliantau yn ein teyrnas flodeuog, fel mai gydag anhawsdra y gall ein chwareli gyflawni y galwad am lechi. Anfonir hwy i Liverpool, ac i fyny y Mersey trwy y gamlas i holl ranau tufewnol y deyrnas, ac i *Hull;* o ba le yr ail gychwynir hwy ar fordaith arall; llwythir niferi am yr Iwerddon, am Fflanders, ac hyd yn nod am yr India Orllewinol.

* Yn 1806. darganfyddwyd yn agos i Tŷ Coch, oddeutu dwy filldir o Fangor, gareg rutfaen ddeunaw modfedd o hyd, a thair troedfedd a phedair modfedd o amgylchedd, ar yr hon y mae y cerfiad canlynol. Gol.

N·V M·N C·
IMP· CAESAR· M·
AVREL·ANTONINVS
PIVS.·P· IX·AVC·ARAB

† Gwel fy nesgrifiad o'r lle, yn tudal. 336 o'r gwaith hwn.

Digitized by Google

Yn Mhorth Penrhyn y mae ei arglwyddiaeth wedi sefydlu gweithdai mawrion at wneuthur llechi ysgrifenu. Yn flaenorol i hyn, yr oeddym yn eu cael i gyd o Switserland: ond y mae y farsiandïaeth hono yn awr wedi darfod: a'r masnachwyr Swissaidd wedi dyfod yn fethdalwyr. Y nifer o lechi ysgrifenu a wnaed ac a drosglwyddwyd allan o Borthladd Penrhyn, yn ystod y deuddeng mis diweddaf, ydyw 136,000: y mae swm y coed a ddefnyddir yn y fasnach fechan yma yn fwy na 3000 o droedfeddi yn y flwyddyn; ac y mae nifer y gweithwyr ar waith rhwng pump a deg ar hugain. Rhaid i mi gynghori ar fod i'r ymdeithydd cywrain farchogaeth i'r chwareli; byddant yn werth ei sylw, yn ogystal a'r holl welliantau ereill a wnaethpwyd gan ei arglwyddiaeth, yn y blynyddoedd diweddaf. Y mae yr holl ardal yn llawn o dai a bythynod y chwarelwyr, wedi eu hadeiladu yn unol â chynllun ceindlws Mr. Wyatt; ac y mae Glan Ogwen yn bresenol yn lluest brydferth er derbyn Arglwydd Penrhyn, pa bryd bynag y dewiso anrhegu ei gyfeillion â golwg ar y cyfnewidiadau hyglod a wnaed yn ngwyneb y wlad hon a fu unwaith mor anghyfanedd.

Ar gopa craig, heb fod yn mhell o Borth Penrhyn, ac yn arddangos golygfa o'r fath mwyaf swynol, y mae *Penrhyn* yn sefyll, hen dŷ hynafol, ar un adeg yn cael ei amgau mewn coed derw hybarch. Dywedir fod y tŷ wedi cael ei adeiladu ar safle palas i Rodri Molwynog, tywysog Cymru, yr hwn a ddechreuodd ei deyrnasiad yn 720. Parhaodd dros amser hirfaith yn meddiant ein tywysogion. Yn 987 cafodd ei wneyd yn gydwastad â'r llawr gan Meredydd ap Owain; yr hwn, yn y flwyddyn hono, a oresgynodd Ogledd Cymru, ac a laddodd Cadwallon ap Ieuaf, tywysog y wlad. Yn amser Llewelyn Fawr, cafodd y lle yma ei roddi, yn nghyda holl gantref Llechwedd Uchaf, i Iarddwr ap Trahaiarn, dyn pwysig yn y cyfnod hwnw. Efa, neu Enerys, fel y mae rhai yn ei galw, un o'i ddisgynyddion, yr hon, yn ol hen arferiad y wlad o ranu yr eiddo, a gawsai Penrhyn yn eiddo iddi ei hun, a'i rhoddodd, ynghyda'i pherson anwylgu, i Gruffydd ap Heilin ap Syr Tudur ap Ednyfed Fychan, ar y cyntaf yn arglwydd Brynffanigl. Blodeuodd y teulu yma am luaws o genedlaethau. William Fychan, mab i Gwilym ap Gruffydd, a Sioned, merch i Syr William Stanley o Hooton, a gweddw yr ustus Parys, trysorydd Gogledd Cymru a Chaerlleon, yn y 18fed o Harri VI., a ddaeth i mewn i etifeddiaethau ei dad, ac eiddo yr ustus, ac hefyd olynodd y blaenaf yn ei swydd bwysig o drysorydd Gogledd Cymru; anrhydedd a barhawyd i amryw o'i olynwyr, ac y mae hyd heddyw yn meddiant yr arglwydd is-iarll Bulkeley.

*Penrhyn.*

Y mae yn hynod, yn ei amser ef, fod llymder y cyfreithiau y fath yn erbyn y Cymry, ac yn cael eu cario allan felly hefyd, fel nas gallai neb fod yn ddinesydd o Loegr, ond ar yr amod iddo beidio priodi Cymraes; ac felly, efe a briododd ferch i ryw Syr William, neu Syr Richard Dalton.

*Piers Gruffydd.*

Yn nheyrnasiad y frenines Elisabeth, darfu i *Piers Gruffydd*,* arglwydd y lle hwn, hynodi ei hun fel swyddog morwrol. Efe a hwyliodd o Biwmaris ar yr 20fed o Ebrill, 1588, ac a gyrhaeddodd

* Efe a briododd Margaret, merch i Syr Thomas Mostyn, o Fostyn, marchog, a chafodd o honi dri o feibion, yr oll o ba rai a fuont feirw yn ieuaingc. Dywedir y byddai yn adeiladu, neu yn adgyweirio ei longau yn Aber-Cegid; yn mha le yr oedd, hyd yn ddiweddar, ar dalcen tŷ, y llythyrenau P. G. a'r flwyddyn, 1598.

Digitized by Google

Blymouth ar y 4ydd o Fai, lle y cafodd ei dderbyn yn y dull mwyaf anrhydeddus gan y môr-lywydd galluog hwnw Syr Ffrancis Drake. Cymerodd ran, gydag amryw ddynion uchel a dewrfrydig, yn ngorchfygiad y *Spanish Armada*. Ar ol y fuddugoliaeth ogoneddus hono, ymunodd gyda Syr Ffrancis Drake, a Syr Walter Raleigh, yn eu gwahanol ymosodiadau yn erbyn yr Yspaeniaid yn yr India Orllewinol; ond yn nheyrnasiad Iago I., trwy iddo barhau ei anrheithiadau yn erbyn yr Yspaeniaid wedi i heddwch gael ei gyhoeddi, efe a gafodd ei alw i gyfrif, ac mor dost fu yr erlidigaeth arno, fel y gorfu iddo wystlo ei etifeddiaeth er talu y costau; rhan i ryw ddinasyddion o Lundain, a rhan i Ieuan Llwyd, ysw., o Iâl; yr olaf o ba rai, mewn cysylltiad â Syr Rhisiart Trefor, a brynasant y cwbl yn 1616, ac a'i gwerthasant i'r arglwydd geidwad Williams yn 1622; a'r archesgob a'i cymun-roddodd i Gruffydd Williams, mab ei frawd hynaf, yr hwn a grëwyd yn farwniad ar yr 17eg o Fehefin, 1661. Ei fab, Syr Robert, y perchenog olaf a fu yn byw yn Mhenrhyn, a adawodd ar ei ol dair o ferched; Ffrances, yr hon a briodwyd yn gyntaf â Robert Lloyd o Ecclusham, gerllaw Gwrecsam, wedi hyny âg Iorwerth arglwydd Russel, trydydd mab y duc Bedford cyntaf; Anne, yr hon a briododd Thomas Warburton, o Winnington, yn sir Gaerlleon; a Gwen, â Syr Walter Yonge, o sir Devon. Ni bu plant i Iarll Russel, ac felly, yn garedig, efe a roddodd y rhan a ddygwyddai iddo ef o'r etifeddiaeth i'r ddwy chwaer oedd yn fyw ar ei ol. Syr George Yonge, ŵyr i'r blaenaf, a werthodd ei gyfran ef i'r diweddar John Pennant, ysw.; mab yr hwn, Richard Pennant arglwydd Penrhyn, a feddianna y cwbl trwy ei briodas âg Anne Susannah, merch a chwbl etifeddes i'r diweddar gadfridog Warburton o Winnington.

Yr adeiladau presenol a safant o amgylch buarth, a chynwysant borth, capel, a thŵr, neuadd eang, ac ychydig ystafelloedd ereill. Oddiwrth amryw adfeilion gellir olrhain ei faintioli blaenorol. Ailadeiladwyd y tŷ yn nheyrnasiad Harri VI. gan Gwilym ap Gruffydd. Yr oedd pais-arfau y *Stanleys* (eiddo ei wraig) yn gymhlethedig â'r eiddo ei hun, i'w gweled yn ffenestri y neuadd hyd y flwyddyn 1764: oddiwrth y cynlythyrenau R. G., a'r amseriad 1575, ymddengys fod Syr Rhys Gruffydd wedi ei adgyweirio yn y flwyddyn hono. Dyry i mi foddhad mawr, wrth feddwl fod y lle i gael ei adferu i'w ysplenydddra blaenorol, o dan arolygiaeth ei berchenogion presenol, ac yn unol â chynllun yr arch-adeiladydd galluog hwnw Mr. S. Wyatt.*

*Corn Yfed.*] Yr unig ddodrefnyn ag sydd yn aros yn y tŷ hwn, o unrhyw hynafiaeth, ydyw corn yfed yr arwr *Piers Gruffydd;* o ba un y bum yn yfed, yn ystod teyrnasiad lletygar Mr. Richard Hughes, y goruchwyliwr. Corn bual mawr ydoedd, hyny ydyw, corn ŷch, wedi ei addurno âg arian, a chadwyn o'r unrhyw fetel yn gysylltiedig âg ef. Yn un pen y mae cynlythyrenau ei enw, P.G. a'r eiddo ei dad a'i fam, R.G.K. neu Rhys a Katherine Gruffydd. Yr oedd y cyfryw gyrn mewn ymarferiad gan y Daeniaid, y Sacsoniaid, yr Ysgotiaid, a'r Cymry. Yr oedd genym, mewn hen amseroedd, yn ein llys breninol, dair rhywogaeth o wasanaeth a wnelid â chorn yr ŷch. Yn y lle cyntaf yr ydym yn cael *Y corn ydd yfo y Brenin;* yn ail, *Corn*

* Y mae y cynllun yma wedi cael ei gario allan; ond byddai manylu ar yr amrywiol welliantau lluosog a wnaeth y diweddar arglwydd Penrhyn yn gofyn mwy o le nag y mae y Golygydd yn ei ganiatáu iddo ei hun yn y nodiadau byrion hyn. Gol.

Digitized by Google

*Cynweithas*, neu y corn o ba un yr yfai y gwasanaethwyr; ac yn drydydd, *Corn y Pencynydd*, neu gorn y prif heliwr. Yr oedd pob un o honynt i fod yn werth punt.* Byddai yfed o gwpan y brenin, ar uchel-wyliau, yn rhagorfraint i swyddogion y llys. Felly yr oedd y llywydd i gael cwpanaid o fedd o law y prif oruchwyliwr. Yr un swyddog hefyd a ranai gwpaneidiau o ddiod i amryw o rai ereill; yn eu plith, i'r porthor breninol; yr hwn, ar rai adegau, a feddai, heblaw ei gornaid oddiwrth y brenin a'r frenines, un arall oddiwrth feistr y ceffylau, yr hwn a elwid *Gwirawd i'r Ebysdyl*,† ar yr hwn, efallai, yr erfynid am gymhorth wrth ei yfed. Y Daeniaid a alwent am gymhorth y galluoedd goruchelaf i gynorthwyo yn nhraflyngciad y gwpanaid nerthol: *Help Got unde Maria.*‡ (Trwy nerth Duw a Mair.) A'r *Sacson Ulphus*, pan yn trosglwyddo tiroedd i eglwys Caerefrog, wrth yfed y cornaid, a ddywedai, Duw *a St. Pedr.*§ Ar achlysuron llai pwysig, yfid y cornaid ar un traflwngc, ac yna chwythid trwyddo, i ddangos nad oedd dim twyll. Yr oedd y corn llawenydd yn destyn cerdd. Felly y mae Owain Cyfeiliog, y bardd tywysogaidd,‖ yn arddercbogi y *Corn Hirlas* a ddefnyddid ar adegau gwleddoedd yn ei balas ef. Ysgrifena mewn arddull mwy dyrchafedig, am fod y gerdd wedi ei chyfansoddi yn ddiatreg ar ol buddugoliaeth fawr a enillasid ar y Saeson yn Maelor.

# HIRLAS OWAIN.

## OWEIN CYFEILIOG E HUN AI CANT.

Gwawr pan ddwyre gawr a ddoded,
Galon yn anfon anfudd dynged,
Geleurudd ein gwŷr wedi lludded trwm,
Tremit gofwy mur Maelawr Drefred.

Deon a yrrais dygyhyssed,
Diarswyd a'r frwydr arfau goched,
A rygoddwy glew gogeled rhagddaw,
Gnawd yw oi ddygnaw ddefnydd codded.

Dywallaw di fenestr gan foddhäed,
Y Corn yn llaw Rhys yn llys llyw ced,
Llys Owain ar braidd yt ryborthed erioed,
Porth mil a glywi pyrth egored.

Menestr am gorthaw, nam adawed,
Estyn y Corn er cyd yfed,

* Leges Wallicæ, 311. † Yr unrhyw, 17, 47. ‡ Journey to London, 179. § Archæologia, iii. 8.
‖ Efe oedd dywysog Powys, ac yn ei flodau oddeutu y flwyddyn 1160. Gwel Gasgliad y Parchedig Evan Evans, tudal. 7



Digitized by Google

Hiraethlawn am llyw lliw ton nawfed,
Hirlas i arwydd aur i dudded:
A dyddwg o fragawd wirawd orgred,
Ar llaw Wgan draws dros i weithred,
Canawon Goronwy, gwrdd gynnired gwyth,
Canawon hydwyth, hydr eu gweithred:
Gwyr a obryn tal ymhob caled,
Gwyr yngawr gwerthfawr gwrdd ymwared,
Bugelydd Hafren balch eu clywed
Bugunat cyrn medd mawr a wna neued.

Dywallaw di'r corn argynfelyn,
Anrhydeddus, feddw, o fedd gorewyn,
Ac o'r mynni hoedl hyd un blwyddyn,
Na ddidawl i barch, can nid perthyn
A dyddwc i Ruffudd waywrudd elyn
Gwin a gwydr goleu yn ei gylchyn,
Dragon Arwystli, arwystl terfyn,
Dragon Owain hael o hil Cynfyn,
Dragon iw dechreu, ac niw dychryn cat,
Cyflafan argrat cymyw erlyn.
Cetwyr ydd aethant er clod obryn;
Cyfeddon, arfawc, arfau Edwyn,
Talassant i medd mal gwyr Belyn gynt,
Teg i hydrefynt tra fo undyn.

Dywallaw di'r corn, canys amcan cennyf
Ydd ymgyrryw glyw gloyw ymddiddan,
Ar llaw ddehau ein llyw gyflafan,
Lluch y dan ysgwyd ysgawn lydan,
Ar llaw Ednyfet llawr diogan lew,
Ergyrwayw trylew, trei i darian.
Terfysg ddyffysc ddeu ddiofn anian,
Torrynt torredwynt uch teg adfan,
Teleirw ynghynrein ynghyfran brwydr,
Tal ysgwyd eurgrwydr torrynt yn fuan:
Tryliw eu pelydr gwedi penwan,
Trylwyn yn amwyn amwiw Garthan.
Cigleu yn Maelawr gawr fawr fuan,
A garw ddisgyrr gwyr, a gwyth erwan,
Ac ymgynnull am drull am dramwyan,
Fal i bu yn Mangor am ongyr dân:
Pan wnaeth dau deyrn uch cyrn cyfrdan,
Pan fu gyfeddach Forach Forfran.

Dywallaw di'r corn, canys myfyr gennyf,
Men ydd amygant medd a'n tymmyr,

Selyf diarswyt Orsaf Gwygyr,
Gogelet ai cawdd calon eryr!
Ac unmab Madawc, enwawg Dudur hael,
Hawl bleiddiad, lleiddiad, lluch ar ysgyr,
Deu arwreidd, deu lew, yn eu Cyngyr,
Deu arial dywal dau fab Ynyr,
Dau rydd yn nydd cad eu Cyfergyr,
Cyfargor diachor camp diachyr,
Arfod llewod gwrdd, gwrddwan cadwyr,
Aer gunieid, lunieid, coch eu hongyr,
Treis erwyr yn ffwyr ffaw ehegyr,
Trei eu dwy aesawr dan un ystyr,
Gorfu gwynt gwaeddfan uch glan glysfyr,
Gorddwy clau tonnau Talgarth ystyr.

Dywallaw di fenestr na fyn angau,
Corn cân anrhydedd ynghyfeddau,
Hirlas buelin, breint uchel hen ariant,
A'i gortho nid gorthenau:
A dyddwg i Dudur, eryr aerau,
Gwirawd gyssefin o'r gwin gwinau,
Oni ddaw i mewn o'r medd gorau oll,
Gwirawd o ban, dy ben faddau,
Ar llaw Foreiddig, llochiad cerddau,
Cerddyn hyn i glod cyn oer adnau,
Dieithr frodyr fryd ucheldau,
Diarchar arial a dau dalau,
Cedwyr am gorug gwasanaethau,
Nid ym hyn dihyll nam hen deheu
Cynnifieied, gyrthieid, fleinieid, fleiddiau,
Cynfaran creulawn creulyd ferau,
Glew glyw Mochnannwys o Bowys beu:
O glew gwnedd arnaddunt deu,
Achubieit pob rheid, rhudd eu harfeu:
Echedwynt rhag terfysc eu terfynau,
Moliant yw eu rhann y rhei gwynnau;
Marwnad fu neud mi newid y ddau!
O chan Grist mor drist wyf o'r anaeleu!
O goll Moreiddig mawr ei eissieu.

Dywallaw di'r corn can nim puchant,
Hirlas yn llawen yn llaw Forgant,
Gwr a ddyly gwawd gwahan foliant,
Gwenwyn y addwyn, gwan edrywant,
Areglydd defnydd dioddefiant llafn,
Llyfn i deutu llym ei hamgant.

Digitized by Google

Dywallaw di fenestr o lestr Ariant,
Celennydd edmyg, can urdduniant,
Ar llawr Gwestun fawr gwelais irdant,
Ardwy Goronwy oedd gweith i gant,
Cedwyr cyfarfaeth ydd ymwnaethant,
Cad ymerbynieid, eneid dichwant,
Cyfarfu ysgwn ac ysgarant aer,
Llas aer, llosget maer ger mor lliant:
Mwynfawr o garcharawr a gyrchassant,
Meurig fab Gruffydd grym ddarogant,
Neud oedd gochwys pawb pan atgorsant,
Neud oedd lawn o heul hirfryn a phant.

Dywallaw di'r corn i'r cynnifieid,
Canawon *Owain*, cyngrein, cydneid,
Wynt a ddyrllyddant yn lle honeid,
Glud men ydd ant gloyw heyrn ar neid:
*Madawc* a *Meilir* gwyr gorddyfneid treis,
Tros gyferwyr gyferbynieid:
Tariannogion torf, terfysg ddysgeid,
Trinheion faon, traws ardwyeid.
Cigleu am dal medd myned dreig Cattraeth,
Cywir eu harfaeth, arfau lliweid,
Gosgordd Fynyddawc am eu cysgeid,
Cawssant y hadrawdd cas flawdd floenieid;
Ni wnaeth fy nghedwyr ynghalet Faelor,
Dillwng Carcharor dullest foleid.

Dywallaw di fenestr fedd hidlaid, melus,
Ergyrwayw gwrys gochwys yn rheid,
O gyrn buelin balch oreuraid,
Yr gobryn gobrwyau henaid;
O'r gynnifer anhun a borth cynnieid
Nis gwyr namyn Duw ac ai dywaid.
Gwr ni dal ni dwng, ni bydd wrth wir,
*Daniel* dreig cannerth, mor serth hewir;
Menestr mawr a gweith yd ioleithir
Gwyr ni oleith lleith, oni llochir,
Menestr medd ancwyn a'n cydroddir,
Gwrdd-dan gloyw, goleu, gwrddloyw babir.
Menestr gwelud dy gwyth yn Llidwm dir
Y gwyr barchaf wynt a berchir.
Menestr gwelud dy galchdoed Cyngrein,
Ynghylchyn *Owain* gylchwy enwir,
Pan breiddwyd Cawres, taerwres trwy dir,

Preidd ostwng orflwng a orfolir,
Menestr nam didawl, nim didolir;
Boed yn Mharadwys in cynhwysir,
Can pen teyrnedd, poed hir eu trwydded,
Yn i mae gweled gwaranred gwir. Amen.

Yr oedd y beirdd yn dra haelfrydig o'u mawl i ddynion enwog y tŷ hwn, yn enwedig i Syr William Gruffydd, trysorydd Gogledd Cymru. Hywel ap Reinallt a'i hanrhydeddodd â Chywydd, ar achlysur ei garchâriad gan Rhisiart III. gydag arglwydd Strange, am ei ymlyniad wrth iarll Richmond, wedi hyny Harri VII. Ac y mae Lewis Môn fel hyn yn anerch Syr Gruffydd, ar ei waith yn arwain ei gydwladwyr i Ffraingc yn y teyrnasiad dylynol:—

Nid â dy fath, odid fydd,
I dir Gïen* dragywydd.

*Llandegai.*] O Benrhyn ymwelais âg eglwys *Llandegai*, yr hon a elwid *Cora-rian*† yn yr hen amseroedd, oddeutu milldir o bellder oddiwrth y tŷ; ac yn sefyll ar fryncyn uchel uwchlaw afon Ogwen, o ba le y ceir golygfa hrydferth. Adeilad fechan ydyw, ond destlus, ar ffurf croes, gyda thŵr yn y canol, ac yn cael ei chynal i fyny oddi fewn gan bedwar bwa. Yma y mae cofadail alabastr o ddyn, mewn arfau, a'i foneddiges, ar eu gorwedd. Dichon eu bod yn perthyn i'r tŷ sydd gerllaw; ond iddynt gael eu symud, ar adeg y dadgorphoriad, o fynachlog Llanfaes, lle y mae y personau a arddangosir wedi eu claddu. Y mae cofeb yn y mur, gyda ffugur o'r archesgob John Williams, yn ei wisg esgobol, yn penlinio wrth allor, wedi eu gosod uwch ben gweddillion yr esgob hynod hwnw. Darfu i'r olwg ar y gofadail hon roddi achlysur i'r parchedig Sneyd Davies gyfansoddi cân brydferth, yr hon sydd wedi ei hargraffu yn y chweched gyfrol o gasgliad Dodsley. Ganwyd yr esgob hyglod hwn yn Nghonwy. Ei dad Edmwnd ydoedd y chweched mab o deulu Cochwillan yn y gymydogaeth, oangben o dylwyth y Penrhyn; ei fam Mary ydoedd ferch Owen ap John Owen‡: yr archesgob ydoedd eu pummed mab. Yn ei ddyddiau plentynaidd, gyda chwareuyddion ereill, efe a ymddifyrai trwy neidio o ran o waliau Conwy i lan y môr. Bu y codwm ar lo mor beryglus, fel ag i beri na byddai byth yn agored i unrhyw gyhuddiad o anniweirdeb. Yr wyf yn crybwyll hyn yn unig er mwyn ei ddyogelu rhag y sylwadau annheg a fwriwyd arno gan yr hanesydd goganllyd, Syr Anthony Weldon.§ Pan yn yr ysgol yn Rhuthyn, yr oedd yn gyfuniad o segurdod a diwydrwydd bob-yn-ail.‖ Tynodd ei alluoedd sylw buan. Aeth i fywyd cyhoeddus fel caplan i'r arglwydd ganghellydd Egerton; a thra yn pregethu o flaen y brenin, boddiodd glust ei fawrhydi, fel y darfu i Iago, yn 1610, ei wneyd yn ddeon Salisbury; ac fel y daeth ei alluoedd mawrion yn fwy i'r golwg, yn 1620, gwnaed ef yn ddeon Westminster. Yn 1621, apwyntiwyd ef yn arglwydd geidwad, yn lle yr hyglod arglwydd Bacon; ac o fewn llai na mis, pennodwyd ef i esgobaeth Lin-

* Guienne—rhanbarth o Ffraingc.

† Gelwir hon yn awr *Cororion* neu *Coriorion*, yn mha le y mae llyn â pha un y mae nifer o chwedlau y tywyth teg wedi eu cysylltu; gwel y *Welsh Fairy Tales*, yn y Cymmrodor, iv. tudal. 197—216. J.R.

‡ Pedigree of the Family.

§ Memoirs.

‖ Tra yn Nghaergrawnt efe a ddaeth yn aelod o goleg St. Ioan: y mae llythyr oddiwrtho ar yr adeg yma i'w weled yn yr Attodiad, Rhif XVIII.

Digitized by Google

colu. Wedi ei osod yn awr uwchlaw rheolaeth, dechreuodd ei gymeriad ymddadblygu: daeth ei yspryd tu hwnt i lywodraeth gweinidogion; oblegyd, gyda dewredd dihafal, efe a ddaliodd at bobpeth ag oedd yn ei le: ac hefyd, yn gymaint a'i fod yn ddarostyngedig i ffaeleddau ei wlad (tymher uchel, balchder, a gwagedd,) weithiau yn yr hyn nad oedd yn ei le. Cyflawnodd ddyledswyddau ei alwedigaeth, er mor ddyeithr ydoedd i'w swydd briodol, gyda chymeradwyaeth mawr am oddeutu pum' mlynedd. Yn fuan ar ol dyfodiad Siarl I. i'r orsedd, trwy ddylanwad y ffafryn Buckingham, efe a ddiswyddwyd yn sydyn; * oblegyd yr oedd bob amser wedi gwrthwynebu gofynion afresymol yr anwyly n hwnw.

Mewn dau bwynt yn ei gymeriad, rhaid i mi ei ystyried yn ddyn doeth, ond nid yn ddyn da. Yr oedd ei gynghor i'w feistr gofidus, yn achos iarll Strafford, yn rhy ddauwynebog i neb allu ei gyfiawnhau; efallai er dial, oblegyd yr oedd yn casâu y gweinidog diofrydedig. Yr oedd yspryd Machiavel yn ymgodi yn gryf ynddo, pan y soniai am gydwybod gyhoeddus a chydwybod neillduol; ac yn fwy cadarn fyth pan y cynghorai Siarl, os na allai y brenin enill Cromwell trwy ymddygiad teg, fod iddo ei ddal trwy ddichell, a'i dori yn fyr. Yn yr amgylchiadau hyn gall ymddangos yn weinidog mawr, ond yn dduwinydd drwg. Gellir arddangos y gwendid, yr anwastadrwydd, sydd yn perthyn hyd yn nod i alluoedd o'r dosparth cyntaf, yn ei waith yn ceisio ymddiffyn ei hun yn wyneb cyhuddiad dibwys; oblegyd efe a syrthiodd i'r trosedd gwarthus o gyflogi rhai i dyngu anudon, ceryddwyd ef yn y *star-chamber*, a dyoddefodd garchar o 1637 hyd 1640. Wedi cael ei ryddhau, efe am dymhor a ymunodd â'r arweinwyr poblogaidd, am ei fod wedi ei gyffrôi yn erbyn y llys. Caniatäer i mi briodoli hyn hefyd (a dichon y gall hynawsedd addef yr achos) i danbeidrwydd naturiol ei dymher; oblegyd ar bob achlysur helbulus efe a ddangosai ei zêl dros ryddid y deiliaid, a'i ffyddlondeb i'w urdd. Yn fuan ar ol hyn, efe a ddyrchafwyd, yn ol hen addewid a wnaed iddo, i archesgobaeth Caerefrog. Yr oedd yn bleidiwr cadarn i *ddeiseb iawnder*,† gan y rhagwelai ei fod yn gwasanaethu y brenin yn gystal a'r bobl trwy wneuthur hyny. Fel cyfaill i'r eglwys, yr oedd yn ddadleuydd mor lwyddiannus, a dangosodd y fath hyawdledd a nerth ymresymol, yn y ddadl yn Mai 1641, ar y pwngc o ddiddymu pleidleisiau yr esgobion yn nhŷ yr arglwyddi,‡ fel y cafodd y peth ei daflu allan am yr eisteddiad hwnw. Yn y rhan ddiweddaf o'r flwyddyn, pan yr oedd cynddaredd y lluaws yn rhedeg yn uchel, ymosodwyd arno yn monachlog Westminster; a chyda dewrder mawr, gwrth-hyrddiodd danbeidrwydd y terfysgwyr. Dyma yr achlysur cyntaf, hyd y gwn i, i bapuryn goganllyd politicaidd gael ei gyhoeddi erioed. Y mae y prelad yn cael ei arddangos yn ei wisg esgobol, mwsket ar ei ysgwydd, cleddyf yn ei law, helm ar ei ben, a'r meitr ar lawr. Cynyddodd cynddaredd y lluaws, hyd yn nod mor bell ag i afael ynddo ar ei ffordd i dŷ yr arglwyddi, ac i rwygo ei wisg oddiam ei gefn. Wedi ei gynddeiriogi gan hyn, efe a ddychwelodd i fynachlog Westminster (deoniaeth yr hon y caniatesid iddo ei dal am dair blynedd,) ac mewn nwyd o dymher ddrwg efe a gafodd gan un ar ddeg o esgobion i ymuno âg ef mewn gwrthdystiad gorphwyllog yn erbyn pob gweithrediadau a wneid yn nhŷ yr arglwyddi

* Y mae ei lythyr at ei gydwladwr Syr John Wynn o Wydir, ar yr achlysur yma, i'w weled yn yr Attodiad, Rhif XIX. † Drake's Parliam. Hist. viii. 146. ‡ Yr unrhyw, ix. 384.

Digitized by Google

tra y gorfodid hwy i fod yn absenol.* Dygodd hyn gyhuddiad o uchel-fradwriaeth yn eu herbyn, a charchariad am ddeunaw mis, ac yn y diwedd cawsant eu rhyddhau ar fechnïaeth, yn mha un yr oedd yr archesgob yn neillduol yn cael ei rwymo i beidio myned i'w esgobaeth yn ystod parhad y cynhyrfiadau yn sir Gaerefrog.† Efe yn ddiatreg a anufuddhaodd i'r gorchymyn, dylynodd y brenin i Gaerefrog, lle y gorseddwyd ef ar y 27ain o Fehefin, 1642; ond gyrwyd ef ymaith yn uniongyrchol gan yr *Hothams*. Yna enciliodd i'w wlad enedigol, lle y bu farw ar ei ddydd pen blwydd, Mawrth 25ain, 1650, yn 68 mlwydd oed. Bu farw yn Gloddaeth, preswylfod Syr Roger Mostyn, un o bleidwyr penaf y brenin; boneddiges yr hwn a'i rhybuddiodd o ddynesiad ei farwolaeth, yr hon ergyd a dderbyniodd efe gyda duwiolfrydedd, gwroldeb, ac ymroddiad.‡

O Landegai mi a ddisgynais, a chroesais y bont bren (yn awr wedi ei newid am un brydferth o faen) dros yr afon Ogwen ffrochwyllt, yr hon, ychydig yn is i lawr, a ymarllwysa i'r môr yn Aber-ogwen; a cherllaw iddi y mae olion hen gapel, Capel Ogwen, a rhai amddiffynfeydd, er dyogelu y rhan hon o'r wlad.

*Carnedd Llywelyn.*] Yn fuan gadewais y ffordd fawr i ymweled â *Charnedd Llywelyn* a *Charnedd Dafydd*. Yn fy ffordd, yn agos i gae a elwir Cae Gwilym Ddu, y mae ogof, yn yr hon (medd traddodiad) y claddwyd William de Breos, yr hwn a grogwyd gan Llywelyn Fawr, ar yr amheuaeth o fod yn rhy gyfeillgar gyda'i dywysoges. Oddiyno dechreuais ar esgynfa sêth, gan adael ar fy llaw aswy fynydd anferth Moelwynnion, a'r creigiau rhyfedd danneddog Bere Mawr a Bere Fach. Y Gern a ymddangosai ar ein llaw ddehau, a Thrwsgwl o'n blaenau. Ar y llaw ddehau, yn mhellach yn mlaen, yr ymestynai i'r gwaelodion y Foel yr Elain benuchel, gan ymddangos fel cynalydd i Garnedd Llywelyn; a rhyngddi a Charnedd Dafydd gorwedda dyffryn bychan Cwm Penllafar, yn doreithiog o borfa. Aethom yn ein blaenau ar hyd ochrau llechweddog y Trwsgwl, ac yn agos i Garnedd y Filast a Charnedd y Lladron; ac wedi myned dros Glogwyn yr Heliwr, ac esgyn ochr sêth a charegog Carnedd Llywelyn, cyrhaeddasom y copa llydan a gwastad, ac yn fuan daethom i'r penderfyniad fod ei uchder yn llawer llai na'i gydymgeisydd Yr Wyddfa. Y mae yr olygfa yn rhyfeddol o eang. Mewn ychydig bellder saif Yr Wyddfa, gyda'r alpau o'i chwmpas. Y ddwy Glyder, Trefaen, a Charnedd y Filast, a ymddangosant yn union odditanodd. Y mae gwyneb yr olaf yn llechwedd gwastad o graig, yn esmwyth ac unffurf; ac mor lithrig pe byddai i lwynog, mewn perygl eithafol, fyned drosto ar dywydd gwlyb, byddai yn sicr o syrthio i lawr a chael ei ladd.

*Nant Ffrangcon.*] Nant Ffrangcon sydd gwm, neu yn hytrach geunant aruthrol, yn cael ei derfynu gan y rhai hyn a chreigiau uchel eraill. Y mae rhimyn main o ddoldir yn y gwaelod, yn cael ei ddyfrhau gan yr Ogwen, yr hon yn y pen pellaf a ymfwrw o Lyn Ogwen i lawr hyd wyneb afrywiog y Benglog. Mewn un lle gelwir ef yn Sarn yr Afangc, prawf arall o fodoliaeth yr anifeiliaid hyn yn ein gwlad mewn hen amseroedd. Uwchlaw rhan o'r dyffryn hwn y croga yr Oleu Wen, gyda'i gwyneb wedi ei dori yn holltau

* Clarendon, ii. 350. † Drake's Parliam. Hist. x. 483.

‡ Philip's Life of Archbishop Williams, 305. Ei gaplan, Hackett, wedi hyny esgob Lichfield, a gyfansoddodd ei feddargraff.

rhyfeddol, trwy ba rai, ryw ychydig o amser yn ol, y cafodd amryw dunelli o geryg eu cludo i lawr i'r dyffryn, mewn canlyniad i gyd-darawiad â chwmwl, yr hwn a dorodd arno, gan arllwys cefnfor o ddwfr. Y mae adfeilion y bryn hwn yn ymddangos fel ffrwd o lafa, yr hon yn rhagluniaethol, a ymranodd tu uchaf i dŷ, a thrwy hyny dyogelwyd bywydau y preswylwyr. Yn y malurion yr oedd aneirif fân geryg, wedi eu llanw â challestr *(pyritæ)* o natur prês, ac o ffurf chwe'ochrog. Ni ddylwn beidio crybwyll fod y fynedfa trwy y gwaelodion anial hyn, ar ryw adeg, yn cael ei dyogelu gan amddiffynfa, oddeutu milldir oddiwrth y Benglog, yr hon a elwid Ty'n y Tŵr, yn agos i bont a elwir Pont y Tŵr, ond nid oes unrhyw olion o honi i'w gweled yn bresenol.

Y Fenai, Ynys Fôn, ac afon Gonwy, a ffurfiant olygfa glir a phrydferth. Nid ymddengys y bryniau o du y dwyrain i Nant Gonwy ond fel rhyw randir ymchwyddol; yr hyn a brawf ein sefyllfa uchel ni. Yr olygfa agosaf atom oedd yn dra anhyfryd, sef gwaelodion isel a bryniau rhosdirol, a dim dyfroedd

*Llyn Llyffant.*] o unrhyw bwysigrwydd, oddieithr Llyn Llyffant, yr hwn nid yw yn hynod am ddim ond ar gyfrif chwedl ofergoelus. Oddeutu y flwyddyn 1542, dywed y Dr. Powel fod dwy gareg anferthol, un o ba rai nis gallasai mil o barau o ychain ei symud, ar ryw noson wedi ymdeithio o waelod y llyn, ac i fyny rhan o odreu Carnedd Llywelyn, ergyd bwa o leiaf o bellder; o ba le nid ydynt wedi symud hyd y dydd hwn. Harri VIII., trwy ei fod yn amheu gwirionedd y peth, a ddanfonodd ddyn yno i wneyd ymholiad, ond cafodd ei berffaith foddloni am y ffaith trwy enau ei genad.*

*Carnedd Dafydd.*] *Carnedd Dafydd*, y pigyn arall, sydd yn gysylltiedig â Charnedd Llywelyn gan wddfdir ar lun haner lleuad, yr hwn, ar yr ochr uwch ben Cwm Penllafar, a elwir Ysgolion Duon; a ffurfia y clogwyn mwyaf echrydus ag y mae yn bosibl i feddwl ei ddychymygu. Y mae uchder Carnedd Dafydd yn llawn cymaint ag un Llywelyn. Disgynasom trwy Gwm Penllafar, yr hyn a arwydda Ddyffryn Melodedd, efallai eiddo yr helgwn pan mewn cyflawn waeddolef dros Graig yr Heliwr. Bydd ychydig o'r werin bobl, y rhai a feddant ddigon o gadernid pen, ar brydiau yn beiddio croesi y gwddfdir aruthrol, fel y ffordd feraf i Ddyffryn Mymbyr a Llanrwst. Ond gellir cael dyogelach ffordd† trwy amrywiaeth o gorsydd a manau cerygog, i fyny y Benglog, ac ar hyd Nant y Benglog a Bwlch Oleuni, dros ba rai y mae llwybr cul i Ddyffryn Mymbyr.

*Coytmor.*] Ar fy nychweliad o'r hynt farchogol ysplenydd yma, gelwais yn *Coytmor*, neu yn fwy priodol Coed Mawr, yn sefyll ynghanol coedydd aruchel,‡ yn awr a phryd arall yn ymagor fel ag i roddi cipolwg ar y mynyddoedd a'r creigiau uchel yn dyrchafu eu penau uwchlaw gyda'u cribau mewn niwl. Buasai y lle, er's hir amser, yn breswylfa teulu o'r un enw; yn ddiweddar, trwy briodas yr etifeddes, daeth yn eiddo i'r Pughs o'r Penrhyn yn

* Powel's Notes on Girald. Cambr. Iter. Cambriæ, lib. iii. c. 9.

† Gwel tud. 336 o'r gwaith hwn.

‡ Y mae Coytmor yn bresenol mewn cyflwr truenus o adfeiliedig; y coed a'i hamgylchynent, ac a roddent iddo enw, wedi eu tori i lawr, ac y mae portreadau dyddorol Gibeon a'i wraig wedi eu dinystrio yn y galanastra cyffredinol. GOL.

Digitized by Google

*Portread Gibson, yr Arlunydd.* Nghreuddin. Yn y tŷ yr oedd portread nodedig, o waith Syr Peter Lely, o'r arlunydd bychanigol *Richard Gibson*, a'i wraig fechan, law yn llaw; nid oedd yr un o'r ddau yn fwy na thair troedfedd a deng modfedd o daldra. Yr oedd yn nodedig am ei fedrusrwydd mewn dwfr-arluniaeth; ac yn rhagorol yn ei efelychiadau o bortreadau Syr Peter Lely. Cafodd yr anrhydedd o fod yn feistr arluniadol i'r dywysoges Orange, a'i chwaer y frenines Ann. Bu farw yn 1690, yn 75 mlwydd oed. Ei weddw fechan a'i gorocsodd hyd y flwyddyn 1709, pryd yr ymadawodd hithau â'r fuchedd hon yn yr oedran mawr o 89.* Cawsant yr anrhydedd o gael eu priodi yn mhresenoldeb Siarl I. a'i frenines, a'r anrhydedd mwy fyth o gael canu eu priodasgerdd gan Waller, y bardd enwog, o ba un y mae yr isod yn rhyddgyfieithiad.

## PRIODASGERDD Y CORIAID.

Damwain a bâr i rai briodi,
Ond yma Natur fu'n gweithredu;
Mor hawdd fuasai i'r henfam Efa
Ddiange oddiar ei hanwyl Adda,
Ag i hon wrthod cyd-welya
A hwn; tra lluniwyd ei mesuriad
O bwrpas idd ei hanwyl gariad.

Teirgwaith ddedwydd yw'r pâr tirion,
Islaw lefel pob gofalon;
Uwch eu pen eheda saethau
Hyll eiddigedd a gofidiau;
Maent mor ddyogel, ac mor glyd,
A phe ba'i neb ond hwy'n y byd.

Mae ef yn gwel'd y merched hardda'
Fel mynydd ban dan grib o eira;
Ac iddi hi y mae pawb dynion
I'w gweled megys cawri mawrion:
Ni faidd neb brofi ffydd y ferch;
Can's angeu fyddai cynyg serch.

O Cloris! i naturiaeth fwyngu
Oddiwrth y byd ein llwyr wahanu;
Ein creu ein dau i ni ein hun,—
Ti yw fy unig serchog fun.

*Aber.* Parhau i farchogaeth hyd lan y môr, tuag *Aber*, pentref bychan gydag eglwys, yn rhoddiant arglwydd Bulkeley; saif ar enau glyn dwfn, yr hwn a red yn uniongyth am filldir a haner rhwng y mynyddau, a therfynir ef ar un ochr gan graig ardderchog, a elwir Maes y Gaer. Y mae un rhan yn orchuddiedig gan goed; ar y llall nid ydynt ond yn britho ei gwyneb llwyd. Yn y pen pellaf i'r glyn hwn y mae mynydd yn arddangos gwyneb ceuol, yn *Rhaiadr.* nghanol yr hwn y mae rhaiadr dirfawr yn ymarllwys i lawr gyda chwymp dwbl. Y mae yr isaf o uchder tra mawr, a ffurfia un ran

* Anecdotes of Painting, by Mr. Walpole, iii. 64.

fath o len wen fawr, a'r llall fath o wlith eiryaidd, nid yn annhebyg i'r *Staubbach*, neu y rhaiadr lluwchlyd, yn Switserland.*

Yn y fynedfa i'r glyn, gerllaw y pentref, y mae bryncyn celfyddydol tra mawr, yn wastad ar ei ben uchaf, ac yn lledu tuag at y gwaelod. Bu unwaith yn safle castell a berthynai i Lywelyn Fawr. Gellir gweled rhai sylfaeni hyd heddyw o gylch y copa, ac wrth gloddio y mae olion adeiladau wedi cael eu darganfod. Yn y lle hwn y cafwyd allan nwyf-gyfrinach William de Breos (mab i Reginald, barwn galluog yn amser Harri III.) gyda gwraig Llywelyn. Ymddengys fod Gwilym, trwy anhap mewn rhyfel, wedi syrthio yn flaenorol i ddwylaw ein tywysog, ar ba adeg, efallai, y dechreuodd y gyfeillach anghyfreithlon, ond ni ddarganfyddwyd y peth hyd nes yr oedd wedi cael ei ryddhau trwy daledigaeth iawn mawr.† Y dialgar Lywelyn, yn y flwyddyn ddylynol, (1229) a hudodd Breos i'w afael, trwy ei wahodd i ddyfod yno i dreulio gwyl y Pasc; ar ba adeg, wedi gwledda o honynt yn ardderchog, y tywysog a edliwiodd iddo ei drosedd, ac a barodd iddo gael ei lusgo o'i bresenoldeb,‡ a'i grogi ar fryn cyfagos. Traddodiad y wlad ydyw, fod bardd o'r palas yn ddamweiniol wedi cyfarfod â'r dywysoges (yr hon oedd ar y pryd yn anhysbys o dynged ei chariadfab,) ac wedi ei hanerch yn y dull canlynol, ac ar ol iddi ei ateb, iddo ei ddangos iddi yn grogedig ar bren.

Dicyn docyn, gwraig Llywelyn,
Beth a roit am weled Gwilym?

I'r hyn yr atebodd y dywysoges—

Cymru, Lloegr, a Llywelyn
Rown i gyd am weled Gwilym.

Parheais fy nhaith o Aber, ar hyd forgilfach doreithiog, gan fwynhau golygfa hardd ar y fynedfa i'r Fenai, gyda'i hymylau coediog yn Ynys Môn ac Ynys Seiriol, a'r llen eangfaith o ddwfr cydrhyngddynt a Llandudno, neu Ben Gogarth: y penrhyn eangfawr yn ymgodi, yn debyg i'r graig yn Gibraltar, yn mhell uwchlaw y tonau. O'm blaen ymddyrchafa Penrhyn aruthrol PENMAEN MAWR, yn ymestyn allan i'r môr, ac yn arddangos gwrthgyferbyniad prydferth i'r ffrwythlondeb y mae yn tori arno, gyda golygfa ysgythrog ar ei geryg a'i glogwyni llwydion, ar ol cael eu curo gan y tywydd! Aethum heibio i Fryn y neuadd, palasdy a fu yn ddiweddar yn eiddo Humphrey Roberts, ysw; yn awr yn eiddo ei ferch a'i etifeddes, gweddw Robert Wynne, ysw., o Blasnewydd, gerllaw Dinbych. Ychydig ymhellach ymlaen y mae pentref bychan ac eglwys Llanfair Fechan; o ba le nid oes ond ychydig o waith marchogaeth at y ffordd a fu unwaith mor ddychrynllyd i rai a groesent y graig nodedig hon.

*Penmaen Mawr.*] Yn y cyn-amseroedd yr oedd mewn gwirionedd yn arswyd i'r teithiwr; yn eithafol o gul, afrywiog, a charegog; a'r hyn a ychwanegai at ei ofnau ydoedd, am fod y perygl yn cynyddu fel yr elai

* "Ar forfa hallt i'r gogledd-ddwyrain o'r rhaiadr hwnw, fel y llifa yn mlaen yn ei gwrs, ac y gelwir ef yn Afon Aber," y mae y llysieuydd rhagorol hwnw, y parchedig Hugh Davies, yn hysbysu y golygydd, "iddo gael, yn haf 1808, am y waith gyntaf, y gwir *Festuca rubra*." GOL.

† Dugdale Baron. i. 419.

‡ Knyghton in Hist. Anglo Script. ii. 1439. Camden in Brecknockshire, ii. 710.

Digitized by Google

ymlaen, trwy fod y clogwyn yn myned yn uwch o hyd. Yn gyffredin nid oedd cymaint a gwal i'w ddyogelu pe dygwyddasai gymeryd cam-gau; yr hyn a allasai, yn y manau uchelaf, ei hyrddio rai ugeiniau o latheni, naill ai ar greigiau pigfain, neu ynte i'r môr, yn ol fel y byddai y llanw ar y pryd. Yr oedd gwythen o haen faluriog mewn un lle yn culhau y ffordd, fel ag i gyffrôi dychrynfeydd adnewyddol. Y senedd Brydeinig a dawelodd ofnau y teithwyr trwy roddi cymhorth haelfrydig; yr hyn, trwy ddefnyddio gwasanaeth JOHN SYLVESTER, oddeutu y flwyddyn 1772, a gwblhaodd y peth ag y tybid ei fod yn flaenorol tu hwnt i allu unrhyw gelfyddyd i'w feddyginiaethu. Yn awr y mae y ffordd wedi ei lledu i fesur priodol, ac y mae ymyl y clogwyn wedi ei ddyogelu â mur cadarn. Y ddisgynfa tua Penmaen bach, yr hon oedd o'r blaen braidd yn anghyrhaeddadwy, sydd yn awr wedi ei diddymu; a'r ffordd wedi ei dwyn ar lefel am ddwy filldir neu dair, mewn uchder aruthrol uwchlaw ad-ddychweliad llechweddau toreithiog, a gwaelodion dyfnion Dwygyfylchi, nes y cyrhaedda at gefn afrywiog y penrhyn lleiaf hwnw; pryd y mae yr ymdeithiwr yn ymlafurio ar hyd gallt sêth y Sychnant, gyda mynydd erchyll a chlogwynog ar un ochr, a bryniau, a'u cribau wedi eu tori yn greigiau o'r fath ryfeddaf, ar yr ochr arall. O gopa Sychnant, parheir y ffordd am oddeutu dwy filldir ar ddisgyniad parhaus i dref Conwy.

Y mae rhwyg a achlysurir gan yr haenau maluriog, yn cael ei adgyweirio yn awr yn effeithiol trwy adeiladu rhês o fwäau, gwaith ag sydd yn tynu edmygedd y teithwyr, ac yn neillduol o ganmoladwy i'r cynllunydd cywrain. Ond y mae un perygl eto yn aros, yr hwn y bydd raid iddo am byth ddyrysu celfyddyd dyn: y mae ochr y graig fawr hon, uwchlaw y ffordd, yn tori yn filiynau o fân ddarnau, gan eu bod yn dibynu yn fynych ar gysylltiadau bregus; a pha rai, trwy gael eu rhyddhau gan y mynych orlifiadau, ydynt weithiau (er mai anfynych) yn disgyn i lawr yn ffrydiau cerygog.

*Damweiniau.*] Bydd i ddwy neu dair o ddamweiniau, a gymerasant le ar y ffordd hon, aros fel math o wyrthiau. Unwaith syrthiodd cyllidydd o ben y lle uchelaf, a diangodd yn ddianaf. Y parchedig Mr. Jones, yr hwn, yn 1762, oedd yn beriglor Llaneilian, yn Môn, a syrthiodd gyda'i geffyl, a'i fydwraig o'r tu ol iddo, i lawr y man serthaf. Lladdwyd y ddynes, a'r un modd y ceffyl. Y duwinydd, gydag athroniaeth aruchel, a dynodd y cyfrwy oddiar y march, ac a gerddodd ymaith gyda'r gêr, gan ymorfoleddu yn ei ddiangfa.

Clywais yn fynych am ddamwain arall, â'r hon y cysylltid y fath amgylchiadau rhamantus fel na feiddiaswn grybwyll am y peth, oni buasai fod genyf yr awdurdod draddodiadol uchelaf, hyd y dydd hwn, yn ngenau pob un yn mhlwyf Llanfair Fechan, yn mha un y mae y penrhyn mawr yma yn sefyll. Oddeutu canrif yn ol, un Sion Humphrey o'r plwyf hwn, a arferai dalu ei anerchiadau carwriaethol i Anne Thomas o'r Creuddin, yr ochr draw i afon Gonwy. Yr oedd y ddau wedi gwneyd amod i gyfarfod eu gilydd mewn ffair yn nhref Conwy. Ar ei ffordd efe a syrthiodd dros y Penmaen Mawr; bithau a fu agos a boddi trwy i gwch y borth droi, ac allan o fwy na phedwar ugain o bersonau, hi oedd yr unig un a gafodd ei hachub. Priodwyd hwy, a buont fyw am hir amser gyda'u gilydd yn mhlwyf Llanfair. Claddwyd hi ar

Digitized by Google

yr 11eg o Ebrill, 1744, yn 116 mlwydd oed. Bu ef fyw bum' mlynedd ar ei hol, a chladdwyd ef ar y 10fed o Ragfyr, 1749, wrth ei hochr yn mynwent y plwyf, lle y mae eu beddau yn cael eu dangos hyd y dydd hwn.

Ymwelais fwy nag unwaith â phen uchaf y graig hynod hon, i weled yr amddiffynfeydd a ddysgrifir gan olygydd Camden, oddiwrth rai nodiadau a wnaed gan yr hen farwniad Syr John Wynn o Wydir, a chefais fod ei hanes yn dra chywir.* Yr esgyniad sydd dra llafurus. Yn fuan wedi gadael y gwestty, daethum at adfeilion capel St. Seiriol, neu fel y gelwir ef yma, ei Wely; ac wedi myned am gryn ffordd trwy fân goed a phrysgwydd, cyrhaeddasom y parth llwm a charegog, neu *Fraich y Ddinas*, yr hon a gyfyd ar ffurf bryn arall allan o'r penrhyn hwn. Un Mr. Caswel, ar ddymuniad Mr. Flamstead, y seryddwr enwog, a fesurodd yr uchder, a chafodd ei fod oddiar y tywod yn 1545 o droedfeddi.

*Ei uchder.*

*Hen Amddiffynfa.*

Ar ol dringo am beth amser yn mysg y ceryg rhyddion, daeth wynebau tair, os nad pedair, o waliau i'r golwg yn dra amlwg, y naill uwchlaw y llall. Yn y rhan fwyaf o fanau, yr oedd y gwynebwaith yn dra pherffaith; ond yr oedd i gyd yn waith sych. Mesurais uchder un mur, ac yr oedd ar y pryd yn naw troedfedd, a'r trwch oddeutu saith troedfedd a haner. Rhwng y waliau hyn yr oedd nifer afrifed o dai bychain yn mhob man, gan mwyaf yn grynion, ac wedi eu gwynebu yn dda oddi fewn ac oddi allan, ond heb eu cyfleu mewn unrhyw drefn bennodol. Bu y rhai hyn yn llawer uwch, fel y mae yn amlwg oddiwrth y ceryg sydd wedi syrthio, ac yn gorwedd yn wasgaredig yn eu gwaelodion; a dichon y buont unwaith yn dyroedd, fel y mae Syr John yn haeru. Eu trawsfesur yn gyffredin sydd o ddeuddeg i ddeunaw troedfedd; ond y mae rhai yn llai o lawer, heb fod dros bum' troedfedd. Y mae y gwaliau wedi eu trawsgroesi â rhai ereill, mewn rhyw fanau, a'r rhai hyny yn llawn mor gryfion. Ar yr ochrau gogledd-orllewinol a de-ddwyreiniol, y mae olion dwy o ffyrdd yn amlwg iawn, ar ffurf igamogam, gyda gweddillion y gwaliau oedd ar bob ochr iddynt, y rhai a arweiniant at y copa. Ar y cylch bychan a ffurfia y top buasai cynulliad o dyrau, neu gelloedd, fel y rhai a nodwyd o'r blaen; un yn y canol, a phump o rai ereill yn ei amgylchu. Y mae tri i'w gweled yn amlwg eto; eithr o'r ddau arall nid oes ond olion gwanllyd. Yn agos i'r rhai hyn buasai cynulliad arall cyffelyb, yr wyf yn credu; ond yn bresenol y maent wedi eu darostwng i bentwr anffurfiol o geryg. Yn un o'r cynulliadau hyn y mae ffynhon, wedi ei thori allan o'r graig galed, a phob amser yn llawn o ddwfr, yr hwn a geir oddiwrth y gwlaw, ac yn cael ei chadw felly gan y tarth mynych sydd yn crogi uwch ben.

Yr amddiffynfa gadarn yma o eiddo y Brytaniaid sydd o'r un rhywogaeth â'r rhai sydd ar Garn Fadryn, Carn Boduan, a Thre'r Ceiri, y rhai a ddysgrifiwyd mewn rhan flaenorol o'r gwaith hwn (tud. 367.) Yr oedd y fan yma wedi ei ddewis gyda doethineb mawr, i amddiffyn y fynedfa i Fôn, a pharthau pellaf y wlad; a rhaid, ar gyfrif ei mawr gryfder, ei bod yn anorchfygol, oddieithr gan

* Camden, ii. 804, & seq. Cyn Syr John Wynn, yr oedd un Syr Thomas Williams, meddyg, M.A., wedi eu dysgrifio; ond ni argraffwyd ei hanes ef erioed. Yr oedd yn wythfed mab i un o deulu Cochwillan. Yr oedd yn fyw yn y flwyddyn 1594, a dywedir ei fod yn preswylio yn Nhrefriw.

Digitized by Google

newyn; gan ei bod yn anoresgynol o'r môr, ar gyfrif ei serthedd naturiol, ac yn y manau ereill wedi ei chadarnhau yn y dull a nodwyd.*

*Aria Theophrasti.* Y mae y gerddinen wyllt, neu yr *Aria Theophrasti*,† i'w chael yn fynych ar ochrau y graig hon, ac mewn llawer o fanau cyffelyb yn Nghymru. Ni wneir dim defnydd o'r planhigyn yn y wlad hon. Y mae pobl Switzerland yn cael gwirod da o'r grawn. Y pren sydd yn hynod o galed, ac yn rhagorol at wneyd *flutes;* ac ar gyfrif ei sylweddolrwydd mawr, ystyrid ef y goreu at wneyd siarcol.

Disgynais o'r copa i bant rhwng y Penmaen a mynydd cyfagos; aethum ar fy ngheffyl, a chyfeiriais fy ffordd ar hyd llwybr defaid da tua Chonwy. Ar fy ffordd canfyddais, uwchlaw Gwddw Glâs, yn mhlwyf Dwygyfylchi, gyfres hir o hynafiaethau, rhai o honynt a grybwyllir yn yr hanes am y Penmaen Mawr a ddyogelwyd gan Camden. *Cylchau a Chromlechau.* Am yspaid hirfaith o ffordd, gwelais gylchau o geryg o amryw draws-fesurau, a Charneddau mawrion. Y prif gylch a gynwysa yn bresenol ddeg o geryg sythion, mewn pellderau anghyfartal oddiwrth eu gilydd; y fwyaf o ba rai sydd yn wyth troedfedd a thair modfedd o uchder; ar lawr y mae un arall yn mesur un droedfedd ar ddeg a dwy fodfedd. Cyflawnir y cylch gan glawdd isel o geryg rhyddion wedi eu gosod rhwng y rhai mwyaf. Trawsfesur y cylch yma ydyw pedwar ugain troedfedd. Gerllaw i hwn y mae pedwar o gylchau ereill, yn llawer llai o ran maintioli. Yn nghanolbarth un o honynt y mae careg leddf, gweddillion Cromlech; dichon y gallai fod gan y lleill y cyffelyb gofarwyddion, cyn iddynt gael eu symud at wneyd muriau, a dybenion ereill. Oddeutu chwarter milldir oddiwrth y rhai hyn y mae Carnedd fawr, yn gyfansoddedig o fân geryg; ac yn agos iddi, un arall o geryg mawrion; ac heb fod yn mhell oddiwrth y rhai hyn, gylch wedi ei gyfansoddi o rai bychain.‡ Yn agos i'r olaf y mae careg fawr afrywiog, yn sefyll yn syth, a elwir *Maen y Campau;* *Maen y Campau.* a braidd-yn gysylltiol y mae Carnedd, a chylch bychan o ddeuddeg maen. Diau fod y rhandir hon wedi cael ei phreswylio yn lluosog; oblegyd yn yr holl amgylchoedd fe geir sylfeini adeiladau bychain, wedi eu gwneyd o geryg crynion, cyfaddas i afrywiogrwydd a symlrwydd oesoedd pell yn ol. Y mae niferi o geryg sythion bychain, ac o Garneddau bychain, yn wasgaredig mewn amryw leoedd; ac y mae olion ffordd ffurfiedig i'w gweled oddiyma tuag at afon Gonwy.

I ba ddyben bynag yr oedd y cylchoedd lleiaf wedi eu bwriadu, y mae rheswm cryf i dybied fod y rhai mwyaf, yn enwedig y rhai agosaf at Faen y Campau, yn ffurfio y chwareufa Brydeinig er arddangos yr hynafol gampau; efallai fod yr Eisteddfodau, neu y cyfarfodydd hyny at benderfynu teilyngdod yr ymgeiswyr yn ein cystadleuaeth Brydeinaidd, wedi bod yn cael eu cadw

* Gwel gynllun o gopa ac un ochr i'r amddiffynfa gadarn hon yn yr *Archæologia* iii. plate xxix. p. 352.

† *Crataegus*, neu *Pyrus Aria* llysieuwyr diweddar, Smith Fl. Br. p. 534. Gol.

‡ Ceir casgliad o hynafiaethau o'r natur yma yn plate ii. book iii. o *Louthiana* Mr. Thomas Wright. Y mae y llyfr hwnw yn engraifft fechan o'i alluoedd mawrion. Teilynga y trysorau eang a fedd efe o arluniau hynafiaethau Gwyddelig, gael eu hargraffu ar bob cyfrif, a hawliant gefnogaeth rhyw noddwr aruchel, i alluogi dyn o'i athrylith ef i gyfoethogi y byd llenyddol âg ychwaneg o'i lafur.

Digitized by Google

yma yn wreiddiol, neu mewn lleoedd cyffelyb. O berthynas i'r campau Prydeinig, yr oedd genym *bedair Camp ar hugain*, enwau y rhai, megys ag y maent wedi eu cadw gan y Dr. Davies yn ei Eirlyfr, a roddaf, ynghyda'r fath eglurhad ag a allaf fi ei ddodi, mor belled ag y mae yn fy ngallu. O'r rhai hyn gelwid deg yn WROLGAMPAU; o ba rai yr oedd chwech yn dibynu ar nerth corphorol yn unig, ac a elwid *Tadogion*, am nad oedd un offeryn yn angenrheidiol er eu cyflawni; oblegyd dibynent ar y dyn, yn noeth fel y ganwyd ef. Yr oedd gan y Groegiaid eu *Pentathlon* (pum' chwareuyddiaeth); yr oedd genym ni un yn rhagor. 1. Nerth i godi pwysau; 2. Rhedeg; 3. Neidio; 4. Nofio; 5. Ymaflyd codwm; 6. Marchogaeth. Tybiaf fod y gair *Marchogaeth* yn myned yn mhellach na'i ystyr gyffredin, ac fod y chwareuyddiaeth wedi ei bwriadu fel cydymgais rhwng cerbydwyr; oblegyd nid oedd neb pobl mor fedrus mewn defnyddio cerbydau yn y rhyfel ag oedd y Brytaniaid: felly y mae yn annhebyg y buasent yn esgeuluso, yn amser heddwch, ymarfer eu dawn mewn ffug-frwydr, a chydymgais mewn cyflymder ar faes y gâd. A'r chwech yma yn ddiameu oeddynt chwareuon cyntefig yr ynys hon, ac o'r amserau boreuaf; am ereill, gall fod rhyw amheuaeth.

*Yr hen Gampau.*

Y pedair ereill o'r gwrolgampau oeddynt *o rym* arfau; 1. Saethu â Bwa; 2. Chwareu gyda'r Cleddyf a'r Darian; 3. Chwareu gyda'r Cleddyf Deuddwrn, hen erfyn y Brytaniaid, fel yr arddangosir gan ddelw o filwr, a gafwyd wrth gloddio yn mysg yr adfeilion yn Llundain, ar ol y tân mawr yn 1666;* 4. Chwareu Ffon Ddwybig: yr hon a ymddengys fel yn cyfateb i'r ffon bedror *(quarterstaff)* mwy diweddar.

Ar ol y rhai hyn y deuai y MABOLGAMPAU. Yn eu plith hwy yr oedd tair rhywogaeth o helwriaeth: 1. Hela gyda'r milgi; 2. Pysgota; 3. Adara. Y saith arall oeddynt o'r rhywogaeth deuluaidd: 1. Barddoniaeth, neu gydymgais prydyddol, am yr hyn wyf wedi siarad o'r blaen;† 2. Chwareu ar y delyn; 3. Darllen Cymraeg; 4. Canu Cywydd gyda cherddoriaeth; 5. Canu Cywydd rhwng pedwar, gydag acennodau; 6. Gwneyd llun pais-arfau; 7. Herodraeth. Ymddengys y ddau beth yma mor gydnaws, fel nad oedd un angenrheidrwydd am eu gwahanu.

Wedi y rhai hyn yr oedd pedair o Go-gampau. 1. Chwareu Gwydd-bwyll' chwareuaeth debyg i *Draughts*, yn cael ei chwareu gyda *dynion*, ac fe ddichon y chwareuaeth a elwir y *Llwynog a'r Wydd*, *Gŵydd* yn golygu yr aderyn hwnw, a *Gwerin yr Wyddbwyll* yn golygu *dynion* y chwareuaeth hon. 2. Chwareu Tawl Fwrdd; y mae yn debyg ei fod yr un peth a *Back gammon*, geiriau o ystyr Prydeinig, yn arwyddo *rhyfel fechan;* a Tawlfwrdd a olyga dafliad y disiau ar y bwrdd. 3. Chwareu Ffristial, neu chwareuaeth gyda blwch disiau, am ba un ni wyddom ddim yn rhagor na bod disiau yn cael eu harfer. 4. Cyweiriaw Telyn.


Ar ol gadael hynafiaethau y Gwddw Glâs, ymunais â'r ffordd fawr uwchlaw Sychnant. Ar y llaw aswy, dangoswyd i mi fryn uchel yn crogi uwchben Morfa

* Montfaucon's Antiq. iv. 16. tab. ix.

† Yn fy hanes am yr Eisteddfod, tud. 228 o'r gwaith hwn, teflir peth goleuni ar hyn, ac amryw o'r pyngciau dylynol.

Digitized by Google

Digitized by Google




PLAN O DREF A CHASTELL CONWY.

Digitized by Google

Conwy. Ar ei gopa y mae Castell Caer Lleion, gorsaf Brydeinig, wedi ei hamgylchu â ffosydd, a chaerau cryfion o geryg; amddiffyniad ychwanegol i'r wlad, heblaw un y Penmaen Mawr. Y mae golygfa ar ran o Gonwy, a phlygiad mawr yn yr afon, ynghyda'i glenydd breision a choediog, wrth ddisgyn i lawr atynt, i'w chanfod yn dra manteisiol.

*Conwy.*] Aethum i mewn i Gonwy trwy y porth uchaf. Prin y mae tref mor garpiog oddi fewn, nag un fwy prydferth oddi allan, i'w gweled. Saif ar lechweddiad sŷth at fin yr afon, yr hon sydd yn y fan yma yn filldir o led ar orllanw. Ei ffurf sydd agos yn drionglog, wedi ei hamgylchu â muriau uchel, y rhai a ddiffynir gan bedwar ar hugain o dyrau crynion. Y mae wyneb isaf y triongl yn ymylu ar yr afon. Ymddyrcha castell o fawredd digymhar ar graig yn un gongl; ac o bob pen i furiau y dref, yn wynebu y Gonwy ymestynai mur, yn terfynu mewn tŵr crwn, ychydig o bellder yn yr afon, er dyogelu yn fwy effeithiol rhag dynesiad gelyn ar hyd y dwfr. Nid oes ond un o'r muriau hyn ar gael yn bresenol; y mae y llall, ynghyda'r ddau dŵr, wedi diflannu er's amser maith.

O flaen y dref y mae llongborth eang, oddiar ba un y ceir golygfa hyfryd i fyny ac i lawr yr afon. Yr ochr draw sydd fryniog, ac wedi ei haddurno â choed a phalasdai boneddigion, a bryn fforchog Diganwy, yr hon a fu yn amddiffynfa. Y mae y llecyn tir gerllaw y dref, a elwir Arcadia, sydd wedi ei brydferthu gan fy nheilwng gyfaill a'm cydysgolor,* Owen Holland, ysw.; a'r Plastirion, tŷ y parchedig Owen Jones, yn wir deilwng o ymweliad gan bob ymdeithydd.

Adeiladwyd y castell gan Iorwerth I., yn y flwyddyn 1284;† yr hwn fel y tybiaf, a osododd ar waith yr un adeiladydd ag a adeiladodd Gaernarfon. Ymddengys fod ei holl fedrusrwydd wedi cael ei osod ar waith yma. Ni chododd harddach amddiffynfa erioed. Y mae ei ffurf yn hirgul, wedi ei gosod yn mhob rhan ar ymyl y graig glogwynog. Terfynir un ochr gan yr afon; un arall gan grigyll yn llawn dwfr ar bob adeg o'r llanw, ac yn cael ei gysgodi yn y modd tlysaf gan goedydd hongianol. Y ddwy ochr arall a wynebant y dref. Oddi fewn y mae dau fuarth, ac ar y tu allan y mae wyth o dyrau mawrion yn taflu allan, pob un yn meddu ar dŵr eiddil a cheindlws yn ymddyrchafu o'i ben, yn mha rai y buasai gynt risiau nydd-droellog. Yn un o'r tyrau mawr y mae ffenestr hardd, ar ffurf cilfach fwäog, wedi ei haddurno â phileri. Hon, mewn hen amser, ydoedd o adeilyddiaeth ceindlws, ac a elwid yr *oriel*, a byddai bob amser yn nhai personau o radd uchel; ac ymddengys, oddiwrth hen gân a gyfansoddwyd gan fardd o'r oes yn mha un yr adeiladwyd y castell, mai dyma y fan lle y byddai y boneddigesau yn ymbingcio, a dichon fod y frenines Eleanor wedi bod yn gwneuthur hyny yma.

*Y Neuadd.*] Yr oedd y brif neuadd yn gyfaddasol i fawredd y sylfaenydd. Y mae o ffurf grymaidd, ac yn gydffurf â chameddiad y muriau allanol, yn cymeryd i fewn un pen gyda ffenestr fawr, yr hwn, fel yr ymddengys, oedd y capel preifat. Ymestynai yn gant a deg troedfedd ar hugain o hyd,

* Yn bresenol wedi marw. Gol.

† Y mae Mr. Hartshorne wedi dangos fod castell Conwy wedi ei ddechreu yn 1283, ychydig fisoedd o flaen un Caernarfon; ac na orphenwyd ef am amryw flynyddau. Gwel ei bapur yn yr *Archæological Journal*, cyf. viii. tud. 237. T.P.

Digitized by Google

deuddeg ar hugain o led, ac o uchder ardderchog. Cynelid y nen ar un adeg gan ugain o fwäau ardderchog, chwech o ba rai sydd yn aros hyd heddyw. Yr oedd lle tân yn un pen iddi, ac un arall ar yr ochr, i'w thwymo; chwe' ffenestr i'r wlad, a thair i'r cwrt, a oleuai yr adeilad eang hon. Oddi tanodd yr oedd daeargelloedd mawrion, sef yr ystorfeydd a gynalient yr hyn a gynyrchai y llawenydd gloddestol uwchben.

*Mynedfeydd i'r Castell.*] Yr oedd dwy fynedfa i'r amddiffynfa hon, y ddwy wedi eu cynllunio er dyogelwch. Yr un o'r afon Gonwy, i fyny craig sêth, ar un adeg yn risiau ymnyddol, yn terfynu mewn gwaith allanol bychan o flaen un o byrth y castell, ac yn cael ei amddiffyn gan dyroedd crynion bychain. Yn y pen arall y mae gwaith cyffelyb, o ba un y buasai crogbont, yr hon yn achlysurol a ollyngid i lawr i'r dref, dros ffos fawr.

*Y Dref.*] Ni chynwysa y dref ond ychydig o breswylwyr, gan fod llawer o'r lle oddi fewn i'r muriau yn cael ei ddefnyddio fel gerddi. Medda bedwar o fynedfeydd; y porth uchaf; yr isaf, neu yr un nesaf i'r dwfr; porth rhwng hwnw a'r castell; ac un arall i'r crigyll, a elwid Porth y Felin.*

Iorwerth I. a wnaeth Gonwy yn fwrdeisdref rydd, ac a orchymynodd fod y maer, yr hwn oedd yn gwnstabl y castell tra yn ei swydd, i ddyogelu ei rhagorfreintiau. William Sikun oedd y cyntaf a apwyntiwyd i'r swydd anrhydeddus hono. Yn bresenol llywodraethir hi gan un henadur, cofiadur, trengholydd, beili y dwfr, a dau o ringylliaid, y rhai a ddewisir bob blwyddyn. Yr oedd y rhagorfreintiau yn ymestyn o Gaernarfon i'r afon Clwyd: oblegyd ni ellid dyfarnu neb yn euog o unrhyw drosedd, o fewn y rhandir, oddigerth trwy reithwyr wedi eu hethol o fewn y cylch hwnw. Dyna ydoedd y rheol gyda'r holl warchodluoedd Seisonig ereill yn Ngogledd Cymru.

*Y Borth.*] Y mae y borth yn bresenol yn meddiant perchenog Marl. Anfonwyd archiad allan gan Iorwerth II. ar fod i'r cwch gael ei adgyweirio, neu fod un newydd i gael ei adeiladu, am wasanaeth pa un yr oedd y preswylwyr i dalu wyth mark.† Ar ddistyll trai, nid yw yr afon yn haner can'llath o led, nac uwchlaw wyth droedfedd o ddyfnder. Cyfyd y gorllanw mawr ddeuddeg troedfedd; ond y mae y ddyfodfa i'r porthladd hwn yn annyogel oherwydd y traethau tywod.

*Monachlog.*] Yma y mae rhyw olion o'r fynachlog Cistersaidd, yr hon a sylfaenwyd yn 1185 gan Lywelyn ap Iorwerth, tywysog Gogledd Cymru, er anrhydedd i'r Forwyn Fendigaid a'r holl Saint.‡ Y mae ystafell hir, fwäog, o saernïaeth da, wedi ei gweithio â chlai, ond wedi ei phlastro â chalch, a dôr Sacsonaidd, i'w gweled hyd heddyw. Gwaddolodd hi â thiroedd, a hyny yn dra helaeth, yn siroedd Caernarfon a Môn,§ a chyda rhagorfreintiau o werth mawr: yn mysg y tiroedd crybwyllir *Caput Wedwa Vawr*, a *Caput Grybcoch*, a *Morfa Dinllin*.‖ Yr oedd yn cael ei rhyddhau, nid yn unig oddiwrth gynaliaeth pawb dynion, ceffylau, cwn, a hebogau, ond oddiwrth rai y tywysog hefyd. Nid oedd neb i ymyryd yn yr etholiadau, neu amgylchiadau y tŷ. Yr oeddynt i fwynhau pob llesiant oddiwrth longddrylliadau

* Am y cyfrif o'r pytatws a drosglwyddwyd allan o Gonwy, gwel yr Attodiad XX.

† Sebright MSS. ‡ Dugdale's Mon. i. 918. § Yr unrhyw, 918, 919.

‖ Gelwir y lle hwn *Morfa Dinlle*, a dichon y gelwid ef gynt *Morfa Dinllen*. J.R.



CYFRAN O GASTELL CONWY.

**PART OF THE INTERIOR OF CONWY CASTLE.**

Digitized by Google

Digitized by Google

ar forlenydd eu meddiannau, megys ag y gwnelai y tywysog ai yr eiddo ef: nid oedd un fantais i gael ei chymeryd ar y mynachod, ond yr oedd eu holl nwyddau, a fyddent wedi eu colli trwy longddrylliad, i gael eu hadferu iddynt. Yr oeddynt hwy a'u gweision i fod yn rhyddion, yn mhob man, oddiwrth dollau, trethi pontydd, a'r cyffelyb; ac y mae mynedfa rydd dros y Fenai, y Gonwy, Abermaw, a Dyni (Dyfi efallai,) yn cael ei darparu iddynt mewn modd neillduol. Crybwyllir am niferi o ragorfreintiau ereill, ac y mae y siartr wedi ei hamseru o Aberconwy, a'r tystion wrthi ydynt Iorwerth Gam, Owin ap Ednewein Ydon, caplan y tywysog, a Madog ap Cador.* Dengys hyn fod Conwy yn lle go bwysig cyn y gorchfygiad gan y Saeson. Dichon fod yno ryw fath o amddiffynfa cyn y bresenol, a'i henw hynafol ydoedd Caer Gyffin, a Gyffin ydyw enw y ffrwd a lifa i'r crigyll islaw y castell.† Camden, yn cyf. ii. tud. 803, a ddywed wrthym fod Hugh Lupus wedi cadarnhau y lle hwn, ar ei daith i Fôn, fel y tybiaf, yn 1098.

*Eu symud i Faenan.*

Nid oedd Iorwerth I. yn dewis ymddiried o fewn ei furiau newydd fynachod Cymreig, ond symudodd hwy yn uniongyrchol i'r tŷ newydd a sylfaenesid ganddo yn *Maenan*, ychydig filldiroedd yn uwch ar yr afon. Ymddygodd yn dyner at y mynachod, a gadawodd iddynt eu holl diroedd a'u rhagorfreintiau, a dyogelodd iddynt ddyroddiad o'u heglwys fynachlogaidd yn Nghonwy, yr hon yn awr a wnaethid yn blwyfol, ar y tir iddynt ddarparu dau o Saeson galluog a theilwng fel caplaniaid, a thrydydd, Cymro, er llesiant y sawl na ddeallent Saesoneg. Yr oedd un o'r Saeson i fod yn ficer parhaol, ac i gael ei enwi gan y fynachlog pan elai y swydd yn wag, a'i roddi yn y swydd gan yr esgob.‡

*Beddrodau.*

Yn mysg y personau urddasol a roddwyd i orwedd yma, yr oedd Cynan ap Owain Gwynedd, yr hwn a gladdwyd yn y flwyddyn 1200, mewn penwisg mynach; oblegyd, fel y dywed Powel, "gwneid i bobl gredu y pryd hyny, gan y mynachod duon a gwynion, fod y wisg ddyeithr hono yn ddigon o amddiffyniad i'w heneidiau rhag uffern, pa fodd bynag y byddent feirw."§ Cafodd ei sylfaenydd mawr ei gladdu yma hefyd, ond ar adeg y dadgorphoriad, symudwyd ei arch i Lanrwst, lle y mae i'w weled hyd heddyw.

Y mae ffugur tra aflerw, wedi ei dori ar gareg, er coffadwriaeth am Mary, mam yr archesgob Williams, yr hon a fu farw ar enedigaeth gefeilliaid, Hydref 10, 1585; ac y mae beddargraff hynod un Mr. Hookes, yn profi ffrwythlondeb anarferol y teulu. "Yma y gorwedd corph Nicholas Hookes o Gonwy, boneddwr, yr hwn oedd yr 41ain plentyn i'w dad William Hookes, ysw.; o Alice ei wraig, a thad i saith ar hugain o blant; yr hwn a fu farw ar yr 20fed dydd o Fawrth, 1637.

*Y Coleg.*

Mewn heol heb fod yn mhell o'r fynachlog, y mae tŷ tra hynafol, gyda ffenestr hynod, ac amrywiol bais-arfau wedi eu cerfio oddi tanodd; rhai yn perthyn i'r Stanleys. Gelwir y tŷ yma y *Coleg*. Gan y dywedir fod Iorwerth I. wedi cymeryd y fynachlog i'w ddwylaw, y mae yn bosibl y gallai fod wedi sefydlu yma le er addysgu yr ieuengctyd.

* Dugdale's Monasticon, 920.
† Ysgrif yn meddiant ei ras y duc Beaufort.
‡ Dugdale's Monast. i. 921.
§ Powel's Hist. Wales, 252.

*Plas Mawr.*] Y *Plas Mawr* sydd dŷ eang a adeiladwyd gan Robert Wynn, ysw., o dylwyth Gwydir. Uwchlaw y porth y mae yn gerfiedig Ανεχου Απεχου,* *Sustine, abstine;*† ac ar y tŷ, y llythyrenau duwiolfrydig I. H. S. X. P. S.;‡ a'r flwyddyn, 1585. Oddi fewn y mae cryn lawer o blastr addurnol, gydag amryw bais-arfau cynghreirwyr neu gefnogwyr yr adeiladydd. Yn wasgaredig ar y muriau a'r nenfydau y mae elyrch, dylluanod, crëyrod, estrys, a baeddod, gyda ffyn drylliog; y rhai olaf oeddynt arwyddluniau Robert Dudley iarll Leicester; tipyn o weniaith a delid iddo gan sylfaenydd y tŷ.

Uwchlaw y porth y mae ystafell y cwrt; ystafell hir gyda nenfwd o goed, ac yn addurnedig â phlastr garw.

*Dygwyddiadau.*] Ychydig o'r dygwyddiadau hynod mewn cysylltiad â'r castell hwn sydd wedi eu cadw mewn hanes. Pan y darfu i Harri III. ffurfio ei wersyll adfydus o dan Diganwy, ar gyfer y dref hon, efe a anfonodd dri chant o Gymry anffyddlon o'r cyffiniau, gyda rhyw filwyr ereill, i afael mewn llong ag oedd wedi rhedeg i'r traeth ar yr ochr hon. Llwyddasant; ond trwy gael eu hargymhell gan eu cybydd-dod, hwy a yspeiliasant y fynachlog yn gysegr-yspeilgar, ac a losgasant amryw o dai perthynol iddi. Aeth y Cymry breingarol yn orwyllt, ymosodasant ar y carn-ladron pan yn llwythog gan eu hysglyfaeth, lladdasant lawer o honynt, a chrogasant neu a dorasant ben pob carcharor a gymerasant.§

Rhisiart II., cyn ei ddychweliad o'r Iwerddon, a gyfarwyddodd fod i'w luoedd, y rhai a fwriedid ganddo er gwrthwynebu y gwrthymhonydd Bolingbroke, gydymgynull yn y lle hwn. Deugain mil o deyrngarwyr, allan o sir Gaerlleon a Chymru, a ymgyfarfuasant o dan fanerau iarll Salisbury. Wedi blino ar oediadau y tywysog anffodus, darfu i niferi o honynt ymddadfyddino; ond yr oedd digon yn aros yn fywiog yn erbyn y gwrthymhonydd, ac yn benderfynol i ddylyn eu brenin trwy ei holl anturiaethau. Cymerodd braw feddiant o Rhisiart, diangodd o Gonwy yn y nos,‖ a chafodd ei fradychu gan iarll Northumberland, ac yn fuan wedi hyny ei ladd trwy ddwylaw ei elynion.¶

Bu agos i'r dref gael ei diboblogi gan y pla, yn 1607, pryd y cafodd niferi o bobl eu claddu yn yr heolydd. Sylwyd ei fod wedi tori allan o fewn tair wythnos i'r amser yr ymddangosodd yn Llundain, efallai wedi ei ddwyn yma gan ryw ffoaduriaid.

Yn mysg helyntion y castell yma yn ystod y rhyfel cartrefol, rhaid cofnodi yr olygfa ddiweddaf yn mywyd yr archesgob Williams, yn enwedig am ei bod yn gyfran am ba un y dyoddefodd yr anair mwyaf, ond efallai yn anghyfiawn. Mor fuan ag yr enciliodd i Gymru yn 1642, ymofynid âg ef gan holl bleidwyr y brenin, fel y person ag y gallent ddibynu yn gwbl ar ei ddoethineb a'i yspryd. Yr oedd wedi cael gwarcheidwadaeth gan ei Fawrhydi o'r oll o Ogledd Cymru, ac yn neillduol castell Conwy.** Dechreuodd gyda chadarnhau ei dŷ yn Mhenrhyn; ac aeth i draul fawr i gryfhau y castell hwn. Yn yr amser oedd peryglus hyny, erfyniodd lluoedd o foneddigion y wlad ar yr archesgob dderbyn i'r castell eu hysgrifau, eu llestri aur ac arian, a'u da symudol gwerthfawrocaf.

* Dyma orchymyn mawr Epictetus. T.P.

† "Goddefwch, a chyd-ddygwch."  ‡ Iesu Iachawdwr dynion.

§ Powel, 311.  ‖ Holinshed, 499.  ¶ Gwel ddiwedd yr hanes yn tud. 43 o'r gwaith hwn.

** Philips's Life of Archbishop Williams, 287.

Ymgymerodd â'r cyfrifoldeb, a rhoddodd bapur dan ei law i bob perchenog, trwy yr hyn yr oedd yn gwneyd ei hun yn atebol am unrhyw golled; ac a osododd ei nai William Hookes, mewn meddiant o'r lle, yn Ionawr 1643—4.* O hyny allan, ei ras ydoedd amddiffynydd y wlad, nid yn unig rhag trais y gelyn, ond rhag gorthrymder ei blaid ef ei hun. Yn Mai 1645, yn anffodus darfu i'r tywysog Rupert ei daflu o'i swydd, ac apwyntio Syr John Owain i gymeryd meddiant o'r castell. Hyn a wnaeth efe gyda'r llymder mwyaf beius, a chyda rhyw esgus gwastadol rhag rhoddi i'r archesgob un math o sicrwydd am y pethau gwerthfawr a roddasid dan ei ofal.†

Fel hyn y safai pethau hyd Fehefin 1646, pan y darfu i Williams, wrth ragweled dinystr iddo ei hun, ac wedi ei gynhyrfu gan y niweidiau a gawsai gan ereill a bleidient yr un achos, ac ar yr adeg gyfyng hono (pan yr oedd amgylchiadau y brenin yn anobeithiol) yn cael ei wahodd gan y cadfridog Mytton i roddi ei hun dan nawdd y Senedd, efe a dderbyniodd ei gynyg, ac a'i cynorthwyodd yn narostyngiad y lle.‡

Mytton, trwy gynghor yr archesgob, a gymerodd y dref trwy orthrech ar y 15fed o Awst: yr oedd yr olaf yn cynorthwyo yn bersonol, a chafodd ei glwyfo yn ei wddf.§ Gyda'r llymder arferedig yn yr amser hwnw tuag at y Gwyddelod, Mytton a ymaflodd yn yr oll o honynt ag oeddynt i'w cael, parodd iddynt gael eu rhwymo gefngefn, a'u bwrw i'r afon.‖ Ymostyngodd y castell ar y 10fed o Dachwedd; a Mytton, yr hwn a arddangosir fel un o dymher haelfrydig, yn meddu mwy o falchder nag o gybydd-dod,¶ a adferodd yn ol i bawb ei eiddo ei hun, sef y rhai yr ymddiriedasid am danynt i Williams. Am y cymwynasau hyn derbyniodd bardwn cyffredinol, a rhyddhawyd ef oddiwrth bob atafaeliad ar ei eiddo.

Ymddengys fod prydferthwch a mawredd yr amddiffynfa hon wedi peri i'r awdurdodau llywodraethol beidio arddangos unrhyw drais ar ei muriau; gadawyd y gwaith annuwiol hwnw i bleidwyr teyrngarwch. Yr oedd y brenin wedi rhoddi y castell i Edward Conwy, iarll Conwy. Yn 1665, yr iarll a osododd ei was, Robert Millward, ar waith i dynu i lawr yr haiarn, y coed, a'r plwm, a'u trosglwyddo i'r Iwerddon, dan yr esgus o fod at wasanaeth ei fawrhydi.** Thomas Bulkeley, ysw., y milwriad Wynn, ac ereill o brif foneddigion y sir, a wrthwynebasant yr amcan; ond cafodd eu gwrthdystiad ei oruwchreoli, a darostyngwyd yr adeilad ardderchog bron i'r cyflwr y mae ynddo yn awr. Yn bresenol, delir ef o dan y goron gan Owen Holland, ysw.

Amryw flynyddau yn ol, darfu i annoethineb rhai o'r trigolion, trwy dynu ceryg o'r graig o dan un o'r tyrau mawrion, beri i ddarn mawr ddisgyn i lawr. Yr adfeilion ydynt y mwyaf erchyll a welais i erioed; yn gorwedd yn falurion aruthrol ar hyd glan y môr, rhai mor gyfan fel ag i arddangos y crynder allanol a'r crymedd mewnol, cymrwd caled o geryg a morter un droedfedd ar ddeg o drwch. Erys y darn uchaf o'r tŵr yn gyfan, yn crogi mewn uchder mawr uwch ein penau, ac yn arddangos yn y bwlch y fath nerth muriawl ag a allasai

* Philips, 289. † Yr unrhyw, 255, 296.
‡ General Mytton's Letter, in Drake's Parl. Hist. xv. 8.
§ Rushworth, iv. part 1, 297. ‖ Whitelock, 219
¶ Philips, 300. ** Llythyr yr Iarll yn yr Attodiad, Rhif XXI.

Digitized by Google

beri i'r adeiladydd goleddu y gobaith mwyaf rhesymol y buasai i'w waith barhau hyd ddiwedd amser. Pan y portreadaf i mi fy hun ymddangosiad hoyw yr amddiffynfa hon, wedi ei llanw gan lys gwleddgarol Iorwerth, ei anwyl Eleanor, a'r holl osgordd o bendefigion urddasol, y rhai a dreuliasant Nadolig yma, gan ymorfoleddu yn narostyngiad fy nghyd-wladwyr nerthol; a phan yr edrychaf ar ei adfeilion presenol, y mae fy meddwl yn suddo i adgofion pruddglwyfus, cyfaddas i'r olygfa o'm hamgylch. Caniatäer i mi gyfnewid y graig ar afon Tywi am afon Gonwy, a bydd i fardd poblogaidd ddatgan y syniadau y rhaid iddynt ymgodi yn ei feddwl, o berthynas i'w gyflwr blaenorol a'i un presenol.

Wrth droed y bryn, lle llifa afon Gonwy,
Ei ochrau oedd dan goedydd heirdd yn gwenu,
Hen dyrau ar ei goryn a ymgodent,
A golwg erch i lawr i'r gwaelod fwrient.
Yr eiddew gwyrdd ymlusga hyd ei furiau,
I'w gadarnhau rhag iddo gwympo'n ddarnau:
Ac felly mae dyogelwch rhag yr awel
Yn sefyll ar gydymddibyniad tawel.
Mae'n awr yn dŷ i'r fran a'i chreglais cryglyd,
Ystafell yw yn awr i'r llyffant hefyd;
Ac yma mae y llwynog yn ddyogel,
A'r neidr frech yn ymlochesu'n dawel,
Yn nghudd y maent yn yr adfeilion isel.
Yn syrthio mae, o'r muriau, 'nawr ac eilwaith,
Rhyw ddarnau mawr o'r candryll adeiladwaith.
Ond eto bu rhyw amser ddyrchai'r isel,
A chwympo'r llall oedd o feddyliau uchel:
Yr amser hwn a welodd ein hadeilad,—
Bu'n llawn o fri, gogoniant oedd i'n henwlad;
Ond twyll yw holl weniadau Tynged anfad.
Rhyw orthrech fach—rhyw wan lywodraeth waelaf,
Llygiedyn haul ar dywyll ddiwrnod gauaf,
Yw'r oll a fedd y balch, y mawr, a'r anwyl,
Cydrhwng y cryd a'r beddrod sy'n ei ddysgwyl.

*Grongar Hill*, GAN DYER.

*Brwydr Cymryd.*] O Gonwy cymerais fy ffordd tua Chaer Hen, *Conovium* y Rhufeiniaid. Ar fy llwybr aethum heibio o fewn ychydig ffordd i *Cymryd*, lle ag sydd yn hynod ar gyfrif brwydr waedlyd a ymladdwyd yn 880, rhwng Anarawd, tywysog Cymru, a'r Sacsoniaid o dan Edred, duc Mers. Y Brytaniaid a orfuant, a gyrasant y goresgynwyr yn eu holau i'w gwlad eu hunain. Anarawd a alwodd y frwydr hon *Dial Rhodri;* am fod ei dad, Rhodri Fawr, wedi cael ei ladd y flwyddyn cyn hyny gan y Sacsoniaid.*

Aethum dros borth Talycafn. O fewn ychydig bellder oddiwrthi y mae bryncyn celfyddydol o faintioli mawr, a elwir Bryn y Castell; dichon mai dyma oedd safle tŵr gwyliedydd perthynol i Conovium, ac y mae wedi ei

* Camden ii. 802, 3. Powel, 38.

Digitized by Google

gyfleu yn ddoeth mewn parth tra chyfyng o'r dyffryn, i ddarsylwi ar ddynesiad gelyn o'r ochr hon.

*Caer Hen.*] Saif *Caer Hen*, neu yr hen *Conovium*, mewn lle isel yn ymyl yr afon. Y mae o hyd i'w gweled weddillion priddfeini Rhufeinig, ac adeilad suddedig wedi ei rhanu yn ddwy ran, dichon mai gweddillion yr *hypocaust* ydyw, o ba un y cymerwyd y priddfaen cau, neu y simnai, yr hon a gedwir yn *Gloddaeth*. Ar un o'r priddfeini cyffredin y mae yn gerfiedig LEG. X.--y Lleng Antonianaidd—yr hon a wasanaethai yn y lle hwn o dan Ostorious.* Yma hefyd y cafwyd y deisen gopr a grybwyllwyd yn tudal. 23 o'r gwaith hwn. Yn agos i'r eglwys y mae rhyw olion gwaliau, y rhai ydynt y cwbl sydd yn aros o'r lle yma a fu mor hynod.† Y mae *Itinerary* (Teithlyfr) Camden yn ei osod bedair milldir ar hugain o Segontium, a phedair ar bymtheg o Varis.

Aethum yn mlaen ychydig, a throais i fyny ffordd dra sêth, heibio i eglwys *Pen Caer Helen.*] Llanbedr, i gopa bryn tra uchel, a elwir *Pen Caer Helen*, i edrych a allwn ddarganfod ychwaneg o olion ffordd hynod Helen; ond bu fy ymchwil yn ofer. Eto, cafodd fy llafur ei wobrwyo trwy ddarganfod gorsaf Brydeinig o nerth mawr, ac mewn rhai manau yn cael ei hamddiffyn mewn dull arbenigol. Meddai y ffosydd arferol, a chaer eang o geryg, gyda rhyw olion o wyneb y waliau, a sylfeini tri neu bedwar o adeiladau crynion; ond yr hyn a'm tarawodd fwyaf, ydoedd dau amgylchedd eang o dir wedi eu palmantu yn dew â lluaws o geryg blaenfiniog, a'u gosod ar eu penau yn y ddaear, megys pe buasent yn gwasanaethu yn lle *chevaux de frise* (sef cadlys drain, neu amddiffyniad rhag gwŷr meirch,) er lluddias y gelyn. O'r bryn yr oeddwn yn cael, mewn un cyfeiriad, olygfa wyllt a diffrwyth ar Garnedd Lywelyn, a rhanbarth hir o fryniau afrywiog a gwaelodion cerygog; ac mewn golygfa arall canfyddir holl eangder ffrwythlon Nant Conwy. Disgynais; daethum yn ol ar hyd yr un ffordd, a chroesais yr afon yn y borthfa ragorol Talycafn.

Oddiyma parheais fy nhaith trwy blwyf coediog Llansantffraid, yr hwn a lechwedda yn brydferth hyd lan y dwfr. Y cwrs a gymerais oedd tua Llandudno, terfyn ardderchog y fynedfa i afon Gonwy. O'r ffordd, mewn amryw fanau, ceir y golygfeydd mwyaf ardderchog o eangder mawr yr afon, a thyrau uchelfrig Conwy. Gwelais olygfeydd cyffelyb ar hen drefi amddiffynedig yn fynych ar yr afon Rhine, ond o ran ardderchogrwydd y maent yn llawer israddol i'r rhai hyn, gogoniant Prydain. Wedi marchogaeth am oddeutu tair *Marl.*] milldir, daethum i lawr i wastadedd. Myned heibio *Marl*, tŷ o ymddangosiad da; ond nid yw yn bresenol yn amgen na murddyn, am iddo ddyoddef trwy dân oddeutu deugain mlynedd yn ol. Saif mewn lle ardebol o dan graig uchel, braidd wedi ei gorchuddio â choed; ac ar yr ochr gyferbyniol i dref Conwy. Ar y cyntaf, yr oedd yn eiddo yr Hollands. Disgynodd wedi hyny i Syr Hugh Williams, o'r Penrhyn; ac ar farwolaeth ei ŵyr,

* Camden.

† Yn 1810 symudwyd ymaith y pridd oedd yn cuddio yr hen adeilad yma, pryd y darganfyddwyd sylfeini palasdy Rhufeinig, yn cynwys pump o ystafelloedd yn y ffrynt—un o honynt yn ystafell chwysu. GOL.

Digitized by Google

Syr Robert, aeth i feddiant Syr Thomas Prendergast o deyrnas yr Iwerddon, yn hawl ei foneddiges, Anne, chwaer i Syr Robert.

*Bodscallan.*] Yn uwch i fyny o lawer na Marl y saif *Bodscallan*, eiddo Syr Roger Mostyn, yn hawl ei wraig, Margaret, merch i'r parchedig Hugh Wynn. Yr wyf yn cael Richard Mostyn, ail fab i Thomas ap Rhisiart ap Howel, mewn meddiant o'r lle; ac fod ganddo un ferch, Margaret, yr hon a briododd â Gruffydd Wynn, ail fab i Syr John Wynn ap Meredydd o Wydir, cyfran yr hwn ydoedd yn y Berth ddu, yn agos i Lanrwst. Lle hyfryd ydyw, yn amgylchynedig gan goed. Oddiar uwch-rodfa, yr hon sydd wedi cael ei hesgeuluso yn fawr, ceir golygfa hardd, uwch penau y coedydd, ar Gonwy, rhan o'r afon, a'r mynyddoedd anferth a ffurfiant y tu cefn i'r arlunfa. Y mae y lle o hynafiaeth mawr, oblegyd crybwyllir am dano yn nghofnodau Caerynarfon; ond preswylid ef mewn amseroedd llawer boreuach, fel yr ymddengys oddiwrth weddillion castell bychan, yn agos i'r tŷ presenol. Arwydda yr enw *Bodscallan*, ei fod yn breswylfa i *Scallan;* llygriad, yn ol pob tebygolrwydd, o *Caswallon;** y meddiannydd mewn rhyw hen amseroedd. Yr oedd yn un o'r trefydd-degwm hyny a elwid *Tre' Welyog*, heb fod yn gwbl rydd. Yr oedd y tenantiaid ar y cyntaf yn meddu ar diroedd etifeddiaethol, y rhai a renid ac a is-renid yn mysg eu plant hyd y bedwaredd genedlaeth, ac wedi hyny yr oeddynt yn dyfod yn eiddo i ganghenau annibynol y naill ar y llall; pob un o ba rai a dalent am eu tir eu hunain.† O bosibl y gallai hwn fod yn un o'r tri *Gwelyau*, neu etifeddiaethau plant o'r un boncyff, a berthynent ar y cyntaf i Gloddaeth.‡ Yn y tŷ presenol y mae portread da o'r hen Syr John Wynn o Wydir. Llun pen bychan, ar fwrdd, o Robert Wynn sylfaenydd y Plas Mawr, yn Nghonwy. Y mae wedi ei baentio mewn dillad duon, gyda gwallt byr, a barf o liw glaswyn. Ond y mwyaf hynod ydyw yr un o'r Dr. Ellis Pryse, o Blas Iolyn, yn sîr Ddinbych, yr hwn a amserir yn 1605; un o greaduriaid iarll Leicester, ac yn ymgyflwynedig i'w holl fwriadau drygionus. Gwisg Pryse ydyw siaced wen, gyda choler lydan; ei wallt yn felyn, a'i farf yn deneu, ac o'r un lliw; ei wynebpryd yn hir, teneu, a rhagrithiol. Yr oedd yn un o'r cnafiaid mwyaf yn yr amser y bodolai ynddo; a'r gorthrymydd mwyaf ofnadwy yn ei gymydogaeth; ac yn wenieithiwr trwyadl. Ei anerchiad cyffredin at ei noddwr, ydoedd, O ARGLWYDD, *ynot ti yr ymddiriedaf!* §

*Gloddaeth.*] Oddiyma y mae rhodfa fer i *Gloddaeth*, preswylfod Syr Roger Mostyn, yr hwn a saif ar lechwedd bryn tra eang, neu graig o gareg galch, yn amwisgedig â phlanigfeydd blodeuog o eiddo Syr Roger, taid i'r perchenog presenol. Cafodd rhan o'r gwastadedd islaw y tŷ ei blanu, gan yr un boneddwr, â choed fforestaidd; a'i osod allan, yn ol chwaeth ei amser ef, yn rhodfeydd union, yn croesi y naill y llall, neu yn cyrchu o ganolbwynt, yn

*Y Rhodfeydd.*] mha un y mae cerfddelw. Y rhodfeydd uchaf, y rhai yn ffodus a feddant graig sôth ac anorchfygol fel sylfaen iddynt, a ataliai y duedd arferol at unionedd; felly yr oedd angenrheidrwydd am amrywio oddiwrthi; ond nid i raddau mwy nag y byddai i wyriad igamogam ei

* Gwel nodyn ar tudal. 402. J.R.

† Record of Caernarvon, Bibl. Litt. 19. ‡ Yr unrhyw.

§ Y mae Bodscallan wedi bod am yspaid hir yn nodedig am ei letygarwch. Yn yr Attodiad ceir taflen o'r bwydydd ar giniaw Nadolig. Rhif XXII. GOL.

Digitized by Google

oddef. Er y beiau bychain hyn, y rhai y gellid yn hawdd eu diwygio, gallwn ystyried y rhodfeydd hyn yn mysg y rhai blaenaf yn yr ynys hon, ar gyfrif y golygfeydd prydferth y dichon i natur eu cyfleu; ac, o'r manau hyny o ba rai y ceir golwg ar Gonwy, gallaf ychwanegu y rhai mawreddog o eiddo oelfyddyd hynafol.

*Golygfeydd Prydferth.*

Y mae pob uchder o'r rhodfa yn arddangos gwrthddrychau newyddion ac ardderchog; yn gyntaf, ymnyddiadau mawrion yr afon tuag at Lanrwst, tyrau uchel Conwy, a muriau hybarch y dref; a thu hwnt i hyny y mae ymestyniad hirfaith o alpau, gyda Moel Siabod, y Drum, a Charneddau Llywelyn a Dafydd, yn ymddyrchafu mewn taldra arbenig. Oddiar esgyniad ychydig yn uwch arddangosir i ni ymarllwysiad y Gonwy i'r môr, yn cael ei derfynu yn ysplenydd gan y Penmaen Bach, a'r Gogarth anferthol; cydrhwng pa rai yr ymddengys morgilfach brydferth penrhyn aruthrol Penmaen Mawr, Ynys Seiriol, ac ymestyniad hirfaith Ynys Môn. Ar ol cyrhaedd y pen uchaf, yr ydym yn canfod odditanom wastadedd eang, gydag aber yr afon Gonwy yn ymarllwys i Fôr y Werydd ar un ochr, a morgilfach brydferth Llandudno, ar lun haner lleuad, ar yr ochr arall: un o benrhynau yr hon ydyw y Gogarth Fawr; a'r llall ydyw bryn uchel Rhiwleden, neu y Gogarth Fach. Ymsymudiad dipyn yn mlaen a'n dyg i olwg morgilfach eang, yn ysgubo y morlanau haner-cylchog; a thu hwnt y mae bryniau sir Fflint, a'r mynedfeydd i aberoedd yr afonydd *Mersey* a'r Ddyfrdwy, y rhai yn fynych a fywioceir gan longau.

*Planigion Anghyffredin.*

Heblaw y coed a'r planigion arferol, dyry y rhodfeydd hyn ddifyrwch mawr i'r llysieuwyr, ar gyfrif eu planigion anghyffredin, a'r cwbl o fewn cylch tra bychan. Yn mysg y rhai y mae y llysieuydd galluog hwnw, fy nghydymdeithydd trwy yr Hebrides, y parchedig Mr. Lightfoot, yn rhestru y *Veronica spicata*, y rhwyddlwyn pigog, *Fl. Angl.* i. 3; *Geranium sanguinem*, neu big-yr-aran gwaedlyd, *Fl. Angl.* i. 305. *Fl. Scot.* i. 372; *Cistus marifolius*,* *Sp. Pl.* 741; *Sm. Fl. Br.* 572, neu y *Cistus* teimddeiliog llwyd; *Silene nutans*, neu y *Nottingham catchfly*, *Fl. Angl.* i. 188; *Rubia Tinctorum*, neu y wreiddrudd wyllt, *Sp. Pl.* i. 158; *Scilla verna*, neu

* Y mae y parchedig Mr. Evans, yn ei Daith i ymchwilio am Lysiau, tud. 272, gan ffyddlawn gopio gwall yn yr argraffiad blaenorol o'r gwaith hwn, yn dysgrifio y CISTUS *marifolius*, a'r CISTUS *hirsutus*, y rhai a adnabyddid er's hir amser fel yr un llysieuyn, megys rhywogaethau gwahanol. Y mae yr un awdwr hefyd yn haeru, ei fod wedi darganfod y LYSIMACHIA *thyrsiflora* yn agos i Gloddaeth, ond y mae wedi camgymeryd ei drigfod. Dywedir fod Edward Llwyd wedi ei gael yn Môn, ond ni wyddir yn mha le.—"O'i flaen ef," fel y dywed y parchedig Hugh Davies,* "ni ddarganfu neb y CRITHMUM *maritimum* yn tyfu ar y tywod: oblegyd y mae yn sicr na chyfnewidiodd ei safle er's pan y mae Shakespeare yn darlunio y 'gwaith arswydus' o'i gasglu:—

"Haner y ffordd i lawr
"Y croga ©n sy'n casglu ffenigl; gwaith arswydus!"

Tarddodd y gwall pwysig yma oddiar ei yspryd annoeth o gopio. Dywed Mr. Pennant, "fod y meusydd o amgylch Porth Gwylan wedi eu gorchuddio â siampier y ddafad," SALICORNIA *herbacea of Smith, Fl. Br.* p. 2.; yr hwn y mae Mr. Evans, gan ddylyn camgymeriad o eiddo Withering, yn ei drawsffurfio i'r CRITHMUM *maritimum*.

Ni buasai y golygydd yn rhoddi lle mor helaeth i'w sylwadau ar waith Mr. Evans yn y nodiadau byrion a ganiateir iddo, oni buasai yn ei hystyried yn ddyledswydd arno arddangos gwallau dyn, yr hwn, yn ystod ei Daith, sydd yn wastad yn amcanu ar bob achlysur i fychanu a difrio Mr. Pennant, tudalenau gwerthfawr yr hwn yr ymddarostynga efe i'w copio yn ddibetrus, ac heb gydnabod hyny. GOL.

* Gwel ei sylwadau ar Daith Mr. Evans mewn Attodiad i "Amddiffyniad yr Eglwys Sefydledig" gan Dr. Williams.

Digitized by Google

hosanau gwyrddion y gog, *Fl. Angl.* 142; ***Potentilla verna***, neu y pum' dalen gwyrdd, *Fl. Sc.* 270, *Fl. Angl.* i. 224; ***Thalictrum minus***, neu droed y barcut lleiaf, *Fl. Sc.* i. 285. *Fl. Angl.* i. 238; ***Arenaria verna***, neu wlydd gwyrdd y mynydd, *Fl. Angl.* i. 191; *Fl. Sc.* i. 231; ***Scrophularia vernalis***, neu lysiau'r ffigys melyn, *Fl. Sc.* i. 330; *Fl. Angl.* i. 275; ac yn agos i'r llidiart, yn y ffordd sydd yn arwain at Gonwy, y *Polypodium vulgare var. Cambricum*, neu yr amlgibog danneddol neu Gymroaidd, *Fl. Angl.* ii. 445. *Fl. Scot.* ii. 668.

Y mae rhan fawr o'r tŷ presenol wedi ei adeiladu gan Thomas Mostyn, yn nheyrnasiad y frenines Elizabeth. Ar nen y neuadd fawr y mae pais-arfau y dywysoges hono, ac eiddo y tŷ, a rhai yr afradlon iarll Leicester, wedi eu paentio; yr olaf, yn brawf o'r gweniaith a delid i'w awdurdod.

Yma y mae, mewn ystafell dylodaidd, gasgliad rhagorol o lyfrau a llawysgrifau; yn mhlith y rhai olaf y mae copi prydferth o lyfr cyntaf, ac ail lyfr *Froissart*, mewn llawysgrif ar groen, a chydag arluniau o'r fath geindlysaf. Cynwysa y wynebddalen arddangosiad o'r awdwr ar ei luniau, mewn mantell lâs, yn cyflwyno ei lyfr i Iorwerth III. Un o freninoedd Ffraingc, yr hwn a hynodir gan y *fleurs de lis* ar ei wisgoedd yn dal brenines gerfydd ei llaw, yr hon, oddiwrth bais-arfau Lloegr, a'r llew ar ei gwisg, a ymddengys ei bod y frenines Philippa, i'r hon yr oedd Froissart yn ystafellydd y ddirgel-ystafell. Ymafla hi yn llaw bachgen ieuangc, gwisgoedd yr hwn sydd hefyd wedi eu harwyddnodi â llewod. Rhaid mai Rhisiart o Bourdeaux, ei hŵyr, ydoedd hwn, wedi hyny Rhisiart II. Y mae boneddiges, ac amryw ffuguran ereill, yn ymddangos yn y darlun. Rhoddwyd y llyfr yma gan arglwydd Buckhurst i Syr William Cecil, a chanddo ef i'w gydoeswr o dylwyth Mostyn.

Daeth Gloddaeth i feddiant teulu Syr Roger Mostyn trwy briodas ei hynafiad Howel ap Evan Fychan, yn 1460, gyda Margaret, merch ac etifeddes i Gruffydd ap Rhys ap Gruffydd ap Madoc Gloddaeth ap Madog ap Iorwerth Goch o Greuddin, y cantref yn mha un y mae y tŷ yn sefyll. Yr oedd tenantiaeth y lle yma yn berffaith rydd, ac nid oedd y tenantiaid i dalu ond gwarogaeth a gwasanaeth i'r sîr, a'r can' llys; a phan elwid arnynt i fyned gyda'r tywysog i ryfel, yr oeddynt yn myned ar ei draul ef.

*Eglwys Rhos.*] *Eglwys Rhos*, sef eglwys y plwyf, a saif mewn gwastadedd o fewn ychydig bellder i Gloddaeth, gerllaw i glogwyn o graig, arwisgedig gan goed, ac a elwir Bryn Maelgwyn. Yn y ffenestr ddwyreiniol y mae llun dyn yn penlinio, wedi ei wisgo mewn mantell herodr, ac yn gwisgo pais-arfau *Englefield*. Oddiwrth y cerfiad yr wyf yn casglu mai Hywel ap Tudur o Fostyn* ydoedd, ac mai efe a anrhegodd yr eglwys â'r ffenestr hon.

Ond y mae yr eglwys yma yn nodedig ar gyfrif marwolaeth y tywysog Maelgwyn Gwynedd, yr hwn a ymlochesai yma er mwyn dianc rhag y ***Fâd Felen***, yr hon oedd y pryd hwnw yn ymffyrnigo trwy Ewrop. Byddai y Brytaniaid, yr un modd a'r Rhufeiniaid, yn personoli afiechyd. Yn yr amgylchiad yma yr oedd i ymgymeryd naill ai ffurf sarph gribog, neu alluoedd yr unrhyw, neu ynte ar lun benyw brydferth, yr hon a laddodd Maelgwyn gyda chipdrem, fel y darfu iddo yn anwyliadwrus edrych allan drwy y ffenestr: yn ol y brophwydoliaeth—

Pryf rhyfedd o Forfa Rhianedd,
Hwnw a fydd diwedd Maelgwyn Gwynedd.

* Salisbury Pedigree, 37

*Diganwy.*] Saif ychydig olion *Diganwy*, neu, fel y gelwir hwy gan y Saeson, *Gannoc*, ar ddau fryn bychan, yn agos i lanau afon Conwy, mewn ychydig bellder oddiwrth Eglwys Rhos. Yr oedd y muriau yn croesi y cyfwng rhwng y bryniau, ac yn rhedeg i fyny eu hochrau; ar y pen uchaf i un o honynt y mae olion tŵr crwn, ac yma ac acw ychydig sylfeini muriau ar yr ochrau hygyrch. Y mae Dr. Powel, oddiar awdurdod yr haneswyr Cymreig,* yn dywedyd fod yma, ar un adeg, ddinas, yr hon, yn y flwyddyn 810, a ddinystriwyd gan fellt; ac ychwanega Camden, ei fod ef yn credu mai dyma oedd yr hen *Dictum*,† am y buasai yn orsaf mintai o'r *Nervii Dictenses* o dan yr ymerawdwr olaf. Nis gallaf ddarganfod pwy oedd sylfaenydd yr amddiffynfa, ar weddillion yr hon yr wyf yn awr yn edrych. Dichon mai Robert o Ruddlan ydoedd. Dywedir wrthym fod y wlad yma yn rhan o feddiannau ieirll Caerlleon; ac fod Robert yn y fan yma pan y cyfarfu â'i ddiwedd. Ar y 3ydd o Orphenaf 1088, ein tywysog dewr Gruffydd ap Cynan a ddaeth i mewn i afon Conwy, ac a laniodd o dan y castell ar orllanw, gan adael y llongau ar y lan wedi i'r dwfr dreio ymaith. Anrheithiodd y wlad oddiamgylch, a gyrodd tuag at ei longau yspail fawr o wŷr ac anifeiliaid. Robert, yn ddigllawn wrth hyn, a ddaeth i waered o'i amddiffynfa, heb ddim ond un milwr, Osbern de Orgar, gydag ef, ac heb unrhyw arfau amddiffynol oddieithr ei darian. Y Cymry a ymosodasant arno gydag arfau, ac wedi llenwi ei darian mor llawn o bicellau fel y syrthiodd o dan eu pwys, y gelyn a ruthrodd arno, torasant ymaith ei ben, ac wedi ei sicrhau wrth yr hwylbren, hwyliasant ymaith mewn gorfoledd barbaraidd.‡ Llywelyn Fawr a ddinystriodd y castell hwn; ond ailadeiladwyd ef, yn 1210, gan Randle Blondevil, iarll Caerlleon.§ Y brenin Ioan, yn y flwyddyn 1211, a wersyllodd am beth amser o dan ei furiau, ac a ddygwyd i galedi mawr trwy gyfrwystra Llywelyn; yr hwn a gymerth ei safle rhyngddo a Lloegr, gan dori ymaith ei adgyflenwadau.‖ Y brenin Harri III. a ymdarawodd hyd yn nod yn waeth na hyny, yn yr un lle, yn 1245, ar yr adeg pan yr oedd John de Grey o Wilton yn gwnstabl. Y mae un o'i wŷr llys yn dysgrifio eu hadfyd yn y modd mwyaf torcalonus.¶ O'r diwedd, cafodd Diganwy, yn 1260, ei lwyr chwalu gan ein tywysog olaf Llywelyn ap Gruffydd.

*Tŵr Hynafol.*] Heb fod yn mhell oddiyma, ar grib bryn isel a elwir Bryniau, y saif hen dŵr. O ran ei ffurf y mae yn grwn; ei uchder oddeutu ugain troedfedd, a'i dryfesur yn ddeuddeg. Nid yw ei furiau yn cyfansoddi ond dwy ran o dair o gylch; y mae y gweddill yn agor hyd y top; ac y mae gorpheniad y muriau yn ymddangos yn gyflawn, heb unrhyw arddangosiad fod yno ddrws erioed wedi bod; ac y mae y lle agored at y tir. Oddifewn y mae olion dau o loriau. O amgylch y tu fewn y mae tair rhês o dyllau ysgwâr, ond nid oes yr un o honynt yn myned trwy yr adeilad. Y mae ei furiau o drwch mawr, ac ymddengys y morter yn dra hen. Nis gallaf gynyg unrhyw dybiaeth gyda golwg ar ei ddyben; ond yr wyf yn ei ddysgrifio er rhoddi cyfleusterau i ereill ymarfer eu talentau.

* Ei nodiadau ar Giraldus Cambr. Itin. lib. ii. c 10.

† Yr oedd Camden yn mhell iawn oddiwrth y nod, ac yn gymaint a bod Deganwy yn *arx Decantorum* yr *Annales Cambriæ*, felly yr oedd enw y bobl yn *Decanti*, tra y mae y *Deganwy* diweddar yn cyfeirio at ffurf arall, *Decantovii* neu rywbeth tebyg. J.R.

‡ Ordericus Vitalis, lib. viii. p. 670. § Powel, 262. ‖ Yr un. ¶ Yr un, 311.

Digitized by Google

Parheais i farchogaeth ar hyd glàn y môr, gyda'r gwddfdir gwastad ac isel ag sydd yn cysylltu tir uchel Gloddaeth â phenrhyn mawr Llandudno. Marchogais dros rhan o'r olaf, ar hyd ffordd gul, uwch ben y môr, ac ar y llaw ddehau fryniau sythion a chlogwyni. Cyrhaedd *Gogarth*, llain hirgul, ond hir, o dir tra ffrwythlawu. Yr oedd yn yr hen amseroedd yn attodiad at fynachlog Conwy, ac y mae darn o'r hen adeilad o hyd yn aros.

*Gogarth.*

*Llandudno, neu Ben Gogarth.* Esgynais ar hyd llwybr tra hir a syth i gopa *Llandudno*, llwybr defaid o'r fath brydferthaf, yn cynwys tywyrch gwych, oddigerth pan y mae y graig yn dyfod i'r golwg, yn ymestyn agos i bedair milldir o hyd, ac un filldir o led. Gorwedda yn maenor Gogarth, a pherthyna i esgobaeth Bangor. Y pen gorllewinol sydd ddibyn arswydus, encilfa amrywiol fathau o fôr-adar yn nhymhor bridio. Y Gwylanod a feddiannant y manau isaf; uwchlaw iddynt hwy y mae Gweilch-y-penwaig a'r Gwilymod yn gwneyd eu cartref; uwchlaw iddynt hwy y crygleisia y Morfranod; a'r Crëyrod a feddiannant y manau uchaf; ac yn wasgaredig yn eu plith y mae ychydig o Balednod a Gwilymod duon. Y mae yr Hebog Ymfudol hefyd yn adeiladu ei nyth yn y creigiau hyn. Yr oedd y rhywogaeth yma mewn bri mor fawr yn amser hebogyddiaeth, fel y darfu i'r gwladweinydd galluog hwnw, Burleigh, anfon llythyr o ddiolchgarwch i un o hynafiaid Syr Roger Mostyn, am anrheg o gwpl o hebogau o'r lle hwn.

*Adar y Môr.*

*Hebogau.*

*Hebogyddiaeth.* Yr oedd hebogyddiaeth mewn bri mawr yn mhlith y Cymry. Yr oedd gan ein tywysog ei brif hebogydd; yr hwn a hawliai y pedwerydd eisteddle yn mhlith swyddogion y llŷs. Daliai ei dir yn ddiardreth; hawliai ddwbl y porthiant i'w farch; a darperid iddo ddillad brethyn gan y tywysog, a rhai lliau gan y dywysoges. Efe a ddygai ei gwpan gydag ef i'r neuadd; ond ni chaniateid iddo yfed ychwaneg nag a dorai ei syched, rhag iddo feddwi, ac esgeuluso ei hebogau. Caniateid iddo galonau ac ysgyfaint yr holl anifoiliaid yn y gegin freninol, ac weithiau ewig hesp, tuag at fwydo ei adar. Pa bryd bynag y byddai i'w hebogau ladd unrhyw o'r tair rhywogaeth ardderchocaf o helwriaeth, megys y Garan, Aderyn y Bwn, neu y Crëyr, efe a dderbyniai gan y tywysog dri gwasanaeth; dal ei werthol pan yn disgyn oddiar ei farch, dal ei farch pan y byddai yn cymeryd yr hebogau oddiwrth yr helwriaeth, a dal ei werthol drachefn pan y byddai yn esgyn ar ei farch; ac yn y nos y tywysog a'i hanrhydeddai ef trwy ei wasanaethu dair gwaith wrth y bwrdd gyda'i ddwylaw ei hun. Os byddai i'r hebogydd gymeryd rhai o'r adar breninol yn absenoldeb y tywysog, yr oedd i'w dwyn hwy i'r neuadd; ar hyny yr oedd i godi, neu os na chodai, yr oedd i'w wisgo â'r wisg a fyddai am dano ar y pryd. Yn ystod yr amser pan y byddai yr hebogiaid yn bwrw eu plu, nid oedd yr hebogydd yn rhwym i ateb unrhyw gwyn cyfreithiol. Os lladdai ei geffyl, yn yr ymarferiad o'i swydd, yr oedd y tywysog i ymorol am un arall yn ei le iddo. Y ddirwy am niweidio y penhebogydd ydoedd chwech o wartheg, a chwech ugain a chwech o geiniogau; ac nis gellid gwneyd iawn am ei ladd ond trwy dalu dim llai na chwech ugain a chwech o wartheg.* Caniatäer i mi derfynu trwy ddyweyd, fod treth

* Leges Wallicæ, 23 to 26.

Digitized by Google

neillduol at gynal y swydd hon, a elwid *Cylch Hebogyddion*,* yr hon a syrthiai ar y deiliaid; oblegyd nid oedd y tywysog yn cyfranu ond ychydig, neu ddim tuag at y draul o ddifyru ei ganlynwyr.

Y mae ochr ogleddol y penrhyn wedi ei dori yn glogwyni o amryw uchderau; ac y mae bonion yr ochrau hyn yn cael eu golchi gan ddyfroedd dyfnion. Y mae yn werth y llafur o esgyn i'r pwynt uchelaf, er cael golwg ar yr amgylchoedd eang ac amrywiog.

Ar yr un ochr y mae gweddillion hen furiau amrwd, heb forter, a elwir *Llety Fadog*, yr hwn y tybir ei fod yn un o hynafiaid Gloddaeth; ac heb fod yn mhell oddi yno y mae llwybr cul a chyfyng, gyda cheryg ar bob tu, olion dwy o waliau, fel y mae yn debyg, yr hwn a elwir Gwylfa y Ceirw.

Ar fryn uchel, a elwir Dinas, y mae lle cauedig o eangder mawr. Amgylchir ymyl y bryn â mur afrywiog; ac oddi fewn y mae niferi o geueddau cylchog bychain, oddeutu deuddeg troedfedd o drawsfesur, ac wedi eu cylchynu â muriau; y fath ag a geir ar Dre'r Caeri, a lleoedd cyffelyb, preswylfeydd afrywiog ein hen gyndadau. Yn agos i hwn y mae *Maen Sigl*, un mawr, pwynt cyffyrddiad yr hwn â'r llawr sydd mor fychan fel i'w wneyd yn symudadwy ar y tarawiad lleiaf. Pobl y wlad a'i galwant *Cryd Tudno*. Y mae hwn yn gylchynedig gan ffos, ac y mae ffordd wedi ei ffurfio i fyned ato. Tybia y dysgedig fod y Derwyddon yn arfer gwneyd y meini hyn yn offerynau i dwyllo eu dysgyblion; ac os byddai rhyw achos o bwys, cymerent arnynt nad allai dim ond eu dwylaw sanctaidd hwy eu symud: ac efallai eu bod yn amgylchynedig â ffos, ac fod ganddynt eu llwybr neillduol, i gadw draw y werin, ac i roddi mwy o ddifrifoldeb ar y ddedfryd wyrthiol. Y mae y cywrain Bernier yn son am ofergoeledd heb fod yn annhebyg i hyn. Yn Sendbrary, yn nheyrnas Cachemire, darfu i'r Braminiaid, Derwyddon India, ddangos iddo ef gareg nas gallai y dyn cryfaf ei chodi, eto gallai unarddeg o'r dynion sanctaidd hyny, gyda phenau eu bysedd, wneuthur felly, trwy weddïo ar eu sant.†

*Eglwys Llandudno.*] Oddiyno aethum heibio yr eglwys, yn y lle mwyaf oerllyd, uwchlaw y môr, ac yn mhell oddiwrth bob trigfanau pobl. Y mae yn gyflwynedig i Sant Tudno o Faes Gwyddno, y wlad a orlifwyd gan y môr, rhwng sir Feirionydd a Lleyn. Wrth ddyfod i lawr o'r penrhyn yma, aethum heibio i amryw weithydd copr, y rhai ar adegau a weithir gydag enill. Y mae y daith ar hyd ochr morgilfach Llandudno yn arbenigol o hyfryd. Esgynais i Gloddaeth, yn agos i droed Rhiwleden, craig aruthrol, lle yr heigia, yn eu tymhor, y Paledn a Gweilch y penwaig; ac hefyd Golomenod y Graig, lluoedd o ba rai a fridiant yma yn rheolaidd, yn hytrach nag yn y colomendai, y rhai yn wastadol a adawant ar amser dodwy.

Disgynais o Gloddaeth i lan y môr, oddeutu dwy filldir o bellder. Yn agos i'r traeth, gwelais adeilad fechan hynod, a elwid Capel Sant Trillo; y mae yn hirgul; medda ffenestr ar bob ochr, ac un ar y talcen; drws bychan; a nenfwd bwaog, wedi ei döi â cheryg crynion, yn lle ei lechdöi. Oddifewn y mae ffynhon. Amgylchynir yr holl adeilad â mur o geryg.

* Record of Caernarvon, in Bibliotheca Litteraria, 25.
† Bernier's Voyage of Cachemire, 112.

Digitized by Google

*Llandrillo.* Ar fryn, oddeutu haner milldir oddiwrth y capel hwn, y saif eglwys *Llandrillo*, cyflwynedig i'r un sant. Yn agos iddi y mae tŷ mawr adfeiliedig, a elwir Bryn Euryn; gynt yn cael ei alw Llys Maelgwyn Gwynedd, gan yr hwn yr oedd palas yn y lle. Oddeutu y ddeuddegfed ganrif preswylid ef gan yr enwog Ednyfed Fychan; a rhywbryd yn y ganrif ddiweddaf yr oedd yn meddiant teulu o'r enw Conwy, o haniad Cymreig, yn tarddu o Gruffydd Goch, arglwydd Rhos a Rhyfoniog.

*Rhos Fynach.* Cadw gyda glan y môr, a myned heibio i *Rhos Fynach*, a elwid felly am ei bod unwaith yn eiddo mynachdy Conwy. Y mae gan yr eglwys gyfran o hyd mewn gored eang, yr hon a rêd allan o'r pwynt hwn; yr esgob, a ficer Llandrillo, yn meddu y pysgod o bob degfed llanw cyd-rhyngddynt. Ar adegau y mae ganddynt siawns dda o gael helfa enillfawr, oblegyd mewn dau lanw olynol y mae gwerth deugain punt o fecryll wedi cael eu cymeryd.

O Ros Fynach y mae tir yn encilio i fewn, ac yn ffurfio morgilfach brydferth. Llechweddu y tir i ymyl y dwfr, ac amrywir ef â choedwigoedd a llysieuaeth. *Penmaen Rhos.* *Penmaen Rhos*, craig fawr o gareg galch, a ymestyna i'r môr ar derfyn y forgilfach. O fewn fy nghof i, byddai yr ymdeithydd yn myned ar hyd llwybr cul, wedi ei dori ar ei gwyneb, yn union yr un fath a'r ffordd ar Benmaen Mawr, eithr yn annhraethol mwy erchyll a pheryglus; ond y mae ffordd gerbyd ragorol yn y blynyddau diweddaraf yn mhell o'r tu fewn i'r clogwyn hwn. Oddi yno disgynais i Landdulas, pentref bychan, gydag eglwys. Yn un o gymoedd dyfnion y gymydogaeth hon y bradychwyd yr anffodus dywysog Rhisiart II., yr hwn a gawsai ei hudo yn dwyllodrus gan iarll Northumberland i fyned gydag ef o Gonwy, i gyfarfod Bolingbroke, i derfynu yn heddychol yr ymrafael oedd rhyngddynt. Yn rhywle oddeutu y fan yma efe a gafodd ei hun wedi ei amgylchu gan fintai fawr o wŷr arfog, wedi eu gosod yno gan yr iarll bradwrus, yr hwn, gan afael yn Rhisiart, a'i traddododd yn garcharor i'r trawsfeddianydd yn nghastell Fflint.*

Ychydig yn mhellach yn mlaen, ar y llaw ddehau, yn uchel uwchlaw y ffordd, y mae *Cefn Ogo*, clogwyn dyrchafedig; o liw goleu, oddigerth lle y tywyllir ef gan yr eiddew sydd yn ymledu ar hyd y tu blaen. *Cefn Ogo.* Yn y canol y mae y fynedfa fywaf ardderchog i ogof ag y gall Prydain ymffrostio ynddi. Ymddengys yn debyg i borth eglwys gadeiriol ardderchog, yn fwaog, ac wedi ei rhanu oddifewn â'r hyn sydd yn meddu ymddangosiad o golofn fawr.

Yn agos i'r lle hwn y dechreua y gwastadedd brâs o dir âr, yr hwn a ymestyn dros Forfa Rhuddlan, a thu hwnt i Brestatyn yn sir Fflint. Y mae tref fechan *Abergeleu* yn sefyll o fewn milldir i Gefn Ogo, yn agos i'r clogwyni gwynion sydd yn crogi uwchben y môr. *Abergeleu.* Dywed traddodiad fod, yn yr hen amser, ranbarth eang o dir preswyliedig wedi ei orlifo gan yr elfen hono, yr hwn a ymestynai o leiaf ddwy filldir i'r gogledd; y mae beddargraff dienw a heb amseriad, yn nghlawdd y fynwent, yn cael ei ddwyn yn mlaen fel prawf o hyny. "*Yma mae'n gorwedd, yn mynwent Mihangel*

* Gwel yr holl hanes, wedi ei arddangos yn foddhaol gyda darluniau cyfaddas o hen lawysgrif arliwiedig, yn *Mr. Strutt's Regal Antiquities.*

*gŵr oedd a'i anedd dair milldir i'r gogledd.* Ond, fel prawf gwell, myfi a welais, ar ddistyll, yn mhell oddiwrth y glenydd cleiog, ddernyn hir o farldir, yn llawn o foncyffion coed derw, yn gwbl gyfan; ond mor feddal fel y gellid eu tori â chyllell mor rhwydd a chŵyr.

Cesglir y coed gan y bobl dlotaf, ac wedi eu dwyn i sychu ar lan y môr, cludant hwy adref i'w defnyddio fel tanwydd; ond, wrth losgi, y maent yn rhoddi allan arogl tra annymunol.

Yr eglwys sydd adeilad hir afrosgo, gyda thŵr uchel fel clochdy.

*Marchudd ap Cynan.*] Un o'r plwyf hwn oedd *Marchudd ap Cynan*, cydoeswr â Rhodri Fawr, ac un o bymtheg llwyth Gwynedd, olynwyr y rhai a roddasant dywysogion i'r ymerodraeth Brydeinig. Ei breswylfod ef oedd Brynffenigl, yn mha le hefyd yr oedd ei olynydd, yr enwog Ednyfed Fychan, yn preswylio ar adegau.

Terfynir Abergeleu ar y llaw ddehau gan fryniau uchel o geryg calch, y rhai ydynt weithiau yn cynyrchu mwn plwm. Ar un o honynt, yr hwn a ymddyrchafa oddiar y gweddill, ac a elwir *Copa yr Wylfa*, y mae gorsaf *Copa yr Wylfa.*] Brydeinig dra chadarn. Clogwyn anferth ydyw y tu blaen; allan o'i gilfachau y tyf yr *Aria Theophrasti;* y rhanau hygyrch a amddiffynir gan ffosydd o ddyfnder mawr, a thwmpathau o geryg ar hyd yr ochrau mewnol, yr hyn a roddai iddynt nerth dirfawr. Mewn glyn odditanodd y mae ffos, a elwir Ffos y Bleiddiaid; fe ddichon o herwydd amldra yr anifeiliaid hyny yn y parthau yma. Mr. Llwyd, yn ei Deithlyfr, a sonia am fryncyn yn *Pen y Pîl.*] agos i Abergeleu, wedi ei ranu yn ddau, ar gopa pa un y safai castell yn flaenorol a elwid *Pen y Pîl*, efallai ei fod yn breswylfa yr hen arglwyddi.

O Abergeleu aethum i fyny i'r plwyf cymydogaethol, *Cegidoc*, neu, fel y geilw y Saeson ef, *St. George* (Llansantsior.) Yr oedd yn yr hen amser yn gysylltiedig â Llanelwy, ac yr oedd y preswylwyr dan orfodaeth i adgyweirio clawdd y fynwent, y darn oedd o hono yn yr heol.

Yn mhell uwch law y lle yma, ar gopa bryn a elwir Pen y Parc, y mae gorsaf dra chadarn, yr hon y dywedir fod Owain Gwynedd *Gwersyll Owain Gwynedd.*] wedi ei meddiannu ar ol ei enciliad meistrolgar o flaen Harri II.; yr hwn a gadwodd ar hyd braich, ac a sicrhaodd ei diriogaethau rhag unrhyw oresgyniad pellach; oblegyd ar y fan yma y darfu iddo, ac nid yn mysg creigiau Eryri, fel y tybia Arglwydd Lyttleton,* y gwnaeth ein tywysog galluog wrthsafiad o'r fath mwyaf penderfynol, a rhoddi atalfa ar bob symudiad pellach ar ran y goresgynydd. Ar yr ochrau hygyrch y mae ffosydd a chaerau dyblyg a thriphlyg; y mae yr ochrau ereill yn cael eu diogelu yn ddigonol gan glogwyni. Yr eangder sydd oddeutu tri chwarter milldir, ac yn agos i ymyl y parth syth, yn wynebu Rhuddlan, y mae wedi ei dori i lawr yn dir esmwyth, ar ffurf uwchrodfa.

*Ofergoelion.*] Yr oedd gan St. Sior, yn y plwyf hwn, ei *Ffynhon Sanctaidd*, wrth ba un y byddai y duw rhyfel Prydeinig yn derbyn ei offrwm mewn ceffylau; oblegyd yr oedd y rhai cyfoethog yn arfer offrymu un er sicrhau ei fendith ar y cyfan o'r lleill. Efe ydoedd sant noddiannol yr ani-

* Hist. of Henry II. ii. 385, 3rd edition, 8vo.

Digitized by Google

feiliaid hyny; yr holl rai anhwylderus a ddygid yno, taenellid hwy â'r dwfr, a datgenid y fendith ganlynol: "Rhad Duw a Sant Sior arnat."

*Ffynhon Elian.* ] Y mae *Ffynhon Elian*, plwyf heb fod yn mhell o Landrillo, yn sir Gaernarfon, wedi bod yn cael enw da am wella pob afiechydon, trwy eiriolaeth y sant; cymhorth yr hwn a ddeisyfid trwy weddïau difrifol yn yr eglwys a safai gerllaw. Apelid ato ar achlysuron llai teilwng, a gwneid ef yn offeryn i ddarganfod lladron, a'r rhai a arferent dderbyn eiddo lladrad. Byddai rhai yn ymgyrchu ato i regi eu cymydogion, ac i erfyn ar i'r sant ymweled â marwolaeth ddisyfyd, neu â rhyw aflwydd aruthr, ar ryw bersonau a fuasent wedi eu tramgwyddo. Y mae y grediniaeth yn y peth yma yn aros yn gryf; oblegyd nid oes tair blynedd wedi myned heibio ers pan y darfu i un fy mygwth i (yr hwn a dybiai fy mod wedi gwneyd niwaid iddo) â dialedd Sant Elian, a phererindod at ei ffynhon i'm rhegi mewn modd effeithiol.*

*Arferion Crefyddol.* ] Bydd i mi alw sylw, ar un waith, at yr amrywiol arferion crefyddol a ymarferid yn ein plith mewn amseroedd blaenorol, y rhai ydynt yn raddol wedi diflanu, fel y mae yr oes yn goleuo. Yr oedd rhai o honynt yn lleol, ac amryw yn ymestyn trwy yr holl wlad: efallai y buasai yn llawn cystal pe cawsai rhai eu parhau, ar gyfrif eu bod yn arddangos dygasedd at ddrygioni, neu â dybeu elusengar iddynt, er yr ychydig ffoledd oedd mor fynych i'w ganfod ynddynt.

Yn yr eglwys, pan enwid y diafol, torai y gynulleidfa allan i boeri yn gyffredinol, megys o ddirmyg ar yr yspryd drwg hwnw; a pha bryd bynag yr enwid Judas, byddent yn arddangos eu ffieiddiad o hono trwy guro eu dwyfronau.

Os byddai ffynhon Fair, neu ffynhon rhyw sant arall, yn ymyl, dygid y dwfr at fedyddio bob amser o honi; ac ar ol i'r seremoni fyned drosodd, yr oedd yr holl hen wragedd yn rhyfeddol o hoff o olchi eu llygaid â'r dwfr a gynwysai y llestr.

Yn flaenorol i gynhebrwng, byddai yn arferol, pan ddygid y corph allan o'r tŷ a'i osod ar yr elor, i'r perthynas agosaf, bydded hi weddw, mam, chwaer, neu ferch (oblegyd rhaid oedd iddi fod yn fenyw) roddi dros yr arch nifer o fara gwynion, mewn dysgl fawr, ac weithiau gosyn, gyda darn o arian wedi ei sicrhau ynddo, i ryw bobl dylodion. Wedi hyny cynygient, yn yr un dull, gwpanaid o ddiod, gan erchi i'r person y cynygid hi iddo yfed ychydig o honi yn ddioed. Wedi iddynt wneyd hyn, penlinient ar lawr; a'r offeiriad, os byddai yn bresenol, a adroddai Weddi yr Arglwydd; ar ol hyny, elid ymaith gyda'r corph; ac ar bob croesffordd rhwng y tŷ a'r eglwys, rhoddent yr elor i lawr, penlinient, a thrachefn adroddent Weddi yr Arglwydd; a gwnelent yr un modd ar eu mynediad cyntaf i'r fynwent. Y mae hefyd yn arferiad canu salmau ar hyd y ffordd, mewn llawer o fanau; trwy yr hyn y mae dystawrwydd bywyd gwledig yn cael tori arno, mewn dull ag sydd yn fynych yn cynyrchu adfyfyrdodau crefyddol.

* Y mae erthygl o eiddo Mr. Barnwell, yn yr *Arch. Camb.* am 1872, "ar ryw hen Arferion a Dodrefn Cymreig," y gellid cyfeirio ati yn fanteisiol. T.P.

Digitized by Google

Hyd y dydd hwn, y mae yr elor yn cael ei gario gan y perthynasau agosaf, arferiad a ystyrir fel y parch mwyaf a ddichon duwioldeb mabaidd ei dalu i'r marw. Yr oedd hyn yn arferiad gyffredin yn mysg y Rhufeiniaid o radd uchel; ac ystyrid ef fel parhad mawr o'r ffawd dda a ddylynasai Metellus Macedonicus trwy ei holl oes, ei fod, pan y darfu iddo, mewn cyflawnder dyddiau, ymadael o'r fuchedd hon trwy lesgedd graddol, yn nghanol cusanau a chofleidiadau ei berthynasau agosaf—gael ei gario at y goelcerth anghladdol ar ysgwyddau ei bedwar mab;* ac (goddefer i mi ychwanegu) fod pob un o honynt wedi mwynhau y swyddau uchaf yn y wladwriaeth.†

Yn mysg y Cymry ystyrid ei fod yn beth ffodus i'r marw os byddai iddi wlawio tra y byddid yn ei gario i'r eglwys, fel y byddai i'w elor gael ei wlychu â gwlith y nefoedd.

Mewn rhai lleoedd yr oedd yn arferiad gan gyfeillion y marw benlinio, ac adrodd Gweddi yr Arglwydd ar y bedd, am amryw Suliau ar ol y claddu; ac yna gwisgent y bedd â blodau.

Manibus date lilia plenis, &c.

O dygwch flodau sawrus, y lili deg o'r llwyn,
Ynghyda holl brydferthion porphoraidd gwanwyn mwyn.
Y rhoddion hyn a ddygaf, a ddodaf â fy llaw,
Ar fedd y bachgen ieuangc sy'n huno'n drwm islaw.

Y mae yn barhaus yn arferiad, ar noswyl St. Ioan Fedyddiwr, osod uwchben y drysau, ysbrigau o Lysiau Ieuan, neu y fydiog lwyd os na ellir eu cael. Y dyben ydyw puro y tŷ oddiwrth ysprydion drwg; yn yr un modd ag y byddai y Derwyddon yn arfer gwneyd gyda'r ferfain, yr hwn lysieuyn sydd yn dal yr enw arwyddocaol hwnw yn mhlith y Cymry, *Cas gan gythraul*, hyd y dydd hwn.

*Plygan.*] Ar ddydd Nadolig, oddeutu tri o'r gloch yn y bore, byddai y rhan fwyaf o'r plwyfolion wedi ymgynull yn yr eglwys, ac ar ol darllen a gweddïo, a gwrando pregeth, arosent yno i ganu salmau ac emynau hyd oleu dydd; ac os, oherwydd oedran neu waeledd, y byddai rhywrai yn analluog i fod yn bresenol, ni fyddent byth heb weddïau gartref, a charolau ar Enedigaeth y CEIDWAD. Y mae y rhan flaenaf o'r arferiad yma yn cael ei chadw i fyny yn barhaus; ond yn rhy fynych yn cael ei droi yn achlysur i anghymedroldeb. Gelwir y weithred ddefosiynol yma yn *Blygan*, neu *Ganiad y Ceiliog*. Y mae wedi bod yn grediniaeth gyffredinol yn mhlith yr ofergoelus, fod yn ddiatreg,

Ar ei rybuddiol lef,
P'un bynag ai mewn môr neu dân, ar dir
Neu yn yr awyr fry, yr yspryd erch
A chrwydrol a bryssura idd ei ffau.

Ond yn ystod y tymhor sanctaidd, tybid fod y ceiliog yn ymarfer ei allu trwy y nos; oddiwrth hyn, yn ddiameu, y tarddodd y gair Cymraeg *Plygan*,

* Valer. Max. lib. vii. c. 1. † Plinii Hist. Nat. lib. vii. c. 44.

Digitized by Google

fel y cymhwysir ef at yr arferiad yma. Yn unol â hyny y mae Shakspeare yn brydferth yn dysgrifio yr hen dybiaeth hon:—

D'wed rhai, pan ddelo'r tymhor hwn yn mlaen,
Pan gedwir gwyl am eni'r CEIDWAD cu,
Fod 'deryn gwawriad dydd yn canu drwy
Y nos; ac yna fel y d'wedant hwy,
Ni faidd un yspryd gerdded allan; ond
Y mae pob nos yn iachus; ac ni bydd
Planedau yn gwrthdaro; tylwyth teg
Ar waith; ni fedd swynyddes allu swyn!
Mor sanctaidd ac mor rasol yw y pryd.

*Kinmael.*] Yn fuan ar ol gadael Llansantsior, aethum heibio i *Kinmael*, y tŷ a'r parc, mewn safle uchel ar y llaw aswy. Yr oedd y lle yma, yn ystod pedair cenhedlaeth, wedi bod yn eiddo yr Hollands, o deulu Saesonig ardderchog a ymsefydlasant yn y rhan hon o Frydain, gan ymganghenu i amrywiol deuluoedd parchus. Yr achlyfrau a'u holrheiniant o Syr Thomas Holland, yr hwn, medd traddodiad, a ddaeth, gyda brawd arall, i Gymru, mewn amseroedd terfysglyd. Y mae genyf reswm dros dybied eu bod yn William a Thomas, dau fab ieuengaf John Holland, duc Exeter, yr hwn a fu farw yn 1446, ac a adawodd i bob un o honynt flwydd-dal o ddeugain punt.* Yr oeddynt o deulu o'r fath mwyaf amhoblogaidd, ac felly nid rhyfedd iddynt encilio er gochel y trueni a allasai eu goddiweddu mewn oes o anghydgordiad gwladol. Pierce Holland, yr unfed ar ddeg mewn disgyniad oddiwrth Syr Thomas, a wnaeth ei gartref yn Nghinmael trwy ei briodas â Catherine, merch i Rishiart ap Evan ap Dafydd Fychan, ac Alis ei wraig, etifeddes y lle, a merch i Gruffydd Lloyd.† Yn y ganrif ddiweddaf, yr oedd un o'i ddisgynyddion yn meddu ar ddwy ferch. Y milwriad Carter, swyddog yn ngwasanaeth y senedd, a ddewisodd Catherine, yr ieuengaf, a chymerodd yr etifeddiaeth gyda hi. Parodd hyn i gellweiryn ddywedyd, ei fod wedi cymeryd y darnyn goreu o *holland* oedd yn y wlad. Gadawodd y chwaer hynaf, Mary, i'r milwriad Price o Rhiwlas, un o bleidwyr y brenin. Oddeutu haner can' mlynedd yn ol, darfu i olynydd o'i eiddo, John Carter, ysw., werthu y lle i'r diweddar Syr George Wynne, barwniad.‡

*Faenol.*] Mewn safle dra gwlyb, islaw Kinmael, y mae y *Faenol*, un o'r hen dai goreu yn sir Flint. Adeiladwyd ef yn 1595, gan John Lloyd, un o feibion ieuengaf Wig Fair, a chofrestrydd Llanelwy yn nheyrnasiad y frenines Elizabeth; lle enillgar iawn, cyn i alluoedd yr eglwys gael eu cwtogi. Yn y lle yma, Brynpolyn a Wig Fair, buasai capeli anwes, a byddai tri allan o'r pedwar ficer yn gwasanaethu ynddynt yn eu tro. Y mae arch careg prydferth, o gapel y Faenol, yn gorwedd yn ngardd y tŷ.

* Dugdale's Baron. ii. 81.

† Ap Evan ap Rhys ap Gruffydd Llwyd ap Robyn ap Rhys ap Robert.

‡ Gwerthwyd Kinmael gan Syr George Wynne i David Roberts, ysw.; oddiar yr hwn y prynwyd ef gan y Parchedig Edward Hughes. Y mae palas harddwych wedi cael ei adeiladu yn y parc, yn ol cynllun Mr. Samuel Wyatt, ychydig o ffordd oddiwrth yr hen dŷ. GOL.

Digitized by Google

*Bodlewyddan.*] Ar fy ffordd i lawr o Kinmael, canfod *Bodlewyddan*, preswylfa John Williams, ysw.,* trwy i'w daid, Syr William, llefarydd tŷ y cyffredin, ei brynu. Yn flaenorol i hyny, yr oedd wedi bod am genedlaethau lawer yn eiddo yr Humphriesiaid, hanedig o Rhys Goch, brawd i Gweirydd ap Rhys, un o bymtheg llwyth Gwynedd, a chydoeswr âg Owain Gwynedd.

*Pengwern.*] Disgyn i *Bengwern*, preswylfod Syr Edward Llwyd,† Bar.; tŷ newydd rhagorol wedi ei adeiladu ganddo ar safle yr hen dŷ, yr hwn a adeiladesid gan Elen, chwaer i'r Archesgob Williams, i fab ei gŵr cyntaf, Evan Gruffydd, perchenog y lle. Ei hail ŵr ydoedd Syr Peter Mutton. Y mae portread ei brawd—mewn gwisg clerigwr, yn dwyn seliau a phais-arfau Lincoln, ar ba esgobaeth yr oedd yn feddiannydd yn ystod yr amser pan y daliai y swydd o arglwydd geidwad—yn cael ei gadw yma. Un arall o Syr Peter Mutton, yn ei wisgoedd ysgarlad, gyda chrychdorch *(ruff,)* a het fawr; ac un arall o Lady Mutton, dynes brydferth, mewn gown du, het uchel, gyda *fan* neu wyntell o blu, a ffunen fawr, yn 45 mlwydd oed, 1631. Oddiyma mi a aethum trwy Ruddlan a Threlawnyd at gysuron fy aelwyd fy hun.

* Ei ŵyr Syr John Williams, y teilwng berchenog presenol, a wnaed yn farwniad yn 1798; y mae wedi helaethu y tŷ yn ddirfawr, a gwellhau y gerddi a'r rhodfeydd amgylchynol.

† "Syr Edward Lloyd," medd Mr. Pennant yn *Hanes Whiteford*, "a orphenodd ei yrfa faith a llafurus ar yr 20fed o Fai, 1795;" dylynwyd ef gan ei hen nai, Syr Edward Pryse Lloyd, Bar. Gol.

## DIWEDD YR AIL RAN.



Digitized by Google

Digitized by Google

# RHAN III.

DOWNING,

MEIFOD, CAER SWS,

TREFALDWYN,

CASTELL POWYS, YR AMWYTHIG,

CAER CARADOG.

Digitized by Google

Digitized by Google

# Y DRYDEDD DAITH YN NGOGLEDD CYMRU.

## RHAN III.

Ddydd Mercher, Gorphenaf 4ydd, 1776, gadewais fy nghartref; cymerais fy moreufwyd gyda'r Parchedig John Lloyd, yn Nghaerwys, ac yn ei gwmni ef disgynais i'r dyffryn bychan prydferth sydd yn arwain o'r Wyddgrug i Ddinbych, ac yn uniongyrchol ar ol ei groesi, esgynais ochr sêth ac uchel Bwlch Coed y Mynydd, bryn mawr, yr olaf o gadwyn mynyddoedd Clwyd, cyn iddo gael ei dori gan fwlch Bodfari. Ar ochr y bryn yma, yn Llys Coed y Mynydd, tua'r llaw aswy, y preswyliai Ednowain Bendew, arglwydd Tegengl, yn 1079, ac un o bymtheg llwyth Gwynedd.*

*Llwythau Gwynedd.*

Y *Llwythau* hyn oeddynt bendefigion Gogledd Cymru. Dechreuasant yn foreu iawn; ac, ar wahanol amserau, yr oeddynt yn arglwyddi gwahanol randiroedd, ac wedi eu galw i'r anrhydedd hono gan amryw dywysogion. Y rhai diweddaraf oeddynt oddeutu amser Dafydd ap Owain Gwynedd, yr hwn a ddechreuodd deyrnasu yn 1169. Yr ydym yn anhysbys o'r ffurf drwy ba un y gelwid hwy i'r anrhydedd yma. Y cwbl a wyddom ydyw, fod pob un o honynt yn mwynhau rhyw swydd yn llŷs ein tywysogion, yr hon yr ymddengys ei bod yn etifeddol, ac efallai yn ddibynol ar yr anrhydedd.

Wedi cyrhaedd pen y bryn, y mae golygfa doreithiog ac eang yn ymagor, o ddyffryn ffrwythlawn Clwyd oddi tanom, a rhês enfawr alpau mawrion ein gwlad, yn terfynu trwy ymestyn allan i'r môr yn mhenrhynoedd aruthrol Llandudno a Phenmaen Mawr. Y mae y disgyniad i lawr i'r dyffryn yn un graddol, ar hyd uwchrodfa brydferth, am bellder mawr yn mhell uwchlaw iddo. Fron-yw, preswylfod John Madocks,† ysw., a arddengys olygfa hyfrydlawn. Y mae y perchenog‡ yn ychwanegu at yr amrywiol brofion ardderchog sydd genym yn y cyfnod hwn, fod y Cymry yn yr oes hon yn llawn mor uchel mewn rheitheg ddylanwadol ag oedd ein cymydogion yn nhir Gaul yn yr amser gynt.

Myned heibio i eglwysi bychain Llangwyfan, Llandyrnog, Llangynhafal, a Llanrhychan, cyflwynedig i'r seintiau Gwyfan, Tyrnog, Cynhafal, a Rhychan, y cwbl yn sir Ddinbych, ac yn esgobaeth Bangor. Islaw i Eglwys Llanbedr, cyrhaedd agos i waelod y dyffryn; a pharhau ar fy nhaith trwy Ruthyn, ac ar hyd Nantclwyd, heibio i hen dŷ parchus o'r un enw.

Wedi gorphwys am noswaith yn Nghorwen, myned yn mlaen ar fy nhaith mor bell a Llandrillo, ar y ffordd i'r Bala; ac yn agos i'r pentref hwnw, troi ar

* Hist. of Whiteford, p. 306. Gol.

† Yr oedd Mr. Madocks yn fargyfreithiwr yn y Canghelldy, ac yn A.S. dros Westbury. T.P.

‡ Taid y perchenog presenol. Gol.

Digitized by Google

yr aswy i ddyffryn cul, yn llawn coed, yn cael ei ddyfrhau gan ryferthwy afrywiog, a'i derfynu gan fryniau uchel. Yn ei ben pellaf, yn agos i dyddyn a

*Milldir Geryg.* elwir Blaen y Cwm, dechreu esgyn *Milldir Geryg;* bwlch yn nghanol mynyddoedd Berwyn, oddeutu milldir o hyd, a'r mynyddoedd, yn dduon gan fawn, yn ymddyrchafu i uchder aruthrol ar bob ochr. Dyma y bwlch mawr yn y rhanau hyn o sîr Feirionydd i

## SIR DREFALDWYN,

ac y mae yn rhanu y ddwy sîr; yr olaf a elwir gan y Cymry, *Sîr Tref Faldwyn,* isgadben y cyffindiroedd yn amser y Congcwerwr, yr hwn a adeiladodd y dref; yr enw a newidiwyd ar ol hyny i *Montgomery,* oddiwrth Roger de Montgomery, sylfaenydd y castell: a'r enw hwn a roddwyd i'r sîr pan y ffurfiwyd hi yn gyfryw gan Harri VIII. Yr aelod seneddol cyntaf ag y mae ei enw ar gof a chadw ydoedd Edward Leech, ysw., yr hwn a'i cynrychiolai yn 1542. Y mae Humphrey Llwyd yn gyfiawn yn hynodi ffrwythlonrwydd ei dyffrynoedd, a thaldra a phrydweddoldeb ei phreswylwyr; ond y mae yn eu gwarthruddo â'r cymeriad o fod yn rhai segurllyd, ac yn rhai tueddol at ddifyrwch anfuddiol.*

Y mae y ddisgynfa o'r bwlch yma yn dra serth; ond y mae ffordd ragorol yn cael ei ffurfio, i'r dyben o wneyd tramwyfa i'r Gwyddelod fyned i'w gwlad trwy Groesoswallt, a thros y Bwlch, drwy sîr Feirionydd. Un o gynlluniau mawrion yr oes bresenol ydyw hwn, a bydd iddo agor cymundeb â manau ag oeddynt hyd yma bron yn anghyrhaeddadwy.

Ar ol cyrhaedd y gwaelod, cefais fy hun drachefn yn nghanol dyffrynoedd culion, yn cael eu cylchynu gan fryniau uchel. Wedi marchogaeth oddeutu

*Llangynog.* tair milldir cyrhaeddais *Langynog,* pentref bychan yn y plwyf o'r enw hwnw, yn esgobaeth Llanelwy. Bu y lle yma, am dymhor byr, yn ffynhonell cyfoeth i berthynas i'r presenol iarll Powys yn

*Gwaith Plwm.* ochr ei fam. Darganfyddwyd mwnglawdd plwm yma yn y flwyddyn 1692, yr hwn oedd yn y rhan fwyaf o fanau yn wythen yn dair llath a chwarter o drwch, a gweithiwyd hi i'r dyfnder o gan' llath, pryd y daeth y dwfr yn rhy nerthol. Parhaodd mewn cyflwr blodeuog am yn agos i ddeugain mlynedd; cynyrchai oddeutu pedair mil o dunelli bob blwyddyn; gwerthid ef yn ol 7*l.* y dunell, a thoddid ef yn y lle; dygai gyllid clir i'r teulu o ugain mil o bunnau yn y flwyddyn.

Ychydig o flynyddau yn ol, darganfyddwyd chwarel lechi yn y plwyf. Gwerthwyd o'r cyntaf o Dachwedd, 1775, i'r cyntaf o Dachwedd, 1776, oddeutu 904,000, yn ol prisiau o 6s. i 20s. y fil; ond yr oedd diffyg dwfr at eu cludo yn golled fawr i'r gwaith.

O fewn oddeutu dwy filldir i Langynog, troais i fyny dyffryn bychan ar y

*St. Melangell.* ddehau, i dalu fy mharchedigaeth i greirfa *St. Melangell (Monacella.)* Ei chwedl a'n hysbysa ei bod yn ferch i frenin Gwyddelig, yr hwn oedd wedi penderfynu ei phriodi â phendefig o'i lŷs. Ond

* Commentariolum, 92.

Digitized by Google

yr oedd y dywysoges wedi addunedu byw yn sengl; ffôdd o lŷs ei thad, a chymerodd ei noddfa yn y lle hwn, a phreswyliodd yma am bymtheng mlynedd heb weled gwyneb dyn. Tra yr oedd Brochwel Yscithrog, tywysog Powys, un diwrnod yn hela ysgyfarnogod, parhaodd ei ymlidfa hyd at gauadlwyn mawr; lle y synwyd ef wrth weled morwynig ieuangc o brydferthwch mawr, yn addoli mewn dwfn ddefosiwn, a'r ysgyfarnog y buasai yn ei hymlid o dan ei mantell, yn hyf wynebu y cŵn, y rhai a enciliasent bellder o ffordd, gan udo, er holl ymdrechion yr helwyr i beri iddynt ymaflyd yn eu hysglyfaeth. Hyd yn nod pan chwythodd yr heliwr ei gorn, glynodd wrth ei wefusau. Clywodd Brochwel ei hanes; a rhoddodd i Dduw ac iddi hithau ddarnau o dir, i fod yn noddfa i bawb a ffôent yno. Dymunodd arni sylfaenu mynachdy ar y lle.

*Eglwys Pennant Melangell.*

Gwnaeth hithau felly, a bu farw yn abades, mewn oedran mawr. Claddwyd hi yn yr eglwys gerllaw, yr hon a elwid *Pennant*, a thrwyddi hi cafodd ei hynodi â'r ychwanegiad *Melangell.* Dangosir ei gwely caled mewn hollt yn y graig gerllaw. Yr oedd ei bedd mewn capel bychan, neu gysegrfa, yr hon yn bresenol a wasanaetha fel gwisg-ystafell yn gysylltiedig â'r eglwys. Gelwir yr ystafell hon hyd heddyw, *Cell-y-bedd;* y mae ei gweddillion, yn ogystal a'i delw, wedi eu symud ymaith er's hir amser; ond yr wyf yn meddwl fod yr olaf i'w gweled o hyd yn y fynwent. Bytholir ei chwedl gan ryw gerfiadau coed anghelfydd o'r santes, gyda nifer o ysgyfarnogod yn ymlochesu ati am nawdd. Daeth yn briodoi yn noddwraig iddynt. Gelwid hwy *ŵyn Melangell.* Hyd y ganrif ddiweddaf, mor gryf y daliai yr ofergoeledd fel na laddai neb ysgyfarnog yn y plwyf hwn; ac hyd yn nod yn ddiweddarach, pan fyddai ysgyfarnog yn cael ei hymlid gan gŵn, credid yn ddiysgog, os byddai i rywun waeddi, "Duw a St. Melangell a fyddo gyda thi," y byddai yn sicr o ddiangc.*

*Bedd Iorwerth Drwyndwn.*

Yn y fynwent y mae careg gyda ffugur dyn arfog arni, yr hon yn bresenol a wasanaetha fel careg fedd gyffredin, ond ar un adeg a orchuddiai weddillion mab hynaf Owain Gwynedd, *Iorwerth Drwyndwn*, yr hwn a ddodwyd o'r neilldu am fod anaf ar ei drwyn.† Yma y ffoisai am noddfa rhag creulondeb ei frawd Dafydd ap Owain Gwynedd, drwy fod y lle yma yn un o'n noddfeydd mwyaf enwog. Ar ei darian y mae yn gerfiedig, *Hic jacet Etward.* Dywed traddodiad iddo gael ei ladd mewn lle heb fod yn mhell oddiyma, ac a elwir hyd heddyw *Bwlch Croes Iorwerth.*

Y mae y dyffryn yma yn dra ardebol: wedi ei amgylchu gan fryniau ar bob ochr, oddigerth yn y fynedfa i mewn; dyfrheir ef gan y Tanat, yr hon a gyfyd heb fod yn mhell oddiyma. Y pen uchaf a derfynir gan ddau glogwyn anferth, i lawr pa rai, ar adegau, y llifa dau raiadr mawr; rhyngddynt ymgyfyd penrhyn anferthol ac afrywiog Moelddufawr, yr hwn sydd braidd yn gwahanu y clogwyni yn ddwy ran gyfartal; a'r naill beth gyda'r llall a ffurfiant encilfa brydferth a difrifol i grefyddolion. Ar ochr y dyffryn hwn y saif tŷ Llechweddgarth, eiddo Thomas Thomas, ysw. Parheais fy nhaith am beth amser ar hyd y dyffryn, yna esgynais a disgynais hyd gyfres o fryniau glaswelltog o uchder cymedrol, a sylwais mewn amryw fanau ar y bylchau culach yn cael eu croesi gan am-

* Gwel ei Bywgraffiad.

† Powel's Hist. Wales, 227.

ddiffynfeydd, wedi eu bwriadu mewn hen amseroedd i gadw draw anrheithiadau y goresgynydd. Dywedir fod ffordd Rufeinig yn myned heibio i'r lle hwn tuag Aberystwyth. Disgyn i *Bodfach*, preswylfa Bel Lloyd, ysw.; yn hawl ei briodas â Miss Price, etifeddes y lle. Bu hon, ac amryw o etifeddiacthau ereill, hyd yn nod mor belled ag ymylon sîr yr Amwythig, yn eiddo y *Kyffins*, am eu bod yn Gyffiniaid, neu breswylwyr y cyffindiroedd. Disgynent o Einion Efell, brawd i Gynrig Efell, meibion anghyfreithlawn i Madog ap Meredydd ap Bleddyn ap Cynfyn, tywysog Powys; yr hwn a roddodd i Einion ei gyfran yn y wlad hon; ac i Gynrig yr eiddo ef yn Molesdale a'r gymydogaeth. Owain Brogyntyn, yr hynaf o'i blant anghyfreithlawn, a sefydlwyd yn Edeyrnion.

*Bodfach.*

Y mae y dyffryn yn ymledu oddiamgylch Bodfach, yn cael ei drin yn rhagorol, a'i ddyfrhau gan yr afon Cain, a'i ymylu yn brydferth gan fryniau isel a orchuddir gan goedydd destlus. Lleuwir un ongl yn brydferth gan dref ac eglwys Llanfyllin, y rhai a roddant amrywiaeth i'r olygfa.

O Fodfach cymerais wibdaith i *Lwydiarth*, hen dŷ yn mhlwyf Llanwddyn, yr hwn a saif mewn gwlad fryniog a noethlwm. Bu gynt yn eiddo tylwyth mawr y Vaughans, y rhai a ddisgynent o Aleth Hen, brenin Dyfed, neu sîr Benfro. Trosglwyddwyd yr etifeddiaeth i Syr Watkin Williams Wynn,* trwy ei wraig gyntaf, merch ac etifeddes i'r meddiannydd diweddaf. O un parth o'm marchogfa, cefais olwg ar sîr Aberteifi, ac o fynydd mawr noethlwm Plynlimmon, yn orchuddiedig â grug, neu laswellt morfaog.

*Llwydiarth.*

Nis gallaf beidio crybwyll yn y fan hon am ymweliad blaenorol a delais i *Lanrhaiadr yn Mochnant*, plwyf yn y gymydogaeth, mewn rhan yn y sîr hon, ac mewn rhan yn sîr Ddinbych. Saif yr eglwys yn yr olaf, ac y mae wedi ei chyflwyno i St. Dogfan, mab i Brychan. Bu y Dr. William Morgan, yr hwn a gyfieithodd y Beibl i'r Gymraeg, yn ficer yma. Gwobrwywyd ef gan y frenines Elisabeth âg esgobaeth Llandaf yn 1595, a symudwyd ef oddiyno i Lanelwy yn 1601, lle y bu farw ar y 10fed o Fedi, 1604, ac a gladdwyd yn yr eglwys gadeiriol.

*Llanrhaiadr yn Mochnant.*

Y cellweirus, ond y pregethwr dysgedig, Dr. South, oedd periglor olaf y plwyf hwn. Ar ei farwolaeth ef, cafodd y degymau perthynol i'r beriglonaeth eu cymhwyso, trwy ddeddf seneddol, at gynaliaeth côr ac eglwys gadeiriol Llanelwy.

Rhaid i mi siarad gyda pharch dyledus o berthynas i goffadwriaeth y teilwng ficer diweddar, Dr. Worthington, i dŷ lletygar yr hwn y bum yn ddyledus am y derbyniad prydlon a gefais, ar y prydnawn gwlyb a ddygwyddodd yn ffodus cyn fy ymweliad â *Phistyll Rhaiadr*. Y mae y rhaiadr nodedig yma yn terfynu pen draw dyffryn anarferol o gul, ac, fel pe byddai, yn rhanu gwyneb talsyth mynyddau y Berwyn. Wedi llithro i lawr am beth amser ar hyd llechwedd bychan, ymsaetha i lawr oddeutu dwy ran o dair o'r clogwyn, a disgyna ar drum, drwy yr hwn y mae, mewn amser, wedi gwisgo allan fynedfa iddo ei hun trwy y graig, a ffurfia ail

*Pistyll Rhaiadr.*

* Taid y presenol Syr W. W. Wynn. Gol.

Digitized by Google

raiadr o dan fwa ardderchog a luniasid ganddo; trwy sefyll ar gopa llithrig yr hwn y mae bugail dewrgalon yn eich dychrynu ar brydiau. Cyrhaedda yr ail raiadr i'r gwaelod, ac ymgymer â'r enw *Y Rhaiadr.* Diffyg mawr y dwfr-ddisgynfa yma ydyw ei ymddifadrwydd o goed. Pan ymwelais i âg ef, yr oedd y ffordd ato yn ddrwg iawn; ond y mae nid yn unig hyny wedi cael ei ddiwygio yn effeithiol gan y diweddar ficer haelionus, ond, fel yr hysbysir fi, y mae heblaw hyny wedi adeiladu tŷ bychan, i fod yn lloches i'r ymdeithydd rhag gerwindeb tymhestl a allai ei oddiweddu.

Y cyflawnder o ddefaid, y rhai a fywiocânt y bryniau, a ddygent, ar adeg fy ymweliad i, gyfoeth mawr i'r sir hon. Y mae gwneuthuriad gwlanen, a hwnw yn rhywogaeth frâs at wasanaeth y fyddin, ac i ddilladu y negroaid truain yn India'r Gorllewin, yn cael ei gario yn mlaen yn y rhan fwyaf o barthau y sir. Gyrir ef i lawr i'r Amwythig, a gwerthir ef yno yn y garw; arferiad ag sydd yn erbyn llesiant y wlad i raddau pell iawn.

Gadael Bodfach; ac, er mwyn golygfa brydferth, arweinir fi gan Mr. Lloyd ychydig o fy ffordd, i ben bryn, o ba le y ceir golygfa ar ddyffryn hir-ymestynedig, gydag eglwys Llanfechan yn y canol. Terfynir rhan o hono gan fryniau isel a thoreithiog. Craig fawr Llan y Mynach, trysorfa ceryg calch am amgylchedd mawr o'r wlad, a leinw i fyny un ochr; o'r tu hwnt yr ymestyna gwastadedd mawr sir Amwythig, gyda bryn *Wrekin* yn codi ar ei ben ei hun

*Llanfyllin.*

yn y pellder. Dychwelais trwy *Lanfyllin*, tref fechan i'r hon y rhoddwyd siartr gan Lywelyn ap Gruffydd ap Gwenwynwyn, yn nheyrnasiad Icrwerth II., ac a gadarnhawyd gan Edward de Charlton, arglwydd Powys. Y mae hwn yn rhyddhau y bwrdeiswyr oddiwrth dollau, trwy ei diriogaethau. Gallent ddal, carcharu, a phrofi unrhyw ladron neu ddrwg-weithredwyr; a phe buasai y cyfryw yn diangc, yr oedd rhyddid iddynt i ymlid ar eu holau hyd dair milldir o gylch y dref. Byddai i unrhyw ddyeithriaid a breswylient yno, wedi talu *scot and lot* am flwyddyn, ddyfod yn wŷr rhyddion. Llywodraethir hi gan ddau o is-faerod, y rhai a etholir yn flynyddol; a'r rhai, yn mhlith rhagorfreintiau ereill a ganiatawyd iddi gan Siarl II., a wneid yn ustusiaid heddwch o fewn y gorphoraeth, tra y parhaent yn eu swyddi.*

Marchogaeth am yspaid ar ffordd Croesoswallt. Esgyn ar y ddehau; myned

*Bryn Gwyn.*

heibio i *Fryn Gwyn*, palasdy William Mostyn, ysw.; uwchlaw yr hwn y mae gorsaf Brydeinig gron. Y mae niferi o'r gorsafoedd hyn yn wynebu y wlad islaw, ar y bryniau sydd yn ymestyn allan iddi, megys pe byddent yn dyogelu y rhanau mewnol rhag goresgyniad. Ar draws y ffordd, mewn un man, cyfarfyddais âg olion hen amddiffynfa dra

*Dyffryn Meifod.*

chref, i amddiffyn bwlch i *Ddyffryn Meifod*, yr hwn yn fuan ar ol hyny a ddaeth i'm golwg. Saif yr eglwys a'r pentref yn nghanol y dyffryn, yr hwn sydd yn gwbl wastad; o ran ei hŷd, ymestyna oddeutu pum' milldir, ac y mae oddeutu haner milldir o led. Y mae tair ochr yn cael eu terfynu gan fryniau isel, a choed destlus arnynt; un pen yn ymagor i'r gwastadedd, ac yn cael ei derfynu yn brydferth gan fryniau y Freiddyn, crynswth aruthrol, a gwrthddrych amlwg yn y sir hon, a sir yr

* Camden, ii, 783.

Digitized by Google

Amwythig. Y Fyrnyw, yr hon a eilw y Dr. Powel yn *Marnovia*, afon brydferth, a ymddolena ar hyd canol y dyffryn; a'i glanau yn doreithiog o ŷd, rhyg, a phorfa.

Yr eglwys sydd gyflwynedig i St. Tyssilio, tywysog Powys, ac amddiffynydd yr eglwysi Prydeinig yn erbyn Awstin Fynach. Mewn hen amseroedd perthynai i fynachlog Ystrad Marchell yn y sir hon. Hi ydyw mam-eglwys Pool a Guildsfield; yr oll o ba rai, yn y 17eg o Harri VII., y meddai esgob Llanelwy drwydded i'w defnyddio at ei wasanaeth ei hun.* Yn bresenol y mae y ficeriaeth hon wedi ei chysylltu âg Eglwys Crist, Rhydychain. Y mae yn lle o hynafiaeth eglwysig mawr. Gellir tybied iddo gael ei enw o herwydd iddo fod, yn oesau boreuaf Cristionogaeth, yn breswylfod rhyw hen feudwy neu fynach; oblegyd y mae Meudwyfod yn golygu preswylfod Meudwy, ac y mae y terfyniad Llan yn cael ei ychwanegu yn fynych at eiriau Cymraeg, i arwyddo lleoedd wedi eu cau i mewn; megys gwinllan, corlan, ydlan; ac felly byddai Meudwylan yn golygu terfynau preswylfod y meudwy, a chyda'r terfyniad Rhufeinig, deuai yn *Meudwylanium;*† a dyna, yn ddigon rhwydd, wedi ei ladineiddio i *Mediolanum*, ydyw yr enw y mae yn ei ddwyn yn y Teithlyfr,‡ lle y mae yn cael ei osod rhwng *Bovium* (Bangor Iscoed) a *Rutinium* (Rowton.) Yr ydym yn ei gael drachefn yn Mharthddarluniad Ravenna a Ptolemy.§ Os bernir fod y cyfnodau hyn yn rhy foreu at sefydliad bywyd mynachaidd yn yr ynys hon, rhaid i mi amddiffyn fy nhybiaeth gydag eiddo y dysgedig Tanner, yr hwn yn rhesymol a dybia ei fod agos mor foreu â Christionogaeth yn Mhrydain Fawr.‖

Y mae yr hynafiaeth Rhufeinig yn gorphwys ar awdurdod un o'r ysgrifenwyr hynaf a feddwn;¶ fod amrywiol sylfeini, lloriau, a sarnau wedi cael eu cloddio i fyny; ond pa un a gafwyd bathynau, arfau, neu gerfiadau, nid yw yn ymddangos. Crybwylla Camden hefyd am gae, a elwid *Erw'r Porth*, yr hwn y barna efe ei fod yn safle un o'r pyrth.**

Ond i ddychwelyd at yr hynafiaethau Cristionogol: dywedir fod Meifod yn archddiaconiaeth holl wlad Powys, ac fod dwy o eglwysi yn perthyn iddi heblaw yr un bresenol. Pa un a oedd y capel, adfeilion yr hwn oeddynt yn sefyll heb fod amser pell yn ol, ac a elwid *Eglwys Gwyddfarch*, oddiwrth hen sant Prydeinig o'r wlad hon, yn un o honynt, nis gwn; y llall oedd *Eglwys Fair*, yr hon a adeiladwyd yn 1155.††

Yn y brif eglwys y cleddid tywysogion a phendefigion gwlad Powys; yn mysg pa rai y gallwn nodi Madog ap Meredydd ap Bleddyn ap Cynfyn, tywysog Powys, yr hwn a fu farw yn 1160 yn Nghaerwynt, ac a drosglwyddwyd yma; a'r ardderchog Gruffydd Maelor, arglwydd Maelor, yr hwn a fu farw yn 1188.‡‡

*Mynwent.*] Cynwysa y fynwent ddim llai na naw erw o dir, ac y mae yn cynyrchu cynifer a hyny o bunnoedd i'r periglor, fel tir porfa.

Heb fod yn mhell uwchlaw Meifod y mae dwy afon yn ymuno, y ddwy o'r

* *Notitia* ar esgobaeth Llanelwy, MS.

† Afreidiol ydyw dyweyd fod hyn yn amhosibl, o herwydd amryw resymau. J.R.

‡ Iter. Britanniarum. § Horsely, 374, 492. ‖ Rhagymadrodd.

¶ Girald. Cambr. Itin. Dr. Powel's note, c. iv. lib. ii. ** Camden, ii. 781, 782.

†† Powel, 205. ‡‡ Powel, 210, 242.

Digitized by Google

enw *Fyrnyw*, y rhai ydynt yn amrywio cryn lawer o ran eu rhedfa, ac yn codi yn mhell y naill oddiwrth y llall. Priodol y dywed y daearyddwr barddonol, Drayton, am yr afon—

> Forkt Vurnway, bringing Tur and Tanot: growing rank,
> She plies her towards the pool.*

Y mae y ddwy yn afonydd mawrion, mewn llawer o fanau yn dduon a dyfnion. Yn fuan ar ol eu hymuniad y mae y tir yn codi. Ar fryncyn uchel, uwchlaw

*Mathrafal.*] un o'r afonydd, y safai *Mathrafal*, unwaith yn breswylfod tywysogion Powys; eithr nid oes ond ffermdy yn bresenol yn cadw i fyny yr enw. Yr oeddwn yn gallu olrhain safle yr hen gastell yn ddigon rhwydd: safai ar oddeutu dwy erw o dir. Dyogelid un ochr gan glawdd mawr o geryg a phridd, a ffos fawr dra dofn; yr oedd bryncyn ymchwiliadol, ar ba un y mae yn dra thebyg y safai ar un adeg gastellyn, yn llanw un ochr; oddiar ba un y mae golwg amlwg ar bobpeth ag sydd yn myned yn mlaen i fyny ac i lawr y dyffryn.

Wedi i'r palas gael ei adael gan ei dywysogion, meddiannwyd y castell, neu, fel y dywed Dr. Powel, adeiladwyd ef gan Robert de Vepont, barwn galluog, ac uchel yn ffafr y brenin Ioan. Y mae yn ddigon tebyg na wnaeth efe ond ei adferu, a'i gadarnhau â gweithydd newyddion. Yn 1112, Llywelyn ap Iorwerth a warchaeodd arno; ond yn gymaint ag i'r brenin ddyfod gyda byddin gref, gorfu ar Lywelyn encilio, ac wedi hyny parodd i'r castell gael ei chwalu.†

Yn Gwern Ddu, coedwig ar gyfer Mathrafal, yr ochr draw i'r afon, yr oedd amddiffynfa gron; ac mewn cae, o'r tu hwnt i'r fraich arall, y mae bryncyn crwn; y naill a'r llall o ba rai a ddalient berthynas, mewn amseroedd boreuol, âg amddiffynfa Mathrafal. Rhaid i mi felly gydymffurfio â thybiaeth y dysgedig Burton, y gallai hon fod yn Fediolanum y Rhufeiniaid; gan y byddai bob amser yn arferol gan y tywysogion Prydeinig, yn ogystal a'r rhai Sacsonaidd, adeiladu eu palasdai ar y gorsafoedd lle y safai eiddo y Rhufeiniaid cyn hyny.‡ Goddefer i mi ychwanegu hefyd, y gallai hon fod yn orsaf anafol; ac fod y Meifod isaf, yr hon oedd yn ddarostyngedig i orlifiadau yr afon, yn drigfa hafaidd iddynt.

Y mae y wlad am saith milldir o'r tu hwnt i Mathrafal, yn dyfod yn fryniog,

*Llangyniw.*] cleiog, a diffrwyth. Myned heibio i eglwys *Llangyniw;* ar y llaw aswy y mae Dolarddyn, lle y dywedir i Harri VII. letya am noswaith.

Ychydig o filldiroedd yn mhellach yn mlaen, marchogais trwy bentref *Castell Caereneon*, yn sefyll ar y Fyrnyw. Adeiladwyd castell yma yn 1155, gan Madog ap Meredydd, tywysog Powys.§ Ni chefais hamdden i ymchwilio a oedd yma unrhyw olion.

Yr oedd y wlad, am saith milldir yn mhellach, yn parhau yn fwy bryniog,

*Cregynog.*] ac yn llawn o gorsydd annymunol. Cyrhaedd *Cregynog*,‖ preswylfod Arthur Blayney, ysw.; lletygarwch yr hwn a fwynheais am

* Canto vi. † Hist. Wales, 267. ‡ Burton's Com. 132. § Powel, 205.

‖ Daeth Cregynog yn eiddo Charles Hanbury, ysw.; trwy ei briodas â Miss Tracy, aith i'r diweddar Arthur Blayney, ysw. Gol.

Digitized by Google

a elwir y Dr. Powel yn *Mawnoris*, a bryd-
… a'i glanau yn doreithiog o ŷd, rhyg.

… tywysog Powys, ac a addfynydd … Mewn hen amseroedd per- … Hi ydyw mam-eglwys Paul … o Harri VII., y meddai esgob Llanelwy … ei hun.* Yn bresenol y mae y … Eglwys Crist, Rhydychain. Y mae yn lle o … gael ei enw o herwydd iddo fod, … yn breswylfod rhyw hen feudwy neu fynach … preswylfod Meudwy, ac y mae y … at eiriau Cymraeg, i arwyddo … eirian ydiau; ac felly byddai M… y meudwy, a chyda'r terfyniad Rh… yn ddigon rhwydd, wedi ei Ladineiddio … mae yn ei ddwyn yn y Teithlyfr,‡ lle y … a *Rutinium* (Rowton.) Yr … Ravenna a Ptolemy.§ Os … sefydliad bywyd mynachaidd yn yr … gydag eiddo y dysgedig Tan… fore â Christionogaeth yn M…

… gysylltwys ar awdurdod un o'r … sylfaini, lloriau, a sarnau wedi … arfau, neu gerfiadau, nid … am gae, a elwid *Erw'r Porth*, …**

… Cristionogol: dywedir fod Me… a fod dwy o eglwysi yn perthyn id… yr hwn oeddynt … a elwid *Eglwys …*, oddiwrth … gwn; y llall oedd *Eglwys* …

… tywysogion a phendefigion gwlad Pow… ap Meredydd ap Bleddyn ap … yn 1160 yn Nghaerwynt, ac a dro… Maelor, arglwydd Maelor, yr hwn a …

… lai na naw erw o dir, ac y … o bennoedd i'r periglor, fel tir p… y mae dwy afon yn ymuno, y d…

* … Llanelwy, MS.
… o herwydd amryw resymau. …
§ … 474, 482. | Rhagymadrodd.
… ii. … ** Camden, ii. …
‡‡ Powel, 210, 242.

Digitized by Google

-nyw, y rhai ydynt yn amrywio cryn lawer o ran eu rhedfa, ac yn codi i y naill oddiwrth y llall. Priodol y dywed y daearyddwr barddonol, am yr afon—

> Forkt Vurnway, bringing Tur and Tanot: growing rank,
> She plies her towards the pool.*

ldwy yn afonydd mawrion, mewn llawer o fanau yn dduon a dyfnion. ar ol eu hymuniad y mae y tir yn codi. Ar fryncyn uchel, uwchlaw un o'r afonydd, y safai *Mathrafal*, unwaith yn breswylfod tywysogion Powys; eithr nid oes ond ffermdy yn bresenol yn cadw i -nw. Yr oeddwn yn gallu olrhain safle yr hen gastell yn ddigon -safai ar oddeutu dwy erw o dir. Dyogelid un ochr gan glawdd mawr phridd, a ffos fawr dra dofn; yr oedd bryncyn ymchwiliadol, ar ba yn dra thebyg y safai ar un adeg gastellyn, yn llanw un ochr; un y mae golwg amlwg ar bobpeth ag sydd yn myned yn mlaen i -awr y dyffryn.

palas gael ei adael gan ei dywysogion, meddiannwyd y castell, neu, i Dr. Powel, adeiladwyd ef gan Robert de Vepont, barwn galluog, ac -afr y brenin Ioan. Y mae yn ddigon tebyg na wnaeth efe ond ei gadarnhau â gweithydd newyddion. Yn 1112, Llywelyn ap -warchaeodd arno; ond yn gymaint ag i'r brenin ddyfod gyda f, gorfu ar Lywelyn encilio, ac wedi hyny parodd i'r castell gael ei

-n Ddu, coedwig ar gyfer Mathrafal, yr ochr draw i'r afon, yr oedd -gron; ac mewn cae, o'r tu hwnt i'r fraich arall, y mae bryncyn -ill a'r llall o ba rai a ddalient berthynas, mewn amseroedd boreuol, -nfa Mathrafal. Rhaid i mi felly gydymffurfio â thybiaeth y dyg- -, y gallai hon fod yn Pe[illegible] y Rhufeiniaid; gan y byddai bob -rferol gan y tywysogion P[illegible] yn ogystal a'r rhai [illegible], palasdai ar y [illegible] y safai [illegible] y Rhufeiniaid cyn hyny.‡ mi ychwanegu [illegible] y gallai hon fod yn orsaf anafol; [illegible] fod y , yr hon oedd yn [illegible] i orlifiadau yr afon, yn drigfa hal-

[illegible] Mathrafal, yn dyfod yn fryniog, [illegible] i eglwys *Llangyniw*; ar y [illegible] y dywedir i Harri VII. [illegible]

[illegible] at o'r lle -yf- ren, -dai, bobl

[illegible] trwng

[illegible]

ddeuddydd neu dri. O dan ei arweiniad ef gwelais bobpeth ag oedd yn werth sylw. Y mae y boneddwr tra theilwng yn disgyn o Brochwel Ysgithrog. Y gangen hynaf o'r teulu a godwyd i'r bendefigaeth yn yr Iwerddon, er y flwyddyn 1620, wrth y teitl o arglwydd Blayney o Monaghan; anrhydedd a enillwyd yn deilwng gan wasanaeth Syr Edward Blayney, marchog, yn yr Iwerddon, yn nheyrnasiad y frenines Elizabeth a'i holynydd.

*Castell Dolforwyn.*] Un noswaith arweiniwyd fi i *Gastell Dolforwyn*, castell yn sefyll ar grib uchel bryn, tra syth, a braidd yn amgylchynedig gan nant goediog. Yn y gwaelod llifa afonig fechan, yr hon a ymarllwysai i'r Hafren yn mhen oddeutu milldir o ffordd. Y mae yr amddiffynfa yn dra adfeiliedig, wedi ei hadeiladu o geryg mân maluriog y wlad hono, ac ymdebyga lawer, yn ei maen-saernïaeth i Gastell Dinas Brân. Ar y ddwy ochr fwyaf hygyrch y mae ffosydd dyfnion, wedi eu tori trwy y graig. Oddiarno ceir golwg hyfryd ar ddyffryn yr Hafren. Yn ol Dugdale,* adeiladwyd ef gan Dafydd ap Llywelyn, tywysog a deyrnasai o 1240 hyd 1246; ond gwell genyf fi awdurdod Sion Dafydd Rhys, fel y dyfynir ef gan y parchedig Evan Evans;† yr hwn a sicrha i ni ddarfod ei adeiladu gan y tywysog teilwng, Bleddyn ap Cynfyn, rhwng y blynyddoedd 1065 a 1073. Rhoddwyd ef, a chestyll Cedewen a Ceri, i Roger de Mortimer, gan Iorwerth I. yn 1278, i'w dal iddo ei hun a'i etifeddion, trwy y gwarogaeth o dalu cyflogau tri o farchogion.‡

Beth a allai tarddiad yr enw *Dolforwyn* fod, nis gallaf fynegu gydag unrhyw sicrwydd; ond oddiwrth ryw draddodiadau perthynol i'r wlad hono, tybiaf fod *Ystori Sabrina.*] ganddo ryw gyfeiriad at ystori *Sabra*, neu *Sabrina*, o amgylchiad pa un y mae ein beirdd wedi gwneyd defnydd mor brydferth. Merch ydoedd (medd Sieffre o Fynwy) i Locrine, brenin Prydain, o Estrildis, un o'r tair gwyryf gaeth o brydferthwch *digymhar*, y rhai a gymerodd efe ar ol gorchfygu Humber, brenin yr Huniaid, i'r hwn y perthynent. Yr oedd Locrine wedi ysgaru ei wraig Gwenddolen yn ei ffafr. Ar farwolaeth y penadur Prydeinig, Gwenddolen a ymaflodd yn y llywodraeth, ac a erlidiodd Estrildis, a'i merch Sabrina, gyda chreulondeb didosturi, gan beri iddynt gael eu boddi yn yr afon; yr hon, gydag ychydig gyfnewidiad, a gymerodd enw y wyryf ddiniwaid. Sonia Milton, yn ei ddysgrifiad byr, ond prydferth, o'n hafonydd, am

Yr Hafren wyllt, euog o angeu morwyn deg.

Ond yn ei gerdd ddigymhar *Comus*, y mae yn myned i fewn yn llawnach i'w hystori alarus, ac yn ei gwneyd yn dduwies Diweirdeb, gan ei galw o'r dyfnder i

Ddadwneyd y gyfareddol haid,
Y forwyn bur, yma a geir mewn braw,
Trwy orthrech ac hudoliaeth wael
Swynwr melldigaid aflan.

Ni bydd unrhyw ddarllenydd o chwaeth, yr wyf yn sicr, deimlo yn anfoddog am i mi amcanu adrodd ystori y dduwies, yn llinellau tlysion ein bardd.

* Monast. ii. 223. † Dissertatio de Bardis, 92.
‡ Dugdale Baron, i. 142.

Digitized by Google

Ei henw yw Sabrina, forwyn bur;
Fu gynt yn brydferth ferch i Locrine deyrn
A ga'dd ei goron gan ei hendad *Brute*.
Ddieuog ferch, yn ffoi rhag erlyn tost
Ei mam-yn-nghyfraith, 'r hen Gwenddolen gas,
Gyflwynodd ei diniwaid ffurf i'r dwfr,
A'i ffo ataliwyd gan ei lifiant croes.
Y dwfr-dduwiesau, chwarient yn y dwfn,
I fyny dalient eu garddynau perl
A'i dwyn yn syth i neuadd *Nereus* hen;
Tosturiai ef, a chodai ei phen gwlyb,
Gan ei thraddodi idd ei ferched cu,
I'w baddio mewn nectaraidd lestri glân;
Ac i'r fynedfa at bob synwyr hoff
Dyferai olew pêr i'w hadfywhau,
Goddefodd gyfnewidiad nes y daeth
Yn Dduwies bur anfarwol Hafren fawr.
Yma mae'n dal o hyd ei thyner reddf,
A mynych, gyda'r nos, ymwela â'r
Diadelloedd llonydd ar y dolydd draw;
Mae'n helpu cwynion plant rhag swynion cas,
Yr hoffa'r tylwyth teg ymarfer draw,
Gan eu hiachâu â chordial peraidd flâs.
Am hyn, bugeiliaid yn eu gwyliau cu
Ganant ei chlod mewn cerddi gwledig llon,
A bwriant flodau pêr i'w hafon lwys,
Rhosynau, pingc, a blodau'r gwyddau bach.
Ac fel y d'wed yr henwr, dichon hon
Ddadgloi y swyn, a thori'r fferdod cas,
Os gelwir arni 'n iawn mewn peraidd gân;
Oblegyd caru mae wyryfdod cain,
A buan rhed i achub morwyn bur,
Fel bu ei hunan, os y caiff ei bod
Mewn cyni a gofidiau blin.

*Aberfechan.*] Heb fod yn mhell oddiwrth Ddolforwyn y mae *Aberfechan*, tŷ hynafol; yr hwn, ar ol bod yn meddiant y Blayneyaid, y Prysiaid, a'r Llwydiaid, sydd yn awr yn cael ei berchenogi gan Syr Gervase Clifton, barwniad, yn rhinwedd ei briodas âg etifeddes y lle, merch i Richard Lloyd, ysw.

Oddiyma disgynasom i ddyffryn yr Hafren, a chroesasom yr afon ar bont bren. Anffawd y rhan yma o'r wlad* ydyw ei bod yn amddifad o amryw o'r defnyddiau mwyaf angenrheidiol. Gorfodir y boneddigion i losgi coed yn lle glo; a'r tlodion, fawn truenus. Y mae calch hefyd yn dra phell; a cheryg cyfaddas at adeiladu mewn pellder mwy eithafol fyth. O ben uchaf yr Hafren, mor isel a Llandreinio, nid oes cynifer ag un bont o geryg. Pe dygwyddai, mewn unrhyw amser dyfodol, i goed ballu, byddai y mathau goreu o bobl

* Y mae tramwyfa ragorol i ganolbarth sir Drefaldwyn wedi ei hagor yn bresenol trwy gyfrwng cangen o gamlas a elwir "yr Ellesmere," yr hon a gysyllta y Ddyfrdwy a'r Hafren. Gol.

Digitized by Google

mewn cyfyngder mawr o ddiffyg tanwydd; ac ar adegau y mae un ran o'r sir yn dyfod yn anhygyrch i'r llall o ddiffyg pontydd. Yr addysg oddiwrth hyn ydyw, PLENWCH, A CHEDWCH EICH COEDWIGOEDD!

*Y Dref Newydd.* ] Ymwelais â'r *Dref Newydd*, tref fechan ddestlus, gyda marchnad dda, ar lanau yr Hafren. Mewn parc prydferth, yn agos i'r dref, y mae palasdy y Prysiaid. Disgyna y teulu o Elystan Glodrydd, un o bymtheg llwyth breninol Gwynedd, tywysog yr holl wlad rhwng yr afon Gwy a'r Hafren, ac iarll Henffordd yn hawl ei fam Rhiengar, merch i Gronw ap Tudur Trefor. Daeth yn feddiannol ar y lle hwn tua

*Syr John Pryse.* ] theyrnasiad Harri VI. Y perchenog diweddar, *Syr John Pryse*, ydoedd yn foneddwr o werth, ond o hynodion rhyfedd. Priododd dair o wragedd; a chadwodd y ddwy gyntaf a fuasent feirw yn ei ystafell, un ar bob ochr i'w wely; ei drydedd wraig a ymwrthododd â'r anrhydedd o'i briodi hyd nes y byddai ei chydymgeisyddion trengedig wedi eu traddodi i'w llcoedd priodol.

Yn ystod adeg y gwyrthiau a gyflawnid gan Bridget Bostock yn sir Gaerlleon, yr hon oedd yn iachâu pob anhwylderau trwy weddi, ffydd, a golchiad â phoeri oddiar ymprydio, yr oedd tyrfaoedd yn ymdyru ati o bob parthau, a chadwent ei galluoedd i boeri ar lawn gwaith. Syr John, gydag yspryd uchel o benboethni, a ysgrifenodd at y wraig ryfeddol hon, i ofyn iddi ymweled âg ef yn Newtown Hall, i'r dyben o adferu iddo ei drydedd wraig, a'r hoffaf ganddo Bydd i'w lythyr esponio yn oreu y sylfaen ar ba un yr adeiladai ei obaith rhyfedd, a'i ddymuniad tra anghyffredin.

EURYDICES oro properata retexite fila.*

Amcan Llythyr Syr John Pryce at Mrs. Bridget Bostock. 1748.

"Madam,

Wedi derbyn hysbysrwydd trwy fynych gynghorion, cyhoeddus yn cystal a chyfrinachol, eich bod yn ddiweddar wedi cyflawni llawer o welliadau rhyfeddol, hyd yn nod pan fyddai y meddygon goreu wedi ffaelu; ac fod y moddion a ddefnyddid yn ymddangos yn dra annigonol at yr effeithiau a gynyrchid; nis gallaf lai nag edrych arnoch fel person ag sydd wedi cael ffafr anarferol ac uchel. A phaham nad allai yr un Duw trugarocaf, yr hwn sydd yn eich galluogi i adferu golwg i'r deillion, y clyw i'r byddariaid, a nerth i'r cloff, eich galluogi hefyd i godi y marw i fywyd? Yn awr, yr wyf yn ddiweddar wedi colli gwraig, yr hon a garwn yn y modd tyneraf, fy mhlant fam-yn-nghyfraith ragorol, a'n cydnabyddion gyfeilles dra anwyl a gwerthfawr, bydd i chwi ein gosod oll dan y rhwymedigaethau uchaf: ac yr wyf yn difrifol atolygu arnoch, er mwyn y Duw Hollalluog, ar fod i chwi anfon i fyny eich deisyfiadau at Orsedd Gras ar ein rhan, fod i'r ymadawedig gael ei hadfer i ni, ac i'r ddiweddar Feistres Eleanor Pryce† gael ei chyfodi oddiwrth y meirw.—Os ymddengys i chwi fod eich presenoldeb personol yn angenrheidiol, bydd i mi anfon fy ngherbyd a chwech o feirch, gyda gweision priodol, i weini arnoch hyd

* Yr wyf yn ymbil ar fod i edafeddau bywyd fy EURYDICE, y rhai ydynt yn prysur ddiflanu, gael eu nail nyddu

† Gweldw ——— Jones, ysw., o Buckland, sir Frycheiniog.

yma, pa bryd bynag y dymunoch nodi.—Taledigaeth o unrhyw fath ag y gallech ei ofyn, a wneid gyda'r diolchgarwch mwyaf; ond yr wyf yn dymuno na byddo i'r crybwylliad bychan yma o hyny fod yn dramgwyddus i Dduw nac i chwithau.

Ydwyf, Madam,

Eich mwyaf gostyngedig, a thra
chystuddiedig ufudd was
JOHN PRYCE."

Dranoeth marchogasom yn nghyfeiriad Caer Sws, lle o hynafiaeth Rhufeinig. Yr oedd ein ffordd yn ein harwain dros diroedd uchel glaswelltog. Ar Gwyn Fynydd yr oedd yn hawdd olrhain y ffordd Rufeinig, a elwid Sarn Swsan. Rheda o Gaer Sws, pwyntia tua Meifod, a gellir ei holrhain yn amlwg mor belled a glanau y Fyrnyw, gerllaw Lyssin. Nid wyf yn alluog i'w dylyn nac i Feifod, nac oddiyno; ond sicrhawyd fi gan y diweddar Ddr. Worthington, y cyfarfyddid â hi yn ei blwyf ef, yn Stryd Fawr, gerllaw Coed y Clawdd; ei bod yn croesi Rhos y Brithdir i Ben y Stryd, ac oddi yno i Lam-iwrch, i Gaerfach, yr hwn y tybir ei fod yn wersyll Rhufeinig bychan. Tybiai y Dr. Worthington fod y ffordd hon yn arwain tua Chaerlleon.

Er ei bod yn hytrach allan o'i lle, caniatäer i mi siarad am ffordd arall yn yr un plwyf, am yr hon y crybwyllwyd wrthyf gan yr un boneddwr. Ymddengys fod hon yn arwain o *Rutunium*, Rowton yn sir yr Amwythig. Croesa y Tanat yn Gartheryr; oddi yno y mae yn myned trwy Stryd y Planirau i Faen-gwynedd, ac ymnydda i fyny Bwlch Maen-gwynedd, a deil yr enw *Fford Gam Helen*.*

I ddychwelyd i Gwyn-fynydd. Sylwais, ar ochr y ffordd Rufeinig, ar wersyll bychan hir-gylchog. Arweinia y ffordd ni i *Gaer Sws*, pentref gydag ychydig dai ynddo, ar ochr yr Hafren. Y mae y caeau yn y gymydogaeth yn cael eu gwahanu, hyd y dydd hwn, y naill oddiwrth y llall, gan ffyrdd, y rhai a groesant eu gilydd, fel pe buasent yn nodi y manau penodol lle y safai yr hen heolydd. Ar yr ochr ogledd-ddwyreiniol y mae ceueddau, y rhai, fe ddichon, oeddynt ranau o ffosydd yr hen derfynau. Y mae priddfeini wedi eu cael: rhoddwyd un i mi, gyda llythyrenau arni ag sydd yn dyrysu fy nyfaliad yn gwbl. O berthynas i fathynau, ni chlywais ond am un yn unig a ddarganfyddwyd; ac nis gallai y perchenog sicrhau pwy oedd yr ymerawdwr. Nid oes un ysgrifenydd Rhufeinig yn gwneyd sylw o'r orsaf hon.

*Caer Sws.*

*Rhos Ddiarbed.*

Gyferbyn â hi, mewn ychydig bellder oddiwrth yr afon, y mae *Rhos Ddiarbed*, neu y fan lle na roddid arbediad bywyd mewn rhyfel. Y mae y rheswm am ei galw felly yn awr wedi ei golli. Mewn cae cyfagos y mae gwersyllfa o ffurf dra anghyffredin. Ar du y dehau y mae bryncyn ymchwiliadol anferthol, o ffurf bigyrnaidd, yn amgylchedig â ffos o ddyfnder mawr. Ar yr ochr ogleddol i'r ffos y mae gwastadfaes hirgul, oddeutu deg llath a thriugain o led yn ei drawsfesuriad mwyaf; yn amddiffynedig gan gaerfa dra uchel, ac ar y tu allan gan ffos. Yn y rhan isaf y mae *porta* (porth,) yn agor i wersyllfa cywironglog eang, oddeutu dau cant o latheni o hyd, ac

* Llythyrau y Dr. Worthington, ar ei blwyf, wedi eu cyfeirio ataf fi, Tach. 29ain, 1774.

Digitized by Google

uwchlaw can' llath o led. Gyferbyn â'r porth arall y mae ail borth, yn sefyll ar y pen eithafol; eithr nid oes yno rai ereill, megys ag y mae mewn gwersylloedd Rhufeinig yn gyffredin, yr hyn yn ddiau ydoedd hwn, ond un afreolaidd, *prout loci qualitas aut necessitas postulaverat.** Amgylchynir y cwbl â chaerfa a ffos. Mewn cae gyferbyn a Chaer Sws y mae rhai ffosydd, efallai yn perthyn i'r wersyllfa. Tybiaf fod y flaenaf yn orsaf auafol, a hon yr un a ddefnyddid yn yr haf.

Oddi yma dychwelais i'r ffordd. Ar y llaw ddehau ymegyr dyffryn arall, yn cael ei ddyfrhau gan y Carno. Y mae mynyddoedd Carno, fel mynyddoedd Gilboa, yn hynod am gwympiad y cedyrn. Ymladdwyd y frwydr ffyrnicaf a gofnodir yn ein hanes, yn 1077, yn mysg y bryniau hyn; pan y darfu i Gruffydd ap Cynan, yn cael ei gefnogi gan Rhys ap Tewdwr, tywysog Deheubarth Cymru, ymladd am lywodraeth Gogledd Cymru, gyda Thrahaern ap Caradog, y tywysog ar y pryd, yn cael ei ddylyn gan Garadog ap Gruffydd a Meilir, meibion Rhiwallon ap Gwyn, ei gefndryd. Ar ol brwydr o'r fath fwyaf gwaedlyd, rhoddodd buddugoliaeth ei dedfryd o blaid y blaenaf; Trahaern a'i garenydd, gan ddiystyru ffoi, a syrthiasant ar y fan; a Gruffydd ap Cynan a roddwyd mewn meddiant o'i deyrngadair gyfreithlawn, yr hon a lanwodd efe am ddwy flynedd ar bymtheg a deugain gydag urddas mawr.

*Brwydr Carno.*

*Eglwys.* Perthynai eglwys Carno i farchogion St. Ioan o Gaersalem, gan y rhai y dywedir fod yspytty yn agos iddi. Yn gymaint ag mai un rhan o'u gorchwylion ydoedd amddiffyn eu cydgreaduriaid rhag trais, digon tebyg y gallai fod ganddynt orsaf yn y manau hyn, y rhai a fuont am hir amser yn llawn o garnlladron digyfraith.

Yn ein golwg y mae y Parc, preswylfod —— Herbert, ysw. Hysbyswyd fi fod y frenines Elizabeth wedi bod yn cadw mintai o geffylau magu yn y lle hwn. Dichon fod y rhywogaeth glodfawr o geffylau Yspeinig, a ddygasid i'r wlad gan Robert iarll yr Amwythig,† wedi gwneyd y parthau hyn yn hynod am feirch rhagorol, hyd yn nod mor ddiweddar a theyrnasiad y dywysoges urddasol hono.

*Llanddinam.* Cyrhaedd *Llanddinam*, eglwys yn sefyll ar bentir bychan yn taflu allan i'r dyffryn. Ficeriaeth ydyw a berthyn i siaptr Bangor; ac yr oedd y buddiannau yn meddiant y deon a'r siaptr yn 1685, er adgyweirio yr eglwys gadeiriol, a chynyddu y ficeriaethau perthynol iddi.‡ Gyferbyn a Llanddinam, ar gopa mynydd uchel, y mae gorsaf Brydeinig, a elwir *Y Gaer Fechan*, yn amgylchynedig â nifer o ffosydd, o un i bump, yn ol fel y gofynai nerth neu wendid y manau a ofynent hyny.

*Y Gaer Fechan.*

Parheais fy nhaith ar hyd ffordd o'r fath brydferthaf. Y mae y dyffryn yn culhau, yn cael ei derfynu gan fryniau uchel, gwaelodion y rhai, mewn lluaws o fanau, a amgylchynir gan goedydd crogianol prydferth; rhai y *Berth-Lwyd* ydynt y mwyaf eang o lawer. Saif gweddillion

*Berth-Lwyd.*

* Fel y gofynai ansawdd neu angenrheidrwydd y lle.

† Giraldus, Itin. lib. ii. c. 12. Sir Richard Hoare's Ed. vol. ii. p. 173.

‡ Willis's Bangor, 291.

Digitized by Google

truenus yr hen dŷ o'r enw hwnw yn y dyffryn; ei berchenogion oeddynt hen deulu y Llwydiaid, yn hanu o Dyngad, ail fab Tudur Trefor. Dafydd, yr eilfed ar bymtheg mewn disgyniad o Dyngad, oedd y cyntaf a gymerodd i fyny yr enw *Llwyd*, a thebyg ydyw mai efe a roddodd y teitl ychwanegol i'r tŷ. Parhaodd yn y teulu am genedlaethau lawer ar ol hyny; ac yn y blynyddoedd diweddaraf, aeth trwy bryniad i Syr Edward Lloyd, barwniad.

*Llanidloes.*] Oddeutu milldir yn mhellach y mae *Llanidloes*, tref fechan, gyda marchnad fawr am edafedd, y rhai a weithir yn wlaneni rhagorol; ac a anfonir yn wythnosol, yn llwythi gwageni, i'r Trallwng. Y mae yr eglwys yn gysegredig i St. Idloes. Oddifewn y mae chwech o fwäau; y colofnau wedi eu hamgylchu â phileri crynion destlus, yn terfynu mewn cnapiau o ddail palmwydd. Haera y preswylwyr iddynt gael eu dwyn yno o fynachlog Cwm Hir yn sir Faesyfed. Y dyddiad ar y tô ydyw 1542, yr hyn a ddylynai yn fuan ar ol dinystr y mynachlogydd yn y deyrnas hon.

Gwlad o borfa defaid ydyw hon. Gyrir y diadelloedd, fel rhai Yspaen, o fanau pellenig i ymborthi ar borfa yr haf. Nid yw y ffermdai yn y dyffrynoedd ond attodiadau yn unig, er mwyn cael trigleoedd gauafol ac ymborth. Ceir *Llechfaen.*] llechfaen frâs yn y bryniau amgylchynol; ond y mae o hyd yn aros, mewn amryw fanau, hen ddefnydd toau y wlad, peithynod (*shingles*,) coed derw wedi eu hollti, a'u tori ar ffurf llechi. Dygwyd hwy i mewn gan y Sacsoniaid, am fod y gair yn tarddu oddiwrth *Schindel*, yr hwn a olyga yr un peth.

Ychydig tu draw i Lanidloes y mae y dyffryn yn terfynu. Yma y mae yr Hafren yn ymleihau i ffrwd fychanigol. Trwy reddf ryfeddol, gweithia y gleisiaid eu ffordd i fyny o'r cefnfor, hyd yn nod yn uwch o lawer na'r man pellenig yma, er mwyn claddu eu grawn. Y pysg ereill ydynt frithylliaid, eogiaid, cornhwyaid, &c. Rheda yr afon mewn ceuedd at ei tharddell, bymtheng milldir o bellder, yn

Plynlimmonis ardua moles.

*Plynlimmon.*] (bryn eangfawr *Plynlimmon.*) Perswadiwyd fi i beidio talu ymweliad iddo, gan i mi gael fy hysbysu nad oedd ond gwrthddrych annyddorol: fod ei fôn o'r fath mwyaf eang, ei gopa yn gorslyd, a'r olygfa oddiarno yn ymestyn dros wlad drymllyd ac annhrigiannol braidd. Y mae rhan o hono yn sir Drefaldwyn, a rhan yn sir Aberteifi; heblaw yr Hafren, ymgyfyd o hono y Ridal,* yr hon a lifa i'r môr gerllaw Aberystwyth; a'r Gwy, yr hon, gan ymfwrw o'i ffynhonellau i lawr ar hyd y creigiau mwyaf rhamantus, a barha yn ei chŵrs nes y syrth i'r Hafren islaw Chepstow.†

Ar ol ymdaith o'r fath fwyaf boddhaol, dychwelais i Gregynog, gyda'm

* Yr afon a olygir yma ydyw y *Rheidol*, fel y gelwir hi yno: cyrhaedda y môr yn Aberystwyth, er fod y dref yn cymeryd ei henw oddiwrth yr *Ystwyth*, yr hon a'i cyferfydd yno. Crybwyllir am yr olaf yn Nacaryddiaeth Ptolemy, er na wyddir hyny yn gyffredin, am y sillebir ei henw yno *Stoukkia*, yr hyn sydd i'w gywiro yn *Stoúkkta*, neu *Stouktia*, gan fod y *t* a'r *i* yn cael eu cymysgu yn fynych mewn llawysgrifau Groeg. Nis gallai *Stouktia* ddyfod yn ddim ond *Ystwyth* yn y Gymraeg. J.R.

† Dywedwyd wrthyf, fod y ffordd ati o Gregynog trwy Gaer Sws, Parc, a Threfeglwys; ac o'r lle olaf fod yn angenrheidiol cael arweinydd i fyned a'r teithydd tros y mynyddoedd.



Digitized by Google

lletywr daionus, y goreu am ddangos gwlad ag y bum erioed mor ffodus a chyfarfod âg ef.

Yn y bore, cenais yn iach â Chregynog, ac yn nghwmni Mr. Blayney,* amgylchais y wlad fryniog. Yr oeddym yn marchogaeth trwy ffyrdd culion, gan

*Eglwys Bettws.*

mwyaf. Arosasom i weled eglwys *Bettws*, yn sefyll mewn lle isel, wedi ei chysegru i St. Beuno, ac yn flaenorol yn perthyn i leiandy Llanlugan, yn y sir hon. Y mae y clochdy yn ffurfio ffugur hynod yn y parthau hyn. Adeiladwyd ef gan un o'i hoffeiriadon, llun yr hwn, mewn gwisgoedd offeiriadol, sydd wedi ei gerfio [yn nghyda'i feddargraff yn Lladin] ar blât prês, a'i sicrhau wrth un o'r muriau. Adrodda ei ystori fel hyn:

> Gweddïwch dros enaid Ioan ap Meredydd o Bowys, ar un adeg yn ficer yr Eglwys hon, Bettws, yn amser yr hwn yr adeiladwyd y clochdy, ac y prynwyd tair o glych, a llawer ereill o weithredoedd da a wnaethpwyd yn yr eglwys hon. Y ficer ei hun yn cynorthwyo hyd eithaf ei allu. Trugarhäed Duw wrth ei enaid. Amen. Ysgrifenwyd hyn tra yr oedd yn fyw. B.A. 1531.

Yr oedd y darn prês yma, ar y cyntaf, wedi ei osod ar ddarn mawr o dderw, sydd eto yn ei le ar y llawr, yr hwn hefyd sydd wedi ei blangcio â derw: mor brin ydoedd ceryg, ac mor helaeth ydoedd coed! Y mae y gist fawr wedi ei gwneyd o un boncyff o dderw!

Ychydig yn mhellach, ar gopa bryn ar yr aswy, y mae bryncyn ymchwiliadol

*Pen y Gaer.*

o faintioli mawr; ac hysbyswyd fi fod gorsaf ar yr un fynyddres, a elwir *Pen y Gaer*, ac wedi ei hamgylchu â thair o ffosydd.

Oddiar fryn, a elwir Cefn Uppol, y ceir golygfa o'r fath fwyaf boddhaol ar ddyffryn Hafren, yr afon; a thu hwnt yr ymddengys ymestyniad hirfaith mynyddoedd Cerri, i fyny hyd yn nod at eu copäau—bryn Corndon, Longment, y Stiper-stones, a chrynswth afrywiog y Freiddin.

*Faenor.*

Ar y llaw aswy y mae palasdy y *Faenor*, unwaith yn eiddo y Prysiaid; ond, trwy briodas yr etifeddes, yn y ganrif ddiweddaf â George Devereux, ysw., trosglwyddwyd ef i is-iarllod Henffordd. Ond ar farwolaeth Peter Devereux, y degfed o'r anrhydedd hwnw, cafodd, trwy ewyllys, ei drosglwyddo i bersonau ag oeddynt yn ddyeithr i'r enw a'r gwaed.

Disgyn i lawr i'r dyffryn. Croesi yr Hafren. Marchogaeth ar hyd y ffordd

*Gwersyll Rhufeinig*

trwy ganol gwersyllfa Rufeinig, a elwir y *Gaer*, yn gorwedd yn mhlwyf, neu yn hytrach gapeloriaeth, Ffordin. Y mae ar y ffurf gywironglog arferol. Ychydig tu hwnt, yn agos i dŷ Nant-y-cribau, palasdy is-iarll Henffordd, yr ymgyfyd craig bigyrnaidd uchel. Ychydig flynyddoedd yn ol, wrth dynu ymaith y crib, darganfyddwyd gweddillion

*Amddiffynfa Fechan.*

amddiffynfa fechan; ac wrth grafu ymaith yr ysbwrial, ymddangosai mai un ysgwâr a fuasai, gyda thŵr crwn, efallai, yn mhob congl; y mae un yn lled gyfanaidd, ac heb fod namyn naw troedfedd o drawsfesur o'r tu fewn; y muriau yn saith droedfedd a saith modfedd o drwch. Yr oedd yno nifer o ystafelloedd bychain ysgwâr wedi bod, a ffframiau y drysau o gareg nadd ragorol; y mae y gweddill o'r adeilad o geryg

* Y mae hanes dyddorol am Mr. Blayney mewn attodiad at *Yorke's Royal Tribes.* T.R.

Digitized by Google

geirwon wedi eu cymrydu â chlai. Dichon fod y lle yma wedi cael ei ddinystrio trwy dân; oblegyd sylwais ar swm o blwm toddedig, yn gymysg â siarcol, ynghydag amryw olion o sylweddau wedi eu troi yn wydr. Nid yw hanesyddiaeth yn crybwyll dim am y lle. Rhaid ei fod yn dra hynafol, oblegyd y mae derwen gref wedi ymwreiddio ar ei ben uchaf. Amgylchynir gwaelod y graig gan ffos, wedi ei thori drwyddi, gan adael ond llwybr cul yn unig at yr amddiffynfa. O fewn ychydig bellder y mae ffos arall. Saif clawdd Offa o fewn oddeutu dau cant o latheni i'r graig hon. Myned i mewn i ran o

## SIR YR AMWYTHIG

*Chirbury.*] yn Walcot; a thrwy gadw at y dehau, cyrhaedd yn fuan i *Chirbury*, eglwys a phentref, yr hon a ddyry enw i'r cantref, a theitl i'r hyglod farchog penigamp, Edward arglwydd Herbert, yn yr hwn yr oedd gorphwylldra ac athrylith yn cerdded lawlaw â'u gilydd. Perthynai y cantref yma, yn yr hen amser, i gastell Trefaldwyn, ac ystyrid ei fod yn y sir y pryd hyny. Yn y 7fed o Iorwerth VI., rhoddwyd cantref Chirbury, gan y goron, i Edward Herbert a'i etifeddion; ond Siarl I. yn y drydedd flwyddyn o'i deyrnasiad, a ganiataodd i Syr Edward Herbert ei throsglwyddo i William Neye a Thomas Gardiner, ysweiniaid.

*Priordy.*] Gerllaw y pentref hwn y safai priordy o Fenedictiaid, sylfaenedig yn nheyrnasiad y brenin Ioan. Rhoddwyd yr eglwys i'r priordy, ynghyda'r holl diroedd ar hyd ochrau y ffordd, mor belled a Merebroc. Trwy gytundeb rhwng y tad Philip a pherigior Trefaldwyn, yr oedd yr hawl i gladdu a bedyddio wedi eu dyogelu i Chirbury. Yn yr un flwyddyn, cafodd y prior hawl i ddegymau coed Trefaldwyn, a'r felin. Yr oedd Hubert de Burgh yn gymwynaswr i'r tŷ hwn. Yn 1280, symudodd y prior a'i fynachlog i Snede, lle yr ymsefydlasent ac y buasent yn aros ar y cyntaf; oblegyd yr arddangosid nad oedd Chirbury yn lle mor briodol er gweinyddu dirgeledigaethau dwyfol; ond nid oedd y symudiad yma i effeithio ar eneidiau y rhai a gladdesid yn Chirbury, i ba rai yr oeddynt yn rhwym o gyflawni yr un gwasanaeth a chyn y symudiad, ac nid oedd y brodyr crefyddol i golli yr un o'u rhagorfreintiau yn Chirbury.*

Cynaliai y tŷ hwn benaeth, a phump neu chwech o fynachod. Yr oedd ei gyllidau yn 66*l*. 8*s*. 7*d*. yn ol Dugdale; ac 87*l*. 7*s*. 4*d*. yn ol Speed.† Y prior diweddaf oedd Oliver Middleton (dichon o hen deulu neuadd Middleton yn y plwyf yma,) yr hwn a gafodd bensiwn o 8*l*. yn y flwyddyn am ei oes.‡

## SIR DREFALDWYN

*Trefaldwyn.*] Dwy filldir yn mhellach y saif *Trefaldwyn;* tref fechan ddestlus, wedi ei hadeiladu mewn rhan ar lechwedd bryn, ac mewn rhan ar ei gopa, o dan gysgod un llawer uwch. Y mae yn ddyledus am ei sylfaeniad i Baldwyn, isgadben y cyffiniroedd o dan William y Gorchfygwr,

* Halston MSS. † Tanner. ‡ Willis, ii. 190.

oddiwrth yr hwn y geilw y Cymry hi yn Dref Faldwyn. Ei fod hefyd wedi adeiladu castell yma, neu ryw fath o amddiffynfa, sydd dra thebygol; oblegyd hysbysir ni, fod Roger de Montgomery, iarll yr Amwythig, yn y flwyddyn 1092, wedi dyfod i wlad Powys, ac enill tref a chastell Baldwyn; y rhai, y pryd hyny, fel y tybiaf, a feddiennid gan y Cymry. Roger a gadarnhaodd y lle, ac a'i galwodd ar ei enw ei hun, *Montgomery;* ond yn 1094, y Cymry a gymerasant y castell, ac a ddodasant y gwarchawdlu i'r cleddyf, gan ddiwyn difrod trwy y manau cylchynol. Y brenin, Gwilym yr Ail, a gasglodd ynghyd fyddin anferthol, ac a adfeddiannodd y rhan isaf o'r wlad. Iarll yr Amwythig a ailadeiladodd y castell, yr hwn a ddinystriasid gan y Cymry. Dinystriwyd ef drachefn; ond ni wyddom pa bryd; oddieithr yr hysbysir ni fod Harri III. wedi adeiladu castell newydd yma yn 1221.* Harri a'i rhoddodd i'w brif-ynad Hubert de Burgh, gyda dau cant mark yn flynyddol; a chyflog mwy pe buasai rhyfel yn tori allan.† Yn ystod yr amser y bu yn meddiant Hubert, gwarchaewyd arno gan y Cymry; ond yn fuan cafodd y lle ei waredu gan y Saeson. Llawer o ysgarmesau gwaedlyd a gymerasant le oddeutu yr amser yma yn y gymydogaeth hon; mewn un o ba rai y cymerwyd yn garcharor un William de Breos, barwn galluog, am ryddhad yr hwn y gorfuwyd talu swm mawr o arian fel pridwerth. Yn 1231, Llewelyn a gynullodd fyddin fawr, ac a ddychrynodd Hubert i'r fath raddau fel yr enciliodd o'r castell; yr hwn y gafaelwyd ynddo, ac a losgwyd gan ein tywysog digofus.‡

Ar ymchwiliad a wnaed pan ddatröwyd y gollfarn ar yr hynod Roger Mortimer, iarll March, yn 1354,§ cafwyd ei fod yn ei feddiant ef ar ei farwolaeth, ac hefyd gantref Chirbury; yn mha un, ar yr adeg hono, yr ystyrid fod castell a maenor Trefaldwyn yn gorwedd. Parhaodd yn y teulu hyd farwolaeth ei ŵyr Roger; oblegyd fturfiai ran o gynysgaeth ei weddw,‖ a dichon y bu yn meddiant ei olynydd Edmwnd, yr hwn a fu farw heb etifedd.

Y mae yspaid hir yn myned heibio cyn i mi allu darganfod dim yn mhellach am y lle hwn. Sonia arglwydd Herbert am dano fel cartrefle rhai o'i hynafiaid;¶ tybiaf mai ei ddal yr ydoedd gan y goron, fel goruchwyliwr y castell, a chantref Chirbury.

*Gwarchae.*

Yn y rhyfeloedd cartrefol yn 1644 ymaflwyd ynddo at wasanaeth y senedd, gan Syr Thomas Middleton; yr hwn, ar ymddangosiad byddin y brenin a orfodwyd i encilio yn sydyn i Groesoswallt, a'i adael heb ynddo ond ychydig o warchodlu ac ymborth. Gwŷr y brenin, o dan arglwydd Biron, a warchaeasant arno; ond Syr Thomas, trwy fod Syr William Brereton, Syr John Meldrum, a Syr William Fairfax, wedi ymuno â g ef, a ddychwelodd, o dan lywyddiaeth Brereton, gydag oddeutu tair mil o wŷr, i'w waredu. Yr oedd byddin y brenin oddeutu pum' mil o nifer; ac, ar ddynesiad y gelyn, cymerasant feddiant o'r bryn uwchlaw y castell.

*Brwydr Medi 8fed.*

Gwaredwyd y castell, a bu brwydr o'r fath fwyaf gwaedlyd rhwng y ddwy fyddin. Daeth gwŷr y brenin i lawr o'u gorsaf, a gwnaethant ymosodiad o'r fath ffyrnicaf ar fyddin y senedd, gan enill cryn fantais ar y cychwyn; ond yr olaf, gan weithredu megys oddiar anobaith, a wnaethant yr

* Powel, 280. † Dugdale Baron, i. 695.
‡ Powel, 287. § Dugdale Baron. i. 147 ‖ Yr unrhyw. ¶ Ei fywyd, p. 3.

ymdrechion mwyaf grymus, ac yn y diwedd a enillasant fuddugoliaeth o'r fath lwyraf. Parhawyd yr ymlidiad am yn agos i ugain milldir o ffordd. Lladdwyd mwy na phum' cant, a chymerwyd pedwar cant ar ddeg yn garcharorion. Nid oedd y golled ar du y senedd ond deugain wedi eu lladd, ac oddeutu triugain wedi eu clwyfo.* Cyfarfu y castell â'r un dynged a'r gweddill, sef cael ei wneyd yn anamddiffynadwy, trwy orchymyn tŷ y cyffredin.

*Dysgrifiad o'r Castell.*] Y mae ei weddillion yn sefyll uwch y dref. Safant ar graig sydd yn taflu allan, o uchder a sythder mawr, ac at y pen draw yn gwbl glogwynog. Ychydig ydyw gweddillion yr amddiffynfa hon. Bu ar un adeg yn cael ei rhanu gan bedair o ffosydd wedi eu tori yn y graig; a phob un, efallai, yn meddu ei chrogbont. Rhwng pen yr adeiladau a'r clogwyn y mae lle gwastad, buarth neu ymarferfa y castell.

Yn ngwaelod y bryn, yn y dyffryn, y mae amddiffynfa fechan, o'r un rhywogaeth a'r rhai a ddefnyddid gan y Sacsoniaid, a chan y Cymry hefyd, yn meddu bryncyn uchel o'i mewn.

*Gorsaf Brydeinig.*] Ar fryn, heb fod yn mhell oddiwrth y castell, y mae gorsaf Brydeinig aruthrol. Amddiffynir y fynedfa iddi gan bedair o ffosydd dyfnion, gyda dwy neu dair o fynedfeydd tua'r brif adeilad; y mae ychydig o ffosydd yn rhedeg ar draws y bryn, pen draw yr hwn a amddiffynir yn ddigonol gan ei serthedd.

Hwn, yn gystal a darnau blaenorol o hynafiaethau milwrol, a ddangosant bwysigrwydd y lle yma mewn amseroedd boreuol: dichon fod y blaenaf yn bodoli pan wnaeth Baldwyn ei hun yn feistr ar y wlad hon, er fod yr enw gwreiddiol wedi ei gwbl golli.

Oddiar gopa yr orsaf Brydeinig y mae golygfa hardd ar ddyffryn Trefaldwyn, yr hwn sydd yn dra eang, ac yn cael ei derfynu gan fryniau sir Amwythig.

*Y Dref.*] Amddiffynid y dref ar un adeg gan furiau, yn cael eu cadarnhau gan dyrau. Meddai hefyd bedwar o byrth; pyrth Chirbury, Arthur, Ceri, a Chedewen.† Y mae caniatâd o eiddo Iorwerth I. i Bogo de Knouill, cwnstabl y castell, yn rhoddi rhyddid iddo i werthu rhyw goed yn fforest Corndon, er adgyweirio y muriau a'r ffosydd o amgylch y dref a'r castell; ac un arall, i'r un dyben, gan Iorwerth III., yn caniatâu toll am saith mlynedd ar amrywiol nwyddau a ddygid yno i gael eu gwerthu: yn mysg pethau ereill, nodir crwyn gwiwair.‡

Harri III. a ganiataodd trwy siartr, fod i fwrdeisdref Trefaldwyn gael y fraint o fod yn fwrdeisdref rydd, yn nghyda rhagorfreintiau ereill.§ Y bwrdeisiad cyntaf a wysiwyd i'r senedd ydoedd yn y 27ain o Harri VIII. Y cyntaf yr ymddengys iddo eistedd ydoedd William Herbert, yn y flwyddyn 1542. Llywodraethir y dref gan ddau o isfaerod, a deuddeg o fwrdeisiaid, neu gynghorwyr trefol. Etholir yr aelod seneddol gan y bwrdeisiaid, a dychwelir ef gan yr isfaerod. Nifer yr etholwyr ydyw oddeutu pedwar ugain.|| Yr oedd Llanidloes, y Trallwng, a Llanfyllin, gynt yn cydgyfranogi;

* Drake's Parl. Hist. xiii. 285. Whitelock, 104.
† Leland Itin. vii. 16. ‡ Sebright MSS.
§ Camden, ii. 780. || Willis, Notitia Parl. iii. 78, and part ii. 9.

ond y maent yn bresenol yn cael eu cau allan oddiwrth bob ymwneyd yn yr etholiad.

Pa un, yn yr hen amseroedd, a oedd y dref hon, i raddau mwy na chyffredin, yn llawnach o foneddigesau yn arwain bywydau anfoesol ac o ymddiddanion anaddas, nid wyf yn rhyfygu penderfynu: ond er yn foreu iawn yr oedd gan y *Ystôl y Cecrod.* rhydd-fwrdeisiaid y rhagorfraint o ddefnyddio *Ystôl y cecrod*, neu, fel y geilw y Sacsoniaid hi, *Scealfing-stole.* "*Quia*," medd fy awdurdod, "*per objurgatrices et meretrices multa mala in villa oriuntur:*"* ac yr oedd y rhai hyn i ddyoddef barn *Ystôl y cecrod;* ac arni i gael eu gosod, gyda thraed noeth a gwallt annhrefnus, fel esiampl i'r holl edrychwyr.† Dichon na byddai hyn yn ddigon i ateb y dyben; felly, mewn amser, ychwanegwyd at hyny eu trochi mewn dwfr, megys gwelliant, er cynyrchu llwyr a chwbl wellhad.

*Eglwys.* Yr eglwys sydd gysegredig i St. Nicholas; y mae yn esgobaeth Henffordd, ac yn rhodd y brenin; gynt yr oedd yn gapel perthynol i Chirbury. Oddi fewn y mae cofadail hardd i Richard Herbert, tad i'r enwog Arglwydd Herbert. Arddangosir ef mewn arfau; ac wrth ei ochr y gorwedd ei foneddiges, Magdalene, merch i Syr Richard Newport o High Arcol. O'u blaenau y mae eu hiliogaeth luosog. Bu efe farw yn 1597. Y gofadail a wnaed gan ei foneddiges, yr hon a fu fyw luaws o flynyddau ar ei ol; ac wedi cyflawni ei dyledswydd, gyda gofal clodwiw, tuag at ei phlant, priododd yn mhen deuddeng mlynedd, â Syr John Danvers, brawd i Henry, iarll Danby; a bu farw yn 1627.


*Blackhall.* Safai y tŷ a elwid *Blackhall*, ar un adeg yn breswylfod lletygar y teulu, yn y gwaelod; y mae ffos yn nodi y fan; oblegyd dinystriwyd ef gan dân. Y lluest *(lodge)* yn Limore Park, ychydig bellder o'r dref, a helaethwyd ar yr achlysur yma: y mae yn cael ei chadw i fyny yn barhaus, ac arddengys ffrynt hybarch o goed.

*Mynydd Digoll.* Wedi gadael Trefaldwyn, cymerais, am bedair neu bum' milldir, agos yr un ffordd ag y daethum iddi. Myned heibio islaw *Mynydd Digoll.* Ar y mynydd hwn y gellir dywedyd fod rhyddid Cymru *Brwydr.* wedi llwyr ddiflanu; oblegyd yma y bu ein hymgyrch olaf yn erbyn gallu ein gorchfygwr. Wedi marw Llywelyn, darfu i Gymry y Gogleddbarth osod i fyny Madog, cefnder i'r tywysog lladdedig; yr hwn a gynullodd fyddin fawr, ac ar ol lluaws o fuddugoliaethau nodedig, yn Nghaernarfon, yn agos i Ddinbych, Knockin, a thrachefn ar y cyffindiroedd, cafodd ei orthrechu yma yn 1294, gan alluoedd unedig arglwyddi y cyffindiroedd, wedi ymladd brwydr hirfaith a chaled.‡

Rhaid i mi ychwanegu, mai ar y mynydd hwn y darfu i Harri VII. wahodd y cyfeillion a addawsent ymgysylltu âg ef, o Ogledd Cymru a sir yr Amwythig, ac ni chafodd allan fod yr un o honynt heb gadw ei addewid. Ar ba gyfrif, geilw y Cymry ef *Digoll:* y Saeson a'i galwant *Long Mountain*, neu y Mynydd Hir.

* "Oblegyd y mae llawer o ddrygau yn codi yn y pentref oherwydd chwedleuyddesau a phuteiniaid."
† Blount's Tenures, 232
‡ Powel, 380, 381

Digitized by Google



*CASTELL POWYS YN 1777.*

Croesi yr Hafren, yn agôs i Lanlafryn, palasdy Price Jones, ysw. Yn fuan ar ol cyrhaedd yr ochr yma i'r afon, troais ychydig o fy ffordd i *Gastell Powys*, preswylfod iarll Powys, yn sefyll ar grib craig, heb feddu nemawr o amgylchedd; yr hwn, megys y rhan fwyaf o balasdai a darddasant o gastelli, sydd yn mhell oddiwrth fod mewn sefyllfa ddymunol. Math o gymysgedd o gastell a phalasdy ydyw. Y fynedfa i mewn sydd rhwng dau dŵr crwn: y mae hefyd weddillion tyrau crynion mewn manau ereill. Yn agos i'r castell hwn y mae oriel hir,* 117 troedfedd wrth 20. Yr oedd unwaith yn 167 troedfedd; ond y mae ystafell wedi cael ei chymeryd allan o un pen iddi. Y mae hon o amseriad diweddarach na'r adeilad arall, a chafodd ei gwahanu oddiwrthi gan dân, oddeutu haner can' mlynedd yn ol.

*Castell Powys.*

*Iarll Castlemain.*

Yn y parlwr, oddi fewn i'r tŷ anedd, y mae portread llawn hyd o *Roger Palmer, iarll Castlemain;* yr hwn oedd yn ddyledus am ei bendefigaeth i'w wraig, cariadferch freninol, ac wedi hyny duges Cleveland. Arddangosir ef yn y gwaith o gyfarwyddo ei ysgrifenydd, ac yn wisgedig â gwallt gosod o liw du, gwddfdorch, a mantell goch. Iago II. a'i danfonodd ar neges at y Pab, i gymodi y terynasoedd hyn â'r esgobaeth sanctaidd, ar ol eu hirfaith gwymp i heresi. Y Pab cyfrwysgall a welodd ffolineb y bwriad, ac ni byddai byth yn derbyn y negeseuwr heb i iâs gyfleus o besychu ei oddiweddyd, yr hyn a dorai ar bwngc y negeseuaeth. O'r diwedd, wedi blino gan yr oediad, cynghorwyd ef i ffromi tipyn, a bygwth gadael Rhufain. Ei sancteiddrwydd, gyda difaterwch mawr, a ddywedodd wrtho, yn gymaint ag mai dyna ydoedd ei benderfyniad, ei fod yn garuaidd yn ei gynghori ef i *drafaelio yn gynar yn y bore, a gorphwys ganol dydd, rhag iddo beryglu ei iechyd;* ac felly y terfynodd yr ymdrafodaeth ddigrifol yma.†

Y mae y grisiau wedi ei addurno âg arluniau, gan Lanscroon, moesgyfarchiadol i'r frenines Anne.

I fyny y grisiau y mae dwy ystafell fawr, gyda chrogleni *(tapestry)* hynafol. Addurnir nenfwd un o honynt â deuddeg arwydd y sidydd, o'r fath wrthunaf.

Yn nesaf y mae oriel hir a chul, yn llawn o bortreadau gwaelion. Arddangosir duc Powys (mewn enw felly,) yr hwn a grewyd pan oedd y brenin wedi ymddiorseddu, yn ei berwig fawr a'i wisgoedd. Efe a ddylynodd helynt Iago II., ac a fu farw yn St. Germain, yn 1696. Ei wraig, Elisabeth, merch i ardalydd Exeter, sydd wedi ei phaentio mewn glâs ac ermin.

Mewn un nenfwd arogldarthir cryn lawer i foneddigesau y teulu, merched i William, ail ardalydd Powys. Arddangosir un fel GWIRIONEDD; Arglwyddes Throgmorton a ymddengys fel Rhinwedd arall; Arglwyddes Mary fel Minerva; ac y mae Cyfiawnder i'w weled yn ymlid ymaith Genfigen, Malais, a Drygau ereill. Ychydig o foneddigesau a dorasant ffugur mor amlwg a'r Arglwyddes Mary. Yr oedd yn ddwfn yn nghynllun twyllodrus y Mississippi, a breuddwydiai am filiynau; ymgeisiodd at fod yn wraig i'r Ymhonydd diweddar; methodd

* Yn yr oriel hon y mae amryw arluniau o ragoroldeb mawr, wedi eu casglu gan y diweddar Arglwydd Powys. GOL.

† Rhoddir hanes cyflawn gan Misson, iii. p. 176—207.

Digitized by Google

yn ei chynlluniau, a chydag anturiaethwr pendefigaidd arall a enciliodd i Yspaen, i chwilio am aur yn mwngloddiau Asturias.

The crown of Poland, venal twice an age,
To just three millions stinted modest Gage:
But nobler scenes Maria's dreams unfold,
Hereditary realms, and worlds of gold.
Congenial souls! whose life one av'rice joins,
And one fate buries in th' Asturian mines.*

Y mae y golygfeydd o'r uchder yma yn dra phrydferth, ar y Trallwng, y dyffryn, a bryniau y Freiddin; ond, oherwydd y sefyllfa, y mae y mae y cyfnewidiadau dychrynllyd o oerni a gwres yn cael eu teimlo yn fawr. Rhaid

*Gerddi.* disgyn i'r gerddi trwy rodfeydd islaw rhodfeydd, cyfres lafurus o ddisgyniadau ar hyd grisiau, yn gorchuddio craig, yr hon y buasai De Valle yn ei ffrwydro ymaith yn y dyddiau gynt. Yr oedd yr holl erddi yn llawn o ddyfrweithiau: y cwbl mewn efelychiad o chwaeth druenus St. Germain en Laye, yr hon y cafodd y teulu diweddar y cyfleustra mwyaf anffodus i'w hefelychu.

Y sylw cyntaf a gaf am y lle hwn sydd oddeutu y flwyddyn 1110; pan y darfu i'r Prydeiniwr clodfawr, Cadwgan ap Bleddyn ap Cynfyn, ymofyn nodded yma rhag erlidigaeth ei garenydd, a dechreu adeiladu castell. Ar yr adeg hono gelwid ef *Y Trellawng.* Tra yr oedd yn llafurio gyda'r gorchwyl, daeth ei nai, Madog, ar ei warthaf yn ddiarwybod iddo, ac a'i lladdodd.†

*Gwarchae yn 1191.* Aethpwyd yn mlaen gyda'r adeilad, efallai gan Gwenwynwyn; oblegyd yn 1191 gwarchaewyd arno gan Hubert, archesgob Caergaint: yr hwn, ar y dechreu, a gyfarfyddodd â gwrthwynebiad tra grymus. O'r diwedd, anfonodd yr esgob am fintai o fwngloddwyr, ac aeth yn mlaen mor lwyddiannus fel y darfu i'r gwarchäedigion, wrth weled eu muriau yn cael cloddio oddi tanynt, a'r gelynion yn dri yn erbyn un, roddi i fyny ar yr amodau mwyaf anrhydeddus. Yr archesgob a'i cadarnhaodd yn fwy grymus fyth, ac a ddododd ynddo warchawdlu cryf; ond yn fuan ar ol hyny, Gwenwynwyn a ymosododd arno yn ei dro, ac a fu mor ffodus a'i ddarostwng ar yr un telerau ag a gawsai ei warchawdlu ef ei hun. Ar yr adeg yma gelwid ef yn Gastell Gwenwynwyn yn y Pwll *(Pool.)*.‡

*Olyniad.* Ei fab Gruffydd, fe ddichon, a gymerodd blaid y Saeson; oblegyd yn 1233, Llewelyn ap Iorwerth a ddadymchwelodd yr amddiffynfa yma; yr hon yn awr a elwid y *Castell Coch*, oddiwrth liw y ceryg.§

Ei ŵyr, Owain ap Gruffydd ap Gwenwynwyn, a ddaliodd feddiant o'r lle. Gadawodd ferch, a elwid Hawys Gadarn. Pedwar o'i hewythrod‖ a wrth-

* "Coron Poland, yr hon sydd faddeuadwy ddwy waith mewn oes,
I ryw dair miliwn a gyfyngai'r gwylaidd *Gage;*
Ond golygfeydd mwy gwych ddadblygai llygaid Mair;
Teyrnasoedd etifeddol, a bydoedd o aur.
Gydnaws eneidiau! bywyd y rhai a unir mewn un awydd i gyfoeth,
Ac un dynged a'u cladd hwynt yn mwngloddiau Asturia."

† Powel, 170. ‡ Yr unrhyw, 248. § Yr unrhyw, 288. ‖ Yr unrhyw, 215.

Digitized by Google

ddadleuent ei hawl i dir ei thad, gan haeru fod merch yn analluog i etifeddu. Hawys, mewn modd doeth, a wnaeth gyfaill o Iorwerth II.; efe a'i priododd â John de Charlton, yr hwn a anesid yn agos i Wellington yn sir yr Amwythig, yn 1268, ac a elwid *Valectus Domini Regis** (Ceidwad yr arglwydd y Brenin.) Parhaodd yn meddiant eu holynwyr dros amryw genedlaethau. Trosglwyddwyd y farwniaeth a'r teitl wedi hyny i Syr John Grey o Northumberland, trwy ei briodas â Jane, merch hynaf Edward, arglwydd Powys.† Arosodd yn eu holynwyr hwy hyd deyrnasiad Harri VIII.; darfyddodd y teitl y pryd hyny trwy farwolaeth Edward Grey. Nis gallaf olrhain olyniad yr etifeddiaeth, nes yr ydwyf yn ei chael yn meddiant Syr William Herbert, ail fab iarll Penfro; yr hwn a'i cafodd trwy bryniant yn nheyrnasiad y freninea Elisabeth. Crëwyd ef yn arglwydd Powys, ac yr oedd yn hynafiad i ardalyddion Powys. Yn 1644, yn amser Piercy, arglwydd Powys, cymerwyd y castell gan Syr Thomas Myddleton; cymerwyd ei arglwyddiaeth yn garcharor, ac anrheithiwyd y lle.‡ George iarll Powys§ ydyw y meddiannydd presenol, yn hawl ei fam, Barbara, merch ac unig etifeddes arglwydd Edward Herbert, brawd i ardalydd diweddaf Powys. Y mae dau ar bymtheg o faenorau hyd heddyw yn y sir yn dibynu ar y castell hwn.

*Y Trallwng.*] Y *Trallwng* (Welsh Pool,) tref dda, a saif yn y gwaelod, heb fod yn mhell oddiwrth y castell. Y mae symau mawrion o wlanen, y rhai a ddygir o'r wlad uchaf, yn cael eu hanfon oddiyma i'r Amwythig. Dechreua yr Hafren ddyfod yn fordwyadwy oddeutu tri chwarter milldir o'r dref. Arddela y lle hwn yr un arglwydd â'r castell. Gruffydd a wnaeth warogaeth am arglwyddiaeth Powys yn Nghaerlleon yn 1355. i Iorwerth tywysog Cymru, o dan y teitl arglwydd Poole:‖ cafodd ei deitl hefyd ei ffrangceiddio i *de la Pole.*¶

*Cwpan Aur.*] Perthyna i'r eglwys gwpan dra phrydferth, o aur pur, a chynwysa chwart o win. Y mae y cerfiad canlynol ar y rhodd werthfawr yma [yn Lladin,] yr hwn sydd yn gwrthddyweyd y chwedl gyffredin, mai rhodd rhyw alltud edifeiriol llwyddiannus ydyw, ac yn gosod yr hanes yn ei oleuni gwirioneddol.

> **Thomas Davies,** Prwyadur Cyffredinol y Sefydliad Seisonig yn Affric Orllewinol, oherwydd fod ei fywyd wedi cael ei ddyogelu yno gan aneirif drugareddau Duw, a ddymuna ar fod i'r gwpan hon, a wnaed o'r aur Gini goreu, ac a brisir yn werth 168 o *minis,*** gael ei chadw yn gysegredig am byth er anrhydedd i Dduw, ac at wasanaeth yr eglwys yn y Trallwng. Os bydd i unrhyw anfadyn, mewn amser i ddyfod, wyrdroi y gwpan oddiwrth y cyfryw wasanaeth cysegredig (yr hyn na ato Duw,) bydded iddo dderbyn y gosp am hyny yn ngoruchel lŷs y Duw dialeddol. Ebrill 9fed, 1662.

* Powell, 217. † Dugdale Baron. ii. p. 283. ‡ Whitelock, 103.

§ Ar farwolaeth arglwydd Powys yn 1800, darfu y teitl. Adfywiwyd ef drachefn yn mherson ei frawd-yn-nghyfraith Edward arglwydd Clive, yn 1804, mab yr hwn yn bresenol ydyw meddiannydd castell Powys. Gol.

‖ Powel, 282. ¶ Ayloffe's Calendar, 102.

** Y mae pob *mina* yn werth 4*l.*; felly pris neu werth y gwpan oedd oddeutu 700*l.*—Cyf.

*Buttington.*] Braidd ar gyfer y Trallwng, ar yr ochr arall i'r Hafren, y mae *Buttington*, sef *Butdigingtune* y Sacsoniaid; yn mha le, yn 894, y darfu i'r Daeniaid, o dan Hesten, wedi tramwyo rhan fawr o Loegr, gymeryd eu safle. Cadfridogion y brenin Alfred yn ddiatreg a'u cauasant i fyny, a hyny mor gaeth, fel y bu raid i'r paganiaid fwyta eu ceffylau o eisiau cynaliaeth. O'r diwedd, wedi eu symbylu gan anobaith a newyn, amcanasant ymladd eu ffordd trwy y fyddin Sacsonaidd; ond gorthrechwyd hwy gyda'r fath laddfa fel na ddiangodd ond ychydig iawn o honynt i'w gwlad eu hunain.*

Y mae y wlad o'r Trallwng tua Llanymynach yn cael ei thori yn y modd *Gilesfield.*] prydferthaf i godiadau tir graddol ac wedi eu coedio yn dda. Saif eglwys a phentref *Gilesfield* yn brydferth o dan y bryniau. Yr eglwys sydd gyflwynedig i St. Giles; yn yr hen amser perthynai i fynachlog Cistersiaidd *Ystrad Marchell*, neu *Strata Marcella*, yn *Mynachlog Ystrad Marchell.*] sefyll cydrhwng y lle yma a'r Trallwng. Nid oes un amheuaeth nad Owain Cyfeiliog a'i sylfaenodd, a hyny, yn ol Tanner, yn 1170.† Ei fab Gwenwynwyn, yn 1201, a roddodd i Duw, y Forwyn ogoneddus ei fam, ac i fynachod Ystrad Marchell, er gorphwysdra i'w enaid, yr holl borfa yn nhiriogaeth Cyfeiliog.‡ Barna Tanner mai Madog ap Gruffydd Maelor a ail-sylfaenodd y fynachlog hon; ond yn ol ei siartr gellid meddwl na ddarfu iddo ond rhoddi iddi ddernyn o dir, i'r dyben o sylfaenu cell, neu ryw attodiad ati: a gwnaed hyny, medd efe, ar ddymuniad pedwar o abadau; yn mhlith y rhai y crybwyllir Philip ei hun, abad Ystrad Marchell ar y pryd;§ yr hyn a brawf fod y tŷ yn bodoli y pryd hwnw. Yn nechreuad teyrnasiad Iorwerth III. cafodd y mynachod Cymreig eu symud i fynachlogydd Seisonig, a dodwyd rhai Seisonig yn eu lle; a gwnaed y fynachlog hon yn ddarostyngedig i ymweliadaeth mynachlog Buildwas, yn sir yr Amwythig. Ei chyllid ar adeg y dadgorphoriad, yn ol Dugdale, ydoedd 64*l.* 14*s.* 2*d.*; yn ol Speed, 73*l.* 7*s.* 3*d.* Y frenines Elisabeth a'i rhoddodd i Rowland Hayward a Thomas Dixon.

*Llandysilio.*] Myned heibio i'r Garth, preswylfod Devereux Mytton, ysw. Pasio eglwys fechan *Llandysilio*, capel yn mhlwyf Llandrinio; ac yn fuan wedi hyny rhydio y Fyrnyw, ac ymadael ychydig oddiwrth fy llwybr arfaethedig ar lanau yr Hafren, i ymweled â'r anturiaethus Mr. Evans, o Lwyn y Groes, gerllaw Llanymynach, yr hwn, heb un golwg ar ei les personol, sydd yn awr yn parotôi map prydferth o Ogledd Gymru,‖ ar ei anturiaeth ei hun. *Llanymynach.*] Aros yn ei dŷ ef hyd y bore, ac yna, yn ei gwmni, ymweled â *Llanymynach*. Y mae yr eglwys a'r pentref yn sefyll mewn lle prydferth, ar fryncyn uwchlaw y Fyrnyw; ac yn hynod o fanteisiol at fasnach. Gorwedda yn agorfa tri o ddyffrynoedd, yn nghroesiad dwy o brif-ffyrdd cyhoeddus, ac ar afon sydd yn fordwyol i'r Hafren (yr hon a red o fewn tair milldir i'r fan hon) am rai misoedd yn y flwyddyn, i ysgraffau o haner cant o dunelli. Anfonir symiau mawrion o lechi oddiyma i

* Sax. Chr. 94, 95. † Tanner, 716.

‡ Y mae copi o'r siartr yn fy meddiant. Gan iddo ddiange rhag sylw Syr W. Dugdale, yr wyf yn ei argraffu yn yr Attodiad.

§ Dugdale Monast. i. 396. ‖ Cyhoeddwyd y map hwn yn 1795. Gol.

Digitized by Google

Bristol; ac, yn y blynyddau diweddaraf, i fyny camlas Stourport, Birmingham, a manau ereill.

*Bryn.*] Esgyn bryn Llanymynach, craig anferth, a'i harwyneb wedi ei orchuddio â thywyrch gwyrddleision; oddi tanodd y mae mynor o liw perl, gyda gwythenau cochion prydferth, wedi ei resu â gwŷn, ac yn alluog i dderbyn caboliad da Dyma gareg galch y lle. *Gweithydd Ceryg Calch.*] Y mae y swm a losgir ar y bryn yma yn anamgyffredadwy, ac y mae y cynydd yn fwy ddengwaith er y gwelliant yn ffyrdd sîr Drefaldwyn; oblegyd cludir ef hyd yn nod fel gwrtaith i fwy na deng milldir ar hugain o bellder. Dechreua yr amser cludo yn Mawrth, a therfyna yn mis Hydref Y mae y bryn o hyd a lled mawr iawn: llechwedda i fyny o'r ochr nesaf at y pentref, a therfyna y rhan uchaf o hono mewn dibyn eang a hirfaith.

*Mwneion.*] Dichon fod ei grombil yn llawn o fwnau. Y mae mŵn copr, plwm, a chalamine wedi eu cael yma yn y blynyddau diweddaraf; ac y mae profion diymwad iddo gael ei weithio gan y Rhufeiniaid. Mewn ogof fawr gelfyddydol, wedi ei ffurfio yn amrywiol droadau er chwilio am y mwnau, *Ei weithio gan y Rhufeiniaid.*] darganfyddwyd bathynau Rhufeinig; yn eu mysg, un o eiddo Antoninus, ac un o Faustina. Yn agos i'r bathynau cafwyd ysgerbwd dynol yn ei lawn hyd: ac ar ei fraich aswy yr oedd breichled, ac wrth ei ochr fwyall rhyfel. Ceir esgyrn wedi eu llosgi, a lludw, yn fynych ar y bryn; ac yn agos i ran ogledd-orllewinol y clogwyn y mae niferi o byllau mawrion, ar ffurf cônau gwrthdröedig, y rhai y tybir eu bod yn waith y Rhufeiniaid.

*Hen Gloddiau a Ffosydd.*] Ar lechwedd y bryn, yn y rhan fwy hygyrch o hono, y mae yn rhedeg, o'r top i'r gwaelod, gaerfa anferthol o geryg rhyddion, gyda ffos yn ei gwaelod; ac mewn rhyw bellderau tu hwnt y mae dwy o ffosydd ereill yn cydredeg, mewn llawer o fanau wedi eu tori trwy y graig gyda llafur mawr iawn. Tybiwyd mai y Rhufeiniaid oeddynt y bobl a wnaethant y gweithydd hyn; ond yr wyf fi yn tybio yn hytrach mai Prydeinig ydynt, am eu bod mor debyg i'r rhai a gyfansoddant nerth yr orsaf Brydeinig. Gellir olrhain clawdd Offa ar y bryn hwn; ond y mae yn amlwg yn wahanol i'r lleill. Y mae gwàl y fynwent wedi ei gosod ar y blaenaf.

Oddiar gopa y bryn ceir golygfa o'r fath fwyaf hyfryd, mewn un cyfeiriad, ar wastadedd eang sîr yr Amwythig, gyda'i derfynau ymddyrchafol amrywiog. Bryniau Freiddin a ffurfiant gynulliad ardderchog gyferbyn a'r bryn hwn; y rhai a godant gyda'u gilydd mor fawreddog, fel dau benrhyn mawr, yn y fynedfa i ddyffryn yr Hafren; yr hwn, oddiyno i Lanidloes, sydd rhwng deg ar hugain a deugain milldir o hyd.

Yr olygfa at y dehau sydd i sîr Drefaldwyn; ac y mae yn gyfres o fân ddyffrynoedd, yn llochesu rhwng ymddyrchafiadau bychain coediog. Yn union o dan glogwyn y bryn y gorwedda gwastadedd, yn cael ei ddyfrhau yn brydferth gan y Tanat a'r Fyrnyw, y rhai a ymunant yno. Yn union o dan y *Neuadd Blodwel.*] graig y saif *Neuadd Blodwel*, palasdy anghyfanedd, ar un adeg yn eiddo y Tanats; trosglwyddwyd ef i'r Matthews trwy briodas Jane, merch ac etifeddes Maurice Tanat. Cafodd yr eiddo ei

drosglwyddo drachefn, trwy briodas Ursula, merch ac etifeddes Roger Matthew, i Syr John Bridgeman, barwniad, taid y perchenog presenol.

*Castell Careg Hwfa.*] Heb fod yn mhell oddi yno y safai *Castell Careg Hwfa*, am yr hwn ni wn i ddim yn rhagor nag iddo gael ei gymeryd a'i anrheithio gan Owain Cyfeiliog ac Owain ap Madog ap Meredydd.* Adferwyd ef yn fuan; oblegyd yn y flwyddyn 1187, cafodd yr olaf ei ladd yma yn y nos, gan Gwenwynwyn a Chadwallon, meibion ei gyngbreiriwr blaenorol.†

*Y Bontnewydd.*] O Lanymynach marchogais i'r *Bontnewydd*, pont o saith bwa, dros y Vyrnyw, oddeutu tair milldir uwchlaw y rhyd. Cyfyngir yr afon gan argae, i gael dwfr i felin, ac y mae yn ffurfio ymestyniad prydferth. Y mae y gorlifiad dwfr yn ffurfio dyfr-ddisgyniad destlus; a'r golygfeydd at i fyny, o fân ddyfrynoedd, a choed hongianol, yn hynod o brydferth.

Y mae yr afon yn teilyngu y teitl *Piscosus Amnis* (Afon y Pysgod), yn gymaint ag un y gwn i am dani. Y mae nifer y pysgod sydd ynddi yn bywiocâu y dyfroedd, ac yn ychwanegu yn fawr at ei phrydferthwch. Nid yw Ausonius yn esgeuluso y sylw hwnw, yn ei gân brydferth ar y *Moselle*.

> Intentos tamen usque oculos errore fatigant
> Interludentes examina lubrica pisces.‡

Ni ddarfu i mi archwilio pa un a ydyw y *Moselle* yn cynyrchu mwy nag sydd yn y rhestr ganlynol.

| Pysgod. | Yn eu hadeg. |
|---|---|
| Eogiaid, ... ... ... | Nadolig i Orphenhaf. |
| * Brithylliaid,... ... ... | Mawrth i Fedi. |
| * Gleisiaid, ... ... ... | Eto. |
| Teimbysg, ... ... ... | Mawrth i Dachwedd. |
| * Pilcod, ... ... ... | Ebrill i Fedi. |
| Perc, ... ... ... ... | Mai i ddiwedd Medi. |
| Crychbysg, ... ... ... | Ebrill i Fedi. |
| Carp, ... ... ... ... | Ebrill i Orphenhaf. |
| Gwrachod, ... ... ... | |
| Torgochiaid, ... ... ... | Ebrill i Fedi. |
| * Brwyniaid, ... ... ... | Eto. |
| Gwyniaid, ... ... ... | Eto. |
| *Bleak*, math o wŷniaid ... | Mehefin, Gorphenhaf, Awst. |
| * Pysg penci, ... ... ... | Ebrill i Fehefin. |
| * *Loche*, ... ... ... | Mawrth i Fedi. |
| Crothellbysg, ... ... ... | Ebrill i Fedi. |
| *Shad*, math o fôrbysg ... | Mawrth ac Ebrill. |
| * Llysŵod, ... ... ... | Mehefin, Gorphenhaf, Awst. |
| Llamprai, ... ... ... | |
| Llythïod, ... ... ... | Mai i Fedi. |

* Powel, 219. † Yr unrhyw, 241.

‡ "Chwareus bysgod, llithrig heigiau ar bob tu, yn blino y llygaid sydd yn awyddus wylied troadau yr afon."

O'r rhai hyn, nid oes ond y rhai a nodir â * yn mynychu y Tanat, yr hon a ddisgyna i'r Vyrnyw oddeutu y fan lle y gwnaed y cyfrifiad hwn: fel y mae ambell bysgod yn hoffi rhai dyfroedd yn fwy na'u gilydd!

*Dongay.*] Myned drachefn heibio i Landysilio. Croesi commins *Dongay*; a nesâu at breswylfod Francis Lloyd, ysw.; marchogaeth trwy bentref Llandrinio, ac heibio i'r eglwys o'r un enw. Croesi pont Llandrinio, o dri bwa, adeilad newydd a hardd. Yn agos iddi y mae preswylfod Clopton Price,* ysw.; cefnogwr gweithgar a defnyddiol pob amcanion cyhoeddus o fewn ei gylch.

Wedi croesi yr Hafren, gorweddai fy ffordd wrth droed y crynswth mawr o fynyddoedd creigiog, a adnabyddir wrth yr enwau Freiddin, Moel y Gollfa, a Chefn y Castell. Y mae eu godreuon wedi eu hamgylchu yn brydferth gan goed; uwchlaw pa rai y mynyddoedd a ymddyrchafant, gan arddangos ffrynt aruthrol a chlogwynog. Ar forfa Crew y mae Mynydd Belin, ar yr aswy, yn ymsaethu i fyny yn graig ar ei phen ei hun, yn mhell oddiwrth ei chydfryniau cydnaws. Gweled odditanaf eangder maith o wlad wastad a gwleb, gwastadedd mawr rhan o sîr yr Amwythig. Saif pentref a phlwyf Melverly ar yr ochr draw i'r Hafren, yn agos i'r fan lle y mae y Vyrnyw yn ymarllwys iddi. Oddiwrth yr amgylchiad hwnw, gelwir y fan hon, *Cymmerau*, neu gydlifiad dyfroedd.

Yn ngolwg y mynyddoedd mawrion a nodais yn barod, y cyfansoddodd Gwalchmai ap Meilir gân o'r fath brydferthaf. Yr oedd ei athrylith ef yn unwedd gyfaddas at farddoniaeth a rhyfel. Ar ol bod dan arfau yr holl nos, wedi ei swyno gan doriad y dydd, prydferthwch yr olygfa amgylchynol, caniadau yr adar, a murmur y dyfroedd, y mae yn anghofio pob gofalon, a chan ddirmygu y perygl rhag y gelyn oedd gerllaw, y mae yn tori allan yn yr awdl a elwir Gorhoffedd Meilir; yr hon a ddechreua

Mochddwyreawg huan dyffestist,
Maws, &c.†

Ymddyrcha, belen dydd! y dwyrain byrth ymagor,
A dangos ini wawr dy euraidd fantell borphor.
Fe gân yr adar bach yn beraidd ar bob brigyn,
Ymddyrcha, belen dydd! mae'r wawr yn prysur esgyn.
Gwalchmai yn galw sydd; mewn cân, mewn rhyfel astrus
Wasgara, megys llew, y gelyn hyf arswydus.
Drwy gydol noswaith hir, y saif y Bardd a'r Gwron,
Wrth greigiau'r Freiddin fawr, ar wyliadwriaeth eon;
Lle y murmura pêr afonydd claer eu dyfroedd,
A'r glaswellt gwlithog sy'n addurno y mynyddoedd;
Lle chwery'r wylan gain yn brydferth yn yr awel,
Gan chwyfio'i harddwych blu yn yr awyrgylch dawel.

Rainaldus iarll Warin a ddaliai Meverlei yn yr un dull ag y delid pobpeth yn y parthau hyn, oddiwrth y prif arglwydd, Roger iarll yr Amwythig. Yn

* Wedi marw; ei ferch a'i etifeddes a briododd y parch. Mr. Wingfield, ficer Rhiwabon. Gol.

† Dernyn a gadwyd yn *Dissertatio de Bardis* gan y parchedig Evan Evans, tudal. 82. Y gwron ydoedd o deulu Trefeilir yn Môn.

Digitized by Google

amser y Cyffeswr yr oedd yn cael ei ddal gan un o'r enw Edric. Yn fuan ar ol y Congcwest daeth i feddiant y Fitz-alans, hyd y 9fed o'r frenines Elisabeth; pryd y trosglwyddwyd ef, gan Henry iarll Arundel, i Thomas Younge, archesgob Caerefrog; yr hwn a'i gwerthodd i ——— Willaston.*

Gerllaw ffrwd fechan, gadael sir Drefaldwyn, a myned i mewn i

# SIR YR AMWYTHIG.

*Castell Wattleburg.*] Ymweled, ychydig ar y ddehau, â chastell *Wattleburg*, tŷ hynafol gyda thŵr ysgwâr o amser llawer mwy hynafol. Saif ar y ffordd Rufeinig o Llanrhaiadr yn Mochnant.† Tybia Mr. William Mytton y gallai y lle fod yn orsaf o eiddo mintai o'r Vandaliaid, y rhai a anfonasid i Frydain gan yr ymerawdwr Probus; ac fod y gair wedi ei lygru o Vandlesburgh, enw a roddwyd iddo gan y Sacsoniaid; trwy fod caerfa o'r un enw yn sir Lincoln, ac wedi tarddu, fel y bernir, oddiwrth yr un achos. Ar adeg y Gorchfygiad, Edric oedd mewn meddiant o hono. Robert Corbet, pendefig Normanaidd, a'i holynodd. Wedi hyny rhoddwyd ef i fab ieuengach o'r Corbets o gastell Caux. Parhaodd yn hir yn y teulu hwnw. O'r diwedd syrthiodd i linach Gwenwynwyn, arglwydd Powys, a'i ddisgynydd ef, a elwid Fulk Mawddwy, a fu farw mewn meddiant o hono, ond heb blant, yn yr ail o Harri V. Syr Hugh de Burgh a ddylynodd, yn rhinwedd ei briodas âg Elizabeth, chwaer i Fulk. Trwy briodas Angharad, un o bedair wyres De Burgh, aeth yn eiddo i'r Leightons; ac y mae yn bresenol yn meddiant eu holynydd, Syr Charlton Leighton,‡ barwniad.

*Neuadd Loton.*] Ychydig yn mhellach yn mlaen y mae *Loton*, preswylfod y teulu; yr hwn sydd o darddiad Sacsonaidd, a chymer ei enw oddiwrth Leighton, plwyf yn y sir hon. Heb fod yn mhell oddiwrth y *Alberbury.*] tŷ y mae gweddillion hen balas neu gastell *Alberbury;* bychan, ond cadarn iawn: y mae tŵr ysgwâr, a rhai muriau, o hyd yn aros. Leland a ddywed, ei fod yn gastell i Fulk Fitzwarine (i dad yr hwn, Guarine de Metz, pendefig o Loraine, yr oedd Gwilym y Gorchfygwr wedi *Mynachlog.*] rhoddi y faenor hon,) sylfaenydd mynachlog Alberbury, yr hon a safai ychydig o ffordd oddiyma, ar lanau yr Hafren. Sylfaenwyd hi yn amser Harri I., ac yr oedd yn gell o eiddo y Benedictiaid o Grammont yn Ffraingc. Trwy ei bod yn fynachlog dramoraidd, Henry Chichley, archesgob Caergaint, a erfyniodd ei chael gan Harri VI. tuag at waddoli ei goleg newydd, yr Holl Eneidiau;§ i ba un y mae byth er hyny wedi bod yn perthyn, ynghyda rhoddiant y ficeriaeth. Gelwid y ty crefyddol hwn hefyd yn Album Monasterium,‖ neu y Fynachlog Wen.

*Routon.*] Ychydig i'r dwyrain o Alberbury y mae *Routon*, preswylfod y Listers, teulu ag sydd wedi preswylio yma er's hir amser. Yn flaenorol i'w sefydliad hwy, perthynai i'r arglwyddi Strange o Knockin, lle y buasai

* Harleian MSS. Yr oedd y Warin a grybwyllir yma o wahanol rywogaeth i deulu y Fitzwarens.

† Gwel tudal. 456 o'r gwaith hwn. ‡ Yn bresenol (1809) Syr Robert Leighton. Gol.

§ Godwin Præsul. Angl. 181. ‖ Leland Itin. v. 89.

Digitized by Google

castell; yr hwn a ddinystriwyd yn 1266 gan y tywysog Llewelyn ap Gruffydd; ond ail-adeiladwyd ef yn fuan wedi hyny gan John arglwydd Strange.* Yn agos i'r llecyn yma y tybir fod y *Rutunium* Rhufeinig yn sefyll; ond nid oes dim olion o honi i'w gweled. Y mae yr enw diweddar yn cadw i fyny ran o'r hen

Oddiyma troais tuag at yr Hafren; ac ar fryn uchel uwchlaw yr afon, yn *Shrawardine* Leiaf, gwelais fryncyn celfyddydol anferth, ar ba un yn flaenorol y safai rhyw gastellyn. O'r lle hwn disgynais i'r Hafren, ac wedi croesi yr afon, y pryd hyn yn rhydiadwy, ymwelais â chastell a phentref *Shrawardine* Fwyaf, yr hwn a saif ar y làn gyferbyniol. Rainaldus a'i daliai ar adeg y Gorchfygiad. Aeth wedi hyny i feddiant y Fitzalans, a pharhaodd am lawer o ganrifoedd yn eu teulu hwy; oddieithr am ychydig amser, ar euogfarniad Edmund iarll Arundel, yn nheyrnasiad Rhisiart II., pan y rhoddwyd ef i Roger de Mortimer, iarll March; a thrachefn, yn yr un teyrnasiad, pan y caniatâwyd ef i William iarll Wiltshire, ar ol dienyddiad creulon Rhisiart iarll Arundel. Ond yn y teyrnasiad nesaf, cafodd ei gollfarniad ei ddadwneyd, ac adferwyd ei etifeddiaethau i'w fab. Henry, yr iarll diweddaf o'r teulu, a'i gwerthodd i Syr Thomas Bromley, arglwydd ganghellydd Lloegr; yr hwn, yn 1582, gyda thrwydded y frenines, a'i sefydlodd ar Syr George Bromley, marchog, a'i etifeddion. Yr oedd efe o dylwyth hynafol yn y sir hon. John, un o'i hynafiaid, a feddiannai yspytty Molay Bacon, yn sir Bayeux, yn Ffraingc, trwy iddi gael ei rhoddi iddo gan Harri V. ar yr achlysur o'r hyn a elwid yn wrthryfel Alan de Beaumont, y cynfeddiannydd. Yr oedd John, a'i ddisgynyddion cyfreithlawn, i'w dal hi gan y goron ar yr amod o wneyd gwarogaeth, ac anrhegu y brenin a'i olynwyr â gwregys, yn nghastell Bayeux, bob blwyddyn, ar wyl St. Ioan Fedyddiwr.† Trwy ganiatâd arall o eiddo ei gâr Hugh de Stafford, arglwydd Bourghchier, efe a gafodd ddeugain punt yn y flwyddyn, yn ystod ei fywyd, i'w talu o'i diroedd yn siroedd Stafford a Warwick, am ei ymddygiad gwrol mewn ysgarmes gerllaw Corbie, yn Normandy, pryd yr achubodd faner freninol Guienne,‡ yr hon a ymddiriedasid i Hugh de Stafford. Amserir y caniatâd o Madely, ar y 10fed o Fawrth, yn y bedwaredd flwyddyn i Harri V.

*Shrawardine.*

*Castell.* Nid oes ond tri neu bedwar o ddarnau o'r castell yn aros. Ni fu erioed yn un eang; safai ar fryncyn isel, ac yr oedd yn amddifad o weithydd allanol. Cafodd meddiant o'r castell, ac o'r etifeddiaethau a berthynent iddo, eu gwerthu ychydig flynyddau yn ol i arglwydd Clive.

Y mae yr afon, o gymydogaeth Shrawardine, yn dechreu dyfod yn dra phrydferth. Ymddyrchafa y glenydd, ac yn fynych gwisgir hwy â choedydd hongiauol. Mewn manau, enciliant oddiwrth ymyl y sianel, a gadawant lecyn gwyrddlas o ddoldir cydrhyngddynt â hi.

Ail-groesi yr afon, a myned trwy bentref Forde. Gadael Dintle ar y ddehau, eiddo Leighton Delamore Griffith, ysw.; ac *Onslow*, eiddo Rowland Wingfield, ysw. Yr olaf a ddyry enw i deulu pendefigaidd yr

*Onslow.*

* Dugdale Baron. i. 665.

† Herald's Visitation of Shropshire, 1584, &c, in Halston library, p 44.

‡ Yr unrhyw.

Digitized by Google

Onslows, yr hwn a ymsefydlodd yma mor foreu ag amser Harri III. Ar yr

*Montford.*

ochr ogleddol i'r afon, ar lân hyfryd, y saif eglwys a phentref *Montford;* y rhai a roddasant deitl, yn 1741, i Henry Bromley, ysw. Ychydig ymhellach y mae pont Montford, yr hon a gynwys bedwar bwa. Buasai un yn y lle hwn cyn y flwyddyn 1291; oblegyd y pryd hwnw darfu i sirydd y sir wysio ysgutorion John de Hegerwas i ymddangos yn y sessiwn, i roddi cyfrif am ba ddefnyddiau a gawsid, a pha swm o arian oedd yn llaw y boneddwr hwnw, yr hwn a fuasai farw cyn gorphen ei hadeiladu. Yn 1374, neu yr 48ain o Iorwerth III., cafwyd ei bod allan o adgyweiriad; yr hyn a barodd i'r brenin ganiatâu *pontage*, neu doll am dair blynedd,* er ei hadgyweirio.

Y mae tref yr Amwythig o fewn pedair milldir o'r lle hwn, braidd mewn llinell uniongyrchol; ond dewisais i yn hytrach ddylyn llwybr yr afon, yn cael fy nhemtio gan brydferthwch eithafol yr olygfa. Croesais bont Montford, troais ar y ddehau, ac aethum dros y Perry, heb fod ymhell uwchlaw ei hymuniad

*Mitton*

â'r Hafren. Saif pentref *Mitton*, hyny ydyw *Middle Town*, neu y Dref ganol, ynghanol y gwddf cul o dir sydd rhwng y ddwy afon. Y mae yr Hafren yn y fan hon yn gwneyd plygiad mawr, a ffurfia, ar yr ochr wrthgyferbyniol, fath o orynys, gyda gwddfdir mor hynod o gul, fel ag i gael ei

*Yr Ynys.*

galw yn *Ynys* yr *Up Rossal*, yn cael ei hamgylchynu gan yr afon am yr cangder o bum' milldir, oddieithr ar y fynedfa i mewn, yr hwn a ffurfia wddf heb fod ond 380 o latheni yn unig o led. Y mae yr ynys yma yn etifeddiaeth o'r fath mwyaf cryno i Humphrey Sandford, ysw.; a gorwedda yn mhlwyf St. Chad. Perthynai y lle yma yn flaenorol i Syr Francis Englefield, marchog, boneddwr zelog dros yr hen grefydd yn amser y Diwygiad, a phrif swyddog oddeutu person y dywysoges Mari, yr hon a fu wedi hyny yn frenines. Ar esgyniad Iorwerth VI. anfonwyd am dano (yn nghydag ereill o'i dylwyth,) gan yr Amddiffynydd a'r cynghor, i'w gwahardd i wrando yr offeren yn nhŷ y dywysoges. Gwrthodasant ufuddhau, a charcharwyd hwy am amryw fisoedd. Ar esgyniad Mari, efe a dderbyniodd y profion cryfaf o'i diolchgarwch am ei ffyddlondeb. Yn y flwyddyn gyntaf o'r teyrnasiad canlynol, efe a adawodd y deyrnas, gyda llaweroedd o benboethiaid ereill, ac a fu yn ddiwyd gyda'r gorchwyl o hyrwyddo achos Mari brenines yr Ysgotiaid. Cafodd ei gollfarnu yn y flwyddyn 1585, a'i holl etifeddiaethau eu fforffedio; ond trwy i ryw anhawsderau cyfreithiol gyfodi, yn 1593 pasiwyd gweithred seneddol newydd, yn cyflawn gadarnhau y flaenaf.† Bu farw Syr Francis yn 1592, yn Valladolid, a'i gorph a gladdwyd yno yn y coleg Seisonig. Yr etifeddiaeth hon

* Hynafiaethau plwyfol sir yr Amwythig, gan Mr. Wm. Mytton, MS. unplyg.—Dymunaf ganiatâd yma i roddi ychydig hanes am fy nheilwng ewythr, i lafur yr hwn yr wyf mor ddyledus. Efe oedd frawd ieuengach o deulu Halston, gwel tud. 150 o'r gwaith hwn. Bwriadesid ef i'r eglwys; ond o achos rhyw olygiadau politicaidd, gwrthododd ddylyn yr alwedigaeth hono. Yna rhoddes ei hun i fyny yn gwbl i astudio hynafiaeth, yn benaf yr eiddo ei sir ei hun; ymgyngherodd â'r holl gofnodau y gallai gael gafael arnynt; a chyda llafur mawr a chywirdeb, ffurfiodd y gyfrol yr wyf yn cyfeirio ati. Ond ymeangodd ei fwriadau i wneyd hanes o'r fath mwyaf cyflawn am sir yr Amwythig: at ba amcan yr oedd wedi gwneyd casgliadau anferth, y rhai a adawodd ar ei ol heb eu trefnu; heblaw casgliad lluosog a cheindlws o luniau cofadeiliau, &c., wedi eu gwneyd gan arlunydd a gadwai i'r dyben hwnw. Rhwystrwyd ef i gyflawni ei amcanion gan angeu. Bu farw ar yr 8fed o Fedi, 1746, yn 51 oed, yn Habberly, hen etifeddiaeth o eiddo ei frawd hynaf, lle yr encilliasai er's blynyddau, i fwynhau, wrth ei hamdden, yr ymarferiad o'i hoffus astudiaeth.

† Ruffhead's Statutes at Large, ii. 653, 676.

Digitized by Google

o'i eiddo a roddwyd gan y frenines Elisabeth i Richard Sandford, ysw., un o swyddogion y goron, a hynafiad i'r perchenog presenol; teulu ag oedd er's hir amser cyn hyny yn meddu etifeddiaethau ereill yn y gymydogaeth.

*Fittes.* ] *Fittes*, eglwys blwyfol Mitton, a saif o fewn ychydig bellder, ar fryn, gyda bryncyn archwiliadol mawr heb fod yn mhell oddiwrthi. O gae, heb fod yn mhell o'r fynwent, y ceir golygfa o'r fath brydferthaf ar yr Hafren, yr hon a orwedda yn mhell draw islaw, yn ngwaelod y glenydd sythion, gorchuddiedig gan goedydd hongianol, neu wedi eu tywyllu gan goed yw o faintioli aruthrol. Gwelir yr afon yn ymnyddu o amgylch yr ynys; ac y mae yr ynys ei hun, llanerch o dir brâs yn gymysg â choed, yn llechweddu yn brydferth hyd fin y dwfr. Y mae ynys hir a chul, yn llawn coed, yn amrywio yr olygfa, trwy ranu yr afon yn ddwy sianel; y rhai a ail-ymunant, ac a redant o dan graig Leighton, clogwyn uchel, yr hwn a ffurfia derfyn ardderchog ar y rhan hono. Uwchlaw y tir sydd o flaen yr olygfa doreithiog hon y mae niferi afrifed o fynyddoedd o wahanol ffurfiau; y cwbl gyda'u gilydd yn ffurfio yr olygfa brydferthaf ag y dichon y wlad hon ymffrostio ynddi.

Tra yn marchogaeth yn mlaen, aethum heibio i Berwick uchaf ac isaf; un yn breswylfod ——— Betton, ysw., y llall yn eiddo Thomas Powis, ysw., y ddau

*Tref yr Amwythig.* ] le yn meddu golygfeydd o'r fath hyfrytaf ar yr afon a thref yr *Amwythig*. Y mae y ddau le yn mhlwyf St. Mair yn yr Amwythig. Aethum i mewn i'r dref trwy Borth y Gogledd; yr hwn, er mwyn mwy o ddyogelwch, mewn gwirionedd a gynwysa ddau o byrth, mewn ychydig bellder y naill oddiwrth y llall, gyda thŵr crwn ar bob ochr.

*Castell.* ] Saif y castell ar godiad tir ar yr aswy. Nid oes ond un rhan, gyda dau dŵr crwn, yn aros, a muriau yr ochrau gogleddol a dwyreiniol. Safai y brif amddiffynfa *(keep)* ar fryn celfyddydol mawr; yr hyn a ddengys fod y castell hwn o ddechreuad Sacsonaidd neu Brydeinig, er y priodolir y sylfaeniad i iarll mawr yr Amwythig, Roger de Montgomery. Y mae y tu fewn yn glir oddiwrth adeiladau, oddieithr un tŷ. Holl fuarth y castell sydd yn ardd; ac nid yw y bryncyn yn bresenol yn hynod am ddim ond am yr olygfa hardd a geir oddiarno.

Saif tref yr Amwythig oddi fewn i orynys, gyda'r tir yn llechweddu yn brydferth, yn y rhan fwyaf o leoedd, at yr afon. Sylfaenwyd y castell yn hynod o ddoeth ar wddfdir cul, dau can' llath o led, yr hyn a'i cysyllta â'r tir

*Ei sylfaenu gan Roger de Montgomery.* ] cylchynol. *Roger de Montgomery*, i'r hwn y rhoddwyd braidd yr holl sir gan Wilym Orchfygwr, heblaw cant a deunaw a deugain o faenorau mewn parthau ereill o'r deyrnas, a wnaeth y lle yma yn brif breswylfod iddo ei hun. I'r dyben o helaethu ei amddiffynfeydd, efe a chwalodd un a deugain o dai; oblegyd yr oedd y parth yma o'r dref, y pryd hwnw, yn dra phoblogaidd. Yr oedd y tai hyn yn talu trethi; eto ni wnaed dim ad-daliad i'r meddiannwyr, er cymaint oedd eu colled. Y cwnstabl cyntaf ydoedd Warine Foel, dyn o daldra bychan, ond o wroldeb mawr. Parhaodd y lle hwn yn meddiant dau fab Roger de Montgomery; Hugh, yr hwn a laddwyd yn Ynys Fôn, a'r anghenfil hwnw o greulondeb,* Robert, yr hwn a gyfenwid *de Belesme;* a'r hwn, ar ol

* See Dugdale's Baron. i. 31.



Digitized by Google

amryw ymdrechion, o'r diwedd a orfyddwyd i roddi i fyny y lle hwn, ei ragorfreintiau, a'i holl feddiannau galluog, i ddwylaw ei benadur cyfreithlon, Harri I. Mor fuan ag y daeth yn amddiffynfa freninol, y tiroedd a'r etifeddiaethau perthynol iddi a ranwyd yn fân diriogaethau er ei hamddiffyn. Fel hyn yr oedd Robert, mab Adam de Leyton, dan orfod i aros yn y castell hwn am bymtheng niwrnod, *cum una balista* (gydag un bwa croes;) a William de Wichard a ddaliai faenor Cold Hatton, i gadw gwyliadwriaeth yn y castell hwn, ar ei draul ei hun, am ugain diwrnod, yn amser rhyfel, *cum uno equo, lorica, capello ferreo, et lancea.** Y llywyddion oeddynt yn gyffredin yn ddynion o'r galluoedd uchaf; ac yn dra mynych traddodid y lle i ofal sirydd y sir. Wedi ei wneuthur yn anamddiffynadwy yn amser y rhyfeloedd cartrefol, rhoddwyd ef gan Siarll II. i Francis is-iarll Casnewydd, wedi hyny iarll Bradford. Yn ein hamser ni cafodd ei drosglwyddo i ddwylaw Pulteney iarll Caerbaddon, ac y mae yn awr yn nwylaw William Pulteney, ysw.†

*Muriau.* Yr ymgais gyntaf a wnaed at adeiladu muriau y dref hon ydoedd eiddo Robert Belesme; yr hwn, i'r dyben o'i hamddiffyn rhag milwyr y brenin, y pryd hyny yn ymdaith yn ei erbyn, a adeiladodd fur o bob ochr i'r castell, ar draws y gwddfdir hyd làn y dwfr. Y mae un o'r ddau yn aros eto, ac fel yr hysbyswyd fi, terfynai gyda thŵr ysgwâr: y mae y ddau fur ar gael yn y plan a wnaed o'r dref gan Speed. Ni amddiffynid y dref gan furiau hyd y flwyddyn 1219; pan y darfu i Harri III. anog y trigolion yn gryf i barotôi rhyw fath o amddiffyniad yn erbyn gelyn. Ar y cyntaf efe a ganiataodd iddynt amrywiol dollau bychain; ond o'r diwedd wrth gael nad oedd hyny yn ddigon, bu gorfod iddo eu cynorthwyo: eithr araf iawn yr oedd y gwaith yn myned yn mlaen, fel na chwblhawyd hwy mewn llai na deuddeng mlynedd ar hugain. Cafodd y dref ei phalmantu yn y teyrnasiad nesaf, trwy gymhorth rhyw dollau a ganiatesid at y pwrpas hwnw.

Braidd yn mhob parth, yr oedd y muriau cyntefig mewn pellder oddiwrth yr afon. Y mae y rhai ar du y de-ddwyrain yn cael eu cadw mewn adgyweiriad da, a ffurfiant rodfeydd hyfryd, oni buasai yr anghyfleustra a bair y mynych risiau. Y rhai ar du y gogledd-orllewin ydynt wedi eu llwyr guddio gan dai. O dan y rhai hyn y mae cae cul, yn ymestyn o'r Ysgol i'r Bont Gymreig; ar hyd ymyl yr hwn, yn agos i'r afon, yn 1645, yr oedd mur arall wedi ei adeiladu, a elwid mur *Rowshill;* defnyddiau yr hwn y dywedir iddynt gael eu dwyn o gastell Shrawardine.

*Mur Rowshill.*

Y mae llawer o dystiolaethau hanesyddol yn mherthynas i hynafiaeth y dref. Yr oedd wedi bod, am oesoedd lawer, yn brifddinas gwlad Bowys, ac yn breswylfod y tywysogion. Dywedir fod gan Brochwel Ysgithrog, yr hwn oedd yn byw oddeutu y flwyddyn 607, ei balas ar y fan lle y mae eglwys St. Chad yn sefyll yn bresenol.‡ Galwai y Cymry ef yn Bengwern; ac Ymwythig, neu Hyfrydwch, ein tywysogion fel y tybiaf. Nid yw y cyfnod yn mha un y cododd y dref, yn hysbys hyd sicrwydd; ond tybir ei bod

*Y Dref.*

* "Gydag un march, llurig, cap haiarn, a phicell."

† Crewyd ef yn farwnig: ar farwolaeth ei unig ferch a'i etifeddes, Laura is-iarlles Caerbaddon yn 1808, daeth yr eiddo mawr yn yr Amwythig i feddiant iarll Darlington. Gol.

‡ Powel, 22.

Digitized by Google

ar adfeilion yr *Uriconium* Rhufeinig, *Vreken Ceaster* y Sacsoniaid, a'r ddiweddar *Wroxeter*, pentref bychan, oddeutu pedair milldir oddiyma, ar yr Hafren; yn mha le y gellir gweled hyd heddyw ddarn mawr o'r mur hynafol.

*Yn amser y Sacsoniaid.* Yn amser Iorwerth y Cyffeswr, yr oedd *Scrobbes Byrig*, fel y galwai y Sacsoniaid ef, yn lle o gryn faintioli. Yn yr adeg hono yr oedd yno ddau cant a deuddeg a deugain o dai, a thalai y bwrdeisiaid yn flynyddol 7*l.* 16*s.* 8*d.* mewn cyllid. Pa bryd bynag y byddai y brenin yn y dref, yr oedd deuddeg o'r prif breswylwyr i gadw gwyliadwriaeth o gylch ei berson; ac os deuai yno i hela, byddai y math oreu o'r bwrdeisiaid, y rhai a feddent geffylau, yn marchogaeth yn arfog fel gwyliadwriaeth iddo, ac anfonai y sirydd un ar bymtheg ar hugain o draed-filwyr er eu cefnogi, tra y byddai y brenin yn aros yn eu plith. Pan fyddai y brenin yn gadael y dref, byddai y sirydd yn anfon pedwar ar hugain o geffylau i Lenteurde, i'w arwain i'r orsaf gyntaf yn swydd Stafford.

Pan elai y sirydd yn erbyn y Cymry, yr hyn y byddai ganddo achlysur i'w wneyd yn fynych, yr oedd yn arferol iddo wysio un ar bymtheg ar hugain o ddynion yn mharc Marsetely, i roddi eu gwasanaeth am wyth niwrnod. Y rhai a esgeulusent wneyd hyny, a ddirwyid i ddeugain swllt.

Yr oedd gan y brenin dri o feistri y bathdy yn y lle hwn, y rhai, fel y bathwyr ereill yn y sir, oeddynt dan rwymedigaeth i dalu iddo ugain swllt yn niwedd y pymtheng niwrnod, tra yr oedd yr arian allan o'r bathdy, a thra yr oeddynt yn cylchredeg. Talai y dref o gwbl ugain punt yn flynyddol: yr oedd y brenin yn cael dwy ran, a'r sirydd un. Mor fuan ag y dechreuodd teyrnasiad y Normaniaid, talai i'w hiarll newydd ddeugain punt.

*Siartrau.* Y siartr cyntaf sydd ar gael (canys y mae un Harri I. ar goll) ydyw un 1189, gan Rhisiart I. Y mae yn cadarnhau ei holl hen arferion a'i rhagorfreintiau; am yr hyn yr oedd y dref i dalu deuddeg *mark* mewn arian, yn cynwys deg at y dyben o ddarparu pâr o geffylau hela at wasanaeth y brenin. Y mae hefyd yn caniatâu i'r bwrdeisiaid y dref a'i holl berthynolion, y rhai y gafaelasid ynddynt gan Harri I. ar ffoffetiad yr iarll Robert. Y brenin Ioan, yn 1199, a helaethodd eu siartr, gan ganiatâu i'r dinasyddion ddewis dau o bersonau sylweddol a chall o'u plith eu hunain fel isfaerod i lywodraethu y dref; ac fod i'r cynghor cyffredin ddewis pedwar ereill, i benderfynu holl ddadleuon y goron yn y gorphoraeth, ac i fod yn atalfa ar yr isfaerod eu hunain. Cafodd amrywiol siartrau ereill, gyda rhagorfreintiau ychwanegol, eu caniatâu gan dywysogion dylynol, hyd nes y darfu i'r frenines Elisabeth ei gwneyd yn gorphoraeth, a darfu i Siarl I. gadarnhau ac ychwanegu at ei siartr freninol. Cynwysa yn bresenol faer, pedwar ar hugain o henaduriaid, ac wyth a deugain o gynorthwywyr, y rhai a elwir hefyd yn gynghor cyffredin. Perthyna iddynt hefyd gofiadur; dau o ystafellyddion, y rhai a ddewisir yn flynyddol gan y maer, yr henuriaid, a'r cynorthwywyr; goruchwyliwr, cleddyf-ddygiedydd, a thri o *sergeants at mace.*

Yr oedd y dref hon yn anfon aelodau (i'r senedd) o'r dechreuad. Gorweddai yr hawl i bleidleisio yn y bwrdeisiaid a breswylient yn y dref, ac a gyfranent at yr eglwys a'r tylodion, yn unol â phenderfyniad y tŷ yn 1709; ond yn 1714, penderfynwyd fod bwrdeisiaid tramor i feddu hawl i bleidleisio.

Digitized by Google

Nid oes yn y dref hon law-weithfa ag sydd yn ddigon eang i deilyngu sylw; ond y mae yn derbyn elw mawr oddiwrth y rhai yn sir Drefaldwyn. Dyma lle y mae y brif farchnadfa iddynt. Y mae oddeutu 700,000 o latheni o webiau Cymreig, math o frethyn gwlan brâs, yn cael eu dwyn yma yn flynyddol i'r farchnad ar ddydd Iau; prynir ef, a thriuir ef, hyny yw, codir y gwlan ar un ochr, gan ddosbarth o bobl a elwid *Shearmen*. Ar yr adeg yma nid oedd ond deugain ar waith; ond yn amser y frenines Elisabeth yr oedd y fasnach mor eang, fel nad oedd dim llai na chwe' chant* yn cynal eu hunain trwy yr alwedigaeth hon. Anfonir y brethyn yn benaf i America, i ddiladu y Negroaid; neu i Flanders, lle y defnyddir ef gan y werinos.

Gwlaneni, rhai brâs a main, a ddygir bob dydd Llun (oddieithr pan y mae ffeiriau yn cyfryngu) i'r Trallwng; a defnyddir hwy gan mwyaf yn Lloegr, hyd y swm o 7 neu 800,000 o latheni. Y mae brethynwyr yr Amwythig yn myned i bob marchnad yn y Trallwng er mwyn y fasnach hon.

*Heolydd.* ] Y mae trefniad yr heolydd yn yr Amwythig yn dra afreolaidd, megys ag y maent yn mhob hen drefydd nad ydynt o darddiad Rhufeinig. Llawer o'r adeiladau ydynt hen; ond y mae yr adeiladau diweddar yn gyffredinol wedi eu gwasgaru mewn amrywiol fanau.

*Ysgol Rydd* ] Saif yr ysgol rydd gerllaw y castell, mewn heol lydan brydferth. Sylfaenwyd hi gan Iorwerth VI. yn 1552; yr hwn a'i gwaddolodd â degymau, ar y pryd yn cyrhaedd i 20*l.* 8*s.*, ac awdurdododd yr isfaerod, y bwrdeisiaid, a'u holynwyr, i apwyntio un ysgolfeistr, ac un is-ysgolfeistr; a chyda chydsyniad esgob Lichfield, yr oeddynt i ffurfio rheolau er ei llywodraethu. Y frenines Elisabeth a ychwanegodd gryn lawer at y gwaddoliadau, fel y mae y cyllidau yn bresenol yn fawr iawn. Yr oedd yr adeilad ar y cyntaf o goed; ond yn 1595, cyfododd adeilad brydferth ac eang o faen yn ei lle, yr hon a gynwysa yr ysgol, tai i'r meistriaid, a llyfrgell yn llawn o gasgliad gwerthfawr o lyfrau, ac amryw gywreinion; yn mhlith y rhai y mae tair o geryg beddrodol mawrion, y rhai a ddarganfyddwyd wrth aredig yn Wroxeter.

Y mae gan y gyntaf, ar ei chopa, gonyn y pinwydd rhwng dau lew, ac o dan y talcen sydd yn taflu allan, rhosyn. Y mae y blaenaf wedi ei gymeryd oddiwrth y *Picea*, yr hyn a eilw Pliny yn Feralis Arbor,† yn arddangosiadol o'r pwngc pruddglwyfus, ac heb fod yn anfynych ar feddadeiladau o'r math yma. Y cyfryw ydoedd y conyn prês mawr, pum' llath o uchder, a safai ar dop beddadail Adrian, yn awr castell St. Angelo, yr hwn a gedwir o hyd yn ngardd y Belvedere.‡ Dynoda y cerfiad farwolaeth C. MANNIVS SECUNDUS, o dref Pollentia, a *Beneficiarius* (neu hen filwr) yn yr ugeinfed leng, yr hwn a wasanaethasai ei amser, ac a alwyd drachefn i'r gwasanaeth gan erfyniadau un o'r prif genadwyr

Ar y rhan uchaf o'r ail gareg y mae gwyneb dynol, dau ddolphin, a dwy sarph. Oddi tanodd y mae tri o banelau. Yn y cyntaf yr adgofir, gan ei gwr, am


* Anderson's Dict. i. 405.

† Picea—Feralis Arbor, et funebri indicio ad fores posita, ac rogis virens. Hist. Nat. lib. xvi. c. 18. "Y pren marwol—yr hwn a osodir yn y fynedfa i mewn fel rhybudd angladdol, ac a dyf yn wyrdd ar y beddau."

‡ Flaminius Vacca, in Montfaucon's Travel's, Engl. ed. 233. Wright's Travels, i. 273.

Digitized by Google

Digitized by Google



*YR HEN BONT GYMREIG YN YR AMWYTHIG.*

**OLD WELCH BRIDGE AT SHREWSBURY.**

Digitized by Google

*Placida*, pymtheng mlwydd a deugain oed, a deng mlynedd ar hugain yn wraig iddo ef. Yn y nesaf y mae cerfiad am *Deuccus*, bachgen pymtheg oed, mab i'r un person: *Curam agente patre.** Y mae y trydydd panel yn wag; felly y mae yn bosibl (fel yr awgrymwyd i mi gan gyfaill tra chywrain) fod y dyn a gododd y gofadail hon, wedi bwriadu cael ei gladdu yn yr un lle, gyda'i wraig a'i fab; ond iddo farw yn rhywle arall, ac felly fod y panel hwn heb ei lenwi.

Y mae y drydedd gareg wedi ei cherfio i *M. Petronius*, baner-ddygiedydd i'r bedwaredd ar ddeg lleng ddwbl; lleng yn mha un yr oedd dwy wedi eu gwneyd yn un. Gan na fu y lleng yma erioed yn Mhrydain, y mae y dysgedig Dr. Ward† yn tybio, na ddarfu i Petronius ond dyfod yma er mwyn iechyd, ac iddo farw yma.

Y mae cynllun prydferth o dwymystafell, wedi ei wneyd o goed, yr hwn a ddarganfyddwyd yn yr un man a'r ceryg, yn nghadw yma hefyd.

*Adeiladau Cyhoeddus.*] Nid yw adeiladau cyhoeddus y dref hon yn ddigon pwysig i gael eu crybwyll. Yn mysg gwestdai y gwŷr mawrion yn yr amser gynt, yr oedd *Charlton-house*, yn awr yn chwareudy, preswylfod y *Charltons*, arglwyddi Powys. Dichon fod hwn wedi ei sylfaenu gan John de Charlton yn 1326, pan y darfu iddo ei amgaeru trwy ganiatâd Iorwerth II.‡ *Vaughan-place* sydd dŷ hynafol arall, eiddo John Mytton, o Halston, ysw., yr hwn a gafodd trwy briodas ei hynafiad Reginald Mytton, oddeutu y flwyddyn 1376, gydag Elinor, cwbl etifeddes Haymon, mab i Syr Thomas Vaughan§ o'r dref hon.

*Yspytty.*] Yr oedd yr yspytty, neu yr *infirmary*, yn dŷ preifat o fewn fy nghof i. Agorwyd ef Ebrill 25ain, 1747. Er yr amser hwnw hyd Fehefin 24ain, 1782, derbyniasid—

14,040 o gleifion mewnol; o ba rai
8,453 a iachawyd,
1,459 a gynorthwywyd.
17,693 o gleifion allanol; o ba rai
13,234 a iachawyd,
864 a gynorthwywyd.

Y tanysgrifiad blynyddol am y flwyddyn ddiweddaf ydoedd 900*l*.‖

*Y Bont Gymreig.*] Y mae dwy o bontydd yn cysylltu yr orynys hon â'r wlad. Y Bont Gymreig sydd yn adeilad dra hynafol, o chwe bwa; gyda phorth¶ murfylchog tra phrydferth ar un pen. Ar bob ochr y mae tŵr

* "Rhyw gofarwydd gan dad gofidus."

† Gwel ei hanes am y tair careg yma yn y *Ph. Tr.* xlix. part i. 196.

‡ Philips. 145. § Mytton Pedigree.

‖ O 1747 hyd Wylifan 1804, derbyniasid—

| | |
|---|---|
| 24,363 o gleifion mewnol; o ba rai | 29,694 o gleifion allanol; o ba rai |
| 13,559 a iachawyd, | 21,697 a iachawyd, |
| 2,605 a gynorthwywyd. | 2,606 a gynorthwywyd. |

Derbyniadau am y flwyddyn oeddynt 1683*l*. 0*s*. 2½*d*. Gol. (Account of Shrewsbury, p. 332.)

¶ "Cafodd yr hen bont brydferth a chywrain yma," medd awdwr *Account and State of Shrewsbury*, p. 63, "ei chwalu trwy orchymyn y gorphoraeth yn 1791, er gofid i bob dyn o chwaeth. Dinystr y grogbont a ddylynodd yn dra buan." Cwblhawyd y bont Gymreig newydd, yr hon a gynwys bum' bwa, yn 1795. Gol.

crwn, ac uwchben y fynedfa i mewn y mae cerfddelw o dywysog mewn arfwisg, yr hwn y tybir yn gyffredin ei fod wedi ei fwriadu am Rhisiart iarll Caerefrog; oblegyd y mae dan ei draed ysbrigyn o rosyn, arwyddlun cyffredin ar seliau y tywysog mawr hwnw.* Dichon fod hon yn dref a fawr hoffid gan y Plantagenets; oblegyd cafodd Elisabeth, brenines Iorwerth IV., noddfa yma tra yr oedd ei gŵr yn ymladd am y goron; ac yma y ganwyd ei hail fab, Rhisiart duc Caerefrog, a'i thrydydd, Sior duc Bedford.† Nid dyma y lle y bwriedid i'r ddelw fod ar y dechreu; cafodd ei gosod yma ar ol cael ei symud o le arall yn 1695.‡ Ymhen Cymreig y bont, safai yn yr hen amser, dŵr arall o gadernid mawr, i wrthsefyll anrheithiadau fy nghydwladwyr.

Ar fryn uwchlaw Ffrankwel, maesdref tu hwnt i'r bont, y saif *yspytty Millington*, adeilad hardd o briddfeini, wedi ei sefydlu yn 1734, trwy gymunrodd Mr. James Millington o'r dref hon, brethynwr. Y mae yn cynal deuddeg o rai tylodion yn cadw tai yn Ffrankwel (personau sengl), ac ysgol elusenol i ugain o fechgyn ac ugain o enethod o'r un parth, os gellir eu cael yno: os na ellir, y maent i'w cymeryd o'r rhan agosaf o blwyf St. Chad: yno i gael eu haddysgu, a'u cymhwyso at alwedigaethau cyfaddas i'w hamgylchiadau; fod gweddiau i gael eu darllen yn rheolaidd, fore a hwyr, ar ddyddiau ysgol (am yr hyn yr oedd y caplan i gael ugain punt yn y flwyddyn); ac yn olaf, fod iddynt gael eu dilladu yn weddus ddwywaith yn y flwyddyn. Y mae y tylodion sydd yn dal tai i dderbyn 3*l.* 10*s.* bob un yn y flwyddyn, llwyth o lo, a chôt, neu own newydd, bob blwyddyn. Y mae y tlodion hyn pan fyddo lle gwag, i gael eu hethol allan o ddeg ereill, yn meddu y cymhwysder priodol; y rhai, hyd eu hetholiad, ydynt i dderbyn, yn flynyddol, gôt neu own newydd bob un. Heblaw hyny, Mr. Millington a sefydlodd, yn ngholeg Magdalen, ddwy o arddangosiadau o ddeugain punt yn y flwyddyn i ddau ysgolor, i gael eu hethol o'i ysgol ramadegol ef; a phan mewn urddau, y mae un o honynt i gael ei ethol yn gaplan yr ysgol, yn lle y clerigwr a ddygwyddo fod heb ei gymhwyso felly, yr hwn, yn yr achos hwnw, a raid roddi ei swydd i fyny. Yr oedd y sylfaenydd yn eglwyswr trwyadl; oblegyd y mae pob anghydffurfwyr, a phob personau heb fod yn iach yn y ffydd, i gael eu cau allan.


*Pont Newydd.*] Y mae y bont newydd ar yr ochr ddwyreiniol i'r dref, ac y mae yn adeilad dra phrydferth, o saith bwa. Dechreuwyd hi yn 1769, ac adeiladwyd hi trwy danysgrifiadau, o dan arolygiad Mr. Gwyn, adeiladydd, a brodor o'r Amwythig. Yr oedd hon yn olynu hen bont gul ac anghyfleus, gyda'r rhwystr arferol, porth. Cynwysai, yn amser Leland, bedwar bwa, heblaw y grogbont.§ Gelwid hi gynt, y Bont ddwyreiniol, a'r Bont faen.

*Mynachlog.*] Heb fod yn mhell oddiyma, ar ochr yr afon, y safai mynachlog fawr feitrog St. Pedr a St. Paul, yr hon a sylfaenwyd yn 1033, gan Roger iarll yr Amwythig, a'i iarlles Adelissa. Yr oedd wedi ei hadeiladu ar safle eglwys o goed, yr hon a godasid gan Siward, a'r hwn a'i cyfnewidiodd, ac efallai y tir amgylchynol, gyda'r iarll am bentref Langafielda; yr hwn y darfu i Siward, ar ei farwolaeth, ei gymunroddi i'r sefydliad newydd. Poblogid hi â mynachod Benedictaidd o Seez, yn Normandy, yr rhai a gyrhaeddasant

* Sandford's Geneal. p. 386, tab. 374. † Yr unrhyw, pp. 415, 417. ‡ Philips, 148.
§ Leland, Itin. iv. 99.

Digitized by Google

Digitized by Google



ORATORY AT SHREWSBURY.

*PWLPUD YN YR AMWYTHIG.*

Digitized by Google

yno yn newynog ac yn noethion. Roger ei hun, trwy ganiatâd ei arglwyddes, a eilliwyd, ac a ddaeth yn fynach yn ei fynachlog ei hun, ac a'i cyfoethogodd â chôt St. Hugh, o fynachlog Cluni; yr hon a wisgai ei hunan ar brydiau fel crair o'r fath werthfawrocaf. Gwaddolodd y tŷ yn helaeth, ac anogodd bawb ereill i wneyd yr un modd. Yn mysg yr ol-waddoliadau, yr wyf yn gwenu wrth fod y dynion da hyn yn derbyn gan yr iarll Hugh y degwm o'r holl gig ceirw yn sir yr Amwythig, oddigerth y rhai yn nghoedwigoedd Wenlock. Bu farw y sylfaenydd yn 1094, a chladdwyd ef yma, a'r un modd ei fab Hugh, yr hwn a laddwyd yn Ynys Fôn. Fulcheredus, dyn o hyawdledd mawr, ydoedd yr abad cyntaf. Robert, y pedwerydd abad, yr hwn y mae Mr. William M..ton yn ei alw Pennant, trwy drafferth fawr, fel y soniais yn barod,* a gyfoethogodd y fynachlog â gweddillion St. Gwenfrewi, ac a wnaeth grair o honynt, yr hyn a ychwanegodd yn ddirfawr at gyfoeth ei dŷ. William Beauchamp, iarll Warwick, trwy lythyr cymun a amserwyd Awst 8, 1437, a archodd "fod i bedair o ddelwau aur, pob un yn pwyso ugain pwys o aur, i gael eu gwneyd ar fy nghyffelybiaeth fy hun, gyda'm harfau, ac yn dal angor rhwng ei dwy law," i gael eu hanrhegu i bedair o wahanol eglwysi; un o ba rai ydoedd yr eiddo St. Gwenfrewi yn yr Amwythig.† Yr ydwyf, yn tudal. 37 o'r gwaith hwn, wedi rhoddi hanes am y frawdoliaeth a sefydlwyd yma er anrhydedd i'r santes, oddeutu y flwyddyn 1396. Thomas Butler ydoedd yr abad diweddaf. Ar y dadgorphoriad, cafodd Dr. Lee a Meistr Henly eu hanfon i lawr. Galwasant yr abad a'r mynachod i'r *chapter-house;* parasant i ryw weithredoedd gael eu llaw-nodi gyda sêl gyffredin y tŷ, yna gorchymynasant i swyddog ei thori, a chyhoeddasant fod y fynachlog wedi ei dadgorphori.‡ Caniatâwyd i Butler bensiwn o bedwar ugain punt yn y flwyddyn, a rhoddwyd symau llai i'r mynachod.§ Nid oedd y cyllidau ar adeg y dadgorphoriad, yn ol cyfrif Dugdale, ond 132*l.* 4*s.* 10*d.* Y mae Speed, gyda mwy o debygolrwydd, yn dyweyd eu bod yn 515*l.* 4*s.* 3*d.* Rhoddwyd y safle gan Harri VIII. i Edward Watson, a Henry Herdson.|| Y frenines Elisabeth a wnaeth yr eglwys yn un blwyfol. Gelwid yr eglwys hon yn St. Crux, neu y Groes Sanctaidd, yn mynachlog yr Amwythig, ac y mae o hyd yn dal yr enw.

Yn y fath yspaid o amser, aeth yr eglwys dan gyfnewidiadau mawrion. Y mae rhai o'r bwäau crynion i'w gweled oddi fewn, ac y mae rhai o'r drysau o'r un adeiladwaith; y rhan fwyaf o'r parthau ereill ydynt yn fwy diweddar.¶ Y ffenestr orllewinol sydd yn ddernyn prydferth o'r adeilyddiaeth Gothic big-fain, ac uwch ben y mae cerfddelw. Y mae bedd y sylfaenydd yn cael ei gadw yn yr eglwys; ar ba un y mae ei lun yn cael ei arddangos, mewn arfwisg a mantell, ac yn yr agwedd o dynu ei gleddyf.

Yn yr ardd y mae pwlpud careg o'r fath harddaf, yn agored ar bob ochr. Cyfeiriaf y darllenydd at y darlun fel yr eglurhad goreu.

*Ffrancisiaid.* Yr oedd gan y Mynachod Llwyd, neu y Ffrancisiaid, dŷ ychydig i'r dehau o'r bont newydd, heb fod yn mhell oddiwrth furiau y dref. Sylfaenwyd ef ar gynygiad Hawyse, merch i Owain ap Gruffydd,

* Gwel tudal. 274 o'r gwaith hwn.

† Casgliad Hearne. Ewyllys yr iarll. ‡ Mr. W. Mytton. § Willis, i. 171. || Tanner, 445.

¶ Addurnwyd yr eglwys yn ddiweddar â ffenestr ddwyreiniol brydferth o wydr lliwiedig, rhodd arglwydd Berwick.—Y mae organ, ac ysgrin gothic brydferth, wedi cael eu hychwanegu hefyd, a'r tu fewn i'r adeilad wedi ei gwella yn fawr. GOL.

Digitized by Google

tywysog Powys, a gwraig i John Charleton arglwydd Powys.* Bu Charleton farw yn y flwyddyn 1353; Hawyse o'i flaen, ac a gladdwyd yn y fynachlog hon. Ar y dadgorphoriad rhoddwyd hi i Richard Andrews a Nicholas Temple. Y mae ei gweddilion wedi eu gwneyd i fyny yn dŷ preifat.

*Quarry.*] Ychydig yn mhellach yn mlaen y mae y rhodfa brydferth a elwir y *Quarry*, yn ymylu ar yr afon, ac yn addurnedig â rhesi o goedydd. Eiddo y gorphoraeth ydyw, a gosodir y rhan borfaol o hono i'r preswylwyr, a rhenir yr enillion yn mhlith y bwrdeisiaid. Yn 1569, gosodwyd y tir yma i dri o bersonau am ddeng mlynedd, am y cydnabyddiaeth blynyddol o rosyn coch, ar yr amod iddynt ddwyn dwfr mewn pibelli plwm, mor uchel ag y byddai iddo redeg, at wasanaeth y dref, o Brodwel, yn agos i Crow Meole; yr hyn a gyflawnwyd yn 1579.

*Tŷ yr Amddifaid.*] Ar fryn uchel gyferbyn â'r rhodfeydd hyn, y saif Tŷ yr Amddifaid,† adeilad hardd o briddfeini, gyda thair ar ddeg o ffenestri yn ei ffrynt, a dwy aden fechan. Dechreuwyd ef yn 1670, ac yr oedd wedi ei fwriadu i dderbyn rhan o'r amddifaid di-rieni o'r yspytty mawr yn Llundain. Yr oeddynt yn gyntaf i gael eu dodi allan i'w magu yn y gymydogaeth, a phan y byddent o oed penodol, fod iddynt gael eu dwyn i'r tŷ, a'u haddysgu o dan feistriaid a meistresi priodol yn y cyfryw gelfyddydau ag a'u gwnelai yn aelodau defnyddiol o gymdeithas. Ar ddarfyddiad y brif yspytty, daeth yr adeilad fawr yma yn ddiwasanaeth; ac yn bresenol nid yw yn ddim amgen na lle i gadw carcharorion rhyfel.

*Awstiniaid.*] Tu hwnt i'r *Quarry*, gerllaw yr afon, y safai tŷ y mynachod Awstinaidd. Dywed Leland‡ iddo gael ei sylfaenu gan un o'r *Staffords;* ac fod amryw bersonau o sylw, a laddwyd yn mrwydr yr Amwythig, wedi eu claddu yma, ac yn eglwys y mynachod duon. Yr oedd mynachod y tŷ hwn o dan gymeriad drwg iawn; dywedir fod hyd yn nod un o'r ffyrdd cymydogaethol wedi cymeryd ei henw oddiwrth eu carwriaethau nosawl. Ymddengys fod Dr. Powel yn tybio nad oedd yr *Incubi* nodedig yn ddim amgen na mynachod cardodol; y rhai y dichon eu bod yn cefnogi y dybiaeth, i'r dyben o symud y gwaradwydd oddiarnynt eu hunain, a'u cariadau crefyddol. *Ili*, medd y nodiadur zelog, *Incubi dæmones ita religiosas virgines illis diebus opprimebant, ut nulla eos crucis signatio, nec aqua benedicta, nec ipsum corporis* CHRISTI *sacramentum, abigere valeret.*§

*Dominiciaid.*] Safai tŷ y mynachod duon, neu y *Dominiciaid*, yn agos i Eglwys Fair, Heol y Dwfr. Dywedir fod Rhisiart, bwrdais o'r dref hon, trwy ganiatâd y brenin, wedi adeiladu eglwys iddynt yn 1264; ond priodolir sylfaeniad y priordy i Maud Lady Genevil, gwraig i Jeffry arglwydd Genevil, yr hwn oedd yn cydoesi â Harri III. ac Iorwerth I. Cawsant gadarnhad o'r hyn a ddalient yma gan Iorwerth III., a chaniatawyd iddynt hefyd wneyd dyfrffos yn y tir a berthynai i'w tŷ hwynt.

* Leland's Itin.

† Yn 1784 trowyd yr adeilad yma yn Dŷ Diwydrwydd, i dderbyn tylodion yr Amwythig, a phlwyf cymydogol Meole Brace. GOL.

‡ Itin. iv. 100.

§ Girald. Cambr. Itin. lib. ii. c. 8. "Y diafliaid anllad hyn a flinent y morwynion crefyddol yn y dyddiau hyny fel nad allai nac arwydd y groes, na dwfr sanctaidd, na sacrament corph Crist ei hun, eu gyru ymaith."

Digitized by Google

*Eglwysi.* Y mae y rhan fwyaf o'r eglwysi plwyfol o hynafiaeth mawr. Eglwys St. Chad* efallai a sylfaenwyd gan y Sacsoniaid, yn fuan ar ol gyru allan y Cymry. Ar adeg y Conquest, cawn ei bod yn un golegawl, ac fod ganddi ddeon, a deg o brebendariaid. Yn 1393, cafodd yr hen eglwys ei llosgi i lawr, trwy ddiofalwch rhyw weithiwr. Wedi canfod y drwg a wnaethai, efe a redodd adref, rhoddodd ychydig arian yn ei boced, ac amcanodd ddiangc, ond bu foddi yn ei ymgais i rydio yr afon, yn agos i'r bont faen. Yn yr eglwys hon y mae cofadail i Richard Onslow a'i wraig, gyda'u lluniau ar eu gorwedd: efe wedi ei wisgo mewn penguwch a gown. Perthynai y boneddwr hwn i'r gyfraith; a bu yn aelod seneddol dros Steyning, yn Sussex, ac yr oedd yn hynafiad i'r anrhydeddus Arthur Onslow, llefarydd tŷ y cyffredin, a'r presenol arglwydd Onslow. Y blaenaf, yn 1742, a dalai y fath barch i'w goffadwriaeth fel ag i beri i'r gofadail hon gael ei hadgyweirio. Richard Onslow a fu farw o'r pla yn 1571.

Eglwysi St. Mair a St. Alcmund† ydynt yn nodedig am eu clochdai pinaglog prydferth. Dywedir fod y flaenaf wedi ei sylfaenu gan y brenin Edgar,‡ a'r llall gan yr wrones Elfleda,§ pob un o ba rai a fuont yn golegawl. Ond yr eglwys ag y dywedir ei bod y fwyaf hynafol ydyw un *St. Giles*, yr hon a saif yn nghyrion y maesdrefi, tu hwnt i'r fynachlog. Bechan ydyw, ac nid yw yn hynod oddieithr am faintioli mawr un ochr i'r to. Cafodd yr anrhydedd o dderbyn esgyrn St. Gwenfrewi, cyn iddynt gael eu gosod yn y greirfa yn y fynachlog. Gelwir hi yn y *Doomsday Book* yn blwyf y ddinas,‖ yr hyn a ddyry iddi hawl gryfach i hynafiaeth nag unrhyw o'r lleill. Y mae yn gysylltiedig âg eglwys y Groes Sanctaidd, neu y fynachlog.

*St. Giles.*

Yn mysg y gweithrediadau gwladol mwyaf hynod y gellir ystyried y seneddau a gynaliwyd yn y dref hon. Trwy y wŷs gyntaf, yr oedd yr arglwyddi yn cael eu gwysio yma yn ffurfiol, i ymddangos ar y 13eg o Fedi 1283; yr oedd yr ail wŷs wedi ei chyfeirio at y cyhoedd yn mhob sir i ddewis dau farchog; y drydedd, at y dinasoedd a'r bwrdeisdrefi; y bedwaredd at y barnwyr. Yn y cynulliad mawreddog yma y profwyd ac y collfarnwyd Dafydd, brawd Llywelyn, tywysog olaf Cymru: ei anffyddlondeb i Iorwerth, a'i fradwriaeth yn erbyn ei wlad, cyn iddo gael ei gymodi â'i frawd, a'i gwnaent ef yn wrthddrych o ddygasedd. Un-ar-ddeg o ieirll, a chant o farwniaid, a benodwyd i'w brofi,¶ fel un o ddeiliaid Lloegr; oblegyd yr oedd wedi derbyn barwniaeth gan Iorwerth, a phensiwn mawr. Efe oedd y cyntaf a ddyoddefodd angeu bradwr, yn ol ffurf y ddedfryd bresenol, yr hon a oddefodd efe hyd ei heithafion pellaf.

Cynaliwyd senedd arall yma yn 1397; gelwid hi y *Senedd Fawr*, ar gyfrif y niferi o bobl a ymgasglasent iddi. Yma y cafodd yr anffodus Rhisiart, gan y senedd hyblyg yma, y fath ymestyniad o awdurdod ag oedd yn anadnabyddus o'r blaen; a thrwy ryw ganiatâd rhyfedd, cafodd awdurdod i grynhoi holl allu

* Yn 1788 syrthiodd clochdy St. Chad i lawr, a dinystriodd gorph yr eglwys; pan y detholwyd lle prydferth at adeiladu eglwys newydd, yr hon a wnaed yn ol cynllun Mr. Stewart —adeiladyddiaeth yr hwn sydd wedi cael ei feirniadu yn llym, ac efallai nid yn anhaeddiannol. Gol.

† Y mae corph yr eglwys hon wedi cael ei dynu i lawr, ac un newydd, heb fod yn agos mor brydferth, wedi ei godi yn ei le.

‡ Philips, 90.

§ Tanner, 445.

‖ Philips, 84.

¶ Drake's Parl. Hist. i. 89.

y deyrnas yn y brenin, deuddeg o bendefigion, a chwech o gyffredinwyr. Tybid fod awdurdod y Pab yn angenrheidiol er cadarnhau y fath weithred afreolaidd.*

Y mae y gweithrediadau milwraidd perthynol i'r lle hwn wedi bod yn lluosog; ond mor fyr, ac mor gyflym, fel na bydd i mi grybwyll am yr un o honynt, oddieithr tri. Y cyntaf ydyw y frwydr bwysig ar noswyl St. Magdalen, Gorphenaf 22ain, 1403, yr hon a adnabyddir yn well wrth yr enw "brwydr yr Amwythig," rhwng Harri IV. a'r gwrol Henry Percy, yr hwn a gyfenwid *Hotspur*. Bwriad y gwrthryfelwyr gogleddol oedd gwneyd eu hunain yn feistriaid ar y dref hon, ac yma i gryfhau eu lluoedd trwy ymuniad â'r hyglod Owain Glyndwr a'i gydwladwyr. Ymdeithiasant yn gyflym trwy Lichfield a Stafford; ond y bywiog Harri, yn cael ei symbylu gan gynghor iarll Dunbar, pendefig Ysgotaidd, y pryd hyny yn ei fyddin, a ddaeth yn mlaen gyda chyflymdra a achubodd ei goron, ac a brofodd yn ddinystr i'w elynion. Taflodd ei hun i'r Amwythig fel y dywed rhai,† pan oedd y gwrthryfelwyr ar fin esgyn y muriau. Yn ddiatreg efe a adawodd y dref, ac a wersyllodd o flaen y pyrth. Ni oddefai yspryd bywiog Percy iddo aros am ddyfodiad Owain Glyndwr, yr hwn oedd heb fod yn mhellach na Chroesoswallt: ac felly ni bu ond pedair mil o'r Cymry yn alluog i ymuno â'r galluoedd gogleddol. Y noson hono Percy a anfonodd Thomas Kaiton a Thomas Sulvaigne, dau o'i ysweiniaid, gyda llythyr gwarthruddol o'r fath mwyaf llym, yn terfynu yn null rhamantus yr oes hono, gan hyrddio heriant i'w dannedd. "Yr ydym yn dy herio, dy filwyr a'th gydweithredyddion, fel bradwyr, a rhai yn dinystrio y deyrnas, a goresgynwyr, gormeswyr, a dyryswyr y gwir a'r cyfreithlawn etifeddion i goron Lloegr; yr hyn y bwriadwn ei brofi heddyw â'n dwylo, a'r Duw Hollalluog yn ein cynorthwyo."‡

*Brwydr yr Amwythig.*

*Heriad.*

Dechreuodd y frwydr yn gynar yn y bore, ac yn agos i'r dref; oblegyd yr oedd y bywiog Percy wedi ymdeithio yn gynt ac yn llawer agosach nag y meddyliai y brenin. Gwnaed yr ymosodiad yn Oldfield, neu Bulfield, mewn ychydig bellder tu hwnt i ffrwd fechan, i'r gogledd o borth y gogledd; ffyrnigodd y frwydr tua Berwick,§ ac mor bell a'r fan a elwir yn awr Battlefield. Gadawer i'r hen haneswyr adrodd am yr ymladdfa yn eu hiaith syml, ond bywiog, eu hunain.

"Y brenin, gan weled fod y frwydr yn nês nag y meddyliasai neu y dysgwyliasai am dani, rhag y buasai hir oediad yn lleihau ei nerth, a osododd ei fyddin mewn trefn dda; ac felly y gwnaeth ei elynion, y rhai, mewn gwroldeb a chalondid, nid oeddynt mewn un modd yn israddol iddo. Yna yn ddisymwth chwythwyd yr udgyrn; gwŷr y brenin a floeddiasant *St. Sior* arnynt; y gwrthwynebwyr a waeddent *Esperaunce Percie;*‖ ac felly yn danbaid yr ymgysylltodd y byddinoedd. Yr Ysgotiaid, y rhai oeddynt ar y blaen ar ochr yr arglwyddi, gan fwriadu ymddial am yr hen gamwri a ddyoddefasent oddiar law y genedl Seisonig, a ymosodasant mor ffyrnig ar flaen-fyddin y brenin, fel y parasant iddynt dynu yn ol, ac yr oeddynt braidd wedi ei gosod mewn annhrefn. Y Cymry hefyd, y rhai, ar ol ymadawiad y brenin o Gymru, oeddynt wedi

* Rapin, i. 469. † Stow, 329. ‡ Halle, folio xxii.
§ Carte, ii. 659. ‖ "Cymer galon, Percy!"

Digitized by Google

llercian ac ymguddio mewn coedwigoedd, mynyddoedd, a chorsydd, wedi clywed am y frwydr hon, a ddaethant i gynorthwyo yr ieirll, ac i adnewyddu y bobl flinedig â chynorthwyon o'r newydd. Pan ddaeth cenad dychrynedig i hysbysu y brenin fod ei filwyr wedi eu curo i lawr ar bob ochr, nid oedd angen am beri iddo ymsymud; oblegyd yn sydyn efe a ddynesodd gyda'i fyddin ad-gefnol, a chysurodd, calonogodd, a chefnogodd ei eiddo ef, fel y darfu iddynt gymeryd calon, ac ymladd yn wrol â'u gelynion. Y tywysog Harri, y diwrnod hwnw, a fu yn gynorthwy mawr i'w dad; oblegyd er ei fod wedi ei glwyfo yn dost yn ei wyneb gan saeth, eto ni phallodd, naill ai i ymladd lle y byddai y frwydr boethaf, neu i galonogi ei ddynion lle y byddai eu calonau yn fwyaf isel. Parhaodd y frwydr hon am dair o oriau hirfaith, gyda llwyddiant amheus ar y ddwy ochr. O'r diwedd, y brenin a waeddodd, SANT SIOR, BUDDUGOLIAETH! torodd y gadres, ac aeth i ganol byddinres ei elynion; ac ymladdodd mor ffyrnig, gan anturio mor bell i'r gâd, fel y darfu i iarll Douglas ei daro i lawr, a lladd Syr Walter Blonte, a thri ereill, y rhai oeddynt yn wisgedig yn nillad a lifrai y brenin, gan ddywedyd, Yr wyf yn rhyfeddu gweled cynifer o freninoedd yn adgyfodi mor sydyn. Ereill a ddywedant, fod iarll Dunbar wedi tynu ymaith y brenin o'r lle y safai ynddo; yr hyn oedd yn dro da iddo; oblegyd yr oedd y dywededig Henry Percy, ac Iarll Douglas (na pha rai na bu dyn erioed yn ffyrnicach) yn ymgynddeiriogi cymaint o ddeutu fel y dymchwelwyd baner y brenin, a'r rhai o'i gwmpas a laddwyd; yn mysg y lladdedigion yr oedd Edmund iarll Stafford, Sir Walter Blunt, baner-ddygydd y brenin, Syr Nicholas Langford, Syr John Cockayne, Syr John Calverley, Syr John Massy, barwn Podington, gyda llaweroedd ereill o farchogion a boneddigion."* Yn ol hanes Halle, darfu i'r brenin ei hun ladd â'i ddwylaw ei hun, y diwrnod hwnw, ddau ar bymtheg ar hugain o'i elynion. "Y lleill o'i bleidwyr, wedi eu calonogi gan ei weithrediadau, a ymladdasant yn wrol, ac a laddasant arglwydd Percy, a elwid yn gyffredin Syr Henry Hotspur, y cadlywydd goreu ar yr ochr wrthwynebol. Pan ddaethpwyd i wybod am ei farwolaeth, yr Ysgotiaid a ffoisant, y Cymry a redasant ymaith, a'r bradwyr a orchfygwyd. Y pryd hyny ni allai na choedwigoedd na bryniau atal calonau dychrynedig y rhai a orchfygasid rhag ffoi; ac yn y ffoadigaeth hwnw yr iarll Douglas yn ei frys a syrthiodd oddiar graig fynyddig (Haghmond Hill,) ac a gymerwyd; ac, ar gyfrif ei wroldeb, a bardynwyd gan y brenin yn rhydd ac â gwyneb agored. O du y brenin lladdwyd 1600 o wŷr, ac uwchlaw pum' mil ar yr ochr arall; a chyda golwg ar yr Ysgotiaid, ni ddiangodd ond ychydig neu yr un o honynt yn fyw."†

Cafwyd corph Percy wrolfrydig yn mysg y lladdedigion, a thraddodwyd ef i Thomas Nevil, arglwydd Furnival, i gael ei gladdu; ond dranoeth, y brenin yn angharedig a orchymynodd iddo gael ei godi i fyny, a'i osod rhwng dau faen melin yn yr Amwythig, a'i wylio gan wŷr arfog: wedi hyny parodd iddo gael ei ddienyddio, a'i dori yn bedwar darn, a'i grogi yn ngwahanol barthau y deyrnas.‡

Harri, wedi lladd pum' mil o bobl yn ei achos drygionus, yn y modd mwyaf duwiolfrydig a dalodd ddiolch i Dduw; ac a adeiladodd, neu a ganiataodd

* Stow, 329. † Halle, fol. xxii. ‡ Stow, 329.

Digitized by Google

*Eglwys Battlefield.* adeiladu, ar y llecyn ag oedd efallai wedi ei ystaenio fwyaf â gwaed, eglwys golegawl Battlefield, yn mhlwyf Albrighton, oddeutu tair milldir o'r Amwythig. Y mae y drwydded freninol yn caniatâu i Roger Ive, periglor capel Albright-Husee, adeiladu capel ar ddarn o dir a gawsai gan Richard Husee, i gael ei gyflwyno i St. Mair Magdalene; ar ba un yr oedd y rhagddywededig Ive a'i etifeddion i fod yn feistr. Yr oedd hefyd bum' caplan i fod, y rhai oeddynt i weddïo dros gyflwr da y brenin tra y byddai byw, ac wedi iddo farw, dros ei enaid, ac eneidiau Richard Husee ac Isolda ei wraig, ac eiddo eu hetifeddion, ac yn olaf, dros eneidiau pawb a syrthiasant yn y frwydr ar y llecyn angeuol hwnw.* Ei gyllid clir ar adeg y dadgorphoriad oedd 54*l.* 1*s.* 10*d.*†

Yr oedd yr eglwys wedi bod yn adeilad fechan, ond prydferth, o faen, gyda chlochdy ar ffurf tŵr. Y mae y rhan orllewinol heb ei thoi; ond y mae y ganghell wedi ei gwneyd i fyny yn ddestlus, a gwasanaetha fel capel i blwyf Albrighton. Uwchben y tu allan i'r ffenestr orllewinol y mae cerflun o Harri IV. mewn arfau, a choron ar ei ben. Yn y ffenestr y mae peth gwydr lliwiedig, gydag amryw bais-arfau, yn benaf rhai y Corbets, i ba rai y mae y lle yn perthyn; yn mysg y rhai hyn y mae rhai Richard Corbet, yr hwn a fu farw yn esgob Norwich yn 1635. Ymddengys oddiwrth bais-arfau esgobaeth Rhydychain, y rhai sydd yn nglŷn â'r eiddo ef, ei fod yn mwynhau yr esgobaeth hono pan baentiwyd hwy. Yr oedd yn fardd‡ hyglodus, yn gystal ag yn bregethwr hyawdl; yr hyn a'i cymeradwyodd mor fawr i Iago I. fel y gwnaeth ef yn un o'i gaplaniaid, ac yn 1620 rhoddodd iddo ddeoniaeth Eglwys Crist.

Yn Awst 1485 gwnaeth y dref ryw arddangosiad o rwystro mynediad iarll *Iarll Richmond yn myned trwodd, 1485.* Richmond, wedi hyny Harri VII., ar ei ffordd i gyfarfod â Rhisiart III. i roddi brwydr iddo. Fy awdurdod a ddywed, fod "y prif isfaer, Meistr Mytton, yr hwn oedd yn ddyn tew bloneg(o)g, pan ofynwyd ei genad i ddyfod i mewn, wedi ateb, gan ddywedyd, na wyddai efe ond am un brenin, y brenin Rhisiart yn unig, isgadbeniaid yr hwn oedd efe a'i gymdeithion; a chyn y gallai ddyfod i mewn yno, y byddai raid iddo fyned dros ei gorph ef, gan feddwl wrth hyny, y byddai raid ei ladd ef, a'i fod yn gwrthdystio yn gryf ar y llw a gymerasai; ond wedi iddo gael gwell cynghor, Meistr Mytton a adawodd i'r brenin fyned drwodd; ond i arbed ei lw, darfu i'r dywededig Mytton orwedd ar ei hyd ar lawr, â'i wyneb at i fyny, ac felly yr iarll a gamodd trosto ef, ac efe a arbedodd ei lw."§

*Y Clefyd Chwysu.* Haerir fod Harri wedi dwyn gyda'r fyddin a ddygodd i Gymru, yr haint echryslawn a elwir y clefyd chwysu, neu y *Sudor Anglicanus*, yr hwn, am uwchlaw triugain mlynedd ar ol hyn, a flinodd y deyrnas hon, ar wahanol adegau. Mewn llawer o fanau ysgubodd ymaith y drydedd ran o'r bobl. Dechreuai gyda chwysu, yr hwn ni fyddai byth yn gadael y dyoddefydd nes iddo ei ladd, neu ynte iddo ymiachâu. Perthynai iddi lawer o arwyddion y pla; anesmwythdra, pryder, salwch, amhwylledd,

* Dugdale Monast. iii. pars ii. 185. † Tanner, 456.

‡ Cyhoeddwyd dau argraffiad o'i ganeuon ar ol ei farwolaeth. Gwel ei fywyd yn y British Biography, ii. 1472. § Philips, 41.

Digitized by Google

cysgadrwydd, llesmair, curiad y galon; ond ni byddai byth yn cael ei ddylyn gan ysmotiau yn tori allan, neu lynorod, y fath ag a ddylynai y ffrewyll arall o eiddo y nef. Dechreuai bob amser gydag ymosodiad ar un lle, a theimlad o darth poeth yn rhedeg trwy yr holl aelod. Ni byddai ei ddwysder byth yn parhau yn hwy na phedair awr ar hugain (Dr. Caius a'i galwai, ar y cyfrif hwnw, yn *Ephemera Britannica*, neu y dydd-glefyd Prydeinig,) ond yn fwy mynych byddai marwolaeth yn cymeryd lle mewn o dair i ddeng awr. Yr oedd lleoedd yn mha rai ni byddai prin un o bob cant yn diangc rhagddo. Tua diwedd yr ymweliad lleihâi ei lymder: oblegyd yn 1528, allan o ddeugain mil yr ymosodwyd arnynt yn Llundain, ni fu ond dwy fil farw. Yr oedd y goddefydd i aros am y canlyniad, yn union fel y byddai ar yr adeg yr ymosodid arno, pa un bynag ai yn ei wely ai yn ei ddillad. Camgymeriad ydyw tybied, fel y mae llawer wedi gwneyd, ei fod yn afiechyd neillduol i Loegr, ac mai Saeson yn unig, byddent hwy lle y byddent, a fyddai yn ei gael. Yn sicr ni ddechreuodd yn Lloegr, nac yn mhlith Saeson; ond yn mhlith milwyr tramor y duc Richmond, wedi eu cynull ynghyd allan o ysbyttai a charcharau, a'u claddu mewn budreddi, a'u tyru ar fwrdd y trosglwydd-longau, fel yr oedd yn naturiol i fagu afiechyd ymhlith pobl oedd mor addfed i hyny.* Caniatäer i mi hysbysu, ei fod wedi darfod yn y dref hon yn 1551; ond nid gyda'r tynerwch hwnw y sylwyd arno yn ei ymweliadau diweddarach mewn lleoedd ereill; oblegyd ni bu dim llai na 990 farw mewn ychydig ddyddau.†

*Cymeryd y dref gan Mytton.* Yn rhyfeloedd cartrefol y ganrif ddiweddaf, rhoddwyd gwarchodlu yn yr Amwythig o blaid y brenin, llawer o'r amddiffynfeydd a gadarnhawyd yn fawr, ac adeiladwyd amddiffynfa gref uwchben Frankwell, rhag i'r dref gael aflonyddu arni oddiar yr uchelfanau yn y gymydogaeth. Syr Michael Earnley a adawyd yn llywodraethwr, a'r cadben Crowe yn llywydd y castell. Y cadfridog Mytton, yr hwn a orweddai yn Wem gyda gwarchodlu bychan, ac yn cynrychioli y dref hon, a benderfynodd ei chymeryd drwy ruthr. Gwnaeth ddau ymgais aflwyddiannus; ond ar yr 21ain o Chwefror, 1644, gyda hyny o filwyr ag a allai gasglu yn nghyd, efe a adnewyddodd ei ymgais. Anfonodd ei wŷr traed ar hyd glan yr Hafren, a thrwy gymhorth rhyw seiri, y rhai a dorasant i lawr y muriau rhwng y castell a'r afon, ffurfiwyd mynedfa i mewn. Deugain o'r meirchfilwyr, ar eu traed, a ddringasant y muriau mewn lle isel yn agos i'r cynghordy, yn cael eu cefnogi gan y mwsgadwyr, a thri chant a haner o'r gwŷr traed a ruthrasant yn ddisymwth ar y brif wyliadwriaeth yn y farchnadfa, ac a laddasant y cadben. Porth blaen y castell a ddyogelwyd yn nesaf, a gollyngwyd i lawr y grogbont, er gollwng y gwŷr meirch i mewn. Am un o'r gloch yn y prydnawn rhoddwyd y castell i fyny, ar yr amod fod i'r Gwyddelod gael eu gwneyd yn garcharorion, a'r Saeson i ymdeithio i Ludlow. Yn fuan ar ol hyn cafodd Crowe ei grogi, am ei fradwriaeth, neu lwfrdra. Y llywodraethwr, a niferi mawrion o bobl oreu y sir, a gymerwyd yn garcharorion; ac yspeiliwyd y dref, er fod y cadfridog wedi cynyg swm mawr o arian i'r milwyr am ymgadw rhag pob gweithredoedd treisiol. Cafwyd llawer o yspail, ystorfa fawr, a'r *baggage*

* Gwel y "Biographical Memoirs of Medicine in Great Britain," llyfr cywrain a boddhaol gan Mr. John Aikin o Warrington, tud. 119 hyd 127. † Yr unrhyw.

perthynol i'r tywysog Maurice. Gwnaed Mytton yn llywodraethwr, a derbyniodd ddiolch y tŷ am ei wasanaeth da.

Penderfynais orphen fy nhaith gyda siwrnai i Gaer Caradog, gorsaf y gwron

*Condover.* Prydeinig hyglod Caradog. Aethum dros y bont newydd; ac heibio i *Condover*, tŷ tra phrydferth a chyfleus ac ystyried yr amser y gwnaed ef; cafodd ei adeiladu gan Syr Thomas Owen, yr hwn a fu farw yn 1598, un o farnwyr mainge y brenin*. Saif ar fin parc prydferth; o ba le y mae amrywiaeth o olygfeydd prydferth. Daeth i feddiant fy ewythr hynaf o du fy mam, Richard Mytton, ysw., o Halston, trwy ei briodas â Miss Owen, etifeddes y lle. Yr hynaf o'r ddwy ferch o'r cysylltiad hwnw a'i trosglwyddodd trwy briodas i Syr Charlton Leighton; ac y mae yn awr yn meddiant Nicholas Smythe, ysw., yn hawl ei wraig†, Anna Maria, merch i Syr Charlton.

*Pitchford.* Heb fod yn mhell o Condover y mae *Pitchford*,‡ preswylfod Adam Ottley, ysw., hen dŷ hybarch o goed, gyda neuadd wedi ei dodrefnu yn gymhwys â helmau, llurigau, a chleddyfau llafnlydan. Yma y mae yn nghadw bortread o'm rhagflaenor parchus mewn hanesiaeth naturiol, FRANCIS WILLUGHBY, ysw., wedi ei baentio yn 1659, yn yr oedran cynar o dair blwydd ar ddeg, pan yr oedd yn aelod o goleg y Drindod, Caergrawnt. Ei wynebpryd sydd yn dra theg, ei wallt yn hir iawn ac yn oleu; y mae ganddo lyfr yn ei law; wedi ymwisgo yn nillad y coleg, a chanddo goler fawr yn troi i lawr. Yr oedd yn etifedd i dŷ mawreddog Wollaton gerllaw Nottingham. Ar ol treulio ei fywyd byr, ond caruaidd, mewn teithiau addysgiadol, ac astudiaeth natur, a phan oedd yn ymbarotôi at fordaith i chwilio cynyrchion y byd newydd, ymosodwyd arno, yn 1672, yn 37 mlwydd oed, gan eisglwyf *(pleurisy)* angeuol.

Yn agos i'r tŷ y mae pwll tra hynod, yr hwn, ar dywydd poeth, a luchia i fyny swm mawr o byglo *(bitumen)* ag sydd yn mawr debygu i bŷg, ac a ddyry enw i'r lle. Gwasanaetha holl ddybenion y nwydd hwnw; ac y mae olew, sydd yn dra effeithiol mewn llawer o anhwylderau, wedi cael ei dynu allan o hono er's amser maith.

*Longnor.* Yn agos i'r wythfed gareg filldir o'r Amwythig, cyrhaeddais i *Longnor*, preswylfod fy hen gyfaill parchus Joseph Plymley, ysw. Gerllaw iddo y mae Neuadd Longnor, preswylfod Robert Corbett,§ ysw., yr hwn a gymunroddwyd iddo gan ei berthynas, y diweddar Syr Richard Corbett, bar. Tŷ da o briddfeini ydyw, wedi ei adeiladu yn 1670, gan Syr Richard, rhagflaenydd y diweddar berchenog. Saif mewn dyffryn prydferth, a medda olygfa ddymunol ar Gaer Caradoc, a *Lawly Hill.* Y mae portread y sylfaenydd yn y tŷ. Bu yn gadeirydd pwyllgor etholiadau yn nheyrnasiad Siarl II., a bu farw yn 43 oed, yn y flwyddyn 1683.

Yma y mae portread rhagorol o Margaret, gweddw James iarll Salisbury, a

* Herald's Visitation of Shropshire.

† Y mae yr unig fab o'r briodas hon, wedi marw; a'r eiddo yn bresenol yn meddiant ei nai. GOL.

‡ Ar farwolaeth Adam Ottley, ysw., daeth Pitchford yn eiddo i'r anrhydeddus Charles Jenkinson. GOL.

§ Ar farwolaeth Mr. Corbett, daeth neuadd Longnor yn eiddo i'r parchedig Archddiacon Plymley, mab i Joseph Plymley, ysw. Y mae wedi mabwysiadu yr enw Corbett. GOL.

Digitized by Google

merch i John iarll Rutland; ei gwynebpryd yn bruddaidd, ond yn dra phrydferth. Y mae wedi ei dilladu mewn galarwisgoedd gweddus; portread tri chwarter hyd ydyw, o waith Syr Godfrey Kneller.

Ei merch, yr arglwyddes Margaret, a briododd yn gyntaf â'r arglwydd Stawel, ac wedi hyny â'r arglwydd Ranelagh: darlun tra phrydferth, haner hyd ydyw, gan yr un llaw. Y mae portread o'r foneddiges hon yn mysg boneddigesau prydferth Hampton Court: y mae portread o'i gŵr yn y tŷ yma.

Lady Mildred, merch ieuengaf i Margaret is-iarlles Salisbury, a gwraig i Syr Uvedale Corbett, mab i Syr Richard, sydd wedi ei baentio yn haner hyd; ffurf brydferth a bywiog. Yma hefyd y mae portread tra boddhaol o'i merch Elisabeth, wedi ei baentio yn Ffraingc, gan Le Garde. Bu farw heb briodi, o *cancer* yn ei bron, yn 1724, ac a gladdwyd yn eglwys St. Margaret, Westminster; a chafodd yr anrhydedd o gael beddargraff o eiddo Mr. Pope yn gerfiedig ar ei bedd.

Yn mysg yr arluniau ereill, y mae un tra rhagorol, gan law anadnabyddus, o'n HIACHAWDWR yn cyfodi Lazarus. Y mae dau o bersonau yn cynal y corph; un yn ymarfer ei holl nerth, ac ymddengys y llall ar y foment fel pe yn wybyddus o ddychweliad bywyd gwrthddrych y wyrth. Ymddengys syndod mewn amryw ffurfiau yn yr edrychwyr: mewn rhai y mae cyflawnder o argyhoeddiad yn gymysgedig â rhyfeddod a diolchgarwch; mewn ereill y mae syndod yn ddigymysg âg unrhyw nwyd arall; ond mewn archoffeiriad ymddengys gradd uchel o ofid. Y mae y corph yn waith prydferth, o adfywhad llygrediaeth.

Darlun mawr o St. Pedr yn gwadu ein Harglwydd, sydd waith hardd, gan Gerard Honthurst: y mae dyryswch y wynebpryd, ofn, ac ymwybodolrwydd o fod wedi dyweyd anwiredd, yn cael eu harddangos yn wyneb yr apostol gwanllyd; yr hyn a ymddengys megys wedi ei ddarganfod gan forwynig, yr hon (gyda chanwyll yn ei llaw) sydd yn ei holi, ac yn ngwynebpryd pa un y mae nodau cryfion ei bod yn argyhoeddedig o anwiredd ei haeriadau.

*Acton Burnel.* O'r dyffryn yma, ymwelais cyn hyn âg *Acton Burnel*, oddeutu tair milldir o bellder, preswylfod ei berchenog parchus Syr Edward Smythe, barwniad; teulu yr hwn a ddaethant i feddiant o hono yn y flwyddyn gyntaf o Siarl II. *Castell.* Heb fod yn mhell oddiwrth y tŷ y mae y castell; adeilad ysgwâr gyda thŵr ysgwâr yn mhob congl. Ei sylfaenydd, neu yn hytrach ei adferydd, ydoedd Robert Burnel,* esgob Bath a Wells, trysorydd, ac wedi hyny canghellydd Lloegr; yr hwn, yn 1292, a anfonwyd i gyffindiroedd Ysgotland, lle yr oedd ganddo neges heb fod yn llai pwysig na hawlio gan yr Ysgotiaid, pa wrthwynebiad oedd ganddynt i hawl ei feistr i'r fraint a'r ymarferiad o uchafiaeth a llywodraeth uniongyrchol dros eu teyrnas.† Yn y swydd hon efe a f farw, ac a ddygwyd i gael ei gladdu yn ei eglwys gadeiriol yn Wells. Yr oedd o deulu tra hynafol, urddasedig â barwniaid, neu farchogion, er adeg y Congcwest; ond yr oedd wedi casglu cyfoeth mawr, yr hwn a dreuliai gyda gwirioneddol haelioni. Oddiwrth ryw gofadeiliau

* Leland's Itin. viii. 107. Fuller's Br. Worthies, Shropshire, 4.
† Drake's Parl. Hist. i. 100, 101.

Digitized by Google

yn dwyn pais-arfau y teulu, yn eglwys Burnel yn Normandy, tybir iddynt ddyfod ar y cyntaf o'r wlad hono. Cafodd y castell ei anrhydeddu âg eisteddiad seneddol yn 1284; eisteddai yr arglwyddi yn yr amddiffynfa, a'r cyffredin iaid mewn ysgubor fawr, talcen yr hon sydd eto i'w weled. Y mae y *Statutum de Mercatoribus*, a basiwyd yma, yn cael ei hadnabod wrth yr enw deddf Acton Burnel, oddiwrth y lle. Digon tebyg mai trwy ddylanwad yr esgob y cafodd ei breswylfod y fath anrhydedd.

Ei olynydd yn y castell ydoedd Syr Edward Burnel, yr hwn a wasanaethodd mewn lluaws o frwydrau yn Ysgotland, o dan Iorwerth I., a gwnelai ymddangosiad tra ysplenydd. Yr oedd yn wastad i'w ganlyn gerbyd wedi ei addurno â baneri; ar ba un, yn ogystal ag ar harnais y meirch, y byddai ei bais-arfau wedi eu llunio. Efe a briododd Alice, merch i arglwydd Despenser, o'r hon ni bu iddo blant. Ar ei farwolaeth, yn 1315, ei chwaer Maud a ddaeth yn gwbl etifeddes. Hi a briododd yn gyntaf John arglwydd Lovel a Tichemersh, yr hwn a gyfenwid Y Cyfoethog; bu ef farw yn 1335. Ei hail ŵr oedd John de Handlow, yr hwn a fu farw yn 1346, a gadawodd o honi un mab, a elwid Nicholas arglwydd Burnel, testyn cryn ymdrafodaeth yn llys marchwriaeth gydag un Robert do Morley, ar gyfrif y pais-arfau a ddygai Nicholas, yn hawl rhyw diroedd a gawsai yn marwniaeth Burnel, gan ei fam. Yr oedd de Morley wedi cymeryd iddo ei hun y pais-arfau heb esgus cyfiawn; ac oherwydd, fel y dywedai, "am mai ei ewyllys a'i bleser oedd eu gwisgo, ac y byddai iddo amddiffyn ei hunan yn y peth hwnw." Dichon nad oedd ganddo bais-arfau o'i eiddo ei hun, am mai efe ydoedd y cyntaf o'r teulu a wnaeth ei ymddangosiad mewn gwisgarfogaeth filwrol. Yr oedd wedi gwasanaethu fel yswain i Syr Edward Burnel, heb un gwasanaethwr arall heblaw un bachgen; ac fyth ar ol marw ei feistr yr oedd yn gwisgo y pais-arfau ag yr oedd ymrafael yn eu cylch. Dygwyddodd eu bod ill dau yn y gwarchae ar Calais, o dan Iorwerth III. yn 1346, y ddau yn gwisgo yr un pais-arfau. Nicholas arglwydd Burnel a hawliodd yr arfau fel eiddo y Burnels yn unig, ac yr oedd ganddo ar y pryd o dan ei lywyddiaeth gant o wŷr, ar fanerau y rhai yr oedd ei bais-arfau priodol. Syr Peter Corbet, y pryd hyny yn mhlith ei ddylynwyr, a gynygiodd ymladd gornest â Robert de Morley, er amddiffyn hawl ei feistr i'r pais-arfau; ond ni chymerodd yr ornest le, a hyny, fel y mae yn debyg, am fod y brenin wedi gwrthod ei gydsyniad i'r peth. Yna trosglwyddwyd yr achos i gwrt marchwriaeth, yr hwn a gynaliwyd ar y tywod gerllaw Calais, o flaen William Bohun, iarll Northampton, uwch-gwnstabl Lloegr, a Thomas Beauchamp, iarll Warwick, iarll faeslywydd. Parhaodd y prawf dros amryw ddyddiau; pan y darfu i Robert, gan ofni fod yr achos yn myned yn ei erbyn, gymeryd y cyfleustra, yn ngwydd y brenin, i dyngu trwy gnawd Duw, os byddai i'r pais-arfau mewn dadl gael eu dyfarnu oddiwrtho, na byddai iddo byth ymarfogi ar du y brenin. Ar hyny yr oedd y brenin, allan o gydnabyddiaeth bersonol ar gyfrif y gwasanaeth pwysig a gyflawnasai yn y pais-arfau hyny—ac yn ystyried hawl Nicholas arglwydd Burnel—yn awyddus i roddi terfyn ar yr ymrafael gyda mor lleied tramgwydd ag oedd bosibl. Felly efe a anfonodd yr iarll Lancaster, ac arglwyddi ereill, at Nicholas, i erfyn arno ganiatâu i Robert de Morley ddwyn y pais-arfau mewn dadl am yspaid ei fywyd ei hun yn unig; yr hyn y darfu i Nicholas, o barch

*Treial ynghylch Pais-arfau.*

Digitized by Google

i'r brenin, gydagnio âg ef. Yna cyfarwyddodd y brenin i'r uwch-gwnstabl, a'r iarll faeslywydd, roddi dedfryd yn unol â hyny. Hyn a wnaethant yn eglwys St. Pedr, yn agos i Calais; a chafodd eu dyfarniad ei gyhoeddi yn ddiatreg gan herodr, yn mhresenoldeb yr holl fyddin ymgynulledig yno.

Daliwyd Robert de Morley gan ei afiechyd olaf yn Burgundy, yn y flwyddyn 1360, pan oedd y fyddin Seisonig yn dychwelyd o'r gwarchae ar Paris. Wrth deimlo fod angeu yn dynesu, efe a gyfarwyddodd fod i'w faner, gyda phais-arfau Burnel, gael ei thraddodi i Nicholas arglwydd Burnel, yn unol â'r dyfarniad o flaen llys marchwriaeth; ac o ganlyniad ei faner-ddygiedydd, gan ddal yn ei ddwylaw y faner wedi ei rholio i fyny, a'i traddododd i'r arglwydd Burnel, yn ngwydd niferi o'r bendefigaeth, y rhai a alwesid yn nghyd fel tystion o'r seremoni. Bu farw arglwydd Burnel yn y flwyddyn 1382, a chladdwyd ef yn eglwys Acton Burnel, o dan feddrod ar ffurf allor, gyda delw brês o ddyn arfog yn doredig arni, a phlât prês, ar yr hwn y mae yn gerfiedig, *Hic jacet Dominus Nich^s Burnel, miles, dominus de Holgot, qui ob.* 12° *die Jan. A.D.* 1382. *Cujus animæ propitietur Deus. Amen.**

Yn mhlith y tystion yn yr achos hwn yr oedd amryw arglwyddi a marchogion, a llawer o hen bobl mewn gwth mawr o oedran; rhai o honynt uwchlaw cant oed; un yn gant a deugain, ac un yn gant ac ugain, efallai o sir yr Amwythig, fel y gellir casglu oddiwrth eu henwau, a'r dystiolaeth a roddent gyda golwg ar ddisgyniad y *Burnels*, a llawer o amgylchiadau preifat y teulu, y rhai oeddynt yn debyg o fod yn cael eu hadnabod yn well yn nghymydogaeth eu preswylfeydd.†

O Longnor ymwelais â Chaer Caradog. Wedi marchogaeth am oddeutu tair milldir, daethum yn ddamweiniol ar draws yr esgyniad sythaf, ac ar ol dringo yn llafurus i fyny esgyniad gwyrddlas ac esmwyth, yn awr ac yn y man wedi ei gymysgu â darnau bychain o gareg drydyllog,‡ cyrhaeddais y copa, wedi cael fy lluddias ychydig gan y ffos gyntaf a'r gaerfa, mewn lle, oherwydd y sythder mawr, y gallesid tybio eu bod yn gwbl ddiangenrhaid. Ychydig yn uwch y mae yr ail ffos, gyda phentwr anferth o geryg, yr hwn y mae y tywyrch yn awr wedi ei orchuddio. Y mae yr amgylchedd yn afreolaidd, ond o faintioli

* "Yma y gorwedd yr arglwydd Nicholas Burnel, milwr, arglwydd Holgot, yr hwn a fu farw ar y 12fed dydd o Ionawr, blwyddyn yr Arglwydd 1382. Bydded Duw yn drugarog wrth ei enaid. Amen."

† Y mae yr hanes yma mewn llawysgrif gywrain y cefais yr hyfrydwch o'i derbyn gan Syr Edward Smythe.

‡ Darfu i'r Golygydd, yma ac mewn dwy engraifft arall, gymeryd rhyddid i ddodi "careg drydyllog" yn lle "lafa;" am fod lle cryf i gredu nad oes dim olion tanau llosgfynyddol yn mynyddoedd Gogledd Cymru, nac yn yr un o'r siroedd Saesonig agosaf. Yn y cylch eang o wybodaeth a feddai Mr. Pennant, nid oedd cydnabyddiaeth â'r gwelliantau diweddar mewn mwnyddiaeth a daeareg yn gynwysedig. Y mae careg o liw tywyll, wedi ei gwneyd yn gellog trwy ddadgyfansoddiad *feltopath*, yn fynych yn ymdebygu i sylwedd ag y bu gwres tanddaearol yn gweithredu arno. I'r camgymeriad yma y mae yn ymddangos fod awdwr y Daith yn Nghymru yn achlysurol wedi syrthio—camgymeriad bychan ag sydd yn diflanu yn nghanol y wybodaeth amrywiaethol a difyrus ag sydd yn gwneyd y tudalenau hyn mor wirioneddol werthfawr. Gol.(1)

(1) Y mae y gair yn Pennant wedi ei newid o "lafa" i "gareg drydyllog" yn argraffiad 1810. Yr oedd dywediad Pennant yn berffaith gywir, a chyflawn gadarnheir ef gan sylwadau daearegwyr diweddar. Y mae nodiad y golygydd yn addysgiadol, am y dengys yr anwybodaeth a fodolai yn mherthynas i ddaeareg yn nechreuad y ganrif bresenol, ac yn arddangosiad tarawiadol o'r perygl o ymyraeth â geiriau awdwr. T.P.



Digitized by Google

lled fawr. Ar yr ochr fwyaf hygyrch y mae tair o ffosydd a chaerau. Y mae y fynedfa i mewn, a'r ffordd tuag ati, yn dra amlwg, a gellir hyd yn nod yn bresenol ei thrafaelu yn hawdd ar farch. Y mae yr amgylchedd yn llechweddu at i fyny, ac yn terfynu mewn pigyn.

Er fod y lle hwn yn cael ei alw yn Gaer Caradog, eto y mae yn sicr nad dyma y lle yr ymosodwyd arno gan Ostorius, ac a ddysgrifir mor gampus gan Tacitus. Nid yw yn cytuno ond yn unig â'r rhan yma o'r dysgrifiad, yr hwn sydd yn gyffredin i'r holl orsafoedd Prydeinig, *Hinc montibus arduis, & si qua clementer accedi poterunt modum valli saxa præstruit;** ond y mae y rhan ganlynol yn eisiau, *Et præfluebat amnis vado incerto.*† Y mae golygydd dysgedig Camden‡ yn ei osod yn *Gair Ditches*, oddeutu tair milldir i'r dehau o Clun, ar y llaw aswy i'r ffordd tua Knighton; a dyry, fel yr wyf yn deall, ddysgrifiad ffyddlawn o'r ffosydd a'r caerau. Ni welais i erioed y lle, ac am hyny yr wyf yn ansicr ar ba afon y safai, yr hon yr oedd ei rhydiau mor anhawdd eu croesi. Nid oes afon o'r fath i'w chael yn agos i'r orsaf yr esgynais i iddi; gan hyny nis gallai fod y man ar ba un y gorchfygwyd ein gwron: eto, y mae yn dra thebygol i'r lle fod yn orsaf a ddaliesid ganddo ef, ac iddi gael ei henwi oddiwrth yr amgylchiad hwnw. Y mae wedi bod yn draddodiad, er's amser tra boreuol, fod y lle hwn yn cael ei ystyried yn amddiffynfa o'i eiddo; ac o fewn ychydig flynyddoedd yn ol, byddai cymdeithas o foneddigion, y rhai a edmygent ei rinweddau, yn cyfarfod yn flynyddol ar y bryn hwn, i glodfori ei enw mewn rhyddiaith neu farddoniaeth. Mewn un flwyddyn, darfu i foneddwr,§ yr hwn a hynodid yn gymaint ar gyfrif ei wyleidd-dra a'i fawr fedrusrwydd, wedi ei ysprydoli gan y pwngc, braidd yn ddiatreg draddodi y rhan fwyaf dysgleirwych o hanes Caradog,‖ yn y llinellau canlynol; y rhai, fel y gwenieithiaf i mi fy hun, a roddant ryddhad i'm darllenwyr hir-amyneddgar, ar ol cael eu gwala o'm hysgrifell Gymreig, yr hon yn bresenol a ddodir heibio am byth.

HOLL Rufain oedd dawel, y milfil cenedloedd
A safent i edrych ar fawredd y lluoedd;
Yn mlaen daeth y Penaeth yn rhwym mewn cadwynau,
Heb gael ei ddarostwng gan nerthoedd y llengau;
Ei aeliau anhyblyg heb golli un gronyn
O'u mawredd a wyddai fod iddynt yn perthyn;
Edrychai o'i amgylch â golwg sefydlog,
Fel llew yn y fagl, yn berffaith ddiysgog.
Ond eto, gan wybod ei dynged annedwydd,
Moesgrymai i orsedd y Caisar heb dramgwydd;
Ac yna llefarodd yn dawel, ddigyffro:
"Pe buasai fy nyddiau llwyddiannus yn tycio,
"Rhufain a'm gwelsai yn gyfaill a gwestwr
"I Gaisar, ac ni fuasai c'wilydd i ungwr:

* "Yn cael ei derfynu ar yr ochr yma gan greigiau sythion, ac os gellid dynesu ato yn rhwydd drwy ryw ffordd arall, efe a adeiladai wrthglawdd o waith maen fel math o gaerfa."

† "Ac afon a lifai heibio o ddyfnder anhysbys."

‡ Camden, i. 646, 647. Yn map Rocque o sir yr Amwythig gelwir ef Caer Caradog.

§ Y parchedig Sneyd Davies.

‖ Taciti Annal. lib. xii.

Digitized by Google

"Disgynais o deulu breninol a lywient
"Yn hen Ynys Brydain, ac yno y trigent
"Er amser cyn cof am wrhydri milwrol,
"Yn berffaith gytun, a llwyr annibynol.
"Os Rhufain a archa, a raid i fyd cyfan
"Roi gwasaidd ufudd-dod i'r alwad annyddan?
"Beth, peidio gwrthsefyll! Y rhai ni ddiffynant
"Eu breintiau a'u hiawnder yn ddiau ni haeddant
"Ond enw o lyfrgwn, a hwy ydyw'r dynion
"A ddylent arwisgo yr enw caethweision.
"Bu genyf arfau, a chyfoeth, cyfeillion,
"A chlod; a ddylaswn eu gadael yn foddlon?
"Hyny fuasai yn warth gwirioneddol!
"Am hyn y gwrthsefais eich gallu aruthrol.
"O, Rinwedd Rhufeinig, maddeua y tramgwydd,
"Pe buaswn yn syrthio yn esmwyth ac ebrwydd,
"Fy nghwymp a fuasai'n esmwythach o'r haner,
"I chwithau'r gogoniant yn llai o gryn lawer;
"A phrudd ebargofiant guddiasai fy hanes,
"Fel un oedd anheilwng o dderbyn un achles,
"Na nodded gan Gaisar. Mae angeu neu fywyd
"Yn rhwym wrth ei wregys, er dychryn i'r hollfyd.
"Nid ofnaf y *cyntaf*,—nid erchaf un eiliad
"Am *fywyd*, beth bynag a fyddo'r canlyniad."

"Urddasol bendefig," medd Caisar ddiarswyd,
"Dy fywyd sydd ddyogel, a'th ryddid a seliwyd;
"Fy ymgais uchelaf oedd cael goruchafiaeth,
"Cael enw dy wlad ar gàr buddugoliaeth;
"'Roedd hyny'n ofynol er mwyn fy anrhydedd,
"Er fod dy gydwladwyr yn llawn gwrolfrydedd."

Ar ol iddo orphen, fe glywyd taranau
O gymeradwyaeth, nes siglo hen furiau
Y *Capitol* enwog, pan uchel gyhoeddwyd—
Trugaredd i'r gelyn dewrgalon a roddwyd.
Pob llygad a safai, gan syllu mewn syndod,
Gan ddwys aredmygu'i edrychiad anorfod;
Ei gryfion aelodau, ei agwedd filwraidd,
A dynai fawl dibaid am iddo'n wronaidd
Gydymgais â dewrder y gallu Rhufeinaidd,
A braidd ei orchfygu. Ni thynodd *Jugurtha*
Oedd wrol a diofn, na brenin gwlad *Syria*,
Na *Persius* amddifad o'i goron ardderchog,
Y fath sylw a hyn, er yn ddynion mor enwog.
Ac hyd yn nod *Claudius*, ynghanol ei fawrglod,
Prif feistr y byd, gyda'i lengau anorfod,
A'i ddysglaer eryrod, a'i fawredd mor eirian,
Yn awr ar ei orsedd edrychai yn fychan!

Digitized by Google

Ddewrfrydig Garadog, y mae dy elynion
Yn canmol d'wrhydri, beth dd'wed dy gyfeillion?
Pa gyfryw golofnau gyfodir yn Mhrydain,
A pha fath allorau a fydd dy arwyrain?
Tri phum' cant o weithiau y rhedodd yr heulwen
Ei gŵrs, ond mae'th enw a'th glod yn anorphen.
Ac ar y bryn yma, lle mynych ymleddaist,
Crib creigiog yr hwn wêl y tiroedd a droediaist,
Mae ie'ungctyd caruaidd â llawen galonau
Bob blwyddyn yn dyfod â cherdd ac â blodau,
I ddatgan dy glodydd mewn miwsig nefolaidd,—
O! am fwy o wreichion o'th yspryd gwronaidd!
Os oes unrhyw beth a berthyna i'r hollfyd,
Yn berwi'th ddigofaint, yn blino dy yspryd,
Mae gwel'd gwrthymgeisydd hen Rufain ddiblygu,
Y Brython gwrolfryd, yn cael eu dyrysu
Gan Ffrangcod ysgeler, yn sicr o wneyd hyny.
Darfelydd a'th baentia yn gwgu'n anniddig,
A gwedd sy'n amrywiog gan g'wilydd a dirmyg.
Yr *Henriaid*, *Edwardiaid*, daranfyllt rhyfelgar,
Pa le mae'r Llew-galon, a'r cleddyf gorllachar
A wridodd hen faesydd *Agincourt* a *Cressy*?
O! dowch i'n cynorthwy, rhowch rym yn ein gallu!
Ond yn benaf, tydi, warcheidwad ein hynys,
Amgylcha ein pebyll; dy waywffon astrus
Anela, a thaena dy darian ddiffynol!
O, galw i'r frwydr dy feibion gwladgarol!

Henffych, hen Feirdd, a Derwyddol hynafiaid,
Mae gorhoen brophwydol yn gafael yn f'enaid;
'Rwy'n gwel'd, er yn dywyll, o'm huchder clogwynog,
Gymylau'n ymagor ar lanerch orheulog
O hoen a gorfoledd. Ha, clywch, maent yn gwaeddi:
*Llew Prydain* a welaf yn codi ei faneri,
A thryfer Brutania yn llywio y cefnfor,
A'i lluman yn chwifio yn uchel yn ngoror
Columbia bellenig, mewn llawn fuddugoliaeth,
Mae Heddwch yn dyfod, ac *Albion* mewn afiaeth.
Yn mlaen, ewch, Frythoniaid; mae'r tân cysegredig
Yn llosgi yn mynwes y bardd cysegredig!
Fy Awen â rhagddi, gan fywiog ymbyngcio,
A chwythu ei hudgorn yn uchel i ddeffro
Fy ngwlad sydd yn cysgu; ac yn ei llaw nerthol
Bydd llawryf i wisgo'r buddugwr anfarwol!

Digitized by Google

# ATTODIAD.

Digitized by Google

Digitized by Google

# ATTODIAD.

## Rhif I.

**MYNACHLOG Y MAESGLAS. Tudal. 31.**

**Mewn tŷ allan y mae careg, ac arni y cerfiad canlynol:—**

IESUS * * MARIA.

HERE . LYETH . TH . Y . BODY . OF . GEORGE . PE=
TRE . LATE . OF . GREENFIELD . IN . FLINT
SHIRE, Esq. SONE TO . W . LORD . PETRE
BARON . OF . INGLESTON . IN . ESSEX . &
MARRIED ANE . Y[E] . RELICT . OF . IOHN
MOSTOIN . Esq. BEING . Y[E] DAUGHTER
OF . HENRY . FOX . Esq. . WHO . FOR . Y[E] . RO=
MANE . CATHOLIQUE . FAITH . & . LOYAL=
TY . TO . HIS . MA[TIE] . LEFT HIS . COUNTRY .
& . SPENDING HIS . TIME . W[T] . GREAT .
EDIFICATION . OF . HIS . NEIGHBOVRS .
DIED . AT . WEXFORD Y[E] 26 DAY OF SEP.
AN . DO 1647 AGED 34.*

* A ganlyn sydd gyfieithiad o'r cerfiad uchod:—
"IESU. MAIR. Yma y gorwedd corph George Petre, o'r Maesglas, yn sir Fflint, ysw., mab i W. Arglwydd Petre, barwn, o Ingleston, yn sir Essex, ac a briododd Anne, gweddw John Mostyn, ysw., a merch i Henry Fox, ysw. Efe, oblegyd y ffydd Gatholig, a'i deyrngarwch i'w Fawrhydi, a adawodd ei wlad, a chan dreulio ei amser er mawr adeiladaeth i'w gymydogion, bu farw yn Wexford, y 26ain o Fedi, Blwyddyn yr Arglwydd 1647, yn 34 mlwydd oed."

Digitized by Google

# Rhif II.*

## TAFLEN O'R LLWYTHI A ANFONWYD ALLAN AC A DDYGWYD I MEWN I BORTHLADD CAERLLEON.

Tudal. 127.

| | 1771 | 1776 | 1786 | 1796 | 1806 |
|---|---|---|---|---|---|
| Llestri arfordirol a gofrestrwyd i mewn | 297 | 208 | 241 | 206 | 149 |
| Etto ... allan | 526 | 619 | 454 | 402 | 350 |
| Iwerddon ... (a ystyrid yn dramor) ... i mewn | 95 | 140 | 48 | 32 | 195 |
| Eto ... allan | 216 | 104 | 103 | 51 | 329 |
| Americ ... i mewn | 71 | 2 | | | |
| Eto ... allan | | 5 | 2 | | |
| Ynys Manaw ... i mewn | | 4 | 13 | 1 | 9 |
| Eto ... allan | | 3 | 23 | 15 | 1 |
| **ANFONWYD ALLAN I BARTHAU TRAMOR.** | | | | | |
| Calloraid (pob un yn 36 bwsiel) o lo. ... | 6000 | 2877 | 2616 | 272 | 16519 |
| Tunelli o blwm ... | 1000 | 1184 | 1410 | 160 | 11 |
| Mŵn ... | 300 | 168 | 245 | | |
| Rhisg ... | 300 | 18 | 370 | 695 | 16 |
| **ANFONWYD ALLAN AR YR ARFORDIR.** | | | | | |
| Plwm ... | 3470 | 2813 | 1058 | 1163 | 2200 |
| Mŵn Plwm ... | 431 | 432 | 309 | 376 | 490 |
| Rhifedi y llestri yn y drafnidiaeth dramor ... | 22 | 30 | 8 | 6 | 13 |
| Yr unrhyw mewn trafnidiaeth arfordirol ... | 13 | 16 | 25 | 17 | 14 |

* Nid yw hwn yn argraffiadau Pennant ei hun, ond dichon iddo gael ei dynu allan at yr un wythplyg yn 1810. J.R.

NIFER Y LLESTRI A GOFRESTRWYD YN MHORTHLADD CAERLLEON O BORTHLADDOEDD TRAMOR, HEBLAW O AMERIG, YR IWERDDON, AC YNYS MANAW.

| Blynyddau. | Nifer y Llestri. | O ba le. | Llwythi. |
|---|---|---|---|
| 1786 | 5 | Portugal | Gwinoedd. |
| | 3 | Prwssia | Coed, cywarch, &c. |
| | 3 | Norway | |
| | 3 | Livonia | |
| | 2 | Itali | Crwyn. |
| | 3 | Rwssia | Cywarch a llin. |
| 1796 | 3 | Portugal | Gwinoedd. |
| | 1 | Yspaen | Ffrwythau. |
| | 3 | Livonia | Cywarch, llin. |
| | 2 | Norway | Coed. |
| | 3 | Itali | Coed lliwio, ffrwythau, a gwinoedd. |
| | 1 | Prwssia | Cywarch, llin. |
| | 1 | Narva | Eto. |
| | 2 | Rwssia | Eto. |
| 1806 | 1 | Prwssia | Eto. |
| | 5 | Portugal | Gwinoedd. |
| | 4 | Rwssia | Cywarch, llin, coed. |

ALLANOL.

| Blynyddau. | Nifer y Llestri. | I ba le. | Llwythi. |
|---|---|---|---|
| 1786 | 12 | Ffraingc | Plwm, mŵn plwm, copr, &c. |
| | 1 | Rwssia | Plwm. |
| | 3 | Itali | Eto, gorferw y mŵn *(litharge.)* |
| 1796 | 1 | Itali | Eto, eto. |
| 1806 | 1 | Portugal | Glo, &c. |

O 1777 hyd Nadolig 1866, a chymeryd y ddwy flwyddyn i mewn, cofrestrwyd fel y canlyn yn y tolldy yn Nghaerlleon, yn dramoraidd ac arfordirol.

| | Tunelli. |
|---|---|
| Plwm | 152,643. |
| Mŵn | 33,879. |
| Gorferw y Mŵn | 4,685. |

Gol.

## Rhif II.*

**[illegible] A ANFONWYD ALLA**
**[illegible] I BORTHLADD CAERL**

Tudal. 127.

| | 1771 | 1776 |
|---|---|---|
| [illegible] i mewn | 297 | 208 |
| [illegible] allan | 526 | 619 |
| [illegible] i mewn | 95 | 140 |
| [illegible] allan | 216 | 104 |
| [illegible] i mewn | 71 | [illegible] |
| [illegible] allan | | [illegible] |
| [illegible] i mewn | | [illegible] |
| [illegible] allan | | [illegible] |
| **ANFONWYD ALLAN I BARTHAU [illegible]** | | |
| [illegible] | 6000 | 2877… |
| [illegible] | 1000 | 118… |
| [illegible] | 300 | 16… |
| [illegible] | 300 | 1… |
| **ANFONWYD ALLAN AR YR [illegible]** | | |
| [illegible] | 3470 | 281… |
| [illegible] | 431 | 43… |
| [illegible] | 22 | 3… |
| [illegible] | 13 | 16 |

* [illegible]

Digitized by Google

[illegible]

| [illegible] | I ba le. | Llwyth. |
|---|---|---|
| 5 | [illegible] | [illegible] |
| 2 | [illegible] | |
| 3 | Norway | [illegible] cywarch, &c. |
| 3 | [illegible] | |
| 2 | Itali | Crwyn. |
| 3 | Rwssia | Cywarch a llin. |
| 3 | Portugal | Gwinoedd. |
| 1 | Yspaen | Ffrwythau. |
| 3 | Rwssia | Cywarch, llin. |
| 2 | Norway | Coed. |
| 3 | Itali | Coed lliwio, ffrwythau, a gwinoedd. |
| 1 | Prwssia | Cywarch, llin. |
| 1 | Narva | Eto. |
| 2 | Rwssia | Eto. |
| 1 | Prwssia | Eto. |
| 5 | Portugal | Gwinoedd. |
| 4 | Rwssia | Cywarch, llin, coed. |

ALLANOL.

| [illegible] | I ba le. | Llwyth. |
|---|---|---|
| [illegible] | Ffraingc | Plwm, mwn plwm, copr, &c. |
| [illegible] | Rwssia | Plwm. |
| [illegible] | Itali | Eto, gwaelew y mwn (*litharge*.) |
| [illegible] | Itali | Eto, eto. |
| 1 | Portugal | Glo, &c. |

[illegible] 1866, a chymeryd y ddwy [illegible] [illegible] Caerlleon, yn dramorawl ac arfordirol [illegible]

Plwm [illegible]
Mwn [illegible]
Gwaelew y Mwn [illegible]
[illegible]

## Rhif III.

### DYFYNIADAU ALLAN O DRAETHAWD MEWN LLAWYSGRIFEN, YN NGHYLCH ARGLWYDDI CYFFINDIROL CYMRU, YR HWN A YSGRIFENWYD YN MIS AWST 1740. TUDAL. 156.

[Benthycwyd y Traethawd hwn gan Thomas Lloyd, o Overton, ysw.]

Y MAE y traethawd yn dangos,

1. Pa fodd, pa ham, a pha bryd, y crewyd arglwyddi y cyffindiroedd ar y cyntaf.

2. Pa fodd, pa ham, a pha bryd, y dodwyd hwy i lawr. Ac,

3. Pa fodd y gellir eu hadnabod, a'u profi, yn y dydd presenol, oddiwrth arglwyddiaethau ereill, nad oeddynt yn arglwyddiaethau y cyffindiroedd.

> Er cael gwybodaeth gywir a pherffaith ddealldwriaeth ynghylch cyflwr yr arglwyddi cyffindirol yn Nghymru, byddai yn gyfaddas gofyn y cwestiynau canlynol:

1. Pa bryd y dechreuwyd creu yr arglwyddi cyffindirol yn Nghymru?

2. Dros ba gymaint o amser y parhaodd creadigaeth arglwyddi y cyffindiroedd yn Nghymru?

3. Pa bryd y rhoddwyd hyny heibio, a pha ham?

4. O ba herwydd yr ordeiniwyd hwy ar y cyntaf, a pha ddyben a wasanaethasant hwy?

5. Pa fodd y daethant yn arglwyddi y cyffindiroedd, ac i feddiannu awdurdod breninol?

6. Am ba yspaid o amser y buont yn ymarfer eu gallu a'u hawdurdod o'u creadigaeth cyntaf?

7. Pa bryd yr yspeiliwyd hwy o'u rhyddid, ac y cymerwyd eu gallu yn ol i ddwylaw y brenin?

8. Am ba achos yr amddifadwyd hwy o'u hawdurdod freninol?

9. Pa fodd y maent i'w hadnabod yn y dydd presenol?

10. Pa ham y gelwid hwy ar y cyntaf, ac y gelwir hwy yn bresenol, yn arglwyddi y cyffindiroedd; a pha fodd y cymerasant yr enw ar y cyntaf?

11. Pa wahaniaeth sydd rhyngddynt heddyw ag arglwyddiaethau ereill?

CYMRU ydoedd noddfa i'r hen Frytaniaid, pan yrwyd hwy allan o Loegr gan y Sacsoniaid; ac yno y cadwasant hen waed breninol eu tywysogion, eu cyfreithiau, a'u hiaith hynafol, rhag cynddaredd y Sacsoniaid.

Parhaodd casineb anghymodlon a rhyfeloedd rhwng y ddwy genedl. Ac er fod y saith deyrnas *(heptarchy)* wedi cael eu darostwng i unbenaeth gan Egbert, brenin y Sacsoniaid Gorllewinol (y rhai yn gyntaf a alwasant y lle hwn yn *England*,) eto ni chafodd efe na'i olynwyr unrhyw ufudd-dod nac ymostyngiad gan freninoedd neu dywysogion Cymru; ond dalient hwy Gymru fel

unbenaethiaid annibynol, ac ni chydnabyddent neb yn uwchraddol iddynt o dan Dduw.

Yma Cadwaladr (brenin olaf Prydain o'r llinach Frytanaidd) a'i olynwyr, a lywodraethasant y bobl, fel eu breninoedd a'u tywysogion cyfreithlon, yn ystod holl amser y llywodraeth Sacsonaidd.

Pan y darfu i Wilym y Gorchfygwr ddarostwng Lloegr, efe a ddifeddiannodd yr olynwyr Sacsonaidd o'r goron; dadwreiddiodd eu pendefigaeth, a dygodd ei bobl ei hun i mewn, y Normaniaid; a phan oedd efe mewn tawel feddiant o'r deyrnas, ni chymerodd y Cymry un sylw o'i gongcwest ar y Sacsoniaid; ond ystyrient y peth fel rhyfel rhwng dwy genedl ddyeithr.

Yn mhell cyn y Gorchfygiad, yr oedd holl Gymru wedi dyfod i ddwylaw Rhodri Fawr; yr hwn a'i rhanodd rhwng ei dri mab: i Cadell y rhoddodd efe Ddeheubarth Cymru, yn cynwys 25 o gantrefi; i Anarawd, Ogledd Cymru, 15 o gantrefi; ac i Merfyn, Powys, 14 o gantrefi.

Olynwyr y tri mab yma a feddiannent Gymru, yn ol y rhaniad hwnw, yn amser y Gorchfygwr; sef, Rhys ap Tewdwr a lywodraethai Ddeheubarth Cymru; Gryffydd ap Cynan, Ogledd Cymru; a Bleddyn ap Cynfyn, Powys. Ni fynai yr un o'r tri thywysog yma byth addef fod gan y Gorchfygwr unrhyw reolaeth ar Gymru: ac am y rheswm yma y tarddodd rhyfeloedd creulawn cydrhyngddynt, a gwnant anrheithiadau beunyddiol y naill i diriogaethau y llall.

Byddai breninoedd Lloegr yn fynych yn goresgyn y cyffindiroedd Cymreig, ac yn gorfodi y preswylwyr i ffoi i'r mynyddoedd; a'r Cymry, ar adegau ereill, a wnaent amrywiol anrheithiadau dros yr Hafren, ac a gludent lawer iawn o ysglyfaeth allan o Loegr. Cythruddodd hyn hwynt i'r fath raddau fel y penderfynasant gongcwerio Cymru; ond yr oedd gerwindeb y wlad, y bryniau, y coedwigoedd, a'r siglenydd, yn amddiffyniad mor fawr, fel mai prin y gellid dwyn byddin luosog i'w haflonyddu; ond yn fynych gorfyddai arnynt ddychwelyd adref gyda cholled, megys yn amgylchiad Gwilym Goch, a Harri II., yr hwn a ddaeth deirgwaith i Gymru gyda byddinoedd breninol. Y brenin Ioan a wnaeth ryfel â Llewelyn ap Iorwerth, tywysog Gogledd Cymru, a Harri III. ar Lewelyn ap Gruffydd; yr hyn a ddygodd golledion mawrion arnynt hwy eu hunain, yn gystal a niwaid i'r Cymry.

Breninoedd Lloegr, wrth weled mai gwaith annawdd ydoedd goresgyn Cymru gyda byddin fawr, a roddasant i'r arglwyddi, a gwŷr mawr ereill yn Lloegr, y cyfryw wledydd yn Nghymru ag a allasent enill oddiar y Cymry. Dyma eiriau amryw o'u hordeiniadau.

Trwy y moddion hyn, tueddwyd llawer i ddwyn byddinoedd mawrion i Gymru, o Saeson a Normaniaid, y rhai a orchfygasant luaws o arglwyddiaethau mawrion; a pha rai a ddalient iddynt eu hunain, a'u hetifeddion am byth, gan freninoedd Lloegr, fel tiroedd wedi eu pwrcasu trwy gongcwest.

Darfu i freninoedd Lloegr adeiladu amryw drefydd cadarn, gyda gwarchodluoedd ynddynt ar gyffindiroedd Cymru, ar ol y Gorchfygiad; megys Bristow, Caerloyw, Caerwrangon, yr Amwythig, a Chaerlleon, fel lleoedd i geryddu y Cymry ar yr achlysur o unrhyw wrthryfel o'r eiddynt. Y gwŷr mawr a dde-

Digitized by Google

chreuasant oresgyn y gwledydd nesaf i'r trefydd hyny; megys, er enghraifft, Peter Corbet a oresgynodd wlad *Cause;* Mortimer *Wigmore;* Fitz-alan *Clun* a *Chroesoswallt:* Walter Lacy *Ewyas-Lacy;* Dru de Baladan *Abergafenni;* Montbault *Ben-ar-lâg;* Gilbert arglwydd Mynwy a gymerodd *Fynwy;* Fulk Fitzwarren y *Dref Wen;* Roger le Strange *Ellesmere;* yn fuan wedi hyny daeth Robert Fitz-hamon, gyda'i ddeuddeg marchog, i sîr *Forganwg;* Bernard Newmarch, i *Frycheiniog;* Martin i *Gemmaes;* Morris de Londres, i *Gydweli* a *Chornwallon;* Lacy iarll Lincoln i'r *Rhos* a *Rhyfoniog,* yn awr arglwyddiaeth Dinbych; Brewis i *Gŵyr, Buallt, Maesyfed, Melenydd,* ac *Elfel;* a Roger Mortimer i'r wlad a elwir yn awr *Castell y Waun,* ond a elwid y pryd hyny *Mochnant,* ac i *Gynlleth* a *Nanheudwy;* ac ereill i arglwyddiaethau ereill.

Er galluogi yr arglwyddi i lywodraethu y bobl yn well ar ol eu darostwng, caniateid iddynt ymgymeryd â'r fath uchelfraint ac awdurdod ag oedd yn gymhwys er llywodraethu y wlad mewn tawelwch.

Y mae yr hanesydd hynafol, *Lampridius,* yn dywedyd fod breninoedd Lloegr yn ymarfer y pryd hyny yr un wladweiniaeth gyda golwg ar y tir ar gyffiniau Ysgotland.

Nid oes unrhyw gofnodiad i'w gael yn Nhŵr Llundain, nac yn unman arall, am unrhyw ganiatâd i fod yn arglwydd cyffindirol yn Nghymru. Nid oedd gwysiadau y brenin, allan o'r llysoedd yn Westminster, yn cyrhaedd i Gymru, oddieithr i sîr Benfro; yr hon a gyfrifid yn rhan o Loegr, ac a elwid yn *Lloegr fach tu hwnt i Gymru.* Ac nid oedd unrhyw siryddion i wasanaethu y cyfryw wysiadau; ond yr oedd yr arglwyddi yn ymarfer cyfreithiau o'r eiddynt eu hunain ar y bobl a ddarostyngasid ganddynt; yr hyn a ganiataodd y breninoedd am ryw gymaint o amser.

Ni allesid rhoddi siartrau am y breiniau hyn, yn gyfleus, o herwydd tri o resymau.

1. Ni wyddai breninoedd Lloegr, yn mlaen llaw, pa diroedd a allai un o'r arglwyddi ei feddiannu; neu pa un a allai feddiannu unrhyw dir, ac o ganlyniad nis gallai ganiatâu unrhyw ryddid o fewn unrhyw etifeddiaeth neu diriogaeth.

2. Nid oedd yr arglwyddi, ar ol iddynt feistroli unrhyw wlad, mewn rhyw ormod o frys i bwrcasu unrhyw siartr; am nad oeddynt yn sicr nas gallasai y tiroedd hyny gael eu hadferu, trwy gytundeb rhwng breninoedd Lloegr a thywysogion Cymru, fel y byddai yn dygwydd yn fynych; neu efallai y gallent gael eu hadenill trwy rym arfau, ac i'r arglwyddi gael eu bwrw allan. Ond,

3. Dywed y dysgedigion, nad oedd gan arglwyddi y cyffindiroedd unrhyw siartrau am y fath freiniau, am fod y breiniau o natur mor uchel, mor freninol, ac mor gysylltiedig â'r goron, fel nad oedd, yn ol y gyfraith, yn ngallu y brenin i'w caniatâu ar wahan i'r goron.

Parhaodd y llywodraeth trwy arglwyddi y cyffindiroedd, yn Nghymru, hyd amser Harri VIII.; yr hwn, wrth weled fod y Cymry yn byw yn dawel ac mewn ufudd-dod, a farnodd y gellid eu llywodraethu trwy gyfreithiau gwladol, yr un modd a'r Saeson. Ac felly, yn y flwyddyn 27 [o'i deyrnasiad] pen. 24, efe a gymerodd i fyny y rhan fwyaf o'r arglwyddiaethau hyn i'w ddwylaw ei

Digitized by Google

hunan, ac a apwyntiodd ustusiaid heddwch, siryddion, a swyddogion ereill; ac a ranodd y wlad yn siroedd. Llywodraethodd hwy trwy gyfreithiau Lloegr, ac ni adawodd ond ychydig, neu ddim, awdurdod i arglwyddi y cyffiudiroedd.

Yr arglwyddi, pan orchfygwyd y wlad, a adeiladasant gestyll iddynt eu hunain, a threfydd i'w dylynwyr, yn y manau mwyaf ffrwythlawn: a thrwy y moddion hyn yr adeiladwyd y trefydd a'r cestyll yn Nghymru, fel y gellir gweled oddiwrth hen siartrau y trefydd hyny.

Penfro, Dinbych y Pysgod, a Hwlffordd, a adeiladwyd gan Strongbow; William de Valence, a theulu yr Hastings, oeddynt ei olynwyr; Casnewydd, gan Martin arglwydd Cemaes; Cydweli, gan Londres; ac a helaethwyd wedi hyny gan y duc Lancaster, i'r hwn y daethai trwy briodas.

Abertawe, Oystermouth, Llochor, Maesyfed, Buallt, Rhaiadr, ac ereill, gan y Brewisiaid; oddiwrth ba rai y daethant i'r Mortimers, a'r Beauchamps, trwy olynydd benywaidd o eiddo Brewis; Brycheiniog, gan Bernard Newmarch.

Blaen-llyfnwy a adeiladwyd gan Herbert; Caerdydd a Phontfaen, gan Fitzhamon, ac ieirll Caerloyw; Castellnedd, gan Greenfield; Abergafenni, gan Dru de Baladan, Miles iarll Henffordd, ac ereill, ei olynwyr; Rhuthyn, gan arglwydd Grey; Dinbych, gan Lacy iarll Lincoln.

Yr oedd rhai o honynt yn drefydd cyn y Gorchfygiad; ond trwy iddynt gael eu dinystrio wrth eu henill, ail-adeiladwyd hwy gan yr arglwyddi.

Daliai yr arglwyddi eu harglwyddiaethau gan freninoedd Lloegr yn rhydd, megys oddiwrth y goron yn uniongyrchol, trwy wasanaethu y brenin yn ei ryfeloedd gyda nifer pennodol o filwyr; ac yr oeddynt yn rhwym i gadw eu castellydd gyda digon o ddynion a darpariadau, er cadw gelynion y brenin mewn darostyngiad.

Gweinyddent y cyfreithiau Seisonig, gan mwyaf, o fewn eu harglwyddiaethau; a dygent hwy i fod o dan amod-ddaliad Seisonig; ac i basio yr unrhyw yn ol cyfreithiau Lloegr, trwy ddirwy, adgaffaeliad, meddiant, neu oresgyniad. Ond y cyfryw ranau ag a adawent i'r hen breswylwyr eu meddiannu, a oddefid, gan rai arglwyddi, i gael eu dal yn ol yr hen ddull Cymreig, a chyfreithiau Hywel Dda; yr hyn oedd, i drosglwyddo yr unrhyw trwy eu rhoddi i fyny mewn llys, (yr hyn a alwent hwy *Cof Llys*, ac *Ystyn Wialen*, oddiwrth ba un y tarddodd y gair *Ystynol*): a lle y caniateid yr arferiad yma, nid oes un weithred ar gael am unrhyw diroedd yn flaenorol i'r 27ain o Harri VIII. pan y gwnaed Cymru yn siroedd; ond am y tiroedd a drowyd yn amod-ddaliadau Seisonig, gellwch gael gweithredoedd o ddau, tri, neu bedwar cant o flynyddoedd a aethant heibio, wedi eu hysgrifenu yn Lladin, neu yn y Ffrangcaeg, megys ag yr oedd yn arferedig yn Lloegr yn y dyddiau hyny.

Dygwyd cyfreithiau Lloegr i mewn gan yr arglwyddi cyffindirol, am fod cyfreithiau y wlad yn anadnabyddus iddynt, fel Saeson; ond goddefent i rai hen denantiaid ddal gafael mewn rhan o'r hen gyfreithiau Cymreig; megys defnyddiad y gyfraith o ranu yr eiddo rhwng y brodyr, a phasio tiroedd trwy eu rhoddi i fyny mewn llys. Ac i'r dyben yma, mewn llawer o arglwyddiaethau, yr oedd llŷs Cymreig i'r Cymry, yr hwn a elwid *Welchrie;* ac un arall i'r Saeson, a elwid *Englishrie.* Mewn rhai arglwyddiaethau yr oedd y tir yn cael ei ranu

Digitized by Google

yn gyfartal, ond yr oedd yn pasio fel meddiant; o'r hyn y tarddodd yr amod-ddaliaid Seisonig, a'r gardod Gymreig: yn Gymraeg, *Cyfraith Seisonig* a *Rhan Gymreig*. Ac yr oedd gan yr arglwyddi warchodaeth yr oll o'r brodyr, fel pe buasent yn chwiorydd.

Yr arglwyddi cyffindirol a gynyddasant mewn rhifedi hyd amser Llewelyn ap Gruffydd, tywysog olaf Cymru, yr hwn a laddwyd yn y flwyddyn 1leg o Iorwerth I.; yr hwn, y pryd hyny, a gymerodd dywysogaeth Cymru i'w ddwylaw ei hun, ac a'i rhoddodd i Iorwerth II. gan ei wneyd yn dywysog Cymru. Er ei amser ef, ni chrewyd dim yn rhagor o arglwyddi y cyffindiroedd; oblegyd darfu i'r Cymry yn gyffredinol ymddarostwng i freninoedd Lloegr.

Wedi dyfod y dywysogaeth yn eiddo i freninoedd Lloegr, ni allai unrhyw arglwydd gyffinydd hawlio na rhyddid na rhagorfraint, yn fwy nag a feddent o'r blaen heb ganiatâd.,

Iorwerth I. yn ddiatreg a gynaliodd senedd yn nghastell Rhuddlan; ac yno efe a benododd gyfreithiau a swyddogion, i lywodraethu Cymru yn ol y dull Seisonig.

Ni chafodd arglwyddiaeth Powys ei dechreuad trwy orchfygiad, fel ag y cafodd arglwyddi y cyffindiroedd; ond yn y dull yma:

Gruffydd, fab i Meredydd ap Bleddyn, arglwydd Powys, wrth weled fod brenin Lloegr, a'r arglwyddi Seisonig, yn ymbarotôi i orchfygu Cymru, o ran cyfrwysdra a gwladweiniaeth, a ymddarostyngodd i Harri I., ac a amododd i ddal ei arglwyddiaeth gan frenin Lloegr fel penaeth, megys ag y gwnelai arglwyddi y cyffindiroedd, ac i gyflawni i'r brenin y cyffelyb wasanaeth; ac ar hyny o weithrediad, caniatawyd iddo ddal yr unrhyw iddo ei hun a'i etifeddion; a chrëwyd ef yn arglwydd Powys gan y rhagddywededig Harri I., a gwnaed ef yn farwn o'r senedd yn Lloegr.

Ei ddisgynyddes, Hawys Gadarn a ddaeth o dan nodded brenin Lloegr, ar gyfrif y cyfnewidiad yn amod-ddaliad y tiroedd: yr hwn a'i rhoddodd mewn priodas i foneddwr gwrolfrydig o'i eiddo, a elwid John Charlton. Ac felly y daeth arglwyddiaeth Powys yn eiddo i'r arglwyddi Seisonig. (Mowddwy, ac ereill, a wnaethant yr un peth.) Y rhai hyn (yn nghyda'r arglwyddi cyffindirol,) a ddalient eu harglwyddiaethau oddiwrth y brenin, yn rhydd, ac nid gan dywysogion Cymru

Trwy i arglwydd Powys ymddarostwng fel hyn i frenin Lloegr, parhaodd y cymydau yn yr arglwyddiaeth hono yn gyfan a diraniad hyd heddyw: ac y mae llys barwn yn mhob un o honynt. Ond yr arglwyddi cyffindirol, i'r dyben o wobrwyo y rhai a'u cynorthwyasent yn eu congcwest, a roddasant iddynt amrywiol faenorau; ac felly rhanasant y cymydau i amryw raniadau, a sefydlasant lys barwn yn mhob un o honynt. Y cymydau oeddynt chwech o nifer: Caereinion, Mechan Uwchcoed, Mechan Iscoed, Mochnant, Llanerchhudol, ac Ystrad-marchell.

Gellir cael y cyfryw hefyd yn siroedd Môn, Caernarfon, Meirionydd, Fflint, Caerfyrddin, a Cheredigion; yn mha rai y mae yr hen gymydau yn parhau yn gyflawn, heb gyfnewidiad, ac yn dal eu hen enwau a'u terfynau, ac yn cadw i fyny eu hen lysoedd. Y rheswm am hyny ydyw, am na chawsant erioed eu

Digitized by Google

gorchfygu gan arglwyddi y cyffindiroedd, ond parhausant yn nwylaw tywysogion Cymru hyd nes y lladdwyd Llywelyn, y tywysog olaf, gan Iorwerth I.

Ymddengys, yn ol cofnodiad hynafol, fod arglwyddiaeth Maelor ac Iâl, y rhai a elwid, yn yr amser gynt, Dinas Brân, am ei fod yn brif gastell yr arglwyddiaeth, wedi dyfod i feddiant arglwyddi Seisonig yn y dull canlynol:—

Emma, ferch i arglwydd Audley, a gweddw Gruffydd ap Madog, arglwydd Maelor ac Iâl, Castell y Waun, Nantheudwy, Maelor, a thiroedd ereill, sef rhan o hen Bowys, a feddai bedwar o feibion, rhwng pa rai y rhanesid etifeddiaeth eu tad: cyfododd ymrafael rhyngddi a thylwyth ei gŵr yn mherthynas i gadwraeth ei meibion; hwynt-hwy yn ofni rhag iddynt gael eu dwyn i fyny yn Lloegr, ac y deuent yn Saeson; a thueddu yn hytrach at frenin Lloegr nag at dywysogion Cymru. Ond cafodd y fam y ddau fab hynaf i'w gafael, sef Madog a Llywelyn; y blaenaf yn meddu fel ei gyfran, Faelor ac Iâl, a'r llall, Gastell y Waun, a Nantheudwy; ac heb fod yn abl i'w cadw gyda hi ei hun, nac i fod yn dawel ar ei gwaddol, hi a draddododd ei meibion i Iorwerth I., gan ddangos eu bod trwy iawnder o dan ei warchodaeth ef, am fod eu hynafiaid cyn hyny wedi gwneyd eu hymostyngiad i freninoedd Lloegr. Y brenin a'u cymerodd o dan ei warcheidwadaeth; ac a draddododd Madog, yr hynaf, i ofal John iarll Warren; a Llywelyn i Roger Wigmore, trydydd mab i Ralph arglwydd Mortimer, o Wigmore. Trwy fod gan y ddau warcheidwad y plant yn eu gwarchodaeth, ynghyda'u tiroedd, iarll Warren a adeiladodd gastell Lleon yn Maelor, a Roger Mortimer gastell y Waun, ac a osodasant warchodlu o Saeson yn y naill a'r llall, i amddiffyn y wlad rhag y Cymry. Y plant* a fuant feirw yn fuan ar ol hyny, heb etifeddion, a'r gwarcheidwaid rhagddywededig a gadwasant y tiroedd yn barhaus, ac a gawsant ganiatâd gan y brenin i ddal yr unrhyw, 10fed o Iorwerth I.; ond yn unig fod castell Estyn, a'r tiroedd perthynol iddo, wedi cael eu dyogelu yn flaenorol i'r brenin, yn nghaniatâd iarll Warren. Ardreth Maelor ac Iâl yn yr hen amser oedd 730*l.* yn y flwyddyn.

Emma, trwy iddi gael aflonyddu ar ei gwaddol, oherwydd iddi draddodi ei meibion i'r brenin, ac felly ddarparu ar gyfer gwaith yr arglwyddi hyny yn adeiladu castelli Maelor a'r Waun, a ddymunodd ar y brenin gymeryd Maelor, ei gwaddol hi, a rhoi iddi diroedd yn Lloegr am dani; yr hyn a wnaeth y brenin, ac felly y daeth i feddiant o *Faelor Saesoneg*, ac efe a ddaliodd yr unrhyw byth wedi hyny; heb adael i'r un o'r etifeddion ei chael, dan yr esgus eu bod yn wrthryfelwyr yn ei erbyn.

Ni byddai unrhyw arglwydd cyffiniol heb gastell, a digon o warchodlu i ddarostwng y cyfryw o'r Cymry ag a flinent ddeiliaid y brenin; ac felly yr oedd gan bob castelli drefydd gerllaw iddynt, y rhai a breswylid gan Saeson. A thrwy y 4ydd o Harri IV. c. 32, ffurfiwyd cyfraith fod castelli a threfydd caerog yn Nghymru i gael eu dal gan Saeson gwrolfrydig, dyeithriaid i'r arglwyddi.

Yr oedd siartrau y trefydd hyn yn rhoddi breintiau mawrion i'r Saeson; ond ni allai yr un Cymro fod yn fwrdeisiad, na phrynu unrhyw dir o'u mewn; gwel 2 Harri IV. c. 12 a 20. Yr oedd yn gyfraith hefyd, nad oedd i un Cymro

* Am dynged anffodus y plant hyn, gwel tudal. 135 o'r gwaith hwn.

Digitized by Google

feddu unrhyw gastell neu amddiffynfa, heblaw y rhai a hanfodent yn amser Iorwerth I., oddieithr esgobion ac arglwyddi tymhorol.

Yn fwy fyth i galonogi y Saeson i orchfygu Cymru, darfu i freninoedd Lloegr eu creu yn bendefigion y deyrnas, wrth yr enw o arglwydd farwniaid y lleoedd a orchfygent. Yr oedd eu rhifedi ar un adeg yn un ar hugain; ond y maent yn awr wedi eu darostwng i un, sef Abergafenni, yr hwn ydyw yr arglwydd farwn cyntaf yn Lloegr. Y mae y lleill wedi colli eu safleoedd a'u henwau, naill ai trwy iddynt ddyfod i'r goron, neu ynte i arglwyddi a feddent leoedd a theitlau ereill am eisteddle yn y senedd. Nifer y castelli yn Nghymru ydoedd oddeutu 143.

Ymostyngodd y Cymry i Harri VII. am ei fod o du ei dad wedi hanu o'u tywysogion: a'i fab, Harri VIII., a wnaeth amryw ddeddfau er eu llywodraethu yn yr amser dyfodol, yn y flwyddyn 27 [o'i deyrnasiad].

Byddai yr arglwyddi cyffindirol yn gafael yn meddiannau eu tenantiaid a fyddent feirw heb wneyd llythyr cymun.

Y mae yr oll o'r arglwyddi cyffindirol wedi colli eu hen lywodraeth a'u hawdurdod, y rhai oeddynt yr arwyddion cyffredin wrth ba rai yr adnabyddid hwy; fel ag y mae ambeuaeth yn bresenol pa rai oeddynt yr arglwyddiaethau hyny. Ond gellir eu hadnabod eto wrth amrywiol arwyddion.

1. Nis gall fod unrhyw arglwydd cyffindirol ond y cyfryw ag a bennodwyd cyn marwolaeth y tywysog Llywelyn.

2. Yr oedd yn rhaid i'r gyfryw arglwyddiaeth gael ei dal oddiwrth y brenin, fel penadur, ac nid gan dywysogaeth Cymru.

3. Rhaid ei bod, mewn hen amseroedd, yn etifeddiaeth i ryw arglwydd Seisonig.

4. Os codai unrhyw ddadl yn nghylch y teitl, yr oedd yn rhaid ei brofi yn ol y gyfraith gyffredin, yn Neuadd Westminster; ac yr oedd dirwyon yn cael eu codi oddiar yr arglwyddiaethau hyn, ac nid oddiar unrhyw arglwyddiaethau ereill yn Nghymru.

5. Yr oedd fforffediwr* cyffindiroedd Cymru, mewn hen amseroedd, yn ymofyn yn nghylch yr amod-ddaliad, ac yn ymorol am swyddfa ar ol marwolaeth yr arglwydd; a hyny trwy wŷs allan o ganghelldy Lloegr. Ac yn gymaint nad oedd yr arglwyddiaethau hyn mewn unrhyw sir yn Lloegr, ac nad oedd gan y brenin fforffetwyr i ymholi ynghylch yr amod-ddaliad o honynt, gosodid hyny ar ysgwyddau y fforffetiwr yn y sir Seisonig nesaf ati. A chan y cyfryw fforffetwyr yr oedd llywodraeth, gofal, ac arolygiaeth yr holl arglwyddiaethau cyffindirol a ddelid gan y brenin. Ac yr oedd y cyfryw fforffetiwr i fyned i unrhyw arglwyddiaeth gyffindirol yn Nghymru, a thyngu ar drengholiad, ac ymorol am swyddfa ar ol marwolaeth yr arglwydd, ac ymholi ynghylch gwerth ac amod-ddaliad yr arglwyddiaeth.—D.S. Yr oedd pob swyddogaethau perthynol i faenorau ereill, y rhai a ddelid oddiwrth y brenin, fel o'i dywysogaeth ef, i'w cael, trwy wysiadau allan o drysorlys y brenin yn Nghaernarfon, neu Gaerlleon, am Ogledd Cymru; a Chaerfyrddin, neu Aberteifi, am Ddeheubarth Cymru; ac o Benfro, am diroedd yn yr iarllaeth hono.

* Math o swyddog a ddygai y dirwyon neu y fforffedion i drysorlys y brenin. Cyf.

Digitized by Google

6. Yr oedd yr arglwyddi hyn, yn ol deddf 24 Harri VIII. pen. 9, i gael y dirwyon am ladd lloi dan oed, ac am ballu ymddangos yn eu llysoedd; ac yn ol deddf 26 Harri VIII. pen. 4, a 27, pen. 26, yr oedd ganddynt fforffetiaeth gwystlon, meichnïaeth, a mân gostau; awdurdod i gadw llysoedd barwniaid a llysoedd cyffredin; ac i gael nwyddau diarddel, anifeiliaid crwydrol, *infangthefe, outfangthefe*,* trysor a geid yn y ddaear, rhoddion at wasanaeth dwyfol, da ac anifeiliaid drwgweithredwyr, personau collfarnedig, a rhai alltudiedig; ac hefyd *broc y môr*, tâl am lanio nwyddau, a thollau oddiar ddyeithriaid.

O'r afon *Teifi*, yn Neheubarth Cymru, hyd afon *Conwy*, yn Ngogledd Cymru, nid oedd unrhyw arglwyddiaeth gyffindirol; ond yr oedd yr holl wlad hono yn eiddo i dywysogion Cymru, hyd nes y daeth y dywysogaeth yn eiddo y goron ar farwolaeth y tywysog Llywelyn.

Yn ogymaint ag mai yr *Hafren* oedd yr hen derfyn rhwng Cymru a Lloegr, cododd amheuaeth, paham nad oedd yr holl diroedd tu hwnt i'r afon hono, sef yr oll o siroedd Henffordd, Caerwrangon, a'r Amwythig, yn arglwyddiaethau cyffindirol, yr un modd ag yr oedd y gweddill o Gymru, a enillasid er y Gorchfygiad.

Y rheswm am hyny ydyw hyn. Yr oedd yr oll o sir Henffordd, a'r rhanau hyny o'r siroedd ereill, wedi cael eu henill oddiar y Cymry yn ystod, neu yn fuan wedi, amser teyrnasiad Offa, brenin y Mers. Cafodd y Cymry eu gyru allan oddiyno, a llanwyd y wlad o'r newydd gyda Saeson; ac yr oedd hyn yn mhell cyn bod rhanu Lloegr yn siroedd. Ychwanegwyd yr unrhyw at deyrnas y Mers, ac felly, fel rhan o'r deyrnas hono, daeth i ddwylaw y brenin Alfred, yr hwn oedd y cyntaf i ranu Lloegr yn siroedd. Efe, wedi cael allan fod y gwledydd hyny wedi eu darostwng, a'r Cymry wedi eu gyru allan, a'u rhanodd gyda'r gweddill ar yr ochr draw i'r Hafren. Rhoddodd un ran i sir Gaerloyw, rhan i sir Gaerwrangon, a rhan i sir yr Amwythig; a gwnaeth Henffordd yn sir ar ei phen ei hun.

Yma y gorwedd y gwahaniaeth rhwng gorchfygiad Cymru gan y Sacsoniaid a'r Normaniaid.

Pa faint bynag o Gymru a enillodd y breninoedd Sacsonaidd, gwnaethant hyny ar eu traul eu hunain, ac i'w dybenion eu hunain; ac ni oddefasant i'w deiliaid ymyryd yn y peth. Ond y gorchfygwr Normanaidd, gan ymfoddloni ar deyrnas Lloegr, ni threfnodd ei fyddinoedd yn erbyn Cymru, yn fwy nag y gallasai hebgor hyny, trwy iddynt oresgyn ei diroedd a'i bobl; eithr efe, a'i olynwyr, a dybient mai y ffordd gallaf ydoedd rhoddi i'r bendefigaeth y cyfryw ranau o Gymru ag a allent eu henill.

Nad enillwyd sir Henffordd ar ol y Gorchfygiad, sydd yn ymddangos oddiwrth arglwyddiaeth Urchinfield; yr hon sydd yn hen dir etifeddol; y fath na cheid yn Lloegr, ond yr oedd yn meddiant ei breninoedd yn flaenorol i'r Gorchfygiad. Gwel Silas Taylor, o Urchinfield, yn ei hanes am *Gavelkind*,† tud. 106; a Humphrey Lloyd, yn ei "*Fragment of the Description of Wales;*" ei waith Lladin, tudal. 52, yr arg. cyntaf; cyfieithiad Seisonaeg, tudal. 63; geiriau yr

* Am eglurhad ar y ddau beth yma, gwel tudal. 110 o'r gwaith hwn.

† *Gavelkind* ydoedd yr hen ddull Cymreig o ranu tiroedd y tad rhwng y meibion, yn lle eu gadw i gyd i'r cyntafanedig, fel y gwneir yn awr. CYF.



Digitized by Google

hwn ydynt, fel y cyfieithir hwy gan Bryan Twyne, "Y mae Gŵyr Reunwe yn ffurfio un o'r chwe' thalaith, a gyfarfuant yn ngenau yr afon Dyfi, i ddewis Maelgwyn Gwynedd yn frenin, oddeutu y flwyddyn 560." Tudal. 74 o'i *Breviary of Britain.*

Heb fod yn mhell oddiyma, sef *Lamstre*, neu Lanllieni, y mae hen ddinas Henffordd, yn sefyll ar y *Wye*, neu yn fwy priodol *Gwy;* mewn hen amseroedd a elwid y Ferleg, ond yn bresenol Hereford.

Yn nghyfeiriad yr Hafren y mae bryniau Malvern; ac yn yr ongl rhwng yr Hafren a'r Gwy, heb fod yn mhell oddiwrth dref Ross, y saif y goedwig hynod hono, a elwir oddiwrth y Daeniaid, yn *Forest of Dean.*

Y parthau hyn, ynghyda'r oll o sir Henffordd tu hwnt i'r afon Gwy, cyn iddynt ddyfod i feddiant y Saeson, a elwid, yn iaith y Brython, *Euryenxe;* a'r trigolion, *Eurnwyr:* o ba enw y mae rhyw ychydig yn aros yn y gair *Urchinfield. Ergnig* y gelwid hi gan y Cymry, ac wedi hyny *Ergenel;* a pha ryfedd, oblegyd y mae y gyfran leiaf o honi hyd heddyw yn dal yr enw Powys.

Ymddengys oddiwth rai cofnodiadau yn y Tŵr,

1. Fod y brenin Iorwerth I. yn y flwyddyn 11 o'i deyrnasiad (pan y lladdodd y tywysog Llywelyn, a thrwy hyny a gafodd feddiant o dywysogaeth Cymru,) y pryd hyny yn Aberconwy, ac yn ofni rhag y buasai prinder ymborth, wedi ysgrifenu at y swyddogion yn yr holl drefydd a'r gwledydd ffafriol yn Neheubarth Cymru (y rhai a ddarostyngasid gan arglwyddi y cyffindiroedd,) ar fod iddynt ddwyn ymborth allan o'r parthau hyny i Drefaldwyn, erbyn y Pasg nesaf ar ol hyny, i ddarparu ar gyfer byddin y brenin. Yn y dull yma:

At awdurdodau, marsiandwyr, a dynion da ... ... Abertawe.
Dyma y brif dref yn arglwyddiaeth Gŵyr.

At faer, awdurdodau, dynion da, a marsiandwyr ... Caerodor.
At awdurdodau, &c. ... ... ... ... ... ... Caerdydd
Y brif dref yn Morganwg.

At awdurdodau, &c. ... ... ... ... ... ... Strongoule.
Y brif dref yn Is-gwent yn sir Fynwy.

At awdurdodau, &c. ... ... ... ... ... ... Hwlffordd.
At awdurdodau, &c. ... ... ... ... ... ... Penfro.
At awdurdodau, &c. ... ... ... ... ... ... Talgarn.
At awdurdodau, &c. ... .. ... ... ... ... St. Clare.
At awdurdodau, &c. ... ... ... ... ... ... Cemaes.
At awdurdodau, &c. ... ... ... ... ... ... Cilgeran.
At awdurdodau, &c ... ... ... ... ... ... Caerleon.
At awdurdodau, &c. ... ... ... ... ... ... Caerfyrddin.
At awdurdodau, &c. ... ... ... ... ... ... Aberteifi.
At awdurdodau, &c. ... ... ... ... ... ... Brycheiniog.
At awdurdodau, &c. ... ... ... .. ... ... Cydweli.
At awdurdodau, &c. ... ... ... ... ... ... Brynbuga.
At awdurdodau, &c. ... ... ... ... ... ... Llanstephan.
At awdurdodau, &c. ... ... ... ... ... ... Austedyn.

BIBLIOTHECA BODL
Digitized by Google

At awdurdodau, &c. ... ... ... ... ... ... Mynyw.
At awdurdodau, &c. ... ... ... ... ... ... Abergafeni.
At awdurdodau, &c. ... ... ... ... ... ... Blaenllyfni.

Ranulph, mynach o Gaerlleon, a ddywed (ll. 7, pen. 38, tudal. 379,) fod y tywysog Llywelyn wedi cael ei ladd oddeutu gwyl St. Lucia.

2. Fod y brenin Iorwerth II. yn ei ryfeloedd yn erbyn Robert de Bruce, brenin Ysgotland, wedi ysgrifenu at yr arglwyddi cyffindirol hyn, i erchi iddynt anfon i'w gynorthwyo, nifer penodol o wŷr, yr hyn a nodid ganddo, allan o'u gwahanol arglwyddiaethau. Y mae ei lythyrau breintiedig wedi eu hamseru Mehefin 18fed, yn y drydedd flwyddyn o Iorwerth II.

Yr unrhyw frenin yn yr un flwyddyn, a ysgrifena at yr arglwyddi hyny, i erchi iddynt leihau niferi eu gwŷr; am nad oedd arno eu heisiau.

Y brenin Iorwerth III., gan ofni goresgyniad o eiddo yr Ysgotiaid, a ysgrifena at arglwyddi y cyffindiroedd, i erchi ar fod i lanau y môr gael eu gwylio, y castelli eu cadarnhau a rhoddi darpariadau rhyfel ynddynt, ac ar fod iddynt hwythau weithredu fel isgadbeniaid yn eu gwahanol arglwyddiaethau. *Dat. apud Berewicum super Twedam, Jun. 24, anno regni 10.**

Ac y mae yn apwyntio William de la Zouch de Mort. Mari, a Gilbert Talbot (ei farnwyr yn Neheudir Cymru,) i fod yn gadbeniaid ac yn arweinwyr yr arglwyddi dywededig, a'r bobl, yn erbyn yr Ysgotiaid, pe buasai iddynt oresgyn y parthau hyny.

D.S. Ni ysgrifenodd y brenin at unrhyw ran o'r chwe' sîr a wnaent i fyny dywysogaeth Cymru; ond yn unig at y parthau hyny ag oeddynt wedi eu darostwng gan arglwyddi y cyffindiroedd; y rhai a ddalient eu harglwyddiaethau yn uniongyrchol oddiwrth y brenin. Yr oedd gan y brenin filwyr o diroedd y dywysogaeth yn ei wasanaethu yn y rhyfeloedd hyny; ond nid yw yr archiadau i'w cael yn mhlith cofnodiadau y brenin yn y Tŵr. Oblegyd yr oedd tywysog Cymru (yr hwn y pryd hyny a ddaliai y dywysogaeth,) yn ysgrifenu am ddynion o'r dywysogaeth, i wasanaethu ei dad yn ei ryfeloedd.

Y mae y cofnodau am hyn i'w cael ymhith cofnodiadau y tywysog; ac ni cheir hwy yn mhlith y cofnodau yn y Tŵr.

---

## Rhif IV.

### YR HANES A DDYRY SYR JEFFRY SHAKERLEY.

Tudal. 192.

"Y mae y morfa ar ba un yr oedd Syr Marmaduke Langdale wedi crynhoi ei fyddin, yn myned dan yr enw Morfa Rowton; milldir tu draw i ba un, yn y ffordd i Lundain o Gaerlleon, y mae morfa arall, a elwir Morfa Hatton. Nid oedd y gorchymyn a dderbyniasai Syr Marmaduke gan y brenin, yn cynwys dim ond fod iddo guro Poyntz yn ol. Cyflawnodd Syr Marmaduke hyny yn

* "Dyddiwyd yn Berwick ar y Tweed, Meh. 24, yn y 10fed flwyddyn o'i deyrnasiad."

effeithiol; oblegyd wedi iddo arwain ei wŷr dros bont Holt, heb i'r gelyn eu darganfod, yr hwn a gymerasai feddiant o'r gweithiau allanol a maesdrefi y ddinas ar du y dwyrain iddi, a Poyntz yn dyfod ar ymdaith ar hyd y ffordd gul rhwng Morfa Hatton a Morfa Rowton, Syr Marmaduke, yr hwn oedd wedi gosod ei wŷr yn nghilfachau y cloddiau, a syrthiodd arnynt, ac a laddodd nifer mawr o'i ddynion; ac wedi gwneyd hyny a orchymynodd i'r milwriaid Shakerley, yr hwn a adnabyddai y wlad hono yn well na neb arall, i fyned y ffordd gyntaf a allai at y brenin (yr hwn a letyai ar y pryd yn nhŷ Syr Francis Gamull, yn Nghaerlleon) a'i hysbysu, ei fod wedi ufuddhau i'w archiadau, a churo Poyntz yn ei ol, ac i gael gwybod ewyllys ei fawrhydi yn mhellach. Cyflawnodd y milwriad ei neges yn llawer cyflymach nag y gallesid dysgwyl; oblegyd marchogodd yn syth at yr afon Ddyfrdwy, o dan Huntingdon House, cafodd afael ar dwb pren (a ddefnyddid i ladd moch,) a golchbren (a ddefnyddid i guro llian brâs) yn lle rhwyf, aeth efe a'i was i'r twb, ac yn y modd peryglus yma croesasant yr afon, ei farch yn nofio wrth ei ochr (oblegyd yr oedd ochrau yr afon yn dra sythion yn y fan hono, a'r afon yn ddofn iawn); gorchymynodd i'w was aros yno gyda'r twb hyd nes y dychwelai, ac yr oedd gyda'r brenin mewn llai na chwarter awr ar ol iddo adael Syr Marmaduke, ac a hysbysodd y brenin, os byddai i'w fawrhydi roddi rhyw archiadau pellach i Syr Marmaduke, yr ymrwymai i'w traddodi iddo o fewn chwarter awr; ac a hysbysodd y brenin am y dull cyflym a gymerasai, yr hyn a arbedasai iddo fyned naw neu ddeng milldir o gwmpas, tros bont Holt (oblegyd yr oedd y cychod yn Eaton y pryd hyny wedi eu gwneyd yn ddiwasanaeth); ond y fath oedd yr oedi gan rai a weinyddent oddeutu y brenin, fel na anfonwyd unrhyw archiadau allan, ac ni ruthrodd gwŷr y brenin o'r ddinas hyd ar ol tri o'r gloch yn y prydnawn, yr hyn oedd lawn chwe' awr ar ol i Poyntz gael ei guro yn ol; ac felly cafodd Poyntz yr holl amser hwnw i'w ddynion ymadfer, ar ol y braw a gawsent yn y bore. Poyntz a galonogodd ei filwyr, a chyda chymhorth milwyr y senedd a ddaethent allan o faesdrefi y ddinas i'w gefnogi (ar ba rai y gallasai gwŷr y brenin y pryd hyny fod wedi ymosod yn llwyddiannus), efe a orchfygodd holl fyddin y brenin, gan beri colled am wŷr meirch y brenin, a dyrysu ei fwriad i ymuno â Montross yn Ysgotland, yr hwn y deallid ei fod y pryd hwnw mewn cyflwr llewyrchus.

"Dyma yr hyn y darfu i'm tad, y milwriad Shakerley dywededig (wedi hyny Syr Geffrey Shakerley) ei adrodd lawer gwaith yn fy nghlywedigaeth; ac yn gymaint ag nad oes dim crybwylliad am dano yn yr holl hanes* yma (er iddo wasanaethu y brenin yn ffyddlon yn yr holl ryfeloedd, wedi bod yn ymladd yn bersonol yn yr oll braidd o'r brwydrau ar faes o blaid y brenin, wedi gwerthu rhan o'i etifeddiaeth i gynal y gwasanaeth hwnw, a chael ei ymddifadu am flynyddau o'r gweddill o honi,) tybiais mai fy nyledswydd, fel ei fab hynaf a'i etifedd, oedd gwneyd cyfiawnder â'i goffadwriaeth, ac ysgrifenu hyn yn y fan yma, o dan fy llaw, fel y byddo iddo gael ei gofio gan ein holafiaid.

"PETER SHAKERLEY"

* Gan olygu "*Clarendon's History of the Rebellion:*" y mae yr hanes yma wedi ei ysgrifenu gan Peter Shakerley, ysw., ar un o'r dalenau gwynion.

Digitized by Google

## Rhif V.

### BEDDARGRAFF [YN LLADIN] AR Y MILWRIAD ROBINSON, YN EGLWYS GRESFORD. Tudal. 192.

Yma yn Gladdedig y Gorwedd
JOHN ROBINSON,
Yr hwn,
Yn Filwriad i Siarl Ferthyr, a ategodd ei achos
(hyny yw, yr Eglwys a'r Frenhiniaeth) yn egniol.
Ar gwymp y Brenin,
Yn alltud nid ymadawodd â Siarl yr alltud,
Cyd-ddychwelodd âg ef yn ei ddychweliad.
Yn Ngwersyllt,
Lle y gadawsai ei holl rai ei hun wedi eu dinystrio gan law wrthryfelgar,
Llawenychai mewn adeiladau a gyfluniwyd yn harddwych gan yr unrhyw
O'i wraig Margaret, merch Edward Norris, Yswain,
O Speak, yn sir Freiniarllaidd Caerhirfryn,
cafodd hiliogaeth,
William, John, Margaret, a Jane.
Ei gorph, er ei luuio o glai rhagorol,
Eto wedi ei friwio,
Yn gystal a'i anrhydeddu âg archollion o'r tu blaen,
Yn methu dal dros y 65ain flwydd o'i oed
Yr enaid, awyddus am y nef, a'i rhyddhaodd
Ar y 15fed o Fawrth, 1680, Cyfrif Cred.

---

## Rhif VI.

### LLW EDWARD BROUGHTON, YSWAIN. Tudal. 192.

"Myfi, Edward Broughton, o gariad, ac yn mhresenoldeb Duw mawr nefoedd a daear, yr hwn sydd yn gwybod dirgelion calonau pawb, a chywirdeb yr eiddof finau ar yr adeg bresenol, ydwyf, oddiar ragfyfyrdod, ac nid yn fyrbwyll, yn erfyn ar i Dduw yr ysprydoedd dywallt i lawr ei ddialedd arnaf fi a'm hiliogaeth am byth, nid mewn unrhyw ddull cyffredin, ond o'r naturiaeth uchaf, trwy roddi awdurdod i'r diafol ar ein cyrph a'n heneidiau, ac fod i ni gael ein hysu oddiar wyneb y ddaear, pydru ymaith yn fyw, a chael ein damnio; ac fod fy enw a'm person i ddrewi ar y ddaear, a blino ffroenau dynion; ac i mi fod yn ddrych dychrynllyd i bawb dynion celwyddog; ac na byddo i mi rodio ar y ddaear, ond gyda ffurfiau erchyll o'm hamgylch, a chydwybod ddychrynedig;

Digitized by Google

ac fod i mi ddihoeni a pheidio marw, ond, fel Cain, fod nod wedi ei osod arnaf fel y byddo i ddynion ymochel rhagddwyf; ac fod i mi orfyw fy holl hiliogaeth; ac fod iddynt oll ddarfod a chael eu damnio; a bydded fod gan y diafol hawl gyfiawn i'm corph a'm henaid; a chymered feddiant o honwyf yma ar y ddaear, a chluded fi ymaith yn fyw; ac na fydded i mi byth ymddangos gerbron Duw, ond i dderbyn y ddedfryd ofnadwy, Ewch oddiwrthyf, rai melldigedig, i'r tân tragywyddol, i gael eich poeni gan ddiafol a'i angylion.

Dalier sylw, nid yw y rhan yma ond rhagymadrodd i'r gweddill:—

"Os na bydd i mi yn gwbl ymgadw rhag pob math o regi byrbwyll, pob math o yfed, a phob math o gyfeddach pa bynag; neu os byddaf byth yn euog o weled bai ar unrhyw beth a wnelo neu a ddywedo fy ngwraig fwriadedig; neu os bydd i mi ymgymeryd âg unrhyw orchwyl, neu unrhyw beth, pa mor fawr bynag y byddo y gwaith, neu pa mor fychan, heb yn wybod i, a chyda bodd a chydsyniad, a chynghor Mary Weeks, fy ngwraig fwriadedig, ac sydd i fod yn Mary Broughton pan y delo hwn i rym; neu os bydd iddi wneyd unrhyw erfyniad arnaf yn ystod ei bywyd, ni bydd iddo trwy rym, byth gael ei dori genyf fi, er i mi fyw ar ei hol, yn mherthynas i gorph ac enaid, bywyd neu gyfoeth, plant neu gyfeillion, pa mor afresymol bynag; neu os dygwydda unrhyw ymrafael rhyngddi hi a mi, megys ag y bu rhyngwyf â'm gwraig gyntaf, yna, os myfi fydd yr achos o hono, bydded i'r rhai hyn a'r holl bläau a ellir eu dychymygu ddisgyn arnaf, a'r holl bläau a ddichon Duw eu gosod; neu, pe y cyfodai unrhyw ymrafael, a hithau yn unig achos o hyny, eto, pan gofiaf am y pethau hyn, a hithau yr addunedau hyn, bydd i mi fyned heibio i'r peth o'm calon, maddeu, ac ymdrechu i heddychu, a defnyddio pob moddion a ellir ddychymygu i'w boddhau hi, a phe gallasai osod ychwaneg arnaf, byddai i mi yn y modd mwyaf ewyllysgar ei gyflawni; neu ynte, bydded i'r holl bläau hyn, neu os oes rhyw fellditihion neu lwon mwy, yr wyf yn gweddio o'm calon ar fod iddynt oll gael eu tywallt arnaf, fel y disgyna y gwlaw ar y tir sychedig, ac ar fy hiliogaeth am byth: a hyn yr ydwyf yn ei wneyd o'm calon, ac yn ewyllysgar, a chydag ystyriaeth a rhagfyfyrdod difrifol, wedi cymeryd amser hir i ystyried hyn; ac yn awr yr ydwyf yn y modd mwyaf parod yn ei arwyddo â'm llaw fy hun, ac yn ei selio â'm sêl fy hun.

"EDWARD BROUGHTON."

Ebrill 12fed, 1660.

Digitized by Google

# RHIF VII.

## AM OWAIN GLYNDWR. Gwel tudal. 193

ENW tad Owain Glyndwr ydoedd Gruffydd Fychan; enw ei fam, Elena, o waed breninol, a thrwyddi hi yr hawliodd efe ar ol hyny orsedd Cymru. Yr oedd yn ferch hynaf i Thomas ap Llewelyn ap Owain, o'i wraig Elinor Goch, merch ac etifeddes i Catherine, un o ferched Llewelyn, tywysog olaf Cymru, a gwraig i Philip ap Ifor o Iscoed. Dichon iddi gael ei chuddio gan ryw gyfaill ar farwolaeth ei thad, neu buasai eiddigedd Iorwerth ynghylch yr olyniaeth beri iddi gyfranogi o dynged ei chwaer Gwenllian, yr hon a orfodwyd i gymeryd y llen yn mynachlog Shaftesbury.

Y mae ysgrifenwyr yn amrywio cryn lawer ynghylch dydd genedigaeth Glyndwr. Gesyd un llawysgrif hyny ar yr 28ain o Fai, 1354: yr un a ddyogelwyd gan Lewis Owain a esyd y dygwyddiad bum' mlynedd yn gynarach; oblegyd mai y flwyddyn 1349 a hynodwyd gan ymddangosiad cyntaf y pla yn Nghymru, a chan enedigaeth Owain Glyndwr.

Y mae gwroniaid yn fynych yn cael eu dwyn i mewn i'r byd gyda rhyw ddygwyddiadau aruthrol, ag sydd yn dynodi eu henwogrwydd dyfodol, neu y deddwyddwch neu y trueni y maent i'w ddwyn ar eu gwlad; ond digon tebyg fod eu gyrfa wedi ei therfynu cyn i ofergoeledd ddyfeisio y chwedl, a'i chymhwyso at eu gweithrediadau. Y mae Holinshed yn adrodd un ar yr achlysur yma, yn cyfateb i fai ag y dymunem glirio cymeriad ein cydwladwr oddiwrtho. Rhagfynegwyd ei greulondeb ar ei enedigaeth, trwy y ddamwain fod ceffylau ei dad, y noswaith hono, hyd eu boliau mewn gwaed yn yr ystablau. Y mae Shakespeare yn gadael allan yr amgylchiadau yma; ond yn ei nodweddiad bywiog o Owain, dyry yn ei enau y llinellau prydferth hyn, fel yn arddangos yn ddestlus wag-ogoniant ac ofergoeledd yr hen benaeth Prydeinig:—

> Ar fy ngenedigaeth
> Yr oedd wyneb y nef yn llawn o ffurfiau tanllyd.
> Y geifr a redent o'r mynyddoedd, a'r diadelloedd
> A waeddent yn uchel yn y maesydd dychrynedig:
> Yr arwyddion hyn a'm nodasant yn un rhyfeddol,
> Ac y mae holl rediadau fy mywyd yn arddangos
> Nad wyf fi yn rhestr dynion cyffredin.

Ei fardd, Iolo Goch, a ddyry iddo arogldarth o ansawdd llawer rhagorach; ac yr wyf yn ofni fod zel y bardd i ganmol ei noddwr wedi ei arwain hyd gyffiniau cabledd; oblegyd, yn Nghywydd y Seren, y mae yn dysgrifio tair a ymddangosasent i nodi tri o ddygwyddiadau mawrion; canys at y seren a ragfynegai enedigaeth ein HIACHAWDWR, y mae yn nodi un arall, a ragnodai enedigaeth Arthur, a thrydedd, yr hon a nodai weithrediadau mawrion Glyndwr, yn 1402, y pryd hyny yn anterth ei lwyddiant.*

Ymddengys iddo gael addysg dda. Ei uchelgais a orchfygodd ragfarn ei gydwladwyr yn erbyn y Saeson; ac a wnaeth iddo benderfynu chwilio am ddyrchafiad yn eu plith hwy. Aeth i lysoedd y gyfraith, ac astudiodd yno,

* Cywydd y Seren, a ymddangosodd mis Mawrth, D.A. 1402.

Digitized by Google

nes y daeth yn ddadleuydd. Dichon iddo adael ei alwedigaeth; oblegyd yr ydym yn cael ei fod wedi ei apwyntio yn *scutiger*, neu yswain y corph, i Rhisiart II., helynt yr hwn a ddylynodd hyd y diwedd; fe'i cymerwyd gydag ef i gastell Fflint; a phan dorwyd i fyny dylwyth y brenin, efe a enciliodd, yn llawn digllonedd o herwydd y camwri a dderbyniasai ei frenin, i'w dreftadaeth yn Nghymru. Barnaf iddo gael ei wneyd yn farchog cyn i'w feistr gael ei ddiswyddo; canys yr wyf yn ei gael yn mhlith y tystion yn y gyfraith hynod rhwng Syr Richard le Scrope a Syr Robert le Grosvenour, yn nghylch paisarfau, o dan yr enw Syr Owen de Glendore. Y mae ei frawd yn ymddangos yno hefyd, wrth yr enw Tudor de Glendore. Parhaodd y gyfraith hon am dair blynedd, a therfynodd yn 1389.*

Iolo Goch, bardd enwog o'r cyfnod hwn, a fu yn aros yn ei dŷ am dymhor. Daeth yno ar daer wahoddiad Owain; yr hwn, gan ddeall dylanwad nerthol yr urdd yma o ddynion ar yr hen Frythoniaid, a wnaeth ei dŷ, fel y dywed Iolo, yn gartref iddynt. Gwnaeth hwy yn offerynau ei weithrediadau dyfodol, ac i barotôi meddyliau y bobl gogyfer â'r adeg y bwriadai wrthryfela. Yr wyf yn benthyca dysgrifiad o dŷ y penaeth o waith Iolo, pan ydoedd yn ei holl ysplenydd-dra. Y mae yn ei gymharu, o ran ardderchogrwydd, i fynachlog Westminster; ac hysbysa ni fod ganddo borth, ac fod ffos o'i amgylch.

Oddi fewn iddo y mae naw o neueddau, a gwisg-ystafell *(wardrobe)* yn mhob un; barnaf mai i gadw dillad ei westeiwyr, yn ol arferiad y dyddiau hyny.

Yn agos i'r tŷ, ar fryncyn gwyrddlas, yr oedd tŷ pren, yn sefyll ar byst, ac wedi ei doi â phriddlechau. Cynwysai bedair ystafell, pob un wedi ei rhanu yn ddwy, i'r dyben o letya y gwahoddedigion.

Yma yr oedd eglwys ar ffurf croes, ac amryw o gapelau.

Yr oedd y palas wedi ei gylchynu â phob cyfleustra at fywioliaeth dda; a phob cynaliaeth i letygarwch: parc, cwning-gaer, a cholomendy; melin, perllan, a gwinllan; a physgodlyn, yn llawn penhwyaid a gwyniaid; y rhai olaf wedi eu dwyn yno o lyn y Bala. Hebogfa, yr hyn a berthynai bob amser i balasdy pob gŵr mawr, ac a roddai iddo ef a'i wahoddedigion, helwriaeth, a'r difyrwch o ddilyn hebogyddiaeth.

Y mae lle yn aros o hyd ag sydd yn dal i fyny enw ei barc. Ymestyna oddeutu milldir neu ddwy tu hwnt i safle ei dŷ, ar yr ochr aswy i'r dyffryn.

Nid yw olion y tŷ ond bychain. Y mae y ffos yn bur amlwg: mesuriad yr amgylchedd a amgaua ydyw chwech a deugain o gamrau wrth chwech ar hugain. Y mae ymddangosiad o fur ar yr ochr allanol, yr hwn a ymestynai i ben bryncyn mawr, ar ba un y safai y tŷ pren. Ar yr ochr arall, ond mewn pellder mwy, aethum heibio i fryncyn arall o'r un natur, a elwid Hendom; yr hwn, efallai, a fuasai gynt yn adeilad o'r fath ag a ddysgrifir gan y bardd. Fe ddichon mai hon oedd safle y gwyliedydd, er atal ymosodiad sydyn o'r ochr Seisonig.† Yr oedd ganddo lawer i'w ofni o gyfeiriad yr amddiffynfa gymydogaethol, sef Castell Dinas Brân, a'i chysylltiadau, yr hon a feddiennid gan iarll Arundel, pleidiwr gwresog i dylwyth Lancaster.

* Collin's Peerage, vii. 507.

† Er pan gyhoeddwyd yr argraffiad cyntaf, y mae llawer o'r olion hyn wedi cael eu haredig, neu eu dinystrio rywfodd arall.

Digitized by Google

Y mae y bardd yn siarad yn deimladwy am y gwin, y cwrw, y bragodlyn, a'r bara gwŷn; ac nid yw yn anghofio y gegin, na'r swyddog pwysig hwnw, y cogydd; bywyd yr hwn (pan fyddai yn ngwasanaeth y brenin) a ystyrid gan ein deddfau ni yn werth cant a chwech ar hugain o wartheg.* Y fath ydoedd lletygarwch y tŷ hwn, fel yr oedd gwasanaeth porthor yn afreidiol; ac nid oedd cloiau a bolltau yn adnabyddus. I grynhoi y cwbl ynghyd, ni allai neb fod yn newynog nac yn sychedig yn Sycharth, enw y lle.

Y mae y bardd yn rhoddi clod dyladwy i wraig y tŷ, a'i phlant.

> A gwraig oreu o'r gwragedd,
> Gwŷn y myd o'i gwin a'i medd.
> Merch eglur, llin marchoglyw,
> Urddol, hael, o reiol ryw.
> A'i blant a ddeuant bob ddau,
> Nythiaid teg o benaethau!

Y foneddiges ag yr oedd yn ei mawrygu gymaint ydoedd Margaret, merch i Syr David Hanmer, o Hanmer, yn sir Fflint, un o ustusaid maingc y brenin, trwy apwyntiad Rhisiart II. yn 1383, a'r hwn a wnaed yn farchog ganddo yn 1387.† Cymerodd ei phriodas le yn flaenorol i ddyrchafiad ei thad; oblegyd y mae yn sicr fod rhai o'i ferched wedi priodi, a'i feibion wedi tyfu i faintioli dynion, cyn i Glyndwr ymddangos mewn arfau yn y flwyddyn 1400. Dylynasant ef i faes y gâd, a llywyddent oddi tano ef; ac y mae yn dra thebygol fod y rhan fwyaf o honynt wedi cwympo yn orfoleddus mewn rhyfel. Dywed Mr. Brown Willis, mae'n wir, ddarfod iddynt, ar farwolaeth eu tad, ddiangc i'r Iwerddon; ac fod un o honynt wedi ymsefydlu yn Nublin, gan gymeryd arno yr enw *Baulf*‡, neu y *Cadarn;* a'i fod yn hynafiad i deulu parchus yn y ddinas hono.

Efe a briododd ei ferched i deuluoedd parchus.

Ei ferch hynaf *Isabel*, a briodwyd âg Adam neu Adda ap Iorwerth Ddu.

Ei ail ferch, *Elisabeth*, neu fel y myn rhai, *Alicia*, a briodwyd â Syr John Scudamore o Ewyas, ac o Holm-Lacy, yn sir Henffordd.

*Janet* a briodwyd â John Crofft, o gastell Crofft, yn yr un sir.

Yr Arglwydd Grey o Ruthyn, a briododd *Jane*, o angenrheidrwydd, wedi iddo gael ei wneyd yn garcharor gan ei thad, a gorfodwyd ef i'w phriodi.

Ei ferch ieuengaf, *Margaret*, a briodwyd â Roger Monnington, o Monnington, yn sir Henffordd, tua chyffiniau sir Frycheiniog. Y mae yr etifeddiaeth yn aros hyd heddyw yn yr enw a'r teulu. Cefais y pleser o weled yn fy nhŷ ddwy o foneddigesau, perchenogion y lle hwnw, ac yn hanu yn uniongyrchol o ferch Glyndwr.

Ei blant anghyfreithlawn oeddynt ei fab Iefan; merch, yr hon a briodwyd i dylwyth Gwernan; un arall, a elwid Myfanwy, â Llewelyn ap Adda o Drefor; a Gwenllian, â Philip ap Rhys o St. Harmon yn sir Faesyfed.

* Leges Wallicæ. † Collin's Baronets, 1720, ii. p. 235.
‡ Hist. of St. Asaph Cathedral, 61.

Digitized by Google

Y mae Lewis Glyn Cothi, bardd enwog yn amser Harri VI., yn siarad mewn geiriau uchel am ei thad Glyndwr:

> Ei thad oedd d'wysawg cadarn,
> A holl Gymru fu'n ei farn.

Ni ddylwn fyned heibio i gamgymeriad o eiddo yr haneswyr Seisonig, y rhai a grybwyllant am briodas merch arall i Glyndwr âg Edmwnd iarll March. Hyn hefyd, meddant hwy, a ddygwyd o gwmpas trwy orfodaeth, wedi i'r iarll gael ei gymeryd yn garcharor ganddo: ond nid yw yn ymddangos iddo fod erioed yn garcharor i Glyndwr; nac fod gan March unrhyw wraig arall heblaw Anne,* merch i Edmwnd iarll Stafford; heblaw hyny, y mae yr haneswyr Cymreig yn gwbl ddystaw ar y mater.

Y cyfryw ydoedd sefyllfa amgylchiadau teuluol Glyndwr pan newidiwyd y llywodraeth yn 1399. Cafodd ei yspryd dialgar yn erbyn y trawsfeddiannydd ei flaenllymu gan gamwri cyhoeddus a neillduol: trwy lofruddiad yr anffodus Rhisiart, wrth ba un yr oedd yn ymlynydd cadarn fel cyfaill personol; a chan dueddiad cryf y Cymry at eu diweddar frenin.

Yn y flwyddyn gyntaf o'r teyrnasiad newydd, cafodd brofiad o ŵg y llys. Reginald, arglwydd Grey o Ruthyn, gan gymeryd mantais ar ddiorseddiad Rhisiart, yn ddiatreg a gymerodd feddiant o ryw gommins, a elwid Croeseu, yr hwn y darfuasai i Owain, mewn teyrnasiad blaenorol, ei adfeddiannu oddiarno trwy gŵrs cyfraith. Gwnaeth Owain ymgais am gyfiawnder, heb ymgymeryd â moddion treisiol: gosododd ei achos o flaen y senedd; ond taflwyd allan ei gynghaws heb unrhyw ymwared.

Cafodd y dirmyg yma ei chwerwi gan gamwri arall. Pan aeth Harri ar ei ymgyrch yn erbyn yr Ysgotiaid, yr oedd Owain i gael ei wysio, yn mysg barwniaid ereill, i fyned gyda'r brenin, a'i ddeiliaid i'w ganlyn. Cafodd y wŷs i'r dyben hwnw ei hymddiried i Reginald,† yr hwn yn fwriadol a esgeulusodd ei thraddodi nes bod yr amser braidd wedi dyfod i fyny, ac yr oedd yn anmhosibl iddo ufuddhau. Reginald a ddychwelodd at y brenin, ac a arddangosodd absenoldeb Owain fel achos o anufydd-dod gwirfoddol; a thrwy y dernyn yma o fradwriaeth, a gymerodd feddiant o'r oll o'i diroedd; ac o dan esgus eu bod wedi eu fforffedio, efe a oresgynodd y cyfryw ranau o etifeddiaeth Owain ag oeddynt yn gystlynol a'r eiddo ef ei hunan.

Rhagwelwyd y perygl o yru person o'i ddylanwad, ei yspryd, a'i alluoedd ef, i fesurau eithafol, gan John Trevor, esgob Llanelwy, yr hwn a gynghorai ymarfer gweithrediadau mwy cymedrol; gan ychwanegu, nad oedd Owain yn elyn i gael ei ddirmygu mewn un modd; ac y byddai y Cymry, yn ddiameu, yn sicr o gael eu cynhyrfu i wrthryfel cyffredinol. Gwrthodwyd ei gynghor, a dywedwyd wrtho nas gallai fod dim i'w ofni oddiwrth y fath werinos troednoeth.‡

Nid yw yn ymddangos fod gan Glyndwr, hyd yr adeg yma, unrhyw fwriad penderfynol i daflu ymaith iau y Saeson. Daeth ei uchelgais yn mlaen yn awr, gan ymuno â'i yspryd ymddial. Ymdrôdd yn ei feddwl ei achau ei hun;

* Vincent's Discoverie, &c. 329. † Vita Ricardi, ii. 171.
‡ Leland's Collect. i. 310.

Digitized by Google

ymhanai o linach hynafol y tywysogion Prydeinig; ac, fel yr ymddengys, gan osod o'r neilldu bob syniad am gamwri personol, efe a ymhawliodd yn gyhoeddus orsedd Cymru. I galonogi ei gydwladwyr, y rhai oeddynt yn ymlynu wrth yr hen brophwydoliaethau hynafol, efe a'u hadgofiai o eiddo Myrddin, a phrophwydi ereill. Ei feirdd a osodent o'u blaenau alluoedd mawrion eu harweinydd; ac a'u dysgasant i ddysgwyl, oddiwrth ei wroldeb a'i ymarweddiad, ryddhad yr hen Frythoniaid oddiwrth anoddefol bwysau yr iau Sacsonaidd. Ei brif fardd, Gruffydd Llwyd, ar ol galaru am ei absenoldeb, a gana ei glodydd ac a ddarogana lwyddiant y rhyfel. [Aralleiriad o'r "Arwyrain i Glyndwr" sydd yma yn y Saesoneg, ond yr ydym ni yn cyfleu y Cywydd fel ag yr ymddangosodd yn wreiddiol:

Eryr digrif afrifed,
Owain, helm gain, hael am gêd,
Gorc wirfab, (gair o'i orfod,)
Gruffydd Fychan glân ei glôd;
Mur Glyn meistr rhaddlyn rhydd
Dyfrdwy fawr, dwfr diferydd,
Llafar ymanos noswaith
Oeddwn wrth gyfedd medd maith,
Fy nghrair i'th aml gell weriaw
I'th lys, lle cawn win o'th law;
Medd fynny mwy oedd f' anfoes
A gwaeth dros fy maeth fy moes;
Ner mowlair naw ryw milwr
Nag, ar fynad arnad ŵr:
Yn awr i'r aithost ar wyth,
I Brydain darpar adwyth,
Agos i hiraeth gaeth gâd
Am dwyn i farw am danad!

Nid aeth dy gôf drosof draw
(Aur balad) awr heb wylaw!
Dagrau dros y grudd dygrych
Dyfry gwlaw fal dwfr a'i gwlych;
Pan oedd drymaf fy nhrafael
Am danad mab y tad hael,
Clywais o ben rhyw gennad
Cei ras Duw, cowir ystad!)
Cael yn yr aer calon rwydd,
O honod fawrglod f' Arglwydd!
Cefaist rampant yn d'antur
Uthr Bendragon, gofion gur,
Pen ddialawdd gawdd goddef
Ei frawd, a'i rwysg, a'i frwydr ef,
Hwyliaist ffwrnleaist helynt,
Owain ab Urien gain gynt,
Pan oedd fuan ymwannwr,
Y marchog duog o'r dwr:
Gŵr a fu warth ymguraw,
A phen draig y ffynon draw

Gwŷr a fuant llwyddiant llu,
Gwŷr ddewrnerth gwewyr ddyrnu,
Tithau, Owain taith ewybr,
Taer i gwnaet grafn, a llafn llwybr,
Brawd un weithred i'th edir
Barwn hoff, mab Urien hir,
Pan oedd drymaf du lafur
Draw, yn ymwriaw ar mur,
Torres dy onnen gennyd
Torion grair, taer yn i gryd;
Deur filwg dur oedd ei phen,
Dors garw yn dair ysgyren,
Gwelodd pawb draw dy law yn lân,
Gwiw fawldaith, gwaew gafaeldân;
Drylliaist, duliaist ar dalwrn
Dy ddart hyd ymron dy ddwrn,
O nerth ac urial calon,
A braich ac ysgwydd a bron.
Peraist fynaf o'th lafur,
Byst mellt rhwng y dellt a'r dur,
Gyrraist yno, gwrs doniog,
Y llu, gyrriad ychen llôg,
Bob ddau bob dri, rhi' rhyfawr,
A'r dorf oll o'r dyrfa fawr.
Hyd ddydd brawd, medd dy wawdydd,
Hanwyd o feilch hynod fydd.
Dyfn glew a dy finiog lain,
Hel brwydr dy hwyli Brydain,
Wrth dorri brisg i'th wisg wen,
A'th ruthr i'r maes a'th rethren.
Clywsam ddinam ddaioni,
Hort teg gan herod i ti;
A'th hyrddwaew rhudd cythrudd cant,
A theg enw a'th ddigoniant,
Gwych wyd ddiarswyd ddursiamp,
A chrio i Gymro y gamp;
A gwawr drist o'r garw dro
Brydnawn ar Brydain yno;
A'r gair i Gymry, hy hwyl,
Wrth archoll brwydr o'th orchwyl,
A'r gwiw rwysg, a'r goresgyn,
A'r glod i'r Marchog o'r Glyn.

GRUFFYTH LLWYD AP DAF. AP EINION,
A'I CANT, A.D. 1400.

Ei ymddangosiad cyntaf mewn arfau ydoedd yn haf y flwyddyn 1400. Yn naturiol efe a wnaeth ei ymosodiad cyntaf yn erbyn tiroedd ei elyn, arglwydd Grey, ac yn fuan efe a adfeddiannodd yr hyn a ddygasid oddiarno yn anghyfiawn. Mor fuan ag y daeth y newydd i glustiau Harri, efe a anfonodd arglwydd Talbot ac arglwydd Grey i'w ddarostwng. Daethant arno gyda'r fath

Digitized by Google

gyflymdra, fel yr amgylchynasant ei dŷ cyn iddo gael dim rhybudd; ond bu efe mor ffodus a gallu diangc i'r coed. Yn uniongyrchol efe a gododd fintai nerthol o wŷr; ac wedi peri cael ei gyhoeddi yn dywysog Cymru, ar yr 20fed o Fedi, efe a ddaeth yn ddisymwth ar dref Rhuthyn, gan ei haurheithio, a'i llosgi hyd y llawr, ar adeg ffair a gynelid yno. Ar ol hyny efe a enciliodd i'w amddiffynfeydd yn y mynyddoedd. Tybiaf fod un o honynt o gryfder mawr, yn cael ei hamgylchu gan gaerfa anferth o geryg, yn agos i Gorwen, ac yn cael ei galw Caer Drewyn.

Harri, yn benderfynol i ddarostwng y gwrthryfel yma yn ei gychwyniad, a ddaeth ei hunan yn bersonol yn erbyn Owain, a threiddiodd mor belled ag Ynys Fôn, gan ddodi i'r cleddyf bawb a'i gwrthwynebai. Efe a anrheithiodd fynachlog Llanfaes;* lladdodd amryw o'r mynachod, ac a gymerodd y lleill ymaith i'w ganlyn; yn y diwedd rhyddhaodd hwy, a gwnaeth ad-daliad i'r fynachlog; ond poblogodd hi drachefn gyda mynachod Seisonig. Yr oedd mynachod Llanfaes wedi bod yn Ffrancisiaid; yr hon urdd a fuasai yn ffyddlawn i'r diweddar dywysog; a'r rhai, yn gyffredin, a dybid eu bod yn cefnogi gwrthryfel Glyndwr, ac hyd yn nod yn ei anog i oresgyn Lloegr. Cododd hyn erlidigaeth arnynt, a chafodd amryw† eu dienyddio ar yr achos hwnw. Y mae eu cyd-ddealltwriaeth â Glyndwr yn dra amlwg oddiwrth y ffafr a ddangosodd efe i'r urdd pan y cymerodd feddiant o dref Caerdydd, yn y flwyddyn 1402; pan y llosgodd yr holl dref, oddieithr yr heol a breswylid gan y Ffrancisiaid.‡

Dychwelodd y brenin adref, heb wneuthur unrhyw wrhydri; oblegyd yr oedd Owain, ar ei agosâd, wedi encilio i fynyddoedd Eryri.§

Y cyhoeddiad at gynull y lluoedd at yr ymgyrch yma, a ddyddiasid ar y 19eg o Fedi, o Northampton, ac a gyfeiriasid at raglawiaid siroedd Warwick, Leicester, ac wyth o siroedd ereill; yn mha rai yr oedd pawb personau galluog i ddwyn arfau, o fewn eu cylch-lywodraeth hwy, yn cael eu cyfarwyddo i arfogi eu hunain, a bod yn barod i ymdaith i'r cyfryw le ag a gyfarwyddai ei fawrhydi; yr hwn a hysbysai y rhaglawiaid y byddai yn Coventry, ar ei ffordd i Gymru, y dydd Llun canlynol.‖

Ar yr un dydd efe a anfonodd allan archiad at ystaerod a phobl dda yr Amwythig, ar fod iddynt gymeryd mesurau priodol i sicrhau y lle pwysig hwnw; ac fod iddynt orfodi yr holl breswylwyr Cymreig yn y dref i roddi sicrwydd am eu hymddygiad teyrngarol; ac os gwrthodent wneyd hyny, fod iddynt gael eu traddodi i garchar.¶

Ar yr 8fed o Dachwedd yn yr un flwyddyn, Harri a drosglwyddodd holl etifeddiaethau Glyndwr, yn Ngogledd a Deheubarth Cymru, i'w frawd John iarll Somerset;** gweithred mor wanllyd ag ydoedd o gyffroawl, oblegyd yr oedd Owain mor bell o gael ei ddifeddiannu o honynt, fel yr oedd, ar yr adeg yma, yn dyfod yn fwy adgyfnerthol yn feunyddiol, trwy fod galluoedd newyddion yn ymdyru ato. Y mae yn hynod nad oedd ei gyllid ar yr adeg hon yn cyrhaedd i fwy na thri chant o farciau, yr hyn a ddengys fod ei ardrethion mewn anifeiliaid a'r cyffelyb yn anarferol o uchel.

* Leland's Collect. i. 311. † Yr unrhyw, i. 313. ‡ Yr unrhyw. § Holinshed, 519.
‖ Rymer's Fœdera, viii. 159. ¶ Eto, 160. ** Eto, 163.

Digitized by Google

Ond yr oedd gweithred ddiweddaf y flwyddyn hon yn un heddychol. Gwnaeth y brenin un ymgais i ddwyn y Cymry yn ol at eu llw o ffyddlondeb, trwy foddion teg; ac i'r dyben hwnw rhoddodd allan gyhoeddiad ar y 30ain o Dachwedd, yn cynyg cymeryd dan ei nawddogaeth bawb a gyrchent i ddinas Caerlleon, a gwneyd eu hymostyngiad yno i'w fab Harri tywysog Cymru; ar ol yr hyn y byddent at eu rhyddid i ddychwelyd i'w cartrefi.* Nid oedd Harri ar y pryd ond deuddeng mlwydd oed; mor fore y dygwyd ef i mewn i amgylchiadau gwladwriaethol; mor gynar yr ymddangosodd y gwreichion hyny o athrylith a dywynasant rhagllaw mor ddysglaer!

1401.

Aeth yr haner cyntaf o'r flwyddyn hon heibio heb unrhyw frwydr gofiadwy. Yr oedd Owain yn prysur grynhoi ei luoedd; cododd niferi mawrion yn Nghymru; a derbyniodd ychwanegiad parhaus at ei gadernid, trwy ymgynulliad ei gydwladwyr o bob gradd, y rhai a aethent i fyw i Loegr er mwyn addysg, neu ynte er enill bywioliaeth trwy ddylyn gwahanol grefftau.

Yr oedd cyflwr amgylchiadau Harri, gyda golwg ar freninoedd Ewrop, gwendid ei hawl i goron Lloegr, ac edifeirwch rhai gwŷr mawr o herwydd eu hannheyrngarwch tuag at eu tywysog diweddar, yn bethau ag oeddynt yn hynod o ffafriol i Glyndwr.

Siarl VI. o Ffraingc, tad-yn-nghyfraith i'r anffodus Rhisiart, a ymbarotôdd i ddial ei ddiorseddiad a'i lofruddiad. Dyryswch ei amgylchiadau ei hun, yn ffodus i Harri, a rwystrodd ymddialiad y penadur Ffrengig. Ymfoddlonodd ar dderbyn yn ol ei ferch Isabel, ynghyda'i hargyfrau, neu ei thrysorau priodasol fel gwraig; a Harri yn llawen a ffurfiodd amodau heddwch âg ef am ddeng mlynedd ar hugain.

Yr Ysgotiaid, gan gymeryd mantais ar ei sefyllfa, a fygythiasant oresgyn ei deyrnas. Yr oedd hyn yn gwneyd ei fod yn beth peryglus iddo ymgymeryd â rhyfel pellenig, ac a orfododd y brenin i aros am yspaid hir yn nghanolbarthau ei deyrnas, i weithredu yn ol angenrheidrwydd amgylchiadau. Gyda golwg ar y Cymry, efe a ymfoddlonodd ar roddi pardynaut (ar anogaeth y tywysog Harri) i bawb a ymddangosasent mewn arfau yn siroedd Caernarfon, Môn, a Fflint, a phobl Dinbych a Meirionydd; i drigolion Castell y Waun, Maelor, ac Iâl; i gantref Croesoswallt; ac i Ellesmere a'r Dref Wen; y rhai yr wyf yn cael allan a ystyrid y pryd hyny yn rhanau o Gymru. Yr oedd Owain ei hun, Rhys ap Tudur, William ap Tudur, a phawb ag oeddynt mewn dalfa, neu y cyfryw ag a barhaent o dan arfau, yn eithriadau. Rhoddwyd y pardwn cyntaf allan ar y 10fed o Fai; yr olaf ar y 5ed o Fehefin, a hyny, fel yr ymddengys, gyda rhyw ychydig o ddylanwad.

Yr oedd tynged a dyddordeb Glyndwr yn gorwedd, fel y nodwyd yn flaenorol, yn Ngogledd a Deheubarth Cymru, y naill yn ogystal a'r llall. Yn ystod yr haf yma efe a ymdeithiodd, gyda chant ag ugain o wŷr arfog, a chyda chryn gyfrwysdra a ymsefydlodd ar fynydd Plinlimmon, bryn uchel, a ffurfia y terfyn rhwng siroedd Aberteifi a Threfaldwyn, lle ag ydoedd wedi ei gyfaddasu yn rhagorol at dderbyn adgyfnerthion oddiwrth ei dir-ddeiliaid a'i gyfeillion yn y

* Rymer, viii. 107. † Eto, 181, 182.

ddwy ran o'r dywysogaeth. Oddiyma byddai ei ddylynwyr yn gwneyd ymgyrchiadau anrheithiol, ac yr oeddynt yn ddychryn i bawb a wrthodent ymuno â'i achos. Sir Drofaldwyn a ddyoddefodd yn ddirfawr. Efe a ddifrododd y brif dref*, llosgodd faesdrefi y Trallwng, ac a anrheithiodd yr holl gyffiudiroedd. Dinystriodd fynachlog Cwm hir yn sir Faesyfed; cymerodd gastell Maesyfed, a pharodd i'r holl warchawdlu, y rhai oeddynt dri ugain o nifer, gael eu dienyddio ar fin buarth y castell†. Nid yw yr achos o'r creulondeb yma ar gof a chadw.

Y Fflemingiaid, preswylwyr Ross, Penfro, ac Aberteifi, a ddyoddefasant mor dost oddiwrth Glyndwr, fel y penderfynasant wneyd ymgais i symud ymaith gymydog mor boenus. Cynullasant fyddin o bymtheg cant o wŷr, ac a ymdeithiasant mor brysur fel ag i amgylchu Owain a'i luoedd, mewn lle a elwir Mynydd Hyddgant, cyn iddo gael y rhybudd lleiaf am eu hagosâd. Cauasant ef i mewn ar bob ochr; ac am nas gallasai encilio heb anfantais fawr, efe a amddiffynodd ei orsaf mewn modd tra gwrolfrydig. O'r diwedd, wedi cael allan nas gallasai aros yn hir yn y fath le, efe a benderfynodd dori mynedfa trwy y gelyn, neu ynte farw yn yr anturiaeth. Gwyddai nas gallasai efe na'i ddynion ddysgwyl am unrhyw drugaredd; felly, wedi eu cynhyrfu gan anobaith, hwy a syrthiasant yn orwyllt ar y Fflemingiaid, ac ar ol hir ymgyrch, a'u bwriasant i annhrefn mawr; ar yr hyn y cymerwyd mantais gan Owain, ac felly efe a adnewyddodd ei ymosodiad, ac yn y diwedd a'u gyrodd ar ffo, gan adael dau gant o'u mintai yn feirw ar y lle.

Ychwanegodd y fuddugoliaeth hon yn ddirfawr at gymeriad Glyndwr. Tyrfaoedd a ymunasant o dan ei fauer, a bu yn foddion i'w wneyd yn elyn o'r fath mwyaf galluog.

Harri, wedi ei ddychrynu gan y llwyddiant yma o'i eiddo, a ddaeth yr ail waith, yn bersonol, gan arwain ei fyddin. Daeth i Gymru gyda byddin fawr oddeutu dechreu Mehefin,‡ dinystriodd fynachlog Ystrad Fflur yn sir Aberteifi, ac a anrheithiodd y wlad; ond gorfu arno encilio yn waradwyddus, wedi i'w filwyr ddyoddef yn dost gan newyn, a'r lludded mawr yr aethent dano yn barhaus.

Y mynach o Evesham § a adrodda hanes am serch tadol, ag sydd yn peri mawr anrhydedd i'n gwlad. Cymro, yr hwn a wnaethai addewid fyrbwyll i'r brenin i fradychu Glyndwr, ar ol hyny a wrthododd ei chyflawni; ac yn awyddus a estynodd allan ei wddf i'r dienyddwr, gan erchi iddo daro, am fod ganddo ddau fab yn ngwasanaeth ei benaeth y pryd hwnw; ac felly na byddai iddo ar un cyfrif ddatguddio ei gyfrinachau, yr hyn a brofai mor anffodus iddynt.

Digon tebyg mai yn ystod yr ymgyrch yma y cafodd Harri gyfle i lygru ffyddlondeb amryw o gyfeillion Glyndwr; oblegyd yr ydym yn cael fod pardwn rhydd yn cael ei ganiatâu i William ap Tudur (boneddwr ag oedd yn cael ei eithrio yn mhardwn y flwyddyn o'r blaen,) ac i ddeg ar hugain o brif bersonau y wlad. Amserir hwn o Westminster, ar yr 8fed o Orphenhaf.‖

Nid yw yn ymddangos fod y gwrthgiliadau hyn yn cael ond effaith bychan

* Leland, Itin. v. 4. † Yr unrhyw.
‡ Vita Ric. II. 174. § Yr unrhyw. ‖ Rymer, viii. 203.

ar yspryd Glyndwr. Enillai gyfeillion newyddion, a'r fath ychwanegiad o nerth, fel y penderfynodd y brenin fyned allan yr ail waith yn bersonol yn ei erbyn. Rhoddodd allan archiadau i siryddion sir Dyfnaint, ac un ar hugain o siroedd ereill, i ddwyn eu lluoedd i Gaerwrangon,* ar y dydd cyntaf o fis Hydref. Y mae ein hen haneswyr yn ddystaw yn nghylch canlyniad yr ymgyrch hwn: ond dywed Mr. Carte iddo fod mor anffodus a'r blaenorol. Fel hyn y terfynodd gweithrediadau y flwyddyn hon.

## 1402.

Dechreuodd y flwyddyn yma gydag ymddangosiad comed, neu seren danllyd; yr hyn a esponiai y beirdd fel arwydd ffafriol i achos Glyndwr. "Ac yn y bedwaredd flwyddyn o deyrnasiad y brenin Harri gwelwyd seren yn y ffurfafen a ddangosai ei hun trwy yr holl fyd, fel amryw arwyddion o'r hyn a ddygwyddai yn fuan ar ol hyny, yr hon seren a elwid gan y clerigwyr, *Stella Comata*." *Caxton's Cronclis*, a argraffwyd yn St. Albans. Gwasanaethodd i roddi bywyd yn meddyliau pobl goelgrefyddol: yr oedd llwyddiant eu penaeth ar y dechreu yn cadarnhau eu crediniaeth, ac yn rhoi egni adnewyddol i'w gweithrediadau.

Arglwydd Grey oedd y cyntaf a oddefodd effeithiau awdurdod Owain. Y pendefig hwnw, trwy ei fod yn gyfaill cadarn i Harri, ac yn anamyneddgar ar gyfrif y colledion a ddyoddefasai efe a'i gyfeillion oddiar ddwylaw Glyndwr, a gododd fyddin fawr; ymosododd arno; gorchfygwyd ef, a gwnaed ef yn garcharor. Y mae haneswyr yn gwahaniaethu ynghylch maes yr ymladdfa. Gesyd yr haneswyr Cymreig ef ar lanau y Fyrnwy, yn sir Drefaldwyn. Y rhai Seisonig a haerant ei fod yn nghymydogaeth Rhuthyn; ac fod Owain wedi ymagosâu at y castell gyda mintai o filwyr, wedi tynu ei wrthymgeisydd anwyliadwrus allan o'r maes, pan y syrthiodd i gynllwyn, ac y cludwyd ef mewn rhwymau i amddiffynfeydd barbaraidd Eryri.† Ymddengys mai yr hanes yma ydyw y mwyaf tebygol, nid yn unig am mai castell Rhuthyn ydoedd prif breswylfod yr arglwydd Grey, ond ei bod hefyd yn amddiffynfa mor gadarn fel ag i ddyrysu holl ymgeisiadau Glyndwr, yn mabandod ei wrthryfel, oddigerth iddo ymgymeryd âg ystrywiau.

Bu arglwydd Grey, am amser maith mewn caethiwed, ac ni chafodd ei ryddhau hyd nes y talwyd am hyny y swm mawr o 10,000 o farciau. Yr oedd yn y fath ffafr gyda'r brenin, fel y darfu iddo, gan ymofidio o herwydd y llymder a ymarferid tuag ato, ac yn aredmygu ei sefydlogrwydd yn y gwrthsafiad a wnaethai yn erbyn pob cynygion o eiddo Glyndwr i beri iddo wyro oddiwrth ei deyrngarwch, roddi allan gomissiwn arbenig, dyddiedig y 10fed o Hydref yn y flwyddyn hono, yn awdurdodi Syr William de Roos, Syr Richard de Grey, Syr William de Willughby, Syr William de Zouch, John Herny, William Vaus, John Lee, John Longford, Thomas Payne, a John Elnstow, i ddyfod i gytundeb âg Owen a'i gynghor yn mherthynas i'w bridwerth. Penderfynwyd talu chwe' mil o farciau (pob un yn werth 13*s.* 4*d.* yr un,) ar y dydd Gwyl Farthin dylynol,‡ ac i roddi, fel gwystlon am daliad y gweddill, ei fab hynaf, a rhyw bersonau ereill. Ac i'r dyben o godi yr arian yma, rhoddodd Harri drwydded i Robert Braybrook,§ esgob Llundain, a dau ereill, meddiannwyr

* Rymer, viii, 225. † Vita Ricardi II. 178. ‡ Rymer, viii. 279.
§ Dugdale's Baron. i. 717.

Digitized by Google

amryw arglwyddiaethau dros arglwydd Grey, i werthu arglwyddiaeth Herteleigh, yn Nghaint. Efe hefyd a'i rhyddhaodd am chwe' blynedd oddiwrth fforffetiaeth dwy ran o dair o enillion ei etifeddiaethau yn yr Iwerddon, yr hyn yr arferid ei godi ar y rhai na byddent yn preswylio yno.

Wedi hyny gollyngwyd ef yn rhydd, a chafodd efe a'i denantiaid ganiatâd i fwynhau eu meddiannau heb ychwaneg o aflonyddwch arnynt. Y mae yn dra thebyg fod Owain wedi cytuno â'i arglwyddiaeth i fod yn gwbl amhleidgar, fel amod arall o'i ryddhad. Ac ymddengys fod yr arglwydd Grey wedi ei dybied yn angenrheidiol, er lles ei bobl, ac yntau ei hunan, i ymgyfathrachu âg Owain; oblegyd mor gynted ag y cafodd ei ryddid, efe a briododd *Jane,* trydedd ferch y penaeth cythruddedig. Ni fu iddo blant o'r briodas hon. Dichon ei bod yn un orfodol; ar y goreu, yn un o gyfrwysedd. Dywed rhai o'r haneswyr Seisonig iddo farw mewn caethiwed; ond ei fod wedi cael ei ryddid, a byw yn hir ar ol y cytundeb hwn, sydd yn amlwg: oblegyd yn 1409, efe a archwyd gan Harri i fyned i'w etifeddiaethau, i atal yr anrheithiadau a wnelai ei dad-yn-nghyfraith ar y cyffiniroedd. Bu iddo fyw hyd yn nod i wasanaethu yn y rhyfeloedd yn Ffraingc, yn nheyrnasiad Harri V. a'i olynydd, a bu farw yn y flwyddyn 1440.*

Owain, ar ol sicrhau y gelyn galluog hwn, a roddodd y ffrwyn yn rhydd i'w ddialedd; i gospi y cyfryw o'i gydwladwyr a ystyriai fel bradwyr i achos caredig rhyddid, trwy ymlyniad annaturiol at y Saeson, iau y rhai a oddefasent am gymaint o amser.

Efe a losgodd balasdai Cefn-y-fan a Chesail-gyfarch [yn Eifionydd, sir Gaernarfon,] y rhai a berthynent i Ieuan ap Meredydd, pleidiwr i dylwyth Lancaster, ac i ba un, a Meredydd ap Hwlcyn Llwyd o Lynllifon, yr ymddiriedasid (o dan gadben Seisonig) castell Caernarfon. Yr oedd y lle hwn yn cael ei warchae mor gaeth gan gyfeillion Glyndwr, fel pan y dygwyddodd i Ieuan ap Meredydd farw yno y pryd hwnw, y gorfuwyd dwyn ei gorph ar hyd y môr, i'r dyben o'i gladdu yn eglwys plwyf Penmorfa, ar yr ochr arall i'r sir.†

Hywel Sele o Nannau, yn sir Feirionydd, yr hwn oedd gefnder i Owain, a gafodd dynged galetach. Yr oedd yntau hefyd yn bleidiol i dylwyth Lancaster. Buasai Owain a'r penaeth hwn er's hir amser mewn ymrafael â'u gilydd. Clywais fod abad y Cymmer, yn agos i Ddolgellau, mewn gobaith o'u cymodi, wedi eu dwyn at eu gilydd, ac yn ol pob ymddangosiad wedi cyflawni ei fwriad caredig. Tra yr oeddynt yn cerdded allan, Owain a ganfu ewig yn pori, ac a ddywedodd wrth Hywel, yr hwn a ystyrid y saethwr goreu yn ei oes, fod hono yn nod dda iddo ef. Hywel a blygodd ei fwa, a chan gymeryd arno anelu at yr ewig, a drôdd yn sydyn ac a anelodd y saeth at ddwyfron Glyndwr, yr hwn yn ffodus a feddai arfwisg o dan ei ddilad, ac felly a ddiangodd yn ddianaf. Wedi ei gythruddo gan y bradwriaeth yma, efe a ymaflodd yn Sele, llosgodd ei dŷ, a hyrddiodd ef o'r lle; ac ni wybu neb beth a ddaeth o hono, hyd yn mhen deugain mlynedd ar ol hyny, pan y deuwyd o hyd i ysgerbwd dyn mawr, o'r fath ag oedd Hywel, mewn ceuedd derwen fawr, yn mha un y tybid fod Owain wedi dodi ei gorph, fel gwobr am ei fradwriaeth. Y mae olion yr hen dŷ i'w

* Collins's Peerage, ii. 382. † Hist. Gwedir, 53.



Digitized by Google

gweled yn mharc Nannau, ond nid ydynt amgen na chymysgedd o sinidr a lludw.

Rhaid sylwi, pan oedd Owain yn ei gludo ymaith, fod ei gâr Gruffydd ap Gwyn, o'r Ganllwyd, yn Ardudwy, wedi amcanu ei waredu, ond gorchfygwyd ef, a chollodd niferi o'i wŷr, ynghyda'i dai yn y Berthlwyd a Chefn Coch, y rhai a losgwyd yn ulw.

Oddeutu yr amser yma yr ymddialodd Owain ar yr eglwyswyr ag oeddynt wedi pleidio achos y Saeson. Ymddengys ei ymddygiad yn hyn o beth yn anamddiffynadwy, oblegyd ni ddangosodd unrhyw barch i'r adeiladau mwyaf cysegredig, ond dinystriodd eglwysi cadeiriol Bangor a Llanelwy, yn nghyda'r palas esgobol, a thai y canoniaid perthynol i'r olaf. Yr oedd yn ymddial, yn fwy arbenig, yn erbyn Llanelwy; am fod yr esgob, John Trevor, wedi cael ei ddyrchafiad gan Rhisiart, ac eto yr oedd mor annheyrngarol ag i bleidio yn erbyn ei feistr anffodus ar adeg ei ddiorseddiad, yn ffafr Harri yr ymhonwr; ac wedi hyny cymerodd ofal cenadwriaeth i lŷs Yspaen, i gyfiawnhau gweithrediadau Bolingbroke tuag at y tywysog gorseddog.

Ystyriai Harri ef fel dyoddefwr mawr yn ei achos; am hyny rhoddodd awdurdod i esgobion Henffordd, Voltorno, a Bangor, i ganiatâu iddo ddal, am y pryd, fywioliaeth Meifod, gyda chapelau y Trallwng a Chegidfa, neu Guilsfield, i'r dyben o gynal i fyny ei urddas tra yr ydoedd ei esgobaeth o dan anrhaith.*

Dychwelodd Trefor i Loegr oddeutu yr amser y dinystriwyd ei eglwys gadeiriol. Yn mhen dwy flynedd ar ol hyn, efe a drôdd yn erbyn Harri, ac a ymunodd â Glyndwr, wrth yr hwn y glynodd am y gweddill o'i ddyddiau. Ymddangosodd mewn arfau gydag ef yn y flwyddyn 1409.† Yn y flwyddyn ddylynol, pan yr oedd dylanwad Owain yn lleihau, efe a enciliodd i Paris, bu farw, ac a gladdwyd yn nghapel yspytty mynachlog St. Victoire, lle y gosodwyd y cerfiad a ganlyn [yn Lladin] er coffadwriaeth am dano:—

> Yma y gorwedd y parchedig Dad yn Nghrist, Ioan, esgob Llanelwy, yn Nghymru, yr hwn a fu farw B.A. 1410, ar ddydd Gwener, Ebrill 10fed. Bydded i'w enaid orphwys yn ddedwydd mewn tangnefedd. Amen.

Rhyngodd bodd i Glyndwr gadarnhau Trefor yn ei swydd esgobol; ond diswyddodd o un Bangor‡ Richard Younge, am ei ymlyniad wrth y trawsymhonwr, ac a'i cadwodd mewn carchar caethiwus. Owain hefyd a apwyntiodd yn ei le Llywelyn, neu fel y geilw rhai ef, Lewis Bifort; enw yr hwn a grybwyllir yn 1406 yn mysg y rhai penaf o'r trigolion a ddirwywyd neu a alltudiwyd ar gyfrif gwrthryfel Owain Glyndwr, yn Ynys Môn. Wedi hyny efe a ymunodd âg iarll Northumberland ac arglwydd Bardolph, ac a gymerwyd yn garcharor yn nghastell Bramham Moor, yn Chwefror 1407-8, pan y lladdwyd y ddau bendefig; ond arbedwyd bywyd yr esgob, o herwydd ei gael heb ddwyn arfau.§

Yr oedd Harri wedi dychrynu yn fawr oblegyd llwyddiant Glyndwr, a phenderfynodd fyned yn ei erbyn yn bersonol unwaith yn rhagor. Rhoddodd allan

* Rymer, viii. 222, 246; efallai fod esgob Voltorno yn gweithredu fel cenad y Pab.
† Rymer, viii. 588. ‡ Willis's Bangor, 84. § Goodwin, 648.

Digitized by Google

wysiadau* i raglawiaid Nottingham a Derby, ac i ddeuddeg ar hugain o siroedd ereill, wedi eu dyddio o gastell Berkehamstede, ar y 5ed o Fehefin; yn mha rai y mae yn galw arnynt i gynull byddinoedd eu gwabanol randiroedd, ac i'w gyfarfod ef yn Lichfield, ar y 7fed o Orphenaf, i'r dyben o roddi i lawr y gwrthryfel peryglus hwn.

Cyn i'r brenin allu cynull ei luoedd, cyrhaeddodd y newydd am y fuddugoliaeth fawr a gawsai Glyndwr, ar yr 22ain o Fehefin, ar Syr Edmund Mortimer. Yr oedd Owain, ar ol gorchfygu arglwydd Grey, yn parhau i ganlyn ei ymddialiad yn erbyn yr holl benaethiaid ag oeddynt yn anffafriol i'w fwriadau; ac aeth yn ei flaen tua sîr Henffordd, a chyffindiroedd Deheubarth Cymru; gan ddwyn tân a chleddyf trwy holl diroedd ei wrthwynebwyr. Ni oddefodd neb mor dost a deiliaid a thenantiaid Edward Mortimer iarll March, plentyn deng mlwydd oed, yr hwn, yngbyda'i frawd Roger, oeddynt yn nghadwraeth y brenin ar y pryd. Yr oedd y brenin yn gwybod yn dda am hawl gyfiawn y plentyn hwn i'r goron, gan ei fod yn hanu o Lionel duc Clarence, trydydd mab Iorwerth III. Yr oedd ei hawl wedi cael ei gydnabod hyd yn nod yn y senedd. Cynyddodd hyn ofnau y brenin, a pharodd iddo ystyried anffodion y teulu hwnw yn gryfhad i'w orsedd ef ei hun.

Syr Edmwnd Mortimer, ewythr i'r bachgen yma, heb fedru goddef yn hwy o dan anrheithiadau Owain, a gasglodd ynghyd fintai fawr o denantiaid a gweision ei nai, allan o sîr Henffordd, a manau cylchynol, yn neillduol o Felienydd yn sîr Faesyfed, a chyda'r rhai hyn aeth yn erbyn y goresgynydd. Brwydr waedlyd fu y canlyniad, ar y Bryn-glas, mynydd gerllaw Pilleth, ychydig i'r de-orllewin o Drefyclawdd, yn Maesyfed. Rhoddodd buddugoliaeth ei dedfryd o blaid ein cydwladwr. Dywed rhai fod bwäwyr byddin Mortimer wedi troi eu bwäau yn erbyn eu plaid eu hunain.† Un arall‡ a ddywed fod tenantiaid Cymreig iarll March wedi ffoi ar yr ymosodiad cyntaf, ac mai dyna fu yr achos o'r gorchfygiad. Syrthiodd un cant ar ddeg ar ochr Mortimer. "Yr oedd yr ysgelerder cywilyddus a ymarferwyd gan y merched Cymreig," ebai Holinshed, "y fath ag y byddai yn gywilydd gan glustiau gonest glywed am dano, a thafodau diwair siarad yn ei gylch. Ni adewid i gyrph y meirw gael eu claddu, heb i symau mawrion o arian gael eu talu am y rhyddid i'w cludo ymaith."§ Y bardd Shakespear a dafla hug erchyll dros y chwedl arswydus yma, wrth adrodd yr hanes:

> Ar draws y cwbl, daeth
> Llythyr o Gymru gyda newydd trwm:
> Y gwaethaf oedd, fod Mortimer, ŵr dewr,
> Wrth arwain gwŷr sîr Henffordd idd y gad,
> Yn erbyn Glyndwr afreolaidd, wyllt,
> Yn awr yn ngharchar gan y Cymry cas;
> Un fil o ddynion wedi eu lladd ar faes,
> Ar feirwon gyrph pa rai cyflawnwyd gwaith
> Mor erchyll anifeilaidd yn ei ffurf,
> Gan ferched Cymru, fel nas gellir mwy
> Am dano son heb wrido, na'i ail dd'weyd.

* Rymer, viii. 264. † Stow, 357. ‡ Vita Ricardi II. 178.

§ Holinshed, 520; yr hwn a'i hadrodda ar ol Walsingham. Gall y sawl a ddymunant ddarllen yr hanes erchyll, edrych i'r olaf, t·ud. 577. Camdeni Script. Angl.

Digitized by Google

Buasai yn dda genyf allu clirio fy nghydwladyddesau oddiwrth y cyhuddiad trwm yma. Dechreuodd yn Thomas de Walsingham, hanesydd ag oedd yn byw, rhaid addef, yn mhen deugain mlynedd ar ol y dygwyddiad. At ei awdurdod ef, erfyniaf ganiatâd i osod yn gyferbyniol eiddo hen ysgrifenydd arall, yr hwn a briodola y barbareiddiwch yma i un o ddylynwyr Glyndwr, un Rhys a Gyrch*. Yr wyf yn gwenieithio i mi fy hun mai dyma fel yr oedd; os amgen, ni buasai un angen am gyfraith† er atal Saeson i briodi y fath ellyllon ag y gosodid allan ferched Cymru.

Y mae lluaws o haneswyr yn cymeryd arnynt fod yr iarll ieuangc March, yn bresenol yn y gorchfygiad yma; iddo gael ei gymeryd yn garcharor; a'i orfodi, er mwyn sicrhau ei ffyddlondeb, i briodi un o ferched Glyndwr. Ond ar yr adeg yma yr oedd yn goddef math arall o garchariad yn Windsor; ei ewythr a lywyddai luoedd y teulu, ac a gollodd ei ryddid yn y frwydr. Gwnaed ymgeisiadau taerion ar Harri am ganiatâd i'w brynu; ond y brenin eiddigus, gan lawenhau yn anffodion y tŷ gwrthymgeisiol hwn, a adawodd iddo barhau yn ngafael ei elyn; gan haeru fod Syr Edmund yn fradwrus wedi taflu ei hun i ddwylaw Glyndwr.

Ar ol y fuddugoliaeth hon, derbyniodd Owain ychwanegiad cryfder o bob rhan o Gymru. Er fod Harri yn ddidaro yn nghylch tynged y *Mortimers*, yr oedd ei ddyogelwch ef ei hun yn peri iddo yn awr weithredu yn egniol. Rhoddwyd heibio y bwriad o gynull ei fyddin yn Lichfield Anfonwyd allan wysiadau newyddion, ddyddiedig yr 31ain o Orphenhaf. Penderfynwyd dyrysu y Cymry trwy dri goresgyniad o wahanol fanau. Cynullfan y fyddin gyntaf oedd i fod yn yr Amwythig, i gael ei llywyddu gan y brenin yn bersonol; yr ail yn Henffordd, i gael ei chasglu gan Edmund iarll Stafford, Rhisiart iarll Warwick, a'r arglwyddi Grey, Abergafenni, Audeley, a Berkly; a'r drydedd, o dan lywyddiaeth y tywysog Harri, yn Nghaerlleon. Yr oedd y byddinoedd i ymgyfarfod yn mhob lle erbyn y 27ain o Awst.‡

Owain, gan wybod nad allai y parotoadau hyn fod yn effeithiol am beth amser, a roddodd ryddid i'w ymddialeddiad, yn nechreu Awst, trwy fyned yn erbyn trigolion sîr Forganwg, y rhai oeddynt yn bleidiol i'r Saeson. Ymdeithiodd i'r sîr hono, gan ei hanrheithio yn mhob parth; ac ar ol llosgi castell yr esgob, a thŷ yr archddiacon,§ yn Llandaff, efe yn yr un anrheithiad a losgodd Gaerdydd ac Abergafenni; ac yna dychwelodd i wrthsefyll y Saeson.

Yr Ysgotiaid, ar yr adeg yma, a gymerasant fantais ar y cynhyrfiadau yn mhlith y Cymry; ac, o dan lywyddiaeth y gwrol Douglas, a oresgynasant Loegr gyda byddin o ddeuddeg neu dair mil ar ddeg o wŷr. Y mae braidd yn sicr eu bod yn gweithredu mewn cydgordiad â Glyndwr. Yr oedd y ddwy genedl yn unedig mewn casineb cyffredinol at y Saeson. Yr oedd y ddwy wedi teimlo pwys eu gallu. Yr oedd yr Ysgotiaid yn cynllunio eu goresgyniad yn union ar yr adeg pan yr oedd Harri wedi tynu ei luoedd i gyffiniau Cymru, ac, fel y gobeithient, wedi gadael y rhanau gogleddol heb neb i'w gwylio. Yr oedd Harri wedi cael allan ei fod i gymeryd lle ar ŵyl Cyfarchiad y Fendigaid

* Vita Ricardi, II. 178. † Statute 4th Henry IV. c. 34.
‡ Rymer, viii. 271. § Willis's Llandaff, 30, 31.

Digitized by Google

Forwyn, neu y 15fed o Awst; ac i'r dyben o'u gwrthwynebu, efe a archodd i raglaw sir Lincoln brysuro tua'r gogledd gyda'r holl filwyr a allai godi.

Harri, yn ystod yr amser yma, a aeth yn mlaen gyda'i ymgyrch yn erbyn y Cymry. Nid yw yn ymddangos pa un a ddarfu i'r fyddin o dan ei fab, a'r un o dan iarll Arundel (i ba un y rhoddasid llywyddiaeth yr ail fyddin) wneyd ymgyrchiadau gwahanol i amrywiol barthau o'r wlad yn ei ffafr; neu ynte a ddarfu iddo uno eu lluoedd â'i eiddo ei hun. Bu canlyniad y goresgyniad yma yn dra anffodus. Glyndwr, yr hwn oedd yn rhy ochelgar i anturio brwydr yn erbyn byddin mor luosog, a enciliodd i amddiffynfeydd y mynyddoedd, gyrodd ymaith yr anifeiliaid, a distrywiodd bob moddion a allai y Saeson gael at eu cynaliaeth. Trôdd y tymhor allan yn anarferol o ddrwg; oblegyd ymddangosai fel pe buasai yr elfenau yn rhyfela yn eu herbyn. Olyniad parhaus o dymhestloedd a gwlawogydd, yn nghyda pharhaus wyliadwriaeth yn erbyn gelyn ag oedd o hyd yn hofran uwch eu penau, ac yn barod i gymeryd pob achlysur i ddisgyn arnynt o'r uchelderau, a leihaodd y fyddin gan afiechyd a lludded; a gorfu ar y brenin unwaith yn rhagor encilio yn y dull mwyaf anogoneddus.

Y Saeson, gan feddwl cuddio eu cywilydd, a briodolasant achos eu gwaradwydd i swynyddiaeth y penaeth Prydeinig; "yr hwn," fel y dywed un hen hanesydd, "trwy gelfyddyd ddewiniol (fel y bernid) a barodd i'r fath dywydd drwg o wyntoedd, tymhestloedd, gwlawogydd, eira, a chenllysg, gael eu codi, er blino byddin y gelyn, fel na chlywsid am y fath erioed o'r blaen." Dichon fod Glyndwr, yn gystal er taro dychryn i'w elynion, ag i roddi i'w bobl ef ei hun ryw dybiaeth uwch am dano, yn cyfrwys awgrymu ei fedrusrwydd mewn swynyddiaeth a chonsuriaeth, fel ag i beri iddynt dybied ei fod yn cael ei gynorthwyo gan uwch awdurdod nag eiddo dynion. Yr oedd y math yma o ofergoeledd nid yn unig yn gryf yn ei amser ef, ond parhaodd hyd yn nod i ddyddiau mwy goleuedig.

Owain, trwy enau Shakespear, a sieryd am ei ymgyfathrach â thylwyth yr ysprydion, ac am ei fedrusrwydd yn y gelfyddyd gonsuriol:

> Pa le mae'n byw, o fewn terfynau'r môr
> A etyl lanau Lloegr, Cymru, a'r Alban wlad,
> A'm geilw yn ddysgybl, neu a'm dysgodd i?
> Allan âg ef, os yw ond mab i wraig,
> A'm holrhain i yn ffyrdd celfyddyd flin,
> Neu a'm dylyna mewn ymbrofion dwfn.
> Galwaf ysprydion o'r dyfnderoedd mawr!

Y mae y bardd, ar yr achlysur hwn, yn chwareu yn brydferth â gwresogrwydd Glyndwr; a thyna allan o hono yspryd nodweddiadol ein gwlad, yr hwn a duedda i ymddyrchafu ar yr ymddangosiad, neu weithiau hyd yn nod ar ddim ond yr ymsyniad o ddirmyg.

Harri yn fuan a dderbyniodd newyddion o'r gogledd, a dueddent i liniaru aflwyddiant ei oresgyniad. Iarll Northumberland, ac ereill o'r barwniaid gogleddol, a gynullasent eu galluoedd i wrthwynebu yr Ysgotiaid, y pryd hyny yn dychwelyd tuag adref; goddiweddasant hwy ar ddydd gwyl y Grog, neu y 15fed

o Fedi, ar fryn Homeldon, yn agos i Wooler, ac a gawsant lwyr fuddugoliaeth arnynt. Niferi o'r bendefigaeth Ysgotaidd a laddwyd yn y frwydr; a lluaws a gymerwyd yn garcharorion, yn mysg pa rai yr oedd y gwrolfrydig lywydd, Archibald iarll Douglas, yr hwn a gyfenwid gan ei gydwladwyr yn Tyneman, ar gyfrif y nifer mawr o wŷr a leddid wrth ei ddylyn yn ei holl ryfeloedd.

Cynyrchodd y frwydr hon ddygwyddiadau mawrion; a thrôdd allan yn y diwedd yn ddinystr i deulu y *Percies.* Yr oedd yn arferol fod i'r carcharorion ddyfod yn eiddo i'r buddugoliaethwyr; ac fod i bob un a fyddai mor llwyddiannus, neu mor wrol, ag i gymeryd un yn garcharor, dderbyn gwobr ei wrhydri trwy fod at ei ryddid i'w ryddhau, yn ol ei urdd neu ei alluoedd. Yr oedd Harri Percy, yr hwn a gyfenwid Hotspur, ei hunan, trwy ffawd rhyfel, wedi cael ei gymeryd yn garcharor gan yr Ysgotiaid, a chafodd ei ryddhau yn unol â hen arferion rhyfel. Yr oedd y buddugoliaethwyr ar yr adeg hon yn dysgwyl ac yn hawlio yr un ragorfraint; ond Harri, gan ewyllysio dal gafael yn y carcharorion boneddigaidd hyn, fel gwystlon am ymddygiad heddychol y genedl Ysgotaidd, a anfonodd gyfarwyddiadau i iarll Northumberland, na byddai iddo ar un cyfrif ganiatâu eu rhyddid iddynt; ond fod iddo eu traddodi i'w ddwylaw ef. Lliniarodd Harri lawer ar y cais hwn trwy wobrwyo Northumberland â rhanbarthau helaeth o diroedd ar y cyffiniau Ysgotaidd;* ac ymostyngodd y senedd i ddanfon iddo lythyr o ddiolch am ei wasanaeth da. Ond er hyn oll, yr oedd teulu y *Percies* wedi anfoddloni yn ddirfawr. Pa un a oedd eu hyspryd uchel yn anfoddogi o herwydd y trais ar hawl hynafol y buddugoliaethwyr i'w carcharorion; neu a oeddynt wedi cael eu llanw â chydwybod euog o herwydd eu hannheyrngarwch i'w meistr blaenorol; neu ynte a oeddynt yn cael eu symbylu gan yr uchelgais o ddyfod yn annibynol; neu pa un a oedd yr holl achosion hyn yn cydweithredu, nid yw yn gwbl sicr; eto, o'r adeg yma, ffurfiasant eu bwriad o fwrw ymaith eu ffyddlondeb i Harri frenin.

Ar yr adeg hon dechreuodd teimlad o anfoddlonrwydd mawr at ei lywodraeth gymeryd gafael yn y genedl. Adfywiodd y serch at y llofruddiedig Rhisiart. Mor ewyllysgar oedd y bobl i ddychymygu ei fod eto yn fyw, fel y darfu i'r amrywiol chwedlau a ddyfeiswyd ar y pwngc hwnw gael eu llyngcu yn awyddus; ac arddangosid tuedd i wrthryfela braidd yn gyffredinol.

Y symudiad cyntaf o eiddo y *Percies* ydoedd rhyddhau y carcharorion Ysgotaidd heb bridwerth. Enillodd hyn galon Douglas; yr hwn a aeth adref, a gododd fyddin o wŷr, ac a ymunodd yn yr anturiaeth.

Syr Edmund Mortimer, er yr amser y gorchfygwyd ef, oedd yn ngharchar, ac ymddygid tuag ato gyda'r caredigrwydd a'r parch mwyaf. Glyndwr, gan ei fod wedi penderfynu gwneyd defnydd o'r carcharor pwysig hwn fel offeryn i gyrhaedd ei uchelgais politicaidd, a'i hadgofiodd am hawl ei deulu i goron Lloegr, ac a wenieithodd iddo gyda'r gobeithion o'i adferu i orsedd † ei hynafiaid. Y *Percies*, â pha rai yr oedd mewn cynghrair, a wnaethent amryw ymgeisiadau at Harri er ei ryddhau, yr hwn, ar sail esgusion gau a niweidiol, yn wastadol a wrthodai dalu sylw i'w cais; eto, ni orphwysasai am funud nes iddo gael rhyddhad ei ffafryn, arglwydd Grey.

* Rymer, viii, 289. † Vita Ricardi II. 179.

Digitized by Google

Y *Percies* yn awr a ddechreuasant ymeangu o ran eu golygiadau; ac i ffurfio cynghreiriaeth ag oedd yn ymddangos yn debyg i effeithio chwyldroad arall. Ffurfiasant gynghrair â Glyndwr; cawsant ganddo ryddhau Mortimer; ac, fel y triwriaeth hynod yn Rhufain, penderfynasant ranu yr ymerodraeth rhyngddynt.

Man cyfarfod, neu fradwrfa, y gwroniaid hyn ydoedd yn nhŷ Dafydd Daron, deon Bangor,* mab i Evan ap Dafydd ap Gruffydd, hanedig o Garadoc ap Iestyn, tywysog Cymru. Yr oedd yn ddyn o ddylanwad a chyfoeth mawr: aeth i mewn yn gryf i'w golygiadau; ac mewn canlyniad i hyny, yn y flwyddyn 1406, cafodd ei gyhoeddi yn wrthryfelwr o herwydd ei ymlyniad wrthynt.

Yma y darfu i'r tri phenaeth ranu Prydain. Yr oedd Syr Edmund Mortimer, ar ran ei nai, iarll March, i gymeryd yr holl wlad o'r Trent a'r Hafren hyd derfynau dwyreiniol a deheuol yr ynys; Northumberland oedd i gael yr holl siroedd o du y gogledd i'r Trent; a Glyndwr bobpeth a orweddai o'r tu hwnt i'r Hafren at y gorllewin.

Ar yr achlysur yma y darfu i Owain, er bywiogi ei gydwladwyr, alw i fyny yr hen brophwydoliaeth, yr hon a ragfynegai ddinystr Harri, dan yr enw *Moldwarp, melldigedig o enau Duw ei hun.* Galwai ei hun y *ddraig;* enw yr ymgymerodd âg ef mewn efelychiad o *Uthr*, buddugoliaethau yr hwn ar y Saesoniaid a ragfynegasid gan ymddangosiad seren, gyda draig odditani, yr hon a ddefnyddiai Uthr fel ei arwydd; ac ar y cyfrif hwnw daeth yn un anwyl gan y Cymry. I Percy efe a roddodd y teitl *llew*, oddiwrth bais-arfau y teulu; i Mortimer, yr eiddo *blaidd*, efallai am gyffelyb reswm. A'r tri hyn oeddynt i ranu y deyrnas cydrhyngddynt.

Yr oedd Glyndwr yn awr yn anterth ei ogoniant. Efe a gynullodd bendefigion Cymru yn Machynlleth, tref yn sîr Drefaldwyn; yno efe a barodd i'w hawl i'r dywysogaeth gael ei gydnabod, ac a goronwyd yn ffurfiol.

Yn y cyfarfod yma efe a gafodd ddiangfa gyfyng rhag cael ei lofruddio. Yn mysg y penaethiaid a wnaethent eu hymddangosiad i gynal ei hawl, yr oedd rhyw foneddwr o sîr Frycheiniog, Dafydd Gam, neu yr unllygeidiog; dyn, ebai Mr. Carte,† a ddaliai ei etifeddiaeth oddiar anrhydedd sîr Henffordd, ar gyfrif iddo fod am amser hir yn ngwasanaeth Bolingbroke, ac yr oedd yn bleidiwr diysgog i'w achos. Er ei fod wedi priodi chwaer i Glyndwr, eto mor ddwfn oedd yr atgasrwydd ffyrnig a ffurfiasai at ei achos, fel y gwnaeth ei ymddangosiad yn y cyfarfod hwnw gyda'r penderfyniad dirgelaidd a bradwrus o lofruddio ei dywysog ei hun a'i frawd-yn-nghyfraith. Dywed Carte ei fod wedi cael ei anog i hyny gan Harri; ond nid yw yn dwyn unrhyw awdurdod o blaid ei haeriad. Zêl unochrog, neu obaith am wobr, efallai, a barodd iddo gymeryd mewn llaw y fath weithred ddrygionus. Yr oedd yn offeryn cymhwys at y gorchwyl; yn ddyn o wroldeb disigl; yr hyn a roddwyd i'r prawf yn y teyrnasiad dylynol, yn mrwydr Agincourt. Efe oedd y boneddwr a anfonwyd i ymchwilio i rifedi y gelynion yn flaenorol i'r frwydr; ac a hysbysodd y brenin fod yno *ddigon i gael eu lladd, digon i'w cymeryd yn garcharorion, a digon i ffoi ymaith.* Yn y frwydr hon, Dafydd, ei fab-yn-nghyfraith Roger Fychan, a'i gâr Walter Llwyd,

* Willis's Bangor, 122. † ii. 654.

Digitized by Google

a achubasant y brenin pan yr oedd wedi ei amgau gan y gelynion. Achubasant ei fywyd ar draul aberthu yr eiddynt eu hunain, a syrthiasant wedi derbyn amryw archollion marwol. Y brenin, ar ol y fuddugoliaeth, a ddynesodd at y fan lle yr ymdrybaeddent yn eu gwaed; ac ar fin adeg eu marwolaeth, a roddodd iddynt yr unig wobr am eu dewrder a allasai weinyddu ar y fath adeg bruddaidd, sef rhoddi iddynt yr anrhydedd o fod yn farchogion.

Ond i ddychwelyd at y pwngc sydd yn fwyaf arbenigol o dan ystyriaeth. Darganfyddwyd bradwriaeth Dafydd Gam yn erbyn Glyndwr. Cymerwyd ef i ddalfa, a charcharwyd ef; a buasai wedi derbyn y gospedigaeth a deilyngai, oni buasai iddo gael ei achub trwy gyfrwngwriaeth cyfeillion a phleidwyr gwresocaf Owain.* Cafodd bardwn trwy iddo wneyd addewid ddifrifol o ymlyniad wrth achos Glyndwr a'i wlad. Ymddengys nad oedd ein penadur yn dueddol i ymddibynu ar ei addewid; oblegyd cadwodd ef mewn dalfa hyd y flwyddyn 1412, fel yr ymddengys oddiwrth yr hyn a gymerodd le yn y cyfnod hwnw.

Glyndwr, yn ol ei arfer, a arllwysodd ei ddialedd ar diroedd a thenantiaid Dafydd Gam; aeth i mewn i'w wlad, a llosgodd ei dŷ; a thra yr oedd hwnw yn llosgi, efe a alwodd ar un o denantiaid Dafydd, ac a ymddiddanodd âg ef ar gân yn llawen; yr hyn a arddengys dueddiad cyffredinol ein pobl ni at y gelfyddyd farddonol:

O gweli di ŵr coch Cam,
Yn ymofyn y Gyrnig wen;
Dywed ei bod hi tan y lan,
A nod y glo ar ei phen.

## 1403.

Gwnaed parotoadau gyda bywiogrwydd mawr gan yr oll o'r pleidiau. Hotspur, wedi gadael ei dad yn glaf yn Berwick, a ymdeithiodd gyda'i luoedd o'r gogledd; ac wedi myned trwy sir Gaerlleon, yr hon sir a fuasai bob amser yn serchiadol i Rhisiart, ymunwyd â hwy yno gan blaid luosog. Anfonodd Percy at Owain, i ddeisyf arno ei gyfarfod; ond gwrthododd ein cydwladwr gydsynio: er hyny, darfu i luaws o'r Cymry ymuno â Hotspur, ac a ymdeithiasant gydag ef hyd Lichfield, gan ddwyn y carw, arwydd y diweddar frenin, fel arwyddlun plaid. Yn y ddinas hono efe a gyhoeddodd ei resymau dros gymeryd arfau i fyny yn erbyn Harri, yr hwn yr oedd y teulu wedi ei osod mor ddiweddar ar yr orsedd.† Oddiyma efe a arweiniodd ei fyddin tua'r Amwythig; dichon am ei fod yn cael ei hun yn rhy wan i ymosod ar y trawsymhonydd; oblegyd ymddangosai megys pe buasai yn ei fwriad i'w gyfarfod ar ei ymdaith, pe buasai Glyndwr wedi ymuno âg ef gyda'i holl fyddin. Yr oedd Glyndwr, ar y llaw arall, wedi ffurfio byddin fawr yn Nghymru; a Syr Edmund Mortimer wedi codi deiliaid ei nai.

Yn mis Mawrth rhoddodd Harri brawf cryf o'r opiniwn uchel oedd ganddo am ei fab Harri o Fynwy, wedi hyny brenin Lloegr, yr hwn ar y pryd nid oedd ond pymtheng mlwydd oed; oblegyd trwy wŷs, dyddiedig o Westminster ar y 7fed o'r mis hwnw, efe a'i hapwyntiodd ef yn is-raglaw o dano ei hun dros

* Wynne's Hist of Wales, 321. † Leland's Collect. ii. 312.

Digitized by Google

Gymru* a'r holl siroedd cyfagos, gyda llawn awdurdod i godi milwyr, ac i weithredu yn erbyn y gwrthryfelwyr fel y barnai yn briodol; i ymholi i bob cydfradwriaeth; i ymchwilio pwy oedd wedi cyflenwi y gwrthryfelwyr âg arfau neu ymborth; ac i roddi pardwn i bawb a roddent eu harfau i lawr, a rhoddi sicrwydd am eu hymarweddiad heddychol.

Wedi darparu fel hyn, megys ag y tybiai, am ddyogelwch cyffindiroedd L'oegr ar derfynau Cymru, efe a ddechreuodd ystyried am ei ymgyrch yn erbyn y *Percies*. Ond wedi clywed fod Glyndwr,† oherwydd diffyg ymborth, yn ymbarotôi i wneyd anrhaith i'r cyffindiroedd, efe a roddodd allan archiadau o Westminster, dyddiedig y 12fed o Fehefin, i raglaw sir Gaerloyw,‡ i ymbarotôi i wrth-hyrddio y goresgyniad, gyda'r lluoedd a allai gynull i'r dyben hwnw. Yna Harri a wnaeth ymgyrch o'r fath gyflymaf i Burton ar y Trent, lle yr ydym yn ei gael ar y 16eg, ar ei ffordd yn erbyn y gwrthryfelwyr gogleddol.§ Yma efe a ddeallodd fod Percy, ynghyda'i fyddin, wedi ymdeithio tua'r Amwythig, ac yn ymbarotôi i ymuno â lluoedd Glyndwr a Mortimer. Gwyddai yn dda am y pwysigrwydd o atal i hyny gymeryd lle; a chyfeiriodd ei ymdaith tua'r dref hono, fel y dywedir, trwy gynghor iarll Dunbar, pendefig Ysgotaidd, yr hwn oedd wedi cymeryd ei blaid ef. Bu i'r cyflymdra â pha un y cyflawnodd y symudiad hwn, achub ei goron. Nid oedd Glyndwr, yr hwn a gynullasai ei filwyr yn Nghroesoswallt, wedi anfon ond ei adran gyntaf yn unig, yn cynwys pedair mil o wŷr, y rhai a weithredasant gydag yni ar ddydd y frwydr;‖ yn mha un y syrthiodd ei frawd-yn-nghyfraith Syr Jenkin Hanmer.¶ Harri a rwystrodd iddo fyned yn ei flaen gyda'r gweddill, trwy osod ei hun rhwng Glyndwr a'r Amwythig, ac ar y foment bwysig pan oedd y gwrthryfelwyr gogleddol ar fin dringo y muriau. Percy a roddodd yr ymgais i fyny; ac ar ol gwrthod y cynyg o ymheddychu, a ymosododd ar fyddin y brenin yn Battlefield, dair milldir o'r lle. Ymddygodd yn unol âg yspryd teilwng o'i enw; syrthiodd yn wrol, a chydag ef holl obeithion ei blaid. Cymerodd y frwydr hon le ar yr 21ain o Fehefin. Cafodd Glyndwr y siomedigaeth o aros drwy yr yspaid yma o amser heb wneyd dim, a chanddo ddeuddeng mil o wŷr, yn Nghroesoswallt. Y mae yr haneswyr Cymreig yn ei feio yn anghyfiawn am ei ymddygiad ar yr achlysur hwn, ac yn gweled bai arno am yr hyn, fel yr ymddengys, nas gallai ei gyflawni. Ei esgeulusdra penaf, fel yr ymddengys i mi, ydoedd peidio ymosod ar Harri yn ddiatreg ar ol y frwydr, pan oedd milwyr y brenin wedi goddef colledion mawrion, ac wedi eu gorchfygu gan ludded; tra yr oedd Northumberland, yn awr wedi gwella o'i afiechyd, mewn llawn ymdaith tuag ato, byddin Mortimer yn gyfan, ac eiddo y brenin o dan orfod i fyned tua'r gogledd. Yr oedd Glyndwr yn cario yn mlaen ryfel yspeilgar, ac yn anrheithio y cyffindiroedd, y rhai oeddynt yn awr yn ddiamddiffyn. Dychwelodd y brenin yn llwyddiannus o'r gogledd i geryddu y gwrthryfelwyr; ond gorfu arno roddi hyny heibio, o ddiffyg arian i dalu ei filwyr, ac ymborth i'w cynal. Efe a anturiodd wneyd i fyny y diffyg cyntaf trwy ymaflyd yn nghyfoeth gorddigonol yr esgobion; ond ataliwyd ef gan wroldeb archesgob Caergaint, yr hwn a gyhoeddodd yn hyf na byddai i un rhan o'i dalaeth ef gael ei hyspeilio ar un gyfrif; yr hyn a rwystrodd fwriad Harri gyda golwg ar Glyn-

* Rymer, viii. 291. † Yr unrhyw, 304. ‡ Eto, 314. § Eto.
‖ Holinshed, 523. ¶ Collin's Baronets, ii. 236, ed. 1720.

dwr. Ar ol hyn cynghorwyd yr archesgob i ymddwyn yn well, a gwnaeth ganiatâd o'r ddegfed ran tuag at dreuliau angenrheidiol y brenin.

Ni wnaethpwyd dim yn rhagor yn ystod y flwyddyn hon, heblaw dyogelu y castelli Cymreig, a gosod arnynt ddynion o ffyddlondeb adnabyddus. Y mae y brenin yn dyddio y wŷs hon o Gaerwrangon, ar yr 8fed o Fedi; ac wrth ei chyfeirio at Guy Mohun, esgob Tŷ Ddewi, y pryd hyny yn geidwad y sel-gyfrin, ac yn drysorydd Lloegr, yn traddodi iddo gadwraeth castell Llangadyn; un Llanymddyfri i John Toulchet arglwydd Audley; Llacharn i Syr Henry le Scrope; Crughywel i John Pauncefort; Tre'r tŵr i James Berkley; Abergafeni a Harald Ewyas i Syr William Beauchamp; Goderych i Sir Thomas Nevil de Furnivale; Erdesley i Syr Nicholas Montgomery; Caerleon ac Wysg i Syr Edward Charlton o Bowys; Caerffili a Gwialacy i Constantia arglwyddes Despenser; Menerbere i Syr John Cornwall; Castell Payn a Royle i Thomas iarll Warwick; Huntyngdon i Anne is-iarlles Stafford; Lynhales a Dorston i Syr Walter Fitz-Walter; Stepulton i John Brian barwn Burford; Brampton i Brian de Brampton; ac i Syr John Chandos gastell y Wyddfa.†

Y weithred gyhoeddus olaf yn mherthynas i'r gwrthryfeloedd ar y cyffindiroedd, ydoedd galluogi tywysog Cymru i ymwneyd â rhai boneddigion perthynol i sir Gaerlleon,‡ yn nghylch eu dirwyon oherwydd ymddangos o honynt mewn arfau yn mrwydr yr Amwythig.

Ar y 14eg a'r 15eg o'r un mis, y mae yn awdurdodi William Beauchamp i bardynu amryw o'r deiliaid ar ei diroedd yn Abergafeni ac Ewyas Harald, y rhai a ymddangosasent mewn arfau o blaid Glyndwr; ac i'r hyglod Syr John Oldcastle, John ap Henry, a John Fairford, offeiriad, i bardynu trigolion Brycheiniog, Buallt, Cancresselly, y Gelli, Glynbough, a Dinas; i dderbyn eu harfau; ac i'w gorfodi i gymeryd llw o ffyddlondeb. Yn hyn nid oedd y brenin ond yn unig yn sicrhau eu personau, eithr cadwai yn ei law ei hun eu tiroedd, eu meddiannau, a'u hanifeiliaid fforffetiedig. Y cyntaf a amserir o Henffordd; y llall o Defynog.§

## 1404.

Er fod brenin Ffraingc wedi cydsynio, o herwydd angenrheidrwydd ei amgylchiadau ei hun, i wneuthur heddwch â Harri am ddeng mlynedd ar hugain, eto nis gellid byth ei gael i gydnabod ei deitl i'r goron. Yn ei gytundebau, nid yw Siarl yn ei gydnabod ond fel ein cefnder o Loegr,|| neu Harri o Lancaster, neu ein gwrthwynebydd o Loegr, neu olynydd y diweddar frenin Rhisiart.¶ Y mae pob ymddangosiad fod gohebiaeth wedi cymeryd lle rhwng Siarl a'r gwrthryfelwyr Seisonig a Chymreig yn y flwyddyn o'r blaen; ac fod yr ymgyrch tua'r Amwythig, a goresgyniad Lloegr gan y Ffrangcod, wedi cael eu cynllunio er dyrysu sylw Harri. Yr oedd eu llyngesoedd yn hofran ar ein harfordiroedd o dan esgusion ereill. Glaniasant hefyd yn Ynys Gwyth, a gwnaethant ddinystr mawr yn y wlad.

Dysgwylid rhyfel agored gyda Ffraingc yn feunyddiol. Y senedd a gymerasant ddyogelwch y brenin i ystyriaeth. Rheoleiddiwyd ei dylwyth, ac

* Holinshed, 524. † Rymer, viii. 328. ‡ Yr unrhyw, 333.
§ Rymer, 331. || Eto. ¶ Carte, ii. 656.

archwyd, mewn modd arbenig, nad oedd un Ffrangcwr na Chymro i aros yn nghylch person ei fawrhydi.*

Daeth doethineb y ddarpariaeth yma yn fuan i'r golwg mewn modd tra eglur. Ffurfiwyd cyfamod, ymosodol ac amddiffynol, rhwng Siarl ac Owain. Owain a anfonodd ei ganghellydd, Gruffydd Yonge, archddiacon Meirionydd a doethawr yn y gyfraith, a'i gâr John Hanmer, fel cenadwyr at y Ffrangcod. Y mae eu hapwyntiad wedi ei ddyddio o Ddolgellau, mewn arddull dywysogaidd: *Datum apud Doleguelli, 10 die mensis Maii, MCCCC. quarto et principatus nostri quarto;*† a dechreua, OWINUS *Dei gratia princeps Walliæ*, &c.‡

Siarl a'u derbyniodd gyda breichiau agored. Llaw-nodwyd y cyfamod yn Paris, ar y 14eg o Fehefin. Y personau a weithredent ar ran Siarl oeddynt James Bourbon iarll *March*, a John esgob Carnot. Cenadon Owain a lawnodasant ar eu rhan hwy ar y 14eg o Orphenhaf, yn nhŷ Fferdinand de Corbey, canghellydd Ffraingc; pryd yr oedd amryw esgobion a phersonau o radd uchel yn bresenol fel tystion.§ Glyndwr a gadarnhaodd y cyfamod hwn ar y 12fed o Ionawr 1405, o'i gastell yn Llanbadarn.||

Yr oedd amgylchiadau Glyndwr yn ymddangos mor lwyddiannus, fel y darfu i Trefor esgob Llanelwy, oddeutu yr adeg yma, wrthryfela yn erbyn Harri, ac ymuno â'n cydwladwr; pa un ai o herwydd euogrwydd cydwybod oblegyd ei ymddygiad at ei hen feistr, ynte trwy gael ei demtio gan obaith dyrchafiad o dan lywodraeth newydd, nid yw yn gwbl amlwg. Y mae yn dra sicr fod dylanwad Owain mor fawr gyda'r Pab, fel y darfu i'w sancteiddrwydd, ar ddymuniad Glyndwr, ddyrchafu Llywelyn Bifort i esgobaeth Bangor, yr hwn ar ol hyny a gyhoeddwyd yn wrthryfelwr oherwydd ei ymlyniad wrth achos ei noddwr.¶

Owain a agorodd ryfelgyrch y flwyddyn hon gyda grym. Efe a anrheithiodd wlad ei elynion; cymerodd amryw gastelli, yn mysg ereill, rai Harlech ac Aberystwyth. Rhai a ddinystriodd efe, ereill a gadwodd, ac a ddodes warchodluoedd ynddynt. Yna cyfeiriodd ei ymdaith tua sir Drefaldwyn, ac a gyfarfu â byddin o Saeson ar Fynydd Cwmdu. Ymosodasant arno, lladdasant luaws o'i wŷr, a gorfodasant ef i encilio. Efe yn fuan a adgyweiriodd yr aflwydd yma; oblegyd, wedi cynull ei luoedd drachefn, efe a ymlidiodd ar ol y buddugoliaethwyr gyda'r fath gyflymder, fel y goddiweddodd hwy mewn lle a elwir Craig y Dorth, gerllaw Mynwy: gorchfygodd hwy, ac a'u dylynodd hyd at byrth pob tref a chastell y diangasent iddynt.

Y mae yr haneswyr Seisonig yn crybwyll fod Glyndwr wedi cael ei orchfygu. Hysbysant ni fod y fyddin Seisonig yn cael ei llywyddu gan Richard Beauchamp iarll Warwick, yr hwn a gymerodd faner Glyndwr;** ond y maent yn ddystaw gyda golwg ar ei ymddialiad arnynt, yr hyn a ddylynodd mor uniongyrchol. Baner-ddygiedydd Owain oedd Elis ap Rhisiart ap Howel ap Morgan

* Parliamentary Hist. ii. 79.

† "Dyddiwyd yn Nolgellau ar y 10fed dydd o fis Mai, 1404, a'r bedwaredd flwyddyn o'n tywysogaeth."

‡ Rymer, viii. 356. "Owain, trwy ras Duw, tywysog Cymru."

§ Rymer, 365, 366, 367.

|| Yr unrhyw, 382.

¶ Willis's Bangor, 84.

** Dugdale's Baron. i. 243.

Digitized by Google

... i ymddwyn yn well, a gwnaeth ... angenrheidiol y brenin.

... y flwyddyn hon, heblaw ... o ffyddlondeb adnabyddus. ... Gaerwrangon, ar yr Sfed o Fedi; ... yr pryd hyny yn geidwad ... gadwraeth castell ... arglwydd Audley; Llacharn i Syr ... Trer twr i James Berkley; ... Goderych i Sir Thomas ... Montgomery; Caerleon ac ... a Gwiliacr i Constantia arglwydd... Castell Payn a Royle i ... Stafford; Lynhales a Dorston ... John Bran barwn Burford; Brampton ... gastell y Wyddfa.†

... ir gwrthryfeloedd ar y cy... i ymuno â rhai boneddigion ... oherwydd ymddangos o honynt ...

... yn awdurdodi William Beauch... yn Abergafeni ac Ewyas Ha... Glyndwr; ac i'r hyglod ... Fafford, offeiriad, i bardynu ... Glynbough, a Dinas; i dderbyn ... o ffyddlondeb. Yn hyn nid ... eithr cadwai yn ei law ei ... fforffetedig. Y cyntaf a ...

1404.

... o herwydd angenrheidrw... â Harri am ddeng ... ei deitl i'r goron. Yn ei ... ei gefnder o Loegr, neu ... a Loegr, neu olynydd y diweddar ... gobeithiaeth wedi cymeryd ... yn y flwyddyn o'r blaen; ... Loegr gan y Ffrangcod, ... eu llyngesoedd yn hofran... Glaniasant hefyd yn Ynys G...

... Ffrainc yn feunyddiol. Y senedd a ... Rheoleiddiwyd ei dy...

‡ Yr unrhyw, ...

¶ Carte, ii. 666.

Digitized by Google

, mewn modd arbenig, nad oedd un Ffrangcwr na Chymro i aros yn person ei fawrhydi.*

doethineb y ddarpariaeth yma yn fuan i'r golwg mewn modd tra Ffurfiwyd cyfamod, ymosodol ac amddiffynol, rhwng Siarl ac Owain. anfonodd ei ganghellydd, Gruffydd Yonge, archddiacon Meirionydd a r yn y gyfraith, a'i gâr John Hanmer, fel cenadwyr at y Ffrangcod. Y iapwyntiad wedi ei ddyddio o Ddolgellau, mewn arddull dywysogaidd: *apud Doleguelli, 10 die mensis Maii, MCCCC. quarto et principatus arto;*† a dechreua, Owinus *Dei gratia princeps Walliæ*, &c.‡

a'u derbyniodd gyda breichiau agored. Llaw-nodwyd y cyfamod yn y 14eg o Fehefin. Y personau a weithredent ar ran Siarl oeddynt Bourbon iarll *March*, a John esgob Carnot. Cenadon Owain a law- ar eu rhan hwy ar y 14eg o Orphenhaf, yn nhŷ Fferdinand de canghellydd Ffraingc; pryd yr oedd amryw esgobion a phersonau o el yn bresenol fel tystion.§ Glyndwr a gadarnhaodd y cyfamod hwn d o Ionawr 1405, o'i gastell yn Llanbadarn.‖

ld amgylchiadau Glyndwr yn ym [illegible] mor lwyddiannus, fel y darfu esgob Llanelwy, oddeutu yr adeg [illegible] wrthryfela yn erbyn Harri, ac 'n cydwladwr; pa un ai o herwydd [illegible] cydwybod oblegyd ei ad at ei hen feistr, ynte trwy [illegible] gan obaith dyrchafiad o draeth newydd, nid yw yn [illegible]. Y mae yn dra sicr fod dy- Owain mor fawr gyda'r Pab [illegible] i'w sancteiddrwydd, ar ddy- Glyndwr, ddyrchafu Llywelyn [illegible] esgobaeth Bangor, yr hwn ar ol gyhoeddwyd yn wrthryfelwr [illegible] ei ymlyniad wrth achos ei ¶

a agorodd ryfelgyrch y [illegible] gryn. Efe a anrheithiodd elynion; cymerodd amryw [illegible] eraill, rai Harlech ac Aber- . Rhai a ddinystriodd [illegible] ac a ddodes warchodlu- ddynt. Yna cyfeiriodd [illegible] ac a [illegible] o Saeson ar Fynydd [illegible] gorfodasant ef i [illegible] , wedi cynull ei [illegible] yr [illegible] yma; la'r fath gyflymder [illegible] gerllaw Mynwy [illegible] a [illegible] hastell y diangasant [illegible]

[illegible]

ae yr haneswyr [illegible] sant ni fod y [illegible] iarll Warwick [illegible] w gyda golwg ar [illegible] l. Baner-dywysogaeth [illegible]

[illegible]

Digitized by Google

Llwyd, o Alhrey, yr hwn a hanai o Riwallon ap Dungad ap Tudur Trefor.* Ni ymgymerodd y brenin â gwneuthur dim yn erbyn Glyndwr yn y flwyddyn hon. Yr oedd gan Beauchamp etifeddiaethau mawrion yn sir Fynwy, a chafodd allan fod yn ofynol iddo godi ei dirddeiliaid i gadw ei wlad rhag cael ei hanrheithio.

1405.

Ymagorodd y flwyddyn hon gydag ymgais o natur dra anghyffredin; dim llai na rhyddhau iarll ieuangc *March* a'i frawd, gyda'r bwriad o osod i fyny deitl y blaenaf yn erbyn eiddo Harri, a dwyn yr holl deyrnas i mewn i ymladd drosto. Yr oedd lluaws yn cymeryd rhan yn yr amcan yma. Cymru oedd i fod yn noddfa iddo, a Glyndwr ei amddiffynydd: y fath wybodaeth ddofn oedd ganddo ef â'r rhai anfoddog, hyd yn nod yn ymyl eisteddle y llys. Yr oedd March yn cael ei gadw mewn gwarcheidwadaeth yn Windsor, preswylfa freninol, ynghanol gwylwyr, ac wedi ei ddyogelu gyda phob rhagocheliad a allasai trawsymhonydd eiddigus eu dyfeisio. Er hyny, gosodwyd bradwriaeth ar droed. Constance, arglwyddes Spencer, gweddw i'r arglwydd Spencer, a chwaer i'r duc Caerefrog, a gynlluniodd eu rhyddhad. Mynodd gael gwneyd allweddau gau, cludodd ymaith y ddau fachgen ieuaingc, ac yr oedd yn prysuro gyda hwynt tua Chymru, pan yr ymaflwyd ynddynt, ac y dygwyd hwy yn eu holau. Carcharwyd y foneddiges. Cyfarfu y gof truan a wnaethai yr agoriadau â llymach tynged, yr hwn y torwyd ymaith ei ben, wedi i'w ddwylaw yn gyntaf gael eu tori oddiwrth ei freichiau.†

Dechreuodd tynged wgu yn awr ar Glyndwr. Y prawf cyntaf a gafodd o'i hansefydlogrwydd ydoedd ar yr 11eg o Fawrth: mintai o'i bleidwyr, hyd wyth mil o nifer, a ymgynullasent allan o sir Forganwg, y Wysg, Isgwent, ac Uwchgwent. Fel arferol, dechreuasant eu hymdaith trwy anrheithio y wlad; a llosgasant ran o dref Grosmont, yn sir Fynwy. Yr oedd Harri, tywysog Cymru, ar y pryd yn Henffordd, gyda'r fyddin a ymddiriedasid iddo gan ei dad, yn barod i ddechreu y rhyfelgyrch. Yno efe a dderbyniodd hanes fod y gwrthryfelwyr hyn wedi cael eu gorchfygu gan ddyrnaid o ddynion o dan lywyddiaeth Syr Gilbert Talbot, gyda'r hwn yr ymunasai Syr William Newport, a Syr John Greindre. Trosglwyddodd y newydd i'w dad, mewn llythyr wedi ei ysgrifenu yn y fath arddull anghyffredin o dduwioldeb ac ufudd-dod, yn gwbl groes i'r dyb boblogaidd am ei afradlonedd boreuol; oblegyd nid oedd, ar yr adeg yma, ond dwy flwydd ar bymtheg oed. Dechreua trwy erfyn ar y nefoedd roddi ei ffafr i'w dad: *Je supplie vraiement que* DIEU *vous montre graciousment pour vous son miracle on toutes parties, loez soit il en toutes ses œures. —Il est bien voirs, que la victoire n'est pas en la multitude de people mes en la puissance de* DIEU.‡

Ymddengys fod y Cymry wedi anghofio yspryd hynafol eu gwlad; ac wedi ymddarostwng i'r gelynion gael buddugoliaeth rwydd arnynt. Cafodd wyth gant neu fil o honynt eu lladd. Ni roddid unrhyw arbediad ar yr achlysur.

* Hen Achau, Llawysgrif yn meddiant Th. Griffith, Ysw. o Rhial.

† Holinshed, 527.

‡ "Yr wyf yn gwresog weddio ar fod i DDUW yn garedigol arddangos ei allu rhyfeddol er eich llesâd ar bob ochr. Molianner ef yn yr oll o'i weithredoedd. Gwyddys yn dda nad ydyw buddugoliaeth yn dibynu mewn lluaws o bobl, ond yn ngallu DUW."

Digitized by Google

oddieithr i un person, un penaeth mawr yn eu plith. Ymddengys teimladrwydd Harri ieuangc yn fanteisiol iawn ar yr adeg yma. Dywed wrth ei dad, y gallasai fod wedi anfon y carcharor ato ef, ond nas gallasai farchogaeth hyd hyny gydag esmwythdra (tybiaf fod hyny ar gyfrif yr achollion a dderbyniasai), *mes il ne poet chivacher uncore a son aise.**

I adgyweirio yr aflwyddiant yma, Glyndwr yn ddiatreg a anfonodd un o'i feibion gyda byddin arall, yr hon, fe ddichon, a adgyfnerthwyd gan y ffoaduriaid o'r frwydr ddiweddaf. Ymladdwyd brwydr drachefn ar y pymthegfed o'r un mis, ar Fynydd y Pwll melyn yn sir Frycheiniog, yr hon a fu eilwaith yn angeuol i achos Owain. Cafodd pymtheg cant o'i wŷr eu lladd neu eu cymeryd yn garcharorion: yn mysg y rhai olaf yr oedd ei fab; yn mysg y rhai blaenaf, ei frawd Tudur, yr hwn oedd mor debyg i Glyndwr fel y taenwyd y son ar led ei fod wedi ei ladd, er iselder yspryd dybryd i'w gydwladwyr: ond, wrth archwilio y corph marw, deuwyd o hyd ei fod yn ddiffygiol o ddafaden uwch ben y llygad, yr hon a nodai ein penaeth ni oddiwrth ei frawd. Yn ol Carte,† Harri ieuangc a lywyddai yn y frwydr hon.

Crybwylla Holinshed‡ am orchfygiad arall a oddefodd y Cymry yn mis Mai, yn mha un y cafodd Gryffydd Yonge, canghellydd Owain, ei gymeryd yn garcharor. Yr wyf yn meddwl fod yr hanesydd yn camgymeryd y frwydr hon am yr un a gymerodd le yn agos i Grosmont; ond mai nid y canghellydd oedd y penaeth mawr a gymerwyd yn garcharor yno sydd amlwg; oblegyd yr ydym yn ei gael yn dyst yn y flwyddyn ddylynol, wrth bardwn a ganiatawyd gan Owain i un o'r enw Iefan Goch.

Ar ol y gorchfygiadau hyn, ymostyngodd holl sir Forganwg i'r brenin, oddigerth ychydig gyfeillion ffyddlon; y rhai, wedi deall fod Owain yn fyw, a ddiangasant ac a ymunasant âg ef. Ar yr adeg yma y dyoddefodd efe y cyfyngderau hyny ag y mae y Saeson yn eu priodoli i'r rhan ddiweddaf o'i fywyd. Yn ystod y gwasgariad yma o'i gyfeillion, bu o dan orfod i ymofyn noddfa gan ychydig o'i bleidwyr yr oedd ganddo fwyaf o ymddiried ynddynt; ac yn fynych i ymguddio mewn ogofau a lleoedd anghyfanedd. Y mae ogof yn agos i lan y môr, yn mhlwyf Llangelynin, sir Feirionydd, yn myned hyd heddyw o dan yr enw *Ogof Owain*, yn mha un y cynaliwyd ef yn ddirgelaidd gan Ednyfed ap Aaron, o lwyth Ednowain ap Bradwen.

Y bardd Iolo Goch a ofidia oblegyd ei absenoldeb; a geilw ef adref o amrywranau o'r belen ddaearol, i ail-ymaflyd yn ei dywysogaeth. Mewn un man dychymyga ei fod yn Rhufain, ac erfynia arno ddychwelyd yn ol yn llwythog o roddion oddiwrth Sant Pedr. [Yn gymaint a bod y cywydd yn ddyddorol, yr ydym yn ei gyfleu yma, er nad ydyw yn yr argraffiad Saesoneg]:—

Y Gwr hir, ni'th gâr Harri,
Adfyd aeth, a wyd fyw di?
Ac od wyd, â gwayw o dân,
Dyred, dangos dy darian!
O wlad, garw aergad eurgylch,
Rhufain dwg arfau'n dy gylch;

* Rymer, viii. 390. † ii. 665. ‡ 528.

Digitized by Google

Dwg feddiant Pedr Sant dan sel,
Drwy iawnswydd Duw a'r insel;
Dyred o wlad y Dwyrain,
Darw mawr, a bwrw dyrau main:
Rhwydd y daw rheiddiau o dân
Rhagod, pawb a'th anrhegan';
Eryr glwys, doe, ior o'r Glyn,
Iarll awchlaif, i dir Llychlyn:
Y gŵr a ddwg arwydd iach
Yn ei darian bedeirach;
Tri llew glâs fel yr asur,
Trwy wyllt dâu, a'r tair rhwyll dur;
Rhown ni ar y paun diwarth,
Rhowch rwyf ar yr hwch a'r arth;
Llyna'r tair bwyall unyd,
Lle mae'r gwaith, llu mawr i gyd;
Gollwng, yn gynta' gellych,
Saith long a saith ganllong gwych;
Dyred, wrth ddymuned Môn,
O'r Nordd hyd yn Iwerddon;
Rhaid yw i ti, rho Duw Tad,
Gael Owtils* a'u galw atad;
Cyfod o glau Galiod glân,
Cawn glywed cyn gwyl Ieuan;
Dyro fflam benadur fflwch,
Draw'n Nulyn drwy anialwch:
Gwna lynges gain o longwyr,
O gynfyl Gwyddyl a'i gwŷr;
Dyred, ŵr a draeturiwyd,†
O Fanaw dir, f'enaid wyd;
Goreu arwydd gan Wyddyl,
Melyn a choch ymlaen chwyl;
Urdda bensel Llewelyn,
Arddel hwy â'r ddeuliw hyn;
Galw gar bron, gwae Loegr o'i brad,
Lu Brytaen‡ a'i lwybr atad;
Dyred i'n gwlad, drud iawn gledd,
Deyrnaswr, drwy ynysedd;
Cyneu dân cyn oed unawr,
I oror Môn, eryr mawr!
Cur gestyll caerau gystudd,
Concweria wâl cwn Caer Ludd;
Cur a lladd y wadd a'i wŷr,
Cyrn aur Môn, cur Normanwyr;
Dir yw gwnai, darogan oedd,
Fyd teilwng o fateloedd;
Gwna frwydr a gwaith grwydr yn groch,
A'r llew mwyn, Iôr lle mynoch;

* Yr Italiaid. † A gyhoeddwyd yn fradwr.
‡ Brittany, yn Ffrainge.

Digitized by Google

Gwaith dy law a ddaw yn ddig,
Gwŷr meirw a geir yn Merwig;*
Gwna drwy'r haf, gwn droi'r rhod,
Gymynu brwydr Gwminod;
Gwna gad fal toriad deri
Fochno, a hŷn fych na hi;
Gwna daith yn rhyd Glyn Eithon,
Gwna lawer â maner Môn;
Gwna naw cad yn daladwy,
Yn un modd, ac na wna mwy;
Deigr Cadwaladr Fendigaid,
Dyred a dwg dir dy daid;
Dyga ran dy garenydd,
Dwg ni o'n rhwym dygn yn rhydd.

Oddeutu yr adeg yma, iarll Northumberland a gychwynodd fradwriaeth arall; yr hwn a ddarganfyddwyd, a chafodd amryw o'r rhai a ymlynent wrtho eu dienyddio. Yn mysg ereill, un Syr John Griffith, marchog o Gymru; yr hyn a'i gwnai yn dra thebygol fod yr iarll a Glyndwr yn cydweithredu â'u gilydd o hyd. Y brenin, trwy ei fywiogrwydd, yn fuan a ddyrysodd y cynllwyn yma; gafaelodd yn nghastelli yr iarll, a gorfodwyd ef i ddiangc am ei fywyd i Ysgotland. Gydag ef hefyd y diangodd esgobion Llanelwy a Bangor,† ac abad Welbeck. Y mae yn debyg fod y ddau gyntaf wedi eu gosod o gwmpas yr iarll gan Glyndwr, i gynllunio y mesurau mwyaf cyfaddas at ddwyn eu bwriadau yn mlaen yn llwyddiannus.

Yna Harri a ddychwelodd, ac a ymdeithiodd i Gymru, gyda byddin o 37,000 o wŷr. Yr un dynged anffodus a'i dylynodd yn yr ymgyrch hon ag yn ei rai blaenorol. Trôdd y tywydd allan mor ddrwg, fel y gorfu arno encilio ar frys i Gaerwrangon, yn ddigllawn oblegyd colli haner cant o'i gerbydau.‡ Y mae Shakespear yn gwneyd i'n penaeth ymffrostio yn nifer y troion y darfu iddo orchfygu ei wrthwynebydd, hyd yn nod cyn brwydr yr Amwythig:

Tair gwaith daeth Harri Bolingbroke yn mlaen
Yn f'erbyn i; tair gwaith o lanau'r Gwy,
A'r Hafren waelod tywod, gyrais ef
Heb yspail, drwy dymhestloedd, yn ei ol.

Er holl aflwyddiant y brenin, buasai amgylchiadau Owain, yn ol pob tebygolrwydd, wedi myned dan gyfnewidiad galarus, oni buasai, ar yr adeg hon, i'w gynghreirydd Siarl VI. anfon iddo gymhorth cyfamserol; yr hyn a barhaodd y rhyfel am amser maith, ac a oedodd ei lwyr ddinystr yntau. Ffurfiwyd llynges gadarn yn mhorthladdoedd Ffraingc. Cynlluniasid hi gan y duc Orleans,§ rhaglaw Ffraingc yn ystod penwendid Siarl. Yr oedd y goresgyniad i gymeryd lle yn y flwyddyn flaenorol; ac (fel y sylwa Rapin) ymddengys ei bod wedi ei bwriadu i gydweithredu â gwrthryfel Scroope, archesgob Caerefrog, a phendefigion ereill yn y gogledd. Bu eu hymgais yn angeuol iddynt. Ond hwyliodd y llynges, yr hon a gynwysai gant a deugain o longau, allan o

* Berwick. † Fordun, Scotichronicon, ii. 441. ‡ Walsingham, 566.
§ Histoire et Regne de Charles VI. tom. iv. 190.

Digitized by Google

Brest yn niwedd Mehefin, gyda byddin o ddeuddeng mil o wŷr. Yn ol hanesyddes y teyrnasiad hwn, Mademoiselle de Lussan,* yr oedd yn eu mysg wyth gant o wŷr wrth arfau *(men at arms)*,† chwe' chant o wŷr y bwa-croes, a deuddeg cant o filwyr traed, y cwbl yn filwyr detholedig.

Dywed ein haneswyr ni, mai Marechal de Montmorency ydoedd y llywydd; ond ni fedraf ddarganfod fod neb o'r tŷ mawr hwnw yn ymwneyd â'r anturiaeth. Yr oedd y llynges o dan lywyddiaeth Renaud de Trie, arglwydd Serifontaine, penllyngesydd o Ffraingc; y milwyr tirawl o dan flaenoriaeth Jean de Rieux, arglwydd Rieux a Rochfort, maeslywydd o Ffraingc. O dano ef y gwasanaethai Jean, neu, fel y geilw Moreri ef, Aubert de Hangest Sire de Hugueville, llywydd gwŷr y bwa-croesion; a'r hwn, ar gyfrif oed a gwendidau Rieux, yr ymddengys ei fod y cadfridog llywyddol. Yn ol arfer y genedl, yr oedd y swyddogion yn gwneyd yr ymddangosiad mwyaf ardderchog; a Hugueville yn weithredol a werthodd i eglwys Paris ei etifeddiaeth deg yn Agincourt gerllaw Mondidier, er mwyn darparu iddo ei hunan osgorddlu ardderchog.‡

Cafodd y llynges fordaith dra ffafriol, ond trwy iddynt esgeuluso darparu digon o ddwfr croyw, bu farw y rhan fwyaf o'r ceffylau. Yn ol yr awdurdod oreu,§ glaniodd y lluoedd o dan Hugueville yn Aber-dau-gleddyf. Ymdeithiodd yn ddiatreg at Gaerfyrddin, ar yr hon dref y gwarchaeodd, a chymerodd hi trwy iddi gael ei rhoddi i fyny iddo. Caniatawyd i'r gwarchodlu ymadael, a rhoddwyd rhyddid iddynt gymeryd eu celfi i'w canlyn.‖

Ni fynai wneuthur unrhyw ymgais ar Benfro, o herwydd nerth y castell; ond cyfleodd ei fyddin o flaen Hwlffordd: pryd y darfu i iarll Arundel wneuthur amddiffyniad mor alluog, fel y gorfu ar y Ffrangcod godi y gwarchae gyda chryn golled. Yr oedd Owain Glyndwr, erbyn hyn, wedi cyrhaedd Dinbych-y-Pysgod gyda deng mil o wŷr, yn mha le yr ymunwyd âg ef gan Hugueville. Mor fuan ag yr oedd y parotoadau angenrheidiol wedi eu cwblhau, ymdeithiasant trwy sir Forganwg, cyrhaeddasant Gaerwrangon, a llosgasant y maesdrefi, gan anrheithio yr holl wlad oddiamgylch.¶

Mor fuan ag y clybu Harri am y goresgyniad y bwriedid ei gyflawni, efe a anfonodd allan broclamasiwn,** wedi ei amseru o Westminster Gorphenhaf 2fed; yn mha un y cyfarwydda raglawiaid gwahanol siroedd i godi galluoedd i wrthwynebu y gelyn. Arglwydd Berkley, a Henry Pay, llyngesydd y Pum' Porthladd *(Cinque Ports,)* a lywyddent ar y môr, ac a losgasant, yn ol ein hanesion ni, bymtheg o'r llongau Ffrengig fel y gorweddent wrth angor yn Aber-daugleddyf; ac wedi hyny (ar ol i Syr Thomas Swinborne ymuno gyda hwynt) a gymerasant bedair ar ddeg yn rhagor ar eu mordaith i Gymru, yn llwythog o ddarpariadau rhyfel ac ymborth i'r fyddin.†† Y mae Madamoiselle de Lussan yn cymeryd sylw o'r peth cyntaf; ond cyfaddefa yn onest fod y Ffrangcod wedi

* Histoire et Regne de Charles VI. tom. iv. 190.

† Yr oedd MAN AT ARMS (*Homme d'armes*, neu *Lance fournir*. fel y galwai y Ffrangcod ef yn nheyrnasiad Siarl VII.) i gynwys tri o fwa-saethwyr, un yswain, wedi ei wisgo mewn arfau, ac un gwas bach, yr hwn oedd hefyd i fod yn foneddwr. *Hist. de la Milice Françoise* i. 154.

‡ Histoire et Regne de Charles VI. tom. iv. 190. § Rymer, viii. 406. ‖ Walsingham, 566.

¶ Monstrelet. ** Rymer, viii.

†† Walsingham, 566; yr hwn a ychwanega, fod maeslywydd a saith o gadbeniaid wedi cael eu cymeryd ar yr un adeg.

Digitized by Google

dychryn cymaint pan welsant ddeg ar hugain o longau perthynol i Loegr, fel y darfu iddynt yn wirfoddol orchymyn dinystrio eu llongau eu hunain.

Yn nechreu Awst, derbyniodd Harri y newydd fod y Ffrangcod wedi glanio; ac y mae eilwaith yn rhoddi allan broclamasiwn, amseredig o Pontefract, Awst 7fed, gan ei gyfeirio at raglaw sir Henffordd, yn erchi iddo gyfodi ei filwyr yn ddiymaros, a'u harwain i'w ganlyn i ddinas Henffordd. Yn y proclamasiwn hwn y mae, mewn modd arbenigol, yn galw y cadfridog Ffrangcaidd yn arglwydd Hagueville.

Ymdeithiodd Harri yn bersonol i wrthwynebu gelyn ag oedd erbyn hyn wedi dyfod mor dra nerthol; ond Hugueville, ar ol iddo yspeilio y wlad, ar ddynesiad y brenin, a enciliodd yn sydyn, ac a gymerodd ei orsaf ar fryn uchel, oddeutu naw milldir o Gaerwrangon, gyda glyn dwfn rhyngddo ef a'r fyddin freninol. Yr oedd y naill yn ymgeisio at dueddu y llall i wneuthur ymosodiad; ac am wyth niwrnod buont yn arddangos eu hunain, mewn trefn rhyfel, a pharhaent felly o'r bore hyd y nos; ond ni anturiai y naill blaid na'r llall ddisgyn i lawr o'u sefyllfaoedd manteisiol. Yn ystod yr amser yma, bu i amryw ysgarmesau gymeryd lle. Yr oedd y golled ar y ddwy ochr oddeutu dau cant, heblaw niferi a glwyfwyd. Collodd y Ffrangcod Patrouillart de Trie, arglwydd Mouci a Plessis, ystafellydd i'r brenin, a brawd i'r llyngesydd; swyddog dewr, yr hwn y galerid ei dynged yn fawr gan y fyddin.* Syrthiodd hefyd y diwrnod hwnw, yr arglwydd Martelonne, ac arglwydd La Valle; ac fel y dywed Hall, bastardd y Bourbon. Ymddengys fod ein haneswyr ni yn gwneyd eu colled yn fwy nag ydoedd, gan ychwanegu at yr hyn a nodwyd, bum' cant o foneddigion ereill; ond y mae Monstrelet yn sicrhau, pan adolygwyd y fyddin Ffrengig, ar ol iddynt ddychwelyd adref, nad oedd ond triugain yn unig yn eisiau.

Tybir mai y gwersyll a feddiannai Owain ydoedd ar fryn Woodbury, yn mhlwyf Whittley, naw milldir union i'r gogledd-orllewin o Gaerwrangon. Y mae yn amgylchedig âg un ffos; a chynwysa yn agos i saith acr ar hugain o dir. Digon tebyg iddo fod yn hen orsaf Brydeinig; ond yr oedd yn dra chyfleus i Glyndwr, nid yn unig ar gyfrif ei nerth, ond, trwy fod Cymru yn gorwedd yn agored o'i flaen, fod yn ei allu i encilio i ganol y mynyddoedd, pa bryd bynag y byddai o dan yr angenrheidrwydd i wneuthur hyny. Y mae y bryn yn uchel, ac o ffurf hirgul. Cysylltir un pen â bryniau Abberley, y rhai, mewn cysylltiad âg eiddo Woodbury, a ffurfiant haner cylch, gyda'r dyffryn, yn y ffurf o wastadedd, yn y canol. Yr oedd Harri a'i luoedd yn gorwedd ar y cyffin gogleddol. Byddai dewrion y ddwy fyddin yn disgyn i lawr o'u gorsafoedd, ac yn cyflawni gweithredoedd o wrhydri mewn arfau, yn y canol rhwng y ddau wersyll. Yr oedd ganddynt lechwedd hardd ar bob ochr i ruthro i lawr i'r ymladdfa. Y Cymry, yn arbenigol, a feddent lwybr cauedig, megys pe buasai wedi ei ffurfio o bwrpas i'r dyben hwnw. Bum yn archwilio y lle yn nghwmpeini fy nghyfaill, y Doctor Nash, a chawsom ei fod yn cyfateb yn gwbl i'r dysgrifiad a roddir gan Monstrelet.†

* Moreri: yr hwn a ddywed iddo syrthio yn yr ymosodiad ar Hwlffordd.

† Gwel y cynllun o'r gwersyll ar fryn Woodbury, yn *Hist. Worcestershire* gan Dr. Nash, ii. p. 465, a'r llun cyferbyniol iddo.

Harri a weithredai fel cadfridog doeth, trwy dori ymaith bob moddion cynhaliaeth oddiwrth y gelyn; yr hwn wedi ymdreulio gan newyn a blinder, ar haner nos yr wythfed dydd, a enciliodd, yn y modd mwyaf dirgelaidd, i Gymru.* Monstrelet a ddywed mai y brenin a enciliodd gyntaf o'i orsaf, ac iddo ddychwelyd y noswaith hono i Gaerwrangon: ac ychwanega, fod y Ffrangcod wedi ymosod arno yn ei enciliad, a chymeryd oddiarno ddeunaw o wageni yn llwythog o ymborth. Y mae Hall, ar yr ochr arall, yn ein sicrhau fod Harri wedi "ymlid y gelyn o'r bryniau i'r dyffrynoedd, o'r dyffrynoedd i'r coedwigoedd, o'r coedwigoedd i'r morfeydd, ac eto nis gallai gael unrhyw fantais arnynt. Yr oedd yn syn gweled ei symudiadau beunyddiol; ei grwydriadau poenus a phrysur, ei arosiadau trafferthus ac ansicr, ei ysgogiadau parhaus, ei ymdeithiau dyddiol yn mhlith morfeydd anial a mynyddoedd creigiog y wlad lom, ddiffrwyth, ac anghyfanedd hono." O'r diwedd, y brenin, yn analluog i gynal ei fyddin mewn gwlad ag yr oedd Glyndwr wedi ei llwyr ddinystrio er mwyn poeni ei elynion, a orfodwyd i roddi ei ymlidiad i fyny, a dychwelyd i Gaerwrangon; ac, fel y mae Hall yn addef, wedi colli yn ei enciliad, "amryw wageni yn llwythog o ymborth, er ei fawr anfoddlonrwydd, ac er mawr gysur i'r Cymry."

Rhaid i mi ymholi pa bryd y cafodd Harri hamdden i ddwyn yn mlaen y fath ryfelgyrch hirfaith a blinderus; oblegyd yr wyf yn ei gael, ar yr 22ain o Awst, yn Pontefract, ar y 27ain yn Nghaerwrangon; ac ar y 4ydd o Fedi yn Henffordd. Yn mhen pedwar diwrnod o'r amser hwnw, ymddengys ei fod yn Faxflete. Yn Beverley, y 13eg o'r un mis. Yn Bishopthorpe, yn yr un sir, o'r 16eg hyd yr 21ain; dranoeth yn Cawood. Ar ol hyny y mae yspaid o amser heb unrhyw gyfrif am dano, nes yr ymddengys drachefn yn Nghaerwrangon, ar y chweched o Hydref. Yr wyf yn manylu fel hyn, er dangos fod gan Harri nerth corphorol cyfartal i fywiogrwydd ei feddwl; pe amgen, ni allasai byth ymsymud gyda'r cyflymder yma o le i le, nac ymddyogelu yn erbyn gelynion mor bellenig a'r Ysgotiaid a'r Cymry, a hyny braidd ar yr un adeg hefyd.

Ymddengys fel pe buasai ei holl luoedd, y rhai a fwriadesid i wrthwynebu yr olaf, wedi cyrhaedd eu cynullfanau cyn y 6ed o Hydref.† O'r amser hwnw y mae yn dra thebygol ei fod yn brysur gyda'r rhyfelgyrch hwn; y mae Hall (yn mhlith rhesymau ereill dros fod y brenin wedi tynu yn ol ei anturiaeth) yn nodi dynesiad y gauaf, yr hyn a wnelai ryfelgyrch yn nghanol y mynyddoedd yn dra annyogel. Felly yr ydym yn ei gael yn Dunstable, ar ei ffordd i Lundain, ar y 3ydd o Dachwedd,‡ ac yn ei balas yn Westminster yn fuan ar ol hyny.§

Ni wnaeth y Ffrangcod, ar ol eu ffoadigaeth, unrhyw ymgais pellach. Gosododd Glyndwr hwy mewn lluestai, lle yr arosasant hyd nes y gadawsant y deyrnas; pryd y darfu iddo ddarparu llongau i gludo y rhan fwyaf o honynt i Ffrainge. Arosodd pymtheg cant o honynt yn Nghymru hyd y mis Mawrth dylynol, pryd yr arweiniwyd hwynt adref gan un a elwir gan De Lussan yn Le Begue de Volay.‖

* Monstrelet 16. Hall, 19.

† Rymer, viii. 420. ‡ Eto 421. § Eto. ‖ De Lussan, iv. 195.

Digitized by Google

Wedi i Gruffydd, mab Glyndwr, gael ei orchfygu gan Harri tywysog Cymru, ymgymerodd y rhyfelwr ieuangc hwnw â gwarchae ar gastell Llanbedr, yn sîr Ceredigion. Ar ol peth amser, cytunodd y llywydd a osodasid ynddo gan Glyndwr i'w roddi i fyny, os na ddeuai ymwared rhwng y 24ain o Hydref a Chalangauaf. Yr oedd i'w roddi i fyny mewn cyflwr da; nid oedd i niweidio y tai oedd yn y dref, nac i gymeryd meddiant o unrhyw longau a allasent fod wedi troi i fewn o herwydd gerwindeb y tywydd; fod iddo gael cyflawn bardwn, a rhyddid, ar ddiwedd y cyfnod, ac i ymadael gyda'i holl eiddo, ac eiddo ei gyfeillion. Gwelaf fod yn mysg y darpariadau rhyfel ag oeddynt i gael eu rhoddi i fyny, rai cyflegrau, yr hyn bethau oeddynt wedi cael eu dyfeisio gan y Ffrangcod oddeutu chwe' blynedd ar hugain cyn yr adeg hono. Efe a gymerodd y sacrament yn dystiolaeth o'i gywirdeb, ac a ddododd wystlon am gyflawniad ei gytundeb. Dichon ei fod yn dysgwyl am ymwared trwy gael cymhorth gan y Ffrangcod. Ofnai Harri yr un peth. Ond, i'r dyben o ragflaenu unrhyw ymgeisiadau o'r fath, efe a anfonodd allan wŷs, wedi ei dyddio o Cawood, ar yr 22ain o Fedi, at raglawiaid sîr Dyfnaint, a siroedd ereill, yn erchi iddynt godi eu lluoedd, ac ymgynull yn Evesham ar y 10fed o Hydref.* Effeithiodd y rhagocheliad yma mor bell, fel y gorfu ar Rys ap Gruffydd ap Siencyn, neu Rys ap Llewelyn, fel y gelwid ef gan rai, gytuno â'r amodau a gynygid; ond, fel yr ymddengys, heb y bwriad lleiaf o sefyll atynt; oblegyd mor gynted ag yr aeth y tywysog ymaith, Rhys a ganiataodd i Owain ei droi ef a'i warchawdlu allan, o dan yr esgus eu bod yn euog o uchel-fradwriaeth, trwy gydsynio i roddi y lle i fyny heb ei ganiatâd ef.†

Rhaid i mi derfynu gweithrediadau y flwyddyn hon gyda sylwi ar bryder yr arglwyddi a'r cyffrediniaid yn nghylch rhoddi ymwared i arglwydd Coetty, y pryd hyny yn cael gwarchae arno mewn castell o'r enw hwnw, yr hwn a safai ar yr afon Ogmore, yn Morganwg. Nid oedd Harri yn pryderu ond ychydig yn nghylch ei dynged; ond darfu i amryw esgobion a phersonau o radd uchel yn y ddau dŷ, gynyg benthyg arian i'r dyben o godi milwyr er ei waredu. O'r diwedd cydsyniwyd gan y brenin a'r senedd fod i'r benthyciadau hyny gael eu had-dalu allan o'r taliadau cyntaf o'r dreth a ganiateid ar yr adeg hono.‡

## 1406.

O derfyniad y flwyddyn ddiweddaf, yr oedd amgylchiadau Glyndwr yn dechreu myned ar i waered. Meddai o hyd ddigon o nerth i gadw o fewn ei diriogaethau mynyddig; ond yr oedd yn rhy wan i amcanu at ddim yn rhagor nag anrheithiadau yspeilgar. Yr oedd y Ffrangcod yn parhau o hyd i roddi ychydig o gymhorth iddo. Anfonasant lynges yn cynwys deunaw ar hugain o longau. Gallaf feddwl, oddiwrth fychander y nifer, eu bod wedi cael digon ar eu cynghreirydd; ond eto yr oeddynt yn ewyllysgar i gadw i fyny, er eu lles eu hunain, yspryd y gwrthryfelwyr. Cafodd wyth o'r llongau hyn, yn llwythog o filwyr, eu cymeryd; a diangodd y gweddill, mewn annhrefn mawr, i Gymru.§

* Rymer, viii. 419, 497. † Walsingham, 568. Holinshed, 533.

‡ Drake's Parliam. Hist. ii. 85. Yr oedd hon yn amddiffynfa o gryn faintioli, fel yr ymddengys oddiwrth ddarlun Buck o honi, vol. ii. No. 398.

§ Walsingham, 566.

Digitized by Google

Oddeutu yr amser yma cafodd Owain ei wanhau yn fawr gan wrthgiliad trigolion Ystrad Tywi oddiwrth ei achos.

Yr oedd presenoldeb y tywysog dewr a bywiog hwnw, Harri o Fynwy, yr hwn, ar ddymuniad arbenigol y senedd,* a breswyliai mewn rhyw fan yn Nghymru, yn gweithredu fel atalfa nid bychan ar dymher anturiaethus Glyndwr, ac ni pharai lai o arswyd i'r Cymry, y rhai a brofasent nerth ei arfau. Ar yr un pryd, y senedd, yn deimladwy o ffolineb y dyroddiant a wnaethid yn flaenorol o etifeddiaethau y gwrthryfelwyr, a roddasant ar gof a chadw nad oedd unrhyw feddiannau a enillid oddiar y Cymry i gael eu rhoddi ymaith hyd yn mhen chwarter blwyddyn ar ol hyny:† mor ansicr a hyn yr ymddangosai y daliad hyd yn nod yn nghyflwr gwanychol ein penaeth. Gallaf nodi, ei fod o hyd yn meddu digon o allu i roddi nawdd i'r ffoaduriaid Seisonig. Iarll galluog Northumberland, ac arglwydd Bardolf, a gawsant yma noddfa letygar, wedi i'r Ysgotiaid, i ba rai yr ymddiriedasent eu hunain, fwriadu eu traddodi i fyny i Harri, mewn cyfnewid am ryw garcharorion ereill. Syr Dafydd Ffleming o Cumbernauld yn garedig a'u rhybuddiodd o fwriadau ei gydwladwyr; y rhai, mewn dialedd am hyny, a gymerasant ymaith ei fywyd.‡

Cyn terfyniad y flwyddyn hon, Harri a roddodd am byth i Syr John Tibetot, llefarydd tŷ y cyffredin, a thad i'r pendefig galluog John iarll Caerwrangon, holl etifeddiaethau Rhisiart ap Gruffydd ap Fychan, yn siroedd Caerfyrddin a Cheredigion, y rhai yr oedd wedi eu fforffetio o herwydd ei ymlyniad wrth blaid Glyndwr.§

Ond nid oedd Glyndwr er hyny yn ol o ymarfer gweithredu fel brenin: o blegyd oddeutu yr amser yma y mae yn caniatâu pardwn i un Ioan ap Hywel ap Iefan Goch; yn y chweched flwyddyn o'i dywysogaeth, ac yn amseredig yn Nghefn Llanfair ar y degfed dydd o Ionawr. Ar y sêl y mae darlun o Owain yn eistedd ar gadair, yn dal teyrnwialen yn ei law ddehau, a glôb yn yr aswy.

Gellir nodi, fod yn mysg y tystion ei fab hynaf Gruffydd, a Gruffydd Yonge, ei ganghellydd; y naill a'r llall o ba rai, yn ol yr haneswyr Seisonig, a wnaethid yn garcharorion, ac a anfonasid i'r Tŵr. Gan nad oedd Harri yn dangos dim trugaredd i bleidwyr Owain, y mae yn debyg na buasai y ddau yma yn diange rhag ei gynddaredd, pe buasent unwaith wedi bod yn ei ddwylaw. Y tystion ereill oeddynt Feredydd, un arall o'i feibion, a Rhys ap Tudur, a Gwilym ap

* * * * *

Er yr arddangosiad yma o awdurdod breninol, yr oedd amgylchiadau Glyndwr yn amlwg yn gwanhau. Yr oedd y gwarchawdluoedd a osodasid, yn y rhan fwyaf o'r amddiffynfeydd yn Ngogledd Cymru, yn atalfa rhag i niferi mawrion gyfodi yn ei ffafr ar y rhanau arfordirol. Yn Ynys Môn ymddengys fod ganddo blaid gref iawn. Nid oes dim hanes fod unrhyw frwydr wedi cymeryd lle yn yr ynys hono. Yn fy marn i, tybiaf fod pleidwyr Owain wedi croesi y Fenai, a thra yr oedd eu zêl yn boeth, wedi ymuno â'i fyddin; ac yna, yn ol yr arferiad yn yr hen amseroedd gwriogaethol, wedi dychwelyd i'w cartrefi wedi blino ar y rhyfelgyrch, neu ynte wedi cael eu gwala o yspail.

* Parliament. Hist. ii. 93. † Eto. ‡ Walsingham, 396.
§ Parliamentary Hist. ii. 105.

Digitized by Google

Erbyn diwedd y flwyddyn hon yr oeddynt wedi ymostwng i awdurdod y brenin: oblegyd yr wyf yn cael, oddiwrth gopi o lawysgrif a gafwyd yn mhlith papurau y dysgedig EDWARD LLWYD o'r *Museum*, y cofnodiad hwn:

"Mewn ymchwiliad a wnaed yn Biwmaris, ar ddydd Mawrth, y diwrnod nesaf o flaen gŵyl St. Martin yr esgob (yr hwn ydyw yr 11eg o Dachwedd,) yn yr 8fed flwyddyn i'r brenin Harri IV., blwyddyn yr Arglwydd 1406, ger bron Thomas Twkhwl, Philip de Mainwaring, a Robert Paris yr ieuangaf, dirprwywyr, drwy awdurdod commissiwn oddiwrth y tywysog Harri, mab ac etifedd diamheuol y brenin, tywysog Cymru, duc Acquitaine, Lancaster a Chernyw, ac iarll Caerlleon, iddynt hwy, neu unrhyw ddau o honynt, wedi eu cyfeirio, fod yr amrywiol bersonau a thrigolion ynys Môn, enwau y rhai sydd ysgrifenedig isod, wedi cael eu profi yn euog, eu gwysio, a'u dirwyo, am fod o dan arfau ac mewn gwrthryfel gydag Owain Glyndyfrdwy ac ereill."

Ni bydd i mi nodi yma ond y cymydau, a nifer y personau a ddirwywyd yn mhob un, a'r cyfanswm o hyny a'r dirwyon.

| | | | £ | s. | d. |
|---|---|---|---|---|---|
| Yn Nghwmwd Llifon ... ... ... | | 411 ... ... ... | 100 | 18 | 8 |
| " " | Menai ... ... ... | 308 ... ... ... | 65 | 10 | 8 |
| " " | Talybolion ... ... | 399 ... ... ... | 123 | 16 | 4 |
| " " | Twrcelyn... ... ... | 270 ... ... ... | 83 | 5 | 8 |
| " " | Malltraeth ... ... | 326 ... ... ... | 83 | 16 | 0 |
| " " | Tindaethwy ... ... | 389 ... ... ... | 79 | 19 | 8 |
| | | 2112 | 537 | 7 | 0 |

Rhaid i mi sylwi, fod y fwyaf o'r dirwyon hyn yn 8*l.* 3*s.* 4*d.*, a'r leiaf yn 2*s.*; ac fod dau offeiriad wedi cael eu dirwyo i bum' punt yr un, fel y tybiaf, am gamarwain eu praidd. Cafodd amryw bersonau eu halltudio, ac eiddo y rhai a laddesid mewn brwydr eu fforffetio i'r brenin, yn ol y prisiad canlynol:

| | £ | s. | d. |
|---|---|---|---|
| March ... ... ... ... ... ... | 0 | 2 | 0 |
| Caseg... ... ... ... ... ... ... | 0 | 1 | 4 |
| Buwch ... ... ... ... ... ... | 0 | 1 | 8 |
| Anner ... ... ... ... ... ... | 0 | 1 | 0 |
| Llo blwydd ... ... ... ... ... | 0 | 0 | 4 |
| Dafad... ... ... ... ... ... ... | 0 | 0 | 4 |
| Cronach o Wenith ... ... ... ... | 0 | 3 | 4 |
| " o Geirch ... ... ... ... | 0 | 2 | 0 |

## 1407.

Nid yw hanesiaeth yn ein cynysgaethu ond âg ychydig iawn o ddefnyddiau yn mherthynas i ddygwyddiadau y flwyddyn hon. Dichon eu bod yn ychydig a dibwys. Yr oedd Owain wedi colli amddiffynfeydd Llanbedr* (yr hon yn fuan a adgymerwyd,) ac eiddo Harlech. Efe a gyfyngwyd i'r mynyddoedd, ac

* Yn agos i Aberystwyth y mae hen dŷ murfylchog (fel yr wyf yn cael fy hysbysu), a elwir *Tŷ Cryf*, yr hwn y dywedir ei fod yn eiddo i Glyndwr.

Digitized by Google

ymddengys na byddai byth yn gadael ei amddiffynfeydd ond i wneuthur rhyfel anrheithiol. Iarll Northumberland ac arglwydd Bardolph, oddeutu yr adeg yma, gan ofni fod Owain yn rhy wan i'w noddi, a ymadawsant o Gymru, ac yn fuan ar ol hyny collasant eu bywydau mewn ymgais anobeithiol i adferu eu hachos, ar forfa Bramham, yn sir Gaerefrog.

1408.

Yn y flwyddyn hon nis gallaf ddarganfod dim yn mherthynas i amgylchiadau Cymru, yn mhellach na bod anrhydedd priodol wedi cael ei dalu i dywysog Cymru gan dŷ y cyffredin; y rhai, trwy eu llefarydd, a ddymunasant ar fod i'r brenin dalu diolch cyhoeddus i Harri ieuangc, am ei lafur mawr a'i ymarweddiad da yn Nghymru; am yr hyn y darfu i'r brenin dalu diolchgarwch drachefn i dŷ y cyffredin.*

1409.

Yn y flwyddyn hon dechreuodd Glyndwr fyned yn mlaen drachefn. Trwyddo ei hunan, neu ei bleidwyr, efe a wnaeth anrheithiadau mawrion ar y cyffindiroedd, ac yn y parthau hyny o Gymru ag oeddynt yn bleidiol i'r llywodraeth Seisonig. Etifeddiaethau Edward de Charlton arglwydd Powys, a ddyoddefasant yn ddirfawr. Am hyny y mae y brenin Harri yn cyfeirio gwŷs at y pendefig hwnw, yn erchi arno gyfodi ei alluoedd, a darostwng yn y modd mwyaf grymus, yr aflonyddwch adnewyddol hwn, yr hwn a flaenorid, fel y mae yn ymddangos, gan Glyndwr ei hunan ac esgob Llanelwy. Gorchymynid ar yr un pryd i arglwydd Powys beidio gadael y wlad, ond cadw gwarchodluoedd yn ei holl gastelli, a pheidio caniatâu i unrhyw o'i etifeddiaethau gael eu gadael. Y mae hon wedi ei dyddio o Westminster ar yr 16eg o fis Mai.†

Anfonwyd archiadau cyffelyb i Iorwerth duc Caerefrog, Thomas iarll Arundel, Rhisiart iarll Warwick, Reginald arglwydd Grey, Constantia arglwyddes Despenser (yr hon oedd yn awr wedi gwneyd ei heddwch â'r goron,) Francis Court, a William Beauchamp.

Bu y bywiogrwydd yma yn angeuol i Rhys Ddu a Philip Scudamore, dau o swyddogion goreu Owain, y rhai a anfonasai ef i sir yr Amwythig, lle y gwnaethant ddifrodiadau mawrion. Cymerwyd y ddau yn garcharorion, anfonwyd hwy i Lundain, a chawsant eu dienyddio. Y mae Caxton‡ yn adrodd fod Rhys wedi cael ei gymeryd o flaen yr ynadon, ei gollfarnu, ei lusgo ar glwyd trwy y ddinas i Tyburn, lle y dyoddefodd farwolaeth fel bradwr. Ei aelodau a anfonwyd i bedair o ddinasoedd ereill, a gosodwyd ei ben ar bont Llundain.

Ar y 18fed o Dachwedd, yn y flwyddyn hon, rhoddodd Harri allan orchymyn i gwnstabl castell Windsor, i draddodi i Syr William Lisle, marchog, a maeslywydd Lloegr, y carcharorion Cymreig canlynol:—

Hywel ap Ieuan ap Howel,
Gwallter ap Ieuan Fychan,
Rhys ap Ieuan ap Rhys,

* Rymer, viii. 517. † Eto, 588. ‡ Cronycle of Englonde, 142.

Ieuan Goch ap Morgan,
Dafydd ap Tudur,
Rhys ap Meredydd,
Madog Bery,
Siencyn Backer,
Dafydd ap Cadwaladr,
Thomas Dayler.*

Ar ol hyny y dylyna gwarant i Syr William i'w derbyn hwy. Tybiaf fod yr oll o'r boneddigion hyn wedi eu traddodi i'r maeslywydd i gael eu dienyddio; yr hwn, fel yr ymddengys oddiwrth ei gommisiwn, ydoedd wedi ei apwyntio yn arbenigol i'r dyben; *certis de causis ad ea omnia et singula quæ ad officium Marescalli Angliæ pertinent exercenda per litteras nostras patentes quam diu nobis placuerit, duraturas deputavimus.*†

Tua diwedd y flwyddyn darfu i amryw o swyddogion arglwyddi y cyffindiroedd, naill ai am nad oeddynt yn hoffi y rhyfel, neu ynte er mwyn dyogelu eu gwlad rhag cynddaredd y Cymry, ffurfio heddwch ar eu hawdurdod eu hunain gyda Glyndwr a'i bleidwyr. Nid oedd hyn yn gwasanaethu i un dyben, ond i beri bod eu hanrheithiadau i fanau ereill yn cael eu cyflawni gyda mwy o ddyogelwch. Cafodd lluaws o'r deiliaid cyffindirol, y rhai oeddynt o blaid y brenin, eu lladd, ereill a yspeiliwyd, o herwydd y cytundebau hyn. Yr oedd Harri wedi cyffroi yn fawr, ac yn ddiymaros a anfonodd allan wysiadau‡ i Thomas iarll Arundel, Syr Richard L'Estrange arglwydd Knockyn, Ellesmere, a maenorau ereill ar y cyffiniau, Edward Charlton arglwydd Powys, a Reginald arglwydd Grey o Ruthyn, ac at israglaw sir Henffordd, yn eu cyfarwyddo i beri fod y fath gytundebau anghyfreithlawn i gael eu dileu, ac fod Glyndwr a'i bleidwyr i gael eu herlyn, ac ymosod arnynt gyda'r llymder mwyaf eithafol.

O'r adeg yma ni ddarfu i Owain wneyd unrhyw ymgeisiadau teilwng o goffadwriaeth hanesyddol. Enciliodd lluaws o'i bleidwyr; yr hyn a barodd iddo gyfyngu ei hun i'r mynyddoedd, ac i weithredu yn gwbl ar yr ochr amddiffynol. Er fod ei allu wedi cael ei gyfyngu, yr oedd yn mhell o fod wedi ei ddarostwng. Aeth y blynyddoedd 1410 a 1411 heibio heb unrhyw frwydr gofiadwy. Ymfoddlonai y Saeson ar yr esmwythdra a gaent trwy roddi atalfa ar anrheithiadau pobl y mynyddoedd. Glyndwr a ddaliai y rhandir eang a ffurfiai Alpau ein gwlad, a chadwai ei garcharorion mewn dyogelwch mor gadarn, fel yr oedd hyd yn nod Harri, yn 1412, o dan orfodaeth i ganiatâu (trwy wŷs§) i'w yswain Llewelyn ap Hywel, tad i'r nodedig Dafydd Gam, i ddefnyddio Syr John Tiptofte a William Botiller, er ymwneyd âg Owain ynghylch rhyddhad ei fab, yr hwn a gedwid yn ngharchar, neu i ymgeisio at gael gafael ar rai o bleidwyr Glyndwr i'w cyfnewid am Dafydd Gam. Beth a fu canlyniad yr helynt yma, ni wyddis. Profa, pa fodd bynag, i ddangos nad

* Rymer, viii. 603.

† "Yr ydym yn eich apwyntio chwi, yn unol â'n llythyrenau diamwys a phenderfynol, i ymarfer, am ryw resymau penodol, y naill a'r llall o'r swyddogaethau sydd yn perthynu i swydd Maeslywydd Lloegr, am yr yspaid ag y rhyngo bodd i ni."

‡ Dyddiwyd o Northampton, Tachwedd 23ain. Rymer, viii. 611.

§ Dyddiwyd Gorphenaf 14eg. Rymer. viii. 753.

Digitized by Google

oedd Dafydd Gam wedi diangc i Loegr, ar ol yr ymgais fradwrus yr amcanodd ati yn 1403; am ba un, fel y mae yn awr yn amlwg, y goddefodd garchariad haeddiannol, a chaled hefyd, am ddeng mlynedd, o ba un ni allai holl allu ei gyfeillion Seisonig ei ryddhau.

Nid oedd y carchardy yn mha le y cadwai Owain ei garcharorion yn mhell o'i dŷ yn mhlwyf Llansantffraid Glyndyfrdwy; ac hyd heddyw gelwir y lle Carchar Owain Glyndyfrdwy. Y mae rhyw olion o hyd i'w gweled gerllaw yr eglwys, y rhai a ffurfiant ddarn o dŷ anedd. Cynwysant ystafell yn mesur tair troedfedd ar ddeg ysgwâr, a deg a haner o uchder. Yr ochrau a wneir i fyny o dri o drawstiau llorweddol, gyda phlangciau sythion, heb fod bedair modfedd oddiwrth eu gilydd, wedi eu morteisio iddynt. Yn y rhai hyn y mae rhychau, gyda thyllau yn y gwaelod, fel pe buasai yno ar y dechreu fariau croesion, neu ratiau. Y tô sydd yn hynod o gryf, wedi ei wneyd o blangciau cryfion, a'r rhai hyny yn glòs wrth eu gilydd. Ymddengys fel pe buasai yno ddau uchder wedi bod rywbryd, ond amlwg ydyw fod adeiladwaith presenol y rhan uchaf yn gwbl ddiweddar.

Y mae yn hynod na ddarfu i'r llywodraeth gymeryd mantais ar ddau foneddwr Cymreig o radd uchel, y rhai a fuont yn eu gafael yn ystod y flwyddyn hon, a'r rhai y gallasent eu troi yn bris rhyddid eu pleidiwr. Y rhai hyn oedd Rhys ap Tudur o Benmynydd yn Môn, a'i frawd. Dichon iddynt gael eu cymeryd ar ol i'r cytundeb gael ei gwblhau; dichon fod eu troseddau yn rhy fawrion i gael eu pardynu; ond pa beth bynag oedd yr achos, cafodd y ddau eu trosglwyddo i Gaerlleon, a'u dodi i farwolaeth yno.

Ni ddylwn anghofio crybwyll fod Harri, tywysog Cymru, yn 1410, wedi rhoddi cyflawn bardwn i amryw o'i denantiaid yn nghwmwd Coleshill, yn sir Fflint,* am y rhan a gymerasent yn yr hyn a elwid yn wrthryfel Glyndwr. Yr oedd y sir hòno yn hynod o ranedig yn ystod yr helbulon hyny. Hywel Gwynedd, yr hwn a hanai o Edwin arglwydd Tegangle, boneddwr gwrolfrydig, yn ystod un o'r blynyddoedd cyn hyny, am ei fod yn ochri gyda'n penaeth, a ddaliwyd gan gynllwyn o eiddo ei elynion o dref Fflint. Dichon fod ei orsaf ef oddifewn i ffosydd Moel y Gaer, yn mhlwyf Llaneurgain; ar ba un y cafodd, heb un math o brawf arno, ei ddienyddio.

## 1413.

Bu Harri frenin farw yn nechreuad y flwyddyn hon; gan adael ei olynydd ieuangc mor brysur gyda'i barotoadau at oresgyn Ffraingc, fel ag i golli pob meddwl am lwyr ddarostyngiad ei diriogaethau Prydeinig. Yr oedd Glyndwr yn parhau o hyd mewn sefyllfa nas gellid cael ato; ond yr oedd yn cael ei wylio mor fanwl, fel nad oedd mwyach yn peri dychryn. Y Cymry, y rhai a ymddarostyngasent, yn awr a ddechreuasant goleddu eu dial yn erbyn y cyfryw o'r Saeson a laddasent, neu mewn ffordd arall a niweidiasent, unrhyw o'u perthynasau neu eu cyfeillion yn ystod y rhyfel diweddar. Cymerwyd i fyny y dull yma o ymddial trwy amrywiol ffyrdd o atafaelu a charchariad, hyd nes y byddai iddynt glirio eu hunain, neu ynte trwy wneuthur rhyw gytundeb boddhaol.

* Harleian MSS. No. 1999. 82.

Digitized by Google

I feddyginiaethu hyn, darfu i Harri V. yn ei flwyddyn gyntaf, ddileu* yr *Assach*, neu lw 300 o ddynion, yr hyn oedd yn ofynol ei gael, yn ol arferion Cymru, i glirio unrhyw berson oddiwrth unrhyw gyhuddiad yn ei erbyn. Cyn hyny, gallasai Sais fod yn garcharor am ei oes, am yr ymddengys ei fod braidd yn amhosibl i un o'r genedl atgas hono gael llawer iawn llai o rai i dyngu i'w ddieuogrwydd nag a ofynai y gyfraith ryfedd yma er ei ryddhau. Gwnaeth Harri y cynyg yn gospadwy, a'i erlynydd yn agored i garchariad am ddwy flynedd, i dalu iawn triphlyg, ac heblaw hyny i dalu dirwy a phridwerth cyn y gallai gael ei ryddhau.

Dyma oedd yr olaf o'r lluaws cyfreithiau a wnaed yn erbyn y Cymry ar gyfrif y gwrthryfel hwn. Diau eu bod yn dra llymion; eto, efallai, nid oeddynt yn fwy felly nag a ffurfiasai unrhyw lywodraeth yn erbyn pobl ag oeddynt wedi ymostwng i gongcwest am yn agos i gant ac ugain mlynedd, a'r rhai un ystyrid mewn un goleu arall amgen na deiliaid gwrthryfelgar.

Ar doriad allan y gwrthryfel, profwyd mesurau ymgymodol, a chynygiwyd pardynau. Wedi cael allan mai ychydig iawn o effaith oedd y rhai hyn yn ei gael ar feddyliau y Cymry, dodwyd o'r neilldu bob cynllun tyner, a gosodwyd mewn grym yn eu herbyn gyfreithiau tra llymion o ran eu natur.

Y gyntaf ydoedd yn y flwyddyn 1400. Cafwyd allan fod yn angenrheidiol, hyd ag yr oedd yn bosibl, atal pob cymundeb rhwng y Cymry a'r Saeson. Yr oedd y blaenaf yn ymlynu yn gryf wrth achos Rhisiart; ac yr oedd yn mhlith yr olaf lawer o rai ag oeddynt yn bleidiol i'r tywysog anffodus hwnw. Ymddangosai yn beryglus gadael i'r blaenaf gadarnhau eu dylanwad yn Lloegr: ofnid y buasai cyngbreiriad a fyddai yn angeuol i'r llywodraeth gael ei ffurfio. Er rhoddi atalfa ar hyny gwnaethpwyd deddf: Nad oedd i neb personau a anesid yn Gymry ar y ddwy ochr, gael prynu tir na thai yn agos i unrhyw o'r dinasoedd a'r trefydd ar gyffiniau Cymru, o dan boen eu fforffetio i brif arglwydd y manau lle y gorweddai yr etifeddiaethau hyny: nad oedd un Cymro i gael derbyniad i unrhyw dref gorphoraethol; ac os byddent wedi ymsefydlu yn un o'r cyfryw yn flaenorol, fod iddynt roddi meichniaeth am eu hymddygiad da a theyrngarol; ac yr oeddynt yn cael eu cwbl anghymhwyso i ddal unrhyw swydd wladol, na byth i gael cario unrhyw arfau.

Mewn amgylchiad pan y byddai unrhyw Gymro yn gwrthod rhoddi i fyny i unrhyw Sais, y gwartheg, ceffylau, neu y cyffelyb (y rhai y buasai wedi eu cymeryd trwy orthrech,) o fewn saith niwrnod, fod y Sais at ei ryddid i ymddial.

Mor ychydig oedd yr ymddiried y gweinyddid cyfiawnder gan ein cydwladwyr, fel y deddfwyd nad oedd i Sais gael ei gollfarnu ar gwyn Cymro, oddieithr gan ustusiaid Seisonig, neu fwrdeisiaid Seisonig.

Mor fawr yr oedd y llywodraeth yn ofni rhag i deyrngarwch y Saeson gael eu hud-ddenu gan brydferthwch ein cydwladyddesau, fel y gwaharddwyd i Sais briodi gyda Chymraes, o dan boen cael ei anghymhwyso i ddal unrhyw swydd yn Nghymru.

* Statutes at Large, Ruffhead's ed. I. 484. Par un ASSACH solonc la custume de GALES c'est à dire par la serement de CCC hommes. See also Leges Wallicæ, 188. & seq.

Digitized by Google

Yn 1402, pasiwyd deddf dra neillduol, amcan yr hon oedd meddyginiaethu y drygau a darddent oddiar ryw ymarferion ag oeddynt yn neillduol i Gymru. Cyfarwydda hon fod *nul westour, rymour, minstrall, ne vacabond, soit aucunement sustenuz en la terre de Gales, par faire kymorthas ou coillage sur le commune people iloeqes.* Nis gallaf roddi gwell cyfieithiad na'r un a roddir, yn ei sylwadau ar yr hen ddeddfau, gan fy nghyfaill caredig yr anrhydeddus Daines Barrington; yr hwn sydd i'r perwyl yma: Nad oes i unrhyw letywr,* bardd, cerddor, nac unrhyw grwydryn, ryfygu i ymgynull neu ymgasglu at eu gilydd.

Y mae y gair *kymhortha* wedi ei gamsillebu o'r Gymraeg *cymmorth*, neu yn y lluosog *cymmorthau*, cynulliadau o bobl i gynorthwyo cymydog gyda rhyw orchwyl. Ceir y cyfryw yn dra chyffredin yn y dyddiau hyn. Y mae *cymmorthau* at wau; at weithiau hwsmonol; at gario glo. Ond ar yr adeg hono, nid oedd y cynulliadau hyn ond gwag esgusion; a'u dyben oedd casglu ynghyd nifer digonol o ddynion cryfion o ran corph i godi gwrthryfel. O'r un natur, yn yr hen amseroedd, yr oedd yr ymrysoniadau hela yn Ysgotland. Y llywodraeth yn y parth hwnw o Frydain Fawr a gawsant allan y drygau a ddarddent oddiwrthynt, ac o'r diwedd dodasant hwy i lawr trwy rym cyfraith.

Ond yr oedd *cymmorthau* ein cydwladwyr ar yr adeg hon o natur o'r fath mwyaf aruthrol. Cyfansoddid hwy o'r dynion a ofnid yn fwyaf o bawb gan orthrymwyr a thrawsfeddiannwyr; o'r Beirdd, y rhai a godent ysprydoedd ein cenedl, trwy adalw ar gof iddynt orchestion mawrion ein hynafiaid, eu hymdrechion am ryddid, eu hymladdfeydd llwyddiannus â'r cenedloedd Sacsonaidd a Normanaidd am fwy nag wyth cant o flynyddoedd. Datganent greulondeb eu gelynion, heb anghofio gwladweiniad barbaraidd Iorwerth y cyntaf at eu brodyr diofrydedig. Dygent o flaen eu cydwladwyr yr adgofion am hen brophwydoliaethau. Dangosent iddynt y gwron Glyndwr, yn disgyn o linach hynafol ein tywysogion; a mynegent mai ynddo ef y gellid dysgwyl cyflawniad pob un o ddaroganau yr oraclaidd Fyrddin. Mintai y cerddorion yn awr a ddechreuent chwareu: y delyn, y crwth, a'r bibell, a lanwent i fyny y mesur o benboethni ag yr oedd y lleill wedi dechreu ei gynyrchu. Rhuthrent i'r frwydr, heb ofni y canlyniadau, fel eu hynafiaid mawrion, wedi eu cynhyrfu gan ganiadau y Dewyddon; a dirmygent angeu, yr hwn a roddai iddynt anfarwoldeb yn wobr am eu gwrhydri.

Inde ruende
In ferrum mens prona viris, animæque capaces
Mortis, et ignavum est rediture parcere vitæ.
Lucan.

Fel hyn ni phrisiant am y corph a'i gur,
Ond rhuthro wnant heb arswyd ar y dur:
Heriant dynghedfen, a dirmygu wnant
Arbed y bywyd 'nol mor fuan gânt.

Yr ydym yn cael fod Glyndwr wedi cadw ei safle am ddwy flynedd yn rhagor. Yn 1415, yr oedd ei amgylchiadau yn ymddangos mor barchus, fel yr

* Cymeraf genad i osod y gair *westour* yn wahanol; ymddengys ei fod yn tarddu o'r Cymraeg *gwestwr*, yr hwn a arwydda ddyn yn cadw tŷ cyhoeddus, neu westty; ac yr oedd y cyfryw le yn yn dra pheryglus at gynulliadau o'r nodwedd yma.

ymostyngodd y brenin i ddyfod i gytundeb âg ef; ac i'r dyben hwnw efe a anfonodd, o'r castell yn Porchester,* Syr Gilbert Talbot, gyda chyflawn awdurdod i wneuthur cytundeb âg Owain, ac hyd yn nod i gynyg pardwn cyflawn iddo ef a'i ganlynwyr. Dywed rhai ysgrifenwyr, fod y ffafr hon wedi ei chael trwy gyfrwngwriaeth Dafydd Holbetch, is-oruchwyliwr arglwyddiaethau Maelor ac Iâl. Nid yw yn hysbys beth a ddaeth o'r ymdrafodaeth hon. Dichon iddi gael ei rhwystro trwy farwolaeth ein gwron, yr hyn a gymerodd le ar yr 20fed o Fedi, ar noswyl St. Matthew, yn yr unfed flwyddyn a thriugain o'i oed, yn nhŷ un o'i ferched; pa un ai ei ferch Scudamore, ai ynte Monnington, sydd yn ansicr; ond, yn ol traddodiad sîr Henffordd, gellir tybio mai yn nhŷ yr olaf. Dywedir iddo gael ei gladdu yn mynwent Monnington; ond nid oes na beddadail, nac un math o faen coffadwriaethol, yn nodi y fan lle y gorwedda ei weddillion.

Y mae yr hanesion argraffedig, a'r rhai mewn llawysgrif, yn arddangos fod ei ddyddiau olaf wedi eu treulio yn hynod o druenus; dywedant iddo grwydro o fan i fan mewn gwisg bugail, mewn cyflwr gwael a thylodaidd; a'i fod dan angenrheidrwydd o ddyogelu ei hunan mewn ogofau a manau anghyfanedd, rhag cynddaredd ei elynion.† Ond nid yw hyn yn gwisgo agwedd debygol; oblegyd, pe buasai ei sefyllfa mor druenus, ni buasai mawrhydi byth yn ymostwng i gynyg y fath delerau i Owain Glyndwr, yr hwn a fuasai yn ffangell mor ofnadwy i'w deyrnas. Dichon mai ei fynediad ar ddifancoll, a'r cyfyngderau a ddyoddefodd ar ol brwydr Pwll Melyn, yn 1405, a barai son am hyny, ond daeth allan o honynt yn fuan. Angeu yn unig a amddifadodd Owain o'r gogoniant o dderbyn heddwch cyfaddasol. Adnewyddwyd y cytundeb gan yr unrhyw weinidog ar y 24ain o Chwefror 1416, gyda Meredydd ap Owain, mab Glyndwr; yr hwn, fel y tybir, a ddaeth i rym, ac adferwyd heddwch i Loegr, ar ol ymdrech anmhenderfynol a barhaodd am fwy na phymtheng mlynedd. Bu farw ein penaeth heb ei orchfygu; yn anffodus yn unig o herwydd rhagweled ail oresgyniad ei wlad, wedi colli o honi amddiffynydd mawr ei hannibyniaeth.

---

## Rhif VIII.

### RHODDIAD I FYNY GASTELL DINBYCH. Tudal. 267.

Amodau cytundeb a gwblhawyd ac a gytunwyd arnynt ar y pedwerydd dydd ar ddeg o Hydref, 1646, gan a chyd-'hwng yr Is-filwriad Mason, yr Is-filwriad Twisleton, Simon Thelwall, ysw.; Roger Hanmer, ysw.; Thomas Edwards, ysw.; Cadben Robert Farrar, a Nathaniel Barnett, dirprwywyr apwyntiedig gan y Cadfridog Mitton, dros un blaid; yr Is-filwriad Gruffydd, yr Is-filwriad Wynne, Uchgadben Manley, Uchgadben Reynalds, John Eaton, ysw.; John Thelwall, ysw.; a Kenricke Eaton, ysw.; dirprwywyr apwyntiedig gan y Milwriad William Salusbury, llywodraethwr tref a chastell Dinbych, dros

* Y mae y wŷs hon wedi ei dyddio Gorphenhaf 5ed. Rymer, ix. 283.

† Rymer, ix. 330.

Digitized by Google

y blaid arall; yn mherthynas i, ac oblegyd rhoddiad i fyny y dref a'r castell, fel y canlyn:

1. Fod tref a chastell Dinbych, ynghyda'r holl gyflegrau, arfau, pylor, a darpariadau rhyfel, yn nghyda phob trysorfeydd ac ystorfeydd perthynol i'r unrhyw; ac hefyd bob eiddo, arian, llestri arian, a dodrefn tai, o ba natur pa bynag, perthynol i unrhyw berson neu bersonau pa bynag, oddieithr y rhai a ganiateir yn yr erthyglau dylynol, i gael eu traddodi i'r Cadfridog Mitton, neu y sawl a apwyntia efe, heb unrhyw yspail neu dwyll gwirfoddol, ar y 27 dydd o'r mis Hydref presenol, at wasanaeth y senedd.

2. Fod y Milwriad William Salusbury, llywydd tref a chastell Dinbych, ynghyda'i holl weision, a phobpeth a berthyna iddo, a phob swyddogion a milwyr traed neu feirch, swyddogion diwygiedig a milwyr gwirfoddol yn gystal ag ereill, a phob swyddogion ereill, ynghyda'u gweision, a phobpeth a berthyna iddynt, gael ymdeithio allan o dref a chastell Dinbych, gyda'u ceffylau, ac arfau cymesurol i'w swyddogaeth bresenol neu flaenorol, baneri yn chwyfio, tabyrddau yn curo, magdanau *(matches)* yn oleu ar bob pen, bwled yn y genau; pob milwr i gael deuddeg ergyd o bowdwr, a *matches* a bwledi yn gyfatebol, gyda'r gêr a'r celfi a fyddont yn perthynu iddynt yn briodol; a phob personau o urddas, clerigwyr, a boneddigion, ynghyda'u gweision, ceffylau, ac arfau, yn yr un modd gyda'r gêr a'r celfi, a phob eiddo a fyddont yn priodol berthynu iddynt, i unrhyw le o fewn deng milldir, yr un ag y byddo i'r llywodraethwr ei ddewis; yn mha le, gyda golwg ar y brenin, ni bydd ganddo fyddin ar y maes, na gwarchodlu heb gael gwarchae arnynt, i ymdeithio yno; y milwyr cyffredin i roddi i lawr eu harfau (oddieithr eu cleddyfau): pa arfau, y rhai a ddodwyd i lawr felly, a roddir i fyny i'r sawl a apwyntir gan y Cadfridog Mytton i'w derbyn.

3. Fod yr holl swyddogion a'r milwyr, y rhai diwygiedig yn gystal a'r lleill, a phawb personau ereill a nodwyd yn flaenorol, y rhai a ddymunont fyned i'w cartrefleoedd neu at eu cyfeillion, i gael trwyddeb ac amddiffyniad y cadfridog i fyned ac aros yn heddychol yn yr amrywiol leoedd ag y dymunent fyned iddynt; a'r cyfryw o honynt a ddymunant felly a gânt lety rhad yn ystod eu holl ymdaith o Ddinbych i'r amrywiol leoedd hyny, ac iddynt deithio chwe' milldir yn y dydd, a pheidio aros ond un noswaith yn yr un lle; y swyddogion, y rhai diwygiedig yn gystal a'r lleill, gyda cheffylau a chyflawn arfau, yn gyfatebol i'w swyddi presenol neu flaenorol; y personau o urddas, clerigwyr, a boneddigion, gyda'u gweision, eu meirch, a'u harfau; a'r gwŷr meirch cyffredin gyda'u ceffylau a'u cleddyfau; a'r oll i fyned gyda'u cêr a'u celfi, fel y nodwyd yn flaenorol; ac ni fydd unrhyw rwystr i'w cyfeillion dderbyn neu roddi ymborth i unrhyw rai o honynt; ond bydd i'r oll o'r swyddogion a'r milwyr a ddymunant symud i unrhyw deyrnas neu wlad dramor, gael llety rhad am 40 niwrnod, o'r amser y cychwynant allan o Ddinbych, a theithio chwe' milltir yn y dydd, ac aros ond un noswaith yn yr un fan, fel y nodwyd o'r blaen; a chael trwyddedau i swyddogion a'u gweision, gyda'u ceffylau a'u harfau, i fyned ac ymgyfamodi gydag unrhyw lysgenad neu oruchwyliwr tramor, am eu cadwraeth; a'r oll o honynt i gael trwyddedau i ymdaith, y swyddogion gyda'u cyflawn arfau, a meirch cyfatebol i'w swyddi presenol neu flaenorol; a'r milwyr

Digitized by Google

cyffredin gyda'u cleddyfau yn unig, a'r cwbl gyda'u cêr a'u celfi, i unrhyw borthladd cyfleus yn y deyrnas hon, i gael eu trosglwyddo; a bydd i lywodraethwr y cyfryw borthladd neu warchawdlu, neu y llywodraethwr agosaf at y lle, ofalu am eu dyogelwch tra y byddont yn aros yno, ac hyd nes y gellir darparu llongau at eu trosglwyddo, a'r tywydd yn ffafriol, ond iddynt hwy dalu am eu llety ar ol i'r deugain niwrnod a nodwyd fyned heibio; ac fod iddo eu cynorthwyo i gael llongau at eu trosglwyddo, yn ol y telerau arferol o dâl; ac ni roddir arnynt unrhyw lwon, neu ymrwymiadau o unrhyw natur, yn ystod eu harosiad, neu ar adeg eu trosglwyddiad ymaith, oddieithr ymrwymiad i beidio gwneyd dim a fyddo yn niweidiol i'r senedd.

4. Fod i'r llywodraethwr a'r swyddogion, a phawb ereill yn y gwarchawdlu, gael caniatâd a chymhorth i ddarparu nifer digonol o droliau, gwageni, ac angenrheidiau ereill, er cludo ymaith nwyddau a ganiateir iddynt yn ol yr amodau hyn, ar unrhyw amser, heblaw dydd Sul, cyn i'r gwarchotty gael ei roddi i fyny, ac am ddau fis ar ol hyny, i'w gwahanol dai; os bydd hyny i unrhyw le a fyddo o fewn llywodraeth y cadfridog.

5. Nid oes unrhyw foneddwr, clerigwr, swyddogion, neu filwyr, nac unrhyw berson neu bersonau pa bynag, o fewn cylch y rhoddiad i fyny yma, gael eu gwarthruddo, neu siarad yn waradwyddus neu yn ddirmygus wrthynt, neu eu hatal, eu hyspeilio, neu eu niweidio yn eu hymdaith, eu cynullfan, eu llety, eu teithiau, neu eu preswylfeydd; os dygwydd y cyfryw beth, rhoddir boddlonrwydd yn ol barn dau neu ychwaneg o'r dirprwywyr, yr un nifer allan o bob plaid; ac ni chaniateir i'r personau a nodwyd, na neb o honynt, gael eu hudo neu eu gorfodi i gymeryd arfau i fyny yn erbyn y brenin, na chael eu carcharu, eu llesteirio, eu gwysio, eu herlyn, neu eu haflonyddu o herwydd unrhyw fater neu achos pa bynag, cyn i'r gwarchotty yma gael ei roddi i fyny, bydded y peth yn gyhoeddus neu ynte yn breifat, yn ystod yr adeg o chwe' mis wedi y rhoddiad i fyny, ond iddynt beidio gweithredu yn niweidiol i'r senedd. Ac os bydd unrhyw swyddog, milwr, neu unrhyw bersonau pa bynag, yn afiach neu yn glwyfedig, fel nas gallant yn bresenol fwynhau y lles oddiwrth yr amodau hyn, bydd i'r cyfryw gael rhyddid i aros yn Ninbych hyd nes yr ymiachaont, a darperir llety a chynaliaeth gyfaddas iddynt tra yr arosant yno; ac wedi hyny i gael y budd o'r amodau hyn.

6. Fod y clerigwyr sydd yn awr yn y gwarchawdlu, y rhai, trwy ymgyfamodiad, neu ryw ffordd arall, ni adferir i'w bywioliaethau eglwysig, gael rhyddid a thrwyddedau i fyned i Lundain, i ymofyn rhyw ddarpariaeth gyfaddas er eu cynaliaeth eu hunain a'u teuluoedd.

7. Fod i'r amodau hyn ymestyn at wasanaeth a budd dyeithriaid, o unrhyw deyrnas neu wlad dramor, a fyddo yn preswylio oddifewn i'r gwarchotty hwn, ynghyda'u gwragedd, eu plant, eu gweision, eu meirch, eu harfau, a'u cêr a'u celfi, fel y caniateir yn yr amodau blaenorol.

8. Fod i'r henaduriaid, bailïaid, bwrdeisiaid, a phawb personau ereill ag ydynt yn briodol yn aelodau o gorphoraeth Dinbych, barhau a mwynhau eu hen lywodraeth, siartrau, defodau, etholfreintiau, rhyddfreintiau, tiroedd, nwyddau, dyledion, a phob pethau ereill, sydd yn perthyn iddynt hwy fel corphoraeth, yn ddarostyngedig yn uniongyrchol i awdurdod a gallu y senedd;

Digitized by Google

ac ni bydd iddynt gael eu haflonyddu, na'u cwestiyno, yn mherthynas i unrhyw beth a wnaed neu a archwyd ganddynt yn eu swyddogaethau fel corphoraeth, cyn i'r gwarchawdlu gael ei roddi i fyny, yn mherthynas i'r anghydwelediadau rhwng ei fawrhydi a'r senedd. Ac ni bydd i unrhyw swyddog neu aelod o'r gorphoraeth ddywededig, na neb arall o breswylwyr Dinbych, neu eu rhyddfreintiau, gael eu haflonyddu neu eu galw i gyfrif am gymeryd i fyny arfau, yn ystod yr amser y bu yn warchotty, er ei amddiffyniad.

9. Fod i'r oll o'r cyfryw bersonau, y rhai y bydd ganddynt eu preswylfeydd a theuluoedd oddi fewn i'r gwarchotty, barhau yn eu tai a'u preswylfeydd, a mwynhau eu dodrefn, y cwbl ag a fydd yn eiddo personol priodol yn perthyn iddynt hwy, a phob nwyddau a darpariadau ereill pa bynag (oddieithr arfau a phowdwr gwn, fel y maent yn cael eu heithrio yn flaenorol,) neu symud gyda'u nwyddau a'u darpariadau dywededig allan o'r gwarchotty, yn ol eu dewisiad a'u hewyllys; ond darperir nad ydyw hyn yn cyrhaedd at unrhyw rai a feddant dai a theuluoedd oddi fewn i'r rhanbarth fewnol, eithr fod iddynt hwy symud eu preswylfeydd o fewn pedwar diwrnod ar ddeg ar ol rhoddi y castell i fyny; a chael rhyddid i gludo ymaith eu nwyddau a'u hymborth a fyddont yn perthyn iddynt hwy yn briodol, i'w canlyn, ac iddynt beidio gwneyd dim ar ol hyny a fyddo yn niweidiol i'r senedd.

10. Nad yw y trefwyr, a'r gweddill o drigolion y dref, i ddarparu llety rhad, yn fwy na'r gweddill o'r wlad, a'r pryd hyny ond ar gyfartaledd yn unig; a bydd rhanu y lletyon hyny yn unol â chynghor yr isfaerod.

11. Fod yr holl bersonau hyny a gymerir i fewn yn yr amodau hyn, y rhai ydynt yn penderfynu myned tu hwnt i'r moroedd, gael rhyddid i feddiannu a threfnu eu nwyddau a'u heiddo symudol a ganiateir iddynt gan yr amodau hyn, o fewn yr yspaid o chwe' mis ar ol rhoddiad i fyny y gwarchotty, ac i ymadael o'r deyrnas, os byddant yn tybied yn addas; ac yn ystod yr yspaid hwnw byddant yn rhydd oddiwrth bob llwon, ymrwymiadau, ac aflonyddwch (oddieithr ymrwymiad trwy addewid, i beidio dwyn arfau yn erbyn y senedd, nac yn wirfoddol wneyd unrhyw niwaid i'w hamgylchiadau.)

12. Na bydd i unrhyw berson neu bersonau a gynwysir yn yr amodau hyn, gael eu blino na'u galw i gyfrif am unrhyw beth a ddywedasant neu a wnaethant yn ystod neu gyda golwg ar y rhyfel hwn, neu yn mherthynas i'r anghydwelediadau anffodus rhwng ei fawrhydi a'r senedd.

13. Fod i'r Uwch Gadfridog Mytton ganiatâu i'r llywodraethwr, at ei gynhaliaeth presenol, gymaint o'i ŷd, ei rawn, a'i ymborth priodol ei hun, ag a farno yn gymhwys, y rhai ydynt yn awr oddi fewn i'r castell, am y rheswm fod ei holl etifeddiaeth yn bresenol wedi cael ei hatafaelu, a'i defnyddio at wasanaeth y wladwriaeth.

14 Os bydd i unrhyw o'r amodau hyn, mewn unrhyw bwynt, gael eu tori neu eu treisio gan unrhyw berson neu bersonau pa bynag yn y gwarchodlu, neu a gymerir i mewn yn y rhoddiad i fyny, fod y bai a'r gospedigaeth i'w gosod arno ef neu hwy yn unig a wnaethant y trais, ac nid yw i gael ei gyfrif i neu ei osod ar, neb arall na byddont yn cydsynio â'r peth, neu yn gweithredu ynddo.

Digitized by Google

15. Fod i bawb personau a gynwysir yn yr amodau hyn, dderbyn, ar ymofyniad am dani, drwydded o dan law y Cadfridog Mytton, fod y cyfryw bersonau yn y gwarchawdlu ar adeg y rhoddiad i fyny, a'u bod i gael y budd o'r amodau hyn.

16. Fod i'r llywodraethwr ac ereill yn nghastell Dinbych, wedi iddo gael ei roddi i fyny, gael rhyddid i wneyd i fyny am eu hanufudd-dod yn ol y cyfryw raddau a phe buasent wedi dyfod yn mlaen cyn y dydd cyntaf o Ragfyr diweddaf; ac fod i'r rhyddid hwn ymestyn i bawb ond y rhai a fyddont dan yr eithriadau cyntaf ac ail, y rhai ni chaniateir iddynt bardwn: *Pleidleisir hyn gan y Senedd.*

COPIAU O LYTHYRAU EI FAWRHYDI β.

SIARL F.

Yn gymaint a'n bod wedi penderfynu cydsynio â chais ein senedd, yn mhobpeth a fyddo er lles ein deiliaid, heb adael unrhyw foddion heb eu profi er symud ymaith bob anghydwelediad rhyngom: Gan hyny tybiasom yn addas, yn fwy er dangos breingarwch ein bwriadau am sefydlu heddwch dedwydd a chadarn, i'ch awdurdodi chwi, ar amodau anrhydeddus, i ymadael o, a rhoddi i fyny gastell Dinbych, yr hwn a ymddiriedwyd i chwi genym ni, a gwasgaru yr holl filwyr sydd o dan eich llywyddiaeth: am i chwi wneuthur felly, bydd hynyma yn warant i chwi. Rhoddwyd yn *Newcastle*, y 14eg o Fedi, 1646.

At ein hymddiriedus a'n tra-chariadus Filwriad William Salusbury, llywydd castell Dinbych.

*Copi o'r Llythyr Cyfrinachol a anfonodd ei Fawrhydi at y Llywydd.*

Newcastle, 13eg o Fedi, 1646.

Y Milwriad Salusbury, yr wyf yn diolch o'm calon i chwi am eich teyrngarwch diysgog. Sicrhaf i chwi, pa bryd bynag y rhyngo bodd i Dduw fy ngalluogi i ddangos fy niolchgarwch i'm cyfeillion, y bydd i mi mewn modd neillduol eich cofio chwi. Gyda golwg ar eich atebiad, cyfeiriaf hyny at y genad, i'r hwn y cyflawn eglurais fy meddwl.—Cofiwch fi at fy holl gyfeillion. Felly y gorphwysaf,

Eich cyfaill mwyaf sicr,

SIARL F.

---

# Rhif IX.

## DECHREUAD GWEISION Y SIRYDD YN NGOGLEDD CYMRU.

Tudal. 297.

[Llawysgrif Corsygedol.]

Ieuaf, neu fel arall Ioan ap Gruffydd ap Meredydd, a breswyliai mewn cyfrif a pharch mawr yn nyddiau Iorwerth III; yr hwn a ganiatâi iddo dâl blynyddol am wylied ac arwain ustus Gogledd Cymru, gyda chwmni o saethyddion, tra y byddai yn ymdeithio ac yn aros yn sir Feirionydd. Achlysurid hyn am fod pobl Gogledd Cymru (trwy eu bod yn anghydnabyddus, yn y dyddiau hyny,

â'r Llywodraeth Seisonig,) yn mynych droseddu; a'r barnwyr, er eu dwyn i ufudd-dod, a orfodid i ymarfer llymder; yr hyn a gynhyrfai y bobl weithiau i ymarfer trais yn erbyn eu barnwyr: felly, yn Neheubarth Cymru, Geoffrey Clement, barnwr y wlad hono, a laddwyd yn Muallt; a W. Sutton, yn Ngogledd Cymru. Ar ol hyn gorchymynid i siryddion y siroedd gyfarfod â'r barnwr ar ei ddyfodiad i mewn i'r sîr, a'i amddiffyn a'i arwain ef i derfyn eithaf y sîr: lle y byddai sirydd y sîr nesaf yn ei dderbyn.

---

# Rhif X.

## CYFARWYDDIADAU SYR JOHN WYNN O WYDIR I'W GAPLAN, JOHN PRICE, PA FODD I YMDDWYN YN EI WASANAETH EF.

Tudal. 330.

Yn gyntaf. Bydd i chwi gael yr ystafell a ddangosais i chwi yn fy mhorth, yn breifat i chwi eich hun, gyda chlo, ac allwedd, a phob angenrheidiau

Yn y bore, dysgwyliaf i chwi godi, ac adrodd gweddïau yn fy neuadd, i'm tylwyth i lawr y grisiau, cyn iddynt fyned at eu gwaith, a phan y deuant i fewn yn y nos—fod i chwi alw ger eich bron yr holl weithwyr, yn enwedig yr ieuengctyd, a chymeryd cyfrif ganddynt o'u credo, ac o'r hyn a ddysgodd Syr Meredydd iddynt. Yr wyf yn erfyn arnoch aros y rhan fwyaf o'ch amser yn y tŷ isaf; nid oes eisiau i chwi ond edrych beth a wneir yno, fel y galloch fy hysbysu o unrhyw annhrefn a fyddo yno. Y mae yno ben-gwas hwsmoniaeth, a phorthor, y rhai a lywodraethir genych.

Y bore, ar ol i chwi godi, ac adrodd gweddïau, fel y nodais yn flaenorol, dymunwn i chwi ei dreulio mewn astudio, neu unrhyw ymarferiad canmoladwy ar eich corph.

Cyn ciniaw, yr ydych i ddyfod i fyny ac adrodd gras bwyd, neu weddïau os bydd yno unrhyw rai cyhoeddus; ac i eistedd, os na bydd yno ddyeithriaid mwy urddasol, uwchlaw y plant—y rhai yr ydych i'w dysgu yn eich ystafell eich hun.

Pan fyddo y bwrdd, o'r canol hyd y pen isaf, wedi ei glirio, yr ydych i gyfodi, a cherdded yn y rhodfeydd cyfagos, hyd amser gras; ac i ddyfod i mewn y pryd hyny i'r pwrpas hwnw.

Ar ol ciniaw, os byddaf yn brysur, gellwch fyned i chwareu pêl, ceilys, neu unrhyw ddifyrwch arall a fyddo gonest a gweddaidd, hyd nes y byddaf fi yn myned allan. Os gwelwch fi heb unrhyw orchwyl, ac yn myned allan i farchogaeth, bydd march dyspaidd at eich gwasanaeth, i gael ei wneyd yn barod gan farchwas yr ystabl, ac i fyned gyda mi. Os byddaf yn myned i chwareu pêl, neu geilys, bydd eich cwmni yn foddhaol genyf, os na bydd y lle wedi ei lanw gan ddyeithriaid.

Dymunwn ar fod i chwi, bob dydd Sul yn y flwyddyn, fyned i ryw eglwys yn y gymydogaeth i bregethu, gan roddi rhybudd yn y plwyf i ddwyn yr ieu-

Digitized by Google

engctyd yn y prydnawn i gael eu cateceisio; yn yr hwn beth y mae fy ngofal mwyaf am i chwi gymeryd poen, a bod yn ddiwyd.

Gochelwch y tafarndai, i eistedd a chadw cwmni meddwyn ynddynt—byddai hyny y gwarth mwyaf a allech ddwyn o gwbl ar eich swyddogaeth.

---

## Rhif XI.

### RHESTR O WISGOEDD SYR JOHN WYNN. Tudal. 331.

Nodiad o'm holl ddillad: a wnaed yr unfed dydd ar ddeg o Fehefin, 1616.

Yn y lle cyntaf. Un fantell frethyn o liw melynddu, wedi ei leinio drwyddi â melfed du; un fantell ddu arall o frethyn, wedi ei leinio drwyddi â melfed du; mantell ddu arall o felfed, wedi ei leinio â *taffeta* du.

*Hefyd,* Dwy o gotiau marchogaeth o'r un lliw, wedi eu haddurno â sidan a rhidens aur; un penguwch a *basses* o'r unrhyw; un hen bâr arall o *basses.*

*Hefyd,* Dwy o siacedi o felfed du; dwy o siacedi brethyn, wedi eu haddurno â rhidens aur, o'r un lliw.

*Hefyd,* Un wasgod o satin gwŷn, a chlôs o satin du; un siwt o sidan lliw gwe gyfrodedd; ac un siwt o satin du wedi ei thori, a ddaeth yr un adeg o Lundain.

*Hefyd,* Un siwt arall o satin du wedi ei thori; ac un wasgod o satin du, gyda chlôs wedi ei weithio â felfed.

*Hefyd,* Un wasgod ledr, wedi ei haddurno â rhidens o sidan du; un siwt o *Pteropus,** wedi ei haddurno â sidan a rhidens aur; siwt arall o *Pteropus,* yn addurnedig â rhidens o sidan gwyrdd.

*Hefyd,* Un siwt ddu o wê gyfrodedd wedi ei thori; dwy wasgod ddu *(frise.)*

*Hefyd,* Un gôt felfed du i wastrawd *(footman.)*

*Hefyd,* Un wasgod goch wedi ei chwiltio.

*Hefyd,* Dau bâr o hen fotasau, topiau, wedi eu leinio â felfed yn y topiau.

*Hefyd,* Dau bâr o hosanau o sidan du; a dau bâr o ardysau o sidan du, wedi eu haddurno â rhidens.

*Hefyd,* Un pâr o hosanau sidan o liw perl; un pâr o hosanau *Siterop** gwynion; tri phâr o hosanau hirwlan.

*Hefyd,* Dau wregys, ac un cleddyf byr, wedi eu haddurno âg aur; hefyd, un gwregys o felfed du; un ysgablar *(scarf)* o sidan meingrych du.

*Hefyd,* Naw o hetiau o frethyn llawban, o ba rai y mae pedair yn hetiau meibion; a phump o het-rwymynau o sidan meingrych.

* "Prin yr oedd y geiriau *Pteropus, Siterop,* ac *Yamosioes,* yn ddarllenadwy yn y gwreiddiol. Ac nis gellid cael dim eglurhad arnynt: am hyny argraffwyd hwy mor agos i'r ysgrifen ag oedd yn bosibl." Nodyn ydyw hwn yn yr Attodiad yn argraffiad 1784. T. P.



Digitized by Google

*Hefyd*, Un cleddyf hir a dagr euredig, ac un cleddyf marchogaeth, gydag ysgablar, a gweiniau o felfed.

*Hefyd*, Dau bâr o esgidiau o ledr Yspaen.

*Hefyd*, Un siaced lwyd (*frise.*)

*Hefyd*, Dau bâr o *Yamosioes* lledr, ac un o rai brethyn.

*Hefyd*, Dau bâr o fotasau gwynion; un pâr o fotasau llwydion.

*Hefyd*, Tri phâr o fotasau duon newyddion, a phum' pâr o hen fotasau duon.

*Hefyd*, Dau bâr o yspardynau gloywon, tri phâr o yspardynau euredig.

## Rhif XII.

### CERFIAD AR GOFADAIL I DEULU GWYDIR, YN EGLWYS LLANRWST. Tudal. 332.

Adeiladwyd y Capel hwn yn mlwyddyn yr Arglwydd 1633. Gan Syr Rhisiart Wynne o Wydir, yn sîr Gaernarfon, marchog a barwniad, trysorydd i'r uchel a'r alluog dywysoges Henrieta Maria, brenines Lloegr, merch i'r brenin Harri y pedwerydd, brenin Ffraingc, a gwraig i'n penadurol frenin Siarl. Yn mha le y gorwedd yn gladdedig, ei dad, Syr John Wynne o Wydir, yn sîr Gaernarfon, marchog a barwniad, mab ac etifedd i Maurice Wynne, mab ac etifedd i John Wynne, mab ac etifedd i Meredydd; y rhai ill tri a gladdwyd yn eglwys Dolwyddelen, gyda beddadeiliau arnynt. Y Meredydd yma ydoedd fab ac etifedd i Ifan, mab ac etifedd i Robert, mab ac etifedd i Gryfudd, mab ac etifedd i Caradog, mab ac etifedd i Thomas, mab ac etifedd i Rodri arglwydd Môn, mab i Owain Gwynedd, tywysog Cymru, a brawd ieuengach i Dafydd, tywysog Cymru; yr hwn a briododd Emma Plantagenet, chwaer i'r brenin Harri yr ail. Olynwyd y Dafydd yma gan dri o dywysogion: ei nai, Llewelyn Fawr, yr hwn a briododd Joan, ferch i'r brenin Ioan; Dafydd ei fab, nai i'r brenin Harri y trydydd; a Llewelyn, tywysog olaf Cymru o'r tŷ a'r llinach hwnw, yr hwn a flodeuai yn amser Iorwerth y cyntaf. Syr John Wynne a briododd Sydney, yr hon sydd yn gorwedd yn gladdedig yma, merch Syr William Gerrard, marchog, arglwydd ganghellydd yr Iwerddon; o ba un y bu iddo blant, Syr John Wynne, yr hwn a fu farw yn Lucca, yn yr Eidal; Syr Richard Wynne, yn awr yn fyw; Thomas Wynne, yr hwn a orwedd yma; Owain Wynne, yn awr yn fyw; Robert Wynne, yr hwn a orwedd yma; Roger Wynne, yr hwn a orwedd yma; William Wynne, yn awr yn fyw; Maurice Wynne, yn awr yn fyw; Ellis Wynne, yr hwn a orwedd yn gladdedig yn Whitford, yn sîr Fflint; Henry Wynne, yn awr yn fyw; Roger Wynne, yr hwn a orwedd yma; a dwy ferch, Mary, yn awr yn fyw, wedi ymbriodi â Syr Roger Mostyn, yn sîr Fflint, marchog; ac Elisabeth, yn awr yn fyw, wedi ymbriodi â Syr John Bodfil, yn sîr Gaernarfon, marchog.

Digitized by Google

# Rhif XIII.

## LLYTHYRAU SYR JOHN WYNN. Tudal. 333.

**Llythyr o'r *Bourbonoisse* at ei Dad, dyddiedig y 1af o Ebrill, 1614, yn rhoddi hanes am yr Anghydfod yn Ffraingc yn nechreuad teyrnasiad Lewis XIII.**

Fy ngostyngedig ddyledswydd yn gyntaf—Trwy fod ein cenadwr wedi dychwelyd i Loegr, a'm cydnabyddiaeth inau yn Mharis wedi cilio gydag ef, nid wyf yn sicr i ba le y cyfarwyddaf fy llythyrau, fel y gallwyf fod yn ddyogel y deuant i law.

Y mae y wladwriaeth Ffrangcaidd yma mewn ymraniad â hi ei hun; oblegyd y mae amryw o'r tywysogion wedi encilio yn anfoddog i'w llywodraethau, lle y maent yn ymgadarnhau yn y dinasoedd cryfaf. Y rhai o honynt a ddymunant swydd bwysig yn eu gwlad eu hun, a ymunant â'r lleill i ddal gafael ar y cyfleustra i wneyd gwrthsafiad: ac felly y mae llawer wedi cydymuno yn Champaigne, yr hon yw llywodraeth y duc Nevers, yr hwn hefyd sydd yn un o'u nifer. Ond y penaf o gwbl ydyw tywysog Conde, gyda yr hwn hefyd y mae duc Vendosme, mab ordderch i ddiweddar frenin Ffraingc; yr hwn, heb fod yn mhell yn ol, a draddodwyd i garchar; ond cafodd gyfleustra i ymwisgo yn niwyg morwynig, ac a ddiangodd, ac a osododd ei hun yn nghwmni yr anfoddogion, y rhai ydynt yn 6 neu 7 o dduciaid mewn nifer, yn nghydag ereill wedi cydymgasglu, ar eu gwyliadwriaeth, yn Misiers a Cedan, ar gyffiniau yr Iseldiroedd, y rhai ydynt drefydd cyffindirol Champaigne. Oddiyno ysgrifenodd y tywysog Conde at y brenin a'r frenines, yn egluro yr achos o'i neillduaeth, mor belled ag yr oedd a fynai efe ei hun â hyny, am ei fod, fel y dywedai, yn tarddu oddiar ei ofal am y brenin a'r deyrnas, i ddiwygio y naill, a rhoddi boddlonrwydd i'r llall; yr hyn ni ellid ei wneyd heb alw yn nghyd y gwladwriaethau, a'r hyn a ddymunai yn ddifrifol, yn benaf oedd lleihau trethi eithafol y deiliaid; i buro y deyrnas oddiwrth swyddau afreidiol, y rhai nid oeddynt dda i ddim ond i wasgu y bobl; a chyda hyny hefyd i atal y mynediad yn mlaen yn nghylch y briodas rhwng Ffraingc ac Yspaen, hyd nes y byddai y gwladwriaethau wedi eu gollwng ymaith, rhag ofn i unrhyw beth gael ei wneyd a fyddai er niwaid i'r rhai o'r grefydd ddiwygiedig. Yr oedd y llythyr wedi ei ysgrifenu yn dda, a chariai gydag ef arddangosiad o ddaioni mawr i'r wladwriaeth gyffredinol; ond y mae y bobl mor ofnus hyd yn nod o enw rhyfel cartrefol, fel nad oes ond ychydig iawn yn ymsymud o blaid y tywysogion. Y mae yn eithaf gwir fod y tywysog Conde ei hun wedi cael ei dynu i'r nifer gan ereill o'r duciaid, ac nid oherwydd unrhyw achos cyfiawn sydd ganddo ef i fod yn anfoddog, ond yn fwy am ei fod yn caru rhai o honynt a fynai eu hamddiffyn.

Y mae gwyliadwriaeth a gwarchodaeth yn yr holl drefydd, a threfn dda i ddarparu arfau, o ba rai nid oes dim prinder yn y parthau hyn.

Y mae y frenines yn gwneyd parotoadau mawrion at fyned i gyfarfod brenin Yspaen, i gyflawni y briodas, er yr holl anfoddlonrwydd a arddengys y tywysogion at y symudiad hwnw.

Digitized by Google

Sibrydir yma, y bydd i'r tywysogion ymostwng i drugaredd y brenin, a chynyg eu hunain i fyned gyda'r brenin i'r briodas; ond pa fodd y trŷ hyny allan sydd ansicr; oblegyd y maent yn ymgadarnhau beunydd, a thra yn siarad am heddwch, yn ymbarotôi at ryfel. Ond yr hyn a drŷ allan yn ddrwg ar eu lles, ydyw eu diffyg arian, yr hyn a ŵyr pawb; ar bob cyfrif arall y maent mewn eithaf safle i wneuthur tro ystrywgar â'r brenin. Pair y cyffroadau hyn yn Ffraingc fod y deyrnas yn fwy anhawdd ei thrafaelio, ac achosa i lawer o ddyeithriaid ymsymud i wledydd ereill; yr wyf finau fy hun, yn mysg y gweddill, wedi penderfynu ymsymud, mor gyflym ag y gallaf, i Savoy, ac felly i Piedmont, ac i weled rhyw barth o Lombardi, cyn i'r gwres fyned i eithafion. Yr wyf wedi parhau yma yn Bourbonnoise i ymarfer fy hun i farchogaeth, at yr hyn yr wyf wedi ymgyflwyno, yn mhlith y bobl fwyaf rhadlon yn y byd. Bydded i Dduw barhau i chwi eich iechyd, a gwneuthur fy nychweliad mor ddedwydd ag y dymunwch! Gorphwysaf, eich ufudd fab,

JOHN WYNN.

Ebrill 1af, 1614.

———o———

Ei Lythyr nesaf sydd wedi ei ddyddio Ebrill 26, 1614, o Marseilles; a'i gyfeirio at ei Dad.

Fy ngostyngedig ddyledswydd yn cael ei chofio—

Er pan ysgrifenais fy llythyr diweddaf, mi a symudais o'r lle yr oeddwn i Lyons, yr hyn sydd 90 milldir o Bourbonnoise. Cyn cychwyn, mi a farchogais i'r Baddon, yr hwn sydd 15 milldir o ffordd o Moulins, i weled y castell, yn gystal a phethau hynod ereill ag ydynt yn deilwng o sylw dyeithriddyn. Yr oedd llywodraethwr y wlad wedi anfon yn arbenig i beri i bobpeth gael ei ddangos i mi. Wedi cyrhaedd yno, treuliais y noswaith hono i weled y gwaith newydd, yr hwn a barodd y brenin diweddaf ei adeiladu gerllaw y ffynon; a'r hyn oedd yn rhyfeddol ydoedd, fod tri o leoedd cauedig oddi fewn i'r baddon, dyfroedd pa rai ydynt mor eithafol o boeth fel nad oes neb yn anturio ymdrochi ynddynt, gan nad pa mor oer fyddo yr hin: er prawf o hyn, ar adeg y rhew mawr diweddaf, aeth geneth ieuangc yno i dynu dwfr, llithrodd ei thraed gan y rhew, a syrthiodd i'r dwfr, a chodwyd hi allan yn farw, wedi cael ei berwi gan wres rhyfeddol y ffynhon. Bore dranoeth, gwelais gastell Bourbon, yr hwn sydd mewn safle ryfeddol o gadarn, ac oddi fewn yn addurnedig â chapel tra phrydferth, gan ei fod yn un o'r adeiladau harddaf yn Ffraingc; yn y capel hwn y mae darn o groes wirioneddol ein Hiachawdwr (os gallwn goelio y sawl sydd yn cadw y pethau) yr hwn a ddygasid o Jerusalem gan St. Cloris, brenin Ffraingc, gydag un o ddrain y goron a wisgai ein Hiachawdwr, yr hon a flodeua yn wyrthiol ar ddydd y dyoddefaint, rhwng naw a deg o'r gloch; ac ar ol deg y mae yn diflanu. Buaswn yn myned i'w gweled ar y diwrnod hwnw, ond yr oedd pawb wrth eu haddoliadau; felly ni byddai neb yn teithio ar y dydd dan sylw. Nid wyf yn amheu dim o anfeidrol allu yr Hollalluog, yr hwn a wnaeth bobpeth o ddim; ond yr wyf yn amheu llawer o seremoniau ofergoelus y Pabyddion, y rhai yn fynych a ddywedant gelwydd ar Dduw. Y mae y ddraenen hon wedi ei hamgau mewn crisial yr un modd a'r groes, i gyd

wedi eu gosod mewn aur, gyda gwaith dychymyg, yn arddangos dyoddefaint ein Gwaredwr; trwy ddal yr unrhyw ar eich llaw, fe ymddengys yr impyn ar yr adeg hono o'r dydd, ar Wener y Groglith, blodeua, ac felly diflana.

Oddiyno i Lyons, lle yr arosais am wythnos; ac felly hyd y dwfr mordeithiais hyd Avignon, yr hon a berthyna i'r Pab: wrth fyned i mewn i'r dref, gofynwyd i mi gan y gwyliwr wrth y porth, o ba le yr oeddwn yn dyfod? ac o ba grefydd yr oeddwn? Wedi adrodd y pethau hyn, yn ol eu gofyniadau, caniatawyd i mi fyned heibio tua'm lletty, gan deimlo dipyn yn brudd, am y tybiwn na chawn y rhyddid hwnw i weled pethau yn y dref hono, fel y dymunwn; ond cyfarfum âg arglwydd o Ffraingc, i'r hwn y gofynais a allwn weled pob lle yn y dref hono yn ddirwystr; efe a ymddygodd ataf gyda charedigrwydd mawr, a chan ei fod wedi ei wahodd i swpera gyda'r cardinal y noswaith hono, y siaradai am danaf wrtho, am ei fod yn isgenad; a bore dranoeth dygodd fi at y cardinal, yr hwn oedd newydd ddychwelyd o wasanaeth yr offeren, a chydag ef gant o foneddigion o appwyntiad rhagorol, y rhai a elent yn rhengc o'i flaen, yn dri a thri, nes eu dyfod at y palas; minau yn dyfod heibio gyda'r arglwydd hwnw, cyfarchwyd fi gan yr isgenad, a chroesawyd fi yn anrhydeddus gyda llawer o eiriau daionus, gan ddywedyd wrthyf nad cyfreithlawn i'r rhai o'n crefydd ni oedd aros am fwy na thridiau; ond am danaf fi, y gallwn aros hyd a fynwn—gyda llawer o arddangosiadau ereill o serch a chroesaw; anogai yr arglwydd hwnw i ddangos i mi yr holl leoedd yn y dref, ac yn benaf i'm harwain i weled cwmni yn nhŷ boneddwr, y rhai oeddynt yn barod i ddawnsio a chwareu mwgwd, o barchedigaeth i fedydd, yn mha un yr oedd brawd y cardinal yn cymeryd dyddordeb fel tad-bedydd. Felly, tra yr oeddwn ar ol ciniaw yn yr eglwys, i weled dull y seremoni, cr fy mod wedi gweled y cyffelyb o'r blaen, wele nifer mawr o grythau a cherddorion yn gorymdeithio o flaen y tad-bedydd, yr hwn a ddygai y plentyn ar ei freichiau i'r eglwys (yn ol defod y Ffrangcod); ac yna y boneddigesau a'r merched ereill, yn nghyda'r fam-fedydd, a aethant i fewn, ac felly yr elent i weled y seremoni; minau a aethum yn mhlith y lleill, gan sefyll gerllaw i glywed a gweled yr hyn a wnaent: yr hyn pan welodd rhai boneddwyr a gymerasent sylw o honof yn y bore, gofynasant i mi pa fodd yr oeddwn yn mwynhau y seremoni? minau a atebais, da iawn. Gofynasant a oedd gwahaniaeth mawr rhwng y dull Seisonig a'r dull Ffrengig o fedyddio? minau a atebais, canys gwelswn eu bod yn gwahaniaethu oddiwrthym. Pwyswyd arnaf yn mhellach gan y boneddigion hyny, pa un a oeddwn yn cael fy moddhau yn y dull o hono ai peidio? Dywedais inau fy mod yn cael fy moddhau; ond nas gallwn fyned i mewn gan y dorf. Yna y boneddwr a wnaeth le, ac a'm dygodd yn agos at y fan; yn mha le, wrth ddehongli i mi ddull yr holl amgylchiadau, y siaradai yn uwch na'r curad oedd yn bedyddio y plentyn. Wedi i bobpeth fyned trosodd, y tad-bedydd a gusanodd y fam-fedydd yn gyhoeddus yn yr eglwys. Y cwmpeini, canys llawer a ddaethent o'm hamgylch, wrth weled fy mod yn ddyeithr, i glywed beth yr oeddwn i a'r boneddwr arall yn siarad yn ei gylch. Gofynwyd i mi gan dad y plentyn, yn mha beth y gwahaniaethem yn Lloegr oddiwrth y dull Ffrengig o fedyddio? Minau a atebais na byddai ein babanod ni wedi cael eu porthi agos cystal, cyn cael bedydd, ag yr oedd hwn. Torodd y boneddwr allan i chwerthin; oblegyd yn wir yr oedd y plentyn mor hen fel ag yr oedd agos yn

Digitized by Google

alluog i gerdded; ac yr oedd ganddo y fath wyneb llydan, nes bod y cwmni yn cael eu difyru gan y mingamu a wnelai ar yr offeiriad, yn ystod yr amser y gweinyddai ei swydd. Y boneddwr a ddywedodd wrthyf, mai yr arferiad yn y gwledydd hyn ydoedd eu cristioneiddio pan yn 4 neu 5 diwrnod oed; ond yn yr amgylchiad yma, gan fod y tad-bedydd yn Italy, eu bod dan orfod i aros hyd ei ddychweliad. Ar ol y bedydd, cynygiwyd i mi yr holl groesaw a allaswn ddymuno. Ac felly mi a aethum i Aix, sef eisteddle senedd Provence, ac oddiyno i Marselles, lle yr wyf yn awr. Oddiyno âf i Nezi, gwlad y duc Savoy; ac oddiyno i Genua; ac oddiyno i Lucca; ac felly i Florence, yr hwn le sydd 500 milldir oddiyma: ni bydd genyf ddigon o arian i'm hebrwng yn mhellach, ond digon yn unig i'm cynal nes y derbyniaf arian o Loegr, yr hyn yn ostyngedig a erfyniaf ar fod i chwi ddefnyddio moddion i anfon i mi fy ardrethion Gwyl Fihangel. Byddwch amyneddgar wrthyf, os byddaf dipyn yn hirach nag y mynech; yr wyf yn ei wneyd er profiad, yr hyn a fynwn ei enill, os gallaf, yn gystal ag ereill; ond heb amser, nis gall dyn wneyd namyn yr hyn a allo. Gobeithio na fynech i mi fod yn llai cyflawn nag ereill, y rhai ydynt yn ymchwilio allan am brofiad megys ag yr wyf finau. Hyderaf na bydd i chwi edifarhau mewn un modd oblegyd y llwybr a gymerir genyf, mwy nag yr wyf finau yn gwneyd. Anfoned Duw i chwi eich iechyd, a'r eiddo fy mam iddi hithau; a gwneler pob un o honoch yn gyfranogion o'm gweddïau!

Eich gwastadol ufudd fab, hyd angeu,

JOHN WYNN.

---

## Rhif XIV.

### GWARANT AM GARW ALLAN O GOEDWIG Y WYDDFA 4 GORPHENAF, Y FLWYDDYN 1af O DEYRNASIAD Y FRENINES ELISABETH, 1558. Tudal. 345.

Dymunaf arnoch draddodi, neu beri traddodi, i'r dygiedydd, at ddarpariaeth a chynaliaeth tylwyth uchel-gynghor ei mawrhydi breninol yn nghyffiindiroedd Cymru, un carw o'r tymhor presenol, i gael ei gymeryd allan o goedwig ei hucheldёr yn y Wyddfa. A bydd i'r ysgrif hon, gyda gwarant ei hucheldёr y frenines yn meddiant yr arglwydd lywydd, a Syr Robert Townessend, marchog, ustus Caerlleon, a'r naill neu y llall o honom, a barotowyd i'r cyfryw, o ba un y mae y copi yn aros gyda chwi, fod yn ddigonol warant a rhyddhad i chwi yn yr achos hwnw. Llaw-nodwyd yn nhref ei hucheldёr yr Amwythig, y 4ydd dydd o Orphenaf, yn y flwyddyn gyntaf o deyrnasiad ei mawrhydi.

ROBT. TOWNESSEND.

At feistr yr helwriaeth, coedwigwr, a cheidwad fforest y frenines yn y Wyddfa, yn sir Gaernarfon, ei is-swyddog neu ei is-swyddogion yno.

Digitized by Google

### UN ARALL.

Ar ol fy nghyfarchiadau mwyaf calonog—Hyn sydd i ofyn i chwi draddodi i'm cyfaill Maurice Wynne, boneddwr, neu i'r dygiedydd o hynyma yn ei enw, un o'm ceirw neu iyrchod o'r tymhor hwn, dyledus i mi allan o goedwig ei mawrhydi yn y Wyddfa; a bydd fy llythyr hwn yn warant i chwi am yr unrhyw. Felly byddwch wych. O Aberteifi, y 14eg o Awst, 1561.

Eich serchog gyfaill,
H. SYDNEY.

At fy nhra charedig gyfaill John Vaughan,
coedwigwr fforest y frenines yn y Wyddfa,
yn siroedd Môn, Meirionydd a Chaernarfon,
ac yn ei absenoldeb at ei is-swyddog yno.

---

## Rhif XV.

### SYLWADAU AR Y "PYSGODYN CEGDDU TRIFFORCHOG," "MORGI BIWMARIS," A'R "MORRIS," GAN Y PARCHEDIG HUGH DAVIES.

Tudal. 395.

Anwyl Syr,

Trwy fod rhyw amheuon rhyfedd, y rhai nis gellir rhoddi cyfrif am danynt, yn ddiweddar wedi cael eu hawgrymu yn mherthynas i fodolaeth, fel rhywogaeth neillduol, pysgodyn a nodir yn *British Zoology* Mr. Pennant, o dan yr enw "Pysgodyn Cegddu *trifforchog*," y mae parch i gywirdeb mewn hanesiaeth naturiol, ac i'r awduron parchus, y rhai, ar ol Mr. Pennant, a gymerasant sylw o'r pysgodyn, sef Comte de la Cépède, Dr. Walbaum, Dr. Shaw, Dr. Turton, ac ereill, yn fy anog i ddymuno rhoddi cylchrediad eangach i draethawd byr o'r eiddof, yr hwn a ymddangosodd eisoes yn y *Gentleman's Magazine* am Fehefin, 1809, ar y pwngc hwnw.

Yn fy nhraethawd hwnw, yr hwn a darddodd oddiar yr ystyriaeth o sylwadau y Comte de la Cépède a'r Dr. Walbaum, yn mherthynas i'r *pysgodyn cegddu trifforchog*, yr wyf yn dueddol i'w osod, mewn modd parchus, i benderfyniad y boneddigion hyny, pa un na ddylai yn y dyfodol ymddangos yn hytrach o dan enw ar wahan fel *tylwyth*. Yr wyf yn golygu yr un tra nodweddiadol hwnw, sef Batrachoides y Comte de la Cépède, dysgrifiad yr hwn o'r tylwyth yma, yn ei iaith ef ei hun, sydd fel y canlyn:

Batrachoides. *Caput* depressum, maximum. *Rictus oris* amplissimus, uno pluribusve cirris ad maxillam inferiorem.*

* "Batrachoides. Pen trymaidd, ac anarferol o fawr. Ceg dra llydan, ac yn meddu un neu ragor o siobynau o flew ar yr ên isaf."

Digitized by Google

O'r tylwyth yma nid oes gan yr awdwr hwnw ond un rywogaeth yn unig, sef,

1. BATRACHOIDES *Tau*, cirrus pluribus e maxillâ inferiore, spinis tribus in pinnâ dorsali primâ et utroque operculo branchiali.*

GADUS *Tau*, Lin. Syst. 439. Shaw Gen. Zool. vol. iv. 159.

2. BATRACHOIDES *blennioides*, uno pluribusve cirris ad basin maxillæ inferioris, pinnæ jugularis utriusque radiis duobus primis filamentis longis terminatis.†

BLENNIUS *raninus*, Lin. Syst. 444. Shaw, Gen. Zool. vol. iv. 183.

I'r tylwyth yma y gellid yn ddiau, gyda phriodoldeb mawr, ollwng i mewn GADUS *fuliginosus* (duon) y Dr. Walbaum.

3. BATRACHOIDES *fuliginosus* dipterygius, pinnis setosis, cirro mentali.‡

Yna mi a ddygwn yn mlaen

4. BATRACHOIDES *trifurcatus* in fossula dorsali pinnæ primæ rudimento, serie verrucarum utrinque 9—10, cirro mentali.§

TRIFURCATED HAKE, Pen. Br. Zool. iv. 172.

BLENNIUS *trifurcatus*. Shaw, Gen. Zool. iv. 174. Turton's British Fauna. p. 93.

BLENNIUS *tridactylus*. De la Cépède. Hist. des Poissons, vol. v. p. 486.

Nis gallaf beidio rhyfeddu tipyn, fod y Count de la Cépède wedi gwneyd y CEGDDU *trifforchog* yn BLENNIUS, gan ei fod mor agos-gyfathrachol i'w ddwy rywogaeth o BATRACHOIDES; oddiwrth BATR. *Tau* nid yw yn gwahaniaethu llawer yn ei ffurf gyffredinol, ond llawer iawn yn ei ddiffyg o'r rhidens o farf ar yr ên isaf, a'r ysbinau ar orchudd y tagellau.

Oddiwrth BATR. *blennioides* gwahaniaetha lai fyth, fel y barnaf oddiwrth ddarlun *Muller*, Zool. *Dan.* t. 45, ond y mae y blew sengl ar yr ên isaf yn ei wahaniaethu oddiwrth y BATR. *Tau*, ac y mae dechreuad edyn gefnol wedi ei osod mewn *sulcus*, a'r gyfres o florynod ar bob tu iddi, yn ei wahaniaethu yn berffaith oddiwrth y BATR. *blennioides*, yn gystal ag oddiwrth BATR. *fuliginosus* y Dr. Walbaum, yr hwn, ar wahan i'r neillduolrwydd olaf a grybwyllwyd, a ymddengys yn dueddol i dybio nad ydyw ond amrywiaeth yn unig o'i *G. fuliginosus* ef, ond trwy fod y rhai hyny yn aros yn barhaus, yr hyn a ganfyddais mewn cynifer ag a welais, nid yw yn petruso ei gyhoeddi fel rhywogaeth ar ei ben ei hun.

Yn wir, ymddengys fod y gyfres o'r blorynod, a'r trefniad o honynt, yn cyf-


* "Batrachoides Tau. Yn meddu lluaws o siobynau o flew o'r ên isaf, a thri o ysbinod ar yr edyn perthynol i'r cefn, ar y tu blaen, ac ar ddau orchudd y tagellau."

† "Batrachoides blennioides. Yn meddu un neu ragor o siobynau o flew ar fôn yr ên isaf, gyda'r ddau raidd blaen o'r ddwy aden berthynol i'r gwddf yn terfynu mewn mân-edafeddau hirion."

‡ "Batrachoides fuliginosus (duon,) dwy-edynog, yn meddu edynau gwrychog, a blew ar yr ên."

§ "Batrachoides trifforchog yn y ceuedd perthynol i'r cefn, wrth wraidd yr edyn blaen, gyda rhês o ddafadenau neu alldoriadau ar y naill ochr 9—10, a gén flewog."

Digitized by Google




*Y PORBEAGLE, A MORGI BIWMARIS.*

Digitized by Google

ansoddi y gwahaniaeth arbenigol a neillduol rhwng BATR. *Tau*, a BATR. *triforchog*, ar wahan i bob un arall; yn B. *Tau* amgylchynant y llygaid, *oculi utrinque serie duplici verrucarum minorum cincti.** Gmel. *Syst.* p. 1172. Yn B. *trifforchog* y maent yn rhedeg mewn llinellau agos yn gyfochrog, un ar bob ochr i'r *sulcus*, yr hwn a gynwysa elfenau yr edyn.

## AM FORGI BIWMARIS.

Y mae gwahaniaeth barn hefyd wedi ffynu gyda golwg ar wrthddrych arall mewn Hanesiaeth Naturiol, sef MORGI Biwmaris; o berthynas i ba un y mae wedi disgyn i'm rhan i allu siarad am dano yn fwy arbenigol nag un person arall.

Y pysgodyn yma, am yr hwn y rhoddir hanes yn *British Zoology* Mr. Pennant, cyf. iii., Rhif 50, ac yn *General Zoology* y Dr. Shaw, cyf. v. tud. 350, dan yr enw SQUALES *Monensis*, nid yw wedi ei gael ond yn anfynych, ac y mae ysgrifenwyr wedi coleddu amheuaeth, pa un a ydyw yn arbenigol ar wahan i FORGI *Porbeagle* Mr. Pennant, iii. 103; SQUALES *Cornubicus* y Dr. Shaw, tud. 349; ac eiddo Gmelin, *Syst.* tud. 1497, yr olaf o ba rai, yn wir, a'i gwnant yn ddim ond amrywiaeth yn unig. Y mae Esgob Carlisle, yn y drydedd gyfrol o Weithrediadau y Gymdeithas Linnæaidd, wedi amcanu gwahaniaethu rhwng y *Porbeagle* a MORGI Biwmaris, yr hwn amcan y mae Mr. Donovan, yn ei Hanes y Pysg Prydeinig, o dan yr erthygl SQUALES CORNUBICUS, wedi ei drin mewn dull tra ysgafn.

Yr wyf yn ymatal, yn bresenol, rhag myned i mewn i unrhyw ddadl neillduol ar y pwngc; a bydd i mi yn unig gyfeirio at y dysgrifiad a roddwyd yn barod yn y *British Zoology*. Modd bynag, caniatäer i'r llun yn y cerfiad cysylltiol, yr hwn a dynwyd yn y modd cywiraf, gydag offerynau pwrpasol, oddiwrth fy narlun gwreiddiol a wnaed gan raddfa, a'r hwn sydd yn awr yn meddiant David Pennant, ysw., o Downing, siarad drosto ei hun. At hyny bernais yn addas ychwanegu copi o'r darlun sydd yn Ngweithrediadau y Gymdeithas Linnæaidd, o'r SQUALUS *Cornubicus*, wedi ei dynu yn yr un dull, fel y gallo y cyhoedd ffurfio rhyw fath o farn. Gallai y lluniau hyn hefyd fod o gynorthwy mewn ymchwiliadau dyfodol, pan y dichon i'r pyngciau hyny yn ddamweiniol ddyfod o dan sylw, a phan na byddai Gweithrediadau y Gymdeithas Linnæaidd, neu *British Zoology* Mr. Pennant, wrth law i ymgynghori â hwynt.

Nid wyf yn rhyfygu haeru, fod y SQUALUS *Cornubicus*, a'r SQUALUS *Monensis*, yn rhywogaethau gwahanol, gan na welais ond un esiampl. Fy nymuniad yw, ar fod i arddangosiad teg a diduedd gael ei wneyd o bob un, fel y dygwyddont ddyfod o dan sylw, yr hyn a allai yn y diwedd arwain i gywirdeb a sicrwydd.

## AM Y MORRIS.

Yr wyf yn cael allan fod ymgais wedi cael ei wneyd hefyd i ddileu allan o'r *British Zoology* wrthddrych arall, sef y MORRIS. Hwn yw LEPTOCEPHALUS Gronovius yn ei *Zoophylacium*, Rhif 410, tab. 13. f. 3; LEPTOCEPHALUS *Morrisii*, Gmel. *Syst.* tud. 1150. ac yn Shaw's *General Zoology*, iv. tud. 84, tab. 10. An-

* "Amgylchynir y llygaid ar bob ochr gan rês ddwbl o alldoriadau neu ddafadenau bychain."

fonwyd esiampl o'r pysgodyn hynod yma gan Mr. Pennant i Dr. Gronovius y pryd hyny yn preswylio yn Leyden, fel y cydnabyddа yn ei *Zoophylacium*, tud. 136. Y mae yr hanesydd naturiaethol enwog hwnw wedi rhoi darlun o hono, a'i ddysgrifio yn fanwl. gyda'r cywirdeb hwnw y mae mor berffaith feistrolgar arno. Gan mai dyma fel y mae, dylem ryfeddu pa fodd y darfu i neb roddi allan fel ei opiniwn, "nad ydyw y pysgodyn bychan a elwir y *Morris* mewn un modd wedi cael ei ddeall yn gywir."

Yma ynte gofynaf ganiatâd i ychwanegu, fy mod yn adnabod y pysgodyn yn dda; daeth i fy rhan i weled pedwar esiampl o hono; un a gymerwyd yn nghored Llienawg, oddeutu tair milldir o Biwmaris, y tri ereill dair milldir islaw morfa Biwmaris, i'r gogledd-ddwyrain, pan yn dylyn y difyrwch o hel locust y môr, ar y trai, mewn dwfr bâs, yn mysg twmpathau o wymon y môr. (Fucus *Serratus.*)

O fewn y blynyddoedd diweddar y mae terfyn wedi dyfod ar y difyrwch hwnw, trwy fod y gwymon wedi ei ddinystrio yn ngwneuthuriad *kelp* (math o halen a wneir o'r gwymon,) ac y mae y locustiaid, neu y *prawns*, y rhai oeddynt mewn cyflawnder pan oeddwn i yn fachgen ysgol, wedi gadael y rhanau hyn o'r arfordir, ac hefyd, mae yn dra thebygol, fod y lle wedi ei wneyd yn anghyfaddas fel preswylfod i'r pysgodyn bychan hwn, testyn ein hystyriaeth bresenol.

Ar yr adeg pan y daeth y rhai hyn, yn gystal a'r ychydig esiamplau, canys gwelais fwy nag un, o'r Pysgodyn Cegddu *Trifforchog* i'm dwylaw, yr oedd fy nghydnabyddiaeth âg awduron mewn hanesiaeth natur, y rhai byw yn gystal a'r rhai meirw, yn llawer mwy cyfyngedig nag y mae wedi bod wedi hyny; am hyny nis gwyddwn nad allai fod y pysgod hyn yn gyffredin yn Mhrydain, pe amgen buasent oll wedi cael eu cadw yn fanwl, er mwyn rhagflaenu unrhyw amheuon yn eu cylch yn y dyfodol.

Nis gall neb, ag sydd yn gydnabyddus âg egwyddorion y gyfundrefn Linnæaidd o hanesiaeth natur pysgod, beidio edrych ar y creadur tyner, yr hwn yw ein gwrthddrych presenol, heb ryfeddu; gan fy mod yn credu mai dyma yr unig bysgodyn yn natur, hyd ag yr wyf fi yn gwybod, nad oes ganddo na llyw, traed, nac esgyll. Bydd i'w gyfansoddiad rhyfedd, gan hyny, a'r angenion neu yr amherffeithderau yr ymddengys ei fod yn eu dyoddef, gynhyrfu yn y meddwl ystyriol ryw adfyfyriadau ar y pwnge hwn, yn gystal ag ar ffurfiad rhyfedd rhanau ereill y pysgodyn.

Nis gall y rhai a gymerasant fwyaf o bleser i dalu sylw i weithrediadau Rhagluniaeth, beidio rhyfeddu, gyda Ray a Derham, fel y mae amrywiol ranau anifeiliaid wedi eu ffurfio mewn modd neillduol, a'u cyfaddasu at eu gwahanol ddulliau o fyw, a'r lleoedd y maent wedi eu bwriadu i gyfaneddu ynddynt. O dan y syniad yma, nis gallaf beidio meddwl, y gellir rhoddi cyfrif am ffurfiad yr anifail yma. Gwel y dysgrifiad o hono yn Gronovius, Pennant, a Shaw.

Y mae yr amgylchiadau o dan ba rai y cymerwyd tair allan o'r pedair esiampl, y rhai a welais (ac nis gwn i amgen na chymerwyd y bedwaredd mewn sefyllfa gyffelyb,) yn awgrymu i mi yr ystyriaethau canlynol: yn gymaint a'u

Digitized by Google

cael mewn twmpath trwchus o wymon, neu chwŷn y môr, gallaf yn rhesymol benderfynu fod Awdwr Mawr natur wedi bwriadu i'r anifail dreulio ei fywyd mewn lle o'r fath; am hyny, y mae ei ranau wedi eu cyfaddasu at ei sefyllfa. Ei ben bychan sydd wedi ei lunio yn dda er arwain y ffordd trwy ddyrysni mor annhreiddgar; ei gorph main at lithro trwy y plygion lluosog a'r mynedfeydd cyfyng, y rhai a ffurfir gan ymgangeniadau mynych y llysiau hyn; ei lygaid mawrion i ddarganfod yr ysglyfaeth lleiaf, yn nhywyllwch llwyn mor dew, yn mha le, yn ddiameu, y buasai traed, esgyll, a llyw, hyny ydyw, edyn y gynffon, y ddwyfron, a'r cylla, nid yn unig yn anfuddiol, ond yn rhwystrau cyfangwbl.

Gallai y sylwadau ar gyniweirfeydd y pysgodyn hwn, fe ddichon, fod yn foddiou i wneyd ymchwiliadau am dano yn y dyfodol yn fwy llwyddiannus.

Ydwyf, &c.

HUGH DAVIES.

Biwmaris, Tach. 10, 1809.

---

# Rhif XVI.

## HANES SYR RHISIART BULKELEY; YN MHA UN Y CEIR DYSGRIFIAD CRYF O ORTHRWM Y FFAFRYN IARLL LEICESTER.

Tudal. 395.

Syr Rhisiart Bulkeley a wasanaethodd yn y senedd dros sir Fôn, yn yr ail a'r trydydd eisteddiad o'r freniues Mari, y trydydd o Elisabeth, a'r cyntaf o Iago.

Yr oedd o berson lluniaidd, o wynebpryd glân, ac o gorpholaeth tàl. Yr oedd yn gymedrol o ran ei ymborth, heb fod yn yfwr mawr. O ran ei arferion, ni byddai byth yn newid ffurf ei wisgoedd; ond gwisgai bob amser glôs crwn, a gwasgodau trwchus cotymog, er ei fod yn dra hoyw a chyfoethog. Yn y flwyddyn olaf o deyrnasiad y frenines Elisabeth, ac efe y pryd hyny mewn oedran mawr, efe a roddodd ei bresenoldeb yn nghynghor y cyffindiroedd yn Ludlow, yn nhymhor y gauaf. Pan fyddai yr Arglwydd-lywydd Zouch yn myned i'r eglwys yn ei gerbyd, neu i rywle arall, arferai Syr Rhisiart farchogaeth ar ystalwyn mawr; ac weithiau elai o'i lety i'r eglwys, ar rew ac eira, ar ei draed, gyda mantell fêr, hosanau sidan, a chleddyf mawr a dagr, arosai drwy yr holl weddïau a'r bregeth ar dywydd oer iawn; yn gymaint ag y byddai yr Arglwydd Zouch yn arfer dywedyd, y byddai yn cael anwyd wrth edrych arno.

Yr oedd yn ddarllenwr mawr ar hanesyddiaeth, a darlithiau am bob etifeddiaethau a gwledydd; o gof da rhagorol; a dealltwriaeth mewn materion perthynol i gadw tŷ, hwsmonaeth, helyntion morwrol, adeiladu llongau, a'u cynal ar y môr. Ysgrifenai ei lythyrau ei hun, ac atebai bob llythyr â'i law ei hun: a chan iddo gael ei gyhuddo yn y cynghor cyffindirol am droseddu archiad o

eiddo y llys hwnw, efe a dynodd allan ei atebiad ei hun—nas gellid ei droi allan o'i feddiannau oddigerth trwy weithrediad y gyfraith gyffredin—pleidiodd y *Magna Charta*, neu y Freinlen Fawr—a hawliodd am ddedfryd: wedi i'r atebiad hwnw gael ei roddi o flaen y llys, y prif ynad, Syr Rhisiart Shuttleworth, a alwodd am gael ei weled; ac wedi ei ddarllen, efe a ddywedodd wrth y cynghorwyr wrth y bar, "Edrychwch, fy meistri, y fath asgwrn y mae Syr Rhisiart Bulkeley wedi ei fwrw i'r llys, er mwyn i chwi flino arno:" ar ar ol i'r mater gael ei ddadleu, taflwyd ef i'r gyfraith gyffredin.

Yr oedd yn cadw tŷ rhagorol, ac yn groesawgar i ddyeithriaid, yn enwedig y cyfryw a elent i, neu a ddeuent o'r Iwerddon. Efe a groesawodd Iarll Essex yn ardderchog ar ei ffordd yno i fod yn arglwydd-raglaw. Darparai bob angenrheidiau at ei fwrdd yn mlaen llaw. Anfonai ddwy long bob blwyddyn i Greenland am amryw fathau o bysgod; y rhai yr arferai gyfnewid yn yr Yspaen am amryw fathau o winoedd; a chadwai yn wastadol yn ei seler ystorfa dda o hen win (*sack*,) yr hwn a alwai *Amabile*, heblaw gwinoedd ereill. Cadwai ddau o barciau wedi eu cyflenwi yn dda â Cheirw Cochion a Danas; y rhai a gynyrchent y fath gyflawnder o hyddgig ag a wnelai ddarpariaeth i'w fwrdd dair neu bedair gwaith yn yr wythnos drwy y tymhor, heblaw rhoddi pleser i'w gyfeillion. Cadwai amryw dyddynod, heblaw ei etifeddiaeth ei hun, ar ei ddwylaw, y rhai a ddarparent ei dŷ â chig eidion brâs, molltgig, cig oen, &c., &c. Yr oedd yn farchogwr rhagorol, ac yn ymladdwr deheuig; cadwai ddwy ystabl fawr o geffylau, un yn sîr Gaerlleon, ac un arall yn Biwmaris, a chynulliad mawr o gesyg. Ei etifeddiaeth yn Môn ydoedd 2500*l*., yn sîr Gaernarfon, 800*l*., ac yn sîr Gaerlleon, 1000*l*. yn y flwyddyn: a chanddo hefyd ystorfa dda o ariau parod yn gorwedd yn ei gist. Cadwai lawer o weision a gweinyddwyr, oll yn wŷr tàl a destlus: dau was traed mewn lifrai a redent bob amser gyda'i geffyl: nid elai byth oddicartref heb 20 neu 24 i weinyddu arno. Yr oedd yn uchel yn ffafr y frenines Elisabeth. Meddai gyfeillion galluog yn y llys, ac yr oedd bonedd a gwerin sîr Fôn at ei wasanaeth, oddieithr yr Woods o Rosmore, y rhai oeddynt bob amser yn elyuion iddo.

Cafodd ymdrechfeydd mawrion gyda Dudley, Iarll Leicester; yr hwn a gafodd freint-lythyrau y frenines, o dan y sêl fawr, i fod yn brif heliwr coedwig y Wyddfa: yn mha swydd efe a ymddygodd yn dra niweidiol i siroedd Meirionydd, Arfon, a Môn; gan ymgeisio at ddwyn o fewn terfynau a chyffiniau y fforest hono y rhan fwyaf o diroedd y rhydd-ddeiliaid yn y tair sîr hyny; ac i'r dyben hwnw yr iarll a gafodd gan y frenines nodi amryw ddirprwyaethau i edrych i mewn i drawsfeddianniad a dirgeliad tiroedd. Gan nad oedd barn y rheithwyr yn Môn yn boddhau dirprwywyr yr iarll, aethant mewn cynddaredd i Gaernarfon, torasant trwy drais i'r trysorlys yno, gan chwilota y cofnodion, a chludo ymaith yr hyn a ryngai eu bodd; ond yr iarll, ar ol gwneyd llawer o ymgeisiadau, er blinder mawr i'r wlad, a orfodwyd i dynu yn ol, trwy iddo gael ei drechu yn ei holl gynlluniau gyda golwg ar y Wyddfa, trwy allu a dylanwad a bywiogrwydd Syr Rhisiart Bulkeley. Ond, *manet alta mente repostum*.* yr oedd yr iarll yn dal llid gwenwynig at Syr Rhisiart; eto yr oedd yn parhau

* "Arosai yn gladdedig yn ddwfn yn y meddwl."

Digitized by Google

mewn ffafr gyda'r frenines a'r cynghor, er iddo gael ei fino yn fynych gan yr iarll, ei oruchwylwyr, a'i greaduriaid.

Trwy fod Syr Rhisiart yn un o israglawiad Môn (pan ddaeth y newydd fod yr Armada Yspeinig yn bygwth Lloegr,) yr oedd efe i wŷsio y wlad i wisgo arfau; a thrwy iddo wŷsio Mr. Woods o Rosmore, efe a dramgwyddwyd yn fawr, a thybiai ei fod ef yn goddef germod pwysau: am hyny aeth i fyny i'r llys at Iarll Leicester, gan gludo chwedl anwireddus i'w ganlyn, fod Syr Rhisiart Bulkeley (ychydig cyn euogfarniad a dienyddiad Thomas Salusbury, un o gydweithredwyr Arthur Babington, y bradwr, yn 1585), wedi bod yn mynyddoedd Eryri yn cydymgynghori âg ef, a'u bod, mewn fferm o eiddo Syr Rhisiart, a elwid Cwmligiau, wedi bod yn cysgu gyda'u gilydd am ddwy noswaith neu dair. Yr iarll, yn falch o'r hysbysiad yma, yn ddiatreg a fynegodd y peth i'r frenines a'r cynghor. Ar hyny, Syr Rhisiart a alwyd o flaen y cynghor, ac a holwyd; ond efe a wadodd yn bendant y cwbl oll. A phan y darfu i'r iarll, y pryd hyny yn llywydd cynghor y frenines, bwyso y peth yn llym yn ei erbyn, efe a ddywedodd yn wyneb yr iarll, "Bu eich tad chwi, a'r unrhyw ddynion ag sydd yn awr yn achwyn yn fy erbyn, agos ag andwyo fy nhad; oblegyd, ar farwolaeth y brenin Iorwerth VI., trwy lythyrau oddiwrth eich tad, efe a dderbyniodd orchymyn i gyhoeddi y frenines Jane, ac i wysio y sîr; yr hyn a wnaeth yn unol â hyny; ac oni buasai fod fy mam yn un o forwynion anrhydeddus y frenines Mari, daethai i drwbl a pherygl mawr." Wedi clywed y geiriau hyn, dystawodd y cynghor, ac aethant ymaith; a Syr Rhisiart a ymadawodd. Yr iarll a brysurodd at y frenines, ac a'i hysbysodd fod y cynghor wedi bod yn holi Syr Rhisiart yn nghylch materion o deyrnfradwriaeth; iddynt ei gael yn ddyn peryglus, ac yn gweled rheswm am ei draddodi i'r Tŵr; a'i fod yn byw mewn congl amheus o'r byd. "Pwy? Syr Rhisiart Bulkeley," ebe y frenines; "ni ddarfu iddo erioed fwriadu unrhyw niwaid i ni. Yr ydym wedi ei ddwyn i fyny er yn fachgen, ac wedi cael prawf arbenig o'i ffyddlondeb i ni: ni chewch ei draddodi ef." "Genym ni," meddai yr iarll, "y mae gofalu am berson eich mawrhydi; yr ydym yn gweled mwy ac yn clywed mwy am y dyn nag yr ydych chwi; y mae o feddwl uchelgeisiol, ac yn preswylio mewn lle pellenig." "Ger bron Duw (atebai y frenines), nyni a gymerwn ein llw ar yr Efengylwyr sanctaidd, na fwriadodd efe i ni erioed unrhyw niwaid;" ac felly rhedodd at y Beibl, a chusanodd ef, gan ddywedyd, "Ni chewch ei draddodi ef; yr ydym wedi ei ddwyn ef i fyny er yn fachgen." Yna arglwyddi y cynghor a ysgrifenasant lythyr at y Dr. Hugh Bellot, arglwydd esgob Bangor, ar fod iddo chwilio i wirionedd y cyhuddiad a osodid yn erbyn Syr Rhisiart; yr hyn a gafodd yr esgob ei fod yn anwireddus ac anudonol; a sicrhaodd hyny i'r cynghor. Ar hyny, efe a gyhoeddwyd yn ddieuog, er mawr foddhad i'w mawrhydi y frenines, ac er cyflawn orfoledd i'w wlad, ac i'w gredyd mawr a'i gymeriad ef ei hun: ac ar ol hyny, ysgrifenodd amryw o arglwyddi y cynghor lythyrau at ustusiaid brawdlysol Gogledd Cymru, i gyhoeddi y camwri a gawsai Syr Rhisiart, ac i hysbysu i ddeiliaid y frenines ei ddiniweidrwydd amlwg.

Ond fel na byddai i Syr Rhisiart gael byw mewn heddwch, dyn o'r enw Green, yr hwn a berthynai i Iarll Leicester, yn enw un a elwid Bromfeild, un yn derbyn pensiwn, a ddaeth ato, i'w herio i gyfarfod Bromfeild yn y maes.

Digitized by Google

"Onid oes genych un neges arall (ebai Syr Rhisiart)?" "Nac oes," ebai Green. Yna Syr Rhisiart a dynodd ei ddagr, ac a archollodd ben Green, gan erchi iddo gludo hyny fel ei atebiad, am ei fod yn dirmygu cyfarfod â'r fath gnaf a Bromfeild. Y driniaeth yma ar Green a fawr gynyddodd lidiogrwydd yr iarll. Bromfeild, Green, ac ereill o'i wasanaethwyr, a luniasant frad yn erbyn person Syr Rhisiart; ond efe a safodd ar ei wyliadwriaeth, gan gadw yn wastadol 24 o ddynion cryfion, gyda chleddyfau, tarianau, a bidogau, i'w amddiffyn ef yn wyneb eu hymgeisiadau. Llogasant gychod ar y Tafwysg, gyda'r bwriad o foddi Syr Rhisiart, pan y byddai yn myned o Westminster i Lundain; ond efe, wedi cael hysbysrwydd cyfrinachol am y peth, a fenthyciodd ysgraff arglwydd faer Llundain, darparodd hi â dynion, gynau, tabyrddau, ac udgyrn, ac a rwyfodd ar hyd y Tafwysg, aeth tan y bont, ac i lawr at Greenwich, lle y cadwai y frenines ei llys yr adeg hono; ac wrth lanio, ar gyfer y palas, parodd i'w gwmni ollwng eu hergydion, curo eu tabyrddau, a seinio eu hudgyrn. Iarll Leicester, wedi clywed hyny, a aeth at y frenines gan ei hysbysu fod Syr Rhisiart Bulkeley, yn debycach i wrthryfelwr nag i ddeiliad, wedi dyfod gydag ysgraffau, gwŷr, gynau, tabyrddau, ac udgyrn, ac wedi saethu amryw ddrylliau yn erbyn palas ei mawrhydi, er mawr arswyd i'r llys; yr hyn beth ni ddylid ei oddef. Y frenines a anfonodd am Syr Rhisiart, ac ar ol clywed ei ymddiheuriad, a wnaeth yr iarll ac yntau yn gyfeillion. Yn mhen ychydig ar ol hyny, yr iarll a anfonodd am Syr Rhisiart ato i'w ystafell; ac wedi ei ddyfod yno, yr iarll a ddechreuodd ymresymu âg ef ar ryw gamwri a niweidiau a dderbyniasai oddiar ei ddwylaw; ac iddo golli £10,000 oherwydd ei wrthwynebiad iddo. Ond terfynodd yr ymddiddan mewn geiriau tynerach, a gwahoddwyd Syr Rhisiart i giniaw; ond ni wnaeth na bwyta nac yfed dim ond yr hyn a welai yr iarll yn ei brofi, gan gofio Syr Nicholas Throgmorton, yr hwn y dywedir iddo dderbyn ffigysen wrth ei fwrdd.

Ond yn gymaint ag i Iarll Leicester farw yn Hydref 1588, cafodd Syr Rhisiart Bulkeley, a'i wlad, fwynhau heddwch a llonyddwch oddiwrth ei orthrwm treisiol, ei gynllwynion, a'i weithrediadau drygionus; a bu Syr Rhisiart fyw hyd yr 28ain o Fehefin 1621, pan y bu farw, yn 88 mlwydd oed. Bu yn bresenol yn nghoroniad y breninesau Mari ac Elisabeth, a'r eiddo Iago y cyntaf. Costiodd ei fantell iddo, ar adeg y coroniad diweddaf hwn, £500.

---

## Rhif XVII.*

### SYLWADAU AR GYFLWR PRESENOL MYNYDD PARYS, WEDI EI YSGRIFENU GAN MR. PRICE, GORUCHWYLIWR. Tudal. 402.

Y mae gwythen gopr mynydd Parys yn dra eang, a chynwysa fŵn mewn crothau o amrywiol faintioli; y cyfryw grothau neu sypiau a elwir yn gyffredin yn *Stock Works.*

* Yr un sylw sydd gymhwysadwy at hwn a Rhif II. yn yr Attodiad. J.R.

Y cafniadau yn y mwnglawdd a gytunant mewn eangder â'r swm o fŵn a gynwysent. Ond dylid sylwi, nad oedd y cafniadau hyn wedi eu llanw i fyny yn gwbl gan fŵn copr, ond mewn rhan gyda chareg fwneiol neu fold y wythen, yn gymysg â mŵn a phridd marw, yr hwn yr oedd yn angeurheidiol ei dori er gwneyd lle i ymlid ar ol crwydriadau y wythen.

Y mae y wythen hon wedi cael ei gweithio ar raddeg dra eang, uwchlaw saith gant o latheni, heblaw gweithydd i'r dwyrain a'r gorllewin i'r hyd yma o dir. Cynwysa yr hyd hwn fwngloddiau Parys a Mona, y rhai ydynt ill dau yn yr un brif wythen.

O derfyn y ddau fwnglawdd i ben gorllewinol mwnglawdd Parys, y mae cafniad agored dau gant o latheni o hyd, caut a haner o latheni o led, ac o ugain i ddeugain llath o ddyfnder, yr hyn a ddyry gynwysiad o naw can' mil o latheni chwe'ochrog *(cubic)* o bridd naturiol wedi ei symud ymaith. Cynwysai y rhan yma o'r mwnglawdd ddarnau ardderchog o fŵn o amrywiol ansoddau; heblaw y cafniad agored uchod, y mae amryw gafniadau tanddaearol mawrion yn y rhan yma o'r mwnglawdd, ac amryw ymgeisiadau tuag at y gorllewin.

O derfyn y ddau fwnglawdd i ben dwyreiniol y prif weithydd yn mwnglawdd Mona y mae hyd y wythen yn bum' cant o latheni, yn mha eangder y mae tri o gafniadau mawrion ac agored, allan o ba rai y mae llawn bedwar cant ac wyth a thriugain o filoedd o latheni chwe'ochrog o bridd naturiol wedi cael eu codi.

Y mae rhai o'r cafniadiau tanddaearol yn y rhan yma o'r mwnglawdd yn hynod o ardderchog; un o honynt yn ddeg llath a deugain o hyd, deg llath ar hugain o led, a deugain llath o uchder o'r gwaelod hyd at gronglwyd afrywiog y bwa, ac yn cael ei gynal gan un golofn yn unig yn y ceuedd hwnw. Mewn parth arall o'r mwnglawdd y mae cafniad deugain llath o hyd, pymtheg o led, a deugain llath o uchder, y cwbl yn un bwa. Y mae y gweithydd tanddaearol yn rhy luosog i fanylu arnynt. Bydd i'r cyfan a honynt gyrhaedd dau can' mil o latheni chwe'ochrog o wagle, heblaw shafftiau, lefelydd, &c. Gellir cael rhyw feddylddrych am y cyrph anferthol o fŵn a gynwysai y rhan yma, wrth y swm o fŵn a godwyd mewn dwy fargen mewn tri mis yn y flwyddyn 1787, yn y gyntaf dwy fil naw cant ac un ar ddeg ar hugain o dunelli o fŵn copr da, a dim ond deuddeg tunell a phedwar ugain o ysbwrial; yn y llall pedwar cant ac wyth a phedwar ugain o dunelli o fŵn copr, a dau gant a saith a thriugain o dunelli o ysbwrial, heblaw y mŵn a godwyd mewn amrywiol fargeinion ereill llai.

Y mŵn a geir yn gyffredin yn y mwnglawdd hwn ydyw y mŵn copr melyn; cynwysa goryg callestr, *sulphur*, ac o bedwar i bymtheg y cant o gopr. Y mae peth mŵn copr du wedi cael ei godi yn mynydd Parys, a gynwysai o bymtheg i ugain y cant o gopr, rhai parthau o'r wythen yn cynyrchu copr pur yn ymlynu ar ffurf dail wrth ochr y graig gyfryngol. Diau fod y copr hwn wedi bod yn doddedig, ac wedi ei waelodi gan ansawdd haiarnaidd y graig yr ymlynai wrthi.

Digitized by Google

Y mae uwchlaw pedwar cant a thriugain o latheni o dir, o ran hyd, yn y rhan ddwyreiniol o'r mwnglawdd, yr hwn nid ydyw wedi ei weithio ond yn unig mewn rhan, ac y mae yn dra thebyg fod yn y parth hwnw amryw gyrph o fŵn heb eu darganfod, eithr nis gellir sicrhau hyny ond trwy ymgeisiadau dyfodol.

Y mae y mŵn, ar ol cael ei drin, hyny ydyw, ei dori i lawr i faintioli priodol, a thynu yr ysbwrial allan o hono mor belled ag y mae yn ddichonadwy yn y gwaith mawr hwn, yn cael ei gario i odynau, a'i losgi.

Muriau yr odynau hyn ydynt o bedair i bump troedfedd o uchder, ac yn ddigon cryfion i ddal pwysau y mŵn yn wysg ei ochr. Lled yr odyn o'r tu fewn sydd o ddeunaw i ddwy droedfedd ar hugain, ac yn gyffredin llenwir hi â'r mŵn hyd o dair i bedair troedfedd uwchlaw lefel pen uchaf y muriau. Y mae eu hyd yn amhenderfynol, ond parheir hwy yn mlaen yn unol â'r swm o fŵn y bwriedir ei roddi yn yr odyn. Cynwysa yr odynau o bedwar cant i dri chant ar ddeg o dunelli o fŵn. Y mae y mŵn ar dop yr odyn yn cael ei ffurfio yn grwn, a'i orchuddio yn glòs, oddieithr y ffliwiau sydd yn rhedeg ar hyd top yr odyn, i gario y mwg i dderbynfeydd wedi eu gwneyd at hyny; y maent oddeutu chwe' throedfedd o uchder, a phum' troedfedd o led, a'u topiau o briddfeini yn fwaog, a chedwir hwy mor sych ag y mae yn bosibl. Trwy fod y mwg yn croni yn y *condensers,* y mae y *sulphur* yn myned i'r gwaelod, ac yn cael ei gymeryd oddiyno, ei ferwi, a'i buro at ei werthu. Y mae ffliwiau yn mur ffrynt yr odyn, trwy y rhai y gosodir tân yn y mŵn, ac wedi iddo gymeryd digon o dân, llosga o hono ei hun.


Y mae mŵn y mwnglawdd yn llawn o *acid* brwmstanaidd, yr hwn, yn gyfunedig â'r dwfr a weithia i mewn trwy agenau yn y wythen, a ymgyfuna â'r copr, gan ei gadw mewn cyflwr toddedig. Y dwfr, wedi ei nawsio fel hyn, a arweinir i byllau yn mha rai y bydd haiarn wedi ei ddodi; yr *acid*, trwy fod ei attyniad at haiarn yn gryfach nag at gopr, a ymgyfuna â'r haiarn, gan adael y copr yn rhydd i waelodi ar ffurf fetelaidd. Y copr a waelodir fel hyn sydd yn grynswth o fân ronynau, ac y mae braidd i gyd yn gopr pur. I brysuro yr oruchwyliaeth o waelodi, y mae gwyneb yr haiarn yn cael ei grafu yn barhaus, a'i glirio i roddi i'r *acid* wyneb newydd i weithredu arno, trwy yr hyn y mae peth o'r haiarn dadgysoddedig yn cael ei gymysgu â'r gwaelodiad, ac yn amharu ei ansoddion.

Cymerir y copr o'r pyllau ar ffurf llaid, a phan fyddo wedi sychu, anfonir ef i'r ffwrnais i gael ei doddi. Y mae y gwaelodion yma yn cynwys o ddeg i bump ar hugain y cant. Ond os dodir haiarn gyru yn y dwfr mwneiol, a'i adael yn llonydd, hyny yw, heb ei lanhau i roddi iddo wyneb newydd, nes y byddo wedi llwyr doddi, bydd iddo waelodi yn agos i'w bwysau ei hun o gopr pur.

Y pyllau, yn mha rai y gwaelodir y copr o'r dwfr mwneiol, ydynt yn rhesi, y naill rês o dan y llall, yn ol fel y byddo gogwyddiad a maint y tir yn caniatâu; gollyngir y dwfr o un rês o byllau i rês arall, nes y byddo y dwfr wedi gollwng yr holl gopr a ddaliai yn doddedig. Y dwfr a rêd allan o'r rhês isaf neu olaf o'r pyllau, a drosglwyddir i gronfeydd, lle y mae yr haiarn dadgysoddedig yn

Digitized by Google

*Plan of a Kiln*
for burning
**PYRITACEOUS COPPER ORES**
*& Extracting the*
**SULPHUR.**




**SECTION**



*CYNLLUN O ODYN YN MYNYDD PARYS.*

Digitized by Google

gwaelodi. Y mae yr *ochre* haiarnaidd yn ddefnyddiol fel paent. Maintioli cyffredin y pyllau ydynt un droedfedd ar bymtheg ar hugain wrth ddeuddeg, ac oddeutu dwy droedfedd o ddyfnder, gyda chyfwng o chwech neu saith droedfedd rhwng pob un o honynt.

Nifer y dynion a weithient yn ngweithydd tan-ddaearol mwnglawdd Mona yn y flwyddyn 1806 oedd 227, y powdwr gŵn a ddefnyddiwyd oedd 17,036 o bwysi, ac o ganwyllau, 26,283 o bwysi.

Yn y flwyddyn 1807, yr oedd 237 o ddynion ar waith, y powdwr gŵn a ddefnyddiwyd oedd 15,345 o bwysi, a'r canwyllau yn 23,321 o bwysi.

Yn y flwyddyn 1808, 122 o ddynion oedd ar waith, a defnyddiwyd o bowdwr gŵn 6300 o bwysi, ac o ganwyllau 9200 o bwysi.

## CYNYRCHION GWAHANOL FWNEION YN MWNGLAWDD MONA.

### MWNEION CRI WEDI EU TRIN.

Cynwysa y mŵn cri goreu, ar gyfartaledd, 8 yn y cant.
Cynwysa y mŵn cri israddol, ar gyfartaledd, 4 yn y cant.

### MWNEION WEDI EU LLOSGI.

Cynwysa y mŵn llosgedig goreu, pan y mae y peth manaf wedi ei ogrwn allan, 10 yn y cant.

Cynwysa y mŵn llosgedig israddol, pan wedi ei drin, ond y brâs a'r mân yn gymysg, 4½ yn y cant.

### MAINTIOLI YR ODYNAU.

| | TROEDFEDDI. |
|---|---|
| Yr hŷd oddifewn . . . . . . . | 58 |
| Y lled oddifewn . . . . . . . . | 22 |
| Uchder y muriau . . . . . . . . | 4½ |
| Ei llanw a chopr yn uwch na'r muriau | 4 |

Bydd i odyn o'r maintioli uchod gynwys 699 o dunelli o fŵn copr, neu 700 tunell.

### CYFEIRIADAU AT Y DARLUN.

B, Corph yr odyn.
W, Muriau yr odyn a'r derbynfeydd.
R, Derbynfeydd cyfredol.
C, Derbynydd croes.
F, Ffliwiau yn mur y ffrynt.
S, Ffliwiau o'r odyn i'r derbynydd.
A, Holltau at archwilio yr odyn.
V, Tyllau Gwynt.



Digitized by Google

# RHIF XVIII.

## LLYTHYR YR ARCHESGOB WILLIAMS, TRA YN GYMRAWD O GOLEG ST. IOAN, CAERGRAWNT. TUDAL. 421.

Y Gwir Urddasol,

Darfu i gydgyfarfyddiad doethineb a serch, yn eich gweithred olaf o fwriadu symud eich mab, beri i mi fod yn ddystaw gydag golwg ar berswadio nac anog y naill ffordd na'r llall; er, rhaid i mi gyfaddef, gwell genyf ydyw iddo aros, ac ystyried ei awydd yn ddiweddar at ei lyfr, a'r ymdrechion buddiol a ddeilliodd o hyny; yr hyn, oni buasai ei fod mor sicr, ni buasai i gariad fy nallu gymaint, fel ag i gamarwain eich urddas gyda'r fath adroddiad. Canys er fy mod yn cyffesu fy mod yn ei garu ef yn fwy, yr wyf yn meddwl, nag y bydd i mi garu unrhyw berthynas ar ei ol; eto, megys y llefara Pliny am ei gyfaill, *Amo cum judicio, eoq. magis quo magis amo.**

Gan fod ei ysgoloriaeth wedi darfod, ar ei ddychweliad o Lundain mi a fum mor hyf a'i osod mewn brawdoliaeth gyffredin *(fellows commons,)* hyd nes, yn y coleg hwn neu rywun arall, y bydd i mi chwilio allan am gymrodoriaeth iddo; at yr hwn ddyrchafiad ni bydd yn gyfaddas hyd oni chyflawn gyrhaedda y radd o wyryf yn y celfyddydau; ac ni bydd hyny, yn y man cyntaf, cyn y Pasg. Bydd i'w symudiad fel hyn i'n brawdoliaeth ni, yn rhyw ddeg punt yn y flwyddyn yn fwy o gost arnoch; ond credaf y bydd i'r cwmpeini dewisolach (yr hyn nis gall yn awr fod yn amgen na brodyr a boneddigion,) a'r cyfleustra a gaiff i wrando eu darlithiau, yn ol eich barn eich hunan, orbwyso y gost: dim ond hyn, am ei dderbyniad i mewn, yr ydych i anrhegu y coleg â llestr arian, o unrhyw werth a fynoch, uwchlaw 5 *mark*;† a bydded i chwi gerfio arno eich pais-arfau: dyna yr holl draul am gael derbyniad i mewn.

Ni bydd arno ddiffyg lle anrhydeddus wrth ddechreu, yn gymaint a'ch bod chwi yn foddlawn i dalu y costau.

Yr wyf yn diolch i chwi, Syr, am eich caredigrwydd bob amser i mi. Y mae eich lluaws cymwynasau blaenorol, heb ddim ad-daliad ar fy ochr i, yn ddigonol i ryddhau eich urddas oddiwrth unrhyw gost pellach yn y ffordd hono. Yr wyf fi yn wir, yn fy swyddogaeth, wedi taro ar un o'r arglwyddi mwyaf caredig a hybarch, fy arglwydd ganghellydd; yr hwn sydd ganddo ofal tadol caruaidd a hynaws am danaf, yn hytrach na pharch arglwyddaidd, fel y cefais, trwy lawer o ffafrau uniongyrchol, brofi yn ddiweddar.

Bu hefyd yn ffodus i mi, oblegyd yr wyf yn ardystio nad wyf yn ei briodoli i unrhyw deilyngdod o'r eiddof fy hun, roddi i'r brenin, a'r tywysog, ryw foddhad anghyffredin yn Newmarket ddydd Mawrth diweddaf; ar ba adeg, trwy apwyntiad, y pregethais o'u blaen. Yr wyf wedi derbyn llawer o ddwfr sanctaidd y llys, os gallaf wneyd i mi fy hunan ryw les trwy hyny.

* "Po fwyaf yr ydwyf yn ei adnabod, mwyaf yr ydwyf yn ei garu."

† *Mark* sydd ddarn o aur gwerth 13s. 4c. CYF.

Digitized by Google

Yr wyf yn erfyn arnoch, Syr, erbyn y Grawys nesaf, pan fyddo eich mab yn gyfaddas i swydd, ar fod i ryw drefn gael ei darparu, fel y byddo yr arian yr ydych yn ewyllysgar i'w treulio am ei le, fod yn Llundain yn barod i mi alw am danynt: oblegyd *magistri nostri oculatas habent manus, credunt quod vident.**

Yr wyf wedi dwyn i weithrediad ysgrifrwym am 100*l.*, i dalu 50*l.* sydd yn ddyledus i mi oddiwrth fy nghefnder Henry Williams. Er mwyn Duw, os gellwch fy hysbysu o uurhyw foddion i'w cael, neu i gaffael unrhyw arian, bydded i mi gael eich cyfarwyddyd. Dyma y cwbl sydd genyf tuag at fy ngholl amser, treulion arianol, a llafur fy nghorph, yr hyn a gefais gydag ysgutoriaeth fy ewythr daionus. Fel hyn yr wyf yn darfod a'ch blino yn mhellach ar hyn o bryd, heb wybod pa mor hir y bydd y llythyr hwn yn dyfod atoch, gan argymhell fy ngwasanaeth i'ch urddas, ac yntau i amddiffyniad Duw. Gorphwysaf fyth,

Eich urddas, at eich gwasanaeth
hyd eithaf ei allu,
JOHN WILLIAMS.

Coleg St. Ioan, yn Nghaergrawnt
yr 22ain o Dachwedd, 1611.

---

## Rhif XIX.

### LLYTHYR ESGOB LINCOLN (WILLIAMS) AT SYR JOHN WYNN O WYDIR, BARWNIAD, WEDI I'W ARGLWYDDIAETH GOLLI Y SEL FAWR. Tudal. 422.

Syr,

Gyda chofion o'm serch a'm cariad goreu tuag atoch chwi—Trwy fy mod yn dra theimladwy o'r uchel ewyllys da hwnw a ddangosasoch bob amser tuag ataf, tybiais na byddai yn ddiangenrhaid i mi gymeryd y cwrs hwn gyda chwi, yr hyn ni wnaethum gydag un cyfaill arall yn y byd, fel ag i ddymuno arnoch beidio cythryblu eich hunan yn fwy o berthynas i'r anffawd ddiweddaf hon a ddygwyddodd i mi, nag y bydd i chwi ddeall yn fuan fy mod wedi gwneuthur felly fy hunan. Nid oes dim wedi dygwydd nad oeddwn wedi ei ragweled, ac (ar ol marw fy anwyl feistr,) yn ei ddysgwyl gyda sicrwydd; ac nid oedd yn fy ngallu i'w ragflaenu, oddieithr trwy aberthu fy safle dylodaidd, a'r hyn a ystyriaf yn mhell uwchlaw yr oll o'r cyfryw, sef fy nghymeriad. Gwn eich bod yn fy ngharu yn rhy dda i ddymuno am i mi fod yn afradlon yn y naill neu y llall o'r pethau hyn, neu barhau yn hwy (eto, nid yn hwy nag y rhyngai bodd i un dyn,) yn y trueni gogoneddus a'r ysplenydd-dra caethwasaidd, yn mha un yr wyf wedi byw (os gall dyn alw y fath galedwaith yn fywyd) am yn agos i'r pum' mlynedd diweddaf. Trwy golli y sêl, nid wyf wedi colli dim, na'm gweision ychwaith, trwy unrhyw fai o'r eiddof fi; nid oes dim wedi ei osod, nac hyd yn nod wedi ei sisial yn fy erbyn. Os nad oes genym yr un cyfleustra ag o'r blaen i wasanaethu y brenin, y mae genym lawer iawn mwy o

* "Y mae ein hathrawon yn moddu dwylaw gwasanaethgar, a chredant yr hyn a welant.

gyfleustra i wasanaethu Duw; yr hyn yr ydwyf yn ei gofleidio fel unig ddybeo Duw yn ei gariad a'i ragluniaeth tuag ataf, yn y cyfnewidiad disymwth hwn.

O berthynas i'ch mab *Owain Wynn* (yr hwn, yn nghyda'm dyled, ydyw holl wrthddrych fy meddyliau a'm gofalon bydol) mi a gyflawnaf tuag ato ef yr oll ag a allasai ddysgwyl oddiwrthyf, os byddaf byw; ac os marw a wnaf, mi a gyflawnais hyny yn barod.

Ni raid i chwi ofni dim allan o le ymherthynas i mi, gan eich bod mor gyfiawn a gofalus yn eich holl ddymuniadau a'ch eirchion; y mae genych befyd eich mab hynaf yn agos i'r brenin, ac o gymeriad da yn y llŷs, yr hwn a all roddi i chwi hanes cywir am unrhyw beth yr ymofynwch âg ef yn ei gylch.

Gan hyny, gobeithiaf y bydd i mi yn wastad ddal yr un safle ag o'r blaen yn eich serch; yr hwn, yn gyntaf, a osodwyd ar fy mherson, nid ar fy swyddogaeth ddiweddar, a'r hyn a deilyngaf trwy bob gwasanaeth cywir a serchiadol ag a orwedda o fewn fy ngallu. Terfynaf gyda'm gweddi ar Dduw am barhad eich iechyd; ac ymorphwysaf, eich tra chywir a serchus gyfaill,

a'ch cefnderw,

Bugdon, Rhag[r] 1, 1625. JO. LINCOLN.

Cyfarwyddedig at fy nghyfaill a'm cefnderw tra anrhydeddus a theilwng, Syr John Wynn, Marchog a Barwniad.

---

# Rhif XX.

## CYFRIF O'R PYTATWS A DROSGLWYDDWYD ALLAN O BORTHLADD CONWY, YN DANGOS FEL Y TYFIR Y GWREIDDYN GWASANAETHGAR HWNW MEWN CYLCH MOR FYCHAN.

Tudal. 432.

| Blwyddyn. | Bwsioll. | Blwyddyn. | Bwsioll. |
|---|---|---|---|
| 1758 | 1,006. | 1670 | 1,141. |
| 59 | 260. | 71 | 4,358. |
| 60 | Dim. | 72 | 9,625. |
| 61 | Dim. | 73 | 9,334. |
| 62 | 180. | 74 | 4,992. |
| 63 | Dim. | 75 | 13,653. |
| 64 | Dim. | 76 | 10,460. |
| 65 | Dim. | 77 | 11,356. |
| 66 | 2,129. | 78 | 5,928. |
| 67 | 252. | 79 | 13,318. |
| 68 | 132. | 80 | 13,200. |
| 69 | 180. | 81 | 5,140. |
| | | Cyfanswm, | 106,704. |

D.S.—Cyn y flwyddyn 1758, yr oedd holl Nant Conwy yn gorfod cludo i fewn yr oll o'r nwydd angenrheidol uchod.

Digitized by Google

## Rhif XXI.

### LLYTHYR ODDIWRTH EDWARD. IARLL CONWY, YN NGHYLCH DI-DOI, &c., CASTELL CONWY. Tudal. 435.

Anrhydeddus Gyfeillion,

Cefais yr anrhydedd o dderbyn eich llythyr o'r 20fed o Fedi, yn mha un yr ydych yn rhyngu bodd i ymholi, pa un a ydyw fy ngwas Milward yn gweithredu yn ol fy ngorchymyn, wrth dynu i lawr y plwm, y coed, a'r haiarn, yn nghastell Conwy: mewn atebiad i ba ymofyniad yr wyf yn cydnabod drwy hynyma, mai fy ngwaith a'm gweithred fy hun ydyw; ac fod y dywededig Milward wedi ei benodi genyf fi i werthu y coed a'r haiarn yn ol y cyfarwyddiadau a roddais iddo; ac i drosglwyddo y plwm i'r Iwerddon, lle yr hyderaf y bydd yn fwy gwasanaethgar i'w fawrhydi nag ydoedd yn y wlad hon. A thrwy fy mod yn cael y cyfleustra yma o'ch anerch, yr wyf yn gostyngedig ddymuno arnoch symud ymaith bob atalfa a roddasoch ar ei weithrediadau, ac i roddi iddo eich nawdd yn y cyfryw; am fy mod eisoes yn golledwr ar gyfrif taliad clud, a cholli adeg gyfleus at drosglwyddiad y plwm; er hyny bydd i mi ei ystyried yn rhwymedigaeth neillduol arnaf fi, a byddaf yn barod i arddangos hyny trwy bob gwasanaeth yn fy ngallu i bob un o honoch, o rhynga bodd i chwi ganiatâu hyn ar fy nymuniad; yr hyn, os amgen, a allai fy ngosod mewn peth trafferth ac oediad. Ac nid amheuaf na chyfarfyddaf âg achlysuron i dystio fy mod,

Anrhydeddus foneddigion,

Eich gwasanaethwr caredig ac ufydd,

CONWY a KILULTA.

Ragley, yn sir Warwick,
6ed Hydref, 1665.

Arysgrifen.
At yr anrhyd. Thomas Bulkeley, ysw.; y Milwriad Wynn, Hugh Wynn, ysw.; Thomas Vaughan, ysw.; is-raglawiaid ei fawrhydi yn Ngogledd Cymru.

---

## Rhif XXII.

### HAELIONI YN BODSCALLAN YN YSTOD AMSER Y DIWEDDAR ROBERT WYNN, YSW Tudal. 438.

Rhaglen o Giniaw Nadolig y Rhydd-ddeiliad yn Bodscallan.

Arferai 60 neu 70 giniawa wrth y ddau fwrdd.

Ni oddefid i un ddiod arall ond *black strap*, 7 mlwydd oed, 'yn cynwys 24 bwaiel mewn baril (36 galwyn) gael ei hyfed ar ddydd gwyl St. Ioan.

Digitized by Google

D.S. hefyd, ychydig wenith wedi ei grasu a'i fwrw i'r cwrw hwn, er ei addfedu.

Dwy forddwyd o folltgig wedi eu berwi, gyda maip wedi eu trin.

Cloren o gig eidion wedi ei ferwi, a bresych wedi eu trin; gyda syrlwyn o gig eidion rhost.

Porc a phytatws wedi eu berwi.

Twrci rhost.

Pwdin brith, wedi ei grasu.

Pastai o folltgig.

Gŵydd, gyda phwdin melus o rynion oddi tani.

Dwy lwyn o folltgig wedi eu rhostio.

Pwdin cwstard.

19 o friw-basteiod.

Pwdin siwet wedi ei ferwi.

Morddwydydd o borc wedi eu rhostio.

Gŵydd, gyda phwdin melus o rynion oddi tani.

Pastai o folltgig.

Pwdin brith wedi ei grasu.

Twrci rhost.

Dryll o borc berwedig a phytatws.

Cloren o gig eidion wedi ei berwi; gyda syrlwyn o gig eidion rhost.

Dwy forddwyd o folltgig gyda maip wedi eu trin.

## YR AIL FWRDD.

Cig eidion rhost.

Morddwyd o folltgig wedi ei berwi.

Gwreiddiau wedi eu trin.

Gŵydd, gyda phwdin melus o rynion oddi tani.

Pwdin wedi ei grasu.

Pastai o folltgig.

Briw-basteiod, dwsin

Pastai o folltgig.

Pwdin wedi ei grasu.

Gŵydd, a phwdin melus o rynion oddi tani.

Pwdin pŷs.

Morddwyd o folltgig.

Morddwyd o borc berwedig a phytatws.

Digitized by Google

# RHIF XXIII.

## ANERCHIAD TRIGOLION SIR GAERNARFON AT RHISIART CROMWEL.

Anerchiad gostyngedig ustusiaid yr heddwch, boneddigion, gweinidogion, ac ereill, deiliaid ufudd a ffyddlawn eich uchelder, sef trigolion sir Gaernarfon,

Yn amlygu,

Nas gall yr oruchwyliaeth bresenol o ragluniaeth ddwyfol gyda golwg ar farwolaeth ei ddiweddar uchelder, a'r penodiad o eiddo eich uchelder breninol fel olynydd yn llywodraethiad y cenedloedd hyn, lai nag enyn ynom ystyriaethau gwahanol, yn gystal o farn ar un llaw, a thrugaredd ar y llall; ac am hyny, heblaw ein deisyfiadau at drefnwr Ollddoeth y rhagluniaethau hyn, ar fod iddynt ddwyn gwelliantau cyfaddas i'w ogoniant, a lleshad y genedl, yr ydym yn gwneyd yn hyf, trwy yr anerchiad yma, i ddatgan ein cydnabyddiaeth o'ch uchelder yn y llywodraeth hono, o dan ba un, fel y gorphwysai yn eich tad, o ddedwydd goffadwriaeth, y rhedai barn i lawr fel dwfr, a chyfiawnder fel afon lifeiriol; duwioldeb a gefnogid, a gelynion gwirionedd a heddwch a anghefnogid; a'r teyrnasoedd hyn o'r ciddom a wnaethpwyd yn gartrefleoedd cyfiawnder, ac yn *fynydd* o sancteiddrwydd. Ac yn gymaint a'n bod yn gweled fod Duw y nefoedd (yn nwylaw yr hwn y mae calonau tywysogion) wedi gwisgo eich uchelder âg yspryd, trwy yr hwn y mae wedi eich cymhwyso i drin materion pwysig y genedl fawr hon, yr ydym yn edrych arnom ein hunain fel rhai dan rwymau i erfyn ar yr Arglwydd, ar fod iddo lwyddo eich cynghorion, a'ch ymgymeriadau uchel dros y grefydd ddiwygiedig mewn gwledydd tramor, a diwygiad cartrefol. Erfyniwn hefyd ar eich uchelder, tra yn dylyn yn llwybrau eich tad, ar i chwi fyned yn mlaen lle y dechreuodd efe, ac ateb dysgwyliadau mawrion y genedl, yn narostyngiad heresi, ofergoeledd, halogrwydd, ac anghyfiawnder, ac yn nghynaliaeth ordinhadau dwyfol yr heddynadaeth a'r weinidogaeth; mewn bod yn dad i'r rhai a ofnant yr Arglwydd, ac yn ngwneuthuriad eich person a'ch llywodraeth yn ofnadwy yn nghalonau eich holl bobl, a thrwy eich ymddangosiad fel amddiffynydd y gwirioneddau dwyfol a dueddant i ddyrchafu Crist, ac er tangnefedd i'r cenedloedd hyn. Ac ar fod i'ch uchelder fyned yn mlaen yn ddedwydd yn y pethau hyn, y bydd i chwi gael gweddi

Gweision mwyaf ffyddlon eich uchelder,

Thomas Madryn.

John Jones, Gweinidog,
Ellis Rowlands,
Rob[t] Jones, Gweinidog.

David ap Rob[t],
Evan Lloyd,
Gruffydd Jones,
Rob[t] Owen,
Hugh Gwynne,
Richard Glynne,
Owen Hughes,
William Owen,

Henry Glynne,
Owen Robert,
Will[m] Richard,
David Evans,
Thomas Owen,
Will[m] Lloyd.

Digitized by Google

## Rhif XXIV.

### SIARTR GWENWYNWYN I FYNACHOD YSTRAD MARCHELL.

(Tudal. 474.)

[Y mae y gwreiddiol wedi ei ysgrifenu yn Lladin, a'r iaith yn hynod o lygredig.]

Bydded hysbys i holl feibion y Sanctaidd Fam Eglwys, yn gystal y rhai sydd yn awr a'r rhai a ddêl, fy mod i, Gwenwynwyn mab Owain Cyfeiliog, wedi rhoddi i Dduw a'r ogoneddus Forwyn Fam, ac i'r mynaich o Ystradmarchell, er iechyd fy enaid, i fod yn elusen rhad a thawel a pharhaus, holl borfeydd y dalaeth gyfan a elwir Cyfeiliog rhwng y terfynau hyn, sef o Afon Maen Melyn hyd at Lwyn y Groes, ac oddiyno ar yr union hyd at Flaen Nant Hannang, ac oddiyno o Nant Hannang hyd at ei Haber, ac oddiyno hyd at Abernant Garth Branddu, ac ar hyd yr afonig ei hunan hyd at ei blaen, ac oddiyno ar Wyrgam hyd at Garneddwen, ac oddiyno hyd at Gobleiddie, ac o Ben Gobleiddie Blaen Nant Tylinge hyd at yr Aber, ac oddiyno o'r Bache hyd at Aber Dyfyngwm, yn mlaen hyd lan y Dyfyngwm at ei tharddiad, ac oddiyno hyd at Relligogey, ac yn mlaen hyd at y Rhydiol, ac ar hyd y Rhydiol at Gwrydkay, ac oddiwrth y Rhydiol drachefn hyd at Aber Kamddwr Cyfeiliog, ac o Aber Kamddwr Cyfeiliog hyd at ei tharddiad, ac oddiyno ar yr union at Flaen Einiawn, ac oddiyno ar hyd yr Einiawn at yr Aber, ac oddiyno ar hyd lan y Dyfi at Aberdulas, ac oddiyno hyd lan y Dulas at ei tharddiad, ac oddiyno yn union at Gefn y Bwlch, ac oddiyno at Flaen Llwydo, ac hyd lan y Llwydo at yr Aber, ac oddiyno at y Dyfi, ac oddiyno at Aber Llywenith, ac felly hyd lan Llywenith at ei tharddiad, ac oddiyno yn union at Rhyd Pebyll uwch Clawedog, ac oddiyno ar hyd Clawedog at Gwernach, ac ar hyd Gwernach a ei tharddiad, ac oddiyno fel yr arwain uchder y mynydd at Rhyd Dderwen, ac felly ar hyd y Dderwen at y Fyrnwy, ac oddiyno at Nant yr Eira, nes cyrhaedd Lledwer ac Ablaen Lleddwern yn union at fôn Maen Melyn. Yr holl borfeydd, felly, a roddais i, y Gwenwynwyn rhagddywedig, i'r mynaich a ragenwyd o fewn y terfynau a ragfynegwyd.—Yn y Flwyddyn Oed ein Harglwydd 1201.

---

## Rhif XXV.

### BEDDARGRAFF PENNANT YN EGLWYS WHITEFORD.

Y Gofadail yma a godwyd yn hytrach oddiar dduwioldeb mabaidd, na chyda'r bwriad o ychwanegu at barhad coffadwriaeth

THOMAS PENNANT.

Bydd i'w garedigrwydd gweithgar, a'i rinweddau neillduol, sicrhau iddo goffadwriaeth fwy parchus yn y gymydogaeth hon.

Bydd i'w lafur llenyddol enill iddo anfarwoldeb yn mysg y sawl y darfu iddynt, y rhai, trwy ddefnydd canmoladwy o'u talentau, a addysgasant ac a wnaethant les i ddynolryw.

Bu farw yn Downing, ei balas genedigol, Rhag. 16eg, 1798, yn y 73ain mlwydd o'i oed.

Digitized by Google

## RHIF XXVI.

### AMDDIFFYNIAD THOS. PENNANT RHAG Y PRESS GANGS, NEU LADRON DYNION.

**THOMAS PENNANT, y dygiedydd, 25 oed, pum' troedfedd ac wyth modfedd o daldra, o berson hardd, ffurfiad da, y fath ag a ystyrir yn alluog, yn gwisgo ei wallt ei hun, o wynebpryd teg, ac yn iach o ran ei wynt a'i aelodau.**

---

## RHIF XXVII.

### ADRODDIAD, WEDI EI DYNU ALLAN GAN RICHARD FENTON, HANESYDD SIR BENFRO, YNGHYLCH CYNYGIAD AT DDWYN ALLAN ARGRAFFIAD WEDI EI HELAETHU O DAITH PENNANT YN NGOGLEDD CYMRU.

O LAWYSGRIF YN MEDDIANT O. B. DAVIES, YSW., WEDI EI YSGRIFENU ODDEUTU 1808.

ADRODDIAD o ffeithiau yn mherthynas i argraffiad newydd o "Ogledd Cymru" Mr. Pennant, am yr hyn yr oedd R. Fenton wedi gwneyd cytundeb â'r Meistri Longman & Co., a Mr. White, i'w olygu a'i helaethu i faintioli cyfrol arall.

Mewn canlyniad i gynygiad a wnaed i R. F. am argraffiad newydd o "Ogledd Cymru" Mr. Pennant, ymgynghorodd R. F. â'i gyfaill Syr R. Hoare cyn iddo gytuno â'r cais, yr hwn a'i hanogai yn fawr i ymgymeryd âg ef; gan hysbysu ar yr un pryd y byddai yn dda ganddo ddarparu cyfres newydd o ddarluniau at y gwaith, a chydwelai â R. F. ar y priodoldeb o ysgrifenu at Mr. Pennant ar y pwngc, yr hyn a wnaethpwyd yn unol â hyny. I lythyr R. F. ymostyngodd Mr. Pennant i anfon ateb o'r fath mwyaf moesgar, yn mha un, wedi datgan ei syniadau gyda golwg ar y modd y cyhoeddid y gwaith, sylwedd yr hyn ydoedd, na byddai i waith ei dad gael ymyryd âg ef; neu mewn llythyr a ysgrifenodd ar yr un adeg at Mr. White, na byddai i ddim mater newydd gael ei *gydgymysgu* â'r hen, efe a ddywed, fod yn ddedwydd ganddo feddwl fod y gorchwyl i gael ei osod yn nwylaw R. F.; ac y mae yn rhoddi canmoliaeth tra uchel, ond haeddiannol, i Syr Richard Hoare am gynyg ei wasanaeth, gyda gwahoddiad i Downing pan fyddai efe a R. F. yn pasio y ffordd hono, fel yr oeddynt yn bwriadu gwneyd. Wrth gŵrs, dangoswyd y llythyr hwn i Syr Richard Hoare, ond ni ddarfu iddo ef na R. F. ystyried ei fod yn galw am unrhyw atebiad, ac yn wir, barnai R. F. y buasai yn anfoesgar ynddo ef, fel dyn dyeithr, wthio yn mlaen ohebiaeth yn ddiachos gyda Mr. Pennant. Yn fuan ar ol hyn aeth R. F. i Lundain, a chafodd gyfarfod ar y pwngc uchod gyda'r Llyfrwerthwyr, gan ddwyn gydag ef lythyr Mr. Pennant i ffurfio seiliau yr ymdrafodaeth, ar yr un pryd yn ystyried fod gan Mr. White gyflawn alluoedd

Digitized by Google

ac awdurdod i wneyd cytundeb âg ef. Y pryd hyny cytunwyd rhwng y pleidiau, fod gwaith Mr. Pennant i gael ei gyhoeddi heb ymyryd yn y modd lleiaf â'i destyn, ac fod mater newydd i gael ei ddwyn i mewn, pan fyddai galw am hyny, gyda chromfachau gwahaniaethol neu ddynodiadol rhwng y gwreiddiol a'r ychwanegiad, ac fod i unrhyw nodiadau a ychwanegid gael eu nodi allan gyda'r llythyren F. Yn awr, yn yr ymdrafod hwn, hyd yn nod pe buasai R. F. wedi cytuno â chynygiad hollol groes i feddylddrych Mr. Pennant, yr oedd efe yn gweithredu fel gwas, ac yr oedd y bai, os oedd unrhyw, i gael ei briodoli i'r sawl oedd yn ei osod ar waith; ond R. F. gan ewyllysio ymddwyn gyda mwy o foesgarwch, a farnai fod y cynllun a fabwysiadwyd at gyhoeddi yn gyfryw ag na allasai weithredu yn groes i ddymuniadau Mr. Pennant, fel yr oeddynt wedi eu hamlygu yn ei lythyr at Mr. White, lle y dywedai, nad oedd y sylwadau newyddion i gael eu *cydgymysgu* â'r gwreiddiol, hyny ydyw, fel yr ymddengys fod R. F. a'r rhai a'i gosodent ar waith yn ei ddeall, eu *cydgorphori.* Llaw-nodwyd cytundebau ar y cynllun uchod, eto ni ysgrifenwyd llinell, ac felly arosodd gwaith y diweddar Mr. Pennant heb ei lygru gan ysgrifell R. F., pan y derbyniodd lythyr oddiwrth Meistri L. & Co., yr hwn a ddangoswyd i Syr J. W., ac un arall ar ol hyny, yn cynwys cynygion rhy ddarostyngol i R. F. allu cydsynio â hwy, hyd yn nod pe gallasai benderfynu yn annibynol ar Syr Richard Hoare, yr hwn a roddasai ei benderfyniad pendant i'r Llyfrwerthwyr ar y pwngc; ac felly R. F., er y gallasai hawlio cyflawniad ei gytundeb, fel na byddai yn achos o unrhyw rwystr i Mr. P., yr hwn oedd yn cychwyn fel golygydd ei hunan, a lwyr roddodd y peth i fyny.

---

## RHIF XXVIII.

# Y "LLWYTHAU BRENINOL A PHENDEFIGOL."

### GYDA RHAGARWEINIAD GAN W. TREVOR PARKINS, ESQ.

ARGRAFFWYD yr hanes tra dyddorol a ganlyn, am LWYTHAU BRENINOL A PHENDEFIGOL GOGLEDD CYMRU, fel Attodiad i Hanes Whiteford a Threffynon, yr hwn, gydag un eithriad, ydoedd y gwaith olaf o eiddo Mr. Pennant, ac ymddangosodd yn 1796. Y mae y gofrestr o ddisgynyddion y gwahanol lwythau, yr hon a ffurfia ran mor fawr o'r hanes yma, i'w phriodoli i Mr. Pennant. Parotowyd y rhestr o deuluoedd yn ofalus ganddo ef, a gorphwysant, fel y maent wedi eu rhoddi, ar ei awdurdod ef.

Dywedir fod gwahanol restrau o'r pymtheg llwyth yn amrywio; a rhifnodir y llwythau yn fynych yn wahanol, tra y mae yr enwau eu hunain yr un peth. Fel hyn, yn Llyfr Achau y Salsbriaid, cyfateba y llwythau âg eiddo Pennant, ond y mae y trefniad o honynt yn gwbl wahanol; dechreua y rhestr yno gydag *Efnydd*, yr hwn a osyd efe fel y 14eg, a therfynir gyda'r tri llwyth a ddyry efe yn gyntaf.

Digitized by Google

Rhaid edrych ar ddechreuad gwirioneddol y llwythau fel peth tywyll. Ni sylwir arnynt gan Giraldus Cambrensis, yr hwn ei hunan oedd yn ŵyr i Rhys ap Tewdwr (un o'r rhai y tybir eu bod yn sylfaenwyr iddynt,) yr hwn a deithiodd trwy Gymru gyda'r archesgob Baldwin, pan y pregethai Ryfeloedd y Groes yn 1187. Y mae y dystawrwydd hwn yn fwy hynod, am fod Giraldus wedi cyflwyno pennod o'r *Topographia Cambriæ* i ddysgrifio cariad y Cymry at uchel waedoliaeth a hen achyddiaeth, ac yn arbenig dysgrifia y dull yn mha un yr oedd eu hachau yn cael eu cadw. Os oedd y llwythau wedi eu sefydlu ganrif cyn iddo ef ysgrifenu, y mae yn anhawdd deall pa fodd na buasai yn cyfeirio atynt.

Mynych ddyfynwyd hanes traddodiadol y llwythau, fel y mynegir ef gan Robert Vaughan: y mae yr adran a ddygwydda ar ddiwedd yr Hanes am *Bum' Llwyth Breninol Cymru* fel y canlyn:—

"Y tywysog Gruffydd ap Cynan, Rhys ap Tewdwr, a Bleddyn ap Cynfyn, a wnaethant ymchwiliad manwl am bais-arfau, baneri, ac achau eu hynafiaid, pendefigion a breninoedd y Brytaniaid. Yr hyn a ddarganfyddasant, trwy eu llafur, mewn papurau a chofnodau, a drefnwyd wedi hyny gan y beirdd, ac a osodwyd mewn llyfrau. A hwy a ordeiniasant bump o lwythau breninol (nid oedd namyn tri yn flaenorol i hyny,) o ba rai y mae eu hiliogaeth hyd heddyw yn gallu olrhain eu hunain: ac hefyd bymtheg o lwythau arbenigol, o ba rai y mae boneddigion Gogledd Cymru, gan mwyaf, wedi hanu. Ac yn ein llyfrau yr ydym yn cael crybwylliad am lwyth y *Cyffindiroedd*, &c.; heblaw llwythau ereill a elwir *Gwehelyth* a *Gwehelaethau*."

Wrth ystyried yr hanes yma, y mae yn angenrheidiol cofio fod Bleddyn ap Cynfyn, ar ol teyrnasu am ddeng mlynedd, wedi cael ei ladd yn 1072; fod Gruffydd ap Cynan wedi aros yn yr Iwerddon hyd ar ol marwolaeth Bleddyn, ac iddo deyrnasu o 1075 hyd 1136: ac fod Rhys ap Tewdwr, yr hwn a fu yn frenin Deheubarth Cymru o 1077 hyd 1089, pryd y gorchfygwyd ac y lladdwyd ef gan Iestyn ap Gwrgant, hefyd mewn alltudiaeth yn ystod teyrnasiad Bleddyn. Y mae yr hanes megys yn gosod allan fod y tri thywysog hyn yn cydweithredu er cario allan amcan cyffredinol, yr hyn y mae eu hanes yn ei arddangos fel peth amhosibl: a dysgrifia hwy fel yn ffurfio y pymtheg llwyth, er fod amryw o'r llwythau hyny yn dechreu mor ddiweddar a theyrnasiad Owain Gwynedd, mab ac olynydd Gruffydd ap Cynan. Dysgrifia hwynt yn mhellach fel yn chwilio am "bais-arfau" eu hynafiaid, er iddynt oll fyw a marw cyn yr amser pan y daeth pais-arfau treftadol i gael eu gwisgo, neu cyn i herodraeth fodoli.

Yn ychwanegol at yr anhawsderau hyn yn yr hanes, y mae amgylchiad pellach ag sydd yn taflu amheuaeth arno fel hanes credadwy am wirioneddol ddechreuad y llwythau. Amlwg ydyw fod yn rhaid i lwyth, yr hyn ydyw uniad amryw deuluoedd yn disgyn o un penceneddl, fod yn dyfiad amser, a dyfod i fodolaeth yn araf, ac nas gallesid ei sefydlu yn oes ei batriarch cyntefig; ac os ydyw hyny felly, amhosibl ydyw credu fod y personau urddasol oddiwrth ba rai y mae y prif lwythau breninol yn hanu eu tarddiad, wedi gallu ymarfer yr awdurdod, gyda golwg arnynt eu hunain a'u disgynyddion, a briodolir yma iddynt.

Digitized by Google


Ymddengys hefyd fod y pais-arfau a briodolir i'r llwythau yn taflu ychydig o oleuni pellach ar eu hanes. Tebyg ydyw fod rhai Bleddyn ap Cynfyn wedi eu mabwysiadu oddiwrth bais-arfau y *Fitzalans*, ieirll galluog *Arundel*, arglwyddi Croesoswallt, y rhai a fuont yn arglwyddiaethu yn hir yn y cyffindiroedd Cymreig. Y mae rhai Iestyn ap Gwrgant wedi cael newid ychydig arnynt oddiwrth bais-arfau ieirll Caerloyw a Clare. Tra y mae tri llew Lloegr, wedi eu newid o aur i arian, yn cael eu priodoli i Gruffydd ap Cynan. Gellir sylwi yn mhellach fod Ethelystan Glodrydd, yr hwn a flodeuai tua diwedd y ddegfed ganrif, a Chilmin Droed-ddu, yr hwn y dywedir ei fod yn byw yn llawer iawn boreuach, yn meddu eu pais-arfau wedi eu chwarteru; ac yn gymaint nad oedd chwarteru pais-arfau wedi ei fabwysiadu yn gyffredinol hyd ddiwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg, y mae yr amgylchiad hwn yn argoelu yn gryf gyda golwg ar yr amser pan y dechreuodd herodraeth y llwythau.

Po gellid dangos fod y llwythau breninol a phendefigaidd wedi gwasanaethu i ryw ddyben buddiol, fel sefydliad gwladol neu gymdeithasol, ni buasai y gwrthddywediadau a geir mor fynych yn eu herodraeth yn cael edrych arnynt ond fel materion heb fod o bwys gwirioneddol; ond os na ddarfu i'r llwythau chwareu unrhyw ran mewn hanesyddiaeth, ac os ydyw eu tarddiad yn ol pob tebygolrwydd i'w briodoli i feirdd ac achyddion, yn hytrach nag i ddeddfwneuthurwyr a thywysogion, gall yr amherffeithderau amlwg yma ein cynorthwyo i benderfynu y cyfnod gwirioneddol pryd y sefydlwyd hwy.

Perthyna y pymtheg llwyth yn gyfangwbl i *Wynedd*. Ceir hwy yn benaf yn siroedd Môn a Chaernarfon, ac yn y parthau hyny o siroedd Dinbych a Fflint nad oeddynt yn perthyn i Bowys. Y mae eu dosparthiad yn dra direol, ond ymddengys fod rhywbeth lleol yn eu hardrefniad. Penau y ddau ddosparth o lwythau ydynt amrywiaeth o benaethiaid yn cwbl wahaniaethu mewn nodwedd ac mewn pwysigrwydd, rhai o honynt yn byw mor foreu a'r 9fed ganrif, rhai mor ddiweddar a'r 12fed ganrif, ac y mae yn annichonadwy gwneyd allan ar ba dir y mae llawer o'r personau hyn wedi cael eu dewis. "Cofnodir sylfaenwyr ereill," fel y sylwa Mr. Yorke yn ei ragymadrodd i'w *Llwythau Breninol*, "ond ni chynwysir hwy yn y llwythau, er yn fwy teilwng na rhai a anrhydeddwyd â'r rhagorfraint hono."

Gellir clirio ymaith lawer o anhawsderau ond i ni gredu fod y llwythau wedi cael eu sefydlu ar ol teyrnasiad Owain Gwynedd, yn mlynyddau olaf annibyniaeth cenedlaethol, a'u cyfyngu i'r rhanbarthau hyny a arosent yn anorchfygedig. Gallai fod yr arwyddluniau herodrol, amryw o ba rai a ymddangosant yn fwy diweddar, wedi myned trwy gyfnewidiadau, ac yn y diwedd gael penderfynu arnynt mewn cyfnod diweddarach. Cynwysa llwyth y Cyffindiroedd, yr hwn a restrir gan Mr. Pennant fel yr XVIeg o'r llwythau pendefigol, luaws o deuluoedd a allant olrhain eu disgyniad o Dudur Trefor, a pherthynant oll i Bowys. Nid oes i'r llwyth hwn unrhyw gysylltiad â'r gweddill, a diau fod ei ffurfiad yn fwy diweddar.

Dichon fod y llwythau, i ryw raddau, yn tarddu o ran eu dechreuad o'r hen gyfundrefn dylwythol, yr hon, fel yr ymddengys oddiwrth hen gyfreithiau Cymru, ydoedd ar un adeg yn gyffredinol. Yn y cyfreithiau hyny dysgrifir




**V. ROYAL TRIBES OF CAMBRIA.**

*PAIS-ARFAU PUM' LLWYTH BRENINOL CYMRU.*

Digitized by Google

y "*Pencenedl*" fel person tra phwysig, wedi ei ddewis, fel yr ymddengys, i gynrychioli holl aelodau y llwyth, y rhai a rwymid gyda'u gilydd gan amrywiaeth o reolau. Yr oedd nifer o ddarpariadau yn ei gwneyd yn angenrheidiol i rydd-ddinasydd feddu cydnabyddiaeth cywir â hanes ei deulu, ac yn cefnogi, os nad yn achlysuro, y serch hwnw at ddysgeidiaeth achyddol a barodd i Giraldus ryfeddu.

Un o ddyledswyddau y beirdd ydoedd cadw i fyny y ddysgeidiaeth hon, a pharhausant trwy yr oll o'r canoloesoedd i fod yn "gofnodwyr pais-arfau y boneddigion Cymreig, ac yn brif gronfeydd achyddiaeth teuluoedd." Dibynent ar ffafr y cyfoethog a'r galluog, a chan eu bod o angenrheidrwydd yn dueddol i wenieithio i falchder eu noddwyr, nid yw yr hanesion a draddodwyd ganddynt i ni bob amser yn unffurf.

Y mae y llwythau breninol a phendefigol, pa beth bynag a fu yr achosion a arweiniasiant i'w ffurfiad, yn gofnodiad hynod a dyddorol, yn cynwys llawer o deuluoedd, ac o werth mawr i'r hanesydd yn ogystal a'r achyddwr. Erys yr hanes a ddyry Pennant am danynt, yr hwn a ail-argraffir yma, o hyd y goreu o honynt. Y mae Mr. Yorke, yn ei *Lwythau Breninol*, wedi casglu lluaws o fân hanesion, y rhai a adroddodd yn foddhaus, a bydd i'r rhai a ymhoffant mewn bywgraffiadau gael gwir ddifyrwch yn ei dudalenau ag ydynt rywbeth yn amherthynasol. Ond nid oedd ei wybodaeth mor gywir; a chyda golwg ar wirioneddol hanes y llwythau, nid ydyw wedi ychwanegu braidd ddim at amlinelliad eglurach ei ragflaenydd.

NODIAD.

Ceir Ordinari o bais-arfau llawer o deuluoedd Cymreig yn yr *Archæologia Cambrensis* am 1851 (cyf. 2 o'r ail gyfres.) Y casglydd, yr hwn a eilw ei hunan A.C., gan arwyddo, fel y gallem feddwl, *Anglo-Cambrian*, a ragymadrodda yr Ordinari yma, gyda llythyr dyddorol, yn cynwys rhai sylwadau gwerthfawr ar hanes Herodraeth yn Nghymru. T.P.

# Y PUM' LLWYTH BRENINOL.

## Pum' Llwyth Breninol Cymru, o'r "*British Antiquities Revived:*" gan ROBERT VAUGHAN, Yswain, o Hengwrt, yn sîr Feirionydd.*

### I.

GRYFFYDD AP CYNAN, brenin Gwynedd, ydyw y cyntaf a gofrestrir yn ein llyfrau. Yr oedd efe yn ŵyr i'r tywysog Iago ap Idwal, mab yr

* Bu farw Robert Vaughan o Hengwrt yn 1666. Ei *British Antiquities Revived* a gyhoeddwyd yn 1662, ac ail-argraffwyd ef yn y Bala yn 1834. Y mae Pennant wedi ychwanegu at bob llwyth restr o'r disgynyddion yn y llinach wrrywaidd a benywaidd; nid oes restr felly yn cael ei rhoddi gan Robert Vaughan, yn ei hanes byr am y Pum' Llwyth Breninol. T.P.

Digitized by Google

hwn Cynan, a orfodwyd i ffoi i'r Iwerddon am adyogelwch, lle y priododd Ranullt, merch Auloedd, brenin Dublin, Ynys Manaw, a'r Ynysoedd, a gweddw Mathganyn, brenin Ulster, a chafodd o honi hi y Gruffydd hwn.—*He beareth gules, three lioncels passant in pale barry argent, armed azure.**

DISGYNYDDION AR GAEL YN Y LLINACH WRRYWAIDD.

WYNNIAID, ... o Bengwern, sir Feirionydd

DISGYNYDDION WEDI DARFOD, NEU YN Y LLINACH FENYWAIDD.

WYNNIAID, ... o Wydir, sir Gaernarfon.
o Wynnstay, sir Ddinbych.
o Bodscallan, a'r Berth ddu, } sir Gaernarfon.
o Gonwy, }
o Faes Mochnant, sir Ddinbych.
o Ystymcegid.
o Glenennau, sir Gaernarfon.
LLWYD, ... o Riwaedog, sir Feirionydd, yn awr Dolben.
POWEL, ... o Benmachno, sir Gaernarfon.
DAVIES, ... o Dal-llynt ar deni, } sir Feirionydd.
PRYSE, ... o Yscarweddan, }
ANWYL, ... o'r Parc.

## II.

RHYS AP TEWDWR MAWR (yr ail lwyth breninol,) yr hwn a gymerodd arno lywodraeth Deheubarth Cymru, B.A 1077.—*Gules, a lion rampant or, within a bordure indented.*†

DISGYNYDDION WEDI DARFOD, NEU YN Y LLINACH FENYWAIDD.

WYNNIAID, ... o Ddolau Bachog.
o Lan Erfyl, sir Drefaldwyn.
ST. OWAIN AP GWILYM, } o Dal-y-llyn, sir Feirionydd.
WYNN, ... o Goed-llai, sir Fflint.
OWAIN, ... o Gefn Hafod.
LLWYDIAID, ... o Blas uwch Clawdd, sir Ddinbych.
POWEL, ... o Geidio.
EVANS, ... o Dre' Castell.
JONES, ... o Haim.

* Ei bais-arfau, Coch, tri o genawon llewod ar gerdded, mewn lliw arian. Y rhan fwyaf o'i ddisgynyddion a wisgent bais-arfau ei fab, Owain Gwynedd, sef Gwyrdd, tri o eryrod ar adain a ffunen o liw aur.

† Sef yw hyny, Coch, llew aur ar ei ddau droed ôl, oddifewn i ymylwaith bylchog.

Digitized by Google

## III.

BLEDDYN AP CYNFYN, (y trydydd llwyth breninol,) brenin Gogledd Cymru a Thywysog Powys;* ac ar ol marwolaeth Meredydd ap Owain ap Edwyn, tywysog y Deheubarth,) daeth yn frenin ar holl Gymru.—*Or, a lion rampant gules, armed and langued or.*†

DISGYNYDDION AR GAEL YN Y LLINACH WRRYWAIDD.‡

| | | |
|---|---|---|
| KYNASTON, | ... | o Hardwick, sir yr Amwythig. |
| VAUGHANS, | ... | o Golden Grove, sir Gaerfyrddin. |
| LLWYD, | ... | o Gwm-bychan, } sir Feirionydd. |
| | | o Blaen Glyn } sir Feirionydd. |

DISGYNYDDION WEDI DARFOD. NEU YN Y LLINACH FENYWAIDD.

| | | |
|---|---|---|
| KYNASTONS, | ... | o Hordley. |
| | | o Ottley. |
| | | o Morton. |
| | | o Lwyn-y-Mapsis. |
| | | o Bont-y-Byrsley. |
| WILLIAMS, | ... | o Hinchinbroke, sir Huntingdon, o ba rai yr hanodd Cromwel, yr Amddiffynydd. |
| NANNEYS, | ... | o Nanney, sir Feirionydd. |
| MORYSIAID, | ... | o Loran, sir yr Amwythig. |
| KYFFINIAID, | ... | o Fodfach, sir Drefaldwyn. |
| | | o Faenan, sir Gaernarfon. |
| | | o Glasgoed, sir yr Amwythig |
| TANATIAID, | ... | o Abertanat, } sir Drefaldwyn. |
| MEREDYDD, | ... | o Lantanat, } sir Drefaldwyn. |
| POWELIAID, | ... | o'r Dre' Wen, sir yr Amwythig. |
| JONES, | ... | o Dreweithian. |
| MAESMOR, | ... | o Faesmor, sir Ddinbych. |
| HUGHES, | ... | o Gwerclas, sir Feirionydd. |

## IV.

ETHELYSTAN GLODRYDD (y pedwerydd llwyth breninol,) Tywysog y wlad§ rhwng yr afonydd Gwy a Hafren. Efe ydoedd fab i Cyhelyn ap Ifor, o

* Bleddyn ap Cynfyn, bob cwys,
Ei hun biocdd hen Bowys.

† Ei bais-arfau, Aur, llew coch ar ei ddau droed ôl, a'i dafod aur yn estynedig allan.

‡ Gall y darllenydd cywrain, yr hwn a ddymuna am fwy o wybodaeth yn mherthynas i'r llwyth hwn, a'i ddisgynyddion, ymofyn â thraethawd ar y pwngc, a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan fy nghyfaill teilwng Philip Yorke, yswain, o Erddig, boneddwr ag y mae cydnabyddiaeth ei wlad yn deilwng iddo, am y zêl mawr a arddengys yn y gwaith o egluro ei bywgraffiaeth hynafol.

Y cyfeiriad yma sydd at "*Draethodau Yorke ar Bowys,*" y rhai a gyhoeddwyd yn 1795; ymddangosodd ei *Lwythau Breninol* yn 1799, ar ol marw *Pennant.* T. P.

§ Y wlad rhwng y ddwy afon hyn a elwid gynt yn *Ferlys;* a meddai ei thywysogion ei hunan, yn annibynol ar Ddeheubarth Cymru.

Digitized by Google

Riengar, ferch ac etifeddes i Gronw ap Tudur Trefor, oddiwrth ba un y dygodd iddo y teitl o iarllaeth Henffordd.—Athelstan, brenin Lloegr, oedd ei daddbedydd.—Ethelystan (neu, fel y gelwir ef weithiau, Elystan,) a arferai ddwy o bais-arfau wedi eu chwarteru, *azure, three boars heads caboched sable, langued gules, tusked or.** Pais-arfau ei fam, *parted per bend sinister ermine and ermines; over all a lion rampant or.*†

DISGYNYDD AR GAEL YN Y LLINACH WRRYWAIDD.

| | | |
|---|---|---|
| CLYN, | ... | o Clyn, sir yr Amwythig. |

DISGYNYDDION WEDI DARFOD, NEU YN Y LLINACH FENYWAIDD

| | | |
|---|---|---|
| PRYSIAID, | ... | o Geri, } sir Drefaldwyn. |
| | | o Fodfach, } sir Drefaldwyn. |
| | | o'r Dre'nowydd, } sir Drefaldwyn. |
| | | o Benarth. |
| | | o'r Parc. |
| | | o Pilale, sir Faesyfed. |
| | | o Lanbister. |
| OLIVERIAID, | ... | o Nefoddwen. |
| LLWYDIAID, | ... | o Langynyw. |
| | | o Geri, sir Drefaldwyn. |
| | | o Fochdre. |
| WYNNIAID, | ... | o'r Gelli dywyll. |
| | | o Lanfendigedd. |
| OWEN, | ... | o Riw Saeson, sir Drefaldwyn. |
| PHILIPS, | ... | o Lan Ddewi. |
| VAUGHANS, | ... | o'r Bugeildy. |
| | | o Bant-y-Garreg. |
| MEREDYDD, | ... | o Lanasan. |
| OWAIN, | ... | o Morbend. |
| MORYS, | ... | o Geri, sir Drefaldwyn. |
| JAMES, | ... | o Groesgynan, sir Drefaldwyn. |
| MATTHEWS, | ... | o Blodwell, sir yr Amwythig. |
| | | o Fochdre. |
| POWEL,‡ | ... | o Westyn ac Ednop, sir yr Amwythig. |

* Hyny ydyw, Lliw yr awyr, tri phen baedd wedi eu tori, lliw du, eu tafodau allan, o liw coch, ysgithr-ddaint o liw aur.

† Hyny ydyw, Yn rhanedig gan dalaith wyrgam, ermin ac erminau; uwchlaw y cwbl, llew o liw aur ar ei ddau droed ôl.

‡ O'r teulu hwn yr hanodd Richard Powel o *Ethnop*, (neu, fel ag yr ysgrifenir enw y lle ar brydiau, *Edenhope*,) y bardd, awdwr y *Pentarchia*, yn cynwys hanes byr, mewn Lladin afrywiog, am lwythau breninol Cymru, a'u disgynyddion. Ysgrifenwyd y gerdd hon tua'r flwyddyn 1623. Y mae wedi ei chyflwyno i dywysog Cymru, wedi hyny Siarl y cyntaf.

Digitized by Google

# V.

**IESTYN AP GWRGANT** (y pummed llwyth breninol,) ydoedd dywysog neu arglwydd Morganwg; efe a hanai o Dewdric, brenin Gwent, yn amser y brenin Arthur. Collodd ei wlad i Robert Fitzhamon, a'i ddeuddeg marchog; y rhai, drwy gyfryngwriaeth Einion ap Cadifor ap Collwyn, a gyflogasai gyda byddin i'w gynorthwyo yn erbyn Rhys ap Tewdwr, tywysog Deheubarth Cymru, a Bleddyn ap Maenyrch, arglwydd Brycheiniog. Fel barnedigaeth arno, am ei anffyddlondeb i'r Rhys ddywededig, ei frenin, rhyngodd bodd i Dduw yn ddisymwth gospi bradwriaeth gyda bradwriaeth.

Rhys a Bleddyn, ar ol brwydr anarferol o waedlyd,* (nid yn mhell o Aberhonddu) a laddwyd ar y maes.—*Gules, three cheveronels, in pale argent.*†

DISGYNYDDION AR GAEL YN Y LLINACH WRRYWAIDD.

| | | |
|---|---|---|
| WILLIAMS,‡ | ... | o Tame. Iarll Abingdon. |
| NEWTONS | ... | o Heathley. |
| JONES | ... | o Craflwyn, sir Gaernarfon |
| | | o Dôl yr Edeirnion, } sir Feirionydd. |
| | | o Dôl y Môch, } sir Feirionydd. |
| MYTTLEY, | .. | o Myttley. |

Y Tywysog Gruffydd ap Cynan, Rhys ap Tewdwr, a Bleddyn ap Cynfyn, a wnaethant ymchwiliad dyfal am bais-arfau, llumanau, ac achyddiaeth eu hynafiaid, pendefigion a breninoedd y Brythoniaid. Yr hyn a ddarganfyddasant trwy eu llafur, mewn papurau neu gofnodiadau, a archwiliwyd wedi hyny gan y beirdd, a drefnwyd, ac a ddodwyd mewn llyfrau. A hwy a ordeiniasant bump o lwythau breninol (tra nad ydoedd ond tri o'r blaen,) o ba rai y dichon eu hiliogaeth olrhain eu hunain hyd y dydd hwn: ac hefyd, bymtheg o lwythau arbenigol, o ba rai y mae boneddigion Gogledd Cymru, gan mwyaf, wedi hanu. Ac yr ydym yn cael, yn ein llyfrau, grybwylliad am lwyth y Cyffindiroedd, &c., heblaw llwythau ereill a elwir Gwehelyth a Gwehelaethau.

* Ymladdwyd y frwydr hon yn y flwyddyn 1090. Cafodd Rhys, ein tywysog dewr, yr anrhydedd o syrthio ar y maes, yn y gwaith o amddiffyn ei wlad, ac efe yn yr oedran mawr o ddeunaw mlynedd a phedwar ugain.—*Wynne's Hist. Wales*, p. 112.

† Hyny ydyw, Coch, gyda thri chwpl mewn lliw arian.

‡ Yr Arglwydd Williams, o Tame, a wnaed yn Arglwydd Lywydd Cyffindiroedd Cymru, yn y flwyddyn gyntaf o'r frenines Elisabeth; a bu farw, fel y barnwyf, yr un flwyddyn, yn Nghastell Ludlow, yn mha le y cynhelid Llysoedd y Cyffindiroedd yn yr amser hwnw.

# Y PYMTHEG LLWYTH.

---

## Pymtheg Llwyth Gwynedd: o Lawysgrif yn meddiant y Parchedig L. Owen.*

### I.

HWFA† AP CYNDDELW (y cyntaf o'r pymtheg llwyth) a gydoesai âg Owain Gwynedd, tywysog Gwynedd. Y mae rhai llyfrau achyddol yn cadarnhau ei fod yn oruchwyliwr i'r tywysog hwnw.‡ Ei swyddogaeth, yn etifeddol, ydoedd dwyn coron y tywysog, ei dodi ar ei ben, pan fyddai Esgob Bangor yn ei eneinnio ef (fel y mae Nicholas, Esgob Bangor, yn sicrhau.) Ei dŷ ef, fel y tybiaf, ydoedd Presaddfed, yn Môn. Yr arglwyddiaethau ereill a feddai heblaw hyny, ac a grybwyllir am danynt yn *Arolygiaeth Gogledd Cymru*, oeddynt i gael eu rhanu rhwng ei bum' mab, sef Methusalem, Cyfnerth, Ieuan, Iorwerth, a Blettrws. Y mae llawer o foneddigion Môn yn dal tiraedd oddiwrtho ef trwy ddisgynlad llinachol, ond pwy ydyw ei etifedd nis gwn. Yr oedd Hywel-y-Pedolau yn ddyn enwog yn ei amser, ac yn disgyn o hono ef, gan ei fod yn fab i Gruffydd ap Meredydd ap Iorwerth ap Methusalem ap Hwfa ap Cynddelw. Mam Syr Hywel ydoedd mammaeth Iorwerth II.; a chan ei fod yn frawdmaeth i'r Brenin, yr oedd yn uchel yn ei ffafr: a gwnaeth ef yn farchog. Yr oedd yn ddyn anarferol o gryf, yn gymaint ag y gallai dori neu unioni pedolau ceffylau â'i ddwylaw. *His arms he beareth gules, between three lioncels rampant, a cheveron or.*§

DISGYNYDDION AR GAEL YN Y LLINACH WRRYWAIDD.

| | | |
|---|---|---|
| OWAIN, | ... | o Fodeon, sir Fôn, ac Orielton, sir Benfro, |
| | | o Benrhos, sir Drefaldwyn. |

DISGYNYDDION AR GOLL, NEU YN Y LLINACH FENYWAIDD.

| | | |
|---|---|---|
| WILLIAMS, | ... | o Lanbedr. |
| BOULD, | ... | o Dre'r Ddôl. |


* Y Parchedig Lewis Owen, o Erwgoed, yn mhlwyf Dolgelley, ydoedd Beriglor Llanbedr Dyffryn Clwyd. Rhoddwyd y llawysgrif yma, gan ei fab, y Parchedig Robert Owen, i'r diweddar Filwriad Vaughan o Rug, ac y mae yn awr yn nghadw, gyda llawysgrifau Hengwrt, yn Mheniarth. Llawysgrifen Robert Vaughan, yr hynafiaethydd, ydyw. Robert Owen, yr hwn a fu farw yn 1853, oedd olynydd gwrrywaidd diweddaf John, mab hynaf y barwn Lewis Owen, yr hwn a gynrychiolir yn awr yn y llinach fenywaidd gan Mr. Evan Garnons Lloyd, o Flaen-y-glyn, meddiannydd presenol Erwgoed. T. P.

† A elwir yn gyffredin yn Arglwydd Llŷs Llifon, yn Môn. ‡ Mon. Ant. tudal. 131.

§ Ei bais-arfau, Coch, a chwpl aur rhwng tri o genawon llewod ar eu traed ôl.

Digitized by Google

# XV. TRIBES OF NORTH WALES.




*PAIS-ARFAU PYMTHEG LLWYTH GWYNEDD.*

Digitized by Google

| | | |
|---|---|---|
| Owain, ... | o Frogyntyn, sîr yr Amwythig. | |
| | o Lanfaethlu. | |
| Morysiaid, ... | o Dre' Iorwerth. | |
| Wynniaid, ... | o Fodychen, | sîr Fôn. |
| | o Fodowyr, | sîr Fôn. |
| Gruffyddiaid, | o Chwaen, | sîr Fôn. |
| Lewisiaid, ... | o Bresaddfed, | sîr Fôn. |

## II.

LLYWARCH AP BRAN* (yr ail o'r pymtheg llwyth,) a flodeuai yn amser Owain Gwynedd, ac yr oedd yn frawd-yn-nghyfraith i'r tywysog, oblegyd yr oedd gwragedd y ddau yn chwiorydd, merched i Grono ap Owain ap Edwyn, arglwydd Tegeingle (fel y mae Gruffydd Hiraethog, a Syr Thomas ap Iefan ap Deicws, ac hefyd hen lawysgrif ar femrwn a ysgrifenwyd oddeutu pedwar can' mlynedd yn ol, yn tystio.) Pa swydd a ddaliai dan y tywysog, nid wyf yn gwybod. Dywed rhai ei fod yn oruchwyliwr i Owain, megys ag y cefais mewn llyfr o eiddo Syr Thomas ap Williams o Drefriw. Credaf ei fod yn preswylio yn y cantref a alwyd oddiwrtho ef yn Dref Llywarch, yr hon a gynwysa Gaer Gybi, a thri chyfair o dir, yn dwyn enw ei dri mab, nid amgen, Gwely Iorwerth ap Llywarch, Gwely Cadwgan ap Llywarch, a Gwely Madog ap Llywarch, megys ag y mae Mesuriad Gogledd Cymru yn dangos hyny. Yr oedd ganddo ŵyr hefyd trwy ei fab Iorwerth, a elwid Meredydd, yr hwn am ei wasanaeth da, a gafodd rydd-ddeiliadaeth tref-ddegwm Escyniog, iddo ef a'i etifeddion am byth, gan y tywysog Llewelyn ap Iorwerth, olynwyr yr hwn, nid amgen Ieuan Wyddel, a Thudur ap Hywel ap Tudur, a ddalient yr unrhyw trwy y rhoddiad a nodwyd, yn y chweched flwyddyn ar hugain o'r brenin Iorwerth y Trydydd, fel ag y gellir gweled yn Llyfr Mesuriad Gogledd Cymru. Mam Ieuan Wyddel ydoedd ferch i Arglwydd Cywchwr yn yr Iwerddon, yr hon a hanai o Iarll Kildare, o ba un y mae boneddwyr Mosoglen, Bodowyr, Porthamel, a llawer ereill yn disgyn.—*He beareth argent, between three crows with ermine in their bills, a cheveron sabl*:.†

DISGYNYDDION AR GOLL, NEU YN Y LLINACH FENYWAIDD.

| | | |
|---|---|---|
| Llwydiaid, ... | o Riwgoch, | sîr Feirionydd. |
| | o Faes-y-neuoedd, | sîr Feirionydd. |
| | o Hendre'r Mur, | sîr Feirionydd. |
| | o Fryn Hir. | |
| | o Goed-y-Rhygyn. | |
| | o Landecwyn. | |
| | o Gefnfaes. | |
| | o Gae Adda. | |
| Wynn, ... | o Fosoglen. | |

* Llywarch ydoedd arglwydd Cwmwd Menai yn sîr Fôn.

† E. bais-arfau, Lliw arian, cwpl du rhwng tair o frain gydag ermin yn eu pigau.

Digitized by Google

| | | | |
|---|---|---|---|
| PRYS, | ... | o Fodowyr, | sîr Fôn. |
| PARRY, | ... | o Fodafon, | |
| GRUFFYDD, | ... | o Gelynog fawr, sîr Gaernarfon. | |
| MEREDYDD, | ... | o Fonachdy Gwyn. | |
| | | o Hafod Lwyfog. | |
| | | o Borthamel. | |
| OWAIN, | ... | o Ruthyn, sîr Ddinbych. | |

# III.

GWEIRYDD AP RHYS GOCH, o gantref Tal-Ebolion yn Môn. Preswyliai yn Nghaerdegog, pentrefydd a thyddynod y lle a ddygant enwau ei blant a'i wyrion, megys Gwely Madog ap Gweirydd, Gwely Llywarch ap Gweirydd, Gwely Hywel ap Gweirydd, a Gwely Meurig ap Gweirydd, hen ŵyr pa un, Hywel ap Ieuan ap Ednyfed ap Meurig ap Gweirydd oedd mewn meddiant o Wely Meurig yn y chweched flwyddyn ar hugain o Iorwerth III.—*He beareth argent on a bend sable, three lions' heads caboched of the first.** Yr oedd yn byw yn amser Owain Gwynedd, a'i fab Dafydd ap Owain.

DISGYNYDD AR GAEL YN Y LLINACH WRRYWAIDD.

FFOWC, ... o Wernygron, sîr Fflint.

DISGYNYDDION AR GOLL, NEU YN Y LLINACH FENYWAIDD.

| | | | |
|---|---|---|---|
| LLWYD, | ... | o Waredog, | yn sîr Fôn. |
| WYNN, | ... | o Fodewryd, | |
| HUGHES, | ... | o Biwmaris, | |

# IV

CILMIN DROED-DDU,† yr hwn a flodeuai yn amser Merfyn Frych,‡ brenin Manaw, a mab i'w frawd, gyda pha un y daeth o ogleddbarth Prydain, pan y darfu i Merfyn briodi Esyllt, merch ac etifeddes i Gynan Tindaethwy, brenin y Brytaniaid. Pa swyddi a lanwai, ni bum yn alluog i gael allan. Yr oedd ei olynwyr yn ddynion doeth a synwyrol yn eu holl oesau; a llawer o honynt yn ddysgedig yn y cyfreithiau yn amser breninoedd a thywysogion Cymru, ac yn farnwyr; megys Morgeneu Ynad ap Gwrydr, a Chyfnerth ei fab, Llyfr Cyfraith yr hwn sydd eto ar gael, wedi ei ysgrifenu yn deg ar feinrwn; Morgeneu Ynad ap Madog; Morgan Ynad ap Meurig, a Madog Goch Ynad. Robert ap Meredydd ap Hwlcyn Llwyd, boneddwr doeth a moesgar, oedd yn byw yn amser Harri VII.; ac o hono ef y disgyna Glynniad Nantlle. Ei dŷ ef, fel y credaf, ydoedd Glynllifon, oddiwrth ba amgylchiad y cymerodd rhai

* Ei bais-arfau, Lliw arian, tri o benau llewod wedi eu tori ar dalaith ddu. Yn ol awduron ereill, Lliw arian, gyda thri o wynebau llewpardiaid ar dalaith ddu.

† Am ychwaneg o hanes Cilmin Droed-ddu, gwel tudal. 371 o'r gwaith hwn.

‡ Merfyn Frych a deyrnasai o'r flwyddyn 818 hyd 843.—*Powel's Hist. of Wales.*

Digitized by Google

o'i hiliogaeth yr enw Glynn. *He beareth quarterly, 1, argent; an eagle displayed with two heads sable; 2, argent, three fiery ragged sticks, gules; the 3rd as the second; the 4th as the first. Over all, upon an escutcheon of pretence argent, a man's leg coupé a la cuisse, sable.**

DISGYNYDDION AR GAEL YN Y LLINACH WRRYWAIDD.

GLYNNIAID, ... o Gastell Pen-ar-lag, sîr Fflint.
o Lundain.
HUGHES, ... o Fodryn.

DISGYNYDDION AR GOLL, NEU YN Y LLINACH FENYWAIDD.

GLYNNIAID, . o Lynllifon, o Leyar, o Nantlle, } sîr Gaernarfon.

## V.

COLLWYN AP TANGNO. Dywedir ei fod yn Arglwydd Eifionydd, Ardudwy, a rhan o Leyn; ac y mae yn wir fod ei hiliogaeth wedi bod yn feddianwyr ar, ac yn mwynhau y parthau mwyaf o'r wlad hono, ac yn parhau i fod felly hyd y dydd hwn. Ei wyrion, Asser, Meirion, a Gwgan, meibion Merwydd ap Collwyn, a flodeuent yn nechreuad teyrnasiad Gruffydd ap Cynan, fel y mae yn amlwg oddiwrth Hanes Bywyd† y Gruffydd hwnw, trwy ba un y gellir cael gwybod yn mha amser yr oedd Collwyn yn byw ac yn blodeuo. Dywedir ei fod yn preswylio am beth amser yn Nhŵr Bronwen yn Harlech, ac iddo alw y dref hono ar ei enw ei hun, Caer Collwyn. Ond yr oedd ei wyrion, a enwyd o'r blaen, pan y darfu i Gruffydd ap Cynan hawlio tywysogaeth Cymru, yn byw yn Lleyn, megys ag y mae ar gof yn y Llyfr Hanes ei Fywyd ag sydd ar gael. Ystyrid ei hiliogaeth bob amser fel yr ardderchocaf a'r goreu o ddynion yn Eifionydd ac Ardudwy, yn nesaf at y tywysogion a'u hiliogaeth. Anhawdd gwybod, a chyfrif o fab hynaf i fab hynaf, pwy yw ei wir etifedd, yn gymaint a bod etifeddiaeth pob dyn, yn ol cyfreithiau y Prydeiniaid, i gael ei rhanu rhwng ei blant, a'r mab ieuangaf a gaffai y prif dŷ; felly trwy fod pob un yn cael rhan gyfartal o diroedd eu tad, yr oedd ei hiliogaeth yn cael eu hanghofio.—*He beareth sable, between three flower-de-luces a cheveron argent.*‡

Syr Hywel y Fwyall, yr hwn a ddeilliai o Collwyn, ydoedd ryfelwr ardderchog, ac yr oedd yn mrwydr Poictiers gyda'r Tywysog Du, pan gymerwyd brenin Ffraingc yn garcharor: yn mha le, gyda'i fwyall, yr ymddygodd mor wrol, fel y gwnaed ef yn farchog gan y tywysog, a chaniatawyd i saig o fwyd gael ei gweini o flaen ei fwyall am byth, i gadw coffadwriaeth am ei wasanaeth

* Y mae ei bais-arfau wedi ei chwarteru, 1, arian, eryr du deuben ar adenydd; 2, arian, tair o ffyn bratiog tanllyd, cochion; y 3ydd fel yr ail; y 4ydd fel y cyntaf. Uwchlaw y cwbl, ar gwnsallt o liw arian, coes dyn wedi ei thori yn y forddwyd, o liw du.

† Ysgrifenedig yn iaith y Brytaniaid, gan fardd tra hynafol.

‡ Ei bais-arfau, Du, a chwpl arian rhwng tri o flodau eleetr, neu *flower-de-luces*.

daionus: yr hon saig o fwyd, ar ol ei farw ef, a ddygid i lawr, i gael ei rhanu i'r tylodion, er llesâd ei enaid; ac yr oedd i'r saig hono wyth o rydd-ddeiliaid i weinyddu arni, ar draul y brenin, y rhai a elwid ar ol hyny yn *Rhydd-ddeiliaid y Goron*, ac a dderbynient wyth geiniog yn y dydd o gyflog gwastadol, a pharhaodd hyny hyd ddechreuad teyrnasiad Elisabeth; (megys yn ol adroddiad y Rhingyll Roberts, o Hafod-y-Bwch, gerllaw Gwrecsam, a Robert Turbridge, o Gaerfallen, gerllaw Rhuthyn, yswain, y cofnodir yn hanes teulu ardderchog Gwydir, lle y gellwch gael yr adroddiad yma yn fwy helaeth.) Heblaw hyny, yr oedd efe yn dal y swydd o gwnstabl castell Cricieth, lle y cadwai dŷ; ac yn cael ardreth melinau y Ddyfrdwy yn Nghaerlleon, am ystod ei fywyd. Ei dad ydoedd Gruffydd ap Hywel ap Meredydd ap Einion ap Gwrganeu ap Merwydd ap Collwyn.—*His arms* were sable, between three flower-de-luces a pole-ax argent.*

DISGYNYDD AR GAEL YN Y LLINACH WRRYWAIDD.

WILLIAMS, ... o Aberarch, sîr Gaernarfon.

DISGYNYDDION AR GOLL, NEU YN Y LLINACH FENYWAIDD.

| | |
|---|---|
| BODWRDA, ... | o Fodwrda, } sîr Gaernarfon |
| BODFELIAID, ... | o Fadryn, } sîr Gaernarfon |
| JONES, ... | o Gastell-March, } sîr Gaernarfon |
| WYNN, ... | o Bant-du. |
| | o Bennardd. |
| | o Fodsanan. |
| | o Ben-y-Berth. |
| | o Ben Coed. |
| LLWYD, ... | o Fodfan. |
| | o Gardd. |
| | o Ddol-y-Penrhyn. |
| RHYDDERCHIAID, | o Dregaenen. |
| FYCHANIAID, ... | o Blas Hen, sîr Gaernarfon. |
| | o Berkin, } sîr Feirionydd. |
| OWAIN, ... | o Blas-du, } sîr Feirionydd. |
| | o Faentwrog, } sîr Feirionydd. |
| ELLIS, ... | o Ystymllyn, sîr Gaernarfon. |

# VI

NEFYDD HARDD, o Nant Gonwy, oedd yn byw yn amser Owain Gwynedd, yr hwn a roddodd Idwal ei fab i gael ei fagu ganddo; ond Nefydd, am ba achos nis gwn, a barodd i Dunawt ei fab ladd y tywysog ieuangc, mewn lle a alwyd oddiwrtho ef yn Cwm Idwal. Am hyny cafodd Nefydd a'i hiliogaeth eu diraddio, ac yn lle bod yn foneddigion gwnaethpwyd hwy yn

* Pais-arfau Syr Hywel y Fwyall, sef, Du, a bwyall ddeufiniog o liw arian rhwng tri o flodau elestr, neu *flower-de-luces*.

gaethddeiliaid yn Nant Conwy. Ei fab Rhun, er gwneyd iawn am y llofruddiaeth ysgeler hwnw, a roddodd y tiroedd ar ba rai yr adeiladwyd eglwys Llanrwst, ŵyr yr hwn (a Madog Goch ap Iorwerth ap Gwrgynon ap Cyfnerth, ei fab,) oeddynt oruchwylwyr i Lewelyn ap Iorwerth, tywysog Cymru (fel y dywed Gruffydd Hiraethog.) Efe a breswyliai yn Crygnant, gerllaw Llanrwst, fel yr wyf fi yn ei gymeryd. *He beareth argent, three spears heads imbrued, sable pointed upwards.**

DISGYNYDDION AR GOLL, NEU YN Y LLINACH FENYWAIDD.

EVAN MORGAN,† o Gwibernant, sir Gaernarfon.
EVANS, ... o Lanrwst.
DAVIES, ... o Goed-y-Mynydd.

## VII.

MAELOG GRWM, o Lechwedd-isaf, a'r Creuddyn,‡ yr hwn oedd yn byw yn amser y tywysog Dafydd ap Owain Gwynedd, oddeutu blwyddyn ein Harglwydd 1175, (fel y mae llyfr Syr Thomas ap Williams yn sicrhau.) Nid wyf wedi cael allan pa swyddau a ddaliai. Y dynion enwocaf a hanasant o hono ef oeddynt, Syr Thomas Chaloner, ac ereill o'r enw hwnw, wedi disgyn o Dafydd Chaloner, o Ddinbych, hynafiad yr hwn, Trahaiarn Chaloner, a elwid felly am fod ei daid, Madog Grwm o Chaloner, wedi bod yn byw mewn tref yn Ffraingc a elwid Chaloner, oddiwrth yr hyn y cymerodd yr enw hwnw. *He beareth argent, on a cheveron sable, three angels or.*§

DISGYNYDD AR GAEL YN Y LLINACH WRRYWAIDD.

CHALONERS, ... o Gisborough, sir Gaerefrog.

DISGYNYDD AR GOLL, NEU YN Y LLINACH FENYWAIDD

THOMAS, ... o Gaer Pill.

## VIII.

MARCHUDD AP CYNAN, arglwydd Abergeleu. Ei dŷ ydoedd Bryn Ffenigl. Yr oedd yn byw (medd Syr Thomas ap Williams yn ei lyfr) yn amser Rhodri Fawr, brenin y Brytaniaid, oddeutu blwyddyn ein Harglwydd

* Ei bais-arfau, Arian, tri o benau gwaywffyn trochedig, o liw du, yn pwyntio at i fyny. Llyfrau ereill a ddywedant, *He bore argent, a cheveron inter three javelins sable, pointed upwards gules.* Hyny ydyw, Arian, cwpl rhwng tair o waywffyn o liw du, â blaenau cochion yn pwyntio at i fyny.

† Y teulu yma a gynyrchodd y dysgedig Dr. W. Morgan, esgob St. Asaph, yr hwn a gyfieithodd y Beibl i'r Gymraeg.—Tudal. 456 o'r gwaith hwn.

‡ Y mae y ddau le yma yn sir Gaernarfon.

§ Ei bais-arfau, Arian, tri o angylion o liw aur ar gwpl du.

Digitized by Google

849.* O hono ef y disgynodd Ednyfed Fychan, yr hwn, gan mai efe oedd cadfridog lluoedd y tywysog,† a anfonwyd i'r cyffindiroedd, i amddiffyn y lleoedd hyny rhag dynesiad y fyddin Seisonig, yr hon oedd yn barod i'w goresgyn o dan lywyddiaeth Ranulph, iarll Caerlleon (yr hwn a'u cyfarfu.) Efe a laddodd dri o'u prif gadbeniaid a'u llywyddion, a lluaws mawr o'r milwyr cyffredin. Y gweddill a yrodd efe ar ffo, a dychwelodd yn orfoleddus at ei dywysog; yr hwn a roddodd iddo, fel gwobr am ei wasanaeth daionus, yn mysg llawer o roddion ac aurhydedd, bais-arfau o'r newydd; oblegyd y bais, yr hon a wisgai efe a'i hynafiaid bob amser cyn hyn, ydoedd bais Marchudd, sef *gules, a Saracen's head erased proper, wreathed or.*‡ Yr arf-bais newydd a arddangosid fel hyn, *gules between three Englishmen's heads, a cheveron ermin.*§—Er amser y Llewelyn olaf, hiliogaeth Ednyfed oeddynt y rhai enwocaf yn Nghymru (fel y gellir gweled oddiwrth waith y beirdd a'r cofnodau yn ddigon amlwg.) Os âf o gwmpas i gyfrif yr holl ddynion enwog a darddodd o hono, gofynai fwy o amser nag a allaf fi eu hebgor. Bydded yn ddigon cofio fod Harri VII., brenin Lloegr, Harri VIII., Iorwerth VI., y frenines Mari, y frenines Elisabeth, y cwbl wedi hanu o linach uniongyrchol, ac o ochr y tad, o Ednyfed Fychan, yr hwn hefyd a hanai o Farchudd.

DISGYNYDDION AR GAEL YN Y LLINACH WRRYWAIDD.

| | | |
|---|---|---|
| Wynniaid, | ... | o Melau, yn awr Arglwydd Newborough. |
| | | o Garthewyn. |
| Ffowciaid, | ... | o Eriviet. |
| Llwydiaid, | ... | o Blas Madog, Llansannan; yn awr o Blas Power. |
| Prys,‖ | ... | o Faentwrog, sir Feirionydd; yn awr o Gerddi Bluog. |
| Morgan, | ... | o Gwlgre, sir Fflint. |
| Gruffydd, | ... | o'r Garreg Lwyd. |

DISGYNYDDION AR GOLL, NEU YN Y LLINACH FENYWAIDD.

| | | |
|---|---|---|
| Wynniaid, | ... | o Ddyffryn Aled, sir Ddinbych. |
| | | o Drefarth. |
| Roberts, | ... | o Gwasane, sir Fflint. |
| Llwyd, | ... | o Gydros. |
| | | o'r Ddôl. |
| | | o Drebul. |
| Hughes, | ... | Esgob Llanelwy. |
| Smith, | ... | Canghellydd Llanelwy. |
| Vaughans, | ... | o'r Hên Blas a'r Fronheulog. |
| Llewelyn, | ... | o Laneilian. |
| Siencyn, | ... | o Efenechtyd. |

* Dr. Powel a ddywed 853. † Llewelyn ap Iorwerth.

‡ Hyny ydyw, Coch, gyda phen Twrc wedi ei dori ymaith, yn gwisgo talaith o liw aur.

§ Hyny ydyw, Coch, a chwpl o liw y gath ball, neu ermin, rhwng tri o benau Saeson.

‖ O'r teulu yma yr hanodd Edmwnd Prys, Archddiacon Meirionydd, yr hwn yn gyntaf a drodd y Salmau ar fesur cerdd i'r iaith Gymraeg.

| | | |
|---|---|---|
| JONES, | ... | y Teyrn-lofrudd.* |
| WILLIAMS, | ... | o Gochwillan, Maenol, Marl, Meillionydd, ac Ystumcolwyn. |

HYWEL MAELIKYDD.

| | | |
|---|---|---|
| CONWY, | ... | o'r Nant. |
| GRUFFYDD, | ... | o Ffestiniog. |
| HUGHES, | ... | o Gefn y Garlleg. |

## IX.

HEDD MOLWYNOG,† o Uwch-Aled (fel y mae yn Llyfr Syr Thomas ap Williams,) ydoedd oruchwyliwr i'r Tywysog Dafydd ap Owain. Ei diroedd a'i arglwyddiaethau oeddynt Lanfair Talhaearn, Dyffryn Elwy, a Nanhaled, y rhai y darfu i'w dri mab, sef, Meuter, Gwillonon, a Gwrgi, eu rhanu, ac y mae eu holynyddion wedi mwynhau, ac hyd heddyw yn mwynhau, rhyw barthau o honynt. Rhys ap Ieuan ap Llewelyn Chwith o Chwibren, oedd yn yswain y corph i'r brenin Iorwerth IV. (fel y dywed llyfr Ifan Llwyd Sieffry): yr ydoedd efe, a'i gyfyrder, Dafydd Siencyn, yn dra therfysglyd yn ystod rhyfeloedd tŷ Lancaster.

Morgan Llwyd, o Lwyn y Maen, gerllaw Croesoswallt, cadben dewr o dan Iarll Arundel, yr hwn, trwy ei wrhydri a enillodd bais-arfau tra ardderchog, sef, *The field argent, an eagle displayed with two heads sable.*‡

Ac yma, yr wyf yn meddwl y gall Iolo Goch, bardd Owain Glyndwr, mam yr hwn ydoedd is-iarlles Lincoln (fel y dywed Gruffydd Hiraethog) yn hawdd gael lle yn mhlith disgynyddion teilwng y llwyth yma, yr hwn, ar gyfrif ei awen aruchel, a'i fedrusrwydd nodedig mewn barddoniaeth Brydeinig, ydoedd, ac y mae hefyd, mor enwog a chlodfawr a neb a fu yn ystod y pedwar can' mlynedd diweddaf.—Ac hefyd Tudur Aled,§ bardd dysgedig arall, a doethawr y gadair yn ei swyddogaeth; ond bydd i'w gweithiau dysgedig eu gwneyd yn hyglod a bythawl ogoneddus.—*He beareth sable, a hart passant argent, attired or.*‖

DISGYNYDDION AR GOLL, NEU YN Y LLINACH FENYWAIDD

| | | |
|---|---|---|
| LLWYDIAID,¶ | ... | o Hafodunnos, sir Ddinbych. |
| | | o Lwyn-y-Maen, ger Croesoswallt. |
| | | o Lanforda. |
| | | o'r Dre-newydd, yn mhlwyf Whittington. |
| | | o Flaen-y-ddol. |
| PARRY, | ... | o Langernyw. |
| WYNN, | ... | o Fryn Cynrig. |

* Gwel tudal. 815 o'r gwaith hwn.

† Efe a breswyliai mewn lle a elwir Yr Henllys, yn mhlwyf Llanfair Talhaearn.

‡ Hyny ydyw, Maes o liw arian, eryr du deuben ar ehediad.

§ Yr oedd y bardd enwog yma yn byw oddeutu y flwyddyn 1490.

‖ Ei bais-arfau, Du, gyda charw o liw arian ar gerdded, wedi ei drwsio âg aur.

¶ Y Llwydiaid hyn, disgynyddion o Hedd Molwynog, oeddynt y personau cyntaf a ddefnyddiasant yr enw hwnw yn Ngogledd Cymru.

Digitized by Google

GRUFFYDDIAID, o Fodychwyn.
o Hafod-y-Garreg.
o Flaen Iâl, sîr Ddinbych.
o Blâs Newydd.

## X.

BRAINT HIR, o Is-dulas, a flodeuai, fel y tybiaf, oddeutu amser meibion Rhodri Fawr.* Ni luosogodd ei hiliogaeth ond ychydig, oblegyd nid oes llawer o honynt yn bresenol, ag y gwyddir eu bod yn disgyn o hono ef; eto y mae rhai. *His arms were vert, a cross flowery or.*†

DISGYNYDDION.

FYCHANIAID, ... o Bont-y-gwyddel, Mrs. Gifford, o Nerquis.

## XI.

MARCHWEITHIAN,‡ a elwid Arglwydd Is-aled; ei diroedd oedd Carwed Fynydd, Dincadfael, Prees, Beryn, Llyweni, Gwytherin, a llaweroedd o dref-ydd-degwm ereill o fewn cantref Is-aled, fel yr ymddengys oddiwrth yr archwiliad o arglwyddiaeth ac anrhydedd Dinbych, yr hwn a wnaethpwyd yn yr wythfed flwyddyn o Iorwerth y Trydydd; ar ba adeg yr oedd Cynwrig Fychan, y nawfed mewn disgyniad o Farchweithian, yn byw; oddiwrth hyny gellir cael rhyw amcan o barthed yr amser pryd yr oedd yn blodeuo.

Y teuluoedd a'r tai ag sydd yn hanu hono ef ydynt luosog, ond y penaf ydynt y rhai hyn; Berain, yn flaenorol wedi ei gydgorphori â Llyweni, trwy briodas Mrs. Catherine, o'r Berain,§ merch ac etifeddes Tudur ap Robert Fychan, o'r Berain, ysw., â John Salisbury, mab ac etifedd Syr John Salisbury, o Lyweni, marchog; ar ol ei farw ef, hi a briododd â Richard Clough, yswain, o Ddinbych, marsiandwr cyfoethog; ac wedi marw o hono yntau, hi a briododd â Morris Wynne, o Wydir, yswain, a bu iddi blant o'r ddau; ac yn ddiweddaf oll, hi a briododd Edward Thelwall, o Blas-y-ward, yswain. Mr. Robert ap Rees, hanedig o'r llwyth hwn, a hynafiad i deulu Rhiwlas, ydoedd yn gaplan i'r Cardinal Wolsey, ac yn ddyn tra enwog yn nheyrnasiad Harri yr Wythfed. —Ellis Pryse, o Blas-Iolyn, doethawr yn y gyfraith, yr hwn, fel yr credaf, ydoedd yn un o ysgoleigion Caergrawnt a fu yn ymddadleu â Throgmorton, ac ysgoleigion ereill o Rydychain, yn Nghaergrawnt, yn mlwyddyn ein Harglwydd 1532, ac a gafodd y goreu arnynt, (fel y mae James Caius, yn y llyfr cyntaf o *Antiquities of Cambridge*, yn sicrhau.)—*He bore, in a shield gules, a lion rampant, armed azure.*||

* Ereill a ddywedant ei fod yn byw tua'r flwyddyn 650, yn amser Cadwallon, i ba un yr oedd yn nai ac yn ganghellwr.

† Ei bais-arfau oeddynt wyrdd, a chroes flodeuog o liw aur.

‡ Dywedir mai Llŷs Llyweni ydoedd ei balas.

§ Am ei hanes hynod gwel tudal. 259 o'r gwaith hwn.

|| Efe a wisgai, ar darian goch, lew ar ei ddau droed ôl, o liw arian.

Digitized by Google

DISGYNYDDION AR GAEL YN Y LLINACH WRRYWAIDD.

| | | |
|---|---|---|
| PRICE, | ... | o Rhiwlas, } sir Feirionydd. |
| | | o Foch-y-rhaiadr, } |
| WYNN, | ... | o Langynhafal, sir Ddinbych. |
| PANTON, | ... | o Balas Coleshill, sir Fflint. |
| PARRY, | ... | o Dywysog, a'r Pistyll. |

DISGYNYDDION AR GOLL, NEU YN Y LLINACH FENYWAIDD.

| | | |
|---|---|---|
| PRICE, | ... | o Giler, sir Ddinbych. |
| | | o Dyddyn Sieffry. |
| | | o Gwmmein. |
| | | o Fedw deg. |
| | | o Lanrwst. |
| | | o Ddugoed, yn Mhenmachno |
| WYNN, | ... | o Foelas, sir Ddinbych. |
| | | o Blâs Newydd, Yspytty. |
| | | o Hafod y Maidd. |
| FFOWCIAID, | ... | o Lŷs Llywarch. |
| | | o Garwed Fynydd, a Meriadog |
| FYCHANIAID, | ... | o Bant Glâs. |
| | | o Flaen y Cwm. |
| | | o Lysfaen. |
| WILLIAMS, | ... | o Aberconwy. |
| | | o Hafod Garregog. |
| DAVIES, | ... | o Lathwryd. |
| GETHIN, | ... | o Gorniogau, sir Ddinbych. |

# XII.

EDWIN, a elwid yn gyffredin yn Frenin Tegeingl,* ydoedd y deuddegfed llwyth, a chan ei fab Owain yr oedd merch, a elwid Angharad, yr hon a briododd Gruffydd ap Cynan, brenin Gwynedd, neu Ogledd Cymru. Y mae llawer o foneddigion teilwng ac ardderchog yn siroedd Fflint a Dinbych yn disgyn o hono, megys esgob Bangor, yr hwn sydd yn awr yn fyw—(tybiwyf y golyga William Roberts, D.D., yr hwn a gysegrwyd yn Esgob Bangor yn Medi, 1637, ac a fu farw yn Llandyrnog, Awst 12fed, 1665, yn 80 mlwydd oed.) Thomas Owen, barnwr ———, tad i Syr Roger Owen, gynt o Cundover, marchog. Hywel Gwynedd,† dyn tra gwrol a nerthol, a barodd flinder mawr i'r Saeson, o herwydd ei ymlyniad wrth Owain Glyndwr, yn erbyn Harri y Pedwerydd; ond ar un adeg, trwy iddo dybied ei fod yn fwy dyogel nag ydoedd, efe a gymerwyd yn garcharor gan ei wrthwynebwyr o dref Fflint, y rhai a dorasant ymaith ei ben, ar le a elwir Moel-y-Gaer; ac yn mhell cyn hyny, un a elwid

* Neu Englefield; dosparth ydyw o sir Fflint, yn cynwys tri chantref, sef Rhuddlan, Coleshill, a Phrestatyn.

† Am ychwaneg o hanes Hywel Gwynedd, gwel tudal. 63, 64, o'r gwaith hwn.

Digitized by Google

Owain ap Uchtryd, ŵyr i'r Edwin a nodwyd, a ddaliodd trwy nerth arfau yr oll o Degeingl o dan ei lywodraeth, er gwaethaf holl allu y brenin, yr arglwyddi, a'r wlad, yn ei wrthwynebu; a'r drydedd flwyddyn, ar ol cael pardwn, efe a draddododd y tiroedd i'w perchenogion.—*He beareth argent, between four Cornish choughs armed gules, a cross flowery engrailed sable.**

DISGYNYDDION AR GAEL YN Y LLINACH WRRYWAIDD.

| | | |
|---|---|---|
| LLWYDIAID, | ... | o Bentre Hobin. |
| WYNNIAID, | ... | o Gopparleni. |
| PARRYIAID, | ... | o Laneurgain. |

DISGYNYDDION AR GOLL, NEU YN Y LLINACH FENYWAIDD.

| | | | |
|---|---|---|---|
| MOSTYNIAID, | ... | o Fostyn, &c., | sir Fflint. |
| LLWYDIAID, | ... | o Ffarm, | sir Fflint. |
| WYNNIAID, | ... | o Nhercwys, | sir Fflint. |
| EDWARDIAID, | ... | o Stansty. | |
| | | o Rual. | |
| | | o Allt-y-celyn, a Chrogen Iddon. | |
| | | o Langollen Fechan. | |
| EFANSIAID, | ... | o Goed Llai, a'r Treuddyn. | |
| HUGHES, | ... | o Ddyserth. | |
| JONES, | ... | o Wernaffield, a'r Wyddgrug. | |
| OWENIAID, | ... | o Goed Llai, Gwasane, Caerfallwch, Treuddyn, Arddunwynt, ac Estyn. | |
| PRYS, | ... | o Lwyn Ynn. | |
| BROMFEILDS, | ... | o Faelor. | |

# XIII.

EDNOWAIN BENDEW ydoedd Arglwydd Tegeingl, yn mlwyddyn ein Harglwydd 1079 (fel y dywed llyfr Ethnop.) Dywed Peter Ellis, y cyfreithiwr, mai efe oedd y penaf o'r pymtheg llwyth. O hono ef y disgynodd Ithel ap Rotpert, archddiacon Tegeingl, y Bitheliaid, a llawer o deuluoedd teilwng heblaw hyny. *He beareth argent, between three boars heads, a cheveron sable.*†

Tybir gan rai fod preswylfa Ednowain yn y Ty-maen, yn mhlwyf Whiteford, (gwel tudal. 119 o'r gwaith hwnw.)

DISGYNYDDION AR GAEL YN Y LLINACH WRRYWAIDD.

| | | | |
|---|---|---|---|
| LLWYD, | ... | o Wygfair, | sir Fflint. |
| FFOWCS, | ... | o Mertyn, | sir Fflint. |
| GRUFFYDD, | ... | o Rhual, | sir Fflint. |
| HUGHES, | ... | o Halkyn (Helygen,) | sir Fflint. |
| | | o Fagillt, | sir Fflint. |
| GRUFFYDD, | ... | o Blas isa', Caerwys, | sir Fflint. |

* Efe a wisgai liw arian, a chydrhwng pedair o frain Cernyw o liw coch, groes flodeuog ac ymylfylchog o liw du. † Efe a wisgai liw arian, a chwpl du cydrhwng tri phen baedd.

Digitized by Google

DISGYNYDDION AR GOLL, NEU YN Y LLINACH FENYWAIDD.

| | | | |
|---|---|---|---|
| WYNNIAID, | ... | o Galedlom, a Chaerwys, | sir Fflint. |
| PUGHE, | ... | o Ysgeifiog, | |
| PIERS, | ... | o Lanasaph, | |
| PARRY, | ... | o Coleshill, a'r Maesglas, | |
| GRUFFYDD, | ... | o Bant y Llongdu, | |
| | | o Neuadd Caerwys, | |
| EVANS, | ... | o Laneurgain, | |
| JONES, | ... | o Ysgeifiog, | |
| WILLIAMS, | ... | o Golomendy Ysgeifiog, | |
| HUGHES, | ... | o Goed-y-Brain, | |

# XIV.

EFNYDD, a elwir yn gyffredin yn fab Gwenllian,* merch Rhys ap Marchen, yr hwn oedd yn arglwydd ar saith o drefydd-degwm yn Nyffryn Clwyd, y rhai a elwid yn Dir Rhuthyn, sef Tref-ben-y-Coed, a Fenechdyd, y Groeslwyd, Pant Meugen, a thair ereill, y cwbl yn dir rhydd am byth. Ni chafodd blant oddieithr y Gwenllian a nodwyd, yr hon, trwy ddylanwad Bleddyn ap Cynfyn, brenin Cymru, a roddwyd mewn priodas i dad yr Efnydd hwn, gan ei fod yn berthynas agos i'r brenin hwnw, yr hwn hefyd a roddodd iddo yr un modd saith o drefydd-degwm, sef, Almor, Tref-alen (neu Alynton,) y Groesffordd yn Maelor, Lleprog-fawr, Lleprog-fechan, Tref-y-Nant yn Nhegeingl, &c. Bu iddo ferch a elwid Hunydd, gwraig i Meredydd ap Bleddyn, tywysog Powys. O hono ef y deilliodd John Almor, llywydd y neuadd i'r brenin Harri VII., a thad i John Almor, rhingyll at arfau i'r brenin Harri VIII. (fel y tybiaf,) yr hwn a wisgai *azure, a lion rampant or, armed and langued gules;*† ac i Syr William Meredydd, yr hwn a breswyliai yn sir Gaerefrog, neu rywle arall yn Lloegr.—*He bare a lion rampant saliant or,*‡ â pha un yr oedd yn chwarteru paisarfau ei fam, *being azure, between three nags heads erased argent. a fess or.*§

DISGYNYDDION AR GOLL, NEU YN Y LLINACH FENYWAIDD.

| | | | |
|---|---|---|---|
| SIMWNT, | ... | o Goed Llai, | sir Fflint. |
| PRISIART, | ... | o Gaergwrley, | |
| ROGERS, | ... | o Fflint. | |
| MEREDYDD, | ... | o Drefalen. | |
| | | o Bentre Bychan. | |
| | | o Stansty. | |
| ALMORIAID, | ... | o Almor. | |
| ALYNTONIAID, | ... | o Alynton. | |
| LLWYDIAID, | ... | o Gresford, ac Alynton. | |

* Y Gwenllian hon a elwid yn etifeddes Dyffryn Clwyd, am ei bod yn feddiannol ar ran dra helaeth o hono.

† Sef, Lliw yr awyr, gyda llew o liw aur ar ei ddau droed ol, a'i dafod allan o liw coch.

‡ Efe a wisgai lew aur ar ei draed ol, ac ar ei naid.

§ Sef, Lliw yr awyr, cydrhwng tri phen ceffyl o liw arian, wedi eu tori ymaith, ffunen o liw aur.

Digitized by Google

# XV.

EDNYWAIN AP BRADWEN* a elwir gan rai ysgrifenwyr yn Arglwydd Meirionydd: ond diau fod y tywysogion a'u hiliogaeth bob amser yn arglwyddi Meirionydd; eto, gallai fod, trwy iddo ef (fel ereill) gymeryd y lle o dan ardreth, gael ei alw yn arglwydd y tir. Ac ymhellach, yr oedd efe a'i hiliogaeth yn meddiannu yr oll o Dal-y-Bont, oddieithr Nannau, ac etifeddiaethau y tywysog, a'r rhan fwyaf o Ystumanner yn yr un modd. Pa swyddau a ddaliai o dan y tywysog, nis gwn. Dywed rhai llyfrau achyddol ei fod yn byw yn amser Gruffydd ap Cynan, ond yr wyf fi yn barnu nad oedd mor hynafol a hyny.† Y mae adfeilion ei lŷs, neu ei balas, i'w gweled yn nhref-ddegwm Cregenan, yn Nhal-y-Bont, Iscregenan. Llewelyn ap Tudur ap Gwyn ap Peredur ap Ednowain ap Bradwen, oedd yn fyw yn amser Iorwerth y Cyntaf, ac a dalodd warogaeth iddo gydag arglwyddi a boneddigion Cymru, megys ag y mae yn amlwg oddiwrth gofrestrau y brenin hwnw. Aaron, ei ŵyr, o'i fab Ednyfed, a feddai ddau fab mwy enwog na'r gweddill o'i blant, Ednyfed a Gruffydd; o'r olaf o ba rai yr oedd William David Lloyd, o Beniarth, yswain, yr hwn a fu farw yn ddiweddar, yn disgyn; etifeddiaeth yr hwn a ddaeth i Margaret, mam Lewis Owain, o Beniarth, yswain, yr hwn sydd yn awr yn fyw. Dywedir fod Ednyfed ap Aaron, wedi croesawu Owain Glyndwr ar ol iddo gael ei orchfygu gan y brenin Harri y Pedwerydd, y trawsymhonwr, ond yn ddirgelaidd mewn ogof, ar lan y môr, yn mhlwyf Llan Gelynin, yr hon, ar ei ol ef, a elwir Ogof Owain. O'r Ednyfed yma y disgynodd Morgan ap Gruffydd ap Einion, dyn gwrol a nerthol, yr hwn, fel yr adroddir gan ei gyfneseifiaid, o ddamwain, yn heolydd dinas Llundain, yn hwyr yn y nos, a gyfarfu â'r brenin Harri yr Wythfed, gyda gwyliadwriaeth fechan o'i amgylch, wedi dyfod i weled pa fath lywodraeth a gedwid yn y ddinas; a phan na fynai y naill ymostwng i'r llall, tynasant eu cleddyfau, ac ymladdasant yn galed, hyd nes y darfu i un o ganlynwyr Morgan beri iddo gymeryd gofal beth a wnelai, am yr ofnai mai â'r brenin yr oedd yn ymladd. Ar hyny Morgan a erfyniodd am drugaredd, rhoddodd i fyny, a deisyfodd bardwn; a'r brenin a'i gollyngodd ef yn rhydd, gan ddywedyd ei fod yn ddyn nerthol, a byth wedi hyny galwyd ef yn Forgan Nerthol. Dyma fel yr adroddir, ond nis gallaf ddywedyd pa mor bell y mae yn wir.

"Morgan hir, mawr gan Harri,
Mae Llundain dan d'adain di."

—*He bore gules, three snakes enowed in a triangular knot argent.*‡

DISGYNYDD AR GAEL YN Y LLINACH WRRYWAIDD.

OWENIAID, ... o Gae'r Berllan, sir Feirionydd.

* O Lŷs Bradwen, ger Dolgelley. Gwel tudal. 301 o'r gwaith hwn.

† Blodeuai yn amser Llewelyn ap Iorwerth, fe ddichon oddeutu y flwyddyn 1194.

‡ Ei bais-arfau, Coch, gyda thair o nadroedd wedi ei cymhlethu mewn cwlwm trionglog o liw arian.

Digitized by Google

DISGYNYDDION AR GOLL, NEU YN Y LLINACH FENYWAIDD.

LLWYDIAID, ... o Nant-y-Mynach, a Pheniarth.
OWENIAID, ... o Beniarth, a Morben.
GRUFFYDD, ... o'r Garth, a'r Cloddiau Cochion.

---

Allan o'n hen lyfrau achyddol, galluogir ni i ychwanegu llwyth arall; heb fod mewn un modd yn israddol i unrhyw o'r rhai rhagflaenorol, yn mherthynas i barchusrwydd a nifer ei ddisgynyddion.

## XVI

TUDUR TREFOR, sef llwyth y Cyffindiroedd,* a elwir hefyd yn ein llyfrau ni, Llwyth Maelor, ydoedd fab i Ynyr ap Cadfarch, disgynedig o Gadell Deyrnllug, brenin Powys. Dywedir mai efe oedd sylfaenydd Castell y Dref Wen, ac iddo breswylio ynddo, yr hwn a barhaodd yn ei hiliogaeth am lawer o genedlaethau ar ol hyny. Ei fam oedd Rhiengar, merch i Luddocca ap Caradog Freichfras, Iarll Henffordd, ac un o farchogion bwrdd crwn y brenin Arthur. Yr oedd gan Tudur feddiannau helaeth yn sir Henffordd, yn hawl ei fam, yn gystal ag yn y wlad a elwid y Ferlys, yr hon a orwedda rhwng yr afonydd Gwy a Hafren. Yr oedd yn cydoesi â Hywel Dda, brenin Cymru, merch yr hwn, Angharad, a briododd efe, o ba un y cafodd dri o feibion ac un ferch. Powell, o Edenhope,yn ei Pentarchia, a ddysgrifia ei bais-arfau yn y modd canlynol:—

Erminiis fulgens Theodori parna Trevorī,
Dat rapidum fulvumque sinistro verte leonem;
Mostonis sunt nota satis simul arma Trevoris.

Yr hyn a ellir ei arddangos mewn Cymraeg glân gloyw fel hyn: "Yn rhanedig gan ffunen wyrdraws, ermin ac erminau, uwchlaw y cwbl, llew o liw aur ar ei ddau draed ol; pais-arfau adnabyddus y Mostyniaid, ac hefyd y Treforiaid."

DISGYNYDDION AR GAEL YN Y LLINACH WRRYWAIDD.

Is-iarll Hambden, a'r Barwn TREFOR.
MOSTYNIAID, ... o Fostyn, } Barwniaid.
o Drelacre, }
o Fryngwyn.
o Segroit.
PENNANT, ... o Bychton.
RICHARD PENNANT, Barwn Penrhyn.
JEFFRIES, ... o Acton.
EDWARDS, ... o Gastell y Waen.

* A elwid felly, am fod nifer mawr o'r boneddigion yn Nghyffindiroedd Lloegr a Chymru yn hanu o hono ef.

| | | |
|---|---|---|
| WYNNE, | ... | o Gerwyn-fawr. |
| JONES, | ... | o Lwyn-Onn. |

DISGYNYDDION AR GOLL, NEU YN Y LLINACH FENYWAIDD.

| | | |
|---|---|---|
| TREFOR, | ... | o Fryncinallt. |
| | | o Bentre Cynrig. |
| | | o Daywen. |
| | | o Drefalen. |
| | | o Blas-teg. |
| | | o Groesoswallt. |
| LLWYDIAID, | ... | o Halton. |
| YOUNG, | ... | o Fryn Yorkin. |
| DYMMOCK, | ... | o Willington. |
| PUGHE, | | o Lan-y-Mynach. |
| LLWYDIAID, | ... | o Blas isa' y Clawdd. |
| | | o Dal-y-wern. |

Yma ni byddai yn amhriodol crybwyll, er fod y llwythau yn cael eu hystyried yn gyffredinol fel pendefigion Cymru, eto y mae llaweroedd o hen deuluoedd Cymreig, o barchusrwydd uchel, nad ydynt yn hòni eu tarddiad o'r un o honynt. Y cyfryw ydynt y *Myddeltoniaid*, o Gastell-y-Waun, a Gwaenynog; y *Fychaniaid*, o Lan-y-llyn, wedi hyny o Lwydiarth a Llangedwyn, ond yn awr ar goll, y rhai a hanasant o Ririd Flaidd, arglwydd Penllyn, a manau ereill. Y *Fychaniaid*, o Gors-y-gedol; a'r *Wynniaid*, o Ddolegwyn, hynafiad y rhai oedd Osbwrn Wyddel. Yr *Eytons*, o Goed Llai; y *Wynniaid*, o'r Twr; y *Dafisiaid*, o Gwasane (cynrychiolydd y rhai, yn y llinach wrrywaidd, ydyw Peter Davies, yswain, o Broughton): y *Parryiaid*, o Bwllhalog, a'r *Williamsiaid*, o'r Fron, y rhai a hanant o Gynric Efell, barwn Eglwyseg.

Yn Ynys Môn y mae y *Williamsiaid*, o'r Ty-fry, hanedig o Cadrod Hardd, arglwydd Talebolion; ac o honynt hwy y *Williamsiaid* o Nantanog, hynafiaid y presenol Syr Watkin Williams Wynn; y *Williamsiaid*, o Benbedw, a'r *Williamsiaid* o Bodelwyddan.

Er y gellir ychwanegu llawer ereill at y rhai hyn, bydd i ni yn awr derfynu yr hanes yma gyda disgynyddion Brochwel Ysgithrog, tywysog Powys, sef y *Blaneys* o Dregynon, y *Wynniaid* o'r Garth, y *Llwydiaid* o Leighton, a'r *Thomasiaid* o Lechweddgarth, cynrychiolydd presenol y rhai ydyw Thomas Thomas, yswain, o Downing Uchaf.*

* Wrth gyfeirio at y dull yn mha un y dewiswyd penaethiaid y llwythau, y mae Mr. Yorke yn ysgrifenu yn gryf. "Paham y cafodd Iestyn ap Gwrgant, crach-arglwydd o Forganwg, a chymeriad a fydd mewn gwarth tragwyddol, ei urddasoli fel hyn, tra nad oedd ond awdwr dinodedd a choll llywodraeth iddo ei hun, a lladdedigaeth a chaethiwed i'w wlad, sydd yn anhawdd ei benderfynu; ac fod Brochwel Ysgithrog, tywysog Powys pan yn ei gogoniant mwyaf, yn meddu yr Amwythig fel ei brif ddinas, ac yn benaeth o allu mawr a chymeriad milwrol, wedi cael gadael ei enw allan, hyd yn nod yn y pymtheg llwyth, sydd yr un mor annirnadwy." Y.R.

Digitized by Google

## *Y PUM' LLWYTH BRENINOL.*


| | | TUDAL. |
|---|---|---|
| I. | Gruffydd ap Cynan | 589 |
| II. | Rhys ap Tewdwr Mawr | 590 |
| III. | Bleddyn ap Cynfyn | 591 |
| IV. | Ethelystan Glodrydd | 591 |
| V. | Iestyn ap Gwrgant | 593 |


---

## *Y PYMTHEG LLWYTH.*


| | | |
|---|---|---|
| I. | Hwfa ap Cynddelw | 594 |
| II. | Llywarch ap Bran | 595 |
| III. | Gweirydd ap Rhys Goch | 596 |
| IV. | Cilmin Droed-ddu | 596 |
| V. | Collwyn ap Tangno | 597 |
| VI. | Nefydd Hardd | 598 |
| VII. | Maelog Grwm | 599 |
| VIII. | Marchudd ap Cynan | 599 |
| IX. | Hedd Molwynog | 601 |
| X. | Braint Hir | 602 |
| XI. | Marchweithian | 602 |
| XII. | Edwin | 603 |
| XIII. | Ednowain Bendew | 604 |
| XIV. | Efnydd | 605 |
| XV. | Ednowain ap Bradwen | 606 |


Nid yw y rhifedi yn y Llawysgrif ond XV.—Yr ydym yn dal i fyny yr enw. ond yn ychwanegu un Tudur Trefor, neu Lwyth y Cyffiniudiroedd, megys ag y gwneir gan rai o'n hysgrifeuwyr.

## *LLWYTH Y CYFFINDIROEDD.*


| | | |
|---|---|---|
| XVI. | Tudur Trefor | 607 |

Digitized by Google

# MYNEGAI.


*Aber*, rhaiadr, 425
*Aber Cegid*, ger Bangor, 414
*Aberdaron*, yn Lleyn, 361
*Aberffraw*, yn Môn, 381
———— tywysog, 380
*Abergeleu*, yn sir Ddinbych, 444
———— suddiad tir yn, 442
*Aberglaslyn*, pont, 353
———— gored gleisiaid, 353
*Aber Llienawg*, yn Môn, 393
*Abermaw*, yn Meirionydd, 310
*Abermenai*, 378
*Aberystwyth*, castell, 43
*Acton*, gerllaw Gwrecsam, 188
*Acton Burnel*, castell, 495
*Achau*, esiamplau rai Cymreig 276, 317
——— Sant Collen, 176
*Adar*, dinystr arswydus ar, 358
*Ad dietam* (math o gosp,) 109
*Adroddiad Richard Fenton*, 585
*Aergol* (nodiad gan J.R.) 204
*Afangc*, sarn yr, 423
*Afangcod*, yn afon Gonwy, 327
*Afon Alun*, ei chwrs, 198
—— *Ceiriog*, 169
—— *Dyfi*, 17, 514
—— *Dyfrdwy*, 17, 18, 19, 78
———— yn gysegredig, 289
—— *Erch*, ger Pwllheli, 360
—— *Glaslyn*, 349
—— *Gonwy*, 327, 436
—— *Gwyrfai*, yn Arfon, 372, 377
—— *Hafren*, neu Sabrina, 460
—— *Llyfni*, yn Arfon, 370
—— *Maw*, neu Mawddach, 307, 310
—— *Menai*, rhwng Arfon a Môn, 379
*Afon Ogwen*, yn Arfon, 336
—— *Rheidiol*, ger Aberystwyth, 465
—— *Seiont*, yn Arfon, 372
—— *Tanat*, yn sir Drefaldwyn, 475
—— *Twrch*, yn Meirionydd, 293
—— *Vyrnwy*, yn sir Drefaldwyn, 475
—— *y Llan*, ger Mowddwy, 293
—— *y Lliw*, neu *Amliw*, 293
—— *Ystwyth*, 365
*Afonydd y Wyddfa*, 344
*Agnerus*, y gwron Scandinafaidd, 174
*Agrastis capillaris*, 341
*Agricola*, yr ysgrifenydd Rhufeinig, 17, 48, 49
———— bwlch (nodiad,) 204
*Alberbury*, palas neu gastell, 478
*Albrighton*, plwyf, 492
*Alcan*, dull y Rhufeiniaid o'i doddi, 52
—— ei ddygiad yma gan y Phoenicaid, 52
*Aleliwia*, buddugoliaeth yr, 200, 217
*Alun*, afon, ei rhedfa, 218
*Amddiffyniad Thomas Pennant* rhag y Press Gangs, 585
*Amgueddfa Syr Ashton Lever*, 146
*Amianthus*, yn Rhoscolyn, 408
*Amlwch*, tref yn Ynys Fôn, 406
*Amobyr*, neu Ammobragium, 142
*Amseroedd anwaraidd*, 275
*Amwythig*, y dref, 481
*Brwydr*, 490
*Eglwysi*, 489
*Mynachlog*, 486
*Mynachod Awstinaidd*, 483
———— *Dominicaidd*, 488
———— *Llwydion*, 487


Digitized by Google

Amwythig—
*Richmond* yn myned trwodd, 492
*Santes Gwenfrewi*, 487
——— *Mair*, 489
*Seneddau*, 489
*Siartrau*, 483
*Sîr yr*, 147
*Y Chwarel*, neu y Quarry, 483
*Ysgol Rydd*, 484
*Andrew Yarranton*, 126
*Anerchiad Trigolion Sîr Gaernarfon* at Rhisiart Cromwel, 583
*Aran Fowddwy*, 294, 296
*Aran*, mynydd yr, 293
*Arch* y dywysoges Joan, 392
*Ardudwy, Drws*, 315
*Arenaria verna*, 28
*Arenig*, y ddwy, 288
*Arferiad farbaraidd*, 172, 383
*Arferion crefyddol* y Cymry, 443
*Arffedogaid y Gawres*, 368
*Arglwydd Eryri*, 346, 380
*Arglwyddi* y Cyffindiroedd, 503
*Arian Prydeinig*, yn adnabyddus i'r Rhufeiniaid, 54
*Aria Theophrasti*, 429
*Arthur*, y brenin, ei frawdmaeth, 292
*Asaph*, sant, ei hanes, 244
————— ei ffynhon, 246
*Asbestos*, neu y maen ystinos, 406
*Ashton Lever*, Syr, ei amgueddfa, 146
*Assach*, dilead y gyfraith hono, 553
*Atiscross*, neu Groes Ati, 46
*Attyniad* cymylau ar y Wyddfa, 344
*Aur*, i'w gael yn Mhrydain, 54
——, y Brytaniaid yn adnabyddus o'i wasanaeth er yn foreu, 54
——, yn demtasiwn i'r goresgynwyr Rhufeinig, 54
*Awstin Fynach*, cenad y Pab, 144
*Awstiniaid*, urdd o fynachod, 488

B

*Bachegraig*, palasdy hynod, 256
*Bachymbyd*, palasdy y Bagots, 277
*Bala Deulyn*, yn Arfon, 353
*Bala*, llyn y, 288
—— tomen y, 287
—— tref y, 287
*Baner-gludydd Owain Glyndŵr*, 533
*Bangor Iscoed*, yn sîr Fflint, 143
——— yn Arfon, 412
*Banllef Hir*, 322
*Baron Hill*, palasdy yn Môn, 395
*Barrow*, yr esgob, ei feddargraff, 254
*Basingwerk*, mynachlog, 21, 31, 59
*Bathafarn*, palasdy, 281
*Bathynau Prydeinig*, 55
*Bedd Gelert*, 350
—— *Gwrtheyrn*, 366
—— *Iorwerth Drwyndwn*, 455
—— *Porus*, 308
—— *y Cawr*, 202
—— *y Deon Du*, 413
*Beddargraff Thomas Pennant*, 584
————— y Milwriad Robinson yn eglwys Gresford, 517
————— yn y Maesglas, 503
*Beddau Gwŷr Ardudwy*, 325
Beddrodau yn—
*Castell y Waen*, 170
*Estyn*, 216
*Gresford*, 190
*Gwrecsam*, 185
*Llanarmon*, 200
*Llanbeblig*, 376
*Llanelwy*, 254
*Llaneurgain*, 64
*Llanrwst*, 332
*Rhiwabon*, 180
*Yspytty*, 326
*Y Wyddgrug*, 207
*Beddrawd*, nodiad ar, 198
*Beirdd*, eu rheolau, &c., 229
*Belesme, Robert de*, 481
*Bellot*, yr esgob Hugh, 185
*Benglog*, llwybr y, 336
*Ben Jonson*, bardd Seisonig, 338
*Berth-Lwyd*, coed prydferth y, 464
————— palasdy y, 530
*Berwyn*, mwyar, 284
——— mynyddoedd y, 284

Digitized by Google

*Bettisfield*, hen balasdy, 140, 141
*Bettws Garmon*, eglwys, 352
——— *Wyrion Iddon*, 327
——— *y Coed*, 327
——— yn sîr Drefaldwyn, 466
*Beuno*, sant, ei hanes, 369
——— nôd ar anifeiliaid, 370
*Biwmaris*, morgi, 395, 569
——— y dref a'r castell, 339
*Blackhall*, palasdy, 470
*Blayneys*, teulu y, 460
*Bleddyn ap Cynfyn*, 591
*Blodwel*, neuadd, 475
*Bod-drudan*, trigfa y Derwyddon, 383
*Bodfach*, palasdy, 456
*Bodfari*, yn sîr Ddinbych, 258
*Bodidris*, palasdy hynafol, 199
*Bodlewyddan*, palasdy, 449
*Bodrhyddan*, hen balasdy, 248
*Bodscallan*, palasdy, 438
——— ciniaw Nadolig yn, 581
*Boduan, Carn*, yn Lleyn, 364
*Bodvel*, teulu yn Lleyn, 360
*Bodychan*, hen balasdy, 411
*Bontnewydd*, yn sîr Drefaldwyn, 476
*Bordarii*, neu fythynwyr, 20
*Bord Gron Arthur*, 366
*Bovium*, neu *Bonium*, 144
*Bradwen*, llŷs, 301
*Braich y Ddinas*, 428
*Braint Hir*, un o'r 15 llwyth, 602
*Brende-tiide*, neu oes y llosgi, 201
*Breos, William de*, 426
*Bridget Bostock*, yr hudoles, 462
*Brigantiaid*, neu y Brigantwys, 19
*Brochwel Ysgithrog*, 482
*Brogyntyn*, castell, 166
——— *Owain*, 166
*Broughton*, hen balasdy, 139, 192
——— *Syr Edward*, ei lw, 511
*Bruce, Edward*, brenin Iwerddon, 400
*Brutus*, yr hynaf, 23
*Brwydr Buttington*, 474
——— *Caerlleon*, 85
——— *Carno*, 464
——— *Coed Eulo*, 65
*Brwydr Colsul*, 65
——— *Crogen*, 169
——— *Cymryd*, 436
——— *Dinbych*, 267
——— *Llanfaes*, 392
——— *Morfa Rowton*, 515
——— *Mynydd Digoll*, 470
——— *Trefaldwyn*, 468
——— *yr Amwythig*, 490
*Bryn Cornyn Iau*, 315
——— *Dychwelwch*, 66
——— *Euryn*, ger Llandrillo, 444
——— *Gwydryn*, caer Brydeinig, 384
——— *Gwyn*, neu Frein Gwyn, 382
——— *Iorkyn*, 215
——— *y Beili*, neu y Wyddgrug, 203
——— *Cloddiau*, 220
——— *Costrelau*, 341
——— *Côn*, 66
——— *Pin*, 66
——— *Pys*, 146
——— *Saethau*, 244
Brynoynau, yn—
*Aber*, 425
*Abergeleu*, 444
*Capel St. Ffraid*, 408
*Castell y Waen*, 169
*Colsul*, 66
*Erddig*, 180
*Gresford*, 191
*Gwern ddu*, 459
*Llanddona*, 393
*Mathrafal*, 459
*Milton*, 481
*Pen y Gaer*, 466
*Rhos Ddiarbed*, 463
*Sycharth*, 521
*Trefaldwyn*, 469
*Yr Amwythig*, 481
*Brynkinallt*, ger Castell y Waen, 175
*Brynkir*, yn Eifionydd, 357
*Brynodol*, yn Lleyn, 363
*Bryn y neuadd*, ger Aber, 426
*Buddugoliaeth yr Aleliwia*, 200, 217
*Bulbocodium*, 337
*Bulkeley, Syr Rhisiart*, ei hanes, 571

Digitized by Google

*Burgh, Syr Hugh de*. 296
*Burnel*, teulu enwog, 495
*Buttington*, ger y Trallwng, 474
*Bwlch Agricola*, 204
—— *Carreg y Frân*, 325
—— *Oerddrws*, cynadledd, 298, 299
—— *Pen y Barras*, 277
—— *y Cwm Brwynog*, 342
—— *y Groes*, 294
—— *y Gwyddyl*, 347
—— *yr Haiarn*, 334
—— *y Maes-cwm*, 342
—— *y Rhiw Felen*, 197
—— *y Saethau*, 348
*Bwrdd Arthur*, ger Llanddona, 396
*Bwrli*, neu Fyrtwydd y Gors, 334
*Bychton*, neu Dre-bychton, 25
*Byssus Jolithus*, planigyn, 39

C

*Cadair Rhys Goch* o Eryri, 354
*Cadeirfardd*, neu Fardd Cadeiriog, 235
*Cader Gwladus*, yn Nyffryn Clwyd, 276
*Cader Idris*, yn Meirion, 300
*Cadfan*, ei gofgolofn, 380
*Cadwaladr*, brenin olaf y Brutaniaid, 380
*Cadwallon*, y drygionus, 369
*Cadwgan*, neuadd, 184
*Cae Dwn*, neu Gae Twn, 165
—— *Nef*, ger Croesoswallt, 159
*Caer Arianrhod*, 371
—— *Bont*, gwersyllta, 235
—— *Caradog*, 497
—— *Carreg y Frân*, 341
—— *Crwyni*, 288
—— *Cwmyglo*, 341
—— *Drewyn*, 282
—— *Estyn*, 68, 215
—— *Fach*, gwersyll Rhufeinig, 463
—— *Fechan*, ger Llanddinam, 464
—— *Gai*, brawdmaeth Arthur, 292
—— *Gwrle*, 213
—— *Gybi*, 408
*Caer Hên*, 23, 437
—— *Lêb*, yn Ynys Môn, 383
—— *Lleon*, 78, 216
*Allorau Rhufeinig*, 82, 83
*Cabidyldy* (chapterhouse), 117
*Caethion Sacsonaidd*, 90
*Camlas*, 129
*Capel St. Nicholas*, 120
*Carchar*, 108
*Castell*, 107
*Crair Santes Werburgh*, 119
*Cyflwr Eglwysig*, 114
*Cyfnewidfa*, 113
*Chwareuon y Sulgwyn*, 95
*Eglwys gadeiriol*, 115, 118
*Ffrwydriad ofnadwy*, 113
*Gwin*, o Ffraingc ac Yspaen, 91
*Heolydd*, y pedair prif, 78, 79
*Ieirll Normanaidd*, 88, 117
*Lleiandy Sant Mair*, 122
*Llofruddiaeth* yn, 119
*Llongbyrth*, &c., 126
*Masnach*, neu *Drafnidiaeth*, 90, 127, 504
*Muriau*, neu *Waliau*, 104
*Mynachlog*, 115
*Neuadd Hugh Lupus*, 107
*Plwyfydd*, 123
*Pont*, 102
*Porth y Dwyrain*, 106
*Puteindai cyhoeddus*, 99
*Pyrth y Ddinas*, eu noddwyr, 103
*Rhodfeydd*, neu y *Rows*, 79
*Rood-eye*, 124
*Sacsonaidd*, y cyfnod, 85
*Siartrau*, 110
*Tlotty*, neu Dŷ Diwydrwydd 125
*Twr y Phœnix*, 102, 106
*Twym-ystafell*, 80, 81
*Ysgol*, 116
*Yspytty*, 114, 123
*Ystordai masnachol*, &c., 126
—— *Ogyrfan*, 163
—— *Senial*, 281
—— *Sws*, gwersyll Rhufeinig, 463
*Caerwys*, tref hynafol, 226

Digitized by Google

*Caerwys*, eisteddfod fawr yno, 228
*Caerynarfon*, 372—377
*Calamine*, neu fŵn alcan, 53
*Calch*, yn sir Fflint, 27
*Campau yr hen Frytaniaid*, 429
*Càndy eang*, ger Dinbych, 260
*Cangani*, neu y Cangi, 19
——— penrhyn yn cael ei alw ar eu henw, 19, 363
*Cantref Iâl*, ei blwyfydd, 192
——— *y Rhiw*, 205
*Cantrefi Powys Fadog*, 134
*Cantre'r Gwaelod*, 316
*Canute*, y Daeniad, 87
*Capel Anhelog*, yn Aberdaron, 363
——— *Curig*, yn Eryri, 335
——— *Dolbenmaen*, 356
——— *Fair*, yn Lleyn, 363
——— *Gelli*, yn sir Fflint, 24
——— *Gwenfrewi*, 35, 274
——— *Llan y Gwyddel*, 409
——— *St. Meugan*, 389
——— *St. Trillo*, ger Gloddaeth, 443
——— *y Gorlles*, ger Caergybi, 410
*Caradog*, y gwron Prydeinig, 498
*Carchar Cynrig Rwth*, 291
——— *Owain Glyndyfrdwy*, 552
*Carn Boduan*, yn Lleyn, 364
——— *Fadryn*, ger Nefyn, 360
*Carnedd Dafydd*, yn Eryri, 424
——— *Llewelyn*, 423
——— *Nant Gwrtheyrn*, 366
——— *Penbedw*, palasdy, 219
——— *Plas Newydd*, yn Môn, 386
——— *Tregarnedd*, yn Môn, 400
——— *y brenin Ingo*, 322
——— *y Filast*, yn Eryri, 423
——— *y Gwynt*, yn Eryri, 338
——— *y Lladron*, yn Eryri, 423
*Carneddau Hengwm*, 314
——— *Llanarmon*, 200
——— *Penmaenmawr*, 429
*Carno*, brwydr mynydd, 464
*Carreg Carn March Arthur*, 205
——— *Dân*, neu gailestr, 27
——— *Hwfa*, castell, 476
*Carreg Lwyd*, ger Caergybi, 407
——— *y Big*, ger Dolwyddelen, 329
——— *yn y fach rewlyd*, 384
——— *y Colomenod*, yn Nrws Ardudwy, 315
——— *y Ddinas*, ger Clynnog, 370
——— *y Gwalch*, ger Llanrwst, 329
——— *y Saeth*, ger Harlech, 318
*Carw*, gwarant i ddal un o'r Wyddfa, 566, 567
——— yn nofio dros afon Menai, 345
*Cassiterides*, neu wlad yr alcan, 52
*Cassivellaunus*, neu Casfelyn, 55
*Castanwydd mawrion*, 277
*Castell Aber Llienawg*, 393
——— *Aberystwyth*, 43
——— *Acton Burnel*, 495
——— *Aeloedd Frenin*, 384
——— *Bangor*, yn Arfon, 413
——— *Biwmaris*, 389
——— *Brogyntyn*, 166
——— *Caerenion*, 459
——— *Caergwrle*, 214
——— *Caer Lleion*, 431
——— *Caerlleon*, 107
——— *Caernarfon*, 372
——— *Caledfryn yn Rhos*, 264
——— *Carreg Hwfa*, 476
——— *Cidwm*, yn Eryri, 377
——— *Coch yn Ngwernor*, 278
——— *Coed Eulo*, 65
——— *Coetty*, yn y Deheudir, 547
——— *Conwy*, 431
——— *Corndochon*, 292
——— *Craig y Ddinas*, 314
——— *Cricaeth*, 359
——— *Croesoswallt*, 159
——— *Crogen* (Castell y Waun,) 171
——— *Diganwy*, 247, 431, 441
——— *Dinas Brân*, 177
——— *Dinas Cortin*, 314
——— *Dinbych*, 267, 555
——— *Dolbadarn*, 339
——— *Dolforwyn*, 460
——— *Dolwyddelen*, 328
——— *Dyserth*, 246

Digitized by Google

*Castell Ellesmere*, 148
——— *Eulo*, neu Goed Eulo, 65
——— *Gronw Befr*, o Benllyn, 289
——— *Harlech*, 319
——— *Iâl*, gerllaw Valle Crucis, 198
——— *Llanbedr*, 547
——— *Lleon*, 132, 135—137
——— *Mawr*, yn Ynys Fôn, 401
——— *Overton*, 145
——— *Pen-ar-lâg*, 68—74
——— *Powys*, 471—473
——— *Prestatyn*, 245
——— *Prysor*, yn Meirionydd, 308
——— *Rhuthyn*, 277
——— *Rhuddlan*, 248, 510
——— *Shocklach*, 137
——— *Shrawardine*, 479
——— *Teberri*, gar Tywyn Meirionydd, 303
——— *Trefaldwyn*, 468
——— *Treffynon*, 39
——— *Wattleburg*, 478
——— *Whittington* (Dref Wen,) 156
——— *y Maesglas*, 30
——— *y Penrhyn*, 415
——— *y Waun*, 169—171
*Castelli Coed*, 198
*Castlemain*, Iarll, 471
*Caswallon Law-hir*, 402, 409
*Catrin o'r Berain*, 259
*Cawellyn*, llyn, 352
*Caws*, gwneuthuriad, 84, 91
*Ceangi*, llwyth y, 19, 50
*Cefn Amlwch*, yn Lleyn, 363
—— *Coch*, ger Nannau, 530
—— *Ogof*, ger Abergeleu, 444
—— *Uchaf*, yn sir Ddinbych, 175
—— *y Castell*, sir Drefaldwyn, 477
—— *y Fan*, yn Eifionydd, 529
*Cegidog*, ger Abergeleu, 445
*Ceiriog*, afon, ger Castell y Waun, 169
*Ceir Llusg*, eu gwasanaeth, 295
*Cerddoriaeth offerynol*, graddedigion yn eisteddfod Caerwys, 234
———— yr hynafiaid, 302
*Cerfddelwau Rhufeinig*, 82, 83
Cerfiadau yn—
*Bangor Iscoed*, 144
*Bedd Porus*, 308
*Bettws*, sir Drefaldwyn, 466
*Caerlleon*, 78, 83
*Cail Wart*, 313
*Corwen*, 284
*Cwm*, gerllaw Dyserth, 247
*Gresford*, neu y *Groesffordd*, 190
*Gwrecsam*, 185—187
*Gwytherin*, 274
*Llanarmon*, 200
*Llanelwy*, 254
*Llaneurgain*, 64
*Llangadwaladr*, yn Môn, 330
*Llanrhaiadr Dyffryn Clwyd*, 276
*Llanrwst*, 332, 562
*Llanuwchllyn*, 293
*Lleyn*, amryw fanau yn, 361
*Mynachlog y Groes*, 193
———— *y Maesglaes*, 503
*Niwbwrch*, yn Môn, 378
*Penmorfa*, yn Eifionydd, 168, 356
*Rhiwabon*, ger Wynnstay, 180, 181
*Tremeirchion*, 256
*Tŷ Coch*, ger Bangor, 414
*Yr Amwythig*, 484, 485
*Cerflun Minerfa*, yn Nghaerlleon, 82
*Cernunnos*, duw y Galiaid, 315
*Cerrig*, a chylchau cerrig, 314
*Cerrig y Druidion*, 291
*Ceris, Pwll*, ar y Fenai, 387
*Cesail Gyfarch*, yn Eifionydd, 529
*Cestyll Coed*, eu diflaniad, 198
*Ceunant Mawr*, rhaiadr y, 341
*Ceunant yr Esgar*, 338
*Chert*, math o garreg dân, 27, 221
*Chirbury*, pentref, 467
*Cilcen*, eglwys, 218
*Cilmin Droed-ddu*, 75, 371, 598
*Cistfaen Brydeinig*, 291, 314
*Cistiau Styffylog*, 317
*Claddu*, hen ddulliau o wneyd hyny, 200—204, 400
*Clare*, y brawd a'r chwaer, 141
*Clawdd Offa*, ei llediad, 164

Digitized by Google

*Clawdd Wat*, ei rediad, 164
*Cleddyf Owain Glyndwr*, 284
*Clefyd Chwysu*, y, 492
*Clenenney*, yn Eifionydd, 356, 357
*Clogwyn Du*, yn mhen y Glyder, 337
——— *yr Heliwr*, 423
*Clough*, Syr Rhisiart, 257
*Clwyd*, afon, 266
——— dyffryn, 256
——— mynyddoedd, 218
*Clynnog*, pentref ac eglwys, 368
*Cneifiwr Glâs*, y, 197
*Cockwillan* (nodiad,) 428
*Coed Eulo*, 65
—— *Llai*, neu Leeswood, 206, 212
—— *Marchan*, ger Rhuthyn, 281
—— *Plâs Newydd*, yn Môn, 385
*Coedwig* neu *Fforest y Wyddfa*, 345
——— suddedig, ger Abergeleu, 245
Cofadeiliau yn—
*Clynnog*, 368
*Eglwys y Waun*, 170
*Llanbeblig*, 376
*Llanrwst*, 562
*Penmorfa*, 168
*Rhiwabon*, 180
*Y Wyddgrug*, 207
*Coleshill*, yn sir Fflint, 41, 46, 65
*Colomendy*, palasdy, 205
*Collen Sant*, ei achau, 176
*Collwyn ap Tangno*, 597
*Condolanus*, neu Cynddylan, 152
*Condover*, palasdy, 494
*Conferva Gelatinosa*, 39
*Congen*, ei feddargraff, 196
*Conna's He*, ger Pen-ar-lâg, 68
*Conovium*, neu Gaer Hên, 53, 437
*Conwy*, beddrodau, 433
——— di-dôi y castell, 435, 581
——— llyn, 325
——— mynachlog, 432
——— pytatws a allforiwyd o, 580
——— rhaiadr, 326
——— y castell a'r dref, 431—436
*Cop ar leni*, neu Cop y Goleuni, 244
*Copa y Wyddfa*, 342
*Copa yr Wylfa*, 445
*Copr Mynydd Parys*, 402—406
—— *Prydeinig*, 52
—— *teisenau, mwnau*, &c., 23, 53, 437
*Corachod*, ger Penmorfa, 357
*Coraglau*, cychod yr hynafiaid, 144
*Corarian*, hen euw eglwys Llandegai, 421
*Coriaid*, eu hanes, 425
——— eu priodasgerdd, 425
*Corineus*, neu Ynys Gybi, 408
*Coritani*, neu Coetani, 19
*Cornavii*, llwyth y, 19, 68
*Cors y Gedol*, yn Meirion, 313
*Corwen*, eglwys a thref, 283, 453
——— mynwent, 284
*Coytmor, Hywel*, 333
——— palasdy, 424
*Craig y Deryn*, ger Tywyn, 303
—— *y Dorth*, ger Mynwy, 539
—— *y Ddinas*, ger Corsygedol, 313
——— yn Mowddwy, 296
—— *y Parc*, sir Fynwy, 27
*Cranage, George*, ei ryfyg, 163
*Cregynog*, palasdy, 459
*Crib Goch*, ger y Wyddfa, 343
—— *y Distyll*, eto, 343
*Cricaeth*, tref a chastell, 358
*Crisial Ynys yr Iâ*, 224
*Cro*, math o iawn am drosedd, 174
*Croes*, Sant, eglwys, 37
Croesau—
*Atiscross*, neu Groes-ati, 46
*Croes Einion*, 247
*Maen Achwynfan*, 24
*Tremeirchion*, 256
*Croesoswallt*, ei hanes, 157
——— ei heglwys, 158
——— ei siartrau, 161, 162
——— hen, 163
*Cromlech Bodowyr*, 383
——— *Bryn y Foel*, 315
——— *Clynnog*, 370
——— *Llugwy*, yn Môn, 401
——— *Naturiol*, 347
——— *Plâs Gwyn*, 396

*Cromlech Tre'r Dryw*, 382
——— *Ystum Cegid*, 357
*Cromlechau Hengwm*, 315
———— *Plâs Newydd*, 385
*Cromwell, John de*, 215
*Cumbermere*, mynachlog, 258
*Cunobelinus*, neu Cynfelyn, 55
*Cwm Brwynog*, 341
—— *Bwchllwyd*, 336
—— *Bychan*, 316
—— *Croesor*, 324
—— *Cwmorthin*, 324
—— *Cynllwyd*, 293
—— *Dyli*, yn Eryri, 343
—— *Idwal*, 337
—— *Penllafar*, 424
—— eglwys yn sir Fflint, 247
*Cwmorthin*, 324
*Cyfarwyddiadau Syr John Wynn* i'w gaplan, 560
*Cyfnicht*, craig bigfain, 356
*Cyfreithiau Rhuddlan*, 251
*Cyff Beuno*, yn Nghlynog, 370
*Cyff Clêr*, yn mhlith y beirdd, 238
*Cyffindiroedd*, arglwyddi y, 506
*Cylch Derwyddol*, ger Clenennev, 357
*Cylchau Derwyddol*, yn Llugwy, 401
*Cylchau o Gerrig*, 314, 382, 429
*Cymmer*, mynachlog y, 306
*Cymmydau Powys Fadog*, 134
*Cymru*, rheoleiddiad ei siroedd, 206
——— tri thlws, 176
*Cymry*, heb fod i gyd yn feddwon, 324
*Cŷn Rhufeinig*, a gaed mewn gwaith plwm, 48
*Cynddylan*, neu Condolanus, 152
*Cynedda Wledig*, nodiad, 292
*Cynfael*, pwlpud Hugh Llwyd, 324
——— rhaiadr y, 324
*Cynfelyn*, neu Cunobelinus, 55
*Cynhebryngau*, defodau mewn, 446
*Cynrig Rwth*, carchar, 291
*Cynwyd*, pentref a rhaiadr, 285
*Cyrn yfed*, eu hanes, 416
*Cyrys o Iâl*, 204
*Cytiau y Gwyddelod*, 322

CH

*Chwareli Llechi*, 414, 415
*Chwareuon y Sulgwyn*, yn Nghaerlleon, 95
*Chwareuyddiaeth Yspeinig*, 99
*Chwiff (whiff,)* math o bysgodyn, 29
*Chwiliar (wheatear,)* math o aderyn, 348
*Chwysu, y Clefyd*, 492

D

*Dacre*, maenor, 50
*Dafydd Daron*, deon Bangor, 535
——— *Ddu o Hiraddug*, 256
——— *Gam*, ei hanes, 535
——— *y Tywysog*, ei ddiwedd, 69
*Daniel Sant*, esgob Bangor, 412
*Datceiniad*, math o gerddor, 238
———— pen pastwn, 238
*Davies, Edward*, y Cneifiwr Glâs, 197
*De Burgh, Hugh*, 296, 478
*Dechreuad Gweision y Sirydd*, 559
*Deceang*, argraff ar blwm, 50
*Dee, Doctor*, y consuriwr, 312
*Defodau* neu arferion crefyddol, 446
*Derfel Gadarn*, ei ddelw, 286
*Derwen Ceubren yr Ellyll*, 305
——— *yr Abad*, 33
*Derwyddon*, yn Ynys Môn, 382
*Deuwen*, eglwys ger Llanddwyn, 390
*Deva*, yr afon Ddyfrdwy, 17, 19, 78
*Diafliaid*, neu ysprydion drwg, 305, 447
*Diafol*, poeri wrth grybwyll ei enw, 446
*Dic a Mari Bach o Gwmmain*, 357
*Dictum*, beth yw ei ystyr, 441
*Dietam, ad*, math o gosp, 109
*Diganwy*, castell, 247, 431, 441
*Dinas*, bryn ger Llandudno, 443
—— *Brân*, castell, 177
—— *Dinlle*, 370, 371
—— *Dinorthwy*, 371
—— *Dinorddwig*, 340
—— *Emrys*, 349
—— *Mowddwy*, 296

*Dinas Porchellyn*, 316
——— *y Prif*, 371
*Dinbych*, castell a thref, 264
——— eglwys, 266
——— ei siartr, 267
——— llythyr iarll Leicester, 269
——— priordy, 267
——— rhoi i fyny y castell, 555
*Dinoth* sant, abad Bangor Iscoed, 143
*Dinystr* ar adar y môr, 358
*Doddleston*, y pentref lle y claddwyd y Canghellydd Egerton, 77
*Dolau Cothi*, cloddio am aur yno, 54
*Dolbenmaen*, capel, 356
*Dolgellau*, tref yn Meirion, 299
*Dol y Melynllyn*, rhaiadr, 307
*Domitian*, ei enw ar glamp o haiarn, 50
*Doomsday Book*, beth ydoedd, 20
*Downing*, 18, 243, 453
*Drefnewydd*, y, 462
*Dref Wen*, y (Whittington,) 152
*Druidion, Cerrig y*, 291
*Drws Ardudwy*, yn Meirion, 315
——— *y Coed*, yn Arfon, 352
*Dudestan*, cantref, 131
*Dulas*, morgilfach, 401
*Dunmonii*, neu Duumwyn, 19, 52
*Dyfi*, yr afon, 17, 514
*Dyfneint*, nodyn gan J. R., 19
*Dyfrdwy*, yr afon, 17—19, 75, 289
*Dyffryn Aled*, 272
——— *Clwyd*, 256
——— *Conwy*, 327
——— *Glisseg*, 197
——— *Mowddwy*, 294
——— *Mymbyr*, 335
——— *Nannerch*, 219
——— *yr Hafren*, 460
*Dyhuddiant Elphin*, 336
*Dylassi*, palas y Llwydiaid, 185
*Dylluan fechan*, 146
*Dynes yn ymprydio*, 310
*Dyserth*, eglwys a chastell, 246
*Dysgybl dysgybluidd*, 235
——— *pencerddaidd*, 235
——— *yspâs*, y dysgybl isaf, 235

*Eaton*, pentref ar y Ddyfrdwy, 130
*Eccleston*, pentref, eto, 130
*Edeyrnion*, dyffryn, 287
*Edgar frenin*, ei balas, 82, 87
*Edmunt Ystlyshaiarn*, 87
*Ednowain*, yn sir Fflint, 18, 25
——— *ap Bradwen*, 301, 605
——— *Bendew*, 25, 604
*Ednyfed Fychan*, 399, 600
*Edwin*, arglwydd Tegeingle, 21, 603
*Efnydd*, mab Gwenllian, 605
*Egbert*, brenin y Sacsoniaid, 85
*Egerton*, barwn Ellesmere, 77
*Eglwys Aberdaron*, 361
——— *Abererch*, 360
——— *Battlefield*, 492
——— *Bettws Garmon*, 352
——— *Bettws yn Nhrefaldwyn*, 466
——— *Biwmaris*, 391
——— *Caergybi*, 408
——— *Carno*, 464
——— *Castell y Waen*, 170
——— *Cilcen*, 218
——— *Clynnog*, 368
——— *Croesoswallt*, 158
——— *Cwm*, 247
——— *Dinbych*, 266
——— *Dysserth*, 246
——— *Estyn*, 216
——— *Fitles*, ger yr Amwythig, 481
——— *Gilesfield*, 474
——— *Gresford*, 189
——— *Gwrecsam*, 185
——— *Helygen*, 63
——— *Llanaelhaiarn*, 368
——— *Llanarmon*, 200
——— *Llanasaph*, 244
——— *Llanbeblig*, 375
——— *Llanberis*, 339
——— *Llandegai*, 421
——— *Llandegla*, 199
——— *Llandrillo*, 285, 444
——— *Llandrinio*, 477
——— *Llandudno*, 442
——— *Llandysilio*, 192

Digitized by Google

*Eglwys Llandysilio* yn Maldwyn, 474
———— yn Môn, 387
——— *Llanddeiniolen*, 340
——— *Llandderfel*, 286
——— *Llanddinam*, 464
——— *Llanddona*, 396
——— *Llanddwyn*, 380
——— *Llaneilian*, 402
——— *Llanelwy*, 253
——— *Llanelltyd*, 306
——— *Llanelltydd*, 309
——— *Llaneurgain*, 64
——— *Llanfaes*, 392
——— *Llanferres*, 205
——— *Llanfyllin*, 457
——— *Llangadwaladr*, 380
——— *Llangar*, 285
——— *Llangernyw*, 275
——— *Llangollen*, 176
——— *Llanidan*, 381
——— *Llan Helygen*, 63
——— *Llanidloes*, 465
——— *Llaniestyn*, 397
——— *Llanrhaiadr*, 276
———— yn Mochnant, 456
——— *Llanrhudd*, 280
——— *Llanrwst*, 332
——— *Llansanan*, 273
——— *Llansantsior*, 445
——— *Llantrisant*, 411
——— *Llanuwchllyn*, 292
——— *Llanymowddwy*, 295
——— *Llanymynach*, 474
——— *Llanystumdwy*, 359
——— *Marchwiail*, 192
——— *Nannerch*, 221
——— *Penmynydd*, 399
——— *Pennant Melangell*, 455
——— *Rhiwabon*, 180
——— *Rhos*, ger Llandudno, 440
——— *Rhuddlan*, 252
——— *Rhuthyn*, 278
——— *Sant Croes*, 37
——— *Selattyn*, 168
——— *Trefaldwyn*, 470
——— *Trefriw*, 333
*Eglwys Treffynnon*, 39
——— *Wen*, neu St. Marcellus, 261
——— *y Bedd*, ger Caergybi, 409
——— *y Dref Wen*, 156
——— *y Waun*, 170
——— *y Wyddgrug*, 206
Eglwysi Caerlleon—
*St. Ioan*, 122
*St. Oswald*, 119, 121
*St. Pedr a St. Paul*, 120, 123
*Y Drindod Sanctaidd*, 120, 123
*Yr Eglwys Gadeiriol*, 115, 118
Eglwysi yr Amwythig—
*St. Alcmund*, 489
*St. Chad*, 489
*St. Giles*, 489
*St. Mair*, 489
*Y Groes Sanctaidd*, 487
*Eiddo Mwneiol*, 58–63
*Eifionydd*, ymrafaelion yno, 357
*Eifl*, mynyddoedd yr, 367
*Eisteddfod Caerwys*, ei hanes, 228
———— commissiwn gan y frenines Elisabeth, 232
———— *yr Arglwydd Rhys*, 237
*Elian*, ffynhon, 446
*Elihu Yale*, ei feddargraff, 186
*Elisseg*, piler, yn nyffryn Glisseg, 195
*Ellesmere*, yn sir yr Amwythig, 147
*Ellyce*, y milwriad, 171
*Elphin*, cân Taliesin iddo, 334
*Emral*, palas y Pulesdoniaid, 142
*Englefield*, neu Atis-cross, 21
———— Syr Francis, ei hanes, 480
*Enlli*, Ynys, neu Ynys y Beirdd, 361
*Entrochi*, rhywogaeth o fôrser, 216
*Enwau Cymreig*, eu talfyriad, 23
*Eogiaid*, yn esgyn afonydd, 465
*Erbistock*, yn sir Fflint, 138
*Erddig*, palas Philip Yorke, 184
*Eric*, iawn am waed, 174
*Eryri*, arglwydd, 346
——— mynyddoedd, 334—377
*Estyn*, caer, gorsaf Brydeinig, 215
*Ethelfleda*, yr wrones, 86
*Ethelfrid*, brenin y Sacsoniaid, 85

Digitized by Google

*Ethelystan Glodrydd*, 591
*Eulo*, brwydr coed, 65
—— gweddillion castell, 65
—— maenor, 66
*Eurgain*, santes, 64
*Evans*, y cosuriwr, 312
*Eyton*, John ap Elis, ei fedd, 180
—— yn sir Ddinbych, 145

F

*Fâd Felen*, y, 440
*Faenol*, yn Arfon, 386
—— yn sir Fflint, 448
*Farn*, neu Farndon, 131
*Felyn-rhyd*, ger Tanybwlch, 323
*Fenechdyd*, yn Nyffryn Clwyd, 605
*Fittes*, eglwys, golygfa hardd, 481
*Fitzalans*, ieirll Arundel, 160
*Fitzwarines*, eu dechreuad, 153
*Foelas*, yn sir Ddinbych 326
*Folebroc*, neu Feilebroc, 25
*Forest*, y mynach, ei losgi, 286
*Foxhall*, ger Dinbych, 273
*Freiddin*, mynyddoedd y, 477
*Friars*, ysgol rydd yn Mangor, 416
*Froissart*, copi prydferth o hono, 440
*Fron*, golygfa brydferth o'r, 205
*Fulk*, yr isgadben, 153
*Fwlturiaid*, pâr o, 146
*Fwyall, Syr Hywel y*, 103, 359, 597
*Fyrnyw*, yr afon, 475

FF

*Ffarwel Dai Llwyd*, hen alaw, 317
*Ffestiniog*, yn Meirionydd, 324
*Fflint*, y dref, 41
—— y castell, 42
—— cwyn gwŷr y dref, 42
—— hynafiaethau, 55—57
—— yn hen orsaf Rufeinig, 41, 46
—— y carchar, 42
—— sir, y leiaf o siroedd Cymru, 18, 138, 205
—— —— ei chyllidau gynt, 46
—— —— pwy a'i darostyngodd, 20
—— —— pysgod, penwaig, &c., 28
*Ffordd Gam Helen*, 463
—— *Helen*, 284, 325
—— *Rufeinig* o Gaerlleon, 81
—— —— yn Nghaergwrle, 213
*Fforest y Wyddfa*, 345
—— yn mhlwyf Llansanan, 275
*Ffrwydriad* yn Nghaerlleon, 113
Ffynhonau,—
*Ffynhon Cegin Arthur*, 39, 340
—— *Fair*, yn Aberdaron, 363
—— *Lâs*, 342, 348
—— *Leinw*, yn Nyffryn Nannerch, 219
—— *Llanddeiniolen*, 39, 340
—— *Sant Asaph*, 246
—— —— *Dyfnog*, 276
—— —— *Elian*, 446
—— —— *Helen*, 377
—— —— *Oswallt*, 159
—— —— *Peris*, 339
—— —— *Sior*, 445
—— —— *Tegla*, 199
*Ffynhonau* heilltion Rhyddyn, 216
*Ffyrdd* Rhufeinig, 81, 213, 463

G

*Gadlys*, neu y brif wersyllfa, 66
*Gai*, brawdmaeth Arthur frenin, 292
*Galanas*, neu gwerth, 173, 231, 357
*Galnes*, iawn gan yr Ysgotiaid, 174
*Gallt-faenan*, yn sir Ddinbych, 255
*Gam, Syr Dafydd*, ei hanes, 535
*Ganion, Pentir*, nodiad gan J.R., 19
*Ganllwyd*, yn Ardudwy, 530
*Garreg*, goleudy y, 243
*Garn Guwch*, ger Clynnog, 368
*Garthen*, ger Rhiwabon, 183
*Garthewin*, ger Llangernyw, 275
*Garwy, Syr*, y chwedl am dano 178
*Geirionydd*, llyn, 334
*Gelli*, yn sir Fflint, 24
*Germanus*, sant, 217
*Gern Goch* a'r *Gern Ddu*, 368
*Gherbod*, iarll cyntaf Caerlleon, 88
*Gibson*, y côr-baentiwr, 425
*Giler*, palasdy y barwn Price, 291, 326

Digitized by Google

*Gilesfield*, eglwys a phentref, 474
*Giraldus Cambrensis*, y teithydd, 338, 352, 372, 587
*Glain Neidr*, 341
*Glannog*, Ynys, 393
*Glan y Llyn*, hen balasdy, 292
*Glaswellt*, amrywiol fathau, 341
*Gleisiaid*, ger Pont Aberglaslyn, 353
——— pa mor bell yr esgynant yr afonydd, 465
*Glisseg*, dyffryn, 197
*Glo*, gweithydd Mostyn a Bychton, 26
— yn adnabyddus i'r Brytaniaid, 27
*Gloddaeth*, hen balasdy, 438
——— planigion anghyffredin yn y rhodfeydd, 439
*Glyder Fach*, yn Eryri, 335
——— *Fawr*, eto, 338
*Glyn Artro*, ger Harlech, 316
—— *Dyfrdwy*, cwmwd yn Mhowys yn yr hen amser, 193
—— *Llifon*, ger Caernarfon, 75, 371
—— *Llugwy*, yn Eryri, 335
—— yn agos i Harlech, 323
*Glynne*, y prif ynad, 75
*Gobowen*, ymhlwyf y Dref Wen, 164
*Gogarth*, penrhyn Llandudno, 442
*Goginstoole*, neu Ystôl y Cecrod, 470
*Goleudy Caergybi*, 410
——— *y Garreg*, 243
*Goodman*, Dr. Gabriel, 278
*Gorchestion Guarine a'i feibion*, 154
*Gorchfygiad Normanaidd*, y, 88
*Gordofigion*, y, 17, 18, 64
*Gorphwysfa*, yn Eryri, 347
Gorsafoedd Prydeinig,—
*Bryn Costrelau*, 341
—— *Gwyn*, palasdy, 457
—— *y Cloddiau*, 220
*Caer Carreg y Frân*, 341
—— *Caradog*, 497
—— *Cwm y Glo*, 341
*Carn Boduan*, 364, 428
—— *Fadryn*, 360, 428
*Castell Caer Lleion*, 431
*Copa yr Wylfa*, 445
Gorsafoedd Prydeinig (parhad)
*Dinas*, ger Llandudno, 443
*Dinas Dinorddwig*, 340
*Gwern Ddu* (Mathrafal,) 459
*Moel Arthur*, 219
—— *Fenlli*, 204, 220
—— *Garthen*, 183
—— *Hiraddug*, 220, 247
—— *y Crïo*, 220
—— *y Gaer*, 220
*Pen Caer Helen*, 437
*Penmaen Mawr*, 428
*Penygaer*, 340, 368
*Rhiw'r Cyrn*, 340
*Trefaldwyn*, 469
*Tre'r Caeri*, 367
*Woodbury*, bryn, 545
*Gorsafoedd Prydeinig*, eu gwasanaeth, 63, 64
*Gorseddau* yn Nhre'r Dryw, 382
*Gosteg yr Halen*, hen alaw, 229
*Gredington*, palasdy, 140
*Gresford*, neu y Groesffordd, 189
——— beddrodau yn, 190
*Grey, Arglwydd*, o Ruthin, 521, 522, 524, 528
*Grib Goch*, yn Eryri, 348
*Griffith, George*, esgob Llanelwy, 272
*Gronant*, morfa, 245
*Grosvenor*, rhodd fwneiol i'r teulu, 59
*Gryffydd ap Cynan*, 231, 283, 589
——— *ap Madog*, y bradwr, 177
——— *Llwyd*, o Dre'garnedd, 390
*Gutyn Owain*, y bardd, 33
*Gwaenynog*, palasdy, 271
*Gwaenysgor*, eglwys, 244
*Gwair y rhosydd*, 341
*Gwalch*, hirfaith ehediad un, 21
*Gwalchmai*, y bardd a'r milwr, 477
*Gwalch y penwaig*, aderyn, 395, 442
*Gwarant* am garw o'r Wyddfa, 566
*Gweddw Glâs*, ger Dwygyfylchi, 429
Gweddillion Rhufeinig yn—
*Caerfach*, 463
*Caergwrle*, 213
*Caergybi*, 410

Digitized by Google

Gweddillion Rhufeinig (parhad)
*Caer Hen*, 23, 437
*Caerlleon*, 82—84
*Caer Sws*, 463
*Llanymynach*, 475
*Routon*, neu Rutinium, 478
*Segontium* (Caernarfon), 376
*Wroxeter*, ger yr Amwythig, 483
*Yr Amwythig*, 481
*Y Gaer*, yn mhlwyf Ffordin, 466
*Y Garreg*, 243
*Gwehelyth* a *Gwehelaethau*, 587
*Gweirydd ap Rhys Goch*, 596
*Gweision y Sirydd*, dechreuad, 559
*Gweithydd Cerrig Calch*, 475
———— *Glo*, 26
*Gwely*, pa beth ydoedd, 438
*Gwenfrewi*, brawdoliaeth, 37
———— ei ffynhon, 34
———— ei hanes, 36
———— ei symudiad, 274
*Gwenwynwyn*, ei siartr, 584
*Gwersyll Owain Gwynedd*, 445
———— *Rhufeinig*, 309, 466
*Gwersylloedd Prydeinig*, gwel GORSAFOEDD
*Gwersyllt Isaf*, ger Gwrecsam, 191
———— *Uchaf*, eto, 192
*Gwespyr*, pentref, 245
*Gwerth*, neu *Galanas*, 173, 231, 357
*Gwialen ddewiniol*, 48
*Gwindy*, yn Rhuddlan, 252
*Gwlaw mawr* (nodiad,) 293
*Gwrecsam*, tref, 185
———— beddargraffiadau yno, 186
———— clochdy, 187
———— eglwys, 185
*Gwrtheyrn*, bedd, ei agor, 367
———— nant, 366
———— yn adeiladu dinas, 349
*Gwrthryfel Madog*, 374, 470
*Gwydir*, yn sir Gaernarfon, 330
*Gwydr*, ei ddwyn gyntaf i Frydain, 55
*Gwydr-dangos* y Doctor Dee, 313
*Gwyddel*, ynys y, ger Caergybi, 408
*Gwyddelod*, cytiau y, 322
*Gwyddelwern*, pentref, 282
*Gwyddno Goronhir*, 316
*Gwyl yr Asynod*, 98
*Gwylliaid Cochion Mowddwy*, 297
*Gwynant*, nant, 349
*Gwynedd, Hywel*, ei ladd, 63, 64, 603
———— *Owain*, ei fedd, 413
———— ———— ei feibion yn gorchfygu byddin y brenin Harri III., 65
*Gwyniaid*, math o bysgod, 288
*Gwyrddling* (myrtwydd y gors,) 334
*Gwysaney*, ger y Wyddgrug, 207
*Gwytherin*, pentref ac eglwys, 36, 274
*Gyrys*, casglydd y diarhebion Cymreig, 204

H

*Haelioni yn Bodscallan*, 581
*Hafod Lwyfog*, 349
*Hafodunnos*, tŷ am noson, 211, 275
*Hafottai*, dysgrifiad o honynt, 341
*Hafren*, yr afon, 460
*Haiarn*, yn Ynys Prydain, 53
*Haleliwia*, buddugoliaeth yr, 200, 217
*Halston*, trigfa y Myttons, 150
———— hen berchenogion, 151
*Hanbridge*, yn maesdrefi Caerlleon, 77
*Hanmer*, tref yn sir Fflint, 139
———— *Syr Thomas*, 140
*Harlech*, y dref a'r castell, 319
*Harri VII.*, yn cael noddfa yn Mostyn, 22
*Harri*, tywysog Cymru, 526, 536, 540, 547
*Hartsheath*, palasdy, 212
*Hebog*, neu *Walch*, ehediad hirfaith un o honynt, 21
*Hebogyddiaeth yn Nghymru*, 442
*Hedd Molwynog*, un o'r pymtheg llwyth, 601
*Helen, Ffordd Gam*, 463
———— *Pen Caer*, 437
———— *Santes*, 377
———— *Sarn*, 308
*Helwriaeth yr hynafiaid*, 318
*Helyg ap Clunog*, 389

Digitized by Google

*Helygen*, pentref yn sir Fflint, 58
*Hen arfau y Cymry*, 385
*Hen feirdd y Cymry*, 229, &c.
*Hendre*, palasdy yn Rhuddlan, 252
——— neu y cartref gauafol, 342
*Hen ddinas Croesoswallt*, 163
*Hen ddull o doddi meteloedd*, 51
*Henllan*, gerllaw Dinbych, 272
*Henllys*, ger Llangernyw, 275
*Herbert*, arglwydd, o Chirbury, 467
——— arglwyddes Mair, 471
*Hesp-alun*, neu yr Alun sech, 218
*Hieracium Alpinum*, 338
*Hilbree*, neu Ilbree, ynysoedd, 28
*Hirlas Owain*, 184, 417
*Hoidelsetiide*, oes y twmpathau, 201
*Hoigold*, dull hynafol o gladdu, 201
*Hollands*, teulu yr, 448
*Holt*, neu Gastell Lleon, 132
*Hoopoe*, math o aderyn dyeithr, 226
*Hotspur* yn ymuno â Glyndwr, 536
——— yn cael ei ladd yn mrwydr yr Amwythig, 491
*Hughes, William*, esgob Llanelwy, 208, 247, 251
*Hugh de Burgh*, 296, 478
*Huw*, iarll yr Amwythig, a laddwyd yn Ynys Môn, 393
——— *Lupus*, iarll Caerlleon, 88
——— ei gastell yn Mangor, 413
——— ei neuadd yn Nghaerlleon, 107
——— ei ymosodiad ar Ynys Fôn, 393
*Huw Llwyd Cynfael*, ei bwlpud, 324
*Huw Myddelton*, o Gastell y Waun, 262
*Husa ap Cynddelw*, un o'r pymtheg llwyth, 594
*Hwlcyn Llwyd ap Meredydd* o Lynllifon, 529
*Hywel ap Einion Lygliw*, 177
——— *Coytmor*, ei feddrod, 333
——— *Gwynedd*, 63, 64, 603
——— *Sele*, o Nannau, 529
——— *y Fwyall*, Syr, 103, 359, 597

I

*Iago I.*, yn Nghaerlleon, 101
*Iâl*, cantref yn sir Fflint, 192
*Iarll Leicester* a phobl Dinbych, 269
*Ictis*, neu fryn St. Michael, 52
*Idris, Cader*, yn Meirionydd, 300
*Ieirll Caerlleon*, 88, 117
*Iestyn ap Gwrgant*, 593
*Iestyn, Sant*, 397
*Ieuan ap Meredydd*, ei farw, 529
*Infangthefe*, beth ydoedd, 110
*Ingo*, carnedd y brenin, 322
*Inhabit Angola*, 146
*Inigo Jones*, yr adeiladydd, 331
*Iolo Goch*, bardd Glyndwr, 519, 541
*Iorcyn*, bryn, ger Caer Estyn, 215
*Iorwerth Drwyndwn*, ei fedd, 455
——— I., ei gyhoeddiadau, 353
——— II., tywysog Cymru, 278
——— *Bruce*, brenin Iwerddon, 400
*Iris fœtidissima*, 395
*Isgorfai*, yn Arfon, 377
*Isoetis lacustris*, 338
*Ithyphallus*, math o gyfaredd, 57

J

*Jeffries*, y canghellydd, ei hanes, 188
*Joan*, gwraig Llewelyn Fawr, 426
——— ei harch yn Baron Hill, 392
*John de Cromwell*, 215
——— *Trevor*, esgob Llanelwy, 530, 550
*Jones o Gadwgan*, ei ddiwedd, 184
——— y teyrnleiddiad, 315
——— yn llywodraethu Caerlleon, 102
*Judas*, curo y ddwyfron pan y crybwyllid ei enw, 446
*Juncus triglumus*, 338
*Jungermannia*, math o fwsogl, 39

K.

*Karn Gollewa* (yn Nghernyw,) 244
*Karn Leskyz*, eto, 244
*Kelchyn*, iawn gan yr Ysgotiaid, 174
*Kinmael*, palasdy, 448
*Knolton*, pentref yn sir Fflint, 145
*Kynaston*, Syr Francis, 150

Digitized by Google

L

*Lacy, Henry*, iarll Lincoln, 264
*Latimer*, yr esgob Hugh, 286
*Leeswood*, neu Goed llai, 206, 212
*Leicester*, iarll, ei lythyr trahaus at fwrdeisiaid Dinbych, 269
——— ei helynt â Syr Rhisiart Bulkeley, 571
*Lever*, Syr Ashton, ei amgueddfa, 146
*Lewis Bifort*, esgob Bangor, 530, 539
*Lewis Glyn Cothi*, ei helynt â thrigolion Caerlleon, 212
*Lichen islandicus*, 337
——— *omphaloides*, 342
——— *parietinus*, 342
*Lindisfarn*, eglwys gadeiriol, ei thoi â phlwm, 51
*Lobelia dortmanna*, 338
*Locustiaid*, disgyniad mawr o, 358
*Londinum*, neu Lundain, 19
*Longnor*, portreadau yn, 494
*Loton*, yn sîr yr Amwythig, 478
*Lugun*, hen enw Helygen, 63
*Lupus*, cydymaith Garmonus, 200
*Lupus, Hugh*, iarll Caerlleon, 88
——— ei gastell (Bangor,) 413
——— ei neuadd, yn Nghaerlleon, 107
——— ei rwysg tywysogol, 89
——— yn goresgyn Môn, 393
*Lyre-wyte y Sacsoniaid*, 142, 143

LL

*Lladmer*, tarddiad y gair, 154
*Llam y Lladron*, 305
*Llanaelhaiarn*, 368
*Llanarmon*, 200
*Llanasaph*, 244
*Llanbeblig*, 375
*Llanberis*, 339
*Llandegai*, 421
*Llandegla*, 199
*Llandrillo*, yn Meirionydd, 285
——— yn sîr Ddinbych, 444
*Llandrinio*, 477
*Llandudno*, 442
*Llandysilio*, ger Llangollen, 192
——— yn Nhrefaldwyn, 474
——— yn Môn, 387
*Llanddeiniolen*, 340
*Llandderfel*, 286
*Llanddinam*, 464
*Llanddwyn*, 380
*Llaneilian*, 402
*Llanelwy*, 253
*Llanelltyd*, 306
*Llanelltydd*, 306
*Llanerch*, palasdy, 256, 272
*Llaneurgain*, 64
*Llanfaes*, yn Môn, 392
*Llanferres*, 205
*Llanfyllin*, 457
*Llangadwaladr*, 380
*Llangar*, 285
*Llangernyw*, 275
*Llangollen*, 176
*Llangynog*, 454
*Llan Helygen*, 63
*Llanidan*, 381
*Llanidloes*, 465
*Llaniestyn*, 397
*Llanrhaiadr Dyffryn Clwyd*, 276
——— *yn Mochnant*, 456
*Llanrhudd*, 280
*Llanrwst*, 331, 562
*Llansanan*, 273
*Llansantsior*, 445
*Llantrisant*, 411
*Llanuwchllyn*, 292
*Llanycil*, eglwys, 292
*Llanymowddwy*, 295
*Llanymynach*, eglwys a plwyf, 474
——— ffosydd Rhufeinig, 475
——— gweithydd plwm, 475
——— eto, cerryg calch, 475
*Llanystumdwy*, 359
*Llech Idris*, 308
*Lleder*, afon o'r enw, 328
*Llety Fadog*, ger Llandudno, 443
*Llettygarwch* yr hen Gymry, 302
*Lleuar*, palasdy, ger Clynnog, 370



Digitized by Google

*Lleucu Llwyd*, ei hanes, 64
*Llewelyn ap Ynyr ap Hywel*, 199
——— *Aurdorchog*, 322
——— ein llyw olaf, 375, 470
——— *Fawr*, 333, 351
——————— a De Breos, 426
——————— a'i dywysoges, 334
——————— ei arch, 333
*Lleweni*, neuadd, 258
*Lleyn*, neu Llŷn, 364
*Llider*, y ddwy, mynyddoedd, 338
*Llifon*, afonig, ger Glynllifon, 371
*Llofruddiaeth greulawn*, 297
*Llofruddion dibris*, 174
*Lloyd, Kenyon*, 140
*Llugwy*, afon ger Bettws y coed, 327
*Llw Edward Broughton*, 517
*Llwyd, Edward*, 274, 549
——— *Humphrey*, 263
——— *Lleucu*, ei hanes, 64
——— *Syr Gruffydd*, 341, 399
*Llwydiarth*, hen balasdy, 453
*Llwyn Dôl Ithel*, 304
*Llwyn y Groes*, 196
Llwythau:—
*Pum' Llwyth Breninol Cymru*, 589
*Pymtheg Llwyth Gwynedd*, 594
*Llyfrgell Mostyn*, 23
*Llyn Aled*, 274
—— *Bodlyn*, 313
—— *Cader*, 352
—— *Cawellyn*, 352
—— *Coch*, 342
—— *Conglog*, 324
—— *Conwy*, 325
—— *Cwm Hywel*, 314
—— *Cwm Idwal*, 337
—— *Dinas*, 349
—— *Du Bach*, 324
—— *Du'r Arddwy*, 342
—— *Ffynhon lâs*, 342, 348
—— *Geirionydd*, 334
—— *Glâs*, 342
—— *Gwynant*, 349
—— *Irddin*, 314
—— *Llydaw*, 348
*Llyn Llyffant*, 424
—— *Ogwen*, 336, 423
—— *Rathlyn*, 309
—— *Tegid*, 288
—— *Tegwyn*, 323
—— *Trwstyllon*, 324
—— *yr Afangc*, 327
—— *y Bala*, 288
—— *y Bwchllwyd*, 336
—— *y Cŵn*, 338
—— *y Dywarchen*, 352
—— *y Morwynion*, 325
—— *y Myngil*, 304
—— *y Nadroedd*, 342
—— *yr Ogof*, 274
—— *y Sarph*, 316
—— *y Torlenydd*, 377
—— *y Tri Graienyn*, 305
*Llynau Cregenan*, 301
——— *Llanberis*, 339
——— *Nantlle*, 352
——— uchel ar y Wyddfa, 342
*Llys Bradwen*, 301
—— *Dinorddwig*, 340
—— *Edwyn*, 63
—— *Llaneurgain*, 64
—— *Pengwern*, 176
*Llythyr iarll Conwy*, ynghylch di-doi y castell, 581
*Llythyrau* mab Syr John Wynn, 563
——— Syr John Wynn a Syr Huw Myddleton, 355
——— yr archesgob Williams at Syr John Wynn, 578, 579
*Llywarch ap Brân*, un o'r pymtheg llwyth, 595
*Llywarch Hên*, 152, 197, 292, 330

## M

*Madog Gloddaeth*, 440
——— gwrthryfel, 374, 470
*Madryn*, palasdy, 360
*Maelgwn Gwynedd*, 412, 440
*Maelor Crwm*, un o'r 15 llwyth, 599
——— *Gymraeg*, 133
——— *Saesnaeg*, 137, 138

Digitized by Google

*Maen Achwynfan*, 24, 243
—— *Gwynedd*, 463
—— *Hir*, yn Hengwm, 314
—— *Melyn*, yn Lleyn, 363
—— *Morddwyd*, yn Môn, 382
—— *Sanctaidd*, neu Halston, 152
—— *Sigl Tudno*, 443
—— *Twrog*, pentref a chapel, 323
—— *y Campau*, 429
—— *y Mellt*, yn Lleyn, 363
*Maenan*, mynachlog, 333
*Maenor Dacre*, 50
*Maenorau*, yn sir Fflint, 228
*Maes Garmon*, 200, 217
—— *Glâs*, castell y, 30
———— mynachlog y, 29, 31, 59
—— *Hir*, ger Croesoswallt, 157
—— *Mynan*, 258
—— *y Bendithion*, 275
—— *y Garnedd*, 315
*Malltraeth*, yn Môn, 380
*Mallwyd*, eglwys, 297
———— mynwent, ywen, 297
*Marcheta mulierum*, 142
*Marchudd*, un o'r 15 llwyth, 273, 599
*Marchweithian*, eto, 258, 602
*Marchwiail*, eglwys a neuadd, 192
*Margaret o Anjou*, 321
———— *ach Ifan*, 339
*Marl*, palasdy ger Conwy, 437
*Maesafeld*, neu y *Maes hir*, 157
*Mathrafal*, neu *Bowys*, 193
*Mawn*, yn nyffryn Mowddwy, 295
*Mediolanum Ordovicium*, 458
*Medd*, hoff ddiod y Cymry, 351
*Meddiannau mwneiol*, 58—63
*Meifod*, dyffryn, 457
*Melangell, Pennant*, 454
*Menai*, afon, 378, 381, 388
*Merch-gobr*, 231
*Meredydd ap Ifan*, yn diwygio y wlad, 328
———— *Meirchion*, arglwydd Isdulas, 273
*Meretone*, tref-ddegwm yn Fflint, 20
*Merfyn*, mab Rhodri Fawr, 133
*Merton*, Uch-glan ac Is-glan, 25
*Milgi*, hanes hynod am un, 44
*Milldir Gerig*, 285, 454
*Minerfa*, cerflun o, 82
*Mitton*, pentref, 480
*Moel Arthur*, 219
—— *Cynghorion*, 342
—— *Eilio*, yn Eryri, 352
—— *Eithinen*, 204
—— *Fammau*, 209
—— *Fenlli*, 204
—— *Garn Guwch*, 368
—— *Hedog*, 354, 357
—— *Hiraddug*, 220, 247
—— *Orthrwm*, 305
—— *y Dôn*, 384
—— *y Gaer*, 220, 258
—— *y Gollfa*, 477
—— *y Parc*, 258
*Moelwyn Gwyn*, 324
———— *yr Hydd*, 324
*Moldwarp*, enw Glyndwr ar Harri frenin, 535
*Môn*, ynys, 378—412
*Monacella* (Pennant Melangell,) 454
*Montford*, eglwys a phentref, 480
*Montgomery, Roger de*, 454, 468
*Môr* yn ennill tir yn Abergeleu, 245
*Môr-adar*, dinystr mawr arnynt, 358
*Morfa Rhuddlan*, hen alaw, 248
*Morgan, Dr. William*, 456
*Morgi Biwmaris*, 395, 569
*Morgilfach Dulas*, 401
*Morris*, math o bysgodyn, 395, 569
*Mortimer, Syr Edmwnd*, 531
*Mostyn*, 21; portreadau, 22; llyfrgell, 23
———— *Syr Roger*, 22
———— tanchwa mewn glofa, 225
*Mowddwy*, dyffryn, 294
*Mulierum, marcheta*, 142
*Mwnau* yn sir Fflint, 28, 221
*Mwngloddiau breninol*, ffurfio cymdeithas i'w dyogelu, 61
———— *cyfoethog*, 223
*Mwyalchen y graig*, 348

Digitized by Google

*Mwyar Berwyn*, 284
*Mwynen Gwynedd*, hen alaw, 229
*Myddleton*, teulu y, 261
———— *Dafydd*, 271
*Myfanwy Fechan*, 177
*Mynachlog Maenan*, 333
———— *St. Pedr a St. Paul*, 486
———— *y Cymmer*, 306
———— *y Groes*, 193
———— *y Maesglas*, 29
———— *Ystrad Marchell*, 474
*Mynor*, gydag asbestos ynddo, 406
*Mynydd Bryn-glas*, yn Maesyfed, 531
———— *Caergybi*, neu *y Pen*, 410
———— *Cwmdu*, yn Maldwyn, 539
———— *Digoll*, 470
———— *Helygen*, 59
———— *Hyddgant*, 527
———— *Moel Eilio*, 377
———— *Mynyddfawr*, 377
———— *Nanmor*, 349
———— *Parys*, 402, 574
———— *y Pwll Melyn*, 541
*Mynydd-mawr*, 352
*Mynyddoedd Clwyd*, 218
———— *Eryri*, 334—37
———— *yr Eifl*, 367
———— *y Berwyn*, 284
———— *y Freiddin*, 477
*Mynyddwyr Cymru*, eu dull o fyw-iolaethu, 341
*Myrddin*, neu *Merlin*, 349
*Myrddin Emrys*, neu *Ambrosius*, 350
*Myrtwydd y Gors*, 334
*Mytton, John*, cefnder i Mr. Thomas Pennant, 150, 296
———— *William*, ewythr i Pennant, 151, 480
———— *y Cadfridog*, ei hanes, 151, 163, 250, 267, 278, 321, 374, 390, 435, 493

N

*Nannau*, palasdy, 305
*Nannerch*, dyffryn, 219
———— pentref ac eglwys, 221
*Nant Beris*, 339
——— *Colwyn*, 350
——— neu *Ddyffryn Conwy*, 327
——— *Ffrangcon*, 336, 423
——— *Gwrtheyrn*, yn yr Eifl, 366
——— *Gwytherin*, 366
——— *y Bele*, ger Wynnstay, 182
*Nefydd Hardd*, un o bymtheg llwyth Gwynedd, 337, 598
*Nefyn*, tref, 360, 365
*Nerquis*, tref ac eglwys, 206, 244
*Neuadd Blodwel*, 475
———— *Cadwgan*, 184
———— *Loton*, yn sir yr Amwythig, 478
———— *Huw Lupus*, yn ninas Caerlleon, 107
*Newmarket* (Trelanydd,) 204, 244
*Niwbwrch*, neu Rosfair, 360, 365, 378
*Noah*, chwareuyddiaeth yn Nghaerlleon ar ei hanes, 97
*Nôd Beuno* ar anifeiliaid, 370
*Normanaidd*, y Gorchfygiad, 88

O

*Ofergoelion y Cymry*, 445
*Offa*, brenin y Mers, 17
——— ei glawdd, 164
*Offrymau i Sant Beuno*, 370
———— *i Sant Elian*, 402
*Ogof Dafydd ap Shenkyn*, 329
——— *Owain Glyndwr*, 301, 541
*Oldford*, pont, 131
*Oleu Fawr*, yn Eryri, 338
——— *Wen*, yn nant Ffrangcon, 423
*Ordovices*, neu Gordofigion, 17, 18, 64
*Ormond*, ei ddywediad am ei fab, 172
*Ostorius* yn gorchfygu Caradog, 498
*Oswallt*, Sant, ei ffynhon, 157
*Ottley*, parc, 147
*Outfangthefe*, beth ydyw, 110
*Overton*, pentref, 145
*Owain Glyndwr*, ei hanes, 519
———— ar ddifancoll, 541
———— *Gwynedd*, ei wersyll, 445
———— ei fedd, 413

Digitized by Google

*Owain*, Syr John, o Glenennau, 166, 356, 374
——— ei ddedfrydu ef i farw, 167
——— ei feddargraff, 168
——— Lewis, y barwn, ei ladd, 297
——— Syr Robert, o Porkington, 168
——— ei feddargraff, 168
——— *Tudur*, o Benmynydd, 397
*Palas Edgar*, yn Nghaerlleon, 82
*Pâledn*, math o adar, 394
*Panton o Foxhall*, 273
*Pant y Groes*, ger Llangollen, 193
——— *Pdlion*, sir Gaerfyrddin, 196
——— *yr Ysgrafiau*, 383
*Parfew*, esgob Llanelwy, 207
*Parry, Dr. William*, 64
*Parys*, mynydd, 402
*Paul Panton*, Plas Gwŷn, 396
*Patriarch Tegaian*, 401
*Peithynod*, 465
*Pelagius*, yr arch-heretic, mynach o Fangor Iscoed, 143
*Pen-ar-lâg*, tref yn sir Fflint, 67
——— castell, perchenog Sacsonaidd, 68
——— perchenog Normanaidd, 68
——— ei roddi i Lewelyn ap Gruffydd, 69
——— ei gymeryd gan Dafydd ap Gruffydd, 69
——— ei ganiatâu i iarll Salisbury, 70
——— ei roddi i Syr Thomas Stanley, 71
——— yn dyfod i feddiant y prif ynad Glynne, 71
——— gwarchae arno, 72
——— y fywioliaeth, 74
*Penbedw*, palasdy, 219
*Pencerdd Gwlad*, 231
*Pencraig*, golygfa hardd, 255
*Pencynydd y tywysog*, 319, 362
*Pengwern*, llys, yn Llangollen, 176
——— yn sir Fflint, 449
*Penamnaen*, tŷ Meredydd ap Ifan, 329
*Penmaen Mawr*, 426
——— *Rhos*, 444
*Penmon*, priordy, 393
*Penmorfa*, yn Eifionydd, 356
*Penmynydd*, yn Môn, 397
*Pennant-higi*, 298
——— *Melangell*, 454
*Penrhyn*, castell y, 415
——— *Du*, yn Lleyn, 361
*Pentre Ffwrndan*, 46
*Penwaig*, 29, 364
*Pen y Delyn*, 305
——— *Gaer*, 466
——— *Parc*, 66
——— *Pil*, ger Abergeleu, 445
——— *Wyddfa*, 342
*Pererinion Gwenfrewi*, 38
*Perry*, afon, 151
*Petre, George*, ei feddargraff, 503
*Pharos Caergybi*, 410
——— *y Garreg*, 243
*Piers Gruffydd*, o'r Penrhyn, 415
——— ei gorn yfed, 416
*Piler Elisseg*, yn Mhant y Groes, 195
*Pistyll Cain*, yn Meirionydd, 307
——— *Maw*, eto, 307
——— *Rhaiadr*, eto, 456
*Pitchford*, palasdy, 494
*Pla yn Nghaerlleon*, 94, 101
*Planhigion yn Gloddaeth*, 439
——— *y Wyddfa*, 338, 341, 344
*Plâs Gwŷn*, yn Môn, 396
——— *Hên*, yn Eifionydd, 359
——— *Newydd*, yn Ynys Môn, 385
——— *Sontley*, hen balasdy, 184
——— *Teg*, ger Caergwrle, 213
——— *Tirion*, yn Nghonwy, 431
——— *Trefor*, ger Llangollen, 175
——— *yn Iâl*, palasdy hynafol, 198
——— *y Ward*, ger Rhuthyn, 281
*Plwm*, arian yn cael ei dynu allan o hono, 51, 222
——— clampiau o eiddo y Rhufeiniaid, 49

Digitized by Google

*Plwm*, dull y Prydeiniaid o doddi y mŵn, 51
—— hen gyflwr y mwngloddiau, 47
—— mwngloddiau plwm yn cael eu gweithio gan y Sacsoniaid, 52
—— mŵn, rhywogaeth o glai seimlyd o hono, 406
—— rheolau y Rhufeiniaid at ei gloddio, 47, 48
*Plygan*, neu ganiad y ceiliog, 447
*Plynlymmon*, mynydd, 465
*Pont Aberglaslyn*, 352
—— *Gaerlleon*, 102
—— *Gilan*, 285
—— *Gymreig yr Amwythig*, 48[illegible]
—— *Llandrinio*, 477
—— *Llangollen*, 176
—— *Llanrwst*, 331
—— *Ruffydd*, 260
—— *y Bettws*, 377
—— *y Pair*, 327
—— *yr Allt Goch*, 255
—— *yr Ysgraffiau*, 383
*Porthaethwy*, 387
*Porthamel*, yn Môn, 383
*Porthladd Penrhyn*, 415
*Porth y frenines Eleanor* yn Nghaernarfon, 373
*Porth yn Lleyn*, 365
*Porkington*, yn mhlwyf Selattyn, 166
*Prês*, yn cael ei weithio gan y Brytaniaid, 53
*Prestatyn*, yn sir Fflint, 245
*Priddfeini tân*, gweithiau, 67
*Prydeinig*, aur, 54
———— bathynau, 55
———— gorsafoedd—
*Bryn Gwyn*, 457
—— *y Cloddiau*, 220
—— *y Costrelau*, 341
*Caer Caradog*, 497
—— *Carreg y Fran*, 341
—— *Cwm y Glo*, 341
*Carn Boduan*, 364, 428
—— *Fadryn*, 360, 428
*Castell Caer Lleion*, 431
Gorsafoedd Prydeinig, parhad—
*Copa yr Wylfa*, 445
*Dinas*, yn Llandudno, 443
—— *Dinlle*, 370
—— *Dinorddwig*, 340
*Gwern Ddu*, ger Mathrafal, 459
*Moel Arthur*, 219
—— *Fenlli*, 204, 220
—— *Garthen*, 183
—— *Hiraddug*, 220, 247
—— *y Crïo*, 220
—— *y Gaer*, 220
*Pen Caer Helen*, 437
*Penmaen Mawr*, 424
*Pen y Gaer*, 340, 368
*Rhiw'r Cyrn*, 340
*Trefaldwyn*, 469
*Tre'r Caeri*, 367
*Woodbury*, 545
*Pryse, Ellis*, o Blâs Iolyn, 438
—— *Syr John*, o'r Drefnewydd, 462
*Prysor*, castell, 308
*Pulesdon, Roger de*, 142; ei dynged alarus, 375
*Pulesdons*, teulu y, 142
*Putecaine*, yn sir Fflint, 20
*Pwlpud Huw Llwyd Cynfael*, 324
*Pwllceris*, yn afon Menai, 387
*Pwllheli*, tref yn Lleyn, 360
*Pysgod ceimion*, 309
——— hynod ar gyrau Môn, 395
——— llyn y Bala, 288
——— y Fyrnyw a'r Tanat, 476
——— ar forlenydd Lleyn, 364
——— yn sir Fflint, 28
*Pysgodfa Gleisiaid*, ger Pont Aberglaslyn, 353
*Pysgodyn Cegddu Trifforchog*, 567
*Pytatws* yn Nant Conwy, 580

## R

*Radman*, beth ydyw, 41
*Rhaiadr Aber*, yn Arfon, 425
——— *Conwy*, 326
——— *Cynfael*, 323
——— *Cynwyd*, 285

Digitized by Google

*Rhaiadr Du*, neu Dol y Melynllyn, 307
——— *y Ceunant Mawr*, 341
——— *y Graig Lwyd*, 326
——— *y Wennol*, 329
*Rhandir Fwneiol*, 221
*Rheidol*, afon, 465
*Rheinallt o'r Tŵr*, ger y Wyddgrug, 211
*Rhisiart II.*, ei fradychu, 444
——— ei gymeryd yn Fflint, 43, 44
*Rhiw*, cantref yn sir Fflint, 205
*Rhiwabon*, ger Llangollen, 179
*Rhiwaedog*, palasdy, 287
*Rhiw Felen*, 197
*Rhiw Goch*, 308
*Rhiwlas*, palasdy, 287, 326
*Rhiw y Glyder*, 338
*Rhodri Fawr*, 133
*Rholdiad i fyny gastell Dinbych*, 555
*Rhos Ddiarbed*, 463
*Rhos Fair*, neu *Niwbwrch*, 379
*Rhos Fynach*, 444
*Rhual*, palasdy, 218
*Rhuddlan*, Morfa, 248
——— alaw o'r enw, 248
——— castell, 248
——— senedd yn, 251
*Rhufeiniaid*, aur ac arian Prydain yn adnabyddus iddynt, 54
——— clampiau o blwm o'r eiddynt, 49, 50
——— eu dull o drin a thoddi mŵnau, 52
*Rhufeinig*, amddiffynfa, 376
——— bathynau, 55, 376
——— ffyrdd, 81, 213, 463
——— gweithydd plwm a ffosydd, 465
——— gweddillion yn—
*Caerfach*, 463
*Caergwrle*, 213
*Caergybi*, 408
*Caer Hên*, 23, 437
*Caerlleon*, 82—84
Gweddillion Rhufeinig, parhad—
*Caer sws*, yn Maldwyn, 463
*Llanymynach*, 474
*Routon*, neu *Rutinium*, 478
*Segontium* (Caernarfon,) 376
*Wroxeter*, ger yr Amwythig, 483
*Yr Amwythig*, ceryg, 483
*Y Gaer*, yn mhlwyf Ffordin, 566
*Y Garreg*, 243
*Rhug*, palasdy hynafol, 283
*Rhuthyn*, tref a chastell, 277, 453
——— arglwydd Grey o, 521, 522, 524, 528
*Rhyd yr Halen*, 325
*Rhyddyn*, ffynhonau heilltion yn, 216
*Rhys ap Tewdwr Mawr*, un o'r pum' llwyth breninol, 590
—— *Goch o Eryri*, 336, 354
*Rhystyd Sant*, neu *Restitutus*, 332
*Ripley*, neuadd, 50
*Robert o Ruddlan*, 89
——— ei ladd yn Diganwy, 441
——— *Sicyle*, math o chwareuyddiaeth, 95
*Roberts*, *William*, esgob Bangor, 260
*Robinson*, y milwriad, ei feddargraff, yn eglwys Gresford, 517
——— ei hanes, 192
*Rofts*, amddiffynfa Brydeinig, 68, 191
*Row*, gerllaw Abergeleu, 255
*Rood-eye*, yn Nghaerlleon, 124
*Rubus saxatilis*, 338
*Rug*, palasdy hynafol, 283
*Rupert*, y tywysog, hanesyn am dano, 150
*Rutinium*, neu *Routon*, 478

## S

*Sabrina*, neu *Sabra*, yr Hafren, 460
*Sacsoniaid*, Caerlleon yn eu meddiant, 85
*Sacheverel*, y doctor uchel-eglwysig, 168
*Saith Marchog*, ger Gwyddelwern, 282

Digitized by Google

*Salsbri Hosanau Gleision*, 267
*Saltney*, morfa, ger Caerlleon, 76
*Salusbury*, teulu y, 259
*Sampier y ddafad*, math o lysieuyn adnabyddus, 363
*Sandford*, y cadben, 72
*Sant Beuno*, 369
—— *Collen*, ei achau, 176
—— *Croes*, eglwys, 37
—— *Derfel Gadarn*, 286
—— *Dyfrig*, 362
—— *Eilian*, penrhyn, 408
—— *Gwenfrewi*, ffynhon, 34
—— *Helen*, capel, 377
—— *Peblig*, neu *Publicius*, 375
—— *Seiriol*, 393
—— *Sior*, ffynhon, 445
—— *Tegla*, ffynhon, 199
—— *Tudwal*, ynysoedd, 361
—— *Tydecho*, 295
*Sarn Badrig*, 316, 360
—— *Helen*, 308, 309
—— *Swsan*, 463
—— *yr Afangc*, 423
*Saxifraga nivalis*, 337
*Segontium* (Caernarfon,) 376
*Seiont*, (afon y saint,) 339, 372
*Seiriol*, sant, 393
——— ynys, 394
*Selattyn*, plwyf, ei gofrestr, 165
*Sele, Hywel*, o Nannau, 529
*Setsia Estuarium*, 18
*Shakerley*, y milwriad, 515
*Shocklach*, castell, 137
*Shrawardine Fwyaf*, 479
———— *Leiaf*, 479
*Siarl* VI. o Ffraingc, 538, 543
*Siartr Gwtta* (Croesoswallt,) 160
*Sicyle, Robert* o, chwareuyddiaeth, 94
*Sior*, sant, ei ffynhon, 445
*Sir Gaerlleon*, 77, 137
*Sirigi y morleidr*, 409
*Skerries*, ynys y, 407
*Snowdonia*, neu Eryri, 334—377
*Soddyllt*, pentref hynod am ei derfynau, 146
*Solidago Cambrica*, 338
*Sontley*, palasdy hynafol, 184
*Sorbus aucuparia*, 334
*South, Dr.*, o Lanrhaiadr, 456
*Stanlies*, gallu mawr y teulu yn sir Fflint, 63
*Strata Marcella*, mynachlog, 474
———— ei siartr, 584
*Stylus* (ysgrifell a gafwyd gerllaw Fflint,) 56
*Subularia aquatica*, 338
*Suetonius* a'r Rhufeiniaid yn goresgyn Ynys Môn, 383
*Sulgwyn*, chwareuon y, yn Nghaerlleon, 95
*Sycharth*, palas Owain Glyndwr, 521
*Sychnant*, ger Penmaen Mawr, 427
*Syr George Wynne*, o Goedllai, 206

T

*Taleithiog*, y tri Thywysog, 134
*Taliesin*, ei hanes, 334
——— ei ddyhuddiant i Elphin y tywysog, 334
*Tal y Cafn*, ar afon Conwy, 436
—— *y Llyn*, yn Meirion, arch hynod a gafwyd yno, 304
*Tanat*, yr afon, 475
*Tân-briddfeini*, gweithiau, 67
*Tanchwa* mewn mwngloddiau, 225
*Tan y Bwlch*, 323
*Tarian gywrain*, 354
*Tarth drygsawrus*, 358
*Teberri*, castell, 303
*Tecla*, ffynhon sant, 199
*Tegangle*, rhan o sir Fflint, 19, 25, 50, 63
*Telyn Arian*, yn Mostyn, 23, 231
*Terrig*, afon yn sir Fflint, 212
*Teuluwr*, neu Fardd teulu, 230
*Teyrnged* yn Nghymru, 137
*Thelwalls*, teulu y, 280, 281
*Threapwood*, yn sir Fflint, 139
*Tir Powys*, ei derfynau, 133
*Toddi mŵnau*, dull Prydeinig, 51
———— dull Rhufeinig, 49

Digitized by Google

*Tomen y Bala*, 287
——— *y Castell*, 288
——— *y Furdra*, 204
——— *y Mur* 309
——— *y Rhodwydd*, 198
*Torchau aur*, 23, 321
*Torgochiaid*, math o bysgod, 377
*Torwr cnau*, math o aderyn, 29
*Traeth Bach*, 324, 354
——— *Coch*, yn Ynys Môn, 396
——— *Mawr*, 354
*Trallwng*, tref yn Maldwyn, 473
——— cwpan aur, ei hanes, 473
*Trawsfynydd*, plwyf, 307
*Traws-sylweddiad meteloedd*, hen dybiaeth am hyny, 60
*Tre-Bychton*, yn sir Fflint, preswylfod tad Mr. Pennant, 25
*Trefaen*, mynydd, 336
*Trefaldwyn*, y dref, 467—470
——— y sir, 454
*Trefalyn*, ger Gresford, 191
*Trefor*, plas, ger Llangollen, 175
——— *Syr John*, 175
——— *Tudur*, sylfaenydd llwyth y cyffindiroedd, 152, 607
*Treforiaid*, tylwyth y, 190
*Trefriw*, yn Arfon, 333
*Tref Wry*, yn Môn, 383
——— *y Waun*, 171
*Treffynon*, y dref, 34
——— y plwyf, 29
*Tregarnedd*, yn Môn, 399
*Trelawnydd*, yn sir Fflint, 244
*Tremeirchion*, eglwys gyda chofadeiliau hynod ynddi, 256
*Tremostyn*, palasdy hynafol, 21
*Tre'r Abad*, ger y Maesglas, 24
——— *Beblig*, yn Arfon, 376
——— *Beirdd*, yn Môn, 383
——— *Caeri*, yn yr Eifl, 367
——— *Dryw*, yn Môn, 382
——— *Yrys*, yn sir Fflint, 204
*Tri Thlws Cymru*, 176
*Tri Thywysog Taleithiog*, 134
*Trysorlys* yn Nghaerlleon, 108
*Trysorlys* yn Nghaernarfon, 345
*Trystan*, y marchogwr, 178
*Tudur Aled*, y bardd, 33
———, *Owain*, o Benmynydd, 397
——— *Trefor*, 152, 607
*Tudwal*, ynysoedd y, 361
*Twll Du*, neu Gegin y diafol, 337
*Tŵr Bronwen*, neu Harlech, 319
——— *y Bwrdeisikid*, yn Ninbych, 265
——— *y Dwfr*, yn Nghaerlleon, 106
——— *y Phœnix*, yn Nghaerlleon, 106
——— yn agos i'r Wyddgrug, 211
——— *yr Eryr*, yn nghastell Caernarfon, 373
*Twymystafell*, yn Nghaerlleon, 80, 81
——— yn Nghaergwrle, 213
——— yn Nghaernarfon, 376
*Tydecho Sant*, 295
*Tyddyn y Traian*, 318
*Tylwyth Teg*, eu cyniweirfa ger Llyn Coch, 342
——— eu hymenyn, 224
*Tysilio*, Sant, ger Llangollen, 192
*Tywod Cregyn*, gwrtaith brâs, 396
——— *y Cwnstabl*, 30
*Tywodfaen*, gwelyau o, 27, 221
*Tywydd oddeutu y Wyddfa*, 347
*Tywyn* (Meirionydd,) cerfiad hynod yn yr eglwys yno, 303

U

*Uchder Cader Idris*, 301
——— *y Wyddfa*, 344
*Udo ar ol y marw* (yn ol arfer y Gwyddelod, 272
*Ulfmiltone*, neu *Golftyn*, tref-ddegwm yn sir Fflint, 67
*Un dref ar ddeg*, 162
*Up Rossal*, ynys ar yr Hafren, 480
*Uwchgorfai*, yn Arfon, 377
*Uwch Mynydd*, yn Lleyn, 363

V.

*Valle Crucis*, neu Bant y Groes, 193—195
*Varis*, yn nyffryn Clwyd, 258

Digitized by Google

*Vaughan*, cerfiwr hynod, 332
*Verde di Corsica*, math o fynor o liw gwyrdd, 406
*Veronica*, santes, 207
*Victoria Alleluiatica* (buddugoliaeth yr Aleliwia,) 200, 217
*Virgula divinatoria* (y wialen ddewiniol,) 48
*Vitilia navigia* (coraglau yr hynafiaid,) 144
*Vrecken Ceaster* y Sacsoniaid, 483

W

*Walcheria*, rhan Gymreig o Groesoswallt, 163
*Walter Ballanqual*, duwinydd enwog o Ysgotland, 170
*Warner*, yr arglwyddes, ei hanes, 141
*Warton*, esgob Llanelwy, 207
*Wat*, ei glawdd, 30, 164
*Watling-street*, heol neu ffordd Rufeinig o hyd mawr, 106
*Wat-stay*, hen enw Wynnstay, 182
*Wattleburg*, castell, 478
*Waun*, castell y, yn sir Ddinbych, bryncynau, 169, 171
——— eglwys y, 170
——— *Oer*, yn Eryri, 336
*Wepre*, tref-ddegwm yn sir Fflint, 67
*Werburgh*, santes, ei chrair yn ninas Caerlleon, 119
*Were-geld* Sacsonaidd, 173
*Whiteford*, plwyf yn sir Fflint, 20
——— ei gynyrchion, 26
*Whitehalls*, teulu y, 139
*Wichbrook*, afon yn sir Fflint, 139
*Wigfair*, palasdy, 255
*Williams*, yr archesgob, ei hanes, 421—423, 434
——— ei gofadail, 421
——— ei lythyrau, 578, 579
——— *Watkin*, 157
*Wiral*, rhan o sir Gaerlleon, 28
*Woodbury*, bryn, 545
*Worthenbury*, plwyf yn nghantref Dudestan, yn sir Fflint, 138
*Wroxter*, ger yr Amwythig, 483
*Wyddfa*, afonydd y, 344
——— arglwydd y, 346
——— cynal ffair arni, 346
——— ei chyfansoddiad, 344
——— ei fforest, 345
——— ei hanifeiliaid, 345
——— ei henw, 346
——— ei huchder, 344
——— yn gysegredig, 346
——— yr olygfa o'i phen, 343
*Wyddgrug*, tref a chastell y, 206
*Wynn, Syr John*, y tad, 330, 332
——— ei gyfarwyddiadau i'w gaplan, 560
——— rhestr o'i wisgoedd, 561
——— y mab, 333
——— ei lythyrau at ei dad, 563
——— *Syr Richard*, 331
——— *Syr Watkin Williams*, 181
*Wynne, William*, Doctor, o'r Twr, ger y Wyddgrug, 211
——— ei feddargraff, 208
*Wynniaid*, o Bengwern, 590
*Wynnstay*, ei hanes, 182

Y

*Y Cymry heb fod oll yn feddwon*, 324
*Y Dref Newydd*, 462
*Y Dref Wen*, neu Whittington, 152
*Y Fâd Felen*, 440
*Y Faenol*, yn Arfon, 386
——— yn sir Fflint, 448
*Y Faenor*, palasdy, 466
*Y Fenai*, morgaingc, 378, 381, 388
*Y Fentr Aur*, yn mynydd Parys, 403
*Y Foelas*, yn sir Ddinbych, 326
*Y Fyrnyw*, afon, 475
*Y Morris, a Morgi Beaumaris*, 569
*Y Pysgodyn Cegddu Trifforchog*, 567
*Y Trallwng*, 473
*Y Waun Oer*, 336
*Y Wyddfa*, y mynydd uchaf yn Eryri, 342

Digitized by Google

*Y Wyddgrug*, tref a chastell, 206
*Yr Amwythig*, 481—493
*Yale*, Elihu, llywodraethwr Madras, yn India, ei hanes, 186
———— beddargraff ei wraig a'i fab yn Mhenrhyn Gobaith Da, 186
———— ei feddargraff yntau yn mynwent Gwrecsam, 186
*Yarranton*, Andrew, 126
*Yferach*, capel, yn Aberdaron, 364
*Ymenyn y Tylwyth têg*, 224
*Ynyr Shôn*, neu Inigo Jones, 331
*Ynys Dywyll*, neu enw hynafol Ynys Fôn, 385
—— *Enlli*, ei hanes, 361
———— ei mynachlog, 362
—— *Fôn*, mam Cymru, 378—412
—— *Glannog*, neu *Glannauch*, hen enw Ynys Seiriol, 393
—— *Gybi*, yn Môn, 408
—— *Seiriol*, ei phâledn, 394
—— *Up Rossal*, ar yr Hafren, 480
—— *y Skerries*, neu *Ynys y Moelrhoniaid*, 407
*Ynysoedd Hilbree*, neu *Ilbree*, 28
—— *Sant Tudwal*, 361
*Yonge, Gruffydd*, canghellydd Owain Glyndwr, 539
*Younge, Richard*, esgob Bangor, 530
*Ysgithrog, Brochwel*, 482
*Ysgolion Duon*, yn Eryri, 424
*Yspytty Ifan*, pentref, 326
*Ystôl y Cecrod*, yn Nhrefaldwyn, 470
*Ystrad Alun*, cwmwd yn nghantref y Rhiw, 205
—— *Fflur*, mynachlog, 527
—— *Marchell*, mynachlog, 474
———— siartr Gwenwynwyn i'r mynachod, 584
—— *Tywi*, gwrthgiliad gwŷr, 548
*Ystum Cegid*, palasdy hynafol yn Eifionydd, 357
*Ystwyth*, afon, 465
*Ystymllyn*, palasdy yn Eifionydd, 358

Z

*Ziment*, math o gopr, 405
*Zinc*, math o fŵn, 224

Digitized by Google

*Vaughan*, cerfiwr hynod, 332
*Verde di Corsica*, math o fynor o liw gwyrdd, 406
*Veronica*, santes, 207
*Victoria Alleluiatica* (buddugoliaeth yr Aleliwia,) 200, 217
*Virgula divinatoria* (y wialen ddewiniol,) 45
*Vitilia navigia* (coraglau yr hynafiaid,) 144
*Urecken Ceaster* y Sacsoniaid, 483

W

*Walcheria*, rhan Gymreig o Groesoswallt, 163
*Walter Ballanqual*, duwinydd enwog o Ysgotland, 170
*Warner*, yr arglwyddes, ei hanes, 141
*Warton*, esgob Llanelwy, 207
*Wat*, ei glawdd, 30, 164
*Watling-street*, heol neu ffordd Rufeinig o hyd mawr, 106
*Wat-stay*, hen enw Wynnstay, 182
*Wattleburg*, castell, 478
*Waun*, castell y, yn sir Ddinbych, bryncynau, 169, 171
——— eglwys y, 170
——— *Oer*, yn Eryri, 336
*Wepre*, tref-ddegwm yn sir Fflint, 67
*Werburgh*, santes, ei chrair yn ninas Caerlleon, 119
*Were-geld* Sacsonaidd, 173
*Whiteford*, plwyf yn sir Fflint, 20
——— ei gynyrchion, 26
*Whitehalls*, teulu y, 139
*Wichbrook*, afon yn sir Fflint, 139
*Wigfair*, palasdy, 255
*Williams*, yr archesgob, ei hanes, 421—423, 434
——— ei gofadail, 421
——— ei lythyrau, 578, 579
——— *Watkin*, 157
*Wiral*, rhan o sir Gaerlleon, 28
*Woodbury*, bryn, 545
*Worthenbury*, plwyf yn nghantref Dudestan, yn sir Fflint, 138
*Wroxter*, ger yr Amwythig, 483
*Wyddfa*, afonydd y, 344
——— arglwydd y, 346
——— cynal ffair arni, 346
——— ei chyfansoddiad, 344
——— ei fforest, 345
——— ei hanifeiliaid, 345
——— ei henw, 346
——— ei huchder, 344
——— yn gysegredig, 346
——— yr olygfa o'i phen, 343
*Wyddgrug*, tref a chastell y, 206
*Wynn, Syr John*, y tad, 330, 332
——— ei gyfarwyddiadau i'w gaplan, 560
——— rhestr o'i wisgoedd, 561
——— y mab, 333
——— ei lythyrau at ei dad, 563
——— *Syr Richard*, 331
——— *Syr Watkin Williams*, 181
*Wynne, William*, Doctor, o'r Twr, ger y Wyddgrug, 211
——— ei feddargraff, 208
*Wynniaid*, o Bengwern, 590
*Wynnstay*, ei hanes, 182

Y

*Y Cymry heb fod oll yn feddwon*, 324
*Y Dref Newydd*, 462
*Y Dref Wen*, neu Whittington, 158
*Y Fad Felen*, 440
*Y Faenol*, yn Arfon, 386
——— yn sir Fflint, 448
*Y Faenor*, palasdy, 466
*Y Fenai*, morgaingc, 378, 381, 388
*Y Fentr Aur*, yn mynydd Parys, 40[illegible]
*Y Foelas*, yn sir Ddinbych, 326
*Y Fyrnyw*, afon, 475
*Y Morris*, a *Morgi Beaumaris*, 569
*Y Pysgodyn Cegddu Trifforchog*, [illegible]
*Y Trallwng*, 473
*Y Waun Oer*, 336
*Y Wyddfa*, y mynydd uc[illegible] Eryri, 342

Digitized by Google

Y W[illegible]

Yr A[illegible]

*Yale*, Elihu, [illegible] yn India, [illegible]

—— [illegible] fab yn [illegible]

—— [illegible] mynwent [illegible]

Y[illegible]

Y[illegible] 354

Y[illegible]

*Ynys* [illegible] 231

*Ynys* [illegible] Ynys Fôn, 3[illegible]

—— *Enlli*, [illegible] 351

—— [illegible] mynwentlog, 382

—— *Fôn*, [illegible] Cymru, 378—412

—— [illegible] hen enw Ynys Seiriol, 393

—— *Gybi*, yn Môn, 408

—— *Seiriol*, [illegible] 394

—— *Up* [illegible] ar yr Hafren, 480

—— *y* [illegible] *Ynys y Moel*-[illegible]

[illegible]

[illegible] 530

[illegible] 453

[illegible] yn Eryri, 494

[illegible] pentref, 326

[illegible] *y Cecrod*, yn Nhrefaldwyn, 470

*Ystrad Alun*, cwmwd yn nghantref y Rhiw, 205

—— *Fflur*, mynachlog, 527

—— *Marchell*, mynachlog, 474

—— siartr Gwenwynwyn i'r mynachod, 584

—— *Tywi*, gwrthgiliad gwŷr, 54[illegible]

*Ystum Cegid*, palasdy hynafol yn Eifionydd, 257

*Ystwyth*, afon, 465

*Ystymllyn*, palasdy yn Eifionydd, 258

Z

*Ziment*, math [illegible]

*Zinc*, math [illegible]


Digitized by Google

# RHESTR O DANYSGRIFWYR

*At yr Argraffiad Saesoneg, cyhoeddedig gan H. Humphreys, yn 1883.*

# LIST OF SUBSCRIBERS.

**His Royal Highness THE PRINCE OF WALES, K.G., &c.**

Anglesey, The Most Hon. the Marquis of, Plas Newydd, Llanfair P. G.
Aberdare, The Right Hon. Lord, Duffryn, Mountain Ash, South Wales
Atkins, Robert Augustus, Esq., 1, Brownlow Villas, St. Asaph
Acland; Arthur H. Dyke, Esq., M.A., Plas Bryn, Clynnog
Allanson, John B., Esq., Bryn Seiont, nr. Carnarvon
Anwyl, Captain, Eryl Aran, Bala
Apsimon, Thomas, Esq., 14, Amberley Street, Liverpool
Anderton, Peter, Esq., Brondyffryn, Denbigh

Bangor, The Right Rev. the Lord Bishop of, The Palace, Bangor
Beor, Richard White, Esq., The Rhydding, Swansea
Beale, W. John, Esq., Bryntirion, Bontddu, Dolgelley
Bevan, John, Esq., New College, Oxford
Brittain, Mrs., Bryn Aber, Carnarvon
Browne, Rev. T. B. Ll., M.A., Rectory, Bodvari, Rhyl
Barker, Hugh Longueville, Esq., 19, Hough Green, Chester
Bowen, J., Esq., C.E. & Crown Agent, Plas Treflan, Carnarvon
Bayne, William, Esq., Menai View, Upper Bangor
Blackwell, Hy., Esq., 244, East, 21 Street New York, America
Blundell, Jos. Hight, Esq., Marlowe's Cottage, Hemel Hempstead
Bamber, John, Esq., Beech Grove, Ashton Freehold, near Preston
Browne, Peter, Esq., Chief Constable, Rhyl
Beedham, B., Esq., Ashfield House, near Kimbolton
Bebb, Nathaniel, Esq., 21, Kelvin Grove, Prince's Park, Liverpool
Bate, Thomas, Esq., Kelsterton Hall, Flint
Byrne, Rev. Edward, St. Mary's Mount, Flint
Bernard, Rev. F., St. David's Monastery, Pantasaph, Holywell
Berry, Thomas, Esq., Brynyfuches, Amlwch, Anglesey
Brereton, A. J., Esq. (Andreas o Vôn,) Mold
Bancroft, J. J., Esq., Glasfryn, Ruthin
Bryan, Mr. J. D., Bridge street, Carnarvon
Barnwell, Mr. W., Ch. School, Llangerniew, Abergele

Coleridge, The Right Hon. Lord, Lord Chief Justice of England
Corbett, John, Esq., M.P., Ynys-Maengwyn, Towyn Merioneth — two copies
Crawshay, W. T., Esq., Cyfarthfa Castle, Merthyr Tydfil
Cooke, Lieut. Col. Bryan George Davies, Colomendy, Mold
Clemenger, W. G. W., Esq., Coedmawr, Carnarvon — two copies
Carreg, Robert, Esq., Plas Carreg, Pwllheli
Chilton, Thomas, Esq., The Elms, Gresford, Wrexham
Cowell, E. B., Esq., M.A., Prof. of Sanskrit in the University of Cambridge
Cory, R., Esq., Oscar House, Cardiff
Cooke, Philip B. Davies, Esq., Gwysaney, Mold
Crawshay, Mrs. Alfred, Dan-y-Park, Crickhowell, Breconshire
Coxon, Alfred, Esq., 72, Longton Grove, Sydenham, London, S.E.
Cleaton, Edmund R., Esq., Vaenor Park, Llanidloes
Charlton, St. John, Esq., Pentreffynon, Holywell
Corbett, John, Esq., 9, Wrexham Street, Mold
Coopers, Robert, Esq., Grove House, Bromley Road, Lee
Clark, Geo. T., Esq., Talygarn, Glamorgan
Cameron, Mr. Donald, The Rofft, Upper Bangor
Carman, Mr. John, Chemist, Holywell

Digitized by Google

Denbigh, The Right Hon. the Earl of, Newnham Paddox, Lutterworth
Dynevor, The Right Hon. Lord, Dynevor Castle, Llandilo
Davies, Richard, Esq., M.P., Treborth, Bangor
Davies, David, Esq., M.P., Broneirion, Llandinam, Montgomeryshire
Davies, Dd., Esq., F.R.C.S. &c., Bryngolwg, Aberdare
De Winton, Jeffrey P., Esq., Tan-y-graig, Carnarvon
Davies, John, Esq., The Treasury, Whitehall, London
Davies, Ebenezer, Esq., Brunswick House, Swansea
Davids, Richard J., Esq., Glanhelen, Carnarvon
Davies, John, Esq. (Gwyneddon), Bodgwynedd, Carnarvon
Davies, R. Norman, Esq., Tŷ Fry, Carnarvon
Davies, E. W., Penrhiwarddwr, Conway
Davies, W. Cadwaladr, Esq., District Bank, Bangor
Davies, James, Esq. (Iago Tegeingl), Gwynfa Villa, Rhyl
Davies, W. T., Esq., Chester
Davies, Rev. Owen, Baptist Minister, Carnarvon
Denman, Francis Lemoine, Esq., 17, Hornton Street, Kensington, w.
Davies, Rev. Evan, Rectory, Llanllyfni
Davies, Rev. J. Issard, M.A., Senior Curate, Carnarvon
Davies, Griffith, Esq., B.A., 200, High Street, Bangor
Davies, Miss M. A., Dolbadarn Board School, Llanberis
Davies, Rev. D. T. Ffrangcon, B.A., Pwllheli
Davies, Rev. J. Beynon, Congregational Minister, Talysarn, near Carnarvon
Davies, W. Robert, Esq., Solicitor, Dolgelley
Davies, Rev. J. Cadvan, Wesleyan Minister, Dolgelley
Davies, Rev. W., B.A., F.L.S., Vicarage, Llanfihangel Genau'r Glyn, Borth
Davies, Rev. E. T., B.A. (Dyfrig), The Vicarage, Aberdovey
De Burgh, Alex. A. Hussey., Esq., Carnarvon
Davies, Ellis, Esq., Irlam House, Liscard, Birkenhead
Davies, Robert, Esq., 6, South Castle Street, Liverpool
Davies, Rev. D., Glan Conway Rectory, Conway
Davies, Rev. E. W., The Vicarage, Llanerchymedd
Davies, Rev. John Evan, M.A., Rector of Llangelynin, Llwyngwril, Merioneth
Davies, D., Esq., Maes-y-ffynon, Aberdare
Davies, John, Esq., 55, Peel Street, Prince's Park, Liverpool
Dugdale, John, Esq., Llwyn, Llanfyllin
Davies, Robert, Esq., Bodlondeb, Bangor
Davies, Edward, Esq., Llwynderw, Llandinam, Mont.
Davies, Thomas, Esq., 30, Balliol Road, Bootle
Davies, William, Esq., Caeblaidd, Festiniog
Davies, Rev. T. Z., The Vicarage, Whitford, Holywell
Davies, Miss A. J., 141, Bedford Street, Liverpool
Dyson, Capt., C.E., Flint
Davies, Mr. C., Deputy Chief Constable, Carnarvon
Davies, Mr. J., Stationer's Hall, Lampeter, Cardiganshire
Davies, Mr. John, Draper, &c., London House, Aberayron
Davies, Mr. John, Blue Peris, Llanberis
Davies, Mr. William (Glan Ceulan), Talybont, via Glandovey
Davies, Mr. John, Board School, Dinorwic
Davies, Mr. William, Bookseller, Glynceiriog
Davies, Mr. William, Glynafon, Nantlle, Carnarvon
Davies, Mr. David (Tremlyn), Pengwern, Carnarvon

Edwards, F. W. Lloyd, Esq., Chairman of Carn. Qu. Sess., Nanhoron, Pwllheli
Edwards, The Very Rev. H. T., M.A., Dean of Bangor
Evans, Joseph, Esq., J.P., D.L., Hurst House, nr. Prescot three copies
Evans, Col. Herbert Davies, Highmead, Llanybyther, Cardiganshire
Evans, The Ven. Archdeacon, Rectory, Llanllechid
Evans-Lloyd, Lieut. Col. Edward, Moel-y Garnedd, Bala
Ewing, The Lady Alice, Coed Derwen, Bettws-y-coed
Ell, Rev. J. M., B.D., Rector of Belbroughton, Worcestershire
Edwards, Rev. William, The Rectory, Llanberis



Digitized by Google

**Edwards, J.**, Esq., M.R.C.S. Lond., L.R.C.P. Edin., P.M.O. Her Majesty's Prison, [Leeds
Evans, Edward, Esq., Bronwylfa, Wrexham
**Ellis, Thomas**, Esq., Chief Constable of Merioneth, Bala
**Eachus, J. T.**, Esq., Cross Street, Holywell
**Edwards, Richard**, Esq., Litherland, nr. Liverpool
**Edwards, H.**, Esq., J.P., D.L., Rosemount, Holyhead
**Edwards**, The Rev. Professor Ellis, M.A., C. M. College, Bala
**Edisbury, J. F.**, Esq., Belgrave House, Wrexham
**Evans, Rev. David**, Llansantffraid Rectory, Corwen
**Evans, Rev. David**, Vicar, Abergele
**Evans, Rev. Ellis W.**, M.A., Pensarn, Abergele
**Evans, Rev. John** (Eglwysbach), 373, City Road, London
**Egerton, Miss**, Gresford Lodge, Gresford
**Edmondes, Rev. Thomas**, M.A., Cowbridge, Glamorgan
**Evans, Rev. Daniel**, D D , The Vicarage, Carnarvon
**Evans, Rev. E. Herber**, Carnarvon
**Edwards, T. Gold**, Esq., Gwynfryn, Denbigh
**Emrys-Jones, A.**, Esq , M D Edin.. M. R. C. S. Eng., 10, St. John Street, [Manchester
**Evans, Rev. John Hugh** (Cynfaen,) 30, Meadow Street, Moss Side, Manchester
**Edwards, John**, Esq., Bronfelen, Abergele
**Ellis, G. H.**, Esq., Pen-y-Mount, Festiniog
**Ellis, Saxon G.**, Esq., Plas Newydd, Ruthin
**Edwards, Rev. E. Wood**, M A., Vicar of Ruabon
**Evans, Rev. D. W.**, St. George's Rectory, nr. Abergele
**Ellis, Rev. J. R.**, Gyffin Rectory, Conway
**Edwards, Thomas**, Esq., 31, Tarlton Street, Liverpool
**Edwards, Dr. James**, Elm Bank, Anfield, Liverpool
**Ellis, Edward**, Esq., 51, Huskisson Street, Liverpool
**Edwards, Rev. Thomas**, Llanfihangel y Pennant, R S O., Towyn, Merioneth.
**Edwards, G.**, Esq., Mentmore House, Parkfield Road, Prince's Park, Liverpool
**Evans, Wm.**, Esq., Surgeon, &c., Llanerchymedd, Anglesey
**Ellis, Rev. Griffith**, M A. 10, Pembroke Road, Bootle
**Ellis, Robert**, Esq., Bangor Villa, Hartington Road, Liverpool
**Evans, John K.**, Greenfield, House, Greenfield, Holywell
**Elias, Thomas**, Esq , The Brewery, Llanrwst
**Evans, T. Forcer**, Esq., Forcer Hill, Holyhead
**Evans, Dr. T. Lloyd**, Glanrafon, Amlwch
**Evans, Mr. Daniel**, Agent, Penmaen Isaf, Penmaen Mawr
**Ellis, Mr. Edward**, Auctioneer, Aberystwyth
**Evans, Mr. Evan**, Tanner, Carnarvon
**Edwards, Mr. Thomas**, Glanybala, Llanberis
**Evans, Mr. Owen**, junr., Coal Merchant, Carnarvon
**Evans, Mr. D.**, C.M., Trefilan, Talsarn, Cardiganshire
**Evans, Mr. Owen**, Bookseller, Conway
**Evans, Mr. John**, 10, Fern Grove, Liverpool
**Edwards, Mr. W. A**, Bedford Street South, Liverpool
**Edmunds, Mr. Thomas**, Printer, &c., Corwen
**Ellis, Mr. J. W.**, 36, Market Street, Holyhead
**Evans, Mr. Samuel**, Bodeudaf, Carnarvon
**Ellis, Mr. William**, National School, Llandwrog
**Evans, Mr. A. Ll.**, National School, Maentwrog
**Evans, Mr. John**, Ironmonger, Corwen
**Evans, Mr. William Glyn**, 9, Bouverie Street, Chester
**Ellis, Mr. Goodman**, Mine Agent, North Hendre, nr. Mold
**Evans, Mr. William**, National School, Llandinorwic
**Evans, W. Downing**, Esq. (Leon,) Newport, Mon.
**Evans, Rev. Richard**, B.A., Llangwyfan, Llangefni, Anglesey
**Evans, Rev. Richard Rice**, B A., Llangwyfan, Llangefni

**Finchett-Maddocks, T.**, Esq., Caegwyn, Carnarvon
**Foulkes, W. Wynne**, Esq., M.A., Judge of County Court, Chester
**Fanning, Wm.**, Esq., Waenfair, Amlwch



Digitized by Google

Foster, A., Esq., Plas Padog, Bettws-y-coed
Francis, George, Esq., C.E., Tŷ Cerrig, Caergwrle
Francis, Absalom, Esq., C. E., Rhosddu, Wrexham
Ffoulkes, The Venerable Archdeacon, Whittington Rectory, Oswestry
Flint, Thomas, Esq., Grey Friars, Chester
Felix, Rev. John, Glan-Conway
Francis, Mr. James, Bridge Street Row, Chester
Foulkes, Mr. Issac, Bookseller, 18, Brunswick Street, Liverpool
Farrant & Frost, Messrs., 8, Canon Street, Aberdare

Grosvenor, The Rt. Hon. Lord Richard, M.P., 12, Upper Brook Street, London
Griffith, J. G. Wynn, Esq., Llanfair Hall, Carnarvon
Grey, H. D., Esq., Mount Stone, Stonehouse, Plymouth two copies
Griffith, Samuel, Esq., M D., Portmadoc
Griffith, G. R, Esq., M B. M.C., Castle Square, Carnarvon
Griffith, John Lloyd, Esq., M.A., Frondeg, Holyhead
Gardner, W. A., Esq., Redland House, Hough Green, Chester
Griffith, Dr. O. W., The Plas, Nevin
Griffith, Edward, Esq., Springfield, Dolgelley
Griffith, William, Esq., Solicitor, Dolgelley
Griffith, Rev. R. Williams, Vicar of Llandegai, Bangor
Griffith, Rev. William, C. M., Penmachno
Gee, Thomas, Esq., Solictor, Greenhill, Allerton, nr. Liverpool
Griffith, John, Esq., The Beehive, Bangor
Gleave, Thomas, Esq., Rose Cottage, Flint
Griffiths, D., Esq., 56, Smithdown Road, Liverpool
Griffith, Mr. W. Lloyd, Corn Merchant, Carnarvon
Griffiths, Mr. John, Eastgate Street, Chester
Griffiths, Mr. Griffith, Emu, nr. Criccieth
Griffith, Mr John Richard, Schoolhouse, Llanfairfechan

Hughes, of Kinmel, H. R. Esq., Kinmel Park, Abergele
Humberston, Col., Glan y wern, nr. Denbigh
Humberston, Philip Hugh, Esq., Glan y wern, Denbigh
Hughes, Thomas, Esq., F S.A., The Grove, Chester
Hudson, R. W, Esq, Bache Hall, Chester two copies
Hemming, Mrs., Bentley Manor, Bromsgrove, and Caerhun, Carnarvonshire
Hurlbutt, Mrs, 71, Maryland Road, St. Peter's Park, London, w.
Hughes, D G. Munro, Esq, N. P. Bank of England Ld., Bethesda
Hobson, Algernon, Esq, Rhos Fair, Carnarvon
Hughes, Thomas, Esq, Greenfield Copper Mills, Holywell
Hughes, J. A., Esq., Solicitor, Carnarvon
Heaton, Rev. H E., M.A., Vicar of Bettws-yn-Rhos, Abergele
Hughes, Rev. Hugh Trevor, Dyffryn Elwy, Llanfairtalhaiarn
Hughes, Rev. John, Wesleyan Minister, Bathafarn House, Carnarvon
Hughes, Walter, Esq., Penybryn, Carnarvon
Harris, Thos., Esq., Old Bank, Amlwch
Hilton, Thomas, Esq., Great Suffolk St., Southwark
Hughes, Thos. Glwysfryn, Esq., 23, Woodville Terrace, Liverpool
Hughes, E Morgan, Esq., Fair View, Amlwch
Hall, Charlton R., Esq., Tan-y-Bryn, nr. Llandudno
Hood, Archd., Esq., Sherwood, Cardiff
Humphreys, Thomas, Esq., Lily house, near Holywell
Hayn, Henry, Esq., Bryn Cregin, Deganwy, Conway
Hughes, William G., Esq., Whaley Grange, Formby
Hathawaye, Thomas, Esq., Architect and C. E., Fir Bank Cottage, Bangor
Hughes, H. O., Esq., Cefn Mawr, Llangaffo, Anglesey
Hughes, John, Esq., Llewelyn Terrace, Llanrwst
Harding, George, Esq., Surgeon Dentist
Hughes, G. J., Esq., Clerk of Guardians of Anglesey Union, Llanerchymedd
Hughes, Mr. Hugh, Llysdimael, Maerdy, Corwen
Hughes, Mr. Owen, Belle Vue, Holyhead



Digitized by Google

Hughes, Mr. Edward, Post Office, Sarn, Pwllheli
Hughes, Mr. Owen, Dorothea Office, Nantlle, near Carnarvon
Hughes, Mr. John R., Bronydre, Carnarvon
Hughes, Mr. Henry G., Board School, Llanrwst
Hughes, Mr. Edward, Ironmonger, &c., Carnarvon
Hughes, Mr. Josiah, Ironmonger, Bangor
Hughes, Mr. D., Llwynygwalch, Groeslon, Carnarvon
Hughes, Mr. Thomas Herbert, National Schools, Glanogwen
Hannah, Mr. John, Abergele
Harker, Mr. John A., 8, Bridge Street, Chester
Hughes, Mr. Robert, Bookseller, Tyn-y-Cefn, Corwen
Hughes, Mr. R. R., Bookseller, Blaenau Festiniog
Hughes, Mr. Robert, Mona Drug Hall, Llangefni, Anglesey
Hughes, Mr. H., Llanddeiniolen National School
Howell, Mr. Edward, Bookseller, Liverpool — seven copies
Humphreys, Mr. W. R., National School, Cynwyd
Hughes, Mr. James, Fron Hyfryd, Corwen
Hughes, Rev. J., B.A., 2, Mount Pleasant, Dolgelley

Jones-Parry, Love, Esq., M.P., F.S.A., Madryn, Pwllheli — two copies
James, Charles H., Esq., M.P., Brynteg, Merthyr Tydfil — two copies
Johnes, Mrs., Dolaucothi, Llandeilo, South Wales
Jones, Griffith, Esq., Solicitor, Aberllolwyn, Aberystwyth
Jones, Walter B. C., Esq., Mynydd Ednyfed, Criccieth
Jones, Owen, Esq., Bank of England, London, E.C.
Jones, J. Parry, Esq., Plas Clough, Denbigh
Jackson, Fredk., Esq., C.E., Carnarvon and Nottingham
Jones, Rev. J., St. Beuno's College, St. Asaph
Jackson, John, Esq., Harbour Office, Carnarvon
Jones, Rev. David, B.A. (Oxon.) Vicar of Llansantffraid Glyn Ceiriog, Llangollen
Jones, Rev. D., Vicar of Llanrhaiadr-yn-Mochnant, Oswestry
Jones, J., Esq., Bridgend, Mayor of Aberystwyth
Jones, William, Esq., Solicitor, Mayor of Conway
Jones, Rev. D. Lloyd, St. John's, Portmadoc
Jones, Rev. Richard, The Rectory, Hirnant, Oswestry
Jones, Rev. David, B.A., Rector of Newborough, Anglesey
Jones, Miss Esther Lloyd, Penrallt, Penmaenmawr
Jones, Rev. David, Cae Coch, Brynsiencyn, Anglesey
Jones-Williams, E., Esq., Bank, Aberystwyth
Jenkins, J. R., Esq., M.D., Colomendy, Ruthin
Jones, William, Esq., Park Place, Henley-on-Thames
Jones, Griffith, Esq., 10, The Old Hall, Liverpool
Jones, Rev. William R., C. M. Minister, Preswylfa, Holyhead
Jones, Thomas, Esq., Bryn Ywen, Menai Bridge
Jones, Rev. John, M.A., Llanbedr, Barmouth
Jones, John, Esq., Ynysfor, Penrhyndeudraeth
Jones, The Rev. Samuel, The School House, Bodfeirig, near Bangor
Jones, R. Pughe, Esq., 28, Kensington Garden Terrace, Hyde Park, London
Jones, William, Esq., Ty'n y Coed, Clynnog
Jones, Owen, Esq., R.N., Penrhyn Marchog, Holyhead
Jones, Chas. A., Esq., Bronhendre, Carnarvon
Jones, John W., Esq., The Grange, Penn Road, Holloway, London, N.
Jenkins, David, Esq., M.A., Bottwnog Grammar School, Carnarvonshire
Jones, John T., Esq., Terfyn, Port Dinorwic
Jones, Rev. Father, Twthill, Carnarvon
Jones, Richard Owen, Esq., Henblas, Bala
Jones, R. Owen, Esq., Land Agent, Pwllheli
Jones, Rev. Michael D., Bala
Jones, Rev. Michael, Flint
Jones, J. Glynne, Esq., Solicitor, Bangor
Jones, Price O., Esq., Everslie, Cressington Park, Aigburth, Liverpool
Jones, Rev. E. Lloyd, Rhyl



Digitized by Google

Jones, Rev D. (Druisyn), Abergele
Jones, Rev J R. Kilsby, Glen View, Llanwrtyd Wells
Jones, Rev Lewis, Vicar of Cadoxton, near Neath, S. Wales
Jones, Rev. Francis, Waenfawr, Carnarvon
James, Rev. David, B A., Northop, Flintshire
Jones, Rev Robert, Curate of Llanerchymedd, Anglesey
Jones, Thomas, Esq. (Cynhaiarn), Portmadoc
Jones, John, Esq., St. John's, Wrexham
Jones, John, Esq , 13, Hemans Street, Liverpool
Jones, J E, Esq , M.D., M.R.C.S. Eng., L.S.A. & L.M. Lond., Dolgelley
Jones, Ellis W., Esq , 17, Verulam Street, Liverpool
Jones, Thomas, Esq , Surgeon, Aberystwyth
Jenkins, Josiah R., Esq Colomendy, Ruthin
Jones, Dr D , Clarence House, 71, Everton Road, Liverpool
Jones, Owen, Esq., Plasglasgwm, Penmachno
Jones, Hugh, Esq., M R C V S., Brynarfon, Llangefni
Jones, Peter Powell, Esq , 6, Water Street, Rhyl
Jones, Dr O W , D D.S. (A.M.), L.D S., F.P S G., Dentist, Market Place, Bangor
Jones, Rev. Grffith, Wesleyan Minister, Bagillt
Jones, Rev Richard, Darowen Rectory, Montgomeryshire
Jones, Rev M Wheldon, The Vicarage, Trefeglwys, Caersws, Mont.
Jones, W. Esq., 24 Upper Duke St., Liverpool
Jones, D. Esq , 28, Brunswick Street, Liverpool
Jones, W Pryce, Esq , 15, Amberley Street, Liverpool
Jones, Lewis E , Esq Mulgrave Street, Liverpool
Jones, Ishmael S. Esq , 3, Great George's Place, Liverpool
Jones, J Harrison, Esq , 4, Thackeray Street, Liverpool
Jesse, John F., Esq , Bathafarn, Ruthin
Johnson, Rev H R., Aberdare, South Wales
Jones, David, Esq , 8, Bedford Road, Bootle, Liverpool
Jones, Rev John Owen, Bronygraig, Llanberis
Jones, Rev. Hugh, St. Domingo Grove, Liverpool
Jones, R Hughes, Esq., 6, Kelvin Grove, Prince's Road, Liverpool
Jones, John William, Esq (Cybi), Preswylfa, Carnarvon
Jones, Peter, Esq , Halkyn, Holywell
James, Richard, Esq., General Post Office, Liverpool
Jones, David, Esq , Gloddaeth Hall, near Conway
Jones, David S , Esq , 22, Brunswick Buildings, Liverpool
Jones, Rev. J. B. Goodman, Llangristiolus Rectory, Llangefni
Jones, Rev. John, Cerrigydrudion Rectory, Corwen
Jones, Rev. E Sinnett, M A., Angorfa, Penmaenmawr
Jones, Rev. Moses Morgan, Ship Hotel, Llanrug, Carnarvon
Jones, Mr. John, Wine Merchant, Minafon, Carnarvon
Jones, Mr. Thomas Henry, Nant Adda, Portdinorwic
Jones, Mr. Thomas, Cottage, Port Penrhyn, Bangor
Jones, Mr. Jno. Wm. (Andronicus), Bryn Tegid, Carnarvon
Jones, Mr. W. H., 3, Alexandra Terrace, Carnarvon
Jones, Mr. J. Owen, Bron Menai, Carnarvon
Jones, Mr. G. W., Voelgron Schools, nr. Pwllheli
Jones, Mr. W. D. (Seiriol Wyn), Holyhead
Jones, Mr. David R., Draper, &c., Gwalchmai
Jones, Mr. William Williams (Gwilym o Fôn), Brân House, Towyn
Jones, Mr. J. M., Board School, Llanberis
Jones, Mr. J. D., Beech Bank, Llanberis
Jones, Mr. Owen D., Summer Hill, Llanberis
Jones, Mr. Samuel, Glan Dinorwic, Carnarvon
Jones, Mr. John Beuno, Schoolmaster, Rhiwlas, near Bangor
Jones. Mr. Robert, Visitor Office, Abergele
Jones, Mr. E. O., Printer, 62, Arvon Terrace, Carnarvon
Jones, Mr. John Closs, Upper Vale, Llanberis
Jones, Mr. Hugh, Nelson Emporium, Carnarvon
Jones, Mr. Robert, Llandegai, Bangor



Digitized by Google

Jones, Mr. D. T., Quarry Manager, Plasynant Quarries, Bettws Garmon, Carn.
Jones, Mr. David, Printer & Stationer, Amlwch
Jones, Mr. John, Bookseller, Aberayron, Cardiganshire
Jones, Mr. Thomas, Waenfawr Board School, Carnarvon
Jones, Mr. William, Emral Villa, Rhyl
Jones, Mr. Griffith (Glan Menai), Bryn Llwyd, Carnarvon
Jones, Mr. J. R., Talbot Hotel, Aberystwyth
Jones, Mr. Evan Price, Raglan House, Beaumaris
Jones, Mr. Richard, The New Shop, Dolgelley
Jones, Mr. O., (late Governor of H. M. Prison, Beaumaris) Menai Bridge
Jones, Mrs. Mary Jane, Denbigh Villa, 17, St. Domingo Grove, Liverpool
Jones, Mr. Robert, 14, Mulgrave Street, Liverpool
Jones, Mr. Robert, 13, Violet Street, Liverpool
Jones, Mr. William, 14, Admiral Street, Liverpool
Jones, Mr. William, Bryn Owen, Borth, Cardiganshire
Jones, Mr. R. Evans, Printer, Conway
Jones, Mr. Thomas, Postmaster, Flint
Jones, Mr. Daniel Pryse, Glasfryn Board School, Cerrig-y-Drudion
Jones, Mr. H., Blaenau Festiniog
Jones, Mr. David G., Rhiw, Rhiwbryfdir
Jones, Mr. W. Cadwaladr, Pengwern Arms Hotel, Festiniog
Jones, Mr. E. Ll. (Rhuddlanydd,) Upper Bangor
Jones, Mr. William Lloyd, C. E., 1, Brynteg Terrace, Bangor
Jones, Mr. O. D., Draper, Bon Marche and Victoria House, Carnarvon
Jones, Mr. Richard, Butcher, Llangefni
Jones, Mr., 55, Rockfield Road, Liverpool
Judd & Co., Messrs., St. Andrew's Hill, Doctors' Commons, London, E.C.

Kenyon, Hon. George, Llanerch Panna, County of Flint
Kneeshaw, Henry, Esq., J.P., Penmaenmawr
Kelly, Thos. T., Esq., Bryn Coch, Mold
Kirk, John Smith, Esq., M.A., Ph.D., Grammar & Collegiate School, Carnarvon
Killin, Rev. Richard, Rector of Festiniog & Rural Dean of Ardudwy
Kirkham, Rev. J. W., M.A., Rural Dean of Cyfeiliog, & J.P., Llanbrynmair

Londonderry, The Most Noble The Marquis of, K.P., Plas Machynlleth
Llandaff, The Right Rev. The Lord Bishop of, The Palace, Llandaff
Llanover, The Right Hon. Lady, Llanover, Abergavenny, South Wales
Lloyd, Morgan, Esq., Q.C., M.P., 63, Cornwall Gardens, London, s.w.
Lloyd, E. O. V., Esq., Berth, Ruthin — two copies
Lloyd, The Chevalier, M.A., K.S.G., Clochfaen, Llanidloes
Lloyd, Rev. T. H., Nerquis Vicarage, Mold, Flintshire
Lloyd, Morgan, Esq., Maesincla, Carnarvon
Lloyd, R. Alfred, Esq., 16, South Moltom street, London, w.
Lloyd, J., Esq., 160, Upper Parliament Street, Liverpool
Lewis, Thomas, Esq., Royal Goat Hotel, Beddgelert
Lewis, John Rice, Esq., 30, Bentley Road, Prince's Park, Liverpool
Leon, J., Esq., Artist, Carnarvon
Lester, William, Esq., Bron Offa, Wrexham
Lewis, Thomas, Esq., Garthberwen, Bangor
Lewis, Rev. James S., Guilsfield Vicarage, Welshpool
Lee, Rev. M. H., Hanmer, Whitchurch, Salop
Luck, Richard, Esq., Plas, Llanfairfechan
Lloyd, Rev. Henry, Bryn Eleth, Amlwch
Lloyd, Edward, Esq., 16, Overton Street, Liverpool
Lloyd, John, Esq., Victoria Park, Aintree, near Liverpool
Longcroft, C. R., Esq., Llanina, New Quay, Cardiganshire
Levi, Rev. Thomas, Aberystwyth
Lloyd, Rev. D. Lewis, M.A., Christ College, Brecon
Lewis, W. Thomas, Esq., Mardy, Aberdare
Lewis, Rev. Daniel, The Vicarage, Waenfawr, Carnarvon



Digitized by Google

**Lewis**, Rev. John, Curate of Llanystumdwy, Criccieth
Lloyd, A. Eyton, Esq., Cynval Villa, Rhyl
**Lewis**, Rev. Evan, Canon of Bangor, and Rector of Dolgelley
Lloyd, Mrs., Hengwrt, Dolgelley
Lloyd, Edward, Esq., Lorne Street, Chester
Lloyd, Capt. T. E. J., Plas Tregaian, Llangefni
Lewis, David, Esq., 69, Hope Street, Liverpool
Leathley, Mr. R. W., Manchester House, Colwyn Bay
Lloyd, Mr. William, 26, High Street, Carnarvon
Lloyd, Mr. John E. J., Stationer, Aberystwyth
Lewis, Mr. Griffith, Stationer, &c., Penygroes
Lewis, Mr. John, 24, Kimberley Street, Liverpool
Lloyd, Mr., Landseer Road, Everton, Liverpool
Light, Miss, Brynllewelyn, Festiniog, North Wales

Martin, Sir Theodore, K.C.B., Bryntysilio, near Llangollen
Meyrick, Sir George E. M. T. Fuller, Bart., Bodorgan, Anglesey
Morris, Lewis, Esq., M.A., J.P., Barrister at Law, Penbryn, near Carmarthen
Mesham, Major, Pontryffydd, Bodfari
Millington, John, Esq., Penrhos, Carnarvon
Menzies, John, Esq., Menai Bank, Carnarvon
Mathews, William, Esq., Lee Cottage, Caerwys, Holywell
Morgan, William E., Esq., Rose Cottage, Union Road, Exeter
Morgan, Owen, Esq. (Morien,) The Ashgrove, Treforest, Pontypridd
Morgan, Edward, Esq., District Auditor, Machynlleth
Morris, E. Rowley, Esq., 184, Camden Road, London, N.
Morris, Evan, Esq., Highfield, Wrexham
Marks, T. T., Esq., C.E., Commissioners' Office, Llandudno
Morgan, Rev. D. C. (Nenog Wyn,) Curate of Chiseldon, Swindon, Wilts
Marshall, F., Esq., 3, Harcourt Buildings, Temple, London
Mortimer, Rev. Thomas Gwynne, Rector of Castle Bigh, The Court, near Fishguard, South Wales
Miller, S. H., Esq., F.R.A.S., Belle View Park, Lowestoft, Suffolk
Morton, William, Esq., Albert Street, Birmingham
Morgan (B,) Rev. Richard, Wesleyan Minister, Llanberis
Morgan, Rev. John, Rector, Edeyrn, Pwllheli
Murray, George J., Esq., Mytchett Place, Frimley, Surrey
Morgan, Rev. D., B.D., Ysgeifiog Rectory, Holywell
Morris, Rev. Richard, Taliesin House, Taliesin, Cardiganshire
Morgan, Jno., Esq., Surgeon, Pontrhydygroes, near Aberystwyth
Morgan, Rev. David Watcin, B.A., Curate of Borth, R.S.O.
Morgan, William, Esq., Vice-Principal St. Mary's College, Carnarvon
Morgan, Rev. Thomas, B.D., Dyserth Vicarage, Rhyl
Morgan, Rev. John, The Rectory, Llandudno
Morris, Evan, Esq., 20, Water Street, Liverpool
Marsh, Miss E., Tybrith, Carno, Montgomeryshire
Marshall, Mr. Alfred, 5, The Willows, Breck Road, Liverpool
Morris, Mr. William, Post Office, Cerrig-y-Druidion
Matthews, Mr. John, National School, Cerrig-y-Druidion
Morris, Mr. Jno. S., Model School, Carnarvon
Morgan, Mr. John, Cadnant, Menai Bridge
Morris, Mr. M. T., Liver Establishment, Carnarvon
Morgan, Mr. James, Ynys House, Aberystwyth
Morris, Mr. J. Ll., Printer and Stationer, New Street, Mold
Morris, Mr. Henry, Coach Builder, High Street, Bangor

Nanney, H. J. Ellis, Esq., Gwynfryn, Criccieth
Nicholl, John C., Esq., Merthyr Mawr, Bridgend, Glam.
Nott, Mr. W. A., 9, Vale Street, Denbigh
Nixon, Edward, Esq., Savile House, Leeds



Digitized by Google

Owen, John, Esq., High Sheriff of Carnarvonshire, Tŷ Coch, Carnarvon
Owen, Edw. H., Esq., J.P., Tŷ Coch, Carnarvon
Oakeley, William E., Esq., The Plas, Tanybwlch, Merionethshire
Owen, John, Esq. (Owain Alaw,) Chester
Owen, Dr. O. Elias, Glanaber, Llangefni
Owen, William, Esq., M.R.C.S.E., L.S.A.L. & C., The Hollies, Hackney, Lon.
Owen, A. C. Humphreys, Esq., Glansevern, Montgomeryshire
Owen, Thos., Esq., R.N., Penrhyn Marchog, Holyhead
Owen, Owen, Esq., Solicitor, Llwynrhudol, Pwllheli
Owen, W. H., Esq., Plas Penrhyn, Dwyran, Anglesey
Owen, Isambard, Esq., M.D., 41, Gloucester Gardens, London, w.
Owen, Rev. R. Trevor, Llangedwyn, Oswestry
Owen, Rev. David, Vicar of Bryncroes, Pwllheli
Owen, Rev. John, M.A., Brynymor, Criccieth
Owen, John, Esq., Bodnithoedd, near Pwllheli
Owen, David E., Esq., (of Okell and Owen), E. I. Merchants, Liverpool
Owen, Rev. Elias, M.A., Rector of Efenechtyd & Diocesan Inspector of Schools
Owen, Rev. James Richard, A.M. Oxon, J.P., Rector of Llanferras, near Mold
Owen, Richard, Esq., Rhianva, Anfield Road, Liverpool
Ormerod, Peter, Esq., Pen-y-lan, Ruabon
Owen, Rev. David, Rector of Llandanwg and Llanbedr, Merionethshire
Owen, Edward, Esq., Northville, Breeze Hill, Bootle
Owen, W. R. Esq., 32, Bloom Street, Liverpool
Owen, Mr. Robert, 19, Cadogan Street, Prince's Road, Liverpool
Owen, Mr. John, jun., 20, Gibson Street, Liverpool
Owen, Mr. William Hugh, Auctioneer and Estate Agent, Carnarvon
Owen, Mr. O. R., Printer, Turf Square, Carnarvon
Owen, Mr. R. (R.O.,) 8, Victoria Place, Bethesda
Owen, Mr. W., British School, Trawsfynydd
Owen, Mr. Edward, Bookseller, 108, North Hill Street, Liverpool
Owen, Mr. Henry, Butcher, Carnarvon

Penrhyn, The Right Hon. Lord, Penrhyn Castle, Bangor — two copies
Powis, The Right Hon. The Earl of, Powis Castle, Welshpool
Pennant, The Hon. George Douglas, Penrhyn Castle, Bangor
Price, R. J. Lloyd, Esq., Rhiwlas, Bala
Parkins, W. Trevor, Esq., Glasfryn, Gresford
Puleston, J. H., Esq., M.P., 7, Dean's Yard, Westminster
Protheroe, E. Schaw, Esq., Dolwilym, Hebron, R.S.O., Glam.
Pritchard, Thomas, Esq., Llwydiarth Esgob, Llanerchymedd
Penson, R. Kyrke, Esq., Dinham House, Ludlow
Protheroe, Miss Schaw (of Dolwilym,) Brynteg, Goodwick, Fishguard
Phillimore, Egerton G. B., Esq., Old House, 31, Hammersmith Road, London
Pughe, Wm., Esq., Nat. Prov. Bank of England, Ld., Bangor
Price, John, Esq., Vice-Principal, Normal College, Bangor
Pugh, Hugh, Esq., J.P., Llys Meirion, Carnarvon
Pennant, Phillip P., Esq., Nantllys, St. Asaph
Pugh, L. P., Esq., M.P., Abermaide, Aberystwyth
Pope, Sam., Esq., Q.C., Hafod y bryn, Llanbedr, Merionethshire — two copies
Prosser, David, Esq., Sheerness, Kent
Passmore, W. B. Woodside, Esq., Whetstone, Middlesex
Pochin, Henry D., Esq., Bodnant Hall, near Conway
Price, Capt. Bulkeley, Plas Cadnant, Menai Bridge
Powell, Mrs., Crug (late of Coedmawr,) Carnarvon
Paget, Mrs. Clara, 2, St. Peter's Terrace, Cambridge
Price, E. Owen, Esq., M.B., Bangor — two copies
Pritchard, Richard Owen, Esq., 83, Premier Street, Everton, Liverpool
Piercy, Benjamin, Esq., Marchwiel Hall, near Wrexham
Pugh, J. L., Esq., 7, Waverley Road, Sefton Park, Liverpool
Powell, Rev. William, Bangor Teifi Rectory, Llandyssil, S. Wales
Parry, William, Esq., 52, Claribel Street, Liverpool

Prytherch, Hugh, Esq., Surgeon, &c., Menai Bridge
Powell, Geo. H. Croxden, Esq., Reform Club Buildings, 8, Eberle St., Liverpool
Pritchard, R. H., Esq., B.A., Solicitor, Bangor
Pritchard, John R., Esq., Chartered Accountant, 5, Cook Street, Liverpool
Powell, W. B., Esq., Nant Eos, Aberystwyth
Payne, William, Esq., Borough Treasurer, Portsmouth
Pryce, Rev. John, M.A., The Rectory, Trefdraeth, Anglesey
Pritchard, Rev. Hugh, Dinam, Anglesey
Peers, Joseph, Esq., Clerk of the Peace, Ruthin
Prytherch, John, Esq., M.D., 77, Everton Road, Liverpool
Parry, Rev. John, Rector, Llanarmon-Dyffryn-Ceiriog, near Llangollen
Parry, R. Ivor, Esq., Mayor of Pwllheli
Powell, Dr., Newcastle Emlyn, South Wales
Parry, H., Esq., Bank, Festiniog
Parry, Rev. A. J., Baptist Minister, Swansea
Parry, Mrs., Bookseller, 32, Heyworth Street, Everton, Liverpool
Peters, Miss Jenny, 16, Upper Hill Street, Liverpool
Pritchard, L. Jones, Esq., Inland Revenue, Somerset House, London, w.c.
Poole, Henry R. Esq., 18, Pall Mall, London, s.w.
Philip, George, Esq., Huntly House, Fairfield, Liverpool
Powell, David Price, Esq., Howey Hall, Radnorshire
Price, John, Esq., 105, Duke Street, Liverpool
Pritchard, John, Esq., 25, Norwood Grove, Liverpool
Potts, Rev. William, Wesleyan Minister, Dartford, Kent
Pierce, Mr. W. R., Valley, Anglesey
Pugh, Mr. John, Sportsman Hotel, Carnarvon
Pierce, Mr. John L., Merchant, Valley, Anglesey
Prosser, Mr. D., Board School, Penisa'rwaen, near Carnarvon
Paynter, Mr. John R., Vron, Port Dinorwic
Phillips, Mr. J., Deunant Board School, Aberdaron
Pierce, Mr. David, Golden Goat, Carnarvon
Pritchard, Capt. John, Rhos Fair, Carnarvon
Pritchard, Mr. Hugh, Pool Street Market, Carnarvon
Parry, Mr. Henry, 72, North Hill Street, Liverpool
Parry, Mr. Richard, 4, St. Helen's Terrace, Carnarvon
Powell, Mr. Ioan, Bryndedwydd, Ffrwd, near Wrexham
Parry, Mr. Evan, Saddler, Llanerchymedd
Pierce, Mr. Ellis (Ellis o'r Nant.) Bookseller, Dolwyddelen
Preece, W. H., Esq., Gothic Lodge, Wimbledon

Richards, Brinley, Esq., St. Mary Abbots, Kensington, London, w.
Romer, Lieut. Colonel R. W., Bryncemlyn, Dolgelley
Roberts, John H., Esq., Solicitor, Dinas, Carnarvon
Roberts, Owen, Esq., M.A., F.S.A., (late of Dinas, Carnarvon,) Clothworker's Hall, London
Rowlands, John, Esq., Solicitor, Tanrallt, Machynlleth
Rowlands, Rev. Daniel, M.A., Principal, Bangor Normal College
Rowley, Walter, Esq., C.E., F.G.S., Alderhill, Meanwood, Leeds
Rowland, Rev. Lewis Thomas, B.D., Vicar of Llanddewi Brevi, S.W.
Roberts, E. G., Esq., Solicitor, Holyhead
Roberts, W. Watkin, Esq., Surgeon, Uxbridge House, Carnarvon
Rees, G. R., Esq., Mayor of Carnarvon
Robinson, John, Esq., Talysarn, near Carnarvon
Roberts, David, Esq., J.P., 63, Hope Street, Liverpool
Roberts, Evan Samuel, Esq., North and South Wales Bank, Bala
Roberts, David, Esq., 53, Willow Street, Oswestry
Richards, Charles, Esq., Bank Buildings, Llangollen
Richards, Rev. John, B.A., Curate of Criccieth
Rees, Rev. David, Independent Minister, Capel Mawr, Anglesey
Rowlands, John W., Esq., Surgeon, Llanaelhaiarn
Roberts, Rev. Hugh, The Vicarage, Aberdaron, Pwllheli



Digitized by Google

Roberts, Richard, Esq., Solicitor, Pwllheli
Roberts, J., Esq., M.D., Abbey Square, Chester
Roberts, R. D., Esq. (Mwrog,) South Villas, Rhyl
Roberts, Rev. Ellis (Ellis Wyn o Wyrfai,) Llangwm Rectory, Corwen
Rees, Ebenezer, Esq., North and South Wales Bank, Limited, Liverpool
Roberts, Robert, Esq., 9, Northumberland Terrace, Liverpool
Roberts, Robert, Esq., 27, Alvoy Road, Stanley Park, Liverpool
Rae, George, Esq., North and South Wales Bank, Limited, Liverpool
Richards, Owen, Esq., M.D., Vronheulog, Corwen, Merionethshire
Roberts, N. E., Esq., M.B., 38, Mulgrave Street, Liverpool
Roberts, T. D., Esq., The Grove, Malpas, Monmouthshire [R.S.O. Llangadoc
Roberts, Rev. A., M.A., V. of Llangadoc Vawr, and S. Vicar of Llanddeusant,
Rowland, J. C., Esq., School of Science and Art, Carnarvon
Rees, Charles H., Esq., Plas Llanwnda, Carnarvon
Roberts, Dr. R. D., M.A., (Cantab,) D.S. (London,) Clare College, Cambridge
Roberts, E., Esq., B.A., Assistant Inspector of Schools, Brynllwyd, Carnarvon
Roberts, D. Ll., Esq., M.D., F.R.S.E., F.R.C.P., Lon., 11, St. John St., Manchester
Roberts, W., Esq., M.D., F.R.S., Manchester, and Bryn Llanymawddwy
Radcliffe, Josiah, Esq., Bryn Dinarth, near Conway
Reese, Evan, Esq., Bank Place, Machynlleth
Roberts, Robert, Esq., Surgeon, Oakeley Hospital, Festiniog
Roberts, J., Esq., Bryn Adda, Bangor
Rees, J. R., Esq., North & South Wales Bank, Ld., Aberystwyth
Roberts, M. Davies, Esq., Solicitor, Rhyl
Rogers, John Tudor, Esq., Bryn Tudur, Pen y Gelli, Wrexham
Roberts, Miss Ellen, Bookseller, 15, High Street, Bala
Roberts, E. Esq., 81, Burleigh Rd. Sth., Liverpool: of The Prospect, Prestatyn
Roberts, J. Rice, Esq., Tanygraig, Pentraeth, Anglesey
Roberts, John Griffith, Esq., Physician and Surgeon, Elia House, Amlwch
Roberts, Thomas, Esq., Assoc. M. Inst. C.E., Portmadoc
Roberts, Mr. Owen, Bryn Hendre, Carnarvon
Roberts, Mr. Robert, Rhiw Board School, via Pwllheli
Roberts, Mrs. Anne, Voelas Hotel, Pentre Voelas
Roberts, Mr. John D., Board School, Llanaelhaiarn
Roberts, Mr. Simon, Pale, Corwen
Roberts, Mr. Robert, Bookseller, Pwllheli
Roberts, Mr. Richard E., Bookseller, Box, 596, Utica, America two copies
Rees, Mr. Richard (Maldwyn,) Paris House, Machynlleth
Roberts, Mr. Isaac (Mynyddwr,) Holywell
Rowland, Mr. John, Hill Side, Pwllheli
Rhys, Mr. Dan, 6, Segontium Terrace, Carnarvon
Roberts, Mr. Wm. (School-master,) Rock House, Harlech
Roberts, Mr. O. O., Board School, Dolgelley
Roberts, Mr. William, Merchant, Valley, near Holyhead
Roberts, Mr. Edward, Lonfa, Penmaenmawr
Roberts, Mr. Robert, National School, Eglwysbach
Richardson, Mr. Edwin, 394, Coventry Road, Birmingham
Rowlands, Mr. D. J., Compositor, 20, Hill Street, Carnarvon
Roberts, Mr. L. Wilson, Padarn Villa, Llanberis
Roberts, J. Meredydd, Esq., 20, Lowther Street, Liverpool

St. Davids, The Right Rev. the Lord Bishop of, Abergwili Palace, Carmarthen
Sackville-West, Col. The Hon. William E., Lime Grove, Bangor
Smart, Rev. E., M.A., Vicar of Northop and Archdeacon of St. Asaph, Northop, Flintshire
Salisbury, Rev. E. E. Baylee, B.D., Winceby Rectory, Horncastle, Linc.
Stewart, Capt. N. P., Bryntirion, Bangor
Sandbach, H. R., Esq., Hafodunos, Abergele
Sorton-Parry, R., Esq., D.L., J.P., 14, Prince's Gardens, Hyde Park, London
Smith, Thos., Esq., Bleacon Point, Chester



Digitized by Google

Short, Edward H., Esq., 10, Marine Terrace, Aberystwyth
Stuart, Major W. E., Betton Strange, Shrewsbury
Sturkey, Rev. John, Marchwiel Rectory, Wrexham
Sankey, Richard, Esq., J.P., Holywell
Southern, Francis Richard, Esq., Ludlow
Stanley, John M., Esq., Vron Don, Rhyl
Savage, Capt. Hugh, Bodafon, Bangor
Smalley, William Edward, Esq., Springfield, Rhyl
Strachan, Y., Esq., Mayor of Wrexham

Trevor, The Right Hon. Lord, Brynkinallt, Chirk, N. Wales
Turner, Sir Llewelyn, Parkia, Carnarvon
Thomas, Rev. Canon, F.S.A., Meifod Vicarage, Welshpool
Turnour, Arthur E., Esq., M.D., J.P., Grove House, Denbigh
Tynte, Col. Kemeys, Cefn Mably, Cardiff, South Wales
Turberville, Lieut. Colonel T. Picton, Ewenny Priory, Bridgend, Glam.
Thomas, Lieut. Colonel W. Hugh, Trevor, Beaumaris, Anglesey
Thomas, Richard, Esq., Estate Agent, 3, Church Street, Carnarvon
Thomas, George, Esq., Ely Farm, Ely, Cardiff, Glam.
Thomas, L. H., Esq., Caerffynnon, Merioneth
Thomas, Lewis, Esq., Surgeon, Amlwch
Thomas, Rev. Richard, Baptist Minister, Holyhead
Thomas, Owen, Esq., Bronygaer, Carnarvon
Thomas, Thomas, Esq., Tynywern, Pontypridd
Thomas, John M., Esq., Attorney and Counsellor at Law, Niles, Ohio, U.S.A.
Thomas, William, Esq., Ashfield, Wrexham
Thomas, John, Esq., 9, Market Street, Carnarvon
Thomas, Rev. W. Glanffrwd, Vicar of St. Asaph
Thomas, Rev. J. W., B.A., Curate of Carnarvon
Thomas, J. Henry, Esq., Tanybryn, North Road, Carnarvon
Thomas, David, Esq., Gwynfryn, Llanrwst
Thomas, John, Esq., B.A., Normal College, Bangor
Thomas, H. O., Esq., Surgeon, 11, Nelson Street, Liverpool
Thomas, Rev. David, Rector of Llangadwaladr, Bodorgan
Thomas, Wm. E., Esq., Brynhyfryd, Upper Bangor
Thomas, W. G., Esq., The Moorings, Carnarvon
Thomas, Rev. Ceinion, Congregational Minister, Llanfairfechan
Thomas, Robert, Esq., Bodorgan Linnet Lane, Sefton Park, Liverpool
Thomas, Richard Griffith, Esq., Architect, Fir Grove, Menai Bridge
Thomas, Mr. John, Bodlondeb, Nevin
Thomas, Mr. David, National School, Trefdraeth
Thomas, Mr. David, Registrar, Carnarvon
Thomas, Mr. R., 1, Bryntirion Terrace, Criccieth
Thomas, Mr. Maurice, Corris, Machynlleth
Thomas, Mr. Robert, Salop Road, Oswestry
Thomas, Mr. Robert, Bookseller, Blaenau Festiniog
Thomas, Mr. William Owen, The Willows, Breck Road, Liverpool
Thomas, Mr. G. W., Keartland Place, Bridge Street Row West, Chester
Taylor, Mr. Thomas, The Schools, Flint

Upton, M. J., Esq., 48, Clerkenwell Green, London

Vivian, Sir H. Hussey, Bart., M.P., Park Wern, Swansea
Venmore, William, Esq., Anfield View, 154, Anfield Road, Liverpool
Venmore, James, Esq., Mill Bank, Anfield Road, Liverpool

Wynn, Sir Watkin Williams, Bart., M.P., Wynnstay, Rhiwabon
Wynn, W. R. M., Esq., Peniarth, Towyn, Merioneth



Digitized by Google

Williams, Sir W. Grenville, Bart., Pengwern, Rhyl
Wyatt, Sir R. H., D.L., Garthyngharad, Dolgelley
Williams, Colonel J. V. H., Bangor
West, Major Cornwallis, Ruthin Castle
Whitehead, J. D., Esq., Glangwna, Carnarvon
Williams, A. Wynn, Esq., M.D., 1, Montague Square, Hyde Park, London
Wilson, Capt. H., Hope, Mold
Weldon, Thomas L., Esq., 62, Tufnell Park Road, Holloway, London
Williams, J. Ignatius, Esq., Barrister at Law, Hendregadredd, Tremadoc
Williams-Ap Ithel, Mrs., The College, Corwen
Whitaker, Miss, Bryn Celyn, near Pwllheli
Watts, Rev. E. T., H. M. Inspector of Schools, Plas Gwilym, Criccieth
Williams, Rev. W. Wynn, Menaifron, Dwyran, Anglesey
Williams, Gwilym, Esq., Miskin Manor, Glamorganshire
Wingfield, John, Esq., M.A., 9, King's Bench Walk, Temple, London, E.C.
Williams, John, Esq., Surgeon, Castle Square, Carnarvon
Williams, John, Esq., M.D., 28, Harley Street, London, W.
Williams, Richard, Esq., M.R.C.S., 82, Rodney Street, Liverpool
Williams, William, Esq., M.A., H. M. Inspector of Schools, Aberystwyth
Williams, Edward, Esq., M.D., Holt Street House, Wrexham
Williams, Rev. Canon, Llanfaelog Rectory, near Holyhead
Walker, James Richards, Esq., J.P., Plas yn dref, Corwen
Williams-Hughes, T., Esq., Surgeon, &c., Belle Vue, Llanengan, Pwllheli
Williams, Rev. John Lewis, Marley, Whickham, Gateshead-on-tyne
Williams, Rev. Professor Hugh, M.A., The College, Bala
Williams, Rev. R. S, Independent Minister, Bethesda
Williams, J. J., Esq., F.G.S. (Josephus), C. and M. Engineer, Holywell
Wayne, R. S., Esq., Aberartro, Llanbedr, Merionethshire
Williams, Hugh Henry, Esq., B.A., Jesus College, Oxford
Wood, R. H., Esq., F.S.A., Pantglas, Trawsfynydd
Wright, Thomas Oakes, Esq., Gresford Bank, Wrexham
Williams, J. A. A., Esq., Glanbeuno near, Carnarvon
Williams, Rev. St. George Armstrong, Rector of Llangybi, Carnarvonshire
Wilkins, Charles, Esq., Editor of "The Red Dragon," Merthyr Tydfil
Williams, W. Lloyd O., Esq., M.B., Llanberis
Williams, Mrs., Bookseller, Boston House, Holyhead
Wynne, Miss Frances, 62, Park Street, Grosvenor Square, London
Williams, Rev. Thomas, B.A., Llechcynfarwy, Llangefni
Williams, Hugh, Esq., Surgeon, Breckfield Road, Liverpool
Williams, Edward, Esq., Surgeon, Dronwy, Llanfachraeth, The Valley, R.S.O.
Williams, Rev. John, Stanley House, Llanerchymedd
Williams, Robert ap Hugh, Esq., Plas Llwynon, Llanfair P.G., Anglesey
Waddingham, T. J., Esq., Hafod, Aberystwyth
Williams, Rev. R. A., Llanfihangel-y-Pennant, Towyn, Merionethshire
Williams, David, Esq., Taff Vale Brewery, Merthyr Tydfil
Williams, Owen J., Esq., Cefn, St. Asaph
Williams, Rev. William, Llanfair Rectory, Abergele
Wood, John, Esq., J.P., Arden, Stockport
Williams, Rev. D., Newmarket Rectory, Rhyl
Williams, Rees, Esq., Aberdare
Williams, John, Esq., Moss Bank House, Croxteth Road, Liverpool
Williams, Richard, Esq., Solicitor, Vale Street, Denbigh
Williams, John, Esq., 9, Perth Street, Liverpool
Williams, Evan, Esq., F.C.A., 19 & 20, Barton Arcade, Manchester
Williams, T. Marchant, Esq., B.A., 353, Camden Road, London, N.
Williams, R. J., Esq., Solicitor, Flint
Williams, Edward, Esq., The Royal Hotel, Cardiff, Glam.
Williams, John, Esq., Gwernhefin, Bala
Williams, Rev. John, 91, Burleigh Road, South, Liverpool
Williams, Rev. Thomas Jones, M.A., Llanfaethlu Rectory, Valley, Anglesey
Williams, Rev. Watkin, Rector of Nannerch



Digitized by Google

Wynne, Mr. Robert, Eagles Hotel, Llanrwst
Wynne, Mr. Llew., 17, Verulam Street, Liverpool
Williams, Mr. John, T. C., Conway
Williams, Mr. Owen R. (Cymro Cybi), 121, High Street, Bangor
Williams, Mr. Robert, *Gwalia* Offices, Carnarvon
Williams, Mr. Owen J., Llanrhyddlad, Anglesey
Williams, Mr. Evan (Ieuan Ceredig,) Brynteg School, Wrexham
Williams, Mr. William, National School, Clynnog
Williams, Mr. R. J., 3, Summer Hill Terrace, Upper Bangor
Williams, G. M. (Ap Morus), National School, Llangwnadl, Pwllheli
Williams, Mr. Hugh, National School, Tydweiliog, Pwllheli
Williams, Mr. Thomas Lloyd, Portdinorwic, near Bangor
Watkins, Mr. Tom, Cefnfaes B. School, Bethesda
Williams, Mr. Robert, Brunswick Buildings, Carnarvon
Williams, Mr. W. Pritchard, Upper Bangor
Williams, Mr. Thomas, Golden Goat Establishment, Carnarvon
Williams, Mr. W. J., Glan Menai House, Carnarvon
Williams, Mr. Thomas, Ironmonger, Llanerchymedd
Williams, Mr. Griffith, Printer & Bookseller, Post Office, Menai Bridge
Williams, Mr. E , *Gwalia* Offices, Carnarvon
Williams, Mr. W. T., 17, Verulam Street, Liverpool
Williams, Mr. W. J., Ironmonger, Carnarvon
Williams, Mr. John Edmund, Board School, Rhostryfan
Williams, Mr. R. R., Cibyn y Mur, Carnarvon
Williams, Mr. Robert, Draper, Amlwch
Williams, Mr. John, Bookseller, Bridge Street, Carnarvon
Wilson, Mr. William H., Brynderwen, Penmaenmawr
Williams, Mr. D. R., 20, Erskine Street, Liverpool
Williams, Mr. Hugh, Board School, Roe Wen, Conway
Wynn, Mrs. Williams, Cefn, St. Asaph

Yorke, General John, C.B., Plas Newydd, Llangollen, and 89, St. George's Road, London, s.w.
Yorke, Mr. Thomas, Derwen Villa, Mold

Digitized by Google

# RHESTR O DANYSGRIFWYR AT YR ARGRAFFIAD CYMRAEG.

Bowen, Mr. Ebenezer, 195 Broadway, Cincinatti, Ohio, U.S.A.

Davies, James, Esq., F.R. Met. Soc., F.A.S., Plasnewydd, Llanrhaiadr, Oswestry
Davies, Mr. William, Waenhir, Llanddona, near Beaumaris
Davies, Mr. J., Stationers' Hall, Lampeter
Davies, Mr. Joseph, 4 Water Street, Bethesda
Davies, Mr. David L., Bridge Port, Ohio, U.S.A.
Davies, Mr. Owen T. (Owain Machno,) Middle Granville, N.Y., U.S.A.
Davies, Rev. J. Cadvan, Wesleyan Minister, Dolgelley
Davies, Mr. William, 49, Sleeper's Hill, Liverpool
Davies, Mr. D. L., Box 1078, Newark, Ohio, U.S.A.

Edwards, Mr. Edward, Bookseller, Aberystwyth
Evans, Rev. D. Charles, Menai Bridge
Evans, Mr. Evan T., Printer, Gwalia Office, Carnarvon
Evans, Rev. Willliam (Monwyson,) Beaumaris, Anglesey
Evans, Mr. Robert, Llechwedd, Llandrillo, Corwen
Evans, Mr. John, Bookseller, &c., Llanbedr, near Harlech
Evans, Mr. Edward, Grocer, Talybont, Glandovey, R.S.O.
Evans, Mr. Morgan, Scofield, Utah, U.S.A.
Evans, Mr. Thomas, Gloddaeth Villa, Caroline Street, Llandudno
Evans, Mr. William (Ap Gwilym,) Bookseller, Pont y Cymmer, Garw Valley

Evans, Mr. Griffith, Bookseller, Coedpoeth, Wrexham
Evans, Mr. Thomas, Wern Colliery, Bagillt, Holywell

Foulkes, Mr. Edward, Coal Merchant, Corwen

Griffith, Mr. John, Plastirion, Llanberis
Griffith, Mr. John, Bookseller, Post Office, Nevin — 2 copies
Griffith, Mr. William, Bookseller, Bethesda
Griffith, Mr. T. E., Gallt y Beran, Pwllheli
Griffith, Mr. John, Penycaerau, near Pwllheli
Griffiths, Miss Rachel, Cincinatti, Ohio, U.S.A.

Howell, Rev. E. P., B.A., Bottwnog Grammar School, Pwllheli
Hughes, Mr. Owen, Ty'n llan, Llanddeiniolen
Hughes, Rev. T. J., Congregational Minister, Maescwmmawr, Cardiff

Digitized by Google

Hughes, Mr. John Griffith, 8 & 10 Market Street, Holyhead
Hughes, Rev. Owen, Bod-Owain, Penmachno
Hughes, Mr. Robert, Bookseller, Corwen
Hughes, Mr. R., Rhydlydan, Bettwsycoed
Hughes, Mr. John R., 1 Goronwy Street, Bethesda
Hughes, Mr. Edward, Mostyn Road, Gronant, Holywell
Huws, Mr. J. W., Llanfaelog, Anglesey

James, Rev. Isaac, Baptist Minister, Ruthin
Jones, Mr. Ellis Lloyd, Bookseller, Upper Bangor 13 copies
Jones, Mr. Owen, Llangranog, Llandyssil, South Wales 6 copies
Jones, Mr. Richard, Aberangell, Cemmaes, Mont. 7 copies
Jones, Mr. Evan Lloyd (Ieuan Llwyd,) Dinorwig
Jones, Rev. D. S., Chwilog, R.S.O.
Jones, Mr. Thomas J. (Namorydd,) Bryneglwys Sett Quarries, Towyn, Merion.
Jones, Parch. John (Idrisyn,) Ficer, Llandysilio, New Quay, Ceredigion
Jones, Mr. John, Bookseller, Bethesda
Jones, Rev. David Owen, Bryn Myfyr, Bethesda, Bangor
Jones, Mr. John W., Bryntirion, Aber
Jones, Mr. John, Bookseller, Aberayron
Jones, Mr. Robert O., Waenfawr, Carnarvon
Jones, Mr. John D., Bookseller, 42 Upper High Street, Rhymney
Jones, Mr. Thomas H., Lima, Allen Co: Ohio, U.S.A.
Jones, Mr. Thomas E., 554 Maine Street, Cincinatti, Ohio
Jones, Mr. David R., Wild Rose, Wisconsin
Jones, Mr. Griffith, Grocer, &c., Hebron, nr. Pwllheli
Jones, Rev. Peter (W.,) Talysarnau, Merioneth.
Jones, Rev. G. James, Marysville, Ohio
Jones, Mr Griffith, 2 Tower Gardens, Holyhead 7 copies

Llanover, Y Wir Anrhydeddus yr Arglwyddes, Llanover
Lumley, Rev. R., Congregational Minister, Trevor, via Carnarvon
Lewis, Rev. Robert, Wesleyan Minister, Aberffraw, Anglesey
Lewis, Mr. Griffith, Bookseller, Penygroes

Morgan, Mr. David, Scofield, Utah, U.S.A.
Morgan, Rev. W. E., Scranton, Pa., U.S.A.
Morris, Mr. Owen, Contractor & Ironmonger, Castle Ditch, Carnarvon

Owen, Mr. Henry, Butcher, 33 Bridge Street, Carnarvon
Owen, Mr. Griffith, 16 William Street, Carnarvon



Digitized by Google

**Owen, Mr. Henry, Liverpool House, Ebenezer**
**Owen, Mr. W. W., Grocer, Ebenezer**
**Owen, Mr. W. J., 2 Crosby Buildings, Dolgelley**
**Owen, Mr. Henry, Middle Granville, New York, U.S.A.**

Parry, Mr. H. T., Auctioneer, Carnarvon
Parry, Mr. John, Maes Rhedyn, Llanddaniel-fab, Anglesey
Prichard, Mr. R., Rhyducha, Bala
Prichard, Rev. Henry, Wesleyan Minister, Aberayron, Cardiganshire
Prichard, Mr. Hugh, 26 London Road, Holyhead
Prichard, Mr. John, Draper, Aberffraw, Anglesey
Pritchard, Mr. R., Draper, Port Dinorwic
Pritchard, Mr. Walter (Llew Epynt,) Orchard House, Bangor
Prichard, Mr. Thomas Lloyd, Brithwernydd, Penrhyndeudraeth
Parry, Mrs., Bookseller, Hayworth Street, Liverpool

Rees, Mr. Rees Lloyd, Tailor, Glanteifi, Cellan, near Lampeter, Cardiganshire
Richards, Rev. D. D. (Talfoel,) Independent Minister, Nantglyn, Denbigh
Roberts, Mr. Richard E., Utica, N.Y. ........ 2 copies
Roberts, Rev. David, Independent Minister, Wrexham
Roberts, Mr. John, Bookseller, Port Dinorwic
Roberts, Mr. R., M.R.C.V.S., Meddyg Anifeiliaid, 30 Bridge St., Wrexham
Roberts, Mr. W. Jarrett (Pencerdd Eifion,) Carnarvon
Roberts, Mr. Thomas, Frondeg, Sarn, Pwllheli
Roberts, Mr. Robert, Bronte Cottage, Walton Lane, Liverpool
Roberts, Mr. Hugh, Abergynolwyn, Towyn
Roberts, Mr. Griffith, Liverpool House, Penmachno
Roberts, Mr. Hugh, 326 W. 17th Street, New York
Roberts, Mr. S. D., Trealaw, Pontypridd, Rhondda
Roberts, Rev. R., Baptist Minister, Pentre, Pontypridd
Roberts, Mr. J. C., Utica, N.Y.
Roberts, Miss E., Bookseller, Bala
Roberts, Mr. William, Bryn Ogwen, Bethesda
Roberts, Mr. W. J. (Ehedydd Eifion,) Llangefni
Rosser, Mr. William, Bookseller, Llansamlet, Swansea
Rowlands, Mr. John, Painter, 20 Pool Street, Carnarvon

Thomas, Mr. Robert, Bookseller, Bethania, Ffestiniog
Thomas, Mr. David, Bookseller, Talysarn



Digitized by Google

Thomas, Mr. John, Cefn, Llangristiolus, Anglesey

Thomas, Miss Grace, Draper, &c., Bodedern, Anglesey

Thomas, Mr. James, Pontlottyn Square, Rhymney

Williams, Mr. O. R. (Cymro Cybi,) Dublin House, 21 High Street, Bangor

Williams, Mr. D., Builder, South Road, Carnarvon

Williams, Mr. John, Baptist Preacher, 30 Llanberis Road, Carnarvon

Williams, Mr. Evan, Bookseller, Market Place, Bangor

Williams, Mr. Robert Trebor, Ebenezer, Llandinorwic

Williams, Mr. David, Llansamlet, Swansea

Williams, Mr. W. G. (Glynfab,) Clydach Vale Schools, Rhondda, S.W.

Williams, Mr. John M., Leeds House, Llanberis

Williams, Mr. Ellis, Glanwydden, Mochdre, Conway

Williams, Mrs Mary, Shop Pengarnisiog, Anglesey

Wynne, Rev. M. F., Baptist Minister, Talybont, Glandovey

Williams, Robert, Esq. (Coalfields,) Raneegunge, India

Williams, Mr. D. Wynn, Utley, Green Lake Co., Wis., U.S.A.

Williams, Mr. John W., Middle Granville, Washington Co., New York, U.S.A.

BIBLIOTHECA · BODLEIANA ·

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google